UNIVERSITY OF TORONTO
3 1761 01483181 2

From the Library

of

PÁDRAIG Ó BROIN

Whodd i
William Owen Williams
Addiworth ei Jodrych
I Ann Roberts
35 High St
Ionawr 1886.

METHODISTIAETH CYMRU:

SEF

HANES BLAENOROL A GWEDD BRESENOL

Y

METHODISTIAID CALFINAIDD

Yn Nghymru;

O DDECHREAD Y CYFUNDEB HYD Y FLWYDDYN, 1850.

GAN Y PARCH. JOHN HUGHES, LIVERPOOL.

"Eto cofiaf flynyddoedd deheulaw y Goruchaf. Cofiaf weithredoedd yr Arglwydd, ie, cofiaf dy wyrthiau gynt."—ASAPH.

CYFROL III.

GWRECSAM:
CYHOEDDWYD GAN R. HUGHES A'I FAB, HEOL-ESTYN.
MDCCCLVI.


5
OF TORONTO
15
JUL
1976

GWELLIANT GWALLAU.

Cyfrol II., Tudal. 17, dywedir ddarfod rhoddi yr oedfa wythnosol, a gynelid am 12 o'r gloch ddydd Mercher, yn Llangeitho heibio, o herwydd yr achles a roddid i lygredigaeth,—dylasid dywedyd, mai yr oedfa prydnawn Sadwrn, o flaen Sul y cymundeb, a roddwyd heibio, ac nid yr oedfa wythnosol ddydd Mercher ; mae hon eto yn parhau, a mwy na hyn, y mae yn parhau heb ei llygredigaeth gynt.

Cyf. II., Tudal. 267, dywedir mai brodor *o Fon* oedd John Jones, Edeyrn,—dylasai fod *o Arfon.*

Cyf. II., Tudal. 501, dywedir fod y Parch. J. Elias wedi priodi Miss *Pritchard*—yn lle Miss *Broadhead.*

Cyf. II., Tudal. 580, dywedir i Risiart Morris farw *yn y fl.* 1824, *yn* 75 *mlwydd oed;* dylasai fod *yn y fl.* 1814, *yn* 65 *mlwydd oed.*

Cyf. II, Tudal. 585—yn lle fod William Lewis wedi ei gladdu yn mynwent *Llanfair-llwyfo*, dylasai fod *Llanbedr-goch*, lle y gwelir, medd fy ngohebydd, ei fedd hyd heddyw.

Cyf. III., Tudal. 335, *yn lle* 1790, darllen 1760.

Cyf. III., Tudal. 193, yn y *paragraph* olaf, y mae y naill linell gwedi ei dodi o flaen y llall, fel hyn—

"Cododd amryw bregethwyr o'r ganghen hon o eglwys Crist ; sef, y Parchn. William Jones o Ruddlan; Willam Hughes o Lanfair-talhaiarn ; yn nghyd Richard Williams, Trefriw ; o ba rai, y mae y cyntaf a'r diweddaf wedi huno. a'r brodyr canlynol, Griffith Williams, Mon ; Owen Roberts, Ffestiniog ; a"

Dylasai fod—

Cododd amryw bregethwyr o'r gangen hon o eglwys Crist ; sef, y Parchn. William Jones, Rhuddlan ; a William Hughes, Llanfair-talhaiarn ; ynghyda'r brodyr canlynol Griffith Williams, Mon ; Owen Roberts, Ffestiniog ; a Richard Williams, Trefriw ; o ba rai y mae y cyntaf wedi huno, a thri wedi symud i ardaloedd eraill.

Nid oes amheuaeth nad oes lluaws o wallau yn y gwaith heblaw y rhai uchod ; rhai yn wallau yr argraff-wasg wedi dianc heb eu gwella ; eraill heb fod felly, wedi codi, weithiau, oddiar aneglurdeb côf y gohebydd, neu o ryw ffynnonell arall. Gobeithir, er hyny, nad oes llawer o wallau pwysig, nac un gwall bwriadol ; ond y cyfryw y gall y darllenydd ei ganfod wrth gydmharu y naill ran a'r llall, a'i gywiro iddo ei hun.

RHAGDRAETH I'R DRYDEDD GYFROL.

Wele y drydedd Gyfrol, yr olaf o'r gwaith hwn, bellach, ar ben. Nid wyf yn dyweyd hyn, am nad oes defnyddiau i ymhelaethu, ond am fod y terfynau a osodais i mi fy hun wedi eu cyrhaedd, ac nid dewisol genyf oedd eu hestyn yn mhellach. Teimla yr Awdwr yn ddiolchgar am i "Dad y Trugareddau" estyn iddo fywyd ac iechyd i'w gwblhau. Afreidiol ydyw dyweyd ddarfod iddo gael llafur dirfawr; ond teg ydyw ychwanegu, ddarfod iddo gael gradd o ddifyrwch hefyd. A phe gallai hyderu fod eraill, wrth ddarllen y gwaith, wedi cael cymaint o foddhad ag a gafodd yr Awdwr wrth ei grynhoi, byddai yn ychwanegiad mawr at ei lawenydd. Pa fodd bynag, wele y gwaith ar ben. Os blin fu ei dderbyn a'i ddarllen gan neb, caiff ymwared bellach o'r blinder hwnw; ac o llecha neb y syniad fod y gwaith wedi cael ei chwyddo i faintioli llawer mwy nag ydoedd raid, gobeithiwyf y bydd ei derfyniad yn foddion i'w boddhau hwythau.

Wrth adolygu y gwaith yr wyf yn cryfhau yn y dyb, mai gresyn a fuasai i Fethodistiaeth Cymru fod heb "Lyfr eu Hactau." Trueni a fuasai i ymweliad mor nerthol,—i amgylchiadau mor ddyddorol,—i enwau mor beraroglaidd,—ac i orchestion mor hynod, syrthio i ebrgofiant, o ddiffyg eu croniclo. Y gresyni yw na fuasai rhyw un er ys ugain mlynedd neu fwy yn ol, wedi ymroddi at y gorchwyl o grynhoi yr hanesion at eu gilydd, tra nad oedd henaint wedi anmharu eneidiau rhai, na'r bedd wedi cuddio cyrff y lleill. Sicr ydyw fod eto helaethrwydd o hanesion dyddorol cysylltiedig â Methodistiaeth ar gael, pe yr ymroddai rhyw un craff ei gof, a gwisgi ei ysgrifell i'w casglu.

Anmhosibl, tybygwyf, ydyw i neb ddarllen yr hanesion, cynwysedig yn y Cyfrolau hyn, heb deimlo ar ei galon ddyweyd fel Balaam gynt, "Beth a wnaeth Duw!" Nid yw y mawl yn gweddu i neb ond i'r Arglwydd. Nid i drefn dda, neu i gynllun doeth; oblegid fe gychwynodd Methodistiaeth *heb un cynllun.* Nid i enwad crefyddol, nac i genadaeth perthynol iddo, y mae y clod am ei ddwyn yn mlaen, gan na chafodd Methodistiaeth swcr oddiwrth yr *un enwad,* ond gwrthwynebiad, i raddau mwy neu lai, oddiwrth bob enwad. Nid i ddysgeidiaeth chwaith y mae yr enw am y dylanwad a gafodd y diwygiad ar y genedl; oblegid nid oes hanes am un cyfundeb yn meddu llai o ddysgeidiaeth na'r un Methodistaidd o fewn y byd; yn enwedigol dros ran fawr o'i hanfodiad. Nid i gyfoeth chwaith y y mae yr anrhydedd;—mewn gair nid i neb, nac i ddim, ond i Dduw. Rhoddwyd trysor yr efengyl mewn llestri pridd, diaddurn a digyfrif, "fel y byddai godidogrwydd y gallu o Dduw ac nid o honom ni."

Gogoniant yr hen Fethodistiaid oedd eu cariad at y Cyfryngwr, a'u hawydd cryf ac unplyg i ddwyn eneidiau ato. Gogoniant eu gweinidogaeth oedd ei symlrwydd a'i difrifwch. Gwelwyd yn eu hanes "EGLWYS A GWEINIDOGAETH O DDIFRIF;" a choronwyd y difrifwch hwnw â llwyddiant arbenig. Tra y cedwir y gwirionedd megys y mae yn yr Iesu, yn yr athrawiaeth;—tra yr amcenir yn ddiffuant at burdeb mewn dysgyblaeth;—tra y bydd cwlwm cariad yn rhwymyn cymdeithas;—ac Ysbryd yr Arglwydd yn fywyd a grym i bob gweinyddiad, fe gedwir y cyfundeb yn hardd ei gymeriad, yn rymus ei ddylanwad, ac yn helaeth ei ddefnyddioldeb, o hyn allan.

Nid oes genyf, y *drydedd* waith hon, ond cyfarch y darllenydd mewn ffordd o ganu yn iach iddo; a dymuno ar iddo ef, a'r ysgrifenydd ynghyd, gyfranogi o ysbryd y tadau; a "bod yn ddilynwyr i'r rhai sydd trwy ffydd ac amynedd, bellach, yn etifeddu yr addewidion."

JOHN HUGHES.

MOUNT STREET, LIVERPOOL,
Mehefin 30, 1856.

CYNWYSIAD.

Y PEDWERYDD DOSBARTH:

SEF, HANESIAETH Y SIROEDD.

PRIF-LINELLAU YN HANES SIR FORGANWG.

PENNOD I.—AMGYLCHIADAU CYCHWYNOL METHODISTIAETH Y SIR.

Yn cynwys, Y dechreuad, yn 1739—Ymweliadau Harris â'r wlad—Gwedd grefyddol y wlad ar y pryd—Cymdeithasau a Chynghorwyr yn y fl. 1742—Adroddiadau John Richard a Thomas Williams—Watford, ger Caerffili—Capel Groeswen—Y Goppa Fach—H. Harris yn y Waengron a Dantwyn—Hopkin John Hopkin, y Saermaen—Mr. John Walters, Gwynlais-ucha', a Mr. G. Morgan, Glynhir... .....*Tudal.* 1—10

PENNOD II.—ADGOFION AM EGLWYSI BOREOL Y WLAD.

Yn cynwys, Hanes Llansamled—Gwedd anghrefyddol yr ardal—H. Harris yn ymweled â hi—Pregethu yn y Cwm am ysbaid 40 mlynedd—Y *Bath*, ger Treforris—Hopkin Davies—Evan, o'r Dalchaba, a Llywelyn John—Hanesyn am Dafydd Morris—John Richard yr arolygwr—Edward Thomas a William Powel—Y ddau Roger—Adfywiadau—Damwain arswydus—Treforris—Llwyn-brwydrau ..... *Tudal.* 10—19

PENNOD III.—POEGETHWYR AC EGLWYSI BOREOL Y SIR.

Yn cynwys, Enwau hen Bregethwyr y wlad—Eu llythyr at y Gymdeithasfa—Parch. D. Williams—W. Thomas, Pil—Whitfield yn Abertawe—Harris yn pregethu yno—Richard William Dafydd—Ymweliadau Iarlles Huntingdon—Effeithiau yr ymraniad, a Sandemaniaeth Mr. Popkins—Capel i'r Cymry—Pregethwyr a fu, neu y sydd yn preswylio yn y dref—Capel Seisonig gan y Methodistiaid yn y dref—Penclawdd. *Tudal.* 19—32

PENNOD IV.—EGLWYSI A PHREGETHWYR BOREOL Y SIR.

Yn cynwys, Hanes y Dyffryn—Cychwyniad yr achos—Gwrthwynebiadau—Risiart Thomas, Marteg, ac Evan Thomas, Dyffryn-ucha'—Dafydd a Mary John, Dyffryn-isa'—Jenkin Thomas, Penhydd—Hynodrwydd ei gymeriad, ac amgylchiadau ei oes—Daniel o'r Constant, a William Owen, y gwehydd—Castell-Nedd—Harris yn pregethu yno—Whitfield hefyd a D. Rowlands—Parch. W. Davies—Hen gapel Gyfylchi—Creuniant—Maesteg—Y Babell a'r Spelter..... *Tudal.* 32—50

PENNOD V.—EGLWYSI A PHREGETHWYR BOREOL Y SIR.

Yn cynwys, Hanes Aberthyn—Cymdeithas eglwysig yma yn y fl. 1742—Adeiladu Capel—David Williams yn gweinidogaethu yndclo—Ymraniad ar ol ei farwolaeth—Llangan a'i hamgylchoedd—Parch. David Jones—Ansawdd y wlad ar ei ddytodiad—Adeiladu capel Salem—Cynulliadau misol Llangan—Llafur teithiol Mr. Jones—Gwylmabsant Llanbedr—gweithwyrebiad y Clerigwyr i Mr. Jones—cymeriad ei weinidogaeth ..... *Tudal.* 50—62

PENNOD VI.—ADGOFION AM RAI EGLWYSI ERAILL YN Y SIR.

Yn cynwys, Ystradgynlais—Gwedd gyntefig yr achos—Palleg a'r Cnapllwyd—Evan Williams—Cynal moddion yn llofft porth yr eglwys—Pregethu yn Mryn-y-groes, Maespica, a Phalas Ynys-cedwyn—Adeiladu capel yn Ngwmgiedd—Parchn. J. Walters a T. Lefi—Capelau craill yn codi—Ton-yr-efail—Gwedd isel y trigolion—Teulu E. Pritchard, Ysw., Collena—Sefydliad y gymdeithas eglwysig—Dafydd Evan a'i deulu—Adeiladu capel, a'r canlyniadau..... *Tudal.* 62—76

PENNOD VII.—ADGOFION AM EGLWYSI MWY DIWEDDAR Y SIR.

Yn cynwys, Hanes Merthyr Tydfil—Cychwyniad yr achos—Adeiladu y capel cyntaf yno—Sefydliad yr Ysgol Sabbothol—Cymdeithasfa yn 1803—Adfywiad yn y fl. 1829, a'r canlyniadau—Coed-y-cymer—Clwyd-y-fagwyr—Cae-pant-tywyll—Capel y Graig—Dowlais—Helyntion yr achos yn ei gychwyniad—Codiad yr Ysgol Sabbothol, a'r llwyddiant a ganlynodd—Aberdâr—Adroddiad Christmas Rhys—Adeiladiad Capelau, Carmel, Moriah, Libanus, Llety-Siencyn—Hirwaen—Llanwno a Bryntirion—St. Ffagans ..... *Tudal.* 76—97

Y PRIF-LINELLAU YN HANES SIROEDD DINBYCH A FFLINT.

PEN. I.—GORSAFOEDD CYNTAF METHODISTIAETH YN SIROEDD DINBYCH A FFLINT.

Yn cynwys, Sylwadau arweiniol—Adwy'r Clawdd—Cais at erlid yno—William Lewis, ac Evan Llwyd—Cychwyniad yr ysgol Sabbothol a'r ysgol ddyddiol—Pregethwyr, a changhenau eglwysi a godasant o'r Adwy—Gwedd presenol y gwaith—Rhosllanerchrugog—Gwedd yr ardal—Cychwyniad Methodistiaeth ynddi—Edward Jeffreys—Cyfarfod y bobl ieuainc—Eu hymuniad â'r hen bobl—Ymosodiad penrhyddid—Pregethwyr a changhenau a godasant o'r Rhos—Parch. Robert Roberts, Tan-y-clawdd—Ymosodiad aruthrol ar yr eglwys—Caergwrle..... *Tudal.* 97—112.

PEN. II.—PARHAD O HANES GORSAFOEDD CYNTAF METHODISTIAETH SIROEDD DINBYCH A FFLINT.

Yn cynwys, Hanes Tan-y-fron a Bryn-bugad—Gorthrymu E. Parry—"Hughes Fawr"—E. Parry yn Warden—Lledaeniad yr achos—Afywiad grymus yn Mryn-bugad—Pregethwyr a godasant yno—J. Llwyd, J. Jones, J. Davies, J. Williams, J. Davies, Nantglyn—Peter Roberts—Llansanan—Robert Roberts—Dinbych..... *Tudal.* 112—135

PEN. III.—PARHAD O HANES GORSAFOEDD CYNTAF METHODISTIAETH SIROEDD DINBYCH A FFLINT.

Yn cynwys, Hanes Dyffryn-Clwyd—Cristopher Basset—Dr. Williams, Rotherham—R. Llwyd, Plas-ashpool—Capel yn 1776—Hanesyn am Williams, Pant-y-celyn—E. Simon, Gellifor—J. Owens yn cael ei erlid yn Rhuthin—Capel Gellifor, 1814—Waun, Bodffari—Berthen-gron—John Owens yn pregethu, yn 1755-6—Gorthrymu y crefyddwyr—Capel yn 1775—Humphrey Owens—Robert Prys, Plas-winter..... *Tudal.* 135—151

PEN. IV.—GORSAFOEDD HENAF METHODISTIAETH SIROEDD DINBYCH A FFLINT.

Yn cynwys, Hanes y Bont-uchel—Capel yn y Bont yn 1777—Pregethu yn y fl. 1763—Ann Parry, Bryn-mulan, a'i theulu—Adfywiad yn 1821—Thomas Parry, 'Rhewl—Ei alw yn swyddog—Capel Prion, 1792—E. Jones, Prion—Phylip y cylchwr—Fychan Davies yr erlidiwr—Pen-gwas y Fedw-las yn erlid—Alice Evans—Rhuthin—Edward Oliver—Bechgyn yr ysgol Fawr—Erlid creulawn—Robert Llwyd a William Parry—Pregethu mewn hen ysgubor—oedfa Mr. Jones, Llangan, a'r erlid yn llacio—Gwedd bresenol yr achos..... *Tudal.* 151—168

PEN. V.—PARHAD O HANES GORSAFOEDD CYNTAF METHODISTIAETH SIROEDD DINBYCH A FFLINT.

Yn cynwys, Hanes cychwyniad pregethu yn Nghaerwys—J. Anwyl, y gwehydd—E. Jones, y cynghorwr—R. Harrison—Crefyddwyr cyntaf Caerwys—Parch. T. Jones, Penucha'—Adfywiadau yn Nghaerwys—Peter Jones—Gwaun-ysgor—J. Humphreys—W. Edwards—Llaneurgain—J. Williams—Arferion yr hen grefyddwyr—Fflint—Erlid W. Lewis—John Davies, Nantglyn—Ysgol ddyddiol..... *Tudal.* 168—183

PEN. VI.—PARHAD O HANES GORSAFOEDD CYNTAF METHODISTIAETH SIROEDD DINBYCH A FFLINT.

Yn cynwys, Hanes Llanrwst—Parch. P. Williams yn Llanrwst yn y fl. 1766—Peter Morris a'i wraig—Robert Evans y pregethwr—John Thomas, Llancwnlle—Mr. Kyffin, Maenen—Damwain angeuol i Robert Evans—David Hughes--Trefriw—W. Evans o'r Fedw-arian—Pregethu yn Tan-y-celyn—R. Evans—T. a J. Rogers—Capel yn 1815—Adfywiad yn y 1816—Eglwysi a phregethwyr a godasant o Drefriw—Hanes a roddodd Robert Evans o Fethodistiaeth rhan o sir Feirionydd ..... *Tudal.* 183—201

PEN. VII.—PARHAD O HANES GORSAFOEDD CYNTAF METHODISTIAETH SIROEDD DINBYCH A FFLINT.

Yn cynwys, Hanes Llanarmon-yn-Ial—Cychwyniad yr achos yn y fl. 1760—Ei wedd isel ar y dechreu—Cymdeithas eglwysig, 1770—Mr. a Mrs. Davies—Margaret, Maes-y-droell—Dychweliad Negro—John Edwards, gynt o Ereiniog—Gorthrwm offeiriad—"Ned Habwt"—Cilcain—Cychwyniad, yn y fl. 1762—Cyfarfod pregethu—Anfoes yr offeiriad—Cais at ladd pregethwr—J. Jones, Plas-isa'—Thomas Roberts a'i wraig—Evan Roberts yr ysgolfeistr—Adeiladu capel, yn 1806—Darostwng gwyl lygredig—Edward Jones a'i Fab—Maes-hafn .. .. *Tudal.* 201—215

PEN. VIII.—PARHAD O HANES GORSAFOEDD CYNTAF METHODISTIAETH SIROEDD DINBYCH A FFLINT.

Yn cynwys, Hanes Llangollen—Agwedd y wlad—Cychwyniad Methodistiaeth—William Griffith—Dic Morris—Hen offeiriad pwyllog—W. Evans, Fedw-arian—Gorthrymu y crefyddwyr—Edward Knight—Cymdeithas eglwysig yn ymgrynhoi—Diaconiaid cyntaf—Cyfarfod pregethu—Dygwyddiadau hynod—Samuel Hughes—Adeiladu capel, 1773—Gwrthdroadau—William Jones, gwehydd, a John Williams—Ysgol Sabbothol yn y fl. 1792—Mr. R. Cooper—Pregethwyr a gododd—Llandynan—Pentre'-dwfr—Lodge—Pont-cysylltau—Garth—Acrfair—Bryn-eglwys..... *Tudal.* 215—237

PEN. IX.—PARHAD O HANES EGLWSI SIROEDD DINBYCH A FFLINT.

Yn cynwys, Hanes Henllan—John Thomas, Llancwnlle, yn pregethu yn y flwyddyn 1769-70—Erlid yn codi—Aflonyddu ar Richard Tibbot yn Ty'n-y-llidiart—Cyfarfod Misol yn 1773—Cais at aflonyddu ar y cyfarfod—Owen a Jane Davies—Cymdeithasfa yn y fl. 1780—Adeiladu capel—Swyddogion yr eglwys—Yr ysgol Sabbothol—John Davies, Nantglyn ..... *Tudal.* 237—249

PEN. X.—HANES METHODISTIAETH CONWY A'I HAMGYLCHOEDD.

Yn cynwys, Hanes erlid gwr urddasol ynddi--Humphrey Owens a Thomas Hughes, Mochdre', yn pregethu ynddi—Thomas Rowland, y cwnstabl—John Jones, Edeyrn, yn pregethu ynddi—Siôn Dafydd a'i wraig—Teulu y Porth-issa'—Adeiladu capel—Darostyngiad hen arferion anfad—Yr ysgol Sabbothol a'i llwyddiant—Llansantffraid a'r canghenau cylchynol—Thomas Hughes, Mochdre', yn dechreu pregethu—Ei wysio o flaen yr offeiriad, yn Nghonwy—Yn pregethu yn ngwersyll y campwyr, ac yn Llwydcoed—Hanes Llangerniew a Gwytherin..... *Tudal.* 249—264

PEN. XI.—HANES METHODISTIAETH RHUDDLAN A'I HAMGYLCHOEDD.

Yn cynwys, Hanes Rhuddlan—Desgrifiad o agwedd y dref—Robert Jones, Rhoslan, yn cadw ysgol ynddi—William Griffith yn cynyg pregethu ynddi—Gwrthwynebrwydd y Ficer a'i wraig—Erlidwyr eraill—Gwraig weddw yn agor ei drws—Robert Jones yn pregethu yn Dyserth—Darostwng hen arferiad anfad trwy bregeth Elias—Hanes Methodistiaeth yn Rhyl—hefyd yn Abergele a'i hamgylchoedd—Mr. Davies, Castellnedd, yn pregethu yn y Bettws—Adfyfrion .... *Tudal.* 264—280

PEN. XII.—PARHAD O HANES PRIF ORSAFOEDD SIROEDD DINBCYH A FFLINT.

Yn cynwys, Hanes y Wyddgrug, un o'r gorsafoedd henaf—Chwedl chwith am y pregethwyr—Tro hynod o ymwared i bregethwr—Y crefyddwyr cyntaf—Robert Roberts—George Foulkes—Y Parchn. Robert Ellis a T. Jones—Pregethwyr eraill—Treffynnon—William Davies, Golch—Mr Steadman; Mr. Jones, Llangan, a Mr. Lloyd, Caio, yn pregethu yn y dref—Oedfa hynod gan John Davies, Nantglyn—S. Morris—Josiah Redfern—Oedfa hynod Robert Roberts, Clynog—John Jones,—Eglwysi cymydogaethol, Ffynnon-Groyw—Pen-y-felin, a Bagillt..... *Tudal.* 280—295

PEN. XIII.—PARHAD O HANES EGLWYSI YN SIROEDD DINBYCH A FFLINT.

Yn cynwys, Hanes Pen-y-felin, Nanerch—Ffyddlondeb hen wreigan—Aflonyddu yr oedfa gyntaf—T. Edwards, Lerpwl, a Mr. Jones, Pen-ucha', yn pregethu—Thomas y Tyddynwr a'i Feistr tir—Dechreu yr Ysgol Sabbothol yn Ysgubor-newydd—Mostyn—Bagillt—Llanerch-y-mor—Patrick y Gwyddel—Gronant ..... *Tudal.* 295—313

PRIF LINELLAU YN HANES METHODISTIAETH SIROEDD MAESYFED, BRYCHEINIOG, A MYNWY.

PEN. I.—BYR HANES METHODISTIAETH YN SIR FAESYFED.

Yn cynwys, Hanes llafur boreuol Harris cyn yr ymraniad yn y sir hon—Y llwyddiant a ganlynodd—Yn Clyro, Llywes, Gore, Aberedw, Glascwm, Llandegley, Llanddewi, Llanbister, Rhaiadr, Nantmel, Llandrindod, Dyserth, a Chefnllys—Yr adfeiliad a ddilynodd—Parch. J. James, Pen-y-blaen—H. Pritchard, Clochydd, Llanir... *Tudal.* 313—326

PEN. II.—CYCHWYNIAD METHODISTIAETH YN SIR FRYCHEINIOG.

Yn cynwys—Hanes gwedd yr achos cyn yr ymraniad—Agwedd y wlad cyn cychwyniad Methodistiaeth—Rhandir Mualit—Eglwysi Annibynol Llanwrtyd a Throed-rhiwdalar—Parch. I. Price—Cymdeithas eglwysig Glan-yr-afon—Rhys Morgan—Rhydderch Prys o'r Gorwydd—Siams, Ffos-yr-hebog—T. James, yr arolygwr—Eglwys y Gorwydd—Parch. Evan Evans o'r Ffos—Adfywiad grymus—Thomas Price—Dafydd Parry—Pont-rhyd-y-bere a Llangamarch ..... *Tudal.* 326—343

PEN. III.—HANES EGLWYSI BOREAF BRYCHEINIOG.

Yn cynwys, Hanes Llanfair-mualit—Yr aelodau cyntaf—Y Parch. John Williams, Pant-y-celyn—Hanes Trecastell—Llywelyn Dafydd—Teulu Thomas Powel—John Prydderch—Gwrthod defodau claddu i'r Methodistiaid yn Llywel—Ebenezer Morris yn dechreu pregethu—Adfywiad grymus—Dychweliad Mr. Bowen, Llwyn-y-gwair—Cymdeithasfa hynod ..... *Tudal.* 343—357

PEN. IV.—GORSAFOEDD HEN BRYCHEINIOG.

Llafur y Diwygwyr cyntaf—Harris ac eraill yn pregethu yn ardal Crughywel, a chyrau isaf y sir—Edward Herbert a William Powel—Teulu Mr. Watkin Rumsey—Adeiladu capel Crughywel—William Edward y pregethwr—Hanesyn am offeiriad Llanir—Adfywiad yn y Bwlch a Glan-y-gors—Cwm-Iau, Fforest Coalpit, a Llanelli—Aberhonddu—Whitfield a Harris yn pregethu yno—Adeiladu capel—Dau glerigwyr hynod—Yr Ysgol Sabbothol—Mri. Watkins a Powel—Capel Newydd ..... *Tudal.* 357—371

PEN. V.—CYFODIAD A CHYNYDD METHODISTIAETH SIR FYNWY.

Ysgogiadau cyntaf y diwygwyr yn y sir—H. Harris yn pregethu yn Mlaenau-Gwent—Parchn. John Powel; Thomas Lewis; a Morgan John Lewis—Eglwys y New Inn—Gweinidogion y New Inn—Mynydd-Ysliwyn—Towyn Tudur—Ricsa—T. Thomas, Cefn-byr—Parch. H. Jones, Llaneirwg—Ffug-bregethwr yn cael ei ddal—Pen-y-cae—Owain Enos—Adeiladu y capel yn 1825—Y llwyddiant a ddilynodd... *Tudal.* 371—385

PEN. VI.—PARHAD O HANES METHODISTIAETH SIR FYNWY.

Cas'newydd-ar-Wysg—Ymgyfarfod yn y Bragdy—Adeiladu capelau, a'u colli—Cymdeithasfa yn 1810—Ymgyfarfod yn "Lloft y Pobty"—Edward Goslet—Methodistiaeth yn Cas'bach—Miss B. Evans, a'r Parch. Henry Jones, Llaneirwg—M. Howells—Ei ddwys argyhoeddiad—Dechreu pregethu yn y fl. 1815—Ei brofedigaeth yn achos capel Cas'newydd—Ei hynodion, a'i brofedigaethau—Ei farwolaeth yn y fl. 1852—Hanes y "Rock" ..... *Tudal.* 385—397

PRIF LINELLAU YN HANES METHODISTIAETH YN NHREFYDD LLOEGR.

Pen. I.—Hanes Methodistiaeth Liverpool ..... *Tudal.* 397—413
Pen. II.—Hanes Methodistiaeth Manchester ..... *Tudal* 413—425
Pen. III.—Hanes Methodistiaeth Caerlleon ..... *Tudal.* 425—431
Pen. IV.—Hanes Methodistiaeth Amwythig ..... *Tudal.* 431—434
Pen. V.—Hanes Methodistiaeth Llundain ..... *Tudal.* 434—444

PEN. VI.—HENADURIAETH SIROEDD CAER A LANCASTER.

Achlysuron ei ffurfiad—Cyfundeb y Parch. Philip Oliver—Cynwysiad ei therfynau—Y cyfarfodydd Henaduriaethol ..... *Tudal.* 414—452

Pen. VII.—Y Genadaeth Gartrefol .... *Tudal.* 452—472

BYR-OLWG AR FETHODISTIAETH AMERICA.

PEN. I.—HANES METHODISTIAETH TALAETH NEW YORK.

Hanes boreaf y Cymry—Dosbarth Steuben—Benjamin Davies—W. T. Williams—D. Stephens—Dinas New York ..... *Tudal.* 472—477

PEN. II.—HANES METHODISTIAETH TALAETH OHIO.

Edward Jones, Cincinatti—Ei deithiau ar hyd ac ar led y dalaeth—Cofnodau yr eglwys Gymrcig yn Cincinatti—Anhawsderau a pheryglon teithio, gan Edward Jones—"Bryniau Cymry"—William Parry, gynt o Dregynon—Granville—Newark—Ysgogiadau Methodistiaeth yn swyddi Jackson a Gallia—Robert Williams o Fon—Y Gymdeithasfa gyntefig yn Ohio—Sefydliadau crefyddol y dosbarth—Coulport, ar lan yr afon Ohio—Vanwer—Palmyra ... . *Tudal.* 477—490

PEN. III.—HANES METHODISTIAETH TALAETH PENNSYLVANIA.

Sefydliadau Methodistaidd y dalaeth—Rhestr o'r pregethwyr—Carbondale—Pottsville—Scranton a Pittsburgh, Ebensburgh ac Indiana—Rhestr o enwau y pregethwyr a fuont feirw, a pha bryd ..... *Tudal.* 490—499

DOSBARTH Y PUMMED:

SEF, CYFANSODDIAD, ADNODDAU, A DYLANWAD METHODISTIAETH CYMRU.

PEN. I.—ELFENAU A THEITHI METHODISTIAETH CYMRU.

Amcan unplyg y diwygwyr—Eu gogwyddiad at eglwys Loegr—Elfenau sect yn ymddangos—Cydymdeimlad gwyr da yn yr eglwys ac allan o honi â'r diwygwyr—Angenrheidrwydd am ryw ffurf ar y diwygiad yn ymddangos—nodwedd gymdeithasol y cyfundeb—Undeb eglwysi—Rhesymau dros Henaduriaeth—Cristionogaeth yn gyfundraeth o egwyddorion yn hytrach nag o ffurfiau—Gwahaniaeth rhwng Cristionogaeth ac Iuddewiaeth ..... *Tudal.* 499—516

PEN. II.—ELFENAU A THEITHI METHODISTIAETH CYMRU.

Methodistiaeth yn wahanol ei ffurf i bob enwad arall—Dwy egwyddor nodedig ynddo—Hanfodion eglwys a'i ffurfiau achlysurol—Syniadau gwyr mawr ar y mater—Rhyddid eglwysig yn mysg y Methodistiaid—Rhaid fod rhwymau lle byddo cymdeithas—Yr egwyddor welliadol—Dau ddrwg i'w gochel—Anniddigrwydd i'r wedd bresenol mewn dau ddosbarth ..... *Tudal.* 516—535

PEN. III.—ELFENAU A THEITHI METHODISTIAETH CYMRU.

Gweinidogaeth deithiol y Methodistiaid—Y wedd Apostolaidd sydd i hyn—Yr amgylchiadau a arweiniodd i hyn—Cynaliad y weinidogaeth—Pwys dysgeidiaeth—Ystadegau a dylanwad Methodistiaeth yn Nghymru... ..... *Tudal.* 535—549

Taflen Amseryddol o ddygwyddiadau cysylltiedig â Methodistiaeth Cymru, o'i gychwyniad hyd yn awr ..... *Tudal.* 549—556

Cynwysiad y Tair Cyfrol .... *Tudal.* 556—604

PARHAD Y PEDWERYDD DOSBARTH;

SEF,

HANESIAETH Y SIROEDD.

PRIF LINELLAU YN HANES METHODISTIAETH SIR FORGANWG.

PENNOD I.

AMGYLCHIADAU CYCHWYNOL METHODISTIAETH Y SIR.

CYNWYSIAD :—

Y DECHREUAD YN 1739—YMWELIADAU HARRIS A'R WLAD—GWEDD GREFYDDOL Y WLAD AR Y PRYD—CYMDEITHASAU A CHYNGHORWYR YN Y FLWYDDYN 1742—ADRODDIADAU JOHN RICHARD A THOMAS WILLIAM—WATFORD, GER CAERPHILI—CAPEL GROESWEN—Y GOPPA-FACH—H. HARRIS YN Y WAUN-GRON A DANTWYN—HOPKIN JOHN HOPKIN, Y SAER-MAEN—MR. JOHN WALTERS, GWYNLAIS-UCHA' A MR. G. MORGAN, GLYNHIR.

Gan fod un cŵr o'r wlad hon yn terfynu ar sir Frycheiniog—y sir y cartrefai Howel Harris ac y dechreuai lafurio ynddi, naturiol ydyw i ni gasglu, ddarfod iddi dynu ei sylw, a mwynhau ei weinidogaeth yn foreu. Ac nid casgliad yn unig ydyw hyn ond ffaith ;—ffaith a brofir trwy draddodiad sicr, a ffaith hefyd a gadarnheir trwy ysgrifion awdurdodedig. Mae "Cofnodau Trefecca,"—yr ysgrifion y cyfeiriwyd atynt mor fynych yn y gwaith hwn, yn rhoddi hanes am gyfarfodydd a gynhelid yn y Sir, yn y rhai y byddai Mr. Harris yn bresenol,—am eglwysi a blanwyd dan ei arolygiaeth, ac am bersonau a ddygwyd i wybodaeth o'r gwirionedd trwy ei weinidogaeth, a hyny mor foreu, neu foreuach na'r fl. 1742. Nid oes dim hynod yn hyn ychwaith, gan ei fod wedi ymweled â Phenfro, ac â Gwynedd mor gynar a'r fl. 1739. Iê, prin y mae un parth o Gymru, oddigerth Sir Fflint yn unig, na fu Howel Harris ynddi yn gyntaf un, megys yn arloesi y dyrysni, ac yn rhwyddhau y ffordd, i creill i ddyfod ar ei ol, ac yn enwedig y gwledydd nad oedd yr un Daniel Rowlands neu Howel Davies yn byw ynddynt. Yr oedd siroedd Caerfyrddin, Mynwy, a Morganwg, gan nad oedd ynddynt neb o'r fath eto wedi ymddangos, a chan eu bod oll yn terfynu ar ei wlad ef, yn naturiol yn ymgymhell i'w sylw, ac yn ei wahodd i'w broydd.

Am ei ysgogiadau yn y fl. 1739, yn y wlad hon, y mae ef ei hunan yn ysgrifenu :—"Wedi i mi ymadael â fy holl gyfeillion yn Mristol, mi a ddychwelais i Gymru ; erbyn hyn yr oedd y drws yn ymagor fwy fwy, i fyned i

amryw siroedd, sef, *Morganwg*, Brycheiniog, Caerfyrddin, a rhan o Faesyfed, Aberteifi, a Phenfro. Cefais achos i gredu na fu fy llafur yn ofer y tro hwn, eithr i'r Arglwydd ei fendithio i laweroedd." Ysgrifena drachefn, "Myfi a aethum drachefn trwy siroedd deheuol Cymru, *yr ail waith y flwyddyn hòno*." Drachefn y dywed:—"Yr haf canlynol, yn y fl. 1740, fel yr oeddwn yn myned trwy sir Forganwg, myfi a gyfarfyddais â Mr. Seward, yn y Bontfaen; oddiyno efe a ddaeth gyda mi i Gaerdydd." Crybwyllasom o'r blaen am ei waith yn cyfarfod â Whitfield yn Nghaerdydd yn y fl. 1739.* Yn yr un flwyddyn yr ysgrifena, "Mi a bregethais ddoe yn nhŷ marchnad y Bontfaen *(Cowbridge)*, a chefais ychydig rwystr. Wedi i mi ddarfod pregethu, cefais ddirgel ymddyddan â phump o'r gwŷr blaenaf yn y dref, a chefais le i obeithio y bydd y tro er bendith, ac y denfyn yr Arglwydd fi yno eto. Yr wyf yn awr ar fy ffordd i Sir Benfro; collais fy ffordd ar y mynyddoedd neithiwr,—ond yr Arglwydd a gofiodd ei gyfammod."

Nid oes genym le i gasglu fod yma nemawr un yn y wlad hon yn pregethu'r efengyl yn ei phurdeb a'i blas, yn y tymhor hwn, yn yr eglwys sefydledig nac y'mhlith yr ymneillduwyr. Ni a gasglwn hyny yn benaf oddiwrth air a ddywedir gan Harris yn un o'i lythyrau, dyddiedig Ionawr, 1839, tra yr oedd yn Morganwg. Fel hyn y dywed:—"Yn y sir hon, lle yr wyf yn awr, y mae y diwygiad yn cynyddu; mae yma hefyd ŵr ieuanc yn mysg yr ymneillduwyr, yr hwn sydd o ddefnydd mawr, ac yn dra diragfarn; y mae un arall o'i fath yn sir Drefaldwyn,† mi a fum yno ddwywaith;‡ ac y mae argoelion fod pelydrau dysglaer efengyl gras yn tywynu ar lawer. Y mae hefyd *ddau neu dri* o guradiaid ieuainc yn sir Forganwg (lle yr wyf fi yn awr) yn ewyllyswyr da i grefydd."

Nid oedd Harris ni a welwn yn gydnabyddus ond ag un gweinidog ymneillduol y pryd hwnw yn sir Forganwg, yr hwn oedd o ddefnydd mawr; ac ni wyddai ond am ddau neu dri o guradiaid teilwng, i gael eu dynodi, hyd yn nod, yn *ewyllyswyr da* i grefydd. Yr oedd Harris yn debyg iawn o ymholi yn fanwl am y fath wŷr, ac yn debyg iawn o'u cael, os byddent i'w cael hefyd. Yr oedd y tywyllwch, mor drwch a dudew, nes oedd pob canwyll, er lleied y goleu a roddai, yn hawdd ei gweled. Yr oedd gweinidog efengylaidd y pryd hwnw yn ddyn mor hynod ac unigol ag y byddai y son am dano yn cerdded ymhell, ac yn un na ellid ei guddio. Pa fath ynte a raid fod tywyllwch y wlad! Y pryd hwn, hefyd, nid oedd ond ychydig iawn o ysgolion y Parch. Griffith Jones, Llanddowror wedi ei sefydlu; ac ymhen 5 mlynedd wedi hyn nid oedd ond 25 o'r ysgolion hyn yn yr holl sir. Yr oedd Harris, ynte, yn llafurio yn y blynyddoedd hyn dan anfanteision dirfawr. Nid oedd iddo ymron neb i'w gynorthwyo; yr oedd Rowlands yn lled sefydlog yn sir Aberteifi; a Howel Davies eto o fewn eglwysi sir Benfro; a Williams, Pant-

* Cyf. I. tudal. 392. † Nid oes amheuaeth nad Lewis Rees oedd hwn.
‡ Nid oes crybwylliad yn ei ddyddlyfr am y troau hyn.

y-celyn, hyd yn hyn yn aros o fewn terfynau ei guradiaeth; Howel Harris ei hun oedd yn rhydd i wibio ar hyd y wlad. Ac nid oedd iddo i'w ddysgwyl yn mhob man "ond rhwymau a blinderau." Yr oedd ei wrthwynebwyr yn lluosog a'i gynorthwywyr yn ychydig; yr oedd ei fanteision yn brinion, a'i anhawsderau yn ddirif. Pan y deuai i'r wlad, nid oedd un addoldŷ i'w dderbyn, na chynulleidfa reolaidd yn ei ddysgwyl. Ni dderbynid mono i'r llanau er mai llanwr y dywedai ei fod; ac nid awyddus a pharod oedd yntau i fyned i gapelau ymneillduol, pe buasai rhai i'w cael. Yr oedd yr eglwyswyr yn edrych arno yn derfysgwr direol ar eu heddwch, ac ni fynent ymgyfrinachu âg ef. Y gwŷr mawr a wgent arno am afreolaeth, a'r werin a'u baeddent fel terfysgwr yn y wlad, a bradwr i'w heglwys. Oddifewn yr oedd ofnau ac oddiallan ymladdau. Os mynai gynulleidfa i'w chyfarch, rhaid oedd iddo sefyll ar fin y fynwent, i anerch y bobl wrth ddyfod allan o'r llan; neu fyned i'r ŵylmabsant i ganol dyhirwyr; neu ymosod ar oferwyr y wlad, pan yn gynulledig wrth eu chwareuyddiaethau ynfyd. Prin y dangosid iddo y ffordd nac y derbynid ef i dŷ, os gwybyddid pwy ydoedd. Eto, yn mlaen yr âi. Gosodai ei wyneb fel callestr. Yr oedd eiddigedd yn tanio ei fynwes; gwroldeb yn gwisgo ei wynebpryd, a grym digyffelyb yn nodweddu ei lais. Effaith gyffredinol ei weinidogaeth ydoedd naill ai colynu ei wrandawyr i gynddaredd, neu eu darostwng mewn braw, a'u cylymu mewn astudrwydd. Nid anfynych y syrthia dynion caledion i lewygfeydd gan rym ei gyfarchiadau. Dywedir fod math o swyn yn ei lloedd, ag a dynai ddynion ato, gan eu darostwng iddo. Cymhwys ydoedd ymhob modd i ddarostwng y bryniau, i gyfodi y pantiau, ac i wneuthur i'r Arglwydd bobl barod.

Nid ydym yn alluog i olrhain yr ysgogiad bob yn gam yn y wlad hon, mwy na gwledydd eraill, gan fod yr hanes boreaf, i fesur mawr, wedi cyfrgolli er ys blynyddau; eto, y mae genym sicrwydd yn "Nghofnodau Trefecca" fod yma amrywiol fân gymdeithasau wedi ymgrynhoi at eu gilydd, mor fore a'r fl. 1742. A dyledus oeddynt oll, ymron, i lafur cenadol Harris am eu ffurfiad. Ymddengys hefyd fod yma amryw gynghorwyr, mwy neu lai eu doniau a'u dylanwad, wedi cyfodi yn yr eglwysi hyny, y rhai a osodwyd gan y cyrddau misol neu chwarterol, i lafurio mewn cylchoedd pennodol; rhai i gyfarch yr aelodau yn unig yn y cylchoedd priodol; rhai i gyfarch yr aelodau yn unig yn y cyfarfodydd neillduol; eraill yn fwy cyhoeddus yn eu cymydogaethau eu hunain; a rhai i fyned oddiamgylch yn fwy cyffredinol. Enwir dau ŵr fel arolygwyr; un, sef Thomas William i gymeryd gofal y cymdeithasau yn rhan o Forganwg a Mynwy, o'r Groeswen hyd Llantrisaint; y llall, sef John Richard, i ofalu am y rhan orllewinol o sir Forganwg a rhanau o sir Gaerfyrddin. Y ddau hyn, tybygid, oeddynt y gwŷr mwyaf amlwg yn y sir hon; ond yr oedd gyda hwy luaws o frodyr da eu gair, ond llai eu doniau, yn eu cynorthwyo, mewn cylchoedd llai. Yr oedd yma hefyd un John Belcher, yr hwn, fel yr ymddengys, oedd yn meddu talentau helaethach

na'r ddau eraill; a'r hwn, ar gyfrif ei gymhwysderau i fod yn ddefnyddiol, a ddewiswyd yn gynorthwywr i Howel Harris, ac a alwyd i ymryddhau oddiwrth ofalon bydol, ac i ymgysegru yn hollol i wasanaethu yr eglwysi mewn gwahanol barthau o Gymru, ac yn enwedig mewn rhanau o sir Fynwy, Morganwg, a Chaerfyrddin. Yr oedd hyn yn y fl. 1744. Nid oes genym nemawr hanes cysson am y gŵr hwn. Cyfarfyddwn yn fynych a'i enw, mewn cysylltiad â Methodistiaeth yn ei ysgogiadau cyntefig; a chawn ei fod ef yn un o'r pedwar a anfonwyd i'r Gogledd,* ac am yr hwn y dywedai John Evans o'r Bala, "Yr oedd John Belcher yn ddyn gwrol, o gyneddfau cryfion, ac yn bregethwr da."

Y mae genym adroddiadau amryw, o waith y ddau arolygwr crybwylledig, John Richard a Thomas William, y rhai a gyflwynwyd i'r Gymdeithasfa, yn y blynyddoedd 1742—45, yn rhoddi i ni olygiad byr ar ansawdd y gwaith yn y cylchoedd priodol iddynt. Cawn roddi dyfynion bychain o'r adroddiadau hyny, ar fyr, o flaen y darllenydd.

Mewn cymdeithasfa a gynhaliwyd yn Glan-yr-afon-ddu, sir Gaerfyrddin, penderfynwyd "fod gofal sir Forganwg hyd Lantrisaint ar y brawd Thomas William"—a

"Bod gofal y gweddill o sir Forganwg, a rhan o sir Gaerfyrddin hyd yr afon Dywi a Llanelli, ar y brawd John Richard." Ac mewn cyfarfod arall a gynhaliwyd yn Llandremôr, plwyf Llandeilo-fach, Mai 19eg, 1743, penderfynwyd:—

"Fod John Richards i arolygu y cymdeithasau yn y manau canlynol, *Castellnedd, Creunant, Palleg, Cwmaman, Llanon, Cas'llychwr, Llandafen, Llandeilo-fach, a Llansamlet.*"

Yn mis Medi, yr un flwyddyn, dyry Thomas William adroddiad cyffredinol am y cymdeithasau a gynhelid yn y *Groeswen, Dinas-Powys, Llanedeyrn, Newton Nottage, St. Nicholas, Aberddaw, Byrthyn, Llanharri, Llanilid, Cynfyg, Hafod, Glynogar, Llantrisaint, a Pentyrch*, gan ddyweyd, "Fe weloddyr Arglwydd yn dda gadw y cymdeithasau crybwylledig yn ddiachwyn arnynt, o ran eu hymddygiad allanol, fel na fu gwaradwyddo ffyrdd ein hoff Arglwydd o'u hachos hwy, oddigerth fod un yn y Groeswen, ac un yn Llantrisaint, yn gogwyddo gradd at gydymffurfiad â'r byd. Ymddengys fod adfywiad siriol yn mysg yr aelodau yn y Groeswen, ac Aberddaw, lle y mae ychydig nifer yn mwynhau rhyddid; a lle y mae y gweddill yn credu ei fod yn gyrhaeddadwy, ac yn cyrchu tuag ato. Mae drysau newyddion yn ymagor i'r efengyl, ac y mae newyn ar y bobl am y gair, yr hwn sydd yn rhedeg ac yn cael gogonedd, mewn amrywiol barthau o'r wlad. Mae pump o dan argyhoeddiadau dyfnion yn y Groeswen, ac un yn Aberddaw. Cyffelyb ydynt yn y cymdeithasau ereill i'r hyn oeddynt o'r blaen o ran rhif; o ran cynydd, nid ydynt ond babanod, eto y maent yn cynyddu."

* Gwel, Cyf. I., tudal. 487.

Ymddengys fod tua 63 o aelodau yn y Groeswen. Yr oedd 5 o honynt yn arfer cyngori; 1 yn ysgolfeistr, 2 yn ddiaconiaid, a 2 yn olygwyr yr adeiladau. Dywedir fod tuag 48 o'r aelodau "*wedi eu cyfiawnhau,*" a'r gweddill "*dan y ddeddf.*"

Gellir meddwl mai y gymdeithas hon yn y Groeswen oedd yr un fwyaf blodeuog yn y dosbarth de-ddwyrain o'r wlad. Yn Llantrisaint yr oedd cymdeithas o 21 o aelodau, ac 8 ar brawf. Am yr aelodau hyn y dywedir, "Mae y brodyr hyn wedi hir fyw ar eu teimladau, ac y mae rhai o honynt eto heb ddysgu byw trwy ffydd. Cyfarfuant a phrofedigaethau tanllyd, a hi fu yn galed arnynt, ond yn awr y mae eu ffydd, a'u cariad, eu tynerwch, a'u hunan-ymwadiad, yn cynyddu. Y maent o naws ddiniwed, ac yn rhodio yn ddyfal gyda Duw. Mawr y gallu a roddir iddynt i alw pechaduriaid at Grist; mae yma ddigon o bechaduriaid o amgylch rhwyd yr efengyl, a rhai a ddelir ynddi. Bendigedig a fyddo enw yr Arglwydd! Mae tyngwyr, meddwon, ac erlidwyr wedi profi daionus air Duw, ac yn awr yn newynu ac yn sychedu am yr Arglwydd Iesu. Oes, mae yma hen bechaduriaid rhagfarnllyd, nid yn unig yn addef fod bys Duw yn hyn, ond y maent yn wir ddrylliedig am eu pechodau, ac yn ymofyn am hawl yn ngwaed Crist. Bu Howel Griffiths o'r gymdeithas yma yn afiach, ond yn awr yn dymuno fod diolchgarwch yn cael ei ddychwelyd am ei adferiad."

Byrthyn neu Aberthyn. "Fe gynwys y gymdeithas hon 22 o aelodau. Mae yma un brawd yn cael ei gymhell, yn groes i'w ewyllys, i gablu, trwy ddyweyd nad yw Crist yn Dduw; ac nid oes dim yn debyg i lwyddo gydag ef, nes y delo yr Arglwydd ei hun."

Aberddaw. "Mae yma ddeg o aelodau. Nid adwaen i yr un gymdeithas dan haul, y mae y geiriau yn Heb. viii. 11. yn fwy cymhwys iddynt, 'Ac ni ddysgant bob un ei gymydog, a phob un ei frawd gan ddywedyd, Adnebydd yr Arglwydd; oblegid hwynt-hwy oll a'm hadnabyddant i, o'r lleiaf o honynt hyd y mwyaf o honynt.' Hyd y deallwyf fi, y maent oll yn adnabod yr Arglwydd Iesu, maent yn llewyrchu yn nghanol cenedlaeth drofaus, fel nad oes gan neb ddim i roi yn eu herbyn."

St. Nicholas. "Fe gynwys hon 22 o aelodau. Mae tri yn ddiweddar wedi marw yn yr Arglwydd. Mae y gymdeithas hon mewn cyflwr marwaidd, ffurfiol, a difater; ac nid oes dim a all ei deffro ond llais y Priodfab."

Dinas-Powys. "Yn y gymdeithas hon y mae 15 o aelodau, ac hyd y gwn i y mae 8 o honynt wedi eu cyfiawnhau, trwy y prynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu."

Pentyrch. "Cynwys hon 6 o aelodau, gan mwyaf mewn agwedd oer a ffurfiol."

Llanedeyrn. "Y mae yma 4 o aelodau; 3 o honynt yn adnabod yr Arglwydd Iesu, a'r llall dan y ddeddf."

Glynogar. "Nid oes yma ond un aelod a hwnw yn llawn o ffydd ac o'r Ysbryd Glân. Ond y mae yma 12 neu 15 o wrandawyr."

RHYTHIN a LLANHARRI. "Nid oes yma ond 4 o aelodau, a chyfarfyddant yn nghyd o'r ddau le."

NOTTAGE. "Ni chefais gyfleusdra i wybod ansawdd y lle hwn, trwy fy lluddias gan amgylchiadau pwysig i ymweled â'r lle."

Y cyfryw ydyw swm adroddiad Thomas William o'r cymdeithasau bychain a arolygid ganddo; a bychan iawn, ni a welwn, oedd amryw o honynt. Yr oedd llawer o'r aelodau yn ieuainc mewn oedran, a phawb yn ieuainc mewn profiad. Nid oedd eu gwybodaeth ar y goreu ond bas, a'u teimladau a'u nwydau yn fynych yn gyffrous, fel nad yw yn syn genym ddarllen eu bod yn lled anwadal yn eu proffes, a sigledig yn eu syniadau. Cyffelyb hefyd oedd gwedd y cymdeithasau yn ngogledd-orllewin y sir, dan olygiad John Richard; sef cymdeithasau Castellnedd, Creunant, Hafod, Llansamlet, Cnap-llwyd, Corseinion. Gellir meddwl mae cymdeithas Corseinion, neu y Goppa-fach oedd yr un fwyaf blodeuog yn y dosbarth hwn. Yr oedd yn hon 55 o aelodau yn y fl. 1743. Yn Llansamlet yr oedd 20. Yn yr Hafod yr oedd 15. Yn Creunant yr oedd 12. Nid yw nifer Castellnedd i lawr.

Mae mynych grybwylliad yn cael ei wneuthur yn "Nghofnodau Trefecca" am le a elwir *Watford* neu *Waterford;* lle y cynelid llawer o'r cymdeithasfaoedd boreol; ïe, yn wir, y lle y cynaliwyd y gymdeithasfa gyntaf erioed gan y Methodistiaid.

Dysgrifir y lle hwn i ni gan un a'i hadwaen fel hyn,—"Watford sydd balas, neu hen ffermdy mawr, cyfrifol yr olwg, yn sefyll ar lethr mynydd Caerphili, ac o fewn milldir i'r dref hòno, yn mhlwyf Eglwys-ilian, sir Forganwg, ond ar derfyn sir Fynwy. Mae y capel eglwysyddol St. Martin, yr hwn a elwir yn gyffredin capel Caerphili, ar gŵr tir Watford."

O faenordy Watford y priododd George Whitfield un Mrs. James o Abergafenni, yn y capel uchod. Mae cofnodiad am hyny yn llyfr eglwys y plwyf, sef Eglwys-ilian: fel hyn, "*George Whitfield and Elizabeth James, married, November* 14*th*, 1741. *John Smith, vicar.*"

"Yn ymyl tŷ Watford y mae capel Presbyteraidd hen iawn; yn yr hwn yr arferai y diwygwyr Methodistaidd bregethu, gan y coleddid hwy gan Mr. a Mrs. Price, y rhai oeddynt yn preswylio y palasdŷ y pryd hwnw. Am y Mrs. Price hon y canodd Williams, Pant y celyn, alareb ragorol ar ol ei marw. Yr wyf yn tueddu i feddwl nad oedd yr un gweinidog sefydlog yn yr hen gapel y pryd hwnw; a chan fod Mr. Price yn llochi y Methodistiaid, efe a agorodd ei dŷ ei hun i'w croesawu, ac a gafodd ganiatâd iddynt ddefnyddio y capel, o leiaf yn achlysurol i gynal cyfarfodydd. Wedi marw y boneddwr Mr. Price, daeth eraill i breswylio i Watford, a gweinidog Presbyteraidd i'r capel: a chan ei fod yn gogwyddo at syniadau a fernid yn gyfeiliornus, ciliodd y Methodistiaid a'r Annibynwyr, ac adeiladasant gapel rhyngddynt, ar lethr arall gyferbyn, yr hwn a elwir capel y Groeswen. Ymhen ychydig amser collodd y Methodistiaid y capel hwn hefyd, trwy i'r rhan Annibynol o'r gynulleidfa, ddewis gweinidog sefydlog, a thrwy hyny ymwrthod â phregeth-

wyr teithiol y Methodistiaid. Y canlyniad fu i'r rhai olaf adeiladu capel arall, sef yr un sydd ganddynt yn awr yn nhref Caerphili."

Bu palas Mr. Price, a hen gapel y Presbyteriaid, yn dra defnyddiol i'r hen Fethodistiaid, mewn adeg nad oedd ganddynt gymaint ag un capel o'r eiddynt eu hunain wedi ei adeiladu yn Nghymru. Yr oedd y cyfarfodydd misol a chwarterol, y pryd hwnw, yn cael eu cynal mewn tai anedd; a'r pregethu, yn fynych, yn yr awyr agored. Sonir am gyfarfodydd yn cael eu cynal yn Nhrefecca, sir Frycheiniog; yn Tyddyn, sir Drefaldwyn; yn nhŷ Jeffrey Dafydd, Llanddeusant, sir Gaerfyrddin; yn y *Longhouse*, sir Benfro; ac yn Llandremôr, Dygoedydd, Glan-yr-afon-ddu, Blaen-y-glyn, Bryn-y-bychain; a hefyd yn Dolberthog a Nantmel, sir Faesyfed; oll, tybygid, yn dai anedd, lle y preswyliai rhyw rai gwresoccach eu calon, a helaethach eu moddion, fel ag i allu rhoddi croesawiad i'r dyeithriaid a ddeuent ynghyd, ar y fath achlysuron.

Yr oedd Corseinion neu Croeseinion, fel yr ysgrifenir y gair weithiau, yn agos i'r lle y mae capel y Goppa-fach arno yn awr, ac yn hen orsaf Fethodistaidd; fel y gwelir yn "Nghofnodau Trefecca." Cadarnheir hyn hefyd gan y Parch. Hopkin Bevan, Llangyfelach, yn yr hanes byr a ysgrifenodd am gychwyniad Methodistiaeth yn ei fro ei hun.

Bu Hopkin Bevan, yr hwn a fu farw yn y fl. 1839, yn ymddyddan â rhai o wrandawyr Howel Harris, pa rhai a ddygwyd at grefydd trwy ei weinidogaeth, sylwedd yr hwn ymddyddan a roddir ger bron y darllenydd.

Er ys llawer o flynyddau yn ol, yr oedd hen ŵr, o'r enw John Morgan, yr hwn oedd yn aelod yn y Goppa-fach. Adroddai hwn am rai o ddyfodiadau cyntaf Howel Harris i'r ardaloedd hyn. Yn y dyddiau hyny, yr oedd twmpathau chwareu a champio yn cael eu cynal yn fynych, ac yn enwedig ar Sul y pasg a'r Sulgwyn, a Gŵyl-Ifan yr haf, lle y byddai dawnsio, ymladd ceiliogod, troedio y bêl, a phob rhyw ofer gampau. Yn y cynulliadau hyn yr oedd Harris yn cael gafael ar y bobl, ac i'r fath leoedd y cyfeiriai ei gamrau er mwyn eu cyfarch. Soniai yr hen ŵr am un tro neillduol. Yr oedd ymgynulliad o'r fath mewn lle a elwir y Waun-gron, yn mhlwyf Llandilotal-y-bont, nid pell o'r Goppa-fach; a'i fod ef, y pryd hwnw, yn ieuanc, yn myned i'r gamp, a bod Harris wedi dechreu pregethu cyn iddo ddyfod i'r lle; ond, pan oedd John Morgan ar ryw waun, tua chwarter milldir, neu fwy, oddiwrth y lle, disgynodd llais y pregethwr ar ei glust, a hyny "gyda'r fath awdurdod," meddai, "fel y teimlwn ef yn myned trwy fy esgyrn yn y fan." Bu yr oedfa hon yn foddion dychweliad iddo ef ac i eraill at y Duw byw, oddiwrth y pethau gweigion hyny.

Adroddai yr un gŵr am dro arall a ddygwyddodd mewn lle yn agos i Dantwyn, yn yr un plwyf, ond yr ochr arall i'r Goppa-fach. Daeth Harris i'r lle hwn, hefyd, pan oedd y bobl ar ganol eu difyrwch, yn campio ac yn dawnsio, ac a ddechreuodd lefaru; a thra yr oedd yn pregethu, mynai rhai o'r campwyr, o ddial arno am eu haflonyddu, ei faeddu, os nad ei ladd;

ond eraill, mwy eu tosturi, a safasant o'i blaid, ac a'i haehubasent o'u dwylaw. Yr oedd yno, ar y pryd, un gŵr, yr hwn oedd yn byw yn Llandremôr-uchaf, hwn a'i cymerodd gydag ef i'w gartref, ac a'i hymgeleddodd; agorodd hefyd ddrws ei dŷ i dderbyn pregethu'r efengyl. Yn y tŷ hwn y bu pregethu am flynyddau; ac ynddo y cynaliai y Methodistiaid cyntefig amryw o'u cyfarfodydd misol, fel y crybwyllir yn hen ysgrifion Trefecca; yn y lle hwn hefyd y dechreuodd y gymdeithas eglwysig sydd yn awr yn gwersyllu yn y Goppa-fach.

Mae Hopkin Bevan yn dyweyd, "Mi a glywais hefyd am ddyfodiad Howel Harris i bregethu yno, i le a elwir Croes Eynon, yn mhlwyf Llangyfelach, pan oedd y campio a'r ymladd ceiliogod yn myned yn mlaen, a bod y weinidogaeth wedi dal gafael ar amryw oedd yn y ddawns. Bum yn siared," meddai yr hen ŵr parchedig, "â rhai o honynt amryw weithiau. Cafodd un Mr. John Powell, o Gefn-fforest, ei ddal gan y gair yno. Aeth y gŵr hwn yn mhen blynyddau at yr Ymneillduwyr i'r Mynydd-bach, lle yr oedd Lewis Rees yn weinidog; bu hefyd yn llefaru yn eu plith, a chadwodd ei ddillad yn lan hyd ddydd ei farwolaeth."

Sonir hefyd am ŵr arall, o'r enw Hopkins, neu Hopkin John Hopkin, fel y gelwid ef weithiau, â'r hwn y bu Hopkin Bevan yn ymddyddan. Saer maen ydoedd wrth ei alwedigaeth. Ennillwyd ef yn fore at Fethodistiaeth, ac agorodd ei dŷ i dderbyn pregethu, ac i gadw cyfarfodydd eglwysig. Dywedir y byddai pump o ganghenau eglwysig yn arfer ymgynull yn ei dŷ yn fisol, a hyny dros flynyddau; yr oedd Harris yn ymweled yn fynych â'r eglwysi hyn; a manwl iawn y dywedir fod yr arolygiaeth arnynt. Yr oedd llyfr yn cael ei gadw ganddynt, yn yr hwn yr oedd enwau yr holl aelodau, a phrofiad pob un gogyfer a'i enw, yn dynodi pa un ai Cristion gwan dan ei ofnau, neu, un wedi cyrhaedd graddau o sicrwydd ffydd, a fyddai. A phan y byddid yn ymddyddan drachefn â'r aelodau, edrychid i'r llyfr, modd y gwelid eu cynydd neu eu hadfeiliad.

Bu Hopkin John Hopkin yn ymroddgar iawn a ffyddlon gyda'r achos, yn y blynyddau hyny; a'i wraig hefyd oedd o'r gyfrinach, yr hon, yn ol tystiolaeth William Thomas, o'r Pîl, ydoedd yn Gristion cywir a dysglaer, ac yn rhagori o ran ei chrefydd, i raddau mawr, ar ei gŵr. Ond fe gyrhaeddodd effeithiau yr anghydweliad rhwng Harris a Rowlands hyd i'r lle hwn. Oerodd Hopkin i raddau yn ei sel, symudodd i Abertawe i fyw, a chiliodd oddiwrth ei frodyr ar ei ben ei hun; yn enwedigol, ar ol claddu ei wraig. Cafodd Hopkin Bevan gyfleusdra i ymddyddan ag ef yn nhŷ merch iddo, yr hon a briodasai offeiriad Llangyfelach; ac yn nhŷ yr hon y treuliodd yr hen ŵr ei thad flynyddau diweddaf ei oes. Wedi symudiad Hopkin i Abertawe, nychodd yr achos yn Ngroes-Eynon i fesur mawr, ac yn raddol fe ddiflanodd.

Symudwyd y cyfarfod eglwysig o Llandremôr, yn mhen blynyddau, i'r Gwynlais uchaf, lle yr oedd gŵr o'r enw Mr. John Walters, barcer a thyddynwr, yn aneddu. Yr oedd y gŵr hwn a'i deulu yn grefyddol, ac yn neillduol

merch iddo. Derbyniwyd pregethu, a chynaliwyd cyfarfodydd eglwysig, yn y lle hwn am flynyddau. Gŵr o'r fro hon oedd yr enwog Mr. Griffith Morgan, Glynhir. Dygwyd dychweliad y gŵr hwn at grefydd mewn modd tra hynod. Sylwai fod rhai o hen bobl ei ardal yn arfer myned ar ryw Sabbothau penodol i gapel Llanlluan,* sir Gaerfyrddin, i wrando. Enynodd chwilfrydedd ynddo, ac ymofynai ynddo ei hun i ba ddybenion yr oeddynt yn cyrchu yno; ac, o'r diwedd, penderfynodd fyned yno ei hunan. Cymerodd ei geffyl dano ac i ffordd âg ef i Lanlluan. Ar Sabbothau cymundeb yr oedd cyrchu mawr i'r lle o'r holl wlad o amgylch, nes chwyddo y gynulleidfa i nifer mawr. Dygwyddodd, y tro hwn, fod y Parch. D. Rowlands, Llangeitho, i bregethu yno. Aeth Griffith Morgan i mewn i'r capel, ac wedi i ryw un orphen gweddio, ar ddechreu yr oedfa, gwelai Mr. Rowlands yn codi i fyny yn y pwlpud. Parodd yr olwg ar y pregethwr effaith arno yn y fan, a pharotodd ei feddwl i wrando. Y testyn, oedd, Mat. iii. 7, 8. "O genedlaeth gwiberod, pwy a'ch rhag rybuddiodd i ffoi rhag y llid a fydd? Dygwch gan hyny ffrwythau addas i edifeirwch." Cafodd y bregeth effaith anarferol ar ei feddwl. Darostyngwyd ei enaid i ufudd-dod Crist. Gogwyddodd ei ysgwydd i'r iau, a gweithiodd yn effro ac egniol yn ngwinllan ei Arglwydd o hyny hyd ddydd ei farwolaeth. Yr oedd cael gŵr o fath Mr. Morgan yn ennill mawr. Yr oedd Methodistiaeth ar y pryd yn eiddil, y proffeswyr gan amlaf yn dlodion, a diamddiffyn; yr oedd y gwaith a fwrid arnynt, a'r gwrthwynebiad a osodid ar eu ffordd yn fawr iawn. Yr oedd cael gŵr o wybodaeth a dylanwad Mr. Morgan, gan hyny, o wasanaeth tra mawr i'r achos. Nid yn aml y bu mwy o eisiau y fath un, ac nid yn fynych y bu offeryn cymhwysach i'r gwaith oedd iddo.

Yn y blynyddau canlynol, gwelwyd angen am le mwy sefydlog a pharchus i addoli. Yr oedd yr achos wedi bod 30 mlynedd mewn tai anedd, ac wedi profi llawer o gyfnewidiadau; ond yr oedd, bellach, wedi ymwreiddio yn y gymydogaeth. Yr oedd y rhagfarn cyntefig yn dechreu syrthio, a'r bobl yn ymsefydlu i wrando yr efengyl; arwyddion fod yr amser wedi dyfod i gael addoldy i ymgynull ynddo. Cafwyd tir i adeiladu arno gan Mr. Arthur Davies, Llanymddyfri, yn agos i'r fan a elwir y Goppa-fach. Rhoddodd rwym-ysgrif ar y tir, am ddau swllt yn y flwyddyn, dyddiedig, Ebrill 26, 1775. Y mae yr hen gapel wedi rhoi lle i gapel arall hardd a chyfleus.

Mae pump o eglwysi Methodistaidd wedi tarddu o'r eglwys hon, sef, Llanelli, Llanedi, a'r Bettws, yn sir Gaerfyrddin; a Chas-llwchwr a Llangyfelach, yn sir Forganwg. Yr ydym eisoes wedi rhoddi hanes byr am rai o'r lleoedd hyn dan sir Gaerfyrddin; am y ddau le diweddaf a enwyd ni ddaeth dim defnyddiau i law.

* Gwel hanes y capel hwn yn "Hanes sir Gaerfyddin," Cyf. II., tudal. 442.

PENNOD II.

ADGOFION AM EGLWYSI BOREOL Y WLAD.

CYNWYSIAD:—

LLANSAMLED—GWEDD ANGHREFYDDOL YR ARDAL—H. HARRIS YN YMWELED A HI—PREGETHU YN Y CWM AM YSBAID 40 MLYNEDD—Y *BATH*, GER TREFORRIS—HOPKIN DAVIES—EVAN, O'R DALCHABA, A LLEWELYN JOHN—HANESYN AM DAFYDD MORRIS—JOHN RICHARD YR AROLYGWR—EDWARD THOMAS A WILLIAM POWEL—Y DDAU ROGER—ADFYWIADAU—DAMWAIN ARSWYDUS—TREFORRIS—LLWYN-BRWYDRAU.

Mae y lle hwn yn gorwedd gerllaw Abertawe yr ochr arall i'r afon, ac yn un o hen orsafoedd Methodistiaeth. Nid oedd llawer o wahaniaeth rhwng yr ardal hon ag ardaloedd eraill yn Nghymru ar ddechreuad yr adfywiad Methodistaidd. Yr oedd hen gampau arferol gan cin cenedl, mewn bri mawr yn y lle hwn. Caed yma ffrwyth toreithiog oddiar ddarlleniad hen lyfr y chwareuon; estynasai y chwareuon hyn eu gwreiddiau yn ddwfn, ac nid gorchwyl hawdd oedd arloesi y wlad oddiwrthynt. Mawr oedd rhwysg yr ymladd ceiliogod, y bêl, a'r bando, yn nghyda'r drygau cysylltiedig, y meddwdod, y maswedd, a'r ymladdau. Y lle neillduedig at ymladd ceiliogod oedd wedi ei amgylchu â choedydd; cyfarfyddent yn y fan hon y naill Sabboth ar ol y llall, gan gyhoeddi y naill Sabboth pa gamp a fyddai y Sabboth arall. Ac anaml y dybenai y ceiliogod eu brwydr hwy, na cheid eu perchenogion yn ymosod yn ffyrnig ar eu gilydd. Cyfarfyddai plwyf Llangyfelach â phlwyf Llansamled, ar draeth rhwng Llansamled a'r môr i chwareu y bando, a pha un bynag a'i ennill a'i colli parai yr ymdrech deimladau cyffrous yn y ddwy blaid, a gwae fyddai i neb o blwyf yr ennillwyr os ceid hwy yn y plwyf arall, trwy yr ymosod a fyddai arnynt mewn ffordd o ymddial; a mynych y dychwelent i'w plwyf eu hunain wedi eu harcholli, os nad eu hanafu. Enynai hyn eiddigedd y lleill yn fwy fyth; ac yn y modd yma meithrinid y teimladau chwerwaf tuag at eu gilydd trwy y blynyddau, y rhai a ddisgynent fel trefdadaeth i'w plant ar eu hol. Mawr hefyd fu y dinystr a ddygwyd ar foesau ieuenctyd ac eraill, trwy yr hyn a elwid weithiau "Cwrw cymhorth," neu y "Cwrw bach." Gwneid hwn dan fantell carcdigrwydd, weithiau i bobl ieuainc ar eu mynediad i'r sefyllfa briodasol, ac hefyd i gynorthwyo cleifion, neu dlodion dan ryw amgylchiadau neilldnol. Mawr iawn a fu rhwysg yr arferion hyn, a hir iawn eu parhad; ïe, prin y maent eto wedi llwyr ddiflanu, er i'r Methodistiaid, o leiaf, osod eu dylanwad hwy yn egniol yn eu herbyn. Dichon mai swyn y ddiod feddwol, a gwedd clusengar yr amcan sydd yn llesteirio i'r anfadrwydd hwn ddarfod yn llwyr yn y tir.

Ymddengys mai Howel Harris oedd yr offeryn i ddechreu Methodistiaeth yn yr ardal hon, ac er nad yw y ffwyddyn yr ymwelodd efe gyntaf â'r gy-

mydogaeth yn hysbys, eto bernir fod yma ychydig o ddilynwyr iddo mor gynar a'r fl. 1740; a chesglir oddiar hyny ei fod ef wedi ymweled â'r ardal ryw gymaint o amser yn flaenorol. Dechreuodd y pregethu ganddo, meddir, mewn amaethdŷ, gerllaw y lle y mae y capel yn bresenol, o'r enw y Wernllestr. Mae un tro y bu ef yma wedi ei hynodi trwy ddychweliad Hopkin Davies, gŵr y tŷ, yn nghydag amryw eraill, at grefydd. Dywedir hefyd am yr un tro, fod gwraig yn yr oedfa yn chwareu yn afreidiol â'i phlentyn, ac i Mr. Harris sylwi nad oedd hi ddim yn gwrando mor ddyfal ag y buasai da, ac iddo ymattal ar ei bregeth, a'i chyfarch mewn modd tra awdurdodol, gan ddyweyd, "Addola Dduw, wraig!"

Wedi treigliad rhyw gymaint o amser, ymsefydlodd yr achos mewn lle a elwir y Cwm, y lle yr arosodd hefyd hyd oni adeiladwyd y capel, yr hwn a elwir yn fynych hyd heddyw, wrth yr hen enw, "Capel y Cwm," er ei fod yn sefyll yn hytrach ar fryn nag mewn cwm. Bu arosiad yr achos yn hir yn y Cwm, nid llai na 40 mlynedd, gan y deallwn mai yn y fl. 1782 yr adeiladwyd y capel. Dros ryw dymhor, arferai yr ychydig grefyddwyr a breswylient y plwyfydd cyfagos ddyfod i Llansamled i'r cwrdd eglwysig. Nid oedd achos sefydlog, y pryd hwnw, yn Llangyfelach, Abertawe, na Threforris. Yr oedd lle, pa fodd bynag, yn ymyl Treforris, a elwir y *Bath*, neu y *Tŷ-coch*, fel y gelwid ef weithiau, lle y byddid yn arferol o bregethu yn gymysg â'r Annibynwyr, yn amser y Parch. Lewis Rees; yn y lle hwn y mae traddodiad fod Howel Harris a Daniel Rowlands wedi cyfarfod â'u gilydd, unwaith, wedi cychwyniad yr ymryson oedd rhyngddynt, a mawr, meddir, y ddadl fu rhyngddynt, nes y meddiannwyd y dysgyblion ieuainc ag oedd yn y lle, â syndod mawr. Yr oedd rhai crefyddwyr o Lansamled yno ar y pryd, ac yn eu mysg un Edward Thomas, neu un a adweinid yn gyffredin wrth yr enw "Ned o'r Twyn," am yr hwn y bydd genym air eto i'w ddyweyd.

Crybwyllasom enw Hopkin Davies, y gŵr a dderbyniodd bregethu gyntaf i'w dŷ. Rhoddir gair da i'r gŵr hwn, nid gymaint am ei ddoniau, ond am ei gymeriad crefyddol. Dangosasai lawer o ffyddlondeb a haelioni hyd y gallai. Yn ei ddyddiau olaf yr oedd i raddau wedi ei ddarostwng yn y byd, ac elusen mor dderbyniol ganddo ei gael, ag a fu gynt ei barodrwydd i'w roddi. Hyn a wyddai Mr. Jones, Llangan, ac ar un o'i deithiau, cyfarfu â'r cristion angenog, ac a roes iddo hanner gini. Ar hyn torodd Hopkin allan, "Bendigedig fyddo Duw, a diolch yn fawr i chwithau, Syr." "Wel, wel," ebe Mr. Jones, "fe aeth ymhell tu hwnt i mi yn awr."

Y blaenor, neu y diacon cyntaf, meddir, yn yr eglwys hon oedd un Evan o'r Dalchaba. Ei brif hynodrwydd oedd ei haelioni cyffredinol, a'i ofal cyson a difwlch am bob aelod yn yr eglwys. Gwyddai yn y fan os byddai neb yn yn absenol o'r cwrdd eglwysig; ac ar yr un noson y byddai y cyfryw un yn ngholl yr âi Evan i ymofyn am dano, a *mynai* wybod yr achos. Dan y cyfryw fugeiliaeth, nid syn fydd genym ddeall mai ychydig a fyddai un amser yn absenol, oddieithr eu lluddias gan amgylchiadau anorfod. Arferai y

cristion hwn fyned i graig Dalwenda, yn nghŵr eithaf ei dyddyn i weddio; a'i arfer yn wastad fyddai gweddio a'i lygaid yn agored; ond ar ryw amgylchiad ymrithiodd rhyw wrthddrych iddo a fu yn fagl, ac yn rhwystr i'w weddi; ac o hyny allan arferai gyfarch yr Anweledig a'i lygaid yn nghauad.

Yr oedd yma ŵr arall, o'r enw Llewelyn John, neu fel yr adwaenid ef oreu, Llewelyn o'r Hewl; gŵr tra hynod yn mysg ei gyd-grefyddwyr. Yr oedd y gŵr yma, gyda'i fod o gymeriad uchel fel cristion, yn feddiannol ar fwy o ddawn mewn gweddi, a mwy o fedrusrwydd i gadw cyfarfodydd eglwysig, na nemawr un yn ei wlad. Arferai fyned o amgylch gyda phregethwr, yn awr ac eilwaith, i ddechreu yr oedfaon. Adroddir i ni ei fod unwaith yn gyfaill i Mr. Jones, Llangan, ar daith yn y Gogledd; ac mewn rhyw fan, lle y dysgwylid i Mr. Jones bregethu, deallwyd fod yno haid gref o ddynion drygiouns wedi dyfod ar fedr aflonyddu y cyfarfod; a difrïo, os nad baeddu, y pregethwr. Dechreuodd Llewelyn weddio ar ddechreu yr oedfa gyda nerth anarferol, nes oedd rhai yn y dyrfa yn dechreu wylo. Deallodd Mr. Jones yn fuan ddarfod i Dduw roddi i'w weision oruchafiaeth, a gwaeddodd allan, "Dàl ati, Llewelyn bach, mae nhw yn dechreu *ildio!*"

Ennillasai Llywelyn gymaint o le yn serchiadau ei frodyr, nes iddynt gytuno cyfranu at ei gynaliaeth, mewn tymhor, yr oedd henaint a diffyg anadl yn llesteirio iddo ef allu cynal ei hun. Gwnaethant hyn o honynt eu hunain ac heb eu cymhell. Dygwyddodd i hyn ddeffro cenfigen yn mynwes "Beni y crydd," yr hwn ni allai ymattal rhag dangos ei anniddigrwydd i'r hynawsedd hwn. Ennillodd rhyw nifer o'i blaid, a bu yn enbyd am heddwch yr eglwys o'r achos. Penderfynwyd anfon gwŷr i ymholi iddo, ac os yn bosibl ei wastadhau. Yn y cyfamser, daeth Dafydd Morris, Twrgwyn, heibio, ac ar ol yr oedfa, mewn cyfarfod eglwysig, ewyllysiai y brodyr osod y mater ger bron. Ar ddechreuad y drafodaeth, rhoes "Beni" amnaid i Dafydd Morris i ddarllen, ar ddechreu y cwrdd, y bennod y mae y gair hwn ynddi, "Os byddai neb na fynai weithio, na chai fwytta chwaith." 2 Thes. iii. 3. 10. "Na wnaf fi," ebe Dafydd Morris, "darllen hi dy hunan os myni." Gwnaeth yntau hyny; a phan ddechreuwyd trin y mater, coffaodd "Beni y crydd" yr adnod, fel un benderfynol ar y pwnc. Bellach, ni allodd Dafydd Morris ymattal, ond dechreuodd arllwys arno ei dynged, "Clyw y cythraul," ebe fe, "a wyt ti yn cymhwyso yr adnod yna at yr hen ŵr duwiol? Rhwygwr wyt ti, a rhwygwyr yw y rhai hyny sydd yn dy gyngrair; ac allan â thi a hwythau!" Yr oedd y Parch. Hopkin Bevan yn y cyfarfod ar y pryd, ac arferai ddyweyd na fu mewn lle mor ofnadwy erioed; ei fod yn teimlo fel pe buasai llawr y capel yn crynu, gan yr awdurdod oedd yn grymuso ei eiriau. Yn y canlyniad ymrestrodd y terfysgwr yn filwr, a gadawodd y wlad; ac adferwyd tangnefedd a llwyddiant i'r eglwys.

Ymddengys hefyd mai Llansamled oedd cartref John Richard, y cynghorwr y soniasom am dano fel arolygwr ar y rhan orllewinol o sir Forganwg, a rhyw ranau o sir Gaerfyrddin, yn amser cyntaf Methodistiaeth. Nid oes

ar gael, pa fodd bynag, ddim adgofion am dano yn y lle hwn; yn unig dywedir, fod yma rai o'r bobl henaf yn ei gofio pan oeddynt hwy yn ieuainc iawn; ei fod yn brydydd, ac iddo gyfansoddi nifer o hymnau, y rhai a elwid gan ei gyd-oeswyr, "*Hymnau Shôn twn*;" ond nid ydym yn deall fod dim o honynt yn awr ar gael.

Am Edward Thomas, enw yr hwn a grybwyllasom o'r blaen, y dywedir y gelwid ef yn "Llygad yr eglwys," o herwydd craffder ei sylw, a manylwch ei adnabyddiaeth o bob aelod yn y gymdeithas, o ran agwedd meddwl pob un. Ar ei wely angeu, galwodd amryw o'i frodyr ato, ac wrth ganu yn iach iddynt rhoddai gynghor i bob un, yn ol fel y barnai yn angenrheidiol. Wrth un, dywedai, "Yr wyt ti yn para yn rhy hir ar weddi, tòr hi dipyn yn ferach." Wrth arall:—"Arfer mwy ar dy ddawn." Wrth y trydydd:—"Mae genyt ti ddawn, ond yr wyt ti dy hunan wedi gwybod hyny; ac wrth un arall, "Llafuria gyda'r canu." Bu farw mewn tangnefedd tua'r fl. 1811.

Sonir cryn lawer gan yr hen bobl am ŵr arall, o'r enw William Powel; gŵr oedd hwn ganedig yn Nhrefcastell, sir Frycheiniog. Yr oedd y gŵr hwn yn grefftwr cywrain, ac yn ei gelfyddyd yn rhagori ar nemawr o'i gydweithwyr. Rhoddai hyn fantais iddo ennill mwy o gyflog na'r crefftwyr yn gyffredin, a chan ei fod yn elusengar o dymher ac egwyddor, yr oedd modd ganddo i roddi profion amlach o'i haelioni na llawer o rai eraill. Yr oedd ganddo gell yn y peiriandŷ lle y cadwai ei drysor, modd y byddai wrth law i ddiwallu angen y tlawd a'r rheidus; a llawer gwaith y gwnaeth efe i galon y tlawd a'r weddw lawenychu; a llawer "gŵr i Dduw" ar ei deithiau a gynorthwywyd ganddo, mewn modd dystaw a dirwgnach iawn. Yr oedd William Powel yn cartrefu mewn lle a elwir y Cnap-llwyd, lle y byddai pregethu aehlysurol, o leiaf, gan y Methodistiaid boreaf; ond i Lansamled y deuai efe i'r cyfarfod eglwysig. Parhaodd hefyd i ddyfod yno dros ryw dymhor, er fod iddo gryn ffordd, hyd nes torodd rhyw ymrysonau allan yno, rhwng rhai o'r brodyr â'u gilydd, yr hyn oedd yn dra chroes i'w deimladau ef. Tua'r un amser hefyd y daeth Sandemaniaeth, neu egwyddorion gŵr o'r enw Sandeman, i ddeclireu lefeinio syniadau dynion; i'r hwn amryfusedd y llithiwyd William Powel. Yr oedd gŵr o'r enw Popkins* eisoes wedi gŵyro at yr hereai hon, a bu yn foddion arbenig i lithio William Powel. At y Mr. Popkins hwn y cyfeiriai Williams, Pant-y-celyn, pan y dywedai, mai "pedwar peth a'i gwaethai yn bregethwr mawr; perwig Samson Thomas, ceffyl Howel Davies, cyfoeth Popkins, a doniau Rowlands."

Pan oedd William Powell ar ei wely angeu, ymwelodd y Parchedig Fardd Pant-y-celyn ag ef; ac yn y gair a goffheir iddo ei ddyweyd wrth y claf, y gallwn weled fod gan y Bardd feddwl da am ei grefydd er ei lithio ychydig oddiar y ffordd. "Wel, Wil," eb efe, "ti fuost yn *whil'o* llawer am *ddyn'on* perffaith yn dy dymhor, mi dy wela di yn nes atyn' nhw' yn awr nag erioed."

* Gwel air am y gŵr hwn yn mlaen, dan "Hanes Abertawe."

Yn mhlith yr hen rai hynod yn Llansamled, crybwyllir enwau dau frawd, o'r enw John a Roger Roger. Yr oedd y cyntaf yn byw yn Cnapllwyd, lle y byddai pregethu achlysurol. Bu y brawd hwn yn llafurus a ffyddlawn dros eglwys Llansamled am flynyddau lawer. Gan fod ei amgylchiadau yn caniatâu, teithiai lawer i gymanfaoedd a chyfarfodydd misol, i ymofyn pregethwyr i Lansamled; a thrwy hyny, yn nghyda'i ofal a'i fugeiliaeth cartrefol, bu yn offeryn i ddwyn yr achos rhagddo.

Gelwid ei frawd Roger gan y cyffredin, yn "Rotsh o'r Gadle." Yn ei ieuenctyd yr oedd hwn wedi bod yn dra annuwiol. Yr oedd hynodrwydd arno yn mysg pechaduriaid, am y rhagorai arnynt mewn ymroad a medrusrwydd yn ngwasanaeth pechod. Yr oedd ef yn nghanol y campwyr, ac yn benaf gŵr yn eu mysg, pan fu Howel Harris yn pregethu iddynt ar y Crŷg-glas. Ar waith y pregethwr yn codi i fyny, yr oedd berw a chyffro y gamp, gan mor derfysglyd ydoedd, yn ddigon i beri llwfrdra i bob dyn, ymron, ond Howel Harris. Iddo ef ni wnai y swn mawr, y gwibio diorphwys, y gwawdio cas, a'r ymladdau ffyrnig, ond enyn ei aidd, ac awchu ei sel. Safodd i fyny, a dechreuodd weddio. Parai difrifwch ei wedd, treiddgarwch ei lais, a thaerineb ei eirchion, i gyffro y twmpath liniaru; llonyddai y berw fel pe rhoddasid olew ar ddyfroedd cyffrous; dechreuai y llu wasgaru fel pe yr ymlidiasid hwy gan ellyll; a'r telynwr yntau, wedi gweled ei gymdeithion yn cefnu o un i un, a roes ei offer o'r neilldu, ac a aeth i ffordd. "Rotsh" oedd yr olaf i gilio; ond wedi ei adael ei hunan, yntau a lithrodd o'r lle, ac a aeth i'r dafarn gerllaw. Nid yw yr hanes yn dyweyd dim mwy am effeithiau yr oedfa hon, na bod y campio yn y lle wedi cael ei orchfygu ar y pryd, a diau yr ystyrid hyn yn oruchafiaeth nodedig, y fath na fu ei chyffelyb erioed o'r blaen. Gorchuddiwyd y campwyr â chywilydd; disgynodd arswyd arnynt fel na allent aros yn swn y gwirionedd. Nid ydym, er hyn, yn deall fod y weddi na'r bregeth wedi cael un effaith ddaionus ar feddwl "Rotsh." Yn mlaen yr oedd ef yn rhuthro yn ddiymattal, yn berffaith ddibris o'i iechyd, o'i gymeriad, o'i amgylchiadau, yn gystal ag o'i enaid. Dywedir ei fod un tro wedi treulio ei arian yn llwyr wrth gyflawni ei flysiau, nes oedd mewn penbleth pa fodd i fyned rhagddo. Tybiai y dylasai yr hwn a wasanaethai mor egnïol ei gynorthwyo, a chyfarchai y "gŵr drwg:" "Wel, yr wy' i wedi bod yn was ffyddlawn i ti; gad wel'd *siwd* feistr wyt ti; dod rywfaint o arian yn fy het." Yna rhoddai ei het i lawr, a chiliai oddiwrthi encyd o ffordd. Yn mhen enyd, dychwelai ati eilwaith i edrych pa peth oedd ynddi. Wedi gweled mai gwag ydoedd, a'i frathu gan siomedigaeth, efe a dorai allan i edliw i'r diafol, gan ddyweyd, "Wel! wel! mi welaf mai meistr caled wyt ti wedi y cyfan!"

Nid yw yn hysbys pa foddion a fendithiwyd i ddwyn Roger ato ei hun; ond fel y dywed Williams Pant-y-celyn am Theomemphus:—

> "Pan oedd ef yn y boreu, yn marchog yn ei lid,
> A mil o weithrediadau, cynddeiriog yn ei fryd;"—

Duw a ddywedodd wrtho, "Hyd yma yr âi, ond nid yn mhellach." Rhyw fore Sabboth, cychwynodd oddi cartref i ymofyn cnud o gŵn hela, gan fwriadu eu defnyddio dranoeth, a mawr y difyrwch a addawai iddo ei hun trwy hyny; ond ar y ffordd wrth fyned, cyrhaeddodd y gwirionedd ei gydwybod, pa un ai trwy wrando pregeth yn ddamweiniol, ai trwy ryw ymddyddan, nid yw yn hysbys. Pa un bynag, dychwelodd "Rotsh" heb y cŵn, ac i'w wely ag ef, dan arteithiau cnogrwydd diamgyffred. Yr oedd wedi ei ddal megys â gwŷs, ac yn cael ei fflangellu megys ag ysgorpionau, gan edliwiadau bachog ei fynwes. At hyn y cyfeiriai wrth ganu:

"Pan oeddwn ar fy ngwely,
Un prydnawn,
Heb feddwl dim ond pechu,
Un prydnawn,
Fe ddaeth ei danllyd saethau,
Y ddeddf a'i dychryniadau,
I'm tori i lawr yn ddiau,
Un prydnawn,
A gado'm holl bleserau,
Un prydnawn."

Yr oedd trallod ei feddwl o hyny yn ddwysach, am na wyddai am un ddiangfa; "nid oedd gydag ef genad o ladmerydd, un o fil," i gyfeirio ei feddwl cystuddiedig at yr Hwn a eneiniwyd "i rwymo y rhai ysig eu calon, ac i gysuro pob galarus." Pan yr edrychai yn ol, yr oedd pechadurusrwydd ysgeler ei fywyd yn ei golynu; a phan yr edrychai yn mlaen, yr oedd tragwyddoldeb dyeithr yn ymagor am dano. Trywanid ei enaid gan ofid, a sangai ar lethrau gwallgofrwydd. Treiglai dyddiau heibio heb iddo allu na gweithio, na chysgu, na bwyta. Ai at lân y môr, a chodai lonaid llaw o'r tywod, gan geisio eu rhifo, a dyweyd, "Mi ddeuwn i ben a hyn rywbryd, ond am dragwyddoldeb, nid oes rhifo arno byth! Ymofynai, weithiau, â'i hen gymdeithion, ai ni wyddent hwy am ffordd o ddiangfa iddo; ond cysurwyr gofidus oeddynt oll. Cyfarfu unwaith â hen *feili* yn Abertawe, a gofynodd iddo yn ing ei enaid, "A wyddost ti rywbeth am Iesu Grist." Edrychodd y beili yn hurt arno, gan arwyddo fod yr iaith yn berffaith ddyeithr iddo. Yr oedd "Rotsh," druan, yn barod, weithia, i gymeryd ei arwain a'i ddysgu, pe tarawsai wrth ryw un a allasai wneyd hyny; a chan faint oedd cnofeydd chwerwon ei fynwes, yr oedd ei enaid yn dyhëu am ryw ymwared.

O'r diwedd fe'i cyfarwyddwyd at y Parch. Lewis Rees, yr hwn, bellach, oedd wedi gadael Llanbrynmair, ac yn gweinidogaethu yn y Mynydd-bach, gerllaw cartref Roger. Deallodd Lewis Rees ei gleſyd, cymerodd ef gydag ef i'r ystafell, darllenodd iddo y Beibl, eglurodd iddo drefn cadw pechadur, ac archodd nawdd y nef iddo. Pan oedd Mr. Rees ar weddi, teimlai "Rotsh" ei gadwynau i fesur yn llacio, a'r tân yn ei fynwes yn dechreu dofi. Yr oedd hyn yn ddechreuad dyddiau i "Rotsh." "Yr hen bethau a aethant heibio, a

gwnaethpwyd pob peth yn newydd." Ar yr un pryd yr oedd enogrwydd, ac "ofn drwg," heb ymadael ag ef; ac er ei fod wedi troi ei gefn ar ddinas dystryw, eto "yr oedd y baich oedd ar ei gefn," chwedl Bunyan am y Pererin, "ymron a'i lethu." Unwaith, pan oedd Mr. Rees yn pregethu, dysgleiriodd dros fynydyn ryw oleuni i fynwes y truan, a gwaeddodd ar ganol y bregeth, "Mae yn llawer gwell bod yma heddi, na bod gyda'r *baril* cwrw."

"Taw son, 'Rotsh,'" ebe Mr. Rees, "fy nhro i sŷdd i 'weyd yn awr."

Yr oedd anghysur ei fynwes yn peri i "Rotsh" wibio am ymwared i bob man lle y clywai fod yr efengyl yn cael ei phregethu. Ai weithiau i wrando y Methodistiaid, y rhai oeddynt ar y pryd yn dechreu aflonyddu y wlad, i'r Bath, gerllaw Treforris, yn gystal ag i'r Mynydd-bach; o'r diwedd daeth i Lansamled; ac ymddengys ddarfod iddo fwynhau cymaint o gysuron yr efengyl yn yr oedfaon yn y lle hwn, ag a'i tueddodd i fwrw ei goelbren yn mhlith y bobl a ymgynullent yno. Daeth "Rotsh" yn fuan yn adnabyddus i'r frawdoliaeth fel cristion cywir, ac un a fyddai yn mwynhau mesur helaethach o gysuron yr efengyl na'r cyffredin. Dywedir y byddai yn fynych yn tori allan yn y moddion, pryd y byddai ei ddagrau yn llifo, a'i lais wedi ei berciddio gan rym y teimlad, ac yn peri argyhoeddiad i'r sawl a'i clywai, ei fod yn gwir fwynhau.

Ymddengys fod iddo ddau feistr, Mri. Lot a Martin. Un tro gofynodd Mr. Martin iddo, "Beth sydd arnoch chwi yn y cwrdd? paham, y byddwch chwi, y crefyddwyr, yn gwaeddi ac yn canmawl."

"Ni wn i ddim, Syr, beth fydd ar eraill," atebai "Rotsh," "ond mi wn beth fydd arnaf fi. *Supposwch* fod arnaf fi ddau cant o bunau o ddyled, a fy mod yn myned tuag Abertawe i'r carchar am y ddyled hòno; ond wrth ddrws y carchar, i Mr. Martin gyfarfod â fi, a gofyn paham y carcherid fi; ac wedi deall yr achos, ei fod yn dyweyd, "Chei di ddim myn'd i'r carchar, Rotsh, mi dalaf fi dy ddyled." A welech chwi yn ormod i mi ganmawl Mr. Martin o Abertawe i Dreforris?"

"Na welwn yn siwr 'Rotsh,'" oedd yr ateb.

"Wel," ebe yntau, "mae Mab Duw wedi gwneyd llawer mwy na hyny i fi; y mae wedi prynu mywyd i, ac wedi fy achub i rhag uffern!"

Ni oddef ein terfynau i ni ymhelaethu. Bu "Roger o'r Gadle" yn enwog yn mysg y crefyddwyr fel y buasai gynt yn mysg y campwyr. Bu ei ymroddiad i'w feistr newydd mor ddiamheuol ag a fuasai ei ymroddiad i'r hen. Nid claiar a chanolig a fuasai ei agwedd fel pechadur, ac nid claiar chwaith a fu ei agwedd fel cristion. Ennillodd air da gan bawb a chan y gwirionedd ei hun; cyfarfu â gwahanol amgylchiadau yn ei ddydd, ond ynddynt oll, yr oedd ei gariad at y Gwaredwr, yn ymddysgleirio, a'i ymroddiad i'w wasanaeth yn ddibetrusder.

Ymwelodd yr Arglwydd â Llansamled amryw weithiau ag adfywiadau grymus, trwy y rhai yr ychwanegwyd llawer at rifedi y crefyddwyr o bryd i bryd; ac yn ei mysg rai o'r dynion mwyaf ofer ac anfad a feddai y fro.

Mae coffa neillduol gan yr hen bobl am adfywiad y fl. 1793; blwyddyn o ddiwygiad hyfryd, ac o ychwanegiad mawr. Yn yr adeg yma dygwyd at grefydd amryw o ddynion a fuasent hynod mewn annuwioldeb; dynion yr oedd mor syn eu gweled ymhlith y crefyddwyr ag oedd gweled Saul gynt yn mhlith y proffwydi; dynion hefyd yr oedd y cyfnewidiad arnynt mor fawr, a nodedig, ag i beri argyhoeddiad yn meddyliau eu cydnabod, mai bys Duw a'i gwnaeth. Yn y flwyddyn 1806 bu diwygiad arall. Dechreuasai hwn yn Abertawe, a phrofwyd ef yn arbenig gan yr ieuenctyd yn Llansamled. Cafwyd ymweliadau cyffelyb yn y blynyddau 1816, 1829, ac 1849. Gosodai yr adfywiadau hyn wedd hyfryd ar yr achos, megys gwanwyn siriol ar ol gauaf trwm. Ysgubent ymaith, megys cenlli nerthol, y tramgwyddiadau a barasent flinder blaenorol; fel dwfr newydd a llanw uchel, codent hen lestri i nofio a fuasai yn hir yn gorwedd yn y llaid; llawer telyn a fuasai dros faith amser yngrôg ar yr helyg, a dynid i lawr; a chaethiwed maith a chaled a ddybenai mewn caniadau ymwared.

Dygwyddodd amgylchiad yn yr ardal, tua'r fl. 1810, a barodd gryn arswyd ar lawer o'r ardalwyr; amgylchiad hefyd, a fendithiwyd, yn ddiau, i rai mewn modd effeithiol. Yr amgylchiad oedd ddarfod i felin wynt gerllaw y capel gael ei tharo gan fellten a'i rhoddi ar dân; ac yn y gyflafan ddarfod i rai dynion gael eu llosgi i farwolaeth. Yr oedd y ddamwain ynddi ei hunan yn un arswydus, ond yn fwy felly wrth olygu yr amgylchiadau cysylltiedig. Yr oedd y felin hon yn arfer malu ar y Sabbothau, ac ar y Sabboth y dygwyddodd y ddamwain; yr oedd rhyw nifer wedi ymgasglu ynghyd i'r felin i ddiotta a meddwi; a thra yr oedd yr anwiriaid hyn yn mwynhau y gyfeddach, wele y nef yn hyrddio ei bollt, ac yn gosod y felin yn ddisymwth ar dân, ac yn galw rhai yn ddirybudd, trwy angau poenus, i'r byd tragwyddol.

Disgynodd arswyd ar yr holl gymydogaeth. Credai pawb mai barn Duw ydoedd am halogi y Sabboth; ac yn eu braw dechreuasant ymofyn fel gŵŷr Bethsemes, "Pwy all sefyll o flaen yr Arglwydd Dduw santaidd hwn!" Edrychai y trigolion yn wyllt am le i ddianc, ac, megys yn ddiarwybod iddynt eu hunain, rhedodd lluaws o honynt at y capel. Yr oedd y Parch. Hopkin Bevan yn pregethu yno ar y pryd; ac er mai dychryn a braw a'u gyrasai megys yn ddiamcan yno; eto, gafwyd lle i farnu fod rhai o honynt wedi derbyn bendith gan Dduw, trwy yr amgylchiad, a lynodd wrthynt byth; ac yn eu mysg yr oedd perchenog y felin ei hun.

Mae Methodistiaeth Llansamled yn sefyll yn uchel ac anrhydeddus, nid yn unig ar gyfrif ei hynafiaeth, ond hefyd ar gyfrif amledd yr aelodau, lluosogrwydd y gwrandawyr, a sirioldeb cyffredinol ar yr holl achos.

Treforris. Nid yw Llansamled a Threforris, ond maes-drefi megys, i Abertawe: cyrau ydynt megys o'r dref fawr hono. Yr oedd ymneillduaeth wedi rhoddi ei droed i lawr yn fore yn y Mynydd-bach; ond ymddengys ddarfod i anghydfod gyfodi yn yr eglwys Annibynol yno, ac i ran o'r gynulleidfa gilio, ac adeiladu capel arall yn Nhreforris. Cawsant gan y Parch.

John Davies, Llansamled, un o bregethwyr y Methodistiaid, yr hwn wedi hyny a ymfudodd i'r America, fod yn weinidog iddynt. Ar agoriad y capel yr oedd yn bresenol y Parch. Thomas Gray, Abermeurig ar y pryd, ond gŵr ganedig o'r ardal hon: y gŵr hwn a anogodd y gynulleidfa newydd i ymuno â'r Methodistiaid, gan osod allan iddynt mai mwy manteisiol a fyddai hyny i'r achos, a thebycach o sierhau ei barhad. Gwrandawsant ar y cynghor, ac yn y gymdeithasfa ganlynol a gynaliwyd yn Abertawe, dygasant eu cais yn rheolaidd dan sylw. Yr oedd ychydig o wahaniaeth barn yn mysg y brodyr ynghylch yr ymuniad, rhai o blaid ac eraill yn hytrach yn erbyn. Sieneyn, Penhydd, a ddywedai, "Os ydynt am odro ein gwartheg ni rhaid iddynt ddyfod i'n buarth ni;" gan amneidio, tybygid, os defnyddient ein gweinidogion fod yn rhaid iddynt gymeryd ein dysgyblaeth. Trodd y fantol, pa fodd bynag, i gydsynio â'u cais, trwy waith Mr. Jones, Llangan, yn dyweyd, "Pa beth yn well na'r efengyl a geir iddynt? ac am danaf fi, atynt yr âf fi." I'r un penderfyniad y disgynodd pawb; a phregethodd y Parch. Ebenezer Morris iddynt nos y gymanfa. Ond er yr ymgysylltiad hwn, yr oedd gradd o wedd wahanol ar y gynulleidfa hon i'r Methodistiaid cynhenid, dros ryw dymhor; ond, erbyn hyn, y mae hyny wedi diflanu, a pha un bynag, ai gwell ai gwaeth y cyfrifir y cyfnewidiad, nid oes yn awr nemawr wahaniaeth. Mae yma gynulleidfa lusog, a gwedd siriol a chysurus ar y gwaith.

LLWYN-BRWYDRAU. Gorwedd yr ardal hon rhwng Llansamled a Chastellnedd. Dechreuodd Methodistiaeth yma fel y gwnaeth mewn lluaws o ardaloedd eraill, trwy sefydlu ysgol Sabbothol yn y lle. Yr oedd yn byw yn yr ardal grefyddwr o'r enw John Williams, yr hwn oedd yn aelod yn Nhreforris; hwn a gafodd ar ei feddwl wneuthur cais i ddysgu ei gymydogion diofal yn ngeiriau y ffydd; a chan gyrchu at yr amcan hwn, codai yn fore ar y Sabboth, ac âi o amgylch y gymydogaeth, i wahodd y trigolion i'r ysgol, yr hon a gedwid mewn tai anedd, weithiau hwn, ac weithiau y llall. Wedi rhai blynyddau o lafur yn y ffordd yma, cafodd John Williams gynorthwy rhyw frodyr o Lansamled, yr hyn a roes ysgogiad adnewyddol iddi. Fel hyn cyfranwyd addysg Sabbothol dros flynyddau cyn cael nemawr bregethu i'r ardal; yn raddol llwyddwyd i gael ambell oedfa achlysurol mewn tai anedd; ond yn y fl. 1834 adeiladwyd yma gapel, yr hwn a helaethwyd yn y fl. 1843. Yn awr y mae eglwys wedi ei chorffori, yn cynwys tua 80 o rifedi neu fwy; a chynulleidfa astud, yn cynwys tua 300 o rifedi, yn arfer ymgynull yn gyson i wrando gair yr Arglwydd. Nid oes, tybygid, o leiaf, ni ddaeth i law, ddim amgylchiadau hynod cysylltiedig â'r lle hwn. Cyffelyb ydyw ei hanes i luaws mawr o orsafoedd eraill a ddechreuwyd o fewn y 40 mlynedd diweddaf; ond er na chafwyd gwrthwynebiadau eryfion, na diwygiadau grymus, y cyfryw ag a roddasai arbenigrwydd hanesiaeth ar y lle; eto nid bychan y gwaith a wnaed yma, ac mewn manau eraill cyffelyb. Aeth y gwaith rhagddo yn ddistaw, a dirwysg, tebyg i weithrediad y surdoes yn y blawd; darostyngwyd arferion llygredig, chwalwyd anwybodaeth trwch, ac

ennillwyd serchiadau pechaduriaid at y Gwaredwr. Ymdaenai y goleuni yn fwy graddol fel toriad y wawr, yn hytrach nag fel fflamiad y fellten; bychan fyddai y cyffro, ond daionus fyddai y dylanwad; plenid egwyddorion cryfion yn y galon, heb gymaint o gynhwrf ar y dymher. Felly hefyd y lle hwn. Nid oes hanes am gyffroadau mawrion, trwy erlidigaethau ar y naill law, nag adfywiadau nerthol, ar y llaw arall; ar yr un pryd, hauwyd egwyddorion gwirionedd yn meddyliau eannoedd; dygwyd y gair i gysylltiad â chalonau dynion; y gair y dywedir am dano, na ddychwel at Dduw yn wag, ond y gwna efe yr hyn a fyno, ac y llwydda yn y peth yr anfonir ef o'i blegyd.

PENNOD III.

PREGETHWYR AC EGLWYSI BOREOL Y SIR.

CYNWYSIAD :—

ENWAU HEN BREGETHWYR Y WLAD—EU LLYTHYR AT Y GYMDEITHASFA—PARCH. DAVID WILLIAMS—WILLIAM THOMAS O'R PIL—GEORGE WHITFIELD YN ABERTAWE—HARRIS YN PREGETHU YNO—RICHARD WILLIAM DAFYDD—YMWELIAD IARLLES HUNTINGDON—EFFEITHIAU YR YMRANIAD, A SANDEMANIAETH MR. POPKINS—CAPEL I'R CYMRY—PREGETHWYR A FU, NEU SYDD YN PRESWYLIO YN Y DREF—CAPEL SAESONAEG GAN Y METHODISTIAID YN Y DREF—PEN-CLAWDD.

YCHYDIG sydd genym o hanes pregethwyr cyntaf y Methodistiaid yn y sir hon. Yr ydym wedi cyfeirio eisoes, yn awr ac eilwaith, at lafur Howel Harris, mewn gwahanol fanau yn y wlad. Yr oedd y wlad hon, fel siroedd eraill Cymru, yn mwynhau yn ei chylch, ac yn ol yr alwad a'r cyfleusdra weinidogaeth enwogion gwledydd eraill; megys yr eiddo William a Pheter Williams; Rowlands, Llangeitho; a Howel Davies, sir Benfro. Byddai Dafydd Morris, Twrgwyn; Richard Tibbot, Llanbrynmair; John Harris, Treamlod; a William Lloyd o Henllan; fel cymylau llawn o ddwfr, yn ar llwys eu cynwys bendithfawr ar faesydd Morganwg fel parthau eraill y dywysogaeth. Ond heblaw dyeithriaid a ddeuai o wledydd eraill yn achlysurol, yr oedd yma amryw wŷr o hynodrwydd, y rhai y bu eu llafur yn fendithiol iawn i ddwyn llawer i'r iawn o fagl y diafol; ac yn y canlyniad i chwanegu llawer ar restrau Methodistiaeth yn y wlad.

Mae genym enwau rhai gwŷr, heb fod yn uchel eu talentau fel ag i dynu llawer o sylw y cyhoedd, ond ar yr un pryd, yn ddynion sylweddol, defnyddiol a da, nad oes genym nemawr fwy na'u *henwau*. Mae eu gweithredoedd wedi eu canlyn i'r byd anweledig, fel nad oes berygl iddynt golli eu gwobr yno; eto nid arosodd yma ond prin grybwyllfiad am eu gorchestion, fel ag y mae eu holynwyr mewn perygl o golli dylanwad eu hesampl. Ein colled ni ac nid yr eiddynt hwy ydyw hyn.

Mae ein hanes yn gwta iawn am Richard William Dafydd. Nid oes gen-

ym ond enw George Phillips, Castell-nedd. Nid oes un cofrestriad am lafur Thomas Williams, arolygwr bro Morganwg. Deallwn fod y fath un a John Belcher, ei fod yn bregethwr cymeradwy, ac yn llafurio dros ryw dymhor ar hyd glanau deheuol y sir hon, ond dyma yw y cwbl. Mae genym enwau Thomas Price, William Edward, ac Evan Thomas; oll yn bregethwyr neu yn gynghorwyr, gyda'r Methodistiaid boreol, ac yn cyd-lafurio gyda Howel Harris; ond nid ydym hyd yma yn gallu casglu dim o'u hanes; a drwg iawn genym hyn, gan eu bod hwy yn llafurio mewn amser, a than amgylchiadau, a roddasai yn ddilai ddyddordeb mawr i'r darllenydd eu gwybod.

Parch. David Williams.

Ni a grybwyllasom am y gŵr hwn o'r blaen,* ac addawsom alw sylw at ei hanes drachefn. Nid yw yr hysbysiad sydd genym, pa fodd bynag, ond prin; ac mewn rhyw bethau lled ansicr. Barna rhai, mai gŵr ydoedd o sir Aberteifi, ac yr oedd yno ŵr o'r un enw yn bregethwr cymeradwy a defnyddiol, ac nid oes eithaf sicrwydd na fu y David Williams hwn yno dros ryw cnyd, ac mai oddiyno y daeth i fro Morganwg, ar anogaeth y Parch. Daniel Rowlands. Ond er hyn ymddengys mai brodor o blwyf Llandyfaelog, yn sir Gaerfyrddin ydoedd, a brawd i Richard William Dafydd, am yr hwn y sonir dan hanes Abertawe.

Yr oedd yn agos o'r un oed a Rowlands a Harris, ac a ddechreuodd bregethu tua'r fl. 1742 neu gynt; a pharhaodd i bregethu am ysbaid 50 o flynyddau; bu farw yn fl. 1792, yn 75 ml. oed. Yn mlynyddau cyntaf ei weinidogaeth efe a deithiai lawer, dros wahanol barthau y dywysogaeth. Dyn mwynaidd ei dymher a gwlithog ei weinidogaeth ydoedd. Yn y fl. 1743, gosodwyd ef yn arolygwr ar amryw eglwysi yn sir Aberteifi, ac oddiar ryw nodiadau, yn ysgrifion Trefecca, yr ydym yn cael lle i feddwl, ddarfod iddo aros yno flwyddyn neu ddwy; ac wedi hyny ddarfod ei anfon i Wynedd. Fel hyn, wedi bod yn teithio llawer, ac yn dyoddef llawer o erlid, gwarth a chaledi, ddarfod iddo briodi un Miss Pritchard o Tal-y-garn, ac ymsefydlu yn Llys-y-fronydd. Yma hefyd yr ordeiniwyd ef yn ol dull yr Annibynwyr, modd y gallai ddiwallu, i fesur, y diffyg a deimlid yn y wlad hon, o weinyddiad y sacramentau yn mysg y Methodistiaid. Yr oedd hyn cyn dyfodiad Davies i Castell-nedd, a Jones i Langan. Adeiladwyd capel yr Aberthyn, gerllaw y Bontfaen, tua'r fl. 1749; y capel cyntaf gan y Methodistiaid, mae yn debyg yn y sir. Yn y capel hwn gweinyddai swper yr Arglwydd yn fisol; ac ar yr achlysuron hyny, ymgynullai ato luaws o grefyddwyr o'r broydd o amgylch. Ond er ei fod wedi derbyn ordeiniad ymneillduol, ac yn gweinyddu swper yr Arglwydd fel yr ymneillduwyr; eto, gyda'r Methodistiaid y llafuriai; ymgymysgai â hwynt yn eu cyfarfodydd misol a chartrefol; a theithiai ar hyd

* Cyf. I., tudal. 487; hefyd, Cyf. II., tudal. 28.

Gymru, mewn mesur mwy neu lai, fel ei frodyr eraill. Parhaodd, er hyny, i weinidogaethu yn Aberthyn hyd ei farwolaeth. Dywedir ei fod wedi "dysgu ffordd Duw yn fanylach" i Mr. Jones, pan ddaeth gyntaf i Langan. Ymdrechodd ymdrech deg, ac er i Sabeliaeth ac ymrafaelion godi yn Aberthyn, yn mlynyddau olaf ei weinidogaeth, eto nid oes lle i feddwl, fod ei syniadau ef ei hun wedi cynyrchu yr heresi hòno yn neb; na'i ysbryd ef ei hun wedi achlysuro yr anghysuron a ganlynodd; yn hytrach, dywedir fod ei enaid cyfiawn yn poeni o'u plegyd, a'u fod wedi gwneyd a allai i'w gwrthdaro.

Ymddengys fod gradd o anesmwythder wedi codi yn meddyliau amryw o hen bregethwyr boreaf y wlad hon yn nghylch y lle a roddid iddynt hwy yn y cyfundeb. Yr oedd rhai o'r pregethwyr yn meddu ar gryn gymhwysderau a doniau, ond heb urddau esgobawl; a chan eu bod yn pregethu yn mysg y Methodistiaid, ac heb gael manteision athrofaol a ystyrid yn gymhwys, nid oedd fawr obaith iddynt gyrhaedd un sefyllfa uwch na bod yn gynorthwywyr i'r offeiriaid; gan fod eu cysylltiad â'r Methodistiaid yn ddigon o wrthddadl gyda'r esgobion i nacâu ordeiniad iddynt. Bu eu sefyllfa yn destyn cwyn ganddynt yn fynych, ond nid oedd dim golwg ar wellhad, ac yn y fl. 1745, anfonodd nifer o honynt lythyr i'r gymdeithasfa, yn cynwys yr un gwyn mewn dull mwy unedig a chryf. Mae yr ysgrif yn hen, ac yn ddrych o syniadau y dynion mwyaf galluog a meddylgar yn mysg y Methodistiaid yn y tymhor bore hwnw; ac er na chaed diwygiad yn yr achos yr achwynid o'i blegid, am 65 mlynedd ar ol hyny; eto, gwelir fod y lefain y pryd hwnw yn dechreu gweithio; ac ni pheidiodd chwaith a gweithio nes iddo lefeinio yr holl does.

Rhag cymeryd gormod o le, ni a roddwn y llythyr isod,* yn gymhwys fel

* *At yr Anwyl Frodyr yn gyffredinol, a'r Gweinidogion yn neillduol, cynnull-edig yn Nghaio, anfon annerch.*

Gras fyddo gyda chwi oll Amen. Yr ydym yn credu am danoch mai rhai ydych sydd anwyl gân Dduw, a bod Duw yn anwyl gennych chwithau, a'ch bod mewn modd neillduol wedi cael eich galw gan Dduw i waith y weinidogaeth, a bod achos Duw yn agos atoch, ac yn pwyso ar eich ysbrydoedd; a'ch bod wedi cael adnabyddiaeth helaeth o'i ewyllys, ac o herwydd hyny angenrhaid a osodwyd arnom i ddanfon atoch fel y rhai a dderbyniodd y gras o gydymdeimlad â ni, ac amryw eraill sydd yr amser hwn mewn llawer o gaethiwed, o herwydd yr annhrefn sydd yn ein plith. Mae ein cydwybodau wedi eu rhwymo gan air Duw, fel na's gallwn barhau fel hyn allan o drefn Duw. Canys gweled yr ydym fod Duw wedi gosod trefn yn ei eglwys, er y dechreuad, yr hon sydd i barhau hyd y diwedd. Ni a dybygem mai eich dyledswydd chwi yw cydymdeimlo â ni yn yr achos mawr hwn; canys chwi a fuoch yn annogaeth i ni i fyned dros Dduw allan o drefn; ac er dim a wyddom ni fe'n llwyddodd Duw ni mewn mesur; ac a fydd i chwi, fel goruchwylwyr da yn nhŷ Dduw, ymegnio i ddwyn y gwaith mawr hwn yn y blaen i drefn? Mae yn anhebygol iawn i un corff o bobl crioed barhau fel hyn dros ei holl amser. Yr ym ni yn dysgwyl am gael eich meddyliau chwi yn yr achos hwn, yn agos er ys dwy flynedd, ac nid ŷm ni yn gweled dim argoel eich bod wedi pwyso y mater hwn fel y dylasai gael; ond yr ym yn ofni fod gormod o ragfarnau yn eich dygiad i fyny ynglŷn wrthych. Ein meddwl yw eich bod yn ormod ynglŷn wrth yr eglwys sefydledig. Yr ydym yn gweled pe bae chwi yn cael eich ordeinio yn eglwys Loegr, fel ag yr ydych yn dysgwyl, na byddai hyny ddim yn ddigon i wneuthur yn esmwyth amrywiol o frodyr a chwiorydd yn y wlad; canys

ysgrifenwyd ef; wrth yr hwn y gwel y darllenydd eginyn yr anesmwythder, a dyfodd ar ol hyny i gwbl aeddfedrwydd; twrf egwan yn mhell a gynyddodd i fod yn daran gref. Fe allai, ar y pryd, mai llawn cystal oedd i bethau aros yn y wedd gyntefig oedd arnynt, ond da, er hyny, a fuasai gwylio yn yr amser priodol i wneuthur y cyfnewidiad. Dichon fod llawn ddigon o brysurdeb yn y cynghorwyr a gyflwynent yr achwyniad yn y llythyr isod, ac nid oes amheuaeth nad oedd gormod o ymlyniad wrth hen drefniadau eglwysaidd yn

---

eisiau sydd arnynt gael rhai i weinidogaethu y gair a'r ordinhadau iddynt yn ei bryd; ac i edrych drostynt fel bugail dros y praidd, ac y byddai raid i ni gael ein hatal, neu fod fel ag yr ydym, yr hyn beth ni's gallwn feddwl ar ei wneuthur. Yr ydym wedi rhoddi ein hachos yn llaw Duw, gan obeithio os na fydd i chwi dosturio wrthym, y bydd i Dduw agor ffordd i ni gael gwell trefn. O frodyr, y mae yn dost genym glywed nad oes genych ddim rhyddid i ni gyngori o herwydd nad ydym wedi cin hordeinio, ac nad ydych gan belled ag y gallwn ni weled, yn gofalu pa un a gaffom ni ein hordeinio ai peidio. Os na fydd i chwi gydymdeimlo â ni yr ydym yn gweled fod galwad i ni droi cin golygon rywffordd arall; a Duw fyddo yn gyfarwyddwr i ni. Yr ydym yn cyfaddef mai eich llafur chwi ydym, ac y mae yn dost genym orfod ymadael â chwi, a rhoi lle i craill, ddyfod i mewn i'ch llafur chwi; eto yr ydym yn rhwym i dori trwy bob anhawsdra, er mwyn enw yr Arglwydd Iesu a chydwybod dda. Ac nid ydym yn gwneuthur hyn mewn byrbwyllidra, ond gan ei ystyried yn ddwys ac yn ddifrifol;—ac fel y mae yn cael ei ystyried, y mae yn dyfod yn nes attom, fel ag y mae yn anhawdd ei ddyoddef. Un achos pa ham y mae cin cydwybodau mor gaethiwus yw, o herwydd fod trefn o arddodiad dwylaw yn cael ei arfer yr amser gynt (sef amser yr apostolion) ar bob math ag oedd yn gweinidogaethu y gair: nid yn unig yr esgobion, a'r henuriaid, ond hefyd y diaconiaid, fel y gellwch weled yn Act. vi. 6.—"Y rhai a osodasant hwy ger bron yr apostolion, ac wedi iddynt weddio, hwy a ddodasant eu dwylaw arnynt hwy." Wedi hyn yr ydym yn cael hanes am y fath effaith ragorol a ganlynodd, fel y gellwch weled yn y wers ganlynol. Mae yn debygol fod y rhai hyn, fel ninau, wedi bod lawer gwaith yn llafaru, a bod Duw yn eu llwyddo; eto fe allai nad oedd gan yr esgobion a'r henuriaid hollol ryddid iddynt, mwy nag sydd genych chwi yr offeiriaid atom ni yn bresenol; am hyny ni a ddymunem arnoch wneuthur o honoch yr un peth; ac wrth wneuthur felly, ni ellwch dramgwyddo neb dynion a gymmero air Duw fel rheol benaf i rodio wrthi; ac ni a allwn ddysgwyl yr un effeithiau, sef chwanegu at eu rhifedi, a bod yn gadernid i'r sawl sydd eisioes wedi en galw. Ni a ddymunem na bo i'r brodyr ddim edrych arnom fel pobl wedi cwympo i glaearwch, o herwydd ein bod fel hyn yn danfon cin meddylian atoch, na'n bod yn dysgwyl am gael enwau mawrion yma; nage, canys os rhoddwch chwi le yn eich rheswm, nid ydym yn aetio yn y cyfryw fodd. O herwydd hyn, ni allasem fyned ymaith yn ddystaw, ac felly cael cin hordeinio, a chymeryd cynulleidfaoedd dan cin golygiad. Nage, frodyr; yr ydym yn foddlawn i gydlafurio gyda chwi, fel yr ydym hyd eto, ac i gymeryd cin llywodraetha genych chwi fel o'r blaen, "eto yn yr Arglwydd," ac yn ol ei air. Yr ydym wedi bod yn ecisio dodi cin hachosion o'ch blaen chwi er ys talm o amser, ond ni chawsom ryddid i wneuthur felly. Duw a dosturio wrthym, mewn amser o gyfyngdra, pan y mae cin tadau y'Nghrist, a'n brodyr yn yr Arglwydd, yn cin gadael yn ymddifaid.

Hyn yn bresenol oddiwrth eich caredicaf frodyr,

THOMAS PRICE.
WILLIAM EDWARD.
THOMAS WILLIAM.
JOHN BELCHER.
EVAN THOMAS.

Eglwys Llan, Mawrth 30, 1745.

y rhai yr achwynid wrthynt, fel ag i fod yn rhy fyddar i achwyniadau teg a chymhwys. Nid oes genym, pa fodd bynag, un hysbysiad pa fodd y dybenodd yr anesmwythder; ein dychymyg ydyw ddarfod i'r rhai mwyaf galluog o'r achwynwyr, gan mai arnynt y disgynai grym y demtasiwn, gilio oddiwrth y Methodistiaid, a llafurio o hyny allan yn ddigel dan faner ymneillduaeth.

Mae awdwr "Drych yr amseroedd" yn crybwyll am dro a gyfarfu a David Williams, pan ar ei daith yn Ngwynedd, pan yr amcanai bregethu yn Nghaergwrle, yn sir Fflint. "Cyhoeddwyd," meddai, "Mr. David Williams, o'r Deheudir, i bregethu ryw noswaith mewn tŷ bychan. Daeth yno yn lled gynar; ond yn mîn y nos, dyma ryw ferch yn rhuthro i'r tŷ, a'r newydd oedd ganddi, pan y cafodd ei gwynt i allu siarad, oedd, fod llu o erlidwyr yn dyfod ar ben y tŷ. Yna cododd gŵr y tŷ i fyny, a chlodd y drws. Erbyn hyny, dyma'r dyrfa afreolus wedi dyfod, yn tyngu, rhegi, a diawlio, gan ddyweyd yn haerllug y byddai raid i ŵr y tŷ ŷru y pregethwr allan atynt; ond ni fynai yntau er dim gydsynio i wneyd hyny. Acthant hwythau yn fwyfwy afreolus, gan dyngu i'r dystryw mawr, oni chaent y pregethwr allan y tynent y tŷ i lawr am eu penau. Rhedodd rhai o honynt i chwilio am drosolion; ond cyn iddynt wneuthur nemawr o niwaid, dymunodd y pregethwr gael myned allan, gan ddywedyd, 'Gollyngwch fi: rhaid i mi gael myned.' Yna agorwyd y drws, ac yntau a aeth allan i ganol y dorf, ac a ymddyddanodd â hwynt yn debyg i hyn: 'Yn enw y 'Gŵr gorau,' beth sydd a fynoch â dyn dyeithr ar ei daith? Pa enw neu anrhydedd a fyddai i chwi pe baech yn fy lladd?' Dygwyddodd fod yn eu mysg ryw ddyn eryfach na chyffredin. Safodd hwnw i fyny yn eu canol, gan waeddi allan, â llonaid ei safn o lwon, 'Onid dyn iawn yw hwn! mynaf chwaren teg iddo er gwaethaf pawb.' Gwelodd Mr. David Williams fod y drws wedi ei agor iddo, megys yn wyrthiol, i gael pregethu; cafodd le i sefyll yn ochr y ffordd, a phregethodd gyda llawer o hyfrydwch wrth oleuni lloer; a diau na fu 'Haul Cyfiawnder' yn gwbl absenol. Bu pawb mor ddystaw a chŵn yr Aipht, ac ymadawsant yn heddychol."

Mae bywgraffydd Jones, Llangan,* yn chwanegu ychydig at yr hyn a ddywedir uchod gan Robert Jones, sef, "Fod yr erlidwyr wedi ymaflyd yn y pregethwr, gan ei arwain tua rhyw lŷn, ar fedr ei foddi. Ar hyn, fod y pregethwr wedi gwaeddi allan, 'Bydd yn warth tragwyddol i bobl Caergwrle, ddarfod iddynt foddi hen bregethwr penllwyd, a deithiai o'r Deheudir i gyhoeddi iachawdwriaeth iddynt.' Ac ar ei waith yn apelio atynt yn y modd yma, y neidiodd ei amddiffynydd difoes i gyfryngu rhyngddo â'r garw." Ymddengys fod hyn wedi cymeryd lle wedi i ben y pregethwr fritho gan henaint.

Daeth David Williams i fro Morganwg pan yn ieuanc, i fod yn was i Mr. Bassett, o Aberddawc, yr hwn oedd ŵr enwog mewn crefydd; a bernir mai yn y tymhor hwn y dechreuodd bregethu. Bu farw un Mr. Jay,

* Parch. Edward Morgan, M.A., Syston.

o'r Roose, ac ar ol ei farwolaeth, dywedir fod Mr. Bassett wedi gwneyd cymwynas â'r weddw, trwy ganiatâu iddi gael ei was yn oruchwyliwr ar ei thyddyn. Dywedir hefyd y byddai Mr. Bassett ei hun yn edrych ar ol tyddyn ac achosion Mrs. Jay, yn awr ac eilwaith, er mwyn rhwyddhau y ffordd i David Williams fyned i'r Gogledd i bregethu. Arferid hefyd wneuthur casgliad iddo cyn ei gychwyn tuag at dalu ei draul, ac y talai Mrs. Jay ei gyflog iddo yn llawn, er y bylchiad a wneid fel hyn yn ei wasanaeth iddi hi. Yn y modd yma y rhoddai y crefyddwyr aiddgar y tymhor hwnw, o bob gradd, eu gwddf yn ngwasanaeth eu Harglwydd; gan gyfrif mai braint oedd cael gwneuthur unrhyw beth a allent i rwyddhau ymeangiad teyrnas yr Iesu.

William Thomas, o'r Pil.

Yr oedd y gŵr hwn yn un o flaenion Methodistiaeth sir Forganwg, o ran tymhor ei oes, ac o ran gloywder ei ras. Yr oedd "fy ewythr William, o'r Tŷ-draw," yn enw a adwaenid gan yr holl wlad, ac a berchid gan bob gradd. Ganwyd ef yn y fl. 1723, felly yr oedd, o leiaf, yn 12 ml. oed pan y dechreuodd Howel Harris gynghori ei gymydogion gyntaf. Yr ydym eisoes wedi dyweyd mai brodor o blwyf Margam ydoedd, ac mai yn y Dyffryn-ucha', yn y plwyf hwnw, y cafodd ei eni. Felly cododd, o'r un plwyf, ddau o wŷr cyffelyb i'w gilydd o ran hynodrwydd, ond tra gwahanol i'w gilydd o ran natur, ac elfenau eu ansawdd eu tymherau; sef, Siencyn Thomas, Penhydd, a William Thomas, o'r Dyffryn. Dygwyd yr olaf dan argraffiadau crefyddol pan yn 16 ml. oed, wrth wrando Howel Harris, fe allai y tro cyntaf y bu y dyn hynod hwnw yn ysgythru coedwigoedd Morganwg. Yr oedd hyn yn y fl. 1739, ond bu y llencyn am ysbaid pedair mlynedd wedi hyn cyn iddo fwrw gofal ei enaid yn llwyr i ddwylaw Ceidwad pechaduriaid. Dygwyd ef i wneuthur hyn, trwy wrando pregeth mewn lle a elwir Chwarelau-calch, yn agos i Gastell-nedd.

Wedi i William briodi, bu fyw dros ychydig yn y Dyffryn-ucha', ac yn mhen enyd, symudodd i dyddyn yn ymyl hen gapel y Dyffryn, ar yr hwn y cymerasai *lease* dros ei fywyd. Yr oedd chwedl yn y fro, fod y tŷ yr oedd William Thomas yn symud iddo i fyw, yn cael ei flino gan ryw ddrwg ysbryd. Dywedid y byddai yr ysbryd blin hwn, weithiau, yn cymeryd Beibl gŵr y tŷ, ac yn ei ysgwyd uwch ben y tân, a William yn ei herio, ac yn dyweyd, "Llosg ef, gythraul, os beiddi." Ond methodd, meddent hwy, a llosgi y Beibl. Honid mai cam weinyddiad ar ddillad rhyw forwyn a fuasai yn y teulu, ond yr hon a ymadawsai â'r byd, oedd yr achos o'r aflonyddwch hwn; a rhy anhawdd, tybygid, oedd cael gan neb i gredu llai nad ystranciau yr ysbryd aflan mewn gwirionedd oedd y cwbl. Ac, medd y traddodiad, fod William Thomas wedi gofyn yn enw y Mawredd, beth oedd achos o'r aflonyddwch, a'i fod wedi cael atebiad, mai attal y dillad oddiwrth Sara oedd yr achos. Ar hyn, iddo yntau ddyweyd, "Fe gaiff Sara y dillad," ac i'r aflonyddwch ddarfod o hyny allan.

Yn y fl. 1760, symudodd i'r Pîl, i dyddyn a elwid y Tŷ-draw, ac yma y preswyliodd hyd ddydd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le yn y fl. 1811, pan ydoedd yn 88 ml. oed. Efe, ar ei ymsefydliad yn yr ardal hon, a osododd sail yr adeiladaeth grefyddol yn y lle. Efe a gynaliodd yr achos â'i feddiannau, ac a'i gwlychodd â'i weddiau. Ymroddodd hefyd i fyned o amgylch y gymydogaeth i gynghori, yn enwedig i dai y tlodion. Mynych iawn hefyd, pan fyddai preswylydd y tŷ yn dlawd iawn, y rhoddai swllt neu ddau i'r teulu cyn ymadael. Yr oedd ei wraig yr un mor haelfrydig ei naws ag yntau. Fe ddaeth "bendith llawer ar ddarfod am danynt arni, gwnaeth i galon y wraig weddw lawenychu." Mewn gair, "tad a mam oeddynt i'r ymddifaid, a'r cŵyn ni wyddent a chwilient allan." Meddai y bardd am danynt :—

"Cegin, parlwr, cell, a 'sgubor,
Oedd yn rhydd at achos Duw ;
'Stafell, gwely, bwrdd, canwyllbren,
Pob peth arall yn ei ryw:
Arian, aur, pan fyddai galwad,
Gwair a cheirch, a phorfa fras ;
Eto'r blawd oedd yn y celwrn,
A'r olew byth yn cadw ei flas.

"Bendigedig fyddo'r anwyl," meddai rhyw hen bagan oedd yn byw gerllaw, "y mae yn rhyfedd genyf, rhwng y gŵr a'r wraig, na byddai y Tŷ-draw wedi sychu o'r diwedd!" Ond chwanegu yr oedd y da po fwyaf a wasgerid arno. A pho fwyaf y cynyddai golud y teulu hwn, lleiaf oll y rhoddid y galon arno. Cafwyd ynddynt hwy wrthddrychau cymhwys i roddi golud iddynt ; a chawsant hwythau amcan teilwng i gyfranu tuag ato.

Dechreuodd Methodistiaeth ymwreiddio ac ymeangu yn y fro, trwy fendith y nef ar lafur y teulu hwn. Chwyddai y cynulleidfaoedd nes gorlenwi y tai, a theimlid yr angen am addoldŷ ; ond nid oedd gobaith am dir gan faint y rhagfarn yn erbyn ymneillduaeth. Ond y rhwystr hwn hefyd a symudwyd, trwy i dai a thir ddod yn fuan ar werth. Prynodd W. Thomas y rhai hyn ; adeiladwyd capel ; adeiladodd hefyd dri o dai, y rhai a roddodd yn ei ewyllys at gynaliad yr achos yn y lle.

Nid oes llawer yn cael ei ddyweyd am bregethau y cynghorwr hwn. Sonir mwy am gallineb a sylweddolrwydd ei ymadroddion yn y cyfarfodydd eglwysig, ac am daerni a difrifwch ei weddiau gyda Duw, nag am un enwogrwydd neillduol yn ei bregethau. Gan ei fod ymhlith y rhai boreaf o'r pregethwyr yn y wlad hon, nid rhyfedd fydd gan y darllenydd glywed ei fod yntau wedi profi chwerwder erlidigaeth. Cafodd ei luchio âg wyau gorllyd, pan yn pregethu yn St. Bride's, yn agos i Ben-y-bont, nes oedd yn chwith a brwnt yr olwg arno. Achwynir ar yr offeiriaid fel cymhellwyr y bobl at y gorchwyl gorwael ; ond er y ffyrnigrwydd a ddangosid yn ei erbyn, parhaodd i draethu ei genadwri yn gadarn a ffyddlawn drwy y cwbl ; a chafwyd ar-

wyddion tra amlwg cyn diwedd, fod y gwaith wrth fodd Duw, trwy fod rhai yn y gynulleidfa yn cael eu dychwelyd; ond barn, meddant, a oddiweddodd y prif erlidiwr, a phrysurwyd ef o'r byd mewn un noswaith.

Ond fel *gweddiwr* y rhagorai William Thomas. Bernid nad oedd un tŷ yn Nghymru a mwy o weddio ynddo na'r Tŷ-draw. Yr oedd ei dŷ yn sefyll gerllaw y ffordd o Abertawe i Gaerdydd, a llawer a elent heibio a safent gan lef ei weddiau fore a hwyr. Weithiau byddai llonaid y buarth o ddynion yn gwrando, cyn y byddai y weddi deuluaidd drosodd. Enwai drigolion ei fro weithiau yn ei weddi, eiriolai gyda Duw ar iddo arbed y rhai drygionus, a'u dychwelyd. Tywalltai ei enaid o flaen yr orsedd wrth geisio heddwch a llwyddiant Jerusalem. Mewn gair, tywysog Duw y cyfrifid ei fod ymhlith y bobl, a chredent nad oedd ei gyffelyb ar y ddaear. Bu farw, dan ddyweyd, "Nid oes dim damnedigaeth i'r rhai sydd yn Nghrist Iesu."

Mae eglwys y Methodistiaid yn y Pîl wedi ei hynodi yn mhlith eglwysi y wlad hon. Saif yn uchel o ran hynafiaeth, a saif yn uwch o ran teilyngdod personau cysylltiedig â hi, ac o ran y bri a osodai Pen yr eglwys arni mewn adfywiadau grymus, a phurdeb dysgyblaeth. Tua'r fl. 1798 bu yma adfywiad hyfryd, pryd yr ymunodd â'r eglwys amryw o wŷr a fu ar ol hyny yn wasanaethgar iawn i'r achos; ac yn eu rhodiad yn addurn i'w proffes. Coffêir gyda gradd neillduol o barch, enwau rhai o honynt, megys Mr. Edward Lovelock, Mr. Edward Roberts, yr hwn, ar ol hyn, a fu yn henadur yn y Dyffryn; Mrs. Llywelyn, a Mr. David Nichols. Dylasid crybwyll hefyd fod mab William Thomas, sef Mr. Joseph Thomas, o'r Tŷ-draw, wedi gwasanaethu y swydd henadur dros flynyddau; ac ennill iddo ei hun radd dda a pharch diffuant trwy hyny. Ar ei farwolaeth ef y dewiswyd Mr. D. Nichols i gyd-flaenori a'r henafgwr hawddgar Mr. William Rees, o'r Bryndu. Mae y ddau hyn, bellach, wedi gorphen ei gyrfa, nid ymhell oddiwrth yr un amser, sef yn y fl. 1838.

Mae cyfarfod misol y sir hon yn cael ei gynal yn y Pîl, yn gyntaf un yn mhob blwyddyn. Gwnaed hyny gan y brodyr er dyddiau Mr. Jones, Llangan; ar gais, ac o barch i, William Thomas; ac am ddim a wyddom i'r gwrthwyneb, y mae yr un drefn yn aros hyd heddyw. Mae cynulleidfa dda yn arfer addoli yn y lle hwn, ac effaith llafur a haelfrydedd yr hen gynghorwr cyntaf, yn cael ei brofi hyd y dydd hwn. Ac, ar lawer cyfrif, nid rhyfedd genym hyn. Cafodd oes hir, a hòno yn llewyrchus mewn gweddiau, cyngorion, a chyfraniadau.

Y mae'n góf gan rai o'r brodyr,
Ei dystiolaeth felus glyd,
Ar ddydd Calan yn Gyrneli,
Lle 'roedd amryw 'n cwrdd ynghyd;
'Deuddeg mlynedd lawn a thrugain,
Ge's yngwinllan Brenin ne',
Pe cawn ddeuddeg mil yn rhagor,
Ni newidiwn ddim o'm lle.

Yr oedd William Thomas wedi gwrando llawer ar Howel Harris, ac yn llochi parch anarferol iddo. Bu y Parch. Hopkin Bevan yn ymddyddan am dano amryw weithiau â William Thomas, a byddai yr hen ŵr yn adfywio wrth grybwyll ei enw, ac wrth son am yr awdurdod a berthynai i'w weinidogaeth. Ar y cyfryw achlysuron, parai cyffro ei feddwl ystumiad neillduol ar ei gorph; a chan ymysgwyddo, dywedai, "Yr ydwyf yn teimlo effeithiau yr awdurdod, a nerth ei lais ef, yn fy esgyrn yn y fan yma yn awr!"

Hyfryd ydyw arhôi gyda hanes gŵr o gymeriad William Thomas. Anurddir ambell hen bregethwr gan ryw eiddigedd ffol, os nad cenfigen cas, pan y canfyddo pregethwr ieuanc yn argoeli fod ganddo radd o dalent a medrusrwydd; a phan y bydd y gwrandawiad iddo yn cynyddu yn y cynulleidfaoedd. Yn lle llawenhau yn yr arwydd a roddir o waith yr Ysbryd yn cymhwyso offerynau, a'r sail a geir trwy hyny i ddysgwyl llwyddiant ar y gwaith mewn amser dyfodol, ymddigiant, a chwerwant gan y perygl sydd y collant y flaenoriaeth, ac y bydd eu derbyniad hwy yn llai arbenig; ond nid un o'r tylwyth yma oedd William Thomas. Gwrandawai ar ei frodyr yn pregethu gan weddio yn ddyfal drostynt; yr oedd ei olwg a'i ystum yn gwrando yn profi ei fod mewn ymdrech gyda Duw drostynt. Ni ofalai ef gymaint pwy fyddai'r offeryn, ond iddo gael arwyddion fod Duw yn gweithio drwyddo, a'r gwaith yn myned rhagddo. Un tro, daeth gŵr ieuanc o sir Gaerfyrddin ar ei daith drwy y wlad i'r Pîl i bregethu, a chafodd oedfa lled lewyrchus. Cysgai y noson hono yn y Tŷ-draw, trigle William Thomas. Wedi llawer o ymddyddan rhyngddynt ciliai pob un i'w orphwysfa; ac yn mhen enyd clybu y pregethwr ieuanc ryw drydar am y pared âg ef; cyffrodd ei sylw, a cheisiodd ymwrando; a pha beth a glywai ond yr hen batriarch yn ymbil â Duw am lwyddiant i'r brawd ar ei daith, gan erchi yn daer ar i'r Arglwydd ei gadw yn ddigwymp, a'i fendithio i ennill eneidiau. Cysgodd y pregethwr; ac ymhen rhyw amser deffrodd drachefn, a chlywai yr hen ŵr wrth yr un gorchwyl, yn ymdrechu am yr un peth. Effeithiodd hyn yn fawr ar feddwl y gŵr ieuanc, a pharodd iddo dan deimladau dwysion gyfarch yr un orsedd am yr un pethau. Y pregethwr ieuanc hwn oedd John Williams, Meidrim, y pryd hwnw, ac Abertawe, drachefn.

Crybwyllasom fod William Thomas yn ŵr hael ei naws, ac y mae yn anhawdd dywedyd gormod am dano yn y ffordd hono. Yr oedd ef a'r wraig yn ofalus a chynil; ïe, tybiai rhai, yn grintachlyd yn eu cysuron eu hunain, ond yn ddiarebol eu haelioni tuag at eraill. Casglai y wraig, meddir, oddiar y perthi y gwlân a gollai y defaid, a'r plyf a gollai y gwyddau; a phan y gofynid iddi, paham yr ydoedd mor ofalus, a hithau heb fod mewn angen; ei hateb fyddai, "fel y gallwyf roddi ychwaneg i'r hwn y mae angen arno." Ac nid proffes hunanol a gwag oedd hon ynddi hi a'i gŵr; ond fel hyn yr oedd mewn gweithred a gwirionedd. Gofalent am dlodion y plwyf fel am eu plant. Aent i'w tai i ymofyn a fyddai ganddynt fwyd, a glô, ar dywydd garw, ac â llaw haelionus y diwallent eu heisiau. Afreidiol ydyw ychwanegu

mai nid llai hael a charedig a fyddent at y rhai fyddent o deulu y ffydd.

Effeithiai oedfaon dilewyrch yn ddwys ar ei feddwl. Yr oedd unwaith ar daith trwy ranau o'r dywysogaeth a Thomas Dafydd, Llangrallo, yn gyfaill iddo. Ar ddechreuad y daith yr oedd yn cael oedfaon sychion a dilewyrch iawn, o leiaf i'w deimladau ef ei hun. Parai hyn gan faint ei ofid na allai gysgu y nos. Yn y cyfamser hefyd beiai yn drwm ar ei gyfaill ei fod ef yn medru cysgu. Deffrodd ef un noswaith, gan ddywedyd, "Thomas, ai cysgu 'rwyt ti, a minau yn ymladd â chythreuliaid?"

"Ië," atebai Thomas, "cysgu yr wyf fi, ac yn y nos cysgu a ddylwn i, greda i; pa'm na chysgech chwithau yr hen greadur deddfol. Pregethwch Grist i'r bobl, ddyn, ac nid deddf. Beth dâl deddf i bobl dan ddedfryd marw? Bywyd yn gyntaf, a deddf wedy'n."

Tranoeth, newidiodd yr hen bregethwr ei ddull, a chyhoeddodd Iesu Grist yn Geidwad i'r penaf o bechaduriaid. Mwynhaodd yntau hwyl a rhwyddineb wrth draethu, a dychwelodd ei gwsg iddo hefyd.

Fel llawer o'r hen bobl a ddibynent lawer iawn ar y cymhorth a roddid iddynt ar y pryd, heb nemawr o ragbarotoad, yr oedd William Thomas yn amrywio cryn lawer yn ei bregethau: weithiau hi fyddai yn wael iawn, a phryd arall yn wych iawn; ac yn cyfateb i'r oedfaon y byddai ei deimladau yntau yn y canlyniad. Un tro ar ei ddychweliad adref, wedi bod yn pregethu yn ei ardal ei hun, a llewyrch dysglaer wedi ei gael, dywedai un Siams Griffiths wrtho, "Ni a gawsom oedfa dda heno, William Thomas?" "Do," atebai yntau yn llawn o sirioldeb a serchogrwydd, "do, fachgen, ni a darawsom ar y wythïen heno, lle y mae y golud mawr i'w gael—nid oes fodd iddi hi fethu y ffordd yna."

Hynod oedd ei ddefnyddioldeb yn y cyfarfodydd eglwysig. Gallai fod ei gymhwysder yn fwy at adeiladu a chyfarwyddo yr eglwys, nag at gyfarch cynulleidfaoedd cymysg. Yn y gymdeithas eglwysig yr oedd megys yn ei gartref, a chyda phrofiadau ysbrydol yr oedd ef ei hun yn gyfarwydd iawn, ac yn abl dysgu rhai eraill. Rhoddai fwyd i'r teulu yn ei bryd, ac mewn cymhwysder. I'r hen ac i'r ieuanc eu dogn priodol. Mawr y lles a wnaeth yn y ffordd yma, a chofiai ei gyd-oeswyr gyda llawer o ddiolchgarwch am ei gynghorion a'i weddiau. Ond, y mae yntau er ys oes bellach wedi disgyn i gynulleidfa y meirw. Do! casglwyd yntau at ei bobl. Mae ei weithredoedd wedi ei g.alyn mewn ffordd o wobr iddo ei hun, ond wedi aros ar ei ol o ran eu defnyddioldeb a'u ffrwyth i eraill.

ABERTAWE.

Prin y mae yn angenrheidiol dyweyd mai tref fawr a phorthladd ydyw Abertawe, yn sefyll ar yr afon Tawe, ac yn cynwys 30,000 o drigolion. Nid oedd, gan' mlynedd yn ol, ond lle bychan dibwys, ond yn awr y mae yn un o'r trefydd mwyaf yn Nghymru oll. Deallwn fod Methodistiaeth wedi

dechreu ei lefeinio er ys can' mlynedd a mwy. Mae llythyr o eiddo Mr. Whitfield wedi ei ysgrifenu ganddo yn Abertawe; dyddiedig, Ebrill 12fed, 1743, at gyfaill iddo, o'r enw Mr. S——,* fel hyn:—

Fy anwyl Gyfaill,

Yr wyf yn gobeithio fod pob peth yn dda. Mae pethau mawr yn cael eu gwneuthur yn Nghymru. Y mae drws mawr a grymus wedi ei agoryd i bregethu'r efengyl dragwyddol. Mi bregethais ddoe yn Nghastell-nedd, saith milldir o'r lle hwn, oddiar falcawdŷ *(balcony)*, i gynulleidfa odddeutu tair mil o rifedi, ar yr heol. Yr oedd yr Arglwydd gyda mi mewn gwirionedd. Pregethais yma bore heddyw i ynghylch pedair mil. Cefais nerth mawr. Am un o'r gloch, mi bregethais mewn man, bedair milldir oddiyma, a dychwelais yma i bregethu eilwaith yn yr hwyr. Parotôdd ein Hiachawdwr o'i flaen. O! rad ras! Pregethodd, y brawd anwyl, Harris yn Gymraeg ddoe a heddyw.

Byth yr eiddoch,

G. W.

O. Y. Y mae bellach wedi saith o'r gloch prydnawn, ac yn awr y dibenais bregethu. Mae Abertawe wedi ei chymeryd. Ni phregethais erioed gyda mwy o nerth argyhoeddiadol. Yr oedd llawer o'r mawrion a'r cyfoethogion yn bresenol, a'r gynulleidfa yn fwy na'r bore. Rhad ras am byth!

Sonir gan Hopkin Bevan am dro arall y bu Howel Harris yn Abertawe. Y tro hwn, safai ar y twyn a elwir y Cryg-glas, yn agos i bren yno, nid pell o'r fan y mae y capel yn bresenol arno; ac i ddyn mewn diod ddyfod yno, wedi ei annog gan ryw ddyhiriaid, i saethu Mr. Harris. Hyn hefyd a geisiodd wneyd unwaith neu ddwy, ond yn methu tanio. Ar hyn, Mr. Harris a orchymynodd iddo, mewn modd awdurdodol, i droi ffroen y dryll ffordd arall, ac yr elai yr ergyd allan yn y fan. Felly y gwnaeth, ac allan yr aeth yr ergyd. Ond ni chymerodd y dyn rybydd, cithr parhaodd i feddwi; a rhyw noson yn ei ddiod, aeth ac a orweddodd wrth odyn galch, a chafwyd ef y bore dranoeth wedi llosgi i farwolaeth!

Nid oes sicrwydd a oedd cyfarfod eglwysig yn cael ei gynal yn y dref yn yr amser bore hwn, ond yr oedd un yn Llansamled; ac fe allai mai yno yr elai yr ychydig enwau a allai fod y pryd hwnw yn y dref. Yr oedd yma bregethwr yn byw, pa fodd bynag, o'r enw Richard William Dafydd. Brawd ydoedd i Dafydd William, Llys-y-fronydd, yr hwn a fu dros ryw dymhor yn y Bala, ac yn teithio cryn lawer yn Ngwynedd, ond a ordeiniwyd yn ol dull yr Annibynwyr, ac a sefydlodd yn Aberthyn. Am ei frawd Richard, ni a gawn grybwylliad yn y gymdeithasfa fisol a gynaliwyd yn nhŷ Jeffrey Dafydd, Llanddeusant, yn y fl. 1742.

"Fod i Richard William Dafydd arolygu y cymdeithasau yn Llandyfaelog, Cilcarw, Llanddarog, a Chaerfyrddin." Dichon nad oedd wedi symud eto i Abertawe i fyw, ond ei fod yn aros yn ei gartref genedigol ar y pryd y pasiwyd y penderfyniad uchod.

* Tybied yr ydym mai Mr. Seward oedd hwn.

Cawn benderfyniad arall yn y fl. 1744, a basiwyd mewn cyfarfod yn Nglan-yr-afon-ddu, fel hyn :—

"Gan fod galwad mawr am i'r brawd Richard William Dafydd fyned i Gorseinon, a bod mawr angen am dano yno, ac yn Mhenbre; cytunasom, hyd y gymdeithasfa nesaf yn Abergorlech, iddo ef a'i frawd fyned yno i ymweled â hwynt."

Pa beth a ddarfu i Richard William Dafydd wedi hyn nid ydym yn abl i draethu. Deallwn ei fod yn gynghorwr syml a derbyniol. Goleuwyd canwyll fel hyn yn fore yn y dref hon, a diamheuol i lawer o eneidiau gael lles tragwyddol trwy bregethau diwygwyr yr oes hòno Dywedir hefyd fod cymdeithas eglwysig wedi cael ei ffurfio yn y dref, ond fod y blaidd wedi dyfod i mewn, ac wedi tarfu y ddeadell. Yn y dref hon y preswyliai un Mr. Popkins, gŵr o ddawn ac o ddylanwad helaeth; un yn meddiannu mwy o'r byd na'r cyffredin, ac yn pregethu gyda'r Methodistiaid. Yn mhen rhyw amser, gwyrodd y boneddwr hwn at syniadau Sandeman, ac arferodd ei ddylanwad i dynu eraill ar ei ol. Llwyddodd hefyd yn y dref hon nes chwalu yr ychydig enwau ag oedd yn gwneuthur proffes o grefydd gyda'r Methodistiaid; a Sandemaniaeth * oedd yn ffynu bellach yn y dref, ac o'r dref hyd i Dreforris. Ar yr un pryd, yr oedd cynulliadau eglwysig yn y Goppa-fach, Llansamled, a Chastell-nedd, ac yno yr âi y sawl a lyneut wrth y ffydd gyntefig.

Yn y fl. 1789, ymwelodd Iarlles Huntingdon â'r dref. Yr oedd Rowlands, Llangeitho; a Williams, Pant-y-celyn, gyda'r "etholedig arglwyddes" yn y daith hon. Ymwelsai ag Aberhonddu, Caerfyrddin, Hwlffordd, ac Abertawe. "Cyn hyn," medd ei bywgraffydd, "yr oedd mawr ddiffyg gwybodaeth grefyddol yn y dref. Ymgynullai ychydig bersonau, Cymry a Saeson, i weddio mewn ystafell yn heol-y-castell. Gan y gwahaniaethent mewn iaith ac mewn syniadau, ymranasant, a ffurfiwyd cynulleidfaoedd cysylltiedig â'r Wesleyaid, Methodistiaid, a chyfundeb yr Iarlles." Ymddengys mai Saeson oedd yr ychydig bobl, oedd bellach yn yr ystafell, a'r rhai hyny yn rhy weiniaid i allu talu am yr ystafell. Yr oedd yn eu mysg un Benjamin Tucker, gŵr tlawd ei sefyllfa, ond ffyddlon ei galon. Canfu y gŵr hwn fod traul yr ystafell yn awr yn debyg o ddisgyn arno ef ei hun; yr oedd yntau yn analluog i ddwyn hyny, a'r wraig oedd bïa'r ystafell yn gwasgu am yr ardreth; hyn oll a'i gyrodd i benbleth flin iawn, ac ni wyddai pa beth i wneyd. Gwnaeth y mater yn destyn gweddi ddyfal; unwaith, aeth i lawr tua'r traeth, gan sŷnfyfyrio, ac o'r diwedd syrthiodd ar ei liniau, gan weddio yn daer am gyfarwyddyd. Tra yr oedd yn gweddio, rhuthrodd enw yr Iarlles i'w feddwl, mewn modd ag a barodd iddo gredu fod ei weddi wedi ei hateb. Trwy ymgeisiadau amryw, gyda'r bendefiges hono, llwyddodd. Anfonwyd efrydwyr o

* Mae Sandemaniaeth erbyn heddyw wedi llwyr ddiflanu, ac ychydig sydd yn y dref yn gwybod fod y fath enw wedi bod mewn son.

Drefecca i bregethu yno yn olynol am flwyddyn, ac wedi ail ymweliado'i heiddo â'r dref, gorchymynodd adeiladu capel; hyn a wnaed yn y fl. 1787. Ond nid agorwyd ef hyd y fl. 1789; ac ar yr achlysur, pregethodd Mr. Rowlands, Llangeitho; Mr. Jones, Llangan; a gŵr o'r enw Mr. W. Taylor.

Ond yr oedd y Cymry uniaith yn parhau i ymlusgo yn mlaen yn araf, a hyny dan lwyth o anfanteision. O'r diwedd, torodd gwawr arnynt hwythau; cawsant gapel! Ac fel hyn y caed ef. Gŵr o'r enw Mr. David Thomas, yr hwn a fuasai yn aelod gynt yn Llansamled, a ddaeth i fyw i'r dref. Yr oedd ar y pryd, trwy ryw foddion, yn aelod gyda'r Annibynwyr yn y Mynydd-bach. Ond yr oedd rhyw anghysur wedi tori allan yn yr eglwys hòno, yr hwn a gynyddodd i'r fath raddau, nes yr ymadawodd cryn nifer, o'r dynion goreu, meddir, a berthynai iddynt, ac yn eu mysg, yr oedd Mr. D. Thomas. Yn yr amgylchiad hwn, daeth ar galon y gŵr da a synwyr-gall hwn, i adeiladu capel. Yr oedd tir ganddo mewn man a elwir y Cryg-glas, ac yma y penderfynodd godi yr adeilad. Gorphenwyd y tŷ yn y fl. 1799, a hyny, gan mwyaf, ar ei draul ei hun.

Nid oedd ar y dechreu yn bwriadu i'r capel hwn berthynu i unrhyw gyfenwad crefyddol mwy na'u gilydd, ond amcanai ei gadw yn ei law ei hun; gan alw i bregethu ynddo, o fysg gwahanol enwadau, y neb a ddewisai. Hysbysodd ei gynllun i Mr. Jones, Llangan, ac eraill o'i gyfeillion; a hwythau a'i cynghorasant yn hytrach i gyflwyno yr adeilad i ryw un enwad a ddewisai, fel y moddion tebycaf o ateb y dyben. Gwrandawodd yntau ar eu cynghor, a chyflwynodd yr adeilad i'r Methodistiaid. Felly, yn mis Mawrth, 1799, daeth Mr. Jones, ac eraill, i'w agor. Ac nid rhoddi y capel yn unig a wnaeth Mr. Thomas, ond rhoddodd ei hunan eilwaith; a bu ei dŷ a'i feddiannau at wasanaeth yr achos hyd ddydd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le yn y fl. 1814.

Wedi agoriad y capel ymgrynhodd bagad o bobl at eu gilydd, ac ail-ffurfiwyd cwrdd eglwysig; ac o hyny hyd yn awr, aeth y gwaith rhagddo yn llwyddiannus a diymattal. Yn y tymhor hwn, sef ar ol agoriad y capel ymunodd un Mr. Samuel Lloyd â'r Methodistiaid. O'r blaen perthynai i gyfundeb yr Iarlles Huntingdon. Yr oedd ef yn bregethwr deallus a gwresog iawn; ac yn gyfarwydd â'r ddwy iaith. Ganesid ef yn sir Aberteifi, yn y fl. 1742, a bu farw yn y fl. 1804, yn 62 ml. oed. Yma hefyd y bu Mr. John Williams, o Meidrim, gynt, dros flynyddau diweddaf ei oes. Yr oedd yntau yn bregethwr bywiog a blasus. Bu farw yn y fl. 1823, yn 61 ml. oed.

Yn ddiweddarach, sef yn y fl. 1811, daeth yma un o'r enw Mr. William Bowen, yr hwn oedd yn swyddog y gyllidfa *(supervisor)*, i aneddu. Dywedir mai gŵr da a synwyrol ydoedd, a phregethwr doniol a defnyddiol. Iê, dywedir, oni bai ei lesteirio gan ei alwedigaeth, trwy gyfyngu ei amser yn fawr buasai yn un o'r dynion blaenaf yn ei ddydd. Bu farw yn 1822, yn 60 ml. oed. Bu yma bregethwyr eraill yn preswylio yn ddiweddarach fyth, y rhai nid ydynt yma yn awr, sef, Mri. S. Anthony, D. Roberts, George Williams,

a D. Phillips, Maesteg. Yma hefyd y dechreuodd y Parch. D. Howels, a Mr. D. Anthony, bregethu. Yma hefyd yn awr y mae y Parch. R. Lumley, yn preswylio. Mae yma, bellach, gapel llawer helaethach na'r cyntaf, wedi ei adeiladu er ys blynyddau, i'r hwn y perthyna tua 250, neu fwy, o gymunwyr. Yn y fl. 1846, agorwyd addoldy arall, dan yr enw Bethany, at wasanaeth y Saeson; yn yr hwn y bu y Parch. William Howel, yn gweini dros dymhor; ac yn yr hwn y llafuria yn awr y Parch. William Williams; mae uwchlaw 60 o aelodau yn perthyn i'r lle hwn.

PEN-CLAWDD.

Dechreuwyd yr achos crefyddol yn y lle hwn drwy weinidogaeth y Parch. Rees Jones, gynt o Fôn; yr hwn, ar y pryd, oedd yn gweini yn nghapelau yr arglwyddes Barham, mewn dosbarth o wlad Morganwg, a elwir y Browyr; dosbarth y mae yr iaith Saesoneg yn ffynu fwyaf ynddi. Mae Pen-clawdd yn nes i gyffiniau y Cymry na'r capelau eraill perthynol i'r arglwyddes; ac o ganlyniad, mae y trigolion, gan amlaf, yn deall y ddwy iaith.

Wedi marwolaeth Mr. Rees Jones, galwyd ar y gynulleidfa i ddewis gweinidog o blith yr Annibynwyr; yr hyn oedd groes i'w syniadau, ac am y dewisent ymlynu wrth y Methodistiaid bu raid iddynt gilio o'r capel. Bu y brodyr dros hir amser ar ol hyn, yn ymgynull i addoli mewn ystafell tafarndy, yn y pentref, am nad oedd un lle arall yn gyfleus. Oddiyma hefyd, wedi byr rybudd, bu raid ymadael, heb wybod am un lle arall. Tosturiodd gwraig yn mhlith y Bedyddwyr wrthynt, a chynygiodd ystafell fechan o'i thŷ ei hun, hyd nes ceffid lle mwy cyfleus. Yn yr ystafell hon y bu y brodyr yn ymgynull am ysbaid saith mlynedd, ac nid heb arwyddion sicr a lluosog o bresenoldeb yr Arglwydd yn eu plith.

PENNOD IV.

EGLWYSI A PHREGETHWYR BOREOL Y SIR.

CYNWYSIAD:—

DYFFRYN—CYCHWYNIAD YR ACHOS—GWRTHWYNEBIADAU—RISIART THOMAS, O'R FARTEG, AC EVAN THOMAS, O'R DYFFRYN-UCHA'—DAFYDD A MARY JOHN, O'R DYFFRYN-ISA'—JENKIN THOMAS, PENHYDD—HYNODRWYDD EI GYMERIAD, AC AMGYLCHIADAU EI OES—DANIEL O'R CONSTANT, A WILLIAM OWEN, Y GWEHYDD—CASTELL-NEDD—HARRIS YN PREGETHU YNO—WHITFIELD HEFYD A D. ROWLANDS—PARCH. W. DAVIES—HEN GAPEL GYFYLCHI—CREUNANT—MAESTEG, Y BABELL, A'R SPELTER.

DYFFRYN.

Ymddengys mai Howel Harris a fu yn offeryn i blanu Methodistiaeth yn y lle hwn hefyd. Nid yw yr amser yn eithaf sicr pa bryd yn gyntaf y cychwyn-

odd yr achos yma. Dywedir, gan rai, mai tua'r fl. 1774—6 y ffurfiwyd yma eglwys fechan; eraill a ddywedant fod yma un flynyddau cyn hyny. Dichon fod gwirionedd yn y ddau honiad. Gallai fod yn y lle hwn, fel y bu mewn llawer o fanau eraill yn y Dê a'r Gogledd, fod yr eglwys wedi ei phlanu gan Howel Harris mor fore a'r fl. 1743, a'i chynal dan ei arolygiad ef a'i gydweithwyr am rai blynyddau wedi hyny; ond ei bod wedi ei tharfu a'i chwalu drachefn, pan y cymerodd yr ymraniad le rhwng Harris a Rowlands yn y fl. 1751. Ond ar ol bod cyfwng o 20 mlynedd neu ychwaneg, ei bod wedi ei hail gychwyn, pan oedd Methodistiaeth yn dechreu ymddadebru ar ol y dyrnod a gawsai yn yr ymrysonfa hòno. Fel hyn y gwyddom y bu mewn manau eraill, ac nid oes dim annhebyg iddi fod felly yn y lle hwn. Ni a wyddom ddarfod i Harris ymweled ag amryw o barthau o'r dywysogaeth ar ol ei ymneilldnad oddiwrth ei frodyr, yn enwedig yn ysbaid y cyfwng rhwng agoriad coleg Iarlles Huntingdon yn Nhrefecca a'i farwolaeth; sef o'r flwyddyn 1768 hyd 1773. Dywedir fod yma bregethu mewn gwahanol fanau yn y gymydogaeth yn yr amser boreol hwnw. Ymgynullid, weithiau, wrth dŷ tafarn a elwid y "*Plough*," yn ymyl Aberafon; weithiau yn Hafod-y-porth, tyddyn yn nghwm y Dyffryn; ac weithiau rhwng y Dyffryn a Margam, mewn lle a elwid Twll-yn-y-wal. Sonir yn "Nghofnodau Trefecca," am gymdeithas eglwysig fechan a gynhelid mewn lle a elwid yr Hafod; a barnu yr ydym mai yr un ydyw a'r Hafod-y-porth, lle y dywedir uchod fod pregethu. Dywedir fod 12 o aelodau yn perthyn iddi yn y fl. 1743. Yr un a arolygai y gymdeithas hon ac wyth neu naw eraill yn ei ddosbarth oedd John Richard, Llansamled, fel y dywedwyd o'r blaen. Yr oedd John Belcher a Howel Harris yn ymweled â hwy yn eu tro, ond nid oes genym ddim hanes manwl am eu hysgogiadau.

Nid oedd y gwaith yn yr ardal hon yn cael ei ddwyn yn mlaen heb wrthwynebiad iddo. Ymddangosai, weithiau, mewn teuluoedd, trwy fod rhai o'r teulu o blaid a'r gweddill yn erbyn; felly yr oedd yma. Yr oedd gŵr y "*Plough*" yn wrthwynebol iawn, ond yr oedd y wraig yn fwy pleidiol i'r gwaith. Dygai y wraig ystôl allan o'r tŷ i'r pregethwr sefyll arni, ond y gŵr a'i cipiai hi oddiyno, ac a'i dygai hi i'r tŷ yn ol; ac felly y gwnaent lawer gwaith, ond y wraig yn y diwedd a gariai y dydd. Dro arall pan y cynhelid oedfa, penderfynodd rhyw nifer o ddyhirwyr aflonyddu ar yr addoliad, trwy ddwyn cath gyda hwy, a'i gollwng yn nghanol y bobl i'w hanos gan y cŵn, a thrwy hyny beri terfysg ac aflonyddwch. Gollyngwyd y gath, ond siomwyd y terfysgwyr; oblegyd cafodd y creadur diniwaid ddiangfa ebrwydd o ffordd y cŵn, a hyny mor llwyr ag y methodd pawb a chael allan i ba le yr aethai. Felly, dyrysodd yr ymgyrch ar yr oedfa, a chafodd y pregethwr dawelwch i draethu ei genadwri; a chafodd rhai o'r gwrandawyr hefyd achos i ddyweyd, "Da yw i ni fod yma."

Tua'r fl. 1770, ymofynodd amaethwr, o'r enw Richard Thomas, y Farteg, am foddion gras i'w dŷ ei hun. Mae mab iddo yn 89 mlwydd oed yn fyw yn

awr, neu o leiaf yn ddiweddar, gan yr hwn y caed yr hanes. Yn yr un flwyddyn, ymofynodd Evan Thomas, o'r Dyffryn-ucha', am yr un fraint. Mae yn ddigon tebyg fod y gymdeithas a ymgynullai yn 1743, yn yr Hafod, erbyn hyn wedi ei chwalu; pa fodd bynag, nid oes genym hanes am dani am ysbaid 30 mlynedd. Ond tua'r flwyddyn 1774 neu 1776, ail ffurfiwyd cymdeithas eglwysig yn nhŷ Evan Thomas. Yr oedd y gŵr hwn eisoes yn bleidiol i'r gwaith, ond erbyn hyn, ymroddodd yn fwy llwyr i wasanaeth ei Arglwydd. Dygodd fawr sêl dros Arglwydd y llnoedd yn nghanol cenedlaeth ddrwg a phechadurus. Ar fore Sabboth arferai godi yn fore iawn, a chyrchu i ael rhyw fryn gerllaw ei dŷ, lle y dyrchafai ei lais fel udgorn, gan lefain hyd eithaf ei allu ar ei gymydogion, "Y Sabboth ydyw heddyw! Y Sabboth ydyw heddyw!" nes y byddai yr holl ardal yn adsain. Brawd ydoedd y gŵr hwn i'r hybarch William Thomas, o'r Pîl. Ymwelsai yr Arglwydd â William o'i flaen ef; yr oedd y ddau yn byw yn y Dyffryn-ucha', ond yn mhen rhyw gymaint o amser, William a briododd, ac a aeth, medd fy nghohebydd, i fyw i amaethdy yn ymyl hen gapel y Dyffryn. Cymerodd *lease* ar y tyddyn hwn dros ei oes; ond nid hir iawn, er hyny, yr arosodd ynddo, symudodd i'r Tŷ-draw, yn ardal y Pîl.

Yn y fl. 1780 bu farw Evan Thomas ei frawd, a symudwyd yr achos, mewn canlyniad, o'r Dyffryn-ucha' i ysgubor a berthynai i'r Tyddyn yr oedd gan William Thomas *lease* arno. Yr oedd gŵr a gwraig o'r enw David a Mary John, yn byw yn y Dyffryn-isa' ac yn bobl grefyddol. Wedi marwolaeth Evan Thomas, daeth William ei frawd at aneddwyr y Dyffryn-isa', gan gynyg yr ysgubor grybwylledig at wasanaeth crefyddol, ar yr ammod iddynt hwythau roddi lletty ac ymgeledd i'r pregethwyr a ddeuai yno, ac i'w hanifeiliaid. Derbyniwyd y cynygiad yn siriol, a chadwyd yr ymrwymiad yn ffyddlawn; ac wedi gwasanaethu yn ddyfal yn y modd yma dros 50 ml., a chyn ymadael â'r byd, gadawodd Mary John lôg £100 at gynaliaeth y weinidogaeth yn y Dyffryn ac Aberafon, i barhau. Ond pan fu farw William Thomas yn y fl. 1811, disgynodd yr hen ysgubor i ddwylaw boneddwr o'r gymydogaeth o'r enw Phillip Jones, Ysw., golygydd, a pherchenog mewn rhan, o'r gwaith copr yn y Tai-bach. Parhaodd y boneddwr hwn yntau i roddi yr hen ysgubor at wasanaeth yr Arglwydd, a mynych y deuai efe ei hun yno i wrando yr efengyl; ac nid hyny yn unig, ond efe a gyfranai swm blynyddol tuag at draul yr achos yn y lle. Ar ol ei farwolaeth ef, caed y lle yn rhad gan ei fab, Mr. William Jones, tra bu raid wrtho, sef hyd oni adeiladwyd capel newydd y Tai-bach, yn y fl. 1841. Felly gwasanaethodd hen ysgubor y Dyffryn achos crefydd am ysbaid 61 o flynyddau; a rhyfeddol y llewyrchiadau a roddwyd yma ar y weinidogaeth; prin y mae gan y genedlaeth bresenol un dychymyg am y tywalltiadau a roddid yn awr ac eilwaith y dyddiau hyny. "Gwisgai yr offeiriaid gyfiawnder a gorfoleddai y saint." Yr oedd yr "efengyl nid mewn gair yn unig, ond mewn nerth ac yn yr Ysbryd Glân," a llawer oedd a ddychwelwyd at yr Arglwydd.

Bu yma rai gwŷr tra hynod gyda Methodistiaeth yn preswylio y fro hon. Sonir cryn lawer am Daniel o'r Constant; ac am William Owen y gwehydd; Evan o'r Firi hefyd; a Thomas Roberts yr hen flaenor; ond yr hynotaf o honynt oll oedd Jenkin Thomas, yr hwn oedd yn byw mewn tyddyn yn y gymydogaeth o'r enw Penhydd, oddiwrth yr hwn y galwyd ei breswylydd, yn "Siencyn, Benhydd;" enw ag sydd ar dafodau miloedd o rai na welsant erioed mor gŵr ei hun. Nid ein gorchwyl ydyw ysgrifenu cofiant llawn o neb rhyw un a fu yn enwog a defnyddiol i Fethodistiaeth Cymru, ac am Jenkin Thomas y mae yr angenrheidrwydd yn llai, gan fod traethawd helaeth am dano wedi ymddangos eisoes;* ar yr un pryd, anweddus a fyddai i ni fyned heibio i hanes gŵr a'r fath hynodrwydd arno, heb ddim mwy na chrybwylliad byr o'i enw.

Ganwyd ef yn y fl. 1745, a bu farw yn y fl. 1807, yn 61 mlwydd oed. Dyn garw, certh yr olwg oedd Siencyn; gwladaidd, ïe, mynyddig ei wedd; cryf ei gorff, anniwylliedig ei foesau, a gwrol a dibris ei feddwl. Prin y gwybu un amser pa beth oedd nac ofn na chywilydd, oddieithr ger bron Duw. Ymddengys fod llawer o'r ansoddau hyn yn ei gyfansoddiad, a gwrteithiwyd hwy yn dda yn ei ddygiad i fyny. Nid oes nemawr hanes am ei febyd na'i ieuenctyd, mwy na'i fod wedi treulio blynyddau cyntaf ei oes ar faesydd Penhydd, gan arolygu triniad y maesydd a bugeilio defaid y mynyddoedd. Nid oedd dysgeidiaeth wedi cael nemawr fantais i goethi ei deimladau, na chyfathrach â'r byd wedi caboli dim ar ei ymddangosiad. Dygwyddodd i hwn, pa fodd bynag, glywed pregethu yr efengyl, a gwnaed ef yn wrthddrych ei dylanwad a'i hymgeledd. Nid yw yr hanes yn dyweyd pa bryd y bu hyn, ond yr offeryn a ddefnyddiwyd i ddwyn Siencyn dan argyhoeddiad oedd gŵr a elwid Ifan, Tir-clai. Nid oes genym lawer o hanes y gŵr hwn, yn unig darlunir ef nid yn annhebyg i Siencyn ei hun, yn ddyn gwladaidd a diaddurn iawn, ond yn ŵr o'r iawn ysbryd.† Pan yn pregethu neu yn hytrach yn cynghori, yr hyn gan amlaf a fyddai mewn tai, neu ysguboriau, efe a ysgogai, megys yn ddiarwybod iddo ei hun, o amgylch yr adeilad gan bregethu wrth hwn ac arall, wrth fyned heibio. Pan elywodd Siencyn fod y pregethwr hwn yn dyfod i'r fro, penderfynodd fyned i'w wrando, heb un amcan ganddo, amgen na difyrwch, oddiar ei ddawn dyeithr a'i ddull ysmala. "Yr oedd y cynghorwr hwn," meddai Siencyn ei hun, "wrth bregethu, yn union fel pe buasai yn siarad yn bersonol â rhyw un yn y gynulleidfa a adwaenai efe fel dyn melldigedig o ddrwg, drwg iawn, maes o'r cyffredin. Agorais inau fy llygaid, ac edrychais yma ac acw, a chan droi fy ngolygon yn ol ar y pregethwr, canfyddwn ef yn edrych yn daer arnaf, a bygwth y dyn drwg yn ofnadwy. Mor wir a'i ddyweyd, credais yn benderfynol mai ataf fi yr ydoedd yn cyfeirio yn uniongyrchol. Beth bynag, nid hir y gwrandewais cyn gorfod credu taw

* Gwel y "Traethodydd," 1849; ysgrifenwyd y traethawd gan y Parch. Edward Matthews. † Gwel grybwylliad am Evan, Tir-clai, yn hanes sir Gaerfyrddin, Cyf. II., tudal. 429.

fi oedd y dyn drwg, a'r dyn drwg iawn, oedd gan y pregethwr; a fy mod yn wrthddrych y bygythiad ofnadwy. Dylynodd swn y bygythiad fi, nes llanw fy nghydwybod â braw a dychrynfeydd uffern dân, ac yno y gadawodd fy ewythr Ifan, Tir-clai, fi, heb ddyweyd cymaint a ffarwel i ti fachgen."

Yr oedd cydwybod y llanc, bellach, wedi ei deffro, ac yn peri iddo lawer o ofid. Ceisiai ei oreu i'w dofi a'i dyhuddo, ond nid oedd dim hyd yn hyn yn tycio. Rywbryd tra yn y benbleth hon, dygwyddodd fod cyfarfod i fod yn y plwyf, o "daflu disiau." I'r cyfarfodydd hyn deuai lluaws mawr ynghyd, lle yr arosent i dori cnau, bwytta afalau, ac yfed cwrw; nwyddau a ennillent trwy ryw fath o chwareu damwain â'r disiau. Penderfynodd Siencyn fyned i'r chwareu, gan obeithio boddi cur ei fynwes â llawenydd y cwmni. Yn y chwareuau hefyd ennillodd ddwy ŵydd, a phrysurodd â hwy tua chartref. Cododd y gwyddau, un dan bob cesail, ac i ffordd ag ef. Yr oedd, bellach, yn ganol nos, a rhwng meithder y ffordd a phwysau y creaduriaid asgellog, ynghyda'u hanesmwyder, teimlai Siencyn ei hun yn dechreu blino, ac i'r graddau yr oedd ei afaelion ef yn llacio, i'r graddau hyny yr oedd y gwyddau yn cael lle i ymysgwyd; ac o'r diwedd cawsant raddau o ryddid i'w hadenydd. Defnyddiasant y rhai'n yn egniol, bellach, gan guro y truan rhyngddynt yn ddiarbed. Disgynodd ofn arno yntau, a thybiodd ei fod yn canfod goleuni dysglaer o'i amgylch. Bellach, deffrodd ei gydwybod fwy fwy, a chan ei flinder, ei ludded, a dychrynfeydd ei fynwes tybiodd ei fod yn marw. Gollyngodd y gwyddau i'r baw, a syrthiodd yntau ar ei liniau gan waeddi yn lew am drugaredd. Nid oes wybod dros ba hyd o amser y bu Siencyn yn ymdrechu am ei fywyd yn y lle hwn, ond pa hyd bynag, dywedir iddo gyrhaedd ei gartref, ryw bryd erbyn y bore, a hyny mewn braw aruthrol. Dan arteithiau cydwybod euog, y bu dros ryw dymhor, yn ceisio gwella gradd arno ei hunan ond yn methu; ac yn suddo yn ddyfnach i'r gors wrth geisio dyfod allan o honi. Yn y cyfwng hwn cafodd y fraint o glywed Dafydd Morris, Twrgwyn, yn pregethu; a thrwy y bregeth hono dygwyd ef i ymostwng i gyfiawnder Duw, yn yr efengyl. Eto, dychwelai ei hen drallod arno drachefn, yn awr ac eilwaith, er nad gyda'r un grym ag o'r blaen. Parodd y bregeth hon effeithiau grymus arno. Yr oedd ei ymddangosiad y pryd hwn yn ddyeithr iawn, a thybiai rhai fod rhyw afiechyd tanbaid yn ei syfrdanu; neu fod ei synwyrau wedi eu dyrysu; eraill yn bwrw mai y grefydd newydd ag oedd yn y wlad a wnaethai y drwg; a da fuasai ganddynt ei gosbi mewn rhyw ddull, nes o leiaf iddo roi heibio ei benchwibandod crefyddol. Yr oedd Siencyn ei hun, druan, mewn penbleth flin; ei galon yn gwaedu gan ing ei enaid, a saethau Duw yn yfed ei ysbryd. Yn ei drallod dwfn, clywodd Mr. Davies, Castell-nedd, yn pregethu yn eglwys Mihangel, a gollyngwyd ei enaid i ryddid. Gwnaed ef yn gydnabyddus â Cheidwad pechadur, ac ymostyngodd yn ddiddig dan ei iau ef.

Adnabyddid Siencyn wedi eneyd o amser wrth ei weddiau yn fwy na dim arall. Deallodd dynion y fro ei fod wedi arfer gweddio llawer, a bod ganddo

ryw gilfachau hoff i gyrchu iddynt i dywallt ei enaid ger bron Duw. Un o honynt oedd "Chwarel cefn y tŷ." Mynych iawn y cyrchai yma, cymaint felly, nes y dywedid os dygwyddai fod ymofyniad am dano, mae y "Chwarel" oedd y lle i'w gael! Nid oedd ei frodyr yn adnabod Duw, ac nid boddhaol i Siencyn oedd eu hymddygiadau ar rai amgylchiadau. Sonir am danynt unwaith yn mynu, er yn waethaf iddo, yru ychain tua'r ffair ar y Sabboth, i fod yno ar fore Llun. Gwnaent hyn i arbed y draul o'u hanfon nos Sadwrn. "Credwch fi," ebe Siencyn, "y bydd mwy o draul arnoch am dori y Sabboth." I ffordd, modd bynag, y cychwynwyd yr ychain, ac i'r "Chwarel" a Siencyn. Nid aeth yr ychain yn mhell oddiwrth y tŷ, medd yr hanes, na syrthiodd un o honynt a thori ei glun. Ar hyn dolefodd ei frawd Thomas, "Mae Sianco yn y 'Chwarel' yn gweddio!" A gwir oedd hyny. Prawf fod ar ei frawd fwy o ofn gweddiau Siencyn na dim arall.

Wedi priodi aeth Jenkin Thomas i fyw i Aberafon dros enyd fechan, a thrachefn i'r Goetre, tyddyn bychan gerllaw "yr hen ysgubor gysegredig;" ac yn y tyddyn hwn y bu efe byw o hyny allan. Nid ydym yn cael sicrwydd pa bryd y dechreuodd bregethu; prin, fe allai, y gwyddai efe hyny ei hunan, gan mai rhyw lithro i'r gwaith a wneid yn raddol, ac agos yn ddifwriad. Fel gwladwr yr oedd Siencyn yn ddyn gonest, unplyg, gwladaidd, a llafurus iawn. Codai yn fore a gweithiai yn galed; ei wisg ydoedd fraisg a diaddurn iawn, a phrin y gellid meddwl y bu *brush* erioed ar ei *gôt* na chrib erioed yn ei wallt. Yr oedd yn hynod o ddiwyd gyda'i orchwylion bydol, ac yn cynyddu mewn meddiannau. Yr oedd ei wedd yn y pwlpud yr un mor anwaraidd. Nid oedd yn berchenog ar "*gôt ddu a napcyn gwyn.*" Brethyn llwyd o waith cartref oedd ei wisg; a het, anferth ei chânt, a gwladaidd ei gwedd, oedd am ei ben. Yr oedd ei bregethau yr un modd yn berffaith ddiaddurn; nid oddiwrth y gwyddion y tynai ei gyffelybiaethau; natur wyllt a'r Beibl Cymraeg oedd holl faesydd ei efrydiaeth. Nid oedd ei iaith yn nodedig am foneddigeiddrwydd, na'i ymadroddion am goethusrwydd; eto, mewn dull dirodres, ac iaith ddiaddurn cyfarfyddai ef â'i wrandawyr, mewn modd ag a ddeffroai ddynion cysglyd eu cydwybodau; ac a ddynoethai allan o fesur eu hesgusodion ffol ac ofer. Ac er mor gethin ei wedd a garw ei ddull, yr oedd Siencyn yn cael ei ystyried yn oracl ei oes. Nid oedd gerwinder ei iaith a barbariaeth ei ddull, ddim mor wrthwyneb i syniadau ei oes, nac mor gethin yngholwg ei genedlaeth ei hun, ac a allem ni dybied. Yr oedd ynddo mewn gwirionedd fwy o gymhwysder i gyfarfod ag amgylchiadau ei oes nag a allem ddychymygu; yn enwedig, gan fod ynddo elfenau rhagorol eraill, diniweidrwydd pur, a gonestrwydd amlwg; eiddigedd tanllyd dros Dduw, a ffyddlondeb diragrith yn achos eneidiau dynion. Y rhinweddau hyn a roddent glaerder ysblenydd ar ei gymeriad fel cristion, ac a barent dderbyniad ewyllysgar iddo fel pregethwr.

Sonir llawer iawn am hynodrwydd Siencyn, Penhydd, yn y cyfarfodydd eglwysig. Ymddengys mai yn y cyfarfodydd hyny y deuai ei graffder a'i

ffyddlondeb yn fwyaf i'r golwg. Dysgynai arno yn y cyfarfodydd hyn, fath o ysbrydoliaeth, yr hwn a roddai iddo fwy o fedrusrwydd na chyffredin i brofi ysbrydion dynion, a mwy o ddoethineb i ddyweyd gair yn ei bryd. Yr oedd ei ddull garw, didderbyn wyneb, ei ymadroddion bras a llym, y fath, ar rai achlysuron, ag y byddai yn anferth i neb ei efelychu. Pe yr edrychid yn unig ar ryw ymadroddion o'i eiddo, ac heb eu cymeryd mewn cysylltiad â'r rhinweddau a berthynai iddo, parod a fuasai dyn i feio arnynt, ac i'w condemnio. Ymddangosent ynddo ef, pa fodd bynag, yn llai gwrthun; ac yn wir, mynych y coronid hwy â gwir lesâd. Ni oddef ein gofod i ni osod enghreifftiau lawer gerbron y darllenydd, ond gan y bydd ychydig o'r fath enghreifftiau yn fwy effeithiol i osod allan y dyn, ni a roddwn ychydig allan o lawer ar lawr.*

Cododd ymrafael unwaith yn eglwys y Dyffryn, rhwng dwy wraig;—ymrafael a fygythiai niwaid mawr i'r achos; ac ymrafael anhawdd iawn ei ddiffodd er arfer pob dyfais tuag at hyny. Un noswaith, pan yn ceisio sefydlu heddwch rhyngddynt, gofynwyd i Siencyn a oedd dim ar ei feddwl ef? "Nag oes, yn gyhoeddus," atebai yntau, "ond y mae genyf air i ddyweyd wrth bob un o honynt o'r neilldu ac ar eu penau eu hunain." Gyda hyn, cododd i fyny, a dywedodd wrth y ddwy wraig, "Dewch gyda fi eich dwy, i gael dyweyd wrthych." Felly yr aethant; ac wedi eu cael i ben y twyn o flaen y capel, "Dyna," eb efe wrthynt, "yw eich lle eich dwy, y fileiniaid clegog; cerddwch i wneyd heddwch, a pheidiwch a dod yn ol nes ei wneyd hefyd." Yna yn ol ag ef i'r capel, gan gloi y drws ar ei ol.

Gwyddom yn dda nad oedd dull fel hyn ddim i fod yn rheol, eto bu y tro hwn yn fendithiol, oblegid dychwelodd y ddwy wraig cyn dybenu y cwrdd wedi ymheddychu yn berffaith â'u gilydd.

Dywedai wrth un arall, yr hon oedd yn euog o fod yn wag-siaradus, gan beri anghydfod, "Mari, Mari, cerdda i maes o'r *society*; y *jack y lantern* uffernol, waith arwain pawb i ddyryswch yr wyt, y ffordd y cerddi," ac nid oedd dim i wneyd ond myn'd allan. Dywedai weithiau, wrth, neu am ryw un lled iach ei galon a dioruchwyliaeth ei ysbryd, "fod yn rhaid ei dynu trwy y *diawl*," gan gyfeirio at ryw offer danneddog mewn gweithdŷ gwlan i'w gribo. Am un arall lled phariseaidd a glân, yn ei olwg ei hun, y dywedai, "Fod yn rhaid ei dynu trwy y simneu cyn y byddai o ddim lleshad.

Gelwid yr hen bregethwr, weithiau, "Siencyn y Taugnefeddwr," gan mor fedrus ydoedd i ddarostwng pob terfysg ac ymryson. Sonir yn neillduol am dano mewn un eglwys ag oedd mewn agwedd dra chwerylgar. Defnyddiwyd llawer o foddion i'w heddychu, anfonwyd yno genadau o'r gras a'r dylanwad uwchaf, ond y cwbl yn ofer. Mewn rhyw gwrdd misol, ceisiwyd gan Jenkin Thomas fyned yno, a thrwy daerni dyfal, caed ganddo addaw

* Am luaws o engreifftiau cyffelyb, cyfeiriwn y darllenydd i'r "*Traethodydd*," 1850; ac i'r Llyfryn o'i hanes gan y Parch. E. Matthews.

myned. Wedi myned, athrawiaethodd ryw gymaint ar ddymunoldeb tangnefedd eglwysig, gan ddangos pa mor wrthun a dinystriol ydoedd agwedd wrthwyneb, ond nid oedd dim yn tycio. Ar hyn, codai Siencyn yn ddisymwth ar ei draed, a cherddai yn syn i fynu ac i lawr ar hyd y capel; weithiau yn codi ei olygon tua'r nef, bryd arall yn crgydio y llawr â'i ffon, nes tynwyd sylw pawb oddiwrth destyn yr ymryson at agwedd ddyeithrol yr hen bregethwr. Yntau, gan gerdded, a siaradai yn ddifrifol megys â rhyw un anweledig, gan ofyn, "Arglwydd, ai dy ddyweddi di, yw hon?" Ymhen enyd, gofynai eilwaith mewn syndod mawr, ac megys o ddifrif calon, yr un peth, "Arglwydd, ai dy ddyweddi di yw hon?" "Lladd hi!" "Na wnaf," oedd yr ateb. "Gwerth hi ynte!" "Na wnaf," oedd yr ateb eilwaith. "Gwad hi!" "Na wnaf:" a chan godi ei lais aeth rhagddo, "Hi gostiodd yn rhy ddrud i mi; gwerth fy nwyfol waed yw hi. Pa fodd y rhoddaf hi i fyny, a pha fodd y gadawaf hi ychwaith!" Yna syrthiodd i lawr, a gweddiodd, a hyny gyda'r fath deimlad difrifol, a chyda'r fath nerth, nes oedd pob mynwes yn y lle wedi anghofio eu dadleuon, a'u calonau wedi eu hystwytho gan edifeirwch; pawb yn nesâu am y cyntaf at eu gilydd, ac yn penderfynu claddu yr hen ymrysonau mwy.

Digon, mewn gwaith o'r fath hwn, efallai, ydyw yr ychydig nodiadau uchod;—digon i roddi awgrym i'r darllenydd pa fath un oedd Siencyn Tomas. Cyfeiriwn y neb a ddewiso wybod mwy am ei hynodion i'r erthygl yn y "*Traethodydd*," neu at y llyfryn a gyhoeddwyd. Wedi treulio ei oes yn y modd uchod, mewn llafur a defnyddioldeb gyda theyrnas Crist, ac wedi rhoddi profion chelaeth o gywirdeb ei ddybenion, efe a orphenodd ei yrfa yn y fl. 1807, yn 61 mlwydd oed.

Nid Jenkin Thomas oedd yr unig un o'r hen bobl a roddai enwogrwydd ar gymdeithas y Dyffryn. Sonir llawer am Daniel o'r Constant; Wil y gwehydd; ac Ifan o'r Firi. Yr oedd tymherau a dulliau y gwŷr hyn yn gwahaniaethu cryn lawer oddiwrth yr eiddo Siencyn; ond nid oeddynt oblegid hyny yn llai eu gras, nac yn llai eu parch, lle yr adwaenid hwy, nag yntau; yn unig parent lai o son am danynt, gan na pherthynai iddynt y cyffelyb hynodion dyeithrol ag a berthynai iddo ef. Dyn da, craffus a manwl, oedd Daniel Daniel: un yn ymgais â thangnefedd ac yn ei dilyn hi. Diflanai cwerylon y gymydogaeth o'i flaen. Wrth fyned i'r addoliad, galwai yn y tai ar ei ffordd i gymhell ei gymydogion, gan ddyweyd, "Deuwch, ac esgynwn i fynydd yr Arglwydd, ac i dŷ Duw Jacob." Dechreuodd bregethu yn y fl. 1805. Gwasanaethodd ei dymhor yn ffyddlon a buddiol, a bu farw mewn hedd yn y fl. 1813.

Un o heddychol ffyddloniaid y tir oedd William Owen, y gwehydd. Llafuriodd a theithiodd lawer i ymofyn am bregethwyr i'r Dyffryn; a phrin, meddir, y deuai un pregethwr i'r sir, nad âi Wil y gwehydd, i'w gyfarfod, i'w arwain trwy ran helaeth o honi. Mor adnabyddus oedd ei ffyddlondeb yn hyn o orchwyl, ac mor hyfryd oedd y dysgwyliad am ei gwmni, nes yr

edrychid am dano gyda llawenydd a sierwydd. Un tro, pan ddaeth gŵr o'r Gogledd i'r wlad, ac heb ganfod yr hen gyfaill yn dyfod i'w gyfarfod ef, fel cynt, clybuwyd y pregethwr yn adrodd ei ofnau, nad oedd William ddim yn fyw, onide y daethai i'w gyfarfod; a hyny hefyd oedd wir; yr oedd yr hen ddysgybl eisoes dan gloion marwolaeth. Bu farw yn y fl. 1817.

Gŵr nodedig oedd Ifan, o'r Firi, am ei haelioni tuag at achos Crist. Cynilai mewn pethau eraill, er mwyn bod yn hael yn hyn. Pan y byddai casgliad i gael ei wneyd at unrhyw achos clywid ef yn dyweyd, "Dewch, fechgyn;—dyma lecyn o dir da; mae eisiau hau yn dew ynddo; yr ydym yn sier o gael cnwd da arno. Gadawodd log £80 tuag at gynal yr ysgol Sabbothol yn mhlwyf Margam. Bu farw yn y fl. 1813. Gwneir coffa parchus am un Thomas Robert hefyd; gŵr a fu yn flaenor yn y lle am 40 mlynedd. Bu farw yn y fl. 1849.

O'r hen ysgubor grybwylledig yr ymeangodd Methodistiaeth i'r ardaloedd cylchynol; sef i Margam, Aberafon, y Felin-fach, y Cwm-bychan, a Baglan Mae ysgolion Sabbothol wedi eu sefydlu yn y manau uchod er ys oddeutu 40 mlynedd; yn awr er ys amryw flynyddau y mae capelau wedi eu hadeiladu ynddynt, cynulleidfaoedd lluosog yn gwrando, ac eglwysi, mwy neu lai eu rhif, wedi eu crynhoi ynddynt. Llawer gwaith yn hanes Methodistiaeth y cawsom achlysur i sefyll a synu, pa mor fawr y canlyniadau a ddilynent gychwyniadau bychain: ymddengys hyny yn arbenig yn yr ardaloedd hyn. Ni choeliasai yr hen fechgyn eu hunain, y codasai ffrwyth mor doreithiog, oddiwrth yr had a hauasid ganddynt, mewn tir mor ddiffaith. "Eraill a lafuriasant, a ninau a aethom i mewn i'w llafur hwynt." Gwiriwyd y ddiareb—"Arall yw yr hwn sydd yn hau, ac arall yw yr hwn sydd yn medi." Eto y mae cyfiawnder a doethineb wedi arfaethu, na chaiff yr hwn sydd yn hau, mwy na'r hwn sydd yn medi, ddim colli ei wobr; oblegid fe gaiff "yr hwn sydd yn hau, a'r hwn sydd yn medi *lawenychu ynghyd.*" Y gamp ydyw, na byddo y naill oes yn hau dim ond a ddyry destyn llawenydd i oes arall. Mae pawb yn medi rhyw beth a hauodd rhai eraill, a phawb yn hau rhyw beth y bydd eraill yn ei fedi ar ol hyn. Mewn geiriau eraill, mae ymddygiadau yr henafiaid, yn effeithio er da neu er drwg, ar eu holynwyr: a dyledswydd a braint arbenig pob oes, a chenedlaeth, ydyw gofalu ar fod y dylanwad hwn, yn cynyrchu daioni, ac nid drygioni; llawenydd ac nid gofid.

CASTELL-NEDD.

Wrth "Gofnodau Trefecca" yr ydym yn deall fod cymdeithas fechan o Fethodistiaid wedi ymgrynhoi yn y dref hon, neu gerllaw iddi, mor fore a'r fl. 1743, os nad y flwyddyn cyn hyny. John Richard, cynghorwr o Lansamled, tybygid, oedd yn arolygu y cymdeithasau eglwysig yn y dosbarth hwn o'r wlad. Wrth son am ansawdd yr achos yn Nghastell-nedd, dywed,—"Maent, (sef y dysgyblion) yn fwy na chonewerwyr trwy yr hwn a'u

carodd, yn y lle hwn." Nid oes un crybwylliad am rifedi y dysgyblion, nac am y lle yr ymgynullent ynddo. Ymddengys, pa fodd bynag, mai y gwŷr a lafurient yma yn benaf, oedd Howel Harris, John Belcher, a John Richard. Sonir fod Howel Harris wedi ymweled â'r lle hwn yn y fl. 1739. Anfonasid llythyr iddo gan Mr. Whitfield i'w gyfarfod yn Nghastell-nedd, i ofal un John Davies, wedi ei ddyddio yn Mristol, Chwefror 20, 1739. Yr oedd Whitfield, newydd ymosod ar y gwaith o bregethu yn yr awyr agored; ac, ar y pryd, yn Mristol ar ei ffordd i Gymru. Yr oedd Harris hefyd newydd fod yn Ngogledd Cymru, ac yn dychwelyd yn ol, gan gymeryd ei daith trwy siroedd Aberteifi, Penfro, a Morganwg. Wedi cyrhaedd Castell-nedd, pregethodd yn y rhan ogleddol i'r dref, y tu arall i'r afon Nedd, ar "dŵyn yr hen gapel," fel y gelwid y lle. Dichon mai hon oedd yr oedfa gyntaf erioed gan Fethodistiaid a gynaliwyd yn y lle. A chan mor ddyeithrol oedd y peth, a chan gymaint oedd rhagfarn y bobl yn erbyn ysgogiadau afreolaidd o'r fath, nid rhyfedd fyddai os gwneid cais i aflonyddu ar y cyfarfod: a hyny a wnaed. Daeth rhyw ddyhiriaid i'r lle, a'u bryd ar aflonyddu; a'r moddion a ddefnyddiwyd i'r dyben oedd clymu rhyw offer wrth gynffon cath, a'i gollwng hi i ganol y gynulleidfa, mewn cynddaredd gwyllt. Nid yw yr hanes yn mynegu pa fodd y dybenodd hyn, ond bernir fod rhyw rai ar y pryd, wedi derbyn lleshad ysbrydol i'w heneidiau.

Ryw bryd ar ol hyn, sef yn y fl. 1743, bu Mr. Whitfield yn pregethu mewn cŵr arall o'r dref, ar gareg farch, wrth dŷ tafarn. Nid oes modd olrhain effeithiau y bregeth hon ychwaith. Wedi hyn, bu Daniel Rowlands, Llangeitho, yn pregethu yn y rhan ddwyreiniol o'r dref, ar bwys y "Tonau," fel y gelwir y lle hyd heddyw, o dan bren sycamorwydden. Mae seiliau lled ddibetrusgar i gredu fod amryw "wedi clywed llef Mab Duw," trwy y weinidogaeth, y tro hwn, "a byw." Nid annhebyg na fu gweinidogaeth y tri gwŷr hynod hyn yn foddion i gasglu rhyw nifer bychan o ddysgyblion at eu gilydd. Tua'r un amser hefyd y dechreuodd rhai eraill gynghori yn y wlad, megys, John Richard, Llansamled, a John Belcher, ac eraill, y rhai a lafurient yn fwy cyson, ond yn llai cyhoeddus, na'r gwŷr enwog eraill a enwyd.

I eglwys y plwyf, neu i eglwys Llanelltyd, y cyrchai y crefyddwyr i gymuno; y pryd hwnw nid oedd unlle nes na Llangeitho yn sir Aberteifi; Woodstock, yn sir Benfro; neu Lanlluan, yn sir Gaerfyrddin; os yn wir fod y ddau le olaf yn agored mor fore. Ond gan fod bucheddau y clerigwyr a weinyddent yn yr eglwysi cyfagos yn anghyson â'u swydd, ac â Christ'nogaeth, yr oeddynt yn teimlo yn dra phryderus i gael mwynhau gweinidogaeth gŵr a brofasai nerth yr efengyl iddo ei hun; a thaer weddiasant ar i'r Arglwydd anfon atynt ŵr wrth fodd ei galon i'w hymgeleddu. Yn mhen rhyw amser, gwrandawyd eu gweddi, ac anfonodd rhagluniaeth glerigwr ieuanc o'r enw William Davies, yr hwn a ddaeth i fod yn gurad i Mr. Pinkney, yr hwn oedd yn meddu personoliaeth y ddau blwyf, Castell-nedd a Llanelltyd. Ymddengys hefyd fod Mr. Pinkney wedi hoffi Mr. Davies yn fawr fel dyn duwiol ac add-

fwyn iawn. Hoffwyd Mr. Davies yn fawr hefyd gan y rhai hyny o'r bobl a feddent chwaeth at yr efengyl. Ond nid hir y bu ef yn gwasanaethu yma cyn iddo ddyfod yn wrthddrych dygasedd a gwawd dosbarth arall o bobl, yn enwedig pobl fawr y dref a'i hamgylchoedd; er nad ymddengys fod ganddynt un achwyniad yn ei erbyn, ond fod ei athrawiaeth yn rhy bur, ei fuchedd yn rhy santaidd, a'i aidd dros ogoniant Duw yn rhy danbaid. Pa fodd bynag, cydfwriadasant yn ei erbyn i'w yru ymaith oddiwrthynt; ond er maint yr ymdrech a wnaed, aflwyddiannus a fu y cwbl; oblegid cadwodd Mr. Pinkney ef yn ei guradiaeth hyd ddydd ei farwolaeth: ond wedi marw ei noddwr, ail-ymosodwyd ar y gorchwyl o'i fwrw ef ymaith; a'r tro hwn llwyddo a wnaethant. Cafodd Mr. Davies alwad gref gan y rhan fwyaf o'r plwyfolion i ymsefydlu ar ol hyn yn Llanguge; ond gan fod y gwŷr mwyaf yn y plwyf hwnw hefyd yn ddyeithriaid i'r efengyl, ac yn chwenych cael clerigwr mwy cydffurf â'u chwaeth eu hunain, codasant yn erbyn Mr. Davies, gan ddewis gŵr arall i'r lle.

Bellach, barnodd Mr. Davies a'i bleidwyr, mai ychydig oedd o obaith iddo allu bod yn ddefnyddiol y tu fewn i furiau yr eglwys, a phenderfynodd i ymroddi i waith ei Arglwydd y tu faes iddi. Y dydd y cymerodd y clerigwr arall feddiant o Languge, pregethodd Mr. Davies y tu allan i'r hen adeilad, a hyny mor efengylaidd a gwlithog, fel ag yr anghofiodd ef a'i bleidwyr y siomedigaeth a gawsent. Y canlyniad a fu iddo droi ei gefn yn llwyr ar eglwys Loegr, ac ymroddi i wasanaethu Duw yn efengyl ei Fab ef, yn mysg y Methodistiaid. Nid yw yn ymddangos, ynte, ddarfod troi Mr. Davies allan o'r eglwys gan ei uchraddiaid eglwysig, ond mai efe a ymadawodd, o hono ei hun, gan gwbl gredu mai felly yr arweinid ef gan ewyllys Duw; ac mai felly y gallai wasanaethu ei genedlaeth ei hun yn fwyaf effeithiol. Prawf diymwad a gawn, o ymlyniad rhai, o leiaf, o blwyf Llanguge wrtho, yn y ffaith fod un amaethwr, galluog a pharchus o'r plwyf, yn danfon cynorthwy arianol iddo i Gastell-nedd, ar ol ei wrthod gan y gwŷr mawr, gan gymaint yr hoffai efe Mr. Davies a'i athrawiaeth.

Mewn canlyniad i'r ymneillduad hwn, cyfarfyddai Mr. Davies a'r aelodau hyny a'i canlynodd ef maes o'r eglwys â'u gilydd, gan ymffurfio yn gymdeithas eglwysig yn nhŷ un Edward Morgan, Penbwchlyn, yn agos i'r fan y bu Mr. Rowlands, Llangeitho, yn pregethu, dan y sycamorwydden. Bellach, yr oedd holl Gymru yn agored i Mr. Davies i lafurio ynddi. Pregethai yn fynych mewn tai anedd yn y gymydogaeth, ac yn yr awyr agored; a llawer oedd yn y dref a'r amgylchoedd, a ddychwelwyd trwy ei weinidogaeth. Gwelwyd angenrheidrwydd erbyn hyn i helaethu lle eu pabell, gan fod nifer y dysgyblion wedi amlhau, a'r gwrandawyr wedi lluosogi. Cafwyd dau dŷ anedd yn y rhan ddwyreiniol i'r dref, y rhai a gymhwyswyd i fod yn lle cyfarfod. Yn mhen ychydig flynyddau ar ol hyn, y priododd Mr. Davies, ac y bu dros ryw dymhor yn cadw ysgol ddyddiol yn y dref. Yn y modd yma y treuliodd rai blynyddau; a Duw a ddygai dystiolaeth amlwg iawn i air ei ras trwy ei was hwn, er lleshad eneidiau lawer.

Gerllaw y dref hon y mae hen gapel Gyfylchi, capel a fu yn enwog gynt, gan mai iddo yr ymgynullai lluaws mawr ar Sabbothau cymundeb, fel y gwneid i Lanlluan, ac ar ol hyny i Langan. Adeiladwyd hwn yn mhlwyf Mihangel, i'r dwyrain o dref Castell-nedd. Mae yn sefyll ar fryn rhwng dau gwm. Bernir ddarfod ei adeiladu yn neillduol i Mr. Davies, tua'r fl. 1776, rhyw gymaint o amser ar ol ei droad llwyr at y Methodistiaid. Mae gwedd tra eglwysaidd ar y capel hwn, ac oddiar y wedd sydd arno, a'r defnydd a wnaed o hono, am agos i 40 mlynedd, fel lle y gweinyddai offeiriaid Methodistaidd swper yr Arglwydd ynddo, honid mai capel perthynol i eglwys Loegr ydoedd. Ond nid yw yn ymddangos iddo gael ei gysegru erioed; onide, bernir y buasai, er ys llawer dydd, wedi ei feddiannu gan eglwyswyr at eu gwasanaeth; ond hyn ni allasant er ymdrechu. Rhenid yr adeilad hwn megys yn ddau gysegr,—y santeiddiolaf a'r cyffredin. I'r santeiddiolaf yr âi yr offeiriaid yn unig, ond yn y llall yr arferai holl bregethwyr y cyfundeb weinyddu. Byddai pregethwr yn traddodi ei genadwri yn y lle cyffredin am 9 o'r gloch y bore; ac wedi iddo ef ddarfod, ymddangosai yr offeiriad yn ei le yntau, a'r holl gynulleidfa a droent eu hwynebau ato. Fel hyn y bu am flynyddau lawer, heb fod yr un cynghorwr neu bregethwr yn anturio croesi y wahanlen; ond o'r diwedd diflanodd y sŵyn, a chymerodd y pregethwyr druain galondid i fyned i mewn i'r lle santaidd.

Arferai llawer o offeiriaid eraill heblaw Mr. Davies, weinyddu yn nghapel Gyfylchi; megys, Mr. Jones, Llangan; Mr. Howells, Trehill; Mr. Howells, Llwyn-helyg; Phillips, Llangrallo, ac eraill. Sonia yr hen bobl lawer am yr oedfaon gwlithog a hyfryd a gafwyd yn y capel hwn. Dyhidlwyd yma lawer o'r gwlaw graslawn ar yr etifeddiaeth. Cafwyd yma ddiwygiadau grymus lawer gwaith; ac er nad yw y capel yn cael ei ddefnyddio yn awr at wasanaeth yr achos, ond fod adeilad newydd a mwy cyfleus wedi cymeryd ei le; eto y mae adgofion hyfryd yn gysylltiedig ag ef. Llawer gwaith y bu Siencyn, Benhydd yn cynghori ynddo; nid yn y santeiddiolaf, does bosib', ond dan y gronglwyd yn rhywle; yma hefyd y dechreuodd y ffyddlawn Richard James bregethu, ac yma y gorphenodd ef ei daith.

Tua'r fl. 1780, cynaliwyd cymdeithasfa yn Nghastell-nedd. Yn y cyfarfod hwn yr oedd y Parchn. Daniel Rowlands, a'i fab Nathaniel; Peter Williams; a William Williams, Pant-y-celyn; yn nghyda phregethwyr eraill llai eu henwogrwydd. Dywedir fod y nefoedd yn rhoddi yn llael o'r bendithion ar yr achlysur; a pharodd y gymdeithasfa hon, meddant, ei chofio yn hir gan y gwrandawyr oedd ynddi. Yr oedd boneddwr yn byw mewn lle a elwir yr *Hill*, yn Llanelltyd, o'r enw Mr. Leyshon, yr hwn oedd yn ŵr duwiol a charedig iawn. Yn ei dŷ ef y lletyai y pregethwyr a ddaethent yn nghyd i'r gymdeithasfa, ac yn nhŷ Mr. Thomas Smith, tad y diweddar Mr. Smith, o Aberafon. Ymddengys fod amryw o'r enw Leyshon yn aelodau yn eglwys Llansamled yn nyddiau boreaf Methodistiaeth, perthynasau, fe allai, i'r boneddwr uchod. Nid hir ar ol y gymdeithasfa uchod y bu Mr. Davies byw;

oblegid ni a gawn iddo farw yn y fl. 1787, yn 60 ml. oed, ac y'i claddwyd yn mynwent y dref. Pregethodd Mr. Jones, Llangan, ei bregeth angladdol ef, a dywedir fod Mr. Jones yn wylo y dagrau yn hidl uwch ben bedd ei gyfaill, ac yn dyweyd, "O! Davies anwyl! O! Davies, gwas yr Arglwydd! ti fuost farw! Do! disgynaist i'r bedd a'th goron ar dy ben!"

Llawer o bregethu sydd wedi bod gan bregethwyr Methodistiaid De' a Gogledd yn y dref hon, ac yn y Fonachlog gerllaw y dref, a hyny nes dofi llawer o fechgyn gwyllfion ac anwar Castell-nedd. Yma y daliwyd Jenkin Harri, un o brif gampwyr y fro, ac yma y dechreuodd bregethu. Hyfryd yw chwanegu am y gŵr hwn, fod ei ffyddlondeb yn achos yr efengyl wedi cyfartalu yn anrhydeddus i'r aidd a ddangosasai gynt gyd âg achos gwrthwyneb. Tynodd i lawr yn ngweddill ei oes gymaint ag a allai o'r drwg a godasai gynt. Canfu mai mwy na digon oedd yr amser a aethai heibio o'r einioes i wasanaethu diafol a phechod, a theimlodd mai gweddus iddo, dros yr amser oedd yn ol iddo ar y ddaear, oedd ymgysegru yn llwyr ac egnïol i gyflawni ewyllys yr hwn a'i galwasai i'w winllan. Cafodd yr anrhydedd o barhau yn ffyddlon hyd angau, a derbyniodd yn ddiau goron y bywyd.

Nid oes gan yr ysgrifenydd ddim o hanes Castell-nedd yn ystod yr hanner canrif olaf; hyny sydd ond odid am nad oedd pethau hynod wedi digwydd o fewn y tymhor hwnw. Rhaid datgan, pa fodd bynag, fod yma lawer cam ymlaen wedi ei roddi er y pryd hwnw. Yr ysgol Sabbothol wedi ei sefydlu; moddion cyhoeddus yn ddifwlch wedi cael eu cadw; nifer lawer wedi cael eu hennill i roddi clust o ymyrandawiad serchog, ïe, crediniol i efengyl y deyrnas; yr eglwys, er colli yr enwog a'r hen, wedi cael ei chyfnerthu âg aelodau a'i chyfoethogi â thalentau. Nid oes un pregethwr yn aros yn yr eglwys hon yn awr, ond y Parch. Samuel Jones.

CREUNANT.

Mae y lle hwn yn gorwedd tua chwe' milldir i'r gogledd o Gastell-nedd; ac er nad ydyw ond lle bychan, yn sefyll mewn ardal neillduedig, a lled anhygyrch; ac er nad yw y tŷ addoliad ddim yn fawr nac yn wych, na'r gynulleidfa na'r eglwys chwaith ddim yn nodedig am eu rhif na'u rhwysg, eto y mae yn honi cryn henafiaeth.

Dechreuodd pregethu yma yn moreu Methodistiaeth, a chynysgaethwyd hen drigolion yr ardal â gweinidogaeth ardderchog yr hen dadau. Bu yma lawer o adfywiadau grymus, o bryd i bryd, ac ystyrid y lle hwn ar ryw gyfrifon yn un o brif orsafoedd Methodistiaeth yn ystod y deugain mlynedd cyntaf. Cawn benderfyniad a wnaed mewn cyfarfod a gynaliwyd yn Llanddeusant (sir Gaerfyrddin tybygid), yn y fl. 1742, ag sydd yn dwyn perthynas â'r lle hwn; fel hyn y mae yn cael ei eirio:—

"Fod y brawd John Jones o Caio, i ymsefydlu gerllaw, ac i arolygu, bob yn ail wythnos, y cymdeithasau yn y Creunant, Palleg, Hafod, Castell-nedd,

Cwmaman, Llandeilo-fach, Blaenllywel, Casllwchwr, Llansamled, Llangyfelach, Llanddeusant, Llanon, Penbre, a Dyfynog, gyd â'r brawd John Richard; a'u bod i gael eu cynorthwyo gan y brawd Jeffrey Dafydd yn Llanddeusant; gan John Powel yn Dyfynog; Jenkin John yn Llywel; Edward Meiric yn Penbre; a chan George Phillips yn Nghastell-nedd a'r Hafod."

Mewn penderfyniad a wnaed Mawrth 1af, 1742, mewn cyfarfod a gynaliwyd yn Glan-yr-afon-ddu, sir Gaerfyrddin, ni a gawn fod John Richard, Llansamled, i gymeryd gofal y gymdeithas yn y Creunant, ac i bregethu ynddi.

Yn y flwyddyn ganlynol y mae cŵyn yn erbyn y lle hwn, "*mai lled sychlyd oedd yr aelodau, oddieithr rhyw ychydig.*" Yn yr un tymhor hefyd yr ydym yn cael fod nifer yr aelodau yn ddeuddeg. Y pryd hwn John Richard, Llansamled, oedd y cynghorwr a arolygai y gymdeithas; a chan mai ychydig o adgofion am dano sydd yn awr ar gael, bernir y byddai dyfyniad o lythyr a anfonodd i gynulliad ei frodyr yn fantais i'r darllenydd gael cipolwg ar wedd pethau yn y tymhor hwnw, yn gystal a chael mwy o adnabyddiaeth o'r hen gynghorwr. Fel hyn yr ysgrifenai:—

"Yn awr y mae genyf un peth i'w osod o'ch blaen, am y credwyf y cydymdeimlwch â fi, yn hyn o beth, er mwyn Duw. Oblegid yn wir y mae yn gyfyng arnaf, i wybod, pa un fydd fwyaf er gogoniant Duw, i mi fyned o amgylch, fel yn awr. ai aros adref gyda fy nheulu, a gwneyd yr hyn a allaf o ddeutu cartref. Ond yn wir, os ydwyf yn fy adnabod fy hun, mae y cnawd yn dewis aros gartref, yn hytrach na myned o amgylch, ond y mae y creadur newydd (os wyf yn barnu yn gywir) yn dewis myned o amgylch; ac yr wyf yn ymddyrysu cymaint rhwng y *ddau greadur*, fel nas gwn pa beth i wneyd, a fyddo yn fwyaf er gogoniant i Dduw. Mae y meddyliau hyn yn fy nyrysu i, mai gweddus fyddai i mi aros gartref i gynorthwyo fy ngwraig gyda dau blentyn ar ei dwylaw; ac nid ewyllysgar iawn ydyw hithau i mi fyned allan;—bryd arall barnwyf fy mod wedi fy nghalw i fyned o amgylch i borthi ŵyn Crist, yn ol y goleuni a'r dawn a roes Duw i mi; ac hefyd ni adawodd efe fod arnaf eisiau dim, er pan yr ymfwriais i freichiau ei ragluniaeth, fel pe gofynid y cwestiwn i mi, "A fu arnat ti eisiau dim?" gallwn ateb gyd â'r dysgyblion, "Naddo, ddim Arglwydd." A chredu yr wyf, os ymddengys i chwi fod fy ngwaith yn myned o amgylch, yn ogoniant i Ddaw, ei fod yn rhoi amnaid i mi y cynelir fi, ac na fydd arnaf eisiau dim, can belled ag y bydd hyny yn ogoniant iddo ef. Canys y mae wedi gwneuthur pethau rhyfedd i mi yn barod, bendigedig fyddo ei enw anwyl ef, Amen. Crefaf arnoch wneud cydwybod o ofyn meddwl Duw ar hyn, ac anfon gair i mi beth a fydd; minau a ymostyngaf i'r hyn y byddoch chwi yn cwbl farnu ydyw ei ewyllys ef. Byddwch wych, anwyl frodyr, a'r Arglwydd fyddo eich cydymaith tra fyddoch gyd a'ch gilydd. Amen.

Hyn oddiwrth eich annheilwng frawd,

JOHN RICHARD.

Yn y fl. 1744, mae John Richard yn dyweyd am Creunant, "Mi a fum yno yn ddiweddar a mawr oedd y gŵyn fod llawer o honynt yn esgeuluso dyfod ynghyd, a bod hyny yn achosi rhagfarn, yn eu plith, a meddyliau caled am eu gilydd."

Mae y gymdeithas eglwysig yn y lle hwn, pa fodd bynag yn aros hyd heddyw. Ymddengys fod capel wedi ei adeiladu yma er ys tros 80 mlynedd, a

bod merch heb briodi, o'r enw Mary Thomas, wedi gadael llog dau cant o bunnau at yr achos yn y lle tra fyddo Methodistiaeth yn aros yma. Cododd amryw o bregethwyr yn yr ardal hon, megys Rees Hopkin, Morgan Lewis, Thomas Price, a Rees Hopkin, perthynas i'r cyntaf o'r enw; y rhai oll ydynt wedi cilio o'r maes, ac yn gorphwys oddiwrth eu llafur; ac am y rhai y dywedir, "mai dynion da a defnyddiol oeddynt yn eu tymhor."

Dywedir mai yn nhŷ un Jenkin Thomas, Tŷ-newydd, y cadwyd y cwrdd eglwysig cyntaf, ac mai yn ei dŷ ef y bu yr achos yn cartrefu dros rai blynyddau. Tad Thomas Jenkins, Salem, oedd y gŵr uchod. Wedi hyny ardrethwyd tŷ yn y pentref, yr hwn a safai yn y fan lle y mae y capel a'r tŷ sydd wrtho yn awr; ac yn y tŷ hwn y cynaliwyd addoliad am flynyddau. Yn mhen rhyw dymhor, penderfynwyd cymeryd ysgrif-rwym (*lease*) ar y tŷ, a chael dernyn bychan o dir ato, a chafwyd hyny. Mae y *lease* i barhau tra y rhedo dwfr, a hyny am y swm o bedwar swllt ar ddeg yn y flwyddyn. Ar yr un ysmotyn tir yr adeiladwyd y capel; a rhoddodd y Jenkin Thomas crybwylledig ddeugain punt tuag at y draul.

Bu y waddol a adawodd yr hen ferch o Hendre-gyngan at wasanaeth Methodistiaeth yma, yn achlysur profedigaeth chwerw i'r brodyr. Pan clybu y gŵr a roes y rhwym-ysgrif am y capel, yr hwn oedd etifedd Mary Thomas, beth a wnaethai ei berthynas, a theimlo ei fod ef ddau cant o bunau tlodach oblegid y rhodd, chwerwodd yn drwm, a daeth i'r capel i aflonyddu yr addoliad ac i wawdio y pregethwr. Yr oedd hyn yn y fl. 1769. Ni ddywedir pa fodd na pha bryd y gostegwyd y dymhestl hon.

Profodd y Creunant rai adfywiadau grymus iawn. Y cyntaf y mae genym hanes am dano a ddigwyddodd tua thri-ugain a phymtheg o flynyddau yn ol; yr oedd hyny pan oedd yr achos yn isel iawn ei wedd, a'r crefyddwyr yn ychydig iawn eu rhif. Bu yr adfywiad hwn yn foddion i ychwanegu amryw at nifer y dysgyblion, ac yn eu plith, yr oedd dau a fuont wedi hyny yn dra defnyddiol gyd â'r gwaith, sef, Morgan Lewis a John Jenkins. O dan gweinidogaeth tad y Parch. Benjamin Williams, y torodd yr adfywiad hwn allan.

Tua dechreu y ganrif hon y cychwynodd yr ysgol Sabbothol yn yr ardal. Yn y lle hwn hefyd, fel mewn llaweroedd o leoedd eraill, yr oedd ei ddechreuad yn fychan; yr oedd yma ysgol lled wych yn y gauaf, ond yr oedd yn colli ei hanadl yn yr haf. Yn y wedd yma, tybygid, y parhaodd am ysbaid 12 mlynedd. Bellach, ymaflwyd yn fwy egnïol yn y gwaith; rhoddwyd ail-gychwyniad i'r ysgol, a llwyddodd yr ymdrech i ateb y dybeu. Yr oedd yma ar y pryd, hen ferch ddiwiol iawn, o'r enw Mary James, chwaer i'r hen bregethwr ffyddlawn Richard James, yn byw yn yr ardal. Pan ail-gychwynwyd yr ysgol Sul, hi gynniweiriai o amgylch y gymydogaeth i gymhell pawb i ddyfod iddi. Ond ni chafodd yr hen chwaer fyw i weuthur hyn ond dau Sabboth. Arferai hefyd fyned *bob dydd i'r capel* i weddio am i'r Arglwydd ymweled â'r gymydogaeth yn ffordd ei ras, ond ni roddodd iddi weled atebiad i'w gweddiau. Ond yn y cyfarfod

gweddio a gynaliwyd ar ei gŵyl-nos hi, torodd diwygiad allan. Nid oedd yno ond yr hen flaenor John Jenkins, ac ychydig o ferched a gwragedd, i gynal y cyfarfod. Darllenodd y gŵr bennod, a rhoes allan bennill i'w ganu. Ond yn fuan wedi dechreu y gân, caed arwyddion lled sier mai nid ebrwydd y darfyddai. Disgynodd dylanwad dirgel ar yr ychydig nifer yn y lle, a roes deimladau newydd yn eu mynwesau, a sain newydd yn eu caniadau. Nid oedd un arwydd y rhoddid cyflensdra i'r gŵr a roes y pennill allan fyned ar ei liniau y noson honno. Cryfhaodd y dylanwad fwy-fwy; gwresogodd y teimlad a'r gân yn gyfatebol; a pharhaodd felly dros y rhan fwyaf o'r nos. "Doethineb a hiliodd ei bwrdd, ac a gymysgodd ei gwin;" ac nid rhyfedd gan mor amheuthyn ydoedd fod yr hen bobl wrth ei flas "yn neidio ac yn moli Duw." Sugnodd yr ymweliad hwn eraill i'r lle, nes oedd y tŷ yn fwy na llawn. Chwanegwyd llawer at yr eglwys fechan trwy yr adfywiad hwn. Fel hyn, o nerth i nerth, y mae yr achos yn aros hyd heddyw. Ac er nad ydyw nifer yr aelodau ddim yn fawr, eto y mae gwedd siriol a chysurus ar y gwaith, a chwmwl y gogoniant heb lwyr ymadael.

MAESTEG, Y BABELL, A'R SPELTER, PLWYF LLANGYNWYD.

Mae yn hysbys fod Howel Harris wedi bod yn pregethu yn Llangynwyd, a hyny mewn amser yr oedd yr ardal hon, fel Cymru yn gyffredinol, yn gorwedd mewn drygioni, ac yn eistedd yn mro a chysgod angau. Safai y pregethwr, meddir, ar y '*Mount*,' yn ymyl mur y fynwent o'r tu allan: ac o'r fan hon y taranai nes oedd y diofal a'r difraw yn cynhyrfu. Do! clybuwyd llef y Boanerges hwnw gan bentrefwyr esgeulus Llangynwyd. Mae y pentref hwn yn gorwedd i'r gogledd o'r Pîl, ac ychydig i'r dê-ddwyrain o Gastellnedd, yn nghanol mynyddoedd.

Yn y tymhor crybwylledig, yr oedd offeiriad y plwyf yn byw mewn amaethdy o'r enw Maesgadlawn, nid yn mhell oddiwrth y pentref. Nid oedd Mr. Thomas (canys dyna oedd ei enw), fel Galio gynt, yn gofalu am ddim o'r pethau hyn. O'i ran ef yr oedd i Howel Harris, neu i ryw un arall, ryddid i bregethu neu gynghori, neu beth bynag arall, heb un perygl ymyriad oddiwrtho ef. Ond yr oedd ei wraig ef o naws wahanol. Eiddigeddai hi yn danbaid iawn, nid tros eneidiau dynion, ond tros y sefydliad eglwysig, ac ni allai oddef y meddwl i neb ymyryd ag addysgiad y plwyfolion ond eu hathraw awdurdodedig. Pan y clybu hi fod Harris wedi bod yn pregethu ar y '*Mount*,' anfonodd yn y fan ryw rai i dynu y '*Mount*' i lawr bob careg, am ei halogi gan bregethwr diurddau, a chan mor enbyd ydoedd i naws yr halogedigaeth dreiddio drwy y mur i'r tir cysegredig! Nid oes sicrwydd mawl am yr amser y bu hyn; ond hyn sydd amlwg mai hyn oedd cychwyniad cyntaf Methodistiaeth yn y rhan yma o'r wlad.

Nid ocs amheuaeth na fu yma oedfaon achlysurol ar ol yr un uchod, gan rai o'r diwygwyr boreaf y Methodistiaid; ond am ysbaid maith o flynyddau, fe

allai 30 mlynedd, mwy neu lai, ar ol oedfa Howel Harris, nid oedd yma ddim achos sefydlog a chyson; ac nid oes dim hanes ar gael am y moddion achlysurol a ddefnyddid, os yn wir fod moddion yn cael eu defnyddio. Tua'r fl. 1774, pa fodd bynag, dechreuwyd cadw cyfarfodydd gweddio, a chyrddau eglwysig, mewn amaethdy o'r enw Nant-y-crynwydd. Mae darn o'r tŷ, meddir, cto yn sefyll; ond gan fod gweithfaoedd haiarn mawrion wedi eu hagor er y pryd hwnw, a ffwrneisiau mawrion wedi eu codi, y mae gwedd yr ardal wedi llwyr newid; cymaint ag nas gallai un o'r hen breswylwyr, pe codai oddiwrth y meirw, adnabod ei hen gartref ei hun. Y rhai a ofalent am yr achos gyntaf yn y lle hwn, oeddynt, Evan Madoc, John Dafydd, John Howel, a Bety Hopkin; yn mhen ychydig chwanegwyd atynt, John Madoc a William Evans. Mae yr olaf a enwyd eto yn fyw (1855).

Mae enw Rhys Howel, o'r Sychpant, yn sefyll mewn cysylltiad â'r achos er yn fore, er nad mor fore a'r rhai a enwyd uchod. Ar ol iddo ef ymuno, symudodd y cyfarfodydd eglwysig i'w gartref ef, lle y bu yr ychydig frodyr, dros beth amser, yn arfer cwrdd â'u gilydd i addoli. Yr oedd Rhys, o'r Sychpant, yn enwog yn mhlith ei frodyr am ei ddawn a'i hyawdledd fel gweddiwr. Amaethdy lled gyfrifol ydyw y Sychpant, a meddiant gan Rhys arno dan *lease*. Cafodd ar ei feddwl neillduo congl o un o'r maesydd i adeiladu capel arno; a thrwy gymhorth yr ardal, fe wnaed hyny yn lled rwydd. Galwyd y capel, y "Graig-fach." Y mae yr adeilad eto yn aros, ond wedi ei droi yn dŷ anedd. Teimlai y cyfeillion yn awr yn lled galonog yn eu tŷ eu hunain. Ond nid hir y cawsant fwynhau yr hyfrydwch hwn cyn fod argoel drycin yn ymddangos. Yr oedd Rhys yn ŵr o dymher bocthlyd a chyflym; a chyda hyny yn dangos cryn awydd am y flaenoriaeth, pryd nad oedd pawb yn foddhaol iddo gael hyny. Pa fodd bynag, cododd anghydfod rhwng Rhys â'i frodyr, a chryfhaodd gymaint nes iddo ymadael oddiwrthynt. Ciliodd at yr Annibynwyr, a chymerodd y 'Graig-fach' gydag ef, oblegid yn ei law ef yr oedd yr hawl i'r capel. Bu y capel dros rai blynyddau yn meddiant y brodyr hyny, a thros ryw dymhor, bu y Parch. Abraham Tibbot ynddo yn gweinidogaethu.

Yr oedd y ddeadell fechan Fethodistaidd, bellach, heb un gorlan. Yr oedd John Madoc, un o'r praidd, yn byw ar y pryd mewn tyddyn cyfagos, o'r enw Brynmawr; hwn a agorodd ei ddrws i ddechryn y cyfarfodydd crefyddol i'w dŷ; ac ni allai fod cymwynas yn fwy yn ei hadeg. Trigodd yr arch yma dros rai blynyddau, ac yn y cyfamser, cynaliwyd cyfarfod misol yn yr ardal. Cynaliwyd hwn o ran y pregethau cyhoeddus yn mhentref Llangynwyd; ïe, pregetha rhai o'r brodyr yn llan y plwyf, sef Phillips, Llangrallo, a Jones, Llangan. Ond os caniateid iddynt hwy y llau, gwrthodid hi i'r brodyr eraill. Y ddau ŵr urddasol a enwyd a bregethodd yn y bore; ac yn y prydnawn pregethai Hopkin Bevan, Llangyfelach, yn yr awyr agored wrth gefn yr Ysgubor-ddegwm. Ond er fod canonau a threfn y sefydliad gwladol yn gwrthod y cyfleusdra i Hopkin Bevan bregethu o fewn muriau y llan, nid

oedd un rhwystr o'r fath i attal gweniadau y nef. Bu yn oedfa hynod wrth gefn yr Ysgubor-ddegwm! Tywalltodd y nefoedd ei gwlaw yn gawodydd ar y gynulleidfa, a bu yno ganu a chanmawl, ïe, neidio a moli Duw. Mae rhai o'r sawl oedd yno ar y pryd, ac yn mwynhau y wledd, eto yn fyw. Torodd adfywiad hyfryd allan trwy y tro hwn, yr hwn a ymdaenodd dros yr holl ardal, ac a barhaodd dros gryn amser fel ag i ychwanegu llawer at yr eglwys.

Yr oedd Rhys, o'r Sychpant, weithian yn glaf, ac yn dynesu yn brysur i'r bedd. Yr oedd lliniaru hefyd, mae'n debyg, wedi bod ar ei deimladau anesmwth gynt, a dywedir ddarfod iddo ddymuno ar i'r Graig-fach gael ei hadferu drachefn i'r Methodistiaid. Ar ol ei farwolaeth ef, felly hefyd y gwnaed, a chafodd y cyfundeb *lease* ar yr adeilad gan y meistr tir. Yn y fl. 1800 y bu Rhys farw, pryd y dychwelodd yr achos o'r Brynmawr i'r Graig-fach, i'w hen gartref; ac arosodd yma hyd y fl. 1828.

Yr oedd gwedd pethau yn y tymhor hwn yn newid yn fawr, a'r achos yn ymgadarnhau. Dechreuodd gwaith haiarn y Maesteg tua'r amser hwn, a thrwy hyny llwosogodd poblogaeth yr ardal yn fawr. Yn y flwyddyn grybwylledig, sef 1828, prynwyd capel newydd yn agos i'r gwaith, yr hwn a elwir 'Capel y Maesteg.' Adeiladesid hwn gan yr Annibynwyr, ac i hwn, bellach, y symudwyd yr achos o'r Graig-fach. Ar yr achlysur hwn, cododd anghydweliad yn mhlith yr aelodau, yr hyn a esgorodd ar ymraniad, nid oddiwrth y corff, ond oddiwrth eu gilydd. Nid oedd pawb yn foddlawn i fyned i Maesteg; a chan hyny cymerasant ystafell yn Llangynwyd; ystafell *clwb* a berthynai i'r Dafarn-isaf. Y pryd hyn, y daith Sabbothol ydoedd Pont-rhyd-y-fen, Maesteg, a Llangynwyd. Y pryd y cychwynodd hyn nid oedd yr aelodau yn y ddau le olaf a enwyd uwchlaw deg-ar-hugain.

Aeth yr achos yn mlaen yn y wedd yma am ysbaid 10 mlynedd. Yr oedd ystafell Llangynwyd tua dwy filldir o ffordd oddiwrth gapel y Maesteg, ac felly nid oedd y naill gynulleidfa yn un rhwystr i'r llall, ond y ddwy yn hytrach yn gynorthwy i'w gilydd.

Tua'r fl. 1839, dechreuwyd gwaith haiarn newydd arall yn yr ardal, yr hwn yn naturiol a barodd ymlifiad newydd o breswylwyr i'r lle. Aeth capel Maesteg yn rhy fychan, a meddyliwyd adeiladu un newydd mewn lle mwy cyfleus. Felly, yn y fl. 1340—1, adeiladwyd capel arall mawr a hardd, yr hwn a gynwys tua 1500 o wrandawyr. Anturiaeth fawr i bobl dlodion; eto gorphenwyd yr adeilad brydferth bresenol, er iddo gostio tua £1,200. Bu hyn yn chwanegiad dirfawr i'r achos; cynyddodd yr ysgol Sabbothol yn gannoedd, a'r gwrandawyr yn gyfatebol; a chwanegwyd llawer at yr eglwys. Yn fuan ar ol cael capel newydd yn Maesteg, meddyliwyd am gael gwell lle nag ystafell y *clwb* yn Llangynwyd. Yno hefyd yr adeiladwyd capel bychan cryno a thra chymhwys. Bellach, Llangynwyd a Maesteg a ffurfiai y daith Sabbothol.

Yr oedd poblogaeth y fro yn parhau i luosogi, a'r ddyled anferth a ffurfiwyd trwy godi y capel mawr, wedi ei darostwng trwy ffyddlondeb a dyfalwch tra

chanmoladwy y gynulleidfa. Tua'r fl. 1849—50, i gyfarfod a lluosogiad y trigolion, ac mewn rhan i liniaru yr amddifadrwydd a deimlid o foddion gras, dechreuwyd ysgol Sabbothol mewn cwr arall o'r ardal, tua dwy filldir i'r gogledd oddiwrth y capel mawr. Coronwyd yr ymgais â llwyddiant, ac ymgasglodd yno luaws mawr o blant, a rhai mewn oed. Bu raid, yn fuan, feddwl am addoldy yma drachefn. Ymosodwyd at y gorchwyl o ddifrif, a chafwyd yma gapel bychan a chysurus; gan ei alw yn ol enw y lle, y 'Spelter.' Yr oedd aelodau 'Tabor' (y capel mawr), y pryd hwn, rhwng dau a thri chant; ac o'u mysg ymrôdd rhyw nifer i fyned i Spelter i ddechreu ysgol yno; a thrwy lawer o ffyddlondeb ac ymroad, y mae y gwaith yno yn ymwisgo mewn gwedd siriol a llwyddiannus.

Fel hyn y mae yr ychydig enwau a gyfarfyddent â'u gilydd yn Nant-y-crynwydd ar y dechreu, tua 80 ml. yn ol, wedi myned, erbyn hyn, yn dair mintai, ac yn argoeli yn dda. Tabor, Maesteg, ydyw y prif gapel. Mae yr eglwys yno yn awr rhwng dau a thri chant o nifer; deiliaid yr ysgol Sabbothol yn 400 neu fwy; a'r gwrandawyr yn mhell ar 1500. Pa drugaredd mor fawr i ardaloedd o'r fath ag ydyw hon, fod moddion gwybodaeth o Dduw a'i air yn cydgerdded a chynydd y trigolion mewn rhifedi. Pwy all ddirnad pa faint o ddrygau a attelir,—pa faint o gysur a gynyrchir; ïe, pa nifer o eneidiau tragwyddol a achubir!

PENNOD V.

EGLWYSI A PHREGETHWYR BOREOL Y SIR.

CYNWYSIAD:—

ABERTHYN—CYMDEITHAS EGLWYSIG YMA YN 1742—ADEILADU CAPEL—DAVID WILLIAMS YN GWEINIDOGAETHU YNDDO—YMRANIAD AR OL EI FARWOLAETH.—LLANGAN A'I HAMGYLCHOEDD—PARCH. DAVID JONES—ANSAWDD Y WLAD AR EI DDYFODIAD IDDI—ADEILADU CAPEL SALEM—CYNULLIADAU MISOL LLANGAN—LLAFUR TEITHIOL MR. JONES—GWYLMABSANT LLANBEDR—GWRTHWYNEBIAD Y CLERIGWYR I MR. JONES—CYMERIAD EI WEINIDOGAETH.

ABERTHYN.

Yr ydym eisoes wedi dangos fod Howel Harris a'i gyd-lafurwyr wedi ymweled â'r parth hwn o'r wlad, sef Bro Morganwg; ac wedi bod yn offerynol i gasglu nifer o ddysgyblion at eu gilydd mewn amrywiol fanau; ac yn mysg manau eraill, ni a gawn enw Aberthyn. Yr oedd yma ryw nifer o grefyddwyr yn ymgasglu at eu gilydd mor fore a'r fl. 1742, ac yn y fl. 1749, adeiladwyd yma gapel. Yr oedd hyn tua 19 o flynyddau cyn dyfod Mr. Jones i Langan. Adeiladwyd y capel hwn yn *benaf*, ond nid yn *gwbl*, gan Fethodistiaid. Cynorthwywyd hwy gan yr Annibynwyr, i'r rhai yr oedd nifer bychan o ddylynwyr yn y rhan yma o'r wlad, ond nid oedd ganddynt yr un

addoldŷ. A chan yr anhawsder a brofid gan yr ychydig grefyddwyr i adeiladu addoldy, pob plaid iddi ei hunan; a chan yr ystyrid nad oedd dim gwahaniaeth o bwys rhwng y ddau enwad mewn materion athrawiaethol, cytunwyd i gyd-adeiladu y capel; a chaniatâu i bregethwyr y ddau enwad, y rhai nid oeddynt ar y pryd ond ychydig eu rhif, gyd-ddefnyddio yr adeilad. Gwnaed hyny hyd y fl. 1780, sef 41 o flynyddau. Yn y flwyddyn hon fe'i tynwyd ef i lawr ac adeiladwyd un arall yn ei le; a bu y ddwy-blaid yn cyd-addoli yn y capel newydd hyd y fl. 1796. Ond yr oedd yspryd plaid eisoes wedi lefeinio yr aelodau a'r gynulleidfa yn drwm. Yr oedd y Parch. David Williams, fel y crybwyllasom, gan y prinder oedd yn y wlad o neb i weinyddu y sacramentau, wedi ei ordeinio yn ol dull yr Annibynwyr, er mai yn mysg y Methodistiaid y cyfrifid ei fod. Ond yr oedd llawer o bregethwyr yn defnyddio pwlpud Aberthyn heb law David Williams; ac yr oedd syniadau yn cael eu traddodi, gan eraill, nad oedd ef yn eydsynio â hwy, yr hyn yn raddol a barodd fod ysbryd anghariad a rhagfarn yn cyfodi ei ben yn mysg yr addolwyr. Ymdaenai egwyddorion cyfeiliornus yn eu plith. Cofleidiai rhai syniadau Antinomaidd, eraill rai Sabelaidd; ond nid yw yn ymddangos fod ymraniad cyhoedd wedi tori allan hyd ar ol marwolaeth Mr. Williams. Ond ar ol ei ymadawiad ef, ymhyfhaodd y blaid Sabelaidd, gau gyhoeddi eu syniadau yn eofn ac yn ddigêl, a cheisio hefyd draws-feddiannu y tŷ ewrdd. Un Sabboth, gan hyny, pan ddaeth y gynulleidfa yno, hwy gawsant y drws yn glöedig, a'r allwedd yn meddiant un o'r frawdoliaeth hòno. Nacaodd ei roi i fynu er ceisio. Bellach, nid oedd yn aros ond naill ai pregethu yn yr awyr agored neu fynu myned i mewn. Yr olaf a ddewiswyd. Agorwyd y drws trwy drais, a rhuthrodd y gynulleidfa i mewn mewn cyffro mawr, gan waeddi, "Llwyddiant i'r gwir!" Yr oedd un Mr. Davies, Llangattwg bellach yn weinidog y lle, a bu raid diarddel, ar un bore Sabboth, 36 o aelodau Sabelaidd. Yr oedd yno ar y pryd, fel y gellid dysgwyl, deimladau gofidus, ac anwydau cynhyrfus iawn, a da fu gallu llesteirio troi "tŷ gweddi," yn "faes y gwaed." Y diwedd pa fodd bynag a fu, i'r Sabeliaid ymadael, ac adeiladu capel arall yn nes i'r môr, yr hwn a alwyd Bethesda; a galwasant un o'u plith o'r enw Thomas Williams i'w bugeilio. Bu hwn yn weinidog iddynt am flynyddau lawer. Mae y genedlaeth hono wedi hen fyned at cu tadau; ac, fel y mae goreu, y mae y plant yn rhagori ar eu tadau, gan fod Bethesda yn awr yn meddu ar weinidog parchus, yn pregethu yr athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb.

Ond yr oedd dwy blaid eto yn aros yn Aberthyn,—Methodistiaid ac Annibynwyr; ac er iddynt gydweled a chydweithredu yn erbyn y Sabeliaid, nid oeddynt yn gallu ymdoddi yn hollol y naill i'r llall. Nid ydym yn gwybod ond am un capel arall, sef y Groeswen, yn yr un sefyllfa; yno trowyd y Methodistiaid allan—yma, yr Annibynwyr. Ychydig o ddaioni sydd i'w ddysgwyl o eglwysi a chynulleidfaoedd cymysg o'r fath. Ië, ychydig o gysur a welsom erioed o fod dwy gynulleidfa, o'r un enwad, ond o wahanol iaith, yn

addoli yn yr un capel, pa faint llai o gysur a ellir ddysgwyl rhwng rhai o'r un iaith, ond o wahanol syniadau? Mae y natur ddynol yn ei gwedd anmherffaith bresenol yn anaeddfed i'r sefyllfa. Ar yr un pryd ni allwn lai na gofidio fod y fath ragfarn ac anghydfod rhwng dynion a ddefnyddiant yr un Beibl ac a addolant yr un Duw! A phwy na ddymunai weled yr amser y bydd dysgyblion Mab Duw yn UN!

Yr oedd yma, fel y dywedwyd, gymdeithas eglwysig fechan er y fl. 1742; ac yn mhen dwy flynedd ar ol hyny, dywedir fod yma 22 o aelodau, a bod yn eu mysg dri o bersonau yn cael eu temtio i gablu Crist, ac i wadu ei Dduwdod; ac ar yr un pryd yn anfoddlawn i lochi y fath syniadau. "Mae yma rai," medd yr adroddiad, "yn gryfion, wedi eu gwreiddio a'u seilio yn Nghrist; mae eraill yn weiniaid; eto, gan belled ag y gwn i, y mae cynydd cyffredinol yn eu mysg." Deallwn wrth "Ysgrifion Trefecca" mai gŵr o'r enw Thomas William oedd y cynghorwr a arolygai y gymdeithas hon, ac amryw eraill yn y dosbarth hwn o'r wlad, hyd yr amser, mae yn debygol, yr ymsefydlodd David Williams yn y lle. Mae y gangen eglwys hon gan hyny, yn un o'r ychydig nifer sydd yn aros er dyddiau H. Harris hyd yn awr; nid heb brofi grym awelon cryfion, nid oddiwrth ymosodiadau bygythiol oddi allan, ond oddiwrth heresiau ffyrnig oddi mewn. Eto y mae yn aros hyd y dydd hwn. Nid oes genym le i feddwl fod nemawr gyfnewidiad ar agwedd gyffredin y gwladyddion trwy y mân eglwysi hyn. Yr oedd y tywyllwch trwch yn gordôi yr holl wlad; yr hen gampau yn uchel eu bri, ac yn fawr eu rhwysg. Y cwbl a allai yr ychydig grefyddwyr ei wneyd, oedd cadw tŷ y nos, a gwrthdystio yn erbyn y llygredigaeth cyffredinol. Yr oedd ambell un, ïe ambell deulu, er hyny yn cael eu cipio, megys allan o'r genllif; a phan y disgynai cawodydd grymus adfywiad, byddai mwy o sylw yn cael ei wneyd o'r crefyddwyr, ac ychydig dir yn cael ei ennill yn ychwanegol. Ond ni wnaed argraff cyffredinol ar y wlad nes profi effeithiau yr ysgol Sabbothol. Dyma'r pryd y chwalwyd y nos, y darostyngwyd y campau, ac y codwyd crefydd i sylw y trigolion yn gyffredinol.

LLANGAN A'I CHYFFINIAU.

Mae enw Llangan trwy hir ymarferiad yn swnio yn gynefin yn nghlustiau Methodistiaid, a hyny oblegid cysylltiad y Parch. David Jones â'r lle. Mae enw y gweinidog parchus hwn yn ngenau llnaws o'r Methodistiaid henaf hyd y dydd heddyw; coffadwriaeth yr hwn sydd fendigedig ganddynt, fel un nodedig o goronog yn ei ddydd; ac un y bu ei lafur gweinidogaethol yn ail-adfywiad i Fethodistiaeth Cymru ar ol difrod galarus yr ymraniad. Nid oes amheuaeth na fu gweinidogaeth y Parchn. W. Davies, Castell-nedd, a D. Jones, Llangan, yn dra bendithiol i bechaduriaid lawer, nid yn sir Forganwg yn unig, ond trwy Gymru oll; ïe, yn wir mewn llawer man yn Lloegr. Yr oedd Mr. Davies, ychydig o flynyddau yn henach na Mr. Jones, ond ymddengys

fod y ddau wedi dechreu llafurio yn Fethodistaidd tua'r un amser, a pharhau i gydllafurio am ysbaid 20 mlynedd; ond rhoddwyd i Mr. Jones fyw a llafurio llawer ar ol colli Mr. Davies, sef ysbaid 23 o flynyddau.

Ganwyd Mr. Jones yn y fl. 1785; blwyddyn nodedig ar Gymru am mai ynddi y torodd gwawr y diwygiad; diwygiad y llafuriodd Mr. Jones gynifer o flynyddau i'w amaethu a'i gryfhau. Nid ydym yn barnu mai ein lle, ar hyn o bryd, ydyw ysgrifenu buch-draethiad i'r gŵr enwog hwn, yr un pryd, ymddengys na ddylai "HANES METHODISTIAETH CYMRU," ddim myned heibio iddo yn unig gyda chrybwylliad byr. Ganwyd ef yn Llanllwni, sir Gaerfyrddin. Gorphenodd ei ysgol yn Nghaerfyrddin, ac aeth oddiyno i weinidogaethu i Lanafan-fawr, sir Frycheiniog; oddiyno symudodd i Lëyn yn sir Gaernarfon, lle y bu dros amser byr yn gurad. Yn y fl. 1760 ni a'i cawn yn gwasanaethu plwyfydd Trefethin a Chaldicot, sir Fynwy. Ymddengys ei fod yn cael ei ystyried yn bregethwr ennillgar o'r dechread, ond nad oedd yn adnabod y gwirionedd fel cristion profiadol cyn yr amser yr oedd yn gweini yn y lleoedd olaf a nodwyd. Darllen gwaith Flavel, meddir, a fu moddion ei ddychweliad at Dduw. Nid oedd modd, pe buasai ddymunol, celu y cyfnewidiad a gymerasai le; ymddangosodd yn fuan yn ei weinidogaeth yn gystal ag yn ei fuchedd; a dygodd hyn arno, fel mae mwyaf y gresyni, ŵg y periglor. Rhaid oedd y pryd hwnw, tybygid, i gurad Trefethin fod yn ddyn annuwiol, os mynai wedd ei uwchafiad; ac erys y cyfryw raid eto mewn llawer plwyf. Cyn hir symudodd Mr. Jones i blwyf arall, yn agos i Bristol; a thrachefn i swydd Wilts; ond yr oedd gwrthwynebiad iddo ar gyfrif diehlynrwydd ei fywyd, ac efengyleiddrwydd ei weinidogaeth, yn ei gyfarfod yn mhob man, ac yn peri nad oedd iddo arosiad hir yn y lle ŷ byddai.

Yr oedd, bellach, tua 33 ml. oed. Oddeutu yr adeg y bu yn aros yn *Wiltshire* daeth yn adnabyddus i'r Iarlles Huntingdon; pendefiges a lygadai ar wŷr o gymeriad ac amgylchiadau Mr. Jones, a bu hyn o wasanaeth iddo ef rhagllaw, ac yn ffynonell hyfrydwch i'r bendefiges ei hun. Yr oedd pendefiges o'r enw Arglwyddes Charlotte Edwin, i'r hon yr oedd etifeddiaeth eang yn Morganwg; ac i'r hon yr oedd yr hawl yn mhersonoliaeth Llangan, yn adnabyddus i Iarlles Huntingdon, a thrwy y gyfathrach wedi derbyn lles ysbrydol oddiwrth yr Iarlles. I'r bendefiges gyntaf a enwyd yr hysbyswyd enw, a chymhwysderau Mr. Jones, ynghyda'r caledi a brofai o achos ei grefydd; a phan y daeth personoliaeth Llangan yn wag, cyflwynodd ef gyda llawer o hyfrydwch i'r curad erlidiedig. Dygwyddodd hyn yn y fl. 1768.

Gan fod Llangan o fewn ychydig filldiroedd i gapel Aberthyn, yn yr hwn yr oedd y Parch. David Williams yn weinidog, a chan y daeth yn adnabyddus yn fuan pa fath wŷr ydoedd periglor newydd Llangan, naturiol i ni ddysgwyl mewn adeg yr oedd dynion o naws efengylaidd mor anaml, ac mor ddirmygedig, nad hir o amser a elai heibio cyn y deuai gweinidog Aberthyn a pheriglor Llangan yn gydnabyddus â'u gilydd. Yr oedd David Williams, bellach,

mewn gwth o oedran, ac yn meddu ar wybodaeth helaeth yn nirgelwch yr efengyl, ac yn gymhwys o ran oedran a phrofiad i estyn llaw o gymhorth i Mr. Jones. Hyn hefyd a wnaeth, os gwir yr hanes a gawn am dano. Dichon hefyd y bu cymdeithas Mr. Jones â'r gweinidog hwn yn foddion i'w ddwyn i undeb â'r Methodistiaid, gan fod Mr. Williams, er bod yn weinidog lled sefydlog yn Aberthyn, yn parhau mewn undeb â'i hen frodyr. Yr oedd fod y fath ddynion â Rowlands; y ddau Williams; Davies, sir Benfro; a Davies, Castell-nedd, oll wedi derbyn urddau esgobol, ar y maes Methodistaidd, yn tueddu yn gryf i sugno gŵr o ysbryd Mr. Jones i gydweithredu â hwynt. Gwyddai hefyd na fyddai y fath gydweithrediad ddim yn anfoddhaol gan yr Arglwyddesau Huntingdon ac Edwin; yr ystyriaethau hyn, ac yn fwy na'r cwbl, y gogwyddiad cryf a deimlai yntau i fod yn ddefnyddiol trwy ryw fodd, ac yn mhob modd, a barodd i Mr. Jones fwrw ei goelbren yn mhlith y Methodistiaid; er na welodd yn angenrheidiol, i'r dyben hwnw, i roddi i fyny ei le a'i fywioliaeth yn eglwys Llangan.

Yr oedd golwg isel ar grefydd yn Llangan ar ddyfodiad Mr. Jones yno i ymsefydlu. Yr un wedd oedd ar y wlad hon ag oedd ar Gymru yn gyffredinol gan' mlynedd yn ol. Gŵyl-mabsantau, gorchest-gampau, chwareuyddiaethau, ymladdau, a halogi Sabbothau, oeddynt arferion mewn bri a rhwysg mawr a chyffredinol; ac nid oedd neb ar gael i'w dynoethi, "Cŵn mudion," oeddynt athrawon y bobl, a gwyliedyddion deillion, am y rhai y canai Sianco Siôn,—

> "Y 'ffeiriad ffol uffernol,
> Siwd achub hwn ei bobol?
> Sy'n methu cadw dydd o saith,
> Heb ddilyn gwaith y diafol."

Yr oedd dyfodiad gŵr o ysbryd a thalentau Mr. Jones i ardal yn y fath agwedd, fel gwawr bore, ar ol nos dywell; ïe, fel bywyd o feirw. Colled Trefethin a fu yn ennill i Langan; amddifadrwydd sir Fynwy a fu yn gynysgaeth i sir Forganwg; ïe, i holl Gymru. Nid hir y bu Mr. Jones yn Llangan, cyn i'r trigolion ddechreu teimlo sugn ei weinidogaeth. Nid *delw* pregethwr oedd bellach yn y pwlpud. Yr oedd gwres yn ei ysbryd a min ar ei bregethau. Dechreuodd yr eglwys gael ei llenwi â gwrandawyr, a dechreuodd y gwrandawyr deimlo grym y gwrionedd. Yr oedd "gŵr Duw" wedi dyfod i Langan, ac Ysbryd Duw yn y gwasanaeth crefyddol. Bellach, ymgasglai i'w wrando lawer o bobl o wahanol ardaloedd, y rhai a ddeffroisid i fesur eisoes trwy weinidogaeth Howel Harris a'i gydlafurwyr, y rhai "yr oedd taflod eu genau yn deall cam flas;" a deffrowyd lluaws o rai eraill a ennillasid i'w wrando, y rhai, hyd yn hyn, oeddynt yn 'gorwedd mewn drygioni' ac yn 'eistedd mewn tywyllwch.'

Nid yw yn ymddangos fod dim mwy na godrau y gawod ddiwygiadol wedi cyrhaedd bro Llangan cyn hyn. Gwir fod Methodistiaeth wedi ymwreiddio

graddau mewn rhai manau, nid yn mhell o Langan, cyn y fl. 1758; ïe, er ys mwy nag 20 mlynedd; megys yn Aberthyn, y Groeswen a manau eraill; a gwir hefyd fod rhyw nifer o fân eglwysi Methodistaidd wedi eu ffurfio yn y cymydogaethau cylchynol, y rhai a gyfarfyddent mewn tai, ac i'r rhai y gweinidogaetha yr hen gynghorwyr boreaf, yn nghyda'r offeiriaid Methodistaidd ag oeddynt eisoes ar y maes; ond nid oedd ganddynt yr un addoldy yn yr holl fro. Nid oeddynt yn galw eu hunain yn ymneillduwyr, ond yn rhyw gangen ddiwygiedig yn eglwys Loegr. I eglwys y plwyf gan hyny yr aent i gymuno, ac yno y dygent eu plant i'w bedyddio, pryd yr ymgasglent i deiau eu gilydd i wrando pregethau, ac i gynal eu holl gyfarfodydd crefyddol. Y cyfryw oedd ansawdd Methodistiaeth yn nghymydogaethau Llangan ar ddyfodiad Mr. Jones yno i fyw.

Desgrifir Llangan a'r broydd o amgylch iddi gan ŵr cyfrifol o'r ardal,* fel y canlyn:—

"Anhawdd ydyw cael ond ychydig o hanes yr ardaloedd hyn cyn dyfodiad Mr. Jones i Langan yn y fl. 1768. Plwyf bychan yw Llangan, yn sefyll rhwng Pen-y-bont a'r Bont-faen, mewn canol gwlad. Gwnaeth yr Arglwydd ddefnydd mawr o Mr. Jones i alw llawer o bechaduriaid at Grist. Yn mhen ychydig amser ar ol ei sefydliad yn Llangan, darfu i amryw ag oeddynt wedi teimlo min y gwirionedd drwy ei weinidogaeth ef, ynghyd â llafur yr ychydig gynghorwyr teithiol a fyddai yn dyfod trwy y wlad, ymgasglu at eu gilydd i gadw cyfarfodydd eglwysig. Y fan a ddewiswyd i hyn, yn yr ardal hon, oedd lle a elwir Ton-frigan, mewn tŷ anedd yno. Yma y byddai dychweledigion ieuainc Mr. Jones (ynghyd ag ambell un henach, y rhai a ennillasid i'r ffydd drwy ryw rai eraill cyn amser Mr. Jones) yn cyfarfod â'u gilydd. Cynelid y cyfarfodydd hyn, yn benaf yn yr hwyr; ac nid yw yn ymddangos y byddai Mr. Jones ei hun yn dyfod iddynt, ond fe'u cynelid gan mwyaf gan henuriaid o'u plith eu hunain. Arferai y dysgyblion hyn fyned i wrando Mr. Jones ar foreau Sabboth, ac yno yr aent bob mis i gymuno. Nid oedd un lle arall y gweinyddid swpper yr Arglwydd gan offeiriaid efengylaidd yn yr holl wlad, ddim nes na Llangeitho, Llanlluan, neu gapel Gyfylchi.

Yn mhen ychydig flynyddau, symudwyd y cyfarfod eglwysig o Don-frigan, i le arall, yn nes i Langan, lle a elwid Tresaeson; a'r lle y buwyd eilwaith am flwyddyn neu ychwaneg yn cyfarfod. Yr oedd y dysgyblion ieuainc hyn, megys yn eu cariad cyntaf, yn mwynhau y cyfarfodydd mewn modd anarferol. Anfynych y terfynent, heb fod yr aelodau yn cael mwy na llonaid eu llestri. Torent allan mewn mawl a hwyl nefolaidd; ïe, neidient gan lawenydd, fel rhai a gawsent ysglyfaeth lawer.

Er mor hwyrfrydig a fu y Methodistiaid i ymosod at adeiladu capelau, eto yr oedd rhai eisoes wedi eu codi, a dechreuodd yr eglwys fechan hon feddwl am gael lle i addoli yndclo, amgen na thŷ anedd. Yr oedd Mr. Jones ei hun

* Mr. John Howel, Bryn-cwttyn.

mor foddlawn a neb i'r amcan. Mewn ffordd o ddwyn hyn i weithrediad, darfu iddo, mewn undeb â'r cyfeillion yn y lle, ymofyn am le cyfaddas i adeiladu, a chael darn o dir o ddwy erw a hanner o fesur, mewn lle hynod gyfleus, yn min y brif-ffordd sydd yn arwain o Ben-y-bont-ar-Ogwy i Lantrisaint. Prynwyd y tir hwn, a dyogelwyd ef mewn gweithred i'r cyfundeb. Adeiladwyd y capel yn y fl. 1775, sef, saith mlynedd ar ol dyfodiad Mr. Jones i eglwys Llangan, a galwyd ei enw ganddo, yn SALEM; enw tra phriodol i sefyllfa y lle, am ei fod yn sefyll mewn dyffryndir gwastad islaw y bryniau, fel Jerusalem gynt, a'r mynyddoedd o'i hamgylch. Gwnaed y capel yn adeilad brydferth a chyfleus i addoli. Yr oedd Salem yn *un* o'r capelau cyntaf yn y sir, os nad y cyntaf oll a godwyd i'r Methodistiaid eu hunain, a chan y Methodistiaid eu hunain. Adeiladasid capel Aberthyn 19 mlynedd cyn hyn, ond yr oedd hwnw rhwng y Methodistiaid a'r Independiaid, a chapel y Groeswen cyn hyny. Adeiladwyd capel Gyfylchi flwyddyn ar ol Salem, a'r Goppa-fach yn yr un flwyddyn a chapel Salem.

Cyfrifid capel Salem y pryd hwnw yn adeilad fawr fel tŷ addoli. Yr oedd ei hyd tua 60 troedfedd, ond nid oedd ei led yn gyfatebol. Dangosai Mr. Jones fawr serch at y lle; arolygai ei hunan y gwaith, pan yn ei adeiladu, a threuliai lawer o'i amser gyd â'r gweithwyr; ac ar ol hyny, mewn amser dyfodol, pan fyddai unrhyw adgyweiriad yn cael ei wneyd, byddai y gŵr da yn wastad wrth law ac yn blaenori yn y gorchwyl o hyfforddi y gweithwyr. Mynodd gael pob peth yn gyfleus, fel ag i wneuthur y lle yn gartrefle i'r achos crefyddol. Adeiladwyd tŷ anedd at wasanaeth yr achos wrth y naill ben i'r capel, a mynwent at gladdu yr aelodau wrth y pen arall. Yn y fynwent hon y dewisodd Mr. Jones gladdu ei anwyl Sina (ei wraig gyntaf); a mynych y dywedodd mai yma y dymunai i'w weddillion ef ei hun gael gorphwys, os byddai farw yn gyfagos i'r fro; ond yn hyn, fel y gwelsom yn hanes sir Benfro, ni chafodd ei ddymuniad; gan ddarfod iddo dynu ei anadl olaf mewn parth pellenig o'r wlad, a'i gladdu yno.

Nid oedd y capel hwn yn yr un plwyf ag eglwys fechan Llangan, ond mewn plwyf arall tua thair milldir oddiwrthi. Pregethai Mr. Jones yn Llangan ar fore Sabbath, 10 o'r gloch; ac yn Salem 2 o'r gloch prydnawn. Ni chynaliwyd cyfarfodydd eglwysig erioed yn Llangan, nac mewn un man yn y plwyf, ond yn Salem y cynhelid hwy. Yr oedd yma gyfarfod eglwysig hob wythnos, a chyfarfod rhagbarotoawl unwaith yn y mis, ar ddydd Sadwrn am 1 o'r gloch o flaen Sul y cymundeb yn Llangan. Yn y cyfarfodydd hyn byddai Mr. Jones yn wastad yn bresenol os byddai efe gartref; ei wraig hefyd, yr hon oedd yn "gristion blodeuog," meddir, yn llawn o brofiad, a synwyr cyfefydd, a arferai eu mynychu yn gyson.

Gan nad oedd cymuno y pryd hwn gan y Methodistiaid ond yn Llangan yn unig am filldiroedd lawer o gylch (mwy nag 20 milldir, medd fy ngohebydd), byddai dyeithriaid lawer, o bellder mawr, hyd gyrau eithaf y sir, a llawer o sir Fynwy, yn dyfod i'r cyfarfod eglwysig pen mis i Salem. Ar yr achlysuron

hyn dangosai y trigolion lawer o letygarwch trwy groesawu y dyeithriaid; ac yn eu mysg yr oedd Mr. Jones a'i wraig mor letygar a neb. Byddai amryw o bregethwyr yn y cyfarfodydd hyn, agos yn wastad, ynghyd â rhai offeiriaid efengylaidd. Yn mhlith y pregethwyr, ceid William Thomas, o'r Pîl; Jenkin Thomas, Penhydd; a Thomas Hopkin, o'r Celyn, ac eraill. Hyn-odwyd y cyfarfodydd hyn â llewyrchiadau rhyfeddol. Nid elai nemawr un o honynt heibio yn y tymhor hwnw heb fod lluaws yn tori allan mewn mawl a gorfoledd, a rhai yn neidio gan lawenydd. Ar y Sabbothau crybwylledig, sef Sabbothau cymundeb, nid oedd eglwys Llangan yn agos i ddigon i gyn-wys y bobl. Byddai amgylchoedd y llan, y fynwent, y gangell, a'r cwbl yn gyflawn o ddynion. A mynych iawn y byddai y canu, y moliannu, a'r neidio yn y llan, ac allan o honi yn ei hamgylchoedd, yn gorchfygu pob sŵn arall yn y lle. Ië, byddai y canu a'r moliannu yn parhau ar hyd yr holl ffordd o Langan hyd Salem; ac ar ol cyrhaedd yno, methai Mr. Jones weithiau a chael dim dystawrwydd i gynyg ar gadw yr oedfa prydnawn.

Yr oedd y cynulliadau misol hyn yn un o nodweddau hynod Methodist-iaeth y Deheubarth, yn y tymhor boreol hwn. Dechreuodd yn Llangeitho, dan weinidogaeth Daniel Rowlands; ymestynodd i Woodstock, a'r Capel Newydd, sir Benfro, dan weinidogaeth Howel Davies; i Lanlluan, sir Gaer-fyrddin, dan weinidogaeth y ddau Williams, Davies, o Gynfil, ac eraill; ac felly yn Llangan dan weinidogaeth Mr. Jones. "Amseroedd i orphwys o olwg yr Arglwydd," oeddynt. Ar yr achlysuron hyn cyfarfyddai y crefydd-wyr gwasgaredig â'u gilydd; yma y caent fwrdd wedi ei hilio, a gwledd wedi ei pharotoi; ac yn lle y gwawd a'r gorthrwm a ddyoddefent mewn manau eraill, mwynhaent gymdeithas hyfryd â'r saint, ac ymddifyrent dan fanerr cariad eu Gwaredwr. Nid rhyfedd genym, gan faint oedd eu gor-thrwm, a chan lleied oedd eu manteision cartrefol, os byddent yma, wedi eu dwyn i'r gwindŷ, yn yfed yn ehelaeth; ïe, mor ehelaeth ag i beri iddynt anghofio eu holl ofidiau, ac i orbwyso eu holl drallodion.

Nid llawer, meddir, o blwyf Llangan ei hun, a alwyd trwy weinidogaeth Mr. Jones; bu ei lafur yn fwy bendithiol ymron yn mhob man, nag yn mhlwyf Llangan. Felly, ni ellid dysgwyl y byddai llawer o'i blwyfolion yn mhlith y cymunwyr ar y Sabboth pen mis. Methodistiaid; ïe, goreuon Methodistiaid yr ardaloedd cylchynol oeddynt gan mwyaf oll; rhai a sych-edent am y Duw byw, ac a hiraethent am gynteddau yr Arglwydd. Ar yr achlysuron hyn hefyd, gan na byddai y gwasanaeth yn y llan ddim yn de-chreu cyn hanner awr wedi deg yn y bore, yr oedd mantais yn ymgynyg i'r crefyddwyr cynulledig gael moddion chwanegol, yn dechreu 9 o'r gloch. Nid offeiriad a fyddai yn cynal y moddion hyn, ond llëygwr o bregethwr neu gynghorwr diurddau; nid yn y llan chwaith y cynelid hwy, ond yn yr ys-gubor gerllaw. Nid oedd gan y pregethwr yr un wisg wen, na gŵn du; nid oedd ganddo bwlpud i sefyll ynddo, na chlochydd i gadw lle yr anghyfar-wydd; ond er mai dillad cyffredin oedd am dano, ac er mai ar ystol y safai,

a hyny mewn ysgubor ddiaddurn; eto, yr oedd y Beibl yn ei law, yr oedd gwresogrwydd yn ei ysbryd, yr oedd nerth yn ei lais, a grym dwyfol yn ei weinidogaeth; felly yr oedd y bobl yn cael eu parotoi gogyfer a'r hyn a ganlynai. Anhawdd mae'n wir a fuasai rhoddi pennod ac adnod yn rheswm dros y mesurau hyn. Pe gofynasid am ysgrythyr yn attal yr offeiriad bregethu yn yr ysgubor, neu y llëygwr bregethu yn y llan, buasai yn anhawdd ei chael; a chan nad oedd hyn yn cyfodi oddiar falchder y naill, nac yn achlesu cenfigen yn y llall, nid oedd presenoldeb Duw ddim yn cael ei attal; oblegid rhoddid hwn yn yr ysgubor, ac yn y llan hefyd. Fel pe dywedasai y Goruchaf, "Pethau bychain iawn genyf fi yw y trefniadau hyn; 'ond ar hwn yr edrychaf fi, sef ar y truan a'r cystuddiedig o ysbryd, yr hwn sydd yn crynu wrth fy ngair i.'"

Ond nid yn Llangan a Salem yn unig y pregethai Mr. Jones, ac nid ymgadwai yn gaeth at bwlpud, gwasanaeth defodol, na gwisg. Nid dirmygus ganddo ef yr ysgubor, yr heol, tŷ anedd, cysgod pren, neu lechwedd mynydd, pan y rhoddid cyfleusdra iddo bregethu Crist a'i groes. Ni phetrusai gyfarch pechaduriaid oddiar ben ystol, neu fol clawdd, mwy na mur y fynwent. Ceid ef weithiau yn arddangos yr eglwyswr urddedig, ac yn cyflawni yr hyn oll a ofynid ganddo gan y canonau awdurdodedig; ceid ef drachefn wedi cymeryd ei safle ychydig yn îs, ac yn gweinidogaethu yn llawn gwres a llwyddiant yn ngapelau *hanner* eglwysaidd Iarlles Huntingdon'; ac os dilynwn ni ef ychydig, ni a'i cawn ef ar safle îs eto;—cyfarfyddwn âg ef mewn tŷ cwrdd neu dŷ anedd, ar ganol y maes, neu ar ochr bryn, yr un mor ewyllysgar, a chyda llawn cymaint o sirioldeb, a chyda llawer mwy o lwyddiant, yn udganu mewn udgorn mawr, ac â'i holl enaid yn cymhell pechaduriaid i ffoi rhag y llid a fydd. Os newidiai ei safle, ac os amrywiai ei ddiwyg, safai yn gyson at yr un testyn, ac anelai yn gywir at yr un nod. Os oedd yn glerigwr direol, yr oedd yn efengylwr digymar; os yn eglwyswr anghyson, yr oedd yn gristion hardd. Mwy oedd ganddo gymeradwyaeth Duw na gwên esgobion, a gwell oedd ganddo ddychwelyd pechaduriaid, nag oedd ganddo luosogi sect.

Dywedasom yn fynych fod cynulliadau lluosog gan oferwyr y tymhor hwnw, yn y rhai y cyfarfyddid â niferi mawr o bobl, ac y cyflawnid pob math o rysedd. Yr oedd cyfarfod o'r fath yn agos i Langan, yn Llanbedr-ar-fynydd. Prif wylmabsant y wlad ydoedd. Ymgasglai cannoedd iddo, yn enwedig o ieuenctyd, i yfed, meddwi, dawnsio, ac ymladd; a hyny yn arbenig ar y Sabboth, yr hwn a gyfrifid yn ddydd mawr yr ŵyl. Poenai enaid Mr. Jones o herwydd y cynulliad hwn, ac o herwydd brynti yr anwiriaid a aent iddo; a phenderfynodd wneuthur cais tuag at ei ddarostwng, nid trwy lymder y gyfraith, ond trwy fwynder yr efengyl. Aeth yno i ganol yr ŵyl, a llwyddodd nid yn unig i'w dyrysu, ond i'w dileu; nid am y flwyddyn hono, ond am byth. Parhaodd Mr. Jones hefyd i fyned yno ar y Sabboth hwnw *am ddeng mlynedd ar hugain!* Cysegrwyd y lle a fuasai yn orsedd-

fainc satan, i fod yn llcithig efengyl, a newidiwyd arfau dinystr, i fod yn offer lleshâd i eneidiau dynion.

Yr oedd cymhwysder neillduol yn Mr. Jones o ran ei wedd a'i dymherau i ennill dynion, ac felly yn addasach na nemawr un i ymosod ar haid o ddynion anhywaith a drygionus; ac nid yn fynych y methai yn ei gais. Dygwyddodd unwaith ddyfod at nifer o ddynion oedd wedi ymgynull at eu gilydd i ymladd ceiliogod; cyfarchodd y dynion hyn yn serchog, gan ddyweyd, "Y mae genyf newyddion da ryfeddol i chwi, bobl bach, os byddwch mor fwyn a gwrando; cewch fyned yn y blaen â'ch gwaith wed'yn, os byddwch yn dewis."

"Caiff y gŵr boneddig wneyd fel y myno," oedd y floedd oddiwrthynt oll.

Yntau a ymliwiodd â hwynt mor fwynaidd, ac a gyhoeddodd Geidwad iddynt mor serchog, a chyd â'r fath nerth dwyfol, nes y gollyngwyd y ceiliogod, y deffrowyd y gydwybod, ac y llwyr-roddwyd heibio amcan eu cynulliad.

Mae y darllenydd eisoes yn gwybod, oddiar y crybwylliad mynych a wnaed yn y gwaith hwn, am enw Mr. Jones, Llangan, ei fod yn arfer teithio oddi cartref lawer, i Ddehau a Gogledd, i Loegr a Chymru. Trwy ei gydnabyddiaeth â Iarlles Huntingdon arweiniwyd ef yn fynych i efengylu yn mysg y Saeson, yn ngwahanol gapelau a berthynai i'r bendefiges hono. Da iawn oedd gan y cynulleidfaoedd hyny gael mwynhau ei weinidogaeth, a da oedd ganddo yntau ymweled â hwy; a rhaid cyfaddef y gwnai efe yr ymweliadau hyn â chyfoethogion Lloegr yn fantais i leshau y Cymry tlodion. Nid mynych yr âi i Lundain, neu ddinasoedd mawrion eraill, na fyddai ganddo ryw amcan elusengar mewn golwg; ac os byddai efe, yn hau pethau ysbrydol iddynt hwy, dysgwyliai yntau gael medi eu pethau cnawdol hwythau. Yr oedd ganddo ryw gapel, neu ysgoldŷ, eisiau ei godi, i'r hyn yr oedd yn anhawdd iawn cael arian yn Nghymru, gan nad oedd rhifedi y crefyddwyr ond ychydig yn y manau yr oedd eisiau yr adeiladau, a'u hamgylchiadau ond tlodion. Yn y gorchwyl hwn o gardota, nid oedd neb yn fwy taer, nac yn fwy mwynaidd, nac ychwaith yn fwy llwyddiannus. Yr oedd siriol deb ei wedd, a mwyneidd-dra ei ddull yn swyno ei wrandawyr, fel na allent gadw dim oddiwrtho. Fel hyn gwnai ei ymweliadau â Lloegr yn fuddiol i Saeson a Chymry, a diolchid iddo am danynt gan y ddwy blaid.

Ond nid Lloegr, er hyny, oedd prif faes ei lafur. Nage: rhy hoff ydoedd ganddo ei genedl, i'w gadael, oddieithr yn achlysurol, ac i ddybenion penodol. Ond yn Nghymru y treuliai ac yr ymdreuliai; mewn amser ac allan o amser. Ymwelai â phob rhan o'r dywysogaeth, a defnynai ei weinidogaeth fel y gwlaw ar bob cŵr o honi. Ymddangosodd ar y maes mewn adeg yr oedd ei wir eisiau. Yr oedd Methodistiaeth megys yn ail-gychwyn mewn llawer lle, ar ol yr attaliad a roddwyd iddo drwy ymadawiad Howel Harris. Yn y Gogledd nid oedd eto neb o ddylanwad mawr, wedi codi yn mysg y

Methodistiaid; na chymaint ag un clerigwr. Tuag ugain mlynedd ar ol hyn y daeth Mr. Charles i lewyrchu; dechreuodd Robert Roberts udganu yr udgorn mawr, ac Elias ac eraill ar ol hyny; ond ar y pryd yr ymddangosodd Mr. Jones gyntaf, nid oedd ond prinder o wŷr cyhoeddus ar y maes, yn enwedigol yn Ngwynedd. Cododd, gan hyny, mewn amser yr oedd ei wir eisiau, a pharhaodd ar y maes, nes gellid yn haws ei hebgor.

Gan ei fod yn gweinidogaethu mewn amser yr oedd rhagfarn yn gryf yn erbyn y Methodistiaid, a chan yr anturiai i bregethu yn deithiol yn mhob man, ymron, y gelwid am dano; nid rhyfedd genym glywed ddarfod iddo gyfarfod â rhai gwrthwynebiadau. Nid cymaint o faeddu a fu arno ef ag a fu ar lawer o rai eraill yn yr un tymhor. Oddieithr mewn ychydig o enghreifftiau, nid ydym yn cael i'r werin ymosod arno ef yn un man. Dichon fod ei ymddangosiad boneddigaidd, ei wedd eglwysaidd, ei wynebpryd siriol, a'i lais mwynaidd yn ennill iddo ffafr, ïe, oddiwrth erlidwyr, fel na fu nemawr faeddu arno erioed, na dim llawer o wrthwynebiad cyhoeddus.

Ond er na chafodd lawer o flinder oddiwrth y bobl gyffredin, y rhai gan mwyaf a'i gwrandawent ef yn ewyllysgar; cafodd ei ran o wrthwynebiad oddiwrth ddosbarth uwch;—dynion y gallesid dysgwyl, y buasai dysgeidiaeth a dygiad i fyny wedi dysgu yn amgen iddynt. Gwelsom eisoes ei fod wedi profi gwrthwynebiad a gwg, yn y fan y dechreuodd bregethu o ddifrif. Ni ellid dyoddef gwirioncdd yn ei weinidogaeth, na chysonedd yn ei rodiad. Bu un boneddwr yn ei blwyf yn elyn chwerw iddo, a dangosai ei ddygasedd dan yr esgus ffol "fod yr eglwys yn cael ei dryllio," gan y lluaws pobl a gyrchai iddi! Achwynwyd arno yn fynych wrth yr esgob;—ei fod yn pregethu heb un llyfr; ei fod yn achlesu pobl o blwyfau eraill i ddyfod i Langan; a'i fod yn teithio yn afreolaidd ar hyd ac ar led yr holl wlad. Gwyddai yr esgob werth y gŵr yr achwynid arno, a gwyddai y codai llawer o'r achwyniadau oddiar genfigen a drwg-deimlad; am hyny gadawai iddynt, dros gryn dymhor, syrthio i'r ddaear yn ddisylw, eto o'r diwedd tybiodd fod yn rhaid iddo ei alw i gyfrif.

"Mr. Jones," ebe esgob Barrington wrtho, "mae yn ddrwg genyf ddyweyd wrthych fod achwyniadau yn eich erbyn wedi dyfod ataf. Dywedir eich bod yn pregethu mewn lleoedd anghysegredig."

"Naddo erioed fy arglwydd," ebe yntau, "pan y rhoes Mab Mair ei droed ar y ddaear, *cysegrodd* bob modfedd arni; heb hyny, yr wyf yn ofni, na wnaethai unrhyw gysegriad o eiddo eich arglwyddiaeth ddaioni yn y byd." Y canlyniad fu i Mr. Jones gael llonydd i fyned rhagddo fel arferol.

Pan symudwyd Dr. Barrington, ac i Dr. Watson dd'od i'w le, ail ymosodwyd ar Mr. Jones, trwy ddwyn yr hen gyhuddiadau yn ei erbyn wrth yr esgob newydd. Effeithiodd yr achwynion hyn ar yr esgob, nes iddo, ar un pryd, benderfynu llesteirio Jones i fyned allan o derfynau ei blwyf. Ar achlysur *ymweliad*, cafodd yr esgob fantais i ymliwio âg ef yn y Bontfaen, gan ddyweyd wrtho y byddai raid iddo ymgadw o fewn terfynau ei blwyf ei

hun; o leiaf nes y ca'i le i gredu fod ei holl blwyfolion wedi ei troi at Dduw. Atebodd Mr. Jones ei arglwyddiaeth, yn ostyngedig a mwynaidd, na allai lai na chydsynio â'r galwadau taerion a anfonid ato o fanau lle yr oedd y bobl yn marw o eisiau gwybodaeth, a'r offeiriaid yn esgeulus o'u dyledswydd.

"Os felly," ebe yr esgob, "rhaid i mi ddefnyddio moddion i'ch attal."

"Hyny a ellwch fy arglwydd, ond ni allaf fi newid fy mhenderfyniad."

Rhyfeddai yr esgob at gymaint o ddiysgogrwydd a mwyneidd-dra ynghyd, a gofynai,

"A oes genych chwi deulu, Mr. Jones?"

"Oes fy arglwydd," ebe y periglor, "y mae genyf wraig a thri o blant."

"Wel," ebe yr esgob, wedi lliniaru yn ei wedd a'i lais, ni allaf mewn un modd feddwl gwneyd niweid i chwi; ond gwnewch hyn ar fy nghais, peidiwch a myned i blwyfau P——h ac Ff——; mae offeiriaid y plwyfydd hyny yn dra chwerw tuag atoch."

"Hyny a wnaf, fy arglwydd," ebe Jones. Boddlonwyd yr esgob, a chadwodd Jones ei air.

Rhoes hyn derfyn ar y cyfryw ymosodiadau, tybygid, dros weddill ei oes. Bellach, gan ei fod wedi gorchfygu ei frodyr urddasol, y rhai a fynent ei ddifrïo, fel y gorchfygasai o'r blaen, y werin a fynent ei faeddu; yr oedd yn rhydd oddiwrth bob ymosodiadau o'r fath, a phob rhyddid ganddo o hyn allan, i bregethu Crist a'i groes yn y fan, ac ar y pryd y mynai. Mwynhaodd ac arferodd y rhyddid hwn o hyny allan, er ei fod ar yr un pryd yn beriglor eglwys Llangan. Nid llawer, os neb, a gafodd y fath ryddid yn y dyddiau hyny, ac annhebyg y rhoddid y fath rwysg ac cangder i neb yn y dyddiau presenol.

Prif nodwedd ei ddawn gweinidogaethol, tybygid, oedd *arabedd toddedig*. Yr oedd yn perthyn iddo lawer o barodrwydd ymadrodd, a hwnw yn un o'r fath fwyaf ennillgar. Rhwymai ei wrandawyr i astudrwydd hyfryd, megys â swyn. Yr oedd ei ddawn a'i fater yn cyd-daro. Efengyl oedd ei fater, ac efengylaidd oedd ei ysbryd. "Efengylwr Llangan," oedd ei enw. Yr oedd ei lais a'i wedd, yn gystal a'i genadwri, yn swyno ei wrandawyr i ufudd-dod Crist. Am dano ef y canai Williams, Pant-y-celyn:—

Tawdd y ceryg â'i ireidd-dra;
A thrwy rym ei 'fengyl fwyn,
Gwna i'r derw mwyaf caled,
Blygu yn ystwyth fel y brwyn.

Pregethai unwaith gerllaw Rhuthin, ar y gair "Ni lefarodd dyn erioed fel y dyn hwn." Daethai yno ddyhiriaid lawer i aflonyddu, a dyn cryf ac ymladdgar o gigydd yn ben arnynt. Hwn wedi gwrando arno dros enyd, a waeddodd ar ganol y bregeth, "Myn * * * ni lefarodd dyn erioed fel tithau chwaith; ni welais ddyn erioed o'r blaen yn gallu fy meistroli i mor deg." Collodd yr erlidwyr eu grym i aflonyddu, gan y swyn hyfryd a deimlent wrth wrando peroriaeth yr efengyl.

Mae y darllenydd yn gydnabyddus â syniadau Mr. Jones mewn perthynas i neilldnad gweinidogion yn y cyfundeb; pa mor wrthwynebol ydoedd iddo, fel nad rhaid i ni ar hyn o bryd, ddywedyd dim. Ni fu byw i weled y cyfnewidiad, ond wedi 40 mlynedd a mwy o lafur yn y Corff, a chyn i ddim gymeryd lle i oeri ei gariad at ei frodyr, na bylchu ei ddefnyddioldeb, efe a gymerwyd ymaith i dangnefedd, yn mis Awst, 1810, pan yn 75 ml. oed.

PENNOD VI.

ADGOFION AM RAI EGLWYSI ERAILL YN Y SIR.

CYNWYSIAD:—

YSTRADGYNLAIS—GWEDD GYNTEFIG YR ACHOS—PALLEG A'R CNAP-LLWYD—EVAN WILLIAMS—CYNAL MODDION YN LLOFFT PORTH YR EGLWYS—PREGETHU YN MRYN-Y-GROES, MAES-PICA, A PHALAS YNYS-CEDWYN—ADEILADU CAPEL YN NGHWM-GIEDD—PARCHN. JOHN WALTERS A THOMAS LEFI—CAPELAU ERAILL YN CODI—TON-YR-EFAIL—GWEDD ISEL Y TRIGOLION—TEULU EVAN PRITCHARD, YSW., COLLENA—SEFYDLIAD Y GYMDEITHAS EGLWYSIG—DAFYDD EVAN, A'I DEULU—ADEILADU CAPEL, A'R CANLYNIADAU.

YSTRADGYNLAIS.

Mae graddau o dywyllwch ar gychwyniad Methodistiaeth yn y lle hwn. Gellid dysgwyl hyny, oddiar na chafwyd dim cofnodau am dano er ys rhagor na chan' mlynedd. A rhy anhawdd a fuasai i draddodiad olrhain y gwahanol amgylchiadau a'r agweddau a fu arno yn ystod hyny o amser; yn enwedigol, gan nad oedd y pregethu yn aros yn sefydlog yn yr un addoldy, o genedlaeth i genedlaeth; ond yn cael ei gynal mewn tai anedd; weithiau yma, ac weithiau acw. Yr un modd hefyd gyda'r cyfarfodydd eglwysig. Mae "Cofnodau Trefecca," pa fodd bynag, yn sicrhau i ni fod cyfarfodydd crefyddol, cyhoeddus ac eglwysig, yn cael eu cynal mewn lle a elwir y Palleg, yr hwn nid yw yn nepell oddiwrth y capel presenol; ac hefyd yn y Cnap-llwyd, tŷ anedd rhwng Abertawe a Llangyfelach; ac yn y Creunant, lle rhwng Ystradgynlais a Chastell-nedd. Yn y Cnap-llwyd y preswyliai un John Rodger, yr hwn oedd flaenor yr eglwys yn Llansamled. Brawd ydoedd i'r hen Rodge o'r Gadle.*

Am y Palleg,—enw ydyw ar ryw ardal fechan, neu gefn o dir, lle y saif amryw ffermdai, uwchlaw capel presenol yr Ystrad. Ymddengys y byddai yr ychydig grefyddwyr boreol a breswylient y fro, yn arfer ag ymgynull weithiau yn y Cnap-llwyd, ac weithiau yn y Palleg. Yr oedd y lleoedd hyn dan arolygiaeth John Richard, Llansamled. Yn ei adroddiad cyntaf am y dysgyblion yn y lleoedd hyn, efe a ysgrifenai: "Lled sychion ydynt yn y

* Crybwyllir am dano yn "Hanes Llansamled."

Palleg a'r *Cnap*, oddieithr ychydig bach o nifer." Drachefn, yn ei ail adroddiad, fe ysgrifenai: "Mae y cymdeithasau dan fy ngofal wedi eu dysgu gan Dduw, mi hyderaf, i weled mwy o ddrwg eu calonau nag erioed. Mae y diafol yn eu mysg hefyd yn ymladd yn eu herbyn, trwy ryw demtasiynau tanllyd, o fewn ac o faes, &c."

Mae un crybwylliad yn ychwanegol am Cnap-llwyd, gan yr un arolygydd:—"Mae yr aelodau yma wedi bod yn ymryson â'u gilydd yn nghylch y lle i gadw *Seiat*, ac mor gyndyn oeddynt, nes oeddwn yn barod, ymron, i ofni na argyhoeddwyd mo'nynt erioed o bechod. Ond nos Wener diweddaf, dysgodd yr Arglwydd fi, gobeithio, i brofi eu hysbrydoedd â'r cwestiwn hwn:—sef, 'A foddlonent hwy i'r lle a fernid genym ni eu harolygwyr yn fwyaf er gogoniant Duw? a bod i'r sawl a foddlonent i hyny gael cadw cyfarfod eglwysig; ac i'r rhai na wnaent ond eu meddyliau eu hunain, gael eu troi allan hyd nes y deuai un o'r gweinidogion, neu Mr. Harris, yma i'w arholi; neu ynte, hyd nes y darostyngid hwy i gydnabod eu bai.'" Rhydd y dyfyniadau hyn gip olwg i ni ar ansawdd blentynaidd y dysgyblion cyntefig hyn: a theimlwn ddyddordeb o gael rhyw amneidiau bychain o'r fath, i'n hysbysu pa fodd yr oedd arnynt hwy y pryd hwnw.

Gŵr o Ystradgynlais oedd Mr. Evan Williams; y pregethwr y sonir am dano gan awdwr "Drych yr Amseroedd."* Wedi i ni ysgrifenu crybwylliad am y gŵr yma o'r blaen, yn hanes sir Gaernarfon,† daeth i'n llaw hen lyfryn, wedi colli ei ddechreu a'i ddiwedd, yn cynwys pregeth o eiddo y gŵr hwn, ar Ioan v. 28, 29, a hanes byr o'i fywyd. Oddiwrth y llyfryn hwn, ymddengys iddo gael ei eni yn mhlwyf Ystradgynlais, yn y fl. 1719. Enw ei dad oedd Evan Williams; ac enw cyntefig ei fam oedd Gwenllian Evan, o blwyf Llangyfelach. Yr oedd ei dad a'i fam yn grefyddol, ac yn nodedig felly ei fam. Moddion ei droedigaeth, mewn rhan, oedd gweinidogaeth un Lewis Jones, gweinidog ymneilltuol; ond yn benaf, darlleniad gwaith Bunyan, "*Tyred a chroeso at Iesu Grist.*" Gan faint oedd ei barch i'r gwaith hwn, efe a'i dygai gydag ef dros ryw dymhor, i bob man yr elai. Dysgasai lawer o hono ar dafod leferydd; a bu, medd yr hanes, yn gynorthwy mawr iddo ar ol hyn i bregethu y gair.

Yn fuan ar ol iddo ymuno â'r Methodistiaid, cafodd ar ei feddwl ymweled â'r enwog Griffith Jones, Llanddowror; a'r hwn oddiar yr adnabyddiaeth a gawsant o'u gilydd, a'u hanfonodd i Wynedd i gadw un o'r ysgolion rhad a arolygid ganddo. Efe a groesodd y Traeth-mawr ar y 27ain o Chwefror, 1742; ac fel yr oedd yn myned rhagddo tua Phen-morfa, cyfarfu â rhyw ddyn, yr hwn a edrychai yn fanwl arno, o'i ben i'w draed, gan ofyn iddo ai nid '*Cradoc*' ydoedd, a dyweyd, "Pe gwyddent am danoch yn ein pentref ni gwnaent ben am danoch yn y fân." Ond cafodd fyned heibio heb i neb arall sylwi arno; ac felly trwy Criccieth a Phwllheli, ac hyd i Leyn, heb na

* Tudal. 73. † Tudal. 126, o'r Gyf. I.

thamaid na llymaid, oblegid yr oedd ofn arno alw am ddim ar y ffordd rhag cael ei faeddu neu ei ladd. Wedi cerdded 30 o filldiroedd neu fwy, yn newynog a lluddedig, ac mewn ofn am ei fywyd; o mor dda oedd ganddo gyrhaedd pen y daith, a chyfarfod â chyfeillion serchog, i'w noddi a'i gyfnerthu. Dechreuodd yr ysgol y 4ydd o Mawrth, ond ni ddywedir enw y lle; ond bernir mai yn y Lon-fudr, neu Tŷ-mawr, Bryncroes. Pa un bynag, efe a gadwodd yr ysgol am y ddau ddiwnod canlynol, y 5ed a'r 6ed, ond tua'r hwyr y dydd olaf daeth dau ddyn i'r tŷ y lletyai ynddo, gan lygadu yn graff arno, a gofyn, "Pa ham y daethai i'r wlad hòno?" Yntau a ddywedodd, "Mai dyfod a wnaeth ar gais Mr. Griffith Jones, gweinidog yn eglwys Loegr, i gadw ysgol râd, ac i gyfranu rhai llyfrau da, er lleshad i eneidiau dynion, &c."

"Nid oes eisiau dim o'r fath arnom ni. Mae y Beibl a Llyfr Gweddi Gyffredin yn ddigon i'n dwyn i'r nefoedd." Ar hyn ecisiasent ganddo ddyfod allan o'r tŷ, mewn bwriad, fel y bernid, i'w guro a'i faeddu; yntau a wrthododd fyned allan atynt; ond gwyliasant fel barcutanod o amgylch y tŷ, hyd nes aeth yn mhell i'r nos cyn yr aethant i ffordd. Tranoeth, oedd y Sabboth, ac efe a aeth i eglwys y plwyf; lle y gwrandawodd ar y gŵr urddasol yn ei ddifenwi, ac yn difrio ymneillduwyr a Methodistiaid. Ar ddiwedd y gwasanaeth daeth Mr. Williams allan, ond mor fuan ag y daeth allan oddiar y tir cysegredig i'r brif-ffordd, un o'r gwrandawyr a ymddiosgodd hyd at ei grys, ac a ddechreuodd guro yr ysgolfeistr yn ddidrugaredd â phastwn, nes oedd ei ben yn archollion, a'i gorff oll yn gleisiau, ac hyd nes oedd y dyhiryn ei hunan wedi glân flino. Yn y cyfamser yr oedd y gwrandawyr (plant yr eglwys) yn sefyll i edrych, gan chwerthin yn ddifyr am ben y sarhad; ac ni chynygiodd un ei amddiffyn, ond ei adael i'r baeddwr i wneyd a fynai; yr hwn hefyd ni roddodd heibio nes oedd lludded yn ei orfodi!

Aeth y dynieuanc diniwed a'i ben briw i'w lety; ac oddeutu canol nos, daeth rhai o'r brodyr ato i fynegi iddo, fod yr un fath ddynion yn bwriadu ei ddal ef dranoeth, a'i bod yn llawn bryd iddo ddianc. I'r Tyddyn-mawr gan hyny y dygasant ef; ac yno, fel y crybwyllwyd o'r blaen, y daethant dranoeth i chwilio am dano. Yr oedd cryn 30 i 40 o'r mileiniaid hyn, wedi ymarfogi â ffyn, â drylliau, ac â chwn. Yr oeddynt wedi methu ei gael yn ei lety, ac wedi baeddu rhyw ŵr ieuanc yn dost ar y ffordd am na ddywedai wrthynt i ba le yr aethai yr ysgolfeistr. Yr oedd yn mrig yr hwyr erbyn iddynt gyrhaedd y Tyddyn-mawr, gan iddynt aros enyd yn Tydweiliog i fwyta, yfed, ac ymbarotoi i'r ymgyrch. Ond mawr oedd eu siomedigaeth, ac ofnadwy eu hiaith, pan y methasant ei gael yno. Nid oes sierwydd pa beth a fwriadent wneuthur iddo, pa un ai ei faeddu hyd ymron ei ladd, ai ynte ei lusgo o flaen yr ynadon i'r dyben i'w anfon i'r fyddin, fel y gwnaethant ar ol hyn â Morgan Griffith * a'i gyfeillion; neu ynte, pob un o'r ddau; ond diangodd pa fodd bynag o'u dwylaw. Penderfynodd ar ol ymgynghoriad â'i frodyr i

Tudal. 122., Cyf. II.

ddychwelyd adref; a thua chanol nos y diwrnod hwnw cychwynodd tua'i wlad. Wedi cerdded 10 milldir, yr oedd gwawr y 9fed o Fawrth yn dechreu tori. Gorphwysodd trwy y dydd hwnw mewn tŷ cyfaill; a thranoeth (dydd Mercher) dydd marchnad Pwllheli, cfe a gychwynodd drachefn, a llencyn gydag ef i ddangos iddo y ffordd. Aethant, medd yr hanes, trwy ryw bentref, a chyfarfuant â rhyw wraig yn cario dwfr, yr hon wedi craffu arnynt, a'u hamheu, a aeth i'r tŷ; ac yn y fan wele ddyn yn dod allan o'r tŷ, a chyn eu bod led dau gae oddiwrth y pentref, gwaeddodd y dyn uwchder ei ben, "Lladron! Hollo! Lladron!" Erbyn hyn, wele haid o ddyhirwyr ar eu hol, a thrigolion y pentref o un galon wedi codi i'w ymlid. Tynodd Evan Williams ei esgidiau, a chan ei fod yn ŵr gwisgi a grymus, efe a'u curodd hwy ar redeg o ddigon, a buan yr oedd allan o'u golwg ac allan o'u cyrhaedd. Goddiweddasant y llanc oedd gydag ef, a thriniwyd ef yn chwerw ganddynt. Wedi i'r ysgolfeistr redeg tua phum' milldir, efe a ddaeth at goedwig greiglyd a serth, wrth làn afon; * ac yn y goedwig hon yr ymguddiodd i aros i'r llanw, ag oedd wedi chwyddo yr afon, gilio. Dywedasai ei gyfeillion yn y borau mai tua dau o'r gloch prydnawn y gallai rydu yr afon. Yr oedd yn gallu gweled y bobl yn dychwelyd o farchnad Pwllheli, ond yn ofni, fel pe buasai ffoadur o gaethwas yn nhalaeth Virginia, i neb ei weled ef. Ond yn mhen rhyw gymaint o amser daeth o'u ymguddfa, ac a ddynesodd at yr afon, yr hon oedd eto yn uchel; a thra yr oedd yn petruso anturio iddi, efe a welai fachgenyn ar y lan arall, i'r hwn y gofynodd, "A allai efe groesi yr afon?" "Nac allwch," oedd yr ateb, "y mae yn rhy ddofn i geffylau." Beth oedd i'w wneyd? Yr oedd arno ofn aros lle yr oedd, ac yr oedd y dydd yn hwyrhau; yr oedd hefyd yn ofni yr afon, ac mewn penbleth flin; ond o'r diwedd, dywedai, "Yn enw Duw mi anturiaf yr afon, a deued a ddelo, yn hytrach nag aros yn hwy mewn ofnau am fy mywyd oddiwrth ddynion anhywaith a drygionus." I'r afon yr aeth, ac wrth fyned rhagddo suddai ddyfnach, ddyfnach, nes oedd y dyfr cyfuwch a'i ysgwyddau; ac ofnai naill ai cael ei godymu gan ei rym, neu ei orchuddio yn llwyr gan ei ddyfnder; ond trwodd y daeth er maint ei ofnau. Ac newydd iddo gael y lan, dychrynwyd ef yn ddirfawr drachefn gan ddau ddyn ar geffylau yn carlamu tuag ato, ac ebe fe wrth y bachgenyn ar lan yr afon, os gofyn y dynion acw i ba le yr wyf yn myned, dywed mai at y defaid acw, sydd draw, a thua'r defaid y cyfeiriodd ei gamrau. Felly diangodd.

Yn mlaen yr aeth â'i holl egni hyd nes ydoedd yn agos yn nos, ac nid oedd iddo ond naill a'i bod allan trwy y nos, mewn dillad gwlybion ar dywydd rhewllyd, neu ynteu ymofyn am lety. Hyn a wnaeth mewn lle neu ddau, ond ei nacâu a gafodd; pa fodd bynag, ar ol llawer o ddeisyf cafodd rhyw fath o lety; oblegid nid oedd arswyd y "Pengryniaid," fel y dygwyddodd, ddim eto wedi disgyn ar y trigolion. Dranoeth

* Tua Glanllyniau, ef allai, neu Lanystyndwy.

gwisgodd ei ddillad gwlybion, ac a ddaeth trwodd trwy ran o sir Feirionydd, hyd nes cyrhaedd tir y Dê; ac yn awr troes ei lwybr tua Llanddowror i fynegi i Mr. Jones pa fodd y bu arno. Pan glywodd yr hen offeiriad duwiol yr hanes, daliwyd ef â syndod aruthrol, ac mewn cyffro meddwl, dolefodd, "Pa beth ai gwallgofiaid ydyw y bobl?"

Y cyfryw ydyw yr hanes a ddyry yr hen lyfr am daith Mr. Evan Williams i'r Gogledd. Cofied y darllenwyr nad oedd y Methodistiad yn arfer trwyddedu eu pregethwyr na'u haddoldai yn y tymhor hwn, nac yn mhell ar ol hyn, gan na allent wneyd hyny heb broffesu eu bod yn ymneillduwyr, ac nad oedd eu blaenoriaid yn caniatâu iddynt wneyd hyny. Cawsai Evan Williams brofiad mor chwerw, pa beth oedd i bregethwr fod yn ysglyfaeth i gynddaredd dynion ffolion heb un amddiffyniad cyfraith drosto, ac yntau heb feddu cyffelyb ddewrder a Howel Harris, fel nad yw ryfedd genym glywed, ddarfod iddo cyn hir ymuno â'r ymneillduwyr. Bu gyda'r Methodistiaid hyd Ebrill y y flwyddyn 1744, tua dwy flynedd ar ol dychwelyd o Wynedd. Ni a gawn yn ysgrifion y gymdeithasfa ei fod gyda'i hen frodyr mewn cwrdd misol yn Llandremor yn y flwyddyn hono; ond yn Mehefin yr un flwyddyn ni a gawn gofnod am dano, "ei fod wedi eu gadael a myned at yr ymneillduwyr." Ymddengys wrth ryw ymadroddion a ddywedir am dano, mai hoff oedd ganddo ysbryd a bywiogrwydd y Methodistiaid, ond nid eu cysylltiad pleidgar ag eglwys Loegr; ac mai hoff oedd ganddo ryddid yr ymneillduwyr, ond nid eu marweidd-dra a'u ffurfioldeb; a phan oedd yn gosod dirywiad yr ymneillduwyr yn wrthddadl yn erbyn ymuno â hwy, atebwyd ef gan y gŵr sydd yn ysgrifenu ei hanes, "os felly, frawd, ac nid wyf yn gwadu nad felly mae, rheitiaf i gyd ydyw cael dynion aiddgar ac effro, o'ch bath chwi, i'n plith." Deallwn fod y gŵr hwn wedi ennill iddo ei hunan radd dda a hyfder mawr yn y ffydd; "efe oedd ganwyll yn llosgi ac yn goleuo, a llawer oeddynt ewyllysgar i aros yn ei oleuni." Nid ydym yn allnog i ddyweyd pa le yn benaf a fu yn faes ei lafur, na pha bryd ychwaith yr aeth ef i gadw noswyl i'r gwely pridd. Ond y mae yn bryd, bellach, i ni ddychwelyd at hanes Ystradgynlais.

Ymddengys fod y cynulliadau eglwysig a gynelid yn Cnap-llwyd a Palleg, wedi chwalu; fe allai tua'r amser y ciliodd Harris o'r maes, ac am ddim sydd yn y golwg, bu yn nos dywell ar Fethodistiaeth yn yr ardal hon, am lawer o flynyddau; fe allai 30 mlynedd. A'r peth cyntaf a gawn ni wedi yr hirnos grybwylledig, ydyw fod y cyfarfod eglwysig yn cael ei gadw mewn llofft uwch ben Porth-yr-eglwys! "Nis gwyddom," medd fy hysbysydd,* "pa fodd y bu i'r achos nythu yn y fath le; ond pa fodd bynag nid hir y caniatawyd iddo lonyddwch; ond un noswaith cafwyd y drws wedi ei gloi, a gorfu i'r gymdeithas chwilio am le arall i roddi ei throed i lawr, a mudo gam yn mhellach i dir ymneillduaeth."

* Y Parch. Thomas Levi.

Tua 60 mlynedd yn ol cynelid y pregethu yma yn Mryn-y-groes, a Maes-pica; hefyd yn Mhalas Ynyscedwyn, sef tŷ Mr. Jones y curad. Cedwid y gymdeithas eglwysig ar yr un pryd, mewn tŷ bychan a elwir y Croesdŷ, yn ymyl pont yr afon; nid oedd eu nifer ar y pryd ond ychydig; ïe dywedir eu bod ar un tymhor yn llai na dau neu dri. Collwyd hwy yn yr adeg hon oll ond *un*, ac aml waith yr ai yr un hwnw i'r lle yr arferent ymgynull, i ddarllen y Beibl, a gweddio ar i'r Arglwydd ychwanegu y nifer. Dywedir hefyd mai nid hir y bu cyn i'w weddiau gael eu hateb; ac er y fl. 1802 yr oedd nifer y dysgyblion wedi chwyddo i bedwar-ar-ddeg.*

Wedi i'r aelodau hyn fod un noswaith yn gwrando pregeth yn Mryn-y-groes, ac i'w calonau wresogi gan rym y weinidogaeth, dechreuasant ymofyn â'u gilydd, ai ni ddylid ymofyn yn ddioed am le i adeiladu addoldy. Gyda bod hyn yn eu bryd, yr oedd y tir hefyd wrth eu llaw. Rhoddwyd ysmotyn o le i adeiladu arno yn Ngwm-giedd, gan Mr. Samuel Williams, un o'r aelodau; ac yn mhen y flwyddyn, sef 1804, yr oedd y capel i fyny. Daeth yr achos bellach i fwy o sylw, a chynyddodd yn gyflym mewn rhif a dylanwad, nes yn mhen 20 mlynedd y bu raid helaethu y capel. Yn mhen ychydig o flynyddau ar ol hyn, symudodd y Parch. J. Walter o Aberhonddu, i'r lle hwn i fyw; a bu ei ddyfodiad yn foddion i gynyrchu sirioldeb ychwanegol yn ngwedd yr achos trwy ddiwygiad yn y canu. Casglodd hyn luaws o ieuenctyd y gymdogaeth ynghyd, a chwanegwyd llawer at y gynulleidfa. Mae bellach olwg siriol ar y gwaith; mae yr eglwys wedi tori allan ar y llaw ddê ac ar yr aswy. Adeiladwyd dau gapel, fel cangenau deilliedig o honi; un yn Ynys-glyn-yr-hebog, a'r llall yn Cwmtyrch. Magodd hefyd un pregethwr, sef Mr. Thomas Levi; yr hwn a ddechreuodd ar y gwaith pwysig tua saith mlynedd neu fwy yn ol; y pregethwr cyntaf yn mysg y Methodistiaid yn y lle, meddai Mr. Walters ar yr achlysur o ymddyddan ag ef, er ys chwe' mil o flynyddau! Yr oedd hyn hefyd yn wir ond odid am Cwmgiedd; ond nid oedd felly am Ystradgynlais, gan mai gŵr o'r plwyf oedd yr Evan Williams y soniasom am dano.

Y mae yn aros yn nghapel Cwm-giedd, ar ol ymadawiad 40 o aelodau i gapel Cwmtyrch, tua 200 o aelodau. Tuag 20 mlynedd yn ol, nid oedd yn y fro yr un enwad crefyddol ond eglwys Loegr, a'r Methodistiaid; ond yn awr y mae yr Annibynwyr, Bedyddwyr, a'r Wesleyaid, wedi ymsefydlu yma. Bellach, y mae yma saith o gapelau ymneillduol; chwech o bregethwyr; ac oddeutu 600 yn proffesu eu bod yn ddysgyblion i Fab Duw. Y mae amser

* Dyma eu henwau :—

Rhys William Dafydd (blaenor) a'i wraig,
Daniel Jones (blaenor) a'i wraig,
Thomas W. Thomas (blaenor),
Dafydd Siôn, o'r Henglyn, un hynod mewn duwioldeb,
Elinor Phillips, Bryn-y-groes,
Samuel Williams, Wernioraeth,
John Lewis, Pen-y-grove,
Thomas Morgan, Maes-pica,
Angharad Morgan ei wraig,
John Jenkins, goruchwyliwr gwaith haiarn Ynys-cedwyn,
Margaret Jeffreys, Ystrad-fawr,
Mary Howel, merch Mr. Jones, yr offeiriad.

maith iawn wedi myned heibio er pan y deuai Howel Harris i Palleg i bregethu, ac yr arolygai John Richard, Llansamled, y cynulliadau eglwysig yno, ac yn y Cnap-llwyd: ond fe wel y darllenydd yn y byr-hanes uchod, na fu dim rhyw lwyddiant nodedig ar Fethodistiaeth yn y fro hon am ysbaid 80 mlynedd ar ol ei gychwyniad; ar ol yr hau a fu ar y tir tua'r Hydref, fe ddaeth gauaf caled a maith, ac ni welwyd nemawr obaith ffrwyth, oddiar y llafur a fu, hyd o fewn gwanwyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Felly hefyd y bu mewn llawer amgylchiad arall. Felly, yn wir, y mae wedi bod gyda Christionogaeth ei hun. Wedi deunaw can' mlynedd dreiglo ymaith, nid ydym yn cael fod egin gwir grefydd nemawr amlach na chryfach yn maesydd ein byd ni, nag oeddynt ar ddiwedd y ganrif gyntaf. Eto pwy a ŵyr nad yw y gwanwyn tyfadwy eisoes wedi dechreu; ac mai prin y bydd coffa am y gauaf hir yr oesoedd tywyll, gan mor rymus fydd tŵf calanmai y milflwyddiant mawr!

TON-YR-EFAIL.

Wrth yr ysgrif mewn llaw, deallwn fod y lle hwn, neu yr ardal hon, yn gorwedd yn yr un agwedd ag yr oedd Cymru oll, cyn y diwygiad Methodistaidd. "Nid oedd gwybodaeth o Dduw yn y wlad." A phan y byddo tywyllwch am Dduw, ac am Iesu Grist yr hwn a anfonodd, yn gorchuddio gwlad o ddynion, nid rhyfedd os bydd drwg-arferion hefyd yn fawr eu rhwysg, i'r graddau y goddefir iddynt ffynu gan gyfraith y tir, a hanfodion cymdeithas. Felly yr oedd yn yr ardal hon. Dywedir fod athrawon y bobl yn peri iddynt gyfeiliorni. Cymerent arnynt fod yn "genadon Arglwydd y lluoedd, a dylasai fod eu gwefusau yn cadw gwybodaeth, a'u bod yn ceisio y gyfraith o'i enau;" Mal. ii. 7; ond "cilio a wnaethant o'r ffordd, a pharasant i laweroedd dramgwyddo wrth y gyfraith." Un felly oedd yr offeiriad a wasanaethai y capel eglwysaidd sydd yn y gymydogaeth. Yr oedd ef yn cymeryd y blaen ei hunan yn y campau ofer a anurddai y gymydogaeth, yn lle ceisio eu darostwng fel y gwnaeth Mr. Jones, Llangan, ar ben mynydd Llanbedr. Yn ymyl pentref Ton-yr-efail yr oedd llanerch benodol, lle yr ymgyfarfyddai y campwyr ar brydnawn dydd Sabboth; lle hefyd yr oedd draenen fawr yn tyfu; y lle hwn a elwid "Pebyll y campau." Ond erbyn hyn y mae y llanerch lygredig hon wedi ei throi yn faes gerddi, fel tystiolaeth gyhoeddus o'r oruchafiaeth a gafodd yr efengyl ar anwybodaeth a drygioni.

Ymddengys mai nid darostwng y campau llygredig oedd yr unig ddaioni a wnaethai Mr. Jones, Llangan, trwy bregethu yn flynyddol ar fynydd Llanbedr; ond bu ei weinidogaeth yn y lle, a fuasai gynt yn orseddfainc satan, yn sugn i ddwyn yno gynulliad mawr o bobl i wrando geiriau y bywyd tragwyddol; a thrwy hyny, diamheuol ydyw i laweroedd dderbyn lleshad ysbrydol i'w heneidiau. Yn mysg eraill a aeth i'r mynydd ar ddydd hynod yr ŵyl, i wrando efengylwr Llangan, yr oedd boneddwr o'r gymydogaeth hon;

yr hwn oedd yn byw mewn palasdŷ o'r enw Collena. Enw y boneddwr oedd Evan Pritchard, Ysw. Yr oedd ef a'i wraig wedi clywed llawer o son am Mr. Jones, ac wedi cael gradd o gydnabyddiaeth âg ef, a hyny wedi codi blys ynddynt, yn enwedig yn Mrs. Pritchard i gael ei wrando. Rhoddasid cynyg i'r gŵr boneddig fyned i Rydychain, er mwyn ei barotoi i'r offeiriadaeth, ond hyny a wrthodasai, oddiar fod yn fwy dymunol ganddo ganlyn y cŵn hela, a phleserau cyffredin boneddwyr y wlad. Yr oedd er hyny wedi cael mesur cymedrol o ddysg, i'w gymhwyso, fel y tybid, i gymeryd ei le yn mysg ei radd: ond yr oedd yn berffaith ddyeithr i syniadau a theimladau crefyddol. Yr oedd rhai o'i berthynasau, pa fodd bynag, yn mysg y Methodistiaid, a bernid fod ei ragfarn yntau, o herwydd hyny, neu o herwydd rhywbeth arall, yn llai yn eu herbyn na'r eiddo boneddwyr eraill yn y wlad; ïe, yn wir, yn llai na'r eiddo ei wraig ei hun. Edrychid ar Mrs. Pritchard fel boneddiges a hoffai wychder a nwyfiant; ac fel y cyfryw yn fwy ei gwrthdarawiad i arferion y crefyddwyr. Ni fynai y wraig hon, ar un cyfrif, ymostwng i gymysgu â neb o honynt, nac i'w cyfarfod ar un achlysur.

Ond er fod Mr. Pritchard yn gwbl ddyeithr i'r efengyl, a Mrs. Pritchard, heblaw hyny, yn llawn o ragfarn yn erbyn Methodistiaid, cododd blys ynddynt, fel y dywedwyd, gan faint yr ymgynull a fyddai i gapel Llanbedr ar yr ŵyl i wrando Mr. Jones, a chan faint y son a fyddai am y pregethwr, i fyned yno am unwaith i weled a chlywed drostynt eu hunain. Felly parotôdd y ddau i gychwyn, a daethant rhagddynt i olwg y lle. Ond pan welsant yr holl bobl yn finteioedd lluosog yn britho liethrau y bryn, a chaufod mai pobl gyffredin eu gwedd a'u gwisg, gan mwyaf oeddynt, syrthiodd gwynebpryd y wraig foneddig, gan farnu ei fod yn iselhad ar wraig o'i gradd hi fod yn y fath le, a chael ei gweled yn mysg y fath rai. Edifarhaodd yn fawr ddarfod iddi gydsynio i gychwyn, a phenderfynodd nad âi gam yn mhellach, a gwnaeth ei goreu i attal ei gŵr hefyd. Ond hyny ni allai yn hawdd ei wneyd. Nid oedd ei ragfarn ef gymaint a'r eiddo hi tuag at y bobl, oblegid eu gradd nac oblegid eu crefydd; ond efe a ymdrechai ei oreu i'w chael hi yn ei blaen, a rhwng bodd ac anfodd, hi a gydsyniodd.

Wedi dyfod i'r lle, gwelsant fod yno dyrfa fawr iawn wedi ymgasglu; nid oedd y llan mewn un modd yn ddigon i'w cynwys; ond yr oedd pwlpud wedi ei godi, wrth dalcen yr adeilad, o'r tu allan iddi, lle y gallai y pregethwr sefyll i gyfarch y gynulleidfa. Cafodd Mrs. Pritchard le cyfleus i eistedd ar fur cyntedd yr eglwys; lle manteisiol i gael golwg ar y gwrandawyr, ac i glywed y pregethwr hefyd. Ond nid oedd yr olwg a gafodd ar y bobl yn lleddfu dim ar y teimladau blin oedd yn ei mynwes, a hi a ddymunai fod gan' milldir o'r lle. Edrychai ar y lluaws pobl fel dynion heb synwyr, am eu gwaith yn dyfod i'r fath le. Yn y man esgynai dyn o ddiwyg cyffredin yr areith-glwyd, i ddechreu yr oedfa trwy weddi. Nid oedd hwn neb amgen na William Thomas o'r Pîl; gŵr rhagorol ei gymeriad, a chyfrifol yn ol ei

radd, eto gwledig a diaddurn yr olwg. Cynhyrfai hyn ei rhagfarn yn fwy nag o'r blaen, a dymunai yn ddirgel fod rhai o'r gwŷr cryfion, a welai yn y lle, yn cael ar eu meddwl ymaflyd yn y gweddiwr, a'i dynu bendramwnwgl i lawr.

Wedi darfod y weddi, wele Mr. Jones yn esgyn i'r glwyd a chymerth yn destyn, y gair yn Dad. vi. 17, "Canys daeth dydd mawr ei ddigter ef, a phwy a ddichon sefyll?" Arferai Mr. Jones, gan amlaf, bregethu yr efengyl yn fwy na'r ddeddf; safai ar Seion yn amlach nag ar Sinai; ond dygwyddodd y tro hwn iddo gael ei arwain ar hyd llwybr anghynefin, a disgrifiai, gyda nerth a deheurwydd, olygfeydd ofnadwy y farn ddiweddaf. Cymhwysai y gwirioneddau yn eu pwysigrwydd at ei wrandawyr, gan osod allan drueni arswydus y dyn annuwiol, yn y fath fodd, nes oedd y gynulleidfa yn teimlo eu hunain megys yn ngwydd y barnwr, ac yn sefyll eu prawf o'i flaen. Ni ddiangodd Mrs. Pritchard! Daliwyd hithau megys â gwys brenin; anghofiodd yn y fan eu gradd yn y byd; teimlodd nad oedd ei bonedd yn un diogelwch; ac nad oedd dim derbyn wyneb gyda Duw. Dywedai ar ol hyn, ei bod ar y pryd, yn dysgwyl i'r mynyddau syrthio arni, ac yn ofni i'r ddaear agor ei safn i'w llyncu. Ond y bregeth a derfynodd, a'r gynulleidfa fawr a ddechreuodd ymwasgaru, a llawerodd o'r bobl a saethasid gan Dduw yn eu cydwybodau.

Yr oedd Mrs. Pritchard wedi ei dychrynu, ond nid wedi ei dychwelyd. Teimlai yn llym oddiwrth y symbylau: eto gwingai yn egniol yn eu herbyn. Yr oedd y gydwybod wedi ei chyffroi, ond nid oedd y galon wedi ei hennill. Ceisiodd ddarbwyllo ei hunan a'i gŵr, nad oedd yr un adnod o'r fath ag oedd y testyn, o fewn y Beibl; ond mae ystryw ydoedd o eiddo y Methodistiaid i ddychrynu y bobl. Yn y penbleth hwn yr ydoedd pan yr oedd hi, a Mr. Pritchard yn dychwelyd oddiar y mynydd tua'r Bontfaen, tua thŷ ei rhieni, yn ol dysgwyliad; a lle yr oedd pob peth yn barod i feithrin ysgafnder a nwyfiant. Y noson hono hefyd yr oedd dawnsfa *(ball)*, yn y Bontfaen, a thra awyddus oedd Mrs. Pritchard i fyned iddi, er mwyn ymlid ymaith drallod blin ei meddwl: ond nid oedd dim yn lleshau. Nid oedd iddi ddifyrwch bellach mewn dim rhwysgedd o'r fath, chwanegu ei gofid a wneid yn lle ei leihau. Ciliodd ei chwsg oddiwrthi. Dychrynfeydd y farn a'i meddiannai yn llwyr. Ni siaradai am ddim arall, er fod y siarad ei hun yn trymhau ei dolur. Ofer oedd dyweyd ei chwyn wrth ei gŵr, gan na allai symud ei faich ei hunan, na'i chyfarwyddo hithau at neb a allai. Hi fu yn y cyflwr gresynus hwn am ysbaid pymthegnos, mewn anghysur mawr ei hunan, ac yn peri anghysur mawr i'w theulu.

O'r diwedd barnodd Mr. Pritchard, mai athrawon crefydd oedd y rhai tebycaf i'w chyfarwyddo, gan mai ystyriaethau crefyddol oedd yn awr yn ei llethu; ac oddiar y syniad hwn cymerodd hi gyd âg ef eilwaith i wrando pregeth i Lantrisaint, fel y bernir. Un o'r Methodistiaid oedd y pregethwr, ond nid yw ei enw yn awr ar gael. Bendithiwyd yr oedfa hon iddi. Ar-

weiniwyd ei meddwl trwmlwythog at yr Hwn sydd yn esmwythau ar bechaduriaid blinderog. Cafodd olwg ar lwybr diangfa; syrthiodd ei baich i'r llawr, a defnynodd tangnefedd hyfryd yr efengyl i'w mynwes archolledig, a phlygodd ei gwar yn ewyllysgar i iau Crist, o hyn allan. Bendithiwyd yr oedfaon hyn i'w gŵr hefyd, er nad oes genym adroddiad o helynt ei feddwl ef ar y pryd; eto, hysbys yw, ddarfod i gyfnewidiad trwyadl gymeryd lle arno yntau o hyny allan. Ymadawodd am byth â'r cŵn hela; ciliodd oddiwrth ci gyfeillion a'i bleserau gau, a bwriodd ei goelbren yn ddiddig; ïe, yn llawen, "gyd â'r rhai a alwent ar yr Arglwydd o galon bur."

Daeth y ddau bellach i ymgydnabyddu â'r crefyddwyr, ac nid oedd eu tlodi a'u gwaeledd weithian ddim yn rhwystr. Daethant hefyd yn fuan i gydnabyddiaeth helaethach â Mr. Jones, yr hwn yn siriol a'u dysgodd yn fanylach yn ffordd Duw. Bellach, hwy a gyfrifwyd gyd â'r bobl a fuont unwaith mor ddiystyr yn eu golwg, a hwythau a lawenychent yn eu braint. Nid hir'chwaith a fuont cyn ymofyn am foddion gras yn nes i'w cartref; canys ni allent yn awr ymfoddloni heb eu cael, ac nid oeddynt i'w cael yn gyson, heb fyned i Lantrisaint neu Salem, o'r fath ag a'u boddlonai. Ceisiasant bregethu, gan hyny, i'w tŷ; troisant gegin y palas yn gapel, a'r *settle* yn bwlpud. Yr oedd cyfnewidiad mawr wedi cymeryd lle, yn syniad a theuddfryd Mr. a Mrs. Pritchard, ac nid rhyfedd fod y fath gyfnewidiad yn y fuchedd a'r rhodiad. Parcdd y tro yn ddiamheu lawer o siarad yn y wlad; a mawr y cyrchu fu i Collena i wrando pregethu, a hyny yn ddiau oddiar wahanol egwyddorion; rhai er mwyn cael difyrwch a thestyn siarad; rhai o chwilfrydedd, gan ymofyn pa beth a allai fod y peth dyeithrol hwn; a rhai, yn unig am fod eraill yn myned. Yr oedd yr olwg yma yn wahanol i'r hyn a welid mewn llawer man. Y bythod a'r ysguboriau a feddiannid gan y Methodistiaid mewn ardaloedd eraill, ond yma y palas. Nid oedd mwyafrif eu dysgyblion ond pobl dlodion; ond yma fe'u cefnogwyd gan uwchraddiaid. Nid *llawer*, mae'n wir, o'r fath rai a alwyd, eto fe alwyd *rhai;* ac yn eu plith yr oedd perchenogion Collena. Yn mysg y lluaws a ymdyrai ar y cyntaf i'r cynulliadau crefyddol i'r palasdy, ymgasglai dynion drwg eu hamcan; rhai a ddeuent yno o ddyben gwneuthur gwawd a dihirwch; rhai wedi gosod eu bryd ar ddireidi; y rhai a barasant radd o anghysur ac aflonyddwch dros dymhor. Cyn hir, aeth y cyfryw ddigrifwch yn ddiflas; achubwyd rhai o flaenion y terfysgwyr, a chafodd y gweddill o'r fintai brofi yn raddol fod y cynulliadau crefyddol hyn yn lle rhy boeth iddynt; a bu gorfod arnynt naill a'i gwella eu hagwedd, neu gilio i'w lle eu hunain.

Ar y pryd yr oedd pregethu yn Collena, yr oedd yr hen gawri, gydag ychydig eithriaid, ar y maes, ac yn ymweled, bob un yn ei dro, â'r lle hwn; megys W. a P. Williams; Jones, Llangan; Davies, Castell-nedd; Lloyd, Henllan; David Morris; John Evans, Cil-y-cwm; a llawer eraill llai adnabyddus; megys D. Williams, Aberthyn; a William Thomas, o'r Pîl, a'u cyffelyb. Ni fu llafur y gwŷr hyn ychwaith ddim yn ofer. Nid yn unig

darostyngwyd llawer ar ragfarn ac anfoes y trigolion, ond hefyd fe achubwyd llawer un o honynt, y rhai, ar y cyntaf, fel y gellid dysgwyl, a gyfarfyddent a chryn lawer o warth ac anghyfleusdra, yn enwedig y rhai a ddangosent fwyaf o sel gyda'u crefydd. Sonir am Elizabeth Morgans, yr hon, ar y pryd, a fwriodd ei choelbren gyda'r dysgyblion, oedd yn gwasanaethu mewn teulu a roddai iddi bob rhyddid i fyned i gyfarfodydd llygredig; ond wedi troi o honi i lwybr gwahanol, profodd ymddygiad gwahanol ar law y teulu. Bellach, rhaid oedd iddi ddyfod i'r tŷ ar ryw awr benodol ar y nos; onidê byddai y drws wedi ei gloi yn eu herbyn; a pharodd hyn i Elizabeth (yr hon a elwid *Bess* gan y cyffredin), dreulio llawer noson fel y gallai. Ar yr achlysuron hyn, llechai yn dawel a diddig, mewn gweddi a mawl, yn llofft y gwair, gan ryfeddu ei chyfrif yn deilwng i ddyoddef anmharch er mwyn enw yr Iesu. Dynes ieuanc arall a gyrchai i'r moddion wyth milldir o bellder, gan letya dros nos yn Collena. Dychwelwyd dau o'r gwasanaethyddion, a thair o'r gwasanaethesau, at deulu y ffydd, yn nghyd ag amryw eraill o'r gymydogaeth. Wedi lluosogi ychydig yn y modd hyn, teimlai y dychweledigion awyddfryd i ymgorffori yn gymundeb eglwysig, modd y gallent gael mantais i adeiladu eu gilydd ar 'ei santeiddiaf ffydd;' a chyd gynorthwyo i gynal gair y bywyd yn y gymydogaeth. I'r dyben hwn, hwy ddefnyddient y cyfleusdra pan yr ymwelai pregethwr â hwy, i ymneillduo ar ddiwedd y gwasanaeth cyhoeddus, i neuadd y palas; a dywedir mai gwleddoedd breision a fwynheid ganddynt ar yr adegau hyny.

Ond yn nghanol y wedd obeithiol hon, ymddangosodd rhyw arwyddion cyfnewidiad. Duodd yr awyr grefyddol gan rai cymylau tewion. Yr oedd Mr. Pritchard, wrth gwrs, yn nodded neillduol i'r achos gwan, ond y nodded hwn a alwyd i fesur yn ol, trwy iddo gael ei daro â gymalwst trwm; yr hwn glefyd, er na fu yn angeuol iddo, a'i difuddiodd ef mewn mesur mawr dros weddill ei oes. Gwelwyd yn angenrheidiol, er cysur y teulu, fod y moddion yn cael eu symud o'r palas; a darparwyd gogyfer a hyny. Parotowyd lle mewn tŷ o eiddo yr un teulu yn nghanol y pentref, lle y bu pethau dros dymhor yn weddol gysurus. Cawsant gynorthwy hen batriarch duwiol o'r enw Hugh Rhŷs Hugh, yr hwn oedd yn aelod yn Llantrisaint. Chwanegwyd atynt hefyd un Mrs. Margaret Jenkins, o'r Rhiw, yr hon oedd eisoes yn aelod yn Aberthyn, yn nghyda dwy o'i merched, ac un mab o'r enw Jenkin Jenkins. Yr oedd y gŵr ieuanc yn meddu talentau rhagorol, ac wedi cael graddau helaeth o ddysg ac amaethiad meddwl. Nid aeth llawer o amser heibio cyn i'w ragoriaeth ddyfod i'r golwg, a chymhellwyd ef i gymeryd arno weinidogaeth yr efengyl. Hyn hefyd a wnaeth; ac er mwyn cyrhaedd graddau helaethach o fanteision addysg, penderfynodd fyned i athrofa Iarlles Huntingdon; ac oddiyno, er colled i Don-yr-efail ac i Gymru, aeth i *Lewes*, tref yn Lloegr, lle y bu yn gweinidogaethu i gynulleidfa o Saeson, mewn modd parchus a llwyddiannus dros weddill ei oes.

Duo fwyfwy yr oedd yr awyr ar Don-yr-efail. Dechreuodd angau fedi

rhai o'r ychydig enwau oedd wedi eu hennill; rhai trwy ryw amgylchiadau anorfod a symudwyd o'r gymydogaeth i fyw, ac eraill a ymlidiwyd o flaen awelon croesion i dir gwrthgiliad, fel nas gadawyd yn ngweddill, ond *wyth benyw yn unig!* Ysgrifena fy hysbysydd, "Fel yn y dyddiau gynt, pan oedd un dysgybl wedi bradychu ei Arglwydd, ac un arall wedi ei wadu, a'r cwbl wedi ei adael; 'llawer o *wragedd* a lynasant wrtho,' gan ddringo llethrau bryn Golgotha, hyd wrth groes yr Iesu, gan wlychu y lle a'i dagrau. Felly yma, wyth o wragedd* a lynasant wrtho yn awr y brofedigaeth!" Yr oedd un o'r rhai'n, sef Jane Morris, yn meddu ar well dawn canu na'r lleill, i'r hon yr ymddiriedid y flaenoriaeth ynddo; yr oedd Mary James drachefn yn ferch ieuanc a ragorai mewn dawn gweddi; a'r ddwy Elizabeth yn rhagori yn eu gwres a'u ffyddlondeb; ond ar ysgwydd Mrs. Pritchard, er hyny, yr oedd pwys y gwaith yn gorphwys. Yr oedd y wraig hon yn berchenog ar ddylanwad, nid yn unig oblegid ei sefyllfa uwchraddol yn y byd; ond hefyd, ac yn fwy o lawer, am fod ganddi gryfach cyneddfau na'r cyffredin. Yr oedd yn meddu ar feddwl cryf a threiddgar, sylw craff, a hunan-lywodraeth; ac nid oedd yn ddiffygiol chwaith ar ddawn i ymadroddi yn gyhoeddus. Yr oedd y wraig hon hefyd, bellach, wedi cyrhaedd mesur mawr o wybodaeth â phrofiad ysgrythyrol; a'r cwbl wedi eu haddurno â'r "eneiniad oddiwrth y santaidd hwnw;" fel ag yr oedd cymhwysderau lawer wedi ymgrynhoi ynddi, i lywodraethu a phorthi y ddeadell fechan amddifad; ïe, i fod yn "Fam yn Israel."

Nid hir iawn y gadawyd y ddeadell yn y sefyllfa amddifad hon. Fe allai mai prin y gellir dyweyd mai amddifad oedd ei sefyllfa, oblegid yr oeddynt wedi eu cyflawni eisoes â llawer o ragoriaethau, ac yn mwynhau graddau helaeth o ewyllys da "Preswylydd y Berth." Eto nid cyflawn oeddynt o bob dawn, a hiraethent lawer am ychwanegiad at eu rhif, a helaethiad at eu breintiau. A Phen yr eglwys a roddodd iddynt eu dymuniad. Y cyntaf a chwanegwyd atynt oedd ŵr ieuanc o'r enw Evan Rodric, yr hwn a barhaodd yn ffyddlawn ddysgybl i'r Iesu hyd ei fedd. Yn y fl. 1785, ymwelodd yr Arglwydd â'i bobl ag adfywiad grymus yn y lle hwn, yr hwn a roes ysgogiad nerthol i'r achos yn ei flaen Sugnai yr adfywiad hwn luaws mawr o bobl i'r oedfaon cyhoeddus o Bencoed, Llantrisaint, Llanwno; ïe, rhai o Gaerffili, bymtheg milldir o ffordd o'r lle. Coronid y moddion â dylanwadau nerthol, nes byddai "sain cân a moliant yn mhyrth merch Seion." Yna y llanwyd eu genau â chwerthin, a'u tafod â chanu; ac yna y dywedwyd yn mysg eu brodyr cymydogaethol, "Yr Arglwydd a wnaeth bethau mawrion i'r rhai hyn." Cododd yr adfywiad hwn y "bobl druain dlodion i sylw a bri; parodd i eraill ymlynu wrthynt, gan ddyweyd, "Awn gyda chwi, canys gwelsom fod Duw gyda chwi." Yn mysg eraill a ymwasgodd atynt y pryd hwn, yr oedd llanc ieuanc 16 mlwydd oed, o'r enw Dafydd Evan; a'r hwn a fu o'r

* Eu henwau oeddynt, Mrs. Pritchard, Mrs. Jenkins, Jane Morris, Mary James, Jane Powel, Margaret Morris, a dwy Elizabeth Morgans.

gwasanaeth mwyaf iddynt yn ei ddydd. Nid oedd dim hynodrwydd amgylchiadol ar y llanc hwn; ni chawsai ddysg ond a gyfranwyd iddo yn ei febyd, yn un o'r ysgolion rhad a fuasai dan arolygiaeth Griffith Jones, Llanddowror; ac o ran ei sefyllfa yn y byd, nid oedd dim uwchafiaeth yn perthyn iddo; eto bendithiwyd ef â mesur helaeth o synwyr cyffredin, yn gystal ag â gras mawr i fod yn ffyddlawn. Codwyd ef oddiwrth y nodwydd a'r astell i fod yn un o'r tyddynwyr mwyaf cyfrifol yn y fro, ac yn un llawn cymaint ei ddylanwad a neb arall o fewn y plwyf.

Ni oddef ein gofod i ni ymhelaethu; ond y mae y dysgrifiad a ddyry ein hysbysydd o'r gŵr defnyddiol hwn yn ei ddysgrifio fel gwrthddrych tra dyddorol. Gŵr craff ei lygad, parod ei ddawn, helaeth ei wybodaeth, heddychlon ei ysbryd, tawel ei dymher; mewn gair yn grynhoad o rinweddau, fel ag i'w wneuthur yn oracl ei fro, at yr hwn y cyrchent am gynghor yn mhob dyryswch, ac i'r hwn yr ymostyngent mewn llawn ymddiried yn ei ddoethineb a'i onestrwydd. Ei wraig ydoedd un o'r ddwy Elizabeth y soniasom am danynt eisoes, yr hon hefyd oedd yn rhagori yn ei gras, ac yn rhinweddau ei rhyw. Y deuddyn hyn oeddynt rïaint y Parch. William Evans, yr hwn sydd yn aros hyd heddyw; ac yn cael ei gyfrif, nid yn ddisail, yn un o'r prif golofnau gydag achos y Gwaredwr, nid yn unig yn y lle, ond hefyd yn y sir.

Yn nghylch y fl. 1788, teimlodd y cyfeillion angenrheidrwydd i helaethu lle eu preswylfod. Yr oedd "arch Duw wedi bod yn aros o dan gortynau" hyd yn hyn, a chwenychai ei charedigion adeiladu iddi drigle mwy sefydlog. Wedi ymgynghori â Mr. Jones, Llangan, a chael ei gydsyniad ef, ymosodasant yn egnïol at y gorchwyl. Cawsant ddarn o dir i adeiladu arno gan Mr. Pritchard; a chan yr un gŵr, cafwyd ar ei orpheniad Feibl mawr, cymhwys i'r pwlpud. Fel hyn y cafwyd sylfaen yr adeilad a'i ddodrefn, gan yr un boneddwr; ei chychwyniad a'i pherffeithiad. Anrhydeddwyd y teulu hwn yn nodedig, trwy i'r Arglwydd roddi i'r holl deulu, dau fab a saith merch, gael trugaredd ganddo. Codwyd y meibion yn weinidogion eglwys Loegr, mae un o honynt yn aros hyd heddyw yn hen ŵr anrhydeddus, o ysbryd rhydd ac efengylaidd; ac wedi bod yn ei ddydd yn bleidiwr gwresog i bob achos da.* Bu farw un o'r merched yn mlodau ei hoedran, yn 21 mlwydd oed; wedi rhoddi profion diymwad o wirionedd ei gras; ac i'r hon y cyfansoddodd bardd Pant-y-celyn alareb ardderchog. Dwy eraill a fuant feirw mewn oedran teg, a'r olaf o'r ddwy wedi bod yn aelod eglwysig am 66 o flynyddau. Bu farw Mr. Pritchard yn nghanol ei ddyddiau, pan nad oedd ond 48 mlwydd oed; ond ei weddw a gafodd oes faith: cyrhaeddodd 86 mlwydd oed, y rhai a dreuliwyd ganddi gyda chysonedd a gwastadrwydd teilwng i Gristion gloyw. Mae pedair merch eto yn fyw. Mae eu tŷ wedi bod yn agored i weinidogion yr efengyl ar bob achlysur; ïe, parod ydynt hyd eu gallu i ddangos caredigrwydd i achos y Cyfryngwr yn mhob modd, a hyny, nid trwy gymhell, eithr

* Efe yw Senior Ficer Llandaff.

yn ewyllysgar. Mae y rhai sydd yn aros wedi ennill iddynt eu hunain gymeriad anrhydeddus am eu rhinweddau dynol, yn gystal ag am eu gras ysbrydol; achoffadwriaeth y rhai a ymadawsant â'r fuchedd hon sydd berar-oglaidd, a thra theilwng o efelychiad.

Wedi symud i'r addoldy, ymsefydlodd yr achos mewn gwedd mwy cyson a threfnus; ac nid hir o amser ar ol hyny, cychwynwyd yr ysgol Sabbothol. Yr oedd Mr. Charles, o'r Bala, wedi bod trwy y wlad, y tro cyntaf iddo fod; o leiaf gyda'r achos hwn, ac fe allai mai y cyntaf oll; yn cynhyrfu y bobl, ac yn annog yr eglwysi i ymosod at y gorchwyl. Ymddengys mai yr unig un a fedrai ddarllen Cymraeg gyda rhwyddineb yn y lle hwn, oedd Dafydd Evan, ar ysgwyddau yr hwn y bu cadw yr ysgol am ryw dymhor, yn gorphwys yn gwbl. Cafwyd llawer o waith yn yr ardal hon, fel mewn ardal-oedd eraill, i leddfu ac i symud rhagfarn y bobl yn erbyn y gwaith; i gasglu plant i'r ysgol; ac wedi eu casglu, cafwyd anhawsder mawr yn dofi graddau ar y pethau gwylltion, ac yn amaethu gradd ar eu meddyliau anwar. Ond er maint y rhwystrau, gorchfygu a wnaed; ac erbyn hyn, y mae, nid yn unig ysgol luosog a llwyddiannus yn y lle, ond tair eraill wedi eu sefydlu trwyddi; sef un yn Glynogwr, un yn Dinas, a'r drydedd yn Castella. Yn mhob un o'r lleoedd hyn y mae eglwys, mwy neu lai blodeuog, wedi ei phlanu, a nifer o aelodau eglwysig wedi eu crynhoi; ac oddiwrth un o honynt, sef Dinas, y mae canghen arall wedi tarddu, sef Cymmer.

Ymddengys mai tri o ddiaconiaid a fu yn gwasanaethu i angenrheidiau yr eglwys hon; sef Mri. Dafydd Evan, Isaac James, ac Evan Thomas. Gan fod yma ryw nifer wedi ymgorffori ar enw yr Arglwydd er ys 80 mlynedd, rhaid fod y diaconiaid hyn wedi eu coroni â meithach oes nag a roddir i'r rhan amlaf o blant dynion: felly yr ydym yn deall y bu, ac nid hirhoedledd oedd yr unig ragoriaeth arnynt, ond hefyd fe'u cynysgaethwyd â mesur helaeth o ras ac o ddoniau ysbrydol, a chadwyd hwy yn dirfion ac yn iraidd hyd eu henaint. Yn yr eglwys hon, fel y dywedwyd, y cododd y Parch. William Evans, ac y preswylia hyd heddyw, gweinidogaeth yr hwn sydd mor gymer-adwy a buddiol.

PENNOD VII.

ADGOFION AM RAI EGLWYSI MWY DIWEDDAR Y SIR.

CYNWYSIAD :—

MERTHYR TYDFIL—CYCHWYNIAD YR ACHOS—ADEILADU Y CAPEL CYNTAF YNO—SEFYDLIAD YR YSGOL SABBOTHOL—CYMDEITHASFA 1803—ADFYWIAD 1820, A'R CANLYNIADAU — COED-Y-CYMMER — CLWYD-Y-FAGWYR — CAE-PANT-TYWYLL — CAPEL-Y-GRAIG—DOWLAIS—HELYNTION YR ACHOS YN EI GYCHWYNIAD—CODIAD YR YSGOL SABBOTHOL, A'R LLWYDDIANT A GANLYNODD—ABERDAR—ADRODDIAD CHRISTMAS RHYS—ADEILADIAD CAPELAU, CARMEL, MORIAH, LIBANUS, LLETY-SIENCYN, A HIRWAEN — LLANWNO A BRYNTIRION — ST. FFAGANS.

MERTHYR TYDFIL.

Dywedir fod y lle hwn wedi ei enwi oddiwrth fod merch o'r enw Tydfil, merch i Brychan, Tywysog Brycheiniog, wedi ei merthyru yma gan y Saeson paganaidd, yn y bummed ganrif, am iddi gofleidio Cristionogaeth. Dywedir hefyd ddarfod ei seintio yn ol defod ofergoelus eglwys Rhufain; ac i eglwys gael ei hadeiladu, a'i chysegru iddo fel Tydfil y Merthyr; ac i'r enw gael ei arfer o hyny allan i ddynodi y gymydogaeth hon.

Cyn y fl. 1728 nid oedd y lle hwn ond pentref bychan, yn sefyll ar lan yr afon Tâf, yr hon sydd yn tarddu yn mynyddoedd Brycheiniog, ac yn ymarllwys i'r môr yn Nghaerdydd. Mae yn sefyll yn nghanol mynyddoedd; mynyddoedd tra chyfoethog o haiarn a glo.

Pellder Merthyr Tydfil o Abertawe ydyw 30 o filldiroedd.
Pellder Merthyr Tydfil o'r Fenni ydyw 20 o filldiroedd.
Pellder Merthyr Tydfil o Aberhonddu ydyw 18 o filldiroedd.
Pellder Merthyr Tydfil o Gaerdydd ydyw 24 o filldiroedd.

Nid oedd ei phoblogaeth yn y fl. 1801, ond 7,705; yn awr y mae yn tynu yn mhell ar 50,000. Nid oes, tybygid, un lle ynghanol gwlad wedi cynyddu mor gyflym, ac i raddau mor fawr. Yr achos, fel mae yn hysbys, o'i chynydd dirfawr ydyw y gweithfaoedd glo a haiarn sydd yn yr holl fro. Bellach, y mae yn dref fawr, ac yn ddiweddar wedi ei diwyllio yn fawr mewn ffurf ac ymddangosiad. Yn lle pentref o dai bychain, yn britho y llanerchi, mewn gwedd direol ac aunhrefnus fel yr oedd gynt; y mae ynddi yn awr lawer o heolydd rheolaidd, a masnachdai gwychion; yn ei chymydogaeth y mae amryw balasau ysblenydd, perthynol i'r boneddwyr a berchenogant y gweithfaoedd; ac o'i mewn y mae pedair o eglwysi esgobyddol, ac yn agos i 40 o gapelau ymneillduol.

Dechreuodd Methodistiaeth ymsefydlu yn y fro ryw bryd tua diwedd y ganrif ddiweddaf, pryd nad oedd poblogaeth y lle ond bychan, wrth yr hyn

ag ydyw yn awr. Yr oedd ar y maes Methodistaidd y pryd hwnw yn llafurio yr offeiriaid canlynol: sef, y Parchn. D. Jones, Llangan; Howel Howells, Trehill; Hezeciah Jones; a Phillips, Llangrallo. Ni chafwyd gwasanaeth y ddau olaf hyd ddiwedd ei hoes. Y cynghorwyr, fel y'u gelwid, oeddynt Richard James, Hopkin Bevan, Thomas Edwards, Daniel Daniel, a Jenkin Thomas, Penhydd. Y lle y dechreuwyd pregethu ynddo oedd ar Dwyn-yr-odyn, yn nhŷ anedd John Davies, neu fel y gelwid ef yn ol arfer y wlad, Siôn, Tŷ-maen. Nid oedd y pregethu, ar y dechreu, ond achlysurol, fel y gellid cael pregethwr; ond ymddengys, er hyny, ddarfod i'r Arglwydd, dan yr holl anfanteision hyn, "ddwyn tystiolaeth i air ei ras," nes deffro ystyriaethau rhai yn y lle i ymofyn y ffordd tua Seion; ac yn mhen ychydig amser, ffurfiwyd cymdeithas eglwysig yma, "i'r rhai oedd yn ofni yr Arglwydd ac yn meddwl am ei enw ef."

Wedi bod yn gwersyllu yma dros ryw dymhor, bu raid symud; oblegid arweiniwyd John Davies, yr hwn tybygid, oedd y prif golofn, i ran arall o'r dref i fyw, sef i Bont-morlais; y lle yr ymsefydlodd yr achos o hyny allan.

Yr oedd y pregethu, y pryd hwnw, yn dra phrin, a'r pregethwyr yn dra anaml; ac ar yr un pryd, yr oedd yr ysgogiad crefyddol yn dybynu yn hollol ymron ar y pregethu yn unig. Nid oedd eto yr un ysgol Sabbothol, na nemawr o Feiblau, na llyfrau crefyddol o un math i'w cael; nac ond ychydig o'r Cymry yn alluog i'w darllen, pe buasent wrth law. Ond er mai ar y weinidogaeth yr oeddid yn dybynu, ymron yn hollol, eto yr oedd y moddion hyny yn anhawdd iawn i'w cael. Yr oedd y daith Sabbothol, yn cynwys, dros ryw dymhor, Caerffili a Merthyr; dau le, 18 milldir oddiwrth eu gilydd. Gofynai lawer o ymdrech i allu cyflenwi dau le mor bell; a phrawf diymwad o ffyddlondeb ac aidd y crefyddwyr a'r pregethwyr boreol hyny, ydyw ddarfod iddynt ysgogi yn mlaen dan y fath anhawsderau. Nid gormod gan un o'r aelodau, pan y llwyddid i gael pregethwr i ymweled â hwy, oedd myned i'w gyfarfod i Gaerffili i ymofyn am dano, ac i'w arwain ar hyd y ffordd. Mae un o'r ffyddloniaid hyn yn aros hyd heddyw, o leiaf yr oedd yn dra diweddar; yn dirf ac yn iraidd yn ei henaint, sef yr hybarch Evan Jones.

Wedi bod dros ryw amser yn ymgynull mewn tŷ anedd, cafwyd allan fod yn rhaid ymofyn am le helaethach i addoli. Ni chynwysai y tŷ anedd y gwrandawyr; am hyny ymosodwyd at y gorchwyl o adeiladu addoldŷ. Hyn a wnaed o'r fl. 1792 i 1796. Gellir cael rhyw ddrychfeddwl o ansawdd y gwaith ar y pryd, trwy sylwi ar faintioli y capel a adeiladwyd; ei hyd oedd 31 troedfedd, a'i led 21. Er fod yr adeilad hon, fe allai, yn ddigon i gynwys tair gwaith gymaint a thŷ Siôn Dafydd, eto bychan iawn ydoedd, ac annigonol i gynwys mwy na dau neu dri chant o wrandawyr. Beth oedd hyn yn Merthyr?

Tua'r un amser, ag yr adeiladwyd y capel hwn, fel yr ymddengys, y cychwynwyd yr ysgol Sabbothol. Hon hefyd oedd y gyntaf yn y dref; ac yn yr amser hwnw, sef y fl. 1795, nid oedd ond ychydig o ysgolion Sabbothol yn

Nghymru, nac yn wir, yn y byd. Yr oedd yr ysgol yn y lle hwn, fel yn mhob man arall, yn ei chychwyniad yn ddiystyr a diddym iawn, a llawer o ragfarn yn ei herbyn, hyd yn nod yn meddyliau dynion da. Un moddion arbenig, yn y lle hwn, a fu yn effeithiol i ddarostwng y rhagfarn oedd yn ei herbyn, ar y naill law, ac i roddi ysgogiad grymus iddi yn ei blaen ar y llaw arall, oedd ymweliad y Parchn. Thos. Charles, o'r Bala, ac Owen Jones, o'r Gelli, â'r lle.* Canfuwyd trwy yr holwyddori cyhoeddus a wnaed, fod daioni yn cael ei gynyrchu; diflanodd y gwrthwynebiad oedd iddi, ac ennillwyd llawer i roddi eu hanadl a'u hysgwydd o'i phlaid.

Yn y fl. 1803 cynaliwyd y gymdeithasfa gyntaf yn Merthyr, gan y Methodistiaid; ac y mae yn bur debyg y gyntaf a gynaliwyd gan neb arall. Yn y cyfarfod hwn cafwyd presenoldeb a gwasanaeth Mri. Jones, Llangan; Williams, Lledrod; Jones, o Edeyrn; a Jones, Caerfyrddin. Coronwyd y cyfarfod ag ardderchogrwydd ac â llwyddiant mawr; trwy fod y gweinidogion yn cael eu "bedyddio â'r Ysbryd Glân, ac â thân." Ond os oedd y llwyddiant yn fawr ar un llaw, yr oedd digofaint mawr ar y llall. Enynodd gwrthwynebiad cryf i'r newydd-beth hwn, yn mysg y rhai estronol a gelynol i'r gwaith; a rhoisant arllwysiad i'w gwenwyn, trwy dynu yr esgynlawr *(stage)*, y safai y pregethwyr arni, i lawr. Gwnaed y gorchwyl gwarthus hwn liw nos; ond erbyn y bore yr oedd cyfeillion crefydd wedi gwella y gwall, fel na fu rhwystr ar y cyfarfod. Gyda chyfeiriad at y tro ffol hwn, y dywedai Mr. Jones, Llangan, "Merthyr yw Merthyr fyth."

Cydweithiodd y gymdeithasfa grybwylledig, yn nghyda llafur effeithiol yr ysgol Sabbothol, mewn cysylltiad â gweinidogaeth y gair ar y Sabbothau, i ddwyn o amgylch lwyddiant mawr. Parodd yr ychwanegiad ar y gwrandawyr a'r aelodau, angenrheidrwydd "i helaethu lle y babell." Cyfyng oedd y lle, bellach, iddynt ymgynull ynddo, a rhaid oedd ei eangu. Gwnaed capel, gan hyny, gymaint arall o faintioli; sef 42 o hyd, wrth 30 o drodfeddi o led. Cynwysai y tŷ hwn 500 neu ychwaneg o wrandawyr. Cymerodd hyn le tua'r fl. 1805. Yn mhen tua dwy flynedd ar ol hyny, ymwelodd yr Arglwydd â'i bobl trwy adfywiad hyfryd a nerthol. Pan oedd y Parch. Henry Jones, Llaneirwg, Mynwy, yn pregethu, disgynodd rhyw ddylanwadau grymus ar y gynulleidfa, y fath na chawsid yn y lle hwn o'r blaen; ac mewn canlyniad, ychwanegwyd lluaws mawr at y dysgyblion. Ymwelodd y Parch. Rowland Hill, Llundain, â Merthyr ar yr adeg effro hon; ac ar waith y gŵr da hwnw yn traethu am y "gwaed," er mewn iaith estronol, eto a ddeallid mewn rhan, torodd allan nifer lluosog o'r gynulleidfa i foliannu Duw mewn hwyl nefolaidd; ac nid anfoddhaol oedd hyny gan y gŵr boneddig, gan ei fod yntau ei hun, tybygid, wedi ei fedyddio i fesur mawr â'r un ysbryd. Aeth y gwrandawyr i'w ffordd yn llawen, gan fendithio Duw am yr holl bethau a welsent ac a glywsent.

* Cyf. I., tudal. 345.

Yn y fl. 1814, sefydlwyd, mewn cysylltiad â'r ysgol Sabbothol, gyfarfod arall, yr hwn a elwid yn y lle hwn, cyfarfod *egwyddorol;* ac mewn lleoedd eraill, cyfarfod *chwanegol.* Bu y cyfarfod hwn o fendith annhraethol i ddeiliaid yr ysgol Sabbothol; oblegid y cyfleusdra a roddid ynddo i ymddyddan â'r ieuenctyd, ac eraill, am effaith y gwirioneddau a ddysgid iddynt ar eu meddyliau. Yr oedd yn rheol bellach na chaniateid i neb adrodd pennod o'r Beibl ar gyhoedd (yr hyn a wneid yn fynych y dyddiau hyny), heb fod yn aelod o'r cyfarfod neillduol hwn, ac o leiaf yn weddaidd ei ymddygiadau allanol. Arferid dysgyblaeth mwy manwl ar aelodau y cyfarfod neillduol hwn, nag a wneid ar ddeiliaid yr ysgol yn gyffredinol. Yr oedd yr ysgol yn agored i bawb, ond nid oedd hwn felly. Ystyrid deiliaid y cyfarfod egwyddorol, yn gyffelyb fel yr ystyrid y *catechumen* yn yr eglwysi boreol; rhai dan ryw argraffiadau crefyddol, ac o ymddygiadau moesol, mwy nag eraill; a rhai dan ryw driniaeth ragbarotoawl i'w cymhwyso i fod yn aelodau eglwysig. Yr oedd yn perthyn i'r cyfarfod hwn reolau argraffedig, wrth ba rai y dysgwylid i'r cyfarfodydd gael eu cynal, ac wrth ba rai y dysgwylid i'r deiliaid rodio.

Tua'r un amser hefyd sefydlwyd cymdeithas ychwanegol, cyffelyb yn ei amcan i'r llall, ond yn golygu *deiliaid* gwahanol. Hwn a sefydlwyd er mwyn estyn cynorthwy ac ymgeledd i hen wrandawyr, a fyddai "yn cloffi rhwng dau feddwl," ac yn analluog i ysgogi yn mlaen. Yr offeryn a fu yn ymdrechgar i sefydlu hwn oedd henadur o Liverpool, o'r enw John Hughes; gŵr o synwyr a gras neillduol; yr hwn oedd ar y pryd yn ymdaith yn y fro dros dymhor gyd â'r alwedigaeth y perthynai iddi. Bu ei lafur yn hyn yma, fel y mae yn ymddangos, o les mawr i'r achos; ac ychwanegwyd llaweroedd at yr eglwys, o'r ddau gyfarfod; o ba rai, y mae nifer lluosog wedi huno yn yr Iesu, a rhai hyd heddyw yn aros yn ffyddlawn a defnyddiol ar y maes; naill ai fel pregethwyr efengyl, henuriaid eglwysi, neu athrawon yn yr ysgol Sabbothol. Un enghraifft yw hwn allan o lawer o fewn y dywysogaeth, o ddefnyddioldeb tra mawr y cyfryw gyfarfodydd; a gresyni ydyw na fyddent yn llawer amlach, a'u harolygiaeth yn llawer dyfalach.

Yn y fl. 1821, yr oedd y gynulleidfa mor lluosog, yn enwedig ar nos Sabbothau, nes y bu raid helaethu y capel drachefn. Yn y fl. 1829, ymwelodd yr Arglwydd â'i bobl mewn modd arbenig trwy adfywiad grymus. Rhoes dywalltiad helaeth o'i Ysbryd, nid yn unig ar wahanol eglwysi Merthyr, ond hefyd ar luaws mawr o eglwysi y Deheubarth oll. Yr oedd y niferi a chwanegwyd at yr eglwysi, trwy yr ymweliad hwn, fel cynyrch cynhauaf toreithiog. Llanwyd genau pobl Dduw â chwerthin, a'u tafod â chanu, gan i'r Arglwydd wneuthur iddynt bethau mawrion; a thrwy hyny eu lloni â llawenydd. Mewn canlyniad i'r ymweliad hwn, bu raid i'r brodyr yn Mhont-morlais dynu yr hen gapel i lawr, ac adeiladu yr un presenol, yr hwn sydd adeilad helaeth 61 troedfedd wrth 52 o fewn y muriau, ac oriel yn mron o'i gwmpas. Cynwys hwn gan hyny wyth waith mwy, neu ychwaneg, o wrandawyr na'r capel

cyntaf; os cynwysai hwnw 150, cynwys hwn 1,200; pryd y gellid dyweyd hefyd fod rhif deiliaid yr ysgol Sabbothol, ac aelodau yr eglwys yn gyfatebol. Ac nid yr ychwanegiad hwn oedd yr unig lwyddiant a goronodd yr achos Methodistaidd yn Merthyr; ond seiniodd gair yr Arglwydd o'r lle hwn i ardaloedd eraill hefyd; fel y gwelir yn y man. Cododd yma hefyd amryw o bregethwyr o bryd i bryd, sef y Parchn. David Williams, Richard Lewis, Evan Jones (o ardal Coed-y-cymmer), William Rees, Daniel Davies, John Griffith, Thomas Williams, Edward Williams, a David Jones. Y mae yn aros yma yn awr y Parch. Evan Harris, gynt o sir Frycheiniog, a'r brawd ieuanc David Jones.

Crybwyllir am lafur a ffyddlondeb yr hen flaenor Joshua Davies, gyda llawer o barch, gan faint y gwasanaeth a wnaeth, trwy arwain y canu, arolygu yr ysgol Sabbothol, a'r cyfarfod egwyddorol, dros lawer o flynyddau, yn Merthyr ac yn Dowlais.

COED-Y-CYMMER.

Mae y pentref hwn yn sir Frycheiniog, eto o fewn llai na dwy filldir i Merthyr Tydfil; ac yn ol Gweithred y Diwygiad Seneddol, o fewn terfynau y fwrdeis-dref. Y mae hefyd mewn cysylltiad â chyfarfod misol sir Forganwg.

Bu pregethu achlysurol yma er y fl. 1800; yn mhen tua saith mlynedd ar ol hyny profwyd adfywiad neillduol ar yr achos yn y fam eglwys, sef Merthyr; pryd y disgynodd diferion lled helaeth o'r gawod ar yr ardal hon hefyd, yr hyn a fu yn achlysur adeiladu yma gapel. Ar yr un pryd nid oedd yma gysonedd difwlch o ran moddion cyhoeddus, hyd y fl. 1827. Edrychid hefyd ar yr aelodau yn perthyn yn hytrach i'r fam eglwys, yn Mhont-Morlais. Yma y derbynid aelodau i mewn neu y bwrid rhai allan; yma hefyd yn gyffredinol y gweinyddid y sacramentau.

Rhifedi yr holl aelodau yn y cylch hwn, sef Pont-morlais, Dowlais, a Choed-y-cymmer, yn y fl. 1826, oedd 280; ond yn 1836, deng mlynedd wedi hyny, yr oeddynt wedi cynyddu i 660, heblaw plant yr eglwys. Yn y blynyddau 1829 a 30, fel y dywedasom yn hanes Merthyr, ymwelodd yr Arglwydd â'r fro, gan ychwanegu llaweroedd at yr holl eglwysi, ac felly yn y lle hwn hefyd. Ychwanegwyd at yr eglwys ieuanc hon, nid llai na 40 neu 50 o aelodau. Yr oedd cynydd y gwrandawyr hefyd yn gyfatebol. Aeth y capel, gan hyny, yn rhy fychan; ac er nad oedd y ddyled oedd arno ddim wedi ei llwyr ddileu, eto bu gorfod ar y brodyr ei dynu i lawr, ac adeiladu un newydd. Bu amryw o'r aelodau a dderbyniwyd yn y diwygiad, feirw yn eu cariad cyntaf, a'r rhan fwyaf o'r lleill wedi gweithio yn y winllan hyd heddyw. Rhoes yr eglwys a'r gymydogaeth brawf neillduol o'u ffyddlondeb a'u haelioni yn yr ymdrech a wnaed i dalu dyled yr addoldŷ; a phrawf teg ydyw hyn fod yr ardalwyr yn mwynhau lles a chysur oddiwrth y moddion a gynelir, gan y cyfranant o'u meddiannau mor rhwydd a hael tuag at dalu am

yr adeilad y cedwir y moddion ynddi; yn enwedigol pan y cofiom mai nid cyfoethogion o'u helaethrwydd sy'n cyfranu, ond pobl dlodion o'u prinder. Gan eu hawydd i leihau pob traul arall, er mwyn symud dyled y capel, cytunai y gwragedd â'u gilydd i'w lanhau yn rhad, y naill yn niffyg y llall; felly hefyd mewn perthynas i bob traul arall, cymerai yr aelodau arnynt ei ddwyn; a thrwy yr ymroddiad egniol a chanmoladwy hwn talwyd y ddyled ar y capel; a'r eglwys a gynyddodd mewn rhifedi, a hyderir, mewn gras hefyd, a defnyddioldeb.

Nid anmhriodol, fe allai, a fyddai crybwyll hanesyn byr yn y lle hwn am un David Jones, yr hwn oedd hen aelod gyd â'r Methodistiaid, ac yn ddiacon hefyd yn y lle hwn er ys rhai blynyddau. Yn fuan ar ol y terfysg anffodus a fu yn Merthyr yn y fl. 1831, gwnaed cais egniol gan y glowyr ar ffurfio undeb; trwy yr hwn yr amcenid gorfodi pawb a fynent ddyfod i mewn i'r gwaith glo, a dysgu y gelfyddyd, i dalu rhyw swm am eu dysgu; yr un modd ag y gwneir am ddysgu crefftau eraill. Bu gŵr o'r enw Twist, gŵr o Loegr, yn cyniwair y wlad i ddarbwyllo y glowyr i fynu hyn yn mlaen. Gwrandawodd llawer o'r gweithwyr arno. Ond gwrthodod Dafydd Jones ymuno yn y cais: ond safai yn gryf yn erbyn, a thynodd arno ei hun ŵg llawer o'i gydweithwyr; ond nid oedd na gŵg na gwên, na chosb na gwobrwy, a barai i'r hen flaenor ymuno â'r undeb. Daroganai o hyd mai i'r dim y deuai. Safodd llawer er hyny wrth yr undeb, a bu gwaith mawr Dowlais yn sefyll am wythnosau mewn canlyniad.

Yn nghymdeithasfa y Methodistiaid a gynaliwyd yn Nhredegar yn yr adeg, bu sylw ar gyfreithlondeb neu anghyfreithlondeb yr undeb, a phasiwyd penderfyniad gwrthwynebol iddo. Yr oedd hyn yn Hydref, 1831. Ymddengys i'r penderfyniad hwn effeithio yn dda ar lawer o'r gweithwyr, ac addefai Syr John Guest hyny. Pa fodd bynag, darfu yr undeb, a dychwelodd y bobl at eu gwaith fel cynt. Yr oedd Dafydd Jones yn gweithio ar y pryd yn ngwaith y Gyfarthfa; a dyn arall o'r enw D. D., yn gweithio gerllaw iddo. Yr oedd hwn yn aiddgar am yr undeb, a llawer dadl boeth a fu rhyngddynt ar y pwnc. Un diwrnod, dywedai ei gydweithiwr wrth Dafydd Jones,—"Wel *Dei*, gelyn dy gydweithwyr wyt ti, am dy fod yn rhy bengam i *joino* yr undeb. A wyddost ti? pe bawn i yn gweled carreg yn cwympo, ac yn bygwth dy ladd, a minau yn medru achub dy fywyd, nis gwnawn, am dy fod mor groes i dy gydweithwyr!"

I hyn yr atebodd D. Jones yn benderfynol, "Nid wyf yn gofalu am dy fygythiad di *Dei;* dyna yw dy eitha'; a chred fi, ni ddaw daioni byth o'r undeb y soni gymaint am dano; ac am danaf fi, yr Arglwydd a ofala am fy mywyd i."

Nid hir ar ol hyn, tra yr oedd D. D. yn gweithio ar ei ben ei hun mewn rhan o'r gwaith, syrthiodd careg arno, a chan nad oedd neb gerllaw i'w gynorthwyo, bu farw yn y fan. Gwnaed ymchwiliad manwl i'r tro rhag fod

yr un trangcedig wedi cael cam ar law rhyw rai o'i gydweithwyr; ond ni chaed dim lle i farnu felly. Ond cafodd Dafydd Jones farw mewn tangnefedd yn ei wely.

CLWYD-Y-FAGWYR.

Canghen yw y lle hwn wedi tarddu o Goed-y-cymmer. Y modd y dechrewyd sefydlu achos yn y lle hwn, oedd gyffelyb fel y sefydlwyd achos crefyddol mewn rhai cannoedd o ganghenau o eglwysi y Methodistiaid trwy Gymru. Ymroddodd rhai o'r cyfeillion yn Coed-y-cymmer i fyned yno i gadw ysgol Sabbothol; ac i gadw ysgol hefyd ar nos Fercher. Yr oedd hyn tua'r fl. 1823. Parhausant i gadw ysgol gyda ffyddlondeb mawr, mewn gwahanol dai am rai blynyddau; a llwyddent hefyd i gael ambell bregeth yn achlysurol i'r ardal. Yn y fl. 1841 adeiladwyd yno gapel, neu ysgoldŷ fel y'i gelwir; yn yr hwn, o hyny allan, y cynelir moddion gras yn eu holl ranau.

CAE-PANT-TYWYLL.

Yr oedd yr ardal hon, mewn ystyr ysbrydol, yn cyfateb yn berffaith i'w henw; "y bobl yn eistedd mewn tywyllwch," heb wybod y pethau a berthynant i'w heddwch, ac yn berffaith ddiofal yn nghylch eu hachos tragwyddol gyda Duw. Tua'r fl. 1840 tosturiodd y brodyr yn Ngoed-y-cymmer wrth sefyllfa dywyll ac amddifad y lle, a chychwynasant ysgol Sabbothol ynddi o dŷ i dŷ; ac yn mhen ychydig amser, sef ysbaid blwyddyn, anturiasant godi addoldŷ, a hwnw o gryn faintioli, sef 44 o droedfeddi wrth 36 o fewn y muriau, gyd âg oriel o amgylch iddo. Yr oedd y cam yn gryn anturiaeth, ac nid oes amheuaeth na theimlodd rhai bryder lawer yn yr achos; ond erbyn hyn dywedir, "fod y gwaethaf drosodd, o fawr ddaioni Pen mawr yr Eglwys." Ymneillduodd rhai o aelodau Coed-y-cymmer i'r lle hwn, nid o herwydd unrhyw amrafael yn eu hen gartref, ond am y rhoddid iddynt y cyfleusdra i estyn terfynau teyrnas Crist, a chwalu gradd ar y tywyllwch tew oedd yn gorchuddio y trigolion. Yn yr ardal hon y llafuria yr henadur adnabyddus Mr. William Morris, yr hwn y mae ei aidd a'i ffyddlondeb gyda phob achos yn eglur i bawb.

CAPEL-Y-GRAIG.

Yr oedd y dref, Merthyr Tydfil, yn parhau i gynyddu mewn poblogaeth bob blwyddyn, nid yn unig trwy y plant a enid, ond hefyd trwy fod dyfodiaid o bob cŵr o'r wlad yn heidio i'r gweithfaoedd mawrion sydd gerllaw iddi. Parodd hyn i'r brodyr yn Mhont-morlais farnu, mai eu dyledswydd oedd parotoi lle ychwanegol i addoli, tua milldir a hanner islaw y dref. Felly codwyd yno gapel da a chyfleus. Mae yr ardal yn dra phoblogaidd, a digon o

ddefnyddiau i gyfansoddi eglwys gref, ac achos blodeuog; ond hyd yma nid oes un cyffro mawr wedi ei wneyd yn yr ardal, er fod yma fwy na 60 o aelodau eglwysig. Mae pob moddion o ras yn cael eu cynal yma gyda chysondeb, a gradd o sirioldeb arnynt. Mae y ganghen hon yn dwyn cysylltiad â'r fam eglwys yn Mhont-morlais, a chan mwyaf dan ei harolygiaeth.

DOWLAIS.

Ardal yw hon yn nghŵr Merthyr Tydfil, ac mewn ystyr yn barhad o'r dref. Mae y capel a berthyn i'r Methodistiaid yma yn sefyll tua milldir a hanner o gapel Pont-morlais. Mae y gymdeithas eglwysig sydd yma yn 500 neu fwy o nifer, a'r tŷ addoliad yn un eang dros ben, cymaint felly ag un arall yn y sir, eto ymddengys fod hyn oll wedi cychwyn mewn dechreuad bychan, a'i ddwyn o amgylch trwy foddion distadl a chyffredin, a hyny o fewn ychydig amser mewn cydmariaeth.

Yr oedd gwraig o'r enw Mary Taylor yn byw yn Ninas Powys, Bro Morganwg, tua 30 o filldiroedd o Dowlais, yn y fl. 1791. Gwelodd Duw yn dda ymweled â'r wraig hon, "a datguddio ei Fab ynddi," trwy weinidogaeth y Methodistiaid yn y lle hwnw. Hithau yn y canlyniad a ymunodd â'r eglwys yno, ac a roes brofion amlwg ei bod yn feddiannol ar fwy na phroffes noeth. Yn y fl. 1797, symudwyd y wraig hon o'i hen gartref, ac fe'i harweiniwyd, heb iddi hi wybod i ba ddyben, i Dowlais i fyw. Ar ei dyfodiad i'w chartref newydd, cafodd allan yn fuan mai hi oedd yr unig un yn yr ardal a broffesai undeb â'r Methodistiaid; ac wrthi ei hunan yn yr ystyr yma y gorfu iddi fod dros rai blynyddau. Eto parod ydoedd i fyned tros anhawsderau i gael mwynhad o freintiau; a hi a âi yn gyson i Merthyr i'r cyfarfod neillduol. Y proffeswr cyntaf a chwanegwyd ati oedd un Thomas Davies, yr hwn a elwid weithiau Thomas, o'r Tŷ-maen, ac yn anedig yn sir Frycheiniog. Nid aeth llawer o amser heibio cyn fod eu nifer wedi cynyddu i 12; y rhai a aent oll i Ferthyr i'r gymdeithas eglwysig, ac weithiau i Goed-y-cymmer. Nid oedd eto ddim moddion cyhoeddus yn cael eu mwynhau yn Dowlais, o leiaf gan y Methodistiaid, os oedd hefyd gan neb rhyw enwad arall; ond yr amser a ddaeth i wneyd cais ar gael hyny. Llwyddwyd hefyd i gael gan ambell bregethwr ddyfod yno, i gyhoeddi gair yr iachawdwriaeth. Rhoes Thomas Davies ei dŷ i'r dyben hwnw, ac weithiau rhoddai ei frawd John ei dŷ yntau. Un tro, yn nghanol y cynhauaf gwair, yr oedd dau ŵr o'r Gogledd yn pregethu yn nhŷ John Davies, pryd y coronwyd y cyfarfod mewn modd anarferol â phresenoldeb Duw. Methodd llawer o'r gwrandawyr a dàl heb dori allan i lefain, a rhai i floeddio yn groch, ac hyd yn nod i neidio, gan foliannu Duw â llef uchel; ïe, i'r graddau nes ennill sylw y bobl oedd allan yn y maesydd yn trin y gwair; y rhai, gan hynoted oedd y peth, a adawsant eu gorchwyl i ymholi pa beth a ddygwyddasai.

Clybu eu meistr, perchenog y gwair, fod ei weision wedi gadael eu gwaith,

a hysbyswyd iddo yr achos. Ond nid oedd na'r achos na'r effaith wrth ei fodd. Digiodd a ffromodd yn fawr fod y fath stwr yn cael ei wneyd yn yr ardal, gan ddyrnaid o ddynionach pen-weiniaid; ac yn enwedig gan i hyny effeithio yn golledus arno ef ei hun. Yr oedd y boneddwr yn Yswain cyfrifol ac yn Ynad heddwch; a barnodd mai rheidiol ydoedd symud y casbeth hwn o'r ardal; a bygythiodd y rhai a fuasai yn achos o'r aflonyddwch, ynghyd â'r gŵr a roddai ei dŷ i'r dyben, heb ei drwyddedu yn ol y gyfraith. Pan glywodd un Thomas Williams, crydd wrth ei alwedigaeth, hyn, efe a benderfynodd, er nad oedd ef eto yn cael ei gyfrif o nifer y dysgyblion, i fynu trwyddedu ei dŷ ei hun i'r dyben. Llwyddodd hefyd i gael ei ewyllys o amgylch; trwyddedwyd y tŷ, a gosodwyd y gwrandawyr, yr anneddwr, a'r pregethwr allan o gyrhaedd y gŵr mawr. Yr oedd eu hegni beilach, yn fwy fyth i gael pregethwr atynt mor aml ag y byddai modd; a llwyddent yn fynych i gael hyny. Fel hyn yr arosodd pethau dros rai blynyddau.

Yn y flwyddyn 1806, dechreuwyd cadw ysgol Sabbothol yn nhai Thomas Williams, a Thomas Davies, ac o dŷ i dŷ, ar hyd y gymydogaeth, lle bynag y byddai cyfleusdra. Gwnaent hyn hefyd ar ryw un noswaith yn yr wythnos. Yn mhen ychydig amser, cafwyd cynorthwy un Joshua Prosser, yr hwn, er nad oedd mewn cymundeb crefyddol, a fu yn ewyllysgar i roddi llaw o gymhorth i'r ychydig drueiniaid gyd â'r ysgol. Yn bur fuan, ar ol hyn daeth un Richard Lewis, o sir Fynwy i bregethu i Dowlais, a bendithiwyd ei weinidogaeth yn neillduol i Joshua Prosser. Bwriodd ei goelbren o hyn allan gyd â'r ychydig grefyddwyr yn y lle, "a rhoddodd y gwddf yn ngwasanaeth ei Arglwydd." Yn ychwanegol at y cynorthwy hwn, ac yn fuan ar ol ei gael, symudodd un Joshua Davies, o Ferthyr i Dowlais i fyw. Tad oedd y Joshua hwn i'r Parch. Daniel Davies, gweinidog y Bedyddwyr yn Abertawe. Dywedir i'r ddau Joshua fod yn effro iawn, ac yn dra egniol a llwyddiannus, gyd â'r ysgol Sabbothol. Dywedasom yn hanes Merthyr fod Joshua Davies yn arwain y canu yno, felly hefyd yn Dowlais. I hyn yr oedd ganddo gryn gymhwysder, nid o ran ei wybodaeth gelfyddydol o beroriaeth, ond am fod ganddo lais uchel a chlir, ac am y caed ef yn ffyddlawn i'r ymddiried a roddid ynddo. Yr oedd iddo air da hefyd gan bawb a'i hadwaenai. Yr oedd ei symledd a'i ddirodresrwydd mor amlwg, fel ag i ennill tystiolaeth yn mynwesau y rhai mwyaf annuwiol yn y gymydogaeth, fod Joshua Davies yn ddyn duwiol. Bu farw yn y fl. 1835.

Yn y fl. 1810 y dechreuwyd cadw cyfarfod eglwysig yn Dowlais, a hyny yn achlysurol yn unig; a phenodwyd, mewn cyfarfod yn Merthyr, i Joshua Prosser i gael ei osod yn flaenor ar yr ychydig enwau ag oedd yno. Y swydd hon a gyflawnodd, am lawer o flynyddau, wrtho ei hun; a Mary Taylor, yn gweithredu fel trysores i'r gymdeithas, ac yn lletya y pregethwyr. Ennillodd y wraig hon enw rhagorol yn mysg y gwragedd, am ei gras a'i ffyddlondeb gyd â'r achos da yn ei wendid. Bu ei gwasanaeth o wir werth, nid yn unig yn ei gychwyniad, ond dros lawer o flynyddau ar ol hyny. Cafodd Joshua

Prosser oes hir, a threuliodd ddeugain mlynedd o honi mewn swydd yn eglwys Dduw, gyda ffyddlondeb canmoladwy hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerth le o'r Geri yn y fl. 1849, pan yn 81 mlwydd oed.

Tua'r fl. 1814, cerddodd y syniad fod i blant credinwyr hawl i aelodaeth eglwysig, ac y dylid ymddwyn tuag atynt fel y cyfryw, yn rymus a chyffredinol yn mysg y Methodistiaid yn y Dê a'r Gogledd. Rhoddwyd y syniad hwn mewn gweithrediad tua'r amser uchod yn Dowlais, trwy gynal cyfarfodydd penodol i egwyddori ac ymgeleddu y plant a'r ieuenctyd. Cynaliwyd cyfarfodydd egwyddorol hefyd, fel y gwneid yn Merthyr; edrychwyd i ansawdd yr ardal, pa fath oedd ei sefyllfa o ran meddiannu Beiblau. Bu y moddion hyn oll yn llwyddiannus i dynu sylw, ac ennill serch llaweroedd at yr achos crefyddol, a lluosogodd nifer deiliaid yr ysgol Sabbothol gymaint, nes oedd y tai anedd, y'u cynelid ynddynt yn llawer rhy fychain. Yn y cyfamser cafwyd benthyg tŷ anedd gan y Bedyddwyr, yr hwn a wnaed yn gapel bychan, i gadw yr ysgol Sabbothol ynddo, ac ambell bregeth yn achlysurol; ac yn y wedd yma y parhaodd yr achos am rai blynyddau.

Tua'r fl. 1815, yr adeiladodd un Mr. Price, o Ferthyr, gapel bychan, a galwyd ei enw Bethel. Nid oedd hwn ond bychan, eto yr oedd yn fwy na'r lle arall. Ymgynullwyd bellach yn hwn, ac wedi ei ddefnyddio am ysbaid chwe' mis, gwnaed cais ar ei brynu, ond methwyd a chael boddlonrwydd yn y *teitl*. Parodd yr amgylchiad hwn i'r brodyr symud eu gwersyllfa yn ol i gapel bychan y Bedyddwyr; a bu Bethel am ysbaid tair blynedd heb ei ddefnyddio gan neb. Drachefn, fe'i cymerwyd dan ardreth, a defnyddiwyd ef am rai blynyddau felly. Yn y tymhor ansefydlog hwn ar y gwersyll, nid oedd y gwaith yn ysgogi nemawr yn ei flaen; er fod yn rhaid cydnabod fod llafur dyfal yn cael ei gymeryd gyd â'r ysgol Sabbothol yn y gymydogaeth; a rhai athrawon yn cael eu hanfon i gymydogaeth arall tua saith milldir tua sir Fynwy, ardal a elwid Ysgwydd-gwyn.

Yn y fl. 1827, adeiladwyd capel, y cyntaf yn y gymydogaeth a berchenogid gan y Methodistiaid, fel eu heiddo hwy eu hunain. Yr oedd hwn yn adeilad helaeth 48 o droedfeddi wrth 34, a galwyd ei enw Hermon. Nid oedd nifer yr aelodau y pryd hwnw ond 35, a'r rhifedi yn yr ysgol oedd 150. Gosodwyd Joshua Davies a Daniel Evans, yn ddiaconiaid yn ychwanegol at Joshua Prosser. Parodd yr adfywiad a gymerodd le yn y fl. 1829—30, chwanegiad rhyfeddol at yr eglwys, ac at ddeiliaid yr ysgol. Yn lle 35 daeth yr aelodau i fod yn 200; ac yn lle 150 yn yr ysgol, yr oedd yno 400. "Mor ddirfawr y cynyddodd gair yr Arglwydd, ac y cryfhaodd."

Yn mhen rhai blynyddau gwelwyd yn oreu brynu y tir o dan y capel, a'r fynwent perthynol iddo, yn rhydd etifeddiaeth am byth; ac yn mhen tair blynedd ar ol hyny, gorfuwyd helaethu y capel i'w faintioli presenol, sef 62 o droedfeddi wrth 49 y tu fewn. Mae rhif presenol yr eglwys yn 500, a deiliaid yr ysgol Sabbothol yn 600. Pan ddaeth un Rowland Pugh i fyw i Merthyr o sir Drefaldwyn, nid oedd ysgol Sabbothol i'w chael yn yr holl

wlad; ac yn awr y mae 30 neu ychwaneg yn perthyn i'r enwadau oll. Unwaith bu Ebenezer Pugh, mab i'r gŵr a enwyd, ei hunan, heb ail iddo, yn yr ysgol; ond yn awr y mae y nifer yn 5,000 ac uchod, a'r athrawon yn unig yn 1,000 neu fwy.

Teilwng ydyw coffa yn helaethach am y teulu crybwylledig. Bu Rowland Pugh yn gwasanaethu swydd diacon yn Merthyr dros flynyddau, gyda chymeradwyaeth tra mawr. Bu ei fab Ebenezer, drachefn, yn pregethu am flynyddau olaf ei oes. Aelod oedd hwn yn Dowlais, ac yma y dechreuodd bregethu. Dywedir fod y gŵr hwn yn meddu ar ysbryd hynaws, ac ar ddawn tra ennillgar, cymaint felly ag i ennill serchiadau boneddig a gwreng, a phob enwad o grefyddwyr adnabyddus o hono. Bu farw yn nghanol ei ddyddiau, yn 40 mlwydd oed, o'r darfodedigaeth. Bernir fod yn ei gladdedigaeth o wyth i ddeng mil o bobl; y fath oedd y parch a ennillasai iddo ei hun fel cristion gloyw ac unplyg, ac fel pregethwr efengylaidd ac effro. Mae mab iddo, y Parch. John Pugh, yn awr o'r Drefnewydd, eto ar y maes, ac yn dylyn camrau ei henafiaid. Cododd amryw o bregethwyr eraill o'r eglwys hon, megys John Jeffreys, a John Hughes, y rhai sydd yn awr yn America; William Rees, John Davies, David Richard, Rees Jones, a Thomas Rowlands.

Pwy fuasai yn dysgwyl i ymfudiad Mary Taylor i Dowlais gynyrchu y fath ganlyniadau! A phwy a fuasai yn dysgwyl y buasai i'r un broffes-wraig luosogi i 500 o rifedi, mewn hanner cant o flynyddau. Diau fod yma lawer o aelodau, a alwyd trwy'r efengyl mewn manau eraill, wedi eu sugno yma gan obaith gwaith a bywioliaeth; ac felly y mae Merthyr a Dowlais yn ddiau yn medi yr hyn a hauwyd gan eraill, ac mewn mesur yn cyfranogi yn llwyddiant yr holl wledydd; yr un modd ag y gwna rhai o drefydd mawrion Lloegr. Eto gwnaeth yr Arglwydd bethau mawrion ar ran y cymydogaethau hyn, ac a roes i'w bobl destynau lawer i fod yn llawen.

ABERDAR.

Mae y lle hwn yn sefyll yn nghanol y gweithiau mŵn, tua 23 milldir o Gaerdydd; pedair neu bum' milldir o Ferthyr; a thua 25 milldir o Gastellnedd. Gynt nid oedd y lle hwn ond pentref bychan, a'r wlad o amgylch ond bryniau di-bobl; ond yn awr y mae yn lle o faintioli dirfawr. Mae y gweithfaoedd glo a haiarn sydd yn britho y bryniau hyn, wedi sugno yma filoedd ar filoedd o drigolion. Diweddar, pa fodd bynag, mewn cydmhariaeth, ydyw yr ymgrynhoad mawr hwn; a diweddar yr un modd ydyw ymsefydliad ymneilldnaeth yn y fro. Yr oedd yma, wrth gwrs, fel yn mhob man arall, eglwys wladol, er ys hen amser; a dywedir hefyd fod yma ryw nifer o Undodiaid; y rhai ond odid oeddynt olynwyr, mewn enw, nid mewn gwirionedd, i'r hen Bresbyteriaid uniawngred, a fu gynt yn ffynu mewn rhyw gyrau o Gymru. Dyry y dyfyniad canlynol o lythyr a ysgrifenwyd gan yr hybarch weinidog Annibynol, y Parch. Mr. Williams,

Llanwrtyd, at gyfaill yn yr ardal hon, dyddiedig, Gorph. 23, 1853, yr hwn lythyr a ddangoswyd i fy hysbysydd,* brawf o'r hyn a ddywedwn :—

"Mae fy nghalon yn llawenhau wrth feddwl am lwyddiant yr achos yn Aberdâr yn mhlith yr Annibynwyr. Pymtheng mlynedd a deugain yn ol, bum i yn cadw cyfarfod gwedoi yn mhentrêf bach Aberdâr, gyda chyfeillion o Ferthyr, yn nhŷ mam i Thomas Mills o Ferthyr. Yr ydwyf yn barnu nad oes neb yn fyw yn y pentref yn bresenol yn ei chofio. Nid oedd dim ond Undodiaeth y pryd hwnw yn y lle ; Edward Evan oedd eu gweinidog yr amser hwnw."

Yn y flwyddyn 1798, gan hyny, nid oedd gan yr un enwad o ymneilldu-wyr, a gyfrifir yn uniawngred, achos sefydlog yn y lle. Yr oedd Methodistiaeth wedi dechreu er ys mwy na 60 mlynedd cyn hyn, a lluaws mawr o fân gymdeithasau crefyddol, ymron yn mhob rhan o'r dywysogaeth, wedi cael eu sefydlu cyn diwedd y ganrif ddiweddaf; ond ymddengys nad oedd dim sefydlog ac effeithiol wedi ei wneuthur yn yr ardal hon. Ond er nad oedd yr un gymdeithas grefyddol wedi ei ffurfio gan un enwad o ymneilldu-wyr, eto yr oedd yma ryw nifer bychan o bobl grefyddol yn perthyn i wahanol bleidiau ; ac fe ddywedir fod yma unwaith gymdeithas o Fedyddwyr wedi bod, dan fugeiliaeth un David Oliver; ond ei bod wedi diflanu erbyn yr amser y cyfeiriai Mr. Williams ato uchod.

Gyda golwg ar ddechreuad Methodistiaeth yn y gymydogaeth, rhoddir i ni radd o oleuni drwy dystiolaeth un Christmas Rhys, yr hwn sydd yn cofio yr amgylchiadau crybwylledig. Meddai y gŵr hwn :—

"Yr wyf yn cofio fy llys-dad (gŵr ei fam), sef Morgan William, Blaen-y-nant, Creunant, yn dyweyd ei fod ef tua dechreu y fl. 1799, mewn cwrdd misol ; a bod dyn o Aberdâr yno, sef William Jenkins, siopwr, yn ceisio pregethwyr i Aberdâr. Efe a lwyddodd hefyd yn ei gais, a chafodd gan dri o bregethwyr ddyfod yno ar ddydd gwaith; sef Edward Coslet, Thomas Edward, Caerffili, ac un arall, nid wyf yn cofio pwy. Cynaliwyd y cyfarfod yn y pentref, yn yr awyr agored. Yr oedd amryw o Ferthyr ac o Lanwyno yn y cwrdd. Yr oedd fy mam a'm llys-dad yno o'r Creunant; a Mary William Siôn, yr hon oedd yn byw yn ngodreu Hirwaun. Buasai y wraig hon gyda'r *Baptist*, ar yr ammod, mae'n debyg, iddi beidio cael ei throchi. Eto Methodist oedd hi o'r iawn ryw. Arferai fyned i Langeitho yn awr ac eilwaith ; ac unwaith, hi aeth yno, meddir, yn bwrpasol i gael ei dysgyblu, am ryw drosedd a ystyrid ganddi yn galw am gerydd. Yr oedd hefyd yn y cwrdd un Howel Morris, yr unig un yn ngweddill o blaid David Oliver; a Timothy Davies, Annibynwr; yr hwn, ar y pryd, oedd yn gwasanaethu William Jenkins, yn ysgrifen-was iddo. Wedi gorphen y cwrdd, ymdrechodd William Jenkins, a brawd fy llys-dad, Siôn Lewis, y crydd, berswadio fy llys-dad i symud i fyny i Aberdâr i fyw, am fod Tŷ'r-hewl gyferbyn â'r Gadlys-isaf, mewn ffordd y gallai ei gael gydag ychydig o'r caeau cysylltiol rhwng Tŷ'r-hewl a'r

* Mr. William Morgan, i'r hwn yr ydym yn ddyledus am yr hysbysiad.

Cwm. Llwyddasant yn eu hamcan; a chalan-gauaf 1799, symudodd i Dŷ'r-hewl; a Morgan o'r Hewl y galwyd ef byth.

"Yn yr un flwyddyn, daeth un Evan Siôn, o Gwm-nedd, i fyny i Aberdâr i weithio; ac yn Tŷ'r-hewl yr oedd yn lletya. Tua'r un amser, o leiaf, o fewn yr un flwyddyn, y daeth Lewis Lawrence, y saer, yma; gŵr o Lanymddyfri, ac yn Annibynwr. Bu y cyfeillion hyn yn nghyd yn arfer cadw cyfarfodydd gweddio, dros ryw dymhor, yn nhŷ William Jenkins, y siop; ond nid hir y bu hyn cyn i ŵr y tŷ fyned yn glaf a symud i'r Ystrad, lle y bu farw yn fuan. Dyn da, duwiol, a dymunol, oedd y gŵr hwn, a cholled a deimlid ar ei ol. Prynodd Timothy Davies, ei ysgrifen-was, y siop; a bu ei dŷ yntau yn achles i grefydd ar ol ei hen feistr. Wrth ymgynull fel hyn yn y cyfarfodydd gweddi, dechreuwyd sibrwd yn raddol am *Society;* a phenderfynwyd yn fuan ei chael, ac yn llaethdŷ Tŷ'r-hewl y cadwyd y cyfarfod eglwysig cyntaf. Y rheswm o'i gadw yn y llaethdŷ oedd, fod pobl ddigrefydd yn lletya yn y tŷ. Yr oedd hyn yn agos i derfyn y fl. 1799. Pump o grefyddwyr oedd yn gwneyd y gymdeithas i fyny: Morgan, o'r Hewl, a Margaret ei wraig, ac Evan Siôn, yn Fethodistiaid; a Lewis Lawrence a Timothy Davies, yn Annibynwyr.

"Byddai fy llys-dad a fy mam," chwanegai Christmas, "yn arfer myned i Ferthyr i ddal cymdeithas eglwysig â'u brodyr Methodistaidd, ac i gael ambell bregeth; ac weithiau byddai pobl Merthyr, a phobl Llanwyno, brydiau eraill, yn dyfod ar y Suliau i Dŷ'r-hewl i gynal cyrddau gweddi. Yr oedd Mary William Siôn heb glywed am y *society* gyntaf nes ei bod drosodd; ac yr oedd yn flin iawn ei bod wedi ei cholli, ond beth bynag, gofalodd na chollai yr ail.

"Fel hyn, o dwmp i dwmp, yr aeth rhywfaint o'r fl. 1800 heibio; ond ar ddechreu haf y flwyddyn hono, cyfarfu Morgan William, mewn cwrdd misol, â Benjamin Williams, yr hwn ar y pryd, oedd yn cadw ysgol yn nghapel Gyfylchi; a chafodd gyhoeddiad ganddo i ddyfod am Sabboth i Aberdâr. Yntau a ddaeth erbyn 2 o'r gloch, a phregethodd allan wrth dalcen Tŷ'r-hewl. Yn mhen ychydig wedi hyn, daeth Thomas Edwards, Caerffili, eilwaith yma, a phregethodd ar yr un awr ac yn yr un lle. Erbyn hyn, yr oedd yma saer-maen o Abertawe, wedi dyfod i'r ardal, a chryn dalent ganddo at ganu; ond gwaharddodd Thomas Edwards iddo wneuthur dim yn nglŷn â chrefydd yn gyhoeddus, am y gwyddai mai dyn anfucheddol ydoedd.

"Tua'r un amser y daeth pregethwr o'r enw Thomas Price, Creunant, i gadw ysgol yma. Aeth fy llys-dad at y Warden, a llwyddodd gydag ef i gael porth yr eglwys i gadw yr ysgol ynddo; ac ysgol dda iawn fu ganddo am ysbaid tair blynedd. Yr oedd Thomas Price yn lletya yn Nhŷ'r-hewl. Byddid yn cael ambell bregeth yn yr wythnos yn yr adeg yma, gan William Bevan, a Rhys Dafydd, o sir Frycheiniog; Hopkin Bevan, hefyd, yn awr ac eilwaith wrth fyned heibio; heblaw wrth gwrs, gan Thomas Price, yr hwn, bellach, oedd yn cartrefu yn eu plith.

"Yn 1801, fe briododd Rhys, o'r Cwm, a gorfu i'm llys-dad symud er

mwyn i Rhys gael Tŷ'r-hewl; y tŷ yr aeth fy llys-dad iddo nesaf oedd, y tŷ cornel nesaf yma, ar y llaw aswy, yn heol y *Lamb*, o fewn y pentref. Buwyd yn cadw cyfarfodydd eglwysig yn llofft y tŷ hwn. Tua'r amser hwn y symudodd un Thomas Pugh, o Dredegar, yma (rhai o ogledd Cymru oedd y Pughiaid o'u dechreuad); a pharhawyd i gynal y moddion crefyddol dros y rhan fwyaf o'r fl. 1801 yn llofft tŷ Morgan yr Hewl. Yr oedd Thomas Pugh yn byw yn agos i'm llys-dad, ac yn rhyw fodd, cododd cweryl rhyngddynt yn nghylch y ffordd i'r cae; sef, gan bwy yr oedd hawl iddi; yr hyn a fu yn achlysur i fy llys-dad gilio o'r gymdeithas eglwysig; ac nid hir y bu cyn symud i fynu i Hirwaun. Un tro neu ddau y bu y cyfarfod eglwysig yn nhŷ Thomas Pugh ar ol hyn.

"Yn y cyfamser, yr oedd gŵr o'r enw Matthew Francis, yn nghyd â'i wraig, wedi symud i le a elwir y *Row Fawr*. Ar y pryd nid oedd ond y wraig yn grefyddol, ond y gŵr a ddaeth ar ol hyny, a mudwyd y moddion crefyddol i fynu i'w dŷ ef; ac yno y cynaliwyd hwy dros ryw amser. Yn y cyfamser yr oedd Morgan o'r Hewl, Thomas Price, Thomas Pugh, ac eraill, wedi cytuno â Dafydd Siôn, y *masiwn* (saermaen) am dŷ arall, wrth y fynwent, am saith mlynedd; gan fwriadu i Thomas Price fyw yn y naill ran o honò, a chadw ei ysgol yn y rhan arall; y lle hefyd y bwriedid cadw y moddion crefyddol. Ond cyn fod y tŷ yma yn barod, yr oedd Morgan o'r Hewl wedi ymadael â'r lle, a Thomas Price hefyd. Felly, symudodd Thomas Pugh i'r tŷ newydd wrth y fynwent; ac yma, dros gryn amser y bu y Methodistiaid a'r Annibynwyr yn cyd-gynal moddion; ac yn fuan wedi hyny daeth cefnder iddo, o'r enw William Pugh, i fyw i ardal gerllaw, a elwir "Llwydcoed." Nid hir o amser a fu cyn i ymrafael godi rhwng y ddau gefnder, am y lle y cynelid y moddion. Cynygiai William Pugh ei dŷ yn rhad i'r dyben; pryd yr oedd yn rhaid talu rhyw gymaint am dŷ Thomas Pugh.

"Pa fodd bynag y terfynodd y ddadl rhwng y ddau geraint, symudodd yr achos bob yn ychydig i Lwydcoed, a darfu y gyngrair efengylaidd rhwng y Methodistiaid â'r Annibynwyr; ac ymadawsant, pob plaid i'w bro, y Methodistiaid i Lwydcoed, a'r Annibynwyr i dŷ Timothy Davies y siop."

Yn yr adeg yma, dywedir ddarfod i un hen wraig, Fethodistaidd ei naws, o'r enw Gwenllian Williams, neu fel y gelwid hi fynychaf, Gweni Dwmi, fyned mewn rhyw amryfusedd gyd â'r Annibynwyr; ac iddi fod gyda hwy am ysbaid blwyddyn agos yn cyd-addoli; ac yn y cyfamser yn mwynhau yn anwyl iawn, heb wybod mwy na llai nad Methodistiaid oeddynt. Ond trwy ryw anffawd neu gilydd, daeth goleu ar yr achos, a synodd yr hen wreigan yn aruthrol, a bytheiriai allan;—"O! wel: a Dissenters y'chi yntê;—yr o'wn ni yn meddwl taw Methodis' o'ech chi';—ffarwel'wch, dyma fi yn myn'd;" ac i ffordd a hi at yr eiddo. Ni fu dim ond yr hap, na fuasai yn byw gyd â'r Dissenters dros ei hoes, yn ei hanwybodaeth, a myned o'u plith i'r nefoedd yn y diwedd!

Adrodda fy hysbysydd chwedl arall am yr un hen wreigan. "Cofus," meddai, "genyf glywed cyfaill i mi yn dywedyd yn ddiweddar, ei fod unwaith, er ys rhai blynyddau yn ol, mewn cyfarfod a gynelid gan y gwragedd; cyfarfod neillduol iddynt hwy eu hunain, ond ei fod ef, yn rhywfodd wedi cael y fraint o fod y tro hwn yn eu plith. Yn y cyfarfod, yn mysg eraill, yr oedd Gweni Dwmi, a hen wraig arall, o'r enw Amy Morgan Dafydd, gweddw hen ŵr duwiol iawn, a thra defnyddiol yn ei ddydd. Yr oedd Amy yn holi Gweni am ei phrofiad; a chyn terfynu gofynodd Amy, "Gweni, a wyddoch chwi rywbeth am oruchwyliaeth y tywallt yma o lestr i lestr?"

"Er mwyn dyn Amy," ebe Gweni, "gad heibio dy gymendod; beth wyt ti yn ei feddwl, ni wn i yn y byd."

Un *blaen* yn ei chyfer, fel y dywedir oedd modryb Gweni, heb gael nemawr o fanteision gwybodaeth; eto rhoddai brofion digonol fod ganddi afael ffyddiog mewn Gwaredwr, a bernir, wrth bob argoel, ei bod wedi myned ato i drigo er ys llawer blwyddyn.

Ond i ddychwelyd at adroddiad Christmas Rhys yn nghylch mynediad yr achos yn ei flaen. "Yn nhŷ William Pugh, yn Llwydcoed, yr oedd yr holl foddion crefyddol yn cael eu cynal dros ryw gymaint o amser, cyn codi y capel. Darparesid yno bwlpud bach, i'w dynu a'i roi, yn ol yr angen; a chyfryw gyfleusderau eraill a ddysgwylid fod mewn lle o'r fath. Yn mhen gronyn, pa fodd bynag, aed i son am gapel; testyn dadl eto. Yr oedd William Pugh am ei gael yn Llwydcoed; a phobl y pentref am ei gael ar derfyn y Cyttir, rhwng Heol y Felin a'r pentref, tua'r fan y saif capel Carmel arno yn awr; a phobl Abernant, hwythau, am ei gael ar Bentwyn-bach, Heol y felin; a thrwy ddylanwad Mr. Jones, o'r Siop newydd, a Dafydd William, o Ferthyr, y pregethwr, trowyd y glorian gyd â'r olaf; ac ar Bentwyn-bach yr adeiladwyd y capel Methodistaidd cyntaf, yn Aberdâr, yn y fl. 1806. Nifer yr aelodau crefyddol y pryd hwnw oedd 30."

Yma y terfyna adroddiad manwl Christmas Rhys. Dywedir mai capel canolig ei faint, heb un oriel arno, oedd hwn; y pwlpud yn yr ochr, a rhes o eisteddleoedd o amgylch, a meinciau yn y canol. Cynwysai tua 300 o bobl. Buwyd yn ymgynull i addoli yn hwn am ysbaid mwy nag 20 mlynedd; ond yn 1829, adeiladwyd Carmel, yn y lle neu yn agos i'r fan y mynasai rhai gael y capel cyntaf. Gwerthwyd yr hen gapel i'r Wesleyaid Cymreig. Yr oedd holl Fethodistiaid yr ardaloedd yn awr yn ymgynull i'r llanerch ganol hon, ar fore a hwyr Sabbothau, ac hefyd yn yr wythnos, a hyny dros rai blynyddau. Eto cynelid ysgolion Sabbothol ar brydnawn Sabboth yn Llwydcoed ac Abernant, ar hyd y tai anedd; a llawer o barodrwydd a ddangoswyd i dderbyn yr ysgol i'r tai, er maint yr anghysur a barai ymgrynhoad ugeiniau o blant i'r fath le ar draws eu gilydd; yn enwedig ar dywydd gwlyb. Cedwid ysgol gyffredinol yn Carmel yn y bore, ar ol y cwrdd 9 o'r gloch; yr awr y cedwid ef y pryd hwnw. Ond cyn codi Carmel byddai pobl y pentref yn cadw ysgol Sul am 2 o'r gloch, yn llofft y Felin, ac yn *Long-room* y

"*Boot.*" Yr oedd yr hen bererinion, William a Thomas Pugh, ynghyd a'u cyfoedion wedi ymadael â'r fuchedd hon, cyn codi capel Carmel, lawer o flynyddau. Ar eu hol hwy, daeth perthynasau iddynt, o'r un enw, ynghyd â David Morgan, Thomas Hopkin, ac Evan Griffiths, y rhai ydynt oll wedi myned oddiwrth eu gwaith at eu gwobr.

Yn y fl. 1843, adeiladwyd capel arall yn Llwydcoed, dan yr enw Moriah: pryd y ciliodd rhan o gynulleidfa Carmel i'r lle newydd, fel yr oedd yn fwyaf cyfleus iddynt. Prynwyd y capel hwn yn ddiweddar gan gwmpeini rheilffordd Cwm-nedd, am fod y ffordd haiarn yn dyfod yn rhy agos ato, ac adeiladwyd un arall ychydig yn mhellach oddiwrth y ffordd. Mae Thomas Pugh, un o swyddogion y lle hwn, wedi ei gladdu er ys rhai blynyddau; treuliasai oes o ddefnyddioldeb; oes o lafur a ffyddlondeb gyd âg achos yr efengyl. Yn awr, nid oes, o'r hen frodyr a fyddent yn blaenori gyd â'r gwaith yn y lle hwn o ben bwygilydd, ond Edward Pugh, Llwydcoed, ar gael; heblaw yr hen frawd Christmas Rhys, sydd yn Carmel; yr hwn yn ddiweddar a alwyd i'r swyddogaeth.

Yn y fl. 1847, adeiladwyd capel arall gan y Methodistiaid yn ardal Aberaman, tua milldir a chwarter islaw pentref Aberdâr. Enw y capel hwn yw Libanus. Mae hwn yn llawn helaethach adeilad na Moriah; cynwys o bump i chwe' chant o wrandawyr. Rhif yr aelodau ydynt o 80 i 100; a thua 150 yn yr ysgol Sabbothol.

Yn 1850, drachefn, heidiodd rhyw nifer o Libanus, gan ymsefydlu yr ochr draw i'r afon; adeiladasant gapel bychan hefyd yno, er nad yw nifer y dysgyblion yno ond ychydig, sef pump neu ddeg ar hugain; efallai eu bod yn fwy eu rhif erbyn hyn, (1855).

Heblaw y pedwar capel a enwyd, yr oedd ar y pryd yr ysgrifenodd fy ngohebydd ataf, gapel arall, mawr a hardd yn cael ei adeiladu yn nghanol y pentref, o'r enw Bethania. Mae y capel hwn, nid oes amheuaeth, wedi ei orphen a'i agor, ond odid, er ys misoedd bellach. Cynwys o leiaf 1,000 o bobl, a bydd y draul o'i godi yn £1200 o bunnau.

Wrth gydmaru agwedd Methodistiaeth yn Aberdâr, (heb son dim am enwadau eraill,) yn yr amser nad oedd ond pump o gwbl, o bob enwad, yn cyfansoddi y cyfarfod eglwysig cyntaf, yn llaethdŷ Tŷ'r-hewl, â'r hyn ydyw heddyw, y mae genym achos "i ddiolch i Dduw ac i gymeryd cysur." Ar yr un pryd, pan ystyriom y cynydd dirfawr sydd wedi bod ar y boblogaeth, o fewn byr amser, o ychydig filoedd i 16,000, a chymeryd yr holl blwyf; gwelwn fod tir lawer eto i'w feddiannu, ac mai amser ydyw nid i ddyosg yr arfau, ond i'w gwisgo.

Gweddus ydyw crybwyll hefyd fod capel arall gan y Methodistiaid o fewn y plwyf, er na ddaeth i law ddim adgofion am dano, sef capel Hirwaun; dylid cofio fod hwn i'w gyfrif yn ychwanegol, ar gyfer poblogaeth y plwyf.

LLANWNO A BRYNTIRION.

Mae traddodiad fod Howel Harris wedi bod yn rhybuddio trigolion difraw ardal Llanwno, a hyny yn fuan ar ol y fl. 1736; a bod rhyw nifer bychan dan argraffiadau crefyddol yn arfer cyfarfod â'u gilydd i gyfarwyddo a dyddann eu gilydd, yn y blynyddau a ddilynodd. Dywedir y byddent yn arfer cwrdd a'u gilydd mewn anedd-dŷ o'r enw Rhyd-y-gwreiddin, i ddechreu; ac wedi hyny yn Pwll-helyg, tŷ un Evan Morgan Lewis; a bod yn eu mysg un Harri Llwyd yn eu cynghori i ffoi i gysgod yr Iesu rhag y llid a fydd. Yr oedd y rhai a ymgyfarfyddent yn y modd yma yn arfer cymuno yn eglwys y plwyf. Gellid meddwl wrth yr ysgrif sydd o fy mlaen, mae y wedd yma oedd ar yr achos yn mhen tua 40 mlynedd ar ol ei gychwyniad. Yr oedd rhyw nifer bychan o ddysgyblion gwasgaredig; arferent deithio i wrando pregethau i'r lleoedd y clywent fod oedfaon i'w cael, a hyny weithiau yn mhell o'u cartref. Deuai ambell bregethwr heibio iddynt hwythau, a chyfarfyddent â'u gilydd yn gymdeithas eglwysig mewn tai anedd, weithiau hwn ac weithiau hwnacw. Nid oedd eu nifer ond bychan, ond meddent ysbryd-oedd gwresog; nid oedd ganddynt yr un capel yn agos atynt yn un cŵr; a rhaid oedd iddynt, cyn y gallent gyfranogi o swper yr Arglwydd, fyned i Langeitho, neu Lanlluan; neu ynte, fyned i lan y plwyf, a derbyn yr elfenau yno o ddwylaw gweinidog na charent wrando arno yn pregethu.

Tua'r flwyddyn 1774, ymgyfarfyddent mewn tŷ a elwir Tŷ-tan-y-wal. Mwynhaent, meddir, gyfarfodydd llewyrchus iawn yn y lle hwn, pryd y torent allan ar rai achlysuron i foliannu Duw â llef uchel. Un tro yr oedd John Evans, Cil-y-cwm, yn pregethu ar y testyn, Ezra iii. 13: "Canys y bobl oedd yn bloeddio â bloedd fawr a'r swn a glywid yn mhell:" yn yr oedfa hon yr oedd rhai o'r gwrandawyr yn llewygu gan ofn, a rhai yn wylo, a rhai yn moliannu. Yr oedd y pregethwyr, bellach, yn amlhau, megys Thomas Edward, Caerffili; Thomas Hopkin, Llanelltyd-y-fardre; y rhai nid oeddynt yn cartrefu yn mhell o'r ardal; eraill hefyd o bellach ffordd a ddeuent i Tŷ-tan-y-wal i bregethu. Rhif yr eglwys yn y tymhor hwn oedd yn amrywio o 30 hyd 45.

Yn y flwyddyn 1786 adeiladwyd yr addoldy presenol ar draul yr eglwys a'r cymydogion yn unig. Gwnaeth Ariaeth a Sabeliaeth gryn ddifrod mewn eglwysi eraill, ond trwy drugaredd cadwyd yr eglwys hon heb ei hanrheithio gan y gau athrawon hyny; na'i tharfu gan heresiau ac ymraniadau.

Tua'r flwyddyn 1806 sefydlwyd yma ysgol Sabbothol; a thrwy y sefydliad daionus hwnw, ymwelodd yr Arglwydd â'i bobl, a chwanegwyd llawer at eu nifer. O'r cwch hwn heidiodd rhyw nifer, gan ymsefydlu yn Mhont-y-pridd.

Dechreuwyd achos bychan hefyd yn Mryntirion yn amser Howell Harris, mor fore, meddir, a'r fl. 1740. Cynelid y pregethu yn Tŷ-Nel, ar lan afon

Tâf. Yn mhlith y dysgyblion bu un Thomas Rosser, neu fel y gelwid ef, Twm o'r Tŷ'n-wain. Hwn a ddenodd gydag ef un a elwid Twm o'r Celyn, sef Thomas Hopkin, i wrando Jones, Llangan, yr hyn a fu yn ddychweliad iddo. Bu y Thomas Hopkin hwn, yn bregethwr tanllyd a llwyddiannus iawn. Adeiladwyd capel y Bryntirion tua'r fl. 1785. Ymwelodd yr Arglwydd â'i bobl yn y lle ag adfywiad hyfryd tua'r fl. 1792; eto nid yw rhif yr aelodau ond bychan hyd yn hyn, sef 30 neu 40.

ADGOFION AM FETHODISTIAETH ST. FFAGAN.

Mae St. Ffagan yn gorwedd ychydig i'r gorllewin o Gaerdydd, mewn gwlad hyfryd, ac yn eisteddle Methodistiaeth er yn foreu. Yn y fl. 1740, pregethodd Howel Harries y bregeth gyntaf a bregethwyd gan neb o'r Methodistiaid yn yr ardal hon. Cynaliwyd yr oedfa yn nhŷ Lewis a Christiana Dafydd, sef yn y "Cribyn Cadog." Oddi yma aeth Howel Harris i fan ar fynydd Llwynddiddan, tua dwy filltir a hanner o ffordd, lle yr oedd tyrfa fawr iawn o bobl wedi ymgasglu i wrando arno. Ar ol i'r addoliad ddechreu, ymddangosodd un Mr. Jones, o *Ffonmon-Castle*, yr hwn oedd Heddynad yn y lle. Daethai yno ar y bwriad o rwystro Harris i fyn'd yn mlaen; ac yr oedd boneddwyr eraill gydag ef. Pan welodd Mr. Harris y boneddwyr yn dynesu at y dyrfa, ac eisoes wedi cael amnaid am eu bwriad, troes i lefaru wrth y bobl yn Saesoneg. Gwnai hyn, tybygid, er mwyn rhoddi i'r boneddigion y fantais i ddeall pa beth a ddywedai.

Pan glywsant mai Saesoneg a bregethai, dynesodd Mr. Jones ato, a chan dynu ei *het*, efe a wrandawodd arno mor astud a neb yn y gynulleidfa. Wedi dybenu y cyfarfod, gwahoddodd Mr. Harris i ddod gydag ef i'r Castell; ond â hyn ni allai Mr. Harris gytuno, gan ei fod yn rhwym i gyfarfod â chyfaill yn y Bontfaen; ond addawodd, pan y deuai i'r cyfleusdra drachefn, y defnyddiai yr adeg i ymweled ag ef, gan ddiolch iddo am ei hynawsedd. Felly hefyd, meddir, y gwnaeth, wedi talu o amser; aeth i Ffonmon, a derbyniodd garedigrwydd mawr gan Mr. Jones; ac ni chlybuwyd i Mr. Jones erlid nac aflonyddu ar yr un pregethwr o hyny allan.

Daeth Howel Harris eilwaith i dŷ Lewis Dafydd i bregethu, sef yn y flwyddyn ganlynol; ac yn mhen ychydig amser wedi hyny, bu farw Christiana, gwraig Lewis Dafydd. Bu hyn yn y fl. 1742, ac a achlysurodd symud y moddion o'r "Cribyn-Cadog," i dŷ Isaac Dafydd, ar lan afon St. Ffagan, lle y bu yr achos yn aros dros rai blynyddau. Yr oedd gan ŵr y tŷ grefydd dda, tybygid; ond dywedir am y wraig, ei bod yn amddifaid o bob rhith o honi; ac ar dymhorau, yr oedd ymron yn annyoddefol gan mor gynhyrfus a direol oedd ei thymherau. Un tro, pan ddaeth cyrch cyffrous iawn ati, a phryd yr ymddangosai fel un wedi ei llwyr feddiannu gan y gŵr drwg, methodd Isaac a dyoddef, ac a ymosododd arni gan ei fflangellu yn ofnadwy iawn. Galwyd ef i gyfrif am hyny; pryd yr ymddangosai rhai o'i blaid, a

rhai yn ei erbyn: rhai yn ei feio yn drwm, eraill yn barnu ei fod o leiaf yn esgusodol, os nad yn ganmoladwy. Yn y drafodaeth, cafodd Isaac Dafydd seibiant i roddi gair i mewn er hunan-amddiffyniad; a gwnaeth hyny trwy lechu dan gysgod geiriau Solomon, "Ffrwyn i farch, ffrewyll i asyn, a gwialen i gefn yr ynfyd;" a chan mor gymhwys y bernid fod yr adnod i'r amgylchiad dan sylw, bu yn benderfyniad ar y mater.

Nid oedd y Methodistiaid ond bychan iawn eu rhif yn St. Ffagan yn y tymhor hwn. Yr oedd ychydig o Fedyddwyr yn Llanbedr-y-Fro; lle oddeutu dwy filldir a hanner o St. Ffagan; a mynych y cyrchai y naill gynulleidfa i gynorthwyo y llall i gynal cyfarfodydd gweddio. Deuai ambell gynghorwr yn achlysurol atynt i bregethu; a chyn marw Isaac Dafydd, dywedir y byddai Thomas Hopkin o'r Celyn, yn dyfod i'r lle yn lled fynych. Bu farw Isaac Dafydd yn y fl. 1760; ac ar ol hyny, cafodd yr achos loches yn nhŷ Thomas Llywelyn, o'r Ysgubor-fawr. Yr oedd ei fab Thomas yn ddyn ieuanc crefyddol iawn, a chynelid cyfarfodydd crefyddol yn fynych yn y tŷ. Ymddengys mai ychydig a phrinion mewn cydmariaeth oedd breintiau crefyddol y bobl hyn, eto rhoddid iddynt yn awr ac eilwaith, raddau anarferol o fwynhad yn eu cyfarfodydd, fel yr ymddengys yn yr amgylchiad canlynol. Ar un prydnawn Sabboth, daeth brodyr o Lanwno, a Llanelltyd-y-fardre, i St. Ffagan i gynal cwrdd gweddi. Yn y cyfarfod hwn disgynodd y fath ddylanwadau ar y brodyr, nes eu codi ymhell uwchlaw iddynt eu hunain; torasant allan i lefain a moliannu, a rhai i *neidio*. Hwn oedd y tro cyntaf i'r fath gyffro gymeryd lle yn ardal St. Ffagan. Barnai y preswylwyr fod un o'r brodyr, sef Hopkin Llewelyn, wedi ynfydu, wrth ei weled, dros ysbaid dwy awr, yn neidio ac yn moliannu Duw.

Yn y fl. 1776, bu farw Thomas Llewelyn; ac yn y fl. 1778, daeth y Parch. Cristopher Bassett, o Aberddawe, yn gurad i eglwys St. Ffagan. Yr oedd y gwr ieuanc hwn yn rhagori mewn duwioldeb, ac yn bleidiol iawn i'r Methodistiaid. Pan ddaeth i guradiaeth St. Ffagan, cymerodd dŷ gan un Bartholomew Howel, dan ardreth;—tŷ yr arferai ieuenctyd y pentref gyfarfod â'u gilydd i ddawnsio ynddo; hwn bellach a ddefnyddid i ddybenion cwbl wahanol; cynelid ynddo bob moddion o ras; a pharhawyd i ymgynull ynddo hyd agoriad yr addoldŷ sydd yn awr at yr un gwasanaeth; yr hwn a adeiladwyd yn y fl. 1837. Gofalai Mr. Bassett gymaint am yr achos Methodistaidd, yn yr ystafell grybwylledig, ag a wnai am ei guradiaeth; ïe, un achos yr ystyrid hwy ganddo, sef achos y Cyfryngwr, ac achos eneidiau dynion;—achos y teimlai efe rwymau i wneuthur rhyw beth erddo, yn mhob gwedd a fyddai arno. Trwy ei ddylanwad yr oedd yn gallu llwyddo i gael y brodyr mwyaf cyhoeddus yn eu tro i ddyfod i St. Ffagan. Yr oedd dau o'r aelodau yn byw yn Llanbedr-y-Fro, sef William Morgan a Thomas Williams, o'r Dyffryn.

Yn y flwyddyn 1779 symudodd Mr. Bassett i le gerllaw Bristol; ac yn mhen tua blwyddyn a hanner ar ol ei symud yno, bu farw. Yn y flwyddyn

1780 daeth y Parch. Daniel Jones i St. Ffagan i gadw ysgol ddyddiol yn y tŷ cwrdd, a lletyodd yn nhŷ un William Dafydd yn ymyl y capel; ac yn yr un flwyddyn cyflwynwyd iddo guradiaeth yr eglwysi Penarth, Radyr, a Lavernock, yn y rhai y bu yn gwasanaethu am 32 o flynyddau. Bu ef a'i wraig yn hynod ddefnyddiol gyda'r achos; yr oedd eu tŷ yn agored i holl bregethwyr y cyfundeb o Ddê a Gogledd; a hyny am yr ysbaid maith o ddeng mlynedd ar hugain. Yr oedd Mr. Jones yn ffyddlon yn yr holl gylch yn ol ei allu; a rhoddai brawf ymron bob Sabboth fod ei galon gyda'r brodyr. Yr oedd ganddo tua 15 milldir i'w teithio bob Sabboth i wasanaethu ei eglwysi, eto gofalai fod yn yr oedfa yn nghapel St. Ffagan erbyn yr hwyr; pa un bynag ai pregeth ai cwrdd gweddi fyddai yno. Nid oedd na gwlaw na gwynt, nac oerfel na gwres, yn ddigon i'w luddias. Teithiai yn fynych i gyfarfodydd misol y sir, a phregethai yn fynych ynddynt. Safai yn uchel yn marn ei frodyr fel dyn duwiol. Bu aelodau capelau St. Ffagan, Radyr, Eglwys-newydd, a Phentyrch, yn cydgyfarfod yn eglwys Radyr am flynyddau lawer yn fisol, i gyfranogi o swper yr Arglwydd. Bu farw yn y fl. 1821.

Yr oedd dau o aelodau St. Ffagan yn byw yn Llanbedr-y-Fro, sef William Morgan a Thomas Williams o'r Dyffryn. Yn yr un flwyddyn ag y daeth Mr. Jones i St. Ffagan, symudodd William Morgan yno hefyd i gartrefu. Yr oedd y gŵr hwn yn un diargyhoedd fel crefyddwr, yn meddu cryn fesur o ysbryd a dawn gweddi, ac yn fedrus mewn canu. Gosodwyd ef yn ddiacon i'r eglwys, a bu ffyddlon yn ol ei allu yn yr holl dŷ. Yntau hefyd a fu farw yn y fl. 1801. Yr oedd Thomas Williams yn ŵr cyfrifol, ac yn meddu gradd o olud y byd hwn; ond pan yr ymwrthodwyd â'r Parch. Peter Williams, ac y nacawyd iddo bregethu fel cynt yn nghapelau y Methodistiaid, ciliodd yntau oddiwrth y cyfundeb; nid am fod ei syniadau duwinyddol yn gwahaniaethu oddiwrth ei frodyr, tybygid; ond o ryw fath o barch a chydymdeimlad â Mr. P. Williams. Wedi ei enciliad cododd gapel yn Llancarfan, sef Bethesda-y-Fro, ac ordeiniwyd ef ei hun yn weinidog i'r gynulleidfa; a pharhaodd i gadw y lle hwnw, mewn parch a defnyddioldeb, hyd ei farwolaeth. Yn mhen ychydig flynyddau ar ol iddo sefydlu y gangen eglwys y bu ef yn weinidog iddi, ymunodd â'r Annibynwyr; a chododd gapel arall, sef Myrstwn, yn agos i'r lle. Bu ef o ddefnydd mawr, meddir, yn y ddau le. Cyfrifid ef yn un o'r gweinidogion blaenaf yn y sir. "Yr oedd iddo air da gan bawb a chan y gwirionedd ei hun."

Yn y flwyddyn 1782, cymerodd gŵr o'r enw Thomas Phillips dyddyn yn y gymydogaeth a elwir Stockland, a daeth yno i fyw o gymydogaeth Llanelltyd-y-Fardre, lle y buasai fyw cyn hyny. Yr oedd y gŵr hwn yn grefyddwr da, a dangosodd lawer o garedigrwydd at yr efengyl cyn ac wedi iddo ddyfod i Stockland i aneddu. Sonir am dano fel gŵr tra ffyddlon a dichlynaidd; anaml, y byddai ei le yn wag yn y capel, hyd nes ei luddias ef gan farwolaeth barhau. Teithiodd lawer i gyfarfodydd y cymundeb, misol a chwarterol, a hyny dros faith flynyddau; ar hai gweithiau dilynodd John

Thomas, Risca, fel cyfaill iddo, drwy y rhan fwyaf o gapelau y Deheudir; ac yr oedd yn un, gyda William Morgan a Thomas Williams, a aeth i Langeitho yn unswydd i ymweled â'r hen Rowlands, pan oedd yn glaf, ac o fewn ychydig ddyddiau i'w ymddatodiad.

Gwneir crybwylliad anrhydeddus hefyd am hen wraig weddw o'r enw NELLY, yr hon a gyfrifid yn dduwiol iawn, ac un a feddai lawer o gymhwysder i weddio yn gyhoeddus. Ryw dro, mewn cyfarfod gweddio, dygwyddodd fod y brodyr, y dysgwylid iddynt gymeryd rhan gyhoeddus yn y cyfarfod, yn absenol; gofynwyd i ddysgybl ieuanc, tad y Parch. Evan Morgan, Caerdydd, fyned i weddi; yntau a ymesgusododd o herwydd ei ieuenctyd; felly galwyd ar NELLY, a rhyfeddol yr effeithiau a ddilynodd; cerddai teimladau na ellir ei dysgrifio drwy bob mynwes, a naturiol oedd dyweyd "Mae Duw yn ddiau yn y lle hwn." Mae mab i'r weddw hon yn awr yn fyw ac yn swyddog yn yr eglwys hon.

Bu Mr. T. Phillips fyw i oedran mawr, sef 89 mlyñedd; ac o hyny treuliasai 71 mlynedd gyda chrefydd, a 60 mlynedd yn ddiacon. Bu farw yn y flwyddyn 1842.

Yr ydym bellach wedi cyrhaedd terfyn ein defnyddiau a'n gofod, ar yr un pryd. Pe buasai ein hadnabyddiaeth yn ddigon cywir a manwl, buasai yn dda genym ymhelaethu ar hanes amryw o wŷr da, a phregethwyr defnyddiol, a fu o wasanaeth tra mawr i achos y Cyfryngwr yn y sir hon. Gallasem grybwyll am John Dafydd, o Ben-y-bont, yr hwn oedd yn hen gynghorwr defnyddiol; am Richard James, o Bont-rhyd-y-fen, ac am Siencyn Harri, yr hwn a fuasai yn hynod mewn anystyriaeth ac ysgafnder, cyn ei alw trwy yr efengyl; ond a fu mor hynod, drachefn, wedi ei alw, o ran gwresogrwydd ei ysbryd, a'i lwyr ymroddiad i wasanaeth ei Arglwydd. Yr oedd yn enedigol o Langatwg, ger Castell-nedd. Glöwr ydoedd wrth ei alwedigaeth, isel ei amgylchiadau, ac isel ei arferion, cyn i ras ei ymgeleddu. Troes allan, er hyny, yn nodedig am loywder ei gymeriad fel cristion. Yr oedd ei bregethau, fel yr eiddo llawer o'r hen dadau, heb nemawr drefn arnynt, o ran cynllun a chyfansoddiad; ac yntau ei hun hefyd, a ddibynai lawer, fel ei hen frodyr, ar yr hwyl a roddid iddo wrth eu traethu. Pan yn ymddifad o'r hwyl hi fyddai yn resynol o dlawd, ond pan y caffai hi, byddai yn hynod o rymus a dysglaer. Teithiai ef a Richard James, lawer gyd â'i gilydd, a llawer chwedl ddifyr sydd ar led am Siencyn, y rhai a ddangosant, pa mor ddiniwaid oedd ei gymeriad, a pha mor wresog oedd ei ysbryd.

Dylasem grybwyll am y Parch. H. Howells, Trehill, yr hwn a urddwyd yn weinidog yn yr eglwys sefydledig, yn y fl. 1782, ac a fu yn gwasanaethu ynddi, gan ddal i fynu undeb â'r Methodistiaid, hyd y flwyddyn 1818. Yn y flwyddyn hono ymadawodd yn llwyr â'r llan, a chymerodd ei ryddid i lafurio gyd â'r Cyfundeb; a pharhaodd i wneuthur hyny hyd ei farwolaeth. Bu farw Ionawr 19, 1842, yn 92 mlwydd oed.

PENNOD I.

GORSAFOEDD CYNTAF METHODISTIAETH YN SIROEDD DINBYCH A FFLINT.

CYNWYSIAD:—

SYLWADAU ARWEINIOL—ADWY'R CLAWDD—CAIS AT ERLID YNO—WILLIAM LEWIS, AC EVAN LLWYD—CYCHWYNIAD YR YSGOL SABBOTHOL, A'R YSGOL DDYDDIOL—PREGETHWYR, A CHANGHENAU EGLWYSI A GODODD O'R ADWY—GWEDD PRESENOL Y GWAITH—RHOSLLANERCHRUGOG—GWEDD YR ARDAL—CYCHWYNIAD METHODISTIAETH YNDDI—EDWARD JEFFREYS—CYFARFOD Y BOBL IEUAINC—EU HYMUNIAD A'R HEN BOBL—YMOSODIAD PENRHYDDID—PREGETHWYR A CHANGHENAU O'R RHOS—PARCH. ROBERT ROBERTS, TAN-Y-CLAWDD—YMOSODIAD ARUTHROL AR YR EGLWYS—CAERGWRLE.

BERNIR yn oreu roddi hanes y ddwy sir hyn gyda'u gilydd. Y rheswm am hyn ydyw mai mewn undeb â'u gilydd y buont am ysbaid yr hanner can' mlynedd cyntaf o'u hanfodiad Methodistaidd; ac yn ail, am fod y ddwy sir wedi eu rhanu rhwng y ddau gyfarfod misol yn dra gwahanol i'r rhaniad gwladol sydd arnynt. Yn y rhaniad crefyddol y mae yn agos i hanner y capelau yn gorwedd yn sir Ddinbych wladol, ond dan arolygiaeth sir Fflint grefyddol. Yr ochr arall y mae rhai capelau sydd yn gorwedd yn sir Fflint yn perthynu i gyfarfod misol sir Ddinbych, megys Llanelwy, Rhuddlan, Rhyl, Dyserth, Prestatyn, Cwm, &c. Gwir hefyd fod sir Ddinbych fel cyfarfod misol yn meddiannu hefyd ryw ychydig o gapelau sydd yn sefyll yn sir Gaernarfon; megys Conwy, Trefriw, Tal-y-bont, Roewen, Henefail, Tan-y-bwlch, a rhyw rai eraill. Gwneid y rhaniadau yn y modd y gwnaed, weithiau, o herwydd i'r achos gael ei ddechreu mewn sir gan frodyr a fyddai yn trigiannu mewn sir arall; a chan ddarfod ei hennill ganddynt, naturiol oedd fod y berthynas yn parhau. Gwneid hyn bryd arall, o herwydd cyfleusdra; haws dan ryw amgylchiadau gael pregethwyr i le o un sir nag o sir arall, a dewisid fod mewn undeb crefyddol â'r wlad y byddai y manteision crefyddol helaethaf. Parai mynyddoedd cribog bryd arall, raniad naturiol ar wlad, croes i'r rhaniad gwladol; a phan y byddai hyny yn bod, dewisid y naturiol yn hytrach na'r wladol. Pan y byddom, gan hyny, yn dygwydd enwi un o'r ddwy sir yn yr hanes a ganlyn, dealled y darllenydd mai y rhaniad crefyddol a feddylir, oddieithr dyweyd yn wahanol ar y pryd.

Yr ydym mewn rhan blaenorol o'r gwaith hwn,* wedi dangos y cychwyniad a fu ar Fethodistiaeth yn sir Ddinbych (wladol) cyn yr ymraniad yn 1751. Cyn y cyfnod hwnw nid ydym yn cael fod y wawr Fethodistaidd wedi tori oll ar y rhan wladol o sir Fflint grefyddol. Yn y tymhor boreol hwnw, nid oedd un capel wedi ei adeiladu yn y ddwy sir ond capel Adwy'r-clawdd. Hwn hefyd oedd y cyntaf mewn gwirionedd yn Ngwynedd oll, gan y Methodistiaid; ac nid oedd ond chwech neu wyth eraill, gan un enwad o ymneilldu-

* Cyf. I. tudal. 135—157.

wyr, ar y pryd. Nid oedd eto ond ychydig iawn o leoedd i bregethu ynddynt o un math yn yr holl wlad; a phe buasai lleoedd agored i'dderbyn pregethwyr, nid oedd ond ychydig o bregethwyr i'w derbyn. Nid wyf yn cael allan fod yn y ddwy sir yma cyn yr ymraniad ond tri phregethwr, sef, John Richards, Fryniog-ucha', ger Llanrwst; Edward Parry, Bryn-bugad, Llansanan; a Dafydd Jones, Adwy'r-clawdd, gerllaw Gwrecsam. Mae y tri hyn wedi llwosogi erbyn heddyw i dri-ugain a deg, heblaw y llu a fuant feirw yn y cyfamser. Yr unig leoedd y byddid yn cael pregethu ynddynt y pryd hwnw oeddynt, yw ardal neu ddwy yn nghymydogaeth Llanrwst a Llansantffraid-glan-Conwy; Bryn-bugad, plwyf Llansanan; ac Adwy'r-clawdd. Fe allai hefyd fod y lle bychan a elwid Tŷ-modlen, yn Nyffryn-clwyd, yn agos i'r fan y mae capel y Dyffryn yn sefyll yn awr, wedi cynwys pregethu ynddo yn agos i'r un amser; ac yn lled fuan chwanegwyd y Bont-uchel at y rhai hyn. Dyma wedd Methodistiaeth yn siroedd Fflint a Dinbych, tua'r fl 1750. Rhyw dri o gynghorwyr oedd ar gael,—rhyw dri neu bedwar oedd o leoedd a dderbyniai bregethu iddynt, a rhyw ddwsin neu ddau, o bosibl, oedd y crefyddwyr oll, o Gonwy i Lanymynech, ac o Fflint i Lanrwst. Yn awr y mae tros 150 o leoedd pregethu, a thros 7,000 o aelodau eglwysig. Ac nid yw hyn, ond a berthyn i un cyfundeb o ymneilldhwyr; a phe baem yn gallu cymeryd golwg ar bob enwad ar yr un waith, ni a welem pa faint a fu y llafur a'r llwyddiant crefyddol, yn y ddwy sir hyn, yn ysbaid can' mlynedd.

ADWY'R-CLAWDD.

Eglur ydyw fod y lle hwn yn un o'r gorsafoedd sefydlog cyntaf a fu gan y Methodistiaid yn y gwledydd hyn, os nad oedd yn mysg y rhai cyntaf yn Ngwynedd. Rhag ail-adrodd yr hyn a draethwyd eisoes, cyfeiriwn y darllenydd i'r gyfrol gyntaf o'r gwaith hwn.* Yr offeryn o ddwyn Methodistiaeth yno oedd John Evans, Bala; gan yr hwn y cafwyd tir i adeiladu capel arno. Mae yn y cymydogaeth weithfaoedd plwm a glo, y rhai, y pryd hwnw, fel y dydd hwn, a sugnent ddynion o barthau eraill o'r wlad i weithio, ac felly i ymsefydlu yn y gymydogaeth. Felly y bu, tybygid, yn achos Dafydd Jones, y pregethwr cyntaf a fu yma. Dywedir iddo ef a'i frawd Robert, ddyfod i'r ardal i weithio yn y gwaith plwm; a chan y cawn fod y dyn hwn yn erlid Lewis Evan yn Ninbych, yn y fl. 1748, barnu yr ydym, mai ar ol hyny y daeth ef i'r Adwy; ac mai yn yr Adwy y dygwyd ef dan argyhoeddiad; ac iddo ddechreu pregethu tua'r fl. 1750.

Heblaw a grybwyllwyd yn y gwaith hwn eisoes am y gorthrymu a fu ar grefyddwyr tua'r ardal hon, y mae hanesyn arall ar gael, fod dau ddyn mawr o gorpholaeth, a dibris o feddwl, wedi penderfynu dangos eu hatgasedd at

* Tudal. 147.

bregethu'r efengyl, yn nhymhor cychwynol y gwaith. Daeth y dynion hyn o ardal y Wyddgrug, tua 12 milldir o ffordd, i'r Adwy, ar yr unig ddyben o faeddu ac erlid y "Cradocs," oedd yno yn addoli ar y Sabbothau. Yr oeddynt wedi ymarfogi hefyd at eu gorchwyl â phastynau; gan ddystaw ymorfoleddu yn y dinystr a wnaent. Ond cyn cyrhaedd pen y daith, meddyliasant mai gwell oedd peidio ymosod yn ddiattreg, ond ymwrando dros enyd pa beth a bregethid ganddynt. Daethant i'r lle, ac yn ol y bwriad rhoisant glust i'r bregeth, a pharodd Duw i swyn yr efengyl eu dal yn y fan. Nesaodd y ddau yn agosach o radd i radd at y pregethwr; diffrwythodd eu breichiau fel na allent daro, a gollyngasant y pastynau i lawr. Y canlyniad fu i'r ddau ddychwelyd adref, nid yn unig heb wneuthur niwaid i eraill, eithr wedi derbyn lles eu hunain. Ië, dywedir fod y ddau, cyn pen y flwyddyn, yn cyd-drafaelio, gyd âg eraill, i Langeitho, erbyn Sabboth y cymundeb, i wneuthur coffa am angau Crist.

Ymddengys, gan fod ardal yr Adwy yn sefyll yn unig o ran Methodistiaeth, ac yn mhell oddiwrth bob swer iddo, a hyny dros flynyddau lawer, fod yr hen dadau yn gofalu, ar fod yma ryw gynghorwr yn preswylio o bryd i bryd. Yn fuan wedi marw Dafydd Jones, yn y fl. 1774, anfonwyd yma William Lewis, Môn; ac ar ol ei ymadawiad yntau, anfonwyd un Evan Llwyd, Llanrwst; a rhwng y tri hyn, cafodd yr achos yn Adwy'r-clawdd, amaethiad am ysbaid 60 mlynedd. Yr oedd oes arall, bellach, wedi codi, yr hon nid adwaenai y pregethwr cyntaf; ac y mae yn rhaid addef nad oedd yr achos yn ysbaid y 60 mlynedd hyny wedi ymeangu ond ychydig. Pan ddechreuodd yr ysgol Sabbothol tua'r fl. 1804, nid oedd nifer y proffeswyr yn y lle ond tuag ugain o nifer. Yr oedd yr eglwys dros amser maith wedi bod yn cwyno ei dieppiledd; yr oedd yr ychydig aelodau, ymron oll, yn bobl oedranus, heb gymaint ag un mab na merch ieuanc yn eu mysg. Yr oedd yr olwg ar y gwaith yn llwydaidd a gwywedig; y proffeswyr yn ychydig o rifedi, yn lled dlodion eu hamgylchiadau, ac fe allai yn lled ddiymadferth eu hymdrechion. Yr ydym yn casglu fod golwg mwy llewyrchus wedi bod ar y gwaith amser yn ol. Yr oedd yma amryw o deuluoedd lled gyfrifol wedi bod mewn undeb eglwysig; yr oedd gradd o enwogrwydd ar y lle, gan y cynelid cymdeithasfäau ynddo; yn un o honynt dywedir fod y Parch. Daniel Rowlands yn pregethu. Ond erbyn dechreu y ganrif hon; yr oedd mesur o wywdra wedi dyfod i mewn; ïe, yr oedd gauaf lled faith wedi gosod gwedd lled anserchog ar yr achos. Barnwn fod yr ymraniad yn gyntaf, a heresi Antinomiaeth ar ol hyny, wedi effeithio, yn lled drwm, ar amryw o'r teuluoedd mwyaf cyfrifol a berthynai i'r eglwys, nes iddynt gilio yn llwyr; ac yn yr amser y cyfeirir ato nid oedd na blaenor na phregethwr, ganedig yn yr ardal, yn dwyn perthynas â'r gymdeithas eglwysig. Un o Lanrwst oedd Evan Llwyd, y pregethwr: am y ddau flaenor, yr oedd un o'r Bala, a'r llall o Abergele. Yr oedd ar y Sabboth, er hyn oll, gryn gynulleidfa yn arfer dyfod ynghyd i wrando, feallai 200 neu ragor weithiau. Codasid er ys agos i 70 mlynedd, bellach, ddarn croes

at yr hen gapel cyntaf; gan na chynwysai yn ei faintioli cyntefig ond cynulleidfa fechan iawn.

Nid yw yn ymddangos fod nemawr effaith cyffredinol wedi ei wneyd ar yr ardal ar ol agos i 60 mlynedd o bregethu. Yr oedd y chwareuyddiaethau ar y Sabbothau yn eu llawn rwysg ar y twmpath; yr ieuenctyd ymron heb eithriad yn ddyeithr i'r Beibl ac i foddion y capel; ac nid oedd nemawr gais wedi ei wneyd ychwaith, i dori allan ar y dde, nac ar yr aswy. Nid oes amheuaeth na'l oedd yma rai dynion gwir ddduwiol yn y ddeadell; ond yr oedd eu nifer yn fychan, a'u gwedd yn eiddil. Yr agwedd yma a barhaodd ar y gwaith hyd ddechreuad yr Ysgol Sabbothol. Ar gychwyniad yr Ysgol, nid oedd ond ychydig o Feiblau yn y gymydogaeth, ac yr oedd llawer o'r werin heb fedru darllen. Parodd sefydliad yr ysgol Sabbothol chwyldroad llwyr ar agwedd y fro. Ennillwyd lluaws mawr o'r ieuenctyd, yn feibion ac yn ferched, i ddod iddi. Dyrysodd hyn y campau, am y collwyd aml un o'u blaenion; a llwfrhaodd a chywilyddiodd y lleill. Wedi ennill yr ieuenctyd at orchwyl gwell, nid oedd ffrwyth mwyach yn eu rhieni i ddal eu hen gampau hwythau i fyny. Effeithiodd yr hanes a roddai y plant am yr ysgol yn rhyfeddol ar y rhieni gartref. Daeth y plant yn fuan i ddeall llawer mwy na'u rhieni; a lisgynodd syndod ar y dosbarth oedrannus, pan glywent eu plant yn gallu ateb cwestiynau ar goedd, am y rhai nid oedd ganddynt hwy un math o ddirnadaeth.

Moddion eraill a fu yn dra buddiol, oeddynt cyfarfodydd i ddysgu canu, a chyfarfodydd profiad, nid annhebyg eu dull i gyfarfodydd eglwysig, ond eu bod dan ddysgyblaeth tynerach; ac yn cael eu cyfaddasu at ddeall ac at amgylchiadau yr ieuenctyd. Ennillodd y cyfarfodydd hyn lawer o bobl ieuainc yr ardal; gwellhaodd y canu lawer yn y cynulliadau cyhoeddus; codwyd yr achos i fwy o sylw ac i fwy o urddas, yn ngholwg y cyffredin, fel ag i beri at-dyniad, at ordinhadau yr efengyl, yn lle gwrth-darawiad. Cynaliwyd y cyfarfodydd profiad dros ysbaid rhai blynyddau; a chaniateid, weithiau, fod aelodau y gymdeithas hon yn cael ymgymysgu gydag aelodau y gymdeithas eglwysig, yn eu cyfarfodydd hwy; yr hyn a dybid, hanner can' mlynedd, yn ol yn amgylchiad tra hynod. Wedi amaethiad fel hyn dros rai blynyddau, fel rhag barotoad, cafodd cryn nifer o'r ieuenctyd hyn, ac yn eu mysg rai mewn oedran, ar eu meddwl ymofyn am le yn nhŷ Dduw, a chael cyfranogi o swper yr Arglwydd. Ymunodd mewn ychydig amser tua 40 o honynt â'r eglwys. Y peth hynod yn yr ysgogiad hwn oedd, ei fod yn cymeryd lle gan bwyll, mewn gwaed oer, ac heb un cyffro neilldnol, o'r fath ag fydd yn fynych mewn adfywiadau eraill. Yr oedd peth arall yn hynod yn yr amgylchiad, ddarfod i'r aelodau hyny ymron oll ddal ei ffordd, ac i fesur chwanegu eu cryfder; llawer o honynt, bellach, ydynt wedi eilio i'r bedd, ond y mae amryw eto yn aros yn ffyddlawn ar y maes. Parodd yr ychwanegiad hwn sirioldeb mawr yn yr eglwys a fuasai cyhyd yn ddieppil; "yr oedd yr anmhlantadwy yn cadw tŷ," ac, bellach, "yn llawen fam plant."

Y pregethwyr a ymwelent amlaf â'r gymydogaeth, oeddynt bregethwyr y ddwy sir; megys John Davies, Nantglyn; Peter Roberts, Llansanan; John Edwards, Gelly-gynan; Robert Ellis, y Wyddgrug; John Humphreys, Caerwys; John Jones, Caergwrle; John Llwyd, Llansanan; Evan Lewis, o Ddinbych;—hen frodyr sydd oll yn awr wedi dystewi yn yr angau, a rhai o honynt er ys llawer dydd. Oddeutu yr amser hwn hefyd, y daeth Thomas Owen, diweddar o'r Wyddgrug, i'r ardal i fyw; a Mr. Robert Roberts, Llanelwy gynt, i ardal y Rhos i fyw; ac yn fuan, cychwynodd dau o aelodau yr eglwys hon ar eu gyrfa gyhoeddus, a'r ddau o'r un enw, John Hughes. Dybenodd un ei yrfa ymron gydag iddo ei chychwyn. Bu farw tua 22 ml. oed, yn mhen dwy flynedd ar ol iddo ddechreu ar y gwaith o bregethu. Cyfenwid ef y "John Hughes dduwiol;" rhoes brofion lawer yn ei dymhor byr ei fod yn prysur aeddfedu i fyd gwell na daear. Rhoddodd gwraig foneddig o Gwrecsam ef mewn ysgol yn yr Amwythig, er mwyn ei gymhwyso yn fwy fel athraw cyhoeddus i'w genedl, gan na chawsai ddim manteision dysgeidiaeth erioed, ond a gawsai yn yr ysgol Sabbothol; ond buan y clafychodd o'r darfodedigaeth, a dysgynodd yn ebrwydd i'r bedd. Mae llawn ddengain mlynedd er pan aeth ef i orphwys oddiwrth ei lafur, pryd y gadawyd ei gydymaith, y John Hughes arall, yr hwn oedd ddwy neu dair blynedd iouengach, ond a ddechreuasai bregethu fis neu ddau o'i flaen, ar y maes hyd heddyw. Am hwn, mwy dewisol gan yr ysgrifenydd ydyw bod yn ddystaw, oni bai fod ganddo fwy i'w draethu am ei rinweddau; a gwell, fe allai, gan ei fod yn alluog i weled ac i glywed, ydyw peidio dynoethi llawer ar ei wendidau.

Dechreuodd y ganghen eglwys yn yr Adwy, bellach, ymosod yn egnïol ar yr ardaloedd cymydogaethol; sef ardal Harwood, Bersham, Ffrith, Bwlch-gwyn, a Phentre-cwn-brithion; ardaloedd oll, oddigerth un, yn yr un plwyf ag Adwy'r-clawdd, sef plwyf Gwrecsam;—ardaloedd hefyd, yn cynwys lluaws mawr o drigolion; a llawer o honynt yn gweithio yn ngloddfeydd y plwm, y glo, a'r calch, pa rhai sydd yn britho y wlad hon. Yn awr y mae capelau a chynulleidfaoedd lluosog yn yr holl ardaloedd yma.

Yn	Harwood, y mae tros	50	o aelodau.
—	Bersham, y mae———	30	„
—	Ffrith, ———————	35	„
—	Bwlch-gwyn, ———	12	„
—	Pentre,———————	55	„

Gellir edrych ar gynulliedfa Adwy'r-clawdd fel mam-eglwys, nid yn unig i'r canghenau uchod, ond hefyd, mewn amser boreach, i gynulleidfaoedd y Rhos a Gwrecsam, y rhai, bellach, sydd wedi magu lluaws o eglwysi eraill.

Bu dyfodiad gŵr o'r enw Mr. Thomas Evans i'r ardal i gadw ysgol, o ddefnydd tra mawr i'r ardal yn gyffredinol, ac i'r achos crefyddol yn arbenig. Deallir fod gan Mr. Charles, o'r Bala, law yn ei anfoniad i'r Adwy. Llafur-

odd Mr. Evans lawer yn ei dymhor, nid yn unig gyda deiliaid lluosog ei ysgol ddyddiol, ond hefyd gyda'r ysgol Sabbothol, y canu, cyfarfod profiad yr ieuenctyd; ac yn awr, er mewn gwth o oedran, y mae yn sefyll yn ffyddlawn gyda'r gwaith, ac yn henaf o ddiaconiaid yr eglwys. Mae enwau Hugh Edward, John Griffith, a Robert Llwyd, yn dra adnabyddus i rai sydd eto yn fyw; i ba rai, yn enwedig yr olaf, yr oedd parch diledryw, fel dyn pwyllog, fel cristion sylweddol, a henadur gofalus.

Dylasid dyweyd fod y gynulleidfa wedi cynyddu cymaint yn fuan ar ol sefydliad yr ysgol Sabbothol, ac yn neillduol ar ol rhyw adfywiad sirioł a fu ar yr achos yn y fl. 1814, fel y bu raid adeiladu capel newydd. Aethai yr hen yn rhy fychan i gynwys yr ysgol Sabbothol, a rhaid oedd helaethu lle y babell. Gwnaed hyn yn y fl. 1815. Mae yr eglwys yn y lle hwn, er yr holl ganghenau a darddodd o honi, yn aros yn lled luosog hyd heddyw. Nifer yr aelodau sydd ychydig dros 100, a'r capel yn llawn o wrandawyr.

Treuliodd Evan Llwyd lawer o'i oes yn yr Adwy o ran ei drigfa, ond yr oedd ei lafur ef yn llai sefydlog na llawer un, gan y teithiai gryn lawer ar holl wledydd y Gogledd. Gŵr synwyr-gall ydoedd; pwyllog ei dymher, ac anaml ei eiriau. Yr oedd yn bregethwr tra sylweddol, ond nid mor gyffrous a phregethwyr ei oes. Perchid ef gan ei frodyr crefyddol am sylweddolrwydd ei weinidogaeth, er nad oedd corff cyffredin y gwrandawyr yn argoeli awydd mawr i wrando arno, gan leied o gyffro a ddangosai.

Yma hefyd y treuliodd Thomas Owen, yr hwn a fu farw yn ddiweddar yn y Wyddgrug, lawer o'i oes. Mab ydoedd i Richard Owen, o'r Bala, yr hen weddiwr hynod. Cawsai ei fab Thomas fanteision crefyddol yn ei ieuenctyd, gan iddo gael ei ddwyn i fyny wrth draed Mr. Charles a John Evans, a than addysg teuluaidd rhagorol. Dechreuasai bregethu cyn bod yn llawn 20 ml. oed. Appwyntiwyd ef i gadw ysgol Gymraeg dan arolygiaeth Mr. Charles yn more ei weinidogaeth. Tra yr oedd yn cadw yr ysgol hon yn Glynceiriog y priododd y waith gyntaf; ac yn fuan wedi hyny daeth i'r Adwy i breswylio, ac i weithio ei grefft fel crydd. Yr oedd Thomas Owen yn gristion unplyg a diniwaid; ac fel ei dad yn un hynod mewn gweddi. Fe bregethai hefyd yn sylweddol a bywiog, ac weithiau yn dra grymus. Cafodd ysgrifenydd hyn o linellau lawer o ddifyrwch a budd yn ei gwmnïaeth tra yn yr Adwy; a dyledus ydyw iddo am lawer annogaeth a chynghor yn more ei oes.

Tua chanol ei oes, syrthiodd i fath o ddigalondid pruddglwyfus, yr hyn a barodd fwlch maith yn ei lafur a'i yrfa gyhoeddus; bu yn yr agwedd hon flynyddau lawer; ac yn yr agwedd hon yr ydoedd pan symudodd i ardal y Wyddgrug i fyw. Wedi bod yno rai blynyddau ymadfywiodd drachefn, a threuliodd y 14 mlynedd olaf o'i oes yn siriol a defnyddiol gyda gweinidogaeth y gair. Bu farw yn Rhagfyr, 1852, yn 71 ml. oed.

RHOSLLANERCHRUGOG.

Mae yr ardal hon yn gorwedd yn mhlwyf Ruabon, ac o fewn llai na phedair milldir i dref Gwrecsam. Nid oes nemawr ardal yn sir Ddinbych, neu o fewn terfynau cyfarfod misol sir Fflint, amlach ei thrigolion na hon. Y mae yn ardal ar ei phen ei hun. Y trigolion gan amlaf o lawer yn gweithio yn y gweithfeydd glo a haiarn, y rhai sydd yn britho yr holl fro oddiamgylch. Ac er fod yr iaith Saesoneg yn ffynu ychydig bellder islaw, eto y mae preswylwyr y Rhos yn Gymry uniaith ymron oll; a chanddynt eu dulliau priodol mewn gwisgo, siarad, a byw; gwahanol, i raddau helaeth, i drigolion cymydogaethau eraill. Mae y gynulleidfa sydd yn perthyn i'r Methodistiaid yma yn un o'r rhai mwyaf yn y ddwy sir, Dinbych a Fflint. Cynwys yr eglwys yma dros 250 o rifedi, a deiliaid yr ysgol Sabbothol o fewn ychydig yn 800. Bydd y gynulleidfa, yn fynych, yn 1,500 o rifedi neu fwy.

Am ddechreuad Methodistiaeth yn Rhos mai gradd o ansicrwydd, o herwydd na chadwyd un cofnodiad rheolaidd gan neb o'r hen dadau; ac erbyn hyn nid oes nemawr neb yn fyw yn ddigon hen i gofio ei gychwyniad. Trwy ryw adgofion a gafwyd gan hen wraig ag oedd o fewn ychydig flynyddau, yn gan' mlwydd oed; deallwn fod pregethu yn nyddiau ei mebyd hi, tua 90 mlynedd yn ol, mewn tŷ yn "Strŷd-y-gôf." Yr oedd gŵr yn cadw siop, a'i enw, hyd y gallai yr hen wraig gofio, oedd John Griffith. Byddai pregethu ar ol hyny mewn hen ysgubor; ac wedi rhyw gymaint o amser, adeiladwyd rhyw gapel bychan, neu ysgoldy; chwe' llath o hyd, wrth bum' llath o led. Nid oedd hwn, tybygid, ddim yn gapel ond mewn enw, a thros ryw dymhor. Y capel cyntaf, teilwng o'r enw, a godwyd yn Rhos oedd yr un a godwyd yn y fl. 1770. Yr ymddiriedolwyr oeddynt Watkin Rhys; George Gittins; Mr. Jones, Gwrecsam; William Lewis, Adwy'r-clawdd; Edward Jeffreys, Rhos, oll o'r dosbarth; at y rhai'n ychwanegwyd, Parch. T. Charles, Bala; ac Evan Richardson, Caernarfon. Yr oedd y capel hwn wedi ei godi, gan hyny, yn mhen ychydig flynyddau ar ol dechreu pregethu yn yr ardal. Barnu yr ydym ddarfod dechreu Methodistiaeth yn y Rhos yn amser Dafydd Jones, Adwy'r-clawdd, yr hwn oedd yn un o bregethwyr boreaf Gwynedd; a chan ei fod yn byw o fewn tair milldir i'r Rhos, naturiol ydyw dyfalu ddarfod iddo wneuthur cais at gael pregethu i drigolion lluosog yr ardal hon: bu y pregethwr hwn farw yn y fl. 1774. Y pryd hyn nid oedd ond ychydig o bregethwyr yn Ngwynedd oll; ond nid oes amheuaeth nad oedd Llangollen, y Rhos, a'r Adwy, yn cael eu rhan o'u gweinidogaeth. Yr oedd Robert Llwyd, Plas-ash-pool; John Owens, Berthen-gron; a Dafydd Jones, yr Adwy, y pryd hwnw ar y maes; heblaw y rhai hyn, y mae yn amheus a oedd neb arall ar gael, ac o fewn cyrhaedd, nes nag Edward Parry, Bryn-bugad; William Davies, y Golch; ac ychydig nifer gyda hyny yn y Bala, a sir Drefaldwyn.

Ymddengys fod Methodistiaeth yn Rhos wedi profi cymaint o eithafion llwydd ac aflwydd, a nemawr le yn y cyfundeb. Bu yma amryw adfywiadau

tra grymus; y fath ag a roddai wedd siriol a hyfryd ar yr achos mewn ychydig amser. Bu yma, hefyd, awelon gauafaidd a gwenwynig yn chwythu, fel ag i ddeifio pob peth gwyrddlas a gobeithiol. Profodd y Rhos wres y gwregys llosg, ac iâ y gwregys gogleddol. Sonir am un adfywiad grymus a fu ar ol adeiladu y capel, pryd y byddai hen wraig, o'r enw Margaret Griffiths, yn neidio yn hoyw mewn gorfoledd. Y pryd hwn, tybygid, y dechreuodd difrifwch feddiannu John Roberts, tad y Parch. Daniel Roberts, Lodge; a rhai gŵŷr ieuainc eraill, nes eu dwyn i ymwasgu â'r dysgyblion.

Yr oedd yma, y pryd hwn, hen ŵr yn byw o'r enw Edward Jeffreys; yr hwn hefyd oedd un o ymddiriedolwyr y capel, ac wedi cydgychwyn gyda'r rhai cyntaf yn yr ardal. Yr oedd hwn yn arfer ymgynull gyda'r hen bobl yn eu cyfarfodydd eglwysig, ac yn mysg y rhai a fu yn foddion i sefydlu yr achos crefyddol. Ond cododd ymrafael yn eu mysg mewn perthynas i un o'u nifer, yr hwn a ystyrid gan Edward Jeffreys yn haeddu cerydd; ond yr hwn a fynai eraill ei arbed. Yn y drafodaeth, ymddengys i anwydau twym gael eu llochi; ac yn eu poethder, ddarfod i un droi at Jeffreys a dyweyd, "Yr wyt ti yn aflonyddu ar ein heddwch ni, Ned;—ni fydd yma byth lwyddiant tra byddi di yma." Gydag iddo ddyweyd y gair cododd y llall ar ei draed, cymerodd ei het yn bwyllog yn ei law, a chan ddynesu tua'r drws, dywedodd, "Os myfi sydd yn eich aflwyddo, druain, wele fi yn eich gadael, a'r Arglwydd a'ch llwyddo. Ond nid hir y byddwch cyn i Dduw ddangos i chwi eich camsyniad am y dyn hwn." Felly hefyd y bu. Troes y dyn, a fu yn destyn dadl, allan yn broffeswr pwdr a thwyllodrus, a'i ddrygioni yn amlwg i bawb.

Ar ol hyn ymgynullodd amryw o'r bobl ieuainc a ddygasid i bryder yn achos eu heneidiau at eu gilydd, ar wahan oddiwrth yr hen bobl, gan ddynesu at yr hen ŵr a droisai ei gefn. Edrychent arno fel eu tad; rhoddent gryn lawer o ymddiried yn ei ddoethineb, a chymerent eu cynghori ganddo. Yr oedd ganddynt, bellach, fath o gymdeithas eglwysig gyda'u gilydd, ac Edward Jeffreys yn flaenor arnynt. Cyfarfyddent â'u gilydd unwaith yn yr wythnos yn nhŷ un o honynt er mwyn cynydd eu gwybodaeth ac adeiladaeth ysbrydol. Deuai yr hen ŵr yn gyson atynt a chymerent ef megys bugail arnynt. Ond wedi rhyw gymaint o amser dacth yn benbleth arnynt pa fodd y gallent gael gweinyddiad o swper yr Arglwydd yn eu mysg. Teimlent yn ddyledswydd arnynt wneuthur coffa am farwolaeth yr Arglwydd, ac nid boddhaol ganddynt ydoedd aros yn ddiddig mewn un sefyllfa a'u hymddifadai hwy o'r fraint. Dygasant y mater, gan hyny, dan sylw yn eu cynulliad wythnosol, a deisyfiasant gynghor a chyfarwyddyd eu blaenor. Swm ei ateb yntau oedd a ganlyn:—

"Nis gwn pa fodd y gallaf ymdaro ar ol eich colli; ond yr wyf yn gweled na allaf eich cadw yn hwy heb wneyd cam â chwi. Nid oes un llwybr i chwi gael yr ordinhad o swper yr Arglwydd yn rheolaidd heb i chwi roi eich hunain i'r hen bobl. A dyna yw fy ngyngor i, rhowch eich hunain iddynt.

Ewch atynt, a chynygiwch eich hunain iddynt; ac os gwrthodant eich derbyn, mi a ddeuaf fi atoch fel o'r blaen."

Cymerasant gynghor yr hen ŵr, ac aethant, yn ddeuddeg o nifer, gan gyflwyno eu hachos i sylw yr hen bobl ac erchi am dderbyniad. Nid oedd nifer yr hen bobl ar y pryd ond chwech; ac yn y cyfarfod hwn dygwyddodd fod Mr. Dafydd Morris, Deheudir, yn cadw cyfarfod eglwysig. Ar waith y deuddeg yn ymofyn am dderbyniad i fysg y brodyr, sirioldd pob mynwes, a llewyrchodd pob wyneb. Derbyniwyd hwy yn serchog fel cyd-etifeddion gras y bywyd. Ac nid y lleiaf ei lawenydd oedd y pregethwr dyeithr. Dychwelodd adref gan gyhoeddi yn mhob man y deuai iddo pa ddiwygiad mawr oedd yn Rhos. Yr oedd nifer yr eglwys trwy hyn wedi cynyddu dair gwaith mwy nag ydoedd o'r blaen mewn un noson, a'r achos gwan wedi derbyn adgyfnerthiad rhyfeddol. Pa beth a ddaeth o'r hen ŵr nid yw ein hysgrif yn dyweyd; ond nis gallwn lai na gresynu, na buasai gŵr a roddai gynghorion mor ddoeth i'w frodyr, yn teimlo parodrwydd i gadarnhau ei gynghor ac esiampl, a myned gyda'r deuddeg. Buasai ein hanes yn fwy cyflawn, a buasai enw da yr hen Jeffreys yn fwy peraroglaidd, a grasol.

Llawer gwynt gwenwynig a chwythodd ar y winllan hon, trwy amrafaelion ac anghydfod y brodyr, trwy enciliadau bradychus rhai, a thrwy gwympiadau gwarthus rhai eraill. Dygodd hyn sarhad trwm ar achos y Gwaredwr, a rhoes achos i elynion yr Arglwydd gablu. Tua'r amser yr oedd William Lewis yn aros yn Adwy'r-clawdd bu rhuthr cryf gan y gelyn ar y gymdeithas fechan yn ei gwendid, trwy i ddau o'r rhai a flaenorent gyda'r gwaith fod yn euog o anniweirdeb gyda dwy o'r merched ieuainc mwyaf gobeithiol yn eu mysg. Ac er diarddel y cyfryw gyda phob brys, a dadgan pa mor ffiaidd y cyfrifid yr ymddygiad, ac mor wahanol ydoedd i egwyddorion proffesedig y cyfundeb; eto rhoddwyd achlysur, i'r sawl ag oedd yn ceisio achlysur, i ddrwg liwio yr holl frawdoliaeth, ac i haeru fod y cyfryw arferion yn cael, nid goddefiad yn unig, ond swcr ac amaethiad. Bu enw crefydd yn gwaedu o achos hyn, dros rai blynyddau, yn yr ardal; ond yn raddol symudwyd ymaith y gwarth, trwy i bawb diragfarn gael eu hargyhoeddi y dichon i Judas fod yn mysg y dysgyblion, er gogoneddused yr athraw, ac er cystal ei ddysgeidiaeth,—mai annheg ydyw gosod llithriadau o'r fath yn siars crefydd, yn enwedig pan fyddo egwyddorion gwrthwynebol yn cael eu cyhoeddi, a dysgyblaeth wrthwynebol yn cael eu harfer.

Er hyn oll, y mae yn rhaid cyfaddef, fod ymosodiad digywilydd wedi cael ei wneuthur ar y cyfundeb yn y tymhor bore hwn, i ddwyn i mewn egwyddorion ac arferion, a sawrient yn drwm o benrhyddid. Gwnaed cais "i droi gras ein Duw yn drythyllwch." Dan y ffug o bregethu iachawdwriaeth o ras yn gŵbl, a than esgus arddangos cyfiawnder cyfrifol yn gyflawn a rhad; yr oedd rhai wedi barnu fod y ddeddf wedi ei gwneuthur yn ddirym trwy ffydd; a chan fod y credadyn yn rhydd oddiwrth ei melldith, ei fod hefyd yn rhydd oddiwrth ei hawdurdod. Ymdaenodd yr egwyddorion hyn, yn ol a

ddywed Mr. Robert Jones, Rhoslan, yr hwn oedd yn fyw ar y pryd, dros lawer parth o'r dywysogaeth, a pharasant ddifrod arswydus mewn rhyw fanau. Am y rhanau hyn o'r wlad, ysgrifenai y gŵr hwnw am ryw hudoles, "Hanodd gryn lawer o'i theganau twyllodrus, yn benaf yn Nyffryn-clwyd, a rhai cyrau o sir Fflint, gan eu chwythu hwynt i falchder, ysgafnder, a choeg-ddigrifwch. A chan eu bod yn ieuainc mewn proffes, a chanddynt rai arweinwyr, heb fawr o ofn Duw yn eu meddiannu; cawsant yn fuan eu llygru i'r fath raddau, fel nad oedd llawer o'r athrawiaeth mwyaf syml a sylweddol, ond hollol ddiystyr yn eu golwg; na braidd neb yn eu boddio ond a fyddai yn cyd-redeg gyda hwynt i'r unrhyw ormod rhysedd. Bu hyny yn ddiau yn achos i'r Arglwydd wgu flynyddau ar yr ardaloedd; ond trwy anfeidrol ddaioni Duw, iachawyd y dyfrodd; er nad yw yr effeithiau wedi eu llwyr symud. Adwy'r-clawdd, hefyd, er ei ffyddlondeb a'i charedigrwydd a syrthiodd yn raddol, yn ddiarwybod i flasu peth ar rith-wleddoedd yr hudoles, yn enwedig pan y daeth llwyddiant bydol i wenu ar yr ardaloedd. Ond nid llawer yno a yfasant o'i chwpan fustlaidd. *Galwodd heibio yn lled fore i Rhosllanerchrugog, gwnaeth yno gryn lawer o'i hol dros flynyddau lawer:* ond pan ddaeth y dydd i ddechreu gwawrio, gorfu arni ffoi, fel y ddylluan o flaen pelydr haul cyfiawnder."

Y cyfryw ydyw y cyfeiriad a ddyry yr awdwr at yr amseroedd hyn; amseroedd yr oedd perygl y cyfundeb yn annhraethol fwy, nag a fuasai erioed oddiwrth erlidigaeth; ac am y Rhos, y mae yn rhaid addef mai nid oddiwrth erlidigaeth a gorthrwm gwrthwynebwyr crefydd y dyoddefodd fwyaf, ond oddiwrth ymosodiadau tufewnol, fel yn yr amgylchiad dan sylw. Cododd yr Arglwydd, er hyn oll, ryw rai ciddigeddus drosto, i iawn farnu, ac i attal y pla. Pan y ceisiodd un o'r troseddwyr crybwylledig uchod amddiffyn ei hun, a hyny mewn dull a brofai ei ddigywilydd-dra; codai un hen ŵr ar ei draed, mewn cyffro eiddigus, gan ddyweyd, "Taw, ffwl! onide, mi a'th darawaf nes byddi yn treiglo." Dull, mae'n wir, na fynem ei ganmawl, na'i efelychu yn gyffredin; eto, dan yr amgylchiad nid allwn lai na chymeradwyo yr eiddigedd a'r sel, er eu bod yn llosgi mor angerddol.

Mewn tymhor diweddarach na'r un uchod, darllenwn fod y pechod o feddwdod a diota wedi lefeinio gormod ar y gymdeithas grefyddol yn y lle hwn: ond pan ddaeth hyn yn adnabyddus, ceryddwyd rhai, a diarddelwyd rhai eraill; felly achubwyd y gymdeithas rhag peurhyddid ac anfoesau. Mae yr oes y cyfeiriwn ati, yn y sylwadau uchod, er ys blynyddau wedi myned heibio; ac am yr oes sydd yn awr yn Rhos, nid ydym yn deall nad yw mor ddichlynaidd a rhydd oddiwrth y pechodau bryntion a grybwyllwyd, ag ydyw neb arall. Gellir nodi un peth arall a fu unwaith yn llygredigaeth, wrth ei arfer, ac i'r hwn y rhoddai rhai o'r crefyddwyr, yn eu hanwybodaeth, ormod o wyneb; sef, ymweliadau a gwleddoedd, ar adeg gwylmabsant. Yr oedd y gwyliau hyn mewn bri mawr yn mhob plwyf, a phawb ymron wedi eu magu n yr arferiad o roddi rhyw fesur mwy neu lai o warogaeth iddynt. Arferai

perthynasau a chyfeillion ddyfod i ymweled â'r eiddynt; a dysgwylient, wrth gwrs, fod darpariaeth priodol i'r ŵyl yn cael ei wneuthur gogyfer â'r dyfodiaid a ddeuent. Yr oedd yr hen bregethwr, William Lewis, yn byw ar y pryd hwnw, yn Adwy'r-clawdd, ac yn arfer dyfod i'r Rhos yn wythnosol i gynal cyfarfod eglwysig, ar ddydd Llun, dri o'r gloch prydnawn. Dydd Llun y gwylmabsant hefyd efe a ddaeth; a dygwyddodd alw yn nhŷ blaenor o'r enw George Gittins ar ei ffordd i'r capel. Ar ei ddynesiad at y drws, gwelai amryw gerbydau yn sefyll; ac wedi myned i'r tŷ, fe'i cafodd yn llawn o bobl yn gwledda, y rhai a ddaethent yno i'r gwylmabsant. Cymhellwyd yntau i fyned i mewn: ond nid âi, trodd ei gefn, gan ddyweyd, "Och fi! beth yw hyn?" Aeth oddiyno i dŷ blaenor arall o'r enw Mr. Watkin Rhys: ac erbyn dyfod yno yr oedd yr olwg yn waeth fyth. Aeth yr hen bregethwr adref dan ei faich, a dydd Llun canlynol daeth yno, a dynoethodd y cyfryw lygredigaeth mewn goleu mor rymus, fel i argyhoeddi y frawdoliaeth o'i hysgelerder, a'i diwygio yn llwyr oddiwrthynt.

Ond er pob ymosodiad a fu ar yr achos yn ei wendid, fe'i cynysgaethwyd â mesur helaeth o amddiffyniad y Goruchaf: ac er profi aml dafliad yn ol, eto yn mlaen yr oedd yn myned. Ar yr un pryd ni chododd i fesur mawr o fri a dylanwad hyd y ganrif bresenol, pryd y sefydlwyd yma ysgol Sabbothol. Gwnaeth hon orchestion yn Rhos. Dygodd luaws mawr iawn dan addysg. Ac nid oedd trigolion unlle rheitiach o gael addysg nag oedd preswylwyr y cymydogaethau hyn. Nid oedd yma, am a wyr yr ysgrifenydd, gymaint ag un ysgol o un math. Yr oedd llan y plwyf ddwy filldir o ffordd, ac nid oedd yno, y pryd hwnw, nemawr fanteision: a phe buasai addysg, neu fanteision addysg yno, nid oedd gan y gweithwyr, ag oeddynt er yn blant yn gweithio dan y ddaear trwy y dydd, ddim amser i'w defnyddio. Yr oedd y trigolion hefyd yn dra lluosog; a rhieni a phlant yr un mor amddifaid a'u gilydd o bob gwybodaeth, ond oedd angenrheidiol i ennill eu tamaid, ac amddiffyn eu bywyd.

Bendith anmhrisiadwy i'r fath ardal oedd yr ysgol Sabbothol. Heidiodd llawer iawn o'r ieuenctyd iddi; dysgodd miloedd lawer ddarllen llyfr Duw yn ystod yr hanner can' mlynedd diweddaf; y rhai, am a wyddom ni, a fuasai yn meirw heb fedru gair ar lyfr, ac heb ddarllen dim erioed am fawrion weithredoedd Duw. Buan yr aeth y capel cyntaf yn rhy fychan, ac er y flwyddyn 1770, y mae yr addoldŷ wedi ei adeiladu bedair gwaith drosodd, ïe, bum' waith o'r dechreu, a chyfrif yr ysgoldŷ bychan cyntaf. Tua'r fl. 1808, yn mhen ychydig ar ol dechreu yr ysgol Sabbothol, torodd yma adfywiad hyfryd ar yr achos crefyddol; chwanegwyd yma tua 60 o aelodau o newydd at yr eglwys a'r gynulleidfa; a deiliaid yr ysgol Sabbothol a chwanegasant yn gyfatebol. Bu un Jonathan Price, gŵr ganedig yn Adwy'r-clawdd, yn fendithiol iawn i'r gymydogaeth, yn neillduol yn yr ysgol Sabbothol, ynghyd a'i frawd ar ei ol.

Cynyrchodd yr eglwys yn Rhosllanerchrugog, gryn nifer o bregethwyr yn ystod y 40 mlynedd diweddaf; o'u nifer yr oedd y Peirch. Ellis Phillips; Daniel Roberts, yn awr o'r Lodge; John Lewis, yn awr o Lanrhaiadr-ym-mochnant; hefyd John Owens, yr hwn a fu farw yn ieuanc; William Taylor; Peter Ellis; Thomas Roberts; Joseph Jones; a David Jones. Mae amryw ganghenau hefyd wedi tarddu o eglwys y Rhos, megys Ruabon, Tai'n-nant, ac mewn rhan, y Tabernacl, a Brynafallen.

Tua'r fl. 1813 y daeth y Parch. Robert Roberts, gynt o Lanelwy, i fyw i amaethdŷ gerllaw y Rhos, o'r enw Tan-y-clawdd, trwy briodi gwraig weddw grefyddol o'r enw Mrs. Clarke. Yr oedd y gŵr hwn wedi dechreu crefydda er ys mwy na 50 o flynyddau yn ol. Clywsom ddyweyd mai trwy wrando yn ddamweiniol ar Robert Prys, Plas-winter, y gŵr tra gwladaidd a diddawn hwnw, y teimlodd Mr. Roberts yr argraffiadau crefyddol cyntaf ar ei feddwl. Hanasai o deulu cyfrifol ond cwbl ddieithr i grefydd, a thra gwrthwynebol i Fethodistiaid yn neilldnol. Cyfarfyddodd Mr. Roberts â llawer o wrthwynebiad ar ei gychwyniad gyda chrefydd, yn neilldnol oddiwrth ei dad, a hyny pryd nad oedd y mab ond lled ieuanc. Cyn hyn yr oedd wedi bod yn ben campwr ei ardal, tra medrus ac ymroddgar yn dilyn "yr ofer ymarweddiad a gawsai trwy draddodiad y tadau;" ond mor hynod a hyny a fu y cyfnewidiad arno. Ciliodd yn llwyr ac am byth oddiwrth ei gyfeillion ofer; gwnaeth broffes benderfynol o enw Crist; nesaodd ar unwaith i gymdeithas pobl grefyddol; a chododd weddi deuluaidd yn nhŷ ei dad cyn hir, yn wyneb gwrthwynebiad llym iawn. Pan oedd ei dad unwaith ar fedr ymosod arno tra ar ei liniau, disgynodd arno y fath ddylanwad effeithiol ag a ddiffrwythodd rym ei dad, a'r holl deulu a orchfygwyd, gan ymdoddi mewn ffrwd o ddagrau. Yr oedd Mr. Roberts wedi cael addysg dda; yr oedd yn dra chyfarwydd mewn Lladin a Groeg, ac yn dra chydnabyddus âg iaith, ac â hanes ei genedl ei hun, yr hen Gymry; dros y rhai y dygai sêl tra mawr. Ganwyd ef tua'r fl. 1774, ac wedi gwasanaethu swydd diacon dros ryw dymhor yn Llanelwy, dechreuodd ar ei yrfa weinidogaethol pan oedd tua 33 ml. oed. Ei grefft wreiddiol oedd gof-gwyn, *(whitesmith)*, a chrefftwr rhagorol, meddir, ydoedd. Rhoes ei grefft heibio ar ei waith yn ail briodi, ac yn symud ei drigfa, yr hyn a wnaeth tua'r fl. 1813. Cartrefodd o hyny allan yn Tan-y-clawdd. Dangosodd lawer o garedigrwydd i achos yr efengyl trwy dderbyn pregethwyr i'w dŷ; cyn, ac wedi gadael Llanelwy; a thrwy bregethu llawer yn ei ddau gartref yn rhad ac am ddim. "Yr oedd ei feddwl," meddai y Parch. Roger Edwards am dano, wrth grybwyll ei farwolaeth yn y Dyddiadur am 1850, "yn dra athronyddol, yr hyn fe allai oedd yn gwneyd i'w ddull yn trin ambell bwnc o dduwinyddiaeth fod yn aneglur i rai personau, ac yn peri iddynt amheu ei uniongrededdd. Nid oedd neb, pa fodd bynag, yn amheu ei dduwioldeb personol, a'i gywirdeb cristionogol." Yn mlynyddau olaf ei oes cyfarfu â chryn lawer o brofedigaethau oddiwrth amgylchiadau y bywyd hwn; a bu rhan fawr o'i oes weinidogaethol yn chwerw iddo gan ymosodiadau

brodyr crefyddol. Nid oes amheuaeth na fu naws ei dymherau, ac awch ei eiriau ef ei hun, yn foddion i dynu arno lawer o'r ymosodiadau hyn; ac nid oes amheuaeth chwaith, na cholynwyd ef i deimladau chwerwon gan ymadroddion byrbwyll rhai, a chan ymddygiadau bradwrus rhai eraill: profion gofidus o wendid a gwaeledd y natur ddynol, ïe, mewn dynion da; a phrofion hefyd o'r angenrheidrwydd i grefyddwyr fod yn wyliadwrus ar eu tymherau, ac ar fod i'w hysbrydoedd gael eu nawseiddio gan addfwynder a hynawsedd Crist. Bu farw yn ddisymwth yn 1849, wedi profi ymweliad hyfryd i'w enaid gan lewyrchiad wyneb yr Arglwydd, yn 75 mlwydd oed; wedi bod yn pregethu rhwng 40 a 45 o flynyddau. Ordeiniwyd ef yn y fl. 1832.

Ond i ddyehwelyd at hanes y Rhos. Profodd yr eglwys yn y lle hwn rai ymosodiadau ac ymgyrchion na phrofodd yr un eglwys arall yn y cyfundeb, o leiaf yn y Gogledd. Nid hawdd a fyddai i neb osod i lawr hanes y rhuthr diweddaf a fu arni, tua 15 mlynedd yn ol, heb gael ei ddrwgdybio o dueddgarweh at y naill blaid neu y llall; ac nid hawdd ychwaith a fyddai traethu gyda dim manyldra ar yr helynt a fu, heb feio peth ar y ddwy ochr, ac fe allai heb anafu teimladau brodyr sydd eto ar y maes. Eto anneheg a fyddai myned heibio yr amgylchiad, ac yntau yn amgylchiad mor bwysig, yn ddisylw nac yn ysgafn. Barnwyd yn oreu gan y gymdeithasfa, nid yn unig ddyosg y blaenoriaid o'u swydd ond dileu yr eglwys ei hunan, gan belled a'i hymgorfforiad cymdeithasol; a rhoddwyd y lle a'r moddion cyhoeddus dan arolygiaeth dyeithriaid. Hyn a barhaodd dros ryw ysbaid byr.

Amnoeth, os nad anmhosibl, a fyddai o fewn y terfynau sydd genym yn y gwaith hwn, olrhain y benbleth hon i'w gwraidd, a'i dynoethi yn ei holl gyssylltiadau. Gellid ysgrifenu cyfrol ar yr achos. Nid yn Rhos yr hanfodai yr holl elfenau ag oeddynt ar waith ynddo. Yr oedd yr ymweithiad a gafodd arllwysiad yn y lle hwn, yn ymgrynhoad o wahanol elfenau a fuasai yn hanfodi yn y cyfarfod misol, ïe, yn y gymdeithasfa, er ys 20 mlynedd cyn hyn. Llynoryn oedd y terfysg yr hwn a gododd i aeddfedrwydd yn Rhos,—ond effaith ydoedd o ryw enynfa ag oedd yn y gwaed, o ryw anmhuredd ag oedd yn y cyfansoddiad. Etna neu Vesuvius ydoedd;—y llanereh y cafodd yr elfenau gwrthdarawiadol a dirgelaidd, a fuasent yn tyrfu ac yn bygwth, dros amser maith, gyfarfod â'u gilydd; a'r cyfarfyddiad a barodd y terfysg. Yr oedd yr awyr Fethodistaidd er ys blynyddau yn orlawn o drydaniaeth, ond uweh ben y Rhos y torodd y mellt a'r taranau allan. Ond hyn sydd gysurus i'w adrodd fod yr awyr, bellaeh, wedi ei phuro trwy y cyfryw arllwysiad. Cafodd y drwg elfenau y fath arllwysiad o'u grym nes eu dyhysbyddu. Derbyniwyd yr aelodau dracheſn i gymundeb, ac adferwyd y swyddogion i'w lle. Canfu y ddwy ochr radd o'u coll a'u ffoledd; ac wedi treigliad peth amser dychwelodd yr achos i'w wedd gyntcfig, heb golli neb ymron a fuasai yn ennill eu cael.

Ië, nid gormod, fe allai, i'w dyweyd, ddarfod i les a iachusrwydd i'r cyfundeb yn y Gogledd, ac i sir Fflint yn neillduol, ddeillio oddiwrth y drafodaeth a fu yma. Blin iawn ydoedd tra y parhaodd, ond hyfryd y tawelwch a ddi-

lynodd. Nid oes gymdeithas eglwysig yn awr y mae ei heddwch yn fwy trwyadl na'r eiddo hon, na'r un ychwaith yn fwy ffyddlawn a gweithgar. Mae y sir hefyd mor unol a heddychol ag un yn Nghymru. Clybu yr Arglwydd yn ddiau lefain ei bobl, a safodd ar yr adwy. Yr Iesu a gododd ar gais ei ddysgyblion ac a geryddodd y gwynt a'r môr, a bu tawelwch mawr.

Ofer fyddai haeru nad satan fu yn ceisio y gymdeithas hon, i'w nithio fel gwenith; ond yr Iesu a weddiodd drosti, a hithau a achubwyd. Nid oes amheuaeth na chollodd llawer eu harafwch, ac na chafodd amhwylledd ormod o le yn y ddwy ochr, ac ynfydrwydd fyddai ceisio gwadu hyny; eto, fe gafwyd rhai i iawn-farnu, a'r pla a attaliwyd.

CAERGWRLE.

Mae y pentref hwn yn gorwedd rhwng Gwrecsam a'r Wyddgrug, yn agos i hanner y ffordd. O fewn tua dwy filldir iddo y mae y Plas-teg, lle y llety-asai Vavasor Powel noswaith; palas yr oedd ei berchenog yn elynol iawn i grefyddwyr, ond a achubwyd trwy weinidogaeth Mr. Powel, yr hwn y daethai y boneddwr i'r oedfa i'w ladd.* Yn yr un plwyf hefyd yr oedd tŷ Thomas Fenner,—y tŷ yr oedd y Parch. James Owen yn pregethu ynddo tua 200 mlynedd yn ol, pryd y daliasant y pregethwr, a rhyw nifer o'i gyfeillion, ac a'u dygasant i'r Wyddgrug; ac wedi eu ffug-holi yno gan yr Ustusiaid, a'u traddodasant i garchar Caerwys.† Yr ydym hefyd wedi gosod i lawr yr hanesyn a draethir gan Robert Jones yn "Nrych yr Amseroedd," am y Parch. David Williams, sir Forganwg, pa fodd y trinwyd ef pan y daethai i'r ardal hon i gyhoeddi newyddion da yr efengyl i'r trigolion tywyll.‡ Yr oedd y tro olaf hwn, tybygid, yn dygwydd rhwng y blynyddoedd 1740—60.

Nid yw yn ymddangos, pa fodd bynag, fod yma bregethu cyson o fewn y blynyddau hyn. Yr oedd pregethu lled gyson yn Adwy'r-clawdd; ardal o fewn pum' milldir i Gaergwrle; a chan fod y ffordd i'r Wyddgrug a'r Berthen-gron o Adwy'r-clawdd, yn gorwedd yn deg trwy Gaergwrle, tebygol ydyw y gwnaethpwyd cais, o leiaf, ar gyhoeddi yr efengyl yn y pentref hwn yn gynar ar y diwygiad Methodistaidd. Ond yr oedd y trigolion yn ynfydu yn erbyn y penau-cryniaid. Nid oedd y can' mlynedd a aethai heibio er y pryd y buasai y Parchn. V. Powel a James Owen yn yr ardal, wedi lliniaru dim ar ragfarn y bobl yn erbyn y gwirionedd. Mae hanes genym am un oedfa a gadwyd yma yn y fl. 1760. Yr oedd hyn cyn i Thomas y troellwr godi adeilad i'r dyben. Daeth gair i'r ardal fod un o'r Cradocs, neu y pen-gryniaid, i ddyfod i'r ardal i bregethu; a chyda'r newydd yr oedd yr hen ffyrnigrwydd yn ymddadebru, a'r bobl yn ymbarotoi i dalu yn hallt i'r pregethwr am ymyraeth â hwy ac aflonyddu ar eu heddwch. Yn mhen deuddydd neu dri, wele y gŵr dyeithr, yn ol ei addewid, wedi dyfod i'r fangre. Ceisiodd gael

* Gwel "Drych yr Amseroedd," tudal. 29. † Cyf. I., tudal. 41.
‡ Cyf. III., tudal. 23.

pregethu allan ar fin y ffordd, neu ar y cyttir, or ıd ni chaniatâi plant y fall
iddo. Gorfu iddo roi heibio a chilio o'r lle; ond fe'i harweiniwyd, trwy ryw
foddion neu gilydd, i frag-dŷ yn Mhen-y-bont; lle ; yn ngŵr dehcuol y pentref.
Canlynwyd ef gan ychydig bobl a fynent wran do y gair; ac wedi myned i
mewn i'r brag-dŷ, a rhag cael eu terfysgu mwyac h, fe gauwyd y drws, er mwyn
llonyddwch. Nid hir y bu y dyhiriaid heb gly wed am le eu cyfarfod; ac yn
llawn cynddaredd, am eu siomi hyd yn hyn yı eu hamcan, ymosodasant ar y
lle. Ond ni allent gael myned i mewn, yr oedd y drws wedi ei gau: ac fe
allai fod ofn arnynt ddryllio y drws, rhag y disgynai y perchenog arnynt am
y golled: ond ffurfiasant yr ystryw o dori tv ll yn mur yr adeilad, fel y gallent
wthio pibell, neu ryw offeryn cymhwys drw odd. A chan losgi *assafœtida* hwy
a chwythasant ei fwg drewllyd i mewn, a hyny i'r fath raddau, nes oedd yn
anmhosibl i'r ychydig bobl aros yn y lle . Felly, yn ol pob ymddangosiad,
erthylodd cais canmoladwy y pregethwr y tro hwn.

Tua'r fl. 1770, yr oedd yma un crefy ddwr; y gŵr y cryhwyllasom eisoes
am dano, sef Thomas Edwards.* Ga llwn feddwl mai yn Adwy'r-clawdd y
clywsai y gŵr hwn yr efengyl; yno pa fodd bynag yr oedd yn aelod, er ei
fod yn byw bum' milldir o ffordd oddi yno. Bu y gŵr hwn, er tloted ac mor
ddisylw ydoedd, yn offeryn i ddwyn gweinidogaeth y gair i'r pentref tywyll
hwn. Bu yn foddion hefyd i enn ill amryw o deulu gŵr o'r enw Edward
Ellis, o'r Cymmau, nid i wrando yr e fengyl yn unig, ond hefyd i'w derbyn a'i
chredu;—teulu a fu yn swer dros l awer o flynyddau i Fethodistiaeth yn yr
ardal. O'r teulu hwn fe ddygwyd chwech i broffesu crefydd, sef pum' mab
ac un ferch; un o honynt oedd y Parch. Robert Ellis, y Wyddgrug, yr hwn
a fu dros ryw dymhor yn efryd ydd yn athrofa Iarlles Huntingdon, ac wedi
hyny yn weinidog, cywir a g nest ei ysbryd, er nad dysglaer a gwych ei
ddawn, yn rhestr Methodistia id Cymru. Treuliodd tri o'r brodyr eraill eu
hoes yn Nghaergwrle a'i chym ydogaeth, a bu un o honynt, sef John Ellis, yn
henuriad tra pharchus o'r e glwys hono hyd ei farwolaeth. Am y chwaer,
Dorothy, wedi hyny Mrs. Pe ters, hi oedd, os deallwn yn gywir, blaenffrwyth
yr efengyl; yn y teulu, ac yn yr ardal hefyd, oddigerth Thomas Edwards ei
hun. Nid yw crefydd ch waith ddim wedi gadael y teulu hwn eto; mae y
chwaer a fu mor ffyddlon wedi ei symud i'r bedd er ys blynyddau, a'i brodyr
oll o'i blaen; ond y mae ei gŵr eto, dros ychydig, yn nghyda'i phlant ar y
maes, a gobeithiwn y l ydd ei hwyrion hefyd yn dylyn ei hesiampl, ac yn
cyfranogi o'i hysbryd.

Ar ol marwolaeth Th omas Edwards, disgynodd gofal yr achos crefyddol ar
Miss Dorothy Ellis yn benaf, yr hon a gynorthwyid gan ei brawd William.
Daeth y ddau i fyw i'r Pentref er mwyn hyn yma, a chawsant y fraint o fod
yn ymgeledd a chysu ur i weision Crist dros lawer o flynyddau. Yn yr am-
ser y bu farw Thom as Edwards, ac y daeth Miss Dorothy Ellis a'i brawd i

* Gwel fwy o'i hanes, Cyf. I., tudal. 300.

Gaergwrle i fyw, yr oedd y pregethwyr Methodistaidd yn dechreu amlhau. Nid yw adeg marwol eth Thomas Edwards genym, ond barnu yr ydym ei fod ryw bryd rhwng 17 '70—80; ac felly rhaid yw fod Mrs. Peters yn dal cysylltiad â'r achos yn Nghaergwrle am yr ysbaid maith o 60 mlynedd neu fwy. Yn mhen rhyw gyn naint o amser ar ol iddi hi ddyfod i fyw i'r Pentref, y dygwyd John Jones, y g wehydd, i undeb â'r ychydig grefyddwyr ag oedd, bellach, wedi ymgrynhoi y n y lle. Yr oedd y gŵr hwn ar y pryd, tua 24 ml. oed, ac wedi bod yn llencyn gwyllt ac afradlon; ond yn awr wedi ei ddwyn ato ei hun; ac yn fu an, sef yn y fl. 1789, dechreuodd bregethu. Bu hyn yn gyfnerthiad mawr i 'r achos gwan. Ac er nad oedd nifer y crefyddwyr eto ond bychan, a'r rha n fwyaf o honynt ond tlodion, yr oedd iddynt gryn ddylanwad, ar gyfrif fod eu cymeriad crefyddol yn uchel. Bu dylanwad eu cymeriad, yn nghyda difrif vch eu cynghorion, yn foddion i ddarostwng y camp-chwareuon ag oeddynt y n uchel eu bri ar fynydd gerllaw y pentref, ac mewn lle nodedig mewn ardal c yfagos, sef Ffordd-las y Cymmau.

Tua'r fl. 1804, ymadawodd ohn Jones â Chaergwrle, ac aeth i fyw dros dymhor byr i Laneurgain, a th rachefn yn ddiweddaf i Dreffynnon.* Yn y fl. 1809, adeiladwyd yma gapel; vr hwn, dros ryw dymhor, a fyddai yn llawn o wrandawyr; ond trwy fod yr a rdal yn Saesnigo fwyfwy, a thrwy fod cynulleidfaoedd eraill wedi codi ar bob llaw, nid yw gwedd presenol yr achos mor flodeuog ag y gwelwyd ef g ynt. Mae eglwys fechan Caergwrle wedi cynorthwyo mewn rhyw raddau i blanu llawer o eglwysi eraill yn y fro, yn mysg y Saeson a'r Cymry; megys Ti euddyn, Coed-llai, Horeb, Ffrith, Bethlehem, a Seion. Mae dau o'i hen fla noriaid eto yn aros, sef Mri. E. Peters ac Edward Ellis.

PENNO D II.

PARHAD O ORSAFOEDD CYNTAF METHODISTIAETH SIROEDD DINBYCH A F FLINT.

CYNWYSIAD:—

TAN-Y-FRON A BRYN-BUGAD—GORTHRYMU EDW VARD PARRY—"HUGHES FAWR"—EDWARD PARRY YN WARDEN—LLEDAENIA D YR ACHOS—ADFYWIAD GRYMUS YN MRYN-BUGAD—PREGETHWYR A GODODD YNO—JOHN LLWYD, JOHN JONES, JOHN DAVIES, JOHN WILLIAMS, JOHN DAVIES , NANTGLYN—PETER ROBERTS—LLANSANAN—ROBERT ROBERTS—DINBYCH.

TAN-Y-FRON A BRYN-B UGAD.

Hen orsafoedd cyntaf Methodistiaeth yn y gwled vdd hyn, fel y crybwyllasom, oeddynt Bryn-bugad, Pont-uchel, Capel-dyffryn, A dwy'r-clawdd, a'r Berthengron. Yr ochr arall i'r wlad yr oedd Llanrwst, I lansantffraid, a'r Roewen.

* Gwel ei hanes dan "Hanes Treffy. nnon."

Yr ydym wedi rhoddi hanes Tan-y-fron yn lled helaeth eisoes,* o ran dechreuad Methodistiaeth yno; a'r difrod a wnaethai ymraniad 1751 ar yr achos gwan. Ymddengys mai Cefn-byr, tyddyn yn agos i Lansanan, oedd y lle cyntaf yn y gymydogaeth hon y bu pregethu ynddo. Yma yr oedd Edward Parry y pryd hwnw yn byw; a Dafydd William Rhys, gŵr o'r Deheudir, oedd y pregethwr a bregethodd yr ail waith yn y lle; nid yw enw y cyntaf ar gael, yn unig dywedir mai un o'r Deheudir oedd hwnw hefyd.

Nid hir y cafodd Edward Parry lonydd heb ddyfod dan ŵg y gwrthwynebwyr. Codwyd ef o'i dyddyn, fel y dywedasom o'r blaen; eto, cododd rhagluniaeth ryw rai i'w amddiffyn, a chafodd le i adeiladu tŷ arno, ac ychydig o dir yn gydiol âg ef. Gelwid y lle hwn, Tan-y-fron. Wedi bod yn byw yn y tŷ newydd hwn rai blynyddau, ac yn gweithio ei grefft, fel saer coed; yn y fl. 1761, fe gymerodd dyddyn, yn ymyl ei gartref, o'r enw Brynbugad, lle yr arosodd hyd o fewn ychydig i'w farwolaeth. Dyrysodd yr ymraniad rhwng Harris a Rowlands lawer ar Edward Parry;† ond yn mhen rhai blynyddau, dadebrodd drachefn, ac a fu yn un o'r dynion mwyaf bendithiol i'w wlad a'i genedl, o neb ymron yn ei oes. Yr oedd Edward Parry yn tueddu i bleidio Mr. Harris yn hytrach na Mr. Rowlands, yn y ddadl oedd rhyngddynt; nid oedd yn unig chwaith yn hyny; yr oedd y rhan fwyaf o gynghorwyr Gwynedd yn tueddu yr un ffordd, fel yr oedd cynghorwyr y Deheudir yr ochr arall. Yn hyn gwahaniaethai Edward Parry oddiwrth ei dad ei hun; y ddau hefyd a arddelwent bob un ei blaid; un trwy dderbyn pregethwyr pleidiol i Rowlands, a'r llall y pregethwyr a ymlynent wrth Harris. Ond nid hir iawn y parhaodd pleidwyr Harris i ddyfod ar hyd y wlad, felly gadawyd Edward Parry ei hunan; digalonodd yntau, ac a aeth dros dymhor, yn ei ol at eglwys Loegr.

Yn chwanegol at yr hyn a ddywedwyd am Edward Parry, pan ydoedd yn warden yr eglwys, tystir ei fod yn arfer myned i bob man y clywai am dwmpathau chwareu ar y Sabboth, a darllen gosber yno; a chymeryd achlysur, wrth fyned yn mlaen, i wasgu y gwirionedd at gydwybodau y campwyr. Bu hyn yn foddion nid yn unig i chwalu holl chwareuyddiaethau yr amgylchoedd, ond hefyd i ddeffro ystyriaeth yn meddyliau llawer am eu hachos tragwyddol. Unwaith pan oedd ef yn darllen y gosber yn Mryn-bugad, ac yn adrodd pennill o hymn i'w ganu, meddyliodd nad oedd y gynulleidfa yn deall dim o'r hymn. Ei chynwysiad oedd dyfodiad Israel o'r Aipht i Ganaan. Parodd yr ystyriaeth yma iddo ddechreu ei hegluro. Olrheiniodd hanes Israel o alwad Abram, ei ymdeithiad yn nhir yr addewid, gorthrymder Israel yn yr Aipht, eu gwaredigaeth, a'u dyfodiad yn y diwedd i Ganaan. Tra yr oedd yn llefaru fel hyn, disgynodd arno ef, ac ar y bobl oedd yn gwrando, ryw hwyl hyfryd, gwahanol i ddim a brofasent o'r blaen. Ystwythodd hyn ei ysbryd, i ymosod at yr un gwaith ag o'r blaen. Ymunodd yn ebrwydd â phobl Mr. Rowlands, fel y'i gelwid; bu ei dŷ yn gartref i'r achos, a hyny

* Cyf. I., tudal. 142. † Cyf. I., tudal. 403.

hyd adeiladiad y capel; a bu yntau ei hun yn ffyddlawn ac effro dros weddill ei ocs.

Yn y fl. 1763, bu farw ei wraig, ac yn mhen dwy flynedd wedi hyny, efe a ail-briododd. Yr oedd, bellach, wedi dechreu pregethu eilwaith. Oddeutu yr amser hwn daeth person Ysbytty Ifan, gŵr o'r enw Mr. Hughes; gŵr, meddir, o sir Fôn, drwy y wlad i bregethu, a chafodd dderbyniad ewyllysgar yn Arllwyd, yr amaethdŷ yr oedd gwraig Edward Parry yn byw ynddo. Yr oedd Arllwyd, neu Garllwyd, ar derfynau Llansanan, Llanefydd a Henllan, ac wedi rhoddi y gair ar led y byddai offeiriad yn pregethu yn y tŷ, daeth lluaws mawr o bobl ynghyd i wrando, o'r holl amgylchoedd; llawer mwy nag a gynwysai y tŷ. Ac felly bob tro y cyhoeddid Mr. Hughes i bregethu yno, yr hyn a wneid dros ryw ysbaid, bob tair wythnos neu fis. Gan fod y tŷ yn rhy gyfyng, arferai y pregethwr sefyll ar riniog yr ysgubor, a'r gynulleidfa a safai ar y buarth, o'i flaen. Deuai pregethwyr eraill yno yn eu tro pan fyddai cyfleusdra yn rhoi.

Yr oedd gan Edward Parry, y pryd hyn, ddwy fferm; Bryn-bugad, ei gartref ei hun, ac Arllwyd, cartref y wraig. Parodd y cynulliadau lluosog yn Arllwyd gryn gyffro a siarad, a ffromodd person Llansanan yn dost. Deallai fod person Henllan (plwyf arall cyfagos), yn gyfaill mawr â meistr tir Arllwyd; anfonodd at hwn, gan hyny, i ddeisyf arno ymdrechu gyda pherchenog y tir i roddi rhybudd i wraig Edward Parry i ymadael. Ar yr un pryd, ac heb wybod am y brâd oedd yn gweithio yn ei erbyn, yr oedd yntau wedi penderfynu rhoddi ei dyddyn, sef Bryn-bugad i fyny, a myned i drigo yn hollol i Arllwyd at y wraig. Aeth ef i dalu am ei dir ac i'w roi i fyny; aeth y wraig hefyd i dalu, a chafodd rybudd i ymadael; felly erbyn cyfarfod â'u gilydd, yr oedd y ddau dyddyn megys wedi eu colli. Ymadael hefyd a fu raid o Arllwyd; a thrwy gryn anhawsder, ac am nad oedd neb arall yn ei geisio, y cafodd efe barhau yn y Bryn.

Bellach, yr oedd y wlad yn dechreu ymuniawnu ar ol rhuthr yr ymraniad, ac ymlaen yr aeth y diwygiad yn yr ardal hon. Yr oedd Edward Parry a'r wraig o'r un meddwl, ac o un galon, yn ceisio hyrwyddo y gwaith da yn ei flaen. Tua'r fl. 1767 oedd yr amser y darfu iddynt ail ymsefydlu yn Mryn-bugad. Yr oedd y pregethwyr, bellach, yn dechreu amlhau. Ymwelid â Thau-y-fron gan bregethwyr o Fôn, Arfon, Meirion, a Fflint; heblaw ambell un o sir Drefaldwyn. Yr oedd John Evans, Thomas Foulkes, ac Humphrey Edward, Bala, yn arfer yn fynych ymweled â'u brodyr yma; ac ymddangosai mwyfwy o sirioldeb ar yr achos. Y pryd hyn y dechreuwyd sefydlu cymdeithas eglwysig yn y lle; cedwid y cyfarfodydd yn nhŷ Bryn-bugad, ar ddydd Iau yn yr hwyr. Dyma y gymdeithas eglwysig gyntaf yn yr holl wlad hon. Cynyddodd yn gyflym mewn rhif, ac mewn dylanwad. Aeth y tŷ yn rhy fychan i gynwys y rhai a ddeuent ynghyd i'r cyfarfodydd eglwysig; eto, hyd yma, Edward Parry oedd prif ffon yr achos, os nad arno ef y disgynai yr holl draul.

Yr oedd Bryn-bugad, bellach, yn lle o gyrchfa nodedig iddo. Ymgynullai

pobl o wyth neu ddeg o blwyfau cylchynol yno i wrando pregethu; a llawer iawn a gafodd brofi awdurdod y gwirionedd ar eu cydwybodau. Codai amryw o bregethwyr ieuainc yn ngwahanol gyrau y wlad; a hoff oedd gan Edward Parry fyned i bregethu i ardaloedd newyddion, ac arloesi y ffordd o flaen pregethwyr llai eu gwroldeb nag ef; a thrwy hyn yr oedd Methodistiaeth yn ymeangu yn gyflym, ac yn ymledaenu yn mhell. Yr oedd hen bregethwyr y Deheudir, hefyd, yn dechreu dyfod eilwaith i'r Gogledd; a chan anghofio ymddyeithriad Edward Parry dros dymhor, ymwelent â Bryn-bugad, a derbynid hwy yn groesawgar a llawen.

Yr oedd yn perthyn i Gymdeithas neillduol Bryn-bugad, amryw aelodau o Henllan—yr oedd yn aelod yuddi John Williams, Bryn-deunydd, plwyf Llanefydd; a Robert Owen, Tŷ'n-y-llidiart; William Jones, Nant, plwyf Abergele; Thomas Hughes, crydd; a Dafydd Siôn Prys, y prydydd, athraw ysgol Llanfair-talhaiarn. Ymunodd hefyd un John Williams, Bryn-hafod, yn agos i Wytherin; ac un John Davies, Pentrefoelas. Yr oedd yr holl frodyr hyn yn barod i agoryd eu drysau i Edward Parry, ac eraill, ddyfod i'w tai i bregethu; a thrwy wneuthur hyny bu Edward Parry yn foddion i gychwyn yr achos, i fesur mwy neu lai, yn yr holl ardaloedd cylchynol.

Yr oedd Edward Parry yn nodedig am dori tir newydd, a dwyn yr efengyl i ardaloedd tywyll a digrefydd. Yr oedd ei gymhwysder i hyn yma, yn cyfateb yn gyflawn i'w awyddfryd. Profai ei faterion yn fynych o erthyglau eglwys Loegr; a dangosai fod eu wrandawyr yn euog yn ol eu safon eu hunain. Yr oedd ganddo lawer o hyawdledd naturiol, a pharodrwydd ymadrodd. Yr oedd hefyd wedi darllen ymron yr holl lyfrau Cymreig ag oeddynt i'w cael yn yr iaith; ac felly wedi eangu ei feddwl a choethi ei syniadau, ymhell tu hwnt i'w gydoeswyr yn gyffredin. Rhoddai hyn uwchafiaeth neillduol iddo ar ei gydwladwyr; a chan fod ei wybodaeth a'i dalentau wedi eu santeiddio â gras, yr oedd ganddo ddylanwad ehelaeth er gwneuthur daioni i'w genedl; a daioni mawr yn ddiau a wnaeth; daioni o'r natur uwchaf, a daioni y bydd ei effeithiau yn cyrhaedd cenedlaethau pellaf amser; ïe, trigfanau dedwydd tragwyddoldeb.

Tua'r amser yr oedd yr aelodau crefyddol yn Mryn-bugad yn lluosogi, ymunodd gŵr a fu ar ol hyny o ddefnydd helaeth gyd â'r achos yn ei ddydd, sef Robert Roberts, Grugor-isaf; lle nid ymhell o Fryn-bugad. Yr oedd ei wraig, pa fodd bynag, yn dra gwrthwynebol iddo o achos ei grefydd; gan gwbl gredu, tybygid, fod y crefyddwyr, fel y'u cyhuddid, yn arfer ymgynull at eu gilydd i ddybenion bryntion a ffiaidd. Cafodd Edward Parry gyfleusdra, ar ryw achlysur, i ymddyddan â'r wraig, a gofynodd iddi, "Ai gwir oedd ei bod yn anfoddlawn i'w gŵr ddyfod i'r oedfaon?" Hithau a gyfaddefodd mai gwir oedd hyny, gan na wyddai lai nad cywir y cyhuddiadau a osodid yn eu herbyn, am ddybenion y cyfarfodydd eglwysig.

"Os felly," atebai Edward Parry, "deuwch yno eich hun; rhof fy ngair y cewch ddyfod i mewn pryd y mynoch, a myned allan pryd y mynoch, heb

i neb ddyweyd dim wrthych, na gofyn dim i chwi; a thrwy hyny chwi gewch wybod pa beth sydd yn myned yn mlaen yn mharlawr y Bryn, yn y '*Weddi dywyll.*'" Y Sabboth canlynol hi ddaeth i'r oedfa, a chyhoeddodd Edward Parry y cedwid cyfarfod mwy neillduol ar ol y bregeth, a bod rhyddid i'r neb a ewyllysiai aros gyda hwy. Yn y cyfarfod hwnw arhosodd y wraig, a dywedir mai anhawdd fuasai i neb brofi ddarfod iddi esgeuluso moddion cyhoeddus na neillduol byth wedi hyny. Aeth yn fuan yn fwy bywiog ei hysbryd, ac yn fwy agored ei chalon, at achos crefydd na'r eiddo ei gŵr. Rhoes brawf arbenig o naws ei hysbryd trwy'r amgylchiad canlynol:—Yr oedd herlodes ieuanc, o'r enw Elin Roberts, yn byw yn y gymydogaeth, yr hon oedd yn effro a bywiog gyda chrefydd. Yr oedd ei thad, pa fodd bynag, yn dra gelynol at grefydd, ac yn dra chreulawn tuag at ei ferch oblegid ei chrefydd. Os dygwyddai iddo un amser ei chael ar ei gliniau yn gweddio, a hyny a allai ei gael yn fynych, efe a'i curai yn ddidrugaredd â ffon; cymaint felly ag y byddai yn enbyd iddi am ei bywyd. Yn y cyfamser syrthiodd y ferch ieuanc i glefyd trwm; er hyny ni oddefai ei thad ei dwyn i'w olwg ef; pa beth a ganlynasai yr ymddygiad annynol hwn, ni ellir ond dychymygu, oni bai i'r wraig uchod ei derbyn i'w thŷ a'i hymgeleddu.

Yr oedd Edward Parry yn barod i weithredu ar bob achos, ac ymhob ffurf, os gallai mewn un modd fod o ryw wasanaeth dros ei Arglwydd. Yn ei ddydd ef yr oedd llyfrau yn anaml yn y wlad, a manteision gwybodaeth o angenrheidrwydd yn brinion iawn. Yr oedd yr ysgol Sabbothol hefyd heb ddyfod i'r golwg. Dibynai y trigolion ymron yn gwbl ar yr hyn a glywent o'r pwlpud am bob amaethiad meddwl. Ond yr oedd Edward Parry ei hun ymlaen, fel y dywedwyd, gryn lawer, ar ei gydwladwyr mewn cangiad meddwl; a defnyddiai bob moddion o fewn ei gyrhaedd i hyrwyddo diwylliad ei genedl. Am hyny, pan ddaeth Beibl, ynghyd a sylwadau Peter Williams arno, allan, efe a wnaeth ei oreu i'w ledaenu yn ei ardal; nid yn unig er mwyn y gŵr parchedig a'i cyhoeddai, ond er mwyn helaethiad breintiau ei gymydogion.

Nid llawer a deithiai y pregethwr hwn ymhell o'i gartref, a phan yr elai, mawr fyddai ei ofal fod ei gartref yn cael tegwch yn y cyfamser. Teithiai lawer er hyn oll yn ei wlad; ac yn achlysurol cyniweiriai i wledydd eraill. Ymwelodd ag eglwysi Môn, Arfon, a Fflint; a chrybwyllir ddarfod anfon am dano unwaith i Lundain i weini i'r Cymry yno yn cengyl Crist. Cof oedd gan ei fywgraffydd ddarfod cynal cyfarfod i weddio yn Mryn-bugad cyn ei gychwyn, am nodded yr Arglwydd drosto, ac arddeliad a llwyddiant ar ei lafur. Yr oedd myned i Lundain yn ystod y ganrif ddiweddaf yn beth tra gwahanol i'r hyn ydyw yn awr; a llawer o galondid, yn ddiau, i feddwl yr hwn a gychwynai yno, oedd fod yr Arglwydd yn cael ei gyfarch gan ei bobl ar ei ran. Byddid yn ei annog i fyned yn amlach trwy y gwledydd i bregethu; ond ei ateb fyddai, "Nid oes genyf ddoniau i wneyd y lles a ddymunwn i'm gwrandawyr." Nid oedd, fel yr ymddengys, yn arfer cyfansoddi ei bregeth-

au mewn trefn, a chyda manyldra; ond dibynai yn hytrach ar y wybodaeth gyffredinol a feddiannai, ac ar y rhwyddineb a roddid iddo i draethu ar y pryd. A pha beth bynag a feddylid am ddull felly yn awr, nid oes llawer o amheuaeth nad oedd yn llawn mor gymhwys i wrandawyr yr oes hono, ag a fuasai dull caethach a manylach.

Cafodd Edward Parry fyw i weled cryn lwyddiant ar y gwaith yr oedd ei fryd arno gymaint. Aeth y gynulleidfa yn rhy luosog i'r tŷ. Aeth yntau yn anesmwyth am gael adeiladu capel. Dygwyddiad anfynych, yn y dyddiau hyny, oedd fod gŵr boneddig yn foddlawn i roddi, nac i werthu tir i'r fath ddyben. Yr oedd boneddwr wedi bod yn ffafriol iddo ef ar ddechreuad ei grefydd, trwy osod iddo le bychan yn Nhan-y-fron; a chafodd, ymhen 25 o flynyddau, garedigrwydd gan ei ŵyr ef, sef gan John Foulkes, ysw., o'r Wenallt; trwy gael lle ganddo i adeiladu capel arno. Adeiladwyd ef, gan hyny, ar dir Tan-y-fron, yn ymyl y tŷ a adeiladasai gynt iddo ei hun. Yr oedd y lle, y pryd hwnw, yn enwog yn y Gogledd. Nid oedd ond ychydig o gapelau wedi eu hadeiladu o'i flaen, sef yn y fl. 1773; yr oedd sirioldeb neilldnol ar y gwaith yn ei holl ranau, a llaweroedd wedi "rhoddi y gwddf ynddo." Cynelid yn Nhan-y-fron gymdeithasfäau a chyfarfodydd misol; ac ar y cyfryw achlysuron yr oedd y capel yn llawer rhy fychan. Ar ryw adegau arbenig o'r fath rhoddid prawf nad oedd yr hen ysbryd erlidigaethus ddim wedi cwbl farw, er nad ymddangosai ond anfynych mewn amgylchiadau cyffredin. Un tro yr oedd Mr. Charles, Bala, i bregethu yno; pa un ai mewn rhyw gyfarfod neillduol, ai ar ei gyhoeddiad ei hun, ni ddywedir; ond yr oedd y gynulleidfa, pa fodd bynag, yn rhy fawr i'r capel. Dechreuodd Mr. Charles yr oedfa, gan hyny, ar yr heol; ond yn y fan, dechreuwyd canu cloch yr eglwys i gadw gwasanaeth. Penderfynodd yntau, yn hytrach nag arddanges dim gwrthdarawiad i'r eglwys, fyned i'r gwasanaeth, a'r holl gynulleidfa a aeth gyd âg ef, nes oedd y llan yn llawnach nag y gwelsid hi erioed o'r blaen. Ar ol dyfod allan, dechreuodd Mr. Charles eilwaith; ond daeth yr offeiriad ato i ddyweyd, ei fod yn sefyll yn rhy agos i wàl y fynwent! Rhag rhoddi dim tramgwydd i'r gŵr urddasol, symudodd drachefn i le arall, tua chwarter milldir ymhellach; a chafwyd llonyddwch bellach i orphen yr oedfa. Ar ol hyn, anfonodd yr offeiriad wahoddiad i Mr. Charles ac Edward Parry, i ddyfod i giniawa gyd âg ef dranoeth: pa un ai bod hynawsedd Mr. Charles wedi darostwng peth ar ei ragfarn, neu y mynai, rhag cywilydd, wneyd y sarhad i fyny goreu gallai yn ngolwg y plwyfolion; ai mewn ffordd o amddiffyn ei hun, ac ymliw â Mr. Charles y gwnaeth efe hyny, nid yw yn hysbys; ond ni allai Mr. Charles, pa fodd bynag, gydsynio â'r gwahoddiad, gan ei fod yn rhwym o fod mewn lle arall yn pregethu.

I ddangos y parch a lochesid i Edward Parry, gan y rhai a'i hadwaenai, adroddir y chwedl ganlynol. Rhyw ŵr adnabyddus o hono a ymosododd at y gorchwyl o adeiladu llong; ac o barotoi y defnyddiau ati mewn coed gerllaw Tan-y-fron. Pan ddaeth yr amser i gludo y defnyddiau i Dal-y-cafn,

lle yn agos i Gonwy, i'w gosod wrth eu gilydd; gofynodd y gŵr i Edward Parry a ddeuai efe i bregethu ar ei bwrdd, ar y dydd y gollyngid hi i'r môr. Gyda pharodrwydd efe a gydsyniodd. Fel yr oedd y diwrnod yn agosâu, rhoddwyd y gair allan y byddai pregeth ar fwrdd y llong, ar ddiwrnod y *launch;* a chan newydd-deb y peth, y tro cyntaf o'r fath, mae'n debyg, er creadigaeth y byd, yn yr ardal hono, daeth lluaws mawr o bobl ynghyd; i'r rhai y pregethodd yntau gyda blas a rhwyddineb mawr. Wedi darfod, gofynodd perchen y llong iddo. "Pa beth a ofynai am ei boen?" "Nid wyf byth," ebe y pregethwr, "yn cymeryd y boen yma am arian."

"Deuwch gyda fi, ynte," ychwanegai y gŵr, "i Gonwy, i gael bwyd a diod."

"Ni allaf hyny chwaith," ebe y pregethwr, "ar hyn o bryd, diolch i chwi."

"Yna cymerwch hyn o rodd," ebe yntau, gan estyn iddo haner gini, "i geisio bwyd a diod ar y ffordd."

Tystiai gŵr o Gonwy, yn mhen 20 mlynedd wedi y tro, pa faint o argraff a wnaethai y bregeth hono ar ei feddwl; ac adroddai gyda dyddordeb ranau helaeth o honi.

Wedi llafurio yn ffyddlawn ac effro dros ysbaid 10 mlynedd neu fwy ar ol adeiladu y capel, teimlodd ei hun yn gwanychu o ran ei iechyd; penderfynodd adael y tyddyn i'w deulu, a chilio, ef a'i wraig, i'r tŷ a godasai gynt, wrth yr hwn yr adeiladwyd y capel; gan fwriadu treulio gweddill ei oes mewn myned oddiamgylch, yn ol ei allu, i bregethu yr efengyl. Ond yr oedd ei amser ymron ar ben. Sylwyd ei fod yn cwyno gan wendid, a pheth poen, am agos i ddwy flynedd, cyn iddo glafychu o'r dwymyn y bu efe farw. Cymerodd ei ymadawiad le yn Medi 16, 1784, pan ydoedd yn 63 ml. oed.

Daeth Mr. Charles, Bala, i bregethu yn ei gynhebrwng; a than ei bregeth, torodd y dyrfa allan mewn cymysg alar, a gorfoledd, mewn modd tra anarferol; a phrofid eryn anhawsdra trefnu pethau yn weddus i gychwyn tua'r gladdfa. Fel yr oedd y dyrfa luosog yn dynesu at y llan, rhoddwyd gair allan i'w ganu; a'r fath ganu a fu ar nis clywsid yn Llansanan erioed o'r blaen. Safasant wrth borth yr eglwys, ond parhausant y gân, gan ail-ganu y geiriau drosodd a throsodd, a'r offeiriad yn sefyll gerllaw, yn dysgwyl dystawrwydd; ond yn lle dybenu y gân mewn dystawrwydd, terfynodd mewn gorfoledd a mawl, fel y gwnaethai y bregeth wrth y tŷ. Bu raid i'r offeiriad o'r diwedd ofyn, pa un ai efe, ai rhyw un arall a ddysgwylid i gladdu y marw. Bellach, dystawodd y bobl, a chyflawnwyd a gwasanaeth. Claddwyd y diwrnod hwnw, weddillion un, na chladdesid yno, ond odid, erioed ei gyffelyb o'r blaen; un ag oedd mewn gwirionedd yn mysg rhai "rhagorol y ddaear."

Ryw bryd rhwng 1765 a 1770, torodd adfywiad grymus allan yn Mrynbugad. Yr oedd rhyw rai a fyddent yn arfer, yn achlysurol, a thori allan mewn llefain a mawl, a aethant i Fryn-bugad o Gapel Dyffryn, ac o'r Bont-

uchel; a buan yr aeth yr holl gymdeithas eglwysig, yn hen ac yn ieuanc, yn fflam. Aeth y son am y peth dyeithr hwn yn ebrwydd trwy yr holl wlad; a sugnodd luaws o bobl o ardaloedd eraill i weled ac i glywed. Safai rhai o'r edrychwyr yn sŷn heb wybod pa farn i'w ffurfio; rhai a wawdient yn erchyll, ac a ledaenent y chwedlau mwyaf anferth am y peth; a rhai a ddelid megys â gwŷs; ac er maint a fuasai eu gwrthdarawiad o'r blaen, hwy a ymostyngent yn ddiddig i saethau llymion argyhoeddiad, gan adael dros byth y campau a'r oferedd a fuasai unwaith mor hoff ganddynt. Cedwid yr oedfaon ar y pryd, am dri o'r gloch prydnawn Sabboth, a mynych y parheid mewn gweddi a mawl, hyd wawr y dydd dranoeth.

Oddeutu yr un amser, syrthiodd ar feddyliau bechgyn ieuainc, yn enwedig pedwar ag oeddynt yn gweini gyda Robert Roberts, Grugor-issa', i ymgynull at eu gilydd i ddarllen a gweddio. Ar ol yr oedfa prydnawn Sabboth, yn lle ymdyru i chwareu fel y gwnaethent, ymgyfarfyddent, gyda sobrwydd a difrifwch, i gynghori ac egwyddcri eu gilydd. Nid oes hanes fod neb o honynt yn meddwl ddarfod i neb wneyd felly erioed o'u blaen; nid efelychu neb arall yr oeddynt, ond disgyn a wnaeth y peth ar eu meddyliau eu hunain, er mwyn adeiladaeth a budd. Aeth y son am y fath gyfarfod yn gyflym drwy y gymydogaeth, a dacth eraill atynt o blant yr ardal, nes oeddynt yn gryn rifedi. Barnodd Edward Parry yn oreu arolygu dros yr ieuenctyd hyn, a gwahoddodd hwy i gyfarfod yn mharlawr Bryn-bugad. Cafodd hefyd gan eu meistriaid-gwaith ganiatâu iddynt ddyfod at eu gilydd un noswaith yn yr wythnos; ac yntau ei hun a benderfynodd eu cyfarfod a'u hegwyddori. Fel hyn, ceid y bobl ieuainc yn y parlawr, a'r bobl hen yn y gegin, a'u bryd ar yr un amcan, ac yn trafod yr un pethau. Caed allan, pa fodd bynag, cyn hir, fod y ddau gyfarfod yn rhy agos at eu gilydd; gan y dygwyddai, yn lled fynych, y byddai y naill yn tori allan i lefain neu i foliannu, ac yn sugno y lleill atynt. Dygwyddai hyn weithiau yn mysg y plant, ac weithiau yn mysg yr hen bobl. Oddiar hyn, barnodd Edward Parry yn oreu daclu yr hen ysgubor yn Nhan-y-fron, i gynulliad yr ieuenctyd; ac yno yr ymgyfarfyddent yn gyson dros rai blynyddau. Yr oedd eu rhifedi unwaith yn bedwar-ugain neu gant. Bu y cyfarfodydd hyn, dan arolygiaeth gwŷr hen a doeth, yn dra bendithiol. Mewn amser, chwalwyd rhai o'r aelodau i gymydogaethau eraill; ciliodd rhai yn eu hol at eu hen bleserau; ond eraill a lynasant wrth yr Arglwydd a'i achos dros eu hoes.

Cododd amryw o ddynion gwerthfawr a defnyddiol yn eglwys Tan-y-fron o bryd i bryd, y rhai ni eillir gwneyd ond eu coffâu, ar hyn o bryd. Sonir am un John Foulkes o'r Nant, yn mhlwyf Henllan, yr hwn a ddaeth yn aelod yn Mryn-bugad; a'r hwn, o herwydd ei ymlyniad wrth grefydd, a drowyd gan ei rieni o'i gartref; gan benderfynu na chai loches dan eu cronglwyd hwy, oddieithr iddo adael y crefyddwyr yn llwyr ac am byth. Dewisodd yntau ddwyn y groes a dilyn Crist. Derbyniwyd ef gan Edward Parry, a bu yn gweini iddo, dros ryw dymhor, fel gwas neu weithiwr. Yr oedd yn ddyn

ieuanc mawr ei ddawn mewn gweddi; a gwahoddid ef, yn awr ac eilwaith, i fyned gyda phregethwr i ddechreu yr oedfaon, ac i lefaru ychydig o flaen un henach nag ef. Ennillodd yn raddol ei le yn ngymeradwyaeth ei frodyr, a llochid y dysgwyliad y byddai yn ddyn defnyddiol yn ei oes. Ond y mae tywyllwch yn aros hyd heddyw am ei ddiwedd. Dywedir iddo fyned oddicartref dan ryw brofedigaeth, ac na chlybuwyd am dano byth mwy.

Un arall a ymunodd â'r eglwys yn fore oedd Thomas Hughes, crydd o Lanfair-Talhaiarn; yr hwn ar ol hyn a ddangosodd lawer o ffyddlondeb gydag achos yr efengyl yn ol ei ddawn a'i amgylchiadau. Bu fyw ar ol hyn yn Mochdre' a'r *Gatehouse;* a thrachefn yn Mochdre', y lle hefyd y terfynodd ei oes. Cawn achlysur i alw sylw y darllenydd at y gŵr hwn eto, fel y cawsom achos i grybwyll ei enw o'r blaen.*

John Llwyd, Llansanan, hefyd, oedd un arall a gododd yn Nhan-y-fron, neu Fryn-bugad. Bu y gŵr hwn yn pregethu am ysbaid maith, nid llai nag o 50 i 60 o flynyddau; a chan fod rhyw hynodrwydd arno, o ran amgylchiadau ei oes, ac yn enwedig o ran rhyw ffraethineb priodol iddo ei hun; dyddorol gan y darllenydd, yn ddiau, fydd clywed ychwaneg am dano.

Ymddengys ei fod ef wedi cael mwy o fanteision crefyddol na llawer o'i oes a'i wlad; gan fod ei fam a thri o'i frodyr yn aelodau eisoes gyda'r Methodistiaid yn y Bryn-bugad. Eto, gwyllt a diriedus oedd Siôn; nodedig, yn anad neb o'i gyfoedion, am ryw gastiau dichellgar. Ond fe'i daliwyd ef yn gynar ar ei oes, yn y fl. 1765, pan nad oedd onid 14 ml. oed. Rhyw brydnawn teg yn yr haf, y flwyddyn hono, yr oedd oedfa wedi ei chyhoeddi i fod ar fin y ffordd, yn agos i'r Dafarn-newydd, ar y ffordd o Lansanan i Nantglyn; penderfynodd Siôn Llwyd ac eraill o'i gyfoedion i fyned i'r oedfa heb un dyben gwell ganddynt yn yr addoliad, na chael difyrwch iddynt eu hunain, trwy aflonyddu ar eraill: eithr Duw a feddyliodd yn amgen; a phan y daeth y bachgenyn o fewn cyrhaedd, clybu y pregethwr yn darllen ei destyn, a darfu am ei ddigrifwch mewn mynyd awr; glynodd saeth argyhoeddiad yn ei galon, a llewyrchodd gradd o oleuni i'w feddwl fel ag i beri iddo ymroddi i wrando o ddifrif. Effeithiodd hyn ynghyda'r pethau a glybu ar ol hyn arno, nes ei ysgar yn llwyr, a thros byth â'i hen gyfeillion; a pheri iddo o'i fodd ymadael â'i hen arferion.

Yn fuan, bellach, dechreuodd ymwasgu â'r crefyddwyr; a chan ei fod yn ieuanc, troes ei wyneb yn gyntaf at gymdeithas y bobl ieuainc, y dywedasom ei bod y pryd hwn yn Mryn-bugad. Fel yr oedd John Llwyd yn tyfu i fyny, daeth i ymuno â'r hen bobl, ac i gyfranogi o'u holl freintiau. Parhaodd hefyd yn y ffyddlon a diwyro gyda'r gwaith hyd ddiwedd ei oes: ac nid peth hawdd oedd hyny. Nid hawdd hyny un amser, a than yr amgylchiadau mwyaf manteisiol; ond anhaws, y pryd hwnw, gan y gwawdio a'r estyn bŷs

* Cyf. II., tudal. 248.

a fyddai yn mhob man ar ol crefyddwr. Ond efe a osodai ei wyneb fel callestr yn erbyn pob enllib a gwarthrudd o'r fath, gan ddyweyd ynddo ei hun, "*Gwn na'm cywilyddir.*"

Tua'r fl. 1769, neu 1773 y dechreuodd bregethu. Os yr olaf, yr oedd yn dechreu ei yrfa gyhoeddus pan oedd Edward Parry yn ei therfynu. Cyfarfu â rhai ymosodiadau gorthrymus o eiddo gelynion crefydd. Yr oedd y baeddu mawr wedi darfod, yn yr ardaloedd hyn, cyn ei amser ef; eto, dangosai y gwrthwynebwyr eu dannedd yn awr ac eilwaith; digon i ddangos pa beth oedd eu naws dufewnol; yr hon, er hyny, a attelid yn ei gweithrediad gan ystyriaethau eraill. Yr oedd llawer yn ddigon gelynol i erlid, ond yr oeddynt yn rhy gall; deallent, y byddai eu colled yn fwy na'u hennill, ac ennill y crefyddwyr yn fwy na'u colled; y codid teimlad yn y wlad yn erbyn y gorthrymydd, ac o blaid y gorthrymedig.

Cafodd John Llwyd brofi unwaith fod amcan gan y gwrthwynebwyr yn ei erbyn yntau; ac amcan a ddygasid i weithrediad, oni buasai fod John Llwyd yn rhy ystyw-gall i'w elynion. Codwyd gwarantau gan ddau offeiriaid i'w ddal ef â phregethwr arall, i'w hanfon i garchar Ruthin. Ymddengys fod John Llwyd wedi cael ryw amnaid fod y fath ddyfais ar droed, ac y gallai yntau gael ei ddal unrhyw bryd y clywid ei fod yn pregethu. Yr oedd ef a'i gyfaill yn cael eu dysgwyl i Henllan i bregethu, ar ryw amser penodol; ac ar eu ffordd i'r lle, pwy welent yn eu cyfarfod, ac yn cyfeirio eu camrau tuag atynt, ond y swyddog a'i blaid, gan yr hwn yr oedd y wŷs i'w dàl. Gan i John Llwyd ddeall mewn pryd ei neges, efe a achubodd y blaen arno, gan ddyweyd, "Ho, hwn a hwn, tyred yn nes; yr oeddwn yn dysgwyl dy gyfarfod er ys meityn; y mae genyf *warant* yn fy mhoced i dy ddàl di, yn enw Brenin y Nefoedd: cymer di ofal na ddywedych air o dy ben." Yr oedd y fath gyfarchiad hyf, yn cyfarfod â'r truan mor ddisymwth, ac o'r fath natur, yn disgyn ar glust y dyn, yr hwn a wyddai mai drwg oedd ei waith, gyda dychryn a braw. Ni wyddai pa beth i ddyweyd, nac i ba le i gilio. Barnodd mewn arswyd, mai ffoi oedd oreu iddo, a hyny ar frys gwyllt, rhag ei ddàl ei hun â gwŷs mor ofnadwy! Ffoi a wnaeth ef a'i gwmni, a chafodd y ddau bregethwr rwyddineb i fyned ac i ddychwelyd.

Yn Ninbych y pregethodd John Llwyd ei bregeth olaf, y Sabboth cyntaf yn Rhagfyr, 1825; a bu farw yn nechreu y flwyddyn oedd gerllaw, yn 74 ml. oed, ac wedi bod 56 o flynyddau ar y maes.

John Jones, pregethwr arall, y mae ei enw yn hysbys i lawer yn y siroedd hyn, a gododd yn yr eglwys hon. Daeth yntau, fel John Llwyd, yn gyntaf i ymuno â chynulliad yr ieuenctyd yn Mryn-bugad; a thybiwyd ar y dechreu, trwy fod iddo enw fel llencyn gwagsaw a chellweirus, mai i wawdio y daethai; ond deallodd Edward Parry yn bur fuan wedi dechreu ymddyddan ag ef, fod y Siôn *ysmala* wedi ei wneuthur yn John *ddifrif*. Cafwyd llawer o foddlondeb ynddo fel crefyddwr; a chyn hir caniatawyd iddo gynghori ei

gydwladwyr ar gyhoedd. Nid oedd ei ddoniau ond bychion, na'i iechyd ond gwanaidd, a thrwy hyny nid yw ei enw mor hysbys a llawer o'i gydoeswyr; er hyny, yr oedd ei gymeriad crefyddol yn brydferth; a'i ffyddlondeb, yn ol ei dalent, yn ddysglaer. Mab iddo ef ydyw Mr. Isaac Jones, Nantglyn; yr hwn sydd yn bregethwr da ei air o fewn y cyfundeb hyd heddyw.

John Davies. Ymunodd y gŵr hwn â'r eglwys yn Mryn-bugad. Un o Gefn-meiriadog ydoedd, a gwehydd wrth ei grefft. Cafodd yntau alwad i bregethu, ac yn fuan ar ol iddo ddechreu, aeth i fyw i Henllan, oblegid ei waith. Oddiyno aeth i Liverpool, lle y bu efe farw yn lled fuan, ac yn nghanol ei ddyddiau.

John Williams. Gŵr o Henllan oedd hwn, ond a ymunodd â'r eglwys yn Mryn-bugad. Trocs y gŵr hwn allan yn bregethwr gwresog; a chawn alw sylw y darllenydd at ei hanes eto, pan delom i son am Henllan.

John Davies, Nantglyn. Ymddengys mai yn Nhan-y-fron yr ymunodd yr hen frawd hwn â'r eglwys gyntaf. Gwnaeth hyny tua'r fl. 1779. Ond gan y daw ei hanes ef yn fwy cyflawn dan ein sylw ar ol hyn; nyni a ymattaliwn ar hyn o bryd, gan gyfeirio y darllenydd ato dan hanes Nantglyn.

Peter Roberts, Llansanan. Barnwn ddarfod i'r gŵr hwn lafurio yn gyhoeddus yn mysg y Methodistiaid am fwy na 35 o flynyddau. Bu ef am ysbaid blynyddau lawer, yn un o brif golofnau yr achos yn y sir. Unig blentyn ei rieni ydoedd. Mab i John ac Ann Roberts, Bryn-anllech. Ganwyd ef yn y fl. 1770. Yr oedd ei rieni yn grefyddol, ac yn aelodau hardd yn eglwys Tan-y-fron. Dysgasant eu mab i ddarllen Cymraeg gartref, ac anfonasant ef ar ol hyny i Lanfair-Talhaiarn, lle y mae ysgol waddoledig, i ddysgu canghenau eraill o ddysgeidiaeth gyffredin. Felly cafodd ef fwy o fanteision gwybodaeth yn ei ieuenctyd nag a gawsai llawer o hen bregethwyr cyntaf y cyfundeb; a da oedd iddo gael hyny, gan nad oedd eto yr un ysgol Sabbothol yn un cŵr o'r wlad.

Cafodd y fraint hefyd, tybygid, o gael ei gadw oddiwrth arferion llygredig ei gyfoedion. Yr oedd yn fucheddol a di-achwyn arno o'i febyd. Profai hefyd yn achlysurol weithrediadau dwysion ar ei feddwl; ac o'r diwedd esgorodd ei wybodaeth hanesiol am bethau yr efengyl ar brofiad ysbrydol. Dwysâodd yr argraffiadau a brofai yn achlysurol nes dod yn egwyddorion byw ac arosol yn ei enaid. Ymwasgodd yntau am le gyda'r dysgyblion (am na arferid, y pryd hwnw, fagu y plant yn yr eglwys), a chafodd dderbyniad rhydd a gwresog. Yr oedd hyn yn y fl. 1790, pryd yr oedd wedi cyrhaedd 20 ml. oed. Y flwyddyn ganlynol, daeth adfywiad grymus ar y gwaith yn Nhan-y-fron; a chafodd gwrthddrych ein coffa brofi, fel lluaws eraill, raddau helaeth o'r pasgedigion breision a'r gloyw win puredig, sydd wedi eu darpar

yn Mynydd Sïon. Yn fuan, bellach, teimlodd awydd i ymosod at waith y weinidogaeth. Hysbysodd hyny i'r henuriaid yn Nhan-y-fron; a da oedd ganddynt fod hyny yn mryd ei galon. Yr oedd John Davies, Nantglyn, yn byw yn y gymydogaeth, ac yn aelod yn Nhan-y-fron, neu o leiaf wedi bod; ac wedi dechreu pregethu er ys saith mlynedd cyn hyn; annogwyd y llencyn, Peter, gan hyny, i fyned gyda John Davies daith Sabboth, a dechreu yr oedfaon iddo, a phregethu ychydig o'i flaen. A hyn y cydsyniodd yntau; a bu yn gychwyniad iddo yn yr yrfa a ddylynodd dros weddill ei oes.

Nid oedd achos gan y Methodistiaid eto yn Llansanan. Ond yn y fl. 1797, priododd Peter Roberts, ac ymadawodd â chronglwyd ei rieni; ac wedi bod dros beth amser yn trigiannu yn Ninbych, symudodd drachefn, ac ymsefydlodd yn Llansanan. Ar y pryd, yr oedd ef a'i wraig yn aelodau yn Nhan-y-fron, dros ddwy filldir o bellder, a dyfal a ffyddlawn a fu y ddau i fynychu y moddion yno. Yr oedd yr anwybodaeth trwch a orchuddiai y pentref a'i amgylchoedd, pa fodd bynag, a'r arferion anfad a'i hanurddai, yn ffynnoneli gofid dwys iddo ef a'i wraig. Parodd hyn iddo osod ei galon ar gael pregethu i'r llan, ac yn ewyllysgar y rhoes ei dŷ i'r dyben hwnw. Yn mhen amser cafwyd lle helaethach a mwy cyfleus na'r tŷ; lle y cynelid y pregethu bellach, ac y sefydlwyd ysgol Sabbothol. Aeth y lle hwn drachefn yn gyfyng i'r nifer a ddeuai yn nghyd, a rhaid oedd cael lle helaethach drachefn. Nid oedd y gymdeithas eglwysig yn y lle ond ychydig o rif, a chan mwyaf yn dlodion eu sefyllfa; eto trwy ffyddlondeb ac egni, yr eiddo Peter Roberts, fe allai yn benaf, fe gafwyd capel yn Llansanan.

Gyda llafurio llawer ar hyd y sir, ïe, a'r siroedd, a gweithio yn egnïol i sefydlu yr achos yn Llansanan, ei gartref, fe roes ei dŷ, ei fwrdd, a'i wely, i weision yr Arglwydd a ddeuent i weini yno, yn siriol ac ewyllysgar am weddill ei oes. Taenodd rhagluniaeth hithau ei haden drosto of a'i deulu; ac er iddo gyfranu llawer, ac er fod ei deulu yn lluosog, a'i iechyd yntau, tua diwedd ei oes, yn egwan; eto, ni fu arno eisiau dim, ond gwiriwyd ynddo ddihareb Solomon, "Rhyw un a wasgar ei dda, ac efe a chwanegir iddo."

Yn y fl. 1815, fe'i hordeiniwyd i holl waith y weinidogaeth, pryd nad oedd neb o fewn y sir yn gweinyddu y sacramentau o fedydd a swper yr Arglwydd ond Mr. Jones, Dinbych, a John Davies, Nantglyn.

Yr oedd y Parch. Peter Roberts yn bregethwr cymeradwy, heblaw ei fod yn gristion da. Ni ellir dyweyd, mae'n wir, fod dim ysblenydd yn ei olygiadau, nac yn ei ddawn; eto yr oedd gam yn mlaen ar luaws y cynghorwyr a'i blaenorodd o ran amser. Yr oedd yn gymhwysach o ran gwedd, ystum, a llais, i sefyll o flaen pob math o gynulleidfa, na llawer o'r hen dadau. Yr oedd medrusrwydd mwy yn nghyfansoddiad ei bregethau, nag a ddywedir fod i'r eiddynt hwy. Defnynai ei athrawiaeth hefyd yn aml fel y gwlaw, a mynych y dywedai profiad ei wrandawyr wrth ei wrando, "Da yw i ni fod yma."

Rhoes yr Arglwydd iddo wraig hefyd, a fu, nid yn unig yn ymgeledd gym-

hwys iddo ef, ond hefyd yn famaeth siriol i achos yr efengyl. Magwyd ganddynt deulu lluosog, ac hyd heddyw, y mae eu plant a'u hwyrion yn britho eglwysi y cyfundeb.* Fel hyn y cyflawnwyd yr addewid, "Plant dy weision a barhant, a'u hâd a sicrheir ger dy fron di."

Wedi bod yn dyoddef eryn lawer gan afiechyd, ac er ys mwy na blwyddyn yn analluog i fyned ymron ddim oddi cartref, oddieithr i Dan-y-fron, efe a "orchfygwyd yn dragwydd" gan angau, ac mewn tangnefedd heddychol efe a roddes i fyny yr ysbryd, Ebrill 23, 1829, yn 58 ml. oed.

Nid oes dim adgofion wrth law yn ychwanegol am Lansanan; eto teg ydyw dyweyd, er na fu yr achos yma erioed yn nodedig o flodeuog, ond iddo brofi grym llawer tymhestl; eto y mae Cymru yn ddyledus i Lansanan am fagu rhai gwŷr grymus. Mae daioni wedi dyfod o'r Nazareth hon. Mae Methodistiaeth ac Annibyniaeth Cymru yn ddyledus iddi, am mai ar fronau y famaeth hon y magwyd y ddau frawd gwir ddefnyddiol a thra adnabyddus, y Parchn. Henry a William Rees.

Cyn gadael Tan-y-fron, gweddus ydyw crybwyll am un arall o'r hen dadau, yr hwn, er nad ymddangosodd erioed yn y pwlpud, a lafuriodd yn ffyddlawn yn y winllan hyd ei ddiwedd, sef Robert Roberts, Bryn-bugad. Ganesid ef yn Cefn-fforest, plwyf Llansanan, yn y fl. 1755. Yr oedd ei fam yn un o flaenffrwyth y diwygiad Methodistaidd, ac a fu yn gwrando ar y diwygwyr boreaf pan ddeuent yn achlysurol i'r Gogledd. Pan oedd Robert yn ieuanc, yr oedd un o'r ysgolion rhad Cymreig dan arolygiad Griffith Jones, Llanddowror, yn cael ei chadw yn Llansanan; a thrwy addysgiad ei fam, ac amaethiad yr athraw, fe gyrhaeddodd y bachgen hwn radd helaeth o wybodaeth ysgrythyrol yn ei ieuenctyd. Pan ydoedd yn ddeng mlwydd oed, ymunodd â chymdeithas grefyddol y bobl ieuaine yn Mryn-bugad; a phrofodd, yn y tymhor y bu yn aelod o honi, rai argraffiadau a lynasant wrtho dros ei oes. Eto, ymlygrodd ar ol hyny, a chydymffurfiodd ag arferion llygredig ei gyfoedion; ond pan oedd yn 20 mlwydd oed, aeth i Gymdeithasfa a gynelid yn-y Bont-uchel; a than un o'r pregethau a glywodd yno, deffrowyd eilwaith ei ystyriaeth, a darostyngwyd ef fel pechadur euog ger bron Duw. "Daethum adref o'r Gymdeithasfa," meddai, "yn drwm-lwythog, fel un na wyddai pa beth i'w wneyd; ae yn y cyflwr hwnw y bum lawer o ddyddiau." Gwingo yr oedd, er hyn oll, "yn erbyn y symbylau;" a braidd na ddymunasai ymddyosg yn llwyr drachefn oddiwrth bob syniadau crefyddol; a than y teimlad anniddig hwn, penderfynodd fyned i ryw gyfarfod ofer yn y gymydogaeth; ae yn ol ei fwriad, aeth hyd o fewn ychydig at y lle, pan saethodd gair i'w feddwl, a'i cymhellodd, gydag awdurdod anwrthwynebol, i droi yn ei ol. Y gair oedd hwn, "Os yr Arglwydd sydd Dduw, ewch ar ei ol ef." Ymos-

* Eu merched hwy ydynt wragedd y pregethwyr canlynol: Isaac Jones, Nantglyn; John Williams o'r Rhyl; John Jones, gynt o Newmarket, yn awr o Wrecsam; a John Foulkes, Liverpool. Mae un arall yn gwasanaethu yr efengyl yn y Babell, sir Fflint, ac yn wraig i'r blaenor sydd yno.

tyngodd, bellach, i'r alwad, a gostyngodd ei wàr yn ddiddig i'r iau."

Galwyd ef i'r henaduriaeth pan oedd onid 24 mlwydd oed; ac wedi priodi llys-ferch i Edward Parry, aeth i Fryn-bugad i fyw. Bu Robert Roberts yn ddiwyd a ffyddlawn gyda'r gwaith o hyny allan, sef ysbaid 40 mlynedd a mwy. Efe, tybygid, a fu y prif offeryn i sefydlu ysgol Sabbothol yn ei ardal. Gwnaeth hyn tua'r fl. 1790, a hyny yn wyneb gwrthwynebiad rhai o'i frodyr crefyddol; cynaliwyd ei freichiau, pa fodd bynag, gan yr hybarch Mr. Charles; yr hwn oedd ar y pryd yn ceisio, trwy ymegnïad dirfawr, sefydlu ysgolion o'r fath yn mhob ardal. Gwelodd hefyd ei ymdrech wedi ei goroni â llwyddiant mawr, trwy fod llawer o'r rhai a fagesid yn yr ysgolion, tan arwyddion tra gobeithiol, yn ymofyn am le yn eglwys Dduw. Bu farw mewn oedran teg, yn fawr ei barch, ac yn llawn o ddyddiau, yn niwedd y fl. 1825.

Nid yw eglwys Tan-y-fron yn awr ddim yn nodedig am ei rhif na'i dylanwad, eto nid ellir llai nag edrych arni yn fam i'r holl eglwysi cymydogaethol, nid llai, meddir, na 16 o rifedi. Mae llawer merch iddi, erbyn hyn, yn rhagori arni, mewn nerth a dylanwad; a hithau, yr hen fam, fel mewn llawer teulu, a golwg henaidd ac eiddil arni, o leiaf mewn cydmhariaeth. Trwy foddion dirgelaidd ac anghyffredin y dygasid pregethu gyntaf i'r ardal; a thrwy lawer o rwystrau y cadwyd ef, dros ryw dymhor, heb ddiffoddi. Nid oedd dim enwogrwydd ar y lle; na dim gwychder, ond a roddasai gras ar yr offerynau; eto yn mlaen yr aeth y gwaith. Nid oedd nemawr o gyfleusderau i gyrhaedd y lle, ac nid oedd y preswylwyr, mewn cydmhariaeth, ond anaml; eto, oddiyma y seiniodd gair yr Arglwydd i'r holl wlad oddiamgylch. Bu llechweddau a bryniau cyfagos yn adsain lawer gwaith, a thros lawer o flynyddau, gan lais cân a moliant. Gorphwysodd cwmwl y gogoniant dros amser maith ar y lle disylw hwn, pryd yr oedd cymydogaethau eraill, nid yn mhell, yn gorwedd yn mro a chysgod angeu.

DINBYCH.

Er nad ydyw Methodistiaeth yn un rhan o'r wlad yn fwy blodeuog nag ydyw yn Ninbych, eto nid ydym yn gallu honi iddi gymaint hynafiaeth a llawer lle. Dygwyddodd yma, fel mewn llawer man arall, yn enwedig yn y Gogledd, fod y dref yn gauedig i'r efengyl wedi iddi gael drws agored yn y wlad gerllaw. Yr oedd pregethu bore o amgylch Dinbych cyn i'r achos gael safle yn y dref ei hun. Yr oedd pregethu er ys blynyddau yn Tan-y-fron, neu Bryn-bugad, lle heb fod yn mhell; ïe, hefyd yn Henllan, pentref o fewn dwy filldir neu lai iddi. Yr oedd pregethu hefyd yn mhlwyf Llandyrnog, ychydig o filldiroedd i'r dwyrain iddi; ac yn y Bont-uchel, ychydig i'r dehau iddi, yn mhell cyn i breswylwyr y dref roddi un llociies i gynghorwyr y Methodistiaid. Mae hyn yn rhyfeddach, gan fod yn y dref gapel ymneillduol cisoes; a gallesid dysgwyl fod y preswylwyr o gymaint a hyny yn llai eu rhagfarn at grefyddwyr heb fod mewn cysylltiad â'r eglwys wladol. Eto, er

hyn'oll, nid llawer o drefydd sydd yn Nghymru y dangosodd y trigolion fwy o wrthwynebrwydd i'r Methodistiaid gael dyfodiad iddi na Dinbych; nac y cafodd y pregethwyr fwy o anmharch ynddi.

Crybwyllasom o'r blaen yn y gwaith hwn am y cais a wnaeth Howel Harris i bregethu yn y dref hon yn y fl. 1748,* a pha mor ofer a fu y cais hwnw;—pa mor greulawn y triniwyd pregethwr arall a geisiai bregethu yn nhŷ Thomas Llwyd, Heol-Henllan; felly Edward Oliver, ac eraill ar ei ol. Dangoswyd y modd yr ymddygwyd at Thomas Llwyd am roddi ei dŷ iddynt i bregethu ynddo, fel nad rhaid oud cyfeirio y darllenydd at yr hyn a ddywedwyd yno. Yr oedd Howel Harris a'i gyfeillion, pa fodd bynag, yn dyfalu mai nid yn nghauad y byddai y drws yn Ninbych i barhau; ond yr oeddynt yn rhyw ddyfalu fod i'r "Arglwydd bobl lawer yn y dref hon;" ac y gwelid, cyn hir iawn o amser, waith mawr wedi ei wneuthur yma.

Gan faint y sarhad a'r golled a fu eisoes, barnai y crefyddwyr mai eu lle oedd ymofyn amddiffyniad y gyfraith drostynt; ac er mwyn esampl i eraill, mai eu lle oedd rhoddi rhyw rai fuont yn blaenori yn yr ymgyrchion creulawn a fu, i ddwylaw y gyfraith i'w cosbi. Yr oeddynt mewn gwirionedd mewn perygl bywyd, oddieithr rhoddi y cais o ddwyn pregethu i'r dref heibio; a chan na fynent yr un o'r ddau, ceisiasant nawdd cyfraith y tir. Ond yn Ninbych, nid oedd yr un cyfreithiwr a gymerai eu hachos; na'r un ynad a'u hamddiffynai. Cafwyd, er hyny, un gŵr ieuanc yn Llanrhaiadr-dyffryn-clwyd i gymeryd y mater mewn llaw; ac mewn canlyniad, gwysiwyd y rhai mwyaf blaenllaw o'r erlidwyr i sefyll eu prawf yn mrawdlys Ruthin. Ond yno hefyd fe'u siomwyd, er amlyced oedd y trosedd. Yr oedd yr Uch-reithwyr eu hunain dau lywodraeth rhagfarn at y crefyddwyr, gymaint a neb; a mwy parod oeddynt i lochi yr erlidwyr nag oeddynt i weinyddu cyfiawnder; ac am hyny taflwyd allan y cyhuddiad, gan haeru ei fod wedi codi oddiar ddrwg deimlad. Felly cafodd yr erlidwyr oruchafiaeth, a mawr oedd eu bloddest wrth ddychwelyd i Ddinbych, am fod y *Caradocs* wedi colli y gyfraith. Ymwisgent ag ysnodenau, a chanent y clychau, o wir lawenydd am y fuddugoliaeth. Gwnaethant ŵr gwellt, a gosodasant ef ar gefn ceffyl, oedd a'i esgyrn ymron trwy ei groen, gan ei dywys yn ol ac yn mlaen trwy y dref, a gwaeddi, "Hwre! mae Harris wedi ei hurtio!" Ac yn y diwedd gosodasant y ddelw wellt ar dân, gan argoeli fod pen am byth wedi ei roddi ar Harris a'i blaid yn Ninbych!

Rywbryd ar ol hyn daeth y Parch. Peter Williams drwy y wlad i bregethu; ac yn mysg manau eraill gwnaeth gais ar bregethu yn Ninbych. Ond yn lle gwrando arno, ymosodwyd yn fileinig arno, gan ei anmharchu yn arswydus; ac nid digon oedd hyny chwaith, ond ysbeiliasant ef o gymaint ymron ag a feddai. Yr oedd eofndra a thrahâ yr erlidwyr bellach yn annyoddefol; ac er mai tra hwyrfrydig a fyddai yr hen bobl i alw am gosb ar eu gorthrymwyr;

* Cyf. I., tudal. 152.

eto fe farnwyd y byddai raid rhoddi pen ar y fath ddigywilydd-dra ysgeler. Wedi i Mr. Williams ddychwelyd adref ac adrodd yr hanes, eiddigeddodd ei gyfeillion drosto ef, a thros achos yr efengyl, nes casglu o honynt ryw gymaint o arian, a chodi yr achos, trwy gyfreithiwr yn Aberhonddu, i Lundain. Mewn canlyniad, gwysiwyd wyth o'r baeddwyr penaf i sefyll eu prawf yno; ac yn eu mysg yr oedd un gŵr ieuanc, 18 ml. oed, o deulu cyfrifol a chyfoethog. Bu gan hwn ddigon o fodd ac o ddylanwad i gael pob amddiffyniad a allesid gael drosto ei hun a'i gyd-droseddwyr: ond pallu a wnaeth yr ymdrech, cafwyd y cyhuddedigion oll yn euog. Y prif achwyniadau oeddynt, yr ymosodiad a wnaed ar Mr. Williams, a'r anmharch a wnaed i Margaret Hughes, Bryn-anllech;* a'r gosb o osodwyd arnynt oedd, eu dihatru o nodded y gyfraith a diffyniad y brenin *(outlawry)*. Trodd y teimlad, bellach, yn erbyn y troseddwyr. Dywedai llawer yn hyf, erbyn hyn, mai teilwng a chyfiawn oedd eu cosb; ïe, cymhwys, pe buasai yn drymach. Yr oeddynt, gan hyny, yn ysgymunedig, ac ni allent aros yn eu gwlad. Bu feirw rhai o honynt yn fuan o wir ymollyngiad meddwl; a'r rhai a allent, a giliasant o'r golwg, ac ni chlybuwyd am danynt mwy. Am y gŵr ieuanc cyfoethog oedd yn eu mysg, dywedir ddarfod i'w rieni ei gadw yn neillduedig gartref, heb ei ollwng i gyflawni un drafodaeth, nac i ymgymysgu mewn un cwmni; hyd nes iddynt lwyddo i brynu ei ryddid, trwy ei osod eilwaith dan nawdd y gyfraith.

Gwnaeth y ddedfryd hon ddirfawr ymwared i'r crefyddwyr. Yr oedd ofn eu sarhau bellach wedi syrthio ar breswylwyr y dref a'r wlad. Dysgodd wers tra rheidiol hefyd i'r gŵŷr mawr. Gwelent, bellach, na oddefid iddynt orthrymu a baeddu deiliaid y llywodraeth wrth eu mympwy eu hunain; ac mai peryglus oedd gwasgu ar ryddid y bobl, yr hyn a ganiateid iddynt gan y gyfraith. Dysgodd y gŵr ieuanc crybwylledig wers dda yn y tro; a dywedir iddo ymddwyn yn ddiachwyn arno o hyny allan; ac er ei osod yn oruchwyliwr ar y tir a ddelid gan Edward Parry, Bryn-bugad, na cheisiodd ef un fantais annheg arno trwy hyny, ond iddo ymddwyn tuag ato ef cygystal a thuag at neb o'r tyddynwyr eraill.

Arafodd y tro hwn lawer ar yr erlidigaeth, fel y dywedwyd, eto nid oedd wedi llwyr ddiffodd, gan y darllenwn fod ymosodiad wedi ei gynllunio i gael ei wneuthur ar John Davies, Nantglyn, ymhen llawer o flynyddau ar ol yr amgylchiadau crybwylledig. Mae yn ymddangos hefyd y bu y dref amser maith iawn ar ol y rhai a nodwyd, heb bregethu ynddi. Un achos o hyn, mae yn debyg, oedd prinder pregethwyr; y rhai oeddynt ar ol y fl. 1751, yn brinach nag o'r blaen, gan effaith yr ymraniad rhwng Harris a Rowlands. Rhoes rhai heibio bregethu, aeth rhai at enwadau eraill, sef at yr Annibynwyr, ac at y Bedyddwyr. Parhaodd y difrod hwn ar lawer parth o'r gwledydd am ran fawr o 20 mlynedd; ac er fod pregethu lled fynych yn Nhan-y-fron, Dyffryn, a'r Bont-uchel, yn y cyfamser, eto yr oedd Dinbych yn cael ei

* Cyf. I., tudal. 153.

hesgeuluso. Nid oedd yno, hyd yn hyn, neb yn byw a roddai swcr a nodded i bregethwyr i ddyfod i'w tai, gan gofio ond odid y driniaeth a gawsai y pregethwyr, a'r rhai a'u derbynient, gynt. Yn ystod yr amser erlidigaethus hwnw, syrthiodd Thomas Llwyd i dlodi dirfawr, trwy fod y trigolion yn nacâu rhoddi dim gwaith iddo; ac yn edrych arno fel llofrudd neu leidr. Bu dros ryw faint o amser, yn gorfod myned at hwn ac arall o'i gymydogion, i grefu am hen esgidiau i'w trwsio, modd y gallai ennill tamaid iddo ei hun rhag llewygu. Y pryd hwn hefyd, yr oedd yn dra pheryglus i neb o gyfeillion yr efengyl ddyfod i'r dref i wrando pregeth, pan y dygwyddai fod un i'w chael. Baeddid hwy yn arswydus, a thrinid rhai yn annynol a barbaraidd. "Mae dyn yn byw yn awr yn Ninbych," medd fy ngohebydd, "a glywodd wraig yn dyweyd, i'r erlidwyr hyn, un tro, ei dàl hi, a rhoddi cortyn am ei chanol, a'i llusgo trwy y llyn a elwid Pwll-y-grawys."

Ond ar ol hir fwlch, aè i lawer o flynyddau fyned heibio, dechreuodd y Methodistiaid ymosod eilwaith ar y dref; ac anturiodd un William Morris eu derbyn i'w dŷ. Dros rai blynyddau yn ei dŷ ef y cynaliwyd yr oedfaon; y rhai, y pryd hwnw, tybygid, oeddynt yn lled anaml; ymunodd rhyw ychydig nifer gydag ef. Ei wraig ef fyddai yn dechreu canu. Ond nid yw yn ymddangos fod nemawr drefn ar gymdeithas eglwysig yn y tymhor hwn; am yr hon y dywedai un pregethwr, "Mae 'Seiat' Dinbych, fel nyth yr ysguthan, a'r wynthrew ar ei thraed o fewn y nyth:" desgrifiad pur wladaidd o honi, yn ei gosod allan mewn sefyllfa pur anmherffaith a digysur. Dywedir ddarfod chwalu y gymdeithas annghryno hon trwy i ŵr y tŷ golli ei le, a chael ei ddiarddel oblgid hyny. Nid oedd, bellach, gymaint ag un wedi ei adael yr hwn a ystyrid yn aelod gyda'r Methodistiaid; ac yn y wedd yma y parhaodd pethau dros ryw dymhor. Yn y cyfamser yr oedd anwybodaeth trwch yn gordoi y trigolion; a hen arferion y Cymry yn eu llawn rwysg yn ffynu yn eu plith. Gosodid bri mawr ar yr amrywiol chwareuon; ac anfri cyfatebol ar Sabbothau Duw. Ar amser y cynhauaf yr oedd y dref fel pe buasai ffair ynddi ar y Sabbothau, gan y cyflogi a fyddai ar fedelwyr, a chan y nwyddau a ddygid gan yr amaethwyr iddi i'w gwerthu. Gwyddai pawb fod y Methodistiaid yn arfer dynoethi yr arferion hyn yn llym, a'u condemnio yn ddifloesgni; gellid dysgwyl, gan hyny, y byddai gwrthwynebiad y bobl i Fethodistiaeth yn cyfateb i'w haidd a'u sel dros eu hen arferion, a'u hymlyniad wrthynt. Ond yr oedd yr amser i drugarhau wrth Ddinbych yn dynesu yn gyflym. Yr oedd gradd o ofn ar y gorthrymwyr; yr oedd y crefyddwyr a'r pregethwyr yn amlhau yn yr ardaloedd cylchynol, a'r awydd yn cryfhau yn mynwes llawer un i ennill safle o fewn y dref. Dygwyddodd, yn yr adeg, sef tua'r fl. 1783, tybygid, i ŵr o blwyf Llanefydd ddyfod i'r dref i fyw; crydd oedd wrth ei grefft, tlawd ei sefyllfa, a chanddo ddau o blant. Bu dros ychydig yn byw mewn ystafell; wedi hyny cymerodd dŷ bychan a derbyniodd bregethu iddo: enw y gŵr hwn oedd Robert Williams. Cynelid oedfaon ar y pryd mewn gwahanol fanau, yn yr awyr agored, o'r naill heol i'r

llall; ac weithiau yn muarth Richard Roberts y gwehydd, yn gystal ag yn nhŷ Robert Williams, yr hwn oedd y prif os nad yr unig swer i'r achos. Yn y fl. 1784, pa fodd bynag, ymunodd ag ef lanc ieuanc, 18 ml. oed; ac arferai y ddau fyned i Henllan ar foreu Sabboth, i'r cyfarfod eglwysig. Ai y gŵr ieuanc hwn hefyd i Lanrhaiadr, dair neu bedair milldir o ffordd, bob nos Fawrth, haf a gauaf, heb neb yn gwmni ganddo, i'r un perwyl. Arferai Robert Williams ac yntau gynal cyfarfodydd gweddio gartref bob nos Lun. Dechreuai Robert Williams y cwrdd trwy ddarllen a gweddio, yna y llanc ieuanc; wedi hyny dybenid y cyfarfod trwy i Robert Williams fyned eilwaith i weddi. Nid oedd yn arfer dyfod i'r cyfarfodydd hyn ar y dechreu ond tri, ac weithiau pedwar; cynaliaeth fawr i'w meddyliau ydoedd y dystiolaeth, "Pa le bynag y bydd *dau neu dri* wedi ymgynull yn fy enw i, yno yr ydwyf fi." Yn y wedd yma y bu pethau yn aros am ysbaid dwy flynedd.

Yn Awst, 1786, cafodd y gŵr ieuanc ar ei feddwl i fyned i Langeitho; y lle a gyfrifid, y pryd hwnw, yn brif swer i Fethodistiaeth, gan yr ymgasglu a fyddai yno gan bregethwyr ac eraill ar Sabbothau cymundeb, ac yn enwedigol ar yr ŵyl flynyddol, sef y gymdeithasfa; yr hon a gynelid yno yn mis Awst. Ymddengys mai i'r cynulliad mawr hwn yr aeth y gŵr ieuanc, a chanddo fwy nag un amcan mewn golwg. Heblaw y dyben o geisio lleshad iddo ei hunan, yr oedd ar fedr gwneyd a allai i gael cyhoeddiadau pregethwyr i ddyfod o'r Deheudir i Ddinbych; a chael addewid hefyd am gyfarfod pregethu, yr hwn a elwid ar enw cymdeithasfa, i'r dref, am y tro cyntaf erioed. Llwyddodd y gŵr ieuanc yn ei gais, a chafodd addewidion lawer o bregethwyr i ddyfod iddi; rhai cyn, ac eraill ar ol y gymdeithasfa. Nid oedd y llanc hwn ond ysgrifwas *(apprentice)* tlawd; ac nid peth bach i'r fath un oedd myned i Langeitho, gan' milldir o ffordd ymron, yn ddyeithr i'r ffordd ac i'r trigolion; ac heb nemawr arian yn ei boced. Nid rhyfedd genym glywed fod ei arian wedi darfod erbyn cyrhaedd Machynlleth, ar ei ffordd adref. Pa galedi a fuasai arno am yr hanner can' milldir olaf o'r ffordd, mae yn anhawdd dychymygu, oni bai i ryw wraig, dosturiol ei mynwes ac agored ei llaw, roddi iddo ddeunaw ceiniog mewn ffordd o gynorthwy!

Yn mysg y pregethwyr a ddaeth i Ddinbych i gadw y gymdeithasfa gyntaf hon, yr oedd y Parchn. W. Davies, Castell-nedd; T. Charles, yr hwn oedd newydd ymuno â'r Methodistiaid; Mr. Jenkins o'r Deheudir; a Mr. Llwyd o Caio. Cadwyd yr oedfa gyntaf, y nos o'r blaen, yn muarth y *Post Office;* dranoeth cadwyd y moddion yn yr hen *Abbey*, yn mhen isaf y dref. Yn yr un amser yr oedd cyfarfod arall i redeg ceffylau yn cael ei gynal gan y gŵr mawr. Rhyfeddol oedd y gwahaniaeth rhwng y ddau. I'r rhedegfa yr heidiai y bobl wrth y cannoedd, os nad wrth y miloedd; ac nid oedd yn y cyfarfod crefyddol ond ychydig o bobl, digon llwydaidd eu gwedd. Rhwymasai y dyeithriaid a ddaethent i'r cyfarfod eu ceffylau yn rhesi wrth y clawdd; yr hyn a roes achlysur i ryw hogiau diffaith, i ddangos eu hadgasedd at y crefyddwyr trwy ollwng y ceffylau yn rhyddion, a rhedeg ymaith yn llawn

ymffrost a chwerthin i'r rhedegfa. Nid yw ein hanes yn crybwyll am ddim effeithiau neillduol wedi canlyn y cyfarfod cyntaf hwn; eto ni a wyddom fod llawer o gyfnewiad yn ngwedd pethau wedi ei ddilyn. Mae y rhedeg ceffylau wedi hen ddarfod yn Ninbych, ond y mae cyfarfodydd pregethu eto yn aros; a deallwn hefyd fod Methodistiaeth yn y tymhor hwn wedi cael ysgogiad grymus yn ei flaen. Daeth deuddeg neu ddeunaw i ymofyn am gymundeb eglwysig, dan bryder dwys am achos eu heneidiau; yr hyn oedd yn chwanegiad rhyfeddol y pryd hwnw.

Yn mysg y rhai a chwanegwyd at y brodyr y pryd hwn yr oedd un teulu cyfan; sef teulu Robert Griffiths, *Beacon's Hill*. Cynwysa hwn y tad a'r fam, dau fab, a merch, a chwaer i'r fam; chwech o nifer. Bellach, symudwyd yr achos o dŷ Robert Williams i dŷ Robert Griffiths; a dechreuwyd llygadu am le helaethach i gynal y moddion cyhoeddus ynddo, trwy fod nifer y dysgyblion yn lluosogi, a'r gwrandawyr hefyd yn amlhau. Cafodd yr achos crefyddol loches glyd yn nheulu Robert Griffiths, y rhai hyd y gallent â'i gwasanaethent ef gyda phob parodrwydd meddwl. Dangosai gwraig y gŵr hwn lawer o serchogrwydd a dyfalwch tuag at weision Crist. Gofalus a thrafferthus ydoedd, heb gyfrif dim yn faich a wnelai, neu a allai wneyd, er eu cysuro a'u hymgeleddu.

Pan ddaeth yr amser i ymofyn am le helaethach i addoli, anfonwyd dau genad i Adwy'r-clawdd, ugain milldir o ffordd, i gyfarfod misol; i osod ger bron y brodyr yno eu sefyllfa ac i ofyn caniatâd i gymeryd hen ysgubor i bregethu ynddi. Yr hen ysgubor a gymerwyd oddiar un Mr. Richard Hughes, lledrwr; am £4 yn y flwyddyn. Yr oedd yr ysgubor hon yn gorwedd yn y fân y mae y capel presenol arno. Yn yr ysgubor hon y cynelid y moddion cyhoeddus, bellach, ac yn nhŷ, neu yn llofft Robert Griffiths, y cedwid y cyfarfodydd eglwysig; y rhai, erbyn hyn, oeddynt yn cael eu cadw gyda gradd o gysondeb ar nos Lun yn yr wythnos. Ar yr un pryd, a thros ryw amser wedi hyn, yr oedd cysylltiad yr aelodau ag eglwys Heulan, fel y fam-eglwys heb ei dori; aent yno i'r cwrdd eglwysig ar fore Sabboth, a pharhausant i wneyd hyny hyd nes y daethant yn alluog eu hunain i gadw tŷ. Mae amryw gofion ar gael o blentynrwydd y dysgyblion cyntaf hyn; eto, yn nghanol eu plentynrwydd yr oedd eu cywirdeb yn ddiddadl, a'u sel yn wresog. Un tro gofynai Robert Williams i Robert Lewis ddyweyd gair o'i brofiad. Tybiai Robert Lewis fod hyn yn ormod o hyfder arno; cododd i fyny, tynodd ei ferwig, a tharawodd hi i'r llawr, gan ddyweyd, "Mi leiciwn eich clywed chwi yn dyweyd eich profiad, Robert Williams!" Oddeutu yr amser hwn daeth atynt ryw ysgolfeistr i ymofyn am le yn eu mysg fel aelod eglwysig. Fe allai i'r gŵr hwn ddychymygu y cawsai gŵr o ddysg, fel y tybiai ef am dano ei hun, dderbyniad rhwydd, ac y rhoddid y blaen iddo yn mhob peth. Ar ei ddyfodiad, pa fodd bynag, gofynwyd iddo, fel y gwneid yn arferol, am ei olygiadau am dano ei hun o ran ei sefyllfa gyda Duw, ac am y llwybr y dysgwyliai ddyfod i fyny yn wyneb ei ddeddf. Yntau, yn lle ateb, a drodd atynt yn siomedig a dig-

llawn, gan ddyweyd, "Hogiau fel hyn yn meiddio holi gŵr fel myfi, sydd yn medru Cymraeg, Saesonaeg, a Lladin!" ac ymaith ag ef ar ffrwst.

Nid oedd nifer y crefyddwyr pan yr ymgorfforwyd yn gymdeithas eglwysig, ond 15 o aelodau. Dewiswyd Edward Parry, brawd y diweddar Barch. Moses Parry; John Griffiths, mab Robert Griffiths; a William Jones y Llinwr, yn flaenoriaid. Buasai Edward Parry yn aelod gyda'r Annibynwyr, ynghyda'i rieni cyn hyn; a gellid meddwl ei fod yn fwy cyfarwydd â phethau crefyddol, nag ydoedd llawer o'i gyd-swyddwyr na'i gyd-aelodau, oblegid manteision ei ddygiad i fyny. Yr oedd ef wedi hoffi y Methodistiaid ar ryw gyfrif neu gilydd, ac wedi ymuno â hwy yn y Bont-uchel, cyn bod yr un gymdeithas yn Ninbych; ac felly yr oedd ef yn grefyddwr o'i febyd, yr hyn oedd yn beth anfynych y pryd hwnw.

Yr oedd anhawsdra mawr cael pregethu cyson i'r manau yr oedd drysau agored i'w derbyn y pryd hwn; yn enwedig i gael y pregethwyr hyny ag yr oedd eu gweinidogaeth yn ennillgar ac effeithiol. Ai Edward Parry a John Griffiths yn fynych i'r Bala, ar Sabboth cymundeb; nid yn unig i fwynhau gwledd ysbrydol iddynt eu hunain, ond hefyd i geisio gan Mr. Charles, a phregethwyr eraill a fyddai yno, i ddyfod atynt hwy i Ddinbych; a hyny cyn adeiladu un capel. Llawer oedfa rymus iawn a fu yn yr hen ysgubor, ac aml un a ddaethai iddi i wrando yn llechwraidd, trwy ddrws yr ystabl gysylltiedig â hi, a ddaliwyd yn garcharor gan gyfraith Duw; ac a ennillwyd yn ewyllysgar i gymeryd iau Crist arnynt ac i ddysgu ganddo. Nid oedd eto yr un ysgol Sabbothol yn Ninbych, er ei bod wedi ei chychwyn eisoes mewn rhai manau eraill yn y dywysogaeth; a mawr oedd y tywyllwch a'r ofergoeledd a orchuddiai y trigolion. Cawn enghraifft o weddi a ddefnyddid gan un hen wraig fel darlun o rai eraill, wrth fyned i orphwys:—

Pedwar post fy ngwely i'm cynal,
Pedwar angel fyddo i'm gwarchod;
Yma y gorweddaf heno,
Ac y cysgaf tan y bore, Amen.

Yr oedd yr hen wraig hon, yn fwy crefyddol hefyd na'r cyffredin o'i chymydogion, ac yn ceisio dwyn ei phlant i fyny felly. Arferai ei phlant ofyn ei bendith bob nos, a hithau a gymerai arni ei rhoddi iddynt, mewn dull tra phatriarchaidd. Yr oedd ganddi dri o blant; dwy ferch, ac un mab o'r enw Robert; o'r hwn, tybygid, yr oedd yn dra hoff. Pob tro yr elai Bob i ofyn ei bendith, hi roddai yn atebiad iddo, "Duw a'th fendithio, *yr hen gorgi!*" Nid oedd sail i ddysgwyl llawer o ffrwyth oddiwrth y fath ddull o fendithio, eto fe welodd Duw yn dda, er hyny, fendithio y tri phlentyn â gwir grefydd. Do, fe fendithiwyd, yr hen gorgi, ag iachawdwriaeth! a bu y teulu o wir wasanaeth i'r achos crefyddol, pan oedd eto yn ei wendid a'i iselder. Pan y cafwyd addewid o gyfarfod misol i gael ei gynal yn y dref, y cyntaf erioed, llwyddodd y plant hyn, gyd â'i mam, i roddi llety i rai o'r pregethwyr; ac

yn y caulyniad bu ei thŷ yn dderbynfa pregethwyr a brodyr dyeithr a ddeuai i'r dref am flynyddau lawer.

Cafodd y brodyr lawer oedfa rymus, a llawer gwledd felys, yn yr hen ysgubor; a llawer cwrdd bendithiol yn llofft Robert Griffiths, yn ystod yr amser y cynhelid y moddion cyhoeddus yn y naill, a'r cyfarfodydd eglwysig yn y llall. Rhag afradu amser y pregethwyr, gan mor brined oeddynt, cadwyd llawer oedfa am saith o'r gloch y bore yn yr hen ysgubor; a llawer cawod o'r gwlaw graslawn a ddisgynodd ar yr adegau hyn. O'r diwedd, prynwyd yr hen ysgubor ac adeiladwyd capel bychan ar ei seiliau. Nid oedd y capel cyntaf hwn ond bychan, 10 llath o hyd a lled, heb oriel. Bellach, ymwisgodd Methodistiaeth ar wedd mwy sefydlog a threfnus. Hyd yma yr oedd y pregethu wedi bod weithiau yma, ac weithiau acw, yn y tŷ hwn, a'r ysgubor draw; weithiau yn yr Abbey, ac weithiau ar y *Bowling-green*. I roddi mwy o gyhoeddusrwydd i ambell oedfa dewisid yr heol, neu ryw le arall, yn hytrach na chadw yr oedfa yn yr ysgubor. Yr oedd y crefyddwyr erbyn hyn, wedi gorchfygu yr erlid a'r baeddu, ac yn ymofyn am fwy o gyhoeddusrwydd; yn y dechreu nid felly yr oedd, eithr chwilient am ryw gilfachau lle y gallent ddysgwyl diane rhag trais ac aflonyddwch; gan wahodd hwn ac arall i gydfwynhau y moddion; ond o hyn allan, ymhyfhaent, gan alw sylw y trefedigion oll, ac argymhell eu breintiau ar bawb. Cafwyd cyhoeddiad Mr. Charles unwaith, cyn adeiladu y capel, a thybid, er mwyn cynyrchu mwy o sylw, mai dymunol fyddai iddo bregethu mewn lle mwy amlwg na'r hen ysgubor. Pendefynwyd, gan hyny, iddo ef bregethu ar y *Bowling-green;* yr hwn oedd, y pryd hwnw, y tu ol i westy yr *Hawk and Buckle*, yn y lle hefyd y buasai y *pit* ceiliogod gynt. Dysgwylid Mr. Charles i'r dref, erbyn hwyr y Sabboth; a lluaws o amaethwyr ar eu meirch, ac o'r trefedigion ar eu traed, a aethant i'w gyfarfod ar y ffordd tua Rhuthyn, ac a ddychwelasant gyd âg ef yn orymdaith drefnus, hyd i'r lle yr oedd i bregethu. Galwai hyn sylw y rhai diofal, a pharai radd o wyleidd-dra ar y rhai gwrthwynebol; pryd yr oedd boneddigrwydd y pregethwr, o ran ei wedd, mwyneidd-dra ei ysbryd, a sugn ei weinidogaeth, yn darostwng rhagfarn rhai, ac yn ennill calonau rhai eraill.

Yn y fl. 1793, yr adeiladwyd y capel, ac yr oedd Mr. Charles yn un o'r rhai a fu yn pregethu ar ei agoriad. Ymddengys y byddai y gŵr llafurus hwn yn ymweled yn lled fynych â Dinbych, yn ystod y tymhor hwn; a bu o wasanaeth dirfawr i ddwyn yr achos yn ei flaen, yn enwedigol yr ysgol Sabbothol. Deuai yma yn fynych i holi y plant ar gyhoedd, a thrwy ei annogaethau bu yn foddion arbenig i roddi prydferthwch a grymusder yn y ganghen hono o waith yr Arglwydd. Mawr fyddai yr awydd mewn hen ac ieuanc i ddysgu adnodau neu bennodau o'r Beibl, i'w hadrodd i Mr. Charles ar ei ddyfodiad i'r dref i'w gwrando. Ac nid oes amheuaeth na ddysgwyd llawer o'r Beibl oddiar yr egwyddor hon, ac heb fod un amcan uwch mewn golwg. Sonir am un hen frawd a erfyniodd ganiatad i ddysgu allan ryw gyfran o'r

gwirionedd erbyn y deuai Mr. Charles i holi yr ysgol. Wedi cael y caniatâd a geisiai, ymosododd yn egniol dros ben i ddysgu y salm gyntaf, a thrwy ddirfawr boen yr oedd wedi ei thrysori yn ei gof. Ond trwy ryw anffawd neu gilydd, ni chafodd ei hadrodd, a thorodd allan mewn siomedigaeth i ddolefain, "Wel, wel! dyma'r holl salm wedi myn'd yn ofer!" Ond er y gallai fod hwn yn arlun o ddosbarth o bobl, a ddysgent y Beibl er mwyn ei adrodd, y mae sicrwydd o fod esamplau lawer o'r fath rai wedi derbyn bendith gan Dduw, ac i'r gwirioneddau a ddysgwyd ar y dechreu, oddiar deimlad plentynaidd, fod yn foddion, yn y canlyniad i ddwysbigo y galon, a dychwelyd yr enaid at Dduw.

Cafwyd oedfaon rhyfeddol yn yr hen gapel. Cerddai y fath rymusder gyd â'r weinidogaeth, nes y byddai pob calon yn teimlo. Toddai y gynulleidfa yn fynych mewn dagrau, ac arllwysai lluaws eu teimladau mewn cân a moliant. Sonir am Rowland Williams, saer, fel un a deimlai yn ddwys iawn ar y fath achlysuron, ond nid oedd ei wybodaeth ond prin, er fod ei dymherau yn wresog. Clywsai am y gŵr a'r lleng cythreuliaid ynddo; y modd yr achubwyd ef, trwy fwrw y cythreuliaid allan o hono, a'r modd yr aethent hwy i foch y Gadareniaid; ac fel y bu i'r moch, wedi eu meddiannu felly, ruthro dros y dibyn i'r môr, a'u colli yn y dyfnder. Barnai Rowland pan y byddai arwyddion fod Iesu Grist yn achub pechaduriaid, y byddai y cythreuliaid, wrth gwrs, yn cael eu bwrw allan o'r dynion, a bod perygl iddynt fyned i'r moch, fel cynt, a pheri cryn golled. Dan ddylanwad y syniadau hyn, yr oedd Rowland un tro yn gwrando pregeth, yr hon, fel yr ymddengys, oedd yn oedfa tra effeithiol, ac yntau yn teimlo yn ddwys ei hunan; efe a gofiodd y perygl yr oedd y moch ynddo, a rhedodd allan at ddrws y capel, yn chwys mawr, ac yn dra chyffrous, a gwaeddai â'i holl egni,—"Bobl! bobl! cedwch eich moch! mae y cythreuliaid yn cael eu bwrw allan!" Ond er i lawer cythraul golli ei neuadd, ar yr adegau hyn, nid ydym wedi clywed fod neb o drefedigion Dinbych ddim ar eu colled oblegid hyny.

Yr ydym yn cael fod William Lewis, y pregethwr a fu byw dros dymhor yn Adwy'r-clawdd, wedi dyfod i Ddinbych tua'r adeg hon, ac iddo fod yn fendithiol yma trwy fod yn offeryn i ddiwygio y bobl oddiwrth ryw arferion annheilwng a barhaent yn ormodol yn mysg, hyd yn nod y crefyddwyr. Un arfer oedd anfon eu dysgleidiau bwyd i'r pob-tai cyhoedd, i'w crasu ar y Sabboth. Dynoethai William Lewis yr arferiad gyda llymder tra mawr; a phan y gofynid iddo, pa fodd y gwnaent, atebai yn ei ddull ei hun, "Berwch ef i'w grogi!" Diwygiwr arall, cyffelyb i William Lewis, a fu byw dros amser yn Ninbych, oedd John Thomas, gynt o Lancwnlle. Mawr oedd sel ac eiddigedd y gŵr hwn hefyd, yn erbyn pob math o lygredigaeth; ac nid oes amheuaeth na fu ymdrechion y gwŷr hyn yn foddion i ddarostwng llawer ar hen arferion ffol ac annheilwng, megys cyfeddach, a diota, yn nghyda halogiad y Sabboth, mewn gwahanol ddull. Arferai John Davies, Nantglyn, ddyfod i'r dref bob blwyddyn, dros ryw yspaid o amser, ar nos Lun y gwyl-

mabsant, i bregethu yn erbyn y llygredigaeth hwnw; a bu yn foddion, yn ddiau, mewn cysylltiad â'r ysgol Sabbothol i'w ddarostwng.

Yn y fl. 1809, y daeth Mr. Jones, Pen-ucha', Caerwys, i fyw i'r dref hon,* yr hyn a fu yn godiad ac yn hyrwyddiad mawr i'r achos. Yr oedd Mr. Jones, o gymeriad uchel fel dyn, ac fel ysgolhaig; heblaw ei fod yn gristion gloyw, ac yn bregethwr sylweddol; ac nid oes amheuaeth ddarfod i'w ddylanwad effeithio i ddarostwng rhagfarn llawer at Fethodistiaeth, yn enwedig y dosbarth hwnw o bobl a ymgadwent yn ddyeithr i'r crefyddwyr, ar gyfrif iselder eu sefyllfa, a'i hymddifadrwydd o ddysgeidiaeth. Yn Ninbych y parhaodd Mr. Jones i drigo, bellach, hyd ddiwedd ei oes, oddieithr y ddwy flynedd y bu ef yn Syrior, tyddyn yn agos i Abergele. Yma hefyd y treuliodd Evan Lewis lawer o'i oes. Yr oedd wedi bod yn preswylio yn Mochdre cyn dyfod i Ddinbych, a chyn diwedd ei dymhor, symudodd i Liverpool at ferch iddo; lle y bu efe farw. Nid oedd Evan Lewis yn cael ei gyfrif yn boblogaidd ei ddawn, eto o ran cyffredinolrwydd ei wybodaeth, yr oedd yn mhell o flaen llawer o'i gydoeswyr. Darllenasai lawer, a dangosai, yn y sylwadau achlysurol a wnai, ei fod yn ŵr o feddwl craff, ac o wybodaeth helaeth. Bu ei oes, ar y cyfan, yn un llawn o helbul; yr hyn yn ddiamheuol a barodd gyfyngu ei ddefnyddioldeb cyhoeddus. Eto nid oedd amheuaeth am ei grefydd er amled ydoedd trallodion ei oes.

Tua'r fl. 1814, daeth y Parch. Moses Parry, i'r golwg, yr hwn a dreuliodd fwy na 40 mlynedd yn y weinidogaeth, ac a fu yn wir ffyddlawn yn yr holl dŷ. Cymerodd ei farwolaeth le y flwyddyn hon (1855), a theimlir dirfawr golled ar ei ol yn ei sir.

Mae yr ysgol Sabbothol yn lluosog a blodeuog yn y dref hon, er ys blynyddau bellach; ond mawr a fu yr helbul i'w sefydlu; ac ar un adeg, ar ol ei chychwyn, ofnid mai i lawr yn hollol y syrthiai. Ar ei sefydliad cyntaf, nodwyd 12 o ddynion i ofalu am dani, 3 ar gylch. Denid rhai plant iddi trwy roddi dillad, neu esgidiau iddynt; ac ar yr un pryd yr oedd plant eraill y dref yn dyfod at ddrws y capel, i aflonyddu arni; a mawr fyddai ffwdan yr hen Robert Griffiths yn rhedeg ar eu hol. Yr oedd llawer o'r hen bobl yn parhau i lochi y meddwl, mai pechadurus oedd esgeuluso myned i wrando pregethau, os byddai rhai i'w cael o fewn y cyrhaedd, er mwyn yr ysgol. Effeithiodd hyn, a phethau eraill, gymaint arni nes iddi adfeilio yn drwm; ïe, daethpwyd unwaith i'r penderfyniad i'w rhoddi i fyny yn llwyr. Yn y cyfamser, ymaflodd John Roberts, gŵr a ddaethai i'r dref o gymydogaeth Llanrwst, ynddi; a chymaint oedd yr anhawsdra i'w dàl i fyny, nes iddo yntau unwaith lwfrhau, a phenderfynu ei gollwng i lawr. Pan hysbyswyd hyn, torodd un bachgen ynddi i wylo. Gofynwyd iddo, paham yr wylai? Dywedodd yntau, mai am fod yr ysgol yn cael ei rhoddi i fyny. Pan glybu John Roberts hyn, dywedodd, "Na, fy machgen, ni roddir hi i fyny, pe na

* Gwel ei hanes dan hanes Caerwys.

fyddai neb yn dyfod iddi ond tydi a minau." Felly, cymerwyd ail feddwl, ac ail ymosodwyd at y gwaith; a chafodd John Roberts, weled yr ysgol, yn mhell cyn ei farwolaeth, yn 600 o rifedi. Y bachgen a fu yn wylo rhag ei rhoi i fyny, oedd yr un, a ddaeth, wedi hyny, yn adnabyddus wrth yr enw, Mr. John Jones, Castle Street, Liverpool. Daeth John Roberts i fod yn wir ddefnyddiol yn yr ysgol. Yr oedd ganddo lais rhagorol i ganu, a bu yn arwain y canu yn y gynulleidfa dros flynyddau lawer; yr oedd yn ŵr o ymddygiad ennillgar gyd â'r plant, ac eto yn cadw dysgyblaeth lem arnynt. Cynghorai lawer arnynt, a gweddiai lawer drostynt. Ymblethodd trwy ei ymroddiad llwyr i'w llesâu, yn rhyfeddol yn eu serchiadau; a chafodd ddylanwad rhyfeddol arnynt; ac nid oes un amheuaeth na fu ef o wir fendith, i lawer o honynt.

Mae Dinbych, bellach, a hyny er ys llawer amser, yn sefyll yn uchel o ran Methodistiaeth, cymaint felly, o'i maint a'i phoblogaeth, ag un dref yn y Gogledd. Mae y capel bychan, 10 llath ysgwar, wedi ei chwalu er ys blynyddau lawer; ac, ar ol aml helaethiad arno, wedi rhoi lle i adeilad fawr a hardd. Yn awr, y mae nifer yr eglwys yn agos yn 300, a deiliaid yr ysgol Sabbothol rhwng chwech a saith gant o rifedi. Y Parch. Thomas Gee, yw yr unig weinidog sydd yn aros yn awr yn preswylio yn y dref.

PENNOD III.

PARHAD O ORSAFOEDD CYNTAF METHODISTIAETH SIROEDD DINBYCH A FFLINT.

CYNWYSIAD:—

DYFFRYN CLWYD—CRISTOPHER BASSET—DR. WILLIAMS, ROTHERHAM—ROBERT LLWYD, PLAS-ASHPOOL—CAPEL YN 1776—HANESYN AM WILLIAMS, PANT-Y-CELYN—EDWARD SIMON, GELLIFOR—JOHN OWENS YN CAEL EI ERLID YN RUTHIN—CAPEL CELLIFOR, 1814—WAUN BODFFARI—BERTHEN GRON—JOHN OWENS YN PREGETHU 1755-6—GORTHRYMU Y CREFYDDWYR—CAPEL YN 1775—HUMPHREY OWENS—ROBERT PRYS, PLAS-WINTER.

DYFFRYN CLWYD.

Yr ydym mewn rhan flaenorol* o'r gwaith hwn wedi crybwyll am enw un Robert Llwyd, Plas-ashpool, amaethwr cyfrifol, yr hwn a arferai dan anfanteision lawer, yn ei deulu ac yn ei wlad, bregethu neu gynghori ei gyd-wladwyr yn y pethau a berthynent i deyrnas Dduw. Dechreuodd Methodistiaeth ymsefydlu yn yr ardal hon, sef plwyf Llandyrnog, Dyffryn Clwyd, sef yr ochr ddwyreiniol i'r Dyffryn, gyferbyn â thref Dinbych, mor foreu a'r fl. 1749, sef yr amser y daethai Robert Llwyd i fyw i Blas-ashpool. Yr oedd y wlad

* Cyf. I., tudal. 156.

fras a hyfryd hon, yr un modd a Chymru yn gyffredinol, wedi ei gorchuddio gan dywyllwch, anwybodaeth, ac ofergoeledd; ac yn llawn ofer-gampau ac arferion gwag ac ynfyd. Ymgasglai yr ieuenctyd yn lluoedd ar Waun Llandyrnog, yr hon a elwid Waun *Catch;* gan gyfeirio, ond odid, at ryw gamp a fyddid yn ei chwareu. Yr oedd y Waun, ar y pryd, yn gyttir agored, ac yn gyfleus i ddwyn yn mlaen y cyfryw amcanion.

Dechreuodd y pregethu, fel y crybwyllwyd, mewn tŷ bychan tô gwellt, yr hwn a elwid "Tŷ Modlen." Yma yr oedd y Parch. Daniel Rowlands yn pregethu pan y pigwyd John Owens, Berthen-gron, yn ei galon. Yr oedd merched Plas Llangwyfen eisoes yn grefyddol, un o ba rai a briodwyd gan John Owens. Y merched hyn, fel yr ymddengys, oedd y rhai cyntaf yn y parthau hyn a ddangosent ryw ymlyniad mwy na chyffredin at Fab Duw a'i achos. Clybuwyd rhai o'r hen bobl henaf yn adrodd am un tro yr oedd rhyw ŵr enwog o'r Deheudir yn pregethu allan wrth y tŷ bach crybwylledig; nid oes sicrwydd pa un ai Mr. Rowlands ydoedd, ai Mr. Jones, Llangan; a bod y Parch. Cristopher Basset, A.C., o sir Forganwg, gydag ef. Dywedent hefyd fod gorfoledd mawr wedi tori allan dan y bregeth, a bod Mr. Basset ac eraill, yn nghyda merched Plas Llangwyfen, "yn neidio ac yn moli Duw. A'r holl bobl a'u gwelodd hwy yn moli Duw, a hwy a lanwyd o fraw a synedigaeth am y peth a ddygwyddasai." Adroddai Mr. Basset y pennill canlynol wrth foliannu:—

"Yn y rhyfel mi arosa',
Yn y rhyfel mae fy lle;
Boed fy ngenau wrth y ddaear,
Boed fy llygad tua'r ne';
Doed y goncwest pryd y delo,
Dysgwyl wrth fy Nuw a wnaf,
Nes o'r diwedd wel'd yn trengu,
Pechod ag oedd bron fy lladd."

Bu farw Mr. Basset yn y fl. 1784, yn 31 ml. oed. Arferai enwogion y Deheubarth ddyfod i Dŷ Modlen, sef Rowlands; y ddau Williams; Davies, Castell-nedd; Lloyd, o Gaio; Dafydd Morris, ac eraill; a mawr y cyfrifid y cynulliadau a ymgasglai yn achlysurol i'r lle, a hyny dros flynyddau. Tua'r fl. 1767 y daeth Mr. Edward Williams, sef y Dr. Willams, o Rotherham wedi hyny, pan ydoedd tua 17 ml. oed, i wrando Daniel Rowlands i'r lle hwn. Brodor o'r gymydogaeth hon oedd efe; a hon oedd y bregeth gyntaf a glybu erioed y tu allan i'r eglwys wladol. Cafodd y llanc flas rhyfeddol ar y bregeth, ac er maint oedd gwrthwynebrwydd ei rieni, dyfal gyrchai i "Dŷ Modlen" i wrando y pregethau a draddodid yno. Meddai ef ei hun, pan ydoedd ar fedr ymbarotoi i dderbyn y cymun, "Mae yn beth sŷn, eto yn ffaith arswydus, nad oedd yn yr holl blwyf yr oeddwn yn preswylio ynddo, ddim cymaint ag un teulu ag addoliad crefyddol ynddo, nag oedd yn nheulu y gweinidog ei hun; na thri o glerigwyr yn chwe' sir Gwynedd, a bregethent ac a fucheddent yr

efengyl yn ei grym a'i phurdeb! O'r pryd hwn mi a wrandawn bregethau yn achlysurol yn nghyfundeb Mr. Rowlands (yr un a'r Whitfieldiaid), ond y tro cyntaf yr agorwyd fy nghalon gan ddwys argyhoeddiad, oedd wrth wrando pregethwr llëyg mewn ysgubor wael." Yna y mae yn adrodd yr effeithiau a gynyrchodd y bregeth hon ar ei galon, ac yn dybenu trwy ddyweyd, "Hwyrach, y gallaf ddyweyd, na theimlodd yr un pechadur tlawd erioed fwy wrth wrando apostol ysbrydoledig nag a deimlais i."

Yr oedd wedi myned i'r bregeth yn ddiarwybod i'w deulu; a chan faint oedd eu hofn iddo ymgyfathrachu â'r Methodistiaid, yr oeddynt yn llawn digofaint; a gorchymynwyd yn llym i'r gweision beidio ei dderbyn y noson hono i'r tŷ, er ei bod yn wlyb ac oer. Gwnaeth ei wely, gan hyny, mewn gwellt, yn un o'r tai allan; ond gan fod ei ddillad eisoes yn wlybion, teimlai ei hun yn oer ac anystwyth yn y bore. Yr oedd dirfawr arswyd arno gyfarfod â'i rieni yn y bore; eto nid bu yr ystorm yn fwy nag a ddysgwyliasai iddi fod: a hi a aeth drosodd. Mawr oedd pryder ei rieni o achos y cyfnewidiad a ganfyddent yn y bachgen. Wylai y fam uwch ei ben, a gwgai ei dad. Barnai y ddau fod eu mab eisoes wedi ei andwyo am ei oes. Bu yn aelod, tybygid, gyda'r Methodistiaid dros ddwy neu dair blynedd; pryd yr anfonwyd ef at ŵr eglwysig yn Nerwen, i ymbarotoi mewn dysg i fyned i Rhydychen. Tra yr oedd dan arolygiaeth yr athraw, yr hwn oedd yn ffyrnig yn erbyn Ymneillduwyr, diangodd y llanc unwaith i'r Bont-uchel, wedi clywed fod yno bregeth i'w dysgwyl; a dychwelodd yn ol mor fuan, fel ag y barnodd yr athraw na allasai gan amser, fod wedi bod; ac felly cuddiwyd ef y tro hwnw. Ond yr oedd, er hyny, wedi ei ddadebru a'i gysuro, trwy y lluniaeth a dderbyniasai ei enaid newynog yn y bregeth: cofiai am y tro flynyddau ar ol hyn; ac unwaith, pan yn Ninbych, rhoes heibio bregethu, fel y dysgwyliasid iddo wneyd, ac a aeth rai milldiroedd o ffordd i wrando y llais a weinyddasai iddo gymaint o ddyddanwch yn y Bont-uchel. A phan yr ymlywiai rhyw rai ag ef am wneuthur hyn, dywedai, "Gobeithiwyf y cyd-ddygwch â mi; ni allaf byth anghofio y cysur a'r lles a gefais trwy ei bregeth yn y Bont: yr oedd, mewn gwirionedd, fel bara y bywyd i enaid newynog."

Robert Llwyd, Plas-ashpool, a fu yn offeryn i ddwyn Williams ieuanc i wrando, ac fel hyn, meddir, y bu. Anfonodd ei dad ef un diwrnod gyda dwy anner *(heifers)*, i Blas-ashpool i bori gwellt, oblegid yr oeddynt yn gymydogion; ac ebe yr hen ŵr wrtho, "Tyred gyda ni, Ned, i'r oedfa sydd yn y fan yna—tyred fy machgen, yn awr." Yntau a aeth. Yr oedd wedi clywed rhywrai cyn hyn yn edliw iddo ei fod, o herwydd ei ddichlynrwydd a'i ddifrifwch, yn un o'r Methodistiaid. Tybiodd, ar y pryd, y gallai y rhai dirmygedig hyn fod yn well pobl na'r rhai a'u dirmygent; a theimlai ar y pryd ryw awydd i gael gwybod mwy am danynt. Rhoddwyd y cyfleusdra iddo, a chyda Robert Llwyd yr aeth. Fel hyn dechreuodd gyrfa y gŵr mawr hwnw. Ymunodd â'r ychydig Fethodistiaid oedd ar gael mewn cynulliad a gynelid mewn amaethdŷ, a elwid Cefn-y-gwrdu. Yr oedd y lle hwnw oddeutu han-

ner y ffordd rhwng y Dyffryn a'r Gellifor; ac yma y byddai y cyfarfod eglwysig yn cael ei gadw, am fod amryw o'r teulu hwn yn proffesu crefydd.

Yr oedd holl grefyddwyr y wlad hon yn ymffurfio, y pryd hwnw, yn un gymdeithas eglwysig; deuent at eu gilydd o feithder mawr o ffordd, sef o Dremeirchion hyd Gellifor, gerllaw Llanychain, yn agos i Ruthin, 12 neu 15 milldir o bellder. Yn y Dyffryn, neu y llecyn a alwyd felly, yr oedd eu prif gyniweirfa; a rhyfedd y fath gyrchu fyddai rai prydiau i'r lle hwn. Adeiladwyd hen gapel y Dyffryn yn y fl. 1776; pum' mlynedd ar ol capel Pont-uchel; a deng mlynedd o flaen capel Llanarmon. Yr Ymddiriedolwyr oeddynt:—

Parch. Daniel Rowlands, Llangeitho,
—— Nathaniel Rowlands, ei fab,
Mr. David Jones, Bryn-mynach,
— William Lloyd, Henllan (Caio),
— David Morris, Troed-yr-aur.

Cafwyd gan yr enwog Rowlands ddyfod i'w agoryd, a galwyd ef "Capel y Dyffryn;" am nad oedd yn Nyffryn-clwyd ar y pryd, yr un capel arall. Bu Nathaniel Rowlands, a Mr. Charles, o'r Bala, yn darllen gwasanaeth eglwys Loegr ynddo; ac ar Sabboth cymundeb, rhyfeddol y lluaws a gyrchai iddo, o'r Berthen, Caerwys, Tremeirchion, Dinbych, Henllan, Llansanan, Nantglyn, Bont-uchel, a Rhuthyn. Nid oedd nifer yr eglwys, er hyn oll, ac wedi 40 mlynedd o bregethu, ond ychydig; gan nad oeddynt yn y fl. 1790, ond 43 o aelodau. Ond fe'n harweinir ni i feddwl eu bod o ysbryd gwahanol i fwyafrif yr aelodau sydd yn yr eglwysi yn awr; mwy eu hawydd am dreiddio i adnabyddiaeth o'r efengyl, a mwy eu mwynhad o honi. Mae prawf ar gael, allan o 38 o aelodau a berthynai i'r gymdeithas eglwysig yn y lle hwn, yn y fl. 1788, fod 33 o honynt, yn y flwyddyn ganlynol, yn derbyn gwaith y Parch. William Gurnal. Pa eglwys sydd yn awr yn gwneyd yn gyffelyb?

Fe ddyry yr hanesyn canlynol ddrych-feddwl i'r darllenydd o graffder rhai o'r hen dadau yn adnabod dynion a geisient am aelodaeth eglwysig. Ryw bryd yn y fl. 1788, yr oedd W. Williams, Pant-y-celyn, yn pregethu yn y capel hwn; ac yn ol yr arferiad gyffredin, yn y tymhor hwnw, yn cadw cyfarfod eglwysig ar ol yr oedfa. Yr oedd yno ddau wedi aros i ymofyn am aelodaeth o newydd, sef gŵr o saer yn y gymydogaeth, ac herlodes ieuanc. Ymddyddanodd Williams â hwy, yn ol ei arfer; ac ar ol darfod, ebe fe, gan gyfarch yr eglwys, "Gadewch i'r eneth yma aros gyda chwi, ac ymgeleddwch hi; ond am y gŵr yna, nid oes ganddo ddim mwy o grefydd nag sydd gan fy ffon i," gan daro ei ffon yn y llawr. Felly hefyd y troes pethau allan. Gwrthgiliodd y gŵr yn fuan; ond am y ferch ieuanc, y mae hi yn aros hyd heddyw, o leiaf yr oedd hi yn y fl. 1850, ac yn perthyn i'r eglwys yn Gellifor; a'r pryd hwnw yn 80 ml. oed. Fe allai fod y gair yn 1 Cor. xii. 10, "Ac i arall wahaniaeth ysbrydoedd," yn cael ei wirio yn neillduol yn yr hen Fardd o Bant-y-celyn; mwy felly, meddir, ynddo ef, na nemawr un o'i gydoeswyr.

Bu yr un gŵr, amryw weithiau, yn pregethu yn yr ardal hon cyn ac wedi adeiladu a capel; ond bernir mai y tro y cyfeirir ato uchod oedd yr un olaf iddo fod yn y Gogledd, gan y bu efe farw yn mhen llai na thair blynedd wedi hyn. "Clywais fy nain," medd fy ngohebydd,* "yn dywedyd iddo fyned yn glaf unwaith, pan ar ei daith, ac iddo dreulio wythnos yn Mhlas-ashpool, gyda Robert Llwyd. Bu farw y ddau yn lled agos i'r un amser. Ymadawodd Robert Llwyd â'r byd hwn, mewn llawn sierwydd gobaith, gan adrodd, fel ei eiriau diweddaf, "Mi wn fod fy Mhrynwr yn fyw, ac a saif yn y diwedd ar y ddaear," &c., yn mis Tachwedd, 1792.

Yr oedd Edward Parry, Bryn-bugad, ac yntau yn gyfeillion mawr; a hawdd genym gredu hyny, gan nad oedd ganddynt, pan droisant allan gyntaf, nemawr neb arall yn yr holl wlad o gyffelyb feddwl; yn gweithio dan yr un iau, ac yn ymgais at yr un amcan. Am Gellifor, dywedir, "Nid oes hysbysrwydd pa un ai Edward Parry ai Robert Llwyd a bregethodd gyntaf yn Gellifor. Byddai Edward Parry yn myned yno yn fynych, ac yr oedd y ddau ŵr hyn yn gyfeillion mawr â'u gilydd. Pan ddelai Robert Llwyd ar ei dro i bregethu yn mhlwyf Llansanan, byddai yn aros ddiwrnod yn gyffredin yn Mryn-bugad; a holl ymddyddan y ddau gyfaill fyddai, yn nghylch sefydlu a threfnu eglwysi yma a thraw." Oddeutu y fl. 1800 y darfu i'r ychydig gyfeillion a berthynent i eglwys y Dyffryn, ond yn byw yn ardal y Gellifor, ymffurfio yn ganghen o gymdeithas eglwysig yn y lle hwnw. Yr oedd yma bregethu wedi bod er ys llawer o flynyddau mewn tai anedd yn y gymydogaeth, a pharhaodd y pregethu felly mewn tai dros amryw flynyddau ar ol i ganghen eglwys gael ei ffurfio yn yr ardal.

Yr oedd Edward Simon, yn un o flaenffrwyth yr efengyl, yn Gellifor. Ganesid ef yn y fl. 1750, mewn amser tywyll ac anfanteisiol; eto, cafodd ar ei feddwl geisio dysgu darllen Cymraeg; llwyddodd hefyd yn ei gais; ac arferai, pan yn ieuanc, ef a'i dad, wrando ambell bregeth a fyddai i'w chael yn yr ardal; er nad oedd eto, wedi profi grym y gwirionedd ar ei galon. Yr oedd ef a'i dad, yn gweithio rywbryd, i ŵr a ddygai gryn sel dros yr eglwys sefydledig, ac yn ddirmygus iawn o bawb arall; ar ryw foregwaith, wedi clywed fod y tad a'r mab wedi bod y nos o'r blaen mewn addoliad Methodistaidd, dacth y meistr atynt, ac yn dra gwawdus a ofynodd i'r tad, "Ai yn y '*weddi dywyll*' y buost ti neithiwr Ned?" I hyn ni roddwyd yr un atebiad; ond wrth ei fod yn parhau i wawdio mewn modd tra atgas, methodd y bachgen, 14 ml. oed, a dyoddef; a throes at y meistr i'w holi; a chafodd allan yn fuan na wyddai efe ddim pa sawl deisyfiad oedd yn y pader, na pha sawl pwnc oedd yn y credo; ac ar hyny, ebe y llanc, "Na soniwch yn rhagor am ein 'gweddi dywyll' ni; o herwydd y mae pob gweddi yn dywyll i chwi." Dyrysodd hyn y gwawdiwr, a chiliodd yn ol gan ddyweyd wrth y tad, "Bachgen *garw* sydd genyt:" ac ni anturiodd wawdio mwy.

* Mr. John Davies, un o henuriaid Capel y Dyffryn.

Pan oedd y bachgen hwn yn 20 ml. oed, sef yn y fl. 1770, y daeth Dafydd Jones, Adwy'r-clawdd, i bregethu i ryw le o fewn ei gyrhaedd; pryd y dwysbigwyd ef yn ei galon, a mawr fu ei drallod yn y canlyniad am fisoedd, hyd nes yr arweiniwyd ef i ffoi i gymeryd gafael yn ngobaith yr efengyl. Ymunodd â'r eglwys yn y Dyffryn y flwyddyn ganlynol. Wedi priodi aeth i fyw yno i dŷ y Capel; ac yn ysbaid yr 11eg mlynedd y bu efe yno, galwyd ef i fod yn swyddog eglwysig; a theithiodd lawer ar Ogledd a Dê i ymofyn am bregethwyr i ddod i weinidogaethu yn yr ardaloedd cylchynol. Symudodd drachefn i Gellifor, lle nad oedd, ar y pryd, heblaw efe ei hun, ond dau yn proffesu crefydd; y tri hyn a äent yn gyson i'r cyfarfod eglwysig a gynelid yn nghapel y Dyffryn, tua thair milldir o ffordd. Yn mhen rhyw gymaint o amser, collodd ei ddau gyfaill, ac ef ei hun a adawyd; a bu felly am ysbaid 30 o flynyddau, yn teithio yn gyson i'r Dyffryn er mwyn mwynhau y moddion yno.

Yr oedd y deng mlynedd ar hugain hyn, yn dymhor tywyll, ac isel ar grefydd yn ei ardal ef; tymhor yr oedd rhagfarn yn gryf yn erbyn crefyddwyr; eto, nid ydym yn cael iddo weled, na phrofi, nemawr o erlid a baeddu ar grefyddwyr, ond unwaith. Y tro hwn, anturiasai John Owens, Berthengron, wneyd cais ar bregethu yn nhref Rhuthyn. Oddeutu canol y bregeth, daeth i'r lle, haid o wyr ieuainc y brif-ysgol, mewn llawn fwriad i roddi terfyn oesol ar y fath ysgelerder, ag y cyfrifid y pregethu ganddynt. Ymosodasant yn ffyrnig ar y tŷ, gan luchio tom a cherig trwy y ffenestri i'r tŷ yr oeddid yn addoli ynddo, nes y gorfu i bawb ffoi am eu bywyd. Tarawyd Edward Simon, â dwbiad o dom ar ei lygaid, fel na allai weled i ba le i ddianc rhag y perygl. Sychodd ymaith y dom, mor ebrwydd ag a allai; a diangodd ef a'i gyfeillion ar ffrwst tua'u cartref. Ond y gelynion a ddaethant ar eu hol, ac a'u goddiweddasant; dechreuasant eu baeddu yn ddidrugaredd; lluchiasant het un o honynt i'r afon Clwyd, archollasant ei ben yntau yn dost, a llusgasant y lleill gerfydd eu gwallt. Ar hyn, ymosododd tri o honynt ar Edward Simon, a'r mwyaf o honynt yn mlaenaf; a ffyrnigodd hyn yntau, gan benderfynu mai ei ddyledswydd, bellach, oedd ei amddiffyn ei hun. Cododd ei ddwrn, a dywedodd wrth y blaenaf, "Os deui di yn agos yma, mi a'th darawaf nes y byddi yn ymdreiglo mewn mynyd." Bwriodd y bygythiad, syndod a braw, ar yr ymlidiwr, a chiliodd ymaith yn frawychus; ac wrth weled eu blaenor yn ffoi, ffodd y lleill hefyd.

Ni ddygwyddodd dim niweid, meddir, i'r pregethwr; eto fe'i cuddiwyd ef mewn modd na fuasid yn dysgwyl. Yn y derfysg fawr oddeutu y tŷ pregethu, cafodd egwyl i gilio, a diangodd i dŷ; dygwyddodd i wraig y tŷ, er mai un tra annuwiol ydoedd, gael ar ei meddwl ei lochi; a phan y daeth yr erlidwyr dysgedig (!) yno i'w geisio, torodd yr hen wraig allan, mewn llwon a rhegfeydd, na ddaethai efe ddim ati hi; a thrwy lwon, a gwrolder yr hen fenyw, y diangodd y pregethwr.

Tua'r fl. 1807, neillduodd Edward Simon, ran o adeilad, o'r eiddo ei hun,

i fod yn lle pregethu, gan ei daclysu ar wedd capel. Yma, gan hyny, y bu y pregethu am y saith mlynedd canlynol. Yn y fl. 1811, daeth John Edwards, Gelligynan, i'r Plas-coch, tyddyn ehelaeth yn y gymydogaeth, i fyw. Adfywiasai yr achos eisoes, fel yr oedd pregethu yn amlhau, a chyfleusderau yn ychwanegu; ac ymadfywiodd eilwaith, ar ddyfodiad y teulu crybwylledig i'r Plas-coch. Yn y fl. 1814, adeiladwyd y capel presenol, ac o hyny hyd yn awr, y mae gwedd cadarn a siriol ar y gwaith. Rhif yr aelodau, tua 70; a'r gwrandawyr tua 300.

Torodd eglwys y Dyffryn allan i'r gogledd hefyd. Yr oedd crefyddwr yn byw mewn amaethdŷ, gerllaw Bodffari, yn y Geinas, enw yr hwn oedd Mr. Edward Jones. Bu pregethu yn y Geinas am lawer o flynyddau, ac ysgol Sabbothol luosog. Ymffurfiodd yr aelodau yn yr ardal hon, yn gymdeithas eglwysig, ar wahan oddiwrth y Dyffryn. Yn y fl. 1822, cafwyd tir i adeiladu capel ar Waun Bodffari. Yno, bellach, y mae cynulleidfa, oddeutu 200 o rifedi, yn arfer gwrando yn gyson; a thua 50 neu ychwaneg, yn aelodau eglwysig. Nid yw yr hen fam-eglwys, yn y Dyffryn, chwaith, ddim yn eiddil. Yn hytrach, yr oedd yn cryfhau, fel yr oedd yn eppilio. Er i nifer ymadael oddiwrthi i Gellifor, ac wedi hyny i'r Waun; eto, teimlai fod angenrheidrwydd wedi ei osod arni i eangu ei haddoldŷ. Yr oedd y gynulleidfa a'r ysgol Sabbothol, yn lluosocach nag a gynwysai y capel, gyd âg un math o gysur; felly, dechreuwyd llygadu am le eangach. I'r dyben hwnw, newidiwyd yr hen gapel am le arall, yr hwn a gaed gan y Parch. Edward Williams, pregethwr a godasai yn yr ardal. Yn y fl. 1836, gan hyny, adeiladwyd yma gapel newydd, hardd a helaeth; yr hwn a lenwir â chynulleidfa fawr a chyson. Mae yr eglwys yma, er y dyhysbyddu fu arni, tua 80 o rifedi; a'r gwrandawyr dros 300.

BERTHEN-GRON.

Enw ydyw Berthen-gron ar dyddyn bychan yn sir Fflint, yn gorwedd rhwng Caerwys a Threffynnon; ac oddeutu canol y ffordd. Y mae yr enw yn adnabyddus i Fethodistiaid Dê a Gogledd; yn enwedig y dosbarth henaf o honynt. Nid oes genym hanes fod Howel Harris erioed wedi bod yn yr ardaloedd hyn, na bod Methodistiaeth wedi rhoddi ei droed i lawr yma cyn yr ymraniad 1751, nac ychwaith wedi yr ymraniad dros ryw nifer o flynyddau.

Yr ydym eisoes * wedi adrodd y modd y dygwyd John Owens, Berthengron, dan argraffiadau crefyddol; a rhag meithder, cyfeiriwn y darllenydd at yr hanes mewn rhan flaenorol o'r gwaith hwn.

Ymddengys mai mab ydoedd i Owen Thomas, Lleyn, sir Gaernarfon. Daethai ei rieni i sir Fflint tua'r fl. 1725, i drigo mewn tyddyn o'r enw Mwrcwd, plwyf Ysgeifiog. Ymddengys fod Owen Thomas yn ddyn rhinweddol

* Cyf. I., tudal. 157.

a dichlynaidd, os nad hefyd yn ŵr crefyddol; ond yr oedd dan lawer o anfanteision, am nad oedd ganddo neb i'w gyfarwyddo mewn pethau crefyddol. Ymdrechodd, pa fodd bynag, i roddi gradd o ddysg i'w blant, a chynghorai hwy yn ol y goleuni oedd ynddo i rodio yn ol gair yr Arglwydd. Ganwyd iddo bedwar o blant; sef dau fab, John a Humphrey; a dwy ferch, Sarah ac Ann. Cyfrifid John Owens yn ŵr dichlynaidd a medrus; arferai fyned i'r llan yn gyson bob Sabboth, ac yr oedd yn cael ei ystyried yn brydydd enwog. Yr oedd yn ddyn poblogaidd yn mysg ei gyd oeswyr fel un a fedrai gyfansoddi *Interludiau* a'u chwareu; ond yn nghanol yr holl rwysgedd hyn, dywedir ei fod yn teimlo oddiwrth anesmwythder ei gydwybod, ac ymrysoniadau yr Ysbryd Glân.

Wedi iddo, trwy wrando ar Mr. Rowlands, Llangeitho, yn mhlwyf Llangwyfan, Dyffryn-clwyd, fel y cyfeiriwyd, i brofi awdurdod y gwirionedd ar ei galon, efe a lwyr ymroddodd i fod yn eiddo yr Arglwydd; ac wedi priodi, daeth ef a'i wraig i fyw i'r Berthen-gron, plwyf Ysgeifiog. Yn y fan wedi iddynt ymsefydlu, ymofynasant am gael pregethu i'r Berthen. Ar y pryd, nid oedd un eglwys gan y Methodistiaid yn sir Fflint, na'r un pregethwr chwaith. Yr oedd Dafydd Jones tuag 20 milldir o ffordd; John Richards, yn agos i Lanrwst, tua 30 milldir oddiwrtho; y ddau hyn oeddynt y rhai agosaf ato, oddieithr Edward Parry, o Bryn-bugad, a Robert Llwyd, o Plas-ashpool, y rhai oeddynt yn agos ato mewn cydmariaeth; yn enwedig yr olaf, ac oll yn sir Ddinbych. O'r Deheudir, gan mwyaf, y ceid pregethwyr y pryd hwn, o leiaf y rhai mwyaf eu doniau. Yr oedd Mr. Rowlands, a Dafydd Morris; ac yn ddiweddarach, Jones, Llangan; a Davies, Castell-nedd; yn dyfod yn lled gyson i'r Gogledd, ddwy waith neu dair bob blwyddyn. Trwy weinidogaeth achlysurol y tadau hyn ac eraill, galwyd llawer i fod yn saint yn y parthau hyn o'r wlad; ac yn eu mysg yr oedd Humphrey, brawd John Owens, a'i ddwy chwaer; y rhai a fuont ffyddlawn a defnyddiol dros eu hoes. Dyma ddechreuad Methodistiaeth sir Fflint.

Nid hir wedi ei ddychweliad at Dduw, y bu John Owens heb ddechreu llefaru gair dros Dduw. Dechreuodd, meddir, yn mhen tair blynedd ar ol priodi, sef tua'r fl. 1755—6, a bu yn llafurio felly tuag 20 mlynedd, cyn agoriad capel y Berthen, a chyn ei farwolaeth ef ei hun. Yn y blynyddau cyntaf hyn, yr oedd yr arddeliad a roddid ar y weinidogaeth ar y naill law, a'r ffyrnigrwydd a ddangosid yn ei herbyn ar y llaw arall, yn cyfateb i'w gilydd. Yr oedd y nefoedd yn rhoi, fel yr oedd uffern yn cynhyrfu; ac fel yr oedd uffern yn cynhyrfu yr oedd y nefoedd yn rhoi: yr oedd y naill yn galw am y llall, ac yn cyfartalu i'w gilydd. Rhoddid tywalltiadau rhyfeddol o'r gwlaw graslawn, nes gorlenwi rhai â gorfoledd; darostwng eraill i ufuddod; peri syndod aruthrol mewn rhai, ac enyn cynddaredd creulawn mewn eraill. Fel yr oedd nifer y crefyddwyr yn lluosogi, a'r achos yn ymeangu i'r ardaloedd cymydogaethol, yr oedd y gwrthwynebiad yn ymgadarnhau, ac ni chafodd John Owens a'i deulu ddim dianc. Yr oedd gan y ddau frawd waith

plwm, yn werth ar y pryd, meddant, tua thair mil o bunnau. Ar eu gwaith yn troi at y crefyddwyr, ïe, ac yn flaenoriaid ar y sect newydd; cynhyrfodd perchenog y tir, yn nghyda'r goruchwyliwr, yn dost yn eu herbyn; a phenderfynasant naill a'i llethu eu crefydd, neu ysbeilio eu meddiannau. Anhawdd, fe allai, ydyw sicrhau pa un oedd fwyaf dewisol ganddynt; ond yr oedd yma fantais naill ai i ddinystrio yr hyn oedd gas ganddynt, neu ynteu i feddiannu yr hyn oedd hoff ganddynt. Anfonwyd am y ddau frawd i'w cyfarfod yn ngwestŷ y *White Horse*, yn Nhreffynnon; lle yr oedd llawer o wŷr mawr eraill, wedi dyfod yn nghyd ar yr achlysur tra buddiol (?) o redeg ceffylau. Dygwyd y ddau frawd ger bron, ac wedi blino yn eu gwawdio, rhoddwyd iddynt eu dewis, pa un a wnaent ai gadael eu crefydd, ai colli eu gwaith; ac y rhoddid iddynt amser i ystyried. I hyn yr atebodd John Owens yn bwyllog, eto yn gadarn, nad oedd eisiau amser i ystyried y peth; os ymadael oedd raid ag un o'r ddau, mai y gwaith plwm, er cystal ydoedd, a fyddai hwnw: ac felly y bu.

Disgynodd y profiad tanllyd hwn ar amryw grefyddwyr eraill yn y cymydogaethau, a methodd rhai a dàl y brofedigaeth; dewisasant eu meddiannau, yn hytrach na heddwch eu cydwybodau; eto, ni lwyddodd hyny, canys hysbys fu yn y wlad, os cadwasant eu gwaith y collasant eu cysur dros eu hoes. Ond am y lleill gofalodd rhagluniaeth am danynt; fel na bu arnynt eisiau dim daioni. Ni chafwyd lle i genfigenu wrth y goruchwyliwr, yr hwn, feallai, oedd fwy ei bechod na'i arglwydd; canys cyn pen blwyddyn y galwyd ef i roddi cyfrif o'i oruchwyliaeth i Lywodraethwr y byd, trwy farwolaeth tra arswydus. Tarawyd ef â chlefyd blin, a dychrynwyd ef â drychiolaethau, fel na allai pump o ddynion ei ddàl yn ei wely; a "chan bryfed yn ei ysu efe a drengodd." Daeth y pum' gŵr ag oedd gydag ef yn ei glefyd at grefydd ar ol hyn, a buont ffyddlon gydag achos Mab Duw dros eu hoes. Pa le y mae y dyn, oddieithr ei fod yn anffyddiwr perffaith, na ddewisasai bellach ran y rhai a gawsai gam na'r eiddo yr hwn a'i gwnaeth? Pwy erioed a ymgaledodd yn erbyn Duw ac a lwyddodd?

Goruwchlywodraethodd yr Arglwydd amcanion drygionus dynion yn yr amgylchiad hwn, i fod yn wasanaethgar i deyrnas y Cyfryngwr. Collodd rhai eraill, fel y dywedwyd, eu gwaith, tua'r un amser a John ac Humphrey Owens; ac yn eu mysg yr oedd un William Llwyd. Parodd y golled hon iddo ef symud i Liverpool i ymofyn am ei damaid, mewn rhyw ffordd arall; a bu ei ddyfodiad, i'r dref hono, fel y ceir gweled eto (dan hanes y trefydd), yn achlysur i Fethodistiaeth ymwreiddio yn y dref fawr hono.

Ond i ddychwelyd at hanes John Owen; yr oedd unwaith gyda John Evans o'r Bala wedi myned i gŵr o blwyf Llanfachraeth, sir Feirionydd, ar feddwl pregethu. Aethai rhyw nifer o gyfeillion crefyddol gyda hwynt o'r Bala. Ymddengys, pa fodd bynag, i'w bwriad ddod yn adnabyddus i'r gwrthwynebwyr, cyn eu dyfodiad i'r lle; neu yn bur fuan wedi hyny; oblegid daeth haid o honynt ar warthaf y pregethwyr, a dechreuasant eu baeddu yn ddidrugaredd. Diangodd John Evans heb ncmawr niwaid, trwy ei fod yn fwy

gwisgi a chyflym na neb o'r erlidwyr. Blin iawn oedd ganddynt ei fod wedi eu siomi, a bygythiasant ymlid ar ol y "cythraul heglog," fel y galwent ef, a dial arno. Yr oedd John Owens yn y cyfamser wedi syrthio mewn llewyg gan y driniaeth a gawsai; a meddyliodd yr erlidwyr eu bod wedi ei ladd; parodd hyn ddychryn arnynt hwythau, a diangasant ar ffrwst, gan adael y truan, o'u rhan hwy, i ddadebru neu farw fel y dygwyddai, ac anghofiasant ddilyn ar ol John Evans.

Yr oedd John Owens, dro arall, yn dychwelyd o Langeitho, a chydag ef yr un John Evans; ac hefyd blaenor rhagorol o Lanrhaiadr Dyffryn-clwyd, o'r enw Thomas Parry; ac yn Machynlleth troesant i dafarndy i ymofyn ciniaw. Nid hir y gallai John Owens, fod yn unlle heb ddangos pa beth yd-oedd; a chan fod enw Methodistiaid yn dra anmharchus, y pryd hwnw, fe fyddai yn dueddol o dynu aml ddrycin yn ei ben; ac weithiau, fe allai heb wir raid. Trwy hyn, cododd dadl boeth rhyngddo â rhyw ddyn a ddygwyddai fod yn y lle, yn nghylch rhyw bwnc crefyddol. Ymddengys fod y pregethwr yn trechu ei wrthwynebwr yn y ddadl; cythruddodd hyn y dyn yn arswydus; ac yn ei ffyrnigrwydd, lluchiodd y gyllell at ben John Owens. Methodd ei nod, pa fodd bynag, a glynodd y gyllell yn y pared o'r tu ol iddo. Gyda hyn daeth y tafarnwr i'r ystafell, a gofynai yn frysiog, pa beth oedd testyn y cythrwfl. "Y mater," ebe John Owens, "ydyw y peth a'r peth;—ac y mae St. Paul yn dywedyd fel hyn ar y mater, a'r dyn yma yn dywedyd fel arall."

"Pw, pw, St. Paul yn wir!" ebe gŵr y tŷ, "paham y taerwch yn nghylch hwnw?—un sy'n dyweyd fel hyn mewn un man, ac yn y gwrthwyneb mewn man arall. Na thaerwch yn nghylch un mor sâl a St. Paul yn fy nhŷ i."

Ar ol yr amser y dechreuodd John Owens bregethu, un o'r moddion a ddefnyddiwyd gan ei gyd-blwyfolion i'w flino a'i ddyrysu, oedd ei osod ef yn warden yr eglwys. Penderfynodd yntau gan ei dreisio i gymeryd y swydd, y gwasanaethai efe hi yn ffyddlawn; felly un o'r pethau cyntaf a wnaeth, oedd gosod rhaid ar yr offeiriad i ddod at y gwasanaeth foreu Sabboth mewn pryd. Arferai y gŵr parchedig fyned i hela ar foreu Sabboth yn aml, a mynych y byddai ar ol ei amser yn dychwelyd. Yr oedd unwaith ar ol hanner dydd arno yn dychwelyd, pryd yr oedd John Owens yn mysg y bobl a ddysgwylient am dano i gyflawni y gwasanaeth; ond gan fod y boreu wedi myned heibio ni oddefai y warden iddo ddarllen y *boreuol* wasanaeth, ond rhwymodd ef i ddod mewn pryd i'r un prydnawnol, ac felly i barhau. A rhag ofn y warden bu raid bod yn fwy gofalus.

Gwnaed ei frawd, Humphrey Owens, hefyd yn warden, a defnyddiodd yntau awdurdod y swydd i ddarostwng chwareuyddiaethau yn mhob man: parodd ei arswyd yn mhob lle, fel y ciliai y campwyr pan ddeallent fod y warden yn dyfod. Deuai yn ddisymwth, weithiau, ar eu gwarthaf; ffoent hwythau gan adael eu dillad yn ei feddiant; mynai yntau addewid ganddynt, cyn rhoi eu dillad i fyny, na ddeuent i'r lle, ar ŷ fath ddybcn, byth mwy. Yr oedd wedi dàl un dyn o'r enw Joseph, dair gwaith; bellach, nid oedd gan y troseddwr ddim i ddyweyd

mewn ffordd o esgus, ond dywedai, "Fy ewythr Humphrey bach, os rhowch chwi Feibl i mi, ni welwch chwi byth mo'nwyf eto, gyd â'r gwaith hwn. Addawodd yntau ymofyn am Feibl iddo; ac er prined oeddynt, llwyddodd i gael un; cymerodd yr anrheg gyd âg ef i'r gwaith, lle y llafuriai y dyn, ac a'i cyflwynodd iddo, gan ddyweyd, "Dyma fo i ti Joseph; yr Arglwydd a'i bendithio i ti." Daeth ar Joseph ddiwygiad amlwg o'r dydd hwnw allan; a rhoes brawf yn y canlyniad fod dymuniad Humphrey Owens wedi ei ganiatâu, canys bu Joseph yn bregethwr gwresog gyd â'r Wesleyaid tra fu byw.

I ddangos pa fath syniad a lochid am y 'sect hon,' sef y Methodistiaid, yn mysg y bobl, yn enwedig yn mhlith y rhai a gyfrifid yn uwchraddiaid, rhoddir yma ychydig linellau, mewn ffurff o fedd-argraff, a geir yn awr ar gareg fedd, yn mynwent Ysgeifiog; cyfieithiad o hono sydd fel hyn:—

Yma gorwedd Gweddillion,
Hugh Hughes, Ysw., Coed-y-brain;
Mewn gobaith o adgyfodiad gwynfydedig.
Cafodd yr anrhydedd o wasanaethu ei wlad yn y swydd o Sirydd dros y sir hon.
Fel dyn—
Ei arfer ydoedd bod yn ddyfal yn addoliad yr Eglwys sefydledig;
Ardystio o galon yn erbyn sect newydd y Methodistiaid penchwiban,
y rhai a fynent dynu dynion oddiwrthi;
Ac mewn pryd wastadhau ymrafaelion rhwng cymydogion,
cyn iddynt ffyrnigo at eu gilydd.
Trwy ei ymddygiadau hyn, fe'i perchid yn ei fywyd, a galerid am ei golli.
Bu farw,
Gorphenaf 7fed, 1752, yn 44 mlwydd oed, gan adael unig ferch
a gweddw ar ei ol.

Dyry y bedd-argraff uchod, i ni olwg ar y syniadau a fynwesid gan y wlad, y pryd hwnw, am y Methodistiaid; nid wedi eu hadnabod yn dda trwy flynyddau o gydnabyddiaeth â hwy—nid trwy argyhoeddiad fod eu hegwyddorion yn heresiaidd, a'u hymddygiadau yn anfad, na, dim o'r fath beth; ond am eu bod yn gwahaniaethu oddiwrth grefydd awdurdodedig y wlad. Yr oedd y gwrthwynebiad yn gryfaf, lle yr oedd anghydnabyddiaeth â hwy fwyaf. Yr oedd llawer, yn ddiau, yn cwbl gredu mai anffawd i'r wlad oedd eu dyfodiad iddi; a diamheuol fod teulu y boneddwr uchod, felly; gan iddynt restru ei wrthwynebiad ef i'r "sect benchwiban" yn rhinwedd y canmolent ef am dani; y cyhoeddent ef yn rhagori ynddi, ac yr ewyllysient draddodi ei goffadwriaeth i oesoedd dyfodol, fel etifedd o honi.

Nid oedd y werin, ar y cyntaf, mwy na'r gwŷr mawr, yn bleidgar i'r penau-cryniaid. Cyn eu hadnabod, yr oeddynt yn llawn o ddigllonedd a rhagfarn yn eu herbyn; a pharod oeddynt i ymarfogi i'w tarfu a'u rhwystro. Felly, yr oeddynt yn y wlad hon. Un tro daeth Dafydd Morris, i'r Berthengron i bregethu, ac ymgasglodd cynulleidfa fawr i wrando. Ar ddechreu yr oedfa, canfyddwyd haid o ddynion cryfion, a dibris, yn dynesu at y fan, wedi ymbarotoi i aflonyddu yr addoliad; ac o bosibl i niweidio pawb a ddywedai ddim yn eu herbyn. Ond pan oeddynt yn neshau at y tŷ, syrthiodd eu

blaenor, a thorodd ei goes, a hyny ar dir gwastad a theg. Cafodd y fintai ddigon o orchwyl, bellach, i ymgeleddu eu blaenor, yn ile erlid y crefyddwyr. Tybient, weithian, fod poen y dyoddefydd, yn galw am eu sylw, yn fwy na therfysgu yr addoliad. Felly, pa fodd bynag, y bu y ffaith: bu trychineb un yn heddwch i'r llall; cafodd y pregethwr lonyddwch ar draul anffawd yr erlidiwr.

Ond er pob rhagfarn a gwrthwynebiad yr oedd gair yr Arglwydd yn cael ei fawrygu. Aeth yr adeilad y pregethid ynddi, yn fuan yn rhy gyfyng, a gwelwyd fod capel yn angenrheidiol i gynwys y gynulleidfa a ddeuent yn nghyd. Yr oedd yma, bellach, eglwys wedi ymgrynhoi, ac yn lluosogi mewn rhifedi. Nid oedd, ar y pryd, yr un arall, o fewn y sir; nac yn sir Ddinbych chwaith yr un, yn nes na'r un oedd yn Llandyrnog, Dyffryn-clwyd. Wrth weled y gwaith yn llwyddo, ymosododd John Owens, a'i frawd, ar y gorchwyl o gael lle helaethach i addoli. Cafwyd tir, dan rwym-amod, gan foneddiges, o'r enw Miss Llwyd, yr hon oedd perchenog tyddyn y Berthen. Dechreuwyd adeiladu yn y fl. 1775, a gorphenwyd ef, yn y flwyddyn ganlynol. Disgynodd y draul, tybygid, yn gwbl ar John Owens ei hunan, oddieithr yr ychydig gynorthwy a gafodd mewn cludo y defnyddiau ato! Pan oedd yr addoldŷ ymron wedi ei orphen, aeth John Owens i Langeitho, prif gartrefle Methodistiaeth, yn y tymhor hwnw, i ymofyn Rowlands, apostol Cymru, i'w agor. Dywedai wrth y saer, cyn cychwyn, "Nid wyf yn dysgwyl dychwelyd yn fy ol yn fyw; ond gweithia di dy oreu, i gael y capel yn barod, gan y daw Mr. Rowlands, mi hyderaf, yma i'w agor." Aeth i Langeitho, a chafodd addewid gan Mr. Rowlands. Ond wrth ddychwelyd, cymerwyd ef ei hun yn glaf, a methodd ddyfod yn nes adref na Llangurig, pum' milldir tu draw i Lanidloes, sir Drefaldwyn, cyn marw. Dygwyd ei gorff i'w gladdu i fynwent Ysgeifiog, ei blwyf ei hun. Ymddengys, wrth y dyrfa a ddaeth ynghyd i'w gladdu, fod iddo barch mawr yn ei gartref, er mor erledigaethus oedd y tymhor; oblegid dywedir fod yr orymdaith yn cyrhaedd o'r Berthen i Ysgeifiog, milldir a hanner o ffordd, a bod y grafell wedi tori gan bwysau y pres a offrymwyd (!) gan y gynulleidfa ar yr achlysur. Daeth Mr. Rowlands, yn ol ei addewid, i agor y capel, ond nid oes dim hynod wedi ei ddyweyd am effeithiau ei ymweliad.

Bu Mr. Humphrey Owens, hefyd, yn pregethu amryw o flynyddau, cyn ei farw; a'r ddau hyn, mae yn debyg, oeddynt bregethwyr cyntaf y cyfundeb o fewn sir Fflint. Yr oedd Humphrey yn meddu ar lais peraidd rhagorol, ac yn gantor campus. "Byddai yr hen bobl," meddai ei ŵyr,* "yn ninas Caerlleon, yn arfer dyweyd, pan clywent ei gyhoeddi, 'Wel, ni gawn ganu da y Sabboth nesaf, mae Humphrey Owens yn dyfod atom.' Byddai yn aml ar ei gyhoeddiad, mewn odfaon, yn dechreu y canu ei hunan; ac ystyrid y pregeth-

* Parch. Joseph Williams, Liverpool.

wr hwnw, yn un hapus iawn, y dyddiau hyny, a allai arwain y canu yn gystal a phregethu."

Ymddengys fod Humphrey Owens, am ryw nifer o flynyddau, cyn ei farw, yn oruchwyliwr, neu yn arolygwr, ar weithiau mŵn yn nghymydogaethau Treffynnon, dros Hugh Humphreys, ysw. Dygwyddodd i oruchwyliwr arall ddyfod unwaith at y boneddwr hwn ar ddydd Sadwrn, a gofyn, "A oedd Humphrey Owens gartref?" "Nac ydyw," oedd yr ateb, "y mae wedi myned i gynghori y bobl; ac y mae ar y diawliaid eisiau eu cynghori; y maent yn tori fy ngwrychoedd i, ac yn gwneyd pob math o gastiau ar fy nhir." Mae yn ddigon tebyg fod y rhai cythreulig, y cyfeiriai y boneddwr atynt, yn tori gorchymynion Duw, yn gystal a'i wrychoedd yntau; ond yn ei olwg ef yr oedd y gwrychoedd o fwy o bwys na'r gorchymynion; a'r tir o fwy gwerth nag eneidiau dynion.

Cyfarfu Humphrey Owens â llawer o sarhad ac anfri wrth fyned o amgylch i bregethu 'r efengyl. Pan yn gweddio, unwaith, ar ddechreu oedfa yn Gronant, pentref wrth lân y môr yn ngogledd y sir, taflodd rhyw un ddylluan i'w wyneb, gan fwriadu attal yr oedfa, trwy derfysgu y pregethwr; ac er na lwyddodd yn hollol i rwystro yr oedfa; eto archollwyd peth ar y pregethwr. Mynych iawn y lluchiwyd ef â thom, ac âg wyau gorllyd, am ddim ond am geisio lleshad ysbrydol ei gydwladwyr.

Dygwyddodd tro pur hynod iddo yn Nghonwy. Nid oedd yr un capel, y pryd hwnw, o fewn y dref, na nemawr grefyddwr yn perthyn i un enwad o ymneillduwyr. Aeth Humphrey Owens yno i bregethu, ac ar yr heol y safai. Cyn iddo orphen ei bregeth, daeth *cwnstabl* ato, gan orchymyn iddo ddyfod gyd âg ef yn ddiymaros at yr heddynad, yr hwn a'i hanfonasai i'w gyrchu; a'r hwn hefyd oedd berson y plwyf. Ufuddhaodd y pregethwr yn y fan, ac a aeth. Wedi dyfod i ŵydd y gŵr parchedig, bu yr ymddyddan canlynol rhyngddynt:—

"Beth yw yr achos," gofynai y person, "fod eich bath chwi yn dyfod ar draws gwlad i aflonyddu ar y bobl?"

"Yn siwr, Syr," ebe y pregethwr, "yr oedd perffaith lonyddwch yn ein plith ni, hyd nes daeth y cwnstabl atom oddiwrthych chwi: hyny, Syr, yn unig a barodd yr aflonyddwch."

"A fedrwch chwi Roeg?" gofynai y person.

"Yn wir, Syr, mae yn hynod dda gen' i fod Iesu Grist yn deall Cymraeg yn dda; ac yn yr iaith hono yr oeddwn i yn llefaru," oedd yr ateb.

Ebe y gŵr mawr wrth y cwnstabl, gan fwriadu peri arswyd blin ar y pregethwr:—

"Gwna dy hunan yn barod i fyned â'r dyn yma i Gaernarfon, i'w roi yn nwylaw y *press-gang*." Felly, ymadawodd yr ynad, a'i was hefyd, gan adael y truan wrtho ei hunan; ac nid oedd y gŵr boneddig yn meddwl dim llai na fyddai y pregethwr, allan o law, yn awyddus iawn i ymostwng; ac i addaw na throseddai efe byth yr un modd drachefn. Ond wedi hir

ddysgwyl, ac heb un deiseb gostyngedig o'r fath yn dyfod, tybiodd y person mai gwell fyddai ei ollwng yn rhydd, ac anfonodd y ceisbwl ato i ddyweyd: "Mae fy meistr yn dyweyd y gellwch fyned i ffordd."

"Ewch chwithau at eich meistr," ebe Humphrey Owens, "a dywedwch wrtho, nad âf fi ddim i ffordd oddieithr iddo ef ei hun ddyfod a fy ngollwng i yn rhydd."

Felly bu gorfod i'r gŵr boneddig ddyfod yn ol, a gollwng y gŵr yn anrhydeddus i ffordd. Yntau a aeth ymaith tua Llanrwst, erbyn yr hwyr, yn ol ei addewid.

Bu farw Humphrey Owens yn Nhreffynnon yn y fl. 1796; ugain mlynedd ar ol ei frawd, pan oedd oddeutu 60 mlwydd oed. Pregethodd y Parch. Robert Ellis, Wyddgrug, yn ei wylnos; a phan y rhoes Mr. Samuel Morris, tad y Parch. William Morris, Rhuddlan, y pennill canlynol i ganu;—

"O gwyn ei fyd y dyrfa,
Sy'n canu Haleliwia,
Cawn ninau ddianc cyn bo hir,
I mewn i'r wir orphwysfa," &c.

torodd allan yn orfoledd mawr trwy y tŷ. Claddwyd ef yn mynwent Ysgeifiog yn ymyl ei frawd.

Tua'r fl. 1783, sef saith mlynedd ar ol agor capel y Berthen, y cynaliwyd y cyfarfod misol cyntaf sir Fflint. Yr oedd y ddwy sir, Dinbych a Fflint, ar y pryd, yn un cyfarfod misol, a pharhausant felly am ysbaid deng mlynedd ar hugain.

Yr oedd un Robert Prys yn perthyn i'r gymdeithas eglwysig yn y Berthen; yr hwn oedd yn bregethwr, neu yn gynghorwr; ac yn byw yn Mhlas Winter. Gŵr o sir Gaernarfon, meddir, oedd hwn, ond wedi ei arwain gan raglunaeth i Blas Winter i breswylio. Wedi dyfod i sir Fflint, tybygid, y cafodd ef grefydd; a hyny, fel yr ymddengys, trwy wrando yn y Berthen. Dyn tàl, gwladaidd yr olwg, oedd Robert Prys; ei lais yn crynu yn drwm, a'i ddull o bregethu yn unffurf iawn; ac, ar y cyfan, yn lled anmhoblogaidd ei ddawn a'i ddull. Yr oedd yn un o'r dynion mwyaf diaddurn a ellid ei weled, cymmaint felly, fel y gellid meddwl, pe buasai fyw yn awr, mai prin y caniatesid iddo ymddangos ar g'oedd. Nid oedd ei wybodaeth, chwaith, ond bychan iawn. Ni wyddai, meddai fy ngohebydd, nemawr ddim ond am godwm Adda, ac am y drefn ryfedd o gadw pechadur; eto yr oedd yn hen ŵr gwir grefyddol, perffaith gywir, a dihoced. Mae yr hanes a roddir am deulu Robert Prys, a'r olwg deuluaidd oedd ar bethau yn ei dŷ, yn ddrych o ddull llawer o amaethwyr anniwylliedig y wlad yn y dyddiau hyny; ond prin y gallai llawer yn yr oes bresenol gredu ei fod mor gethin a barbaraidd. Ysgrifena fy hysbysydd, fod oedfa wedi ei chyhoeddi i fod yn Mhlas Winter, naw o'r gloch fore Sabboth; ac mai Mr. Jones, Caerwys, y pryd hwnw, ond Dinbych, yn niwedd ei oes, oedd i bregethu yno. Nid oedd ef ar y pryd, ond

llencyn tàl, main, llwyd ei wedd, a lled wanaidd ei iechyd. Daeth rhyw nifer o gyfeillion crefyddol gyd âg ef i'r oedfa. Yr oedd yr olwg ar yr hen amaethdy yn ddigon anserchog, y buarth wedi ei orchuddio â thail, a'r tŷ yn llawn o hen ddodrefn cryf a gwladaidd. Ar y buarth, cyfarfu Robert Prys â'r pregethwr ieuanc, gan ei gyfarch, "A ddaethoch chwi Tom Jones, i ddyweyd gair wrth y bobl?" Ar ol yr oedfa, daeth amser ciniaw, ac wele *leg of mutton*, hallt, galed, a du fel het; bara haidd caled, a du fel gloyn; tatws melynion afrywiog; ymenyn a lympiau o halen bras ynddo fel *shots;* llaeth gan sured a gwinegr; lwmp anferthol o *bwdin* du, o flawd haidd; llwyau a dysglau bwyta pren; ac un gyllell rhwng pawb! a gŵr y tŷ yn cymhell o galon, "Bwytewch, gyfeillion anwyl; mae y Tad nefol yn dda iawn, wrthym yn trefnu mor ehelaeth i rai heb haeddu dim; dyolch byth iddo."

Fe wel y darllenydd, wrth y dysgrifiad digrifol hwn, pa fath un oedd Robert Rrys; pa gan lleied o amaethiad meddwl, a choethiad teimlad; eto, mae yn rhaid dyweyd, fod yno enaid cywir at Dduw, a chymwynasgar at ddynion, dan yr arwyneb cethin hwn. Yr oedd yr hen ŵr mor alluog i ddysgu llawer o'i gydwladwyr, mewn pethau crefyddol, ag oeddynt hwy i'w ddysgu ef mewn gwareidd-dra dynoliaeth. Gobeithiwn hefyd fod llawer o'r cethinwch uchod wedi ei sychu ymaith, fel yr oedd yn ymarfer, ac yn ymgymysgu, mwy â dynion diwylliedig. Trwy offerynau gwael fel hyn, y gwnaed pethau mawrion lawer gwaith. Felly, meddir, y bu gyda'r gŵr hwn. Dywedir fod deg ar hugain wedi eu dychwelyd trwyddo, mewn un oedfa, yn Tan-y-fron, Llansanan. Dechreuai y cwrdd, meddir, ymron bob amser, trwy roi allan yr un pennill o salm; sef,—

Er cyn rhoi sail i'r mynydd mawr;
Cyn llunio llawr cwmpasfyd;
Duw o dragwyddol wyt cyn neb;
Hyd dragywyddoldeb hefyd.

Rhoddai y pennill hwn allan mewn sŵn hirllaes, nid annhebyg i berson y plwyf; a dybenai ei weddi yn wastad yr un fath, sef, "Hyn a erfyniwn ac a ddeisyfwn ni, yn rhad, er mwyn Crist ein Prynwr. Amen." Gwnai hyn yn yr un dôn a'r person, heb ddim gwahaniaeth; ac oni bai gweled ei ddiwyg, gallesid dychymygu mai y llan a fyddai y lle, ac mai gŵr a'r crys gwyn a fyddai y gweddiwr.

Dechreuodd bregethu pan oedd tua 18 ml. oed, a thra y bu ef byw yn Mhlas Winter, yr oedd yn arfer myned i'r Berthen i'r cyfarfod eglwysig. Yr oedd oedfaon yn cael eu cadw mewn gwahanol fanau, yn nghymydogaeth Plas Winter, dan y perthi, ac ar ymylau y ffyrdd, ac yn achlysurol yn Mhlas Winter ei hun. Bu y pregethau achlysurol hyn yn foddion bendithiol i rai yn ardal Rhosesmor,* pryd nad oedd eto yr un achos sefydlog yn y gymydogaeth. Yn y cyfamser âi y rhai a ddeffroid am eu hachos tragwyddol, i'r

* Ardal ydyw rhwng y Berthen a'r Wyddgrug.

Wyddgrug, i ymofyn am ymgeledd, yn nghymdeithas yr ychydig grefyddwyr ag oedd eisoes yn y dref, neu y gymydogaeth hono; neu ynte i Laneurgain, yr hon sydd tua thair milldir i'r dwyrain o'r Rhos. Felly hefyd y parhaodd pethau hyd nes adeiladu capel yn Rhosesmor, yr hyn a wnaed tua hanner can' mlynedd yn ol. Wedi adeiladu y capel, ffurfiwyd yma eglwys, ac ymgasglodd yr aelodau a arferent fyned, rhai i'r Wyddgrug, rhai i Laneurgain, a rhai i'r Berthen, at eu gilydd; ac felly cychwynwyd yr achos yn ei wedd bresenol. O hyny, hyd yn awr, y mae yn myned rhagddo yn siriol a llwyddiannus.

Bu farw Robert Prys, Awst 13, 1809, yn 71 ml. oed; a bu farw Ann ei wraig, yr hon a fuasai yn fam yn Israel, yn y fl. 1812, yn 71 ml. oed. Er mor wladaidd a diaddurn oedd eu diwyg a'u harferion, cafodd yr hen bobl hyn yr uchelfraint o swcro achos yr efengyl dan amgylchiadau isel iawn; amgylchiadau nad allai dim eu tueddu, ond cariad at eneidiau dynion, a chydwybod i ogoniant Duw.

Nid hawdd, dan yr amgylchiadau isel yr oedd yr achos danynt y pryd hwnw, oedd darostwng rhagfarn dynion, a'u denu i wrando gair Duw. Yr oedd pob moddion effeithiol i ddwyn rhai i roddi clust i'r weinidogaeth, gan hyny, o werth mawr; ac ar hyn y rhoddai y crefyddwyr cyntaf eu bryd, a thrwy hyn y llwyddasant. Dywedir am Ann Bellis, chwaer i John ac Humphrey Owens, ddarfod iddi lwyddo i ddwyn cannoedd lawer yn yr holl wlad i wrando. Bydwraig ydoedd, mawr ei henw yn y gorchwyl hwnw, a thra llwyddiannus. Dywedir, fod dirgelwch ei llwyddiant, yn ei gwaith o 'blygu ei gliniau mewn gweddi, am nawdd y Goruchaf drosti hi, a thros y fam a'r plentyn. Yr oedd gweddio, ar un achlysur, yn arferiad tra anghyffredin yn y dyddiau hyny, ac yn enwedig yn mysg y gwragedd. Hi fu, pa fodd bynag, trwy ei hymddygiad tyner a christionogol, ynghyd a'i medrusrwydd a'i gofal, yn ei galwedigaeth, yn offeryn i ennill llawer iawn o deuluoedd rhagfarnllyd i wrando gweinidogaeth y gair, ymhlith y Methodistiaid. Merch i'r wraig hon, oedd gwraig gyntaf, y Parch. John Parry, Caerlleon.

Yn nghymydogaeth Rhosesmor, yr oedd pregethwr, o'r enw James Jones, yn byw. Ni fu oes weinidogaethol y gŵr hwn ond ber. Dechreuodd bregethu tua'r blynyddau 1813—15; ac wedi llafurio ychydig o flynyddau, galwyd am dano i wlad gorphwysfa. Gŵr crefyddol iawn y bernid ei fod, a phregethwr tra sylweddol; un a roddai sail i ddysgwyl llawer o ddefnyddioldeb oddiwrtho, pe cawsai oes i fyned rhagddo. Mae yr achos yn y lle hwn yn siriol a llwyddiannus. Yma hefyd y cyfanedda y Parch. William Pierce, yr hwn sydd ŵyr, neu or-ŵyr, i'r hen John Pierce, sir Gaernarfon.

PENNOD IV.

GORSAFOEDD HENAF METHODISTIAETH YN SIROEDD DINBYCH A FFLINT.

CYNWYSIAD:—

BONT-UCHEL—CAPEL YN Y BONT YN 1777—PREGETHU YN Y PLWYDDYN 1763—ANN PARRY, BRYN-MULAN, A'I THEULU—ADFYWIAD YN 1821—THOMAS PARRY, 'RHEWL—EI ALW YN SWYDDOG—CAPEL PRION, 1792—EDWARD JONES, PRION—PHYLIP Y CYLCHWR—FYCHAN DAVIES YR ERLIDIWR—PEN GWAS Y FEDW-LAS YN ERLID—ALICE EVANS—RHUTHYN—EDWARD OLIVER—BECHGYN YR YSGOL FAWR—ERLID CREULAWN—ROBERT LLWYD A WILLIAM PARRY—PREGETHU MEWN HEN YSGUBOR—OEDFA Mr. JONES, LLANGAN, A'R ERLID YN LLACIO—GWEDD BRESENOL YR ACHOS.

BONT-UCHEL.

Lle yw hwn yn nghanol gwlad, yn llawn o fryniau a choedydd; ar yr aswy i'r ffordd sydd yn arwain o Ruthyn i Ddinbych, tua 4 milldir oddiwrth y gyntaf a 6 oddiwrth yr olaf. Yr oedd y trefydd hyn heb eu darostwng i dderbyn ymneillduaeth pan y cafodd le i roddi ei droed i lawr yn y Bont; a thros lawer blwyddyn, yr oedd pregethu cyson yn y Bont, pryd na feiddiai neb prin gynyg ar hyny, yn y ddwy dref. Nid oedd, fel y dywedasom lawer gwaith, yn yr ardaloedd hyn, ond Tan-y-fron, Bont-uchel, Adwy'r-clawdd, a Chapel y Dyffryn, ac yn fuan ar eu hol y Berthen-gron, yn orsafoedd Methodistiaeth am gryn dymhor. Dichon fod ambell oedfa mewn ardaloedd eraill yn achlysurol; ond y lleoedd uchod, dros amser maith, oeddynt y lleoedd sefydlog, lle y byddai cyniweirfa pregethwyr Dê a Gogledd; a chyrchfa y gwrandawyr.

Codwyd capel y Bont-uchel, yn ol yr ysgrif sydd genyf, yn y fl. 1777. Ond y mae y weithred am y tir y codwyd y capel arno, yn cael ei dyddio, Mehefin 19eg, 1771. Rhoddwyd y tir dan y weithred hon, gan un William Roberts a'i fab Robert Williams, am fil o flynyddau. Yr ymddiriedolwyr oeddynt y Peirch. Daniel Rowlands, a Pheter Williams; Mri. Robert Llwyd, Plas-ashpool; Dafydd Jones, Adwy'r-clawdd; a John Owens, Berthen-gron. Pa fodd i gysoni y ddau hysbysiad â'u gilydd nis gwyddom. Tueddu yr ydym i gredu mai yr olaf yw yr un cywir, o leiaf am sicrhad y tir; a gellir meddwl mai nid hir, ar ol ei sicrhau, y bu yr adeilad heb ei chodi. Mewn rhai amgylchiadau ni a wyddom y byddai yr adeilad wedi ei orphen, a hyny, fe allai, rai blynyddau cyn sicrhau y tir trwy weithred. Ond nid yw yr amseriad ddim o gymaint pwys i'r hanes. Sicr yw, pa fodd bynag, fod moddion yn cael eu cynal yn y gymydogaeth cyn codiad y capel; a hyny, tybygid, dros rai blynyddau.

Ymddengys fod y pregethu yn cael ei gynal, ar y dechreu, yn nhŷ un William Roberts; dichon mai yr un gŵr oedd hwn a'r un y mae ei enw yn y weithred, fel rhoddydd y tir, i godi y capel arno. Bu farw Edward Parry, Bryn-mulan, tyddynwr yn y gymydogaeth, yn y fl. 1763; a dywedir fod pregethu, y pryd hwnw, yn y gymydogaeth yn achlysurol; a bod rhyw nifer ag oedd wedi eu tueddu i wrando, wedi cymeryd tŷ anedd, dan ardreth, i gynal moddion ynddo. Ac yn eu mysg yr oedd gwas Ann Parry, gweddw y gŵr uchod. Enw y gwas oedd Robert Parry; bu yn offeryn i ddwyn ei feistres gydag ef ar foreu Sabboth, i'r lle a nodwyd, i wrando John Owens, Berthen-gron, sir Fflint. Bendithiwyd yr oedfa hon, y gyntaf iddi hi, er lles ysbrydol iddi. Cymhwyswyd y gair gyda grym at ei chydwybod; a hyny mor bersonol, fel y tybiodd, ar y pryd, fod Robert y gwas, wedi dyweyd ei hanes wrtho. Pa fodd bynag, dygwyd ei meddwl yn gaeth i ufudd-dod Crist; a theimlodd ar ei chalon, yn y fân, ofyn i'r pregethwr ddyfod gyda hi i'w thŷ i giniawa y Sabboth hwnw.

Ar ol hyn cadwyd cyfarfodydd y gymdeithas eglwysig yn nhŷ Ann Parry, sef yn Mryn-mulan;* a hyny tra fu y wraig dda hono fyw. Ymunodd un o'r merched â'r crefyddwyr yr un amser a'i mam; ac yn mhen tua blwyddyn dilynwyd hwy gan ei chwaer. Bu y ddwy ferch hyn yn llafurus a ffyddlawn gyda'r achos crefyddol yn eu hoes. Teithiodd y ddwy lawer i wrando pregethau; yr unig foddion cyhoeddus, ar gael y pryd hwnw. Aethent amryw weithiau i Langeitho, er mwyn gwrando Rowlands yn pregethu; ac er cael ei gyhoeddiad i'r Gogledd. Llwyddasant hefyd yn eu cais; a buant, trwy hyny, yn offerynau i ddwyn cawodydd bendith ar eu gwlad. Parhaodd y teulu hwn yn garedig at achos yr efengyl dros eu hoes. Bu Bryn-mulan yn llety pregethwyr tra bu Ann Parry fyw; felly yr eiddo ei dwy ferch; Mary, yn mhentref Llanrhaiadr; a Dorothy, gerllaw y Bont-uchel.

Yr oedd Ann Parry yn nodedig am ei chyrhaeddiadau, mewn gwybodaeth a phrofiad crefyddol. "Anaml," meddai un pregethwr enwog o'r Deheudir am dani, "y gwelais i neb, wedi dyfod at grefydd mewn gwth o oedran, cyffelyb iddi, am gywirdeb ei syniadau, ac ysbrydolrwydd ei hysbryd. Bu farw yn agos i ddiwedd y fl. 1787, yn 69 ml. oed.

Anhawdd ydyw peidio gwneyd crybwylliad o amgylchiad arall, a ddygwyddodd ar ol marwolaeth y wraig dduwiol hon, cysylltiedig a'i gweddillion; pa gasgliad bynag a wnelo neb oddiwrtho, neu pa eglurhad bynag a ddyry neb arno, y mae yr amgylchiad yn un tra hynod. Yn y fl. 1830, sef 43 o flynyddau ar ol claddu Ann Parry, agorwyd ei bedd i ddodi gweddillon ei mab James Parry yno. Wrth ganfod yr arch a gynwysai gorff yr hen wraig a chan lleied o anmhariaeth arni; cododd blys ar y dynion a agorasent y bedd, i godi caead yr arch, a chael gweled pa wedd oedd ar y corff. Gwnaethant

* Tyddyn, yw Bryn-mulan, yn mhlwyf Llanrhaiadr, rai milldiroedd o ffordd oddiwrth y Bont-uchel.

hyny, ac er eu mawr syndod, cawsant ef yn ddilwgr, oddieithr ychydig anmhariaeth ar y traed; ac er bod yn fwy sicr, teimlasant y corff, â'u dwylaw. Yr oedd, hyd yn nod, y llysiau ar yr arch heb wywo! Daeth amryw o drigolion y llan i'w gweled, a chawsant bob sicrwydd fod y peth yn wir. Er hyny, pan gyhoeddwyd y ffaith, yr hyn a wnaed yn gynar yn y flwyddyn ganlynol, cododd amheuaeth yn meddyliau rhai; a gwawdiodd eraill y dynion hygoelus, a gymerent eu twyllo fel ag i gredu gwirionedd yr hanes. Rhoddasid yr hanes cyntaf ar g'oedd, gan y Parch. John Wynne, yr hwn ei hun a fu yn ymddyddan â'r rhai ag oeddynt yn y fan ar y pryd; ac ysgrifenodd gŵr arall drachefn i'r Drysorfa i amddiffyn y cyntaf; gan dystio ei fod ef yn y fan, ac iddo weled yr hyn oll a fynegwyd; ac yn barod i roddi pob boddlonrwydd i'r neb a ymofynai ag ef am wirionedd yr hysbysiad.

Yn mis Gorphenaf, 1836, agorwyd y bedd drachefn, i osod gweddillion gweddw James Parry ynddo. Gan faint y son a fu am gorff Ann Parry, chwe' blynedd yn ol, cododd awyddfryd angerddol mewn rhai a ddealient fod y bedd yn cael ei agor, i gael golwg eu hunain ar yr hyn a fuasai yn destyn cymaint o siarad. Agorwyd y bedd, a chafwyd arch James Parry wedi anmharu, a'r corff wedi malurio, heb fod dim yn ngweddill ond yr esgyrn. Yr oedd lluaws o bobl erbyn hyn wedi ymgasglu i'r lle; ac i'w boddhau, codwyd arch y mab i fyny, er mwyn dyfod at arch y fam. Wedi gwneuthur hyn, aeth un o'r gwŷr i lawr, ag a gododd gauad arch Ann Parry, gan symud yr amdo hyd at y lwynau; ac er dirfawr syndod i'r holl edrychwyr, yr oedd y corff yn aros yn ddilwgr, ac fel un newydd farw; cauwyd ar y corff drachefn, a dodwyd gweddillion James Parry yn eu lle, gan fwriadu eu gadael mewn llonyddwch oesol. Ond cyn pen dwy awr, yr oedd yr holl gymydogaeth mewn cyffro, a lluaws o bobl wedi ymgasglu drachefn i'r lle; a chan gymaint oedd eu taerni, cydsyniwyd i agor y bedd drachefn. Yr oedd yn eu mysg, y tro hwn, amryw o hen gyfeillion Ann Parry; y rhai a fuasent gynt yn cydadddoli gyda hi yn Mryn-mulan, ac yn ei hadnabod yn dda. Yr oedd y rhai hyn yn mwynhau yr olwg ar weddillion ei hen gyfeilles; dygai i'w cof yr amserau y buont yn myned i dŷ Dduw yn nghyd, ac arhoent wrth y bedd fel rhai tra hwyrfrydig i droi eu cefnau arni. Eto, cefnu fu raid, a gwnaed y bedd yn barod i dderbyn gweddillion ei merch yn nghyfraith. Ysgrifenwyd yr hanes a chyhoeddwyd hi eilwaith yn y "*Drysorfa*," am Awst, 1836; arwyddwyd yr ysgrif gan dri o wŷr cyfrifol o'r ardal.*

Yr oedd y corff wedi bod yn y bedd, namyn un flwyddyn, ddeng mlynedd a deugain, ac eto yn aros heb waethygu; pryd yr oedd corff arall yn yr un bedd wedi malurio, mewn chwe' blynedd! Llawer cais a wnaed ar eglurhau hyn, ond nid i foddlonrwydd pawb hyd heddyw.

Ymddengys y byddai Dafydd Morris; Rowlands, Llangeitho; a Jones, Llangan; dros ryw dymhor yn ymweled â rhyw barthau yn y Gogledd yn

* Richard Hughes, Pentre; John Salisbury, Pen-y-bryn; a David Roberts, Llan.

lled gyson, unwaith neu ddwy yn y flwyddyn bob un, ac felly â'r Bont-uchel. Meddai Mary, merch Ann Parry, wrth ŵr sydd yn awr yn fyw, "Dafydd Morris oedd yn cadw *seiat*, pan aethum i iddi gyntaf. Yr oedd un arall yn yn cael ei holi o fy mlaen i, a gwrthodwyd hwnw. Crynais, rhag mai hyny oedd yn fy aros inau; ond wrth fy hir holi, gofynodd, 'A oeddwn yn hoffi bod yn mysg pobl lwydion o'r fath ag oedd pobl y Bont-uchel? o herwydd,' ebe efe, 'yr ydych chwi a golwg go dda arnoch.' Minau a ddywedais, nad oedd neb yn well genyf dan haul." Torodd hyn y ddadl, a Mary a dderbyniwyd.

Tua'r fl. 1821, y dywedir i adfywiad grymus iawn dori allan yn ardal y Bont-uchel a'i hamgylchoedd. Aeth y son am dano, a'r syndod o'i herwydd, drwy yr holl wlad. Yr oedd ei ddylanwad ar y cymydogaethau yn anamgyffredadwy. Ni chredai neb ond a'i gwelodd, ac a'i teimlodd. Mewn cyfarfod gweddio, nos Lun cyntaf o'r mis, y torodd allan gyntaf. Cerddodd y son am dano fel tân gwyllt dros gylch eang o wlad. Ar y pryd yr oedd grym anarferol ar y pregethau; yr oedd naws newydd ar y gweddiau; a pheroriaeth gwahanol yn y canu. Yr oedd profiadau henaidd yn cael eu hadnewyddu; crefyddwyr gwrthgiliedig yn cael eu dychwelyd; dynion gwylltion y gymydogaeth yn cael eu dal; a'r fath dro disymwth a thrwyadl arnynt ag a barai syndod aruthrol ar bawb, a dychryn ar rai. Nid oedd, bellach, ond ychydig o dai yn y gymydogaeth heb weddi deuluaidd ynddynt; ac urddas crefydd yn cael ei gydnabod gan yr holl fro. Byddai swn canu ar hyd y meusydd; yn y beudai; wrth y pistylloedd dwfr; ac ar hyd y ffyrdd. Yr oedd gwedd wahanol ar yr ymgynulliad yn ngefail y gôf, neu wrth ddrws y felin. Yr oedd agwedd arall ar y llanciau yn y stabl gyda'r ceffylau, ac yn y llofft allan, lle yr arferent gysgu. Eisteddai difrifwch ar bob wyneb; ffrwynai gweddeidd-dra bob tafod; a phrydferthai sobrwydd bob ysgogiad.

Ar y cyntaf, teimlai ambell un o'r hen grefyddwyr betrusder yn nghylch natur yr ymweliad. Nid oeddynt, ar y pryd, wedi profi nemawr o hono. Ond trwy i'r gawod ddefnynu ychydig arnynt, daethant hwythau i gydnabod, gyda dyolchgarwch mai bys Duw oedd hyn! Cafodd hen flaenoriaid rhagorol y Bont, Llanrhaiadr, a Rhuthyn, eu bedyddio yn ddwys â'i ysbryd.

"Cof genyf," ysgrifena fy ngohebydd,* "fod yr hen flaenor rhagorol hwnw, Robert Llwyd,† Rhuthyn, yn lled amheus am ddwysder y peth, ac yn dra awyddus i gael boddlonrwydd am ei natur. Gofynodd i ddau o honom a ddeuem gydag ef i'r Bont, ar y noson y cedwid y cyfarfod eglwysig. Addawsom fyned; a myned a wnaethom. Erbyn cyrhaedd yno, yr oedd y cyfarfod wedi dechreu, gan fod *clociau* y wlad yn gynt na rhai y dref. Gwelwyd, yn y fan, fod yn rhaid siarad yn araf iawn, a thra gochelgar; yr oedd y teimladau mor dyner a chyffrous, fel y buasai yn anmhosibl cael hamdden i ymddyddan dim â neb, heb fod yn ochelgar a gofalus na ollyngid yr argae. Gyda'r cyf-

* Parch. John Foulkes, yn awr o Liverpool, ond gynt o'r Bont-uchel.

† Cyf. I., tudal. 314.

ryw ofal gallwyd ymddyddan ag amryw, a galwyd ar Robert Llwyd i ddibenu trwy weddi. Archwyd iddo sefyll ar y fainc, dan y pwlpud, ac agorwyd y drysau. Cyn pen pum' mynyd yr oedd y capel yn llawn o bobl, wedi dyfod o bell ac agos erbyn diwedd y cyfarfod; ïe, rai o bum' milldir o ffordd. Cyn bod yr hen flaenor wedi bod dri mynyd ar weddi, gallwn feddwl fod yno bedwar ugain yn llefain ar unwaith. Torodd ar unwaith megys gollyngiad ergyd. Rhy anhawdd ydyw ei ddesgrifio. Hynod fel yr oedd yr hen frawd wedi ei orchfygu. Dywedai, bellach, gyda syndod, 'Ysbryd Duw, Ysbryd Duw, yw Awdwr hyn!' "

THOMAS PARRY, 'RHEWL.

Barnwn yn oreu roddi gradd o arbenigrwydd ar enw y gŵr hwn, o herwydd amryw bethau. Yn un peth, yr oedd cymhwysder hynod ynddo i'r swydd o henuriad eglwys; yn nesaf, bu yn dra defnyddiol gydag achos yr efengyl dros dymhor maith o flynyddau; ac hefyd, y mae ei hanes yn ymblethu cryn lawer â hanes Methodistiaeth ei ardaloedd mewn amser lled bell yn ol. Ganwyd ef, tybygid, tua'r fl. 1745, a daeth at grefydd mor fore a'r fl. 1769, pan nad oedd ond 18 ml. oed. Gwelodd ef Fethodistiaeth yn ei febyd, ïe, yn ei gryd, yn ei wlad ei hun; a bu fyw i'w weled wedi tyfu agos i'w faintioli presenol.

Llanwr oedd Thomas Parry o ran ei ddygiad i fyny, a dygai gryn sel dros grefydd ei dadau; ac i'r un graddau yr oedd yn teimlo yn wrthwynebol i'r grefydd newydd a gynygiai ymosod ar ei wlad; ac yr oedd ei ragfarn yn fwy, am ei ddysgu, trwy gam dystiolaethau, i feddwl mai gau-athrawon oedd y dynion dirmygus a deithient y wlad yn enw pregethwyr efengyl. Eto yr oedd Thomas Parry yn ddyn call a phwyllog, ac nid mor ddarostyngedig a llawer un i lyncu syniadau yn ganiataol, ac heb yn gyntaf eu chwilio a'u profi. Deallai mai dynion diddysg oeddynt, a sŷn oedd ganddo ynddo ei hun, pa fodd y gallai dynion o'r fath hyny bregethu y gair. Yr oedd hefyd, yn ngrym ei synwyr naturiol, yn deall fod rhyw ddiffyg yn y llan, er na allai ddyweyd pa beth ydoedd. Nid oedd y person yn ei lwyr foddloni. Deallai fod diffyg yn rhywle.

Yr oedd ei frawd Moses Parry yn gwrando ar y Methodistiaid o'i flaen ef; ac, medd fy hysbysydd,* "am ddim a wn i yn amgen, yn aelod eglwysig o'i flaen ef." Darbwyllodd ei frawd ef, unwaith, i ddod gydag ef i wrando un Benjamin Thomas, o'r Deheudir, ac fel dadl gref dros lwyddo i'w gael, dywedodd, "Ti gei weled, 'Twm,' y bydd y dyn yn pregethu o'r galon, canys bydd ei ddagrau yn treiglo i lawr ei wyneb." Cydsyniodd Thomas i fyned am y tro hwn; mwy o gywreinrwydd, fe allai, na dim arall; a chafodd fwy o foddlonrwydd nag a ddysgwyliasai. Yr oedd wedi hir ddymuno cael clywed

gan y person, bregeth ar *ail-enedigaeth*, ond er hir ddysgwyl, yr oedd fyth heb ei chael. Un peth arbenig, gan hyny, a barodd y fath foddlonrwydd iddo, yn mhregeth Benjamin Thomas, oedd ei bod ar y mater a enwyd. Ond fe gafodd Thomas Parry fwy na'i foddloni ar bwnc duwinyddol; fe brofodd hefyd, i gryn raddau, awdurdod y gwirionedd ar ei galon. Deffrowyd ei gydwybod, gogwyddwyd ei feddwl, bellach, i edrych ar wirioneddau y Beibl fel pethau yn dwyn perthynas ag ef ei hun.

Tueddwyd ef, bellach, i wrando y Methodistiaid. Deallodd fod mwy o fywyd a llai o ffurf yn eu pregethau na'r rhai a arferai efe glywed. "Penderfynais yn y fan," eb efe, "y gwyddai y dyn hwnw am beth na wyddai gŵŷr y llan ddim am dano." Oddiar y penderfyniad hwn y cododd un arall, sef y glynai efe wrth wrando y Methodistiaid, "hyd nes y gwelai achos i ymadael." Pa fodd bynag, aeth teimladau mynwes y gŵŷr ieuanc yn anesmwth iawn; po fwyaf a feddyliai am y pethau hyn, a pho fynychaf y gwrandawai, mwyaf oll a fyddai ei drallod. Codai y trallod hwn lawer oddiar archollion cydwybod, pryd yr oedd y galon yn ymlynu wrth bechod. Yr oedd, ar y pryd, dan ryw fath o rwymau, yn ol ei dyb, i fyned i ymladd ceiliogod; ac ar adeg yr ymladd hi ddaeth yn ystorm o fellt a tharanau. Parhaodd y 'storm hon i ryw raddau am dri diwrnod, ac yr oedd hefyd yn trymhau tua'r diwedd. Yr oedd ef a'i gymdeithion, ar yr achlysur, wedi eu dal â'r fath ddychryn, nes iddynt ymneillduo, a myned i ryw ystafell i ddarllen y gweddiau; a pharhau a wnaethant i ddarllen hyd nes eu lluddias dan dywyllwch y nos. Penderfynodd Thomas Parry y tro hwn roddi pen am byth ar ymladd ceiliogod. Torodd ben un, ond ar gais rhai o'i gymdeithion, arbedodd un arall. "Yr oeddwn," meddai, "yn gweled fy mod wrth fagu yr adar, yn darpar at bechu y fwyddyn ddyfodol."

Erbyn hyn yr oedd awydd arno ymgysylltu â'r crefyddwyr yn eu cyfarfoddydd eglwysig. Yn mhen tri mis ar ol ei ddwys-bigo dan bregeth Benjamin Thomas, fe gynygiodd ei hun am aelodaeth. Aeth ef, a Moses ei frawd, i Dan-y-fron i'r dyben hwnw, a chyfarfod misol oedd yno ar y pryd. Ond ni roddid derbyniad iddo yn Tan-y-fron; rhaid oedd iddo fyned i'r Bont-uchel i'r dyben hwnw. Eto, nid oes prawf ei fod wedi cael ei droi allan o'r cyfarfod neillduol yn Tan-y-fron. Felly pan ddaeth yr amser, fe ddaeth i'r Bont. Yr oedd John Pierce a Lewis Evan yno ar y pryd yn cadw cyfarfod eglwysig. Yr oedd hefyd ddau neu dri o ymgeiswyr yn cynyg eu hunain. Dechreuwyd ymddyddan â'r lleill yn gyntaf, ac ymchwilio caled a fu. Yr oedd ofnau, bellach, ymron a'i lethu. Meddyliodd yn gryf am ddianc allan, ond yr oedd John Pierce rhyngddo â'r drws. "Meddyliais," meddai, "y gallwn ddringo drwy y simneu; ond yn y cyfamser tynerodd yr arholiad, fel yr oedd John Pierce yn cael fod yn yr ymgeisydd ryw arwydd o ddrylliad calon, a meddwl cywir." Ymroddodd yntau, bellach, i gyfarfod â'i brawf; a llawer gwaith y dywedai ar ol hyny, "Ni fu byth awydd arnaf i weled y drws, heb neb rhyngwyf ag ef, wedi hyny."

Ar farwolaeth un Robert Llwyd yn y Bont, galwyd Thomas Parry i'r swydd o ddiacon neu henuriaid eglwysig. Gyda golwg ar yr amgylchiad, dywedai yn fynych, "Gwnaethant fi yn flaenor, cyn i mi ymadael â fy ngwisg-eni ymron." Yr oedd hen bobl y Bont yn aml yn tori allan i foliannu yn y dyddiau hyny; a mawr oedd trallod Thomas Parry wrth eu gweled hwy yn mwynhau, y pryd yr oedd ef yn ymddifad. Edrychai arno ei hun yn debyg i gnu Gedeon yn sych, pan yr ydoedd gwlith ar yr holl ddaear. Ofnai, yn fynych, fod yr Arglwydd wedi ei wrthod ef. Ond yn nghanol yr iselder i gyd, penderfynai barhau i 'ddisgwyl' trwy ymarfer â'r moddion; gan farnu mai felly y rhoddid iddo yntau yn hytrach nag un ffordd arall.

Yn lled fuan symudodd ei drigle, ac ymsefydlodd mewn lle a elwir Buarth-mawr. Ymaflodd yn yr alwedigaeth o wneuthur preniau traed a sodlau pren, am y rhai yr oedd cryn alwad y pryd hwnw. Dygwyddai, weithiau, yn enwedig yn yr haf, fod ei waith yn brin; parai hyny iddo ymgymeryd â gorchwylion cynhauaf gwair ac ŷd. Yn y tymhor hwn yr oedd unwaith yn lladd gwair yn Mharc Llewesog. Yn yr un amser yr oedd trallod ei feddwl yn pwyso yn drwm arno; a rhwng ing ei fynwes a blinder ei gorff, yr oedd fel un wedi cyd-gamu. Ond yr oedd Edward Parry, Llansanan, yn pregethu yn Ninbych yn y cyfamser; ac er cymaint oedd ei flinder, efe a ymlusgodd i'r oedfa. Y testyn ydoedd, "Hwn yw fy anwyl Fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd." Yn yr oedfa hon y tywynodd haulwen ar ei ysbryd, nes ei gyflawn ddadebru. Syrthiodd y baich oddiar ei wàr fel yr eiddo Cristion yn "Nhaith y Pererin," yn yr olwg ar y groes; a dychwelodd adref, dan rodio, a neidio, a moli Duw." "Cefais," meddai ef ei hun, "beth yn yr oedfa hono, a'm gollyngodd yn rhydd o'm rhwymau. Do! cefais beth y glynodd ei effaith ynwyf byth." Drachefn, dywedai, "Parodd y dewisiad i'r swydd lawer o derfysg meddwl i mi; ond mi gefais lawer o les oddiwrth ddywediad yr hen John Thomas,* sef am i mi ddilyn gair yr Arglwydd a myned yn mlaen hefo y gwaith. 'Ti gei rai, Thomas,' ebe yr hen ŵr, 'a dy ddyry di dan y fainc, ac eraill a dy gyfyd di ar ben 'stol; ond na ofala di pa le y dyry neb di, ond dos di yn mlaen a gweithia.'"

Bu fyw 21 o flynyddau yn y Buarth-mawr, ac ni chollodd odid gyfarfod eglwysig yn y Bont dros yr holl amser hwnw, er fod ganddo agos i bum' milldir o ffordd i gerdded; ac er fod y cyfarfod yn cael ei gynal dri o'r gloch prydnawn dros yr holl amser hwnw. Byddai cyfarfod eglwysig arall yn dylyn yr un hwn yn yr hwyr. Cynelid yr olaf yn Bryn-mulan. Yr oedd Thomas Parry, gan hyny, yn gofalu am y ddau gynulliad, a hyn a wnaeth am flynyddau lawer, heb na thâl na gwobrwy; er nad oedd ef ond dyn cyffredin ei amgylchiadau, ac ar ei oreu gyda'r byd. Wedi hyn daeth i fyw i'r Hewl, tyddyn bychan rhwng capelau Prion a'r Pentre, yn mhlwyf Llanrhaiadr; ac yma y trigodd hyd ei farwolaeth.

* Gynt o Lancwnlle, ond y pryd hwnw yn Ninbych.

Adeiladwyd capel Prion y calanmai hwnw. Cymerth hyn le tua'r fl. 1792, os ydyw ein cyfrif ni yn gywir. Yr oedd rhyw nifer o aelodau eglwysig yn awr i'w cael yn wasgaredig ar hyd plwyf Llanrhaiadr; y rhai, hyd yn hyn, tybygid, a arferent ymgynull yn y Bont; ond o hyn allan wrthynt eu hunain mewn cysylltiad â chapel Prion. Cydweithwyr Thomas Parry, oeddynt Robert Parry, Bryn; ac Edward Jones y 'capel': am yr olaf bydd genym air eto i'w draethu.

Arferai Thomas Parry fyned ddwywaith yn y flwyddyn i Langeitho, am ryw gymaint o'i oes grefyddol, sef yn Awst i'r gymdeithasfa, a thrachefn yn y Nadolig. Ei ddyben penodol yn myned can belled, heblaw mwynhad a lles personol iddo ei hunan, oedd ceisio cyhoeddiadau gan wŷr o'r Deheudir, i ymweled a siroedd Dinbych a Fflint; ac yn enwedig â'r Bont, Llansanan, a'r Dyffryn. Y pryd hwnw, sef ar ddechreuad ei oes grefyddol ef, yr oedd Gwynedd yn dibynu lawer iawn ar bregethwyr y Dê; y rhai a ddeuent yn gyson trwy y wlad; ïe, rai o honynt fwy nag unwaith na dwy yn y flwyddyn: a'r daith Sabboth ar y pryd, oedd Llansanan, Bont, a'r Dyffryn. Ai y gwrandawyr hefyd, o leiaf ryw nifer o honynt, i ganlyn y pregethwr drwy y dydd. Cymerent eu tamaid yn eu pocedau, ac ymddyddanent am y pregethau wrth deithio o'r naill le i'r llall.

Yn y blynyddau cyntaf y byddai ef, ac eraill o'i gydoeswyr, yn cyrchu tua Llangeitho, cyfarfyddent â chryn ddirmyg oddiwrth drigolion y pentrefydd yr aent trwyddynt; y rhai a gaent allan pa fath rai fyddent, ac i ba le yr aent. Yn Machynlleth, yn enwedig, y byddai cryn helynt arnynt. Ymdrechai y trigolion ddychrynu eu ceffylau trwy guro padelli, a phob math o gelfi trystfawr. Soniai Thomas Parry am yr amser y bu ymryson rhwng John Owens, Berthen-gron, a rhyw un dyeithr, ar giniaw yn y dref hon; pan y lluchiwyd y gyllell at ben y pregethwr mewn gwylltineb.

Am ryw oedfa yn Nolgellau yr arferai ddyweyd, "Dyna yr oedfa y bu fy nghalon i oera o un oedfa erioed, gan ofn i bobl gael eu lladd ynddi. Daethai gŵr o'r enw Evan Williams, o'r Deheudir, gan belled a'r Bala ar gyhoeddiad; ac ar ei ddychweliad yr oedd yn pregethu yn nhref Dolgellau. "Yr oedd y pregethwr," meddai Thomas Parry, "yn un tanllyd iawn, ac yn bloeddio yn arw. Tra yr oedd ef yn pregethu, yr oedd un William Pugh,* yn ceisio cadw yr erlidwyr draw, ac nid bychan oedd y terfysg rhyngddynt, a'r perygl i'r naill neu y llall gael eu lladd."

Nid yn fynych y gwelodd un sir yn Nghymru ragorach blaenor na Thomas Parry. Cafodd y fraint o ddechreu yn ieuanc gyda chrefydd, a chynysgaethwyd ef âg oes faith. Bu yn proffesu crefydd tua 72 o flynyddau, ac yn gweini swydd diacon ymron yr un faint o amser. Bu farw yn 1837, yn 92 ml. oed.

Ar ei gychwyniad ef allan gyda chrefydd, nid oedd yr un lle o addoliad yn mhlwyf Llanrhaiadr, gan un enwad o ymneilduwyr; ac ni bu yr un, hyd nes

* Gwel air am y gŵr hwn, yn Cyf. I., tudal., 512.

adeiladwyd capel Prion, yn y fl. 1792. Bellach, y mae gan y Methodistiaid yn unig bedwar o gapelau o leiaf yn y plwyf; ac nid llawer o blwyfydd yn sir Ddinbych, sydd wedi ei ennill yn llwyrach i wrando yr efengyl.

EDWARD JONES, PRION.

Ganwyd y gŵr hwn tua phum' mlynedd ar ol Thomas Parry, sef yn y fl. 1750; ond nid yn agos at eu gilydd. Brodor oedd ef o Nant-y-fflint; parth o wlad nad oedd, ar y pryd, nac ychwaith am flynyddau lawer wedi ei eni ef, ddim son am grefydd, oddieithr y ddefod o fyned yn achlysurol i lan y plwyf. Ond pan oedd ef yn blentyn bychan, symudodd ei rieni i fyw i'r Nant, ar làn afon Clywedog, yn lled agos i'r Bont-uchel. Dygwyd ef i fyny yn yr un grefft a'i dad, sef *slater* a *plasterer*. Pan oedd yn 14 ml. oed aeth i ddilyn ei alwedigaeth i'r Wyddgrug, a galwyd ef yno "*Y slater tew*." Bu yn y Wyddgrug, hyd nes oedd yn 18 ml. oed.

Yr oedd, bellach, dros ei ben yn nwyfiant y cnawd; yn ddyn ieuanc cryf anarferol, ond yn rhagori mewn anystyriaeth, gwylltineb, ac oferedd. Ei hoff bleser ydoedd chwareu, campio, ac yn enwedig ymladd. Codai hyn, tybygid, nid gymaint oddiar naws gynenus a chwerylgar, ond oddiar wagymffrost o'i nerth anghyffredin; a hoff oedd ganddo roddi prawf o hono trwy ymryson. Yr oedd ymladd yn demtasiwn iddo, yn enwedig gan ei fod yn wastad yn ennill y fuddugoliaeth.

Tua'r amser yr oedd yn y Wyddgrug, y daeth pregethu yno gan y Methodistiaid, i dŷ un Sarah Howel. Yr hyn a ddygodd y "Caradocs" dan ei sylw neillduol, oedd dyfodiad pregethwr o'r Dê i'r dref; yr hwn, fel yr ymddengys, oedd John Evans, Cil-y-cwm. Mae'n debyg mai nid hwn oedd y tro cyntaf i bregethu fod yn y dref ganddynt; ar yr un pryd nid oedd dim llawer o oedfaon wedi bod yno cyn hyny. Yr oedd hyn ryw bryd cyn y fl. 1768. Yn y tymhor hwn yr oedd Edward Jones yn cofio fod son mawr iawn, am y "Caradocs" o'r Dê, a ddeuent yno; mai nid dynion oeddynt ond *cythreuliaid;* a bod eu traed fel traed bustych. Cododd hyn ysfa yn ei feddwl i fyned i wrando John Evans, ac yn enwedig i gael gweled ei draed. Ond yr oedd gan y pregethwr fotasau am ei draed; felly ni allai gael golwg arnynt. Ar yr un pryd yr oedd yn llosgi gan awydd i gael gweled traed bustach gan greadur ar ddull dyn; ac am hyny arhodd o gylch y tŷ, ar ol yr oedfa, gan ddysgwyl y tynai y "Caradoc" ei fotasau, ac y rhoddid mantais i weled ei draed. Felly hefyd y bu, a thrwy rigol yn y cauad oedd ar y ffenestri, y gwelodd draed y dyn, ac wele yr oeddynt yn gyffelyb i'w draed yntau! Sylwodd hefyd fod ganddo hosanau rhesog, ac ni orphwysodd Edward nes cael rhai tebyg iddynt iddo ei hunan. Nid oedd yn yr oedfa hon ddim mwy na 18 neu 20 o bobl.

Trwy yr amgylchiad hwn, lleddfwyd ei ragfarn yn y fan, os na symudwyd ef yn llwyr. Gwelodd mai celwydd a ddywedid am danynt; parodd y tro

wrth-ysgogiad yn ei feddwl, a thueddwyd ef yn hytrach i feddwl yn fwy o'r crefyddwyr. Ymddangosodd ei dueddrwydd atynt yn bur fuan, ac mor fuan a hyny y dechreuodd yntau gael ei wawdio oblegid hyny. Dyoddefodd beth o herwydd yr oedfa hono, ac ymladdodd hefyd, gan na allai oddef edliwiadau cas ei gymdeithion. Ond er na fu yr oedfa hono yn effeithiol i'w ddychwelyd ef at Dduw, eto glynodd rhai o'r gwirioneddau a glywsai; a glywsai, mae'n debyg, y tro cyntaf erioed, yn ei feddwl ef. Synai yn fawr pa fodd y gallai y dyn dyeithr fod mor adnabyddus o'i gastiau ef; ac er maint ei ddireidi, methai yn lân ag ymysgwyd oddiwrth effeithiau yr oedfa hono byth!

Tua'r un amser y dechreuodd pregethu yn y Bont-uchel, lle yr oedd tad Edward Jones yn byw, sef tua'r fl. 1766—8. Yr oedd ei dad yr un ffunud, wedi cael ei dueddu i wrando; a'r hanes am hyny wedi ei gyrhaedd ef i'r Wyddgrug, fod ei dad wedi myned yn "bengrwn;" parai y desgrifiad hwn syndod arno, gan ymofyn ag ef ei hun, a oedd rhyw wahaniaeth ar ben ei dad wrth a fyddai gynt.

Yr oedd anwybodaeth preswylwyr y Bont-uchel ar y pryd yn fawr iawn. Nid oedd yno nemawr un a fedrai ddarllen, ond un Hugh Evan, o'r Pant-glas. Pan fyddai llythyr neu ewyllys i'w darllen, am Hugh Evan y gelwid. Yr unig foddion a ddefnyddid, y pryd hwnw, i chwalu y tywyllwch trwch hwn, oedd ambell oedfa a ddygwyddai; ac nid oedd yr oedfaon chwaith, y pryd hwnw, ond anaml. Yn yr adeg dywell hon y dychwelodd Edward Jones i'w hen gartref, heb wrando yr un bregeth ond yr un grybwylledig.

Yr oedd yn y Bont, yn y tymhor hwn, nifer o ddynion* tua'r un oed, y rhai a arferent chwareu â'u gilydd, y gamp ag oedd yn ffynu yn eu mysg, sef coitiau (*coits*). Yr oeddynt oll yn arfer gwrando yr ychydig bregethau a fyddent i'w cael, ac yn son hefyd y naill wrth y llall am ymuno â'r gymdeithas grefyddol. Ond cyn gwneyd hyny, rhaid oedd iddynt gael un gamp o chwareu; ac wedi ei chael, rhoisant heibio y coitiau am byth, gan fwrw eu coelbren yn mysg yr ychydig grefyddwyr ag oedd yno. Ac er y plentynrwydd uchod, troisant allan yn ddynion grasol a thra defnyddiol. Chwilient am gyfleusderau i addysgu eu cymydogion mewn pethau crefyddol, ac i'w hennill atynt. Y pryd hwnw nid oedd y cyfleusderau hyny ond prinion iawn. Ychydig a ddeuent i wrando pan fyddai pregeth, ac nid oedd y pregethau ond anaml. Nid oedd dim llyfrau, ymron, yn y wlad, na thraethodau; na neb chwaith a fedrai eu darllen pe buasent i'w cael. Nid oedd dim o'r fath beth ag ysgol Sabbothol eto wedi ei ffurfio; ond er nad oedd cyfleusderau o'r fath; eto, yr oedd awyddfryd y crefyddwyr i leshau eu cymydogion yn fwy nerthol, i'r graddau yr oedd y cyfleusderau, i roddi arllwysiad iddo yn llai. I'r dyben i ddwyn sylw eu cymydogion diofal at bethau tragwyddol, a'u hennill i wrando, arferai crefyddwyr y Bont foddion tra anghyffredin; ïe, yn

* Megys, John Hughes, Tan-yr-owen; Robert Llwyd, Ddrwen-fawr; a Peter Hughes, Ty-brith.

y dyddiau hyny. Cytunai dau o honynt i gyfarfod â'u gilydd, megys ar ddamwain, mewn tŷ tafarn, lle y gwyddent fod rhyw nifer o ddynion gyda'u gilydd; a thynai y naill ar y llall ryw siarad yn nghylch crefydd yn nghlyw y bobl; a thrwy ymddyddan ac ymresymu y naill â'r llall, fe ddygid eraill i wrando arnynt, ac i roddi gair i mewn. Fel hyn y caent fantais i greu ymofyniad, ac i annog y bobl i ddarllen eu Beiblau, neu ynteu i ddyfod i wrando y Beibl yn cael ei ddarllen a'i egluro; a bu y moddion hyny yn fendithiol i ennill llawer i wrando y gair yn y canlyniad. Nid oedd y moddion hyny, er hyn oll, yn gyfryw ag a ellid eu hargymhell i efelychiad cyffredinol; rhag y dygwyddasai fod mwy o ddrwg nag o dda yn cael ei gynyrchu; ond yma hwy fuont yn dra defnyddiol.

Mewn tŷ a elwir Pen-y-bryn;—tŷ un Phylyp, cylchwr wrth ei grefft, yr oedd y pregethu y tymhor hwn yn ardal y Bont; a thrwy weinidogaeth un Dafydd William Dafydd, y dygwyd Edward Jones i deimlo llwyr golledigaeth ei gyflwr. Bu mewn cyfyngder a thrallod mawr iawn, ac yn y cyfamser, daeth arno glefyd trwm; adferwyd ef o'i glefyd cyn i'w fynwes gael tangnefedd. Parai y coffa am ei hen agweddau, yn ol ei eiriau ef ei hun, "Uffern wyllt yn ei gydwybod." Tua'r fl. 1771, pan ydoedd tuag 21 ml. oed, ymunodd â'r eglwys pryd nad oedd ond 12 o aelodau ynddi. Dysgwyliodd y buasai hyn yn gweinyddu ymwared iddo, ond hyny nis cafodd, o leiaf yn y ffordd a'r mesur a ddysgwyliwyd ganddo ef; nid yn fuan nac ar unwaith y cafodd ryddhad a chysur, ond yn raddol; eto nid llai sicr a pharhaus. Ymroes, bellach, i ddysgu darllen; a galwyd ef, mewn cysylltiad ag un Robert Powel, i swydd diacon, i ofalu yn benaf am bethau allanol yr achos; yr hon swydd a gyflawnodd gyda ffyddlondeb tra chanmoladwy. Yr oedd y pregethu, erbyn hyn, mewn tŷ arall; sef tŷ un William Roberts.

Wedi adeiladu y capel yn y fl. 1777, yr oedd y brodyr yn awyddus i gael cymdeithasfa i'r Bont; ac Edward Jones a anfonwyd i gymdeithasfa Llansawel, yn sir Gaerfyrddin, i ymofyn cyhoeddiadau gwŷr dyeithr i'w chadw. A phan nad oedd yn llwyddo yn ol ei ddysgwyliad, ymollyngai i grïo fel plentyn; a thrwy hyny, tosturiai Rowlands wrtho, gan addo eiriol drosto. Nid y gymdeithasfa hon oedd yr unig un a fu yn y Bont, gan y darllenwn am un yr oedd Mr. Charles ynddi, yn mhen blynyddau ar ol yr un uchod. Yn y cyfarfod diweddaf o'r ddau, y dywedir i Mr. Charles gael ei arddel mewn modd tra anghyffredin; a thrwy y tro hwnw, ddarfod iddo ennill lle a pharch mawr yn meddyliau yr hen dadau.

Nid oedd y crefyddwyr yn cael perffaith lonydd i addoli ar ol cael y capel. Sonir am un Fychan Davies, cigydd o Ruthin, fel un a ddeuai i'r Bont i derfysgu yr addoliad. Byddai, weithiau, yn saethu oddeutu y capel; a phryd arall eisteddai yn fforchog yn y ffenestr, gan siarad ar ol y pregethwr. Deuai yma ymladdwr mawr o Landyrnog, ar y bwriad o aflonyddu; a phan y dygwyddai y ddau gyfarfod a'u gilydd ar yr un amser, galwai yr olaf ar Fychan Davies i dewi; gan fygwth trwy lŵ oni fyddai yn ddystaw, y gwnai

ef fod yn edifar ganddo. Sonir hefyd am un, John Jones, Ysgeibion, yn dyfod i mewn i'r capel ar gefn ei geffyl, ac yn ateb y pregethwr; gan ei ddwrdio yn groch, a dyweyd, "Taw, yr hen ffwl!"

Yr oedd gŵr o'r enw Mr. Williams yn byw mewn amaethdy, o'r enw y Fedw-las, yn gymwynaswr caredig i'r achos; ond yr oedd ganddo was tra gelynol. Rhoddai y meistr lety a bwyd i'r pregethwyr, a lloches a lluniaeth i'w hanifeiliaid ar amser cyfarfod misol, neu ryw gyfarfod cyffelyb; ond tra y byddai y meistr yn arddangos ei garedigrwydd iddynt hwy, byddai y gwas yn arllwys ei ddygasedd ar eu ceffylau. Gorchymynai i'r hogiau eu curo yn y 'stabl wedi i'w perchenogion fyned i orphwys, ac yn enwedig ceffyl John Evans o'r Bala. "Golchwch," meddai, "geffyl y dyn a'r ên hir yna, nes bydd o yn ymestyn yn ei groen!" Tra y byddai y pregethwyr yn gorphwys yn y gwely; yr oedd eu hanifeiliaid yn cael eu gyru ar hyd y meusydd! Aeth y gwas drygionus hwn i ganlyn ystalwyn ar hyd y wlad, ac yn mhen y flwyddyn cyfarfu â'i angau, trwy gael troediad gan y march a ganlynai!

Yr oedd creulondeb mawr yn cael ei arfer gan berthynasau at eu gilydd yn more Methodistiaeth, heb un bai yn galw am hyny, ond eu gwaith yn myned i wrando pregethau, ac i'r cyfarfodydd eglwysig. Dyoddefodd gwraig yn ardal y Bont, o'r enw Alice Evans, o'r Foel-ucha', lawer yn nyddiau ei heuenctyd, oblegid ei chrefydd. Daeth dan argraffiadau crefyddol tua'r fl. 1766, pan ydoedd yn 13 ml. oed. Llawer gwaith y bygythiodd ei thad ei gosod i orwedd yn ei gwaed, os 'hi a ganlynai ffyliaid crefyddwyr y Bont!' A'i mam hefyd, weithiau, mewn dagrau, ac weithiau mewn drwg-anwydau, a lefai yn wyneb Alice, "Os y'i canlyn a fyni, tydi a ddygi arnat dy hun ac ar dy deulu, fwy o warth na phe baet yn buttain gyhoeddus!"

Dyoddefasai ei gŵr hefyd, Hugh Evans, lawer camwri o herwydd ei grefydd. Yr oedd yn more ei oes yn byw gyda'i daid, Mr. Hugh Jones, yr hwn oedd oruchwyliwr i Syr William Bagot, barwn. Yr oedd y goruchwyliwr yn ŵr o sefyllfa dda, ac yn meddu ar raddau helaeth o wybodaeth; ond nid oedd yntau yn rhydd oddiwrth ragfarn cryf yn erbyn crefyddwyr ei ardal. Bwriadai y gŵr hwn unwaith wneuthur ei ŵyr, Hugh Evans, yn etifedd iddo; ond pan ddeallodd ei fod yn gogwyddo at y Methodistiaid, rhoes ei ddewis iddo, naill ai peidio byth a myned i'r Bont-uchel, nac un lle arall i ddylyn y penau-crynion; neu ynteu foddloni i roi i fyny bob gobaith am un rhan o'i feddiannau ef. Cafodd ateb ei ŵyr yn y fan, mai y peth pellaf oddiwrth ei feddwl ef oedd gwadu ei grefydd, ac archolli ei gydwybod, er mwyn elw bydol, pa faint bynag. Safodd y ddau, y taid a'r ŵyr, at eu penderfyniad. Collodd Hugh Evans ffafr ei daid, ond cadwodd ei gydwybod heb ei llychwino a'i Dduw heb ei ddigio. Prin y mae yn angenrheidiol chwanegu na fu ar Hugh Evans eisiau dim daioni.

Bu aml ŵr da, a blaenor defnyddiol, yn dwyn cysylltiad â'r Bont-uchel heblaw y rhai y soniasom am danynt, megys Dafydd Jones, Simon Llwyd, ac eraill; ond nid oes gan yr ysgrifenydd ddim defnyddiau i roddi hanes teg am dan-

ynt, na lle ychwaith i'w roddi. Mae wedi dygwydd i'r Bont, fel ag i lawer o hen eglwysi, sef maethu eglwysi cryfach na hi ei hunan. Cafodd yr eglwys yn y lle hwn yr anrhydedd o roddi swcr i Fethodistiaeth pryd yr oedd yr holl fro o amgylch iddi heb ddim; ac oddiwrthi hi y seiniwyd gair yr Arglwydd i'r ardaloedd cymydogaethol, yn neillduol i blwyf Llanrhaiadr, ac oddiyno drachefn i gymydogaethau eraill. Ac er nad ydyw yr eglwys hon yn lluosog, eto y mae yn gallu "cadw tŷ." Nid yw yr ardal ond un amaethyddol a theneu ei thrigolion; tra gwahanol i'r lleoedd hyny y mae ynddynt weithfaoedd mawrion; eto y mae yma luaws o grefyddwyr da yn cael eu magu o oes i oes; y rhai y mae rhagluniaeth yn eu harwain i ymsefydlu mewn parthau eraill, ac i chwyddo rhifedi eglwysi eraill.

RHUTHYN.

Mae y dref hon yn gorwedd, fel y mae yn hysbys, ar fryn bychan yn ngwaelod Dyffryn Clwyd; ac ar lan yr afon y gelwir y Dyffryn ar ei henw. Mae yn sefyll o fewn 4 milldir i derfyn deheuol y Dyffryn, ac o fewn 8 milldir i dref Dinbych. Poblogaeth y plwyf, meddir, sydd oddeutu 1,500. Ond â hanes Methodistiaeth Rhuthyn y mae a wnelom ni yn bresenol.

Dywedir fod un Edward Oliver, gŵr a fuasai unwaith yn pregethu yn nhŷ Thomas Llwyd, yn Ninbych; ac a driniwyd mor echryslon, gan erlidwyr y dref hono,* yn cymeryd achlysur, oddiwrth ymgynulliad lluaws o bobl i Ruthyn, i weled drwgweithredwr yn cael ei golli, i bregethu iddynt. Safodd, meddant, ar yr ail ffon o'r ysgol, a chyfarchodd y bobl oddiwrth air Crist wrth y lleidr, "Heddyw y byddi gyda mi yn mharadwys." Nid oes hysbysrwydd pa gymhwysiad a wnaeth o'r geiriau, ond fod dadleu yn mysg y gwrandawyr, am briodoldeb y testyn ar yr achlysur; ac hefyd fod y bregeth wedi effeithio yn ddwys ar amryw yn y dyrfa.

Deallwn hefyd am yr hyn y sonia Robert Jones am dano, sef y modd y triniwyd rhyw ŵr boneddig; oddiar y dychymyg mai pregethwr ydoedd; am fod ganddo gadach neu ffunen am ei ben, mai yn y dref hon y bu hyny, er nad yw efe yn ei henwi.† Gallesid dysgwyl y buasai hyn yn wers digon effeithiol i erlidwyr Rhuthyn i beidio ymyraeth â'r fath orchwyl fyth ond hyny. Ond nid felly y bu.

Yr oedd yn Rhuthyn, y pryd hwnw, ysgol, ac y mae yn parhau hyd heddyw; yn yr hon yr addysgid nifer o wyr ieuainc, gyda golwg ar eu parotoi, lawer o honynt i'r offeiriadaeth. Bedwar ugain mlynedd yn ol, byddai yn yr ysgol hon wyr ieuainc o 18 i 25 ml. oed; meibion i foneddigion Cymru. Enw yr hen athraw oedd arnynt oedd Mr. Parry, y Warden. Dywedir mai gŵr llonydd, diofal, oedd ef; diddrwg, didda; ond fod hen wraig foneddig yn byw yn y dref, y pryd hwnw, ag oedd yn llawn gelyniaeth at y '*Cradocs*.' A

* Cyf. I., Tudal., 153. † Cyf. I., Tudal., 380.

phan y clywai yr hen fenyw fod dysgwyliad i un, neu rai, o honynt ddyfod i'r dref, neu fyned trwyddi, hi anfonai at yr hen athraw i ofyn am ddydd gŵyl fechgyn yr ysgol; er mwyn eu cael at ei gwasanaeth ar y fath achlysuron. Ac oddiyma, gan mwyaf, y codai yr erlidigaeth.

Eto, er hyn, yr oedd eraill o fewn y dref yn rhy barod i gynorthwyo yn y gwaith, ac weithiau i gymeryd y gorchwyl yn llwyr i'w dwylaw eu hunain.

Adroddai Robert Llwyd am un tro y bu ef yn dyst o hono, pan oedd tua 10 ml. oed; mae hyny er ys mwy na 80 ml. yn ol. Nid oedd ef yn gwybod enw y pregethwr, nac i ba le yr oedd yn myned; ond deallai mai o'r Bont-uchel yr oedd yn dyfod. Gellir dyfalu mai tua'r Adwy yr oedd yn cyrchu, gan fod Rhuthyn yn union yn ei ffordd; a chan nad oedd nemawr le arall a phregethu ynddo mor foreol. Pa fodd bynag, deallodd trigolion Rhuthyn mai '*Cradoc*' ydoedd; a dechreuasant ei luchio â thom, ac â cheryg, gan ei ddilyn trwy y dref, hyd nes daeth gyferbyn â'r gwestŷ a elwir y "*Cross Foxes*." Yr oedd gŵr y tŷ wedi bod yn byw yn Nghyffylliog, pentref cyfagos i'r Bont-uchel, ac wedi gwrando aml bregeth yno, ac felly yn teimlo gradd o garedigrwydd tuag at y pregethwyr. Pan welodd hwn y truan yn cael ei faeddu mor ddiarbed, efe a dosturiodd, ac a agorodd ei ddrws i'w dderbyn i'r tŷ; a chauodd y drws ar y llu mileiniaid o'r tu allan. Rhoddodd i'r dyeithr-ddyn yr ymgeledd angenrheidiol; ac a'i gollyngodd ef i ffordd yn ddystaw, trwy ddrws cefn, i ffordd a elwir y "*Dog-lane*;" ac felly diangodd yn ddyogel o'u dwylaw. Ond wedi eu siomi o'u hysglyfaeth, nid oedd dim i'w wneyd ond arllwys eu dial ar yr hwn a'i hamddiffynodd; a gwnaethant hyny trwy ddryllio ei holl ffenestri yn chwilfriw.

Nid oedd y pryd hwn gymaint ag un crefyddwr yn y dref, oddieithr fod un neu ddau felly yn ddirgel. Tua dwy flynedd wedi y tro uchod, daeth Robert Llwyd i brofi argraffiadau crefyddol,* ac yr oedd un neu ddau eraill dan ddylanwad yr un clefyd, y rhai a aent i'r Bont-uchel i'r pregethau, ac i'r cyfarfodydd eglwysig.

Dechreuodd yr achos ymsefydlu yn Rhuthyn, mewn tŷ gwraig weddw, i'r hon yr oedd dau fab, William a Frederick Parry. Bu y mab, William, yn ddiacon yn eglwys y Methodistiaid yn y dref am faith flynyddau. Pan glybu erlidwyr y dref fod yr hen wraig yn llochi pregethu yn ei thŷ, daeth llanciau yr ysgol fawr yn haid at y tŷ, yr hwn oedd yn ymyl yr afon, ac a lusgasant yr hen wraig allan o'i thŷ, gan ei harwain tua'r afon, ar fedr ei thaflu iddi. Ond dygwyddodd i'w mab, Frederick, yr hwn, y pryd hwnw, oedd yn aros mewn amaethdŷ, yn y gymydogaeth, eu cyfarfod ar y bont. Nid oedd yr erlidwyr yn gwybod pwy oedd, ond gwrandawsant arno yn ymliw â hwy; ac yn dyweyd nad oedd hen wreigan felly ddim yn werth sylw *dynion enwog* (*?*) o'u bath hwy; a llwyddodd gyda hwy i'w gollwng yn rhydd.

Dygwyddodd i ddau o weinidogion, neu o efrydwyr Iarlles Huntingdon,

* Gwel hanes y cristion hwn, yn Cyf. I., Tudal. 311.

ddyfod i Ruthyn, pan ar eu ffordd i'r Iwerddon. Gwnaeth y gwŷr da hyn gais ar bregethu i'r trigolion tywyll. Safasant wrth dalcen yr hen lysdŷ *(hall)*, yn y farchnadfa; ond gyd âg iddynt ddechreu, dyma haid o blant y fall yn prysuro o'r ysgol, ac eraill o'r trefedigion gyda hwy; ac yn ymosod o ddifrif ar y gwŷr, gan eu lluchio yn ddiarbed â llaid a phob celfi. Craffodd Robert Llwyd ar un ysgolor, yr hwn oedd fab i Mr. Davies, Maesgarnedd, yn taro un o'r ddau ŵr â chareg yn ei wyneb, nes oedd ei waed yn pistyllio. Y canlyniad fu i'r gwŷr roi eu hamcan heibio, a chilio ar ffrwst i'r gwestŷ.

Yr oedd teulu yr ysgol fawr yn gwneyd gorchest o wylied y crefyddwyr wrth iddynt fyned a dychwelyd; ac o ddefnyddio unrhyw gyfleusdra a ddygwyddai i'w baeddu a'u difrio. Ac nid yn unig ymroddent i gadw Rhuthyn yn lân oddiwrth yr ormes, ond llosgent gan eiddigedd am lethu yr heresi newydd mewn manau eraill. Y Bont oedd nesaf atynt; a hon oedd yr aelwyd, o'r hon yr oedd y gwreichion yn derchafu. Yr oedd y Bont, gan hyny, yn ddolur llygaid trwm iddynt; a phan y torai diwygiad allan yno, a pheri gradd o gyffro yn y cymydogaethau cylchynol, yr oedd eu cynddaredd yn llosgi yn fwy angherddol. Daeth rhyw nifer o honynt i'r Bont unwaith, pan oedd adfywiad yno, a'u gynau gyda hwy, gan fwriadu peri terfysg a dychryn anfad yn mysg y bobl. Deallodd Edward Jones, am yr hwn y soniwyd yn hanes y Bont, gŵr o nerth anarferol; ac un John, Pen-y-bryn, dyn bychan, gwisgi, eu bwriad; penderfynodd y ddau roddi diflasder i'r gwŷr mawr ar eu gwaith diddiolch. Ar eu dyfodiad i'r lle, yr oedd yr erlidwyr yn cael eu gwylio, gan y ddau wŷr a enwyd; ac yn y fan y gwelwyd achos, ymaflodd y ddau yn-ddynt, cymerasant ymaith eu gynau, gan eu gwasgu hwythau yn arswydus, a'u codymu hyd lawr. Daliwyd hwy â dychryn, a dywedent mewn braw, "*Y slater coch ydyw*;" a rhwng y dychryn a'r gwasgfeuon, yr oedd y gweilch fel celaneddau hyd lawr y capel! Ni ddaeth y giwaid i'r Bont byth mwy, ar y fath ddyben. Torwyd eu grym y pryd hwnw, a da fu ganddynt ddianc yn llechwraidd i'w ffau.

Pan fyddai hen bererinion Bont-uchel, wrth gyrchu i foddion gras, ac ar eu ffordd o fyned neu ddychwelyd trwy Rhuthyn, cymerent ofal am beidio myned trwy ganol y dref; ond hwy aënt trwy gefn y dref, ar hyd heolydd anamlwg a didramwy, rhag ofn i foneddigion yr ysgol ddyfod ar eu gwarthaf. Dygwyddodd, unwaith fod dyn o'r Bont, o'r enw Hughes, yn myned fel hyn yn ddystaw trwy y dref. Yr oedd yn ddyn gwrol a chryf; ac er nad oedd arno lawer o ofn dynion, eto mwy dewisol oedd ganddo beidio a bod yn un achlysur terfysg. Ond yn anffodus daeth ei fynediad trwodd yn adnabyddus i'r giwaid ellyllaidd yn yr ysgol, "ac," meddai yr hanes, "dyma hwy allan fel caccwn meirch; ac yn disgyn arno gyda ffyrnigrwydd rhyfeddol." Llusgasant y dyn i ben y castell; gan fwriadu ei fwrw bendramwnwgl i lawr, dros ymyl mur o bymtheg llath o uchder. Teimlai y dyn echrysder ei sefyllfa, a phenderfynodd, os byddai raid myned tros y dibyn, y mynai ddau neu dri o honynt hwy i'w ganlyn. Felly gafaelodd mewn dau o honynt, un ymhob llaw, a

dywedodd yn bendant y byddai raid i'r ddau ddyfod i'w ganlyn i'r gwaelod. A phan welsant fod ei afael yn rhy dŷn ynddynt, i'w cael yn rhydd oddiwrtho, nid oedd ond ei ollwng ef i ffordd, er mwyn arbed eu cymdeithion.

Dygwyddodd, dro arall, fod pregethwr dyeithr yn dyfod trwy y dref, i fyned, mae'n debyg, i'r Bont; ac wedi galw yn nhŷ y wraig weddw, mam William a Frederick Parry, hi a barodd i Frederick fyned i arwain y gŵr trwy gefn y dref, yn ol yr arfer; ond pan oeddynt wedi cyrhaedd y carchar, cyfarfuant â phlant y fall; y rhai, yn ol eu harfer, a ymosodasant yn ffyrnig ar y gŵr dyeithr, gan ei faeddu yn dost. Rhedodd yntau ar ffrwst i dŷ gwraig weddw, yr hon a agorodd ei drws iddo, gan ei gau eilwaith ar ei ymlidwyr. Yn y cyfamser, daeth Frederick Parry atynt, gan ymliw â hwy am eu gorthrwm ysgeler. Troisant bellach arno ef; ond yr oedd ganddo yn ei law ffon gref, ac yr oedd yntau ei hun yn ddyn ieuanc cryf; ymosododd, gan hyny, arnynt o ddifrif, gan ffonodio pob un a ddeuai yn agos ato. Gwnaeth hyn mor ddewr, ac effeithiol, nes eu gyru ar ffo; ond cyn iddynt oll ddianc, cafodd afael mewn un o'r dyhiriaid, ac a'i cariodd yn ei freichiau, ac a'i taflodd i lyn y felin.

Ond daeth angenrheidrwydd i newid pen athraw yr ysgol; ac yn ei le cafodd gŵr o'r Deheudir o'r enw Walters y swydd. Yr oedd y gŵr hwn wedi clywed am ddeiliaid yr ysgol, pa mor anfad oedd eu hanfoes a'u hannhrefn; ac ymwrolodd i'w gorthrechu a'u diwygio. Cymerodd gae yn ymyl yr ysgol i'r bechgyn ddifyru eu hunain, a chwareu ynddo; a rhoes orchymyn caeth nad oedd neb o honynt i fyned i'r dref ar gyfrif yn y byd. Parodd hyn beth rhwystr iddynt allu arllwys eu llid ar wŷr a ddygwyddai fyned trwy y dref; a lleddfodd yr erlid i raddau yn y canlyniad.

Yr oedd gradd o anesmwythder yn dechreu codi yn meddyliau y crefyddwyr yn y dref, fel yr oedd eu rhif yn lluosogi ychydig, a'r erlid yn llacio, i sefydlu achos arhosol ynddi; a chawsant hen ysgubor i'r dyben hwnw yn ymyl y fan y mae y capel presenol arno. Ond cyn cael yr ysgubor, fe lwyddodd Robert Llwyd i gael gan Mr. Jones, Llangan, ddyfod i'r dref i bregethu. Yn ol ei addewid daeth Mr. Jones; ac yr oedd John Thomas, Llancwnlle, gydag ef. Ond yn lle cadw yr oedfa o fewn y dref, penderfynwyd, rhag y dygwyddai terfysg a niweid, ei chadw wrth efail gôf, gerllaw pentref Llanbedr; ac o fewn milldir neu ychwaneg o ffordd i'r dref. Aeth rhyw nifer o grefyddwyr gyda'r gwŷr dyeithr i'r fan. Daeth yno hefyd i'w cyfarfod haid o ddyhiriaid a therfysgwyr, yn arfog hefyd; rhai wedi pardduo eu hwynebau, a rhai wedi rhoi masciau ceffylau am eu penau; er mwyn peri mwy o'u harswyd yn nhir y rhai byw.

Yr oedd John Thomas i lefaru yn gyntaf, a mawr oedd pryder Robert Llwyd ac eraill, rhag i un gair chwerw ddisgyn oddiwrtho, i gynhyrfu y bobl; o herwydd yr oedd peth chwerwder yn ei dymher ef. Yr oedd brys ar y brodyr, gan hyny, iddo ef derfynu. Yn y man ciliodd o'r ffordd i roi lle i Mr. Jones; esgynodd yr hen efengylwr i ben y clawdd, o dan cysgod pren

ffawydd mawr, yr hwn sydd yn y lle fyth ; fel cof golofn o'r gwaith da a fu unwaith, a dim ond unwaith erioed, yn cael ei ddwyn yn mlaen dan ei gysgod. Darllenodd ei destyn gyda llais cryf, a gwyneb siriol a hawddgar, "*Ni lefarodd dyn erioed fel y dyn hwn.*" Yr oedd rhyw beth tarawiadol yn yr adroddiad a roes o'r testyn ; a dull tarawiadol iawn yn ei ymadroddion cyntaf. "Llefarodd hwn lygaid i'r deillion—llefarodd glustiau i fyddariaid—llefarodd draed i gloffion--llefarodd iechyd i gleifion--llefarodd gythreuliaid allan o ddynion ;--ïe, llefarodd fywyd i feirwon : gall wneyd yr un peth eto, &c." Yn y fan yr oedd grym yr erlidwyr yn gwywo ; gollyngasant y ceryg, a'r baw, a'r ffyn, a'r holl gelfi o'u dwylaw. Yr oedd yno un a elwid yn Jack Jones y cigydd, yn flaenor ar yr erlidwyr ; yntau hefyd a swynwyd gan rym y bregeth, a chlywodd Robert Llwyd ef yn dyweyd, "Ni lefarodd dyn erioed fel tithau ; a myn d—-l mi fynaf chwareu teg i ti lefaru ; a chyntaf un a wna ddim iti, mi dalaf i'w groen o." Safodd odditan y pregethwr hyd nes y gorphenodd, ac ni fu un math o derfysg nac aflonyddwch ; ond y mae tystiolaethau, ddarfod i'r bregeth hono, fod yn foddion, nid yn unig i ddarostwng grym erlidigaeth yn yr ardal, ond hefyd i achub llawer o'r gwrandawyr.

Ychydig o ddyddiau ar ol hyn, cyfarfu Jack Jones â Robert Llwyd, a gofynodd iddo, "Bob, pa bryd y daw y Jones yna, o Langan, yma eto ? Dywed wrtho, myn hwn a hwn, y caiff o bregethu ar ben dre' ; a gwae fydd i'r neb a geisio ei rwystro. Mae Jones yn bregethwr iawn, yn gwneyd ei hun yn bechadur fel ninau ! "

Ryw amser ar ol hyn daeth Mr. Jones trwy y wlad drachefn, a phregethodd ar ochr yr heol gyferbyn â'r fan y mae y capel yn bresenol. Yr oedd pelydrau yr haul yn disgyn yn rymus ar ei ben, yr hyn a barodd i ryw un osod gwrthban uwch ben i fod yn gysgod iddo. Mynych ar ol hyn y dywedai yr hen weinidog, "Cefais oedfa lewyrchus o dan yr hen wrthban chwainog ! "

Bellach, dechreuodd yr erlidigaeth lacio yn Ruthin. Yr oedd bechgyn yr ysgol fawr wedi cael gradd o ddiflasder ar y gwaith di-ddiolch o erlid a baeddu dynion llawer gwell na hwy eu hunain ; yr oedd cyfarfod ag ambell un tebyg i Edward Simon, Gellifor ; Edward Jones o'r Bont, ac eraill cyffelyb ; dynion a herfeiddient eu gorthrwm hwy, ac a amddiffynent eu hiawnderau eu hunain, wedi lleithio graddau ar eu sêl benboeth. Parodd trefniadau gwahanol y pen athraw newydd radd helaethach o anfantais iddynt i gyflawni eu hen orchwyl. Darostyngwyd hefyd cryn lawer ar ragfarn y bobl gyffredin. Daethant i ddeall yn raddol mai celwyddau oedd llawer o'r chwedlau a ledaenid mor brysur am y crefyddwyr ; fod yn perthyn iddynt bobl gyfrifol a pharchus ; tebyg i Mr. Jones, Llangan, a'i gyffelyb ; ac nad oeddynt yn amcanu at ddim ond at leshau eu cyd-ddynion, trwy ledaenu egwyddorion yr efengyl ar led y wlad. Nid oedd Jack Jones, y cigydd, ddim mor barod i'w blaenori bellach ; a thrwy y naill achos a'r llall yr oedd y perygl o ddwyn pregethu i'r dref yn llawer llai nag a fuasai gynt. Achubodd y gwŷr a enwyd, Robert Llwyd a William Parry, y cyfleusdra, gan hyny, a chawsant le ac

egwyl i roddi troed Methodistiaeth i lawr ynddi. Llafuriodd Robert Llwyd lawer trwy fyned i'r Bala, a manau eraill i ymofyn am bregethwyr i ddyfod i bregethu i'w gyd-drefedigion; a chafodd yr anrhydedd a'r pleser i weled, "na fu ei lafur ef ddim yn ofer yn yr Arglwydd."

Mae Methodistiaeth yn Rhuthyn wedi ennill llawer o dir er yr amser uchod. Sefydlwyd yma ysgol Sabbothol tua diwedd y ganrif ddiweddaf, neu ddechreu hon; a buan yr effeithiodd i gasglu llawer o blant ac eraill at eu gilydd i ddarllen; bob un yn ei iaith ei hun, am "fawrion weithredoedd Duw."

Teimlodd Rhuthyn, i raddau helaeth, oddiwrth yr adfywiad a gymerth le, tua'r fl. 1821, yn benaf yn y Bont-uchel. Bernir i lawer o bechaduriaid gael eu hachub y pryd hwn yn Rhuthyn; ïe, rhai o'r fath annuwiolaf yn y dref. Gorchfygwyd meddyliau y trigolion yn gyffredinol i feddwl yn fwy parchus am grefydd; a bu raid i gablwyr rhyfygus fod yn fwy cymedrol a gwyliadwrus. Dywedai John Davies, Nantglyn, y bu ef yn myned adref o Ruthyn yn y tymhor hwn, ar ol oedfa y nos Sabboth; a bod swn caniadau y diwygiad yn ei glustiau o Ruthyn i Nantglyn. Bu yn swn pobl Rhuthyn nes ei fod rhwng Gollegfa a Hengoed; yna yr oedd swn teulu y Bont; parhaodd hwn nes iddo gyrhaedd Careg-y-gath; gyda hyn yr oedd swn teulu capel Prïon yn ei glustiau, tra yn esgyn i fyny i'r bryniau hyny; ac wedi cyrhaedd Cefn-y-main, yr oedd llechweddau Nantglyn yn adsain gan yr un fath beroriaeth. Fel hyn am ddeg neu ddeuddeng milldir o ffordd, nid oedd i'w glywed ond sain cân a moliant y bobl y cyffyrddasai Duw â'u calonau. Tymhor o wanwyn oedd, ond gwnaed ynddo waith a ddaliodd sychder haf er hyny.

Mae yn Rhuthyn eglwys a chynulleidfa gref; yn ymgynull mewn capel hardd a helaeth. Mae canghenau hefyd wedi tarddu o'r eglwys hon i Bentre'-celyn, Rhiw, a Rhyd-y-cilgwyn.

PENNOD V.

PARHAD O ORSAFOEDD CYNTAF METHODISTIAETH SIROEDD DINBYCH A FFLINT.

CYNWYSIAD:—

CYCHWYNIAD PREGETHU YN NGHAERWYS—JOHN ANWYL, Y GWEHYDD—EDWARD JONES, Y CYNGHORWR—RICHARD HARRISON—CREFYDDWYR CYNTAF CAERWYS—PARCH. THOMAS JONES, PEN-UCHA'—ADFYWIAD YN NGHAERWYS—PETER JONES—GWAUN-YSGOR—JOHN HUMPHREYS—WILLIAM EDWARDS—LLANEURGAIN—JOHN WILLIAMS—ARFERION YR HEN GREFYDDWYR—FFLINT—ERLID WILLIAM LEWIS—JOHN DAVIES, NANTGLYN—YSGOL DDYDDIOL.

CAERWYS.

Nid hir a fu Methodistiaeth heb ymwthio i'r dref hon wedi iddo gael cychwyniad a swer yn y Berthen. Nid oes ond tua thair milldir rhyngddynt. Bellach, yr oedd Methodistiaeth o bob tu i Gaerwys; sef yn Nyffryn-clwyd

o un tu, ac yn y Berthen o'r tu arall. Yr oedd pregethwr hefyd yn cartrefu yn mhob un o'r ddau; sef Robert Llwyd, Plas-ashpool, yn y Dyffryn, a John Owens yn y Berthen. Yr oedd Dafydd Morris, o sir Aberteifi, hefyd, yn dyfod dair gwaith neu bedair yn y flwyddyn trwy y wlad; a dywedir mai trwy ei weinidogaeth ef y cafodd un John Anwyl ei ddwyn i ystyriaeth am ei achos ysbrydol. Dywedir hefyd, y bu darllen llyfr Homiliau eglwys Loegr yn fendithiol i John Anwyl. Wedi i'r gŵr hwn gael blas ei hun ar weinidogaeth y gair, naturiol oedd iddo, nid yn unig ymofyn am dani iddo ei hun mewn manau eraill, ond ymdrechu ei chael i'w gartref hefyd, er mwyn ei deulu a'i gymydogion. Hyn hefyd a wnaeth.

Sonir am ddau amgylchiad, pryd y cafwyd gan bregethwyr ddyfod i Gaerwys i gyhoeddi y newyddion, ac nid oes eithaf sicrwydd pa un o'r ddau oedd y cyntaf. Dywed ei ŵyr * mai yr un canlynol oedd yr amgylchiad cyntaf. Gwehydd oedd yr hen John Anwyl; rywbryd ar ol ei ddeffro am ei gyflwr, aeth a chorn o liau a weuasai gartref, ar brydnawn Sadwrn; ac heb wybod i'w wraig na neb arall, aeth at un Edward Jones, yr hwn oedd yn byw gerllaw Helygain, pentref oddeutu tair milldir o Dreffynnon, ac yn arfer pregethu, i erchi arno ddyfod i bregethu i Gaerwys. Addawodd yntau ddyfod; a phan ddaeth yr amser, aeth y pregethwr, a dau gyfaill gydag ef, i dŷ John Anwyl, y gwehydd. Ar eu dyfodiad, yr oedd gŵr y tŷ allan, yn prysur wahodd trigolion y dref i'r oedfa; ac ni wyddai y wraig ddim am y bwriad. Edrychodd y wraig arnynt yn ŵgus iawn, a gorfu arnynt fyned allan o'r tŷ yn lled siomedig, am na buasai darpariaeth well wedi ei wneyd i'w derbyn. Ond ar eu gwaith yn dynesu at y groes sydd yn nghanol y pentref, pwy welent ond John Anwyl ei hun. Dechreuodd yr oedfa yn y fan. Safai y pregethwr yn agos i'r groes; ac ar waith y wraig yn myned allan i ymholi yn nghylch y dyeithriaid, hi welai y pregethwr, a nifer o bobl o'i gwmpas, ac yn eu mysg ei gŵr ei hun yn canu ei oreu, yn ymyl y pregethwr, a'i het yn ei law. Y cyfryw ydyw yr hanes a geir am yr oedfa hon, y gyntaf, yn ol tystiolaeth rhai, a fu erioed yn Nghaerwys, gan y Methodistiaid; oddieithr fod Dafydd Morris wedi bod yma o'r blaen, yr hyn sydd ansicr.

Pa un ai hon oedd yr oedfa gyntaf ai peidio, nid ydym yn gallu sicrhau. Mae rhyw beth tebyg yn yr adroddiad i wir. Gwyddom fod pregethwr o'r enw Edward Jones wedi bod unwaith yn y parthau hyn, tua'r amser dan sylw. Am hwnw y mae Robert Jones yn traethu yn "Nrych yr Amseroedd." "Yr oedd gŵr yn byw yn agos i'r amser hwnw, gerllaw Treffynnon, a elwid Edward Jones. Yr oedd yn rhagori mewn dysg a doniau ar lawer o bregethwyr tlodion y dyddiau hyny. Cafodd ei dderchafu i fod yn olygwr ar ryw weithoedd yn y wlad hòno. Fel yr oedd efe, a rhai gwŷr o sefyllfa uwch na'r cyffredin, yn cyd-deithio ar eu meirch; dygwyddodd iddynt ddyfod heibio i dyrfa o ynfydion yn prysur chwareu, y naill blwyf yn erbyn y llall.

* John Anwyl, Gronant.

Safasant dros ryw enyd i edrych arnynt; ac yn hyny, ennillodd y plwyf yr oedd Edward Jones yn perthyn iddo y gamp; ac o wag orfoledd am y fuddugoliaeth, rhoisant floedd nes oedd y ddaear yn dadseinio; a themtiwyd yntau i ynfyd floeddio gyda hwynt. Teimlodd yn y fan ŵg Duw ar ei gydwybod, a'r pethau oedd efe yn eu mwynhau o'r blaen yn cilio oddiwrtho; ac ni chynygiodd bregethu byth wedi hyny;—ond er iddo golli ei fraint yn yr eglwys, ni ellid barnu yn galed am ei gyflwr; oblegid yr oedd arwyddion o dduwioldeb arno tra bu ef byw." Nid oes amseriad genym ar yr amgylchiadau hyn; ac o ganlyniad yr ydym dan raddau mwy o anfantais i roddi barn benderfynol ar gyd-darawiad pethau â'u gilydd.

Yr amgylchiad arall, sydd yn cael y flaenoriaeth o ran amser ar yr un grybwylledig, sydd fel y canlyn:—Cafodd John Anwyl ar ei feddwl i fyned i Laneurgain, tua deng milldir o ffordd, i ymofyn am un Richard Harrison, yr hwn oedd yn arfer pregethu. Gwehydd oedd hwn hefyd. Gŵr tal, hanner sais; a golwg lled foneddigaidd arno. Nid ydym yn deall y bu mewn cyssylltiad â'r Methodistiaid ychwaith yn hir; ond, o herwydd anghyfleusdra yn benaf, ddarfod iddo gilio oddiwrthynt ac ymgysylltu â'r Wesleyaid. Bu farw, meddir, tuag ugain mlynedd yn ol; yn llawn o ddyddiau a gras. Bu Mr. Thomas Glyn Jones, Mostyn, yn ysgwyd llaw âg ef o fewn mis cyn ei farw. Llwyddodd John Anwyl gydag ef, pa fodd bynag, i ddyfod i Gaerwys i bregethu.

Aeth y gair allan fod oedfa i gael ei chadw yn nhŷ tô gwellt John y gwehydd, wrth "Lyn Twm Bills," ac ymbarotodd y person i'w dyrysu. Rhoes bres i blant y dref am luchio y pregethwr â cheryg. Deallodd John Anwyl, neu ofnodd o leiaf, y byddai cynhwrf; ac ymbarotodd yntau. Cafodd gan ddau frawd, o'r enw Ellis, brodyr i'w wraig ef, gadw drws y tŷ. Yr oedd y dynion hyn yn adnabyddus fel dynion cryfion ac ymladdgar, a'i hofn ar bobl y lle. Safodd y gwŷr hyn â phastynau mawrion yn eu dwylaw wrth ddrws y tŷ, i warchod na byddai na swn na chyffro; ac felly yr aeth yr oedfa drosodd, heb i neb gael niwaid. Yr oedd swyddog y gyllidfa (*exciseman*), o'r enw Mr. Smith, yr hwn oedd yn ŵr crefyddol; yn arfer dyfod i Gaerwys wrth ei swydd bob chwech wythnos; a chof oedd gan wraig y tŷ tafarn, lle y disgynai, glywed ymddyddan rhyngddo â'r person, ac iddo ddyweyd wrth y gŵr parchedig, "Os yw y bobl yma o Dduw, gwell yw i chwi beidio a'u drygu; rhag dygwydd i chwi yr hyn a fyddo gwaeth." Nain i'r diweddar Mr. Williams, Caerwys, oedd gwraig y dafarn.

Ar ol cael ambell i oedfa yn yr hen dŷ ger "Llyn Twm Bills," cafwyd lle arall i bregethu ynddo, sef llofft; a grisiau cerig oddi allan i fyned iddi. Yr oedd y llofft hon yn sefyll yn y Marian, yn ngŵr y dref; ac yn lled agos i'r fan y mae y capel yn bresenol. Rhwng yr amser y bu pregethu achlysurol yn nhŷ John Anwyl, ac yn llofft y Marian, tybygid i ddeng mlynedd fyned heibio. Dechreuodd, fel y bernir, tua'r fl. 1762, hyd y fl. 1772. Yn y flwyddyn ganlynol, ymunodd Mr. T. Jones, Pen-uchaf, y pryd hwnw; Mr.

Jones, Dinbych, wedi hyny, â'r Methodistiaid; pan nad oedd ond 16 mlwydd oed. Yn y fl. 1771, cafodd y brodyr gan dad Mr. Jones, osod tŷ iddynt yn Nghaerwys, trwy fod y mab yn dadleu drostynt; lle y buont yn ymgynull hyd nes yr adeiladwyd y capel cyntaf.

Yr oedd rhyw nifer o enwau, wedi eu hennill erbyn hyn, i roddi y gwddf yn ngwasanaeth eu Harglwydd. Rhoddir eu henwau i ni fel hyn:—John ac Edward Anwyl, dau frawd; Zachariah Anwyl eu nai. Derbyniwyd Edward Anwyl a'i nai, yr un amser, gan Dafydd Morris; yr hwn oedd yn Nghaerwys ar y pryd. Yr oedd cryn hynodrwydd yn Edward Anwyl. Bu dros 60 mlynedd yn aelod eglwysig, a 50 mlynedd o honynt yn ddiacon. Yn yr hanner can' mlynedd hyn ni chollodd, meddir, oddieithr pump neu chwech o gyfarfodydd eglwysig, hyd y flwyddyn olaf o'i oes. Gwehydd oedd yntau wrth ei grefft, a bu fyw hyd nes oedd yn agos i 80 mlwydd oed. Ennillasai barch ei gymydogion yn ddiwahaniaeth, fel cristion cyson a diargyhoedd. Ni welwyd erioed mo'no wedi gwylltio; ac ni chlybuwyd gair chwerw o'i wefusau. Gelwid am dano i weddio gyda phob claf yn y dref a'r gymydogaeth; ac ystyrid ef yn un o'r dynion mwyaf addfwyn, dirodres, a gostyngedig, o neb o'i gymydogion.

Un arall o'r crefyddwyr cyntaf oedd James Buckley, yr hwn a fu yn pregethu dros gryn dymhor o'i oes. Gŵr tàl, glân ei ddiwyg; ac yn ei radd, lled foneddigaidd, oedd James Buckley; hollol wahanol i Robert Prys, Plas-winter. Gwehydd oedd hwn o ran ei grefft. Yr oedd hefyd, fel Humphrey Owens, yn gantor rhagorol; ond nid ydym yn cael ei fod yn bregethwr talentog, er ei fod yn gristion difrycheulyd; tebyg oedd ei gymeriad i'w ddillad, glân iawn, ond nid gwych; manwl, ond nid rhodresgar.

Un arall oedd John Prys, mab oedd hwn i'r gŵr a ddaliai Plas-yn-Nghaerwys. Gŵr ieuanc duwiol a dysgedig, meddir, oedd hwn; bu farw yn ieuanc o glefyd ar yr ymenydd.

Un arall oedd Owen Thomas, dyn bychan crwca, oedd ef; cristion cywir, ac yn flaenor yn Nghaerwys dros flynyddau. Yr oedd hwn wedi bod yn yr ysgol fawr yn Llanelwy, ac yn gyfarwydd mewn amryw ieithoedd; dyn dystaw a dwys, ond o gyrhaeddiadau ryfeddol, yn enwedigol mewn duwinyddiaeth.

Y llall oedd Thomas Jones, *Pen-uchaf*, am yr hwn y cawn ymhelaethu eto.

Un arall oedd William Jones; tad oedd ef i Mr. Thomas G. Jones, yn awr o Fostyn. Yr oedd hefyd ddwy neu dair o wragedd wedi bwrw eu coelbren gyd â'r crefyddwyr yn yr amser hwn, sef, Elizabeth Jones, a Modlen Thomas, ei chwaer; ac yn ddiweddarach, Mrs. Rogers, o'r Plas.

Dysgwylia y darllenydd, yn ddiamheuol, hanes helaethach am Mr. Jones, Pen-uchaf. Ganesid ef yn y fl. 1756. Yr oedd ei rieni yn byw yn y lle a enwyd; yr hwn oedd hefyd yn dreftadaeth iddynt. Dangosodd y mab yn gynar fod ynddo athrylith i ddysgu mwy na phlant yn gyffredin. Bu farw ei fam pan ydoedd yn 7 mlwydd oed. Ar ol hyn cafodd lysfam, yr hon a fu

dirionach wrtho na'i dad; a'r hon hefyd oedd yn lled-ogwyddo i wrando y Methodistiaid. Teimlodd ryw argraffiadau crefyddol, yn awr ac eilwaith, yn nhymhor boreaf ei oes, eto gwisgwyd hwy ymaith ymron yn llwyr. Cafodd amryw waredigaethau yn ei ieuenctyd; pedair gwaith y bu yn agos a chael ei frathu gan nadroedd. Bu unwaith mewn perygl o gael ei ladd, trwy i drawst mewn adeilad syrthio yn ei ymyl; a phryd arall trwy ddringo i grib hen glochdŷ, a phen ysgafnhai; dygwyddodd, pa fodd bynag, iddo ogwyddo un ffordd ac nid y llall, onide buasai yn ddrylliau gan y codwm.* Tro arall, ymwthiasai ef a bachgenyn arall i fwthyn a godasid gan ryw ofer-chwareuwyr yn y dref; er mwyn gweled y chwareu heb dalu am fyned i'r bwthyn. Ac oni buasai iddynt gael eu codi o'r fan yr ymwthiasent yn llechwraidd iddo, gan ryw rai o'u cydnabod, buasai y ddau wedi cu llethu i farwolaeth; gan ddarfod i'r trawstiau gilio neu dori, ac i'r bwthyn, a'r rhai a eisteddent ynddo syrthio yn bendramwnwgl; felly y diangodd y ddau fachgenyn rhag eu lladd.

Ymadawodd a'r ysgol tua diwedd y flwyddyn 1771, pan oedd yn agos i 16 mlwydd oed. Yr oedd erbyn hyn, yn ysgolhaig da, ac ar fedr myned i'r brif ysgol, wedi iddo ddyfod i oedran aeddfetach. Yr oedd teimladau crefyddol y pryd hwn, yn rhedeg trwy ei fynwes; ond pell iawn ydoedd oddiwrth feddwl ymuno gyda neb o'r ymneillduwyr, gan fod ei fryd ar offeiriadaeth yn eglwys Loegr. Yn yr adeg hon y daeth gŵr i ymofyn â'i dad am gael tŷ dan ardreth i bregethu ynddo yn Nghaerwys; a chan fod rhyw dynerwch yn y mab at y crefyddwyr, trwy wrando ryw dro ar Robert Llwyd, Plas-ashpool; a thrwy ganfod effeithiau daionus crefydd ar rai dynion o'i gydnabod, efe a eiriolodd â'i dad i gydsynio â'r cais; a llwyddodd. Yr oedd y gŵr ar ei ffordd i wrando pregeth y pryd hwnw; a thrwy esiampl brawd iau nag ef, a lled-gymhelliad ei lysfam, efe a aeth gydâ'r gŵr i wrando y bregeth. Y pregethwr ydoedd Robert Evans, Llanrwst; ei destyn oedd, Salm lxxxvi. 11, "Dysg i mi dy ffordd, O Arglwydd, &c.;" a chafodd y bregeth gymaint o effaith arno ag i'w dueddu i fyned yno dranoeth i wrando Edward Parry, Bryn-bugad. Y fan y cynelid yr oedfaon hyn oedd Ffynnon-beuno; lle, yn agos i Dremeirchion, ar ffordd Bodffari.

Bellach, arferai wrando yn amlach, a phrofai argraffiadau dwysach; a'i dad wrth weled gogwyddiad ei feddwl a'i cymhellodd i fyned eilwaith i'r ysgol. Ac er na wrthodedd ufuddhau, eto rhoes ar ddeall i'w dad, na atebai ei fynediad i'r ysgol mo'r dyben a amcenid. Yr oedd wedi llwyr gasâu y meddwl o fod yn offeiriad, trwy ganfod pa mor anfucheddol oedd yr offeiriaid adnabyddus iddo ef. Ymunodd hefyd â'r Methodistiaid, fel y dywedwyd o'r blaen, ac ymrodd i ddarllen ac astudio y Beibl, a llyfrau da eraill; ynghydag ymarferiad dyfal â phob moddion o ras, a fyddai yn ei gyrhaedd. Fe fu

*Gwel ei hanes yn helaethach yn ei Gofiant, a gyhoeddwyd dan olygiaeth y Parchn. John Humphreys, a John Roberts, Llangwm.

Mr. Jones dros saith neu naw mlynedd, ar ol ymuno â'r eglwys, yn profi llawer math o dywydd meddwl; a'r rhan amlaf, teimlai ei hun yn isel a digalon; ymosodai arno lawer profedigaeth; eto oddiwrthynt oll y'i gwaredodd yr Arglwydd; a hysbys ydoedd i bawb, ei fod yn cynyddu yn gyflym mewn gwybodaeth ac mewn profiad; ac yn rhoddi sail i obeithio fwyfwy ei fod yn cael ei barotoi er bod yn seren ddysglaer, ac yn weithiwr defnyddiol yn eglwys Crist.

Bu llawer ymosodiad arno ar ol hyn, ai nid ei ddyledswydd oedd myned yn weinidog yn eglwys Loegr, yn hytrach nag yn bregethwr gyda'r Methodistiaid. Ofnai y byddai ei wylder a'i ddiffyg o rwyddineb ymadrodd ei anghymhwyso i fod yn bregethwr; felly hefyd gwendid ei iechyd. Tybiai fod mawr angen gweinidogaeth efengylaidd yn yr eglwys wladol; ac annogid ef hefyd gan un neu ddau o weinidogion duwiol i dderbyn urddau eglwysig, gan esgob; ïe, ymgynghorodd â'i frodyr yn y gymdeithasfa chwarterol, a chafodd gymhelliad o'r un natur yno. Eto, er hyn oll, nid oedd yn gallu cael dim boddlonrwydd ynddo ei hun, y dylasai gymeryd y cam; ofnai na chai yr Arglwydd gydag ef, a phetrusai fyned yn mlaen; yn y benbleth hon cafodd freuddwyd tra hynod, yr hyn a fu yn rhan fawr o'r moddion i ogwyddo ei feddwl i aros yn ddiddig gyda'r bobl yr ymunasai eisioes â hwy. Adroddwn y breuddwyd yn ngeiriau Mr. Jones ei hun:—

"Gwelwn fy hun yn eistedd mewn tŷ gydag amryw eraill; clywn guro wrth y drws; a phan agorwyd y drws, daeth i mewn farch o liw gwelw-las; ar ei ol daeth ei farchogwr hefyd a gwn yn ei law; daeth yn ebrwydd hyd ataf fi, ac anelodd â'i ddryll at fy nwyfron. Ar hyn deffroais yn frawychus; ond cyn hir mi hunais ychydig drachefn; yna gwelwn fy hun mewn tŷ fel o'r blaen; daeth ataf ŵr a chanddo ddau *bistol*, un yn mhob llaw; ac a'u hanelodd ataf ar unwaith, yr hyn a'm deffrodd mewn braw eilwaith. Meddyliais yn ebrwydd (fel ag yr wyf yn meddwl hyd heddyw), er mor ddisylwedd yw llawer o freuddwydion, fod rhyw beth o law yr Arglwydd yn y rhai'n; a syrthiais i'w deongli. Oddiwrth y cyntaf dechreuais feddwl (wrth gofio am y march gwelw-las, yn Dad. vi. 8.), fod angau, neu ddwys fygythiad o hono, yn agos ataf; oddiwrth y llall (heblaw cadarnhad i'r cyntaf), meddyliais y gallwn fod yn cael fy rhybuddio am ddwy brofedigaeth oedd yn, neu ar, ymosod arnaf. Pa fodd bynag, fel hyn y bu: o'r noswaith hono dechreuodd afiechyd fagu ynof; y mae heb fy ngadael hyd yn hyn, ac nid oes argoel y symudir ef y tu yma i'r bedd."

Yr oedd Mr. Jones oddieartref ar y pryd, a hyny ar yr achos oedd mewn bwriad ganddo, sef ymuno ag eglwys Loegr. Y noson hono, cafodd oerfel, tybygid, a effeithiodd arno, i ryw raddau, tra fu byw. "Aethwn," meddai, "i'r gwely yn oer a rhynllyd; a chan ei fod yn ysgafn o ddillad, a'r hin yn oer hefyd; ni chynhesais yn dda ar hyd y nos. Wedi bod dan deimladau poenus o betrusder a phenbleth am ddyddiau, ei afiechyd hefyd yn cynyddu, ac yn ben ar y cwbl, yn ymddifad o fwynhad o Dduw; disgynodd i drallod

meddwl annirnadwy. Wedi profi arteithiau uffern ei hun, yn ol ei ddychymyg, ac yn methu a sefyll ar ei draed yn hwy, ymlusgodd i'r ystafell a syrthiodd ar y gwely. O'r diwedd daeth i'w feddwl, ysgatfydd, mai gwg yr Arglwydd oedd hyn arno oblegid ei fwriad; ac ymroddodd yn y fan i'w roddi heibio am byth, ac yn ebrwydd llonyddodd yr ystorm fel pe buasai y *Jonah* wedi ei fwrw o'r llong.

Yn y fl. 1783 dechreuodd bregethu. Eto nid oedd yn gallu ymroddi i'r gwaith ond yn brin, a chyda cryn ofal a gwyliadwriaeth, o herwydd gwendid ei iechyd. Dyoddefodd lawer yn ystod yr ugain mlynedd cyntaf o'i weinidogaeth oddiwrth ddolur y Gareg; aml waith y bu ei arteithiau yn annyoddefol, a'i fywyd mewn enbydrwydd. Dwywaith y bu dan ddwylaw y llaw-feddygon, a thynwyd oddiwrtho Geryg o faintioli mawrion; eto, cynaliwyd ei ysbryd ac arbedwyd ei fywyd. Cafodd ei arbed am ysbaid 17 mlynedd drachefn; a bu yn llafurio gyda'r weinidogaeth yn ol ei gyfleusderau a'i allu, ond yn benaf trwy ei ysgrifeniadau, i leshau ei gyd-genedl. Bu yn briod dair gwaith: bu feirw ei ddwy wraig gyntaf yn lled yn fuan ar ol priodi pob un, ond efe a adawodd y drydedd yn weddw ar ei ol. Gŵr aml ei ofidiau oedd Mr. Jones; eto, tyner ei gydwybod. Yn ystod y 64 o flynyddau y bu ef byw, ychydig iawn o'r amser hwnw y bu yn mwynhau perffaith iechyd. Cyfarfu â marwolaethau yn ei deulu; a galwyd ef i wneuthur llawer o symudiadau yn ei gartref. O Gaerwys symudodd yn gyntaf i'r Wyddgrug, lle yr oedd ei wraig gyntaf yn preswylio; symudodd drachefn ar ei ail briodas i Ruthyn, gan mai yn y gymydogaeth hono yr oedd yr ail wraig yn aneddu. Yn y fl. 1809, wedi priodi y drydedd waith, daeth i gartrefu yn Ninbych. Yn y fl. 1816, nid hir wedi marw ei gyfaill mynwesol, Mr. Charles, Bala, symudodd o Ddinbych i Syrïor; lle na fu ond dwy flynedd yn trigo; a symudodd yn olaf i'w dŷ ei hun yn Ninbych, lle y trigodd ysbaid byr; ac yn mhen dwy flynedd drachefn symudwyd ef gan angau i dŷ ei hir gartref. Nid ydym yn cael lle i feddwl fod yr aml symudiadau uchod yn cyfodi oddiar anwastadrwydd meddwl, neu anfoddlonrwydd tymher, ond oddiar anwadalwch yr amgylchiadau y gosodwyd ef ynddynt, y rhai ni allai, neu ni ddylasai Mr. Jones eu gwrthreoli.

Ysgrifenodd Mr. Jones gryn lawer yn ei oes, fe allai fwy na neb o'i flaen yn mhlith y Methodistiaid, heb son am eraill a'i dilynodd. Ysgrifenodd amryw o draethodau ar bynciau dadleuol, yr hyn a achlysurodd wrthwynebiad cryf iddo, ac ysgrifion chwerwon yn ei erbyn; parodd hyn rai cyhuddiadau annheg a disail eu sylwedd yn ei erbyn, gyda'u bod yn dra atgas eu naws. Blinwyd ef, gryn lawer, gan ddywediadau rhai personau yn y weinidogaeth; a dueddent, yn ol ei farn ef, i osod terfyn ar anfeidroldeb gwerth aberth Crist: ond wedi anfon a derbyn rhai llythyrau at ac oddiwrth y gymdeithasfa, ac oddiwrth bersonau neillduol, dybenodd y drafodaeth hono mewn heddwch i'r cyfundeb, a diddigrwydd i Mr. Jones ei hun.

Yr oedd Mr. Jones yn ysgolhaig da, cymaint felly, tybygid, a nemawr un

a fuasai o'i flaen ef gyda'r Methodistiaid. Yr oedd hefyd yn fardd enwog, fel y tystia y darnau a gyfansoddodd. Fel pregethwr yr oedd yn dra sylweddol, eglur, a buddiol. Nid amcanodd erioed at gywreinrwydd mewn cyfansoddi, na dull tarawiadol mewn traethu; eto, yr oedd yn eu bregethau yr hyn a borthai y meddwl â gwybodaeth ac â deall, er na ogleisiai gywreinrwydd a mympwy.

Cyfaill mawr ydoedd i Mr. Charles. Bu yn gyd-olygydd ag ef yn nghyhoeddiad y "Drysorfa" gyntaf; cyd-ymgynghorent lawer yn nghylch helyntion y cyfundeb; pregethodd Mr. Jones yn anghladd ei gyfaill, ac ysgrifenodd y "Cofiant Cymraeg" am dano, ar ol ei ymadawiad. Oddeutu yr amser y dechreuodd Mr. Jones bregethu, neu yn fuan wedi hyny, yr ymunodd Mr. Charles â'r cyfundeb; ac o ran dysg a dawn, yr oedd y ddau yn nes at eu gilydd nag oeddynt at neb arall yn Ngwynedd. Ganwyd hwy i'r byd o fewn blwyddyn i'w gilydd; daethant i sylw y cyfundeb tua'r un amser; buant ar y maes yn yr un tymhor, a symudwyd y ddau o'r byd o fewn ychydig o flynyddau i'w gilydd. Fel y bu Mr. Jones byw, felly y bu efe farw; mewn heddwch â Duw, gan ymostwng yn ddiddig dan ei law, a chan ymddiried yn sefydlog yn Ngwaredwr pechaduriaid. Cymerodd hyn le, Mehefin 16, 1820; wedi bod yn pregethu 37 o flynyddau.

Ar y pryd y dechreuodd Mr. Jones bregethu yr oedd Methodistiaeth yn yn isel mewn cydmhariaeth trwy Wynedd, felly hefyd yn Nghaerwys. Nid oedd eto yr un capel yn y lle, ond cyfarfyddid i addoli mewn ystafell a drefnasid i hyny. Amseriad y *lease* a berthyn i'r tir y codwyd y capel arno ydyw, 1790; yr ymddiriedolwyr oeddynt y Parch. T. Charles, Bala; John Evans, Bala; ac Humphrey Owen, plwyf Treffynnon. Nid yw yr amser yr adeiladwyd y capel gan yr ysgrifenydd, ac ni ellir casglu yr amser gyda dim sicrwydd oddiwrth ddyddiad y *lease*, gan y codid capelau yn fynych ryw dymhor cyn, neu ar ol, dyddiad y weithred sydd yn sicrhau y tir. Cafwyd y tir hwn, pa fodd bynag, gan Mr. Jones, Pen-uchaf; ac fel yr ymddengys, oddiwrth y weithred, ryw saith mlynedd ar ol iddo ddechreu pregethu.

Arferai ambell un bregethu yn y cyfamser wrth y groes, ynghanol y dref, lle y mae pren mawr yn tyfu ac yn cysgodi; a charnedd geryg yn amgylchu ei foncyff. Lle cyfleus iawn i bregethu yn yr haf. Crybwyllir fod Mr. Ellis, Wyddgrug, yn pregethu yn y lle hwn unwaith, yn y gŵn du; y pryd hwnw, tybygid, yr oedd yn weinidog yn nghyfundeb yr Iarlles Huntingdon; o leiaf, nid oedd eto wedi llwyr ymddiosg oddiwrth swydd-wisgoedd y cyfundeb hwnw. Crybwyllir hefyd glywed y Parch. Edward Williams, D.D., Rotherham, yn pregethu Cymraeg yn yr un lle, am yr hwn y bydd genym air i'w ddyweyd dan hanes Dyffryn-clwyd, ei fro genedigol.

Coffheir hefyd am rai diwygiadau grymus iawn yn Nghaerwys. Dygwyddodd un yn y ganrif ddiweddaf, pryd y dygwyd John Humphreys a William Edwards i undeb eglwysig; gwŷr a fu ar ol hyny yn pregethu am lawer o flynyddau. Dan y dylanwadau grymus a brofid, y pryd hwnw, yr oedd John

Humphreys, meddir, ymron fel dyn gwallgof, yn crafu y mur, ac yn bloeddio yn arswydus, "Pa beth a wnaf?" Dychwelai William Jones hefyd o gyfarfod gweddio yn y wlad, lle y torasai yn orfoledd mawr, i Gaerwys fel dyn wedi meddwi; a chan gerdded trwy ganol y pentref, efe a Peter Jones, yn ben-noeth, a'u hetiau yn eu dwylaw, yn bloeddio "gogoniant," nerth asgwrn y pen, yn dra chyffelyb i ddynion wedi hurtio. Wrth edrych o ddrws ei thŷ ar William Jones, gofynai hen foneddiges, o'r enw Miss Oldfield, "Pa beth sydd ar William Jones, druan bach?" Clywodd yntau y gofyniad a safodd, gan ateb, "Y gareg a dorwyd nid â llaw, a aeth yn fynydd mawr, O! diolch."

"Druan bach," meddai hithau, gan dosturio wrth ei wallgofrwydd, "druan oedd William Jones, a'i saith blentyn bach."

Soniasom o'r blaen * am Peter Jones. Yr oedd Peter o Gaerwys, yn adnabyddus i holl hen bregethwyr y Methodistiaid mewn Dê a Gogledd. Daethai at grefydd tua'r fl. 1779, pan ydoedd tuag ugain mlwydd oed. Deilliodd o deulu tywyll, a pharhaodd yntau felly hyd yr amser crybwylledig. Dyn tlawd anllythrenog ydoedd, ond trwy weinidogaeth John Picree gwnaed argraff ar feddwl y llencyn gwagsaw hwn, na ddilewyd byth mo'no. Yr oedd ei ffyddlondeb i wasanaethu yr efengyl yn ol ei allu ymron yn anghredadwy. Teithiodd, meddir, filoedd o filldiroedd, ar ei draed, ac ar ei draul ei hun; er nad oedd ond gweithiwr tlawd, i wrando pregethau, ac i ymofyn am bregethwyr i Gaerwys. Heb son am ei waith yn myned i Langeitho, can' milldir a throsodd o ffordd, lle yr aeth un-ar-ddeg o weithiau; aeth ddwsinau o weithiau i'r Bala, 30 milldir a mwy o ffordd, ar Sabboth cymundeb. Wedi bod weithiau yn lladd gwair, trwy y dydd, cychwynai nos Sadwrn, gyda brig yr hwyr; ac wedi mwynhau tair oedfa a swper yr Arglwydd yno, dychwelai yn ol dros nos, i fod yn barod at waith foreu dydd Llun. Er tloted ydoedd, rhoes lawer darn aur i bregethwr tlawd; ac os dygwyddai fod het neu ryw ddilledyn arall am y pregethwr yn waelach na'r eiddo ei hun, fe a'i newidiai, gan gymeryd y salaf iddo ei hun. Cadwodd ferlen am ddeng mlynedd a throsodd i gyrchu ac anfon pregethwyr; a thalodd bunt yn y flwyddyn am oddeutu ugain mlynedd am crw o dir i borfâu ceffylau y pregethwyr. Ac nid o lawnder y gwnai ef hyn oll, ond o wir brinder. Nid oedd gwasgod, y pryd hwnw, yn costio iddo ef ond tua chwe' swllt; eto bu am rai blynyddau yn methu casglu digon i'w chael, gan y canfyddai ryw wrthddrych, neu y dygwyddai rhyw amgylchiad, gyda chrefydd, ag a fyddai, yn ei farn ef, yn galw am yr arian yn fwy effeithiol, nag y gwnai ei angen ef o wasgod.

Llawer a ellid ei adrodd am dano, oblegid yr oedd Peter yn ddyn hynod; ond ni oddef ein gofod i ni ymhelaethu. Bu farw y cristion cywir, ffyddlawn, a thlawd, hwn yn orfoleddus, wedi 64 o flynyddau o broffes; yn ei 84 flwyddyn o'i oedran.

Yr oedd y wlad o amgylch Caerwys a'r Berthen am filldiroedd lawer,

* Cyf. I., tudal. 216.

a thros flynyddoedd lawer, heb ddim pregethu cyson; a'r bobl yn eistedd mewn tywyllwch, ac yn mro a chysgod angau; yn awr y mae capelau wedi eu cyfodi ymron yn mhob cymdogaeth, ysgolion Sabbothol wedi eu sefydlu, a miloedd o bobl yn gyson yn clywed holl ciriau y fuchedd hon.

I ddangos yr anhawsder, ac eto yr angenrheidrwydd, i geisio ymwthio i'r ardaloedd tywyll cylchynol, gosodir ger bron yr hanesyn canlynol:

Aeth Mr. Jones, Pen-uchaf, un Sabboth, a dau gyfaill gydag ef, sef Robert Jones, Gronant, a Samuel Morris, tad y Parch. William Morris, Rhuddlan, i le rhwng Caerwys a Rhyl, sef Gwaun-ysgor; lle y cynelid rhyw gampau, y fath a fyddai ymhob man, lle nad oedd pregethu, ar fedr darbwyllo y bobl i adael y gamp a rhoddi clust i'r efengyl. Pan ddaeth y tri wŷr at y lle, deallodd y campwyr yn y fan mai crefyddwyr oeddynt; a dechreuodd rhai waeddi mewn gwawd, "Deliwch yr Oen!" Dynesodd Mr. Jones atynt a'i wên ar ei enau, a gofynodd, "A wyddoch chwi, gyfeillion, pwy yw yr Oen? Mab Duw yw yr Oen yr ydych chwi yn son am dano. A welwch chwi fod yn dda roi eich celfi chwarcu heibio am dipyn bach, er mwyn i mi gael dyweyd tipyn wrthych am Iesu Grist?"

Cydsyniwyd â'i gais yn y fan, a chafwyd llonyddwch gweddol ag ystyried pa fath oedd y gynulleidfa. Gorweddai rhai ar y llawr, cerddai eraill o amgylch, a nesai rhai yn lled agos i wrando. "Ond," meddai fy hysbysydd, "ni chlywais i erioed y fath ganu! Ni fedrai y pregethwr, na'r un o'r ddau gyfaill ddim ar y gwaith hwnw; tebycach i wartheg yn brefu nag i ddynion yn canu ydoedd; ond yr oedd y tri yn wylo! Parodd hyn sobrwydd ar lawer iawn; ond ni chynygiwyd canu ond unwaith." Yn y modd yma y byddai yr hen dadau yn ymosod ar ardaloedd tywyll ac anial, a llwyddodd y cyfryw ymosodiadau nes yn raddol ennill rhyw ychydig nifer yn yr ardaloedd hyny i agor eu drws, ac ymofyn yn aiddgar am foddion gras i'w tai, er mwyn eu teuluoedd a'u cymydogion.

Yr ydym wedi coffâu enw y Parch. John Humphreys eisoes, ac nid oes genym ddefnyddiau i wneyd nemawr fwy na chrybwylliad am dano. Bu farw yn y fl. 1829, mewn gwth o oedran. Yn Nghaerwys y daeth ef yn aelod eglwysig gyntaf; ac mewn cysylltiad â'r eglwys hono y treuliodd lawer o'i oes. Cyrhaeddasai lawer o wybodaeth a dysg, yn benaf trwy ei lafur a'i ddiwydrwydd ei hun. Efe a gyfieithodd Beibl Samuel Clark; a chyfrifid ef yn ddyn o gallineb helaeth; ond nid oedd fel pregethwr yn boblogaidd. Ordeiniwyd ef yn y Bala yn y fl. 1816; a chymerai ran ehelaeth yn arolygiaeth yr achos yn ei gysylltiad â chyfarfod misol sir Fflint.

Pregethwr a fagwyd yn Nghaerwys, hefyd, oedd William Edwards, yr hwn a fu farw, tra mewn cysylltiad âg eglwys y Ffynnoniau, yn mhlwyf Llanfair Talhaiarn, swydd Dinbych. Dyn o darddiad, a dygiad i fyny cyffredin, oedd ef. Magwyd ef, am flynyddau mebyd, mewn anwybodaeth perffaith; a pharhaodd felly hyd nes oedd yn 17 neu 18 mlwydd oed, ac yn gweini gyd âg un Mr. Rogers, Plas-yn-Nghaerwys, gwraig yr hwn oedd yn wir grefyddol. Ar-

ferai, bellach, fynychu moddion crefyddol; daeth yn fuan i undeb eglwysig, a rhoddai brawf diymwad o ddyn ieuanc yn rhodio yn ofn yr Arglwydd. Tua'r fl. 1794, torodd diwygiad grymus iawn yn Nghaerwys, dan bregeth, neu yn hytrach ar ddiwedd pregeth Humphrey Edwards, Bala; a pharhaodd yr adfywiad hwn dros ystod dwy flynedd. Yfodd William Edwards lawer o'i ysbryd; ac yn fuan ar ol diwedd y cyffro hwnw, dechreuodd bregethu. Symudodd ar ei ail briodas i sir Ddinbych, lle y bu farw; wedi bod yn pregethu tua 37 o flynyddau. Pregethwr ydoedd o dalentau bychain, ond o gymeriad hardd; aml fu ei helbulon gyda theulu lluosog, eto bu yn ffyddlawn hyd angau, ac nid oes amheuaeth na dderbyniodd goron y bywyd!

LLANEURGAIN.

Mae y pentref hwn (sais. *Northop*), yn gorwedd ar y brif-ffordd sydd yn arwain o Gaerlleon i Dreffynnon; tuag 11 milldir o'r lle cyntaf a 7 o'r olaf. Y mae yn gorwedd hefyd tua haner y ffordd rhwng y Wyddgrug a Fflint. Dechreuodd gwawr Methodistiaeth dori ar y fro hon tua'r fl. 1789; ac hyd byny nid oedd ond tywyllwch fel y fagddu yn ei gorchuddio; ni wnaethai y sefydliad gwladol nemawr o'i ôl i chwalu ofer-gampau yr ardal, chwaithach deffro y trigolion difraw ynghylch eu hachos tragwyddol; ac nid ydym yn gwybod fod ymneillduaeth chwaith wedi cynyrchu nemawr o ffrwyth, hyd y flwyddyn uchod. A gwawr wan a ymddangosodd y pryd hwnw; a thros ryw gynifer o flynyddoedd wedi hyny, nid oedd llawer o gyffro yn mysg y preswylwyr diofal ynghylch eu tragwyddol heddwch.

Y dechreuad a fu fel hyn:—Gŵr o'r enw John Williams a ddaeth o Gaerwys i gadw toll-borth Llaneurgain,* ar y pryd, yr oedd y gŵr hwn yn rhodio fel craill, yn ol helynt y byd hwn; a'i unig ddyben ydoedd ennill ei damaid. Er mwyn gwasanaethu ei swydd yn well, gan mai Cymro uniaith ydoedd a llawer o Saeson yn teithio trwy y toll-borth, ac yn preswylio y gymydogaeth, daeth i'r penderfyniad i ddysgu Saesoneg. I'r dyben hwn fe brynodd Feibl Saesoneg ac un Cymraeg, gan ddysgwyl y byddai darllen y ddau a'u cydmaru â'u gilydd yn foddion effeithiol, o leiaf mor effeithiol a dim yn ei gyrhaedd ef, i hyrwyddo ei amcan. Bu hyn yn fuddiol iddo yn ddiamheuol i ddysgu Saesoneg, a bu yn fuddiol hefyd i ddyben annhraethol uwch. Dysgodd iddo adnabod ei hunan, ac adnabod Duw. Daeth i ymofyn, gyda deffroad, "pa fodd y cyfiawnheid ef gyda Duw, ac y byddai yr hwn a aned o wraig yn lân?" Yr oedd ganddo amcan arall, meddir, wrth ddysgu Saesoneg; sef ei gymhwyso i gynyg ei hun yn filwr yn ngwarchawdlu (*life guards*) y brenin: ond hyn a ddyryswyd; anghofiodd bellach bob amcan arall ond iachawdwriaeth ei enaid. Yr oedd y saethau a lynasai o'r Beibl yn ei gydwybod mor llymion nes oedd ei gwsg yn cilio, ei wedd yn

* Gwel Cyf. I., Tudal. 324.

llwydo, a'i synwyr ymron drysu. Yr oedd hyn tua'r fl. 1782, pan oedd y llanc tua 24 ml. oed. Yn y trallod hwn yr oedd golwg lled chwith arno. Ysgogai fel un na wyddai beth a wnai nac i ba le yr elai. Ymhen blynydd-oedd lawer ar ol hyn daeth gŵr boneddig ato, heb wybod mai efe oedd y gŵr fuasai gynt yn cadw y toll-borth, gan ofyn, "Er mwyn hwn a hwn, pa fodd y mae ar y dyn gwallgof oedd yn cadw y *gate* y pryd a'r pryd?"

Pan oedd ei enaid ef yn gwaedu gan ing a braw, penderfynodd fyned i wylmabsant y Wyddgrug, gan ddysgwyl i ddifyrwch yr ŵyl fod yn foddion i leddfu ei drallodd; ond wedi myned yno, a hyny mewn dillad newyddion a geisiodd i'r dyben hwnw, teimlai ei hun fel dyn perffaith unig heb un cyfaill; yr oedd rhysedd y lle yn ychwanegu ei boen yn lle ei leihau; a theimlai ei fod yn uffern ac nid ar y ddaear. Dychwelodd adref, gan hyny, yn gynar, a'i fynwes yn llawn o drallod; ac hyd yn hyn nid oedd yn adnabod y "Balm sydd yn Gilead." Cyn hir teimlodd radd o ymwared oddiwrth y gair, "Cyn belled ag yw y dwyrain oddiwrth y gorllewin, y pellhaodd efe ein camweddau oddiwrthym." Eto nid oedd wedi cael lle i orphwys. Ymofynai am gyfarwyddyd, ac nid oedd neb i'w roi. Gŵr anfucheddol oedd gweinidog y plwyf. Nid oedd gan y Methodistiaid ddim achos sefydlog yn yr holl wlad, ond un egwan yn y Wyddgrug, ac un arall cryfach yn y Berthen-gron. I'r lle olaf hwn yr aeth, a chyda'r gymdeithas eglwysig yno yr ymunodd; a thros ryw dymhor âi yno ei hunan i addoli, tua 7 milldir o ffordd.

Tua'r fl. 1784, dechreuodd ef a dau gyfaill, a ennillasid i'r un syniadau ag yntau ddechreu cyfarfod â'u gilydd mewn tŷ yn Llaneurgain, i ymddyddan â'u gilydd am bethau ysbrydol, ac i arllwys eu teimladau crefyddol y naill i'r llall. Buont yn ymgynull felly am ysbaid blwyddyn heb i neb ymuno â hwynt. Wele gymdeithas eglwysig wedi ei ffurfio yma cyn fod gweinidog-aeth yr efengyl wedi cael lle i osod ei throed i lawr. Yr oedd prinder mawr am air yr Arglwydd. Ai y tri chyfaill hyn gyda'u gilydd gan belled a Rhuthyn a'r Bont-uchel, i gael un oedfa; pellder nid llai na 25 neu 30 mill-dir, rhwng myned a dychwelyd. "Ein dull," meddai, "ar y Sabbothau a fyddai cymeryd tamaid yn ein *pocedau*, a theithio o'r naill fan i'r llall ar hyd y dydd i wrando pregethau; a byddai yn llawer o'r nos arnom cyn dychwelyd adref." Un Sabboth aethant i wrando oedfa y boreu i Bentre-helygain, ac wrth groesi y mynydd oddi yno i'r Berthen, daeth arnynt chwant bwyd. Cawsant ryw le, tebyg i gorlan defaid, ychydig ar gîl, i'r hwn yr aethant, gan ymbarotoi i giniawa. Tynasant y tameidiau o'u llogellau, a gosodasant yr arlwy ar fur pridd gerllaw. Disgynodd y tro ar John Williams i erchi bendith ar y bwyd; ac ar ei waith yn gwneuthur hyn toddodd ei deimladau, a thrwyddo ef yr eiddo ei ddau gyfaill, nes fod y tri wedi eu gorlenwi â llawenydd annhraethadwy a gogoneddus. Arlwywyd iddynt wledd o basgedigion breision, ac o loyw win puredig; anghofiasant dros enyd y tamaid sych o'r "bwyd a dderfydd," gan faint oedd eu hawydd i ymborthi ar y "bwyd a bery i fywyd tragwyddol."

Dywedir mai yr oedfa gyntaf gan neb o'r Methodistiaid yn Llaneurgain, a gadwyd gan y Parch. Robert Ellis, Wyddgrug. Yr oedd Humphrey Owens, William Davies, Robert Prys, James Buckley, a Mr. Jones, Penucha', ar y maes, ac yn byw o fewn pellder cymhedrol; a chan fod yma ddrws wedi ei agoryd iddynt, parod oeddynt hwythau i fyned i mewn trwyddo. Yn fuan ar ol i John Williams ddyfod i flinder yn achos ei gyflwr, a chyn iddo ymuno a'r crefyddwyr, daeth un gŵr ieuanc o wehydd, o'r enw Dafydd Jones, i Laneurgain i weithio ei grefft. Hwn oedd un o'r ddau gyfaill y soniwyd eisoes am danynt. Yr oedd Dafydd Jones wedi cael ei ddeffro trwy weinidogaeth Mr. Jones, Pen-ucha', yn Mhlas-winter; ac yn awr, wedi dyfod i Laneurgain, yr oedd dan orfod i fyned gyda'i feistr i eglwys y plwyf, ond gan nad oedd yn cael yn y llan mo'r ymborth ysbrydol a chwenychai, tueddwyd ef i brynu allan y flwyddyn olaf o'i ymrwymiad, er mwyn cael myned gyda John Williams i'r Berthen. Yr oedd eisoes, am ysbaid o amser, yn arfer cynnorthwyo John Williams i gynal cyfarfodydd i weddio yn Llaneurgain, gan nad oedd ar y pryd, neb ond John Williams ei hun i gynal y cyfarfodydd hyny.

Bu John Williams yn ffyddlawn a llafurus iawn, nid yn unig yn Llaneurgain, ond yn yr ardaloedd cymydogaethol hefyd; ac yn wir, i ryw raddau yn yr holl sir, i hyrwyddo mynediad yr efengyl yn ei blaen. Efe oedd prif golofn yr achos dros flynyddau lawer, nid llai na 44 o flynyddau. Ac fel yr oedd ei ffyddlondeb gyda theyrnas Crist yn nodedig, felly hefyd yr oedd ei olud bydol yn ychwanegu, a'i ddylanwad fel gwladwr yn cynyddu. Symudodd o'r toll-borth wedi 14 o flynyddau o wasanaeth, ac agorodd Tasnachdŷ yn y pentref. Llwyddodd yn ei alwedigaeth nes myned yn ŵr o gyfoeth. Bu ei dŷ yn gartref i'r achos tra bu ef byw. Trwy ei lafur ef yn arbenig y y cafwyd pregethu i'r ardaloedd seisnig islaw Llaneurgain; sef Pentremoch, Mancot, a Golffdyn. Trwy symbyliad ac annogaeth oddiwrtho ef, a than ei nodded ef y codwyd y capel yn Mynydd-sychtyn, ac yn Mynydd-y-fflint. Darostyngwyd yn benaf trwy ei ymdrech a'i ddylanwad ef, yr ymgynulliad mawr a fyddai ar y Sabboth i gyflogi gweithwyr amser cynhauaf; a bu llaw neillduol ganddo yn ffurfiad y "Gymdeithas Genadol Gartrefol." Mewn gair, anhawdd oedd cael dyn mwy ei ras, mwy ei lafur, mwy ei ddylanwad, a llai ei rodres, nag ef. Cyn iddo orphen ei ddyddiau daeth cwmwl drosto, trwy i raddau helaeth o iselder ysbryd ei ddal, ac anmhariaeth synwyr. Yr oedd, pa fodd bynag, wedi ennill mwy o le a chyfrif yn syniadau a chydwybodau ei gymydogion o bob gradd, nag un dyn a fu yn Llaneurgain o'i flaen, na neb hyd yn hyn a fu ar ei ol. Aeth yn ddiareb am dano, "Y gostegai John Williams â'i het unrhyw ymladd neu gyffro yn y llan, yn well nag y gwnai y *cwnstabliaid* â'u *ffyn*." Yr oedd ei arswyd ar y dynion caletaf yn y fro, ac yr oedd llawer o'r fath rai. Ymguddiai meddwon o'i ŵydd, gan ddyweyd, "Mae John yn dyfod." Rhedai ymladdwyr ffyrnig i ffordd fel mewn braw, gan adael eu dillad ar eu hol pan glywent ei fod ef yn nesâu; ac oblegid y

dylanwad oedd ganddo gosodwyd ef yn heddgeidwad, a chadwyd ef yn y swydd ymron hyd ei ddiwedd. Bu farw yn Ebrill, 1828, yn y 70 flwyddyn o'i oedran.

Nid yw eglwys Llaneurgain yn fawr, neu yn lluosog o ran rhifedi ei deiliaid, hyd heddyw; ond dylid cofio fod yma flagur lawer wedi tyfu o'r gwreiddyn: ac er fod pob haid a godai o'r hen gwch yn tlodi peth arno dros dymhor, eto yr oedd teyrnas yr Arglwydd Iesu trwy hyny ar y cyfan yn cael cyfnerthiad. Mae yma gapel da a chynulleidfa gyson yn gwrando gair y bywyd.

FFLINT.

Nid yw y dref hon er y cyfrifir hi yn Borthladd y môr, ac yn brif dref y sir; ond tref fechan, a'i thrigolion ond ychydig mewn cydmhariaeth. Nid yw Methodistiaeth ynddi yn honi henafiaeth pell na dylanwad nodedig, eto y mae yma ddeadell gryno, yn arfer ymgynull mewn capel da; a gwedd siriol ar yr holl achos.

Yr ysgogiad cyntaf yn nghychwyniad Methodistiaeth yn y dref hon ydoedd, fod rhyw swyddog yn y gyllidfa (*exciseman*), yr hwn oedd ŵr crefyddol, ond nid ganedig yn nhref Fflint, wedi ceisio cael cyfarfod pregethu yn y dref, ond ei amcan a ddyryswyd. Clywodd y gwrthwynebwyr son am y cyfarfod, ac ymbarotoisant i'w rwystro. Yn eu mysg yr oedd tri o fawrion y dref, y rhai, wedi galw ynghyd haid o derfysgwyr, a ddaethant i'r lle, a bu raid rhoddi heibio y bwriad o bregethu. "Ond pwy erioed a ymgaledodd yn erbyn Duw ac a lwyddodd?" Nid hir ar ol hyn, symudwyd dau o'r tri wŷr hyn i fyd arall i roddi cyfrif am yr hyn oll a wnaethent yn y corff: un o honynt, a gaed gan bysgotwyr, wedi boddi, mewn rhwyd ar y traeth; a'r llall yr un modd, mewn pwll ar y morfa; ond am y trydydd, nid oedd yr hysbysydd yn cofio dim mwy am dano, na'i fod yntau wedi ei gymeryd ymaith mewn rhyw ddull cyffelyb.

Yr ail ymosodiad ar y dref, mewn cais i ddwyn Methodistiaeth iddi, yd-oedd tua'r fl. 1788. Y pryd hwn daeth William Lewis, Môn, yr hwn oedd yn byw yn y cyfamser yn Adwy'r-clawdd, i'r dref i ymdrochi yn y môr. Annogwyd ef gan John Williams, Llaneurgain, yr hwn a ddaethai yn ddiweddar at grefydd, i wneyd ail gais at bregethu i'r trigolion tywyll a rhagfarnllyd. Cydsyniodd William Lewis, yr hwn oedd ŵr cryf a gwrol; ac yn un a welsai ac a brofasai lawer o erlid; y man y safodd oedd ar garreg-farch yn ymyl gwesttŷ y "*Swan.*" Yr oedd o'i amgylch bump neu chwech o gyfeillion, a thyrfa fawr o rai atgas eu gwala, o'i flaen; llawer o honynt a'u bryd ar aflonyddu a baeddu. Lluchiai rhai geryg ar dô y tŷ, modd y treiglent ar y ben y pregethwr, neu benau rhai oedd o'i amgylch. Yr oedd gan un arall hen badell ffrïo yn ei thincian yn orchestol; a chan y trydydd ddwy gareg yn eu curo yn eu gilydd, ac yn barod, os byddai raid, i'w lluchio. Ond nid ychydig a roddai daw ar y pregethwr, ac nid ychydig swŵn a foddai ei lais.

Daliodd ati i bregethu, a hwythau i dincio a churo, hyd nes gorphenodd yr oedfa. Nid oedd neb o'r crefyddwyr yn dysgwyl yn amgen nad rhuthr cyffredinol a wneid arnynt, ar eu gwaith yn cilio o'r lle, gan yr olwg fygythiol a ffyrnig oedd ar y dorf; ond yn well na'u hofnau y bu, canys hwy a gawsant egwyl i gilio heb i neb gael niwaid.

Y trydydd ysgogiad tuag at sefydlu achos o fewn y dref oedd i ychydig gyfeillion yn Llaneurgain, gymeryd tŷ yn y dref i bregethu ynddo, ac i gynal cyfarfodydd gweddio. Pan na ellid cael pregethwr i ddyfod yno ar nos Sabboth, anfonid dau o frodyr o Laneurgain i gadw cyfarfod gweddio, y naill yn niffyg y llall. Ond nid oedd ond ychydig o hen wragedd yn dyfod yno i wrando, a hyny dros ychydig amser. Nid oedd y moddion cyffredin hyn yn codi sylw y trefedigion, a moddion anghyffredin a gynhyrfent erlidigaeth a therfysg. Ryw bryd yn y tymhor hwn daeth Mr. Ellis, Wyddgrug, yma i bregethu. Ond rhyw dafarnwr, mawr o gorff, a mawr ei drwst, wedi deall fod dysgwyliad am y fath un, a gafodd gan y *heddgeidwad* (*constable*) ddyfod gydag ef, i'r dyben o gymeryd Mr. Ellis i'r carchar. Ond dybenodd yr holl ffwdan hyn mewn siomedigaeth atgas, gan fod Mr. Ellis dan nawdd y gyfraith, trwy fod ganddo drwydded i bregethu; ac er maint a fu dadwrdd y tafarnwr, bu raid gadael yr oedfa yn llonydd.

Yn mhen ychydig wedi hyn, dâeth John Davies, Nantglyn, yma i bregethu; ond gan i ni draethu eisoes,* pa fodd y bu arno ef, a pha fodd y gwaredwyd ef rhag ei garcharu, ac yntau heb drwydded i'w ddiogelu, ni wnawn ychwaneg yn y lle hwn na chyfeirio y darllenydd i'r lle hwnw. Tua'r fl. 1797, daeth Mr. Charles i Laneurgain i bregethu; ac mewn cymdeithas â John Williams trodd yr ymddyddan ynghylch y dymunoldeb o ledaenu gwybodaeth o air Duw yn ardaloedd tywyll y wlad; a gofynodd Mr. Charles i'w gyfaill, "A oes dim a fedraf fi wneyd tuag at hyrwyddo yr amcan yn y wlad hon?" Mewn ffordd o ateb, gofynai John Williams yn ol, "A oes dim modd cael ysgol ddyddiol i dref Fflint?"

"Mi rodda' i yr arian," ebe Mr. Charles, "os gellwch chwi gael y dyn." Y canlyniad fu, cael brawd o eglwys fechan Llaneurgain i ymgymeryd â'r gorchwyl. Agorwyd yno ysgol, ond nid llawer o lwyddiant a'i dilynodd. Ni ddaeth ond ychydig o blant iddi, er cael eu dysgu yn rhad. Yr oedd ysgol i ddysgu plant i ddarllen Cymraeg yn beth dyeithr yn y wlad, ac yn enwedig yn y Fflint; tref yn terfynu ar wlad y Saeson, a'r iaith Saesoneg yn ffynu cryn lawer ynddi. Mor wrthwyneb oedd hyn i syniad doethion (?) Fflint, fel y gwawdient yr ysgol a'r athraw; ac y bloeddient ar ei ol yn yr heolydd,—"Dacw yr hen A. B. C., yn myn'd. Hwre! Mr. A. B. C." Yn mhen ychydig wythnosau, ar ol deehreu yr ysgol ddyddiol, daeth ar feddwl yr athraw i agor ysgol y nos, er mwyn i bobl mwy oedranus gael y fantais o ddysgu; a llwyddodd yr ymgais; hwn yn fwy na'r llall. Daeth i'r ysgol y

* Cyf. I., Tudal. 379.

nos o 50 i 60 o aelodau. Rhoddwyd ysgol y dydd i fyny yn mhen chwe' mis, ond parhawyd ysgol y nos am ysbaid dwy flynedd. Anhawdd ydyw i'r darllenydd, ffurfio drychfeddwl cywir, am wylltineb direol, ac anwybodaeth perffaith y trigolion, ar y pryd y daethant gyntaf dan addysg. Tebycach i ddynion wedi eu magu mewn gwledydd paganaidd, nag mewn gwlad gristionogol. Mor amddifaid o wybodaeth am Dduw a phethau'r efengyl, ymron, a'r anifeiliaid a ddyfethir. "Yr oeddwn," meddai yr athraw, "ymron a llwyr ddigaloni, wrth ganfod eu hagweddau barbaraidd; a'r moddion a ddefnyddiais i'w gwareiddio, oedd sylwi pwy yn eu mysg oedd fwyaf afreolus, a galw am ddystawrwydd; yna awn at yr un hwnw i'w gynghori a'i rybuddio. Llwyddodd y moddion dirodres hyn i raddau mawr i gael rheol a threfn arnynt. Llwyddodd ysgol y nos hefyd i ddysgu i laweroedd o feibion a merched ddarllen yn dda; a thrwy hyny cafwyd mantais i'w cyfarwyddo yn mhellach yn mhethau'r efengyl. Daeth amryw o honynt hefyd dan iau Crist, ag arwyddion tra gobeithiol o wir ddychweliad arnynt. Felly, ar ol rhyw ysbaid o amser, pryd yr oeddid yn dal undeb eglwysig â'r brodyr yn Llaneurgain, gwelwyd yn oreu sefydlu eglwys yn nhref y Fflint. Cymerwyd ystafell i bregethu ynddi, helaethach na thŷ, lle y bu y pregethu dros lawer o flynyddau. Bu Edward Williams, canwyllwr, ac Edward Williams, cigydd, yn llafurio yn ffyddlawn, yn ol eu gradd a'u dawn, tra y buont byw. Mae yma, bellach, gapel da, a chynulleidfa o rai cannoedd yn gwrando yr efengyl yn gyson; ac eglwys gref o 100 o aelodau neu fwy.

PENNOD VI.

PARHAD O HANES GORSAFOEDD CYNTAF METHODISTIAETH SIROEDD DINBYCH A FFLINT.

CYNWYSIAD:—

LLANRWST—PARCH. P. WILLIAMS YN LLANRWST YN Y FL. 1766—PETER MORRIS A'I WRAIG—ROBERT EVANS Y PREGETHWR—JOHN THOMAS, LLANCWNLLE—MR. KYFFIN O FAENEN—DAMWAIN ANGEUOL I ROBERT EVANS—DAVID HUGHES—TREFRIW—WILLIAM EVANS O'R FEDW-ARIAN—PREGETHU YN TAN-Y-CELYN—ROBERT EVANS—T. A J. ROGERS—CAPEL YN 1815—ADFYWIAD YN Y FL. 1816—EGLWYSI A PHREGETHWYR A GODASANT O DREFRIW—HANES A ROES ROBERT EVANS O FETHODISTIAETH RHAN O SIR FEIRIONYDD.

LLANRWST.

Mae Methodistiaeth wedi hen artrefu yn y dref hon. Daeth yma mor fore, ymron, ag un man yn y ddwy sir hyn. Am hanesiaeth boreol Llanrwst, rhaid i ni gyfeirio y darllenydd at yr hyn a osodwyd ger bron o'r blaen,* lle

* Gwel Cyf. I., tudal. 138 a 151.

yr ymddengys mai un William Llwyd, o blwyf Llansanan, wedi priodi merch Llety-domlyn, lle yr oedd pregethu wedi bod dros dymhor hir, a ddaeth i fyw i Lanrwst, ac i agor ei ddrws i dderbyn pregethu'r efengyl yn y dref. Yr oedd pregethu achlysurol wedi bod eisoes mewn amrywiol ardaloedd o amgylch y dref, ond nid oedd wedi cael, hyd yn hyn, ddim dyfodfa i'r dref. Gwel y darllenydd pa mor wrthwynebol oedd rhai o'r trigolion i'r penaucryniaid gael un safle yn eu tref hwy, trwy fwrw golwg ar yr hyn a draethir yn y lle crybwylledig.

Tua'r fl. 1766, sef dwy flynedd ar ol claddu John Richards o Fryniogucha', daeth y Parch. Peter Williams i Lanrwst, ar y bwriad o bregethu wrth dalcen Neuadd y dref (*Town Hall*). Ond yn y fan y dechreuodd, daeth mereh ieuanc o forwyn allan o dŷ gerllaw, gan ymosod arno â'i holl egni, trwy ei luchio ag wyau gorllyd nes llychwino ei ddillad yn resynus; ond pan welodd yr herlodes fod un yn y gynulleidfa, yr hwn a safai yn agos at y pregethwr, a'r hwn oedd berthynas agos iddi, sef Gabriel Jones, yn cael ei ddifwyno hefyd, hi a ymataliodd: er mwyn y cefnder cafodd y pregethwr lonydd; eto nid llonydd gan bawb. Wedi i'r forwynig roi heibio luchio, wele haid o ddyhiriaid barbaraidd yn ei gipio ymaith, ac yn ei lusgo at làn yr afon; wedi ei gael yno, daliai rhai ei freichiau i fyny, a'r lleill a godent ddwfr o'r afon, ac a'i harllwysent i'w lawes, a hyny ar rew-wynt llym; digon i osod ei fywyd mewn enbydrwydd mawr. Pa beth a fuasai y canlyniad, neu pa bryd y rhoisent heibio y mae yn anhawdd gwybod, oni bai i ŵr o'r enw Richard Roberts, Tŷ-mawr; gŵr cyfrifol, o gymeriad da, a chryf o gorff, ddyfod heibio megys ar ddamwain. Hwn, wedi deall beth oedd yn cael ei wneyd, a gyffrodd yn aruthrol yn erbyn gweithred mor farbaraidd, ac a ymosododd ar y dyhiriaid, gan eu chwalu yn chwimwth ar bob llaw; ac achub y diniwaid o'u dwylaw. Cymerodd hefyd y gŵr dyeithr gydag ef i'w dŷ, gan weini iddo y noson hono bob ymgeledd a chysur angenrheidiol. Aeth hefyd i'w anfon dranoeth dair milldir o ffordd, rhag y dygwyddasai iddo syrthio yn nwylaw cynllwynwyr. A'r hyn sydd yn syn yn yr amgylchiad ydyw, nad oedd y cymwynaswr hwn ddim yn cymeryd arno fod yn bleidiwr i'r crefyddwyr. Eglwyswr oedd ef, ac eglwyswr y parhaodd i fod dros ei oes, ond yr oedd llawer o rinweddau dynol a christioncgol yn ei brydferthu; yr hyn, meddir, sydd yn prydferthu llawer o'i hiliogaeth, yn amgylchoedd Llanrwst, hyd heddyw.

Yn y fl. 1768, daeth Peter Morris, a'i wraig, o Dafarn-y-fedw i Lanrwst i fyw. Yr oedd y ddeuddyn hyn wedi dyfod cyn hyny o ardal y Bala; a'r ddau dan ddylanwad teimladau gwir grefyddol; ac eisoes, tra yn Nhafarn-y-fedw, yn cael eu cyfrif yn mysg yr ychydig grefyddwyr ag oedd yn y cymydogaethau hyn. Daethant yn awr i fyw i dŷ bychan, yn nghŵr y dref, a elwir y Groesffordd. Yr oeddynt wedi arfer derbyn pregethu i'w tŷ cyn dyfod i'r dref, a hyny a wnaethant wedi symud iddi. Cafodd y praidd bychan radd o seibiant a llonyddwch, bellach, i gadw eu cyfarfodydd crefyddol o fewn y tŷ bychan hwn, mewn cysylltiad â Melin-y-coed, a Bryniog-ucha'; pob lle yn ei dro

Dyma'r amser hefyd y daeth gŵr crefyddol arall, o'r enw Evan Pugh, o gymydogaeth Dolgellau i Lanrwst i gadw siop; a bu ei dŷ ef yn lle o ymgeledd ac amddiffyn i bregethwyr am lawer o flynyddau; a hyny mewn amser yr oedd y fath garedigrwydd o werth mawr, gan nad oedd i'w gael gan neb arall. Parhaodd Mr. E. Pugh yn ffyddlon gydag achos Mab Duw hyd ei farwolaeth. Cyrhaeddodd hefyd oedran teg, a hunodd gyda'i dadau yn y fl. 1802.

Yn y fl. 1770, dechreuodd un Robert Evans, y Groesffordd, bregethu. Gwehydd oedd wrth ei alwedigaeth; galwedigaeth, y pryd hwnw, a mawr alwad am dani yn mhob rhan o Gymru; trwy fod y trigolion oll ymron yn gwneyd eu llian a'u brethyn eu hunain. Yr oedd gweithdŷ Robert Evans yn eangach ac yn fwy cyfleus na thŷ Peter Morris; ac felly symudwyd y pregethu o'r naill i'r llall. Yn y flwyddyn hon, daeth Mr. John Thomas, Llancwnlle, yma; a cheisiodd gael pregethu mewn tŷ gerllaw y *New Inn*, yn nghanol y dref; deffrodd hyn hen ffyrnigrwydd y dyhiriaid, ac ar ei waith yn dechreu yr addoliad, cafodd brawf teimladwy nad oedd yr hen ysbryd ddim wedi marw; trwy iddo gael ei luchio â thom ac â budreddi eraill; nes y bu raid ymattal, a symud i'r Groesffordd, y lle yr arferid pregethu, a'r lle hefyd y ceid heddwch gan amlaf i addoli. Ymosodid arnynt weithiau, mae'n wir, yn ngweithdŷ Robert Evans; yn benaf gan fechgyn a llanciau diriaid a direol, y rhai fyddent yn ysu gan awydd am ryw ddireidi a gwagsawrwydd; ac nid oedd dim gwrthddrychau ar gael y gellid gyda chystal diogelwch arllwys eu nwyfusrwydd arnynt a'r ychydig grefyddwyr diamddiffyn. Yn awr ac eilwaith, gan hyny, ymddifyrai y bechgyn gwagsaw hyn mewn aflonyddu arnynt yn eu cyfarfodydd, a chwythu arogledd *assafœtida* i mewn i'r ystafell, fel ag i wneuthur arosiad ynddi yn annyoddefol; neu ynte trwy ddyfod yn llechwraidd i mewn a thori yr edafedd a fyddai yn y gwŷdd, a gwneuthur colled drom i'r perchenog.

Erbyn hyn yr oedd y dysgyblion wedi lluosogi i 12 o nifer, 8 o feibion a 4 o ferched; cynwysid yn mhlith y 12, un pregethwr, sef Robert Evans; a dau ddiacon, sef Gabriel Jones, y crydd, a Richard Roberts, Melin-y-coed. Yn fuan ar ol hyn chwanegwyd atynt bregethwr arall, sef gŵr o'r Deheudir, yr hwn a arolygai ysgolion Madam Bevan yn Ngwynedd, o'r enw John Richards. Priododd weddw ei hybarch ragflaenor o'r un enw, a daeth i fyw, dros ryw dymhor, i Fryniog-ucha'.* Yr oedd yma ddau bregethwr bellach yn mysg y crefyddwyr, a hyny mor fore a'r flwyddyn 1772.

Yn y fl. 1775, o herwydd fod y gwrandawyr wedi amlhau, bu raid helaethu llc eu cyfarfod; yr hyn a wnaed trwy symud offer y gweithddion i ffordd, a thynu y terfyn oedd rhwng y tŷ a'r gweithdŷ. Agorwyd ffenestr fawr hefyd yn y mur, i ollwng mwy o olenni i mewn; a chodwyd pwlpud gerllaw y ffenestr. Yn mhen ychydig amser drachefn codwyd llofft ar yr ystafell, yr hon a gynwysai 60 o bobl i wrando. Anfynych, er hyny, y dyddiau

* Gwel air yn mhellach am dano dan "Hanes Rhuddlan."

hyny, y byddai yr adeilad hon, er lleied ydoedd mewn cydmhariaeth, yn llawn o wrandawyr.

Tua'r pryd hwn newidiodd yr erlidigaeth ei gwisg. Nid cymaint o faeddu a fyddai bellach ar y crefyddwyr na'r pregethwyr; ac nid aflonyddid cymaint ar eu cyfarfodydd, ond eu henllibio, trwy chwedlau celwyddog, a sisial brwnt; fel ag i godi digon o ragfarn yn eu herbyn, a pheri cywilydd i bawb ymgysylltu â hwynt. Rhoddid y gair allan yr arferent ddiffodd y canwyllau yn eu cynulliadau eglwysig i ddybenion bryntion a ffiaidd; a galwyd y cyfarfodydd hyny, yn "*Weddi dywyll.*" Fe allai i'r enw darddu yn wreiddiol oddiar gamsynied, trwy glywed yr hen bobl yn cwyno eu tywyllwch mewn gweddi, ac yn erchi am i Dduw faddeu iddynt eu gweddi dywyll. Ond pa beth bynag am hyny defnyddiwyd y gair trwy Gymru oll, dros ryw dymhor, mewn ffordd o ddifriad ysgeler; gan amneidio mai gweithredoedd cywilyddus y tywyllwch a gyflawnid yn y cyfarfodydd neillduol. Ac nid oes amheuaeth chwaith na roddwyd achles afreidiol, fe allai, i'r dyb ddisail hon, trwy yr eiddigedd a'r gwyliadwriaeth dyfal a ddefnyddid na chaniateid neb i aros yn y cyfarfodydd eglwysig, ond y rhai y ceid arwyddion lled ddiymwad arnynt eu bod o deulu y ffydd. Arferent yn y cyfarfodydd hyn gyfranu rhyw gymaint o'u meddiannau tuag at dalu traul angenrheidiol yr achos; a barnent, pe gwybyddid hyn gan y wlad yn gyffredin, y gwneuthid defnydd niweidiol o hyny mewn ffordd o ddrwgliwio dybenion y pregethwyr. Parai y syniadau hyn i'r hen grefyddwyr arfer llawer o wyliadwriaeth a gofal, na chai neb ddyfod atynt heb brawf o'u hysbryd; ac na ddywedai neb wrth y rhai oddiallan pa beth oedd yn cymeryd lle yn eu mysg.

Tua'r fl. 1778, pryd yr oedd y baeddu creulon ar y crefyddwyr wedi myned allan o fri, cerddodd y drwgdybiaeth uchod yn gyflym yn mysg y werin am deulu y Groesffordd; a chryfhaodd, i'r fath raddau, nes aethant i achwyn i Heddynad yn y gymydogaeth arnynt; gan alw, tybygid, am ymchwiliad ebrwydd a manwl i mewn i'r achos. Mewn canlyniad daeth Mr. Kyffin, gŵr boneddig yn byw yn y Faenen, i mewn i'r addoldŷ, ar noswaith eu cyfarfod eglwysig, yn feddw; a haid o lanciau gydag ef, wedi ei gyffrôi yn aruthr gan y chwedlau enllibaidd hyn. Ar ei ddyfodiad i mewn, gofynai y boneddwr, "Beth ydych yn ei wneuthur yma?"

"Cynghori ein gilydd, Syr," atebai Robert Evans yn arafaidd, "ynghylch pethau bywyd tragwyddol."

"Pa le y mae y "Weddi dywyll" gen' ti?" gofynai y boneddwr.

"Yn wir, Syr," atebai yntau, "hi fydd yn ddigon tywyll arnom yn fynych."

"Wel," gofynai Mr. Kyffin, "a fedri di bregethu?"

"Mi fyddaf, Syr, yn arfer cynghori yehydig weithiau."

"Wel, rhaid i ti bregethu i mi yn awr," ebe y boneddwr.

Ceisiodd Robert Evans ymesgusodi dros enyd, ond yr oedd y gŵr boneddig wedi gosod ei fryd ar fynu enghraifft o'r hyn a bregethid ganddo, yn gystal

a chael prawf pa faint o fedr oedd ganddo; ac ni fynai nacâd nac ymesgusodiad: felly i'r pwlpud y bu raid i Robert Evans fyned. O'i flaen yr oedd yr heddynad a haid o ddyhirwyr a ddaethant gydag ef, gan ddysgwyl cyfle i arllwys eu gwenwyn ar y crefyddwyr, y rhai a'r ychydig aelodau, oedd yn cyfansoddi y gynulleidfa. Yn ystod y bregeth gwnaeth yr cnllibwyr gais, fwy nag unwaith, i godi terfysg; ond safai y gŵr boneddig ei hun yn eu canol gan orchymyn tawelwch, a thawelwch fynodd i Robert Evans bregethu. Ar waith y pregethwr yn disgyn o'r pwlpud, galwodd y boneddwr ef ato, a chanmolodd ei bregeth yn fawr. Annogodd ef hefyd i barhau gyda'i weinidogaeth; ac a estynodd *gini* iddo, "am," ebe fe, "eich pregeth rhagorol." Bu y tro hwn yn derfyn i bob erlid cyhoeddus yn Llanrwst; canys ni allai Mr. Kyffin, o hyn allan, oddef i neb, mewn cwmniaeth boneddigion, nac un ffordd arall, ddifrio ac cnllibio y Methodistiaid; a llochesai barch enwedigol i Robert Evans, yr hwn a elwid ganddo, "eu pregethwr da."

A "phregethwr da," meddir, oedd Robert Evans. Yr oedd yn ddarllenwr mawr, ac yn ŵr cadarn yn yr ysgrythyrau, ac yn feddiannol ar dalentau rhagorol. Dechreuasai bregethu pan yn 20 ml. oed, ac yn bur fuan gosododd sail gref i'r gobaith y byddai yn un o'r ser dysgleiriaf yn Ngwynedd oll. Yr oedd ei ysbryd yn iraidd, a'i weinidogaeth yn nerthol. "Efe oedd ganwyll yn llosgi ac yn goleuo," a buan y llosgodd ymaith, oblegid bu farw yn 32 ml. oed. Yn y fl. 1781, aethai i Lundain i bregethu i'r Cymry yno, y *cyntaf*, medd fy nghohebydd, a aethai yno eri oed oddiwrth y Methodistiaid i bregethu. Pan ddaeth yr amser iddo ddychwelyd adref, teimlai yn lled drallodus ei feddwl; ofnai beth anghysur oddiwrth anniddigrwydd ei wraig, ac oddiwrth bethau eraill. Ar ddyledswydd cyn cychwyn y daith faith, darllenodd Salm cii, lle y mae ymadroddion fel hyn, "Fy nyddiau sydd fel cysgod yn cilio, a minau fel glaswelltyn a wywais. Gostyngodd efe fy nerth ar y ffordd, byrhaodd fy nyddiau; dywedais, Fy Nuw, na chymer fi ymaith ynghanol fy nyddiau; dy flynyddoedd di sydd yn oes oesodd," &c. Gadawodd y brif ddinas chwech o'r gloch yn yr hwyr, a chyrhaeddoedd le a elwir *Market Street*, naw milldir ar hugain o Lundain; yma safodd y cerbyd tra y newidid y ceffylau; ac yn ol tystiolaeth rhyw un oedd gydag ef, syllai Robert Evans yn sŷn-fyfyrgar ar y sêr. Ond tra yr oedd yn yr agwedd ddwys hon, cychwynodd y cerbyd ar ffrwst a disymwth; collodd yntau ei fantol, a syrthiodd oddiar y cerbyd ar ei ben ar gareg, a bu farw mewn wyth mynyd o amser, heb allu dyweyd gair wrth neb. Fel hyn gwiriwyd ynddo eiriau y Salm a ddarllenasai, "Gostyngodd efe fy nerth ar y ffordd, byrhaodd fy nyddiau!" Hyn a fu yn mis Mai, 1782, pan oedd ond 32 ml. oed. Claddwyd ef yn barchus gan gyfeillion cref yddol Llundain, a gwnaethant gasgliad o £60 i'w weddw a'i thri phlentyn ym ddifaid. Teimlodd y brodyr yn Llanrwst oddiwrth yr oruchwyliaeth chwerw hon. Edrychent ar y golled a gawsent gymaint a'r un a brofasent 18 m lynedd yn ol, trwy farwolaeth John Richards, o Fryniog-ucha'. Yr oedd nifer y Methodistiaid yn awr, mae'n wir, yn 40 o

rifedi, pryd nad oedd ar farwolaeth y cyntaf o'r ddau, ond chwech. Yr oedd yr achos, gan hyny, yn gryfach i ddàl yr ergyd, a'r pregethwyr hefyd yn llawer lluosocach na phan syrthiodd John Richards i'r bedd yn nghanol ei ddyddiau. Yr oedd yma hefyd un John Davies, gŵr o Henllan, ac yn bregethwr, yn ychwanegol at John Richards o Fryniog; ond ni fu John Davies hwn yma yn hir, symudodd i Liverpool; lle y treuliodd weddill ei oes.

Yn y fl. 1783, daeth pregethwr arall yma, sef Evan Llwyd, ac a fu yma yn cadw ysgol am ysbaid deng mlynedd. Symudodd yntau oddiyma i Adwy'r-clawdd, yn y fl. 1793, lle y treuliodd y rhan olaf o'i oes. Bu yntau farw yn y flwyddyn 1820.

Yn y fl. 1794, daeth yma un o'r enw David Hughes i breswylio; yr hwn a ddechreuodd bregethu yn mhen tair neu bedair blynedd ar ol ei ddyfodiad; ac a fu o wir ddefnydd dros achos y Cyfryngwr, yn y dref, am ysbaid ugain mlynedd neu fwy. Ganesid ef yn Ninas Mawddwy, sir Feirionydd; yr oedd ei rieni yn ddyeithr i grefydd, a threuliodd yntau fore ei oes felly. Bu ei rieni feirw pan oedd ef yn ieuanc; mewn canlyniad, arweiniodd rhagluniaeth ef dan ofal gŵr crefyddol, sef yr hybarch Humphrey Edwards o'r Bala; dan arolygiaeth yr hwn y dysgodd y grefft o Alcan-ôf *(Tinman)*. Nid hir y bu ef yn nheulu y gŵr da uchod heb gael blas ar foddion gras, ac ar ddarllen y Beibl; ïe, nid hir y bu heb deimlo gradd o ddylanwad y gwirionedd ar ei galon, mewn canlyniad, cyn ymuno â'r Methodistiaid yn y dref hono. Wedi dyfod yn rhydd o'i brentisiaeth, priododd ferch ieuengaf Humphrey Edwards; a symudodd cyn hir i Lanrwst i drigiannu. Yr oedd hyn yn y fl. 1794, pryd nad oedd ond 19 mlwydd oed. Dechreuodd bregethu, fel y dywedwyd, yn mhen tair neu bedair blynedd, a derbyniwyd ef yn rheolaidd i'r gymdeithasfa yn Nghaernarfon, yn y fl. 1799.

Nid llawer a deithiodd Mr. David Hughes, mwy na'i fab y Parch. Hugh Hughes, gynt o Lanrwst, yn ei oes weinidogaethol; eto, yr ydym yn cael iddo ymweled â gwahanol siroedd y Gogledd rai gweithiau; ac un waith, meddir, â rhai siroedd yn y Deheudir. Ni bu ei oes gyhoeddus ond ber, prin 20 mlynedd; ac yn y cyfamser yr oedd helyntion ei fasnach, ac âmledd ei deulu, yn lludias iddo deithio llawer; felly ni ddaeth mor adnabyddus i'r cyfundeb â llawer o'i gydoeswyr. Yr oedd ei ddonau gweinidogaethol ef yn gymeradwy iawn gan y saint, ac yntau yn barchus ym mhlith lluaws ei frodyr. Yr oedd amryw o hynodion yn cyd-gyfarfod yn y gŵr hwn. Yr oedd o duedd tra ymofyngar, ymroddgar, a llafurus. Casglodd ystôr o wybodaeth gyffredinol, y fath na wneir ond anfynych dan y fath anfanteision. Ychydig yn mhlith lleygion a feddai fwy o ddefnyddiau cymdeithas nag ef. Llanwai le mawr hefyd fel gwladwr, a rhoddid ymddiried mawr yn ei farn. Dewisid ef yn fynych fel dyddiwr rhwng pleidiau a fyddai mewn ymrafael, a llawer gwaith y llwyddodd i heddychu pleidiau gwrthwynebol. Teimlodd y dref, gan hyny, golled ar ei ol fel

gwladwr neu ddinasydd. Yr oedd yn rhagori o ran ei gymhwysder a'i ddefnyddioleb yn y gymdeithas eglwysig. Yr oedd ei sylwadau yn agos a goleu, ei gynghorion yn ddoeth, a'i rybuddion yn rymus. Collodd yr eglwys yn Llanrwst ynddo ef fugail cyfarwydd, brawd ffyddlon, a thad gofalus; a theimlwyd y golled dros hir amser. Gorphenodd ei yrfa yn fuan; machludodd ei haul yn gynar, ar y 25 o Fawrth, 1817; yn 42 ml. o oed. Ei weddillion ef a gladdwyd gyntaf yn nghladdfa Capel Sïon, Llanrwst; lle erbyn hyn, y mae amryw gannoedd yn gorwedd i aros bore caniad yr udgorn diweddaf.

Mae enw Robert Owen, pregethwr a fu farw yn niwedd y flwyddyn 1852, yn gysylltiedig â Llanrwst. Ganwyd ef yn y fl. 1765, dechreuodd broffesu pan oedd tuag 28 ml. oed; a dechreuodd bregethu yn y fl. 1809, wedi cyrhaedd 44 ml. oed. Nid ydym yn deall i'r hen frawd hwn gael nemawr o fanteision gwybodaeth a dysg yn ei ieuenctyd, na'i fod ychwaith wedi ei gynysgaethu â gallnoedd cyfion i gymeryd dysg pe cawsai fanteision helaethach. Fel y gellid dysgwyl i ddyn a ddaethai at grefydd yn 28 ml. oed, ac a ddechreuasai bregethu pan yn 44 ml., ni chyrhaeddodd i ddim enwogrwydd gyda'r weinidogaeth; eto, "yr oedd," fel y dywed y Parch. Roger Edwards, am dano,* "yn ddyn dirodres a diddichell, yn gristion cywir a thra phrofiadol; ac yn nodedig mewn gweddi. Ac er nad oedd ei wybodaeth yn ëang, ac, yn enwedig yn ei henaint, y byddai ei brysurdeb naturiol, yn gysylltiedig â'i ddiffyg cof, yn peri iddo, nid yn anfynych, wrth bregethu, wneuthur amryfuseddau digrifol; perchid ef gan bawb o herwydd ei ddiniweidrwydd a'i dduwioldeb; ac ar yr amserau y caffai "yr hwyl," fel y dywedir, byddai yn pregethu yn rymus ac effeithiol. Claddwyd ef yn Llanrwst ar yr un dydd ag y claddwyd Duc o Wellington yn Llundain,—eto gyda llawer iawn llai o rwysg."

Mae gan y Methodistiaid yn Llanrwst gapel mawr a hardd. Mae yr eglwys yn rhifo fwy na 200 o nifer, a'r ysgol Sabbothol dros 550 o ddeiliaid. Mae amryw o gapelau oddeutu y dref wedi cael eu hadeiladu ar ol i Fethodistiaeth gychwyn ei rhedfa ynddi, ac nid oes amheuaeth na chawsant swcr, mewn mesur mwy neu lai yn eu dechreuad, oddiwrth yr eglwys hon; sef, Trefriw, Pwll-terfyn, Salem, Bethel a Charmel.

TREFRIW.

Mae rhyw nifer o gapelau ar ochr orllewinol i afon Conwy yn gorwedd yn sir Gaernarfon; ond yn cael eu cyfrif gan Fethodistiaid o fewn terfynau cyfarfod misol sir Ddinbych. Felly cyfrifir Trefriw, Tal-y-bont, Roe-wen, Henefail, Tan-y-bwlch, a Chonwy; y rhai, er eu bod yn sir Gaernarfon, ydynt yn perthyn i sir Ddinbych, o herwydd mai mwy cyfleus ydyw dilyn rhaniad naturiol y mynydd, na'r rhaniad gwladol daearyddiaeth.

* "Dyddiadur" am 1854, tudal. 103.

Yr ydym eisoes wedi son gair am Drefriw,* ac am y driniaeth chwerw ac annynol a gafodd y Parch. P. Williams yno, fel nad rhaid chwanegu. Parhaodd gwrthwynebiad cryf i bob cais a wneid i ddwyn pregethu i'r pentref; a chafwyd mai gwell oedd pregethu mewn gwahanol dai yn yr amgylchoedd, dros ryw dymhor. Daeth William Evans, o'r Fedw-arian, pa fodd bynag, ar ryw Sabbath, mor agos i'r pentref, a lle a clwir Glan Conwy; yr hwn oedd gyttir yn y gymydogaeth. Pan oedd Robert Evans, Fron, Llanrwst, yn gweddio ar ddechreu yr oedfa, daeth Mr. Boyle, gweinidog y plwyf, i'r lle i aflonyddu yr addoliad. Ymaflodd yn *nghôt* y pregethwr yn ddirodres iawn i'w dynu i lawr; ac yn yr ymdrech syrthiodd y Beibl o law y pregethwr. Ar ddisgyniad y llyfr, dangosodd y person ei gynddaredd trwy wneyd pêl droed o hono; ar hyn llefodd un o'r dyrfa, "O fugail tywyll, paham y gwnei y Beibl yn bel droed!"

Bellach, gan weled mor anhawdd ydoedd cael llonyddwch yn y pentref, cedwid yr oedfaon ar ol hyn, dros lawer o flynyddau mewn gwahanol fanau, o amgylch y pentref; a chan mwyaf yn y mynyddoedd. Yr amgylchiad hwn a roes achlysur i'r rhigwm canlynol:—

"*Ribo*-fawr a *Chrafnant*-fechan,
Brwynog-uchaf, tŷ Siôn Ifan;
Pen-y-bryn, flenestri gwynion,
Dyma drigfa y penau crynion."

Cesglir oddiwrth y pill hwn, fod y crefyddwyr yn mwynhau mwy o seibiant yn y lleoedd mynyddig uchod, nag a gaent pe daethent yn nes at y pentref. Ond ymhen rhyw dymhor oerodd y ffyrnigrwydd yn erbyn y crefyddwyr, a llonyddodd yr erlidigaeth. Hwythau a anturiasant i lawr o'r mynyddoedd; a'r lle cyntaf a gafwyd tan dô, oedd adeilad yn meddiant un John Thomas, Cwmannog. Yr oedd hyn tua'r fl. 1780, ac nid llai na 32 o flynyddau ar ol ymweliad cyntaf Peter Williams â Threfriw. Bendithiwyd y weinidogaeth yn Ngwmannog er dychweliad rhyw ychydig nifer at grefydd. Cedwid y cyfarfodydd eglwysig mewn tŷ yn agos i Gwmannog, set yn Mhlasengan; dywedir fod Hugh Roberts o'r Plasengan, a'i wraig, a Harri Dafydd o'r Fron-felen, a'i wraig, wedi ymuno â'r gymdeithas eglwysig y pryd hwn. Ychydig ar ol hyn, ymgysylltodd Thomas Rogers a'i wraig â'r crefyddwyr, ynghydag Elizabeth Evans, mam y Parch. Evan Evans, (*Ieuan Glan Geirionydd*,) a Henry Jones, yr Hafod. A phan yr ymunodd dau frawd â hwy, Ellis a John Roberts, anturiasant i ddyfod i'w tŷ hwy yn y pentref i bregethu. Tua'r un adeg hefyd yr ymunodd y gŵr hynod hwnw William Davies, Llety-domlyn, sef rhwng y fl. 1784 a 1790. Bellach, yr oedd brodyr crefyddol yn byw, un yn y Siop o fewn y pentref; un arall mewn tyddyn gerllaw, sef Tan-y-celyn; ac un arall yn yr Hafod.

* Cyf. I., tudal. 149—151.

Weithian, dros amryw flynyddau, cynelid cyfarfodydd gweddio, bob nos Lun ar gylch, yn y tri lle a enwyd. Ceid un bregeth y Sabboth, yr hon a gedwid ddau o'r gloch prydnawn, yn Tan-y-celyn: a chedwid y cyfarfod eglwysig yn lloft y Siop. Cynaliwyd yr ysgol Sabbothol, er pan y cychwynwyd hi, yn llan y plwyf; yr hon oedd tua milldir a mwy o ffordd oddiwrth bentref Trefriw, a hyny ar foreu Sabboth. Yr oedd Henry Jones, yr Hafod, yn nodedig am ei ddawn gweddi, a'i gymhwysder at arolygu y cyfarfodydd eglwysig. Yr oedd Thomas Rogers yn ddarllenwr mawr, ac yn ysgrythyrwr da. Yr oedd William Davies, heblaw bod yn hynod fel gweddiwr, yn un tra gwreiddiol ac ysbrydol ei syniadau crefyddol. Tua'r fl. 1785, chwanegwyd cymhorth i'r gymdeithas hon trwy ddyfodiad un Robert Evans i'r ardal; yr hwn, mewn amser, a briododdd ferch Mr. Pritchard, Tan-y-celyn. Yr oedd y gwr hwn wedi ymuno â'r Methodistiaid pan ydoedd yn Mhenryndeu-dracth; cafodd ei fendithio â hir ddyddiau, nid llai na 87 mlynedd; o'r oes faith hon bu yn aelod eglwysig am 70, ac yn ddiacon am 50 o flynyddau. Cynaliwyd pregethu yn ei dŷ am 25 o flynyddau; a bu ei dŷ, ei wely, a'i fwrdd, at wasanaeth gweinidogion yr efengyl. Gan iddo ddyfod at grefydd mor ieuanc, a chan ddarfod rhoddi iddo fyw oes mor faith, a throi dros ystod 70 mlynedd yn mysg y Methodistiaid; a chanddo, gyda'r cwbl, gof da, ac yn mwynhau difyrwch mawr, wrth adrodd gwahanol helyntion boreol y cyfundeb; ac yn neillduol felly am ei wlad enedigol, sef y parth orllewinol o sir Feirionydd; yr oedd cymhwysder nodedig ynddo i gyflenwi y diffyg a fu o groniclo amgylchiadau hynod ei oes. Da genym hysbysu hefyd ddarfod iddo wneuthur hyny mewn gradd; ond ni ddaeth yr ysgrif i law yn ddigon buan, i osod ei chynwys yn ei lle priodol; ac am hyny nid oes genyf ond ei gyflen yn y lle hwn, yn gysylltiol â'i enw ac â'i gartref ef ei hun. A hyn a wneir ar ddiwedd ein byr hanes am Drefriw; ac i fesur mawr gwneir hyny yn ngeiriau yr ysgrif sydd ger bron.

Pan oedd Robert Evans yn byw yn Mhwllheli, lle y bu am amser byr yn ddilyn yr alwedigaeth o saer llongau, efe a deithiodd amryw weithiau i Langeitho i'r "Cwrdd Mawr." Bu yn cyd-deithio yno gyda'r enwog Robert Roberts, Clynnog, a hyny cyn i'r gŵr hwnw ddechreu pregethu. Difyrus, meddir, dros ben a fyddai gwrando arno yn adrodd yr hyn a welsai, ac a brofasai yn ei deithiau i, ac o, Langeitho. Yr ail dro wedi cyrhacddyd pen y daith, wrth arwain yr anifail i'r cae oedd ar lan yr afon, cyfarfu â Mr. Rowlands yn rhodio yn y cae; acth ato, i ysgwyd llaw ag ef. Gofynodd Mr. Rowlands, "Bachgen o ba le wyt ti?"—"O sir Gaernarfon, Syr," oedd yr ateb.—"O sir Gaernarfon!" ebai yr hen ŵr. Wedi hyny tynodd Mr. Rowlands ei *watch* allan, a dywedodd, "Wel, fe fydd yr oedfa yn dechreu toc." Byr a fu yr ymddyddan ond teimlai Robert Evans ei fod wedi cael braint annhraethadwy, o gael cyfarch gwell i apostol Cymru. Bu farw Robert Evans, yn Rhagfyr, 1849.

Mae Methodistiaeth Trefriw yn dra dyledus i'r gwragedd crefyddol oedd yno; ac yn neilldnol i Jane, gwraig Thomas Rogers; ac Elizabeth, gwraig Robert Evans. Yr oedd gofal yr achos yn neilldnol arnynt hwy, yn enwedig yn ei bethau allanol; i'r hyn yr oedd cymhwysder yuddynt, gan ddarfod iddynt gael mwy o ddysg nag oedd arferol y pryd hwnw. Gwelir ysbryd deffrous a gweithgar Jane Rogers yn y ffaith, ddarfod iddi ar ddechreuad yr ysgol Sabbothol yno, pryd nad oedd llyfrau pwrpasol i'w cael, barotoi tafleni ysgwâr o goed y *cistiau té*, a glydio arnynt bapur gwyn; yna arnodi y llythyrenau, a sill-wersi. Casglodd drachefn lyfr o'r wyddor, a gwersi i'w sillebu a'i darllen; ac.y fynodd ei argraffu ar ei thraul ei hun, at wasanaeth yr ysgol Sabbothol.

Gwasanaethodd amryw amgylchiadau i wneuthur llnaws o aelodau y gymdeithas eglwysig yn Nhrefriw yn fwy ymofyngar, ac yn y canlyniad, yn fwy eu graddau mewn gwybodaeth duwinyddol, na'r eiddo nemawr eglwys arall o'i maint a'i rhif. Arferai amryw o'r brodyr yn y pentref hwn, ac yn nhref Llanrwst, ymgynnysgu llawer â'u gilydd, trwy fynychu cyfarfodydd eu gilydd; yr hyn a fu yn fuddiol i'r ddwy ochr.

Hyd y fl. 1815, yr oedd yr achos yn y lle hwn, heb un addoldŷ, a hyny o herwydd nad oedd y brodyr wedi llwyddo i gael tir cyfleus i adeiladu arno. O'r diwedd symudwyd yr anhawsder hwn, a chafwyd tir gan Arglwydd Willoughby de Eresby, yr hwn a ddaethai i berchenogi treftadaeth Gwydir. O herwydd rhyw amgylchiadau, yr oedd yr achos wedi syrthio i gryn wendid yn y fl. 1816, blwyddyn y cynhauaf gwlyb; ond yr oedd gwawr ar dori. Ymwelodd yr Arglwydd yn ei ras a'i allu mawr â'i bobl, a Sïon a wnaed yn llawen-fam plant. Daeth yr anmhlantadwy i gadw tŷ, a chlybuwyd sain cân a moliant yn mhyrth merch Sïon. Chwanegwyd tua 40 at yr eglwys mewn ychydig fisoedd. Cyfododd amryw o bregethwyr, o blith y rhai a ddygasid i mewn yn yr adfywiad hwn; megys Griffith Williams, yn awr o Fôn; a Richard Williams, Trefriw; ïe, yr oedd "Ieuan Glan Geirionydd" yn un o honynt; cafodd amaethiad da, a'i gynydd ydoedd amlwg i bawb; ac hyd ei farwolaeth, nid cywilydd oedd ganddo gydnabod ei rwymedigaethau, i aelwyd grefyddol ei rieni, ac i bwlpud y Methodistiaid. Da pe byddai pawb, mewn cyfelyb amgylchiadau, mor onest a dirodres. Bu 'llanciau Tan-y-castell,' sef y Parch. John Jones, Talsarn, a'i frodyr, yn dal cryn gyfathrach â'r achos yn Nhrefriw, yn y tymhor hwn; er mai yn Nolwyddelen yr oedd eu cartref; Treulient y rhan fwyaf o'r wythnos yn Nhrefriw.

Trwy farwolaethau, a symudiadau rhai, a thrwy enciliadau rhai eraill, suddodd yr achos eilwaith i gryn iselder; ond yn y fl. 1828, dyhidlodd yr Arglwydd drachefn, gawodydd o'r gwlaw graslawn ar ei etifeddiaeth; gwrteithiodd hi wedi blino. Chwanegwyd at yr eglwys y tro hwn 40 o aelodau, mewn chwe' mis.

Yn y fl. 1835, dechreuodd yr eglwys yn y lle droi allan i ardaloedd eraill

Y pryd hwn y gwnaed capel "Ardda," mewn cymydogaeth oddeutu dwy filldir o Drefriw, i'r mynyddoedd.

Yn 1836, ychwanegwyd at addoldŷ Trefriw, trwy osod oriel (*gallery*) yn-ddo. Hyn hefyd, trwy chwanegu y cyfleusdra, a barodd amlhad ar y gynull-eidfa.

Yr oedd canghen o'r ysgol Sabbothol, o'i dechreuad, yn cael ei chynal yn Llanrhychwyn, ysbaid 50 o flynyddoedd; sef yn eglwys y plwyf. Tua'r fl. 1848, pan oedd un Mr. Williams, (Rhoscolyn, Môn, yn awr), yn weinidog yma, bu ymweliad gan ddau *rural Deans*, i edrych ansawdd yr eglwys yn y lle, pryd yr hysbyswyd iddynt, ac nid oes petrusder gan bwy, fod ysgol Sab-bothol a'r cael ei chynal gan y Methodistiaid ynddi; y canlyniad fu cloi yr eglwys fel na chedwid hi ynddi mwy. Wedi peth amser, caniatawyd at ei gwasanaeth, gan oruchwyliwr Arglwydd Willoughby, hen dŷ cyfleus yn y gymydogaeth, a chaniatawyd rhai defnyddiau hefyd tuag at ei adgyweirio a'i drefnu; yma, gan hyny, y mae yr addysg grefyddol, a dybid yn annheilwng i'r eglwys, yn cael ei chyfranu. Pwy a ysgrifena fwy yn erbyn rhagfarn ym-neillduwyr at yr eglwys sefydledig nag eglwyswyr? A phwy wedi y cwbl sydd lawnaf o'r teimlad y beïr arno?

Cynaliwyd ysgol Sabbothol, mewn cysylltiad â brodyr o Bettws-y-coed, ac o Lanrwst, yn Nant-bwlch-yr-haiarn, er ys tua 30 o flynyddau. Mae ei deiliaid yn bresenol tua 70, yn cynwys ymron yr holl gymydogaeth. Yn awr, y mae ysgoldŷ bychan wedi ei godi, a gweinidogaeth yr efengyl yn cael ei chadw i fyny yn y lle, trwy gynorthwy yr eglwys yn Nhrefriw.

Yn yr ysgolion Sabbothol hyn, y mae y nifer sydd yn derbyn addysg yn yr ysgrythyrau, bob Sabboth, yn tynu yn mhell at 300; a hyny o fewn cylch 4 milldir. Mae tair o'r pedair ysgolion hyn yn nghanol cymydogaethau mynyddig, ac, mewn cydmhariaeth, teneu eu trigolion. Trigolion, hefyd, oni buasai amaethiad yr ysgol Sabbothol, a fuasent, ond odid, dô ar ol tô, ac o'r naill genedlaeth i'r llall, mor estronol i Dduw a'i ewyllys, a phreswylwyr cib-ddall Hispaen a Phortugal. Gellir canmawl crefyddwyr y fro hon hefyd, am eu haelioni crefyddol. Heblaw codi yr adeiladau crybwylledig, a thalu am danynt, y maent yn y blynyddau diweddaf wedi cyfranu at ddileu dyled y sir tua £150.

Hen addewid y Beibl ydyw, "Dy feibion fyddant yn lle dy dadau." Mae yr addewid hon wedi cael ci gwirio yn Nhrefriw. Yn lle Thomas a Jane Rogers, y mae yn awr yn aros, a'u hysgwyddau yn egniol a siriol, dan yr arch, eu hunig fab, ynghyd a'i ddwy chwaer.

Cododd amryw bregethwyr o'r ganghen hon o eglwys Crist; sef, y Parchn. William Jones, Rhuddlan; a William Hughes, Llanfair-talhaiarn; yn nghyd Richard Williams, Trefriw; o ba rai, y mae y cyntaf a'r diweddaf, wedi huno, a'r brodyr canlynol, Griffith Williams, Môn; Owen Roberts, Ffestiniog; a Am yr eglwysi eraill sydd gan y Methodistiaid, ar yr un ochr i'r afon, ac yn îs tua'r môr, sef Tal-y-bont, Roe, a'r Hen-efail, nid oes genym ddim hanes

wedi dyfod i law; a drwg genym hyn, yn neillduol am y Roewen, lle y mae Methodistiaeth wedi dechreu yn lled foreu, a lle y gellid dysgwyl fod amgylchiadau dyddorol yn gysylltiedig âg ef. Un amgylchiad yn unig a ellir ei grybwyll am y lle hwn. Tua 80 mlynedd yn ol, lledaenwyd y newydd yn y gymydogaeth, fod dau o wŷr dyeithr o'r Dehau i ddyfod iddi i bregethu, ar ryw amser penodol. John Evans, Cil-y-cwm, oedd un o'r ddau. Clybu person Llanrwst y newydd a chythruddodd yn dost, gan benderfynu ymosod yn erbyn yr ymgais a wneid gan y fath estroniaid, i aflonyddu ar heddwch y bobl. I ddwyn ei amcan i ben, cyflogodd nifer o ddynion i aflonyddu y cyfarfod. Daeth y diwrnod penodedig, a daeth y ddau ŵr dyeithr i'r lle, yn nghyd a haid o'r erlidwyr cyflogedig, wedi ymarfogi â ffyn cyll trymion. Hysbys oedd eu bwriad i'r pregethwyr; ac yn lle llwfrhau a llaesu dwylaw, hwy a aethant yn mlaen gyda'u hamcan; a llwyddasant hefyd trwy ystryw ddiniweid, i gael gradd o lonyddwch. Yr ystryw a ddefnyddiwyd, oedd i John Evans fyned i gŵr y gynulleidfa, lle yr oedd y terfysgwyr yn sefyll, a'u perswadio, o un i un, i beidio aflonyddu llawer, hyd nes clywed yn gyntaf pa beth a ddywedid gan y pregethwr. Tynodd hyn eu sylw, a lleddfodd radd ar eu ffyrnigrwydd, fel na fu aflonyddu mawr ar y cyfarfod.

Wedi i'r oedfa ddarfod, aeth y terfysgwyr i'r dafarn, i wario yr arian a gawsent gan y person; yno hefyd y buont, fel y gallesid dysgwyl, hyd yr hwyr; ac wedi i'r ddiod enyn eu gwaed a chynyrfu eu nwydau, cododd ymryson yn eu mysg; a dechreuasant ymosod ar eu gilydd yn egniol, ac arswydus y baeddu a fu y naill ar y llall. Y noson, cyn yr ymosodiad a amcanwyd, hefyd, bu farw y person a'u rhoes hwy ar waith! Hawdd ydyw dyfalu y bu yr amgylchiadau hyn yn foddion i leithio yr erlidigaeth, ar un llaw, ac i galonogi cyfeillion yr efengyl ar y llaw arall. Pa fodd bynag, ymsefydlodd y pregethu yn raddol yn y Roe; a llwyddodd hefyd i raddau helaeth, fel ag i gasglu eglwys a chynulleidfa luosog a siriol; ac yn ddiamheuol, i ddychwelyd llawer o bechaduriaid yr ardal at Dduw.

Hanes a roes Mr. ROBERT EVANS, *Trefriw, am ddechreuad pregethu gan y Methodistiaid Calfinaidd, yn y parthau mwyaf gorllewinol sir Feirionydd.*

Y cyntaf a fu yn offerynol i ddwyn pregethu i'r rhan yma o'r dalaeth oedd Griffith Ellis;* yr hwn oedd yn byw, y pryd hwnw, yn y Tyddyn-du, yn mhlwyf Llanfair, ger Harlech. Yr oedd pregethu yn sir Gaernarfon er ys tro, ac weithiau yn y Penrhyn-deudraeth,† cyn dyfod i gymydogaeth y Dyffryn. Nid hir y bu Griffith Ellis yn y Tyddyn-du, wedi agoryd ei ddrws i noddi pregethwyr, heb dderbyn rhybudd i ymadael. Ond fe roddodd ei feistr tir iddo ei ddewisiad; "Yr un a fynai, ai peidio coledd y fath bobl, ai

* Cyf. I., tudal. 291; 497. † Cyf. I., tudal. 521.

ymadael â'r Tyddyn-du." Yr ateb a roes yr hen ŵr duwiol iddo, ar yr achlysur, oedd;—"Bod yn well ganddo golli ei dyddyn na cholli ei enaid!"

Parhau yn benderfynol, yn ei fwriad, a wnaeth y meistr, ac ymadael â'r Tyddyn-du a orfu i Griffith Ellis; ond gofalodd yr Arglwydd am dano, drwy agoryd drws arall o'i flaen, wedi i hwn gael ei gau. Yn fuan ar ol hyn, efe a gymerodd dyddyn arall, o'r enw Pen'r-allt; tyddyn yn yr un plwyf a'r llall. Yr oedd Catrin, gwraig Griffith Ellis, yn wrthwynebol iawn i'w gŵr, ar y dechreu. "Mi a'i clywais," meddai Robert Evans, "yn dyweyd, y byddai weithiau yn cael ei lenwi â braw, rhag i'r Arglwydd ei tharo yn farw, o herwydd ei gelyniaeth." Ond nid hir y bu heb gael ei dwyn i gydweled, ac i gydweithredu â'i gŵr; ac i fod yn ymgeledd dra chymhwys i bregethwyr ar eu dyfodiad i'r gymydogaeth. Nid oedd ond ychydig iawn o bregethwyr y pryd hwnw. Yr oedd pedwar yn y Bala; a dim ychwaneg, ond Edward Roberts, Trawsfynydd, yn yr holl sir; ac nid oedd yr un capel, ar y pryd, ond y capel oedd yn y Bala; ac ychydig iawn, y pryd hwnw, oedd nifer pregethwyr sir Gaernarfon.

Mawr fyddai llafur a ffyddlondeb Griffith Ellis, i gael gan bregethwyr i ddyfod i'r fro. Byddai yn myned gan belled a Lleyn, yn sir Gaernarfon, i ymofyn cyhoeddiadau; a rhag i neb fod yn amheus o'i brif neges, byddai weithiau yn prynu buwch, neu ryw anifail arall, i ddyfod adref gydag ef. Wedi cael cyhoeddiad, byddai yn dra diwyd yn cerdded o dŷ i dŷ, i hysbysu i'w gymydogion yr amser y cedwid yr oedfa. Yr oedd Griffith Ellis yn cael ei ystyried gan bawb a'i hadwaenai, yn hen ŵr duwiol a chydwybodol iawn. Yr oedd ei ddiniweidrwydd mor nodedig, fel y byddai dynion maleisus a diegwyddor, yn cymeryd mantais arno, er mwyn budr-elw. Dygai weithiau nifer o anifeiliaid i'r ffair i'w gwerthu; ar hyn o bryd, y rhai oedd yn gwybod am dano, a aent ato, gan ofyn pris, un neu ychwaneg, o'r anifeiliaid iddo; ac wedi cael ganddo y pris a ddysgwyliai gael, hwy a'i hwfftient fel dyn digydwybod, yn gofyn pris afresymol, gan ddatgan eu syndod, fod dyn o'i fath ef yn meiddio gofyn y fath anferth bris. Yna dywedent y pris a farnent hwy yn deg a chyfiawn; a'r hen ŵr, rhag ofn gwneyd dim allan o'i le, a ollyngai yr anifail iddynt am eu pris eu hunain.

Pan oedd pregeth i fod yn Mhen'r-allt ryw dro, dygwyddodd i Griffith gyfarfod â gweinidog y plwyf, a gofynodd iddo, yn niniweidrwydd ei galon, a ddeuai efe i wrando ar y gŵr a ddysgwylid? a chwanegai, "Mai pregethwr da iawn ydoedd; gŵr tebyg i chwi, syr, ydyw—mae yn offeiriad." Ond nacâd a gafodd oddiwrth y gŵr parchedig. Ryw dro, ar ol hyn, cyfarfu â Griffith Ellis yn ffair Harlech; ac mewn anwydau drwg, cododd ei ffon, ac a'i tarawodd, am ei wahodd i wrando y fath ysprêd. Ond er y sarhad hwn, Griffith oedd y parotaf o bawb i wneuthur cymwynas iddo.

Bu pregethu achlysurol, dros rai blynyddau, yn Harlech a Phen'r-allt, cyn bod dim yn y Dyffryn. Byddai ambell i bregeth yn Abermaw: mawr y nodded a roes y wraig dduwiol hono, Betti Pugh, neu Mrs. Griffith, yn ol

enw ei gŵr, i achos y Cyfryngwr yn y dref hono. Bu farw ei gŵr, yn lled fuan, ar ol dechreuad pregethu yn y lle. Yr oedd yntau yn ffyddlon iawn tra y caniatawyd iddo fyw. Wedi ei ymadawiad ef, disgynodd y baich, yn benaf, ar ysgwyddau ei weddw; a diwyd a diymod y cyflawnodd hi ei gorchwyl, yn wyneb croesau ac erlidiau lawer. Bu un mab iddi farw yn dra ieuanc; ac wrth weled amser ei ymddatodiad yn nesâu, efe a ddymunodd ar fod i'r hyn a ddisgynai i'w ran ef, fel cynysgaeth, gael ei roddi at adeiladu capel. Cymmerodd y fam y peth yn bwysig ar ei meddwl, a phenderfynodd wneuthur yn ol ei ddymuniad.

Pan ddaeth yr amser i adeiladu y capel, daeth y bwriad i glustiau Mr. Wynne, Maes-neuadd;* a theimlodd yn dramgwyddedig iawn; dywedai wrth Mrs. Griffith, os elid yn mlaen â'r capel y collai hi holl gwsmeriaeth Maes-neuadd. Yr oedd hyn yn brofedigaeth chwerw i'r wraig weddw; am fod yr hyn oll a âi at wasanaeth y tŷ yn cael ei brynu yn ei siop hi. Ond yr oedd wedi eistedd i lawr a bwrw y draul, a hi a'i hatebodd yn bwyllog ac arafaidd, trwy ddiolch iddo yn fawr, am yr holl diriondeb a gawsai oddiar law y teulu, a dyweyd mor ddrwg oedd ganddi golli ei gwsmeriaeth; eto, fod yn well ganddi golli hyd yn nod hyny, na cholli ei henaid; ac mai myned yn mlaen a fyddai raid i'r capel. Ond gofalodd rhagluniaeth am y wraig gydwybodol hon, fel na chollodd hi ddim trwy y tro. Parhaodd y teulu i *ddelio* â hi yr un fath wedi adeiladu y capel ag o'r blaen. Byddai rhai o'r boneddigesau yno yn dra mynych; ac os dygwyddai iddynt ddyfod oddeutu amser y weddi deuluaidd, ni wnai Mrs. Griffith ddim gwahaniaeth, ond elai ymlaen fel arferol. Yr oedd yn olwg tra nodedig, gweled y boneddigesau yn foesgar benlinio gyda'r teulu, i wrando ar y wraig dduwiol yn gweddio.

Megys y crybwyllwyd eisoes, yr oedd pregethu yn Harlech ac Abermaw rai blynyddau cyn bod dim yn y Dyffryn. Y bregeth gyntaf, hyd y gallai Robert Evans wybod, a fu yn y Dyffryn,† a draddodwyd gan Robert Jones, Rhoslan, ar y Morfa, dan Llanddwywe. Yr oedd yno dwmpath yn nghanol y gwastad, i ben yr hwn yr esgynai y pregethwr; ac oddiar y topyn gwyrddlas hwn efe a lefarodd yn hynod o ddifrifol ac effeithiol, oddiar Gen. xix. 17, "Dianc am dy einoes; nac edrych ar dy ol, ac na saf yn yr holl wastadedd:" a pheth teilwng i'w grybwyll ydyw na ddangoswyd y tuedd lleiaf i erlid, er mai dyma yr oedfa gyntaf erioed a fu gan ymneillduwyr o un enwad. Yr oedd Griffith Jones, Ynys-y-pandy,‡ yn dechreu yr oedfa o flaen Robert Jones. Yn mhen enyd o amser ar ol hyn, daeth Thomas Evans, Waun-fawr, i'r ardal; a'r lle y sefydlwyd arno iddo ef bregethu, oedd wrth y gareg filldir, yn y Coed-coch, lle y mae capel y Dyffryn yn sefyll yn awr. Pan glybu Rowland Williams, goruchwyliwr Cors-y-gedol, efe a ddaeth yno ar fedr lluddias Thomas Evans i bregethu; ac yr oedd yn y lle, cyn i Thomas Evans gyrhaeddyd yno, ac yn ei ddysgwyl yn awyddus. Pan ganfu ef yn dyfod, efe a

* Gŵr boneddig yn yn y gymydogaeth. † Dyffryn-ar-dudwy: gwel Cyf. I., tudal. 533. ‡ Cyf. I., tudal. 302; a Cyf. II., tudal. 194.

dorodd drwy y dorf i'w gyfarfod, a gofynodd iddo yn awdurdodol a llym, "Pa beth ydyw eich gwaith yn helcyd ar draws y wlad, i ddyfod yma i beri cynhwrf? Yr ydych chwi yn gwneyd llawer o ddrwg drwy beri anghydfod ac amrafaelion mewn teuluoedd; y wraig, fe allai, yn myn'd ar eich ol, a'r gŵr yn sefyll yn erbyn."

I hyn yr atebodd Thomas Evans, yn barchus ac arafaidd, "Oni ddarllenasoch chwi yn y Beibl, Syr, i'n Hiachawdwr ei hun ragddywedyd mai felly y byddai gyd â'i ddilynwyr ef? gan adrodd y geiriau yn Luc xii. 51—53; sef, 'Ydych chwi yn tybied mai heddwch y daethum i i'w roddi ar y ddaear? nage, meddaf i chwi; ond yn hytrach ymrafael, &c.'"

Yr oedd Thomas Evans mor barod yn ei atebion i holl wrthddadleuon y goruchwyliwr, fel y bu raid i'r olaf roddi y goreu iddo, a chyfaddef nad oedd wiw siarad ag ef. Felly fe droes ei gefn, gan orchymyn yn gaeth na ddeuai neb o honynt yno drachefn; a chafwyd llonydd i fyned ymlaen a'r oedfa hyd ei diwedd.

Y drydedd waith, daeth William Evans, Fedw-arian, i'r Morfa yn gyfagos i'r lle y bu Robert Jones, y tro cyntaf yn pregethu. Daeth Rowland Williams y Sabboth hwn i'r eglwys, a threfnodd fyned i giniawa i'r Benorisa', fel y byddai wrth law i attal unrhyw gyfarfod gymerid lle ar y Morfa. A mawr oedd yr ymffrost, ganddo ef a'i gyfeillion, ar giniaw; pa orchestion eu maint a gyflawnent ar yr achlysur. Ymdrechai Lowri, gwraig William Bedward, eu llareiddio, drwy ddyweyd, "Dyn, dyn! ni waeth i chwi eu gadael yn llonydd." "Na," atebai Rowland Williams, "os cant lonydd, fe â yr holl wlad ar eu hol."

Pan welodd ef, a'r rhai oedd gydag ef, y pregethwr yn dyfod; allan â hwy, i'w attal i bregethu yn y fan y bwriadwyd; ond wedi ei lluddias yno, aeth William Evans a'r dorf gynulledig i lan y môr. Yma y cawsant lonydd, gan yr ystyriai yr erlidwyr y traeth fel mynwent, yn llanerch gysegredig. Dro arall y daethai William Evans i'r Coed-coch i bregethu, daeth heliwr Cors-y-gedol i'w ddyrysu trwy chwythu y corn hela, a bu raid i'r pregethwr a'r gynulleidfa gilio o'r lle.*

Y tri cyntaf, meddai Robert Evans, a ymunasant â'r Methodisiaid yn y Dyffryn, oeddynt Griffith Richards â'i ddwy chwaer, Jane a Gwen Richards. Cafodd Griffith Richards ar ei feddwl adeiladu tŷ, yn y Coed-coch, am y ffordd a'r lle y mae Capel y Dyffryn arno; ar gŵr y cyttir. Ond fe ddarfu i deulu Cors-y-gedol amheu mai gyda golwg ar roddi lle i bregethu yr oedd ef yn adeiladu, a buont yn bygwth y gwnaent ei chwalu. Bu teulu Griffith Richards, gan hyny, yn gwylio llawer noswaith, rhag y rhoisent eu bygythiad mewn grym. Ond fe lwyddodd y gŵr i gael ei amcan i ben, er yr holl wrthwynebiad. Yr Arglwydd hefyd a'i cofiodd yntau trwy goroni ei lafur â

* Gwel hanes y tro hwn yn helaethach yn Cyf. I., tudal. 533. † Mae y Penrhyn-deudraeth, fel yr arwydda ei enw, yn ymestyn tua'r môr, rhwng y ddau draeth hyn: y Traeth-mawr sydd nesaf i Dremadog, a'r Traeth-bach yn ochr sir Feirionydd.

llwyddiant. Yr oedd Robert Evans, y pryd hyn, wedi ymadael â'r Dyffryn, ac yn aros yn y Penryn-deudraeth. "Mae yn gofus iawn genyf," meddai, "pan adeiladwyd y tŷ, cyn cael gwydr ar y ffenestri, na'i orphen; iddynt gael cyhoeddiad Robert Jones, Rhoslan, i ddyfod yno i bregethu, y Sabboth ddau o'r gloch; ac er bod ysbaid 58 mlynedd, er pan ddygwyddodd hyny, y mae mor gôf genyf a doe yr amgylchiadau rhyfedd a gymerasant le yn gysylltiedig â'r tro hwnw. Y nos Wener, a'r dydd Sadwrn o flaen hyny, hi dorodd yn wlaw rhyfeddol. Yr oedd Robert Jones ddydd Sadwrn, am ddau o'r gloch, yn pregethu yn Hendre-howel, lle yn agos i Dremadog; a'r nos yr oedd i fod yn y Penrhyn; ond yr oedd y traeth wedi llifo i'r fath raddau fel nad oedd obaith myned trwyddo. Gadawsai Robert Jones ei geffyl yn Hendre-howel, a daeth i lawr at y traeth ar ei draed; a phan y daeth i'r olwg, fe ganfyddai un yn parotoi cwch bychan ar fedr croesi y Tracth-mawr, i fyned i ddyogelu cwch arall oedd ganddo yn y Traeth-bach,† rhag cael ei niweidio neu ei golli trwy y llifogydd. Hwn a gymerodd Robert Jones gydag ef, ac felly cafodd groesi yn brydlon a dirwystr."

Yr oedd cydweithrediad nodedig yn yr amgylchiad uchod, rhwng ymroddiad penderfynol y pregethwr, ac arolygiaeth rhagluniaeth. Hawdd a fuasai i'r pregethwr ymesgusodi, ac edrychasid ar ei esgusawd yn un perffaith rhesymol o dan yr amgylchiadau; eto nid esgus i beidio oedd arno eisiau, ond rhwydd-deb i gyflawni ei adduned; a chan mai ar neges ei Dduw yr oedd, dysgwyliai wrtho am ddrws agored. Gellir canfod pa fodd y mae y fath gyd-darawiad yn bod rhwng penderfyniad y pregethwr, a darpariaeth rhagluniaeth, gan mai o'r un ffynnon y codent. Ysbryd a rhagluniaeth yr un Duw oedd yma yn gweithio; a rhesymol ydyw dysgwyl cyd-gordiad rhyngddynt.

Cyrhaeddodd Robert Jones y Penrhyn, heb ei ddysgwyl o herwydd gorlifiant y traeth. Tranoeth, sef y Sabboth, yr oedd ei gyhoeddiad i fod yn Harlech am naw o'r gloch; ond yr oedd y fath lîf yn y Traeth-bach drachefn fel yr oedd yn annichonadwy i neb fyned trwyddo heb gwch; a chwch nid oedd gan neb o'i amgylch; am hyny bwriadwyd iddo bregethu yn y Penrhyn. Ond cyn rhoddi i fyny yn llwyr, aeth Robert Jones, a rhai cyfeillion gydag ef, ac yn eu mysg yr oedd Robert Evans, i olwg y traeth; i edrych a geid unrhyw gyfleusdra i fyned trosodd. Ar eu gwaith yn dynesu at y lan, hwy a welent gwch yn dyfod oddiwrth y Tŷ-gwyn-y-gamlas, i fyny rhyngddo â'r lan arall. Aethant oll i'w gyfarfod, ac erbyn edrych, cwch ydoedd yn perthyn i long o Bwllheli, oedd wrth angor gerllaw y Tŷ-gwyn. Yr oedd myglys (*tobacco*) un o'r dwylaw ar y llong, wedi darfod; a chyrchai tua'r Penrhyn er mwyn gwneyd y diffyg i fyny. Ar ddeisyfiad y brodyr efe a gludodd yr holl fintai drosodd, a chafodd fodd trwy y wobr a roddwyd iddo i gael mwy o *dobacco* nag a ddysgwyliasai.

Gwnaethant bob brys bellach i gyrhaedd Harlech erbyn yr amser crybwylliedig, sef, naw o'r gloch; ond erbyn cyrhaedd yno, deallasant mai yn

Mhen'r-allt yr oedd yr oedfa i fod, yn lle yn Harlech. Erbyn hyn yr oedd wedi myned yn mhell ar y diwrnod, a'r bobl a ddaethant ynghyd i Ben'r-allt, wedi blino yn aros, ac wedi ymwasgaru; rhai wedi myned tua'u cartrefi, ac eraill tuag eglwys y plwyf. Ond wedi eu myned at yr eglwys, dygwyddodd fod yr offeiriad yn glâf, ac nad oedd dim gwasanaeth y Sabboth hwnw. Yr oedd Robert Jones a'i gymdeithion erbyn hyn yn nesâu at Ben'r-allt, ac yn ngolwg yr eglwys; a phan y gwelodd y bobl hwy, daethant hwy yn lluoedd i'w dilyn, a llanwyd tŷ Pen'r-allt o ben bwy gilydd. Wedi darfod yr oedfa yma, yr oedd yn rhy hwyr tithio i'r Dyffryn erbyn dau o'r gloch. Gan mai yr un offeiriad oedd yn darllen yn Llanbedr ac yn Llanfair, yr oedd y rhai a ddaethent at yr eglwys i ddysgwyl gwasanaeth yno, wedi cael eu siomi fel y cawsai eu cymydogion yn y plwyf arall. Wrth i'r pregethwr a'i gwmni fyned trwodd, y plwyfolion hyn a'u dilynasant yn finteiodd i'r Dyffryn; a llanwyd tŷ newydd Griffith Richards, y waith gyntaf erioed y defnyddiwyd ef i'r perwyl.

Pan welodd amaethwr cyfrifol o'r plwyf y bobl yn gadael yr eglwys yn Llanfair, ac yn myned i Ben'r-allt; a'r lleill yn gadael eglwys Llanbedr i fyned i'r Dyffryn, efe a gymerodd ei geffyl, ac a aeth nerth y carnau i Lanaber, i geisio y person, Mr. Parry, yr hwn oedd beriglor y ddau blwyf. Fel yr oedd mintai Robert Jones yn dychwelyd o'r Dyffryn, wedi darfod yr oedfa, dyma y ddau, sef y person a'r ffermwr, yn dynesu atynt ac yn gyru yn erwin; a'r blaenaf yn gofyn yn gyffroes iawn i'w blwyfolion, wrth yru heibio iddynt, "A ydych chwi wedi myn'd i ddilyn y ffydd hon?" un o'r plwyfolion a'i hatebai, "Y mae yn ddigon rhaid i ni fyned i ddilyn rhyw ffydd; nid oedd acw ffydd yn y byd heddyw?"

Pan oedd y brodyr crefyddol yn dychwelyd adref, ar y Sarn-hir, tua machludiad haul, yr oedd cloch Llanbedr a Llanwnog yn canu. Yr oedd yr offeiriad yn ei waeledd wedi codi allan, fel y byddai i'r person gadw gosper yn un, a'r offeiriad yn y llall; er na fyddai gosper byth yn yr un o'r ddwy, amseroedd eraill. Yr oedd Robert Jones yn dyweyd ar ol hyn, ei fod yn meddwl yn sicr fod gan yr Arglwydd waith i'w wneyd yn y Dyffryn, ac na welodd ef dro hynotach un amser. Troes yr holl amgylchiadau i gydweithio fel ag i arwain y bobl i swn efengyl. Y ddau gwch i groesi y traethydd—dyfodiad diweddar y pregethwr yn cyrhaedd Pen'r-allt—afiechyd yr offeiriad, a'r cwbl, yn cyd-dueddu i'r un amcan.

Y bregeth gyntaf a bregethwyd gan yr ymneillduwyr yn Llanbedr, oedd gan Mr. Richard Tibbot, yn Mhenrhiw-newydd.

Yn lled fuan ar ol i bregethu ddechreu yn y Dyffryn, daeth Mr. Llwyd* i'r ardal. Er nad oedd ei ddoniau ond bychain, eto bernir ei fod yn pregethu y gwirionedd, ac i'w weinidogaeth fod yn fendithiol. "Dygwyddodd,"

* Gweler ychwaneg o'i hanes yn Cyf. I., Tudal. 534.

meddai Robert Evans, "fy mod ar ddamwain yn ei wrando yn Llanddwywe; ac yn ystod y bregeth torodd un hen wraig allan i wylo, ac i lefain dros yr eglwys, ac felly y parhaodd ar ol myned allan i'r fynwent; lle y daeth *steward*, Cors-y-gedol ati, a chan ei chilgwthio, efe a orchymynodd iddi dewi a myned adref yn ddioed; y Parch. Mr. Price oedd person y ddau blwyf y pryd hwnw. Nid oedd ef gymaint yn erbyn yr offeiriad ieuanc; addefai y gallasai fod yn ddyn da iawn mewn llawer man, lle yr ydoedd pobl ddrwg, ond nad oedd yn ei blwyf ef ddim o'r cyfryw yn trigiannu."

Oddeutu yr amser hwn hefyd, y daeth y dwyll-wraig hono i'r ardal, a elwid "Mari y fantell wen," a merch ordderch yn ei dilyn. Haerai ddarfod iddi weled Iesu Grist, a'i briodi; ac iddi fod yn uffern; a phethau anfad cyffelyb. Ei harfer oedd myned o dŷ i dŷ i draethu ei choeg-syniadau; a gresyn yw meddwl, er gwarth i'r natur ddynol, iddi gael gormod o dderbyniad. Ennillodd amryw ddysgyblion, y rhai, fel hithau, oeddynt elynion creulawn i'r gwirionedd. "Nis gwn," meddai Robert Evans, "beth a ddaeth o honi yn y diwedd. Myfi a'i gwelais droiau, a bum yn ymddyddan â hi, ac a adwaenwn hefyd rai o'i chanlynwyr."* Rhyfedd ynfydrwydd plant Adda, yn cymeryd eu harwain gan y fath hudoles ystrywgar! a rhyfedd y fraint a gafodd Cymru, o gael goleuni y bywyd, i ymlid ymaith y fagddu a orchuddiai yr holl wlad. Mae yn ffynnonell o gysur i feddwl ystyriol edrych ar y cyfnewidiad mawr sydd wedi cymeryd lle yn yr ardaloedd hyn, er yr amser y cyfeiriwyd ato.

Yn y dyddiau hyny, gellid gweled ar y Suliau, yr holl fynwentydd, o Harlech i'r Abermaw, yn llawn o finteioedd yn dilyn eu hamrywiol gampau. Aent yn gyffredin i'r eglwys y rhan foreol o'r diwrnod, a'r gweddill a dreulient i chwareu. Yn yr hwyr ymgasglent i'r tafarnau; rhai, at y delyn a'r ddawns; ac eraill, i ganu a gloddesta.

Byddai cyrchu mawr hefyd i Gors-y-gedol, ar y Sabbothau, i chwareu y bel, ac i hyrddio y bel-droed; prif ddifyrweh William Fychan, ysw., y Marchog, a fyddai edrych ar y chwareuwyr yn ymorchestu. Byddai yn dyfod allan, ac yn eistedd mewn cadair, gyd â'i bot a'i bibell, ar hyd y dydd i edrych arnynt.

Yr oedd hefyd faen, yn maes Llanddanwg, yr hwn a elwid "Llwyd-faen Llanddanwg." Rhaid oedd cael dynion cryfion i fedru ei godi i'w gliniau; ond rhai a'i codent i'w hysgwyddau; ac a'i carient ryw gymaint o ffordd. Sonir am un a'i cododd ac a'i cariodd i'r tŷ tafarn, ac a yfodd *beint* o gwrw, a'r maen ar ei ysgwydd.

I Gastell Harlech, hefyd, y byddai ymdyru mawr ar y Sabbothau, lle y byddai pob rhyw gamp yn cael ei dal i fyny. Cafodd rhai o'r pregethwyr boreaf eu herlid yn greulawn yn y dref hon. Bu John Evans, Bala, yn ceisio pregethu ar fynydd, a elwir Penrhiw-goch, yn agos i Harlech; ond pan oedd yr hen ŵr ar ei liniau, daeth Griffith Edward, Tyddyn-du, yno; ac a gydiodd

* Gwelir mwy o'i hanes yn "Nrych yr Amseroedd," tudal. 153.

ynddo, ac a'i hysgydwodd; a bu raid iddo roddi heibio. Yr oedd dau ŵr ieuainc o'r Dyffryn, wedi clywed son am y cyfarfod, ac wedi myned yno; dynion cryfion, gwrol, ac hèb fod yn gwrando pregeth erioed. Yr oedd y ddau ŵr ieuainc hyn yn dyweyd, pe buasent wedi cyrhaedd i'r lle cyn i'r gynulleidfa chwalu, y buasent hwy yn mynu llonyddwch i'r pregethwr; ac nid oes amheuaeth, na chawsent eu hamcan, gan eu bod yn rhagori ar bawb yn y wlad, o ran nerth a gwroldeb.

Dygwyddodd fod John Pierce a Robert Jones, ac ychydig o bobl yn myned trwy y dref, wrth ddychwelyd o Langeitho; a chafodd y ddau eu lluchio â cherrig, a'u clwyfo hefyd, nes oedd eu gwaed yn cerdded. Ychydig o flynyddoedd ar ol hyn, daeth y Parch. D. Jones, Llangan, i bregethu ar yr heol. Cafodd ef lonydd heb ei faeddu; ond gwnaeth ryw hen felinydd gais teg ar aflonyddu y cyfarfod trwy watwar y pregethwr, ond cipiwyd ef i ffordd gan ryw rai; ac felly fe'i llesteiriwyd i wneuthur nemawr derfysg. Ni fu yn Harlech ddim erlid ar ol hyn, ac fe lwyddodd yr achos drwy y cwbl.

PENNOD VII.

PARHAD O HANES GORSAFOEDD CYNTAF METHODISTIAETH SIROEDD DINBYCH A FFLINT.

CYNWYSIAD:—

LLANARMON-YN-IAL—CYCHWYNIAD YR ACHOS YN Y FLWYDDYN 1760—EI WEDD ISEL AR Y DECHREU—CYMDEITHAS EGLWYSIG YN 1770—MR. A MRS. DAVIES—MARGARET, MAES-Y-DROELL—DYCHWELIAD NEGRO—JOHN EDWARDS, GYNT O EREINIOG—GORTHRWM OFFEIRIAD—"NED HABWT"—CILCAIN—CYCHWYNIAD YN Y FL. 1762—CYFARFOD PREGETHU—ANFOES YR OFFEIRIAID—CAIS AT LADD PREGETHWR—JOHN JONES, PLAS-ISSA'—THOMAS ROBERTS A'I WRAIG—EVAN ROBERTS YR YSGOLFEISTR—ADEIDADU CAPEL YN 1806—DAROSTWNG GWYL LYGREDIG—EDWARD JONES A'I FAB—MAES-HAFN.

LLANARMON-YN-IAL.

Mae Llanarmon-yn-iâl yn gorwedd ychydig i'r dehau i'r ffordd sydd yn arwain o Ruthin i'r Wyddgrug, a thua chwe' milldir oddiwrth bob un o'r ddwy dref. Mae y wlad yn dryfrith o waelod a bryn; y tir gan mwyaf yn uchel ac oer, ond y ddaear yn gyfoethog o fwngloddiau plwm.

Dechreuodd Methodistiaeth yma tua'r fl. 1760. Yr oedd wedi cael lle i roddi ei droed i lawr eisoes yn Adwy'r-clawdd o un tu, ac yn Nyffryn-clwyd o'r tu arall; a safai Llanarmon tua hanner y ffordd rhwng capel yr Adwy a chapel y Dyffryn. Dywedir mai yn Mhen-y-foel, yn agos i Graianrhyd, yn nhŷ un Daniel Jones y bu pregethu gyntaf. Nid oedd y gŵr hwn, meddir,

yn dàl yr egwyddorion goreu, nac ychwaith o'r fuchedd oreu. Ymddengys fod egwyddorion Antinomaidd wedi gwenwyno gradd ar ei syniadau, a llychwino gradd ar ei gymeriad. Barnai nad oedd iddo ddim ond un gorchymyn i'w gadw, a hwnw oedd credu yn Nghrist; a bod Crist wedi cadw pob gorchymyn arall yn ei le. Yr oedd gŵr yn pregethu yr egwyddorion hyn yn byw gerllaw Llanfair-dyffryn-clwyd, mewn lle a elwid y Seined. "Crefydd Joseph y Seined" y gelwid y grefydd hon. Un o'r sect hon, tybygid, oedd Daniel Jones; mae gweddillion o'r crefyddwyr diymadferth hyn yn aros heb eu llwyr ddiwreiddio hyd heddyw.

Rhyw ambell i bregeth achlysurol oedd i'w chael y pryd hwnw, ac nid oedd i'r achos ar y cyntaf ddim gwell llety na chronglwyd y "*dyn a'r grefydd rad.*" Bu pregethu ar ol hyn yn nhŷ dynan tlawd o fwnwr, o'r enw Siôn Llwyd, Nant-y-palmau. Y pregethwyr a ddeuent yma oeddynt Edward Parry, Llansanan; Robert Llwyd, Plas-ashpool; John Owens, Berthen; Dafydd Jones, Adwy'r-clawdd; a Robert Roberts, Wyddgrug; y gŵr olaf a enwyd a fyddai amlaf. Gwehydd oedd Robert Roberts wrth ei grefft, eiddil o gorff, a llais gwan gwichlyd ganddo. Nid oedd yn cael ei ystyried yn bregethwr o ddawn, ond yn gynghorwr bach difrifol, ac yn gristion dihoced. Oddiar fod John Llwyd wedi bod yn rhyw gŵr o'r Deheudir yn gweithio,* yr oedd, meddir, yn gydnabyddus â rhai o'r offeiriaid yno; a chafodd ganddynt ymweled â Llanarmon ar eu hynt i'r Gogledd; hyn hefyd a wnaethant; ond nid yw eu henwau ar gael, ac nid oes hanes am effeithiau neillduol eu gweinidogaeth.

Tua'r fl. 1770 y dechreuodd yr ychydig grefyddwyr oedd yn y cwmwd ymffurfio yn gymdeithas eglwysig yn nhŷ Siôn Llwyd. Yr oedd crefyddwyr y tymhor hwn yn edrych ar y cyfarfod eglwysig gydag eiddigedd rhyfeddol, fel lle tra chysegredig ac ofnadwy; ac oddiar y syniad hwn, cadwent orchudd o ddirgelwch drosto, y fath fel na allai neb lygadrythu iddo. Dygwyddodd i un o'r aelodau unwaith fyned i'r cynulliad eglwysig i dŷ Siôn Llwyd a'i blentyn deg neu ddeuddeng mlwydd oed gydag ef. Parodd hyn anfoddlonrwydd mawr; a phrin y gadewid y tad, chwaithach y plentyn, i aros yno. Aros a gafodd y tad, pa fodd bynag, y trô hwnw, ar ei waith yn addaw yn deg a difrif, na ddygai ef y plentyn mwy yno.

Symudodd y pregethu i dŷ arall, ar waith Siôn Llwyd yn symud yno, sef i dŷ a elwir "Y Bog." Yr oedd tô arall o bregethwyr, bellach, wedi cyfodi:— Robert Prys, Plas-winter; William Davies o'r Golch; ynghydag amryw yn y Bala a'i hamgylchoedd. Cyfeiriwn y darllenydd at ran arall * o'r gwaith hwn, lle y gwelir y byddai ambell offeiriad, neu bregethwr enwog o'r Deheudir, yn dyfod heibio ac yn pregethu yn y prif-ffyrdd a'r caeau; ac fel y bu hyn yn foddion i ddwyn Mr. a Mrs. Samuel Davies nid yn unig i wrando y gair yn mhlith y Methodistiaid ond hefyd i ymuno â hwy, ac i roddi eu hysgwydd yn egniol i gynal yr achos yn ei wendid. Yr oedd y teulu hwn yn

* Gwel Cyf. I., tudal. 323.

byw y pryd hwnw mewn tyddyn, o'r enw Bryn-mywion; ac ar eu gwaith yn cofleidio yr efengyl, agorasant eu drws hefyd iddi ddyfod i'w tŷ. Bu y pregethu yma drachefn dros rai blynyddau. Pan briododd Margaret, y forwyn, yr hon a fuasai yn foddion i ennill y teulu yma at grefydd, hi a ddaeth i breswylio i dyddyn a elwir Maes-y-droell, nid yn mhell o'r gymydogaeth; a chyda llawenydd, hi a agorodd ei drws i dderbyn pregethu yno hefyd. Ymsefydlodd pregethu ac ysgol Sabbothol yn Maes-y-droell dros amser maith; ac am ddim a ŵyr yr ysgrifenydd, y mae moddion yn cael eu cynal yno hyd heddyw, er fod yr aelodau crefyddol yn perthyn i'r eglwys yn Llanarmon.

Y modd y daeth tŷ Mr. a Mrs. Davies yn lle pregethu oedd fel hyn. Yr oedd cyhoeddiad William Evans o'r Fedw-arian, gerllaw y Bala, i fod yn nhŷ Siôn Llwyd; ond ar ei waith yn dyfod, collodd y ffordd. Dygwyddodd droi i Fryn-mywion, tŷ Mr. S. Davies, i ofyn y ffordd i dŷ Siôn Llwyd. Yr oedd y teulu, bellach, yn mysg y crefyddwyr; ac er nad oeddynt yn adnabod y pregethwr, mwy nag oedd ef yn eu hadnabod hwy, barnasant oddiwrth ei ddull a'i leferydd mai gŵr santaidd i Dduw ydoedd; a chan y gwelent ei fod yn dra lluddedig, wedi cerdded dros ugain milldir o ffordd, cymhellasent ef i ddyfod i mewn; ac wedi ei fyned a chael lluniaeth, anfonwyd am y bobl i ddyfod o dŷ Siôn Llwyd ato; ac felly y dechreuwyd pregethu yn y tŷ hwnw. Yn mhen enyd ar ol hyn prynodd Mr. Davies dir yn Rhiw-iâl, lle gerllaw Llanarmon, ac adeiladodd yno gapel yn gwbl ar ei draul ei hun; ac wedi ei orpheu troes ef drosodd yn llwyr-feddiant i'r cyfundeb: yr oedd hyn yn y flwyddyn 1786. Caed gan Mr. Charles, yr hwn yn ddiweddar a ddaethai i undeb â'r corff, ddyfod yno i agor y capel newydd. Gwnaeth yr un teulu dŷ iddynt eu hunain hefyd ar y tir a brynasent, modd y gallent fod yn agos i'r capel; nid yn unig, nac yn benaf, o ran cyfleusdra iddynt hwy allu mwynhau y moddion, ond yn hytrach er mwyn bod yn swcr i'r achos. Bu y teulu yn garedig iawn at yr achos dros flynyddau; a Mrs. Davies felly yn neilldnol ar ol ei gadael yn weddw. Cymerodd daith rai gweithiau i Langeitho i ymofyn am bregethwyr i ddyfod i'r Gogledd; ac, yn mysg manau eraill, i Lanarmon. Felly cafodd Llanarmon fanteision, o ran gweinidogaeth, helaethach na llawer lle, trwy ffyddlondeb ac ymroddiad Mrs. Davies.

Mae amgylchiad arall yn deilwng o sylw; yr oedd gan ŵr, yr hwn oedd oruchwyliwr ar waith plwm yn y gymydogaeth, fab, yr hwn a aethai i un o'r gwledydd tramor; fe allai i un o ynysoedd yr India Orllewinol, neu drefedigaethau y deyrnas yn Affrica. Anfonodd y mab hwnw, yn anrheg i'w dad, un o'r Negroaid duon, yr hwn oedd yn ddiau yn gaethwas, ac yn feddiant i'w feistr fel rhyw nwyddau eraill. Bwriedid y dyn du yn was i dad ei berchenog; ond nid oedd y goruchwyliwr yn ewyllysio ei gael, nac yn meddu modd i'w gadw. Anfonodd ef, gan hyny, i weithio i'r gwaith plwm fel dynion eraill y gymydogaeth. Aeth y negro i letya at deulu crefyddol, lle yr oedd darllen y Beibl a gweddi yn cael eu defnyddio; dysgodd y truan ddeall yr iaith yn fuan, a thrwy y moddion teuluol a chyhoeddus, dychwelwyd yr estron pellenig

hwn at "Dduw yr holl ddaear." A mawr fu ei orfoledd lawer gwaith wrth glywed fod yr un "Arglwydd ar bawb, yn oludog i bawb a alwent arno."

Yn y fl. 1795, daeth Mr. John Edwards, gynt o Ereiniog, sir Gaernarfon, i fyw i dyddyn cang, o'r enw Gelligynan, rhwng Llanarmon a Llandegla. Ganwyd John Edwards yn y fl. 1755; pan oedd yn agos i 20 ml. oed dygwyddodd iddo, yn nghyda rhyw gyfoedion gwamal fel ef ei hun, fyned o flys neu fympwy i Hendre-hywel,* tyddyn yn mhlwyf Penmorfa, ac o fewn tua dwy filldir i'w gartref, i wrando pregeth. Y pregethwr oedd Mr. John Pierce; effeithiodd y bregeth yn ddwys iawn ar ei feddwl; nid anghofiodd y tro byth. Yr oedd yn Llanfihangel-y-Pennant, plwyf yn cyffinio â'i blwyf ef, weinidog llafurus iawn yn eglwys y plwyf, o'r enw Mr. Hughes; yr hwn, ar gyfrif maintioli ei gorff, a elwid "Hughes Fawr." Yr oedd y gŵr hwn yn rhagori llawer ar bersoniaid ei oes a'i wlad, ar gyfrif ei ddawn, a'i lafur; ac o ran ysbryd diragfarn at y crefyddwyr. Defnyddiwyd ef hefyd, nid oes amheuaeth, fel offeryn i droi llawer at gyfiawnder. Daeth John Edwards i gydnabyddiaeth â Mr. Hughes, ar ol iddo glywed y bregeth uchod; ac ar y pryd yr oedd ei feddwl mewn dirfawr drallod yn nghylch ei gyflwr gyda Duw. Teimlai angenrheidrwydd am ymgeledd ysbrydol, ond ni wyddai pa le i droi. Annogai ei dad ef, wrth weled ei ogwyddiad presenol, i fyned i'r ysgol; ac ymbarotoi i fod yn offeiriad, gan ddangos parodrwydd i'w gynorthwyo i hyny. Cynghorai eraill ef i ymuno â'r Annibynwyr, gan y rhai yr oedd achos yn Mhwllheli, neu yn nes ato yn Nghapel-helyg. Ond ar y Methodistiaid yr oedd ef yn arfer gwrando, pan y dygwyddai ddyfod pregethwr i'w gyrhaedd; ac wrth wrando arnynt hwy y derbyniasai ei argraffiadau crefyddol cyntaf. Tra yr oedd yn y benbleth hon, ac yn anmhenderfynol ei feddwl, gosododd ei achos o flaen Mr. Hughes, gan ofyn ei gyfarwyddyd. Yntau a'i cynghorodd, gan ddyweyd, "Gwell i ti, Siôn, aros wrth y cwp-bwrdd lle yr wyt ti yn cael bwyd." Teimlodd briodoldeb y cynghor, ac ymdawelodd i fwrw ei goelbren gyda'r Methodistiaid, er maint yr anfanteision cysylltiedig â hwy.

Yr oedd John Edwards yn radd o fardd neu o leiaf yn rhigymydd, a chryn barodrwydd i gyfansoddi ganddo. Cyn ei ddwyn dan ddwysder meddwl, cyfansoddasai lawer o ganeuon, lled oferwag; ac yr oedd ar ganol cyfansoddi "*Interlude,*" pryd y safodd gras Duw ar ei ffordd, ac a waharddodd iddo fyned rhagddo. Rhoes heibio yn y canlyniad bob oferedd o'r fath, ac a ymunodd â'r gymdeithas eglwysig oedd yn Mryn-engan, neu yn Hendre-hywel; a gwnaeth ei gartref gyda'r cyfundeb o hyny allan. Fel yr oedd yn cynyddu mewn gwybodaeth, ac yn dwysâu mewn profiad, daeth ei gymhwysder i fod yn ddefnyddiol i eraill, yn fwyfwy i'r golwg; a galwyd arno i fod yn aelod yn nghyfarfod misol y sir. Tua'r fl. 1787, pan oedd yn 32 ml. oed, annogwyd

* Fel uchod y dywed John Humphreys yn y cofiant byr am dano yn y "*Goleuad,*" am 1824; ond ysgrifena ei fab, Mr. E. Edwards, ychydig yn wahanol. Dywed yr olaf mai yn yr awyr agored, ar y traeth, tua'r fan y mae Tremadoc yn awr yn sefyll arno, yr oedd y bregeth gyntaf hon.

ef i arfer ei ddawn yn fwy cyhoeddus, trwy gynghori pechaduriaid. Cydsyniodd yntau â chais ei frodyr yn hyn, ac ân ysbaid saith mlynedd, bu yn llafurio yn y wedd yma yn ei fro enedigol.

Yn y cyfamser daeth un o olynwyr yr apostolion (?) i fod yn oruchwyliwr i'r gŵr boneddig a biai y tyddyn yr oedd yn byw ynddo; y lle y ganesid ef, a'r lle y trigasai ei henafiaid er cyn cof. Pan ddeallodd y gŵr parchedig fod John Edwards yn arfer pregethu gyda'r Methodistiaid, cythruddodd yn drwm; a phenderfynodd na oddefid i'r fath ysgelerder barhau. Yn y canlyniad nid oedodd anfon rhybudd iddo y byddai raid iddo ymadael â'i dŷ, a'i dyddyn. Wedi iddo gael y rhybudd, aeth yn y fan i ymofyn â'r offeiriad am yr achos o hono, a chafodd hysbysiad difloesgni, mai o achos ei fod yn pregethu gyda'r Methodistiaid y rhoddasid y rhybudd; ac y byddai raid iddo, os mynai aros yn y tyddyn, roddi heibio bregethu. Pa fodd y gallai gweinidog protestanaidd arfer y fath drais ar gydwybod dyn, sydd yn sŷn. Ni allesid dysgwyl yn amgen oddiwrth offeiriad pabaidd, yr hwn a broffesa anffaeledigrwydd i'w eglwys ei hun, ac mai gweithred ganmoladwy ydyw gorthrymu, lladd, a llosgi hereticiaid. Ond pa fodd y mae y fath drahâ gormesol yn mysg protestaniaid? Y gwir ydyw, mewn *enw* y mae y cyfryw yn brotestaniaid, ond mewn *gwirionedd*, gwadant rydd-egwyddorion protestaniaeth.

Nid oedd lle i ymliw â'r gŵr urddasol. Yr oedd y penderfyniad wedi ei wneyd, ac ni fynai na'i newid na'i leddfu: ond galwodd ar John Edwards i gymeryd ei ddewis, y tyddyn, neu y weinidogaeth, y ddirwy neu ei gwdwybod, colled neu ddyledswydd. Gan nad oedd dim i'w wneyd ond pechu neu ddyoddef, disgynodd yntau yn ddibetrusder ar yr olaf, gan "adael ar y neb oedd yn barnu yn gyfiawn." Nid yw yr ysbryd gorthrymus hwn ddim wedi marw eto. Mae cyfreithiau y wlad yn ei lyffetheirio; a theimladau dynoliaeth, a syniadau y cyffredin, yn enyn gradd o wylder ynddo; eto nid yw wedi colli ei anadl yn llwyr. Gwelir yr ewyllys lle mae y gallu eto; ac nid oes ar y pabyddion cuddiedig hyn, ond eisiau y cyfleusdra, nad adeiladent eu traws-awdurdod eu hunain, ar adfeilion rhyddid crefyddol.

Nid oedd gan John Edwards ddim i'w wneyd ond chwilio am dyddyn arall. Troes ei lygad yn gyntaf oll ar ei sir ei hun, ac wedi hyny ar wlad Môn, gan y barnai fod Methodistiaeth wedi gwreiddio yn ddyfnach ynddynt nag yn siroedd Dinbych a Fflint; ond nid oedd un drws yn ymagor. Yr oedd yr amser yn neshau pan y byddai raid ymadael, a theimlai ei hun mewn profedigaeth ddwys, gan nad oedd ganddo un lle i fyned iddo. Yr oedd bellach wedi priodi, ac anhawdd oedd ganddo ymddyosg oddiwrth y teimladau a godent oddiar hir drigiant ac ymsefydliad mewn lle. Ond pan oedd pob drws wedi cau, a chwmwl tywyll yn gorwedd ar ei hynt ddyfodol, anfonodd rhyw un iddo bapyr newydd, yn cynwys hysbysiad fod tyddyn helaeth, yn swydd Dinbych, ar osod. Y tyddyn hwn oedd Gelligynan, gerllaw Llanarmon-yn-iâl. Penderfynodd fyned i edrych y lle; ac ar ei ffordd lletyodd

yn y Bala; a'r noson hono teimlodd yr ysgrythyr, "Hwynt hefyd, ac amgylchoedd fy mryn a wnaf yn fendith," yn ymaflyd yn ei feddwl. Boreu dranoeth galwodd heibio i Mr. Charles, gan adrodd y gair a ddygasid at ei feddwl. Cysurodd Mr. Charles ef, gan ychwanegu mai addewid oedd y gair crybwylledig, y byddai yr Arglwydd gydag ef i'w fendithio.

Wedi edrych dros y tyddyn, a deall yr amgylchiadau cysylltiedig, efe a farnodd mai ei le ydoedd ei gymeryd. Felly, yn y fl. 1795, symudodd i Gelligynan i fyw. Dyddorol fyddai cymeryd golwg ar wedd Methodistiaeth yn y wlad y daethai iddi. Nid yw yn ymddangos fod yr un pregethwr ar gael, o'r Wyddgrug i Langollen, ac o Wrecsam i Blas-ashpool, y pryd hwnw, oddi eithr fod William Lewis, neu Evan Llwyd, yn yr Adwy; yr oedd Lewis Llwyd eto, tybygid, heb ddyfod i'r Chwarelau; John Jones, yn unig, oedd ar gael yn Nghaergwrle. Yr oedd yma ddarn mawr a phoblogaidd o wlad, heb nemawr ddarpariaeth gogyfer a'i hangen ysbrydol; lle nad oedd ar y pryd, o gapelau gan y Methodistiaid, ond un yn Llangollen; un yn Rhosllanerchrugog; ystafell fechan yn Wrecsam; un yn Adwy'r-clawdd; ac un yn Llanarmon. Ac nid oedd yn yr holl ddosbarth a berthyn i gyfarfod misol sir Fflint, ond tri neu bedwar yn ychwaneg. Lle nad oedd ond wyth o gapelau, y mae yn awr driugain; a lle nad oedd ond saith neu wyth o bregethwyr, y mae yn awr bymtheg-ar-hugain.

Bu llafur John Edwards, yn ystod yr amser y preswyliai yn Ngelligynan, yn ddefnyddiol dros ben yn y parth deheuol, o sir Fflint grefyddol. Pregethwr *plaen*, fel y dywedir, oedd John Edwards, tra ymarferol. Codai ei lef yn neillduol yn erbyn pechodau cyhoeddus ei gydwladwyr. Dynoethai arferion llygredig y wlad. Nid oedd cyfansoddiad trefnus ar ei bregeth, ac ni arhosai gymaint uwch ben y testyn a gymerai; eithr arferai loffa yn ol a blaen, a dilynai y drychfeddwl a lewyrchai i'w feddwl ar y pryd. Yr oedd ganddo lais peraidd a chlir; a chof gan yr ysgrifenydd glywed, pan yn blentyn, syniadau y bobl am dano, fel dyn parchus, a phregethwr serchog. Hoff iawn oedd ganddo ef fyned i ardaloedd amddifaid ei wlad; a llawer oedd o honynt, i draethu yn yr awyr agored, y newyddion da am Geidwad.

Ymddengys mai efe a fu gyntaf yn pregethu yn Mhryn-eglwys. Safai y tro cyntaf y bu yno ar faen mawr, ar y Rhos; yr hwn oedd ar y pryd, a thros flynyddau wedi hyny, yn gyttir mawnoglyd a diffaeth. Cyn ei ddyfod, aethai y gair allan fod "*person y Cariadocs,*" a ddaethai i fyw i Gelligynan, yn dyfod yno i bregethu. Ymgasglodd yno dyrfa fawr *i'w weled;* a daeth rhai, yn ddiameu, yno i wrando. Yr oedd gŵr cyfrifol yn y byd, ac yn arfer pregethu gyda'r Methodistiaid, yn wrthddrych na welsai trigolion Bryn-eglwys erioed, a mawr oedd eu hawydd i gael golwg ar y fath un yn awr.

Gan mai efe oedd yr unig bregethwr, oedd yn byw yn y rhanau hyny o'r wlad, arferai fyned iddynt yn fynych; megys i'r Chwarelau, Llwydiarth, Lodge, a manau amddifaid o'r fath. Dywedir, fod ganddo dŷ dan ardreth yn y Chwarelau; ac y gofalai fyned yno ar ryw adegau rheolaidd, heblaw bod yn

atebol am yr ardreth dros ryw dymhor; fe allai fod hyn, cyn yr amser y daethai Lewis Llwyd yno i breswylio. Soniai am un tro neillduol, yr hwn a barodd gryn ofid iddo ar y pryd; tro nad oedd hoff ganddo ei adgofio. Yr oedd wedi ei gyhoeddi i bregethu yn un o'r ardaloedd amddifaid a enwyd, nid yw yn hysbys pa un; a chlywodd, cyn myned yno, fod bwriad a darpariad yn bod i'w erlid a'i faeddu. Cododd hyn ofn arno, ac yn lle myned rhagddo, diangodd adref. Bore dranoeth gorchymynodd i'r porthwr, neu y buchwr, droi y gwartheg godro i'r meillion *(clover)*; y canlyniad fu i un o'r buchod goreu a feddai chwyddo a marw. Ystyriai byth y tro hwn yn gerydd arno am ddianc, fel Jonah, yn lle myned i'w gyhoeddiad. Dywedai, pe yr aethwn i'r lle y dylaswn fyned, ni fuaswn gartref bore dydd Llun i roi y gorchymyn a roddwyd i'r buchwr; ac felly achubasid y fuwch.

Yn ol dim hanes sydd genym, efe oedd y cyntaf, o'r Methodistiaid, a bregethodd i'r glowyr yn Harwood, neu Brymbo. Buasai cyn hyn yn pregethu yn Nghaergwrle, pryd yr oedd dyn mawr, meistrolgar, o'r enw Edward Hopwood, neu 'Ned Habwt,' fel y gelwid ef, yn ei wrando. Ymddengys i 'Ned' gael rhyw flas ar y bregeth, oblegid wrth gyd-deithio tuag adref, gyda'r hen bererin John Ellis, Cymau, gofynodd, "A oes dim modd cael y dyn yna i i bregethu i bechaduriaid Harwood?"

"Mae arnaf ofn," atebai John Ellis, "na cha'i e ddim llonydd genych."

"Caiff," ebe Ned, "myn d—l, mi edrycha' i am chwareu teg iddo."

Pa fodd bynag, myned a wnaeth ryw Sabboth; ac nid heb radd o arswyd. Safodd y pregethwr yn nghysgod rhyw berthen ar ochr y ffordd, a 'Ned' yn ffyddlon i'w air, a safai gerllaw. Wedi gweddio, a chymeryd testyn, wele ddyn meddw, neu un yn cymeryd arno fod felly, yn dyfod yn mlaen, gan ymwthio trwy y gynulleidfa; a siarad yn uchel a chynhyrfu, hyd nes y daeth, heb feddwl, i ymyl 'Ned.' Yr oedd yn amser, bellach, i amddiffyn y pregethwr, os ei amddiffyn a wneid: 'Ned,' yntau, yn ol ei addewid, a ymaflodd â'i law chwith yn ngwddf y terfysgwr, gan ei wthio yn wysg ei gefn allan o'r dyrfa, ac â'i law ddehau a'i tarawodd yn ei safn nes oedd yn swp ar lawr; "Dos," eb efe, "a golch dy geg, a gad y gŵr yn llonydd, onide, ti gei' 'chwaneg."

Yn y fl. 1811, symudodd John Edwards o Gelligynan i'r Plas-coch, tyddyn helaeth yn agos i'r Gellifor, yn Nyffryn-clwyd. Nid oedd yn yr ardal hon, ychwaith, yr un capel, yr un ysgol Sabbothol, na'r un ganghen eglwys, ar ei ddyfodiad ef iddi; ond bu ei ymdrech ef, a'r eiddo yr hen frawd ffyddlawn Edward Simon, yn foddion i godi achos blodeuog yn y lle hwn.

Yn y fl. 1817, symudodd drachefn i Blas-yn-nghaerwys. Yr oedd ei nerth a'i iechyd, bellach, yn deehreu anmharu; eto dangosodd yr un parodrwydd i ymweled ag ardaloedd tywyll ac amddifaid ei wlad. Gwnai ymdrech mawr i fyned i Gronant, Perth-y-bwl, Mostyn, a'r Cwm; lleoedd yn y dosbarth mwyaf gogleddol i sir Fflint; a lleoedd nad oedd eto yr un achos sefydlog gan y Methodistiaid, na chan neb arall; oddieithr ambell oedfa ddamwein-

iol. Mewn cysylltiad â William Thomas, Calcoed, bu yn offeryn i godi achos siriol yn Mhryn-y-cloddiau, lle y mae capel y Babell yn awr.

Yr oedd llafur cenadol, ac arloesi tir newydd, yn orchwyl hoff ganddo. Gofidus oedd ganddo na allasai fyned i'r lleoedd anial hyny yn amlach; ac nid gormod oedd ganddo, gymeryd tamaid o luniaeth yn ei logell, er mwyn myned i'r fath leoedd, pryd nad oedd dim i'w gael; ond da cael hamdden a llonydd i bregethu. Ei ddywediad mynych yn niwedd ei ddyddiau, oedd, nad oedd dim yn gorwedd yn esmwythach ar ei deimlad, o'i holl lafur dros ei oes, na'r ymdrech a wnaethai i ymweled â manau, ag oeddynt, mewn ystyr grefyddol, yn anial ac anniwylliedig.

Cof ydyw genyf finau am John Edwards, pan ydoedd yn Plas-coch, ei fod yn dangos awyddfryd mawr i gael pregethu i Saeson y Goror. Yr oedd ef ei hun yn Gymro uniaith; eto, yn hyn gwahaniaethai oddiwrth y rhan luosocaf o'i gydwladwyr; sef yn ei awyddfryd cryf i'r trigolion tywyll, ar dueddau Lloegr, gael pregethu yr efengyl iddynt. A chof genyf hefyd, pan oedd yn byw yn Gelligynan, tua'r fl. 1807, ei fod ef, er nad oedd yn deall un gair ymron o bregeth Saesoneg, yn mysg y fintai a aeth gyda Thomas Edwards, Liverpool, i ymweled, ar Sabboth yn yr haf, â Bangor-is-y-coed, Worthenbury, ac Overton, yn ngwaelodion Dyffryn Maelor. Prawf diymwad, mai hoff iawn oedd ganddo yr amcan, er na allai ef wneuthur nemawr o wasanaeth tuag at ei gyrhaedd.

Nid hir y bu Mr. John Edwards fyw ar ol iddo symud i drigiannu i Blas-yn-nghaerwys. Daeth yno yn y fl. 1817, a bu farw yn 1823. Dyoddefasai lawer oddiwrth ddolur y gareg, ac ymddangosai fod yr arteithiau cysylltiedig â'i afiechyd wedi gwanychu ei gyfansoddiad drwyddo, ac o'r diwedd ymostyngodd yn ddiddig i'r oruchwyliaeth ddiweddaf; yr hon a roes ei enaid yn rhydd i ehedeg adref.

CILCAIN.

Mae y pentref hwn yn gorwedd am y mynydd a Chapel y Dyffryn; ond er nad oes dim pellder mawr o ffordd rhyngddynt, eto o herwydd y mynydd mae y ddwy ardal yn lled ddieithr i'w gilydd. Ymddengys fod yma bregethu, achlysurol o leiaf, gan y Methodistiaid, mor gynar a'r fl. 1762. Dywedai yr hen bobl ddarfod cynal cyfarfod misol, neu ynte rhyw fath o gyfarfod pregethu y pryd hwnw, yn mhen y mynydd, ar ryw gyttir yn agos i le a elwir Ty-ucha'r-llan; a thystiai hen ŵr, o'r enw Dafydd Thomas, yr hwn oedd yn y cyfarfod, mai dau offeiriad oedd yn pregethu ynddo; nid yw enwau y gwŷr ar gael. Bu cyfarfod arall, ar ol yr un uchod, yn llan Cilcain. Cynaliwyd ef yn muarth tŷ tafarn, dan arwydd y "Llew Coch." Yn y cyfarfod hwn yr oedd amryw o hen bobl y gymydogaeth, y rhai a dystient fod Dafydd Morris, Deheudir, yn pregethu ynddo. Mae amgylchiad arall yn

gwirio hyn, "oblegid," medd fy hysbysydd,* "mi fum yn siarad â hen wraig a fu yn golchi ei grys ef y tro hwn; yr hon a ryfeddai lawer at faintioli ei *goler;* 'yr hon,' meddai yr hen wraig, 'oedd yn llawn llathen o hyd!'" Nid oes dim hanes genym am effeithiau y cyfarfodydd hyn; nid, fe allai, am na fu effeithiau, ond am na chafodd neb ar ei galon, pan oedd hyny yn ddichonadwy, eu holrhain a'u croniclo i'r oes ddyfodol.

Nid llawer o erlid a fu ar y Methodistiaid yn y lle hwn, ychwaith. Priodolir y llonyddwch, pa fodd bynag, yn gyntaf, i absenoldeb y periglor; ac yn nesaf, i berffaith ddiofalwch y curad. Ar y pryd, yr oedd y periglor yn byw yn Nhreffynnon, ac yn ficer y plwyf hwnw. Yr oedd y curad a wasanaethai dano yn Ngilcain, yn fwy am ymladd ceiliogod nag am ddim arall; yr oedd y difyrwch (!) hwn yn llenwi cymaint ar ei fryd, ac yn galw am gymaint o'i amser, fel nad oedd ganddo na blys na seibiant at ddim arall. Dygwyddodd iddo ef, ac offeiriad Nanerch, unwaith amrafaelio yn y *pit* ceiliogod, ac ymladd â'u gilydd; curad Cilcain a fu drechaf hefyd yn y ffrwgwd, ond disgynodd cyrch o edifeirwch arno yn fuan, am iddo faeddu ei gydymaith; a theimlai yn bryderus i wneyd y rhwyg i fyny, er na wyddai yn iawn pa fodd. Bore dranoeth, pa fodd bynag, anfonodd y clochydd ato i ofyn iddo ddyfod i gladdu rhyw un yn ei le ef, gan obeithio y dangosai hyny, nad oedd dim oerfelgarwch yn aros yn ei fynwes ef tuag at ei frawd; ac y buasai yn foddion i'w ymlid ymaith, os oedd dim yn llechu yn mynwes ei gyfaill. Aeth y clochydd, a gofynodd iddo, a ddeuai efe i gladdu y marw dros y curad? "Na ddeuaf fi," oedd yr ateb, "am iddo fy maeddu yn y '*Four Crosses*,' yn y *cockin*." Dychwelodd y clochydd, ond penderfynodd ar y ffordd i ddyweyd wrth ei feistr yn gwbl groes; "a'r unig dro erioed," meddai y clochydd, "y gwelais i gelwydd yn llwyddo." Pan glywodd y curad yr ateb cysurus, fe siriolodd drwyddo, ac a barodd gyfrwyo y ceffyl iddo; ac i ffordd âg ef i Nanerch, i ddiolch i'w frawd parchedig, am ei barodrwydd; ac yn edifeiriol i gydnabod ei fai yn ei faeddu, fel y gwnaethai y dydd o'r blaen. Y diwedd fu i gymod gymeryd lle rhyngddynt; ac i selio y cytundeb, aeth y ddau i'r dafarn, i foddi pob teimlad yn syfrdandod y gwpan feddwol. Y cyfryw, gan amlaf, oedd athrawon y bobl yn y ddeunawfed ganrif!

Gwnaed cais tra erchyll unwaith i niweidio, os nad i ladd pregethwr yn y pentref hwn. Yr oedd rhyw bregethwr, perthynol i'r sir, yn cadw oedfa yn y llan; safai wrth gongl efail gôf, a sypyn bach o gynulleidfa o'i ddeutu; yr oedd yno hefyd ryw erlidiwr, o'r enw Barnes, yr hwn oedd yn llygadu am fantais i wneuthur niweid i'r pregethwr. Aeth hwn yn ddirgelaidd i ben tô yr efail o'r tu cefn, yn union gyferbyn â'r pregethwr; gan gario gyd âg ef, gareg o fawr bwysau, ar y bwriad o'i gollwng ar hyd y tô ar ben y pregethwr. Ond dygwyddodd, hefyd, fod yn yr oedfa ddyn cadarn nerthol, yr hwn yr oedd ei arswyd ar y plwyfolion; hwn a safai ar gyfer y pregethwr, ac a

* Mr. John Adams, Cilcain.

welai yr adyn yn d'od i'r golwg ar grib y tô. Deallodd yn y fan ei amcan, a chan gau ei ddwrn, efe a waeddodd arno yn groch, "Barnes, bydd lonydd, ac onide, mi dy *settla* i di." Achubodd hyn y pregethwr rhag ei anafu, neu rhag ei ladd; a chafwyd llonyddwch perffaith i gadw yr oedfa. Y gŵr a wnaeth hyn oedd John Jones, Plas-Yw.

Yn fuan wedi y tro hwn, aeth y John Jones yma, yn ol ei arfer, i wylmabsant Llaneurgain; lle yr oedd modryb iddo yn byw; a lle yr oedd rhedeg ceffylau, neu fulod, i gymeryd lle, er difyrwch i bobl yr ŵyl. Wedi ciniawa yn nhŷ ei berthynas, aeth i'r maes i weled y *race;* ond yn y fan, tarawodd ei gydwybod ef yn ofnadwy; rhoddwyd diflasder mewn mynyd ar yr holl ddigrifwch. Gwingodd ei oreu yn erbyn y swmbwl; ceisiodd ei eithaf ysgwyd ymaith ei ofnau, ond y cwbl yn ofer. Teimlai fod llygad yr Anfeidrol arno, a'i fod yntau ar dir gwaharddedig. Diflanodd y pleser, fel ffagl drain, a thywyllwch arswydlawn a feddiannai ei enaid. Aeth yn ol i dŷ ei fodryb, yr hon a ofynodd, "A welaist ti y *race* Jack?"

"Naddo, myn difri'," oedd yr ateb; "yr ydw' i yn meddwl yn siwr yr âf fi adref; nid wyf yn clywed fy hun yn bur iach." "O na," meddai ei fodryb, "myn wel'd y *race;* fe fydd yna gryn *sport* yn y man."

"O na," oedd yr ateb, "adref yr âf fi." Yna cyfrwyodd y merlyn ar ffrwst, a phrysurodd i ffordd. Wedi cyrhaedd adref, gofynai ei fam iddo drachefn mewn syndod,—

"Yn enw dyn, Jack, beth doist ti adre', yrwan? A wyt ti wedi gwirioni? A welaist ti y *race*?"

"Naddo, myn difri'," atebai y llanc, "nid oeddwn yn teimlo fy hun yn iach."

Y canlyniad a fu i'r gŵr parchus hwn, roi "heibio yr hen bethau," ymroddi i ymarfer â moddion gras, ac ymuno â'r crefyddwyr; a pharhaodd yn addurn i'w broffes hyd ddydd ei farwolaeth. Hyd heddyw, hefyd, y mae ei hiliogaeth ef yn deulu parchus a dichlynaidd gyd âg achos Mab Duw.

Yr ysgogiad nesaf yn Methodistiaeth Cilcain ydoedd dyfodiad un Thomas Roberts a'i wraig, i fyw i amaethdŷ, o'r enw Tŷ'n-y-caeau. Bu y gŵr hwn yn offeryn i ddwyn pregethwyr i'r ardal; rhoes ei dŷ hefyd i gynal y moddion ynddo. Yn ei dŷ ef y cadwyd y cyfarfod eglwysig cyntaf yn y plwyf. Ar yr achlysuron hyn, arferent anfon y plant i'r gwely, gan na chaniateid iddynt fod yn bresenol, oddiar y dyb mai niweid a fuasai hyny iddynt hwy, ac i'r achos hefyd. Un tro, pa fodd bynag, ar gyfarfod eglwysig, torodd yn orfoledd mawr yn mhlith yr aelodau, a deffrowyd y plant; a chodasant mewn cyffro mawr i ben y grisiau, gan ymofyn yn ddiniweid beth a allasai yr achos o'r cynhwrf fod. Bu hyn yn achlysur i'r plant gael dyfod i'w plith, nid yn unig y tro hwnw, ond i barhau; ac y mae yn beth nodedig fod llawer o'r teulu hwn, yn blant, yn ŵyrion, ac yn or-ŵyrion, a'u hysgwyddau dan arch Duw hyd heddyw.

Ymddengys i Thomas Roberts symud ryw bryd o Dŷ'n-y-caeau i'r Tŷ-

newydd, Cilcain, i fyw; ac wrth yr enw olaf yr adwaenir y teulu oreu. Sonir llawer am wraig Thomas Roberts, fel un o "rai rhagorol y ddaear." Yr oedd hynodrwydd arni am ei ffyddlondeb a'i gwasanaethgarwch i achos Mab Duw; a hyny mewn amser o iselder a gwarth. Yr oedd y wraig hon megys oracl yn ei theulu, ac yn seren ddysglaer yn mysg y crefyddwyr oll. Adroddir hanesyn am dani, fel drych i ddangos ei hysbryd ymroddgar gyda gwaith yr Arglwydd. Yr oedd cyfarfod i weddio wedi ei gyhoeddi unwaith i gael ei gynal mewn lle a elwir Pant-y-mŵn, oddeutu tair milldir o Gilcain, yn nhŷ un Thomas Hughes, yn nyfnder y gauaf; yn y cyfamser disgynodd cawod drom o eira ar y ddaear, ac erbyn noson y cyfarfod, yr oedd yn haner llath o eira gwastad. Wrth ganfod y tywydd, dywedai gwas Thomas Hughes, yr hwn oedd ŵr crefyddol, wrth ei feistr, mai ychydig nifer a ellid ddysgwyl i'r cyfarfod. "Ni ddaw yma neb yn siwr i ti," meddai y meistr. "O daw;" atebai y gwas; a chydag iddo ddyweyd y gair, dyma George Kirkham i mewn. "Oni ddywedais i," ebe y gwas, ac fe ddaw ychwaneg eto." "Pwy wyt ti yn ei ddysgwyl?" gofynai y meistr, "âi yr Ysbryd Glân?" "Ië," ebe ynteu, "a Mary Roberts, Tŷ'n-y-caeau!" "Anmhosibl!" oedd yr ateb, "trwy y fath eira." "Mae hi yn siwr o ddyfod," ebe y llall; a chyda'r gair, wele y wraig gerllaw. Temtir ni agos i ddyweyd mai rhyfyg ynddi oedd anturio allan ar y fath dywydd; ond, nid felly y cyfrifid ef gan Dduw; oblegid bu yn Mhant-y-mŵn gyfarfod rhyfeddol y noswaith hono; cyfarfod, meddai un o feibion y tŷ, a adawodd ei ol ar bob perchen enaid yn y lle.

Y moddion nesaf, a fu o ddefnydd i roddi ysgogiad i'r achos yn ei flaen, oedd gwaith Mr. Charles, ar ddymuniad Thomas Roberts, yn anfon un Evan Roberts i gadw ysgol Gymraeg, ddyddiol a nosol, yn yr ardal. Cadwyd hi ar y cyntaf mewn tŷ ar dir Thomas Roberts; ac wedi hyny, mewn lle mwy cyfleus, yn agos i'r fan y mae y capel presenol arno. Bu yr ysgol hon o fawr wasanaeth i'r achos yn y lle, trwy fod yn fendith i laweroedd. Erbyn hyn, gwelwyd angenrheidrwydd cael capel yn y gymydogaeth. Yr oedd y gwrandawyr yn lluosogi, a'r tŷ anedd yn myned yn rhy gyfyng. Ymofynwyd, gan hyny, am dir, a chafwyd ef gan wraig gyntaf Mr. Jones, Dinbych; ac adeiladwyd y capel; yr oedd hyn yn y fl. 1806.

Bellach, cafwyd moddion mwy cyson i'r gymydogaeth; ac nid hir o amser a fu cyn sefydlu ysgol Sabbothol yn y lle; yr hon oedd, tua'r amser hwn, yn ymledaenu yn gyflym dros y wlad. Yn y dyddiau hyny, yr oedd gwylmabsant Cilcain, a chôd-wen Caergwrle, yn nodedig yn mhlith cyfarfodydd llygredig yr oes. Yn y cyfarfodydd hyn, yr oedd drygnaws y galon yn cael rhydd arllwysiad, ar ol bod yn croni dros dymhor; ac anhawdd ydyw dychymygu, ac anhaws fyth fyddai traethu, pa mor rymus oedd y genllif. Yr oedd y rhysedd a gyflawnid yn y cyfarfodydd hyn, yn "ormod." Rhedai y ffieiddra dros y llestri; parai, i'r ddaear alaru, ac i'r awyr ddrewi. Teimlodd y brodyr yn Nghilcain, angenrheidrwydd i ymosod ar yr anfadrwydd hwn.

Ffurfiwyd mater i arholi deiliaid yr ysgol Sabbothol arno, i ddynoethi drwg a niweid y cyfryw gyfarfodydd; a phan y daeth yr amser, cafwyd cyfarfod llewyrchus iawn, fel ag yr oedd y gynulleidfa yn ymwasgaru o hono dan argyhoeddiad sicr, mai eu lle oedd gosod eu hwynebau yn erbyn y fath gyfarfodydd llygredig o hyny allan.

Yr oedd cael cydweithrediad y prif dafarnwr yn fantais fawr i roddi terfyn ar yr ŵyl. Y gŵr a gadwai y brif dafarn, y pryd hwnw, oedd un William Hooson. Yr oedd y gŵr hwn o dymher annhyblyg iawn, ac nid oedd dim a wnelai ef, na neb o'i deulu, â chrefydd. Yr oedd hefyd, ar y pryd, wedi bod yn llwyddiannus iawn mewn gwaith plwm; efe a nifer o rai eraill yn gyfranogion âg ef; ac yn eu mysg, un gŵr crefyddol, o'r enw Mr. John Adams. Cafodd y gŵr olaf hwn ar ei feddwl geisio gan Hooson gau ei ddrws ar Sabboth y gwylmabsant, ond pa fodd i dori ato ni's gwyddai, a theimlai yn dra phryderus rhag iddo aflwyddo. Gwyddai yn dda os ca'i ef addewid o'r fath ganddo, y byddai ei air fel llw, ac y cyflawnai yr hyn a addawai. Wrth gydfyned ag ef at y gwaith plwm un boregwaith, torodd Adams ato gan ofyn:—

"A wnewch chwi un peth a geisiaf genych?"

"Gwnaf," ebe Hooson, "os gallaf."

"Mae y Duw mawr," chwanegai Adams, "wedi ein llwyddo yn rhyfedd yn y dyddiau hyn; a ninau a ddylem ei gydnabod yntau. Yn awr, gofynaf i chwi, a gawsoch chwi elw ryw dro, wrth gadw y gwylmabsant?"

"Naddo, yn wir, erioed," oedd yr ateb.

"Wel, ynte, a gaf fi genych addaw na chaiff na ffidl, na thelyn, na dawns, fod yn eich tŷ ar y diwrnod hwnw?"

"Wel, gwnaf," ebe Hooson, "gyda help Duw."

Yr oedd yr amcan, bellach, wedi ei gyrhaedd, gan i'r gŵr roddi ei air; a safodd at ei addewid. Ar ddiwrnod yr ŵyl, dyma'y crythwr, yr hwn a elwid "y ffidler dwylath," oblegid ei faintioli, yn dyfod yn ol ei arfer at y tŷ. Ar waith y gŵr yn ei weled, dywedai wrth y wraig a'r forwyn, "dacw fe yn dwad; ewch i'w gyfarfod, a dywedwch wrtho, am droi yn ol can gynted ag y gallo, neu y bydd ei ffidl iddo yn *speils* yn erbyn y pared!" Deallwyd yn y fan, nad oedd yma ddim croesaw mwy; a bod difyrwch y gwylmabsant wedi darfod yn Nghilcain. Fel hyn, y terfynodd am byth; a hyny mor llwyr, nad yw yr oes bresenol, prin yn deall yr enw gwylmabsant!

Hynod yw ychwanegu, ddarfod i'r tafarnwr, yr hwn a fuasai yn berffaith estronol i grefydd o'r blaen, ddechreu, ar ol cymeryd y cam a wnacthai, ddyfod i wrando, ef a'i deulu; ïe, daeth y rhan amlaf o'i deulu, cyn hir, i ymuno ag eglwys Dduw, ac un o'i feibion yn swyddog eglwysig.

Yn y fl. 1832, ymwelodd yr Arglwydd a'i achos yn yr ardal hon ag adfywiad tra hynod; y fath na welwyd, yma o leiaf, ei gyffelyb. Dechreuodd dan bregeth John Morgan, Drefnewydd. "Nid oedd," medd fy hysbysydd, ddim mawreddig yn y bregeth, ond yr oedd y fath awdurdod oddi wrth

Dduw, yn cydfyned â'r gwirionedd, nes taro y dynion mwyaf annuwiol y gymydogaeth â dallineb, ac â dychryn, fel Saul; er eu bod wedi dyfod yno dan gellwair. Tystiant hyd y dydd hwn, fod eu gwallt yn sefyll, a'u gliniau yn crynu. Yr oedd yr argyhoeddiadau mor nerthol, yn yr oedfa hon, a than y weinidogaeth y Sabbath canlynol, nes dyrysu synwyr rhai, dros dymhor; a dynion caletaf y fall a glybuwyd yn gwaeddi yn groch am eu bywyd. A hynod yw adrodd, daeth 55 i'r gymdeithas eglwysig yn yr adeg; a pharhaodd y cwbl, ond dau, i fod yn addurn i'w proffes hyd y dydd hwn. O'u mysg, cododd rhai yn bregethwyr, ac eraill, yn ddiaconiaid; a rhai a alwyd cyn hir, allan o'r byd hwn, gan adael tystiolaeth dda ar eu hol."

Yn awr, y mae Methodistiaeth wedi ymwreiddio yn ddwfn yn y gymydogaeth; ïe, mwy, nid oes nemawr deulu, yn y plwyf, nad ydynt naill âi yn gwrando yr efengyl, neu yn aelodau eglwysig. Mae yma ddau gapel yn bresenol, a phregethu cyson bob Sabboth; ysgoldŷ hefyd, lle y pregethir yn achlysurol; a thair ysgol Sabbothol, yn cynwys gyd a'u gilydd, tua 300 o ddeiliaid dan addysg. Mae Mr. John Adams, un o'r swyddogion, yn cofio nifer yr aelodau yn bump, yn awr y maent yn 300; a chofia y gynulleidfa yn hanner dwsin, yn awr y mae yn 500, o fewn y plwyf. Hyfryd ydyw ychwanegu, er pob ymosodiad a fu ar yr achos, ei fod hyd yn hyn, a golwg cynyddol arno; addefir yn rhwydd a diolchgar, mai bys Duw a wnaeth hyn. "Nid trwy lu, ac nid trwy nerth, ond trwy fy Ysbryd i, medd Arglwydd y lluoedd."

MAES-HAFN.

Mae yr ardal a elwir wrth yr enw hwn, yn mhlwyf Llanferes, ychydig o'r neilldu i'r ffordd sydd yn arwain o Ruthyn i'r Wyddgrug; ac nid yn mhell oddiwrth Lanarmon; o ba eglwys y gellir golygu yr eglwys hon yn ganghen.

Dechreuodd Methodistiaeth yn yr ardal hon yn lled ddiweddar; nid wyf yn deall fod dim ymneillduaeth yn mhlwyf Llanferes, hyd o fewn llai na 40 mlynedd yn ol. Dichon fod ambell broffeswr yn byw o fewn cyffiniau y plwyf, y rhai a berthynent, naill ai i Lanarmon, neu i Gilcain; un o bob tu i'r ardal hon. Ond ryw bryd o fewn 40 mlynedd, neu lai, yn ol, daeth rhyw anesmwythder am ei gyflwr ysbrydol, ar feddwl un John Edwards; yr hwn, ar y pryd, oedd yn glochydd yn Llanferes. Teimlodd mor ddwys yn yr achos, fel yr ewyllysiai fyned i bob moddion o ras, a fyddai o fewn ei gyrhaedd; a a chan nad oedd hyny ddim yn cyd-daro yn wastad â'i swydd, penderfynodd roddi ei glochyddiaeth i fyny, ac ymwasgu â'r crefyddwyr yn Llanarmon, neu yn hytrach yn nghapel Rhyw-ial.

Ond yr oedd sefyllfa amddifad ei blwyf yn gwasgu ar ei feddwl; a theimlai awyddfryd cryf i ddwyn ysgol Sabbothol, a gweinidogaeth yr efengyl, i'w mysg. Adroddai ei deimladau wrth rai o'r brodyr yn Llanarmon; hwythau a'i hannogasant ef a Hugh Parry, i godi ysgol Sabbothol yno. Cytunodd y

brodyr â'r cais; ac ymosodasant ar y gorchwyl gydag egni tra chanmoladwy. Gan nad oedd yr un tŷ yn agored eto i gynwys yr ysgol, dechreuwyd hi *ar y brif-ffordd;* a thros ryw enyd, ni chaed iddi ond y brif-ffordd!

Clywodd yr offeiriad fod rhyw rai yn ymyraeth â'i blwyfolion, mewn ffordd o'u haddysgu; yr hyn beth a'i hanfoddlonodd yn drwm, a gosododd ei fryd ar atal yr ymgais. Daeth un Sabboth i'r fan y cedwid yr ysgol, gan arllwys anwydau digofus, yn enwedig yn erbyn yr hen glochydd :—"Ai chwi, John," meddai, "sydd yn codi *opposition* i mi? Buaswn yn dysgwyl i bawb yn y plwyf wneyd hyn o'ch blaen chwi."

"'Does dim help, Syr," atebai y clochydd, "fel hyn y mae hi wedi troi allan."

"Rhaid i chwi roi yr ysgol yma i fyny, John," ebe'r offeiriad, "ac onide, mi godaf gyfraith yn eich erbyn."

"Os felly bydd, Syr," meddai y clochydd, "rhaid dyoddef hyny, gan ein bod yn penderfynu dàl at y gorchwyl tra y caffom ryddid."

"Gwyddoch, John," ebe y person, "mai myfi ydyw bugail y plwyf hwn; ac yr wyf yn bugeilio y praidd hefyd; a phe na wnawn, arnaf fi, ac nid ar neb arall y byddai eu gwaed."

Ond ymddengys, nad oedd gwaith yr offeiriad yn ymliw â'r clochydd a'i gyfaill, yn effeithio nemawr arnynt; ïe, llai oedd yr effaith po fwyaf fyddai cyffro y gŵr parchedig. Dywedir, ddarfod i'r person geisio cyfraith ar y clochydd, ond wedi deall mai nid mor hawdd a fuasai ei gosbi, ddarfod iddo roi yr amcan heibio.

Cyn hir, symudwyd yr ysgol, oddiar y brif-ffordd yn ymyl Llanferes, i dŷ anedd yn agos i Maes-hafn, lle y byddai yn arferol fod ambell oedfa eisoes yn cael ei chadw. Daeth amryw o'r gwrandawyr, a deiliaid yr ysgol, i deimlo gradd o bryder ynghylch eu hachos ysbrydol. Un bore Sabboth, pan oedd y Parch. Daniel Roberts, Lodge, yno; daeth amryw o'r dynion hyny ato cyn yr oedfa, gan ofyn, âi nid oedd modd cael cyfarfod neillduol ar ddiwedd yr oedfa, er mwyn cyfleusdra i roddi iddynt hyfforddiant ac amgeledd ychwanegol. Ar ol iddynt adrodd gradd o drallod eu meddyliau, penderfynodd wrando ar eu cais; a chyhoeddwyd ar ddiwedd y bregeth, os oedd neb o'r gwrandawyr yn teimlo pryder a gofal am achos eu heneidiau, y byddai cyfarfod ar ol yr oedfa yn y fan; yn yr hwn y byddai croesaw i'r cyfryw aros. Mewn canlyniad, arosodd tua deuddeg; a chafwyd arwyddion tra amlwg arnynt fod Ysbryd Duw wedi cyffwrdd â'u meddyliau. Fel hyn, y planwyd eglwys fechan yn Maes-hafn, o'r un nifer ag oedd dysgyblion yr Arglwydd Iesu; dywedir hefyd, fod y deuddeg hyny wedi glynu wrth eu proffes: o'r nifer, y mae y rhan amlaf wedi meirw, gan adael tystiolaeth dda ar eu hol, a'r gweddill yn rhodio o flaen yr Arglwydd yn nhir y rhai byw. Cyn llawer o amser ar ol hyn, ymosodwyd at y gorchwyl o adeiladu capel,—mae hwn, bellach, yn cael ei lenwi â gwrandawyr cyson; a nifer yr aelodau wedi cynyddu yn fawr, nid llawer yn fyr o 60 o rifedi. Gwnaed yn yr ardal hon, yn ystod

y 30 mlynedd diweddaf, fwy, mewn ffordd o hyfforddi trigolion y gymydogaeth yn mhethau bywyd tragwyddol, nag a wnaethpwyd o'r blaen er ys cannoedd o flynyddoedd. Os ydyw o bwys fod dynion yn ymgydnabyddu â gwirioneddau mawrion yr efengyl, os egwyddorion yr ysgrythyrau yw y rhai a blenir yn y galon gan yr Ysbryd Glân, pan y santeiddir yr enaid ar ddelw Duw; y mae o bwys mawr fod moddion yn cael eu defnyddio i ledaenu gwybodaeth ysgrythyrol yn y wlad. Sicr genym, mai nid trwy fath o swyn, neu gyfaredd, y mae y Beibl ac ordinhadau yr efengyl yn lleshau dynion; fel yr hona y Pabyddion am eu bedydd, eu hofferen, eu dwfr santaidd, a'u trengeneiniad; ond trwy egluro y gair i'r deall, ei gymhwyso at y gydwybod, a phlanu ei egwyddorion yn reddf fyw yn yr enaid.

O fewn ychydig filldiroedd i'r lle olaf hwn, y mae gan y Methodistiaid ganghenau eglwysig eraill; y rhai na anfonwyd i ni un hysbysiad am danynt, sef Treuddyn, Coedllai, a Nerquis. Mae y cynulleidfaoedd sydd yn y lleoedd hyn, oll wedi eu casglu yn ystod y 40 mlynedd diweddaf; a hyny, ymron oll, trwy yr un fath foddion; sef, yn gyntaf, trwy i nifer o frodyr gymeryd y gorchwyl arnynt i agor ysgol Sabbothol yn yr ardal; a llwyddo, ymhen ychydig, i gael ambell bregeth. Felly, wedi peth amser, a chael pregethu amlach, a lluosogi o'r gwrandawyr, caed lle sefydlog i addoli, a nifer o aelodau eglwysig, i gynal i fyny y gwaith a'i ddwyn ymlaen. Dyma y moddion y crynowyd y rhan luosocaf o gynulleidfaoedd y Methodistiaid yn Nghymru; moddion hefyd a lwyddodd i ledaenu gwybodaeth o Dduw, ac o'i air, ymron i bob pentref a thref, ac i bob ardal a chwm; a moddion a goronwyd yn arbenig â llwyddiant i ddychwelyd cannoedd a miloedd i ffydd yr efengyl!

PENNOD VIII.

PARHAD O HANES GORSAFOEDD CYNTAF METHODISTIAETH SIROEDD DINBYCH A FFLINT.

CYNWYSIAD:—

LLANGOLLEN—AGWEDD Y WLAD—CYCHWYNIAD METHODISTIAETH—WILLIAM GRIFFITH—DIC MORRIS—HEN OFFEIRIAD PWYLLOG—WILLIAM EVANS, FEDWARIAN—GORTHRYMU Y CREFYDDWYR—EDWARD KNIGHT—CYMDEITHAS EGLWYSIG YN YMGRYNHOI—DIACONIAID CYNTAF—CYFARFOD PREGETHU—DYGWYDDIADAU HYNOD—SAMUEL HUGHES—ADEILADU CAPEL, 1773—GWRTHDRODADAU—WILLIAM JONES, GWEHYDD; A JOHN WILLIAMS—YSGOL SABBOTHOL YN Y FL. 1792—MR. R. COOPER—PREGETHWYR A GODODD—LLANDYNAN—PENTREDWFR—LODGE—PONT-CYSYLLTAU—GARTH—ACRFAIR—BRYN EGLWYS.

LLANGOLLEN.

Mae Methodistiaeth wedi hen wreiddio bellach yn y dref hon; a chyfrifir yr eglwys yma yn fam i lnaws o eglwysi eraill, mwy neu lai blodeuog sydd yn perthyn i'r un cyfundeb, yn y broydd cylchynol. Gellir enwi y canghenau

canlynol, y rhai a gawsant fwy neu lai o swcr oddiwrth y winwydden Fethodistaidd yn Llangollen; sef, Pont-cysylltau, Llandynan, Pentre-dwfr, Bryneglwys, Glyn-ceiriog, Garth, Lodge, ac Acrfair. Can' mlynedd yn ol nid oedd dim pregethu yn yr holl ardaloedd hyn, hyd y gŵyr yr ysgrifenydd gan un enwad o ymneilduwyr; ac am y weinidogaeth a geid yn eglwys Loegr, gellid gwybod i sicrwydd pa fath ydoedd ei naws a'i natur tra y goddefid i bob math o chwareu fyned ymlaen ar y Sabbothau yn y fynwent ac ar fur yr eglwys; a hyn a ganiateid ymhob man yn y wlad, yn ddiwahaniaeth, ac yn ddiwarafun.

Cyffelyb ydoedd trigolion Llangollen a'i hamgylchoedd i bob man arall ymron yn Nghymru; camp-chwareuon ar y Sabbothau oedd yn ffynu ymron yn mhob man; *Interludiau*, canu gyda'r tanau, nosweithiau llawen, chwareu cardiau, ymladd ceiliogod, meddwi ac ymladdau, oeddynt yn nodweddu yr holl wlad. Yr oedd chwareu pel ar y clochdŷ yn gamp arferol ymron drwy yr holl flwyddyn, ac nid oedd neb yn meddwl ei warafun. Yr oedd Beiblau yn anaml yn y wlad, ac anamlach oeddynt y rhai a fedrent ei darllen, ac anamlach fyth y rhai a wnaent. Yr oedd yr holl fro yn "eistedd mewn tywyllwch," ac yn "gorwedd mewn drygioni." Nid oedd neb yn gofalu am eneidiau dynion, nac yn eu rhybuddio i ffoi rhag y llid a fydd.

Hawdd gweled fod cyfnewidiad mawr er gwell wedi cymeryd lle, a dyddorol fydd gan y darllenydd olrhain gradd ar y modd y dygwyd ef o amgylch. Nid yw yr ysgrifenydd yn proffesu dadgan ond ysgogiadau cysylltiedig â Methodistiaeth, er y gŵyr yn dda fod llawer wedi ei wneyd gan enwadau eraill; eto, nid ei waith ef ydyw olrhain yr eiddo neb ond berthyn i'w gyfundeb ef ei hun. Trwy lafur pawb, pa fodd bynag, gellir dyweyd fod yr holl drigolion ymron yn medru darllen eu Beiblau, ac yn meddu Beiblau i'w darllen; fod ysgol Sabbothol ymron yn mhob cwm, a phentref; capelau wedi eu hadeiladu yn yr holl ardaloedd, a miloedd ar filoedd bob Sabboth yn gwrando geiriau y bywyd tragwyddol. Ac er nad yw annuwioldeb ddim wedi ei lwyr ddarostwng, eto mae llawer o'i nodau gwrthunaf wedi eu sychu ymaith. Nid oes mor camp-chwareuon ar y Sabboth, y cardiau, yr ymladd ceiliogod, a phlwyfau cyfain yn ymosod i ymladd â'u gilydd, ddim i'w cael erbyn hyn. Pa faint bynag, neu pa mor fychan bynag y dywedir fod dylanwad egwyddorion gwir grefydd, nid oes modd i neb wadu nad oes chwyldroad rhyfeddol mewn arferion; a bod y chwyldroad rhyfeddol hwn wedi ei ddwyn o amgylch heb gyffro na thrais, trwy offerynau diymhongar a disylw, yn defnyddio moddion ysgrythyrol yn unig.

Nid oes dim argoel fod Howel Harris wedi bod erioed yn pregethu yn yr ardal hon, er y gwyddom iddo fod yn Adwy'r-clawdd, un milldir ar ddeg oddiyma; ac yn Ninbych, a rhai manau eraill yn y sir; eto, y mae traddodiad fod Mr. Rowlands wedi bod yn pregethu yn ei amwisg ddu, ar risiau tŷ tafarn yn y dref; ond nid oes ond crybwylliad am yr oedfa hono ar gael. Tua'r fl. 1760, meddir, y dechreuodd ychydig gyffro, y dechreuodd y

surdoes weithio. Gŵr o'r enw William Griffith, cylchwr *(cooper)* wrth ei grefft, a ddaeth o'r Wyddgrug i fyw i'r dref, yn weithiwr i Samuel Hughes. Yr oedd y dyn hwn wedi profi awdurdod y gair ar ei gydwybod cyn dyfod yma, wedi ymuno hefyd â'r crefyddwyr; ac yn arfer, yn achlysurol o leiaf, gynghori pechaduriaid. Am y gŵr hwn, tybygid, y sonia awdwr "Drych yr Amseroedd," ac y dywed ddarfod iddo anturio sefyll ar yr heol yn Rhuddlan i gynyg pregethu, pryd yr oedd pawb yn edrych ar y fath gais yn berygl bywyd. "Ni chafodd," medd yr awdwr, "braidd ond dechreu, nad dyna'r dom a'r cerig yn cael eu lluchio ato gan dorf ar unwaith; a chafodd ei lusgo a'i faeddu ganddynt yn ddidosturi." Nid oes genym sicrwydd paham y symudodd William Griffith i Llangollen; i ardal nad oedd iddo ddysgwyl dim manteision crefyddol yn nes nag Adwy'r-clawdd; oddieithr fod rhyw fath o raid arno gan ei amgylchiadau, ac i'r rhaid hwnw gael ei oruwchlywodraethu i roddi cychwyniad bychan i achos y Cyfryngwr yn y fro. Bychan y mae preswylwyr Llangollen a'i chyffiniau; bychan y mae gwrandawyr lluosog yr amrywiol gynulleidfaoedd sydd yn awr yn britho yr ardaloedd yn ei feddwl, mai dyfodiad cylchwr tlawd o'r Wyddgrug i Langollen, gan' mlynedd agos yn ol, oedd ysgogiad cyntaf y peiriant a gynyrchodd bethau mor fawr yn y canlyniad.

Rhyw ddiwrnod, medd yr hanes, yr oedd nifer o ddynion yn diota mewn tafarndŷ; ac fel arferol yn dechreu tanio gan gynhyrfiad y ddiod feddwol, ac yn bytheirio eu drwg-anwydau ar eu gilydd, mewn llwon a rhegfeydd; a chododd twrf a chyffro yn y tŷ. Clybu William Griffith y swn cynhyrfus, amheuodd yr achos o hono, a theimlodd awydd cryf i gyfryngu. Aeth i mewn, a dechreuodd yn llednais eu cynghori; dynoethodd y drwg o feddwi, ac o arfer llwon a rhegfeydd; a'r perygl fyddai iddynt ddigio yr Hollalluog, fel ag i dynu arnynt eu hunain ddinystr buan. Ymddengys fod y gŵr yn llefaru gyda difrifwch mawr, a cherddai awdurdod gyda'i eiriau; fel yr effeithiodd, o leiaf, ar un o'r cwmni, nes peri iddo adael y lle yn y fan, a'r cwmni am byth. Enw yr hwn a giliodd fel hyn, oedd Richard Morris; yr hwn a elwid Dic Morris yn gyffredin; a syn oedd gan bawb na buasai hwn, yn lle delwi a chilio, yn taro William Griffith, fel na fuasai raid ei ail-daro. Yn y gwrthwyneb, pa fodd bynag y bu, bendithiwyd araith neu gynghor William Griffith, nes peri cyfnewidiad hollol yn marn a moesau Dic Morris o hyny allan.

Parhau yr oedd y cylchwr i ymddyddan â phawb o fewn ei gyrhaedd, ac i'w cynghori yn ol y cyfle, ynghylch achos pwysig eu heneidiau; achos ag a fuasai hyd yn hyn mewn perffaith anghof, a than lwyr esgeulusdra. Yn raddol, effeithiodd ei ymddyddanion ar amryw; a pharodd hyny i'r cyfryw ymgrynhoi at William Griffith yn fynych; yntau a ymddyddanai â hwynt am bethau y Beibl, gan eu cynghori, a gweddio drostynt; parhaodd hyn dros amser maith. Enwau y rhai a ddeuent fel hyn at eu gilydd oeddynt; Richard Morris, Richard Griffiths, Sarah Wynne, Sarah Morris, a Grace

Morgan. Dywedir hefyd y byddai eraill yn dyfod yn achlysurol at William Griffith i'r gweithdŷ, i wrando ei ymddyddanion. Yr oedd y pethau a draethid ganddo mor newyddion, ac mor bwysig; a'i agwedd yntau yn eu traethu mor ddifrif a dwys, nes aeth son am dano trwy yr holl ardaloedd. Ond fel yr oedd cyhoeddusrwydd yr ysgogiad yn cynyddu, felly yr oedd gwrthwynebiad iddo yn cyneu. Dechreuodd rhai lidio wrtho, ei ddrwgliwio a'i erlid. Un tro rhoes satan ynghalon un dyn i fyned at offeiriad y plwyf i achwyn arno; ac i erchi ar y gŵr parchedig sefyll i fyny ac attal y pla. "Mae yn llawn bryd," meddai, "gwneyd rhyw beth, gan fod Dic Morris, er syndod i'r holl wlad, wedi cymeryd ato, ac yn ei lochi." Atebodd yr hen offeiriad y cyhuddwr yn arafaidd, gan ddyweyd, "Gadewch lonydd i'r dyn, pwy bynag ydyw, i wneyd cymaint o ddaioni ag a allo. Mae digon rhaid wrth y fath ddyn i droi pobl; canys yr ydwyf fi wedi bod yn pregethu yma erys dros ugain mlynedd, ac ni welais i ddim o'r fath effeithiau ar neb o'm gwrandawyr i, am hyny na ddywedwch ddim yn erbyn y gŵr." Felly, yn lled siomedig, a than radd o warth a chywilydd, fel creadur prysur diddiolch, y bu raid iddo droi adref.

Nid oedd eto yr un lle o addoliad cyhoeddus, nac un enwad yn y byd yn pregethu, ond eglwys y plwyf trwy yr holl wlad; ac nid ydym yn cael fod William Griffith, ychwaith, yn cymeryd arno bregethu yn gyhoeddus, ond cynghori y rhai a gyfarfyddent ag ef, ac o dŷ i dŷ. Ond nid hir y bu yr ychydig enwau oedd wedi eu lefeinio gan yr efengyl, heb ymofyn âi nid oedd modd cael pregethu, mwy neu lai cyson, i'r ardaloedd hyn. Penderfynodd y rhai a enwyd uchod, gan hyny, anfon i'r Bala, lle yr oedd dau neu dri o bregethwyr yn preswylio, i ofyn yn daer, a oedd yno neb a ddeuai mor bell a Llangollen (dwy neu dair milldir ar hugain o ffordd) i bregethu yr efengyl; gan ddadgan fod y trigolion ymron heb eithriad, yn berffaith ddiofal am bethau enaid a byd tragwyddol. Mewn canlyniad ystyriodd y brodyr yn y Bala eu hachos; ac anfonasant William Evans o'r Fedw-arian, yno. Ynteu, yn ol y penderfyniad a ddaeth; a safodd wrth ddrws tŷ Dic Morris i bregethu, a chafodd lonyddwch i draethu ei genadwri heb neb yn ei luddias. Pa effaith a gafodd y bregeth hon ar y gynulleidfa nis gwyddom; ond dywedir ddarfod i un, o'r enw John Simon, ddatgan fod ei dŷ ef yn agored i'r neb a ddeuai i'r Llan i bregethu rhagllaw. A chyda bod y gair o'i enau, wele un arall, John Edward Owen wrth ei enw, yr hwn oedd yn byw mewn tŷ o eiddo yr offeiriad, yn cynyg ei dŷ ynteu. Daeth hyn yn fuan i glustiau yr offeiriad, a llidiodd yn erwin. Bu yn llonydd a thirion tra nad oedd ond cais at ddiwygio dynion trwy ymddyddanion personol neu deuluol; ond yr oedd agor tŷ i dderbyn pregethu cyson ynddo, yn beth arall; gwelai gychwyniad plaid yn hyn; ysgogiad a allai fyned rhagddo a pheri ymneillduad oddiwrth yr eglwys. Dan y fath argraffiadau, gan hyny, anfonodd at John Edward Owen, a bygythiai, os efe a gynwysai bregethu yn ei dŷ, mai allan o hono y byddai raid iddo fyned. Yr oedd yr hen ŵr, bellach, ynghyda'i wraig, wedi cael blas ar yr

hyn a glywsent, fel nad boddhaol ganddynt oedd cilio, a galw eu haddewid yn ol; penderfynasant, gan hyny, am yr amser oedd ganddynt o weddill y flwyddyn, mai derbyn y pregethu a wnaent. Creulonodd hyn ysbryd yr hen offeiriad yn ddirfawr; a pharodd ddidôi rhyw gyfran o dô y tŷ, fel y gorfyddai i'r deiliaid ymadael ar frys. Gweithred cwbl croes i gyfraith a chyfiawnder; eto, gormod anturiaeth a fuasai i'r dyn tlawd ymgyfreithio â gŵr llawer mwy galluog nag ef ei hun; ac yn enwedig, mewn amser yr oedd y fath ragfarn cryf yn erbyn pob math, a phob gradd, o ymneillduaeth.

Ond er cau y drws hwn, agorodd un arall. Y Duw a roisai yn nghalon John Edward Owen o'r blaen i agor ei ddrws, a dueddodd un arall yn awr; sef, un Edward Knight; ac yn nhŷ y gŵr hwn y bu yr oedfaon yn cael eu cynal dros gryn amser. Y mae yn beth hynod nad oes dim yn ychwaneg o son am William Griffith, y gŵr a fu yn offeryn i gyneu y tân. Ni ddywedir pa fodd y machludodd y seren hon; pa un âi ei gorchuddio a wnaed gan ryw gwmwl du, fel ag i'r llygaid golli yr olwg arni yn llwyr; âi ynteu, machludo yn naturiol a wnaeth yn yr angau. Dichon, yn wir, ddarfod i ragluniaeth y nef symud y gŵr eilwaith i le arall, fel y gwnaethai i Langollen; fel y rhoddai gychwyniad i'r achos da yno hefyd: ond yn absenoldeb tystiolaeth sicr, nid oes genym ond troi at yr hanes sydd yn ein meddiant am fynediad yr achos yn ei flaen yn y lle hwn a'i amgylchoedd.

Nid oedd eto ddim moddion yn cael eu defnyddio er dychwelyd pechaduriaid, ac amaethu yr ychydig enwau ag oedd eisoes dan argraffiadau crefyddol, ond pregethu yn unig; a hyny heb fod o lawer yn gyson a difwlch. Ond daeth yr amser, rywbryd rhwng 1760 a 1773, i ffurfio a chrynhoi yr ychydig enwau hyny yn gymdeithas eglwysig. Ryw-dro wedi i William Evans, Fedwarian, orphen pregethu, efe a archodd ar gynifer ag oedd yn y lle, yn pryderu yn achos eu heneidiau, aros ychydig ar ol i'r gynulleidfa chwalu; modd y gallai gael hamdden i ymddyddan â hwynt ac i'w hyfforddi yn mhellach yn y ffordd i fywyd. "Ac," meddai un oedd yn bresenol yn fachgenyn ieuanc,* "yr wyf yn cofio y tro yn bur dda heddyw, oblegid siaradodd yr hen ŵr gryn lawer â minau yn y cyfarfod hwnw, er nad oeddwn ond un-ar-ddeg oed; a mawr oedd yr awdurdod a'r effeithiau a ddilynai gynghorion y pregethwr. Mawr y boddhad a'r lles a gafwyd yn y cyfarfod cyntaf hwn; fel pe rhoisai Pen yr eglwys sêl ei gymeradwyaeth wrtho. Torodd gwawr newydd ar y bobl druain dlodion; a rhoddwyd ysgogiad yn mlaen i'r gwaith yn eu mysg. Yn y cyfarfod eglwysig nesaf, chwanegwyd amryw at eu nifer, yr hyn a ystyrid ganddynt yn arwydd fod Duw yn eu plith.

Yn yr adeg gychwynol hon, Thomas Hughes a Richard Griffiths, oeddynt y ddau a flaenorai yn fwyaf arbenig y ddeadell fechan. Gŵr ffyddlon, llafurus, a defnyddiol, meddir, oedd Richard Griffiths; tra gofalus am yr achos yn ei

*Mr. Edward Morris, Lodge, yr hwn oedd fab i y Richard Morris crybwylledig uchod.

wendid; a thros dymhor hir yr oedd ei dŷ a'i fwrdd yn cael eu rhoddi yn ewyllysgar at wasanaeth yr efengyl. Yr oedd gŵr ieuanc hefyd yn gweithio gyda Richard Griffiths, o'r enw Morris Jones, yn yr hwn y canfyddid gogwyddiad a gradd o gymhwysder i gynghori ei gyd-ddynion. Bu y gŵr ieuanc hwn, er nad oedd ond 18 ml. oed, tua'r fl. 1768, yn arfer pregethu dros ryw gymaint o amser yn eu plith; ond fe'i harweiniwyd gan amgylchiadau, ar ol hyny, i'r Deheudir i fyw; yno ymunodd â'r brodyr y Bedyddwyr, a bu yn weinidog parchus yn eu plith yn Merthyr Tydfil, hyd ei farwolaeth; yr hyn a gymerth le yn fl. 1830.

Yn yr adeg yma cafwyd, trwy ryw foddion neu gilydd, gyfarfod pregethu i'r dref, yr hwn a elwid yn gymdeithasfa; yn yr hon, yn mhlith eraill mwy cartrefol, yr oedd Dafydd Morris o'r Deheudir yn pregethu. Cynaliwyd y cyfarfod hwn mewn hen ysgubor yn agos i'r Bont-fawr: yr oedd llawer iawn wedi ymgasglu ynghyd ar yr achlysur: yr oedd cyfarfod pregethu yn beth mor ddyeithr, nid yn unig yn Llangollen, ond yn mhob rhan o'r wlad ymron yn y dyddiau hyny, fel yr oedd newydd-deb yr olwg yn denu llawer yno. Ac er nad oedd y crefyddwyr ond ychydig a digyfrif; ac er fod rhagfarn cryf yn eu herbyn, ni anturiodd neb y tro hwn i aflonyddu ar y cyfarfod. Ac hefyd, er na chanfyddwyd dim ryw effeithiau grymus ar y gwrandawyr yn y cyfarfod; eto, bernir iddo wneuthur lles mawr i'r achos bychan, trwy ei ddwyn ef i sylw, a thrwy roddi mantais i ymofynwyr wybod, pa beth ydoedd amcan, a pha fath ydoedd egwyddorion, y bobl ddyeithr hyn.

Dygwyddodd rhyw amgylchiadau mewn cysylltiad â Methodistiaeth yn y lle a'r amser hwn; y rhai, pa eglurhad bynag a ddyry neb arnynt, a ddylent gael eu croniclo; gan eu bod yn ffeithiau hysbys ac anwadadwy ar y pryd. Un tro, daeth dau o wŷr dyeithr o'r Deheudir, ar eu hynt drwy Wynedd, i Llangollen i bregethu; ac yn anffodus iawn, syrthiodd ceffyl un o honynt, dros ryw ddibyn, a bu farw yn y fan; rhoes hyn destyn siarad i'r gwrandawyr. Gofynodd un o honynt yn wawdlyd, "A fu neb o'r crefyddwyr yma yn canu hymn uwch ben ceffyl yr hen bregethwr ddoe?" Yn mhen tridiau dygwyddodd cyffelyb anffawd i fuwch yr erlidiwr ei hun. Barnai llawer un, mai ofergoeledd fyddai edrych ar y naill amgylchiad mwy na'r llall yn gyfryngiad rhagluniaeth, gan i'r peth gyfarfod y pregethwr a'r gwawdiwr hefyd. Pa un bynag, yr oedd y cyd-darawiad yn hynod; a diau genyf mai nid yr un casgliad a dynai y pregethwr oddiwrth ei anffawd ef, ag a dynai y gwawdiwr oddiwrth yr eiddo ynteu; ac amheus iawn yw ai yr un casgliad a *ddylasai* pob un dynu. Gallai fod y cyntaf yn *brawf*, a'r olaf yn *gosb*. Profid egwyddorion y naill, a gwgid ar ymddygiadau y llall.

Crybwyllir enw un Sarah Wynne yn mysg yr ychydig grefyddwyr yn y lle. Yr oedd y wraig hon yn dlawd ac yn gloff; yr oedd eisoes yn derbyn elusen y plwyf; a rhyw ddiwrnod ymddangosodd yn y *vestry* i erchi am ychwanegiad ar ei dogn; gan na allai, o herwydd cloffni, ddim mynéd oddiamgylch i ymofyn elusen gan ei chymydogion. Cododd un o'r plwyfolion i fyny i wrth-

wynebu ei chais, ac yn sarug a gwawdlyd a ddywedodd, "Salen, pe baet ti yn *Sasiwn* y Bala, ti fedrit floeddio digon, a neidio hefyd, mi wranta' i." Yn fuan iawn wedi hyn tarawyd y gŵr hwn â phoen yn ei glun; a bu yn gloff, fel yr hen Sarah, hyd ddydd ei farwolaeth, er mawr syndod a pheth dychryn i'w gymydogion; ond nid er dychweliad i'r hen bagan ei hunan. Gwyddom i Dduw geryddu breninoedd oblegid ei bobl eyn hyn, a dywedyd, "Na chyffyrddwch â'm rhai eneiniog, ac na ddrygwch fy mhroffwydi." Salm cv. 14, 15. Addefwn yn rhwydd fod eithafion ofergoeledd yn bod, ond credwn hefyd fod eithafion didduwiaeth yn bod hefyd.

Adroddodd yr un gŵr amgylchiad arall a barodd radd o ddychryn ar y bobl gyffredin, gan fod ynddo gyd-darawiad tra hynod â'r gwrthwynebiad a ddangoswyd i un gŵr tlawd ar gyfrif ei grefydd. "Yr wyf yn cofio," meddai, "fod Thomas Hughes, un o'r blaenoriaid, wedi myned unwaith, fel y gwnaethai y bobl yn fynych, i dori tywyrch oddiar wyneb ryw gyttir gerllaw y dref, ac ar lan yr afon; daeth hyn i glustiau gwraig foneddig yn y gymydogaeth, ac er na thybiasid erioed yn angenrheidiol i osod cŵyn yn erbyn neb o'r blaen, hi dybiodd fod yma gyfleusdra i ddrygu dyn lled flaenllaw yn mysg y crefyddwyr. Aeth, gan hyny, at oruchwyliwr y boneddwr ag oedd yn byw yn Nghastell-y-waun, i achwyn ar y diniwaid. Wrth ddychwelyd adref, pa fodd bynag, tarawyd hi yn ei gwàr fel ag i anffurfio ei hwyneb yn arswydus; a buan y bu farw; ond bu rhagluniaeth yn dirion wrth yr hen ŵr ac wrth ei wraig, yr hon hefyd oedd grefyddol. Yr oedd iddi hi frawd cyfoethog, yr hwn oedd yn dra llidiog wrthi oblegid ei chrefydd; addawsai iddi waddol dda ar ol ei ddydd os gadawai hi ei chrefydd; ei hateb hithau bob amser a fyddai, "Pe gadewit i mi ond ceiniog a dimai, rhoddwn y geiniog hono at achos yr Arglwydd, a chymerwn y ddimai i'm fy hunan." Digiodd yntau wrthi yn anghymodol, a phenderfynodd adael y cwbl o'i feddiannau oddiwrthi; ond nid hyny oedd ewyllys Llywydd y byd, oblegid bu farw y brawd cyfoethog mewn awr nad oedd yn dysgwyl, ac heb wneuthur un llythyr cymun; a daeth ei eiddo oll trwy gyfryngiad rhagluniaeth i'w chwaer; yr hon, ynghyda'i gŵr, a gawsant gynaliaeth gysurus hyd ddiwedd ei hoes.

Oddeutu yr amser hwn y daeth Samuel Hughes,* meistr William Griffith, i undeb eglwysig â'r Methodistiaid. Yn mhen rhyw gymaint o amser, dewiswyd ef i gyd-flaenori y ddeadell fechan, gyda Thomas Hughes, a Rhichard Griffiths. Prif letŷ pregethwyr a ddeuent yn eu tro i wasanaethu yr achos crefyddol yn y lle oedd tŷ Thomes Hughes; eto, cynorthwyai eraill, yn achlysurol, gan groesawi y dyeithriaid a ddeuent o Ddê neu Ogledd.

Dylid sylwi, mai yn nhŷ Edward Knight yr oedd y pregethu yn cael ei gynal dros yr holl amser hwn; ac fod y tŷ yn fynych yn rhy gyfyng, eto, ni a allwn gasglu nad oedd y gynulleidfa gyffredin ddim yn fawr iawn, gan y

* Taid oedd y gŵr hwn i'r Parch. J. Hughes, Gwyddelwern yn awr, Llangollen gynt.

cynwysid y bobl, gan amlaf, mewn tŷ anedd o faintioli cyffredin. Ar yr un pryd, yr oedd y lle yn gyfyng; a hyn a barodd i'r bobl ddechreu ymofyn am le mwy, ac ymchwilio am dir i adeiladu capel. Yr oedd hwn yn orchwyl trwm, ac yn gryn anturiaeth i ychydig bobl, tlawd, gan amlaf, eu hamgylchiadau. Anhawdd hefyd oedd cael tir, gan nad oedd obaith ei gael gan neb o fawrion y gymydogaeth, nag ychwaith gan berchenogion tir llai eu cyfoeth, oblegid eu rhagfarn yn erbyn crefyddwyr. Bychan y gwyddai y trueiniaid pan yn y benbleth flin, yn ceisio cael tir ac yn methu; fod gras a rhagluniaeth Duw yn parotoi gŵr, o ran ewyllys a gallu, yn Llundain, i ganiatâu iddynt eu dymuniad. Yr oedd gŵr o'r enw Edward Edwards, asiedydd wrth ei grefft, wedi myned, amser yn ol, i Lundain; lle y tueddwyd ei feddwl at grefydd trwy weinidogaeth Mr. Whitfield yn benaf; a'r lle hefyd y casglodd ryw swm o arian, fel y gallodd ar ei ddychweliad i'w hen gartref, brynu darn o dir i adeiladu tŷ iddo ei hun arno.

Wedi iddo ddeall sefyllfa yr achos crefyddol, ac awyddfryd y frawdoliaeth i godi tŷ addoliad; efe yn ewyllysgar a werthodd ddarn o'r tir a brynasai i'r brodyr i'r dyben hwnw. Tad oedd yr Edward Edwards hwn i wraig y Parch. Peter Roberts, Llansanan; gwraig y gogwyddodd gras ei chalon, ac y gwenodd rhagluniaeth ar ei sefyllfa, fel ag i fod yn garedig at achos y Cyfryngwr dros ei hoes. Wedi cael y tir i adeiladu, cododd anhawsder arall, sef pa fodd y ceid defnyddiau ato. Ni fynai neb roddi cynorthwy mewn un modd. Ciliai pawb oddiwrth bob ymyriad â'r gwaith yn rhad nac am wobr; o'r diwedd cafodd ariangarwch un gŵr y llaw uwchaf ar ei ragfarn, a daeth i gynyg cario ato; gan ddyweyd, nad oedd waeth ganddo fe gario at gapel, mwy nag at ryw beth arall, os rhoddid iddo ddigon am ei boen; rhwyddhaodd hyn fynediad yr adeilad yn mlaen. Benthyciwyd peth arian, a chafwyd cyfraniadau ato, gan hwn ac arall, fel ag i ddwyn yr adeilad i ben: yn y fl. 1773, y bu hyn. Yr ymddiriedolwyr oeddynt John Evans, Bala; Thomas Foulkes, Bala; Richard Griffiths; Edward Knight; Samuel Hughes; Thomas Hughes; a William Jeffreys o Langollen. I agor y capel newydd trefnwyd cael cymdeithasfa i'r lle. Yr oedd cael capel yn beth mor anghyffredin yn y dyddiau hyny, fel y bernid yn weddus enwogi yr amgylchiad â chyfarfod mawr. Ar agoriad y capel newydd, gan hyny, cafwyd amryw o enwogion y Dê a'r Gogledd; ac ymgasglodd cynulleidfa a dybid, y pryd hwnw, yn dra lluosog,; a mwy na'r cwbl coronwyd y weinidogaeth ag arddeliad mawr. Yn ychwanegol at y dylanwad a'r pwysigrwydd a roddid ar yr achos bychan yn ngolwg y byd, bu y cyfarfod hwn yn foddion i ddwyn un gŵr cyfrifol yn yr ardal, Thomas Evans, Pengwern, i fwrw ei goelbren yn mysg y bobl ddirmygedig hyn. Cyfrifai ei argyhoeddiad i weinidogaeth William Lewis, yr hwn oedd, ar y pryd, yn preswylio yn sir Fon, cyn ei ddyfod i Adwy'r-clawdd. Yr oedd William Lewis; a Dafydd Jones, Adwy'r-clawdd, yn cael eu hystyried yn mysg enwogion pregethwyr Gwynedd yn yr adeg hono.

Yr oedd y brodyr, bellach, yn teimlo yn hyfryd wrth gydmharu eu sefyllfa bresenol, wrth yr hyn a fuasai unwaith. Yr oedd gradd o ychwanegiad at eu nifer; yr oedd rhagfarn y werin yn lleddfu; yr oedd eu hachos wedi ei godi i sylw, a chanddynt gapel bellach; braint na feddai, ar y pryd, ond ychydig o ardaloedd yn Ngwynedd ei chyffelyb; amgylchiadau a roddai iddynt sail i lawenychu o'u plegid, eto ynghanol y llwyddiant a'r cysur hwn, ymdaenodd cwmwl du trostynt, a gorfu arnynt brofi peth chwerwach nag angau; nid erlidigaeth a gorthrwm oddiallan, ond peth llawer gwaeth, ymrafaelion ac anghydfod oddifewn. Yn mhen rhai blynyddau ar ol agoriad y capel, daeth anghydwcleddiad yn mysg y brodyr, nid yn nghylch hanfodion crefydd; nid ynghylch ei gosodiadau dwyfol, ond ynghylch ei threfniadau dynol. Mynych iawn y ceir fod yr ymrysoniadau chwerwaf yn mysg brodyr crefyddol, yn codi oddiar bethau bychain mewn cymhariaeth; nid pethau cydwybod cymaint, ond pethau tyb ac opiniwn. Yn y pethau dwyfol mae cydwybod yn dwyn gradd ehelaeth o gydweleddiad; ond mewn pethau dynol, mae tybiau yn amrywio llawer, ac yn cael eu hamddiffyn yn chwyrn: felly y bu yma. Daeth rhyw rai a chynygiad yn mlaen ar fod i frodyr perthynol i enwad arall gael pregethu yn y capel; gwrthwynebwyd hyn gan eraill. Ni ddywedir oddiar ba egwyddorion y dadleuid dros nac yn erbyn, ond fod pob ochr yn sefyll yn dŷn dros ei dyb ei hunan; a chryfhaodd yr ymrysonfa mewn grym a chwerwder, nes yr ymadawodd llawer o'r ychydig aelodau yn llwyr a thros byth â'r gwaith. Rhoes hyn ddyrnod trymach o lawer i'r achos na dim erlid a thrais a brofasid o'r blaen. *Dyoddef* yr oedd y brodyr yn y naill, ond *pechu* yr oeddynt yn y llall. Yr oedd dyoddef yn tueddu i enyn tosturi, ond yr oedd pechu yn peri cablu. Po fwyaf a orthrymid ar eglwys Dduw, fel ar Israel yn yr Aipht, mwyaf oll a gynyddent; ond y mae ei llygru yn ei lladd.

Nid ymadawiad y brodyr a giliodd chwaith oedd yr unig aflwydd a ddygwyddodd, eithr dechreuad gofidiau a fu. Rhoddasai un o'r blaid enciliedig fenthyg ugain punt o arian i godi y capel, a chan na chawsai ei ewyllys yn y mater dan sylw, rhoes rybudd i Richard Griffiths, i dalu yr arian yn ddioed. Taflodd hyn y gweddill oedd yn aros, i benbleth flin iawn, am nad oedd ganddynt fodd i'w talu; a llai, bellach, wedi yr ymraniad, nag o'r blaen. Aed â chwyn y trueiniaid, gan hyny, i gymdeithasfa y Bala; a chynygiodd John Evans, fod dimai yn cael ei gyfranu gan bob aelod yn Ngwynedd, i wneyd i fyny yr ugain punt a ofynid oddiar y brodyr yn Llangollen; a hyn, meddir, a fu cychwyniad y gronfa, trwy yr hon y rhoddwyd cynorthwy i godi llawer o hen gapelau Gogledd Cymru; sef dimai yn yr wythnos oddiwrth bob aelod yn y cyfundeb. Ond er cael yr ymwared arianol hwn, yr oedd yr achos yn Llangollen wedi cael ergyd trwm. Yn nghydag attal eu cynorthwy oddiwrth y gwaith, yr oedd y blaid a giliodd yn gwneyd y goreu o'r amgylchiad, mewn ffordd o hunan-amddiffyniad, ac i'r un graddau yn beio ar y blaid arall. Yr oedd eu nifer yn llai, eu moddion yn llai, a'u cymeriad crefyddol yn llai ei ddylanwad. Mewn gair, buont am rai blynyddau heb un cyfarfod eglwysig,

oddieithr pan ddeuai gŵr dyeithr atynt i bregethu; ac mor ddigalon oeddynt ar amserau, nes penderfynasant werthu y capel; a'i werthu, meddir, a wnaethid, ond ni chaed neb a'i prynai am bris yn y byd.

Arosodd y cwmwl du hwn ar y gwaith am ysbaid rhai blynyddau, eto nid am byth; Duw a gofiodd ei drueiniaid drachefn, ac a ddychwelodd eu caethiwed. Tua'r fl. 1786, fe ddaeth John Jones o Leyn, i Langollen i bregethu, ar Sabboth y bore, a'r nos; ac i gadw cyfarfod eglwysig am ddau o'r gloch. I'r cyfarfod eglwysig hwn daeth tri o ymgeiswyr am aelodaeth eglwysig atynt o'r newydd. Yr oedd hyn iddynt yn fywyd o feirw. Dechreuodd iâ y gauaf maith ddadmer, a gobeithion y rhai digalon ddadebru. Un o'r ymgeiswyr ydoedd William Jones y gwehydd; yr hwn, ar ol hyn, a fu yn blaenori yr achos yn y lle dros flynyddau lawer. Yr oedd William Jones yn ddyn hynod yn ei radd, ac wedi ei gymhwyso o ran cyfansoddiad â chrefydd i'r lle y gelwid ef iddo. Yn ei ieuenctyd yr oedd yn blaenori mewn oferedd. Yr oedd ei dymher yn siriol ac ysgafnaidd, ac yn gantor rhagorol. Rhoddid y flaenoriaeth iddo yn nghyfarfodydd ofer ei oes, sef nosweithiau llawen, *Interludiau*, a phethau cyffelyb; a chan mai efe oedd llawer o'u bywyd, ymofynid am dano o bell ac agos i'w cynal. Yntau a ymroddai i'r gwaith â'i holl egni, a rhoddai foddlonrwydd mawr i'w gyd-gampwyr, fel coron ardderchogrwydd eu cynulliadau. Eithr gwelodd Duw yn dda roddi i William waith rhagorach. Galwodd ef trwy ras, i ddadgnddio ei Fab ynddo, yntau yn y fan nid ymgynghorodd â chig a gwaed. Tua'r fl. 1786, ymunodd ag eglwys Dduw fel y dywedwyd; ac nid oedd llawenydd y brodyr yn ei dderbyn atynt ddim yn fwy, nag oedd siomedigaeth ei hen gyfeillion am ei golli; neu syndod ei gydwladwyr fod William y gwehydd yn mysg y crefyddwyr.

Buan iawn, bellach, y daeth William i sylw neillduol. Cynyddai mewn dawn a phrofiad, ac arllwysai deimladau bywiog ei feddwl, mewn gweddiau taerion dros, ac mewn cynghorion dwysion i'w gyd-ddynion, nes yr ymwisgodd yr achos bychan a digalon â graddau mawr o sirioldeb a chynydd. Deuai lluaws ynghyd i'r cyfarfodydd gweddio, i'r dyben o glywed William y gwehydd yn gweddio; ac yn mysg eraill, clywodd un John Williams, Bryniau, un o'i hen gyfeillion, am ei waith yn gweddio yn y capel, yn lle bod ar y glwyd yn chwareu *interlude;* a chododd blys arno i fyned i'w glywed. Yntau hefyd a ddaliwyd; o leiaf, arafwyd ei gamrau; parhaodd i ddilyn moddion gras; ac ymhen tua dwy flynedd ymunodd â'r gymdeithas eglwysig; a bu hwn hefyd, yn cyd-flaenori â William Jones dros lawer o flynyddau.

Bellach, yr oedd archollion yr ymrysonfa gynt yn dechreu iachâu; yr achos gwywedig, yn ymadnewyddu, a gwedd siriol ar yr holl waith. Yr oedd dyfodiad y ddau wŷr uchod yn gyfnerthiad rhyfeddol iddo. Yr oedd y ddau yn wahanol iawn i'w gilydd; un yn effro a bywiog iawn; y llall yn araf a phwyllog; gweithiai un yn rymus, dyoddefai y llall yn ddiddig; un yn meddu llawer o rwyddineb ymadrodd a gwresogrwydd ysbryd, a'r llall yn

afrwydd iawn ei dafod, a byr iawn ei wybodaeth; ond yn berffaith yn ei ddiwydrwydd, a diddadl' yn ei ras. Yr oedd cywirdeb a ffyddlondeb yn nodweddu y ddau; a bu y ddau yn golofnau cryfion a diysgog dan y gwaith da, am flynyddau lawer. Yn fuan ar ol yr ychwanegiad uchod, yr oedd cyhoeddiad Mr. Charles, yr hwn oedd er ys ychydig amser wedi ymuno â'r Methodistiaid yn y Gogledd, i fod yn y Ddwyryd, tu draw i Gorwen, 9 o'r gloch y bore Sabboth; Llangollen am 2; ac Adwy'r-clawdd yn yr hwyr. Y cyfryw, oedd teithiau pregethwyr yr oes hono. Yn yr oedfa brydnawn, bendithiwyd y weinidogaeth i Thomas Evans, ieuengaf, mab T. Evans, Pengwern. Daeth y mab i ragori yn fuan ar ei dad, mewn sêl ac ymgysegriad i achos crefydd; Yn y tymhor hwn yr oedd y weinidogaeth yn rymus ac effeithiol iawn. Ymunodd amryw eraill â'r gymdeithas eglwysig; y rhai yr oedd arwyddion tra amlwg arnynt eu bod yn ddeiliaid gwaith cadwedigol Ysbryd Duw. Yn fuan wedi hyny, cafodd yr achos yn Llangollen ymweliad grymusach fyth. Bu yma adfywiad rhyfeddol ar y gwaith, ymhob rhan o hono; ac ymhlith amryw o bobl ieuainc a ddaethant i geisio lle yn eglwys Dduw, yr oedd Robert Cooper yn un; yr hwn oedd, ar y pryd, yn ŵr ieuanc siriol a bywiog iawn; ac a fu ar ol hyny, yn flaenor ar yr eglwys, a'i ysgwydd yn gyson dan yr arch, am lawer o flynyddau.

Cddeutu y fl. 1792, y rhoddwyd cychwyniad bychan i addysg Sabbothol yn y dref hon. Gwnaed hyn trwy waith Mr. Charles yn anfon yma ysgolfeistr, o'r enw Thomas Dafydd, i gadw ysgol ddyddiol. Hwn, meddir, a fu yr offeryn i gychwyn yr ysgogiad tra buddiol hwnw; ysgogiad a esgorodd ar ganlyniadau dirfawr i'r oesoedd dilynodd. Yn y flwyddyn uchod nid oedd cymaint ag un plentyn yn derbyn addysg grefyddol ar y Sabboth, oddieithr yr ychydig a fwynhaent hyny oddiwrth eu rhieni, neu allan o'r pwlpud. Yn awr, nid oes nemawr lai na mil a hanner o rai ieuainc a hen, yn Llangollen a'i hamgylchoedd, ymhlith y Methodistiaid yn unig, heb son am enwadau eraill, bob Sabboth, yn ymgasglu at eu gilydd, i roddi ac i dderbyn addysg, yn y pethau a berthyn i fywyd tragwyddol. Bychan y dychymygai Thomas Dafydd, nac Humphrey Edwards, ar ei ol ef, pa ganlyniadau eu maint a ddilynent yr ysgogiad a gychwynasent hwy!

Gwnaeth gwrthwynebiad rhai, gwrthgiliad rhai eraill, ac angeu ei hun, gryn fylchau yn y fyddin lawer tro; eto codid rhyw rai i fyny yn lle y rhai a syrthient; fel yr oedd un drws yn cau yr oedd un arall yn ymagor; fel yr enciliai un, ennillid un arall; fel na ddarfu am yr achos; yn hytrach, aeth rhagddo, er pob gwrthdarawiad a cholled. Dros gryn amser, yr oedd y dyeithriaid yn cael eu lletya yn nhai Richard Griffiths, a Thomas Hughes; a cholled fawr y teimlid eu symudiad hwy i'r bedd; ond yn y cyfwng, priododd Mr. Cooper ferch ieuanc synwyrol a duwiol, o ardal Dolgellau; ac oddeutu y fl. 1796, agorodd ei ddrws i letya y pregethwyr; ac arferodd ffyddlondeb a charedigrwydd mawr yn y llwybr hwn am flynyddau lawer; a phrofodd mai gwir ydoedd diarch Solomon, "Y mae un a wasgar ei dda, ac fe chwanegir

iddo." Ac nid yn y llwybr hwn yn unig, y bu Mr. Cooper yn wasanaethgar, ond hefyd yn ei swydd fel henuriad, ac arolygydd yr ysgol Sabbothol; a thrwy ei ddylanwad fel dyn, ac fel gwladwr, bu yn offeryn tra defnyddiol yn ei oes; a hyny dros dymhor maith o hanner can' mlynedd. Bu farw yn 1844, yn 71 mlwydd oed.

Amser a ballai i son am amrywiol enwau eraill, y rhai a fuant ffyddlawn dan arch Duw yn y dref hon; cymhwys, er hyny, ydyw crybwyll enw Mr. Thomas Edwards, fel gŵr llafurus a ffyddlawn; yr hwn, er hyny, a alwyd i orphwys yn nghanol ei ddyddiau.

Yn yr eglwys hon hefyd y cododd y Peirch. John Hughes, Gwyddelwern yn awr, a John Davies, Tŷ-mawr, gerllaw Dinbych; y rhai sydd eto yn rhodio tir y rhai byw. Mae y gymdeithas eglwysig yn Llangollen, yn awr, yn sefyll yn mysg y rhai cryfaf, a chyflawnaf o fewn cylch cyfarfod misol sir Fflint. Mae nifer yr aelodau dros 200; deiliaid yr ysgol Sabbothol yn 300, a'r gwrandawyr at eu gilydd dros 500. Yn gysylltiedig a'r eglwys hon y mae y Parch. Richard Edwards.

Ac nid ynddi ei hunan, o ran rhifedi a chysonedd, y mae holl ragoroldeb y gynulleidfa, ond hefyd yn ei defnyddioldeb i'r wlad gylchynol. Nid llawer o eglwysi yn y gwledydd, a fu yn fwy llafurus i blanu, nac yn fwy gofalus i ymgeleddu, eglwysi eraill, y rhai a darddent fel canghenau oddiwrthi. Ni a gawn grybwyll y rhai hyn ar fyr eiriau.

LLANDYNAN.

Dechreuodd yr achos hwn yn yr Hewl, plwyf Llantysilio. Symudodd Humphrey Edwards, yr ysgolfeistr y crybwyllasom ei enw eisoes, o Langollen i'r lle a enwyd. Ac yn fuan wedi agor ysgol ddyddiol, sefydlodd ysgol Sabbothol; cynaliwyd cyfarfodydd i weddio; a chafwyd ambell bregeth i'r ardal; ennillwyd rhai hefyd i ymuno â'r fam eglwys yn Llangollen. Fel hyn, yn raddol, yr ymwreiddiodd ac yr ymeangodd yr achos, hyd nes y cafwyd capel i addoli ynddo; ac eglwys a chynulleidfa, nid lluosog, mae yn wir, wedi eu crynhoi.

Mae yr hanes a ddyry William Jones am sefydliad yr ysgol Sabbothol yn yr ardal, yn deilwng iawn o goffhad; yn enwedigol gan mai ei sefydliad hi a fu y prif foddion i roddi sefydlogrwydd a pharhad i'r achos. Fel hyn yr ysgrifenodd:—Wedi i mi fod yn llafurio am ryw gymaint o amser, trefnwyd tri brawd i ddyfod gyda mi, bob yn ail Sabboth. Cadwyd at yr ysgol hon am flynyddau, pan nad oedd ond ychydig nifer o blant yn dyfod iddi. A phan ddygwyddai i mi gyfarfod â'r bobl yn dyfod o'r gosper, yn eglwys y plwyf, ni wnaent gymaint o sylw o honof ag *edrych* arnaf wrth fy mhasio ar y ffordd; ac ni roddai neb yn y gymydogaeth, gymaint a dyferyn o ddwfr oer am fy llafur.

Un Sabboth, wrth ddyfod adref, mi a gyfarfum â'r clochydd. "Wel,

William," ebe efe, "Pwy sy'n talu i chwi am ddyfod yma o hyd i ddysgu y plant?"

"Talu!" ebe finau, "nid oes neb yn talu i mi; ac nid wyf yn dysgwyl tal hyd adgyfodiad y rhai cyfiawn." Yr oedd hyn yn beth dyeithr iawn i'r clochydd; a synu a wnaeth. "John," ebe fi, "gofynwch i'r person a gaiff plant yr ysgol Sul ddyfod i'r eglwys i ddyweyd eu catecism ryw Sabboth." Nyni a gawsom genad, a ni a aethom; a'r plant a atebasant y catecism yn bur dda; mewn canlyniad i hyny, daeth ychwaneg o blant i'r ysgol.

Yn mhen rhyw gymaint o amser, mi gefais dri o'r plant, yn gystal darllenwyr ag i fod yn athrawon sefydlog, i'm cynorthwyo i ddysgu y lleill. Mi ddeliais at y gorchwyl, nes cynyddodd yr ysgol, o'r diwedd, yn 120 o rifedi. Ac ni a gawsom ambell bregethwr i ddyfod yno i bregethu'r efengyl; a mawr oedd y llawenydd o'u cael. Ymunodd rhyw ychydig mewn proffes efo ni. O'r diwedd, cafwyd addewid gan Mr. Charles i ddyfod yno; wedi addaw o hono ddyfod, efe a ddywedodd wrthyf, "Wel, William, yr wyf yn bwriadu dyfod i'ch esgobaeth chwi, yn fuan." "Yn wir, Syr," ebe finau, "un go dlawd yw hi." Ond cafodd Mr. Charles ei foddloni yn fawr yno, drwy fod un o'r plant wedi adrodd pennod ar g'oedd iddo ar ddechreu yr oedfa.

Wele yma ddechreuad bychan yr achos yn Llandynan, ynghyd a'i fynediad ymlaen dros dymhor. Nid oes dim amgylchiadau rhyfeddol wedi hynodi y gwaith yn y lle, hyd heddyw. Nid yw yr ardal ond bechan, ar lechwedd y mynydd, sydd yn cyfryngu rhyngddi â Bryn-eglwys; ac ni all fod y trigolion yn llawer; eto, anrhydeddir y fro â rhagorfreintiau crefyddol, y rhai sydd o werth anmhrisiadwy i'r bobl a'i preswyliant.

PENTRE'-DWFR.

Dechreuwyd, yn y lle hwn hefyd, yn gyffelyb i'r lle cyntaf, trwy i Humphrey Edward fyned yno i gadw ysgol y nos, i ddysgu i'r plant ac eraill, ddarllen Cymraeg. Trwy gynorthwy y brodyr yn Llangollen, codwyd ysgol Sabbothol yn y lle; y rhai fuont lafurus a diwyd iawn yn cyrchu iddi am flynyddau, trwy bob tywydd; er fod iddynt dair neu bedair o filldiroedd o ffordd. Mae yn y lle hwn achos siriol; a chynulleidfa o 200 neu ychwaneg o rifedi, yn arfer ymgrynhoi i wrando gair Duw, gyda chysondeb.

Y LODGE.

Mae y lle hwn yn gorwedd yn mhellach oddiwrth Langollen; tuag wyth milldir, fe allai, ac o fewn tair neu bedair milldir i Groesoswallt. O herwydd ei bellder, ni allodd y brodyr yn Llangollen, wneuthur cymaint o wasanaeth i'r ardal hon. Mae yr achos hefyd wedi dechreu yn lled fore yma; mor fore a'r amser yr oedd William Lewis yn preswylio yn Adwy'r-clawdd; a rhaid fod hyny yn tynu at 60 mlynedd. Dywedir mai efe oedd y pregethwr a

ddaeth i bregethu gyntaf i'r ardal, ar fore Sabboth, mewn tŷ bychan; ac iddo fyned oddiyma erbyn y prydnawn i Glynceiriog, a phregethu yn yr awyr agored, wrth Bont-fadog, i dyrfa fawr. Daeth pregethwr arall o sir Drefaldwyn, sef Thomas Morris, i'r un manau, y Sabboth canlynol; yn yr oedfa y prydnawn, y tro hwn, torodd yn law trwm, ac felly yn anfanteisiol i gadw yr oedfa allan. Cynhyrfodd hyn feddwl gŵr parchus o'r gymydogaeth, o'r enw, Owen Owens, Llwydiarth, i gynyg ysgubor oedd gerllaw, i gadw yr oedfa; yn mhen rhyw gymaint o amser, tueddwyd ei feddwl i gynyg ei hun hefyd yn aelod eglwysig; yn y canlyniad, bu pregethu yn ei dŷ ef dros flynyddau. Yr oedd dau deulu, yn agos i'r Lodge, yn garedig at achos yr efengyl; sef, y rhai a breswylient Tŷ'n-rhos, a Brookside. Merch R. Phillips, Ysw., Tŷ'n-rhos, oedd y diweddar Mrs. Jones, Gwrecsam; i'r hon yr oedd brawd yn weinidog duwiol yn eglwys Loegr. Yr oedd pregethu, meddir, y pryd hwnw, mewn tŷ bychan, yn agos i dŷ ei thad; lle y byddai hi yn arfer myned i wrando yr ychydig bregethau a draddodid yno yn achlysurol. Mae capel wedi ei adeiladu yn y Lodge, er ys dros 40 mlynedd. Bu un, Mr. Edward Morris, mab i Richard Morris, Llangollen, yr hwn a fu yn un o flaenffrwyth Methodistiaeth yn y dref hono, yn byw yn y Lodge am flynyddau lawer; ac yn ffyddlawn iawn, yn ol ei ddawn, yn arolygu y gwaith yn y lle; ac yn lletya y dyeithriaid a ddeuent i ymweled a'r ardal. Mae yr ardal hon yn un lled Seisonig; a'r achos Cymraeg ynddi, o angenrheidrwydd, dan raddau helaeth o anfantais; eto, ar ol gweled blynyddau o nychdod ac iselder, y mae golwg siriol ar y lle hwn, er ys cryn dymhor bellach. Yma y mae y Parch. Daniel Roberts, yn byw, wedi priodi merch i Edward Morris, y gŵr crybwylledig uchod.

PONT-CYSYLLTAU.

Mae y lle hwn yn gorwedd yn isel yn nyffryn tlws Llangollen, o fewn pedair milldir i'r dref hono. Tua'r fl. 1801, yr oedd y bont wych hono, yr *Aquaduct*, yn cael ei hadeiladu; i weithio ati, daeth gôf o sir Fôn i'r ardal; yr hwn oedd yn grefyddwr. Hwn, wedi canfod amddifadrwydd yr ardal, o bob moddion o ras, a aeth at y brodyr i Langollen, i ymofyn am eu cynorthwy i ddechreu ysgol Sabbothol yno; ac nid yn ofer, un amser, y gwneid y fath gais ar law y brodyr yno; felly, cychwynwyd yr ysgol. Yn mhen rhyw gymaint o amser, ar ol ei chychwyniad, daeth pregethwr, o'r enw Lewis Llwyd, i fyw i'r ardal, o Manchester, tybygid; yr hwn oedd ŵr da a duwiol, er nad oedd yn bregethwr o dalentau mawrion. Y lle y bu efe byw dros y gweddill byr a roddwyd iddo, oedd lle a elwir y Chwarelau, ar y ffordd o Langollen i Ruabon; ac yn agos i Bont-cysylltau; ac yn ei weithdŷ ef y cedwid yr ysgol, ac y cynelid y pregethu. Symudwyd Lewis Llwyd yn fuan ar ol dyfod i'r wlad trwy angeu; eto, yr oedd yr ysgol Sabbothol wedi cymeryd gwraidd yn y lle, a chafodd ei hamaethu gan ryw rai yn y gymydogaeth,

mewn cysylltiad â chyfeillion o Llangollen, hyd nes y codwyd capel y Bont. Yn y cyfamser, yr oedd ysgolion eraill, yn y cymydogaethau cylchynol, wedi eu codi; sef yn y Garth, Acrfair, Cefn-mawr, a'r Fron; ond wedi codi y capel, ymunodd yr holl leoedd uchod, gan ymgrynhoi i'r un lle. Yr oedd yma, bellach, achos cryf a siriol; ac er i ddwy haid godi o'r Bont ar ol hyny, y mae yno gynulleidfa o 200 o rifedi yn ymgasglu i wrando, ac eglwys a thros 50 o aelodau ynddi.

GARTH.

Ardal yw hon, o fewn milldir a hanner i'r Bont. Yn y fl. 1834, daeth agwedd trigolion yr ardal hon dan ddwys ystyriaeth y brodyr yn y Bont; arferid pob tacrni, i ddwyn y preswylwyr i'r moddion a gynelid yn y Bont; ond aflwyddiannus fuont i raddau mawr. Parodd hyn i'r cyfeillion lochi yr amcan o fyned â moddion at y trigolion, gan na cheid mo honynt hwy i'r moddion. Ar y pryd, nid oedd ond pedwar neu bump o aelodau eglwysig yn preswylio yn yr ardal; eto, penderfynwyd adeiladu ysgoldŷ yn gyntaf peth; a chafwyd gan un o'r brodyr, sef Mr. Joseph Roberts, ddarn o dir i'r dyben, ynghyd a cherig, a phob cyfleusdra; ymosodwyd at y gorchwyl yn ddioed, a chyda chryn egni; a pharod ydoedd i'w hagor yn mhen ychydig fisoedd. Costiodd yr adeilad £55; ac nid hir drachefn, trwy gydweithrediad, a chwbl-ymroddiad, y bu y ddyled hon heb ei llwyr dalu; ac i ddangos teimladau siriol yr ardalwyr, yn enwedig y sawl yr oedd pwysau y gwaith arnynt, ar lwyr daliad y ddyled; ymofynasant am gyfarfod pregethu ar yr achlysur, a chanàsant:—

Rhown fawl ar g'oedd i Dduw yn gu,
Am iddo 'n dirion roi 'ni dŷ;
Am roi 'n ein bryd i gyd o'r bron,
I dalu y ddyled oll yn llon;
Tŷ 'r Arglwydd ydyw hwn;
Mae 'n rhydd oddiwrth ei bwn;
Mae, mae, ein meddwl prudd,
Yn llawenhau wrth wel'd y dydd.

Ond yn mhen tua deng mlynedd, ymddangosodd fod yr ysgoldŷ wedi ei godi trwy ryw amryfusedd, ar dir, ag oedd yn eiddo gwirioneddol i R. M. Biddulph, Ysw., A.S., a bu raid iddynt brynu y tir drachefn, am ddeg punt, neu ei golli. Hyn a wnaed, a sicrhawyd ef yn feddiant cyfreithiol i'r cyfundeb; talwyd hefyd yr holl gost ychwanegol hon, gyda'r un parodrwydd ag y talesid am yr adeilad ddeng mlynedd yn ol. Dechreuwyd yr ysgol, yn yr ysgoldŷ newydd, gyda sirioldeb mawr; a chafwyd arwyddion diymwad yn fuan mai nid ofer â fu y llafur yn yr Arglwydd.

Yn mhen dwy flynedd, neu ychydig yn ychwaneg, cynyddodd nifer yr aelodau eglwysig yn yr ardal, fel ag i roddi sail i feddwl, mai diberygl, bellach,

a fyddai fod eglwys yn y Garth, yn gystal a'r Bont; yn yr hon, hyd yn hyn, yr oeddynt yn aelodau. Yr oedd pob moddion, bellach, yn cael eu mwynhau yn yr ardal, heb fod mewn cysylltiad mwyach â'r fam eglwys, fel o'r blaen.

Tua'r fl. 1840, ymwelodd yr Arglwydd â'r ardal trwy adfywiad siriol; ac er nad oedd yma ddim tori allan mewn gwaedd neu fawl, eto ychwanegwyd at y gymdeithas eglwysig mewn ysbaid pedwar mis o amser, ddim llai na 35 o aelodau. Cyn hir amser canfuwyd angenrheidrwydd ail-adeiladu yr addoldŷ. Yr oedd bellach yn rhy gyfyng i'r gynulleidfa, yn llaith ei lawr, ac yn brin ei gyfleusderau. Penderfynwyd, trwy ganiatad y cyfarfod misol, ymbarotoi tuag at gael adeilad fwy, gyda thŷ a stabl yn gysylltiedig. Penderfynwyd hefyd wneuthur y cwbl ar draul yr ardal ei hun yn unig, a dechreuwyd casglu tuag ato. Yn nechreu mis Ebrill, 1847, wedi cludo llawer o ddefnyddiau ato, a chael cerig a thywod yn y sylfaen, gosodwyd y gareg sylfaen. Aeth y blaenor, Mr. John Jones, Cefn-y-fedw, ar ysgwyddau yr hwn yr oedd gofal yr achos yn y llc ymron yn llwyr, i Liverpool, trwy gydymgynghoriad y brodyr i brynu coed at yr adeilad. Dewisodd ynteu ddyddiau y gymdeithasfa yn y dref hono i fyned yno; yr hon a gynelid y flwyddyn hono ar y 23ain o Fai. Yr oedd gydag ef ei wraig, brawd a chwaer arall o'r eglwys, ac un wraig o gymydoges. Ar eu dychweliad adref, ar ol mwynhau cymdeithasfa dda, a phrynu coed at y capel; daethant heibio Caerlleon ar y rheilffordd sydd yn arwain i'r Amwythig, hyd at y bont ar Ddyfrdwy yr â y clydresi drosti; pryd y dygwyddodd y ddamwain alaethus o dori y bont, a'r cerbydau ddisgyn yn bentwr drylliedig i'r gwaelod ar làn yr afon. Meddai, Mr. John Jones ei hun, wrth ddarlunio y tro: "Yr oedd tri pheth yn dangos yn nodedig ddaioni Duw yn y ddamwain, er mor alaethus; sef, 1af, Toriad y modrwyau cryfion sydd yn cysylltu y cerbydau wrth y peiriant; felly aeth yr agweredd-beiriant a'r *tender* ymlaen, gan ollwng y cerbydau i lawr; oni buasai hyn disgynasai y peiriant ar y cerbydau, ac a'u drylliasai yn chwylfriw. 2il, Yr oedd yn amser trai yn yr afon; pe buasai y llanw i fyny, boddasid pawb cyn y gallesid estyn gwaredigaeth i neb; yn enwedig, gan fod y dyoddefwyr oll mewn llewygfeydd eisoes trwy y codwm. 3ydd, Yr oedd yspyttŷ *(infirmary)* y ddinas gerllaw, i gludo y rhai anafus iddo, lle yr oedd pob ymgeledd iddynt wrth law."

Yn mysg yr archolledig yr oedd Mr. John Jones a'i wraig, lle y bu ef ei hun yn gorwedd am rai wythnosau, a'i wraig am ddeng wythnos o leiaf; ond er i'r ddau ddyoddef yn dost, a'r wraig yn enwedigol, eto, arbedwyd eu bywydau, a dychwelasant i'w cartref, ac addunedasant bob un drosto ei hun, fel offrwm diolch am eu gwaredigaeth, os caent hwy ryw swm tuag at eu poen a'u colled, y rhoddent hwythau ryw faint o hono tuag at dalu dyled y capel newydd; o herwydd yr hwn yr aethent i Liverpool y waith hon. Yr adduned hon a dalwyd ganddynt, a rhoisant ddau cant o buuau, sef cant bob un at leihau dyled y capel; gan ddyweyd, "Canys oddiwrthyt ti, y mae pob peth, ac o'th law dy hun y rhoisom i ti." Y mae yr adeilad, gan hyny,

yr hwn a gostiodd o chwech i saith cant o bunnau, yn awr, trwy haelioni y brawd ffyddlon uchod a'i wraig, a thrwy ddiwydrwydd a ffyddlondeb anarferol y bobl dlodion yn yr ardal, heb nemawr ddyled os dim arno. Cymhwyswyd y capel bychan cyntaf i fod yn lle i gadw ysgol ddyddiol er addysgu plant tlodion y gymydogaeth. Nid oes gofod genym i ddilyn hanes yr eglwys hon yn fanwl; digon ydyw, i ni ddyweyd fod yma gymdeithas gryfach, mewn 20 mlynedd o amser, a llai nag sydd mewn llawer ardal er ys 60 mlynedd; nid llai, yn ddiweddar o leiaf, na 80 o nifer; a gwrandawyr cyson oddeutu 200. Iê, yn ychwanegol at hyn oll mae y gynulleidfa yn y Garth wedi dechreu tori allan i'r Gogledd, i le anghysbell ac anfanteisiol i'r trigolion i gael moddion gras, trwy sefydlu ysgol Sabbothol yno a chadw cyfarfodydd gweddio; ac nid heb arwyddion cysurus fod yr ymdrech wedi ei goroni â bendith.

ACRFAIR.

Ardal yw hon ynghanol gweithfaoedd glo a haiarn, oddeutu milldir neu fwy i'r dwyrain o'r Garth, ac nid llawer pellach o Bont-cysyllltau, ar y ffordd o Langollen i Riwabon. Ardal dra phoblogaidd ydyw, fel y gellid dysgwyl ei bod ynghanol gweithfaoedd o'r fath a nodwyd; ardal hefyd fel llawer o ardaloedd aml eu pobl, llawn o ddrygioni ac anystyriaeth. Yr oedd yma gryn gymysgedd hefyd o Saesou a Chymry; yr hyn, ynghyd a bod mwy o arferion llygredig yn ffynu ynddi, a barai ei bod yn annhebyg i ardaloedd cyffredin Cymru. Yr oedd meddwdod a dyhirwch o bob math mor uchel ei ben, fel mai nid eithaf dyogel oedd i neb fyned allan o'u tai ar nosweithiau Sadwrn a'r Sul; yr oedd gwedd farbaraidd ar y fro. Yr oedd y plant yn tyfu i fyny mewn perffaith anwybodaeth o bethau yr efengyl, ac yn barod i efelychu eu rhieni yn yr hyn oedd anfad a drwg. Tosturiodd y cyfeillion yn y Bont wrth resyndod y fro, a cheisiasant gan y brawd ffyddlawn, a enwyd fwy nag unwaith, Mr. John Jones, Cefn-y-fedw, yn y fl. 1835, i chwilio am ryw le cyfleus i ddechreu ysgol Sabbothol; ond anhawdd oedd ei gael. Nid oedd y trigolion eto yn gweled ei heisiau, nac yn gwerthfawrogi y fraint o'i chael. Methwyd, pa fodd bynag, a chael un lle gwell i'w chynal, ar y dechreu, na rhan o dŷ tafarn, dan arwydd "*Tom and Jerry.*" Wedi ei chadw, dros ryw ysbaid, yn y lle anmhriodol hwn, symudwyd hi i dŷ anedd ("Tŷ Margaret Jones"), lle y bu am ysbaid dwy flynedd. Bu raid, o herwydd afiechyd trwm a dorodd allan yn y teulu, ei symud drachefn i Ben-y-bedw, tŷ mwy; tŷ yr oedd Mr. David Roberts, gŵr a fu dros flynyddau yn henuriad parchus yn y Bont, yn byw. Cynyddai yr ysgol mewn rhifedi yn barhaus, nes oedd tri o dai yn angenrheidiol i gynwys ei deiliaid.

Wedi gweled yr ysgol yn ymwreiddio mor ddwfn, ac yn effeithio mor dda, gosodwyd yr achos o flaen y brodyr yn y Bont; a thrwy eu cydsyniad hwy, o

flaen y cyfarfod misol, gan erchi am gyfarwyddyd a chynorthwy i ddarpar lle mwy eang a chyfleus. Caed annogaeth i ymofyn am le i adeiladu capel yn yr ardal, lle hefyd a gafwyd; a dangosodd y trigolion, y rhai a fuasent gynt mor ddifraw, lawer iawn o awyddfryd a pharodrwydd i wneyd a allent, tuag at yr adeilad. Er ys blynyddau, bellach, y mae yma gapel prydferth, a chynulleidfa dda yn gwrando yn gyson. Mae cannoedd o blant wedi cael eu dysgu yn ystod y 18 mlynedd diweddaf; y rhai, yn ol pob argoel, a fuasent hyd heddyw, oni bai yr ymdrech a wnaed, yn berffaith anwybodus am bethau mawrion yr efengyl.

"Wele faint o ddefnydd y mae ychydig dan yn ei enyn!" Tua'r fl. 1760 nid oedd yr un capel gan neb o'r ymneillduwyr o fewn yr holl randir a fu dan sylw. Nid oedd yr un sefydliad i weinyddu addysg grefyddol i ieuenctyd yr ardaloedd; yr oedd y bobl yn eistedd yn berffaith dawel a diddig yn mro a chysgod angeu; heb fod neb yn gofalu am eu heneidiau. Anhawdd ydyw dychymygu am gyfnewidiad mwy; eto, fe'i dygwyd o amgylch gan ddynion bychain eu dawn, ond da eu cymeriad; heb fod ganddynt ddim dylanwad nac awdurdod, ond a feddent ar gyfrif cywirdeb eu hamcan, a chysonedd eu rhodiad. "Beth a wnaeth Duw," trwy y fath offerynau sydd heddyw yn destyn syndod a diolch, i bob meddwl ystyriol a chywir; dyry sail hefyd trwy yr hyn a wnaeth eisoes i ddysgwyl yn hyderus wrtho am lwyddo cyffelyb ymdrechion rhagllaw, nes byddo annuwioldeb yr ardaloedd yn gorfod cuddio ei ben mewn gwarth, a santeiddrwydd calon a buchedd yn nodweddu y trigolion yn gyffredinol.

BRYNEGLWYS.

Parth o wlad yw hwn sydd yn gorwedd yn mhell oddiwrth bob tref farchnad; Llangollen a Chorwen yw y rhai nesaf, ond y mae saith neu wyth milldir rhyngddo a'r naill ac a'r llall. Mae tair milldir a'r ddeg rhyngddo a Gwrecsam, yr hon a ystyrir gan y trigolion yn brif dref farchnad iddynt; ac y mae deg neu ddeuddeg milldir oddiwrtho i Ruthyn. Ni a grybwyllasom air am y plwyf hwn eisoes,* fel y plwyf a fwriodd allan o hono y Parch. S. Llwyd, B.A., Bala, am fod ei athrawiaeth yn fwy efengylaidd, a'i fuchedd yn fwy cyson nag a gyd-darawai â chwaeth gwŷr o gyfrif yn y plwyf. Dywed yr ysgrif sydd o fy mlaen, mai nid rhyw lawer o lwydd a welwyd ar y gwŷr hyny byth mwy. Dygwyddodd iddynt fel y bygythir y rhai a gâsant Seion, "Byddant fel glaswellt pen tai, yr hwn a wywa cyn y tyner ymaith;" gwywodd eu cyfoeth a diwreiddiwyd eu teuluoedd allan o'r fro. Dan weinidogaeth, unol â chwaeth y cyfryw ddynion, hawdd ydyw dyfalu pa fath ydoedd trigolion y cŵm hwn o ran gwybodaeth ac arferion, mewn amser nad oedd neb arall yn gofalu am eu heneidiau. Yr ydym hefyd wedi crybwyll y byddai John

* Cyf. I., tudal. 597.

Edwards, Gelligynan, yn arfer a dyfod yn achlysurol i bregethu ar y Rhos, Bryneglwys; ond er yr ymosodiadau hyn, ni chafodd ymneilldnaeth le i roddi ei throed i lawr. Yr oedd ymddygiadau y gwrandawyr, pan y cyfarchai John Edwards hwy, yn profi pa fath rai oeddynt. Sabboth yn yr haf ydoedd, a daeth ynghyd luaws; gorweddai rhai ar y ddaear, cerddai eraill o amgylch, siaradai eraill yn uchel, a chwerylai rhai â'u gilydd. Cychwynodd dau ymladd â'u gilydd, ond dywedai un wrth y llall, "Aros i'r bregeth ddarfod, ac yna mi ymladdaf â thydi faint a fyni." Felly, yn mhen pum' mynyd ar ol i'r oedfa fyned heibio, a chyn i'r gynulleidfa chwalu, yr oedd y ddau wedi ymddyosg; ac fel dywalgwn didoraeth yn rhuthro i'w gilydd, er difawr ddifyrwch i'r coeth-edrychwyr! Y cyfryw oedd gwedd anghrefyddol Bryneglwys ar ddechreuad y ganrif bresonol!

Tua'r fl. 1812, cafodd rhai o gyfeillion Llangollen ar eu meddwl wneuthur cais at godi ysgol Sabbothol yn Mryneglwys. Yr oedd y cais, ar ryw gyfrifon, yn ymddangos yn anhawdd, ac i ryw fesur yn afresymol. Yr oedd mynydd uchel a chribog i'w ddringo a'i groesi; yr oedd chwe' milldir o ffordd pe buasai yn wastad ac yn syth, ond y mae o leiaf yn ddwy filldir pellach wrth ddringo y mynydd ac amgylchu ar hyd y ffyrdd. Nid oedd neb yn yr holl gwm, oddieithr un wraig a ddaethai yn ddiweddar o sir Feirionydd i fyw i'r Tŷ-cerig, yn gofalu am wneuthur un gymwynas er hyrwyddo yr amcan. Nid oedd neb a'i ddrws yn agored i lochi yr ysgol yn ei dŷ; a phwy bynag a ddeuai yno ar y fath neges, ac o ba le bynag, rhaid oedd iddo ddwyn bwyd gydag ef; ac anturio y mynydd a'r tywydd, heb un dysgwyliad am wobr ond a ddychwelai i'w fynwes ei hunan, mewn tawelwch a boddhad fel un a geisiai at ogoneddu Duw trwy leshau dynion.

Ymosodwyd, er hyn oll, yn egniol at y gorchwyl; cymerwyd tŷ bychan ar lechwedd y mynydd i gadw ysgol ynddo, a pharhausant dros rai blynyddau i ddyfod yn siriol a ffyddlawn i ddysgu y trigolion tywyll i ddarllen, ac mewn gradd i ddeall gair Duw. Yn y cyfamser, ceid ambell bregethwr i ddyfod i'r lle; a chof genyf fod yno fy hunan, tua'r fl. 1813, yn pregethu yn y tŷ y cedwid yr ysgol ynddo; yr un modd llwyddid gydag eraill i ddyfod yno. Bendithiwyd y moddion i beri deffroad ac ymofyniad yn meddyliau llawer; a chyn hir o amser yr oedd pump neu chwech ag arwyddion lled amlwg arnynt o wir ddychweliad at Dduw. Ond nid oedd yma, er hyn, yr un gymdeithas eglwysig, na thros ryw dymhor ar ol hyn; ond yr ychydig nifer a gyfrifid yn grefyddol, pa rai a aent yn gyson, unwaith yn yr wythnos, i gyfarfod eglwysig a gynelid yn Llanelidan. Yr oedd i'r rhai agosaf dros dair milldir o ffordd, a llawer mwy i'r lleill; eto, cyfrifent hi yn fraint, er hyny, er mwyn cael mwynhau rhagorfreintiau y teulu.

Yn hanes Methodistiaeth yn Mryneglwys y cawn enghreifft ychwanegol faint o ganlyniadau pwysig a ddybynai ar amgylchiadau bychain, ac ar offerynau disylw. Nid anfynych, yn y gwaith hwn, y rhoddwyd prawf o'r gwasanaeth tra effeithiol a wnaethpwyd gan y gwragedd, er hyrwyddo y gwaith yn

ei flaen; bu felly yn Mryneglwys. Er fod yr ardal wedi ei hanrhydeddu â gweinidogaeth y Parch. Simon Llwyd, B.A., dros ryw dymhor; ac er fod John Edwards, Gelligynan, wedi gwneyd cais achlysurol i gyhoeddi newyddion da yr efengyl i'r trigolion tywyll; eto, nid oedd dim arosol a sefydlog wedi ei ddwyn i ben, hyd nes y codwyd ysgol Sabbothol yn yr ardal; hyn a wnaed, fel y dywedwyd, tua'r fl. 1812.

Yr offeryn i ddwyn hyn o amgylch oedd Mrs. Anne Roberts, Tŷ-cerig. Ganesid hi yn y fl. 1786, yn agos i Landrillo yn Edernion, sir Feirionydd; ac yno, pan yn ieuanc, y cafodd flas gyntaf ar wrando. Bu yn gweini hefyd mewn tŷ y byddai pregethwyr y Methodistiaid yn arfer lletya; hyn, gyda mynychu yr ysgol Sabbothol yn ei hieuenctyd, a osododd argraffiadau tyner am grefydd ar ei chalon, na allodd byth eu llwyr ddileu. Yr oedd hi yn un o'r rhai cyntaf yn ei hardal enedigol a gafwyd i ddysgu ar dafod leferydd, ac i adrodd ar gyhoedd i Mr. Charles, Bala, bennod o'r Beibl; moddion, gan eu newydd-deb; a barodd gryn gynhwrf mewn ardaloedd y pryd hwnw. Wedi tyfu i fyny, arweiniwyd y ferch ieuanc hon allan o'i bro enedigol, sef i Fryneglwys, trwy briodi Mr. Thomas Roberts, Tŷ-cerig, amaethwr cyfrifol yn yr ardal hono. Ar ei dyfodiad i'w chartref newydd, teimlai yn chwith iawn, gan nad oedd na gweinidogaeth yr efengyl, nac ysgol Sabbothol, na dim breintiau crefyddol, o'r fath a fwynhasai hi, mewn mesur mwy neu lai, o'i mebyd. Gofidiai yn fawr hefyd wrth weled fod hen arferion llygredig y Cymry, yn eu llawn rwysg yn yr ardal. Ac er nad ymunasai hi erioed ag un gymdeithas eglwysig; eto ni allai lai na phoeni yn ddirfawr, ac ocheneidio yn alarus, am yr anwiredd oll a gyflawnid o flaen ei llygaid; a phenderfynodd wneyd a allai hi i wrthweithio y drwg. Dechreuodd gartref, trwy losgi yn ulw y cardiau a roddai gymaint o ddifyrwch i'r teulu ar y Sabbothau; a gosododd ei bryd ar gael ysgol Sabbothol i'r gymydogaeth.

Yr oedd crydd, yr hwn a arferai weithio i'r teulu, o'r enw Harri Jones, yn byw mewn tyddyn bychan o'r enw Maen-y-goron; ac yn ŵr crefyddol a da. Hwn a arferai fyned i Langollen i addoli, gan ei fod yn byw rhwng Bryneglwys a'r dref hono. Ceisiodd Anne Roberts gan y gŵr hwn osod cyflwr ymddifad Bryneglwys ger bron y cyfeillion crefyddol yno, ac erchi arnynt ddarparu rhyw foddion i godi ysgol Sabbothol yn y cwm; hyn hefyd a wnaeth, a chafodd, fel y dywedyd, gan y brodyr yno addaw y deuent i Fryneglwys, er anhawsed y gorchwyl, os medrai gwraig Tŷ-cerig gael lle i'w chadw. Hithau a gafodd addewid o dŷ gwag, sef y Tŷ-draw; a dechreuodd ddyfeisio pa foddion a allai ddefnyddio i roddi hysbysiad i'r preswylwyr y byddai ysgol yn Tŷ-draw yn cael ei dechreu ar ryw Sabboth pennodol. Pa fodd bynag hi lwyddodd gyda dyn ieuanc, o'r enw Llywelyn Davies, i hysbysu y newydd i'r bobl, ar eu gwaith yn dyfod allan o lan y plwyf, foreu Sabboth. Felly, pan oedd cynulleidfa y llan yn troi allan, neidiodd Llywelyn ar gareg fedd o fewn y fynwent, a gwaeddodd yn uchel, "Bobl, gwrandewch, mae ysgol Sul i gael ei dechreu y Sabboth nesaf yn Tŷ-draw." Cerddodd y newydd yn gyflym

drwy yr holl gwm, ac ymbarotodd lluaws i ddyfod iddi; yr hyn a barodd bryder tra mawr yn mynwes y wraig dda, rhag i ddim ddygwydd i lesteirio athrawon ddyfod o Langollen i'w cyfarfod. Ond ffyddlawn fuont hwy i'w gair; a phan ddaeth y Sabboth, wele William Jones y gwŷdd, a John Parry, yn dechreu dringo Bwlch-y-garnedd, i ymosod ar orchwyl cwbl newydd i drigolion Bryneglwys; a gorchwyl a allai fod, os llwyddai Duw yr amcan, yn fendith annhraethol i'r holl ardal. Wrth ddyfod trwy Llansilio, galwasant heibio Maen-y-goron, i ddwyn Harri Jones a'i wraig gyda hwy; ac wedi cyrhaedd pen y Bwlch, ar gopa y mynydd, tybiasant mai teilwng fyddai cyfarch gorsedd yr Anfeidrol yn yr achos. Felly gosodasant eu gliniau ar lawr i ddeisyf gwên y nef ar eu hanturiaeth, a chawsant arwydd boddhaol iddynt eu hunain, fod eu cais a'u hamcan yn foddlawn gan Dduw.

Nid oes nemawr o wir ddaioni yn cael ei wneyd heb fod gwrthwynebiad yn codi iddo o ryw gŵr: felly y bu yma; a chan mai Anne Roberts oedd y prif ysgogydd, arni hi y disgynai yr ergyd. Deallodd ei meistres tir ei bod yn yn llochi y crefyddwyr, ac yn cynllunio i roddi iddynt safle arhosol yn y cwm; ac yn defnyddio moddion i luosogi eu rhif; a theimlodd yn dra digofus. Anfonodd fygythiad ati, os yn mlaen yr âi, y gorfyddai iddi droi allan o'r tyddyn; ond os ymostyngai i gais y foneddiges, na fyddai dim yn ormod ganddi i'w wneuthur erddi. Pan welodd nad oedd hyn yn tycio, ceisiodd gan ei gŵr ei throi ymaith; a chan faint oedd dylanwad y wraig fawr ar y tyddynwr, fe fygythiodd mai ymadael a fyddai raid i'w wraig oni ymattaliai. Ni thyciodd hyn chwaith i'w rhwystro, ond parhaodd i fyned rhagddi fel cynt; a chyn hir hi a lwyddodd i ennill ei gŵr a'i theulu i gymeradwyo ei hamcan; ac, nid yn unig, i beidio sefyll ar ei ffordd, ond hefyd i'w chynorthwyo. Y gelyn, gan hyny, a siomwyd, a'r gwaith da a aeth rhagddo. Yn fuan ar ol hyn, dyrysodd y foneddiges yn ei synwyrau, a symudwyd hi i'r gwallgofdŷ; yn y cyfamser, darfu y gwrthwynebiad; a chafodd yr achos seibiant i ymwreiddio ac ymeangu. Erbyn ei bod hi wedi ei hadferu i'w synwyr, a'i dychwelyd i'w thŷ, yr oedd tir capel wedi ei brynu, a'r capel newydd ar gael ei godi. Yr oedd hwn yn ddolur llygaid ychwanegol i'r wraig foneddig; ni allai oddef myned heibio iddo wrth fyned i'r eglwys, ac wrth ddychwelyd; am hyny penderfynodd fyned ffordd arall; a rhag iddi weled y cas beth â'i llygaid, planodd goed i dyfu fel ag i guddio y capel o'i golwg. Eto, nid yn fuan iawn y tyfai y coed, ac mewn cŵm mor oer ag ydyw Bryneglwys, nid oedd perffaith sicrwydd y tyfent byth; ïe, dywedir yn sicr fod y coed wedi methu tyfu. Pa un bynag, cynyddu a wnaeth Methodistiaeth, ac i fyny yr aeth y capel. Y weithred olaf a wnaeth y foneddiges hon, mewn gwrthwynebiad i'r achos crefyddol, oedd anfon gorchymyn caeth at Thomas Roberts, Tŷ-cerig, i beidio cario llwyth o ddim defnyddiau at adeiladu y capel newydd; ond yr oedd hyn drachefn yn rhy ddiweddar, gan fod y tyddynwr eisoes wedi cario ymron ddigon o galch at yr adeilad.

Fel hyn, cafodd Anne Roberts yr anrhydedd o fod yn brif offeryn i gael

ysgol Sabbothol i'r ardal; a bu yr ysgol yn foddion eilwaith i gael pregethu amlach; a'r cwbl yn foddion, dan arddeliad Ysbryd Duw, i ddofi llawer pechadur gwyllt, ac i ddyddanu llawer cristion galarus. Symudodd y pregethu yn mhen rhyw nifer o flynyddau o'r Tŷ-draw i Lwyn-onn, lle yr oedd gŵr, y pryd hwnw yn byw, o'r enw Henry Williams. Yn ei amser ef cysylltwyd Bryneglwys, a dwy ardal arall â'i gilydd, sef Llandynan, a Phentre'-dwfr, i fod yn un daith Sabbothol; ac felly cafwyd pregethu mwy cyson i Fryneglwys, nag a gawsid hyd hyny. Bu Henry Williams yn llafurus a ffyddlawn dros lawer blwyddyn, yn arolygu, ac yn cynal yr achos yn yr adal hon; a pharhaodd i wneuthur hyny, hyd nes y symudodd o'r ardal i fyw. Cafodd ynteu lawer o wrthwynebiad oddiwrth ei wraig, yr hon a fu yn ddraen yn ei ystlys, ac yn bigau yn ei lygaid, oblegid ei ymlyniad wrth grefydd.

Ymhen rhyw gymaint o amser chwanegwyd at y praidd bychan trwy ddyfodiad teulu crefyddol i'r gymydogaeth i fyw, o Rhosllanerchrugog. Yr oedd yn y teulu hwn bump o aelodau eglwysig, ac yn eu plith yr oedd un yn flaenor, ac un arall yn bregethwr. Enw y penteulu oedd John Roberts, yr hwn a fuasai yn gwasanaethu swydd diacon, er ys blynyddau, yn Rhos. Mab i'r gŵr hwn ydyw y Parch. Daniel Roberts yn awr o'r Lodge, ger Croesoswallt. Ar dderbyniad y fath gyfnerthiad, penderfynwyd sefydlu cymdeithas eglwysig yn yr ardal, a chynaliwyd y cyfarfodydd neillduol yn mharlawr y "Pentre" (enw yr amaethdŷ y preswyliai y teulu ynddo); tra y cedwid y cyfarfodydd cyhoeddus mewn amaethdŷ arall o'r enw "Llwyn-onn."

Yn mharlawr y Pentre' yr aeth Anne Roberts gyntaf i'r gymdeithas eglwysig; a hi oedd y gyntaf o drigolion Bryneglwys a wnaeth gais am aelodaeth eglwysig gyda'r Methodistiaid. Yr oedd y wraig hon wedi profi grym y gwirionedd flynyddau cyn bod yn aelod proffesedig. "Yr oedd ei gwraidd yn erbyn Amelec." Nid gwrthwynebiad, ac nid esgeulusdra, a barodd iddi fod cyhyd heb wneuthur proffes mwy cyhoeddus a phenderfynol, ond yr anghyfleusdra; ond wedi cael cyfarfod eglwysig o fewn ei chyrhaedd, hi oedd y gyntaf i wynebu ato.

Yn y tymhor hwn yr oedd yr achos yn myned rhagddo yn gyflym iawn. Y gwrandawyr yn lluosogi yn fawr, a'r cyfarfodydd oll, neillduol a chyhoeddus, yn cael eu coroni ag ardderchogrwydd tra nodedig. Lluosogodd yr eglwys yn fuan i 40 o nifer; aeth Llwyn-onn, bellach, yn rhy gyfyng i gynal y gwrandawyr, a'r ystafell yn y Pentre' yn rhy fechan i'r aelodau, a rhaid oedd ysgogi ymlaen yn rhyw gyfeiriad.

Penderfynwyd yn unllais i ymosod at gael capel: ac wedi ei ddechreu nid hir a fu, fel y soniwyd, heb ei orphen. Syrthiodd ysbryd gwrando ymron ar yr holl blwyf; a buan y profwyd fod y capel yn rhy fychan i'r gwrandawyr, a bu raid ei helaethu trwy roddi oriel *(gallery)* arno. Mae yr eglwys yn cynwys tua 100 o aelodau yn awr, heblaw tri neu bedwar cant o bobl yn arfer gwrando yn gyson ar weinidogaeth yr efengyl. Mae y nifer hwn, gan nad yw y plwyf yn boblog, yn cynwys corff y trigolion; ië nid llawer o ardaloedd

sydd yn awr yn Nghymru y mae y gymydogaeth wedi ei hennill yn llwyrach i ymarfer â moddion cyhoeddus o ras na hon.* Fel hyn cafodd Mrs. Roberts, gwraig Tŷ-cerrig, trwy daerineb yr hon y daeth cyfeillion Llangollen i agor ysgol Sabbothol yn yr ardal, weled, er ei chysur, ymhell cyn iddi ymadael o'r byd, fod gwên y nefoedd wedi coroni ei chais; bod ei symudiad o Feirion i Fryneglwys i fyw wedi cael ei wneuthur yn wasanaethgar i dcyrnas Immanuel; a bod cannoedd o bechaduriaid eisoes wedi eu llesâu, a bod sail wedi ei osod i obeithio, y byddai i luaws mwy, mewn amseroedd dyfodol, gael eu dwyn i etifeddu gras y bywyd. Gallesid dyfalu y llwyddasai yr ymdrech, gan i'r brodyr oedd yn myned yno y Sabboth cyntaf i ddechreu yr ysgol yn Tŷ-draw, gytuno i benlinio ar y ddaear, ar ben y mynydd, ar i'r Arglwydd yn ei ras fendithio yr amcan. Mae yn debyg mai hwn oedd y tro cyntaf erioed i ddau neu dri ymgynull arno yn enw yr Iesu. Yr oedd yma lawer troed wedi ei sathru, a llawer boneddwr wedi bod yn ei gyniwair i ymofyn Grugieir; ond yn awr, bu ei goppa yn allor i Dduw, ac yn gysegredig i weddi a mawl. Bu farw Anne Roberts yn 1854.

PENNOD IX.

PARHAD O HANES EGLWYSI SIROEDD DINBYCH A FFLINT.

CYNWYSIAD:—

HENLLAN—JOHN THOMAS, LLAN-CWNLLE YN PREGETHU YN 1769-70—ERLID YN CODI—AFLONYDDU AR RICHARD TIBBOT YN TY'N-Y-LLIDIART—CYFARFOD MISOL YN 1773—CAIS AT AFLONYDDU AR Y CYFARFOD—OWEN A JANE DAVIES—CYMDEITHASFA YN 1780—ADEILADU CAPEL—SWYDDOGION YR EGLWYS—YR YSGOL SABBOTHOL—JOHN DAVIES, NANTGLYN.

HENLLAN.

Mae y pentref hwn yn sefyll o fewn tua dwy filldir i'r gogledd-orllewin o dref Dinbych. Mae Methodistiaeth wedi hen wreiddio yn Henllan; dechreuwyd pregethu yma ar ddadebriad yr achos, wedi y llewygfa fu arno yn amser yr ymraniad; a gwreiddiodd yma yn llawer cynt nag y gwnaeth yn Ninbych.

Yn y fl. 1769—70, meddir, y gwnaed y cynygiad cyntaf i bregethu yn y plwyf hwn, a hyny gan yr hyglod John Thomas, Llancwnlle gynt, wedi hyny o Ddinbych. Y lle y safai arno oedd careg farch, wrth y clochdŷ; a'r amser oedd ddydd Mawrth Ynyd. Dygwyddodd, hefyd, fod priodas un o ferched gŵr boneddig yn y gymydogaeth yn cymeryd lle ar yr un pryd. Yr oedd John Thomas wedi dechreu pregethu, pan ddaeth mintai y briodas

* Mae yma hefyd un pregethwr yn byw, sef Mr. David Hughes.

allan o'r llan; a phan ddaeth tad y foneddiges i'r golwg, a deall pa beth oedd yn myned ymlaen, dechreuodd floeddio, "Ho! Ho! dyma y penaucryniaid wedi dyfod, wragedd; fe fydd eich padelli ffrïo ar waith yn y man yn gwneuthur crempogau, ewch i'w cyrchu yn union; a churwch hwy eich goreu, i rwystro y dyn yna frygywtha." Cipiwyd yr amnaid, a chyrchwyd y padelli yn ddiattreg, a churwyd hwy o ddifrif, gan erlid ar ol y pregethwr i lawr y llan; a phan y cyrhaeddodd at yr efail sydd yn nghanol y llan, cwympwyd ef trwy godi ei sodlau, a disgynodd ynteu ar ei gefn yn archolledig, a'i waed yn llifo. Y dynion a wnaeth hyn oeddynt ddau frawd, Thomas a John Hughes o Lôn-wilcin. Ar ol hyn daeth Thomas i fod yn bregethwr ei hun, a daeth John i fod yn broffeswr dysglaer! Mynych y soniai y ddau frawd wrth John Thomas, am y tro, pryd y rhoddid mantais i'r naill blaid gyfaddef eu bai, ac i'r llall ddatgan ei faddeuant; gan y gwyddai mai mewn anwybod y gwnaethent.

Yr oedd yma rai gwŷr eisoes, tybygid, wedi cael blas ar yr efengyl, ac wedi ymuno â'r crefyddwyr yn nghymdeithas eglwysig Bryn-bugad, yr unig un, fel yr ymddengys, yn yr holl wlad; gan y cawn fod yn cyd-gyfarfod yno rai o wyth neu ychwaneg o blwyfi cylchynol. Yr oedd lle, a elwid Tŷ'n-y-llidiart, yn sefyll ar fin y ffordd rhwng Henllan a Llansanan. Yr oedd y tyddynwr, Robert Owen, wedi bwrw ei goelbren gyda'r Methodistiaid yn Mryn-bugad, ac wedi ei dueddu yn y canlyniad i agor ei ddrws i dderbyn pregethu i'w dŷ. Yr oedd cyhoeddiad Edward Parry i fod yno ryw fore Sabboth. Yr un Sabboth dysgwylid Richard Tibbot, o Lanbrynmair i Frynbugad, ond gan nad oedd i bregethu cyn y prydnawn, efe a aeth gydag Edward Parry i Dŷ'n-y-llidiart i'r oedfa y bore. Yn y cyfamser yr oedd offeiriad plwyf Llanefydd yn llin iawn, o herwydd fod pregethu yn ei blwyf ef; ac wedi cael hysbysrwydd fod pregeth i fod yn Tŷ'n-y-llidiart, aeth at Mr. Wynn, Plas Newydd, plwyf Henllan, i ofyn a ddeuai gydag ef yno i'w rwystro. Cydsyniodd ynteu, ac wedi cyrhaedd y lle, rhoisant eu ceffylau i'r gwas i'w gwarchod, a hwythau a aethant i'r buarth i wrando.

Nid oedd Mr. Wynn, tybygid, mor barod i aflonyddu yr oedfa, ag y buasai ddymunol gan ei gydymaith parchedig; a dewisai wrando yn hytrach. Yr offeiriad, ar y llaw arall, a benderfynodd fyned i mewn, i edrych meddai, pa fath lyfr oedd gan y pregethwr. Gofynodd hefyd—

"Pa ham y meiddiwch bregethu mewn tŷ heb ei *recordio*?"

"Mae gorchymyn wedi ei roddi," atebai Edward Parry, "i fyned i'r prif ffyrdd a'r caeau; ac yn fy nhŷb i, ni waeth myned i dŷ, os byddai cyfleusdra, na hyny."

"Yr wyf fi," ebe yr offeiriad, "yn pregethu i'r plwyfolion bob Sul, fel nad oes raid i neb arall ymyraeth." Wrth hyn, deallodd Mr. Tibbot, mai offeiriad ydoedd; ac ebe fe—

"Yr wyf yn tybied, Syr, mai o'r un llyfr a minau yr ydych chwi yn yn pregethu, ac fe allai, oddiar yr un testynau."

" Rho'wch weled pa lyfr sydd genych," ebe y person.

Rhoddwyd y llyfr iddo, ac erbyn edrych, Testament Groeg ydoedd. Gwelodd yn y fan, nid yn unig fod y llyfr yn dda, ond fod y pregethwr yn gwybod yn dda am dano; a phenderfynodd y ddau ŵr boneddig nad oedd dim modd gwneyd dim i'r bobl hyn, heb ddwyn gwarth arnynt eu hunain, fel rhai yn gwrthwynebu gwaith da, ac yn ymosod ar ddynion mor helaeth a llawn eu gwybodaeth a hwy eu hunain. Ymaith, gan hyny, yr aethant heb yngan gair yn ychwaneg.

Tua'r fl. 1773, cynaliwyd cyfarfod misol, neu gyfarfod a elwid ar yr enw hwnw, yn Henllan; yn muarth y tafarndŷ a elwid y Tŷ-coch. Y pregethwyr oeddynt Humphrey a John Owens,* Berthen-gron, sir Fflint; a Dafydd Jones Adwy'r-clawdd. Pregethai Dafydd Jones ar y gair, " Canys daeth dydd mawr ei ddigter ef, a phwy a ddichon sefyll." Dat. vi. 14; a bendithiwyd y bregeth hon i argyhoeddi gwraig, o'r enw Mary Jones; yr hon a ddychrynodd gymaint wrth ei gwrando, nes peri iddi fyned ymaith o'r oedfa cyn ei diwedd, a myned i faes gerllaw afon oedd yn agos, i edrych ai ni wnai sŵn yr afon yn ei chlustiau, foddi sŵn y bregeth yn ei chydwybod! Ond nid trwy foddion o'r fath yr oedd cydwybod euog i gael ei phuro; ac o drugaredd, ni fu y cyfryw foddion chwaith yn ddigon effeithiol i fygu ei chyhuddiadau. Dybenodd y tro hwn yn ei gwir ddychweliad at Dduw. Yr oedd y wraig hon ar y pryd yn weddw, ac oddeutu 30 ml. oed. Cafodd fyw hyd henaint teg; parhaodd yn nodedig ei diwydrwydd gyda holl ddefodau crefydd, a'i gofal am achos yr Arglwydd Iesu, hyd ei marwolaeth. Bu yn proffesu crefydd tua 60 mlynedd; ac yn y tymhor hwn, cynyddodd i raddau helaeth o wybodaeth, yn athrawiaeth yr efengyl, yn gystal ag mewn profiad ysbrydol o'i rhinwedd; cymaint o leiaf, a nemawr un, o'i hamgylchiadau hi, a welwyd yn yr holl wlad.

Yr oedd yn bresenol yn yr oedfa uchod ŵr, o'r enw John Ellis, yr hwn a fernid yn ddyn dysgedig; wedi ei ddwyn i fyny i fod yn offeiriad; ac ar y pryd yn athraw ysgol yn Henllan. Pan glywodd hwn Dafydd Jones yn darllen ei destyn, dywedodd wrth ryw rai gerllaw iddo, " Dyna i chwi ffwl; yn cymeryd ei destyn yn llyfr y Dadguddiad; oblegid," meddai, " llyfr yw hwnw heb ei ddadguddio gan Dduw; a llyfr nas gall neb ei ddeall!" Pa beth bynag a fernir am ddwfn ddirgelwch y llyfr, fel proffwydoliaeth am bethau dyfodol, y mae ynddo luaws o egwyddorion amlwg; a diau mai y pethau amlwg hyny, y rhai a roddwyd i ni ac i'n plant, a bregethwyd ar y pryd gan Dafydd Jones; ac a fendithiwyd i Mary Jones, er fod y mawrion a'r dysgedig yn tramgwyddo wrthynt. Ac nid hyn oedd y cwbl a wnaed tuag at ddarostwng y cyfarfod misol. Yr oedd gŵr, yn y gymydogaeth, o'r enw John Jones, Cefn-ceirch, yr hwn oedd oruchwyliwr i ŵr boneddig yn y gymydogaeth; hwn, gan amcanu boddhau ei feistr, a brysurodd ei hun i godi

* Gwel eu hanes, dan "Hanes y Berthen-gron," sir Fflint.

cyffro, ac i beri aflonyddwch yn y cyfarfod. Llwyddodd hefyd i grynhoi lluaws o bobl ynghyd ar fedr creu terfysg a chynhwrf; ond rhyw fodd erthylodd ei amcan; dwylaw yr erlidwyr a ddiffrwythwyd, a llwyddiant yn lle cyffro a ddilynodd. Un ddyfais a ddefnyddiwyd i rwystro yr oedfa, oedd cyflogi rhyw ddyn, am chwart o gwrw, i fyned i'r buarth, ar ganol yr oedfa, a gwaeddi fod ar John Jones, Cefn-ceirch, eisiau H. S., y gôf, i ddyfod allan i bedoli ei geffyl. Methodd y ddyfais hon hefyd, gan i'r gôf lithro allan yn ddystaw, er mwyn rhoddi taw ar nâd y terfysgwr. Ni fu Dafydd Jones, y pregethwr, fyw nemawr ar ol hyn; gan y claddwyd ef yn y fl. 1774.*

Llawer dull ac ystryw a ddefnyddiwyd yn mlynyddoedd cychwyniad Methodistiaeth, gyda'r dyben o attal ei fynediad yn mlaen; ond er i lawer un ddyoddef yn drwm yn ei gorff, yn ei enw, neu yn ei feddiannau, dros ryw dymhor; eto, nid oedd yr un ystryw yn llwyddo i lethu y gwaith. Yn mlaen yr oedd yn cerdded, er pob gwrthwynebiad. Fel yr oedd y werin yn cael eu hennill i wrando, ac yr aeth baeddu y crefyddwyr yn beth gwarthus yn eu mysg, rhaid oedd i'r boneddwyr gwrthwynebol ymofyn am ryw foddion eraill i ddwyn eu hamcan oddiamgylch. A hyn a wnaent trwy droi dynion o'u tai, neu trwy eu dirwyo, neu eu carcharu; ond yr oedd y "cynghor hwn o Dduw, ac ni ellid ei ddiddymu; a hwythau a gafwyd yn ymladd yn erbyn Duw."

Yr oedd yma ŵr a gwraig, o'r enw Owen a Jane Davies, wedi profi awdurdod y gair ar eu cydwybodau, a'u dwyn i hoffi iau yr Iesu; ymunasant â'r eglwys yn Mryn-bugad, ond hwy deimlent yn awyddus i ddwyn yr efengyl i'w pentref trigiannol eu hunain. Ac er iddynt ddyoddef llawer yn yr ymdrech, cawsant weled yr amcan wedi ei gyrhaedd; ac yn mhell cyn eu marw, cawsant ganfod eglwys lnosog wedi ei chasglu, y gwrthwynebiad wedi llaesu, tŷ addoliad wedi ei godi, a moddion gras wedi eu sefydlu gyda chysondeb yn Henllan.

Tua'r fl. 1778, pan y cynelid cyfarfod i weddio yn nhŷ Owen a Jane Davies, daeth *constable* i mewn, ag awdurdod ganddo i ddal pwy bynag a geid yn gweddio ar y pryd. Dygwyddodd mai pregethwr, o'r enw John Williams, oedd yn gweddio ar yr adeg y daeth y swyddog i mewn. Ar ei waith yn dyfod i mewn ac ar ol ymwrando dros enyd, torodd allan, a dywedodd, "Ar fy nghydwybod, fy nhangnefedd arnoch." Ac er fod y wŷs gyfreithiol yn ei boced, ni allodd gyffwrdd â neb o'r gweddiwyr, ond dywedir iddo fyned ymaith dan wylo.

Un noswaith yr oedd John Jones, a Richard Hughes o Leyn, i bregethu yn nhŷ Owen Davies. Deallodd y gwrthwynebwyr fod pregeth i'w dysgwyl, a darparwyd y gwarantau i ddal pwy bynag a bregethai. Dygwyddodd i John Jones fyned yn gyntaf o'r tŷ llety, a sefyll ar ben 'stol i ddechreu; ymbarotodd y swyddogion hwythau i'w ddal. Yr oedd Richard Hughes heb gyrhaedd

* Gwel ei hanes, Cyf. I., tudal. 148.

i'r lle o'r tŷ y lletyai, a chlybu fod cynhwrf yn achos John Jones; parodd hyn iddo ymguddio, a diangodd rhag cael ei ddal. Rhoddwyd John Jones i ofal cwnstabl, o'r enw John Daniel, yr hwn hefyd oedd grefyddwr. Tranoeth aed a John Jones i Lanelwy, o flaen yr Ustusiaid, a chawsant ganddo addaw na ddeuai i bregethu byth mwy i Henllan. Bu John Jones yn Henllan, ar ol hyn, ond "oblegid y llŵ," ni wnai ond gweddio.

Y gŵr hwn a aeth ag Owen Davies, y gŵr a gynwysai bregethu yn ei dŷ, i Lanelwy hefyd; a defnyddiwyd pob moddion teg a hagr, i gael ganddo addaw, na throseddai mwy yn y ffordd hono; ond nid oedd dim yn tycio. Bygythid ei ddirwyo yn drwm, ac, yn niffyg talu y ddirwy, y carcherid ef; bygythid ef â llŷs yr esgob, yr hwn a dybid yn waeth na charchar. Rhoddid ar ddeall iddo y troid ef o'i dŷ, ac y byddai yn nod i ddialedd gwlad ac eglwys; eto yr oedd Owen Davies fel y graig, ac anmhosibl oedd cael ganddo gydnabod ei fod ar fai, nac addaw diwygio. Ffyrnigodd y gŵr mawr at yr hyn a dybid ganddynt yn gyndynrwydd, fel na ddiangodd y truan heb brofi yn y canlyniad pa mor adgas ganddynt ydoedd ei waith yn llochi y penau-cryniaid. Collodd ei dŷ, a chymaint oedd dylanwad y gwrthwynebwyr yn Henllan nad oedd neb arall yn foddlawn i osod tŷ iddo. Dywedir ddarfod i holl foneddigion y gymydogaeth roddi eu câs gymaint arno, fel na chai dŷ i fyw ynddo gan neb o honynt; ac nid rhyfedd, ar ryw gyfrif, oedd hyn, gan i Owen Davies ddadgan o flaen yr ynadon na pheidiai dros ei oes a rhoddi ei dŷ i dderbyn pregethu iddo.

Yn y tro chwerw hwn dygwyddodd i'r hybarch John Pierce ddyfod heibio, ac wedi clywed am brofedigaeth Owen Davies a'i wraig, efe a'i cyfarchodd yn siriol a hyderus, gan ddywedyd, "Ni fyddwch chwi ddim heb le i glywed yr efengyl yn eich oes." Yr oedd yr olwg ar y pryd yn dywyll iawn, pa le a gai Owen Davies i fyw; a pha le hefyd y ceid lloches i'r pregethu. Yn y benbleth, cynghorai Edward Parry, o'r Bryn, ef a'i gyfeillion i ymuno â'u gilydd i adeiladu tŷ iddo. Yr oedd anhawsder mawr yn hyn; pa le y ceid y tir? Ac wedi ei gael, pa le y ceid yr arian i'w godi? Tybygid i Edward Parry roddi rhyw amnaid, os ceid y tir, y gosodid rhywbeth ar droed i dalu am ei adeiladu.

Yn y fl. 1780, cynaliwyd cymdeithasfa yn Henllan, yn yr hon y bu achos Owen Davies dan sylw. Tybiwyd mai teg a brawdol ydoedd ei amddiffyn, a phenderfynwyd ei gynorthwyo. Yr oedd casgliad o ddimai yn yr wythnos oddiwrth bob aelod yn Ngwynedd, y pryd hwnw, yn cael ei wneyd tuag at adeiladu capelau mewn gwahanol fanau; ac yn y gymdeithasfa hon, barnwyd yn addas, gynorthwyo Owen Davies a'r brodyr yn Henllan o'r casgliad hwn; neu fod un chwanegol o ddimai yn cael ei wneuthur yn bwrpasol i hynyma. Cafwyd tir hefyd dan *lease* gan ŵr boneddig o babydd! sef Mr. Parry o Dywysog. Ymbarotowyd i adeiladu, a nodwyd y tir allan.

Pan glybu boneddwyr y fro fod tir wedi ei gael, llanwyd hwy o greulondeb; a thynasant ymaith y polion a yrasid i'r ddaear i ddynodi maint y lle; a bu

raid ail-gyrchu y tir-fesurydd i'w ail osod allan : mor salw yr ystryw ! Ond nid hyn oedd y cwbl, ond gwnaethant eu gwaethaf drachefn i lesteirio cael cerig i'w adeiladu ; ac at y pabydd y bu raid myned eilwaith am y gymwynas, a chaniataodd y boneddwr i gerig gael eu codi yn ei faes ef. Ac yn ychwanegol at hyn oll, y seiri, mewn amryfusedd, a godasant y tŷ oddeutu chwe modfedd hwnt i derfynau tir Mr. Parry, tua'r ffordd. Yr oeddynt wedi adeiladu y muriau hyd at y simdde cyn deall eu camsyniad. Wedi i'r erlidwyr gael cymaint a hyn o fasgal arnynt, nid oedd i'w ddysgwyl ond eu heithaf ; a bu raid ei dynu oll i lawr drachefn, a'i ail-adeiladu ; ond ei adeiladu a wnaed er yr holl wrthwynebiadau. Cafodd Owen Davies a'i wraig loches yn y tŷ hwn, a'r efengyl hefyd. Bu y pregethu yn cael ei gynal yn y tŷ yma am fwy na 30 o flynyddau. Cafodd y ddau hen gristion hyn y fraint o fod yn ffyddlawn hyd eu diwedd. Rhoddwyd iddynt weled llwydd mawr ar y gwaith, capel wedi ei adeiladu, ac eglwys a chynulleidfa luosog wedi ei chrynhoi. Nid bychan a raid fod trallodion y dynan tlawd hwn, dan yr ymosodiadau a ruthrent arno ; ac nid eiddil yr egwyddorion a'i cynaliai ynddynt. Teimlai ei hun yn fynych mewn penbleth a phetrusder pa beth i ateb i'r boneddwyr pan y gelwid ef o'u blaen, ac yr holid ef ganddynt ; ond gair yr Iesu i'w ddysgyblion a'i cysurai, "Na ofelwch pa fodd neu pa beth a lefaroch." Ac, ar un tro, pan y'i holid gan yr Ynadon, ni fu raid iddo ymofyn am ateb iddynt ; canys yn yr adeg yr oeddynt yn dysgwyl atebiad ganddo i'r cwestiynau a ofynasid iddo, disgynodd yn ddisymwth dwrf taran arswydus, megys ar nen y llysdŷ ; a pharodd y fath ddychryn arnynt nes iddynt ffoi ar frys o'r lle. Safodd goleuni y fellten yn atebiad iddynt ar y pryd ; a chafodd y diniweid loches yn "nirgelwch y daran."

Bu farw y ddau gristion ffyddlawn hyn yn hen ac yn gyflawn o ddyddiau ; y wraig yn y fl. 1809, a'r gŵr yn 1811. Yr oedd y ddau mor ddiysgog eu hymddiried yn y Gwaredwr wrth farw, ac a fu eu ffyddlondeb trosto wrth fyw.

Tua'r fl. 1782 y galwyd swyddogion ac y'u gosodwyd ar y ddeadell fechan oedd wedi ei chorlanu ; y ddau wŷr a osodwyd, oeddynt John Davies, y gwehydd ; a John Hughes, y dilledydd ; yr oedd y ddau yn wylo yn hidl ar waith ryw hen bregethwr yn ymddyddan â hwy am bwysigrwydd eu swydd. Yn mhen dwy neu dair blynedd wedi hyny, daeth un John Peters i Henllan i fyw ; a bu y tri wŷr yn cyd-flaenori tra buont yn cyd-oesi. Bu y cyntaf farw, yn 1811 ; yr ail, yn 1817 ; a'r olaf, yn 1835, yn 81 mlwydd oed. "Am danynt," meddai fy nghohebydd,* "gellir dywedyd, na chafodd un eglwys yn Nghymru ragorach blaenoriaid na hwy. Yr oedd John Davies yn rhagori mewn cangder gwybodaeth, a manylrwydd rhodiad ; John Hughes mewn ysbrydolrwydd meddwl ; a John Peters mewn sêl a doniau ysbrydol." Bu dau eraill yn blaenori yn yr eglwys hon, y rhai y mae eu coffadwriaeth yn dra

* Mr. John Roberts ; gan yr hwn hefyd y cafwyd y rhan fwyaf o'r ffeithiau a grybwyllwyd, wedi eu hysgrifenu ganddo o enau yr hen a'r hybarch John Daniel.

pheraroglaidd; sef, Robert Thomas, yr hwn ni chafodd hir dymhor yn ei swydd, cyn ei symud gan angeu. Yr oedd yn ddyn cyflawn a medrus, a bu yn ffyddlawn a defnyddiol iawn; bu farw yn 1820, yn 44 ml. oed. Y llall oedd, John Jones, Pen-y-bwth; yr oedd crefyddoldeb hwn o radd uwch na'r cyffredin; anfynych yr adroddai ei brofiad neu y traethai ei syniadau yn yr eglwys, na byddai ei ddagrau yn llifo, a dwfn yr argraff a wneid ar y gwrandawyr. Bu ynteu farw yn 1840 yn 71 ml. oed, wedi bod yn swyddog yn yr eglwys am 35 o flynyddau.

Yr oedd cychwyniad yr ysgol Sabbothol yn Henllan, fel mewn llawer lle arall, yn llawn anhawsder. Yr oedd y gwaith yn ddyeithr; y crefyddwyr eu hunain gan amlaf yn ddifater, os nad yn wrthwynebol; a'r ychydig ddeiliaid a gesglid iddi yn anfoesgar a didrefn; felly yr oedd yn Henllan. Llaweroedd o weithiau y bu yr hen frawd John Daniel ei hunan yn ei chadw, a'i brif gynorthwy lawer tro, a thros beth amser, oedd Owen Davies a'i wraig, er eu bod yn oedranus ac yn anfedrus mewn dysgeidiaeth. Am dalm o amser, nid oedd dim trefniant dosbarthiadol arni; ond byddai John Daniel yn rhoddi gwers i bob un yn ei dro, ac i bob un ar ei ben ei hunan. Gydag anhawsdra mawr y cafwyd rhyw fath o drefn ar y plant. Rhwng bod yn ddisylw o'u gwersi, ymryson â'u gilydd, a bod yn anufydd i'w hathrawon, yr oedd helaethrwydd o addfwynder ac amynedd yn angenrheidiol ar eu hathrawon. Yr oedd y rhai ag oeddynt wedi dysgu ychydig yn tybied eu hunain yn rhy wych o ysgolheigion i ddarllen y Beibl yn barhaus; a chaniatawyd iddynt ddyfod a "Llyfr Gurnal" gyda hwynt i'r ysgol; ond blino a wnaethant yn fuan ar hwnw. Drych sydd yma i ganfod pa anhawsder mor fawr oedd sefydlu ysgol Sabbothol ar y dechreu; a pha ffyddlondeb mor fawr, oedd gan y rhai a lwyddasant, er pob anhawsder, i'w chadw i fyny dros flynyddau, a'i dwyn o'r diwedd i drefn ac effeithioldeb. Ni fu llawer o drefn dosbarthiadol ar yr ysgol yn Henllan hyd y fl. 1813—14.

Yr oedd John Daniel yn lled oedranus pan y galwyd ef i'r swyddogaeth, rhwng hanner cant a thri ugain oed. Gwasanaethodd y swydd, er hyny, am ysbaid 30 o flynyddau gyda ffyddlondeb mawr. Cerddodd o Henllan i gymdeithasfa y Bala hanner cant o weithiau; a threuliodd 66 o flynyddau dan iau Crist: bu farw y flwyddyn ddiweddaf (1854), yn 84 ml. oed. Cofir yn hir am ei daer weddiau dros breswylwyr y gymydogaeth, ac yn neillduol dros y bobl ieuainc. Yr oedd ei wraig hefyd yn "fam yn Israel." Mae Henllan, gyda'i bod yn orsaf hen i Fethodistiaeth, yn sefyll yn uchel, o ran lluosogrwydd y gwrandawyr, a nifer yr aelodau. Mae yr aelodau tua 100, a deiliaid yr ysgol Sabbothol yn 230.

JOHN DAVIES, NANTGLYN.

Yr oedd John Davies yn sefyll yn uchel yn mysg y Methodistiaid, yn neillduol ar gyfrif ei gywirdeb dirodres, a'i gysonedd difwlch gyda gwaith yr

Arglwydd. Yr oedd hefyd yn ŵr tra adnabyddus i'r holl gymundeb, mewn Gogledd a Dê, ac hefyd yn nhrefydd Lloegr yn y rhai yr oedd cynulleidfaoedd Cymreig i'w cael. Bu ar y maes am faith flynyddau, tua 60 mlynedd; a threuliodd yr amser maith hwn yn anrhydeddus fel crefyddwr, a thra defnyddiol fel pregethwr. Bu farw yn y fl. 1843, yn 82 mlwydd oed.

Ganesid ef yn y fl. 1760, mewn tyddyn a elwir y Glythau, yn mhlwyf Nantglyn. Arferai ei fam wrando y Methodistiaid y pryd hwnw yn Rhydgaled, a'r Bryn-bugad; tai yr oedd pregethu ynddynt. Ymddengys hefyd y byddai y gwirioneddau a glywai yn effeithio mewn mesur arni, gan yr adroddai ryw gymaint o'r pregethau i'r teulu wedi dyfod adref; a chan yr arferai gynghori John i feddwl am y nef ac uffern; i ofalu am ei enaid; ac i ochel halogi y Sabboth, tyngu, dywedyd celwydd, a phethau cyffelyb. Profai ynteu beth argraffiadau hefyd trwy yr hyn a ddywedid wrtho mewn ysgol rad a gynelid yn yr ardal; eto, blin oedd y pethau hyn ganddo, a cheisiai ymddyosg yn llwyr oddiwrthynt, ond hyny nid allai; dychrynid ef gan freuddwydion am uffern ac am y farn, nes byddai yn codi yn ei gwsg gan ofnau, a'i synwyrau ymron a chael eu dyrysu; crŷhyn oll, gwisgodd yr argraffiadau hyn ymaith; ac erbyn cyrhaedd 15 mlwydd oed, yr oedd yn fachgen caled ac anystyriol.

Tua'r fl. 1778, daeth pregethu i ardal Nantglyn, ac ai John Davies, weithiau, i wrando; ond hyd yn hyn nid oedd y gair yn ymaflyd ynddo i ddim pwrpas; hyd nes y daeth John Evans, Cil-cwm, yno, yn y flwyddyn uchod. Pregethodd ar, y "Gareg wen a'r enw newydd," "pryd y daliwyd," chwedl ef ei hun, "Jack o'r Glythau." Yn mhen tua blwyddyn ar ol hyn, ymunodd â'r crefyddwyr dirmygiedig; ac o hyny allan cyfrifwyd ef gyda'r dysgyblion.

Yn y fl. 1783—4, dechreuodd bregethu; a chan fod ei ddull ei hun o ddesgrifio yr adeg yma yn dra tharawiadol, ac yn dwyn cymaint o ddelw y gwrthddrych y sonir am dano, gosodwn ef i lawr yn ei eiriau ef ei hun:*—

"Yn y fl. 1783—4, daeth cymhelliad i lefaru yn drwm iawn ar fy meddwl, ond rhag cywilydd ni ddywedwn i neb; ac ymdrechwn i ddiffodd y cwbl, gan weddio yn daer am gael llonydd gan y meddwl hwn, am y credwn mai o'r diafol yr oedd y cwbl. Byddwn yn meddwl am ryw lanerchi o'r fro oddiamgylch, a rhyw glytiau wrth bontydd, a *chominsoedd*, fel lleoedd i lafurio; îe, byddwn yn fy nghwsg yn fy ngweled fy hun wrth y gorchwyl yn y cyfryw leoedd. Gwedi hir ymdrech, adroddais fy nheimladau wrth Thomas Roberts, melinydd, ag oedd yn y Felin-newydd, Nantglyn; gŵr duwiol iawn, a blaenor da yn perthyn i Dan-y-fron, Llansanan. Cydymdeimlodd ynteu â fi yn garedig, a chynghorodd fi i ddywedyd ychydig mewn cyfarfodydd gweddi a gedwid yn aml yn y dyddiau hyny. Gwnes inau hyny yn araf ac yn bwyllog; ond byddai weithiau yn tanio.

"Yn ngwanwyn, 1785, torodd un William Evans, Fedw-arian, gerllaw y Bala, ei gyhoeddiad, ar fore Sul, yn Ngwaen-segrwyd; a daeth y cyfeillion

* Gwel y Cofiant am dano, gan Mr. T. Parry.

ataf i ofyn i mi ddechreu yr oedfa, ac os na ddeuai y gŵr yno, am i mi ddywedyd tipyn wrth y bobl. Gwnaethum felly, oddiar "Ddameg yr Afradlawn," ac yn neillduol oddiar y gair, "Pan ddaeth ato ei hun." Haerwn yn arw nad oedd dyn wrth natur ddim hefo (neu gydag) ef ei hun, ei fod o'i bwyll ac allan o'i ffordd; yr oedd hi yn effeithio wrth adrodd fod gras yr efengyl yn dwyn gwallgof i'w iawn bwyll, trwy ei ddwyn yn edifeiriol at Dduw yn Nghrist. Yr oeddwn i y pryd hwnw yn bump ar hugain oed pan ddeuai y dydd cyntaf o Hydref, 1785.

"Y Sabboth canlynol, cyhoeddwyd oedfa i mi yn Nhir Siencyn; ac oedfa i mi oedd hono i gyd; oblegid mi a ddyrysais, ac a ffaeliais a dyweyd dim. Bu raid i mi ddyfod i lawr o ben y gadair trwy y cywilydd—a chywilydd mawr oedd ef hefyd. Bum dro ar ol hyn heb lefaru dim; ond pan dorodd rhyw un ei gyhoeddiad, aethum ati eilwaith tan grynu. Yr oedd pregethu yn beth pwysig iawn i mi y pryd hwn; trwsgl iawn oeddwn, a gwael, ac eto yr oedd arnaf awydd dyweyd am ddrwg pechod, a threfn achub trwy Grist a'i waed gwerthfawr. Byddem yn cadw oedfaon hyd y clytiau y pryd hwnw, ac yn cael ein lluchio, a hyny, am a wn i, o ryw *sport;* yr oedd y bobl yn dywyll a phaganaidd iawn. Yr oeddwn unwaith yn llefaru allan yn Mhentrecader, pan y cafodd dau eu dàl a'u sobri. Bu un o'r ddau yn flaenor da yn Nantglyn a Henllan; John Jones, Pen-y-bwth oedd ei enw. Yr oedd gŵr yn byw yn Segrwyd-ucha', o'r enw John Evans, yn gwrando yno y pryd hwnw. Fe'm tueddwyd i ddangos perygl y bobl oedd yn gwrando yn unig, heb ymuno â gwaith a phobl Dduw; dywedais fod y cyfryw fel tŷ plant Job, heb fod yn y *street* ynghanol y tai eraill, pan y tarawodd y gwynt wrth ei bedair congl, ac y syrthiodd. Glynodd hyn yn nghalon Mr. Evans yn ddwys, a daeth i'r eglwys, efe a'i wraig; a pharhaodd hyd y diwedd yn ŵr tebyg iawn i un duwiol. Dywedai droiau mai y gwael a'r musgrell genyf fi, oedd ei dad crefyddol ef—yr oedd yn ŵr duwiol, ac yn gyfaill cywir.

"Y mae genyf lawer o bethau gwerth eu cofio, y rhai a wnaeth yr Arglwydd i mi, ac o'm tu; er i lawer godi yn fy erbyn o dro i dro, eto methasant a llwyddo er pob ymgais. Yr oedd fy nhad yn ddyn meddw iawn, wedi arfer hyny o'i ieuenctyd; ac yn dywyll a phaganaidd, ac fel y cyfryw, yn elyn pob rhinwedd. Weithiau âi i'r llan i'r gwasanaeth, ac yna i'r dafarn, lle yr arosai gyda'i gymdeithion hyd ddydd Llun. Yr oedd yn gas iawn tuag ataf, wedi i mi ddechreu gwrando; clôodd y drws lawer gwaith i'm herbyn; a chefais lawer *trés* a ffonod ganddo, a thrahausdra ffyrnig; a minau yn *submitio* i bob peth, ond tori y Sabboth. Curodd fi droiau am nacâu myned i siwrneuau ar y Sabboth; rhoddai yn fy erbyn fy mod yn anufudd iddo, a'm bod wedi fy *witchsio*, er pan aethwn at y *bobl* hyn; diawliai a rhegai, weithiau, fel dyn o'i go'. Bum yn meddwl ymadael ganwaith, ond fel yr oedd fy mam yn fawr yn erbyn i mi wneyd hyny.

"Yn y tywydd blin hwn, meddyliais am ei gymeryd yn fater gweddi at Dduw; yna daeth ar fy meddwl godi addoliad teuluaidd, yr hyn oedd heb ei

gael eto, er ei ddymuno lawer gwaith. Yr oedd dechreu ar y gorchwyl yn gymaint peth ymron a symud mynydd. Cymaint a allwn wneyd ar y dechreu oedd darllen pennod y nos; yr oedd gweddio yn gyhoeddus yn ormod peth genyf hyd yma. O! mor anhawdd oedd dechreu y gwaith, er fod fy mam yn fy nghymhell yn barhaus, rhyngof fi a hithau. Ryw noswaith, fel gwraig mewn gwewyr, torais allan i nadu dros y tŷ; aeth y gwas a'r forwyn, a mam i nadu; dywedais fod barn yn dyfod, a bod Duw yn myned i dywallt ei lid ar y cenedloedd, ac mai y teuluoedd diweddi fyddai gwrthddrychau ei lid tragwyddol. Gwelwn fy nhad yn rhoddi ei law tan ei ben ar fraich y gadair; aethum inau ar fy ngliniau, ac yr un modd pawb yn y tŷ, ond fy nhad; a dyma'r nefoedd fawr yn tywallt fel gwlaw taranau; pawb yn gwaeddi fel pe buasai y twca yn eu calonau; ac erbyn i mi godi yr oedd fy nhad yn gorwedd a'i bwys ar fraich y gadair, a'i ddwylaw ar y llawr, yn wylo yn hidl. Nos i'w chofio oedd hono, rhoes dro ar yr holl deulu; a dywedodd fy nhad, mewn canlyniad, 'mae rhyw beth rhyfedd ar y llanc yma, ni rwystraf fi mo hono byth mwyach'; ac ni wnaeth ychwaith. Byddai yn haws cael ceffyl i fyn'd yn awr, nag oedd cael myn'd ar draed o'r blaen.

"Wedi hyny, daeth cwmwl du arall: yr oedd fy nhad yn *denant* i'r *Colonel* Myddleton, o Waenynog, ac yr oedd gan y gŵr boneddig hwnw *steward* câs iawn at grefydd; a darfu i fy nhad ei ddigio trwy nacâu cadw cî iddo, sef i'r *steward*. Ar ol hyny, dywedodd y *steward* wrth y meistr tir, na allai fy nhad ddim talu am y tyddyn; a fy mod inau, ei fab, yn canlyn y *cariadocs*, ac felly, mai y peth goreu oedd ei droi ef allan o'r *ffarm*. Ymddangosodd yn fuan wedi hyny, mai am y tir yr oedd y *steward* i ffrind iddo ef. Pan aeth fy nhad i dalu y *rhent*, gofynodd y gŵr boneddig iddo, a oedd hyny yn wir am ei fab, 'Ydyw,' ebai fy nhad, 'ond y mae y llanc yn gweithio ei oreu, ac yn hynod o ffyddlawn.' 'Wel, wel,' ebe ynteu, 'rhaid i ti ei droi ef allan, neu gymeryd *warning* am y tir.' 'Ni allaf gadw gwas,' ebe fy nhad, 'mae y tir yn rhy ddrud, ac y mae *Jack* yn gweithio ei oreu pan f'o gartref.' 'Dim ychwaneg o eiriau,' ebe y gŵr boneddig, 'rhaid i ti un ai ei droi ef allan, ai cymeryd *warning*.' 'Wel, wel,' ebe nhad, 'os felly, chwi bia'r tir, Syr, a minau bia *Jack* y bachgen; ni ymadawaf fi âg ef mwy nag â 'mywyd.' Yna bu llawer o ymresymu, ond yn ofer.

"Daeth fy nhad adref yn o brudd, ac adroddodd y 'stori newydd, ac yr oedd hi yn o effeithiol i ni hefyd. Cynygiais fyned ymaith, ond nis cawn ar un cyfrif. Yn y cyfamser, dyma'r *warning* yn dyfod yn ei phryd, a thra effeithiol ydoedd i ni oll; ceisiwyd arfer gweddi, ac ymofyn am drigfa newydd. Aed i edrych tyddyn, a elwid y Wern, yn mhlwyf Tremeirchion; ond ni chymeradwywyd mo hwnw, er y gallesid ei gael. Yn fuan, ar ol hyn, bu farw y *Colonel* Myddleton a'r *steward*; a chyn diwedd y flwyddyn hono daeth y Person Myddleton, i feddiant o'r *stât*; a chanddo ef y cymerais y tyddyn, gyda chwe cheiniog o ernes, heb ddim son am hen 'stori y *warning*. Meddyliais fod llaw y goruchel Dduw i'w gweled yn amlwg yn y tro; a'i fod yn beth i'w gofio."

Mae y dyfyniad uchod yn rhoddi cip-olwg i ni, a hyny trwy ffeithiau diorchudd, ar y dull a'r modd yr âi y Goruchaf a'i waith ymlaen; megys heb gyfryngiaeth un cynllun dynol, a hyny dan anfanteision, ac yn wyneb rhwystrau lawer. Duw yn ddiau a gyffyrddasai â chalon "*Jack o'r Glythau;*" llanc o deulu digrefydd, heb ddim manteision teuluol nac athrofaol; a gwaith yr Ysbryd Glân, yn ddiau, a welid arno yn ei gymhwyso i fod yn "ganwyll yn llosgi" ac yn "gołeuo," mewn amser tywyll, ac yn mysg trigolion anwybodus a pherffaith ddiofal. Gallai llawer un wenu, gyda gradd o ddibrisdod, ar y ffaith, fod mab i amaethwr ar lechwedd mynydd, diddysg a diaddurn, yn troi allan i gynghori pechaduriaid, ynghylch pethau bywyd tragwyddol; heb un parotoad wedi ei wneyd arno, ond a wnaethpwyd ar ei ysbryd trwy ymgeledd yr efengyl; heb ei dynu trwy un athrofa, na'i ysbrydoli trwy arddodiad dwylaw un esgob; gallai llawer un, meddaf, edrych ar hyn gyda diystyrwch perffaith, a synu pa fodd na buasai rhyw rai yn ei attal. Y gwirionedd ydyw, fod yn hyn oll, fwy o drefn ac o gymhwysder, nag sydd yn ymddangos ar yr olwg gyntaf. Yr oedd yn y llanc o'r Glythau, elfenau priodol gweinidog yr efengyl, er lleied oedd ei ddysg, a gwyleiddied ei honiadau. Dysgasid ef yn benaf o'r Beibl, profasai yn ddwys ei wirioneddau yn ei fynwes ei hun; llosgai gan sêl dros ogoniant Duw a lles eneidiau dynion; crynai yn ostyngedig yn yr olwg ar fawredd a phwysigrwydd y gwaith; ac anturiai yn grynedig ymlaen gan edrych i'r nef am gymhorth a llwydd. Yr oedd yn feddiannol ar elfenau nad oes neb, er uwched ei ddawn, a dyfned ei ddysgeidiaeth, yn wir genad dros Dduw hebddynt, na neb yn anghymhwys i'r swydd a'u cafodd. Iê, yr oedd dull cyffredin ei ddygiad i fyny, ei iaith ddiaddurn a dirodres, ei gyffelybiaethau agos oddiwrth bethau cyffredin ac amlwg, yn fwy o gymhwysder ynddo i gyfarch pobl mor ddiddysg ac anwybodus ag oedd preswylwyr ei wlad enedigol, na phe buasai ei ddoniau yn fwy godidog, a'i ddullwedd yn fwy ysblenydd. Fel y mae offer haiarn yn fwy defnyddiol i drin y ddaear, er mor ddiaddurn, na'r aur dilin, er mor dlws; felly yr oedd John Davies yn fwy cymhwys i'r gwaith y galwyd ef iddo, na dyn o deimladau mwy coethedig, ac o hyawdledd a dysgeidiaeth mwy gorwych.

Fe deithiodd John Davies lawer ar hyd ac ar led y dywysogaeth, mewn Dê a Gogledd, a threfydd Lloegr, y rhai y mae cynulleidfaoedd Cymreig gan y Methodistiaid ynddynt. Cychwynodd mewn amser nad oedd gan y cyfundeb, ond ychydig gapelau yn Ngwynedd; yr amser yr oedd llawer o bregethu yn yr awyr agored, neu mewn tai anedd, neu ysguboriau; mewn amser nad oedd yr un ysgol Sabbothol yn Nghymru; ac mewn amser yr oedd tywyllwch yn gorchuddio yr holl wlad ymron. Ac er fod gwawr Methodistiaeth wedi tori yn wanaidd yn y Deheubarth, er ys hanner can' mlynedd ymron, a bod cynulleidfaoedd yn dechreu britho siroedd y Gogledd; eto, pan ddechreuodd ef bregethu, nid oedd y cynulleidfaoedd hyny ond anaml wrth a ydynt yn awr, a bychain wrth y gwelwn ni hwynt. Rhaid fod ei anfanteision ef, a'r rhai a gyd-lafurient âg ef y pryd hwnw, yn fawrion iawn; eto er

hyn, cafodd John Davies oesi yn y tymhor mwyaf *tyfadwy* a fu eto ar Fethodistiaeth. Yr oedd iddo gyd-lafurwyr o'r fath rymusaf; yr oedd y Parchn. Evan Richardson, a John Roberts, wedi dechreu ychydig o flynyddau o'i flaen; dechreuodd Mr. Charles, Bala, a Mr. Jones, Dinbych, tua'r un amser ag ef. Yn fuan ar ol hyny, cododd Ebenezer Morris yn y Deheudir, a Robert Roberts, Clynog, yn y Gogledd; a chyn hir ymddangosodd Elias, Môn; a Richards, Tregaron; felly anrhydeddwyd John Davies â chyd-lafurwyr o'r fath enwocaf. Yn ei ddyddiau ef hefyd y cododd yr ysgol Sabbothol; sefydliad a roes ysgogiad anarferol i gynydd y cyfundeb trwy Wynedd a Dê.

Yr oedd John Davies yn un o'r wyth pregethwr llëygaidd a ordeiniwyd gyntaf yn y Gogledd, yn y fl. 1811. Prawf oedd hwn o'r cyfrif a wneid o hono gan eu frodyr. Cof gan yr ysgrifenydd y daith gyntaf a deithiodd erioed oddi cartref i bregethu; sef i sir Gaernarfon, yn gyfaill i John Davies yr aethum. Hoff genyf gofio y daith hyd heddyw, ac er nad oedd cyfaill John Davies y tro hwn ond bachgenyn, prin 19 ml. oed; eto, dangoswyd tuag ato gan yr hen weinidog, lawer o gydymdeimlad a thynerwch; cymaint, felly, fel nad aeth yn anghof byth: yr oedd hyn yn y fl. 1815. Nid oedd siroedd Dinbych a Fflint ond un cyfarfod misol hyd hyny. Ystyrid y gallasai un cyfarfod misol arolygu y gwaith yn y ddwy sir am ysbaid y 60 mlynedd cyntaf; ond wedi i'r cynulleidfaoedd luosgi cymaint mewn rhifedi, yn neilldnol ar ol sefydliad yr ysgol Sabbathol, gwelwyd yn angenrheidiol, tua'r fl. 1813, ranu y wlad yn ddau gyfarfod misol. Bu y ddwy sir, er hyny, am flwyddyn neu ddwy yn cydgyfarfod yn chwarterol; weithiau yn sir Ddinbych, ac weithiau yn sir Fflint.

Cafodd John Davies fyw i weled cyfnewidiadau lawer yn yr ysbaid o 60 mlynedd y bu ef mewn cysylltiad â'r cyfundeb; a dangosodd bob parodrwydd, cyson â challineb, i gydffurfio â gwahanol symudiadau y gwersyll, dros yr holl amser maith hwnw. Nid ydym yn golygu ei fod yn bregethwr o'r radd uchaf, eto yr oedd yn sefyll yn anrhydeddus yn nghyfrif ei frodyr yn y weinidogaeth; ac i raddau helaeth yn boblogaidd fel pregethwr gan y gwrandawyr. Yr oedd llawer o ffraethineb yn ymddangos yn rhai o'i ymadroddion; eto nid oedd ynddo un duedd i ymwthio i'r cyhoedd. Rhaid oedd ei gymhell, yn fwy na'i warafun, i siarad. Ac er fod iddo hawl, o ran oedran a chymeriad, i gymeryd y blaen; eto, cryn anhawsder a brofid i gael ganddo wneuthur hyny. Tueddai yn hytrach i gilio allan o sylw, ac yn wastad eisteddai rîs yn îs, nag a roddid iddo gan eraill. Gwnai hyn hefyd, nid o rodres, ac o rith gostyngeiddrwydd, ond oddiar wir ystyried eraill yn well nag ef ei hun. Edrychwn ar John Davies yn sefyll, yn debyg i Robert Jones, Rhoslan, fel dolen gysylltiol rhwng pregethwyr cyntaf Methodistiaid, a'r rhai sydd yn awr ar y maes. Ar un llaw iddo ef, yr oedd Rowlands, Llangeitho; y ddau Williams; Jones, Llangan; Davies, Castell-nedd; Richard Tibbot; William Lewis; Dafydd Morris; Lloyd, Henllan, ac eraill; ar y llaw arall iddo, y safai cenedlaeth arall, y rhai ni welsent nemawr o'r tadau cyntefig, cenedlaeth

sydd yn aros hyd heddyw ar y maes, ond a goffêir yn fynych, bellach, y bydd raid iddynt hwythau cyn hir roddi lle i'r rhai sydd yn canlyn ar ol. Yr oedd John Davies hefyd yn sefyll fel dolen gysylltiol rhwng dau ddosbarth o bregethwyr yn cyd-oesi ag ef; safai megys yn y canol rhwng yr uchel a'r isel. Nid llawer o gyfathrach a fydd yn gyffredin rhwng dynion a fyddo yn gwahaniaethu llawer oddiwrth eu gilydd; pa un bynag ai o ran oedran, dygiad i fyny, neu raddoldeb. Felly y dygwydd rhwng pregethwyr a fyddo yn sefyll yn mhell oddiwrth eu gilydd o ran gradd a defnyddioldeb. Ond yr oedd John Davies yn cael cyfathrachu â blaenoriaid y bobl; eto, hawdd oedd dyfod ato gan yr îs-raddolion; ac fel y cyfryw yr oedd iddo le pwysig mewn ffordd o gadarnhau a chysylltu yr holl frawdoliaeth. Cafodd John Davies oes faith; cyrhaeddodd yr oedran patriarchaidd o 82 mlwydd oed, a bu farw mewn tangnefedd heddychol yn Mehefin, 1843.

PENNOD X.

HANES METHODISTIAETH CONWY A'I HAMGYLCHOEDD.

CYNWYSIAD:—

ERLID GWR URDDASOL YNDDI—HUMPHREY OWENS A THOMAS HUGHES, MOCHDRE', YN PREGETHU YNDDI—THOMAS ROWLAND, Y CWNSTAB'—JOHN JONES, EDEYRN, YN PREGETHU YNDDI—SION DAFYDD A'I WRAIG—TEULU Y PORTH-ISA'—ADEILADU Y CAPEL—DAROSTYNGIAD HEN ARFERION ANFAD—YR YSGOL SABBOTHOL A'I LLWYDDIANT—LLANSANTFFRAID A'R CANGHENAU CYLCHYNOL—THOMAS HUGHES, MOCHDRE', YN DECHREU PREGETHU—EI WYSIO O FLAEN YR OFFEIRIAD, YN NGHONWY—YN PREGETHU YN NGWERSYLL Y CAMPWYR, AC YN LLWYDCOED—HANES LLANGERNIEW A GWYTHERIN.

CONWY.

Er fod y dref hon yn perthyn i sir Gaernarfon yn ol y rhaniad gwladol; eto, ystyrir hi, yn ol y rhaniad Methodistaidd o'r wlad, yn perthyn i gyfarfod misol sir Ddinbych. Ymddengys y bu y dref hon unwaith yn dref enwog; ond nid oes dim enwogrwydd neillduol arni yn awr, oddieithr y gweddillion henafiaethol a berthynant iddi, y gorchestion celfyddydol sydd gerllaw iddi, a'r amrywiaeth ysblenydd sydd yn y golygfeydd naturiol sydd yn ei hamgylchynu. "Prin," medd Pennant, "y gwelir tref mor garpiog o fewn, neu fwy brydferth o faes." Mae yn sefyll ar yr ochor aswy i'r afon Conwy; ac felly yn cael ei chyfenwi yn fynych yn Aber-conwy; am yr afon y dywedir mai hi yw y fwyaf yn ol ei hyd, o holl afonydd Ewrop. Mae Conwy yn un o Fwrdeisdrefi sir Gaernarfon, ac yn cynwys tua 1,400 o drigolion.

Ond â'i hanes grefyddol y mae a wnelom ni, neu yn hytrach â'i Methodistiaeth. Nid oes genym hanes fod neb ymneillduwyr yn pregethu yn y

dref, hyd nes y daeth y Methodistiaid i ymosod arni; ac fe fu rhai o honynt hwy yn cynyg ar ddwyn pregethu iddi yn lled gynar. Dywed fy nghohebydd,* "Byddai fy nain, yn ei hen ddyddiau, yn adrodd, ddarfod iddi hi, pan yn eneth ieuanc, weled gŵr boneddigaidd, mewn gŵn du, yn sefyll ar gyff o bren, mewn lle a elwir y "Lawnt;" a thra yr ydoedd yn pregethu, fod rhyw ddyhiryn allan o'r dorf afreolus, wedi tynu y *blocyn* pren ymaith odditan ei draed, nes iddo ddisgyn ar ei wyneb ar y palmant. Yr oedd fy nain yn tosturio yn fwy wrtho, o herwydd y gŵn du, tybygwn, nag o herwydd dim arall. Nid oes sicrwydd pwy ydoedd y gŵr hwn. Meddylia rhai mai un o athrofa Iarlles Huntingdon ydoedd, a rhai mai y Parch. Peter Williams."

Yr oedd yn y dref hedd-geidwad (*constable*), o'r enw Thomas Rowland, saer llongau wrth ei grefft; adroddai hwn ei fod, pan yn ei swydd, wedi cael gorchymyn gan Mr. Jones, y person, yr hwn hefyd oedd ustus-heddwch, i fyned a dàl rhyw bregethwr; yr hwn wedi ei holi, a'i gadw rhyw gymaint mewn dalfa, a'i gollyngodd yn rhydd gan ddysgu i'r hedd-geidwad alw am blant y dref i'w luchio â thom ac â cherig, ar ei fynediad ymaith; ond trwy ryw ffawd neu gilydd, diangodd y truan heb yr anrhydedd. Y pregethwr hwn, meddir, ydoedd Humphrey Owens o'r Berthen-gron.

Fe wel y darllenydd, yn yr hanes a roddir am Thomas Hughes o Fochdre', ei fod ef, amryw weithiau wedi bod, yn pregethu yn y dref hon, ymhell cyn i Fethodistiaeth ennill nemawr o safle ynddi. Ac heblaw a draethir yno, mae hanesyn arall am dano cysylltiedig â Chonwy. Meddai fy hysbysydd, "Daeth Thomas Hughes o Fochdre', i bregethu y tu allan i furiau y dref, tua'r fan y cynelir y cyfarfod blynyddol gan y Methodistiaid yn bresenol. Prysurodd rhyw un, yn y fan, i ddwyn yr achwyniad yn erbyn y pregethwr i Mr. Williams, Plas-isa', yr hwn oedd hedd-ynad. Ynteu wedi cael y fath achwyniad am fai mor ysgeler, a anfonodd Thomas Rowland i gyrchu y troseddwr, a'i ddwyn o'i flaen ef. Aeth y swyddog i gyflawni ei neges, ac wedi dyfod i'r lle, barnodd nad oedd raid wrth lawer o frys; ac am hyny, gwrandawodd y bregeth hyd ei diwedd. Wedi darfod yr oedfa, dychwelodd at Mr. Williams, gan ddyweyd, "Paham y mae yn rhaid i ni ymyraeth? Nid wyf yn cael allan fod y dyn yn gwneyd dim drwg; mae yn traethu yn ddrwg am bechod ac yn dda am Iesu Grist."

"Wel, wel, gadewch iddo, ynte," ebe y gŵr boneddig. Yr oedd gair da i Mr. Williams am ei gallineb a'i bwyll; a sicr genym ddarfod iddo yn yr amgylchiad hwn ymddwyn yn gydweddol â'r cymeriad a roddid iddo.

Parhaodd Thomas Hughes i ddyfod i Gonwy yn fynych, a chof gan rai sydd yn fyw yn awr ei glywed ef yn dyweyd "Myfi, yw esgob Conwy." Ië, gyda llawer o ddifyrwch y clywid ef yn adrodd ei helyntion yn Nghonwy, a hyny wedi i'w lygaid ef dywyllu gan henaint. Priodol ydyw dyweyd, yr hyn y mae y darllenydd, ond odid, wedi ei ddychymygu eisoes, fod yn y

* Mr. Hugh Hughes, Conwy.

Thomas Rowland, yr hedd-geidwad, fwy o dynerwch tuag at y pregethu afreolaidd yma, nag oedd yn llawer o'i gyd-drefedigion. Nid rhyw brysur iawn yr ymddengys ei fod i osod ei ddwylaw ar y cynghorwyr; a lled barod ydoedd, tybygid, i roddi gair i mewn o'u plaid os gwelai le. Hawdd darogan, fod gradd o ogwyddiad ynddo ynteu tuag at y penau-cryniaid; ac yn wir dangosodd hyny yn y diwedd trwy ymuno â hwy, a chymeryd rhan yn eu dirmyg, yn gystal a'u breintiau. Bu y gŵr hwn, meddir, yn ffyddlon hyd angeu.

Ar ol bod fel hyn yn pregethu, yn awr ac eilwaith, yn yr awyr agored, a phrofi yn ehelaeth o warth a gorthrwm, cymerwyd rhyw fwthyn gwael tua'r un fan; a bu pregethu, dros ryw dymhor, yn cael ei ddal i fyny yn y bwthyn hwnw. Y pregethwyr hefyd a dderbynient garedigrwydd ac ymgeledd yn nhŷ un Mrs. Anne Parry, tra y caniatawyd iddi wneyd hyny gan ei hamgylchiadau. Cyfarfu y wraig hon, tybygid, â'i chyfran o helbul; a thrwy lawer o orthrymderau y bu raid iddi fyned i deyrnas Dduw. Yn y bwthyn gwael crybwylledig y dechreuodd y cwpl crefyddwyr oedd bellach yn y dref, gadw eu cyfarfodydd eglwysig. Yr oedd Mr. Griffith Owen, Caergybi, yma ar y pryd yn cadw ysgol; a thystiai am y crefyddwyr, fod cryn swm o wehilion yn mhlith y gwenith yn eu plith.

Pan oedd John Jones, Edeyrn, yn Nghonwy ddiweddaf, coffhäai am yr amser hwnw. Dywedai ei fod ef yn sefyll i fyny ar y "Lawnt," Sabboth y Pasg, i bregethu i dorf fawr; a bod yr olwg arnynt yn arswydus; fod arno ofn yn ei galon ddechreu gweddio rhag ei niweidio ganddynt; ond wedi dechreu, na theimlodd ef ddim yn ei ocs y fath gymhorth. Ac erbyn iddo agor ei lygaid ar ddiwedd y weddi, fod golwg cwbl wahanol ar y bobl; yr oedd ffyrnigrwydd y wyneb wedi diflanu, y dadwrdd wedi tewi, a'r berw cynhyrfus wedi disgyn i dawelwch mawr!

Yr oedd brawdlys y sir y pryd hwnw ar eistedd, a'r Sabboth hwnw yr oedd y barnwyr a'u gosgorddion yn dyfod i mewn; ac wrth fyned heibio y lle pregethu, yn gwawdio o'u cerbydau; ond yr oedd y dorf wedi eu rhwymo i wrando, fel mai prin yr oedd llygad yn gwamalu, na throed yn symud.

Yn y cyfnod hwn ennillwyd un Siôn Dafydd a'i wraig i hoffi yr efengyl, ac i weini gradd o swcr iddi. Hen ŵr tâl, teneu ydoedd, yn gwisgo berwig goch; hynod o Gymreig oedd ei ddiwyg, a surug a chwta oedd ei gyfarchiad. Os mynai neb ddeall yr hyn a ddywedai, rhaid fyddai iddo fod yn graff a manwl. Ond am yr hen wraig y dywedir y siradai hi ddigon, os nad tipyn gormod; a thrwy ei fod ef yn ceisio cymedroli gradd arni, dygwyddai weithiau, yn lled ddigrifol rhyngddynt; eto, er pob hynodrwydd oedd arnynt, gwnaeth y ddau wasanaeth calonog i'r efengyl. Mynai yr hen ŵr fyned ei hunan a cheffyl y pregethwr i'r cae, a diddiolch iawn a fyddai i'r neb a gynygiai wneyd hyn yn ei le. Efe, hefyd, fyddai yn cyhoeddi yr oedfaon; a gwnai hyny yn ei ffordd ei hun, mewn dull cwta iawn; ac mor ddigrifol, ar ambell dro, nes gyru yr holl gynulleidfa i ysgafnder: ac efe hefyd

a ddechreuai y canu. Dywedir am Siôn Dafydd y medrai efe bob tôn newydd cyn ei chlywed erioed! Ar ddechreuad yr ysgol Sabbothol, mawr oedd ei ffwdan; yr oedd y plant yn poeni llawer arno, ac yn fwy felly, mae'n debyg, gan nad oedd ganddo blant ei hun. Gyrai y plant drwg o'r ysgol, a chlöai y drws arnynt allan; ond chwanegai hyn ei benbleth; gan y byddai y rhai drwg yn curo y drws, ac yn ei luchio â cherig oddiallan, felly rhwystrid ynteu i ddysgu y rhai da ôddifewn. Mae enw yr hen gristion hwn yn adnabyddus iawn i drigolion Conwy; a hyny megys yn ddiarwybod iddynt, mewn cysylltiad â ffynnon a gloddiasai. Ar ryw amserau, y mae prinder dwfr mawr yn y dref; ar yr achlysuron hyn, gofynir yn fynych gan un i arall, "Ai nid oes dwfr yn ffynnon Siôn Dafydd?"

Wedi i'r hen bobl hyn adfeilio gan henaint, agorodd drws arall i dderbyn pregethwyr, ac i roddi lletty ac ymgeledd iddynt ar eu tro; sef tŷ Mrs. Margaret Williams, o'r Porth-isa'. Bu y teulu hwn yn ffyddlon a charedig iawn i'r achos crefyddol yn Nghonwy.

Wedi hyn, cafwyd lle i adeiladu capel bychan. Gorchwyl pwysig ydoedd hwn i'r ychydig bobl druain dlodion; eto dangoswyd ganddynt ffyddlondeb ac egni tra mawr; rhai yn gweithio, ac eraill yn cyfranu ato; "ac," meddai fy hysbysydd, "byddai cyflogau y gweithwyr yn dod i mewn bob wythnos, nas gwyddid yn iawn o ba le." Felly gorphenwyd y tŷ mewn amseroedd blinion; a daeth Mr. Charles, ac eraill, i Gonwy, i bregethu ar ei agoriad.

Wedi agor y capel newydd, ymddengys fod y gwaith wedi arafu llawer; a pharhau yn isel a dymadferth dros lawer o flynyddau. Bychan oedd yr achos yn mhob golygiad. Yr oedd arferion anfad y dref yn parhau yn ei grym; ac nid oedd Methodistiaeth eto wedi effeithio nemawr ar wedd gyffredinol pethau yn y dref, na'r gymydogaeth. Ennillasid ambell enaid i garu yr efengyl, ac i ochelcidio am yr anwiredd oll a wneid yn nghanol y ddinas; eto prin y gwyddai y dref fod Methodistiaeth o'i mewn, oddieithr fod y dysgyblion yn dyoddef pob anfri, yn argoel o'i hanfodiad. Gallai dyn benderfynu, yn yr adeg yma, os âi ef yn Fethodist, nad adwaenai y byd mo hono mwyach. Ceblid y crefyddwyr, am na chydredent gyda'r trefedigion i'r unrhyw ormod rhysedd; a rhaid addef, fod yn Nghonwy, arferion yn ffynu, tra theilwng o'r desgrifiad "*gormod rhysedd.*"*

Dechreuodd adfeiliad ar lygredigaethau cyhoeddus y dref, pa fodd bynag, gymeryd lle, yn fuan ar ol dechreu y ganrif bresenol. Gosodwyd anfadrwydd yr arferion hyn, o flaen y Parch. William Jones, Rhuddlan, yr hwn oedd yn ddyn ieuanc y pryd hwnw; ynteu, yn ei ddull priodol ei hun, mewn oedfa ar nos Sabboth y Sulgwyn, a ddynoethodd oferedd y gwylmabsantau, a defodau ynfyd plant y fall, mor ddifloesgni a nerthol, nes peri gradd o argraff ar hen furiau y "gelyn ddyn." Dechreuodd y darfodedigaeth ymweithio i fywyd y llygredigaeth; ac yn raddol, gwanychodd, nes o'r diwedd y bu farw yn llwyr. Yr

* Gwel ddesgrifiad o arferion y dref, Cyf. I., tudal. 57.

oedd ysgol Sabbothol eisoes wedi ei chychwyn ; ac ymddangosai yn lled flodeuog yn ystod y gauaf, ond disgynai arni fath o wywdra yn yr haf ; y tymhor y byddai gwylmabsantau, a'r holl oferedd yn ffynu. Am flynyddoedd, hi a barhaodd yn wanaidd iawn ; ychydig iawn o blant a ddeuent iddi ; a digon difedr ydoedd yr athrawon oedd ynddi ; eto trwy barhau ati, daeth yr athrawon yn fwy medrus, a'r dysgyblion yn fwy lluosog ; a daeth ei llesoldeb yn fwy amlwg i bawb.

Codwyd cyfarfod pregethu yn y dref, i gael ei gynal, y Sabboth cyntaf ar ol cymdeithasfa y Bala, bob blwyddyn ; ac yn un o'r cyfarfodydd hyn, dymunwyd ar y Parch. Henry Rees, ddyweyd gair yn annogaethol i ddyfod i'r ysgol Sabbothol. Effeithiodd y cymhelliad hwn, a'r cyfarfod drwyddo, yn rymus iawn. . Daeth ugeiniau yn ychwanegol i'r ysgol ; ac yn raddol, chwanegwyd dau cant at eurhifedi. Cynyddodd y gwrando hefyd, a bu raid yn fuan godi capel helaethach. Yn awr, y mae yma addoldŷ da, ac eglwys gref o 120 a throsodd, o rifedi. Yma y preswylia y Parch. Robert Hughes.

LLANSANTFFRAID-GLAN-CONWY.

Mae y lle hwn yn gorwedd o fewn tair milldir i dref Conwy, ar yr ochr arall i'r afon, dros y traeth, ac yn sir Ddinbych. Ymddengys mai mewn tŷ a elwir y Plas-bach, yn y plwyf hwn, y bu yr oedfa gyntaf erioed gan y Methodistiaid.* Y pregethwr oedd y Parch. Peter Williams ; a dygwyddodd, o ran amser, ryw gymaint cyn yr ymraniad yn y fl. 1751. Wedi cynal pregethu yn y Plas-bach, dros ryw dymhor, symudwyd y moddion i le arall, a elwir y Graig, lle yr adeiladwyd capel bychan. Symudwyd y pregethu drachefn, o'r lle olaf hwn, i Lansantffraid. Bu gweddw un o feibion William Roberts, Plas-bach, yn briod â'r hen bregethwr y sonir am dano yn hanes y Berthen-gron, sef Robert Prys, Plas-winter. Bu Robert Prys fyw, ryw gymaint o amser, yn y Plas-bach ; pryd, meddir, y bu adfywiad lled rymus ar grefydd ; a phryd, hefyd, y profwyd chwerwder erlidigaeth. Ond nid oes dim hanes manwl am yr adfywiad, na'r erlidigaeth, ar gael yn awr.

Bu pregethu yn Llansantffraid, ryw gymaint o amser, cyn adeiladu y capel cyntaf. Adeiladwyd hwnw, yn y fl. 1787 ; caed y tir gan un Jane Williams, yr hon oedd yn cadw siop, yn y pentref ; a'r ymddiriedolwyr, oeddynt Robert Roberts, saermaen, a William Williams, melinydd ; y ddau yn Llansantffraid. Agorwyd ef, cyn ei gwbl orphen, a hyny gan Mr. Jones, Llangan. Tua'r amser hwn, neu yn gynarach na hyn, daeth pregethwr, o'r enw John Jones, yma i fyw. Ganesid ef yn ardal Pwllheli, fel y tybir, a chrydd a fuasai wrth ei grefft. Cafodd fwy o ddysg na phregethwyr cyffredin Cymru ; gan iddo fod, fel y dywedir, yn ngholeg Iarlles Huntingdon. Yr oedd yn bregethwr gwresog, a bu farw tua 60 mlynedd yn ol. Yr henuriaid, neu y diaconiaid

* Gwel Cyf. I., tudal. 154.

cyntaf yn Llansantffraid oeddynt Robert Roberts, Tŷ'n-y-coed, a William Williams, Felin-isa'; gwŷr yr oedd eu clod yn yr holl eglwysi. Yn nesaf atynt, dewiswyd y ddau frawd William a John Williams. Bu y gwŷr hyn yn gwasanaethu eu swydd am lawer o flynyddau, nid nemawr llai na hanner can' mlynedd; a hyny gyda llawer o ffyddlondeb. Tua 44 o flyneddau yn ol, nid oedd o aelodau yn yr eglwys hon, ond ychydig dros 30, er fod y pregethu wedi dechreu yn y fro er yn agos i 60 mlynedd cyn hyny. Dechreuodd yr ysgol Sabbothol yn Llansantffraid tua'r fl. 1793—4. Nid oedd y sefydliad ond bychan a gwanaidd am lawer o flynyddau; sef hyd y fl. 1810, pryd y bu ymweliad Mr. Elias, Môn, â'r ardal, ar ei ddychweliad o gymdeithasfa y Bala, yn effeithiol iawn i'w hadfywio a'i chryfhau. Cyffrodd y cymhelliadau a roes yr holl ardal. Heidiodd lluaws mawr iddi—yn wŷr a gwragedd; plant bach, a hen bobl a'u ffyn yn eu dwylaw, a'u gwydrau wrth eu llygaid; gweision a morwynion; pawb ymron, a ddeffrowyd. Cododd yr ysgol ei phen yn y tro hwn, gymaint mewn ychydig Sabbothau, ag a godasid arni yn y 17 mlynedd o'r blaen.

Mae yma yn awr gapel newydd gwych a helaeth. Mae y gymdeithas eglwysig yn cynwys tua 100 o rifedi. Yma hefyd y preswylia y Parch. John Evans. Dylid ychwanegu fod amrywiol gynulleidfaoedd wedi codi yn ddiweddarach yn y dosbarth hwn o'r wlad, am y rhai ni chaed dim hanes, sef, Bryndionyn, Moria, Llanelian, a Chroesengan. Cyfododd y lleoedd hyn oll yn ystod y ganrif bresenol, a rhai yn bur ddiweddar ynddi. Nid ydym yn gwybod fod dim amgylchiadau hynod yn gysylltiedig â'u hanes; ond eu bod wedi cyfodi yn gyffelyb i'w gilydd, yn benaf trwy lafur a ffyddlondeb rhyw nifer o frodyr, yn cychwyn ac yn cynal yr ysgol Sabbothol; ac yn raddol yn sefydlu cyfarfodydd gweddio; ac yn llwyddo yn y diwedd i gael pregethu llèd gyson ynddynt; felly cesglid cynulleidfaoedd, ac y plenid eglwysi.

THOMAS HUGHES, MOCHDRE'.

Ymddengys mai yn Nhan-y-fron y daeth Thomas Hughes gyntaf at grefydd. Ganwyd ef yn y fl. 1739, a phan oedd yn 29 ml. oed y daeth ef i feddwl am ei enaid. Meddai ef ei hun, "Oddeutu y fl. 1768, yr ymunais â chorff y Methodistiaid Calfinaidd, a diolchais lawer am i'r Arglwydd fy nghadw gyda'i waith am 55 o flynyddau. Yr wyf yn awr (sef yn fl. 1823) yn 84 ml. oed. Daethum at grefydd pan oeddwn yn 29 ml. oed, a dechreuais bregethu ymhen tair blynedd wedi hyny. Dechreuais mewn oedfa noson waith, a gadwyd yn y Cilgwyn, Llandrillo-yn-Rhos. Yr achlysur i mi ddechreu yno oedd hyn:—Yr oedd cyhoeddiad gŵr dyeithr o'r Deheudir i fod y diwrnod hwnw, yn Henllan (ar yr heol), y bore; Tan-y-fron, ddau o'r gloch; ac yn Cilgwyn y nos; fe ddaeth yn ol ei gyhoeddiad, ond yr oedd llafur y diwrnod wedi ei orchfygu erbyn yr hwyr, fel y gorfu iddo fyned i'w wely yn lle pregethu. Yr oeddwn i yn arfer cynghori oddiar y bennod,

eisoes, ond, yn wyneb y siomedigaeth, archodd y cyfeillion i mi sefyll ar gadair y tro hwn, a phregethu. Profais y fath rwyddineb a blas y tro hwn, ag a'm cymhellodd i ddechreu pregethu o ddifrif."

Y cyfryw ydyw y digrif ddesgrifiad a ddyry yr hen ŵr o hono ei hun. Deallwn mai byr iawn oedd ei ddawn, ond gwresog a gweithgar iawn oedd ei ysbryd. Nid ydoedd ei wybodaeth dduwinyddol ef ond bâs; ond deallai ddigon i arwain ei gyd-oeswyr at Geidwad dyn. Nid oedd un math o drefn ar ei bregethau, ac fe'u traddodai heb osod un amcan pennodol o flaen ei olwg; gan loffa yma ac acw. Weithiau, hi ddygwyddai fod yn lled lewyrchus a rhwydd; bryd arall, yn anniben iawn. Clywsom am dano unwaith yn pregethu ar y "pum' torth haidd a'r ddau bysgodyn;" ac i ddangos ei gywreinrwydd, a dyfnderoedd ei alluoedd, dywedai wrth ei wrandawyr, fod y "pum' torth haidd," yn *cysgodi* pum' llyfr Moses, a'r "ddau bysgodyn," y ddwy natur yn mherson Crist!" Yr oedd llawer o aidd a gwres yn ei dymher, ond nid digon o wybodaeth a darbwylledd i gyfateb; yr oedd ef, er hyn i gyd, yn gristion cywir, a thra ffyddlon.

"Ymhen pum' mlynedd," meddai drachefn, "wedi hyny, mi a adeiladais dŷ, yn eiddof fy hun, sef, Pen-ucha', Mochdre'. Gwnaethum bwlpud cyfleus ynddo yn ngwaelod y grisiau. Bu pregethu yma oddeutu saith mlynedd. Tua'r fl. 1780, codasom gapel bychan yn y pentref, lle y cafwyd pregethu lled gyson; ac yr achubwyd, mi hyderaf, lawer o eneidiau."

"Tra yr oeddwn yn byw yn Mochdre', mi aethum i Gonwy i bregethu. Safwn, mewn gwahanol fanau, ac weithiau o dan wal y dref; ond yr oedd y person a'u bleidwyr yn fy aflonyddu. O'r diwedd daliwyd fi, a dygwyd fi o flaen y gŵr hwnw ryw Sabboth, i roi cyfrif am fy ymddygiad. Dywedodd wrthyf, y dylaswn fod yn ddyn dysgedig iawn i fyned o amgylch i bregethu; ac y dylwn fedru ateb cwestiynau dyfnion.

"Pa gwestiynau," gofynais inau, "oedd i'w hateb cyn y gallwn bregethu?"

"Dyma nhw," ebe ynteu, "y rhai a ofynodd fy arglwydd esgob i mi.—Rhowch wel'd a fedrwch chwi eu hateb."

"Un o ba le oedd yr apostol Paul o enedigaeth?"

"Un o Tarsus."

"Ho! mi welaf eich bod yn gwybod rhyw beth hefyd. Wel, a fedrwch chwi ddywedyd, pwy a gymerodd ofal Mair y Forwyn ar ol croeshoelio ein Harglwydd Bendigedig?"

"Ioan."

"Wel, eto, pwy 'sgrifenodd Lyfr y Dadguddiad?—Camp i chwi fedru ateb."

"Ioan yr apostol."

"Yr 'ych chwi yn gwybod llawer yn wir."

"Wel, Syr," ebe finau, "a gaf fi ofyn cwestiwn i chwithau?"

"Cewch, siwr, ond i chwi ofyn peth crefyddol a duwiol."

"Wel ynte, pa beth ydyw santeiddrwydd? neu pa fodd y mae i bechaduriaid gael eu cyfiawnhau ger bron Duw?"

"O! nid oes dim o'n *busnes* ni i hurtio hefo pethau o'r fath yna: a 'd'oes dim *busnes* i chwithau ofyn y fath bethau i ŵr fel myfi.—Ewch o 'ngholwg i y mynyd yma;—ac," ebe efe, wrth y bobl a'm dygodd ato, "na ddowch a phobl fel hyn byth ata' i eto!"

"Cefais lonydd, wedi hyny, i ddechreu yr achos yn Nghonwy."

Fe ddyry yr hen ŵr hanes lled ryfedd am y cais a wnaeth i bregethu yn Towyn-y-fferi; lle yw hwn rhwng Llandudno a Chonwy, yn agos i'r traeth ar gyfer Conwy. Ymddengys y byddai lluaws mawr o bobl yn ymgasglu i'r Towyn i chwareu ac i gampio; ac unwaith, aeth y gair ar led y byddai rhyw un yn ymddangos yno i bregethu, "Ond," meddai Thomas Hughes, "ni adwaenai neb fi, na'r cyfaill a ddaethai gyda fi o Fochdre'; felly mi a orweddais ar y tywod-dir glas, ynghanol ugeiniau o rai eraill, y rhai a ddaeth yno i chwareu; ac hefyd y Sabboth hwn, i ddysgwyl y 'Cynghorwr.' Yr oedd ganddynt bentwr o gerig gerllaw, wedi eu casglu at eu gilydd, i'w taflu, meddent, i geg y pregethwr. Wedi hir ddysgwyl, a phawb yn llygadu o'u cwmpas am dano, a dim arwydd ei fod yn dyfod i'r golwg; mi godais ar fy nhraed, a dywedais, Wel, *lads* bach, gan nad oes yma ddim argoel am bregethwr, safed un o honoch chwi ar ben y twr cerig yma, a phregethed i ni, gan nad oes yma neb arall; mae o wedi clywed yn ddiamheu ein bod ni am ei luchio â cherig; ddaw o ddim yma; dewch i un o honom dreio cynghori, a'r lleill i ganu; pa chwareu gwell a allem ni gael?"

"Ië, myn d—l," ebe y pen paffiwr, yr hwn oedd am luchio y pregethwr, "Saf di ar y twr yna, a phregetha i ni."

"P'le cai i lyfr?" ebe finau.

"Dyma i ti lyfr," atebai y cyfaill a ddaethai gyd a fi yno, "os gwnei di bregethu i ni."

"Wel," ebe finau, "os byddwch chwi yn *civil*, mi dreiaf; ond i chwi beidio chwerthin am fy mhen i, os *misia* i."

"O!" ebe y pen *bwli*, "mi'ch gwna i ch'i yn *civil*, *lads*; a phwy bynag a chwerthiff am eich pen ch'i ddyn, myn c—l, mi ro' i un o'r cerig yma yn ei ben o."

"Yna sefais i fyny; gweddio, onide sydd i wneyd yn gyntaf?"

"Ië," ebe y pen *bwli*, "finau, ydi y clochydd. Mi safa i yn dy ymyl; cymer dithau ngwar i yn bwlpud."

"Felly aethum i, a fy nghyfaill, i weddio, ef yn ddystaw, a minau yn uchel; a gwir weddio hefyd 'rwy'n coelio."

"Erbyn darfod y weddi yr oedd pawb yn bur siriol; a'r naill yn dyweyd wrth y llall, Go lew onide, (meddai un). Ië, myn d—l, meddai y llall, gystal a pherson!"

"Yna cymerais fy nhestyn; ond gwaed dai yr hen baffiwr, gan droi ataf, '*Hould on* ffwl!—gad i ni ganu yn gyntaf."

"O ïe," ebe finau, "mi anghofiais; yna mi roddais allan bennill o Salm:

Tyr'd Ysbryd Glan i'n c'lonau ni
A dod dy oleuni nefol, &c.

Dechreuodd fy nghyfaill y dôn a chanwyd yn lled ryfedd.

Yna mi a bregethais; cefais lonyddwch hefyd; ië, cefais radd o seibiant meddwl, a rhwyddineb ymadrodd; a gwelodd Duw yn dda fendithio y dyweyd a fu, i'r *bwli* hen a'r *clochydd newydd*."

Cerddodd son rhyfeddol am yr oedfa, a daeth yr ystryw a ddefnyddiwyd i'r golwg; ond yr oedd y pen erlidiwr, y pen paffiwr, y pen bwli, wedi ei ddofi; ac yn y fan y gorchfygwyd ei elyniaeth yn erbyn yr efengyl, ac yn erbyn y crefyddwyr, fe droes yn bleidiwr iddynt, ac yn ddadleuwr drostynt. Yr oedd ei gariad bellach mor amlwg ag a fu ei gas. Mynodd gyhoeddiad gan y pregethwr cyn ei ollwng, i ddyfod i'r lle drachefn, yn mhen y mis. Deallwyd hyn gan y gwrthwynebwyr, y rhai yr oedd eu cynddaredd bellach yn fwy nag erioed. Cerddodd y son am yr oedfa a'r amgylchiadau cysylltiedig â hi i bob man, ac yn enwedig am y modd y syrthiasai Ned y pen *bwli* i fagl y pregethwr pen-grynaidd; a thyngodd hen gyfaill iddo, trwy fawr lwon, y cai y pregethwr deimlo pwysau rhai o'r cerig y safasai arnynt, mewn ffordd o ddial arno am ladrata ei gyfaill oddiarno. Parhau yr ydoedd hefyd i lochi y bwriad gwaedlyd, hyd y diwrnod yr oedd yr oedfa i gael ei chadw, heb leddfu dim.

"Y diwrnod a ddaeth," meddai Thomas Hughes, "a minau a aethum yno. Yr oedd y *clochydd newydd* wedi nodi lle yr oedfa; yn ymyl rhyw faen mawr, yr hwn sydd yno eto; a'r maen hwnw oedd i fod yn bwlpud; felly y bu. Daeth y broliwr mawr arall yno; yr oedd eisoes wedi parotoi swp o gerig i fy lluchio; ac wedi denu eraill yno i fod yn gefn iddo. Ac fel yr oeddwn i yn ymbarotoi i ddechreu, yr oedd ynteu yn ymbarotoi i ymosod arnaf. Codai y gareg yn ei law, a bygythiai os awn rhagof y byddai y gareg hono yn fy ymenydd. Ond cyn iddo roddi ei fygythiad mewn grym, rhedai ei wraig ymlaen, gan waeddi, 'Yn enw Duw, mi safaf fi rhwng dy gerig di â'r cynghorwr druan, a diniweid.' Felly sefyll a wnaeth a phlentyn bach yn ei breichiau. Yn y modd yma, wedi tipyn o gynhwrf, mi gefais lonydd." A'r peth sydd ryfedd ydyw, fod y dyn hwn hefyd wedi cael rhyw fath o dro. Daeth i sefyll dros y pregethwr o hyn allan yn lle ei luchio; ond glynai llawer o'i gethinwch wrtho, er hyny. Gwrthwynebai y pregethu unwaith yn hollol oddiar fympwy a gwag ymffrost, ac amddiffynai ef yn awr, i fesur mawr, oddiar yr un teimladau. Cymerodd hyn yn ei ben bellach i sefyll yn gefn i'r pregethwr, ac yn ol tystiolaeth Thomas Hughes, fe fu iddo o ryw gymaint o wasanaeth yn y ffordd hono. "Bum lawer gwaith," meddai, "yn pregethu tan gaerau Conwy, ar lan yr afon; byddai yno rai yn bygwth fy lluchio i â cherig; ond yr hen luchiwr o Landudno a fyddai yn eu

rhwystro, a gwnai hyny mewn dull cethin ddigon; dull priodol iddo ei hun. Gwaeddai yn groch ar y terfysgwyr, "Go' d—o chwi, gweilch! rhowch y cerig yna i lawr o'ch dwylo; y cynta' a daflo gareg, mi dala i i'w esgyrn o!"

Fel hyn yr oedd y cî mawr yn chwyrnu ar y cwn mân, ac yn eu cadw yn llonydd; a thra y gorchymynai Duw i gynddaredd dyn ei foliannu; yr ydoedd yn lledu ei aden dros yr efengyl, ac yn dwyn ambell un, o dro i dro, i brofi ei hawdurdod santeiddiol hi ar ei galon, ac i roddi ei wddf yn ngwasanaeth ei Arglwydd.

Ymddengys i'r hen bregethwr hwn ddàl i fyned yn fynych i ganol y campwyr ar Dowyn-y-fferi; a bod yn offerynol i gipio rhai o'r pentewynion hyny, megys o'r tân; a hyny yn nghanol llawer o derfysg, erlid, ac anmharch; yn y canlyniad, agorodd rhyw un ddrws ei dŷ i dderbyn y pregethu iddo, a bu ymgynull ynddo am flynyddau; mae yn y lle achos bychan hyd heddyw, ac addoldŷ wèdi ei godi; ond y mae yr hen chwareuyddiaethau wedi llwyr ddiflanu er ys llawer dydd.

Fe fu gan Thomas Hughes beth llaw yn nechreuad Methodistiaeth yn Llanllechid,* sir Gaernarfon; y plwyf y bu ef, ar ol hyn, yn trigo dros ryw nifer o flynyddau; ac oddiar hyn y gelwid ef yn Thomas Hughes, Llanllechid. "Cerddwn yno," meddai, sef, i Lanllechid, "o Fochdre', fore Sabboth, ac yn ol y noswaith hono;" nid oedd hyny nemawr lai na 40 milldir o ffordd. Wedi un oedfa yno ar fore Sabboth, cafodd ei wahodd i gael tamaid i dŷ rhyw wraig, yr hon, tybygid, a deimlai yn awyddus i ddangos iddo beth caredigrwydd. Amaethwr cyfrifol oedd y gŵr, ond yn dwyn cryn sêl dros yr eglwys; a chymaint a hyny o eiddigedd yn erbyn y bobl newydd a aflonyddent y wlad. Gyda bod Thomas, druan, wedi eistedd i lawr yn y tŷ (a da yn ddiau oedd ganddo gael eistedd), dyma y gŵr yn dychwelyd o'r llan, ac wedi deall pwy oedd y dyeithr-ddyn, dyma fe yn ymaflyd mewn clamp o bastwn, gan dyngu i'r gwr drwg y lladdai efe y pregethwr, a phob pen-grwn arall y deuai efe o hyd iddo. Bu raid i'r cynghorwr ymadael ar ffrwst, a dianc yn brysur o'r fro; gan fod yno lawer un a fuasai yn ymuno a'r amaethwr i ymlid pregethwr, fel y gwnaethent i gî cyndeiriog, a'i yru allan o'u cyffiniau. Ynteu a ddychwelodd y noson hono i Fochdre' cyn cael bwyd!

Bu Thomas Hughes yn arfer myned i ardal arall, yn mhen ucha' plwyf Llandrillo-yn-Rhos, ardal oddiar Fochdre', ac yn agos i Lansantffraid-glan-Conwy, mor fore a'r ysbaid rhwng y fl. 1772-83, i gadw oedfaon. Cedwid yr oedfaon hyn o dŷ i dŷ, fel y byddai cyfleusdra a chaniatâd. Enw yr ardal ydyw Cefn-llwyd-coed; ac nid yn mhell o'r ardal hon y mae y capel a elwir "Moriah," wedi ei adeiladu. Wedi ymadawiad Thomas Hughes o Fochdre', diflanodd y cwbl ymron yn Llwyd-coed, hyd oni ddechreuodd wŷr i'r hen

* Gwel Cyf. II., tudal. 253.

bregethwr, sef, Mr. Samuel Evans,* ysgol Sabbothol yno, yn y fl. 1812. Mae yno ysgol Sabbothol, yn parhau hyd heddyw, ac wedi effeithio daioni annhraethol i'r trigolion tywyll a'i preswylient. Ychydig iawn o bregethu a geid i'r ardal hon; am ysbaid 40 mlynedd ni fyddai yma fwy nag un bregeth mewn blwyddyn; cyfarfodydd i weddio a darllen, ynghyd ag addysg yr ysgol Sabbothol, oedd yr holl foddion a fwynheid. Codwyd capel Moriah yn fl. 1824; ond y mae hwnw tua milldir a chwarter oddiyma, ac mewn ardal cwbl wahanol. Bu Mr. S. Evans yn arfer myned gyda chyfeillion eraill i ardal Moriah, o'r fl. 1819 hyd 1824, i gadw ysgol am ddau o'r gloch, a chyfarfod gweddio am chwech yn yr hwyr.

Tra dyledus ydyw llawer o lanerchi anghysbell yn Nghymru i lafur athrawon yr ysgol Sabbothol; gan mai yr addysg a roddid ynddi oedd, mewn llawer man, yr unig foddion gwybodaeth ysgrythyrol, o fewn eu cyrhaedd. Dyledus hefyd ydynt i lawer cynghorwr bychan, diddawn a dirodres; ac, erbyn hyn, di-son am dano; gan mai hwynt hwy a fuont y prif offerynau i ledaenu gwybodaeth o Dduw yn y wlad.

LLANGERNIEW.

Mae Llangerniew yn gorwedd tua 15 milldir i'r gorllewin o Ddinbych; ychydig i'r gogledd wrth fyned o Ddinbych i Lanrwst. Mae tua 4 milldir i'r gogledd o Wytherin; ac oddeutu 5 neu 6 milldir i Lanrwst. Yr ydym wedi rhoddi darluniad, mewn rhan eisoes, o ansawdd y pentref hwn, o ran agwedd anghrefyddol y trigolion.† Yr oedd y wlad hon, er teneued ei thrigolion, yn llawn o chwareuyddiaethau ac ofer-gampau; y rhai a gynelid ar y Sabbothau, heb neb yn eu gwarafun. Ystyrid yr arferion yn hen, ac am hyny yn teilyngu parhad. Ni cheid nac ynad nac offeiriad, yn codi ei lef yn eu herbyn, er fod achos teg i'r ddau ymyryd â hwy. Yr oedd achos i'r ynad wneyd hyny, gan y meddwi a'r ymladd â fyddai yn ffynu; ac i'r offeiriad yn enwedig, gan yr halogi a wneid ar ddydd a thŷ Dduw a'i addoliad. Ond nid oedd y naill na'r llall, yn gofalu am ddim o'r pethau hyn.

Y manau yr ymgynullai y campwyr, oeddynt Cefn-bryn-siôn, Nant-y-fedwen, Moelfre, a lleoedd eraill. Nid oedd yr un ysgol Sabbothol erioed wedi goleuo dim ar dywyllwch y werin. Nid oedd yr un capel wedi ei adeiladu, nac un pregethwr ymneillduol, o un enwad, wedi ymweled â'r gymydogaeth; ac am lan y plwyf, mae yn resyni dyweyd, nad oedd y gwasanaeth yn ddim, yn nghyfrif y gweinidog mwy na'r gwrandawyr, ond ffurf a defod; ffurf, yn wir, yr oedd yn rhaid ei chyflawni; ond heb na dwysder na bywyd ynddi. Anfynych y byddai pregeth; a phan y byddai, nid oedd waeth bod hebddi, gan leied o sylwedd na difrifwch a fyddai ynddi. Nid rhyfedd, ynte, os

* Mae y gŵr hwn yn awr yn mysg pregethwyr sir Fflint, ac yn byw yn Nhrelogan.
† Gwel Cyf., I., tudal. 55.

oedd y wlad yn un gaddug o dywyllwch annghrefydd, ac yn un gors o arferion llygredig. Yr oedd y goleuni ag oedd ynddi yn dywyllwch!

Dechreuwyd pregethu, mewn tŷ a elwir y Ffrith-bach; a hyny oddeutu y fl. 1780. Tebyg ydyw mai dyma'r amser a'r lle, y dechreuodd pregethu lled gyson yn y gymydogaeth. Nid oes llawer o amheuaeth na fu rhai o'r diwygwyr boreuaf yn pregethu, yn achlysurol, neu megys ar eu hynt, mewn rhyw fan neu gilydd yn y fro, cyn y cyfnod a enwyd. Darllenwn yn yr hanes a ymddangosodd * am Edward Parry, Bryn-bugad, mai efe ydoedd y cyntaf a bregethodd yn y gymydogaeth, sef yn y *Petrŭal*, "*ar y clwt wrth yr efail.*" Ymddangosodd yno lawer o derfysgwyr, y pryd hwnw, yn tyngu ac yn rhegi, ac yn bytheirio allan bob math o ymadroddion anfad. Ynteu a gododd y Beibl i fyny, ac a wnaeth araeth cyn dechreu pregethu, gan ddadgan fod cyfraith yr Arglwydd a chyfraith brenin Lloegr yn y llyfr hwnw, ac y byddai pwy bynag a'i troseddai, yn euog o gosb a charchar. Ar hyn aeth rhai i ffordd; a rhai eraill a nesasant i wrando. Cafwyd llonyddwch y tro hwn, a llawer tro ar ol hwn; ond nid ymddengys fod achos parhaus wedi cael ei sefydlu.

Wedi i bregethu fod dros ryw dymhor yn y Ffridd-bach, symudwyd y moddion i Dŷ'n-y-pistill, lle yr oedd un Thomas Roberts yn byw. Barnu yr ydym mae aelod ydoedd y gŵr hwn, ac ambell un arall yn y gymydogaeth, yn Tan-y-fron, Llansanan. Dyoddefodd Thomas Roberts beth gorthrwm am iddo lochi oedfaon yn ei dŷ. Ei feistr tir oedd un Mr. Lloyd, Hafodunos, yr hwn a roes rybudd iddo ymadael â'i dyddyn; ac ymadael hefyd a fu raid. Ond ni lwyddodd y gorthrwm hwn i attal ymneillduaeth fyned rhagddo, oblegid cafodd Thomas Roberts le i adeiladu tŷ iddo ei hun, yn yr hwn y parhaodd y pregethu bellach hyd nes adeiladwyd y capel; adeiladwyd yr addoldŷ hwn yn ymyl ei dŷ, sef Capel y Cefn-coch. Nid oedd eto yr un ysgol Sabbothol, a pharhau yr oedd llygredigaethau cyhoeddus yr ardal i sefyll i fyny.

Tua'r fl. 1795, wedi i'r achos ddechreu ymwreiddio ac ennill nifer o ddysgyblion at eu gilydd, ffurfiwyd y bwriad i ymosod o ddifrif at ddarostwng rhyw arferion anfad a anurddai y gymydogaeth; ac yn enwedig y ffair a gynelid yma, fel yn Rhuddlan a manau eraill, ar y Sabboth, i gyflogi gweithwyr, a phrynu a gwerthu crymanau a phladuriau, ar amser y cynhauaf. Cyfarfyddai plwyfydd eraill yn Llangerniew i'r dyben, sef Llansanan, Gwytherin, Llanfair-talhaiarn, Bettws, rhan o blwyf Llanrwst, ac Eglwysfach. Yr oedd y cynulliad a fyddai yma, gan hyny, yn lluosog iawn, ac yn hen arfer; a lluaws o bethau wedi ymgordeddu ynddo, a'i gysylltu wrtho, fel mai anhawdd iawn a fyddai ei ddarostwng; ac eto yr oedd yma lygredigaeth mawr iawn, a galwad uchel ar i bawb wneyd cais eguiol at dynu yr ysgelerder anfad i lawr.

* "*Goleuad Cymru*," Llyfr V.

Nid oedd y crefyddwyr eto ond ychydig o nifer; a gallesid meddwl mai rhyfyg ynddynt oedd ymosod ar arfer mor hen, a chynulliad mor fawr; yn enwedig, gan nad oedd neb o'r gwŷr mawr ac urddasol yr ardaloedd wedi dangos un gwrthwynebiad iddo; pa fodd bynag, ymosod a wnaethant, ïe, a llwyddo a wnaethant hefyd. Gyda golwg flaenorol ar hyn o amcan, cydsyniodd un o'r crefyddwyr, Robert Jones, Pen-y-bryn, i fyned yn Warden y flwyddyn hono, er mwyn ymwisgo â mwy o awdurdod swyddol. Cafodd hefyd gan ei gyd-swyddog, er nad oedd yn proffesu crefydd, gydweithredu gydag ef. Mewn ffordd o ragbarotoad anfonasant air i'r plwyfi cylchynol, ar gyhoeddi ynddynt, mai bore dydd Llun y byddai cyflogi yn Llangerniew, ac nid y Sabboth fel cynt. Er hyn oll, erbyn i'r Sabboth ddyfod, yr oedd Llangerniew gan llawned o bobl ag erioed; a chyda hwy eu crymanau, a phob celfi. Wedi canfod hyn aeth Robert Jones at y tafarnwyr, i erchi yn daer arnynt i beidio gollwng cwrw i neb, o leiaf, nes ar ol y gwasanaeth yn y llan. Hwythau, yn garedig a pharod, a gydsyniasant; a chafwyd gan y bobl fyned i'r gwasanaeth. Llwyddodd hefyd gyda'r amaethwyr a fyddai, yn ol defod, yn cael y blaen mewn cyflogi, i gilio ymaith heb gyflogi neb. Perswadiasant eraill i fyned â'u cewyll afalau ac eirin ymaith; dychwelodd yr amaethwyr hefyd adref y diwrnod hwnw heb gyflogi neb, gadawsant hyny heb ei wneyd hyd fore dranoeth; a bore Llun ydyw diwrnod cyflogi o hyny hyd yn bresenol.

Cawsom achlysur, cyn hyn, i ddangos pa mor ymroddgar a fyddai ysbryd crefyddwyr yn yr adeg foreol hono; a pha faint o wasanaeth a fuont, trwy eu rhodiad cyson a'u hymddyddanion crefyddol, i achos yr efengyl. Yr oedd yma ddyn tra hynod am ei lwyr ymgysegriad i wasanaeth ei Arglwydd. Ei enw ydoedd, Thomas Roberts, dilledydd wrth ei grefft; dygasid ef at grefydd mewn dull hynod. Fel yr ydoedd unwaith yn dringo grisiau tŷ tafarn yn Llangerniew i ymuno â'r ddawns yn y llofft, daeth gair o'r Beibl fel saeth yn ddisymwth i'w feddwl; a hyny gyda'r fath awdurdod a grym, nes y bu raid iddo droi yn ol; bu hyn yn ddechreuad dyddiau iddo; gwnaethpwyd pob peth o newydd. Ni adawai lonydd, bellach, i na mab na merch, i'r rhai a gyfarfyddai ar y ffordd, neu y rhai y gweithiai yn eu tai, heb alw eu sylw at fater eu heneidiau, Ennillodd dystiolaeth yn nghydwybodau ei holl gymydogion ei fod yn Israeliad yn wir, yn yr hwn nid oedd twyll; a bu yn offeryn llwyddiannus iawn yn ei ardal i ddwyn dynion i ymarfer â moddion gras; a thrwy hyny i brofi awdurdod a grym y gwirionedd.

Trwy ymdrech y Methodistiaid yn y lle hwn y darostyngwyd y gwylmabsant ag ydoedd mor uchel ei fri yn yr ardal er ys oesoedd; a gwnaed hyny mor llwyr, fel mai prin y gŵyr y genedlaeth bresenol pa bryd y cedwid ef. Tynwyd hefyd yr hen arfer o wneuthur "*siot*" wrth gladdu y marw; arfer a fyddai yn arwain i feddwdod gwrthun y rhan amlaf.

Mae dwy neu dair cynulleidfa bellach yn y plwyf hwn yn perthyn i'r cyfundeb. Mae yr ysgol Sabbothol, hithau, wedi gwneuthur ei rhan tuag at wareiddio ac efengyleiddio y trigolion.

GWYTHERIN.

Ardal yw hon gyffelyb i Langerniew; tua phedair milldir i'r dehau oddiwrthi. Ymddengys fod yma ychydig o enwau yn yr ardal hon, mor fore a dyddiau Edward Parry, Bryn-bugad. Nid oedd un addoldŷ yno y pryd hwnw nac wedi llawer o flynyddau ar ol hyny, ac nid yw yn ymddangos fod yno bregethu cyson, ond yn unig y byddai ambell oedfa yn cael ei chadw gan Edward Parry a chan rai eraill, a hyny yn anfynych. Aelodau yn Tan-y-fron, Llansanan, oedd yr ychydig grefyddwyr a breswylient yr ardal. Sonir yn neillduol am un John Williams, Bryn-hafod, fel un o'r crefyddwyr boreu hyny; dywedir hefyd fod dau neu dri eraill yn yr ardal, ac oll yn aelodau yn Tan-y-fron. Ymddengys hefyd y byddai Edward Parry yn arfer myned i Fryn-hafod i bregethu. Rhoddwyd i John Williams oes hir, a pharhaodd hyd y diwedd. "Gwelodd," medd fy hanesydd, "lwyddiant ar y gwaith cyn ei farw, a chapel a chynulleidfa eglwysig yn Ngwytherin."

Yr ydym eisoes, yn yr hanes a roddwyd am Lewis Evan, Llanllugan, wedi crybwyll am y cais cythreulig a wnaed am ei fywyd ef ac eraill, pan yr oedd yn pregethu ar ryw fryn bychan gerllaw y ffordd sydd yn arwain o Wytherin i Lansanan,* fel na raid i ni yma chwanegu. Gwelwn, pa fodd bynag, fod pregethu yn achlysurol yn yr ardal hon, er yn gynar yn nhymhor Methodistiaeth; ond, er hyny, nid oes genym le i gasglu, fod nemawr effaith wedi ei ddilyn am flynyddau lawer; oblegid dywedir, gyda sicrwydd, fod annhrefn y gymydogaeth yn parhau hyd at y ganrif hon. "Yn y fl. 1812," meddir, "yr oedd y fath chwareu ar y Sabbothau yn y fynwent fel nad oedd dim glaswellt yn tyfu arni." Arwydd lled sicr nad oedd nemawr o grefydd yn y lle, neu ynte ei fod yn wan a gwywedig.

Yr oedd yr ysgol Sabbothol y pryd hwnw hefyd, heb ymron yn ei cheisio, oddieithr rhyw ychydig nifer o blant bychain, a dau grefyddwr pennodedig yn ei chadw, pryd y byddai y lleill yn aros gartref. Ond tua'r haf, 1813, cynhyrfwyd ysbryd y Parch. Peter Roberts, Llansanan, i ddywedyd gair yn gyhoeddus am yr ysgol, ac i annog pob gradd ac oedran i ddyfod iddi. Ymddengys y bu y cynghor hwn yn dra effeithiol; oblegid cafwyd mwy i'r ysgol y Sabboth canlynol nag a gynwysai y capel; a bu raid gosod mainc o'r tu allan iddo. Nid hir, bellach, y cafodd y gwylmabsant, a'r nosweithiau llawen, lonydd i sefyll i fyny; ymosodwyd ar y llygredigaethau hyn o ddifrif, a chafwyd goruchafiaeth arnynt mor ebrwydd ac mor llwyr, fel na fu rhith o honynt byth mwy.

Ceir crybwylliad byr am adfywiad rhyfeddol a gymerth le yn yr ardal hon yn y fl. 1828. Ymddengys fod yr adfywiad hwn yn un rhyfeddol o rymus. Yr oedd dynion caled ac anystyriol yn toddi fel cŵyr. Yr oedd yr olwg ar yr ymgeiswyr am aelodaeth eglwysig yn ddigon i ddryllio y galon galetaf; a

* Cyf. I., tudal. 128.

phan y dechreuent arllwys eu teimladau, rhy anhawdd oedd i un dymher ddàl heb fyned yn chwilfriw. A phan y ceisiwyd dyweyd gair wrthynt am y fraint o gael trigo yn eglwys Dduw, a hyny yn brin iawn, torent allan fel ymollyngiad argae :—

"Dyma'r fan dymunem aros,
O fewn pabell bur fy Nuw, &c."

Nid oedd i wneyd ond ymollwng i wylo ac i chwerthin bob yn ail, gan ryfeddu y gwaith anhygoel a wnaed arnynt.

Yr oedd yr hyn a ddygwyddodd ar gyfarfod gweddio a gynaliwyd yma, un nos Sabboth, yn mhell tu hwnt i ddesgrifiad. Yr oedd y dylanwad mor rymus fel na ellir ei gydmharu i ddim ond i wynt nerthol yn rhuthro, ac i dân yn goddeithio, Gwaeddai rhai allan fel wedi eu pigo yn y galon;—curai un arall ei ddwylaw gan lawenydd fel un a gawsai ysglyfaeth lawer. Gruddfanai un arall fel ar drancedigaeth; gwelid un arall yn ymdoddi mewn dagrau, a'i wedd fel un heb glywed dim na gweled neb o'i amgylch. Rhan fawr o'r gynulleidfa wedi eu bedyddio i'r un ysbryd, a'r rhan arall yn sefyll yn sỳn, a'u hwynebau yn delwi gan fraw a syndod. Wedi cyhoeddi cyfarfod eglwysig, ar ol y cyfarfod gweddio, a chyhoeddi hyny fwy nag unwaith, dysgwyliwyd y buasai y gwrandawyr yn cymeryd yr amnaid, ac yn ymwasgaru; ond nid oedd neb yn foddlawn i fyned allan; ac wedi i rai ymwasgaru yr oedd y nifer a arosodd mor fawr fel na ellid coelio prin mai cyfarfod eglwysig ydoedd.

Nid oes amheuaeth na chaed llawer o ûs yn y pentwr; eto, rhoddwyd lle cryf i gredu fod yno lawer wedi eu gwir ddychwelyd at Dduw; a hwy a roisant brawf o hyny mewn blynyddau dilynol, trwy eu cynydd mewn gras a defnyddioldeb. Mae yn Ngwytherin yn awr achos siriol, a chynulleidfa dda; yr aelodau eglwysig ydynt yn agos yn 70 o nifer, a deiliaid yr ysgol Sabbothol tua 300 o rifedi. Nid yn mhell oddiwrth y gymydogaeth hon y mae cynulleidfa arall o gryn faintiolaeth, sef PANDY-BUDR, neu PANDY-TUDUR yn hytrach; ac un arall, ond nid cymaint, mewn lle a elwir y GARNEDD. Dylasid dyweyd fod dwy gynulleidfa yn Llangerniew; y gyntaf a'r henaf, yn Cefn-coch, a'r llall yn y pentref. Mae y parthau hyn o sir Ddinbych yn lled fynyddig, ac yn gwbl amaethyddol. Nid oes lle i ddysgwyl fod y trigolion yn lluosog iawn; eto, yn ol eu rhifedi, gellir barnu fod eu dyfalwch i fynychu tŷ addoliad yn gyfartal i ranau mwy poblogaidd, lle y dichon fod y cynulleidfaoedd yn fwy lluosog.

PENNOD XI.

HANES METHODISTIAETH RHUDDLAN A'I HAMGYLCHOEDD.

CYNWYSIAD:—

RHUDDLAN—DESGRIFIAD O AGWEDD Y DREF—ROBERT JONES, RHOSLAN, YN CADW YSGOL YNDDI—WILLIAM GRIFFITH YN CYNYG PREGETHU YNDDI—GWRTHWYNEBRWYDD Y FICER A'I WRAIG—ERLIDWYR ERAILL—GWRAIG WEDDW YN AGOR EI DRWS—ROBERT JONES YN PREGETHU YN DYSERTH—DAROSTWNG HEN ARFERIAD ANFAD TRWY BREGETH ELIAS—HANES METHODISTIAETH YN RHYL—HEFYD YN ABERGELE A'I HAMGYLCHOEDD—MR. DAVIES, CASTELL-NEDD, YN PREGETHU YN Y BETTWS—ADFYFYRION.

RHUDDLAN.

Mae Rhuddlan yn gorwedd yn ngwaelod Dyffryn-clwyd, ar yr ochr ddwyreiniol i afon Clwyd; ac felly yn sir Fflint; y mae yn agos i'r fan yr ymarllwys yr afon i'r môr. Hi saif tua thair milldir o Lanelwy, a chymaint a hyny o Rhyl. Yr oedd y dref hon, a'r ardaloedd cylchynol iddi, cyn cychwyniad Methodistiaeth ynddi, mewn agwedd gyffelyb i Gymru yn gyffredinol, o ran crefydd a moesau; diau nid gwell na pharthau eraill o'r wlad; gwaeth, medd rhai, na nemawr dref o'i maint yn y dywysogaeth.

Pedwar ugain mlynedd yn ol, nid ydym yn cael fod yma ddim Methodistiaeth, nac yn wir un enwad ymneillduol arall o Gristionogion; yr oedd yr eglwys sefydledig hithau mor ddieffaith i wrthdaro llygredigaeth, ac i chwalu anfoes ac anwybodaeth y broydd hyn, ag ydoedd yn un man arall yn Nghymru. Nid oedd Methodistiaeth chwaith ddim eto wedi cychwyn mewn un man cyfagos iawn i Ruddlan. Yr oedd Caerwys a'r Berthen-gron, ar y naill law, a Than-y-fron, Bont-uchel, a Chapel-y-dyffryn, ar y llaw arall, yn rhy bell; a'r achos ynddynt eto yn rhy eiddil a disylw i effeithio ar Ruddlan a'i chymydogaeth.

Bu yr hybarch Robert Jones, Rhoslan, yn cadw ysgol yn y dref hon ryw bryd oddeutu y fl. 1770, ac felly yn abl i ddarlunio, gyda sicrwydd, pa fath ydoedd gwedd y gymydogaeth ar y pryd, a pha ddygwyddiadau a fu yma, pan y ceisiwyd ymosod ar gestyll annuwioldeb y lle. Meddai Robert Jones fel hyn:—"Yr oedd y dref a'r ardaloedd yn blaenori mewn annuwioldeb ar y wlad yn gyffredin. Cedwid yno bob Sabboth, tra y parhai y cynhauaf, fath o gyfarfod lluosog, a elwid y gwylmabsant; yn mha un y cyflogid y medelwyr tros yr wythnos. Gwerthid hefyd grymanau, ac amryw bethau eraill, megys pe buasai yn ddiwrnod marchnad. Wedi darfod eu negesau, ymdyrent i'r tafarndai, i ganu, dawnsio, a meddwi, yn fynych hyd fore dydd Llun; ac odid na byddai yno ymladd gwaedlyd cyn ymadael. Chwi ellwch feddwl nad oedd hi ddim llai na pherygl bywyd wynebu yno i gynyg pregethu; ac

er hyny, anturiodd un William Griffith, gerllaw y Wyddgrug, a safodd ar yr heol, o achos na cheid un tŷ. Ni chafodd braidd ond dechreu, nad dyna'r dom a'r cerig, yn cael eu lluchio ato gan dorf ar unwaith; a chafodd ei lusgo a'i faeddu ganddynt yn ddidosturi."

Y tro hwn, am ddim a wyddom ni, oedd y cais cyntaf a wnaed i bregethu. Yr oedd y driniaeth a gafodd William Griffith y fath ag a ddangosai mai cryn anturiaeth fyddai i neb ddylyn ei esiampl; eto, deallwn fod rhyw rai eraill wedi gwneyd y cynygiad; ond mai yr un driniaeth a gawsant. Ië, fel yr oeddynt yn llwyddo i ddyrysu yr amcan, a dim amddiffyniad cyfreithiol yn cael ei roddi dros y pregethwyr; ymhyfhâai y terfysgwyr, gan fyned rhagddynt i eithafion pellach. Nid digon fu ganddynt faeddu a dirdynu rhyw bregethwr a ddaethai atynt, eithr cytunasant â'u gilydd i'w gipio drwy drais a'i fwrw dros y bont i'r afon, ac felly gwneyd pen ar ei einioes. "Ond," meddai Robert Jones, "fel mae bywyd pawb yn llaw Duw, gwaredwyd ef yn rhyfedd o'u dwylaw."

Edrychid ar ddyfodiad y cyfryw bregethwyr i'r plwyf, gan y Ficer, yn ormes annyoddefol. Yn ol ei farn ef nid oedd gan neb hawl i ymyryd ag addysgiad crefyddol y plwyfolion ond efe. Prysurdeb diddiolch, ac ymyriad diràid, gan hyny, yr edrychai ar waith neb yn dyfod i'r plwyf i bregethu. A pheth sydd hynod, mewn amgylchiadau o'r fath hyn ydyw, po leiaf fyddai cymhwysder y person i ddysgu y bobl, mwyaf fyddai ei wrthwynebiad i neb arall geisio. Anwybodus ac anfucheddol ei hun, felly y mynai gadw y bobl i fod. Ymddengys mai un o'r tylwyth yma oedd Ficer Rhuddlan yn y tymhor y cyfeiriwn ato. Adnabyddus iddo oedd y baeddu a wneid ar y pregethwyr; ac nid cydsynio yn unig a wnai, ond annog a swero y dyhiriaid gyda'u gorchwyl. Un Sabboth rhoes bum' Swllt i dalu am ddiod gref i'r erlidwyr, er mwyn enyn eu sêl, a chynhyrfu eu nwydau, yn fwy; a gwnaeth hyny yn union ar ol gweini y cymun.

"Ond y mae Duw a farna ar y ddaear." Rhyfygodd y Ficer yn ormodol. Aeth yn rhy annuwiol, a symudwyd ef o'r ffordd. Tua phen yr wythnos ar ol y weithred uchod, dyrysodd ei synwyrau, a bu raid ei anfon i nodd-dŷ gwallgofiaid; lle y parhaodd i drigiannu hyd ddydd ei farwolaeth. Ni chymerodd ei wraig ychwaith rybudd oddiwrth amgylchiad ei gŵr, ond yn ei absenoldeb bytheiriai allan ei gelyniaeth yn erbyn y "Caradocs," mewn pob dull dichonadwy iddi hi. Ni ddiangodd hithau ychwaith heb arwyddion o ŵg rhagluniaeth arni, ynghyda rhai o'i theulu.

Sonia Robert Jones am ŵr arall, yr hwn ydoedd erlidiwr ffyrnig, ac yn odinebwr adnabyddus. Dygwyddodd ei fod yn gwrando pregeth unwaith, pan y dynoethai y pregethwr bechodau dynion, gan gyhoeddi bygythion y Beibl yn eu herbyn; ac wrth draethu, cyfarchodd y pechadur, gan ddyweyd, megys ar amcan, "O buteiniwr!" Pigodd hyn y dyhiryn ag oedd yn gwrando; ac mewn cynddaredd, cipiodd lon'd ei law o dom, a tharawodd y pregethwr yn ei wyneb, gan ddyweyd, "Pa fodd y gwyddost ti am danaf fi?"

Aeth y gŵr yn mlaen yn ei redfa anfad: ond un Sabboth wedi bod yn y dafarn, ac wedi hyny yn erlid, tarawyd ef y noson honc yn ei gwsg, â math o ffitiau arswydus, fel y bu raid ei rwymo ef â rhaffau; ac yn y cyflwr hwn, y bu farw.

Sonir am ŵr arall hefyd, a ddangosai yr un fath o elyniaeth yn erbyn gair Duw, a'r rhai a'i pregethent; enw hwn ydoedd Thomas Jones; ond nid hir y bu gyrfa hwn. Un diwrnod, yn y maes, tarawyd ef yn ddisymwth yn ei forddwyd â phoen anaele; fel na allai ddyfod yn ol i'w dŷ heb gymhorth. Addefodd y gŵr hwn mai llaw Duw oedd arno am ei waith yn erlid dynion gwell nag ef ei hun.

Crybwyllir hefyd am wraig weddw, o'r enw Jane Jones, yr hon oedd yn byw yma, ac ynddi beth daioni tuag at Arglwydd Dduw Israel. Agorodd hon ei drws i achos yr efengyl, a bu yn famaeth ymgeleddgar iddo tra bu hi byw; a thros lawer o flynyddau nid oedd ond y weddw hon a wnai hyny. Dyoddefodd hefyd lawer yn achos yr efengyl. Y noswaith gyntaf y derbyniodd hi bregethu i'w thŷ, torwyd ei holl ffenestri, a thynwyd un o'i llygaid! Nid ydoedd ond gwreigan weddw dlawd a chanddi ddau blentyn, ond ei chalon oedd wedi ymglymu ag achos y Cyfryngwr; a pharod ydoedd i wneyd pob cymwynas iddo. Cymhellai y pregethwyr, gan ddyweyd fel Lydia, "Deuwch i'm tŷ." Ac er maint yr anmharch a ddangosid tuag ati, gan wrthwynebwyr Methodistiaeth, eto cafodd hi a'i phlant eu cadw uwchlaw angen: a chafodd yr hyfrydwch hefyd o weled yr erlidigaeth yn lleddfu, ac achos Mab Duw yn ennill yr orchafiaeth.

Parhaodd yr erlid mewn mesur, mwy neu lai, hyd nes daeth Robert Jones i Rhuddlan i gadw ysgol. Cododd gwrthwynebiad cryf i sefydlu y fath ysgol, er ei bod dan nodded gwraig foneddig ag oedd eglwys-wraig; a gomeddwyd yn hollol iddo ei chadw yn eglwys y plwyf. Aeth, gan hyny, i le a elwir y Cwm, plwyf arall cyfagos; a chaniataodd gweinidog y plwyf hwnw iddo wneuthur y cynygiad. Dywedodd y gweinidog wrtho "fod croesaw iddo gael cynyg, ond fod y trigolion mor anystyriol ac annuwiol, na welent ddim gwerth mewn dysgeidiaeth na dim oedd dda." Cyhoeddwyd yr ysgol; dywedwyd, hefyd, y dysgid y plant am ddim. Gallesid dysgwyl y buasai y trigolion difraw yn cipio y cyfleusdra, gyda phob parodrwydd a diolch; eto, pan agorwyd yr ysgol ni ddaeth iddi ond tri phlentyn. O ddiffyg croesawiad, gan hyny, bu raid ei rhoddi i fyny, a dychwelyd i Ruddlan.

Ar ei ddyfodiad yn ol i'r dref deallodd fod y drws yn raddol yn ymagor i gael ysgol ynddi. Teimlodd rhyw nifer o wŷr cyfrifol yn y plwyf yn achos ymddifadrwydd y werin o bob math o wybodaeth; a phenderfynasant na chai gwrthwynebiad y rhai rhagfarnllyd ddim lluddias iddynt fyny eu hamcan i ben. Cafwyd lle i gadw yr ysgol mewn adeilad a elwir "*Banquet house.*" Ar y pryd hwn yr oedd annuwioldeb ac anfoes y trigolion yn ddychrynllyd. Nid oedd ond ychydig o wŷr a gwragedd o fewn y dref nad odddynt yn arfer ffraeo a churo eu gilydd. Meddwdod ac ymladdau a ffynent ar bob

llaw. A phan welent yr ysgol-feistr newydd yn myned ar hyd yr heol, byddent yn ei regi â'i holl egni, o ddyben i'w ofidio. Nid oedd ganddo ynteu nemawr neb yn y fro a allai gydymdeimlo ag ef, na rhoddi dim swcwr iddo. Yr unig le ydoedd ganddo i dywallt ei gŵyn, oedd myned i'r hen Gastell, lle tywalltai ei galon ger bron Duw mewn gweddiau drosto ei hun, a thros ei gydwladwyr anfad a drygionus. Hyn a wnai bob canol dydd, wedi gollwng y plant allan o'r ysgol y bore.

Llwyddodd yr ysgol, pa fodd bynag, cafwyd lluaws o blant i ddyfod iddi; ac ennillwyd eu serchiadau hefyd. Canmolwyd yr athraw gan y plant wrth eu rhieni wedi myned adref; yn enwedig am y modd yr holwyddorid hwy ganddo. Agorodd ysgol y nos hefyd; a thrwy hon rhoddid cyfleusdra i eraill, heblaw plant, i fod yn bresenol, i wrando ar yr athraw yn holi y plant; a rhai, i dderbyn addysg iddynt eu hunain. Nid oes amheuaeth, na fu y moddion hyn yn offerynol, nid yn unig i ddarostwng llawer o ragfarn y bobl, yn erbyn y crefyddwyr, ond hefyd i ddwyn llawer i wir wybodaeth o'r gwirionedd. Cedwid yr ysgol ar ddwy noswaith yn yr wythnos, a deuai iddi *luaws mawr* o bobl ieuainc, heblaw plant; ac erbyn diwedd yr ysgol, pryd yr elid at y gwaith o holwyddori, byddai nifer mawr o hen bobl yn y lle; dygodd y moddion hyn lawer o bobl yn ystyriol o'u hachos ysbrydol gyda Duw; ac nid oes amheuaeth, nad trwy y moddion dirodres hyn, y rhoddwyd i Fethodistiaeth ymwreiddio yn Rhuddlan.

Pan ydoedd Robert Jones yn cadw ysgol yn y *Banquet house*, teimlai awyddfryd i dori allan ar y ddê neu ar yr aswy i bregethu; ond yr oedd cryn anhawsder i wneyd hyny, gan nad oedd un tŷ yn agored i'w dderbyn. Yn mhen rhyw gymaint o amser, ymddangosai cyfleusdra iddo fyned i ardal, a elwid Dyserth, tua dwy filldir o'r dref; trwy i hen ferch ag oedd yn byw yn y pentref erchi arno ddyfod i'w thŷ hi. Cydsyniodd ynteu â'r cais, mor ebrwydd ag y goddefai amgylchiadau, er nid mor ebrwydd ag y dymunasai yr hen ferch. Yn ol ei addewid fe aeth. Yr oedd yno luaws o'r cymydogion wedi dyfod ynghyd i wrando yr ysgol-feistr. Fe allai mai hwn oedd y tro cyntaf i bregeth fod mewn tŷ erioed yn mhentref Dyserth; a'r tro cyntaf erioed i'r pentrefwyr, lawer o honynt, fod yn gwrando pregeth gan neb ond person y plwyf, ac nid llawer ganddo ynteu; mwnwyr, gan mwyaf, oedd y bobl. Hynod y siarad oedd yn y tŷ; pob un a'i chwedl ganddo; a gellesid meddwl mai cyfarfod ydoedd i'r pentrefwyr siarad, yn hytrach nag i'r ysgol-feistr bregethu. Pan ddaeth yr awr, cododd Robert Jones ar ei draed a'r Beibl yn ei law, a dywedodd, "Gwrandewch i gyd, yr wyf yn awr yn myned i ddarllen i chwi ran o air Duw."

"Beth y mae yn ei ddyweyd?". ymofynai un.

"Dyweyd y mae," atebai y llall, "ei fod yn myned i ddarllen i ni ran o air Duw."

"Ho!" ebe y llall, gan ddysgwyl difyrwch mawr dros ben.

Buan, bellach, fe gaed gosteg; a'r pregethwr a âi ymlaen. Cyn pen hir yr

oedd yr ystafell yn llawn, a mwy na chysurus o lawn. Edrychai pob un o'i amgylch am le i eistedd; ac eisteddodd ryw un neu ddau ar y *drestl*, (*dresser*); ac un o honynt, yn anffodus, a gyffyrddodd â'i benelin â'r llestri priddion oedd tu cefn iddo, a pharodd gryn dwrw; ïe, drylliodd rai. Ar hyn, gwylltiodd yr hen ferch; a chipiodd gogail y droell bach, ag oedd gerllaw, gan ddechreu eu curo yn ddiarbed ag ef, a llefain, "Dyfod i fy nhŷ i, i dori fy llestri, ïe?—mi dalaf i chwi, mi wnaf hefyd." Mawr, bellach, oedd y cyffro a'r crechwen—ac allan â'r bobl; a chan ddynwared yr hen ferch, curent eu gilydd y tu allan, gan adrodd ei geiriau. Allan hefyd yr aeth y pregethwr, gan nad oedd un sicrwydd na ddaethai ynteu i mewn am ran o'r dial. A chafodd ddyrnod bychan gan ryw un hefyd wrth fyned allan, yn fwy o ddireidi nag o ddifrif. Ar hyn gwaeddai amaethwr o'r gymydogaeth allan, "Chwareu teg i'r *schoolmaster*, pa le y mae ef? Caiff ddyfod i fy melin i, i roddi gair o gynghor;—dowch bobl." I'r felin yr aed; un ganwyll ddimai oedd yn y lle; a phan oedd Robert Jones yn myned i ddarllen y testyn, diffoddodd y ganwyll, ni ddywedir pa un ai o fwriad ai o ddamwain; a dyma bawb yn y tywyllwch. Dyrysodd yr oedfa hon yn llwyr, aeth y dyhiriaid adref, wedi cael llawn cymaint ac a ddysgwyliasant; sef, cryn swm o ddifyrwch, yn gyntaf oddiwrth yr hen ferch gyffrous, a thrachefn oddiwrth yr hen felin dywyll.

Nid oes genym un hanes yn olrhain gwahanol gyfnodau Methodistiaeth yn Rhuddlan o'r pryd hwnw hyd yn awr. Gallwn dybied y bu arosiad Robert Jones, dros y tymhor byr y bu ef yno yn cadw ysgol, yn effeithiol i gynull rhyw nifer o bobl druain dlodion at eu gilydd, i alw ar enw yr Arglwydd. Pa fodd y bu ar yr ychydig bobl hyny wedi ei ymadawiad nis gwyddom, o leiaf gyda dim manyldra. Yn fuan ar ol y fl. 1780, fe allai ddeng mlynedd ar ol i Robert Jones ymadael, daeth yma bregethwr i fyw, sef, John Richards, yr hwn ydoedd olygwr ar ysgolion Madam Bevan, yn Ngwynedd. Yr oedd yma eglwys, y pryd hwnw, yn ymgynull mewn hen adeilad wedi ei lled gyfaddasu at addoliad; yn yr hen adeilad yr arferai y bobl ymgynull hyd o fewn llai na 30 mlynedd yn ol. Nid oes genym hanes am unrhyw ddefnyddioldeb neillduol oddiar breswyliad John Richards yn y lle. Arferai fod gryn lawer oddi cartref; nid oedd chwaith yn bregethwr poblogaidd. Dysgynodd ei amgylchiadau bydol i radd o ddyryswch; a chyhuddid ef hefyd o fod yn rhy antinomaidd ei farn a'i fuchedd. Bu farw mewn gwth o oedran yn y fl. 1809.

Ychydig flynyddau, cyn ei farwolaeth ef, y bu y Parch. John Elias yn pregethu ar yr heol; gyda golwg arbenig ar ddarostwng yr hen arferiad annuwiol oedd yno, o ymgynull ar y Sabbothau, yn amser cynhauaf, i gyflogi gweithwyr i'r cynhauaf; ac i gael eu cyflogi; yr oedd y cyfarfod hwn yn fath o ffair. Ymgynullai tyrfaoedd o ddynion o wahanol barthau y wlad; rhai i ymofyn gwaith, ac eraill i ymroddi i feddwdod a phob arfreolaeth. Deuai ffermwyr yr ardaloedd cylchynol yno hefyd i gyflogi gweithwyr am yr

wythnos ganlynol. Yr oedd yno hefyd brynu a gwerthu pladuriau, crymanau, a chelfi amaethyddol; a'r Sabboth a wneid yn ddydd marchnad; y tafarndai hefyd yn llawn meddwdod ac afreolaeth. Cafodd Mr. Elias ar ei feddwl i gyfarfod â'r dorf hon, i ddynoethi ysgelerder eu hymddygiad; ac i alw arnynt i roddi heibio yn llwyr ac am byth yr arferiad didduw.

Safodd ar risiau y gwestŷ, dan yr enw *New Inn*, ac o'i flaen yr oedd cannoedd o ddynion, llawer o honynt a'u crymanau, a'u pladuriau ar eu hysgwyddau, a'r olwg arnynt i feddwl ystyriol yn arswydus. Nid oedd Elias, ar y pryd, ond dyn ieuanc, tuag 28ain ml. oed, ac heb fod yn pregethu fwy nag wyth mlynedd. Gofynai wroldeb mawr ynddo, i sefyll yn y fath le ar y fath achlysur. Pa fodd bynag, ymddangosai yn bur fuan fod Duw gyda'r llanc. Ar waith y gynulleidfa yn canu, disgynodd gradd o ddifrifwch ar bawb; diflanodd y crymanau a'r pladuriau o'r golwg; ac ymroes pawb i wrando yr holl bregeth. Cerddodd effeithiau anarferol gyda'r bregeth hono; disgynodd arswyd ar bawb ymron fel na allent ffrwytho i fyned at y gorchwyl y daethent yno o'i herwydd: chwalodd y bobl fel rhai wedi synu; a llawer o honynt â saethau Duw yn eu cydwybodau. Clybu y boneddwyr y wlad am y bregeth, ac yn mysg eraill Esgob a Dëon Llanelwy; a gyrasant air at drigolion Rhuddlan a'r cymydogaethau, na oddefid iddynt fod yn euog byth mwy o'r fath ysgelerder. Felly, rhoddwyd pen ar unwaith, ac hyd heddyw, ar arferiad a fu yn ymwreiddio yn y parth hwn er ys oesoedd.

Pan oedd y Parch. Robert Roberts, Llanelwy (Rhosllanerchrugog ar ol hyny), yn dychwelyd adref o'r oedfa uchod, goddiweddodd ddyn, yn dychwelyd o'r bregeth fel ynteu. Deallodd wrth y dyn yn fuan fod y bregeth wedi cael llwyr oruchafiaeth arno. Dywedai ei fod, ar ei waith yn troi tua'i gartref, wedi meddwl fod ei fraich y cariai y cryman arni, wedi gwywo; ac felly syrthiodd o'i law ar y ffordd. Ofnai ei godi i fyny rhag y diffrwythai y fraich arall hefyd. Collodd y dyn ei gryman, ond fe gafodd ei ddwy fraich; do, cafodd fwy; dychwelwyd ef mewn edifeirwch at Dduw, a threuliodd weddill ei oes yn gristion gloyw, a gorphenodd ei yrfa mewn llawenydd.

Yn Rhuddlan hefyd y treuliodd y Parch. William Jones, lawer o'i oes weinidogaethol. Nid oes petrusder dyweyd am y brawd hwn, mai cristion cywir a didwyll ydoedd, a phregethwr tra phoblogaidd ac effro. Cyfarfu a llawer o brofedigaethau yn ei yrfa, ond nid oes amheuaeth na fu yn ddefnyddiol yn ei ddydd i droi llawer at gyfiawnder. Ordeiniwyd ef yn fl. 1831, a bu farw yn y fl. 1844, wedi bod yn pregethu fwy na 30 o flynyddau. Y mae yma un gweinidog eto yn trigianu, y Parch. William Morris. Drwg genym ddeall fod golwg fwy gwywedig ar y gwaith nag a fu gynt; a thra dymunol a fyddai "ymweliad drachefn," o eiddo Ysbryd Duw, nes y byddai swn a chynhwrf yn mhlith yr ysgyrn sychion; ac i'r anadl ddyfod nes eu bywhau, a'u codi ar eu traed yn llu mawr iawn.

RHYL.

Mae y lle hwn, bellach, yn dref luosog ei thrigolion, ar fin y môr, yn mhlwyf Rhuddlan. Tref ydyw wedi codi yn ddiweddar o fod yn bentref disylw, i fod yn dref fawr a hardd. Nid yw Methodistiaeth chwaith yn y lle hwn ond sefydliad diweddar mewn cydmhariaeth. Nid oedd gan y cyfundeb un ganghen eglwys yn y lle o fewn 40 mlynedd yn ol; ac wedi dechreu pregethu yn yr ardal ac ennill ychydig o ddysgyblion, yn Rhuddlan yr ymgynullent mewn cyfarfodydd eglwysig. Dygwyd Methodistiaeth yma fel y gwnaed mewn llawer iawn o fanau eraill, nid trwy rym peirian-drefn ddynol, ond yn fwy o lawer trwy ragluniaeth ddwyfol. Ymddengys ddarfod i ŵr o'r enw Robert Owen gael ei dreiglo i'r ardal i fyw. Yr oedd y gŵr hwn eisoes yn grefyddwr, ac yn gydnabyddus â John Davies, Nantglyn. Daeth i breswylio i dyddyn a elwir Pen-y-ddeuglawdd, yn Rhyl. Teimlodd y gŵr hwn ei ymddifadiad o foddion gras yn ei sefyllfa newydd, gan nad oedd dim iddo gael yn nes na Rhuddlan; a theimlai hefyd dros gyflwr tywyll a diofal ei gymydogion. Cafodd ar ei feddwl erchi ar John Davies, Nantglyn, i ddyfod i'w dŷ i bregethu. Yr oedd hyn yn fuan wedi i John Davies ddechreu pregethu; barnwn mai rhwng y blynyddau 1783 a 1785 ydoedd. Hon, tybygid, oedd yr oedfa gyntaf erioed yn nghymydogaeth Rhyl. Ond nid oedd yr oedfa hon ond un; ac nid oedd eto un cynllun wedi ei ffurfio i ddwyn pregethu cyson i'r lle, ac ni wnaed hyny am lawer o flynyddau ar ol hyn; ar yr un pryd, yr oedd Robert Owen yn ymdrechgar i gael hwn ac arall i'w dŷ i dystiolaethu efengyl gras Duw, i'w gymydogion diofal.

Yr oedd rhai pregethwyr i'w cael eisoes yn Nghaerwys a'i hamgylchoedd, megys James Buckley, Humphrey Owens, a William Davies, ac eraill diweddarach na hwy, megys John Humphreys a William Edwards. Llwyddai Robert Owen gyda'r naill a'r llall o'r gwŷr uchod i ddyfod i'w dŷ yn awr ac eilwaith; ac yn y cyfamser yr oedd ambell un yn cael blas ar eiriau y bywyd, ac yn ymwasgu â'r crefyddwyr; yma, meddir, y dechreuodd John Humphreys bregethu. Daethai gyda James Buckley yma ar fore Sabboth, a phregethodd yn gyntaf oddiar Esaiah lv. 6, "Ceisiwch yr Arglwydd tra gellir ei gael ef, &c." Y rhai a ennillwyd gyntaf trwy y weinidogaeth i ymrestru dan faner yr Iesu, oeddynt Edward Jones, Terfyn; a John Roberts, *Storehouse*. Y ddau hyn ynghyda Robert Owen a'i wraig, a arferent fyned i Ruddlan bob nos Iau i'r cyfarfod eglwysig, a pharhausant oll yn ffyddlon hyd angeu.

Symudodd Robert Owen o Ben-y-ddeuglawdd, a symudwyd yr achos crefyddol yn y canlyniad i dŷ Edward Jones, y lle yr arosodd dros rai blynyddau. Yma y sefydlwyd ysgol Sabbothol, yr hon a fu yn fendith aumhrisiadwy i'r ardal, trwy fod yn foddion i wasgar anwybodaeth caddugol y trigolion, a darostwng eu harferion llygredig. Nid oedd yr achos, er hyn, ond bychan a distadl mewn cydmhariaeth; ïe, nid oedd y fam eglwys yn Rhuddlan ond eiddil a disylw. Yr oedd y tŷ y byddid yn ymgynull ynddo yn fychan a

gwael (sef yn Rhuddlan); gwïail a chlai oedd ei furiau, a gwellt oedd ei dô a'i simddeu; yr oedd ei barwydydd ar ogwydd trwm. Ni fu dim erlid ar y crefyddwyr yn Rhyl fel y buasai yn Rhuddlan; yr oedd eu hegwyddorion, bellach, wedi dod yn fwy adnabyddus; ac nid mor hawdd oedd casglu nifer o ddynion digon caled i ymosod arnynt. Daeth y bobl yn fuan i weled fod y crefyddwyr tlodion hyn yn gwneuthur mwy tuag at chwalu anwybodaeth a gwella moesau y bobl, na'r clerigwyr a ddywedent gymaint yn eu herbyn; a hyny heb na thâl na gwobrwy. Felly diflanai gorthrwm a thrais fel yr oedd anwybodaeth yn colli ei rym.

Teg ydyw crybwyll hefyd ddarfod i Robert Owen, ac amaethwr arall o'r enw John Parry, Rhyd-y-ddor-ddwy-fawr, wneuthur cais ar ddiddymu y ffair a gynelid yn Rhuddlan ar y Sabboth. Barnent yn ddilys ond i'r arferiad gael ei osod yn deg yn ei wrthuni a'i afreolaeth priodol o flaen y gwŷr urddasol perthynol i'r Eglwys Gadeiriol yn Llanelwy, y cawsai moddion effeithiol eu defnyddio i ddwyn amcan mor deilwng i ben. Dan ddylanwad y syniad hwn aethant i Lanelwy, a gosodasant yr achos i lawr; ond yn lle canmawl amcan y ddau ŵr, a chymeryd yr achos mewn llaw; edrychodd y gwŷr urddasol yn lled wawdus arnynt, gan ddyweyd mai anmhosibl oedd tynu i lawr gyflogi ar y Sabboth yn Rhuddlan, gan ei fod yn *hen ddefod.* I hyn atebodd John Parry, "Foneddigion, barnu yr wyf fod y deg gorchymyn yn llawer henach." Ar hyn gostyngasant eu penau, gan gîl-dremio y naill ar y llall; ond nid oedd yno nac ysbryd na medr i ddarostwng y llygredigaeth yr achwynid arno. Dychwelodd y ddau ŵr diniwaid i'w cartrefi yn dra siomedig, a'u syniadau yn llawer îs am glerigwyr yr eglwys fawr nag oeddynt wrth fyned. Tynwyd y ffair i lawr, do; ond heb ddiolch i'r gwŷr hyn. Gwnaeth un bregeth o'r eiddo bachgen o wŷdd, fwy o effaith ar lygredigaeth cyhoeddus y fro, mewn un awr, nag a wnaethai gwŷr y dillad gwych, y dysgeidiaeth uchel, a'r cyflogau mawr, am ddau cant o flynyddau!

Symudodd Robert Owen i Cwybyr i fyw hyd nes y symudwyd ef o'r byd, yr hyn iddo ef oedd yn wir elw. Bu farw yn ffuddugoliaethus, a chasglwyd ef at ei dadau.

ABERGELE A'I HAMGYLCHOEDD.

Tref yw Abergele yn agos i làn y môr, ar dueddau gogleddol sir Ddinbych, lle y bydd llawer o ddyeithriaid yn arfer dyfod yn yr haf i ymdrochi. Yn ddiweddar, pa fodd bynag, y mae Rhyl, sydd bedair milldir i'r dwyrain oddiwrthi, a Llandudno sydd ddeuddeg milldir i'r gorllewin, wedi cael y flaenoriaeth ar y dref hon fel lleoedd uwch eu henwau, ac amlach eu hymwelwyr yn y blynyddau diweddaf hyn. Ni chyfrifir Abergele yn hen orsaf Fethodistaidd. Gellir meddwl nad oedd yma nemawr o ôl Methodistiaeth ar ddechreuad y ganrif bresenol. Gwir y byddai Edward Parry yn arfer pregethu, yn achlysurol, mewn amaethdŷ a elwir y Nant, nid yn mhell o'r

dref, a dywedir y byddai William Jones, y Nant, yn arfer a myned i Fryn-bugad i wrando; ond yr oedd Abergele ei hun yn lle hynod o ddigrefydd yn yr adeg hono. Yr oedd pregethu achlysurol hefyd yn y Bettws, pentref o fewn tua phedair milldir o'r dref tua'r dehau; er nad ydym yn deall fod yno chwaith ddim achos sefydlog y pryd hwnw, nac yn wir dros lawer blwyddyn ar ol hyny, ac nid achos cryf sydd yno hyd heddyw.

Mewn tŷ, meddir, a elwir y Bryn-gwyn; sydd tua hanner y ffordd o'r Bettws i'r dref y dechreuwyd pregethu: gŵr o'r enw Thomas Roberts oedd yno yn byw. Yr oedd y gŵr yma yn grefyddol, ac ynteu yn arfer myned i Dan-y-fron, neu Fryn-bugad i wrando; ac, weithiau, pan âi efe yno y bore naw o'r gloch, âi rhagddo i'r Bont-uchel erbyn dau o'r gloch prydnawn, ac i Gapel-y-dyffryn yr hwyr, a chartref wedi hyny; ac ar y maes mor foreol a neb bore dydd Llun. Rhaid fod y daith iddo ar y Sabboth, yn mhell dros 30 milldir o ffordd. Yn nhŷ y gŵr hwn y cedwid y cyfarfodydd eglwysig pan y daeth Thomas Edwards, Liverpool, at y Methodistiaid.*

Arferai gŵr ieuanc o'r enw Edward Evans, yr hwn a drigai y pryd hwnw yn y Bettws, ddyfod i'r Bryngwyn i wrando; yma hefyd yr ymunodd gyda'r crefyddwyr. Yr oedd i'r llanc hwn gyfaill, Copner Williams wrth ei enw, yn cael ei barotoi i fod yn gyfreithiwr, yr hwn hefyd a fu yn ymarfer y gyfraith dros flynyddau ar ol hyn, yn Ninbych; ïe, yn wir hyd ddiwedd ei oes. Un tro aeth hwn ac Edward Evans, pan oeddynt eto yn ieuainc, ac yn llawn o sêl crefyddol i gymdeithasfa y Bala, i ymofyn addewidion pregethwyr i ddyfod i'w hardal i bregethu. Llwyddasant, tybygid, hefyd i gael addewidion gan amryw i ddyfod, pob un yn ei dro; ac yn eu mysg yr oedd Mr. Davies, Castell-nedd. Pan ddaeth yr amser, gwiriwyd yr addewid, a'r gŵr dyeithr a ddaeth. Trefnwyd iddo sefyll i lefaru wrth ochr rhyw dâs uchel o frigau coed. Perchenogid y dâs gan gwpwl o hen bobl ag oedd yn byw gerllaw; y rhai, fel y gellir dyfalu, oeddynt heb lawer o serch at y crefyddwyr, ac a dybient, o bosibl, mai gormod o hyfder a gymerwyd i ddyfod mor agos at y dâs a berthynai iddynt hwy. Dechreuodd yr oedfa, pa fodd bynag, ac nid oedd neb yn dysgwyl amgen na cheid llonyddwch. Ond tra yr oedd Mr. Davies yn llefaru, daeth yr hen ŵr a'r hen wraig, a feddiannent y coed, i'r lle, i ddial eu llid ar y crefyddwyr; a'r ffordd a gymerwyd i wneyd hyny, oedd ceisio gwthio â phig-fforchau y dâs brigau o'r tu cefn, fel ag i'w dymchwel ar wàr y pregethwr. Clybu y pregethwr y brigau yn rhigl-drystio, a deallodd beth oedd yn cael ei amcanu. Dyrysodd hyn ei feddwl, a llwfrhaodd ei ysbryd, fel ag i fethu llefaru dim yn rhagor. Yr oedd Mr. Davies, yn ol ei gyhoeddiad, i fyned o'r Bettws, i'r Cefn-coch, Llangerniew; neu i Dan-y-fron; ac wrth ddringo i fyny y rhiw o'r pentref, dan deimladau lled siomedig, am ei lesteirio i bregethu, wedi dyfod gan belled ffordd, trodd ei olwg yn ol arno, a thynodd ei esgid, a chyhoeddodd ryw fath o felldith, nid yw yn hysbys

* Gwel ychwaneg o'i hanes, dan hanes Liverpool.

pa fath, uwch ben y lle; ac ymaith ag ef, heb fwriadu dyfod yno byth mwy ac ni ddaeth byth ychwaith. Pa olwg bynag a gymerir ar ymddygiad y gŵr da yn hyn, neu esboniad bynag a roddir arno, eglur ydyw ddarfod i'r hen ŵr a'r hen wraig ennill y dydd, a chael eu hamcan yn y tro; ac i'r rhai a ewyllysient yn dda i'r Bettws trwy ddwyn yr efengyl iddi, gael eu siomi. Bu y Bettws yn hir heb ddim moddion crefyddol yn cael eu cynyg iddi ar ol hyny; ac hyd heddyw, er fod yno gapel a chynulleidfa, nid yw yr achos crefyddol, ond isel a digynydd, yn mysg y Methodistiaid; ac nid amgen, yn ol a ddeallwn, yn mhlith enwadau eraill; ïe, myn rhai, mai arwydd ydyw y wedd lwydaidd hon, o anfoddlonrwydd Duw, am wrthod yr efengyl yn y tro uchod; ac mai dan gynhyrfiad daroganol am y diffrwythder a ddilynai, y llefarai y gŵr parchedig pan y cyhoeddodd felldith ar y Bettws, tebyg i'r un a feddiannai Noah, pan y melldithiai Canaan, trwy ragfynegi ei ddarostyngiad isel a gwasaidd. Eto, sicr ydyw na erys y felldith hono, ar y Bettws, nac ar un fro arall, ddim hwy nag y parhao y preswylwyr yn ddifater a diystyr o'r efengyl, a thrwy hyny gyfiawnhau y gwrthodiad a wnaethai eu tadau o honi. Teg ydyw ychwanegu, mai nid mewn nwyd a chynddaredd y tynodd Mr. Davies ei esgidiau, yr ysgydwodd y llwch, ac y cyhoeddodd y ddedfryd grybwylledig, ond â dagrau yn gwlychu ei ruddiau, ac â thosturi yn llenwi ei galon. "Yn yr olwg nychlyd sydd yn parhau ar grefydd, yn y Bettws, Llysfaen, a Llanelian, fe ofyn yr hen bobl hyd heddyw," medd fy hysbysydd, "ai tybed fod melldith Mr. Davies, Castell-nedd, ar y Bettws, fel y mae melldith Walter Cradoc yn aros ar Wrecsam?" "Canys," meddai yr un gŵr, "ardal ëang a ffrwythlawn yw y Bettws, a godrau Llysfaen, a Llanelian; ond ni fu byth lewyrch ar achos crefydd yn yr holl fro. Mae trigolion y dyffryn hwnw hyd heddyw, mor farw i bethau bywyd tragwyddol; eu hymlyniad wrth ordinhadau yr efengyl, mor ddiymadferth; a'u hymgais am iachawdwriaeth eu heneidiau mor esgeulus, a phe mai unig neges eu bywyd fyddai trin y byd a'i gasglu."

Ni fynem, ar un cyfrif, ddisgyn i gaethiwed ofergoeledd a phenchwibandod mewn pethau o'r fath hyn; ond y mae cynifer o ffeithiau yn ymwthio mor fynych i sylw yn hanes y cyfundeb, mewn gwahanol fanau, y rhai sydd wedi eu gwirio mor drwyadl, fel na feiddiwn eu gwadu ar un llaw, er na allwn eu hesbonio ar y llaw arall. Ofnwn syrthio i ddidduwiaeth fferllyd, wrth ochel ofergoeledd penchwiban. Mynem ochel Scylla ar un llaw, wrth ddianc rhag Charybdis ar y llaw arall. Barnwn mai rhwng y ddwy graig beryglus, y mae y dramwyfa ddyogel. Gwyddom yn sicr mai eiddigus iawn yw yr Arglwydd dros ei achos ei hun. Ni fyn i'r un Uzza gyffwrdd yn afreolaidd â'i arch; ei fod wedi bendithio llawer Obed-edom er ei mwyn; mai nid anfoddhaol oedd ganddo i Dafydd ddawnsio o'i blaen, o barch iddi; mai teilwng yn ei olwg, fu cosbi Michal ei wraig, hyd ddydd ei marwolaeth, am ei wawdio; ïe, gwyddom ddarfod i wŷr Asdod, a Gath, ac Ecron, ddyoddef yn alaethus am ei chadw o'i chartref; ddarfod gwarthruddo Dagon, duw y

Philistiaid yn ei gŵydd; ddarfod i laddfa fawr ddisgyn ar wŷr Bethsemes am iddynt lygadrythu iddi; a gwyddom i'r buchod blithion, yn groes i naturiaeth, anghofio eu lloi, a'i dwyn yn ddyogel i'w gwlad ei hun. Nid ofergoeledd ydyw credu yr holl bethau hyn, er eu bod oll yn croesi anian; pethau rhyfedd Duw oeddynt o blaid ei achos ei hun, yn yr hwn yr oedd ei enw a'i ogoniant yn blethedig. Barnwn hefyd fod yr Arglwydd yn cyfryngu mewn modd anghyffredin fel hyn, yn benaf, os nad yn hollol, ar amserau, ac mewn manau, na chawsai *egwyddorion gwirionedd* ddim cyfle cto i gyrhaedd cydwybodau dynion; mewn adeg ag y mae yn angenrheidiol deffro sylw dynion at eiriau dadguddiad, a chadarnhau egwyddorion gwirionedd trwy weithredoedd hynod. Nid buddiol a fyddai i'r fath gyfryngiad, mwy na gwyrthiau, fod yn barhaus, nac yn fynych iawn, onidê, methai yn ei amcan; ni fyddai yn effeithiol i ddeffro ystyriaeth y pwyllog, nac i beri braw ac arswyd ar y caled a'r rhyfygus. Felly, nid ydym yn cael fod rhagluniaeth yn cyfryngu mewn modd hynod ac anghyffredin, mwy nag y rhoddid gwyrthiau, ond ar dymhorau; ar ddechreuad goruchwyliaeth; i roddi grymusder mewn rhyw ddadguddiad, neu i gadarnhau rhyw gyfnewidiad arbenig. Ac wedi ateb y dyben penodol, eu bod yn darfod, neu yn diflanu; a hyny, nid am eu bod yn anmhosibl, neu yn anhygoel, ond am eu bod, bellach, yn afreidiol.

Yn unol â'r syniadau hyn, y cawn yn hanes y Methodistiaid, yn eu cychwyniad mewn ardal, fod rhyw gyfryngiad neillduol o eiddo rhagluniaeth yn cael ei wneuthur, mewn ffordd o hynodi rhyw ymddygiad, caredig neu angharedig, tuag at achos yr efengyl. Coronid haelioni ambell un â gwên neillduol rhagluniaeth yn ol llaw; cosbid dygasedd un arall â rhyw oruchwyliaeth arswydlawn a disymwth; a rhoddid arwydd o foddlonrwydd i lafur y trydydd, trwy ryw amddiffyniad neillduol arno mewn perygl, neu arddeliad arbenig o hono, ar ryw adeg angenrheidiol. Pan godwyd capel y Bont-uchel, dangosodd yr ychydig bobl yno garedigrwydd a haelioni tra chanmoladwy tuag at y gwaith; a rhoes un uchelwr yr holl goed angenrheidiol i'w ddwyn i ben, a'r cwbl yn dderw; mae y coed hyn, meddir, yn eu gwaith yn bresenol yn y capel newydd, ac yn ddigon tebyg o or-oesi y coed ffawŷdd er eu newydded. Heblaw codi y capel a'r tŷ perthynol iddo, prynodd y cyfeillion crefyddol yno faes ëang at wair a phorfa i geffylau y dyeithriaid a ddeuai atynt o bryd i bryd i wasanaethu yr achos; a chostiodd iddynt £60. Llygadodd gŵr boneddig yn yr ardal y darn tir hwn, yn mhen rhyw gymaint o amser ar ol ei brynu; goruchwyliwr ydoedd i bendefig yn y gymydogaeth. Ar waith y goruchwyliwr yn ymofyn ag un o'r brodyr a werthid maes y capel iddo, ac yn ei gymhell i gydsynio â'i gais, methodd y brawd hwnw, meddir, a sefyll ei dir yn gryf a diysgog yn wyneb cais y boneddwr, ond gwerthodd y tir iddo heb yn wybod i'r brodyr eraill. Parodd hyn ofid trwm iddynt, ond o dynerwch at y gwerthwr, a rhag iddo golli ei dyddyn, gadawsant i'r gwerthiad sefyll; ond fe sylwyd gan eraill, fod arwyddion amlwg o ŵg yr Arglwydd

ar y gwerthwr, ac hefyd ar ei deulu, o herwydd y tro; a dywedir, eu bod yn aros hyd heddyw.

Pan yr oedd cyrchu mawr i Drefecca, mewn canlyniad i waith H. Harris yn ymsefydlu yno, yn enwedigol o sir Gaernarfon, dygwyddodd tro tra hynod i un dyn o'r wlad hono; yr hwn, yn llawn sêl a diniweidrwydd crefyddol, a aeth ar ei draed yno, er mwynhau rhagorfreintiau crefyddol y sefydliad hwnw. Yr oedd y gŵr hwn, gyda phob peth arall, *yn drwm ei glyw*. Ar ei daith yno, galwodd mewn rhyw dafarn i gael lluniaeth, ac i orphwys, dros ryw gymaint o amser. Buan y deallwyd fod yr ymdeithydd yn un o'r penaucryniaid; ac yn wir, nid anhawdd oedd cael hyny allan, gan nad oedd y gŵr yn ceisio celu y peth. Parodd y darganfyddiad, pa fodd bynag, fod llygaid drwg arno, a chodod y bwriad, yn mynwes rhyw ddyhiryn, i wylio am gyfleusdra i wneyd niweid iddo. Ar waith y gwestŷ-ŵr yn gosod y lluniaeth o'i flaen, codod y crefyddwr ar ei draed i erchi bendith arno, yn ol ei arfer; ond tra yr oedd ei lygaid yn nghauad, a'r weddi ar ei dafod, wele ddyrnod aruthrol iddo ar ochr ei ben, nes oedd y truan wedi hurtio. Ond trwy y dyrnod fe gafodd ei glyw! Y dyrnod a fwriadwyd er drwg a droes allan yn wir ddaioni; nid y tro cyntaf i gynddaredd dyn gael ei wneuthur yn foliant i Dduw. Aeth y crefyddwr rhagddo i Drefecca, a dychwelodd adref drachefn. Ei gymydogion a ddechreuent ymddyddan âg ef, fel arferol, mewn llais uchel iawn, gan gofio ei fyddardod; a syn iawn oedd ganddynt ei glywed yn dyweyd wrthynt nad oedd raid iddynt, bellach, godi eu llef wrth siarad ag ef, gan ei fod wedi cael adferiad clyw; a mwy fyth oedd eu syndod, pan adroddodd efe iddynt y modd y bu. Mae yr amgylchiadau crybwylledig hyn yn tueddu i beri i ni feddwl fod yr Arglwydd yn gweithredu allan o'i lwybr cyffredin, pan y bydd ei bobl a'i achos mewn amgylchiadau anghyffredin; ac yn neillduol felly, pan y bydd ar fedr galw sylw arbenig at ei waith, ar ei ymddangosiad cyntaf mewn gwlad. Barned y darllenydd, pa mor gymhwys ydyw y sylwadau hyn, a pha sail sydd iddynt yn y ffeithiau a grybwyllir mor aml yn y gwaith hwn.

Ond i ddychwelyd at ein hanes. Y gŵr mwyaf cyhoeddus cysylltiedig â Methodistiaeth yn Abergele, hyd yn ddiweddar, oedd y Parch. Thomas Lloyd; ac nid mor gyhoeddus chwaith ydoedd yntau. Ni theithiodd ond ychydig ar hyd ac ar led y dywysogaeth erioed; a thros lawer o flynyddau diweddaf ei oes, ni theithiodd ddim o'i gartref. Eto, yr oedd yn ŵr lled cyhoeddus. Nid ei deithiau, ac nid ei dalentau, a'i gwnaeth ef felly; ond ei lafur dyfal, maith, a llwyddiannus, yn addysgiad ieuenctyd. Bu gyda'r gorchwyl pwysig hwn, yn Abergele, am hanner can' mlynedd ymron; a thrwy ei lafur dyfal a diflin, y dygwyd cannoedd lawer o fechgyn Gwynedd i fyny. Yn Abergele, nid oedd neb yn fwy cyson ac astud, gyda holl gylch cyhoeddus crefydd, nag oedd Mr. Llwyd. Mae yn debyg na welodd Abergele, erioed neb o'i mewn, yn llai ei frychau nag ef; na neb a fu o fwy wasanaeth i'r achos crefyddol.

Ganesid ef yn mhlwyf Cyffylliog, tua phum' milldir o Ruthyn, a thua dwy filldir o'r Bont-uchel, yn y fl. 1776. Nid yw yn ymddangos iddo gael dim manteision crefyddol yn nhymhor mebyd ac ieuenctyd, o leiaf, gan ei rieni; eto nid oedd yn gwbl ddyeithr i foddion gras, gan y deallwn y byddai yn achlysurol yn gwrando pregethau yn mysg y Methodistiaid. Ond fe wnai hyny yn groes i ewyllys ei dad; ac am wneuthur hyny, dyoddefodd lawer o ffonodiau, a bu gorfod arno fod lawer noswaith allan drwy y nos. Rhoddwyd iddo raddau helaeth o ddysgeidiaeth; mwy o lawer, tybygid, nag a roddid i fechgyn cyffredin o'r un gradd ag ef; yn y dyddiau hyny. Yr oedd ei rieni yn ei fwriadu i fod, naill ai yn gyfreithiwr neu yn glerigwr. Bu mewn amryw ysgolion; un yn Llanrhaiadr, un arall yn Ninbych; ac yn ddiweddaf, yn yr ysgol fawr, yn Rhuthyn. Nid oes lle i ni feddwl fod un duedd yn y modd y dygwyd ef i fyny i'w arwain at y crefyddwyr Methodistaidd, ond yn hollol yn y gwrthwyneb; a pha beth bynag a fu yn effeithiol i'w ddwyn ef i'w plith, amlwg ydyw mai nid dygiad i fyny a wnaeth hyny.

Pan oedd yn 18 mlwydd oed, sef yn y fl. 1794, wedi darfod ei ysgol, gogwyddodd ei feddwl, pa fodd, nid yw yn hysbys, i fod yn athraw ysgol, yn hytrach na dim arall; a symudodd, gyda'r bwriad hwnw, i Lansantsiôr; pentref bychan o fewn dwy filldir i Abergele. Bu yma tua phum' mlynedd, a symudodd oddiyma yn y fl. 1799, i'r lle a fu yn drigfa iddo hyd ei farwolaeth. Pan yn Llansantsiôr bu yn lletya, dros ryw ysbaid, gydag un Robert Parry; yr hwn oedd yn ŵr crefyddol a da; ac nid oes amheuaeth na fu ymddyddanion hwn, a'i ymddygiadau, yn foddion arbenig i ddwyseiddio yr argraffiadau crefyddol a allai fod ar feddwl y gŵr ieuanc. Yn mhen tua dwy flynedd ar ol dechreu ei ysgol yn Llansantsiôr, daeth ar feddwl yr ysgolfeistr ymuno â'r Methodistiaid. Yn y Bryngwyn, fel y dywedsom, yr oedd y cyfarfod eglwysig yn cael ei gynal, er fod, y pryd hwn, gapel bychan yn Abergele. Ymddengys mai yn y tŷ bychan crybwylledig yr ymgynullai crefyddwyr yr holl ardaloedd cylchynol y pryd hwnw. Yr oedd pregethu yn Mhenbryn-llwyni, ac yn Cefn-meiriadog; ac yr oedd ambell grefyddwr i'w gael yn ardaloedd y Bettws, Llanelian, a Llysfaen; ac i'r Bryngwyn, fel lle cyfleus yn y canol, y deuent ynghyd. Yma y derbyniwyd Thomas Edwards, yr hwn oedd yn byw ar y pryd yn Llysfaen, ac a fu yn byw ar ol hyny yn Liverpool; gŵr a fu o wasanaeth mawr dros Dduw yn y dref fawr hono, dros lawer o flynyddoedd.* Yn y Bryngwyn hefyd y derbyniwyd gŵr arall a fu yn barchus a defnyddiol fel henadur eglwysig yn Liverpool, sef Mr. John Hughes, Mansfield-street. Derbyniwyd hwn, os nad yr un noson, yn agos iawn yr un amser a Mr. Llwyd. Dyma'r lle y dechreuodd Mr. Llwyd ei yrfa o broffes grefyddol. Yr oedd gwedd a diwyg lled foneddigaidd arno, yr hyn a barhaodd i raddau helaeth arno dros ei oes; gwisgai ei wallt yn llaes, wedi ei blethu a'i rwymo fel cynffon o'r tu ol yn disgyn i lawr ei wàr. Yr oedd Mr. Llwyd yn ŵr ieuanc gwylaidd, a

* Gwel air yn nhellach am dano, dan hanes Liverpool.

dystaw, ac ar hyn o bryd, yn ofnus a chrynedig. A phan y daeth yr amser i ymddyddan ag ef, dywedai un wrth y brodyr fod Thomas Llwyd yno, gan ofyn, pa beth a wneid iddo. Un arall a ddywedai, mewn ffordd o ateb, mai y peth cyntaf a fyddai raid ei wneyd iddo, oedd "*tori ei gynffon.*" Yr oedd yr amnaid yn ddigon. "Ni chawsant," meddai ef ei hun, gan wenu, "ddim trafferth gyda'r gynffon ; mi a'i torais hi fy hunan mor fuan ag y cefais gyfle wedi myned adref."

Bellach, cyfrifid Mr. Llwyd gyda chrefyddwyr tlodion y Bryngwyn. Aeth y son am hyn i glustiau y person, ac i glustiau Mr. Hughes, tad Arglwydd Dinorben, yr hwn oedd yn byw gerllaw ; a chafodd y crefyddwr ieuanc brawf lled ebrwydd mai nid boddhaol ganddynt hwy oedd y cam a gymerasai. Ciliodd ei hen gyfeillion; a deallodd, cyn hir, mai symud a fyddai oreu. Yr oedd wedi dechreu pregethu, fel y bernir, ychydig o amser cyn iddo ymadael â Llansantsiôr ; ac os felly, cafodd Abergele dderbyn pregethwr ac ysgolfeistr ar yr un amser, ac yn yr un gwrthddrych.

Ofer fyddai i ni geisio olrhain hanes y gŵr duwiol hwn gyda manyldra. Rhoddid gair rhagorol iddo fel ysgolfeistr, am ei bwyll, ei foneddigeiddrwydd, ei fedrusrwydd, a'i ras. Yr oedd ganddo berffaith lywodraeth ar ddeiliaid yr ysgol, a hyny heb ddangos un math o nwyd nac arfer un gradd o greulondeb ; ennillodd air da oddiwrthynt oll, heb un eithriad am a wyddom ; a dilys ydyw y bu ei lafur fel athraw o fendith anmhrisiadwy i laweroedd o ieuenctyd a fu dan ei ofal. Yn nechreu ei yrfa weinidogaethol dywedir ddarfod iddo deithio cryn lawer ar siroedd Gwynedd, a rhai o siroedd y Dê, ynghyda rhai o drefydd Lloegr ; ar y gwyliau yn unig, pryd y byddai yr ysgol wedi tori i fyny, y gallai wneuthur hyn. Eto, am y 25 mlynedd diweddaf o'i oes, nid ydym yn deall iddo fod ddim o'i sir ei hun, nac yn wir o'i gartref ei hun. Pregethai fore Sabboth yn Abergele ymron yn gyson trwy yr holl amser maith hwnw, a'r cwbl yn rhad ac am ddim.

Anhawdd fyddai rhoddi drychfeddwl i'r darllenydd pa fath un ydoedd Mr Llwyd. O ran ei berson, yr ydoedd yn ŵr lluniaidd, a thra syth. Ei wynebpryd yn serchog, er ei anmharu gan y frech wen. Ysgogai yn araf a hardd ; nid o rodres a balchder, ond am na allai ddim yn amgen. Yr oedd ei law ddehau yn anafus, a hyny o'r bru ; am yr hon y gwisgai faneg ddu. Yr oedd ei ddillad yn wastad yn lân a phrydweddol. Llefarai yn bwyllog a rheolaidd. Anaml y clywid ef byth yn chwerthin, ond gwelid ef yn aml yn gwenu. Yr oedd ei eiriau yn ychydig, ac yn wastad yn fwynaidd a sylweddol. Fel pregethwr yr oedd ei fater yn drefnus, ond nid yn ddwfn ; ei iaith yn weddus, ond nid yn rhodresgar ; ei ddawn yn ennillgar, ond nid yn wych. Gweddusrwydd a dwysder oeddynt brif nodweddau ei weinidogaeth.

Rhyfeddol y llwyddodraeth fyddai ganddo arno ei hun. Ni ymddangosai byth yn brysur nac ar ffrwst ; ni welid ynddo nwyd na chyffro ; nid ymddangosai fod ynddo un blys i glywed nac i adrodd un math o chwedlau. Gellid meddwl ei fod yn llefaru ac yn cerdded wrth reol. Ni chlywsom fod achwyn-

iad wedi ei roi yn ei erbyn erioed, nac a wyddom ni un ddrwgdybiaeth. Nid rhyfedd ynte, pan oedd wedi clafychu i farw, fod un hen ŵr yn Abergele wrth weddio drosto, yn dyweyd yn symledd ei galon, "O! Arglwydd, cofia ein brawd, dy was, yn ei gystudd; a maddau iddo ei bechodau, *os oes ganddo bechodau hefyd.* Ni wyddom ni am neb a chan lleied o honynt ag ef. Pa fodd bynag, *ni wn i ddim.*" Ond er na wyddai y gweddiwr dihoced am bechodau Mr. Llwyd, sicr ydyw fod ganddo ynteu bechodau yn erbyn yr Arglwydd ei Dduw, "beiau cuddiedig" fwy na rhif; a llawer a weddiai y gweinidog duwiol ei hun am ei lanhau oddiwrthynt; eto, gwir wedi y cwbl ei fod yn lanach a mwy difrycheulyd na nemawr un a gyfarfyddid ag ef yu ein byd llygredig ni. Ar yr un pryd yr oedd ysbryd phariseaidd yn mhell oddiwrtho. Un o'r bobl druain dlodion ydoedd, yn gobeithio yn enw yr Arglwydd.

Am hwn yr ysgrifenai y Parch. Henry Rees, yr hwn a fu dros ychydig yn ddysgybl iddo, "Mi a'i hanrhydeddwn ef fel tad; mi a'i hoffwn ef fel yr hoffir plentyn bychan diddichell; a thra y glynai fy enaid wrtho fel brawd anwyl, eto yr oeddwn yn teimlo yn rhyw fodd, fel pe buasai honi brawdoliaeth â'r fath ŵr yn honi gormod o gyd-raddoldeb." *

Ond Thomas Llwyd a fu farw, ïe, bu farw o'r cancr ar ei wyneb. Dyoddefodd lawer oddiwrth anhwylderau eraill dros flynyddau, ond fe ddyoddefodd, yn ddystaw iawn. Yr oedd dedwyddwch y dyoddefus yn perthyn iddo yn nodedig. Anhwylderau corfforol a fu llawer o'r achos iddo roddi heibio teithio mor fuan ar ei oes. Ond yr oedd ei loesion dan redfa ddifaol y cancr yn fwy angerddol na dim a brofasai o'r blaen. Eto dyoddefus a fu ef dan yr ardeithiau hyn; a gwelodd, cyn hir, eu terfyn. Bu farw, Gorphenaf 15fed, 1848. Yr oedd felly wedi bod yn gweini, fel athraw tua 54 o flynyddau, ac fel pregethwr, am oddeutu 50 mlynedd, ac yn gweini y sacramentau am ysbaid 29 mlynedd. Yn ei afiechyd diweddaf gwnaeth ei gyfeillion yn Abergele anrheg o £60 iddo; nid am fod arno angen, a llawer llai am iddo geisio rhodd, ond am eu bod yn ddyledwyr iddo, ac am yr hoffent ddangos iddo pa mor hoff ydoedd yn eu serchiadau, a pha mor dderbyniol ganddynt a fu ei weinidogaeth. "Ffrwyth ydoedd yn amlhau erbyn eu cyfrif;" a ffrwyth hefyd y bydd cyfrif llawer o eglwysi yn ddiffygiol iawn o hono. Barna llawer mai braint ydyw i weinidog dreulio ac ymdreulio gyda gweinidogaeth y gair, ac felly y mae; barnant yn gywir, ond nid mor fynych y clywir mai braint Cristionogion hefyd, ydyw cydnabod "y pethau ysbrydol a weinyddir felly iddynt, trwy fod yn helaethion yn cyfranu o'u pethau cnawdol.

Claddwyd y Parch. Thomas Llwyd yn anrhydeddus, a gosodwyd cofadail hardd ar ei fedd.

* Gwel ei GOFIANT, gan y Parch. John Foulkes o Liverpool, yn y "DRYSORFA," am y flwyddyn 1853.

BETTWS-ABERGELE.

Yr ydym wedi crybwyll fwy nag unwaith am y lle hwn, ac nid oes genym nemawr i'w chwanegu. Gallwn feddwl fod cais lled foreu wedi ei wneyd i oresgyn y dyffryn tlws hwn trwy yr efengyl, ond nid llawer o lwyddiant sydd wedi dilyn; ar yr un pryd y mae yma ryw nifer yn ofni yr Arglwydd, ac yn meddwl am ei enw ef. Y maent yn sefyll yn nhŷ yr Arglwydd y nos: a phwy a ŵyr nad yw yr amser i drugarhau wrth Seion yn y lle hwn ymron gerllaw. Yr oedd gŵr o'r enw Dafydd Roberts, Bodrochwyn, er ys hir amser yn mysg crefyddwyr y Bettws; yr hwn, ar gyfrif y capel a adeiladwyd, sydd yn deilwng o'i goffâu a'i efelychu.

Yr oedd John Davies, Nantglyn, yn lletya ryw nos Sabboth yn ei dŷ, ni ddywedir i ni pa bryd; a thranoeth cyn i'r pregethwr ymadael, bu ymddyddan o'r fath a ganlyn rhwng y ddau:—

"John," ebe Dafydd Roberts, "y mae ar fy meddwl wneuthur rhywbeth at yr achos yn ychwanegol, cyn myn'd o'r byd; sef gadael rhyw gymaint o arian ato yn fy ewyllys. A wnewch chwi ddysgu i mi pa fodd y gwnaf?"

"Wel, yn wir," atebai John Davies, "os ydych am wneyd rhywbeth, gwnewch ef *yn eich bywyd*:—felly, chwi gewch y pleser o'i weled yn cael ei wneyd, a hyny fel y dymunech. Pa ddiolch i rai fel chwi adael arian ar eich ol, pryd na fedrwch wneyd dim â hwy?"

"Wel, John bach, beth a fynech i mi wneyd?"

"Gwnewch gapel yn y Bettws," oedd yr ateb, "a rhoddwch yr hyn a gaffoch ar eich meddwl at hwnw; ac os bydd rhyw ddiffyg, fe'i gwneir i fyny gan y sir."

"Ië, onide," ebe ynteu, "sut na f'aswn yn gwel'd hyny fy hunan! Diolch i chwi, John Davies, am ddyweyd wrthyf."

Gweithredodd yr hen ddiacon hefyd yn ol y cynghor; adeiladodd gapel a thaloid am dano, heb ofyn dim gan y cyfarfod misol. Yn y modd yma y cafodd yr ardal hon y capel sydd yma. Mae cannoedd lawer o gapelau wedi eu hadeiladu gan y Methodistiaid, ond nid oes nemawr o honynt wedi eu codi yn y ffordd hon. Oddieithr ychydig eithriadau, fe'u gwnaed oll gan y bobl gyffredin neu gan y lluaws gweithiol, y rhai a gyfranent o'u prinder ac yn ewyllysgar eu calon. Naturiol ydyw meddwl mai mwy fyddai y mwynhad, a sicr genym mai mwy fyddai y rhinwedd, i'r cyfoethogion roddi yn eu bywyd, at achosion elusengar a chrefyddol, na gadael swm yn eu llythyr cymun. Y mae cannoedd, ïe o Gymry, heb blant, ac heb berthynasau agos, yn meddu ar laweroedd mwy nag y mae yn bosibl iddynt hwy eu hunain eu mwynhau, ac eto ychydig sydd o honynt yn gwneuthur yn *eu bywyd* yn ol fel y llwyddodd Duw hwy.

PENNOD XII.

PARHAD O BRIF ORSAFOEDD METHODISTIAETH YN SIROEDD DINBYCH A FFLINT.

CYNWYSIAD:—

Y WYDDGRUG, UN O'R GORSAFOEDD HENAF—CHWEDL CHWITH AM Y PREGETHWYR—TRO HYNOD O YMWARED I BREGETHWR—Y CREFYDDWYR CYNTAF—ROBERT ROBERTS—GEORGE FOULKES—Y PARCHN. ROBERT ELLIS, A T. JONES—PREGETHWYR ERAILL—TREFFYNNON—WILLIAM DAVIES, GOLCH—MR. STEADMAN; JONES, LLANGAN; A MR. LLOYD, CAIO; YN PREGETHU YN Y DREF—OEDFA HYNOD GAN JOHN DAVIES, NANTGLYN—S. MORRIS—JOSIAH REDFERN—OEDFA HYNOD ROBERT ROBERTS, CLYNOG—JOHN JONES—EGLWYSI CYMYDOGAETHOL FFYNNON-GROYW—PEN-Y-FELIN, A BAGILLT.

WYDDGRUG.

Mae y Wyddgrug, fel y mae yn hysbys, yn un o brif drefydd sir Fflint, yn sefyll mewn glyn bychan, tlws, ac agored; trwy yr hwn y rhed, islaw y dref, yr afon Alun. Gofidus ydyw nad oes ar gael ond ychydig o hanes cyntaf Methodistiaeth y dref hon a'i hamgylchoedd. Eglur ydyw, pa fodd bynag, fod y diwygwyr wedi ymosod ar y Wyddgrug yn lled gynar, tua'r un amser ag y cychwynodd Methodistiaeth yn y Bont-uchel; rhyw nifer o flynyddau diweddarach na'r Bertheu-gron, a diweddarach fyth nag Adwy'r-clawdd. Wrth fod y dref hon yn gorwedd yn gymhwys rhwng y ddau le a enwyd olaf, naturiol fyddai casglu yr ymwelai y pregethwyr â hi wrth fyned o'r naill i'r llall. Fe allai ddarfod ymweled yn achlysurol â'r Wyddgrug, yn fuan iawn ar ol yr ymraniad a fu rhwng Harris a Rowlands. Dywedir, pa fodd bynag, fod yma gynulliad eglwysig, yn cynwys 14 o rifedi, yn y fl. 1762; pryd yr ymunodd Mr. George Foulkes â'r crefyddwyr, yr hwn, ar y pryd, oedd yn 19eg mlwydd oed.

Nid annhebyg ydyw fod pregethu achlysurol cyn y cyfnod crybwylledig; weithiau ar yr heol, ac weithiau mewn tai anedd, yn ol y cyfleusdra a roddid. Adroddai Edward Jones, Prion,* ei fod ef yn y Wyddgrug rhwng y blynyddau 1764—8; a bod pregethu, y pryd hwnw, weithiau yn nhŷ un Sarah Howel. Pregethwyr o'r Dê oeddynt y rhai a ddeuent amlaf yma i bregethu yn y tymhor boreu hwn; dycithriaid o bell, anadnabyddus i'r bobl gyffredin. Hyn, tybygid, a roes achlysur i'r chwedl chwith ag oedd ar led, mai cythreuliaid yn rhith dynion oeddynt; a bod eu traed fel traed bustych, cyffelyb ffurf i'r ellyllon y soniai yr hen chwedlau traddodiadol gymaint am danynt. Yr oedd ofer-goeledd y wlad yn ddigon cryf i roddi coel i'r fath ffoledd; a'r gwrthwynebiad i'r diwygiad yn ddigon ffyrnig i roddi lledaeniad i'r twyll.

* Gwel ei hanes dan hanes y Bont-uchel.

John Evans, Cil-y-cwm, meddir, oedd y pregethwr ag ydoedd yno ar y pryd yr aeth Edward Jones i yspïo, ai ellyll a thraed bustach ganddo mewn gwirionedd oedd y cynghorwr; a thua 18 neu 20 ydoedd nifer y gwrandawyr.

Ymddengys hefyd y byddai pregethu weithiau wrth dalcen tŷ un Thomas Prys, y crydd, ar gareg-farch. Nid oedd y crydd ddim yn broffeswr crefydd; eto yr oedd yn llai ei ragfarn na'i gymydogion, ac yn barnu mai teg oedd i'r crefyddwyr gael eu rhyddid i draethu eu syniadau heb i neb eu gwarafun. Dangosai hefyd, raddau helaeth o sirioldeb a charedigrwydd, tuag at y sawl a ddeuent i'r dref yn achlysurol i bregethu. Mae hanes am un tro tra nodedig a ddygwyddodd yn ystod y cyfnod y pregethid ar y gareg-farch grybwylledig. Daeth rhyw ŵr dyeithr yma i bregethu, ac ar ganol yr oedfa, daeth haid o erlidwyr i'r lle, gan ymosod ar y cynghorwr, a'i luchio o ddifrif â thom, ac â llaid; a phethau bryntion cyffelyb. Ond er ffyrniced oedd y gawod, fe safai y pregethwr yn ddiysgog odditani; gosodai ei wyneb fel callestr, ac ni fynai gilio. "A fföai gŵr fel myfi?" gofynai Nehemiah gynt; a chyffelyb iddo, o ran gwroldeb ysbryd, oedd y pregethwr hwn. Barnai yn ddiamheuol fod yr achos y safai efe drosto, yn achos teilwng; a dysgwyliai fe allai, y rhoddid llonyddwch iddo, ond iddo beidio llwfrhau yn rhy fuan; neu ynte, y tosturiai rhyw un yn y gynulleidfa wrtho, ac estyn amddiffyniad iddo. Yr oedd un tafarnwr yn y lle, yr hwn a gadwai y "*White Horse;*" yr oedd y dyn hwn yn ddyn tra annuwiol; yn ymroddi i bob rhysedd; ac yn cadw arth i'r dyben i gynull dynion at eu gilydd i weled ei baeddu. Hwn, pan welodd nad oedd y dom a'r llaid ddim yn tycio i roddi taw ar y pregethwr, a'i ymlid ef ymaith, a ddywedodd, gyda llawer o lwon echryslawn, y rhoddai efe derfyn ar ei_glebar yn fuan; ac ymaith ag ef i ymofyn y bwystfil; ac wedi dychwelyd, safodd ar gyfer y pregethwr; a chan ei ddangos i'r creadur cethin, efe a'i gollyngodd ato. Rhedodd yr arth rhag ei flaen ato, ond cr dirfawr siomedigaeth i'w berchenog, a dirfawr syndod i'r holl edrychwyr, trodd yr arth i lyfu y pregethwr yn lle ei ddirwasgu; gan roddi arwyddion o hoffder a serch tuag ato. Gyda hyn, newidiodd yr erlidwyr eu barn, a gwaeddai y gynulleidfa yn groch, "*Mae yma rywbeth mwy na dyn!*" Yn y canlyniad, medd yr hanes, cafodd y pregethwr bob astudrwydd oddiwrth y bobl, a phob tawelwch oddiwrth yr erlidwyr, i draethu ei genadwri; ac fe fu y tro hwn, hefyd, yn foddion nodedig i leddfu yr erlid yn y Wyddgrug o hyny allan.

"Mae genyf bob lle i gredu," medd fy hysbysydd, "fod yr hanes uchod yn wirionedd. Mynegwyd hi i mi gan un a'i cafodd gan ŵr ag oedd yn bresenol yn y gynulleidfa; a chlywais gan hen ŵr arall, sydd yn awr yn fyw, ac yn terfynu ar 80 ml. oed, ei fod ef wedi clywed yr hanes lawer gwaith gan ei rieni." Hysbys ydyw y byddai eirth yn cael eu cadw, y pryd hwnw, gan amryw·o ddynion i'r dybenion o ddifyrwch, neu o elw; ac am waith yr arth yn ymddwyn mor groes i'r hyn a ddysgwylid, nid oes yn hyny ddim anghredadwy ynddo ei hun; mwy nag sydd amheus ac anhygoel yn y modd y tra-

ddodir y chwedl i ni. Pa beth a wna yr Arglwydd, dan amgylchiadau neilldual, nid yw i ni i'w benderfynu; ac nid yw yr un fath bethau i'w dysgwyl dan amgylchiadau cyffredin.

Nid oes sicrwydd yn cael ei roddi pa ryw amser, na thros ba dymhor y bu y pregethu fel hyn ar yr heol, neu heb un lle sefydlog. Naturiol ydyw meddwl mai dyma y wedd gyntaf a fu arno. Wedi rhyw ysbaid, tybygid, ymsefydlodd i raddau yn y Pentre', lle bychan yn nghŵr y dref, ar ffordd Caer. Gerllaw y Pentre', yn Mhen-y-bont, yr oedd henafiaid y diweddar Mr. Matthews, Aberystwyth, y rhai a ddangosasant garedigrwydd i'r gwaith, megys yn ei gychwyniad. Dywedir yn nghofiant Mr. Geo. Foulkes, yr hwn a ysgrifenwyd gan ŵyr iddo, mai mewn ystafell fechan yn y Pentre' yr ymgynullai yr ychydig aelodau pan yr ymunodd ef â hwy; pryd yr oedd eu nifer yn 14. Tua'r fl. 1762, meddir, oedd hyny. I wneyd y nifer hwn, rhaid cyfrif yr holl grefyddwyr ag oeddynt yn yr holl ddosbarth hwnw o'r wlad; yr holl Fethodistiaid yn yr holl wlad, ond a berthynai i Adwy'r-clawdd, neu i'r Berthen-gron. Yn mysg y crefyddwyr boreol hyn, enwir un Samuel Lewis, Llanferes; Thomas Griffiths, Llanarmon; Ithel Hill, Mynydd Buckley; a Dafydd Jones, Mynydd-y-fflint; heblaw y rhai oedd yn byw yn y dref, neu yn y gymydogaeth. Yn mysg y rhai olaf, yr oedd un William Griffith, yr hwn a fu dros ryw dymhor yn cynghori, ac am yr hwn y sonia Robert Jones, fel un a faeddwyd yn arswydus yn Rhuddlan, wrth wneyd cais i bregethu yno.* Symudodd hwn ei drigfa i Langollen; a bu yn offeryn i roddi ysgogiad cychwynol i Fethodistiaeth yn y dref hono.†

Yr oedd yma hefyd, un Robert Roberts, gwehydd, yn arfer cynghori. Nid oes genym nemawr ddim o hanes y gŵr hwn. Dywedir ei fod yn ddyn manwl, a llym iawn, wrth weinyddu dysgyblaeth, ond o ddoniau bychain yn y weinidogaeth. I ddangos ei lymder, gellir nodi un ffaith. Pan oedd Dafydd Jones, Mynydd-y-fflint, dan argraffiadau crefyddol gyntaf, daeth ar ei feddwl ymofyn am le yn mysg y rhai a alwent ar enw yr Arglwydd; ac i'r Wyddgrug y tueddwyd ef yn naturiol i fyned, gan mai yno yr oedd y gymdeithas eglwysig agosaf ato. Ond y fath esiampl a gafodd yno o lymder yn ngweinyddiaeth Robert Roberts, o gyfreithiau y tŷ, fel y syrthiodd arno ormod o ofn, ac o wrthdarawiad teimlad, i barhau i fyned yno; ond dewisodd yn hytrach fyned gyda John Williams, Llaneurgain, i'r Berthen, er fod y daith ymhellach a'r ffordd yn fwy anhygyrch.

Soniasom eisoes am enw Mr. George Foulkes. Mae y gŵr hwn wedi marw bellach, er ys 32 o flynyddau; ond gan ei fod wedi ymuno â'r crefyddwyr, pan oedd yn ieuanc, sef 19 mlwydd oed, a pharhau gyda hwy am yr ysbaid maith o 60 o flynyddau a mwy, rhaid ei fod yn gydnabyddus â'i holl ysgogiadau boreol, ac wedi bod yn gydymaith yn ei fynediad rhagddo i'r achos. Nid oes genym, er hyn oll, nemawr o hynodion i'w traethu am dano. Llafur-

* Gwel Cyf. III. tudal. 265. † Gwel hanes Llangollen.

iodd gyda chysondeb, fel blaenor yn gyntaf, ac fel cynghorwr draehefn, am flynyddau lawer. Nid oedd yn ystyried ddarfod iddo gael dawn y weinidogaeth; ac am hyny nid ymwisgodd erioed â'r swydd, ond fel cristion diymhongar, eto awyddus i wneuthur daioni i'w gyd-ddynion, efe a draethai air o gynghor yn fynych, pryd na byddai neb arall. Nid oedd yn tybied ei fod yn gymhwys i fyned oddi cartref i lefaru; ac ni ellid cael ganddo gartref fyned i'r pwlpud, nac yn ngwydd yr un pregethwr arall; ond yn niffyg ei well, efe a roddai air o gynghor, mewn dull perffaith dirodres; a hyn a wnaeth am amser maith. Bu yn golofn i achos y Methodistiaid, mewn llawer ystyr, am fwy na 60 o flynyddau; a bu farw yn y fl. 1823, yn 80 mlwydd oed; gan ddyweyd, "Ni chymerwn i mo'r byd i gyd yn grwn am y gobaith sydd genyf yn Nghrist."

Yn y dref hon hefyd, y treuliodd y Parch. Robert Ellis, y rhan fwyaf o'i oes weinidogaethol. Yr oedd y gŵr hwn wedi bod yn efrydydd dros ryw amser yn athrofa Iarlles Huntingdon; ond nid hir, tybygem, y bu ef mewn cysylltiad â'r cyfundeb hwnw. Bu Mr. Ellis yn llafurio yn ffyddlawn ac egniol gyda'r Methodistiaid, ar ol iddo ymuno â hwy, tra fu byw; teithiodd lawer ar hyd siroedd Gogledd a Dê; a thra adnabyddus ydoedd, o angenrheidrwydd, i'r crefyddwyr a gyd-oesent âg ef. Nid oedd ei dalentau ond byrion, a lled anmhoblogaidd y cyfrifid ei ddull wedd o bregethu. Nid oedd yn cyfodi ei lais yn uchel, nac yn amcanu at gyffroi teimladau ei wrandawyr. Esboniai lawer, weithiau, ar y bennod, ac nid anfynych ar y penill hymn a roddai allan i'w ganu. Ar yr un pryd, yr oedd yn wastad yn troi o amgylch hanfodion crefydd, ac yn dangos awydd eryf am arwain ei wrandawyr at yr angenrheidrwydd am ffydd yn Nghrist; modd y gwnelid hwy yn gyfiawn ger bron Duw. Derbyniodd fath o ail urddiad yn nghymdeithasfa y Bala, yn y fl. 1814, wedi cael y cyntaf yn nghyfundeb yr Iarlles. Prif nodweddau Mr. Ellis, oeddynt gonestrwydd a ffyddlondeb. Bu farw, o fewn tridiau i'r un amser a Mr. Jones, Dinbych, yn Mehefin, 1820.

Yr ydym eisoes wedi crybwyll i Mr. Jones, Pen-ucha', symud yma i fyw yn y fl. 1795, trwy iddo briodi merch ieuanc yn y dref. Preswyliodd Mr. Jones yma am ysbaid naw mlynedd. Yn yr ysbaid hwn cyfarfu â llawer profedigaeth chwerw, trwy farwolaeth ei briod yn y fl. 1797, a thrwy arteithiau llymion yr afiechyd ag oedd yn ei flino.* Yn yr ysbaid hwn hefyd bu yn fendithiol trwy ei bregethau a'i ysgrifeniadau i lesâu ei gyd-genedl. Yn ystod ei arosiad yn y Wyddgrug chwanegwyd at yr eglwys tua 60 o rifedi; ac amryw o honynt a'i cyfrifent ef yn dad ysbrydol iddynt. Nid oes amheuaeth na fu arosiad Mr. Jones yn y Wyddgrug, yn foddion neillduol i godi yr achos Methodistaidd i radd o enwogrwydd wrth a fuasai arno cyn hyny.

Dylasid sylwi fod y pregethu wedi symud o'r Pentre' i le arall, nes i'r

* Gwel ei hanes Cyf. III., tudal. 171.

dref, sef i Glan-yr-afon; ac yn y lle hwn y parhaodd y moddion bellach hyd yr amser yr adeiladwyd yr hen gapel yn Mhont-erwyl. Bernir fod pregethu wedi bod yn awr ac eilwaith, ar heolydd y dref ac yn y Pentre', heb lawer o lwyddiant, ysbaid 10 neu 15 mlynedd; yn Nglan-yr-afon dracheíu am 15 neu 20 mlynedd; ac yn y fl. 1794, tua blwyddyn cyn i Mr. Jones ddyfod yma i fyw, adeiladwyd y capel cyntaf. Nid oedd y capel hwn ond bychan mewn cydmhariaeth, ac yn ngŵr y dref, eto, fe brofwyd ymweliadau grasol ac adfywiol ynddo. Chwanegodd nifer y disgyblion i luaws mawr. Daeth yr achos i fri a dylanwad; a daeth llawer o deuluoedd parchus y dref a'r gymydogaeth i undeb ag ef, fel y bu raid, ymhen tuag 20 mlynedd ar ol ei adeiladu ymofyn am le helaethach a mwy cyfleus i addoli ynddo, na chapel Pont-erwyl. Hyn hefyd a wnaed er ys tua 40 mlynedd yn ol. Mae eglwys a chynulleidfa y Methodistiaid yn y Wyddgrug yn un o'r rhai amlaf eu deiliaid yn y sir; ac yn ddiau yn un o'r rhai amlaf eu breintiau. Ni fu y Wyddgrug, fel yr ymddengys, ymron un amser, er dechreuad Methodistiaeth ynddi heb breswyliad a gwasanaeth rhyw un neu ychwaneg o bregethwyr, sef, William Griffith, Robert Roberts a George Foulkes yn gyntaf; yna y Parchn. R. Ellis a T. Jones, tua chanol y tymhor; ac ar ol hyny y Parchn. Roger Edwards, a T. Jones, Cefn-y-gader, ynghyda Mr. Hugh Roberts, y rhai sydd yn aros hyd heddyw; at y rhai y dylid ychwanegu Robert Jones a Thomas Owen, y rhai sydd yn fwy diweddar wedi dystewi yn yr angeu. Mae y Wyddgrug, gan ei bod yn sefyll yn nghanol y sir, yn fwy cyfleus na nemawr le i holl bregethwyr y wlad ymweled â hi. Cynelir cymdeithasfaoedd chwarterol a blynyddol yma yn amlach nag un lle arall yn sir Fflint, ar gyfrif cyfleusderau amlach, neu ewyllysgarwch gwresocach, neu ynteu y ddau ynghyd.

TREFFYNNON.

Mae y dref hon, un o'r rhai mwyaf yn sir Fflint; yn gorwedd, fel y mae yn hysbys, yn ngŵr eithaf y wlad i'r gogledd-ddwyrain, nid yn mhell oddiwrth y môr yn ngêg afon Dyfrdwy. Mae yn sefyll tua thair milldir o'r Berthen-gron, a phump o Gaerwys. Yr oedd Methodistiaeth wedi dechreu yn y Berthen a Chaerwys, yn mhell cyn iddo gael lle i ymsefydlu yn y dref hon. Yr oedd yma bregethwr, o'r enw William Davies, yn byw mewn lle, o fewn dwy filldir neu lai i'r dref, o'r enw Golch; ardal a alwyd felly, medd rhai, ar gyfrif fod ynddi le y byddid gynt yn golchi plwm. Yr oedd William Davies, wedi ei ddwyn at grefydd yn fuan ar ol ymddangosiad Methodistiaeth yn y sir, sef, tua'r fl. 1766, neu cyn hyny; ond pa faint cyn hyny ni's gwyddom; ond fe ddywedir ei fod yn arfer cynghori ei gymydogion yn y fl. 1767; pryd yr oedd yn 31 mlwydd oed. Tebygol ydyw mai yn y Berthen y clybu efe gyntaf yr efengyl, o leiaf i deimlo oddiwrth ei hawdurdod. Yr oedd William Davies yn gristion gloyw, ond nid yn enwog fel pregethwr. Fe'i caed ef er hyny yn was da a ffyddlon; bu ffyddlon ar ychydig; ac, nid

oes amheuaeth, na osodwyd ef ar lawer, ac iddo fyned i mewn i lawenydd ei Arglwydd. Bu fyw i'r oedran teg o 86 mlynedd, wedi bod yn pregethu 55 o flynyddoedd. Yn mlynyddoedd cyntaf ei weinidogaeth, fe gyfarfu â llawer o wrthwynebiad ac erlid; dyn tlawd o wehydd ydoedd, heb gael dim manteision; ond yr oedd, er hyny, yn ganwyll yn llosgi ac yn goleuo, a llawer yn y dyddiau tywyll hyny a fuont ewyllysgar i rodio yn ngoleuni y ganwyll hon. Gorphenodd ei yrfa yn fl. 1822.

Daeth Samuel Morris, tad y Parch. William Morris, Rhuddlan yn awr, i fyw i Dreffynnon tua'r fl. 1780; tua phum' mlynedd ar ol dechreuad ei broffes. "Pan ddaethum i'r dref gyntaf," meddai Samuel Morris, "ni wyddwn fod yno ond un dyn, a hwnw yn Sais, nad oeddynt oll yn elynion i'r Methodistiaid." Nid ydym yn sicr pa bryd y daethai William Davies i fyw i'r Golch, oblegid, gŵr o Gaerwys oedd efe o'i ddechreuad; fe ddichon nad oedd ef ychwaith ddim wedi dyfod mor agos i'r dref a'r Golch, yn yr amser y mae Samuel Morris yn dyweyd iddo fe ddyfod yno i fyw. Daeth un William Jones, crefyddwr arall o Gaerwys, i'r dref i fyw yn y fl. 1785; yn nhŷ yr hwn y bu pregethu a chyfarfodydd gweddio yn cael eu cynal gyntaf; sef, yn heol Brynford, Pen-y-dref. Ni arosodd William Jones ond dwy flynedd yn y dref cyn dychwelyd yn ol i Gaerwys.

Bu cynyg ar ddwyn pregethu i'r dref cyn hyn, ond nid yn wastad y byddai y pregethwr yn cael hamdden i bregethu gan y cynhwrf a godid yn ei erbyn. Dywedir i William Davies ddyoddef ei luchio â thom ac â cherig, lawer gwaith, yn Nhreffynnon a'i hamgylchoedd. Llawer a deithiodd y truan hwn ar ei draed, a'i damaid bwyd yn ei *boced* i'w gynal ar y ffordd (canys dyn bychan gwan ydoedd), pan y byddai yn troi allan i gyhoeddi y newyddion da am Geidwad; ac ni dderbyniai am ei holl lafur ond ei luchio a'i faeddu, a da oedd cael dianc heb ei ladd. Sonir am un Mr. Steadman, yr hwn oedd ar y pryd, meddir, yn efrydydd yn athrofa yr Iarlles Huntingdon;* a'r hwn hefyd a fu yn aros dros dymhor yn y parthau hyn, ac yn pregethu lle caniateid iddo. Daeth ar ei feddwl wneuthur cais ar bregethu yn Nhreffynnon hefyd, er y gwyddai pa mor anhawdd, a pha mor beryglus oedd gwneuthur hyny. Aeth ef, gan hyny, a chydag ef ychydig gyfeillion o ardal Helygen i'r dref; a safodd ar un o risiau y groes, tua'r amser yr oedd y gynulleidfa yn dyfod o'r gwasanaeth prydnawnol yn y llan. Ymgasglodd cryn dyrfa o'i amgylch, a phregethodd ynteu ar y gair, "Edifarhewch a chredwch yr efengyl;" a chan fod golwg foneddigaidd arno, fe gafodd lonyddwch y tro hwn i orphen yr oedfa, heb i neb derfysgu.

Daeth yma hefyd ŵr a gwraig grefyddol o Ddolgellau i fyw, o'r enw Mr. a Mrs. Smith; yr oeddynt hwy yn byw yn y Bank Court, ac yn aelodau

* Wedi edrych dros y rhestr a fu yn yr athrofa hon, methais a chanfod yr enw uchod yn eu mysg—fe allai, nad yw yr enw yn gywir; neu ynteu ei fod yn efrydydd mewn athrofa arall.

yn y Berthen. Mae hanes am rai oedfaon yn y Bank Court yn ystod yr amser y bu Mr. Smith fyw yno. Un tro, pregethodd y Parch. Hezeciah Jones, o'r Deheudir yno; ac yn ei bregeth dynoethodd gryn lawer ar ddrygioni *plant Adda*. Yr oedd amryw wragedd y glöwyr yno yn gwrando, fe allai y tro cyntaf erioed iddynt glywed pregeth o'r un fath; y gwragedd synwyr-gall hyn wrth glywed cymaint o feio ar blant Adda, a ysgydwent eu penau, ar eu gilydd, gan ddyweyd; "Duw anwyl! y mae y plant yna yn waeth na *phlant Bagillt!*" *

Ymddengys fod Mr. Jones, Llangan; a Mr. Lloyd, o Gaio; hefyd, wedi anturio pregethu yn y dref, cyn fod nemawr loches i'r achos o'i mewn. Dywedir fod yr oedfaon hyn yn dra choronog o ran arddeliad, ac wedi bod yn foddion i leddfu gradd ar ffyrnigrwydd y trigolion yn erbyn y crefyddwyr. Adroddai Mr. Griffith Owen, Caergybi, ei fod ef wedi dyfod gyda'r Parch. Evan Richardson, Caernarfon, i Dreffynnon un prydnawn; ac i Mr. Richardson gynyg pregethu, mewn tŷ bychan, yn heol Brynford (tŷ William Jones fe allai), ond wedi iddo ddechreu, fod ymosodiad wedi ei wneyd ar y drws gan y terfysgwyr. Yr oedd yn mhlith y gwrandawyr un dyn cryf a gwrol; aeth hwn i geisio rhwystro y terfysgwyr i mewn, ond i ymladd â'u gilydd yr aethant, fel y gorfu ar y pregethwr roi heibio yr oedfa. Yn y cyfwng hwn, dywedai fod dyn ieuanc o'r enw Samuel Morris wedi tynu rhai ystyllod a wnai i fyny ran o dalcen y tŷ; a bod y ddau, y pregethwr a Mr. Owen, wedi gallu dianc trwy y twll a wnaed; ac iddynt gael eu harwain, gan yr un gŵr ieuanc, trwy y gerddi oedd yn nghefn y tai, hyd nes y daethant i fuarth y "*King's Arms*," ac oddiyno i'r ffordd.

Nid oedd eto, ond ychydig o oedfaon yn y dref; a'r rhai a gynelid yno oeddynt yn agored i gael eu dyrysu gan ryw derfysgwyr neu gilydd, am hyny, cedwid hwy megys yn ddirgelaidd a lladradaidd, dros ryw dymhor; pryd yr oedd pregethu cyson a rheolaidd yn y Golch, gan amlaf; ac yn Stamford, tŷ Humphrey Owens, ambell waith; ond nid yn wastad y ceid llonyddwch, hyd yn nod yn y Golch, o leiaf ar y dechreuad. Adroddai gwraig Samuel Morris ei bod yn cofio iddi fod yn gwrando pregeth tua'r fl. 1778, yn y Golch; wrth dŷ un a elwid William y Llaw-chwith. Yr oedd y pregethwr yn sefyll ar stôl, a bod dyn o'r enw Thomas Williams, neu fel yr adwaenid ef oreu, Tŵm o'r Mynydd, wedi dyfod ato a'i daro yn ei wyneb â phiswail gwartheg. Gwnaeth y pregethwr ei oreu, a hyny gyda brys, i sychu y dom oddiar ei wyneb, ac i lanau ei enau oddiwrth y tail; yna dywedodd, "Peidiwch dychrynu, fy nghyfeillion, y neb sydd yn ewyllysio byw yn dduwiol yn Nghrist Iesu a erlidir; ac y mae hi yn llawer gwell arnom ni nag y bu hi ar Iesu Grist ei hun."

Sonir am oedfa neillduol o ciddo John Davies, o Nantglyn, yn y lle hwn. Yr oedd addewid iddo fod yma un nos Sadwrn, ond hi aeth yn lled ddiwedd-

* Bagillt sydd gymydogaeth o fewn dwy filldir i'r dref, lle y mae llawer o weithfaoedd plwm a glo: gwel ymlaen.

ar arno, cyn iddo allu cyrhaedd. Ond pan y daeth, codai i fyny ar fol clawdd, a dywedai wrth y bobl, "Ni allaswn gyrhaedd yn gynt, fy nghyfeillion, am fy mod yn cneifio yn brysur trwy y dydd; ond gan ei bod yn hwyr, mi ymdrechaf beidio eich blino, trwy fod yn faith; yna, gan sychu y chwys oddiar ei wyneb, darllenai yn destyn, "Canys felly y carodd Duw y byd," &c. Gyda darlleniad y testyn, yr oedd sylw y bobl oll wedi ei ennill, a llygaid pob un ar y pregethwr, ac ni chafodd fyned rhagddo nemawr o fynydau cyn fod y bobl yn tori allan mewn bloedd fawr o orfoledd, fel na chlywid gair a ddywedai; y cyfryw oedd grym yr arddeliad, nes oedd pob wyneb yn delwi, a phob mynwes yn dychlamu. Yn y diwedd canwyd y pennill hwn:—

"Ni allodd t'wyllwch y deall,
Na gelyniaeth y galon ynghyd;
Na delw ddrygionus y cythraul,
Nac hefyd arferion y byd,
I attal ei gariad rhag berwi,
'Can's felly y carodd Duw'r byd,'
Fel y rhoddodd ei Unig-anedig,
Mae hyn yn wirionedd i gyd."

Bu yr oedfa hon, nid yn unig yn rymus i gyffroi teimladau, ond hefyd i ddychwelyd tri neu bedwar o bechaduriaid at Dduw.

Mynych, meddir, y byddai cyfarfodydd crefyddol yn gweinyddu mwynhad rhyfeddol o hyfryd i'r ychydig grefyddwyr oedd i'w cael y pryd hwnw. Yn eu mysg ceid William Davies, a Samuel Morris, yn canu ac yn canmawl, gan ddyblu a threblu y pennill a genid, megys,—

"Pwy, pwy, rydd ddim yn erbyn rhei'ny mwy,
Ymguddiodd yn ei ddwyfol glwy'?
Eu dyled hwy gorphenodd Ef,
Ei thalu yn llwyr ar ben y bryn:
Ni bleiwn hyn o flaen y nef."

Mynych y dywedai William Davies wrth bregethu, "Coronau filoedd a f'o ar ei ben bendigedig;" a thrachefn, "Y nefoedd anwyl a'ch achubo, bob un." Yr oedd Samuel Morris yn gristion cywir, dystaw, a lled ddiddawn, ond cyson a ffyddlawn iawn yn ei dymhor. Arferai fyned i Langeitho, Pwllheli, Bala, a manau cyffelyb i'r cymanfaoedd i ymofyn am bregethwyr i'w wlad. Efe hefyd oedd yn sefyll dan bob traul yn y lle, am ysbaid ugain mlynedd; sef yr ysbaid y bu yno yn byw. Yr oedd ar y pryd yn dal perthynas â'r gymdeithas eglwysig yn Nghaerwys.

Yn mhen rhyw gymaint o amser wedi lleddfu o'r erlidigaeth i raddau, yr hyn a fu ar ol ymddangosiad boneddigaidd y rhai a grybwyllwyd; sef y Parchn. H. Jones, D. Jones, W. Lloyd, a Steadman; anturiodd y brodyr i gymeryd ystafell, neu yn hytrach dŷ anedd, yn mhen nesaf i Helygen i'r dref; ac wedi bod yma dros ychydig, cymerwyd ystafell arall, sef llofft a grisiau

cerig o'r tu allan i fyned iddi, mewn buarth y tu cefn i westŷ, dan arwydd y "*Coach and Horses*," yn ymyl y fan lle yr adeiladwyd capel, ar ol hyn, dan yr enw "Bryn Seion."

Ceir enghraifft i ddangos pa mor ddwfn oedd rhagfarn y bobl, ar y dechreuad, yn erbyn y Methodistiaid, yn yr hanes a ddyry un Josiah Redfern; un o hen grefyddwyr Helygain, ger Treffynnon, am dano ei hun. Wedi iddo ymuno â'r Methodistiaid, gwnaeth un dyn lŵ y cymerai efe ei fywyd ymaith, os daliai efe i fyned ar ol y bobl hyn. Parhaodd i'w ymlid, ei luchio â cherig, a'i flino, nes bu raid i Redfern, mewn hunan-amddiffyniad, ymofyn am nawdd y gyfraith wladol. Yr esgus a roddid dros y fath ymddygiadau llymdost oedd, fod y crefyddwyr yn ymgyngreirio yn erbyn y llywodraeth; ac mai eu hamcan ydoedd dadymchwelyd cyfraith ac eglwys, a chymeryd meddiannau dyniou yn ysbail. Anhawdd ydyw dychymygu pa fodd y gallai neb roddi coel i sibrwd mor ddisail, ac i chwedl mor ffol; eto, fe wnaed, ac nid oes amheuaeth nad oedd llawer, yn mysg y werin anwybodus, mor hygoelus a chredu y chwedl; ac oddiar y grediniaeth yn ymosod yn ddiarbed ar y rhai a dybid yn euog. Mewn ffordd o amddiffyniad i'r camgyhuddedig, cafodd un gŵr boneddig yn y cymydogaethau hyn ar ei feddwl anfon ei syniadau i'r newyddiadur, gan wrthbrofi y chwedlau celwyddog ag oedd ar led; ac ardystio nad oedd gan goron Lloegr neb ffyddlonach iddi na'r crefyddwyr hyn; a'u bod yn barod, pan y gelwid arnynt, i gymeryd arfau dros eu brenin a'u gwlad. Bu yr amddiffyniad hwn yn foddion i wrthweithio y niwaid, ac i ddwyn llawer i feddwl yn dynerach am y bobl nag a wnaethent gynt.

Pan oedd pregethu yn dechreu yn mhentref Helygain, cymydogaeth ar bwys Treffynnon, darfu goruchwyliwr i bendefig gyflogi dyn o'r fall yn y gymydogaeth—dyn o gymeriad rhy annuwiol, i ddyfod i'r cyfarfod crefyddol i aflonyddu arno. Daeth i'r lle gyda hen badell ffrïo, gan ei churo yn egniol, fel na chlywid llais y pregethwr. Ond ni pharhaodd i erlid ond ychydig amser, oblegid cymerwyd yr adyn yn glâf cyn pen llawer o ddyddiau, a bu farw o glefyd poenus (a brwnt, meddir); gan ddolefain, dan fflangell cydwybod, "Gwae fi am waith y diwrnod hwnw." Parodd yr amgylchiad hwn fraw ar bawb yn yr ardal, ac yn enwedig ar erlidwyr crefydd. Nid llwyddiannus chwaith a fu y goruchwyliwr, gan y daeth i'r golwg, yn ebrwydd, ei fod yn euog o anghyfiawnder yn ei swydd; a diangodd ynteu ar ffrwst i America.

Pan oedd rhyw ŵr yn pregethu yn nhref Fflint gyda'r hwn yr oedd Josiah Redfern, daeth gŵr boneddig o'r gymydogaeth a cheisbwl gydag ef tuag at y gynulleidfa; yr hyn pan welodd y bobl, hwy a redasant ymaith yn llu. Daeth y gŵr mawr at y pregethwr, gan orchymyn i'r ceisbwl ei gymeryd a'i arwain ymaith; ac wrth Redfern y dywedodd, "Ni a fynwn eich cymeryd chwi i fyny, Redfern, a'ch carcharu, am godi terfysg yn mhlith y bobl." Ond pan ddangosodd y pregethwr ei drwydded iddo, efe a'i gollyngodd ymaith. Dygwyddodd hefyd i'r boneddwr hwn syrthio yn glaf yn fuan ar ol hyn a marw; a chan deimlo yn euog am y trais a wnaethai ar y pregethwr, efe a archodd yn

ei oriau olaf, ar i'r rhai oedd yn sefyll gerllaw, ddyweyd wrth ei geraint a'i gyfeillion, na wnaent ddim yn erbyn y bobl hyn, fel y gwnaethai efe; ac mai hyny oedd yn archolli ei feddwl fwyaf o ddim. Pa esboniad bynag a ddyry neb ar yr amgylchiadau crybwylledig, un peth sydd nad ellir ei wadu, ddarfod i ofn syrthio ar drigolion yr ardaloedd, ac i erlid a thrais leddfu tuag at y crefyddwyr i fesur mawr o hyny allan.

Peth arall a barodd i ddynion ofni dàl y gwrthwynebiad i fyny, oedd yr awdurdod a'r nerth a fyddai yn fynych yn coroni y weinidogaeth; fel y byddai y dynion mwyaf anystyriol yn syrthio i lawr mewn llewygfeydd o ofn; ac eraill, fel wedi eu pigo yn eu calonau, a lefent allan â'u holl nerth, a hyny gyda difrifwch ofnadwy, "Beth a wnawn ni?" fel pe buasai dydd y farn gerllaw. Wrth ganfod yr effeithiau rhyfeddol hyn ar rai, a chlywed eraill yn moliannu â llef gorfoledd, safai y lleill gerllaw mewn syndod a dychryn; heb wybod beth i wneyd, na pha le i fyned. Sonir yn neillduol am un tro pan oedd Robert Roberts, sir Gaernarfon, ar ei daith yn y wlad hon, fod y fath rymusderau yn cyd-gerdded â'i bregethau ag ydynt i ni ymron yn anghredadwy. Cynaliwyd cyfarfod Misol yn Llaneurgain yn y tymhor hwn, lle yr oedd Robert Roberts yn pregethu. Ni ddywedir dim nodedig am bregethau y cyfarfod, ond fel yr oedd y gŵr a enwyd, ynghydag amryw o bregethwyr a chyfeillion crefyddol, yn cyd-deithio o Laneurgain i Dreffynnon, ac yn ymddyddan â'u gilydd am bethau'r efengyl, disgynodd arnynt ysbryd canmawl ar hyd y ffordd; a phan oeddynt yn y wedd yma yn myned drwy Helygain, cododd y trigolion i'w drysau, i edrych beth oedd hyn? Dywedai rhai, "pobl wallgof ydynt,—y maent wedi ynfydu." "Nage," atebai Robert Roberts, "nid ydym yn ynfydu, ond pobl ydym wedi ein bywhau o feirw trwy y prynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu."

Y noson hono yr oedd ef yn pregethu yn Nhreffynnon, ar y gair hwn, "Myfi yw Gwreiddyn a Hiliogaeth Dafydd, a'r Seren foreu eglur." "Ac, Oh!" medd yr hysbysydd, "y nerth a gaulynai ei eiriau! Ni anghofir yr oedfa byth bythoedd!" Aeth y tŷ yn mhen y dref, bellach, yn rhy gyfyng; ac mewn canlyniad cynygiodd Ellis y *joiner*, yr ystafell arall, a'r grisiau cerig iddi.

Aelod oedd Josiah Redfern yn y Berthen-gron am flynyddau, yno hefyd y dewiswyd ef yn flaenor. Ganesid ef yn y fl. 1760, a thros flynyddau cyntaf ei oes bu fyw fel y rhan fwyaf o'i gyd-oeswyr, yn dra anystyriol a didduw. Daethai ar ei feddwl, pa fodd bynag, i fyned i wrando Mr. Jones, Penucha', yr hwn oedd newydd ddechreu pregethu, a'i gyhoeddiad ar y pryd i fod yn mhentref Helygain; bendithiwyd y bregeth iddo, o leiaf i arafu llawer ar ei gamrau gwylltion; ond llithrodd drachefn i'w hen arferion, a dilynwyd hyny eilwaith â'r fath ddychrynfeydd, nes oedd anobaith ymron yn ei feddiannu; pob cysur wedi ffoi; pob pleser wedi troi yn faich; y temtiwr yn gyhuddwr; ac o fewn ychydig i osod llaw ar ei einioes ei hun: yr oedd hyn yn y fl. 1784. Er hyny, pan ar ei liniau yn ceisio gweddio, daeth i'w feddwl y geiriau hyny "Pwy bynag a alwo ar enw yr Arglwydd cadwedig fydd;" ac er na wyddai

ar y pryd pa un ai eu bod yn y Beibl neu beidio, dysgleiriodd goleuni gobaith i'w feddwl; a'r un noson yr oedd Humphrey Owens yn pregethu yn Helygain, pryd y drylliwyd ei rwymau ac y gollyngwyd ei enaid i ryddid. Derbyniwyd ef yn aelod eglwysig yn fuan, a pharhaodd yn ffyddlawn gyda'r gwaith hyd ddiwedd ei oes. Bu farw yn 1832, yn 72 mlwydd oed.

Nid oedd un lle penodol fel addoldŷ yn Helygain hyd ar ol dechreu y ganrif bresenol. Yr oedd pregethu achlysurol wedi bod, ac wedi peidio hefyd, dros ryw gymaint o amser; a'r amgylchiad a arweiniodd i ail-gychwyn achos Methodistaidd yn y Pentref, ac i roddi gwedd sefydlog arno, ydoedd fel y canlyn. Yn y blynyddau 1804 hyd 1806, yr oedd gŵr o swydd Lancaster, o'r enw John Shaw; yn cadw ysgol ddyddiol yn Helygain; a thros ryw ychydig o amser, cadwai ysgol Sabbothol hefyd; gadawodd yr olaf heibio yn fuan, ac nid yw yn hysbys paham. Ond yn yr amser byr hwnw, yr oedd rhai dynion ieuainc wedi cael blas ar yr ysgol Sabbothol; ac ar ol ei cholli yn Helygain, ymofynasant am un yn rhyw le arall; a chlywsant fod un yn cael ei chadw yn Llaneurgain; pentref thua thair milldir o ffordd o Helygain. Yno, gan hyny, yr aethant; nid ar y Sabboth yn unig, ond hefyd ar nos Fawrth, gan y cedwid ysgol y noson hono hefyd. Pan ganfu Josiah Redfern yr awydd oedd yn y bobl ieuainc am ysgol Sabbothol, efe ynghyda dau o aelodau eglwys Llaneurgain, sef Benjamin Blackwell a Thomas Davies, a gymerasant le yn mhentref Helygain a elwid y "*Storehouse*;" lle y gellid cadw ysgol a chynal pregethu. Dyma fu cychwyniad sefydlog yr achos yn y lle hwn. Mae yma yn awr eglwys flodeuog, a chynulleidfa yn agos i 300 o rifedi yn arfer ymgasglu ar y Sabbothau i wrando "holl eiriau y fuchedd hon."

Yn y fl. 1808, symudodd y Parch. John Jones i Dreffynnon i fyw; y lle y cartrefodd o hyny allan, ysbaid dwy flynedd ar hugain; sef hyd yr amser y symudwyd ef i dŷ ei hir gartref. Yr oedd y gŵr hwn yn meddu ar gryn lawer o hynodion; un a fu yn hysbys iawn yn ei dymhor mewn Dê a Gogledd; ac un y coffheir hyd heddyw lawer o'i bregethau, a'i ffraeth eiriau; gweddus, gan hyny, ydyw peidio a myned heibio iddo ar grybwylliad yn unig. Ganesid ef yn Nghaergwrle yn y fl. 1763; ac felly mewn amser tywyll ac isel ar grefydd yn Nghymru yn gyffredinol; ac yn neillduol felly yn sir Fflint. Treuliodd John Jones flynyddau mebyd ac ieuenctyd, fel ei gydoeswyr, mewn oferedd; a than lawer o anfanteision. Rhoddwyd iddo ychydig o ddysg, llawn cymaint a phlant eraill o'i radd; a dysgwyd iddo y grefft o wehyddiaeth, crefft ag oedd yn ffynu yn fawr y pryd hwnw yn Nghymru. Trwy ddirfawr lafur ac ymdrech un gŵr, yr oedd rhai oedfaon yn cael eu cynal yn y pentref; a'i dad wedi ei ennill i wrando. Mynych y cymhellai efe ei fab i ddyfod gydag ef, ac y dywedai wrtho y canlyniadau arswydus oedd yn sicr o ddilyn bywyd pechadurus; effeithiai hyn arno nes ei ddwyn yn achlysurol i wrando, a thrwy hyny ddeffro gradd ar ei gydwybod; eto, mynu ei ffordd yr ydoedd, a thra aflywodraethus ac anfad yr ymddygai. Pa fodd bynag, daeth yr amser i ddofi y creadur anystyriol hwn; hyn a wnaed trwy offerynol-

deb Richard Tibbot o Lanbrynmair.* Bu dan argraffiadau dyfnion, a chafodd mai rhy galed ydoedd gwingo yn erbyn y symbylau; ac o'r diwedd ymostyngodd yn ddiddig i gymeryd arno iau y Cyfryngwr, ac i ddysgu ganddo; a chafodd fwynhau gorphwysdra i'w enaid archolledig, y fath na chawsai erioed o'r blaen. Yr oedd hyn y fl. 1787.

Ymunodd, bellach, o galon â'r crefyddwyr, ac yn mhen dwy flynedd ar ol yr amgylchiad crybwylledig, cychwynodd ar ei yrfa weinidogaethol, a hyny dan lawer o anfanteision a thlodi. Yr oedd ei gais at gael ei dderbyn i'r gwaith cyhoeddus wedi cael ei droi yn ol unwaith eisoes; ac yr oedd yntau ei hun wedi dyrysu un tro wrth gychwyn ar y gorchwyl. Yr oedd William Lewis o Fôn, yn cartrefu y pryd hwnw, tybygid, naill ai yn yr Adwy neu yn Ninbych, a chyda yr hen frawd hwnw yr aeth John Jones i gyfarfod misol a gynelid yn Mochdre', yn sir Ddinbych, gyda golwg ar ei dderbyniad i'r gwaith. "Wedi hyny," meddai ef ei hun, "ceisiais ddyweyd ychydig mewn lle a elwir Helygain, yn sir Fflint; ac ni safodd yr olwynion hyd heddyw." †

Yn y fl. 1804, symudodd o Gaergwrle i Laneurgain i fyw, ac yn mhen pedair blynedd, symudodd drachefn i Dreffynnon, fel y dywedwyd eisoes. Yr oedd John Jones yn meddu ar gryn lawer o hynodion. Yr oedd mesur helaeth o ddigrifwch yn ei dymher naturiol; ond yr oedd hono wedi ei dofi i raddau mawr gan adfyd y byd, ac wedi ei santeiddio gan ras Duw. Arferai lawer o gyffelybiaethau wrth bregethu, a brithai ei bregethau â ffraeth ymadroddion, y rhai weithiau a barent i'r gwrandawyr wenu; ïe, a derfynent ar ddigrifwch ac ysgafnder. Gwnai hyn, gan mor naturiol ydoedd hyn iddo, yn mron heb yn wybod iddo ei hun. Nid oes i ni feddwl, er hyn, ei fod un amser yn pregethu pethau disylwedd, nac yn amcanu at beri ysgafnder. Naws naturiol ei ddawn a'i dymher, a'i bradychai, heb wyliadwriaeth dyfal, i'r hyn na fwriadai. Teithiodd John Jones lawer ar y dywysogaeth, a bu yn llafurus a ffyddlawn iawn yn ei wlad ei hun. Nid oedd neb a'i hadwaenai yn dda, yn amheu ei onestrwydd; gosodai hyn iddo safle uchel yn mhlith ei frodyr, fel y gwrandewid ar ei gynghor, ac y teimlid yn ddwys oddiwrth ei ddylanwad.

Yr oedd Methodistiaeth yn isel ei wedd yn Nhreffynnon pan ddaeth Mr. John Jones iddi i breswylio, er fod yma gapel wedi ei godi yn y fl. 1802; ac nid ymddangosodd nemawr o lwyddiant arno dros rai blynyddau ar ol ei ddyfodiad; ond yn y fl. 1817, cafwyd ymweliad hyfryd;—tywynodd yr haul ar y fro wedi hir dywyllwch;—torodd gwanwyn cysurus, ar ol gauaf maith. Dynoethodd yr Arglwydd ei fraich a gwnaeth rymusderau. Rhoddodd hyn wedd arall yn fuan ar y gwaith wrth a fu; llanwyd y capel â gwrandawyr, a chwanegwyd llaweroedd at yr eglwys.

Yn y fl. 1820, neillduwyd John Jones i gyflawn waith y weinidogaeth.

* Gwel ei hanes, Cyf. I., tudal. 118. † Ysgrifenai hyn yn y fl. 1804, pan yn byw yn Nghaergwrle. Gwel y COFIANT am dano, gan John Hughes a W. Pierce.

Ar y pryd nid oedd y pregethwyr ordeiniedig yn y sir ond ychydig, a llawn bryd ydoedd chwanegu at eu rhif. Y rhai oedd eisoes yn gweinyddu bedydd a swper yr Arglwydd oeddynt y Peirch. John Humphreys a John Parry, Caerlleon, yn unig, wedi colli y Parch. Robert Ellis, Wyddgrug. Yr olaf a fu farw yn yr un mis ag yr ordeiniwyd John Jones.

Wedi bod yn ymgynull am lawer o flynyddau yn y capel cyntaf a godwyd, sef "*Mount Seion*," meddyliodd y brodyr yn y dref fod maint y gynulleidfa yn galw am helaethach lle i addoli; a phenderfynwyd, wedi ymbwyllo ac ymgynghori, ymofyn am le helaethach. Y canlyniad fu y capel presenol, "*Rehoboth*" wrth ei enw, lle yr ymgynull tua 800 o wrandawyr, a lle y perthyn o 150 i 200 o aelodau crefyddol. Gwnaed hwn yn y fl. 1826, ac yn mhen ychydig gyda thair blynedd ar ol ei agoriad, cymerodd ysbryd yr hen frawd ei aden, gan ddyweyd "Calfaria i fyw! Calfaria i farw!! Calfaria *for ever*!!!" Mae un gweinidog yn preswylio yn y dref yn awr, sef y Parch. Evan Lloyd.

Mae lluaws o gapelau wedi eu codi, a chynulleidfaoedd wedi ymgasglu yn y wlad o amgylch Treffynnon; am y rhai ni ellir traethu bob yn un ac un. O fewn dwy filldir i'r dref y mae yr un a elwir "CARMEL;" yn nghymydogaeth y lle a elwid y "*Golch*," lle y bu William Davies yn byw; a'r lle yn benaf y cychwynodd Methodistiaeth yr ardaloedd hyn o hono. Ychydig i'r Dê o'r ardal hon y mae lle newyddach, sef "SARON," yr hwn sydd mewn cysylltiad â Threffynnon.

Tua thair milldir i'r gogledd-ddwyrain o'r dref y saif "CAPEL LLANERCH-Y-MOR;" ac ychydig yn mhellach, "CAPEL HEOL MOSTYN;" ac yn ddiweddar codwyd un arall mewn ardal o'r enw "FFYNNON-GROYW. Dylid sylwi mai diweddar mewn cydmhariaeth ydyw yr achos yn yr holl fanau hyn; ac ar yr un pryd, nid oes ond ychydig o'r cymydogaethau hyn na fu yr hen bobl yn ceisio cyhoeddi y "newyddion da" i'r trigolion, yn mhell cyn cael un achos sefydlog ynddynt, a hyny dan lawer o warth; ac weithian yn wyneb enbydrwydd a cholled. Sonir am waith William Davies yn ceisio pregethu wrth y "Lletŷ," tŷ tafarn wrth làn y môr, yn Mostyn; ac yn cael ei luchio ag wyau gorllyd, ac â thywyrch. Cafodd ei luchio yn yr un modd yn Heol Mostyn; ac mewn lle arall ger palas y "*Downing*." Mae hanes fod y Parch. Robert Roberts, Llanelwy, y pryd hwnw, ond Rhosllanerchrugog drachefn, yn pregethu ar groes-ffordd heol fawr, Llanasa; ac yn cadw cyfarfod eglwysig ar ol y bregeth, a hyny yn yr awyr agored. Tro arall, yr oedd yn cychwyn pregethu gerllaw un tŷ ffarm, wrth Llanasa; a bu raid iddo symud, at dŷ arall, rhag ofn y boneddigion, y rhai a ddysgwylid y ffordd hono wrth ddychwelyd adref o wasanaeth y llan. Pan ddeallodd rhyw ddyn cryf ymladdgar, yr hwn oedd yn hanner meddw, mai ofn a barai iddynt gilio oddiwrth un tŷ at y llall, efe a waeddodd ar y pregethwr, "Dewch yma, a mi a fynaf chwareu teg i chwi; ac myn d——l, mi *strapia* i bob un a wneiff niweid i chwi."

FFYNNON-GROYW. Dywedasom mai diweddar ydyw Methodistiaeth yn yr ardal hon. Y mae yn hynod fod ardal o'r fath wedi ei gadael cyhyd heb fod

un enwad crefyddol wedi gwneyd dim egni, am a wyddom, i ddwyn yr efengyl a'r trigolion i gyfarfod eu gilydd. Yn hyn yr oedd y llecyn hwn o sir Fflint yn hynod, sef ei fod yn amddifad o ysgol Sabbothol, ac o bregethiad yr efengyl, hyd ar ol y fl. 1848. Yr oedd pregethu yn y Berthen er ys can' mlynedd, ac nid yw y lle hwnw ond tuag wyth milldir o'r lle hwn. Yr oedd pregethu hefyd er ys blynyddau lawer yn Mostyn, Llanerch-y-mor, Gronant, a Phrestatyn, lleoedd ar bwys yr ardal hon; eto, yr oedd hon wedi ei gadael. Yn y fl. 1848, pa fodd bynag, cafodd rhyw rai yn Mostyn, ar eu meddyliau wneuthur cais ar agor ysgol Sabbothol; a chawsant brofion ebrwydd iawn o ddirfawr dywyllwch y trigolion; a phrofion eglur hefyd, fod drws mawr a grymus wedi ei agor iddynt, i lesâu y bobl ymddifaid hyn. Buont dros dair blynedd yn llafurio mewn ystafell gyfyng ac isel, a chan y lluaws a ddeuai iddi, prin y medrai y bobl anadlu ynddi. Cafwyd oedfaon lled fynych i'r lle, ac ymddangosai arwyddion diymwad yn fuan fod yr addysg a gyfrenid yn yr ysgol, a thrwy y weinidogaeth, yn effeithio yn iachusol ar lawer o'r trigolion.

Wrth brofi y fath amlygiadau cysurus, teimlodd y brodyr yn dra awyddus i gael achos sefydlog yn y lle, trwy gael addoldŷ yn yr ardal. Ond i hyn yr oedd anhawsder mawr ar y ffordd; anhawsder i gael tir; ac ar ol ei gael, yr oedd anhawsder cael arian i adeiladu. Yr oedd llawer o'r tir yn yr ardal yn perthyn i foneddwr o babydd, gan yr hwn yr oedd offeiriad o gaplan, yr hwn oedd yn byw yn agos i'r lle. Nid oedd pobl yr ardal ond tlodion, ac yn neillduol felly y rhai a ymdyrent yn awr i wrando. Nid oedd trysor y Gymdeithas Genadol Gartrefol yn alluog i roddi nemawr o gynorthwy; ac hefyd, rhaid oedd sefyll at y ddeddf a sefydlasid yn Ngwynedd, y bydd raid i'r capelydd newyddion a godid o hyny allan fod yn ddiddyled ar ddydd eu hagoriad; oddieithr cael caniatâd penodol y Gymdeithasfa i'r gwrthwyneb, dan ryw amgylchiadau anghyffredin. Yr oedd yr anhawsderau yn fawrion i gael addoldŷ yn Ffynnon-groyw; ond yr oedd y cymhelliadau i'w geisio yn fawrion hefyd. Ymosodwyd, gan hyny, at y gorchwyl o gasglu ato. Gosodwyd yr achos o flaen y Gymdeithasfa, gan y genad anfonedig i Lanidloes i'r dyben, sef Mr. T. G. Jones, Mostyn, a chafodd addewid am £150; daeth yr un gŵr drachefn i Liverpool, a chafodd yma £80, mwy neu lai. Y symiau hyn gyda chyfroddion cyfeillion eraill, yn ngwahanol barthau o'r wlad, a ddygodd yr adeilad i ben. Mae yma, bellach, gapel ac ysgoldŷ hefyd; cynulleidfa luosog yn gwrando, a chymdeithas eglwysig wedi ei chrynhoi.

Ysgrifena gŵr ataf am y lle hwn yn ychwanegol—"Yn mis Gorphenaf, 1848, aethum trwy yr ardal hon, a gresynais, wrth ganfod agwedd y trigolion ar ddydd yr Arglwydd. Gwelais fod yr hen a'r ieuainc yn ymollwng i chwereu, gorweddian, a rhedeg ar lân y môr. Nid oedd neb yn meddwl am ei enaid, nac yn ymbarotoi erbyn byd a ddaw. A pha ryfedd? Nid oedd yn y fro yr un lle o addoliad gan enwad yn y byd, nac un eglwys blwyfol yn nes na dwy filldir o ffordd. Nid oedd chwaith yr un ysgol Sabbothol, nac yr un erioed wedi bod, er fod dros 400 o eneidiau yn byw o fewn milldir i'w

gilydd. Yn y flwyddyn uchod, agorwyd yr ysgol Sabbothol gyntaf yno, a hyny gan nifer o frodyr perthynol i gynulleidfa Heol Mostyn. Cadwyd hi mewn dwy *cellar* dywyll, gan na ellid cael eu gwell. Daeth iddi 83 o ddeiliaid y Sabboth cyntaf, ac o honynt yr oedd 67 wedi tyfu i fyny; a'r cwbl heb fedru gair ar lyfr. Cyn hir cynyddodd y deiliaid nes cyrhaedd o saith i naw ugain o rifedi. Cafwyd pregethu hefyd lled gyson i'r lle ar y Sabbothau, a a chyfarfodydd i weddio. Yr oedd y ddwy *cellar* bellach yn rhy gyfyng i'r ysgol ac i'r oedfaon, a chaed arwyddion tra boddhaol fod y gwirionedd yn cario ei effaith briodol ar feddyliau amryw o'r bobl. Rhoddent brawf o effeithioldeb y gair yn y dagrau a dywalltent, ac yn y pechodau a adawent. Yn mhen llai na 12 mis o'r amser y cychwynwyd y gwaith, caed yr hyfrydwch, a hyfrydwch mawr ydoedd, o dderbyn 19 o aelodau ar yr un waith at fwrdd yr Arglwydd."

Yr ydym eisoes wedi crybwyll am y modd y caed capel i'r ardal amddifad hon; a da genym chwanegu fod yn gysylltiedig ag ef dŷ a stabl, ynghydag ysgol, a'r cwbl yn ddiddyled, oddieithr ychydig o bunnoedd ar y tŷ yn unig. Yr oedd y draul oll dros £600; agorwyd y capel yn fl. 1852. Mae yma bellach eglwys siriol o 50 o aelodau, a thua 160 o ddeiliaid yn yr ysgol Sabbothol. Mae y gynulleidfa hefyd yn lluosog a chyson, ac fe ymddengys diwygiad amlwg a chyffredinol yn moesau y trigolion.

Yn yr ysgogiad uchod dylid crybwyll eto y bu llafur ac ymdrech Mr. T. G. Jones yn dra nodedig. Bu oddi cartref ar yr achos, medd yr hanes yn y "Drysorfa," 128 o ddyddiau, ar adeg drwm ar y flwyddyn, ac ynteu mewn gwth o oedran: teithiod 3152 o filldiroedd; ysgrifenodd 2,076 o lythyrau, a derbyniodd 690 yn atebion; gwnaeth hyn hefyd ar ei draul ei hun. Gwnaeth y gymydogaeth gydnabyddiaeth gyhoeddus, o'i ddirfawr lafur, trwy ei anrhegu. mewn cyfarfod priodol â Beibl hardd, yn goffawdwriaeth o'r teimlad diolchgar a charedig a fynwesid tuag ato, ac o'r gwerth a osodid ar ei ymdrechion.

Mae ardal arall, yn yr un plwyf, ac o fewn dwy filldir iddi, lle y mae tua 500 o drigolion o fewn milldir o gylch, sef "GWESPYR," yr hon oedd hyd o fewn ychydig yn ol, yn gwbl yn yr un agwedd a Ffynnon-groyw. Er ys blwyddyn neu ddwy, pa fodd bynag, y mae cyffelyb gais at ddiwyllio cyflwr y preswylwyr wedi ei wneuthur. Mae yma yn awr ysgol Sabbothol wedi ei sefydlu, a thua 130 o ddeiliaid ynddi; nid yn aml chwaith y mae yr ardal heb bregethu ynddi ar y Sabbothau.

Yr oedd yr ardaloedd hyn, trwy ryw amryfusedd, neu esgeulusdra, neu ynte trwy orfod, wedi eu gadael yn hollol gan bob enwad crefyddol hyd yn ddiweddar. Pwy all ddyweyd yn amgen, na fydd yr ymweliad a wnaed â'r cymydogaethau ymddifaid hyn o werth dirfawr iddynt, trwy fod moddion achubiaeth dynion, bellach, wedi eu dwyn i gysylltiad â'r preswylwyr; ïe, na fydd yr ysgogiad a wnaed yn effeithio, nid yn unig, ar y trigolion presenol, ond ar genedlaethau pellaf amser, gan nad yn fynych y mae'r efengyl, wedi unwaith ymsefydlu mewn lle, yn arfer cilio yn ebrwydd o hono.

PENNOD XIII.

PARHAD O HANES EGLWYSI Y METHODISTIAID YN SIROEDD DINBYCH A FFLINT.

CYNWYSIAD:—

PEN-Y-FELIN, PLWYF NANERCH—FFYDDLONDEB HEN WREIGAN—AFLONYDDU YR OEDFA GYNTAF—THOMAS EDWARDS, LIVERPOOL, A MR. JONES, PEN-UCHA', YN PREGETHU—THOMAS Y TYDDYNWR A'I FEISTR TIR—DECHREU YR YSGOL SABBOTHOL YN YSGUBOR-NEWYDD—MOSTYN—BAGILLT—LLANERCH-Y-MOR—PATRICK Y GWYDDEL—GRONANT.

PEN-Y-FELIN.

Mae y lle hwn yn gorwedd rhwng Cilcain a Chaerwys, yn agos i hanner y ffordd. Nid yw yr ardal ond gwledig; a'r trigolion, wrth eu cymharu â llawer man, ond anaml; nid yw yr achos crefyddol yn y lle hwn, chwaith, ond diweddar; eto, gan fod rhai amgylchiadau tra hynod yn gysylltiedig â chychwyniad Methodistiaeth yn yr ardal, teilwng ydyw eu gosod o flaen y darllenydd, a'u croniclo i genedlaethau dyfodol.

Er fod yr ardal hon o fewn dwy neu dair milldir i'r Berthen-gron, ac i Gaerwys mewn cyfeiriad arall; eto, nid oedd crefydd, fel y dywedwyd, wedi cael lle i roddi ei throed i lawr ynddi hyd y ganrif bresenol. Y mae yn fwy diweddar na'r Berthen o hanner can' mlynedd, er ei bod yn ei chyffiniau. Ymddengys nad oedd neb yn proffesu crefydd yn yr ardal yn y fl. 1797, ond un hen wraig. Yr oedd hi mewn undeb â'r ganghen eglwys yn y Berthen-gron; ond er mai unigol ydoedd, yr oedd yn un hynod. Yr oedd ei hanfanteision yn fawrion iawn; nid oedd neb yn ei theulu nac yn ei chwmwd a roddai iddi gefnogaeth na chyfarwyddyd. Nid ydym yn cael sicrwydd a fedrai hi ddarllen, ac yr oedd moddion gras rai milldiroedd oddiwrthi ar bob llaw. Yr oedd iddi filldiroedd i'r Berthen, i Gaerwys, ac i Gilcain, sef y cynulleidfaoedd nesaf ati. Heblaw hyn oll, yr oedd ei gŵr yn greulawn a chas wrthi; mynych iawn y gwelid y wreigan ddiniweid dan ei chlesiau, trwy ei waith ef yn ei churo a'i baeddu. Dyoddefai y cwbl oddiwrtho yn ddystaw; a phan y gofynid iddi pa fodd y gallai hi fod mor ddyoddefus, dywedai, "Y mae yn gweddu i mi fod, gan mai fi a dynodd y cleddyf i'm tŷ. Mi a gefnais ar achos Duw i briodi Thomas, ac yn awr Duw a'm gosododd i falu yn y carchardŷ am fy mai;" a malu y bu hi druan, i raddau, dros ei hoes.

Er hyn oll, yr oedd yn amlwg i bawb fod puredd wedi ei osod ynddi. Torai ei chariad at yr Iesu allan weithiau mewn dagrau hidl, ac weithiau mewn llef gorfoledd. Yr oedd y mwynhad a deimlai yn y moddion yn cyfateb i'r anhawsder o'u cael. Talai yr Arglwydd iddi megys yn ddau ddyblyg am ei holl dristwch. Yr oedd wedi adnabod cymhwysder trefn iachawdwriaeth iddi hi, ac wedi ei dysgu i dynu dwfr yn ehelaeth o'i ffynnonau. Teimlai

resyni mawr dros ei gŵr a thros drigolion ei hardal, am eu bod yn gorwedd yn dawel a digyffro yn nghyflwr natur, gan roddi y ffrwyn yn ddiwarafun i dueddiadau llygredig y galon; a gwynfydai yn dufewnol na buasai yn bosibl cael gweinidogaeth yr efengyl a hwythau at eu gilydd. Esgorodd y dymuniad hwn ar lawer cais; ac esgorodd y cais, o'r diwedd, ar lwyddiant. Nid oedd y llwyddiant, ar yr un pryd, ond bychan; dim mwy na chael ambell bregeth ar fin y ffordd yn rhyw le yn yr ardal; eto, ni chawsid hyny oni bae hi. Ac er lleied oedd hyny, eto parodd gyffro yn ngwersyll y gwrthwynebwyr. Hyd yn hyn yr oedd y trigolion yn ymffrostio fod plwyf Nanerch yn lân oddiwrth yr ysgelerder; os oedd plwyfau Caerwys, Ysgeifiog, a Chilcain, wedi eu llychwino, fod Nanerch yn lân. A glân y penderfynent iddo gael bod i barhau. Yr oedd cryn nerth hefyd o'r ochr hono; yr holl blwyf yn gyfan ymron, yn foneddig a gwreng; ac nid oedd neb o'r ochr arall ond un hen wraig. Pan glybu y plwyfolion, gan hyny, fod oedfa i'w dysgwyl, ymgynghorasant yn y fan i lethu yr amcan, heb amheu dim nad oeddynt yn ddigon galluog i wneyd hyny.

Cynaliwyd yr oedfa, y gyntaf erioed, am ddim a wyddys yn amgen, yn llan Nanerch, allan ar yr heol. Anfonodd yr offeiriad ryw ddyhiryn i'r oedfa a chanddo badell ffrio i'w thincian, gan fwriadu boddi llais y pregethwr drwy hyny A llwyddasai yn ddiau i wneyd hyny oni bae ei luddias; a rhyfedd y modd y'i lluddiwyd. Gŵr dibroffes ac annuwiol o'r gymydogaeth, pan welodd fod yr oedfa yn debyg o gael ei rhwystro, a gynhyrfwyd i amddiffyn y pregethwr, ac i roddi chwareu teg i'r bobl i wrando. Gwaeddodd hwn ar y llall i beidio â'i swn, onide y byddai yn edifar iddo. Ond ni chymerai y trystiwr arno ei glywed, gan barhau i dincian ei badell â'i holl egni. Ar hyn rhuthrodd y llall iddo; a chan ei fod yn ddyn cryf a nerthol, efe a lusgodd yr aflonyddwr a'i dympan fel cerpyn trwy lyn o ddwfr ag oedd gerllaw; a bygythiai gosbedigaeth fwy arno oni fyddai yn llonydd. Llonyddwch, gan hyny, a gafwyd, o hyny hyd ddiwedd y bregeth; a dywedir i lawer dderbyn lleshad tragwyddol yn yr oedfa hon. Yr oedd Mr. Josiah Hughes, Plas-nanerch, yr hwn wedi hyn, dros lawer o flynyddau, a fu yn swyddog i eglwys Pen-y-felin, yn yr oedfa hon.

Yn y fl. 1803, cafwyd oedfa arall. Cynaliwyd hon mewn cerbyd-dŷ *(coach-house)* yn y pentref; a Mr. Thomas Edwards o Liverpool, oedd y pregethwr. Yr oedd bwriad wedi ei ffurfio i aflonyddu a dyrysu yr oedfa hon. Ond yr Arglwydd a wisgodd y weinidogaeth â nerth ac awdurdod, nes i'r gelynion lwyr golli ei grym, a methu a chael eu dwylaw. Ac nid diffrwytho dwylaw yr erlidwyr oedd yr unig effaith a gafodd y gair, ond cafodd rhai dynion tra annuwiol eu dychwelyd at Dduw.

Tua'r un flwyddyn daeth Mr. Jones, Pen-ucha', yr hwn, ar y pryd, oedd yn byw yn y Wyddgrug, i gadw oedfa i'r ardal. Safodd ar fin y ffordd yn agos i dŷ yr hen wraig grybwylledig; ond ar ganol yr oedfa, wedi deall fod rhyw gynulliad o bobl yn y lle, daeth boneddwr o'r gymydogaeth, ar ei geffyl

yno i ymofŷn beth oedd yn myn'd yn mlaen. Pan gyrhaeddodd at y gynulleidfa, rhoes Mr. Jones heibio bregethu, gan annog y bobl i gilio, fel ag i roddi lle i'r boneddwr fyned heibio. Ond y boneddwr a safodd hefyd a gofynodd beth oedd hyn? Atebodd Mr. Jones ef yn foneddigaidd, gan ddatgan nad oedd yno ddim mwy na'i fod ef yn ceisio rhoi gair o gynghor i'w gyd-bechaduriaid yn nghylch mater eu heneidiau.

"*Dear me, dear me,*" ebe y boneddwr, ar gryn ffrwst, "nid oes amheuaeth, pe deuai y Ffrancod i'r wlad, na fyddai y bobl hyn yn barod i ymuno â hwy;" ac i ffordd ag ef ar frys at y gŵr boneddig a biodd y tir; sef y tir a drinid gan ŵr yr hen wraig grefyddol, gan achwyn yn dost fod y fath gyfarfodydd peryglus yn cael eu goddef; ac erchi ar eu bod yn cael eu rhoddi i lawr gyda phob brys. Ar hyn anfonodd perchen y tir ei oruchwyliwr at y tyddynwr i'w rybuddio. Y goruchwyliwr a ddaeth yr un prydnawn, a chyrhaeddodd y tŷ gan dyngu, rhegu, a bloeddio yn groch, "Be' dd——l ydi' hyn wyt ti wedi 'neyd, Twm? sef cynwys y bobl yma o gwmpas y tŷ i ddychrynu pobl? Mae fy meistr yn penderfynu y bydd raid i ti ymadael o'r achos. Gwell i ti fyn'd ato i ofyn pardwn gynta' gelli." Aeth Thomas at y boneddwr, a chafodd faddeuant yn bur rhwydd ar yr amod iddo beidio caniatâu y fath beth drachefn.

Yr oedd yr oedfa, er hyny, wedi cario ei heffeithiau; llawer a gawsant les ynddi, a dymunasant yn daer ar iddynt gael un arall. Tra yr oedd y boneddwr yn penderfynu llnddias cadw dim yn ychwaneg o oedfaon, yr oedd y bobl yn dechreu dyheu am eu cael; ac ar eu taerni, addawyd oedfa arall y Sabboth canlynol, pryd y dysgwylid gŵr dyeithr o'r Deheudir i'r lle. Y Sabboth a ddaeth, y pregethwr hefyd a'r gynulleidfa a gyfarfuant, ond gair a ddaeth oddiwrth Thomas na chaent ddyfod yn agos i'w dŷ ef; y collai ei dyddyn os caniatâi ef iddynt; nid oedd dim bellach i'w wneuthur ond ymofyn am le arall. Aed i waered at yr afon oedd yn agos, ac erbyn dyfod yno yr oeddid mewn penbleth, am nad oedd yno le i'r pregethwr sefyll, fel ag i fod ychydig yn uwch na'r bobl. Rhedodd rhyw un at Thomas i ymofyn benthyg 'stôl neu gadair i'r pregethwr sefyll arni, "Na ro'i yn wir," meddai Thomas, "onide, mi gollai i fy lle." Nacaodd amryw eraill, gan ofn y gŵr boneddig. Ond pan welodd Thomas fod pawb yn nacâu, gwaeddodd ar un Robert Edwards, "Rhed i'n tŷ ni i ymofyn cadair, gan fod pawb yn gwrthod, mi rof fi fenthyg un, doed a ddelo."

Achwynwyd drachefn ar Thomas; ei fod ef wedi rhoddi benthyg cadair i'r pregthwr sefyll arni, ar ol i bawb nacâu. Trosedd trwm oedd hwn, yn enwedig gan ei fod dan amod eisoes na roddai un wyneb na swcr i'r penaucryniaid; am hyny, cafodd rybudd ysgrifenedig, i ymadael â'i dir. Aeth at y boneddwr i ofyn am ba achos y rhoddwyd y rhybudd iddo, a chafodd wybod, mai ei drosedd oedd llochi y crefyddwyr o gwmpas ei dŷ. "Begio'ch pardwn, meistr," ebe Thomas, "nid ydynt yn gwneyd drwg yn y byd; gobeithio na throwch ch'i monof i ffwrdd am hyn."

"Ni waeth i ti heb siarad Twm," meddai y gŵr mawr, "i ffwrdd y bydd raid i ti fyn'd yn ddios."

"Wel," ebe Twm, "os rhaid ymadael, rhaid yw;—ond myn di—l, mi âf adref y mynyd yma, ac a laddaf Betti; hi ydyw gwraidd y drwg;"—gan edrych yn gyffrous a ffyrnig iawn: a chiliodd ar ffrwst o olwg y boneddwr.

Gŵr tyner ei deimlad oedd y gŵr boneddig, a gwyddai yn dda am naws greulon ei dyddynwr ar ol ei gyffroi; parodd hyn iddo ofni y gwaethaf i'r wraig, ac mewn braw mawr, rhag iddi gael ei lladd o'i achos ef, anfonodd y goruchwyliwr ar ol Thomas, i erchi arno er mwyn pob daioni i beidio a *mwrdro* Betti—am iddo losgi y rhybudd a gawsai, ac y cai e' aros yn ei dir. Y gwir oedd, nid oedd Thomas ddim yn meddwl lladd y wraig, ond oddiar adnabyddiaeth o dynerwch y gŵr boneddig, y defnyddiodd mewn dull ystrywgar, y fath eiriau mawr a chethin.

Yr oedd y weinidogaeth er pob ymosodiad yn gweithio ei ffordd. Yr oedd rhyw rai yn mhob un o'r oedfaon crybwylliedig yn cael eu hennill i feddwl yn dynerach am y crefyddwyr;—i brofi mwy o flas ar yr efengyl; a rhai i'w chofleidio â'u holl galon. Ar yr un pryd nid oedd yn y plwyf ddim cais eto wedi ei wneyd i gael achos sefydlog ynddo. Yr ysgogiad cyntaf a wnaed at hyn oedd codi ysgol Sabbothol mewn lle a elwir "Yr Ysgubor Newydd," trwy ymdrech Robert Roberts, Nant-y-cwm, a William Owen. Yr oedd hyn tua'r fl. 1806, a mawr yr effeithiau daionus a ganlynodd y sefydliad ar y wlad hon; dygwyd llawer o ddynion anystyriol, hen ac ieuainc, i feddwl yn ddifrifol am eu heneidiau. Tra y bu yr ysgol yn yr Ysgubor Newydd, bu Edward Williams, gynt o Gilcain, yn pregethu ar fiu y ffordd gerllaw, pryd yr anfonodd yr offeiriad geisbwl i'r lle, i roddi ar lawr enw y pregethwr, ac enwau y rhai a flaenorent yn yr achos; ond yr oedd y fath arddeliad a nerth yn cyd-gerdded â'r weinidogaeth, fel yr anghofiodd y ceisbwl ei neges; a dychwelodd adref heb wneuthur dim. Hwn fu y cais olaf i aflonyddu a dyrysu y pregethu. Teg ydyw dyweyd, mai mewn amryfusedd y gwnaeth y boneddigion yr hyn a wnaethant. Wedi iddynt ddod i ddeall mwy am y crefyddwyr, eu cais a'u hegwyddorion, dangosasant bob caredigrwydd, a rhoddasant i'w gweision a'u morwynion hob rhyddid. Nid oes amheuaeth nad oeddynt hwy yn gweithredu gynt oddiar gredu y chwedlau a ddygid iddynt gan ddynion prysur a thwyllodrus; ac mai y rhai hyny, er nad oeddynt yn y golwg, oeddynt mewn gwirionedd fwyaf eu pechod.

Daeth yr amser y bu raid ymadael â'r Ysgubor, fel y gellid ei chael at ddybenion eraill; ond yr oedd y prawf a gaed o'r ysgol wedi parotoi meddyliau pawb i fynu lle arall i'w chadw, yn hytrach na'i gollwng i lawr. Gan hyny symudwyd hi o dŷ i dŷ hyd y fl. 1814, pryd y cymerwyd tŷ anedd i'w chadw yn sefydlog. Yn y fl. 1830, adeiladwyd yma gapel, wedi bod yn hir yn methu cael lle. Ac er nad yw y gymdeithas eglwysig ond bechan, eto y mae yma ddaioni lawer wedi ei dderbyn, a pheth daioni wedi ei wneyd.

MOSTYN.

Gelwir y lle y mae y capel yn sefyll ynddo yn Hewl, neu Hewl Fostyn. Oddeutu y fl. 1790, y cawn fod ychydig ysgogiad wedi ei wneuthur tuag at ddwyn Methodistiaeth i'r ardal hon, er y bu yr ardal am fwy nag 20 mlynedd wedi hyny, heb ddim achos arhosol ynddi. Yn y flwyddyn uchod, dywedir y byddai William Davies o'r Golch yn ymweled yn achlysurol â'r lle, ac yn cadw ambell oedfa wrth dŷ tafarn ar làn y môr, o'r enw Llettŷ; ac hefyd o dan bren derwen yn Hewl Fostyn; ac weithiau wrth odyn galch, yn ymyl palas y "*Downing*." Wylodd yr hen bregethwr lawer uwch ben ei wrandawyr yn y lleoedd hyn, gan ddyweyd yn fynych, "Y nefoedd anwyl a'ch achubo chwi bob yr un." Wrth son am yr Arglwydd Iesu, torai allan yn dra aml, i dyweyd, "Coronau filoedd a f'o ar ei ben bendigedig!" Yr oedd diniweidrwydd a difrifwch yr hen bregethwr hwn mor hynod fel y gallesid dysgwyl y cawsai, nid llonyddwch yn unig, ond croesawiad diolchgar hefyd, gan y gwrandawyr yr eiddigeddai gymaint drostynt; ond yn lle hyny, llawer gwaith y lluchiwyd ef â thywyrch ac â wyau gorllyd yn y tri lle a nodwyd. Ond er y driniaeth annynol a dderbyniai, nid llai oedd ei awydd ef i wneuthur daioni iddynt hwy.

Tua'r fl. 1793, cafwyd caniatâd i ddefnyddio llofft tŷ tafarn dan arwydd "*y Swan*." Defnyddid y llofft hon yn eu tro gan yr holl enwadau, Bed. yddwyr, Annibynwyr a Methodistiaid; eto, rhyngddynt oll ni fyddai nemawr fwy na phedair neu bump oedfa ynddi yn ystod blwyddyn. Un tro daeth John Jones, Caergwrle, i bregethu i'r llofft hon, ar y gŵylmabsant a gynelid yn yr ardal. Yr oedd y tŷ tafarn yn llawn o ddynion; llawer o honynt yn fwy na hanner meddwon. Yr oedd haid arall o gyffelyb rai, pob un a'i bibell yn ei ben, yn mygu ac yn siarad ar feinciau, wedi eu gosod allan ar y buarth, ac yn yr ardd. I'r llofft i ganol y tylwyth yma, yr aeth John Jones, ac yn eu mysg yr oedd hen grythor *(fiddler)* a'i wraig. Gwahoddai y crythor y pregethwr i ddod yn mlaen; "Dewch yma, ŵr da—yr ydych chwi yn myn'd i roi gair o gynghor i ni; ni a roddwn ein taclau heibio—cymerwch lymaid." Diolchodd John Jones iddo, ac yfodd lymaid o'i law. Yr oedd yn yr ystafell hon bob math o ddynion, yr hyn a barodd i'r pregethwr dori allan a dyweyd, "Ni welais i ystafell o fath hon erioed,—y mae yn derbyn iddi bob math o *stragglers*." Cnd er mor anhywaith y gwrandawyr, fe welwyd llawer o honynt yn wylo fel y gwlaw, er eu bod yn hanner meddwon ar y pryd, wrth wrando bygythion y ddeddf, ac yn enwedig, newyddion da'r efengyl.

Tu'r un amser hefyd, a hyd y fl. 1800, fe gedwid ambell oedfa yn nhŷ Catherine Randle, Trefostyn, ac ar ol hyny yn llofft William Roberts. Nid oedd y gŵr hwn yn medru darllen, ac wrth wrando pregeth o eiddo Mr. Robert Roberts, Llanelwy, ar y gair, "Chwiliwch yr ysgrythyrau," fe deimlodd i'r byw ei anfedrusrwydd; a chan rym ei deimlad tywalltai ddagrau yn hidl a syrthiai i lewyg. Dan y teimlad hwn penderfynodd fyny ysgol Sab-

bothol i lofft ei dŷ y Sabbath canlynol. Bu y gŵr hwn yn aelod hardd o'r eglwys tra fu byw, am yr ysbaid maith o 54 o flynyddau. Dangosodd ef a'i deulu lawer o garedigrwydd a ffyddlondeb i'r gwaith da, mewn diwydrwydd cyson gyda'r moddion, ac mewn haelioni at gynaliad yr achos.

Tua'r fl. 1813, daeth Mr. T. Andrew a'i deulu i fyw i'r gymydogaeth; a bu pregethu ac ysgol Sabbothol yn mharlawr ei dŷ ef dros ryw dymhor, sef hyd y fl. 1824; pryd yr adeiladwyd y capel presenol yn y lle. Mae yma bellach gynulleidfa dda, 200 o rifeddi; ysgol Sabbothol o 172; a chymdeithas eglwysig oddeutu 80. Mae yma bregethwr yn awr yn byw yn y lle, yr hwn sydd yn orŵyr i'r hen William Davies y Golch, ei enw yw Thomas Davies. Mae yr achos yn yr ardal hon yn dra dyledus hefyd er ys llawer o flynyddau i ofal ac ymdrechion y gŵr y crybwyllasom ei enw lawer gwaith eisoes, sef Mr Thomas Glynne Jones.

BAGILLT.

Cymydogaeth boblog ydyw Bagillt, tua dwy filldir o Dreffynnon ar y ffordd i Fflint. Cymydogaeth lawn o gloddfeydd glo ydyw, a gweithfaoedd toddi o wahanol fath. Yr oedd trigolion Bagillt yn nodedig yn mysg pechaduriaid mawrion swydd Fflint. Dechreuodd y Methodistiaid ymosod ar yr ardal hon, yn fuan ar ol dechreu y ganrif bresenol. Y lle cyntaf y cynaliwyd moddion crefyddol ynddo, gyda dim cysondeb, oedd mewn ystabl yn y pentref isaf; symudwyd wedi hyny i dŷ gŵr o'r enw Hugh Jones, yn ymyl tafarndŷ y 'Bedol,' tua'r fl. 1808. Digon i gynwys tua 24 o bersonau oedd y tŷ. Bu yr achos yn y lle hwn am dair neu bedair blynedd. Pan aeth y ty yn rhy fychan i'r gynulleidfa, cymerwyd hen adeilad a fuasai gynt yn *bobtŷ calomel;* nid llofft bragdŷ, fel y tybiodd rhai. Gwnaed yr adeilad hon yn gyfleus i addoli, a thalwyd y draul gan yr ychydig grefyddwyr y lle; gyda chynorthwy cyfeillion Treffynnon. Dau o aelodau eglwysig oedd yn y lle cyntaf a enwyd, a phump yn yr ail. Nid oedd yma, fel y gwelwn, ond y gwendid a'r eiddilwch; ac anhawdd, ar y pryd, a fuasai dyfalu, pa un ai diffodd yn llwyr a wnaethai yr achos, ai ynte myned rhagddo. I gynorthwyo yr ychydig aelodau yn y lle, i gynal moddion, deuai rhai cyfeillion o ardaloedd eraill; Edward Williams, canwyllwr, Fflint; Josiah Redfern, Helygain; a William Jones, Rhosesmor. Cafwyd llawer oedfa wlithog yn nhŷ Hugh Jones, cyn cael yr ystafell grybwylledig; cymaint felly a bod llestri y cyfeillion yn fynych yn rhedeg drosodd.

Nid oedd yma eto yr un gymdeithas eglwysig wedi ei ffurfio, a'r ychydig aelodau a breswylient yr ardal, a ystyrid yn perthyn i eglwys Treffynnon; yno hefyd y byddent oll yn arfer myned bob nos Sabboth i'r oedfa. Mawr fyddai y llawenydd yn mysg y trueiniaid pan dygwyddai fod neb yn troi atynt, ac yn ymofyn am le yn eu plith; ac nid yn fynych y byddai hyny, gan y deallwn nad oedd eu nifer wedi chwanegu ond un-ar-ddeg, o'r fl. 1808

hyd 1823, ysbaid 15 mlynedd. Yn y tymhor hwn, cyfarwyddid p ob mgeisydd i fyned i Dreffynnon i gael ei restru yn mysg y dysgyblion; a pharhaodd felly hyd y fl. 1818.

Tra yr oedd y brodyr yn cyfarfod i addoli yn y llofft grybwylledig, dygwyddodd i feistr llong,* unwaith, fod yn mysg yr addolwyr. Yr oedd y gŵr yn grefyddol; ac yn arfer, yn awr ac eilwaith, yn ei hynt forwraidd, ddyfod yn achlysurol i Bagillt. Felly, yr oedd y tro hwn, ac mewn ymddyddan â'r ddau flaenor, daeth allan fod bwriad yn cael ei lochi i godi capel yn y lle; a gofynwyd i'r llongwr, os byddid yn penderfynu ymosod at y gorchwyl, pa faint a roddai ef at y draul. Ynteu yn rhywiog a ddywedai, "O un bunt i bump." Yr oedd hyn yn y fl. 1817. Pa un bynag a feddyliodd y brodyr yn Magillt lawer am addewid a roddasid mor fyrbwyll, a phenagored, ai peidio, meddyliodd y capten. Ond nid oedd eto un arwydd y ceid capel, a digon tebygol ydoedd y byddai yn hir cyn y dygid y bwriad i ben. Yn y flwyddyn ganlynol, pa fodd bynag, yr oedd y sibrwd am y capel wedi myned yn siarad lled uchel, a'r dymuniad wedi esgor ar radd o weithrediad. Yn y cyfamser, yr oedd morio yn gelfyddyd lled ddi-elw, gan fod heddwch wedi ei sefydlu, a theimlai y morwr radd o bryder ynghylch ei addewid; trwy ei fod yn methu ymddyosg oddiwrth ei rwymedigaeth i gwblhau ei air ar un llaw, a'r fasnach yn isel ar y llaw arall. Ofnai ddrygu ei hun, ac ofnai siomi ei gyfeillion, a thori ei air. Ond tra yr oedd ef yn y benbleth am yr arian, a'r brodyr yn y benbleth ynghylch y capel, dygodd rhagluniaeth y nef y naill beth i gyfarfod y llall, a rhoes fodd i'r naill dalu ei addunedyn llawn, a rhoes hefyd eu dymuniad i'r lleill. Tarawodd y morwr, yn annysgwyliadwy wrth lwyth, am yr hwn y derbyniodd £46, ac anfonodd £5 o honynt yn y fan i gyfeillion Bagillt. Daethant i law yn yr adeg, pan oedd cenad yn cael ei ofyn yn y cyfarfod misol i godi y capel; a bu yn ddiau yn foddion i fantoli y penderfyniad o blaid yr amcan.†

Fel hyn yn y fl. 1818, yr ymosodwyd at ei adeiladu; ac ar yr achlysur o osod y sylfaen, pregethodd y Parch. William Jones, Rhuddlan, i gynulleidfa fawr, ar nos Sadwrn. Dygwyddodd un tro fod Rees Jones, yr hwn oedd y pryd hwnw yn byw yn Môn, yn pregethu yn Magillt; a gwnaed cais gan ryw un cas, ar godi terfysg a dyrysu yr oedfa, trwy ddwyn ei gydag ef, a cheisio ei dalu at y pregethwr! Ond methodd ei gais; disgynodd y ci i ganol y bobl, a ffodd ymaith. Tro arall, yr oedd y Parch. William Havard, a'i gyfaill, yn cadw oedfa yn y lle; a'u ceffylau, o ddiffyg cyfleusdra gwell, wedi eu rhwymo wrth wrych, o'r naill du. Yn y cyfamser, dygwyddodd i blentyn fyned tan dŵr ceffyl Mr. Havard, yr hwn a roes ei droed ar y bychan, ond fel pe buasai yn deall y perygl, ni wnaeth ddim niwaid iddo. Effeithiodd hyn yn rhyfeddol ar breswylwyr ofergoelus y lle, a honent mai yr achos na chawsai y plentyn niwaid oedd, mai ceffyl pregethwr oedd!

* Capt. Evan Llwyd, Caergybi. † Gwel y "Drysorfa" am Mawrth, 1855.

Y rhai a ddeuent amlaf i Bagillt i bregethu, yn y tymhor cyntaf hwn, oedd y Parch. John Jones, Treffynnon; William Davies, Golch; ac Evan Llwyd, Adwy'r-clawdd. Arferai Capt. W. Williams, Caer, ar achlysuron ddyfod i afon Caer; a pharod iawn oedd i roddi gair o gynghor i drigolion glan y môr, lle bynag y dygwyddai lanio. Yr oedd y Capten yn ŵr o gyfrif uchel gan drigolion Bagillt, a llawer o bobl a bentyrai i wrando arno. Yn y fl. 1840, ceir nifer yr aelodau yn 30. Araf, fel y gwelir, yr ydoedd y gwaith yn myned rhagddo, gan nad oedd, wedi mwy na 32 o flynyddau, ond 30 o aelodau wedi eu hennill. Ychydig oedd effeithiau y weinidogaeth ar yr ardal yn gyffredinol. Yr oedd yr anialwch yn aros heb ei arloesi, arferion drwg heb eu darostwng, ac anwybodaeth y trigolion heb ei chwalu. Eto, yr oedd yr aelodau yn amlhau, ac ymddangosai mwy o astudrwydd yn y gwrandawyr. Aeth y capel, bellach, yn rhy fychan. Yr oedd y Parch. Benjamin Jones, mab y diweddar Barch. John Jones, Treffynnon, erbyn hyn wedi ymsefydlu yn yr ardal; amgylchiad a fu o werth a buddioldeb tra mawr i'r achos: a disgynodd pawb i'r penderfyniad fod yn rhaid helaethu lle y babell. Yn y fl. 1841, gan hyny, adeiladwyd capel newydd helaeth a chysurus, mewn lle mwy cyfleus na'r hen. Mae oedfaon yn hwn ddwywaith bob Sabboth, ynghyd ag ysgol Sabbothol. Mae nifer yr aelodau eglwysig, bellach, yn gant o rifedi, a deiliaid yr ysgol yn lluosog hefyd. Mewn gair, mae yma gynulleidfa fawr yn gwrando yn gyson, a llawer o ffyddlondeb a haelioni wedi cael ei ddangos i dynu i lawr y ddyled oedd yn aros ar y capel newydd. Dywedir fod y gynulleidfa, er na chynwys ond gweithwyr cyffredin, yn mron oll, wedi cyfranu yn ystod yr amser crybwylledig ddim llai na £500; engraifft na cheir ond anfynych ei chyffelyb o haelfrydedd y tlodion at yr efengyl; gellir dyweyd am y glowyr yn Magillt, fel am y cyffelyb ddosbarth yn Rhosllanerchrugog, ddarfod iddynt gyfranu, yn ol eu gallu; ïe, uwchlaw eu gallu, at ddilëu y ddyled a wasgai ar eu tŷ addoliad.

Mae cangen arall wedi tarddu, mewn rhan o leiaf, o'r eglwys yn Magillt, ac yn awr yn gydiol â hi fel taith Sabboth, yn ystod y flwyddyn ddiweddaf (1854), yn Nant-y-Fflint; lle yn gorwedd rhwng Bagillt a Helygain. Mae yno gapel newydd wedi ei adeiladu; talwyd am hwn ar ddydd ei agoriad, a chynwysir ynddo gynulleidfa siriol, ac ysgol Sabbothol luosog a llafurus, ac amryw o'r gwrandawyr dan arwyddion o ddwys-bigiad yn eu calonau.

LLANERCH-Y-MOR.

Mae yr ardal a elwir ar yr enw hwn yn gorwedd, fel y mae ei henw yn arwyddocâu, ar fin y môr, rhwng Bagillt a Mostyn. Nid yw Methodistiaeth yn hen yn yr ardal hon, ac nid oes genym bethau hynod i'w cofnodi am dani. Hyd ddechreuad y ganrif bresenol, nid oedd dim moddion gras yn cael eu cynal gan un enwad o gristionogion ynddi; a'r trigolion, gan hyny, fel y gellid dysgwyl, yn soddedig mewn anwybodaeth a diofalwch am bethau ys-

brydol. Glowyr, gan mwyaf, yw y preswylwyr; y rhai, gan nad oedd ganddynt ddim mwyniant gwell, a arferent ymddifyru mewn ofer-gampau ar y Sabboth, ac ymlenwi â diod gref. "Nid oedd gwybodaeth o Dduw yn y wlad."

Tua'r fl. 1808, daeth sefyllfa ymddifad yr ardal ar feddwl rhyw rai yn y cymydogaethau cyfagos, ac ymdrechwyd i gael gan ryw rai o bregethwyr yr oes, megys William Davies, Goleh; ac ar ei ol ef, Robert Roberts, Llanelwy; John Davies, Nantglyn; Peter Roberts, Llansanan; ac yn fwy diweddar fyth James Jones, Rhosesmor, roi ambell oedfa yn yr ardal. Y lle y pregethid ynddo oedd ystafell dywell, wael, a thyllog, â thô gwellt iddi, o'r enw "*Yr hen daforn.*" Gellir dychymygu pa fath ystafell oedd hon wrth y ffaith ddarfod i ŵr, o'r enw Thomas Joncs, yr hwn hefyd oedd yn eiddigeddu fwyaf dros ei ardal, roddi het newydd oedd ganddo, mewn twll, neu gloer yn y mur, yn ystod rhyw oedfa; ac ar ei diwedd eafodd fod y defni wedi llenwi yr het â dwfr.

Tua'r fl. 1806, dechreuwyd yma ysgol Sabbothol. Yr oedd nifer o frodyr, ewyllysgar eu calon, megys Edward Clement; Edward a Thomas Jones, o'r Goleh; ac eraill o Dreffynnon, yn dyfod yma i'w chadw. Yr oedd gwedd isel iawn arni am flynyddau; a'r ystafell lle eedwid hi, fel y dywedasom, yn wael; ni ddeuai iddi ond nifer bychan o ddeiliaid, sef o 6 i 12, dros hir amser; ac weithiau, gan bellder ffordd, a gerwinwch yr hin, ni fyddai yr un athraw i'w chadw. Yn y tymhor isel hwn, eaniatawyd i wyddel, o'r enw Patrick, ddyfod i'r ystafell wael hon i gadw ysgol ddyddiol. Pabydd oedd Patriek o ran proffes, ond yr oedd yn ysgolhaig da. Boddlonai y gŵr hwn ar fywioldaeth isel, fel llawer o'i genedl, pryd yr ymosodai at gadw ysgol ddyddiol yn y fath le. Yr oedd ei wraig yn myned o amgylch y wlad gyda basgedaid o nwyddau mân i'w gwerthu, ac ynteu yn aros yn y babell i ddysgu plant y dydd, ac yn gorwedd mewn congl o honi, ar wely tlawd, y nos. Ond er ised y wedd oedd ar Patrick, dywedir ddarfod iddo fod yn ffyddlawn a selog, fel arolygwr yr ysgol Sabbothol yn y lle, heb golli un Sabboth yn ystod y flwyddyn y bu ef yn llechu yno; a thystir y bu yn ddefnyddiol iawn hefyd, ond daeth ei dwyll cyn hir i'r golwg. Yr oedd wedi addaw talu ardreth yr ystafell, sef ugain swllt yn y flwyddyn; ond tua phen y flwyddyn, a chyn talu dim am dani, aeth i ffordd ar noswaith oleu, ac ni chlybuwyd air am dano am ysbaid 30 o flynyddau ar ol hyny. Wedi treigliad cymaint o amser cyfarfu Thomas Jones ag ef yn ddamweiniol, yn Rhyl; a diwyg cyfrifol arno. Ond pan aeth Thomas Jones i son wrtho am ysgol Sabbothol Llanerch-y-mor, er ei fawr syndod, eafodd allan mai anffyddiwr trwyadl oedd Patrick; ac nad oedd yn credu dim o'r Beibl ar y pryd yr ymddangosai mor ddiwyd yn ei ddysgu i eraill. Engraifft gymhwys o egwyddorion pwdr anffyddiaid! Ei amcan yn hyn oedd gwasanaethu ei hunan, trwy gael llety rhad am flwyddyn o amser.

Eto, yr oedd yr achos yn ymwreiddio yn raddol dan yr holl anfanteision hyn. Yr oedd yr ysgol yn lluosogi mewn rhifedi, a llwyddwyd i gael

pregethu mynychach i'r lle; a thua'r fl. 1815, gwnaed cais ar ffurfio cymdeithas eglwysig, trwy wahodd y rhai a allai fod yn y gynulleidfa dan argraffiadau crefyddol, i aros ar ol, wedi i'r oedfa gyhoeddus ddybenu. Arhosodd chwech; a'r chwech hyn a gawsant yr anrhydedd o fod yn flaenffrwyth yr achos crefyddol yn yr ardal.

Yn y fl. 1828, yr adeiladwyd yma gapel, o fewn tua lled cae i'r babell gyntaf; ac ar y llecyn a ddefnyddid gynt i chwareu y campau ofer. Yr oedd gŵr boneddig yn byw gerllaw, J. P. Eyton, Ysw., yr hwn a fu yn garedig iawn i'r achos yn ei wendid a'i dlodi. Yr oedd tad y boneddwr hwn yn arfer gwrando y Methodistiaid, yn ardaloedd Helygain a Fflint. Cyfranodd y mab yn helaeth at y capel newydd; a galwodd ar y gweithwyr, oedd ganddo mewn gwaith toddi mŵn, i roddi hanner coron yr un, ato. Parodd yr ysgogiad hwn luosogiad mawr ar ddeiliaid yr ysgol a'r gynulleidfa; ac ymhen ychydig gyda deng mlynedd, bu raid tynu y capel i lawr, ac adeiladu un helaethach yn ei le; hyn a wnaed yn y fl. 1839. Y mae yma bellach gymdeithas eglwysig, a 50 neu 60 mewn nifer yn aelodau; a 150 yn yr ysgol Sabbothol. Hynod y gwahaniaeth a welir mewn llai na 40 mlynedd yn y lle hwn. Nid llawer o amser sydd, er pan y byddai pedwar brawd crefyddol yn cyfarfod â'u gilydd yn y babell tô gwellt i gadw cwrdd eglwysig, a'r naill yn gofyn i'r llall am ddimai i brynu canwyll â hi, er cyfleusdra i gynal y cyfarfod; yn awr y mae yma adeilad dda, wedi costio dros rai cannoedd o bunau, ac yn cael ei llenwi â gwrandawyr. Bu Mr. Eyton yn garedig tuag at y gwaith tra yr adeiladesid y ddau gapel; ac heblaw yr arian a roddodd, fe gafwyd cyfleusdra odyn galch ganddo i losgi cerig; a dangosai ar gyfarfodydd a gynelid yn y lle, ei fod yn barod i roddi ei dŷ a'i fwrdd, i wasanaethu yr adeg. Bu Mr. Robert Stealey hefyd yn gymwynasgar iawn i'r achos dros flynyddau, ynghyda Mrs. Jones, Mertin.

GRONANT.

Ardal yw hon yn nherfyn gogleddol sir Fflint, gerllaw y môr, rhwng Mostyn a Rhyl. Ni fu dim son am Fethodistiaeth yn Nghronant hyd nes y daeth un Robert Jones yno i fyw. Tad oedd hwn i un Thomas Jones a fu dros rai blynyddau yn pregethu yn y cyfundeb; ac oedd, yn yr amser y bu farw, yn byw yn Nghilcain. Adwaenid yr hen ŵr wrth yr enw "Robert o Ronant;" hen ŵr dysyml a dirodres oedd Robert. Bernid ei fod yn ŵr cydwybodol dros Dduw, a thra aiddgar dros Fethodistiaeth. Tua dechreuad y ganrif bresenol, ymosododd ar y gorchwyl o gael pregethu i'w ardal, a llwyddodd gydag amryw o bregethwyr, perthynol i'r ddwy sir, o'r ychydig ag oedd y pryd hwnw ar gael, i ddyfod i Ronant yn awr ac eilwaith. William Davies, Golch, tybygid, oedd y cyntaf a fu yma; ac efe hefyd, dros ryw dymhor, a fyddai fynychaf. Dywedir fod Mr. J. Jones, Edeyrn; Lewis Morris; a Mr. Peter Roberts, Llansanan, wedi bod

yma yn pregethu yn y tymhor cyntaf hwn, ac fe ddichon rai eraill hefyd; ond nid oedd yr oedfaon hyn ond achlysurol a damweiniol, ac ni ellid dyweyd fod yma achos sefydlog eto gan y Methodistiaid. Ymadawodd Robert Jones hefyd o'r ardal i fyw; a chyda'i ymadawiad ef, ymadawodd y pregethu hefyd, a hyny am faith flynyddau.

Nid ydym yn clywed am ryw ymosodiadau erchyll gan y trigolion ar y pregethwyr, er fod yma ar y pryd ddigon o ofergoeledd a thywyllwch i gynyrchu pob math o ysgelerder. Ond yr oedd y bobl yn ymosod ar eu campau mor ddiwyd, a'u bryd ar eu difyru eu hunain mewn chwareuyddiaethau mor fawr, fel na chawsant bron seibiant i orthrymu eraill. Yr unig aflonyddwch y crybwyllir am dano ydoedd, ddarfod i ryw un luchio oen wedi trengu at William Davies pan oedd yn pregethu; ac ar dro arall, ddarfod lluchio dylluan fyw i wyneb Humphrey Owens, pan ydoedd yn dechreu oedfa trwy weddio. Am yr amgylchiad diweddaf ni a grybwyllasom o'r blaen. Heblaw y ddau gais anwraidd hyn, nid oes hanes am nemawr wrthwynebiad i'r efengyl. Hwyrach mai mwy oedd diofalwch y trigolion na'u gwrthdarawiad; a'u bod yn rhy ddifater hyd yn nod i'w gwrthwynebu.

Yn y tymhor bore hwn hefyd y bu un Dafydd Jones yn cadw ysgol rad yma. Yr oedd yr ysgolfeistr yn ŵr crefyddol iawn, dystaw a diwyd gyd a'i alwedigaeth; ac yn un o'r rhai a alwesid i'r swydd gan Mr. Charles. Treuliodd lawer o'i oes o fewn ffiniau cyfarfod misol sir Fflint; ac wedi cyrhaedd henaint teg gyda'r un gorchwyl, efe a gasglwyd at ei dadau. Effeithiodd yr addysg a gafwyd gan yr athraw hwn ar ryw nifer o blant Gronant; cymaint, meddir, o leiaf, ag a barodd i'r plant a'u cawsai, ragori ar eu cyfoedion mewn gwybodaeth a rhinwedd. Ond ni fu Dafydd Jones yn yr ardal hon, ond dros dymhor, heb fod yn faith; ac fe'i symudwyd i ardal arall cyn bod un achos sefydlog wedi ei blanu yn Ngronant.

Yn y tymhor gauafaidd hwn, cymerodd un tro tra hynod le mewn cysylltiad â gŵr, o'r enw John Hughes. Daeth y gŵr hwn i'r oedfa, pan yr oedd Lewis Morris yn pregethu; a daeth, yn ol pob argoel, ar yr unig ddyben o roddi gwawd ar y pregethwr, neu i gael testyn digrifwch iddo ei hun; ond cafodd ei siomi yn ei amcan. Cyn gynted ag y daeth i'r gynulleidfa, a chodi ei olwg ar y pregethwr, syrthiodd yn ddisymwth mewn llewyg, a chariwyd ef allan fel un marw. Ymddengys mai effaith yr olwg a gawsai ar y pregethwr oedd y llewyg; oblegid ar ei waith yn ymddadebru, y peth cyntaf a wnaeth oedd bytheirio llwon a rhegfeydd ar y pregethwr. Gellir casglu, mai yr un oedd ei deimlad cyntaf, ar ei ddadebriad, ag oedd ei deimlad olaf, cyn y llewyg; pa fodd bynag, parhaodd math o wrthdarawiad arswydlawn yn ei deimlad i weled pregethwr yn y canlyniad; ni fynai o hyny allan ddyfod ar un cyfrif i olwg un. Yn mhen rhyw gymaint o amser, aeth John Hughes i Fanchester i edrych am frawd iddo, ag oedd yno yn trigiannu. Dygwyddodd fod y brawd hwnw, eisoes wedi

cael blas ar wrando pregethu; ac ar fore y Sabboth cyntaf ar ol dyfodiad ei frawd, hysbysodd iddo fod yno bregeth Gymraeg i'w dysgwyl y diwrnod hwnw; gan ei wahodd i ddyfod gydag ef i'w gwrando. I hyn dangosai John y gwrthwynebiad cryfaf; ac ar waith y brawd yn arfer taerni, mynegodd John iddo pa beth a ddygwyddodd iddo, pan y bu o'r blaen yn y fath le. Nid oedd yr ymesgusodiad yn boddloni y brawd; ond trwy barhau i ymresymu ag ef, a'i daer gymhell, cafodd yr oruchafiaeth ar ei ragfarn, a chydsyniodd John i fyned.

Ar waith y ddau frawd yn cyrhaedd yr ystafell, lle yr oedd yr oedfa yn cael ei chynal, canfu John y pregethwr; a dygwyddodd mai yr un gŵr ydoedd ag a welsai efe yn Nghymru; ac yn yr olwg arno, syrthiodd drachefn i lewyg fel o'r blaen. Ond ymddangosodd, ar ei waith yn dyfod ato ei hun, fod ei syniad a'i dcimlad yn dra gwahanol. Nid deffro mewn cynddaredd at y pregethwr a wnaeth y tro hwn, ond mewn pryder ofnadwy ynghylch ei gyflwr ei hun. Arafwyd ei wylltineb yn hollol, a darostyngwyd ei ragfarn yn llwyr. Yr oedd, bellach, yn ddyn cwbl newydd, a dychwelodd i'w hen gartref mor aiddgar dros yr efengyl ag a fuasai gynt yn wrthwynebol iddi. Ymroddai, bellach, i rybuddio ei gymydogion diofal yn mhob man y rhoddid iddo gyfleusdra; a pharodd dystiolaeth yn nghydwybodau dynion o'i gydnabod, os oedd dyn duwiol ar y ddaear, ei fod ef yn un. Ond buan iawn y diffoddodd y ganwyll hon. Lluddiwyd ef i barhau gan angeu. Cymerwyd ef a'i deulu ymaith yn fuan, ac yn ddisymwth, gan chwiw o glefyd angeuol.

Fel hyn yr oedd Gronant dlawd yn cael ei hymddifadu o'i thlysau gwerthfawrocaf. Symudasai Robert Jones i Newmarket i fyw; a Dafydd Jones i ardal arall i gadw ysgol; ac yn awr John Hughes hefyd, oddiwrth yr hwn y gallesid dysgwyl pethau daionus, a symudwyd i dŷ ei hir gartref. Nid oedd yma neb, bellach, yn ymofyn am bregeth i'r pentref ddydd yn y flwyddyn; na neb yn mhlith y trigianwyr yn tueddu i roddi nodded i'r efengyl; ac felly parhaodd pethau dros rai blynyddau. Gwnaed cais hefyd gan William Jones, Prestatyn, ardal gyfagos i Gronant, dros ryw amser byr, i sefydlu ysgol Sabbothol yn y lle. Llwyddodd hefyd i gael ysgubor gan ryw un i'w chadw. Ond am dymhor byr y bu hyny, oblegid collwyd yr ysgubor, a darfu yr ysgol. Yn y modd yma, yr oedd y naill ergyd yn disgyn ar Ronant dlawd ar ol y llall; a pharod a fuasai anghrediniaeth i ddarogan, fod y pentref hwn wedi ei ddiofrydu i ymddifadrwydd oesol.

Ond ni welwyd noson crioed mor faith, na ddaeth terfyn iddi. Gwawriodd y dydd ar Gronant hefyd. Tua'r haf, 1817, yr oedd yma dri neu bedwar o deuluoedd lled ieuainc, wedi eu treiglo yma o ardaloedd eraill i fyw. Yn y teuluoedd hyn yr oedd rhai o'u deiliaid, un ai y gŵr neu y wraig, wedi eu magu mewn cŵr o'r wlad lle yr oedd Methodistiaeth wedi ymsefydlu er ys amser, a hwythau wedi dechreu cael blas ar y weinidog-

aeth, ac ar yr ysgolion Sabbothol. Bellach, yr oedd y teuluoedd hyn, yn ymsefydlu yn y byd, ac un o'r anghysuron a deimlent yn eu cartref newydd, oedd eu hymddifadrwydd o foddion gras, y moddion a fwynhaent yn eu heu drigfanau. Nid hir a fuont chwaith heb gael allan fod y cyffelyb deimladau yn gweithio yn mynwesau y cwbl. Arweiniodd hyn hwy i ddechreu ymddyddan a chynllunio, pa fodd y gallent wneyd y diffyg hwn i fyny. Addawodd un teulu y rhoddent hwy eu tŷ, os gallai y teulu arall gael pregethwr. Felly, aeth y gŵr, neu y wraig, i Dreffynnon, ddeg neu ddeuddeg milldir o ffordd, i ddyweyd eu cwyn wrth un o'r brodyr yno; ac i ymofyn ai nid oedd modd cael pregethu i Gronant. Llwyddodd y brawd hwnw gyda John Edwards, Plas-yn-nghaerwys,* i fyned yno. Cafodd y y pregethwr dderbyniad croesawgar gan ryw rai o'r trigolion; a chafodd ar ei feddwl i fyned yno yn fynych, ac i annog eraill i fyned yno hefyd. Fel hyn, cafwyd gweinidogaeth fwy cyson nag a gawsid erioed o'r blaen; a daeth yn fuan yn hysbys fod yno rai yn mhlith y gwrandawyr wedi cael blas ar wirioneddau yr efengyl. Dilynai y rhai'n y pregethwr drwy yr holl Sabboth, i Prestatyn, i Ruddlan, neu i Drefostyn; a chyn hir yr oedd amryw o drigolion Gronant, wedi ymuno, fel aelodau eglwysig, rhai yn Rhuddlan, a rhai yn Nhrefostyn; ac yn eu mysg yr oedd un Dafydd Jones, ac un Hugh Williams, y rhai wedi hyny a fuant yn ddiaconiaid yr achos yn y lle tra fuont byw.

Wedi cael fod yn Ngronant ychydig o ddefnyddiau, barnodd Mr. John Edwards ei bod yn bryd i ffurfio eglwys yn y lle, ac i sefydlu ysgol Sabbothol. I ddwyn hyn o amgylch, bu Mr. T. Evans, Maes-y-coed, a brodyr eraill yn Nghaerwys, yn dra ffyddlawn ac ewyllysgar. Fel hyn, cafodd yr achos gyfle i ymwreiddio yn y lle. Lluosogodd nifer pregethwyr y sir, a chafwyd gweinidogaeth fwy cyson iddo. Y mae yma eglwys, bellach, yn cynwys 50 o aelodau mewn cymundeb, ac ysgol Sabbothol a'i deiliaid yn mhell dros 200 o rifedi yn ymgynull, er ys blynyddau, bellach, mewn capel da, a gwedd siriol a chysurus ar y gwaith yn ei wahanol ranau. Adeiladwyd y capel yn y fl. 1841, wedi bod yn cynal yr achos yn yr ysgubor am oddeutu 24 o flynyddau.

Wedi ysgrifenu yr hanes uchod am siroedd Dinbych a Fflint; daeth y newydd fod un o brif bregethwyr sir Ddinbych wedi ei alw i orphwys oddiwrth ei lafur; sef y Parch. Moses Parry. Yr oedd y brawd hwn wedi cyrhaedd gwth o oedran, sef 71 o flynyddau; ac wedi bod yn pregethu yn y cyfundeb ysbaid 41 o flynyddau. Brawd ydoedd i Mr. Edward Parry, yr hwn oedd yn un o'r rhai cyntaf gyda'r Methodistiaid yn Ninbych; a nai hefyd

* Gwel ei hanes, Cyf. III. tudal. 204.

ydoedd i Mr. Thomas Parry, Rhewl, Llanrhaiadr,* am yr hwn y cry-bwyllasom eisoes. Hyfryd fuasai genym, pe buasem yn feddiannol ar ddefnyddiau digonol, yn gystal a gofod, i ysgrifenu hanes mwy teilwng am y Parch. Moses Parry; ond er mor foddhaol a chydnaws a'n meddwl fuasai hyny, i ni ein hunain, yn gystal ag i'r darllenydd, nid oes genym i'w wneyd ond cyflwyno y braslun byr canlynol, am un a "wasanaethodd ei genedl-aeth" mor ddifefl am dymhor mor faith.

Bu y brawd tancedig, yn ffyddlon a diwyd, am lawer o amser cyn dechreu llefaru, gyda'r ysgol Sabbothol; sefydlodd ysgolion yn y Ffynnoniau, Bont-newydd, Green, Cwm, Felin-segrwyd, &c.; a chafodd fyw i weled bendith ar ei ymdrechiadau. Cynysgaethasid ef â lluaws o gymhwysderau at hyn o orchwyl; gwyneb siriol, llygad llon, tymher hynaws, bywiogrwydd meddwl, a dawn ac arabedd i drin y natur ddynol gyda hawsdra digyffelyb; yr oedd gyda'r ysgol yn nyddiau ei ieuenctyd yn ei elfen naturiol; a diamheu i'r ysgol Sabbothol fod yn foddion, dan fendith Duw, i barotoi ei feddwl at y gwaith mawr a phwysig, ag oedd gan Ben yr eglwys ar ei gyfer yn ei oes. Cafodd yr hybarch John Roberts, yn gyd-lafurwr effro a gweithgar; a'r Parch. Thos. Jones, yn gynghorwr a chyfarwyddwr ffyddlon yn nechreu ei yrfa grefyddol. Meddai ddawn gweddi arbenig; ac aml y dywedai Mr. Jones, am dano, "Moses Parry y pia hi mewn gweddi, holi plant, a chadw seiat." Llafuriodd Moses Parry yn hir ar faes Methodistaidd ei wlad, gyda'r brodyr John Davies, Nantglyn, a Peter Roberts, Llansanan; ac ar ol eu hymadawiad hwy, safodd yn naturiol ac esmwyth yn eu lle, fel un a ofalai yn benaf am yr achos yn y sir. Yr oedd ei ddawn fel pregethwr yn hyfryd, er nad yn hynod; ei faterion yn ysgrythyrol a gwir fuddiol, er nad yn ddyfnion; yr oedd ei ddull yn ddifrifol, ond nid yn rhodresgar; a'i lais yn glir ac yn beraidd. Heblaw hyny, yr oedd yn gronfa o amrywiol bethau; nid dyn un-gainc ydoedd; na, troech ef at y peth a fynid, a byddai gartref gydag ef, ac âi yn hylaw drwyddo; meddai gallineb y sarff i ymdrin a dadrys materion dyryslyd, a diniweidrwydd colomenaidd ar y llaw arall, i wylio rhag anafu a briwo neb yn llechwraidd. Cyfaill ydoedd gwerth ei feddu; cadwai gyfrinach mor ddirgel a'r bedd; a gallai yn fedrus roddi cynghor addas a phrydlon. Ond ei brif hynodion, tybygid, oeddynt, ei ofal cyson am achos yr efengyl; a'i gallineb ymarferol yn ei arolygiaeth o hono yn ei wlad. Y mae yn syn, fod gŵr hefyd, nad oedd ei dalentau cyhoeddus wedi ei osod yn mysg blaenion y genedl, y mae yn syn, meddaf, ddarfod iddo ymwreiddio mor ddwfn yn serch-iadau ei frodyr cartrefol. Yr oedd ei redfa wedi bod mor esmwyth a diym-hongar, ac heb ryw amgylchiadau hynod yn ei oes i achlysuro teimladau cryfion o'i blaid, fel nad ellid dyweyd pa fath yn gywir, ydoedd ei safle yn syniadau eu gydwladwyr, hyd nes ei golli. Trwy ei symudiad, pa fodd bynag, profodd ei frodyr pa mor fawr oedd ei werth, a pha mor chwith oedd

Gwel Cyf. III., tudal. 155.

ei golli. Ar yr amgylchiad hwn, cafwyd profion lawer fod syniadau uchel yn cael eu llochi am ei ddefnyddioldeb; a theimladau galarus iawn ar ei ol. Teimla y brodyr henaf yn y weinidogaeth yn sir Ddinbych, eu bod wedi colli eu braich ddehau, trwy ei golli ef; ac iddynt hwy, a fu yn cyd-lafurio cyhyd, ac mor heddychlawn a thangnefeddus âg ef, anhawdd, os nad anmhosibl, a fydd llenwi ei le.

Dechreuodd ar y gwaith o bregethu yn y fl. 1814; a phregethodd ei bregeth gyntaf, o flaen ei frawd Edward Parry, yn Nhowyn Abergele, yn mis Mehefin o'r flwyddyn hono; ac ordeiniwyd ef, i gyflawn waith y weinidogaeth, yn nghymdeithasfa y Bala, yn y flwyddyn 1825. Teithiodd lawer trwy Ogledd a Deheudir Cymru, Llundain, a threfi eraill Lloegr, lle mae gan y Methodistiaid achos Cymreig ynddynt; a bu llaw yr Arglwydd gydag ef yn yr ymweliadau hyn; yn nodedig, ar rai prydiau, yn arddel y genadwri er dychwelyd pechaduriaid o gyfeiliorni eu ffordd; ac ni phetruswn ddyweyd, y bydd iddo lawer yn "orfoledd a llawenydd" yn "nyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist." Yn y fl. 1839, galwyd arno gan y gymdeithasfa, mewn cysylltiad â'r Parch. Henry Rees, Liverpool, i fyned i ymweled yn frawdol ag eglwysi y Methodistiaid yn Ngogledd America. Yr ydoedd er ys rhai blynyddau cyn ei farw, wedi ei gwbl ryddhau oddiwrth ofalon bydol, ac wedi ei gymhell i lwyr ymroddi i fwrw golwg gyffredinol dros helyntion crefyddol ei wlad; eto nid hir y bu ef yn y sefyllfa bwysig hon. Nid oedd ei iechyd yn dda er ys peth amser; eto, ni thybiai neb fod terfyn ei oes mor agos. Pa fodd bynag, yn lled ddisymwth, ac wedi ysbaid byr o afiechyd, efe a hunodd yn yr angeu; ond nid cyn iddo ef ei hun, yn gystal ag eraill, gael tystiolaeth ddarfod iddo ef "ryngu bodd Duw." Bu farw, Chwefror 8, 1855, yn y 71 flwyddyn o'i oedran.

Nid oes crybwylliad yn yr hanes a roddasom o Fethodistiaeth Dinbych am deulu ag ydoedd yn mysg y tô cyntaf o grefyddwyr yno—teulu a fu yn wasanaethgar iawn i ddwyn yr achos yn ei flaen yno; ond gan i hanesyn byr am y teulu hwnw ddyfod yn ddiweddar i law, a chan ei fod yn enwedig yn cynwys rhai hynodion teilwng o goffadwriaeth, tybiodd yr ysgrifenydd yn well ei ddwyn i mewn, megys yn anamserol, na'i ollwng i golli.

Yn y fl. 1789, medd yr hanes, ymunodd Mrs. Jones, Parc-y-twll, sef mam y Parch. John Jones, Gwrecsam, â'r Methodistiaid Calfinaidd yn Ninbych; pryd nad oedd gyda'r enwad hwn, ond saith o aelodau eglwysig, o fewn y dref. Cafodd y fraint o roddi ei gwddf yn ngwasanaeth ei Harglwydd pan oedd yn 16 ml. oed. Yr oedd y teulu, sef ei thad, ei mam, a'i hunig chwaer, yn hynod o erlidgar ar y pryd, tuag at yr ymneillduwyr o bob enw; eto, yr oedd merch ieuanc grefyddol, o'r enw Siân, wedi dyfod, trwy ryw foddion, i wasanaethu i'r teulu. Yr oedd y llances hon, fel pob un gwir grefyddol, yn yn arfer gweddio llawer, a daethai hyny yn adnabyddus i'r ddwy chwaer. Pan elai eu rhieni, gan hyny, i Ddinbych ar ddiwnod marchnad, ac iddynt hwythau gael mwy o'u rhyddid, arferent erchi ar Siân weddio gyda hwy, heb

ddim mewn golwg ganddynt ond math o ddifyrwch plentynaidd. Cydsyniai y forwynig, pa fodd bynag, â'u cais; ac yn ei gweddi erfyniai yn daer ar i'r merched ieuainc, ynghyda'r teulu oll, gael ymweliad achubol oddiwrth yr Arglwydd, a'u gwneuthur yn wir grefyddol. Y merched ieuainc hefyd, mewn ysgafnder gwagsaw, a ddywedent "Amen, amen," mewn ffordd o ddynwared y crefyddwyr eu hunain!

Yr oedd i'r ddwy ferch hyn ewythr, o'r enw John Williams. Nid oedd hwn ychwaith yn llochi nemawr dynerwch at y Methodistiaid, ond da fuasai ganddo allu dyrysu y forwyn yn ei rhedfa grefyddol, a thrwy hyny gael achles i ddrwgliwio yr holl frawdoliaeth. I'r dyben hwn, fe gynlluniai ystryw ddrygionus yn erbyn y diniweid. Yr oedd gan Siân ffrwd o ddwfr rhyngddi â'r maesydd lle y byddai y gwartheg yn porfäau; a phan elai i'w cyrchu at y tŷ, i'r dyben i'w godro, rhaid oedd iddi groesi yr afon ar hyd pont bren gul. Ar un prydnawn Sabboth, dysgwyliai John Williams am y llances ar y bont, gan fwriadu ei gwthio drosti i'r dwfr, a thybied, yn ddilai, y torai hi allan mewn anwydau drwg, i dyngu a rhegi; a thrwy hyny y darfyddai am ei chrefydd a'i phroffes ar unwaith. Ar yr amser priodol, y llances a ddaeth, heb ddarogan dim niweid; a phan y daeth i'r cyfle, rhoddwyd iddi hergwd i'r afon. Yr oedd y weithred yn ysgeler, ac yn naturiol yn tueddu i gyffroi teimladau chwerwon a chas, tuag at yr erlidiwr. Ond yn lle tyngu a chablu, troes Siân i weddio drosto yn y dwfr, a dychwelodd at ei gorchwyl heb anafu dim ar ei chydwybod, nac anurddo dim ar ei phroffes.

Wedi cael y fath brawf o hynawsedd ei hysbryd, a'i pharodrwydd i weddio, dychwelodd ynteu at y teulu, gan adrodd iddynt yr ystryw a ddefnyddiodd, mai anmhosibl fyddai cael ganddi wneuthur dim amgen na gweddio. Yn fuan ar ol hyn, pan oedd y ddau benteulu yn y farchnad, galwyd ar Siân eilwaith i weddio, modd y cai yr ewythr a'r ddwy nith ddifyrwch wrth ei gwrando. Ufuddhaodd hithau megys o'r blaen; ond nid gyda'r un effeithiau. Y tro hwn, fe dywalltwyd arnynt oll "ysbryd gras a gweddiau." Torodd pawb i wylo! Yr oedd y weddi wedi ei hateb ar eu rhan, a methent a chodi oddiar eu gliniau gan rym eu teimladau; parodd y tro hwn chwyldroad perffaith yn y teulu. Daeth yr amgylchiad yn hysbys i'r tad a'r fam, a disgynodd syndod a difrifwch arnynt hwythau. Yn fuan, bellach, ymunodd y ferch henaf â'r gymdeithas eglwysig; dilynwyd hi gan ei chwaer, ac hefyd gan ei rhieni; a bu y tŷ yn agored i achos yr efengyl am lawer o flynyddau! Wedi ymrestru fel hyn yn mysg y crefyddwyr, arferai y ddwy chwaer wneyd a allent i hyrwyddo gwaith yr Arglwydd yn eu hardal. Aent i'r Bala, a manau eraill, bob un ar ei hanifail, i ymofyn cyhoeddiadau gwŷr dyeithr i ddyfod i Ddinbych i bregethu; a thrwy hyny a phob moddion eraill o fewn eu cyrhaedd, dangosasant lawer o awyddfryd i wasanaethu teyrnas yr Arglwydd Iesu Grist.

Cafodd Siân, y llances o forwyn, yr hyfrydwch, bellach, o weled Miss Jane Evans (Mrs. Jones ar ol hyny), yn cadw addoliad teuluaidd ei hunan yn y

teulu; a dywedai, Amen o galon wrth ei chlywed. Rhyw foreu pan oeddynt yn cyd-addoli fel hyn, dygwyddodd i Edward Parry, brawd y diweddar Barch. Moses Parry, ddyfod yn ddystaw i'r tŷ pan oedd y teulu ar ei gliniau. Cyd-ymagweddodd yn y fan, a da oedd ganddo gael y cyfleusdra i weled yr olygfa, ac i glywed merch y tŷ yn cyfarch gorseddfainc y gras. Wrth gyflwyno ei deisyfiadau ger bron Duw, llithrodd Amen uchel, megys yn anochelgar dros ei wefus. Clybu hithau y swn dyeithrol, a rhuthrodd arni gymysg deimladau o'r fath ag a'i dyrysodd; a chododd ar ganol y weddi, oddiar ei gluniau, gan deimlo ei hun ar lesmeirio. Mynych y dywedai, ar ol hyny, mai anhawdd ydoedd i neb ddychymygu y braw a barasai "Amen" Edward Parry iddi; ïe, barnai yn ddiamheuol, mai math o gerydd tyner arni ydoedd, am ei gwaith gynt yn gwawdio Siân y forwyn.

Mae ein hanesion am siroedd Dinbych a Fflint bellach ar ben; nid am nad oes llawer iawn o fanau heb eu crybwyll, nac ychwaith am na allesid casglu llawer ychwaneg o ddefnyddiau, a chwyddo y rhai a ddaeth i law i lenwi llawer mwy o le; ond am y pryderwn, bellach, i ddwyn ein llafur i derfyn. Nid ein bwriad ar y dechreu oedd ffurfio hanes manwl, o bob man, ac o bob offeryn, a fu yn wasanaethgar i ddwyn Methodistiaeth ymlaen, er y buasai yn ddymunol, ac i lawer yn ddyddorol, ond ein hamcan oedd croniclo PRIF LINELLAU y Diwygiad o'i ddechreuad hyd yn awr; y prif offerynau, a'r prif amgylchiadau, a berthynai i'r ysgogiad rhyfeddol, yn ngwahanol barthau o Gymru. Hyn oedd ein hamcan o leiaf; ac i'w gyrhaedd ni adawsom allan, oddieithr trwy amryfusedd, ddim a farnem yn werth ei groniclo, neu a fyddai yn ddyddorol i'r darllenydd, o'r holl ddefnyddiau a ddaethent i law, neu a allem eu casglu.

Mae y wedd sydd yn awr ar Fethodistiaeth y siroedd hyn yn wahanol i'r un a welodd yr ysgrifenydd ar ddechreu ei oes. Nid oedd capelau sir Fflint y pryd hwnw ond 12 neu 13 o rifedi, heblaw ychydig o ystafelloedd eraill wedi eu trefnuso ychydig; pryd y maent yn awr yn 64. Nid oedd y pregethwyr yn yr holl wlad ond 8 neu 9, pryd y maent yn awr yn 32. Yr oedd Methodistiaeth, mae'n wir, wedi dechreu er ys mwy na 40 mlynedd mewn amrywiol fanau, cyn cof i'r ysgrifenydd; ond ni wnaethai, er hyny, ryw lawer o'i ol. Yr oedd eglwysi wedi eu crynhoi yn Llangollen, Rhos, Adwy, Llanarmon, Wyddgrug, Cilcain, Llaneurgain, Rhosesmor, Treffynnon, Berthen, Caerwys, a'r Dyffryn, a rhai manau eraill; eto, nid oedd llawer o'u dylanwad wedi ei brofi ar y cymydogaethau yn gyffredinol, cyn sefydliad yr ysgol Sabbothol. Cyn cychwyniad y sefydliad hwn, yr oedd anwybodaeth yn para i orchuddio y wlad; ychydig oedd nifer y rhai a wrandawent y gair, a llawer iawn llai y nifer a deimlent ei awch; nid oedd y capelau ond bychain, a'r pregethau ond anaml ac anwastad; yr oedd y Beiblau yn brinion, a'r darllenwyr yn brinach fyth. Wele wedd y ddwy sir, Dinbych a Fflint;—a Fflint yn fwy na Dinbych, ar ddechreuad y ganrif bresenol. Mae y cynydd wedi bod yn fawr; gwnaeth yr ysgol Sabbothol orchestion rhyfeddol; rhoes fantais

i lawer weithio; cafodd llu mawr o hen ac ieuainc, yn feibion a merched, perthynol i'r eglwysi, gyfleusdra trwyddi i ddangos eu sel dros Dduw, a'u cariad at eneidiau dynion. Cymerwyd cam agosach at boblogaeth y wlad; daeth y crefyddwyr yn nes at eu cymydogion; ymwisgasant mewn diwyg mwy ennillgar, a dygwyd gwirioneddau a bregethid yn agosach at ddeall y cyffredin. Parodd hyn chwyldroad rhyfeddol ymron yn mhob ardal; syrthiodd y chwareuon i warth ac esgeulusdra. Llanwyd y capelau yn fwy na digon o wrandawyr; ymwisgodd yr addoliad mewn gwedd mwy hawddgar, o ran trefn a gweddusrwydd nag o'r blaen. Daeth talentau cuddiedig i'r golwg; gwellhaodd y canu; siriolodd yr holl achos; ïe, mwy na'r cwbl, anadlodd yr Iesu ar y dysgyblion, gan eu bendithio a dywedyd, "Derbyniwch yr Ysbryd Glân." Disgynodd cawodydd bendith ar y cynulleidfaoedd; daeth yr anialwch i lawenychu, ac i flodeuo fel y rhosyn.

Mae rhai o hen bregethwyr sir Ddinbych heb gymaint ag un crybwylliad hyd yma am danynt, a hyny am na ddaethai dim o'u hanes i law; dyma rai o honynt, Robert Morris, Llanefydd; Owen Owens, Gwytherin; Robert Roberts, Mochdref; Jonathan Williams, Tal-y-bont; a Hugh Hughes, Eglwysfach. Gwŷr da a chywir y cyfrifid hwynt gan y rhai a'u hadwaenent; dynion a lafuriasant yn ddystaw, diwyd, a ffyddlawn, yn eu cylch, hyd ddiwedd eu tymhor; gan adael ar eu hol goffadwriaeth beraroglaidd. Ni anrhydeddwyd yr un o honynt, tybygid, â thalentau gwych; ond cawsant ras i fod yn ffyddlawn. Codasant oll eu llef yn erbyn pechod, a gwnaeth pob un o honynt ymgyrchiad cywir yn erbyn muriau annuwioldeb. Hunasant oll yn yr Iesu; buant feirw yn yr Arglwydd, a'u gweithredoedd sydd yn eu canlyn.

Yr ydym wedi gadael allan hefyd lawer o enwau, a fu yn dra defnyddiol yn eu hoes i ddwyn y gwaith rhagddo, yn mhlith y *diaconiaid*. Gwir ydyw i ni son am amryw o honynt, mewn cysylltiad â'r eglwysi y perthynent iddynt, yn y ddwy sir; eto, y mae lluaws mawr heb eu crybwyll, y rhai y mae eu henwau yn anrhydeddus yn nghyfrif y sawl a'u hadwaenent, a'r rhai y mae Methodistiaeth yn wir ddyledus am ei gynaliad a'i swcr iddynt. Addefwn yn ddibetrus fod eu gwasanaeth wedi bod mor effeithiol i ddwyn yr achos rhagddo, ag ydoedd yr eiddo y pregethwyr. Gofalent yn gyson am y cyfarfodydd eglwysig, y cyfarfodydd gweddio, ac am yr ysgolion Sabbothol. Aent i gyfarfodydd misol a chwarterol y cyfundeb; ymofynent am bregethwyr i lenwi y pwlpudau, a llawer o honynt a letyent y pregethwyr yn eu tai. "Mae tyst y gwŷr da hyn yn y nefoedd a'u tystiolaeth yn yr uchelder." Yn y gyfundrefn Fethodistaidd, nid oes un dosbarth o weithwyr anhawsa eu hebgor na hwy; neb, yn ddiau, y mae mwy o anghenrheidrwydd am danynt, na neb yr effeithia eu ffyddlondeb, neu eu hanffyddlondeb, yn fwy ar y cyfundeb.

PRIF-LINELLAU YN HANES METHODISTIAETH SIROEDD MAESYFED, BRYCHEINIOG, A MYNWY.

PENNOD I.

BYR HANES METHODISTIAETH YN SIR FAESYFED.

CYNWYSIAD :—

LLAFUR BOREOL HARRIS YN Y SIR HON—Y LLWYDDIANT A GANLYNODD—YN CLYRO, LLYWES, GORE, ABEREDW, GLASCWM, LLANDEGLEY, LLANDDEWI, LLANBISTER, RHAIADR, NANTMEL, LLANDRINDOD, DYSERTH A CHEFNLLYS—YR ADFEILIAD A DDILYNODD—PARCH. JAMES JAMES, PEN-Y-BLAEN—HUGH PRITCHARD, CLOCHYDD LLANIR.

Gan i Mr. Harris gychwyn ei yrfa lafurus a bendithiol yn sir Frycheiniog, naturiol ydyw dysgwyl mai y parthau hyny o'r sir ag oeddynt nesaf ato, a fwynhaent flaen-ffrwyth ei lafur. Felly hefyd y bu. Ond gan i ni eisoes olrhain gradd ar ei hanes yn ei gychwyniad, afreidiol fydd i ni ail-adrodd dim o'r hyn a draethwyd eisoes am dano, yn rhanau cyntaf y gwaith hwn, ond cyfeirio y darllenydd yno am hysbysiad o'r hyn a gymerth le yn Nhrefecca yn ei amser. Eto, er mai yn Nhrefecca y dechreuodd Harris ar ei lafur, ac er mai yn ei hen gartref y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes, ac y terfynodd ei yrfa; rhaid addef, ei fod am ŷ 15 mlynedd cyntaf yn gwibio llawer iawn ar hyd Loegr a Chymru; ac ´mai nid llawer mwy o'i wasanaeth a fwynheid yn Nhrefecca, nag a wneid mewn parthau eraill. Wedi aros yn ei gymydogaeth ymron yn hollol am un flwyddyn, yn unig, ni a'i cawn yn cael ei ddenu gan wahoddiad boneddwr; ac yn cael ei arwain gan amnaid rhagluniaeth, i sir Faesyfed; i gynghori pechaduriaid yn nhŷ y boneddwr ei hun. Hwn, tybygid, oedd y cam cyntaf a roes allan o'i gymydogaeth ei hun; ond nid yr olaf. Yr oedd ar y pryd yn rhwym wrth ysgol, fel na allai wibio llawer; eto nid oedd ei awydd ddim llai; a chyn hir drylliodd ei rwymau, ac ymosododd yn egniol ar ei alwedigaeth ysbrydol; a chafodd arwyddion boddlonawl yn fuan, mai i hyn yma y'i galwyd, ac yntau ni "fu anufudd i'r weledigaeth nefol."

Nid oedd wedi bod nemawr fwy na dwy flynedd, sef 1736 a 37, yn llafurio fel hyn, cyn cael llythyr oddiwrth yr enwog Whitfield; yn ei galonogi ef i fyned rhagddo yn wrol, gan ddymuno Duw yn rhwydd iddo. Ni a gasglwn oddiwrth hyn fod yn rhaid fod cryn son wedi myned allan eisoes am ŵr ieuanc Trefecca, pryd y daeth y newydd mor fuan i glustiau Whitfield; yn enwedig pan yr ystyriom pa mor afrwydd y cerddai newyddion y pryd hwnw, o'r naill gŵr o'r wlad i'r llall. Ond yr oedd dyeithrwch anarferol y dull a ddefnyddiai, a'r cynhwrf a barai yn mysg ei wrthwynebwyr, ynghyd

ag awch rhyfeddol ei weinidogaeth, yn rhoddi adenydd i'r newyddion am dano. Anmhosibl, bellach, oedd ei guddio. Goleuni dysglaer ydoedd yn nghanol nos dywell. Gwelid ef o bell, a sonid am dano gan laweroedd.

Gan mai i sir Faesyfed yr aeth efe gyntaf allan o'i gartref, hwyrach mai cystal fydd i ni osod ger bron yr ychydig hanes sydd genym am y sir hono. Ysgrifena cyfaill* atom, "Nid oes un o siroedd Cymru yn swnio yn ddyeithrach yn ei chysylltiad â Methodistiaeth, na sir Faesyfed. Os gofynir, pa fodd y mae rhoi cyfrif am hyn, gallwn ateb, mai nid o herwydd na ymosodwyd ar y rhan yma o Gymru, fel rhanau eraill; ac mai nid o herwydd na fu llwyddiant, ïe, llwyddiant *mawr* ar y gwaith yn mlynyddau cyntaf y diwygiad, y mae felly. Yn y gwrthwyneb, braidd na ddywedem, mai yn sir Faesyfed y dechreuodd Methodistiaeth; o leiaf i sir Faesyfed yr aeth Mr. Harris gyntaf, allan o'i dŷ ei hun. Dywedir i ŵr boneddig o sir Faesyfed, yn 1737, ddanfon am dano i bregethu i'w dŷ, yr hyn a fu yn foddion i ddwyn amryw o uchelradd y wlad hono i wrando arno, a chael derbyniad parchus ganddynt."

Nid yw sir Faesyfed y dydd hwn yn gwbl ddyeithr i Fethodistiaeth. Y mae ynddi ychydig nifer o gynulleidfaoedd, a rhai o honynt a golwg tra gobeithiol arnynt; ond y maent oll o gychwyniad diweddar; ac wedi eu crynhoi dan arolygiaeth Cymdeithas Genadol Gartrefol y Deheudir; a hyny o fewn y ganrif bresenol. Felly, gan fod ymosodiad wedi ei wneuthur ar y sir gan Mr. Harris, a'i gyd-lafurwyr, ar ddechreu y diwygiad Methodistaidd; a chan fod yr holl gynnlleidfaoedd sydd yn y wlad yn awr, o darddiad diweddar, y mae yn rhaid naill ai bod yr ymosodiad cyntaf wedi aflwyddo yn hollol, neu ynte fod dirywiad graddol wedi disgyn ar yr eglwysi a blanesid; a thrwy hyny fod hir fwlch wedi cymeryd lle yn Methodistiaeth y wlad hon. Ymofyn i hyn a fydd ein gorchwyl presenol.

Oddiwrth ryw ddyfynion byrion, a geir yn achlysurol a gwasgaredig, yn "Nghofnodau Trefecca;" ac oddiwrth ryw nodiadau a gyhoeddid ar y pryd, mewn papyryn wythnosol, yr hwn a elwid "*The Weekly History*," ac a gynwysai lythyrau oddiwrth weinidogion ac eraill, y rhai a lafurient yn y tymhor ar y maes Methodistaidd; oddiwrth yr hysbysiadau hyn, meddwn, y cawn allan, fod y Diwygiad wedi cerdded rhagddo yn y wlad hon, mor gyflym a grymus, yn mron, ag y gwnaeth mewn un wlad arall, dros amryw flynyddau o'r dechreuad; a bod yma amryw o eglwysi, nid llai na 15, feallai lawer mwy, o eglwysi a chynulleidfaoedd wedi eu casglu. Ond y mae yr un mor ddiymwad a hyny, fod dirywiad trwm wedi dilyn yr adfywiad a fu; nes i bob argoel o hono, yn mron, golli o'r wlad. Nid yw yr hanes sydd genym, ychwaith, yn rhoddi i ni hysbysiad manwl am y modd y dechreuasai y gwaith yn y lleoedd a grybwyllir, na than ba amgylchiadau; yn unig ni a gawn grybwylliadau yn awr ac eilwaith am danynt, wrth y rhai y profir fod yn-

* Parch. Ebenezer Williams, Pen-y-bont (y pryd hwnw), Sir Faesyfed.

ddynt gymdeithasau eglwysig wedi eu ffurfio, ac y dangosir pa nifer o aelodau oedd ynddynt, a pha wedd oedd arnynt.

Y lle cyntaf a nodwn ydyw "CLYRO." Plwyf mawr a thoreithiog ydyw hwn, yn iseldir sir Faesyfed; yn cyffinio ar swydd Henffordd; eto nid yn mhell oddiwrth Drefecca. Ymddengys fod Methodistiaeth wedi ymsefydlu yn Clyro yn fore; mor fore a 1742 neu foreach; a'i fod yn fuan wedi ymwreiddio yn ddwfn. Adroddai un Mrs. Lyon, aelod o gymdeithas eglwysig y cyfundeb yn y Gelli, wrth y Parch. T. Phillips, yn y fl. 1833, mai mewn lle a elwir Tre'-waelod, yn agos i *Paine's-castle*, yr ymgyfarfyddai cymdeithas Clyro, neu Clyrow, dros ryw dymhor, ac wedi hyny yn Rhyd-lydan; a'i bod hi yn adnabod rhai o'r aelodau. Yr oedd Mrs. Lyon, ar y pryd yr adroddai hyn, yn 86 mlwydd oed. Yr oedd nifer y gymdeithas un amser yn 70; ac yn eu plith yr oedd amryw o foneddigion yr ardaloedd. Yn y fl. 1743, ni a gawn un Thomas James, Cerrig-cadarn, yr hwn oedd yn arolygwr dros ranau o Frycheiniog a Maesyfed, yn ysgrifenu fel hyn: "Aethum i a'r brawd S., fore Sabboth i Dre'-waelod, a chawsom yno oedfa felys iawn." Yn yr un flwyddyn, ysgrifena un John Jones, Woodstock, ysgolfeistr a chynghorwr, gan adrodd hanes ei daith yn sir Faesyfed, a dyweyd; "Wedi i ni gael ein gwthio allan o dref y Gelli, a'n lluchio â baw a llwch, daethom i Clyrow, lle y cawsom nodded, a chyfarfod hyfryd o weddio dros ein herlidwyr."

LLYWES.

Plwyf arall, yn ngwaelod sir Faesyfed, yw hwn hefyd. Nid oes genym yn mron ddim hanes am y lle hwn; rhagor na chrybwylliad unwaith neu ddwy, gan yr ymwelwyr eu bod wedi bod yno.

GORE.

Mae y lle hwn yn mhlwyf hen Faesyfed. Ymddengys ei fod yn un o brif orsafoedd Methodistiaeth y sir. Y pryd y cyfeiriwn ato, yr oedd nifer y Gymdeithas yn 59 o aelodau. Yr oedd yn byw yn y lle hwn bregethwr rhagorol, o'r enw James Beaumont. Yn nghymdeithasfa Watford; y gymdeithasfa gyntaf a fu gan y Methodistiaid erioed, pryd yr oedd George Whitfield yn gymedrolwr ynddi, y rhoddwyd caniatâd i Beaumont gynghori yn gyhoeddus. Yn y flwyddyn ganlynol penodwyd ef i fod yn arolygwr yr achos yn siroedd Maesyfed a Henffordd. Ymddengys mai yr un gymdeithas oedd hon a chymdeithas Maesyfed.

ABEREDW.

Mae Thomas James, Cerrig-cadarn, yn ysgrifenu fel hyn yn y fl. 1743:— "Nos Fercher ni a gawsom gyfarfod eglwysig, yn ein tŷ ni ein hunain, hynod o felys. Yr oedd yma rai o sir Faesyfed, sef Madam B—y, a'i chwaer Miss

N—y R—ds. Yr wyf yn credu i nerthoedd uffern gael eu hysgwyd oddiuanom; gwnaed ni oll yn llawen dros ben. Agorwyd ein calonau, a chariad yr Iachawdwr oedd fauer drosom, fel nas gwyddem pa fodd i ymadael. Mi gymerais fy rhyddid i fyned ar eu cais i sir Faesyfed. Aethum i dŷ Madam B—y nos Sadwrn. Teimlwyd yma y fath nerthoedd mawrion, nes oedd y gwaeddi am yr Iesu mor uchel, fel ag i foddi fy llais i; yr oedd yma amryw yn ymdreiglo ar y llawr, dan arwyddion amlwg o ddrylliad calon. Buom yno ar ein traed hyd ddau o'r gloch y bore. Prydnawn Sabboth, aethum i Aberedw; nis gwn pa beth a wnaed, ond yr oedd yno gyffro mawr. Bu gorfod i rai o'r gwrthwynebwyr mwyaf, ymollwng i wylo, er gwneuthur pob ymdrech i ymattal. Duw a ganiatao i'r cwbl ddybenu mewn llawenydd yn yr Ysbryd Glân."

GLASCWM.

Y llefydd y cynhelid y cyfarfodydd yn y plwyf hwn, oeddynt Bryn-melys a'r Rhiwiau. Dywed un John Jones, fel hyn, am ei ymweliad â Glascwm; "Prydnawn dranoeth aethum i Bryn-melys; lle yr oedd R—d L—s, cynghorwr Annibynol yn llefaru; minau a leferais ychydig ar ei ol. Yr wyf yn credu i'r Iachawdwr fendithio yr oedfa i'w ŵyn." Ysgrifenai un arall am y Gymdeithas fel hyn: "Er nad ydynt ond ychydig o nifer, y maent yn hyfryd yn eu heneidiau, a'r rhan fwyaf o honynt yn gedyrn yn y ffydd, ac yn llawn o gariad. Mae un o honynt, yr hon er ys amser a roddasai sail i gredu fod iddi hawl yn ngwaed yr Oen, yn awr, wedi hir gystudd a phoen, wedi ei hwylio hi yn orfoleddus idd ei hafan ddymunol, gwlad o orphwysfa berffaith. Traddodwyd dwy bregeth yn ei hanghŷdd, ac yr oedd yr Arglwydd yno mewn gwirionedd. I Dduw y bo'r gogoniant!"

Drachefn, dywedir am aelodau y gymdeithas hon: "Mae y rhan fwyaf o honynt yn hyfryd a sylweddol, a llawer o bresenoldeb yr Iesu yn eu plith. Maent yn rhodio mewn cariad, ac yn addurno yr efengyl mewn bywyd ac ymarweddiad. Mae Edward Bowen yn eu mysg, ac yn ddefnyddiol yn ei waith yn cynghori yn gyhoeddus."

Yma yr oedd yn byw un Thomas Sheen, neu Seen, yr hwn y sonia Robert Jones am dano,* yr hwn, ar waith Howel Harris yn cilio oddiwrth y Methodistiaid, a aeth yn athraw i blaid fechan, ag oedd yn ardaloedd Llanfairmuallt, wedi gŵyro at syniadau Antinomaidd. Gorphenodd hwn ei yrfa yn y fl. 1790, a chyhoeddwyd marwnad er coffadwriaeth am dano.

LLANDEGLEY.

Mae y lle hwn yn gorwedd o fewn tua dwy filldir i Ben-y-bont, sir Faesyfed, ac felly o fewn ychydig filldiroedd i Landrindod. Yr oedd yn Llandegley gymdeithas eglwysig o gryn nifer. Lle eu hymgynulliad oedd Dôl-

* Drych yr Amseroedd, tudal. 138.

swydd, amaethdŷ yn ymyl Pen-y-bont. Un Mr. Bowen oedd yn byw yn y tyddyn y pryd hwnw; hiliogaeth yr hwn a fu yn dal cysylltiad â Methodistiaid hyd o fewn ychydig o flynyddau yn ol. Sonir hyd heddyw, o dad i fab, am ryw amgylchiadau cysylltiedig â gweinidogaeth Howel Harris, yn y fro hon. Yma, dan bregeth o'i eiddo, ar brydnawn Sabboth, y cafodd un Robert Newell ei ddychwelyd; yr hwn a gyfrifid yn ŵr duwiol, ac a fu yn pregethu dros oes hir ar hyd yr ardaloedd. Mae yma amryw o hen bobl y gymydogaeth yn cofio Robert Newell, ac wedi ei wrando yn pregethu. Bu yr ardal hon, er hyn i gyd, am flynyddau lawer ar ol ei amser ef, heb ddim moddion gras; ïe, hyd nes y sefydlwyd yr achos yn Mhen-y-bont, yr hyn a gymerodd le ymhell wedi dechreu y ganrif bresenol.

LLANDDEWI.

Mae y lle hwn hefyd yn nghymydogaeth Pen-y-bont, ychydig filldiroedd i'r Gogledd. Bu yma ryw nifer o grefyddwyr yn cyd-ymgynull yn amser Howel Harris. Y lle y cyfarfyddent yuddo oedd Cefn-cynfoel. Yr oedd un Mr. Evans yn byw yma y pryd hwnw, yr hwn oedd ŵr cyfrifol a duwiol iawn. Mewn amaethdŷ arall o'r enw Cwm-cefn-y-gaer, yn yr un gymydogaeth, yr oedd gwraig tra chrefyddol yn preswylio; nain ydoedd hon i hen ŵr, o'r enw Mr. Thomas, Pen-y-bont, yr hwn sydd yn awr yn fyw, ac wedi priodi gweddw i'r diweddar Barch. Humphrey Gwalchmai; gŵr a ddangosodd lawer o garedigrwydd i Dduw a'i dŷ. Yn y plwyf hwn, Llanddewi, yr oedd Robert Newell yn byw; mewn tyddyn bychan o'r enw Pant-y-ffin. Sylwa y darllenydd mai enwau Cymreig sydd ar yr holl leoedd a grybwyllwyd, ac felly y mae drwy yr holl wlad; eto, dylai gofio o hyd mai Saesonaeg, o'r fath ag ydyw, yw yr unig iaith a siaradir, neu a ddeallir yn mhob man.

LLANBISTER.

Mae y lle hwn yn gorwedd rai milldiroedd yn mhellach i'r Gogledd na Llanddewi. Bu yma hefyd gymdeithas eglwysig feehan yn yr amser gynt. Cyfarfyddai y crefyddwyr â'u gilydd yn Llwyn-rhingyll a Llwynitch. Cenid rhigwm gynt, a chofir darnau o hono eto, o wawd ar y Methodistiaid; yn yr hwn y sonir am rai o'r cynghorwyr, a'r lleoedd y cyfarfyddent. Rhan o hono sydd fel hyn:—

> "Hwlin and Newell, and Shenkin and Sheen,
> And many fine names which we never have seen;
> To suit their convenience, the places they pitch'd,
> Where Hodel, Cefn-cynfoel, Cwmrhingyll, Llwynitch."

Ymwelodd Howel Harris â'r ardal hon mor gynar a'r fl. 1739; ac mewn llythyr at gyfaill a ysgrifenodd yn y lle, y dywed; "Yr wyf yn gobeithio fod gwaith mawr i fyned yn mlaen yn y wlad hon, ond fe gostia hyny lawer

brwydr â satan yn gyntaf. Yr Arglwydd a'm harfogo erbyn dydd y frwydr, ac a guddio fy mhen. Yr wyf yn penderfynu aros yn y wlad yma am bymthegnos yn rhagor."

Mewn llythyr o eiddo un o'r cynghorwyr a fu yn ymweled â Llanbister, dywedir fel hyn:—"Y prydnawn, ni a aethom i Lanbister; lle y darfu i Arglwydd y gwirionedd drugarhau wrthyf, a rhoddi ei bresenoldeb. Yr wyf yn credu i rai deimlo gair Duw, yn fywiol a nerthol, fel cleddyf dau-finiog, yn enwedig dwy ferch; sef nith i'r gŵr anwyl hwnw, Mr. Vavasor Griffiths, yn awr mewn gogoniant, a merch y tŷ. Yr oedd y ddwy wedi eu toddi yn rhyfeddol. Dywedodd Miss W—, wrthyf, na theimlodd erioed fwy o Dduw."

RHAIADR-AR-WY.

Tref yw hon ar derfyn gorllewinol sir Facsyfed; tref y mae y ddwy iaith yn gymysgedig, a thref, fel llawer eraill, ar y terfynau, na fu nemawr o lwyddiant ar grefydd ynddi erioed. Nid ydym yn deall y bu yma yr un gymdeithas eglwysig yn nyddiau Howel Harris; eto, bu ef ei hun yma. Cyfeiriai at yr ymweliad a wnaeth â gwylmabsant yn y gymydogaeth hon, mewn llythyr dyddiedig, Chwef. 5, 1739.* Yn yr un llythyr ychwanegai, "Yr oedd anghladd yn y gymydogaeth; aethum i'r llan; ac wedi d'od allan mi a ofnais y syrthiai y bobl i fagl y diafol, felly mi gyhoeddais y byddwn yn llefaru yn y dref, sef Rhaiadr, chwarter milldir oddiyno; ac yno y daethant, 'rwyf yn credu, bob un. Fe'm nerthwyd i lefaru gyda llai o daranau, ac â mwy o ddyddanwch. Ni fu yno ddim aflonyddwch, er i satan amcanu hyny; aeth eu cynlluniau yn ofer; Duw a'u siomodd."

NANTMEL.

Lle yw hwn rhwng Rhaiadr a Phen-y-bont. Yr oedd yma achos er yn gynar iawn er nad oes genym un crybwylliad, pa fodd na pha bryd, yn fanwl y dechreuodd. Darllenwn yn "Nghofnodau Trefecca," ddarfod cynal cwrdd misol yma, Ebrill 13eg, 1744; ac un arall yn mis Hydref, yn yr un flwyddyn. Mr. William Williams, Pant-y-celyn, oedd y cymedrolwr yn y cyntaf, a Mr. D. Rowlands yn yr ail. Yr oedd yma un William Evans yn byw, yr hwn oedd gynghorwr parchus a duwiol iawn. Ymddengys fod gofal rhyw nifer o eglwysi wedi ei ymddiried iddo. Sonir yn un o'r cymanfaoedd am i arolygiaeth eglwysi Llanddewi, Llandegley, a Llandrindod fod yn ei ofal. "Mi a leferais nos dranoeth," meddai un o'r arolygwyr cyffrediuol, "yn nhŷ y brawd William Evans (yr hwn sydd yn enaid anwyl, ac yn amcanu at ogoniant Duw) gyda gradd o nerth." Mynych iawn y cawn y gweinidogion wrth ysgrifenu at eu gilydd, yn dymuno cael eu cofio at William Evans, o Nantmel.

* Cyf. II., tudal. 339.

LLANDRINDOD.

Mae enw y lle hwn yn adnabyddus iawn o herwydd y cyniwair sydd iddo yn misoedd yr haf i yfed y dyfroedd iachusol a iachäol a geir ynddo. Mae yn sefyll rhwng y Drefnewydd, sir Drefaldwyn, a Llanfair-Muallt, sir Frycheiniog; ac o fewn tuag wyth milldir i'r lle olaf a enwyd. Y lle y cynelid y moddion ynddo yn yr ardal hon oedd Dolberthog. Cyfeirir at y lle hwn gan un o'r ymwelwyr; "Bore dranoeth mi leferais yn Llandrindod, lle yr oedd amryw o foneddigesau (wedi dod i'r ffynonau ond odid), yn gwrando gydag astudrwydd mawr, ac yn ymddangos fel rhai dan radd o effeithiau daionus." Cynaliwyd cwrdd misol yma yn Mai 27ain, 1743, i'r hwn yr oedd Williams Pant-y-celyn, yn gymedrolwr. Nid yw yn ymddangos, pa fodd bynag, y bu yma nemawr lewyrch ar Fethodistiaeth erioed. Dywedai un arolygwr am gymdeithas Llandrindod, "Mae yn hollol allan o drefn. Mae llawer wedi eu gwasgaru, ac nid ydynt ond ychydig o nifer. Maent yn bwriadu dechreu o newydd pe caent ryw un i ddyfod atynt; gweddiwch ar Arglwydd y cynhauaf i anfon atynt ryw un i gryfhau eu dwylaw."

DYSERTH.

Mae y lle hwn ymron ar derfyn sir Faesyfed, ar y ffordd i Lanfair-Muallt o Landrindod. Yr oedd yma unwaith ychydig o enwau, ond nid yw yn ymddangos ddarfod gosod yr un gymdeithas eglwysig mewn trefn yn y lle hwn, ac er fod yma ŵr o'r enw David Price yn ceisio cynghori, eto nid hir y bu hyny; gan fod cyfarwyddyd wedi ei roddi yn 1742, ar iddo gael ei ddystewi; ac ni a gawn ddywedyd drachefn yn y flwyddyn ganlynol 1743, nad oedd yma yr un cynghorwr.

CEFN-LLYS.

Lle yw hwn o fewn ychydig filldiroedd i Landrindod; y lle y byddid yn arfer ymgynull yn y gymydogaeth hon oedd y Cwm-brîth. Cawn hanes am gwrdd misol yma yn y fl. 1744; ac un o weithrediadau y cyfarfod oedd holi un Edward Bufton am ei wybodaeth mewn pyngciau athrawiaethol, ac am ei alwad i gynghori dynion yn gyhoeddus, a chaniatâu iddo yn y caulyniad gynorthwyo y brawd James Beaumont, fel cynghorwr cartrefol.

Gwelwn oddiwrth y byr hanes uchod fod Methodistiaeth wedi ymwthio i lawer o gonglau sir Faesyfed, yn mlynyddoedd cyntaf y diwygiad; ac yn ystod y chwe' blynedd cyntaf wedi llwyddo ac ennill tir cymaint ag a wnaethai mewn un wlad arall yn yr un cyfnod. Yr oedd yma o leiaf 13 o gymdeithasau bychain wedi eu crynhoi, ac fe ddichon fod rhai eraill; am y

rhai nid oes genym ddim crybwylliad. Yr oedd hwn yn gychwyniad tra gobeithiol; gwawr ydoedd yn addaw bore teg; egin yn argoeli cynhauaf toreithiog. Nid oedd Trefecca, cartref Harris, ddim yn mhell, na Phant-y-celyn, cartref Williams. Yr oedd Thomas James, danbaid; James Beaumont, boblogaidd; Robert Newell, dduwiol, a William Evans, hawddgar, yn byw o fewn y cylch. Nid oedd yma ddim rhyw wrthwynebrwydd mawr yn mysg yr uchraddiaid, na chyffro gwrthdarawiadol yn mysg y werin—mewn gair yr oedd yr olwg yn dra gobeithiol; y fath y gellid dyfalu canlyniadau dymunol oddiwrtho. Ond och! nid felly y bu! yn lle myned rhagddo yn rymus a chyson, fel mewn parthau eraill o Gymru, arafaidd olwynion y cerbyd yn fuan. Yn lle chwanegu cryfder trwy dreigliad amser, disgynodd dirywiad trwm ar yr holl ysgogiad, "Nerth y cludwyr a wanhaodd, a phridd lawer oedd yn aros, fel na ellid adeiladu y mur." Disgynodd rhyw awelon gwenwynig ar y blodau gobeithiol, a pharasant ddiflaniad a difrod. Gadawodd Williams a Rowlands y maes hwn i Harris;—Harris ynteu, yn lle myned at y bobl, a'u galwodd hwy i ddyfod ato ef, i Drefecca. Syrthiodd y cyrddau misol i lawr; ciliodd rhai o'r cynghorwyr i Loegr, llaesodd dwylaw rhai eraill. Chwalwyd y cymdeithasau bychain am nad oedd neb yn eu bugeilio, a dyrysodd ysgogiadau y peiriant crefyddol yn llwyr; a pha beth a ellid e ddysgwyl ond i'r wlad ddychwelyd eilwaith i'w marweidd-dra cynhenid,—i'w hagwedd baganaidd megys yn y dechreuad. Erbyn hyn nid oes gan Fethodistiaeth yr un orsaf o fewn sir Faesyfed, ond y rhai a gychwynwyd o fewn y gaurif bresenol, gan mwyaf dan nawdd Cenhadaeth Gartrefol y Deheudir. Felly rhaid oedd fod bwlch hir a maith wedi bod ar Fethodistiaeth y wlad hon, rhwng amser Howel Harris a chyfodiad y Genhadaeth. Daeth y diflaniad hwn hefyd ar y rhan yma o Gymru, pryd yr oedd yr un achos yn llwyddo yn mron yn mhob parth arall. Naturiol, gan hyny, ydyw ymholi i wraidd y gwahaniaeth. Pa ham y daeth dirywiad cyffredinol ar un dosbarth, pryd yr oedd adfywiad cyffredinol ar ddosbeirth eraill. Pa ham sir Faesyfed mwy na sir Aberteifi, neu sir Gaerfyrddin, neu ryw sir arall? Pa atebion bynag a geir, y mae y ffaith yr un. Felly y bu:—ac oni buasai llafur y Genhadaeth Gartrefol, yn anialwch gwyllt a didriniaeth y buasai hyd heddyw, oddieithr rhyw ychydig bach o fanau.

Nid oes amheuaeth, na fu yr ymraniad rhwng Harris a Rowlands yn un o'r achosion a barodd y cyfryw ddiflaniad yn y wlad hon. Yr oedd agosrwydd y parth hwn i Drefecca, yn fath o rwystr i neb arall ymosod arno. Cyfrifid ef yn rhandir neillduol Harris. Efe oedd agosaf ato; a chan ei fod bellach yn rhoddi heibio gyniwair y gwledydd fel y gwnaethai, yr oedd sail i ddysgwyl y buasai ef, mewn undeb â'r cynghorwyr a ymlynai wrtho, yn gofalu am y dosbarth hwn o wlad ag oedd mŏr gyfleus iddo. Ac nid oes amheuaeth na fu cynghorwyr perthynol i Drefecca yn llafurio, i ryw raddau, a thros ryw gymaint o amser, yn y parthau hyn; ac ynteu ei hun efallai hefyd yn achlysurol; ond fel yr oedd ei waith yn mysg teulu Trefecca yn cynyddu, a'r cynghorwyr

cysylltiedig ag ef yn lleihau, yr oedd y maes hwn yn cael eu esgeuluso. A chan i sefydliad Trefecca fethu yn ei amcan, a cholli ei afael fwy fwy ar serchiadau y bobl, nid oedd neb, o newydd, yn dyfod i mewn; ac eraill wedi blino yno yn ymadael, ac angeu gyda'r cwbl yn gwneyd ei waith ynteu; yr oedd cynorthwywyr Harris yn rhwym o brinhau, a'i ryddid ynteu i gyniwair y wlad yn cwtogi. Yr oedd y diwygwyr eraill, sef, Rowlands a'i gyd-gynorthwywyr wedi troi eu hymdrechion ymron yn hollol i ranau eraill o'r dywysogaeth; felly, trwy iddynt hwy adael sir Faesyfed yn gwbl i Harris; ac hefyd, trwy fod Harris, fel y dywedwyd, yn methu yn ei ddysgwyliad, fe ollyngwyd y parth yma o'r wlad i syrthio i'w gwylltedd cyntefig.

Er mwyn deall yn well yr achos o'r dirywiad hwn, rhaid cymeryd i sylw, agwedd eiddil ac ansicr yr achos, yn adeg yr ymraniad, ynghyd ag ansawdd y trigolion o *ran iaith*. Gwelwn nad oedd gymaint ag *un tŷ addoliad* wedi ei godi er dechreuad y diwygiad, ysbaid 15 mlynedd. Mewn tai anedd y cedwid y moddion; ac yr oedd y rhai'n, trwy symudiadau yr aneddwyr, eu henciliadau, neu eu marwolaethau, yn ddarostyngedig i ansicrwydd mawr. Ni ellid dysgwyl gwedd gyson, sefydlog, a pharhaus, tra y dibynai yr achos ar amgylchiadau mor ansefydlog. Mynych, pan y syrthiai y penteulu, yr hwn yn aml oedd yr unig un a garai y gwaith, yr oedd yr achos yn rhwym o syrthio hefyd. Yr oedd yr iaith Saesoneg hefyd, wedi ymledaenu yn mron dros holl sir Faesyfed i gyd; a chan fod corff y dychweledigion yn Gymry, ac yn Gymry uniaith, yr oedd prinder offerynau i gario y gwaith yn mlaen yn mysg y Saeson, yn rhwym o arafu olwynion y peiriant. Dichon, hefyd, fod y gwahaniaeth mawr a wneid y pryd hwnw rhwng pregethwyr â'u gilydd, dan enw arolygwyr a chynghorwyr, a'r anhawsder a deimlid mewn canlyniad i'r israddiaid ysgogi at ddim, na dal dim yn effeithiol i fyny, heb nawdd a chydweithrediad eu huwch-raddiaid, wedi gwneyd y drwg yn waeth. Teimlai y cynghorwyr na ddylasent hwy wneuthur dim heb eu harolygwyr; a'u nerth hwythau yn wir a ddiflanodd wedi ymneillduad yr arolygwr cyffredinol i Drefecca. Nid oes amheuaeth na pharhaodd llawer cynghorwr bychan i lafurio yn ol ei allu, ac yn ol yr alwad a fyddai arno, dros ei oes, yn ngwahanol barthau y wlad; ac nid oes amheuaeth chwaith, nad oedd gryn nifer o ddynion a garent yr efengyl yn aros yn y tir; eto, yr oedd elfenau dirywiad wedi dechreu ymweithio, yr oedd grym y beirian-drefn wedi colli; dechreuodd y gwaith sefyll, ac o radd i radd syrthiodd i waeledd a nychdod trwm.

Aeth heibio 15 mlynedd, a phethau yn aros yn y wedd yma, heb lawer o gyfnewidiadau; oddieithr fod bywiogrwydd teulu Trefecca yn llacio, a'i nifer yn lleihau. Ië, dylid chwanegu i Harris ei hun dreulio tair blynedd o'r ysbaid hwnw, yn swyddog milwraidd;* ac yn ansefydlog yn gwibio ar hyd Loegr. Tua'r fl. 1767, cymerodd Iarlles Huntingdon mewn llaw sefydlu coleg yn Nhrefecca; a gallesid dysgwyl y buasai hyn yn fywyd o feirw i'r gwaith, gan

* Gwel yr hanes, Cyf. I., tudal. 395.

y nifer o ddynion ieuainc a ddygid gan y fath sefydliad i aros dros dymhor yn y wlad. A gwir ydyw yr anfonid yr efrydwyr ar yr Sabbothau i bregethu yn yr un ardaloedd ag y buasai pregethu ynddynt o'r blaen; a gwir hefyd ydoedd, fod rhyw nifer o'r hen grefyddwyr eto yn aros, yma ac acw, yn barod i'w derbyn a'u croesawu. Eto, er hyn oll, ni lwyddodd y gwaith ond ychydig. Yr oedd amser dal dynion fel wedi myned heibio; ac er i chwanegiad breintiau attal gradd ar gyflymder y dirywiad, eto ni roddwyd gwedd newydd arno yn unlle. Dychwelwyd ambell un, yn awr ac eilwaith, at Dduw; ond ni roddwyd ysgogiad cyffredinol i'r gwaith. A hyny hefyd a ddarfu, oblegid symudwyd y coleg o Drefecca i Cheshunt yn Lloegr; a chollwyd ar unwaith lafur a gwasanaeth yr efrydwyr. Yr oedd Harris, bellach, er ys blynyddau, wedi marw; y cynghorwyr hefyd, a gyd-lafuriasent âg ef, wedi meirw; teulu Trefecca wedi lleihau llawer mewn rhif, heneiddio llawer mewn oed, a llacio llawer mewn bywiogrwydd; efrydwyr yr Iarlles hefyd wedi ymadael, a'r wlad yn aros heb ei chyffroi na'i diwygio; a'r ychydig ddiwygiad a fu erbyn hyn wedi colli tir yn lle ei ennill; beth oedd bellach i'w ddysgwyl ond cwbl ddirywiad. Disgynodd sir Faesyfed, a rhai manau o sir Frycheiniog, yn y modd yma, o ran pethau crefyddol i'w hagwedd gyntefig; a hyd nes yr ymosodwyd ar y parthau hyny gan Gymdeithas Genadol Gartrefol y Deheubarth, ni wnaed dim gan y Methodistiaid, nac yn wir gan un enwad arall, i chwalu y tywyllwch a'i gorchuddient, ac i ddwyn goleuni yr efengyl i lewyrchu arnynt.

Nid ydym yn cael hanes am un pregethwr, a gododd yn mysg y Methodistiaid, yn sir Faesyfed, ar ol yr ymraniad, ond Mr. James James, Pen-blaen, a Hugh Pritchard, clochydd Llanir.

Ganwyd Mr. James, yn Tach. 24, 1760, mewn tyddyn cyfrifol, o'r enw Pen-y-blaen, plwyf Aberedw, sir Faesyfed. Yr oedd ei rieni yn sefyll yn lled uchel yn ei hardal, a chanddynt fwy na'r cyffredin o dda y byd hwn. Yr oeddynt yn byw ar eu tir eu hunain, ac yn perchenogi tyddynod eraill hefyd, ond yr oeddynt yn hollol ddyeithr i grefydd; ïe, yr oeddynt yn dra gwrthwynebol iddi. Dan y fath addysg a roddid iddo gan ei rieni, ni ellid dysgwyl amgen nad mewn perffaith ddyeithrwch i grefydd, a hollol ddiofalwch am dani y tyfai y bachgen James i fyny. Parhaodd yn y cyflwr hwn hyd nes ydoedd yn 20 mlwydd. Ond daeth yr amser, bellach, i drugarhau wrtho; ïe, yr amser nodedig a ddaeth.

Yr oedd Methodistiaeth wedi hir ymsefydlu yn Llanfair-muallt, y dref farchnad nesaf ato, ac o fewn ychydig filldiroedd i'w gartref. Yr oedd efrydwyr Trefecca hefyd, ar y pryd, yn arfer pregethu mewn amaethdŷ o'r enw Celynen, plwyf Cerigrnau; lle yr oedd hen wraig dduwiol, o'r enw Mrs. Morgans, yn byw. Ni ddywedir a fyddai y gŵr ieuanc yn arfer rhoddi clust yn achlysurol i weinidogaeth yr efengyl yn y lle hwn ai ni wnai; pa un bynag, daeth cyfnewidiad arno ynteu, a hyny trwy foddion tra anghyffredin. Yr oedd unwaith yn dychwelyd adref o farchnad Llanfair-muallt; a disgynodd llef ar ei

glust oddi fry, yn gwaeddi yn Saesoneg, " Tragwyddoldeb ! tragwyddoldeb ! " dair gwaith drosodd. Nid oedd ganddo un dychymyg o ba le yr oedd y llef yn dyfod, ac nid oes neb hyd heddyw wedi meiddio penderfynu. Cnd pa un bynag ai nerth dychymyg a'i cynyrchodd, ai llef ddynol wedi ei gyfeirio yn fwriadol ato gan ryw un anweledig iddo, (yr hyn sydd yn dra annhebyg,) ai ynte llef Mab Duw, ydoedd; parodd effeithiau anarferol ar y gŵr ieuanc. Bwriodd ef ar ei wely, a bu yn glaf iawn. Am dridiau yr oedd afiechyd ei gorff, ac arteithiau ei feddwl yn anyoddefol; yr ydoedd meddyliau am dragwyddoldeb wedi bachu yn ei galon, a'i gorff yn ednyddu gan ofid enaid ! Ni wyddai am un ddiangfa, a diangfa yr oedd raid iddo gael, neu gael ei lethu gan ing ei ysbryd. Yn ei gyfyngder hwn, meddyliodd am Mrs. Morgans, Gelynen; ac anfonodd am dani; a hi a gafodd yr anrhydedd yn gyntaf oll o dywallt olew a gwin i'w archollion, gan gyfeirio ei feddwl at " Geidwad dyn." Wedi cael ei ddeffro yn drwyadl ynghylch pethau bywyd tragwyddol, a deall fod yn y gymdogaeth, ryw nifer bychan o ddynion, dan bryder meddwl cyffelyb i'r eiddo ef ei hun, ac yn ymofyn, fel ynteu, am gyfarwyddyd ac ymwared; naturiol oedd iddo ymwasgu at y cyfryw, fel rhai, y byddai eu cyfeillach yn fwy hoff ganddo, a'u hymddyddanion yn fwy llesol iddo; ac efe a benderfynodd fwrw ei goelbren yn eu mysg. Cyfarfyddai y crefyddwyr, y pryd hwnw, fel y tybir, yn Llansantffraid, lle yr oedd canghen o eglwys Llanfair-muallt wedi ymsefydlu.

Nid hir ar ol cymeryd y cam hwn, y bu y gŵr ieuanc heb ddechreu pregethu. Anturiodd ar y gwaith pwysig yma, pan oedd yn 22 mlwydd oed, sef yn y fl. 1782. Ac iddo ef, yr oedd ei broffes a'i weinidogaeth, yn fwy pwysig nag i lawer o rai eraill; o herwydd y gwrthwynebiad cryf a gyfodai iddo oddiwrth ei deulu. Tylwyth ei dŷ ei hun a aethant yn elynion iddo. Yn eu tyb hwy, nid allai y llencyn wneuthur dim yn fwy colledus i'w amgylchiadau, nac yn fwy difriol i'w enw da. Barnent hefyd, ei fod wedi tynu gwarth ar ei deulu. Yr oedd ymuno yn ddystaw â'r crefyddwyr yn destyn gofid; ond yr oedd troi yn bengrwn cyhoeddus yn anyoddefol ! Yr oedd anghysur mawr wedi dyfod i'r teulu; mab hynaf Mr. James, etifedd Pen-y-blaen, wedi troi at y crefyddwyr ! Cafwyd allan fod pob ymliw âg ef yn ddieffaith, a phob ymresymu, fel y gwna dynion y byd, ar bethau o'r fath, yn gwbl ddiles. Nid oedd dim i'w wneyd ond gadael iddo gael ei ffordd, a chymeryd y canlyniad. Penderfynodd ei dad ei dori ymaith o fod yn etifedd, a gadawodd y meddiannau i'w frawd, yr hwn oedd ieuengach nag ef. Rhaid hefyd fod ei dad wedi prysuro i wneuthur hyn, oblegid ni a gawn iddo farw, yn y fl. 1783, yn mhen blwyddyn ar ol i James ddechreu pregethu. Disgynodd yr etifeddaeth i Daniel ei frawd; ac yn fuan ar ol marwolaeth ei dad, aeth James i Drefecca yn efrydydd i goleg yr Iarlles.

Nid hir, pa fodd bynag, yr arosodd yno, gan nad oedd amgylchiadau ddim yn ddiddig gartref; ac yn rhyw argoeli nad oedd rhagluniaeth ddim eto wedi cael ei hewyllys. Yn y fl. 1786, bu farw ei frawd hefyd; a rhoddwyd iddo

ynteu feddiant yn y drefdadaeth a drowyd yn annaturiol oddiwrtho. Yn yr un flwyddyn, pan oedd yn 26 mlwydd oed, priododd Sarah, trydedd ferch Mr. Woosnam, Tŷ-mawr, Tref-eglwys, Sir Drefaldwyn; yr oedd rhaglunaieth wedi gofalu ar iddo yn y cysylltiad hwn ymgyfathrachu â theulu crefyddol iawn. Bellach, ymroddodd at ei waith gweinidogaethol o ddifrif; mynodd bregethu i'w dŷ ei hun. Llafuriai lawer i gael pregethwyr dyeithr yno; a mynych iawn y pregethai yno ei hun. Yr oedd yn Mhen-y-blaen y pryd hwn gymdeithas eglwysig fechan, a phregethu cyson ar y Sabbothau. Nid ydym yn deall i Mr. James deithio cymaint yn Ngwynedd; ond am flynyddau cyntaf ei weinidogaeth, fe deithiodd gryn lawer ar wledydd y Deheubarth; ac a hynododd ei hun, i raddau mawr, trwy hyny, am ysbaid 25 o flynyddau. Yn y fl. 1811, fe'i dewiswyd ef yn mysg y tô cyntaf o bregethwyr y Methodistiaid i gael ei neillduo. Ond yr oedd, bellach, yn lled anghymwys i deithio ar hyd y wlad, gan iddo dewychu yn fawr; cymaint felly ag i fod yn faich iddo ei hun. Yn yr un flwyddyn ag y neillduwyd ef, symudodd i fyw i Drefecca, a bu yno tua saith mlynedd. Yn y tymhor hwn, ni allodd, o herwydd yr anghyfleusdra a nodwyd, fod o nemawr wasanaeth i'r cyfundeb, nac ychwaith o hyny allan. Tra bu yn Nhrefecca, arferai fyned yn lled gyson i Plymouth a Llundain, i wasanaethu eglwysi Saesoneg; ac i Gaerlleon i wasanaethu cyfundeb bychan a gychwynasid gan un Mr. Oliver, ac i ba un yr oedd Mr. Charles, Bala, yn ymddiriedolwr. Cof ydyw gan yr ysgrifenydd gyfarfod âg ef yn Nghaerlleon, tua'r fl. 1813, a drwg oedd ganddo edrych arno, gan anhawsed oedd iddo gerdded, ond ychydig iawn o ffordd, heb golli ei anadl. Arferai aros yn y lleoedd hyn, dri neu chwe' mis, ar y tro.

Yn y fl. 1818, ymgymerodd â chynulleidfa o Annibynwyr yn y Fenni, sir Fynwy; yma y parhaodd bellach i lafurio, a hyny yn barchus a llwyddiannus, hyd ei farwolaeth; yr hyn a gymerodd le Ebrill 10, 1831; a chladdwyd ei weddillion yn ngladdfa y capel y bu ef yn gweini ynddo. Cyfrifid Mr. James yn bregethwr grymus; yr oedd yn feddiannol ar nerth meddwl mwy na'r cyffredin; ac yn ŵr craff ei lygad, bywiog ei ddeall, parod ei ymadrodd, cryf a soniarus ei lais, a "hyf fel llew." Gelwid ef yn Nghaer yn "*roaring preacher*." Nid oedd ofn dyn byth yn ei flino; ac fe ddichon i ëondra diarswyd ei dymher ei fradychu yn achlysurol, trwy ei arwain rai gweithiau, i fethu mewn addfwynder wrth ddysgu y rhai gwrthwynebus. Gwir o hyd yr hen ddiareb, "Yr hwn sydd heb ei fai sydd heb ei eni."

Y pregethwr arall a gododd yn sir Faesyfed, oedd un Hugh Pritchard, clochydd, Llanir-yn-rhos. Nid oes genym hysbysiad teg am y cyfnod y bu y gŵr hwn yn llafurio. Barnwn ei fod yn gydoeswr dros ran helaeth o'i oes â Mr. James. Mae llawer o hen bobl y Deheubarth yn ei gofio yn dda. Nid ydym yn deall iddo ynteu lafurio nemawr yn y Gogledd, oddieithr mewn rhyw fanau yn sir Drefaldwyn. Yr oedd yn bregethwr effro a chymeradwy; a chymaint felly yn ei ardal ei hun ag un lle. Yr oedd wedi llwyddo i gry-

nhoi cymdeithas eglwysig o gryn nifer; dywedir ei bod ar un tro yn 60 o rifedi. Gwasanaethai swydd clochydd yn Llanir, er bod yn bregethwr. Yr oedd hyn yn beth syn; a pharod ydym i ofyn ar y naill law, pa fodd y caniateid i bregethwr fod yn glochydd gan y llanwyr?—a pha fodd ar y llaw arall y caniateid i'r clochydd fod yn bregethwr gan y capelwyr? Rhyfedd na roddasai yr offeiriad orfod arno roi heibio bregethu, os mynai glochydda; a rhyfedd hefyd na ddewisasai ynteu roi heibio y glochyddiaeth gan y mynai bregethu. Ond fe wasanaethodd Hugh Pritchard y ddwy swydd, a'r unig un a wnaeth hyny yn Nghymru, o ran dim a wŷr yr ysgrifenydd yn amgen. Nid yw yn cofio am neb a wnaeth hyny ond efe. Ond hyn a wnaed ganddo ef mewn modd a ennillodd iddo barch mawr, ac enw da yn mysg ei gydwladwyr. Y bore Sabboth yr oedd yn y llan yn cadw lle yr anghyfarwydd, ac yn y prydnawn yn y tai ac ar y twmpathau, yn cadw lle yr athraw, ac yn cyhoeddi newyddion da yr efengyl.

Mae un hanesyn yn cael ei adrodd am dano teilwng ei goffhau. Mewn rhyw gymanfa yn y Deheudir, gosodwyd Hugh Pritchard i bregethu gyda Mr. Jones, Llangan. Dygwyddodd hefyd y tro hwn i'r cyntaf o'r ddau gael mwy o hwyl i bregethu o lawer na'r olaf. Craffodd Mr. Jones ar hyn, ac mewn llythyr at gyfaill cyfeiriai at y tro, yn y dull ffraeth ag oedd briodol iddo;—"A wyddoch chwi pwy ddarfu 'nhwy gyplysu yn y gymanfa â'r hen offeiriad penllwyd—clochydd Llanir, os gwelwch chwi fod yn dda. Ac os dywedir y cyfan, mae yn rhaid addef i'r clochydd guro y 'ffeira'd o ddigon!"

Ar farwolaeth Hugh Pritchard a Robert Newell, ac ar ymadawiad Mr. James o'r Pen-y-blaen, fe gollodd y Methodistiaid bob gafael yn sir Faesyfed, am faith flynyddau. Chwalwyd yr aelodau hefyd, ac am nad oedd olynwyr yn codi, darfuant yn raddol allan o'r tir.

Dan nawdd y Genhadaeth Gartrefol, er hyn oll, y mae Methodistiaeth wedi dechreu blaguro eilwaith yn y wlad hon. Mae Pen-y-bont yn hen orsaf genhadol, a changenau ddwy neu dair wedi tarddu allan o honi. Mae achos hefyd yn Rhaiadr er ys blynyddau, felly hefyd yn ddiweddarach yn Maesyfed Newydd, Brilley, a Yardro a manau eraill. Fe geir cyfeirio at y gorsafoedd hyn eto fe ddichon, wrth grybwyll gair am y Gymdeithas Genhadol Gartrefol.

Ni a geisiasom osod o flaen y darllenydd y gwahanol achosion, a barent, i'n tyb ni, y gwahaniaeth rhwng y sir hon â siroedd eraill Cymru; ond wedi y cyfan, rhaid addef gweithrediad penarglwyddiaeth Duw yn y peth. A phan y gofynwn paham yr anrhydeddwyd siroedd eraill Cymru yn fwy, nid oes un ateb yn fwy boddlonol a phenderfynol i'r gofyniad, na'r un a roes yr Iesu mewn achos cyffelyb, "Ië, O Dad, canys felly y rhyngodd bodd i ti." Mae yn deg i'r Goruchaf, wrth weinyddu ei roddion, gael gwneyd a fyno â'r eiddo ei hun, tra nad yw, ar yr un pryd, yn gwneyd cam â neb arall.

PENNOD II.

CYCHWYNIAD METHODISTIAETH YN SIR FRYCHEINIOG.

CYNWYSIAD:—

GWEDD YR ACHOS CYN YR YMRANIAD—AGWEDD Y WLAD CYN CYCHWYNIAD METHODISTIAETH—RHANDIR MUALLT—EGLWYSI ANNIBYNOL LLANWRTYD, A THROED-RHIW-DALAR—PARCH. ISAAC PRICE—CYMDEITHAS EGLWYSIG GLAN-YR-AFON—RHYS MORGAN—RHYDDERCH PRYS O'R GORWYDD—SIAMS, FFOS-YR-HEBOG—THOMAS JAMES YR AROLYGYDD—EGLWYS Y GORWYDD—PARCH. EVAN EVANS O'R FFOS—ADFYWIAD GRYMUS—THOMAS PRICE—DAFYDD PARRY—BONT-RHYD-Y-BERE A LLANGAMARCH.

Nid oes genym bellach ond siroedd Brycheiniog a Mynwy heb olrhain gradd ar eu hanes, ac yn awr ymdrechwn roddi cip olwg ar Fethodistiaeth y ddwy wlad hon. Dylid adgoffa i'r darllenydd wrth ddechreu, fod rhanau helaeth a breision o'r siroedd hyn yn arfer yr iaith Saesoneg yn unig, a thrwy hyny, fod terfynau Methodistiaeth yn llawer cyfyngach nag yn y siroedd y mae y Gymraeg yn ffynu yn fwy. Nid yw y ddwy sir yn cynwys mo hanner y nifer o aelodau sydd yn sir Gaernarfon ei hun, neu yn sir Aberteifi; ac un achos yn ddiau o'r gwahaniaeth mawr hwn, ydyw, fod mwy o'r wlad gan y Saeson yn y naill, a mwy gan y Cymry yn y lleill, a bod Methodistiaeth wedi ymosod yn fwy o'r dechreuad ar y parthau Cymreig, a chyfyngu eu llafur i'w hiaith.

O barth hynafiaith yr achos nid oes nemawr wahaniaeth rhyngddynt; o'r ddau, y mae sir Frycheiniog wedi blaenori ar y cwbl; gan mai ynddi hi y mae Trefecca, hen gartref Howel Harris. Ynddi hi hefyd y dywedir ddarfod adeiladu y capel cyntaf, o leiaf yr un a dybid yn deilwng o'r enw capel, ac a elwid felly; er y rhoddir i ni le i gasglu, fel y dywedasom cyn hyn, fod rhyw un adeilad neu ddwy, wedi eu codi i *ddybenion crefyddol*, ychydig o flaen capel Llanfair-Muallt. Mae yr hanes a roddwyd am Mr. Harris yn dangos, mai yn ei gymydogaeth ei hun y treuliodd ef y rhan fwyaf, os nad y cwbl, o'r fl. 1736. Diamheuol hefyd, pan dorodd allan i ardaloed eraill, y derbyniai y cyrau hyny o Frycheiniog, ag sydd yn amgylchu Trefecca, fesur helaeth o'i lafur. Mae "Cofnodau Trefecca," yn sicrhau fod 14 neu 15 o gymdeithasau bychain wedi eu ffurfio ganddo yn y fl. 1743, o fewn y sir hono; o barai, fe ymddengys mai y rhai oedd yn Llanwrtyd a Merthyr-cynog, oedd yr enwoccaf; o leiaf am amledd eu haelodau. Yr oedd 28 o aelodau yn mhob un, Rhys Morgan oedd y cynghorwr yn Llanwrtyd, a William Williams yn Merthyr. Yr oedd cymdeithasau yn Llanfair hefyd, yn Llanafan, yn Cerig-cadarn a Llanddewi'r-cŵm. Yr oedd yma ddau Thomas Bowen, yn arfer

cynghori, y tad a'r mab, tybygid; y rhai a lafurient gan mwyaf yn Llanfair, Llanafan, a Llanddewi'r-cwm. Yr oedd amrywiol o gymdeithasau eraill wedi eu ffurfio, ond y mae lle i feddwl fod cryn lawr o anwadalwch yn perthyn iddynt; a bod llawer o honynt wedi llwyr ddyrysu, pan disgynodd effeithiau gormesol yr ymraniad arnynt.

Nid ydym yn bwriadu olrhain ysgogiadau Howel Harris yn y sir hon, gyda dim manyldra, pe byddai hyny yn bosibl; ond cyfeirio y darllenydd at yr hyn a adroddwyd eisoes. Y gwirionedd yw, mai nid dyn i'w gartref nac i'w sir yn unig, a fu H. Harris, am ysbaid y 15 mlynedd cyntaf o'i lafur. Yr oedd Cymru a Lloegr yn cyfranogi o'i wasanaeth, a phob sir yn Nghymru yn ei fwynhau, ymron, yn gyfartal, fel nad oedd ef i'w ystyried yn perthyn yn fwy i sir Frycheiniog nag i ryw sir arall. Parhaodd fel hyn hyd y fl. 1751; wedi hyny nid oedd llawer a wnelai ag un lle ond â Threfecca. Am ei lafur cartrefol yn y blynyddau a ddilynodd ei enciliad oddiwrth ei hen frodyr, rhaid cyfeirio y darllenydd at hanes ei fywyd,* am na pherthyn hyny yn briodol i hanes y cyfundeb.

Dywed Mr. Morgan yn "Hanes Ymneillduaeth,"† mai yn y sir hon y ganwyd John Penry, neu Ioan ap Henry, ac mai ynddi y cychwynodd ei weinidogaeth. Bu Meistri. Wroth, Erbury, Cradoc, a V. Powell, yn llafurio llawer ynddi, a hyny gyda gradd helaeth o lwyddiant; a sicrheir fod o fewn terfynau y sir, mor fore a'r fl. 1673, ddim llai na 632 o ymneillduwyr. Sonir am un Hugh Evans, gweinidog duwiol yn mysg y Bedyddwyr, a fu yn ddefnyddiol iawn yn ei dymhor yn siroedd Brycheiniog a Maesyfed. Bu hwn farw yn 1656. Sonir hefyd am Rhys Prydderch, Ystradwallter; a Henry Maurice, fel dynion a barasant eu hol ar y wlad hon. Ond amser a gofod a ballai i olrhain ysgogiadau diwygwyr yr ail ganrif ar bymtheg. Nid oes amheuaeth na wnaethant les mawr yn y wlad hon, yn gystal a pharthau eraill o'r dywysogaeth; ar yr un pryd, yr oedd cryn ddiflaniad a marweiddra wedi goresgyn yr eglwysi ymneillduol erbyn dyddiau Howel Harris. Yr oedd ymrysonau rhwng Bedyddwyr a Gwrth-fedyddwyr babanod, wedi peri ymraniadau mewn amryw o honynt; ac am na çhyfododd dynion o'r un ysbryd a nerth a'r tadau cyntaf, i ddwyn y gwaith rhagddo, syrthiodd i lesgedd nychlyd mewn eglwysi eraill. Gwnaeth cyfeiliornadau heresiaidd anrheithiad galarus mewn rhai eraill; ac erbyn dechreu y ganrif 1700, yr oedd crefydd wedi dymchwel i wedd isel a llesg, nid yn yr eglwys wladol yn unig, ond yn mysg yr Ymneillduwyr hefyd. Ond daeth yr amser i ail-gychwyn y gwaith; can' mlynedd yn ol, rhoddasid cychwyniad grymus i'r gwersyllt trwy lafur Wroth, Erbury, a'u cydoeswyr; ond yr oedd y diwygiad hwnw, nid wedi llwyr ddiflanu, ond wedi llaesu a marweiddio i raddau galarus. Yn awr, tua'r fl. 1736, ac yn mlaen, ymwelodd Duw drachefn â'i bobl, a pharodd

* Gan y Parch. E. Morgan, M.A., Syston. † Tudal. 314.

eilwaith i'r gwersylloedd gychwyn. Rhoes yr adfywiad hwn hanfodiad i un cyfundeb o newydd, a rhoes radd o ddeffroad yn yr holl enwadau eraill.

Rhandir Mualit.

O fewn y dosbarth hwn o'r wlad y mae yr eglwysi Llanfair, Llangammarch, Gorwydd, a Phont-rhyd-y-bere. Dywed haneswyr wrth goffâu am John Penry mai yn nghanol mynyddoedd Brycheiniog y cafodd ei eni; ond ni ddywedent pa fynyddoedd. Ond dywed fy nghohebydd fod sicrwydd mai y mynyddoedd sydd yn amgylchu y cymydogaethau hyn oeddynt; ac y gellir cyfeirio at amaethdŷ o'r enw Cefn-brith, ag oedd, yn ol pob tebygolrwydd, drigfan ei rieni; ac yn fan genedigaeth iddo ynteu. Bu Mr. Penry yn Nghaergrawnt yn cael dysgeidiaeth y brif athrofa yno, a thrachefn yn Rhydychain. Yr oedd yn ŵr dysgedig a duwiol iawn. Cyhoeddodd lyfr neu ddau meddir yn Gymraeg. Ond nid oedd na dysg na duwioldeb yn ateb y dyben y pryd hwnw heb gyd-ffurfiad â threfniadau eglwysaidd y tymhor; a syrthiodd ynteu i'r bai hwn; cafwyd ef yn euog, bwriwyd ef i garchar; a gosodwyd ef i farwolaeth, pryd nad oedd ond 34 ml. oed. Yn ol ei dystiolaeth ef ei hun, efe oedd y cyntaf a bregethodd yn gyhoeddus i'r Cymry. Yr oedd hyn tua'r fl. 1588; ac yn amser teyrnasiad Elizabeth.

Y mae dau hen achos gan yr Annibynwyr yn yr ardaloedd hyn, sef Llanwrtyd a Throed-rhiw-dalar; ac mai ambell un yn dyfalu mai gweinidogaeth John Penry a'u cychwynodd; ond nid oes digon o sicrwydd am hyn. Pa un bynag yr oedd y ddwy gynulleidfa hyn yn lled flodeuog, ar gychwyniad Methodistiaeth. Y gweinidog a'u gwasanaethai ar y pryd, oedd y Parch. Isaac Price. Nid ydyw ein hanes yn sicrhau pa un o bregethwyr y Methodistiaid a gododd ei lef gyntaf o blaid y Gwaredwr yn yr ardaloedd hyn; ond y dyb gyffredin ydyw mai Howel Harris a wnaeth hyny, yn mlynyddoedd cyntaf ei weinidogaeth. Y mae sicrwydd, pa fodd bynag, mai efe a gadwodd y cyfarfod eglwysig gyntaf yma; a hyny mewn amaethdŷ o'r enw Glan-yr-afon: tebygol ydyw mai tua'r fl. 1742 yr oedd hyn. Yn mysg yr aelodau a gyfansoddent y gymdeithas, yr oedd amryw a ddygasid dan ddylanwad y gwirionedd trwy weinidogaeth Mr. Isaac Price. Un o'r rhai hyn oedd Rhys Morgan, Glancledan-fawr. Crybwyllasom enw y gŵr hwn eisoes fel cynghorwr. Amaethwr oedd wrth ei alwedigaeth, ac arferai gynghori ei gymydogion yn mhethau yr efengyl. Nid oedd ei dalentau yn fawr, ond yr oedd ei ras yn ddysglaer. Cafodd fyw i fyned yn hen, yn tynu at 80 mlwydd oed. Yr oedd merch iddo wedi priodi un John Price, Panteulu; yr hwn hefyd oedd ŵr da, a bu yn swyddog eglwysig yn y Gorwydd hyd ddydd ei farwolaeth. Aeth Rhys Morgan unwaith pan oedd yn hen i edrych am ei ferch i'r Panteulu; ond yn rhyw fodd neu gilydd, efe a fynodd ddychwelyd adref yr un noson. Dygwyddodd ei bod wedi bwrw peth eira, y pryd hwnw, a chan fod iddo le

lled ddiffaith i fyned trwyddo, collodd y truan ei ffordd, a chafwyd ef yn y boreu wedi rhynu i farwolaeth ar ochr clawdd!

Un arall a ddychwelwyd trwy yr un offeryn oedd Rhydderch Price, Gorwydd. Amaethdŷ yw y Gorwydd, ar ddarn o dir perthynol i'r hwn y mae y capel o'r enw wedi ei adeiladu. Yr oedd Rhydderch o'r Gorwydd, fel y gelwid ef, yn *dipyn* o gynghorwr hefyd, ond nid ymddengys iddo ef ymroddi i hyny gymaint a'r hen frawd Rhys Morgan. Yn ei dŷ ef, pa fodd bynag, y cynaliwyd yr achos hyd nes y codwyd capel ar y tir. Yr oedd trydydd gŵr wedi dychwelyd trwy weinidogaeth Isaac Price medd rhai, Howel Harris medd eraill, o'r enw James; yr hwn a gychwynodd ei yrfa grefyddol yr un a'r ddau eraill a nodwyd. Yr oedd yr olaf hwn yn byw mewn amaethdŷ, o'r Ffos-yr-hebog; a gelwid ef yn gyffredin, Siams, Ffos-yr-hebog. Mae y tyddyn a elwir fel hyn yn sefyll tua milldir a hanner oddiwrth gapel y Gorwydd, ar gyffiniau mynydd Eppynt. Cafodd Siams ei ddwyn at grefydd pan oedd yn ieuanc, sef tua 18 neu 20 ml. oed, a pharhaodd gyda hi hyd ei farwolaeth. Nid yn aml y mae neb yn cael oes mor faith ag ef; bu fyw nes oedd yn 100 ml. oed, neu ddwy neu dair blynedd dros gant, ac felly yr oedd wedi bod yn aelod eglwysig am fwy na 80 mlynedd. Arferai yn ei ieuenctyd i fyned yn fynych i wrando Mr. Harris i gapel Illtyd; capel yn perthyn i eglwys blwyfol Dyfynog, pedair neu bum' milldir o Aberhonyddu. Rhoddai brawf trwy hyn o awch ei ysbryd, gan fod ganddo tua 15 milldir o ffordd i fyned, a hyny dros fynydd Eppynt, ac i ddychwelyd yr un ffordd adref wedi nos. Prawf hefyd feallai oedd hyn mai un o ddychweledigion Harris ydoedd, gan mai i'w wrando ef y dywedir y gwnai efe y fath ymdrech.

Yr oedd y Siams hwn yn ddyn tra hynod gyda chrefydd, ac fel swyddog eglwysig arferai lawer iawn o lymder yn y ddysgyblaeth; terfynai, meddynt, ar greulondeb; yr oedd ei ymadroddion yn llawn halen. Nid y gŵr ydoedd i drin, "y gorsen ysig a'r llin yn mygu." Nid oedd amheuaeth gan neb am ei gywirdeb, ond yr oedd ei ofn ef ar bawb. Gosodai safon argyhoeddiad gŵr yn uchel iawn; a phan y mynai neb droi ei wyneb i'r gymdeithas eglwysig, yr ofn mawr nad oedd yn ddigon o bwysau yn nghlorian Siams a fyddai yn peri iddo grynu, ïe, yn ormod o rwystr i fyned trosto, oni bai fod cymhelliadau cryfach oddiwrth eraill. Barnai, ond odid, fod yr holl berygl mewn gormod tyncrwch, ond nad oedd dim modd bod yn rhy lym. Cadwai yn glir iawn oddiwrth un graig, ond nid mor ochelgar ydoedd rhag dyneau at yr un wrthgyferbyniol. Cynygiodd un gŵr, a briodasai fereh ieuanc ddibroffes, ddychwelyd; ond ar ei waith yn ymofyn am ei aelodaeth yn ol gorchymynai Siams ef allan gydag awdurdod; a chafodd yr un driniaeth chwe' gwaith drosodd; ond ar y seithfed tro fe lwyddodd i gael ei amcan, a derbyniwyd ef yn ol.

Un Thomas James, fel y dywedwyd, oedd arolygydd y dosbarth yma o'r wlad; ac yn y fl. 1743, y mae yn ysgrifenu i'r gymdeithasfa am y gymdeithas yn y Gorwydd, fel hyn:—

"Mae y gymdeithas hon fel gardd dyfadwy. Yr aelodau gan mwyaf yn rhodio gyda Duw. Llawenychai eich calon weled eu cariad, eu gwresogrwydd, eu haddfwynder, a'u trefn; eu hedd a'u hundeb, &c. Cyfarfyddant agos bob nos, er eu bod yn byw yn mhell oddiwrth eu gilydd; ac weithiau ni ymwasgarant hyd y wawr, trwy fod yr Arglwydd yn dyfod i'w plith. Mwynha llawer o honynt ryddid mawr, ac mae y gweddill yn ymgyrhaedd ato, mi hyderaf, â'u holl galon. Eu rhif ydyw 30."

Am Rhys Morgan, y cynghorwr, ysgrifena yr un gŵr, "Brawd hawddgar, gostyngedig, a ffyddlawn ydyw." *

---

* Rhoddir yma lythyr o eiddo yr un gŵr, sef T. James, at y gymdeithasfa; yn yr hwn y gwelir ei ysbryd, a'i helyntion, ynghyda chip olwg ar ansawdd y gwaith yn y tymhor hwnw.

ANWYL A PHARCHEDIG FRODYR—

Ni fynwn ofidio eich ysbrydoedd hawddgar, na phoeni eich calonau mewn un modd trwy esgeuluso dyfod i'r gymdeithasfa; ond y mae ar hyn o bryd, tybygid, yn hollol anghyfleus i mi ddyfod, ar amryw gyfrifon. Mae fy amgylchiadau allanol hefyd yn cydweithredu, gyda phethau eraill, i fy nghadw i ffordd, a mnau wedi bod am amser oddicartref; ond nid rhaid i mi wneuthur esgusodion am hyn.

Rhodded yr Arglwydd i chwi lawer o'r ddoethineb sydd oddiuchod yn eich cynulliad hwn, a llanwed eich eneidiau oll â thân ei gariad, ac a'ch gwnelo megys un gŵr, ac yn ofnadwy fel llu banerog. Credwyf y bydd i ni, cyn hir, fwrw i lawr gaullawiau teyrnas y gelyn; y mae eisoes yn dechreu dyrysu, fel un heb wybod beth i wneyd, a phob ystryw o'r eiddo yn methu. Mae y gwaith yn myned rhagddo, fwy neu lai, yn mhob man y bum i yn ddiweddar. Ymddengys fod erlid yn lleihau yn fawr; ond ni a ddylem barhau i wylio a gweddio, gan mai ei ymgyrch nesaf, fe allai, fydd dan rith crefydd; ac am hyny dylem sylwi ar gynghor y brawd Rowlands, "Cedwch gyda'r gwaith:" a chymeryd atom holl arfogaeth Duw. Achos mawr sydd i ofni y blaidd yn ngwisgoedd defaid; bydd troed fforchog heresiau yn chwanog o sathru ar dir cysegredig gwinllan Duw; ymlithra y llwynogod bychain yn ddiarwybod; eto ni lwyddant. Yr Iesu sy'n teyrnasu ac a wyr y cwbl. Efe a ddadymchwel y cwbl; pan unwaith y casgl efe ei rymusderau, i lawr y bydd raid i bob peth ddyfod a wrthwyneba; ie, holl ragfuriau meddygedig pechod, hunan, a chalon ddrwg; efe a fyn eu cael yn isel, ie, yn gydwastad a'r llawr.

Barnwyf y dylai yr hyn a osodwyd o'n blaen yn y gymdeithasfa ddiweddaf fod yn fater gweddi, sef ar fod i'r gweinidogion fyned i weinyddu y sacrameutau yn y cymdeithasau hyny, lle y mae gweinidogion y plwyf yn gwrthod gwneuthur hyny yn fisol. Gwnaethum i ef yn destyn gweddi, fel y gallwn, a daeth gyda grym i fy meddwl, mai ewyllys yr Arglwydd ydyw; ac y gwneir chwi yn ewyllysgar pan ddelo yr amser i'w roddi mewn gweithrediad; symuded yr Arglwydd bob gau ymresymiad. Amen.

Mae y cymdeithasau yn ffiam mewn rhai manau, ac y mae rhai eraill yn cynyddu yn raddol yn yr Arglwydd; rhai a fu yn farwaidd yn dechreu ymgyfnerthu. Mae rhai yn rhodio mewn tywyllwch du, eto yn ocheneidio am i Haul Cyfiawnder gyfodi, ar ol hir nos o waeledd. Mae nifer bychan yn ceisio cymodi Crist â hunan; Crist â'r byd, &c., heb wybod beth i'w ddewis. Gobeithio y dewisant y rhan dda, gan adael pob peth a'i gyflawn ddilyn. Mewn gair, y mae llawer yn gallu ymlawenhau yn brofiadol yn Nuw eu Hiachawdwr, heb ymddiried yn y cnawd, ond hiraethu yn feunyddiol am lawn fwynhad o Dduw.

Wedi ymgynghori a'r brodyr Harris ac eraill, yn ein cymdeithasfa fisol, ac ar ol cael llawer galwad oddiyno o'r blaen, mi a aethum i Wednesbury, lle o fewn wyth milldir i Birmingham; lle y triniasid y crefyddwyr yn greulawn y gauaf diweddaf. Ni fu neb gyda hwy er y pryd hwnw, ac yr oeddynt wedi marweiddio yn eu heneidiau. Gwasgwyd eu hachos ataf, felly aethum, a chyrhaeddais yno ar yr 8fed o Fedi, sef nos Sadwrn. Yr oeddynt i ddyfod at eu gilydd y noson honno, ond pan glywsant fy mod i wedi

Y Gorwydd, fel mae yn eglur, ydyw y fam eglwys yn y rhandir hwn. Nid am nad oedd cymdeithasau bychain mewn manau eraill yn cydamseru â'r gymdeithas hon; ac nid am nad oedd rhai o'r aelodau yn cyfaneddu ardaloedd eraill; ond am mai yma yr oedd yr ymgynulliad cryfaf, ac am mai yma yr adeiladwyd y capel cyntaf, ac y cafodd Methodistiaeth safle arosol gyntaf. Nid ydym yn awr yn golygu Llanfair, gan fod yno gapel wedi ei godi 30 o flynyddoedd cyn adeiladu capel y Gorwydd. Yr oedd cymdeithas fechan yn ymgyfarfod yn amser Howel Harris, tua'r fl. 1742, yn Llanafan, ac un arall yn Llangamarch, a thua 15 o aelodau yn perthyn i bob un. Ond y gryfaf oedd yn y Gorwydd; ac, lled debyg mai rhoi y ddwy eraill i fyny a wnaed yn raddol, ac ddarfod i'r aelodau gytuno cyd-cyfarfod yn y Gorwydd i barhau. Wedi 30 o flynyddau a mwy, daeth ar feddyliau y crefyddwyr adeiladu capel yn y Gorwydd. Hyn a wnaed yn y fl. 1778, ar ddarn o'r tyddyn y cynelid y moddion ynddo eisoes; ail-adeiladwyd ef yn y flwyddyn 1795, a thrydydd adeiladwyd ef yn y wedd bresenol yn y fl. 1830. Ymwelwyd â'r ardal ag adfywiad grymus yn y fl. 1777. Chwanegodd hyn lawer at nifer y gynulleidfa â'r eglwys. Rhaid oedd, bellach, cael lle helaethach i addoli. Yr oedd tŷ y Gorwydd yn rhy fychan, a disgynai math o orfod arnynt i feddwl o ddifrif

---

dyfod, fe'u llanwyd, y rhan fwyaf o honynt, o ofn slafaidd; am fod yr erlidwyr wedi bygwth trwy lwon, y lladdent y cyntaf a ddeuai, &c., er y gwyddent mai mewn atebiad i weddi y daethum. Cyfarfuom, foreu a hwyr, dros y rhan fwyaf o'r amser y bum yno; ac yr wyf yn credu ddarfod i mi deimlo bob oedfa fwy fwy o bresenoldeb Duw, ymron o'r dechreu hyd y diwedd. Ni aflonyddwyd arnom fel ag i rwystro un oedfa; dim ond crochfloeddio a chynhyrfu o bell, er ein bod yn dysgwyl cael ein cipio ymaith gan y terfysgwyr ar ganol yr addoliad.

Mae cymdeithas yn perthyn i Mr. Wesley yn yr un dref; cyfarfyddant â'u gilydd 5 o'r gloch, bob boreu. Ni ddaeth rhai o'u penaethiaid i fy ngwrando i oll, ac yn ol a ddywedwyd i mi, ni feiddient ddyfod. Perthyna y gymdeithas y daethum i ati i Mr. Whitfield; ac y mae yr aelodau yn dra rhydd oddiwrth ragfarn, bendigedig fyddo Duw! Ymneillduwyr ydynt, gan mwyaf, a dirmygus gan lawer o'u gweinidogion, ar gyfrif eu sêl a'u cariad. Yn yr ystafell yr ydym ynddi y cynelid darlithiau wythnosol gynt; ond y mae y gweinidogion yn gwrthod dyfod iddi gan i'r brodyr dderbyn Mr. Whitfield ac eraill o'n cyfeillion. Llawn o garedigrwydd ydyw y brodyr; gwnaethant fi yn dra chysurus yn eu mysg, a phrin y gadawent i mi ddyfod i fforddi, llawer o honynt yn wylo wrth ymadael. Hebryngodd rhai fi i Kidderminster, deng milldir o Wednesbury, i dŷ un Mr. Williams, lle y bu Mr. Whitfield y gwyliau diweddaf. Gŵr hawddgar a nefolaidd ydyw, a christion sylweddol. Mae yn dymuno i Mr. Harris aros noswaith yn ei dŷ pan y delo trwodd, &c. Mae ofn slafaidd yn eu llethu yn Leominster o herwydd y werin derfysglyd. Maent hefyd yn dymuno ar i'r brawd Harris ddyfod atynt mor fuan ag y bo modd.

O.Y.—Maent yn dymuno yn fawr yn Wednesbury ar anfon atynt, gan gynted ag y gellir, naill ai Harris ai Jenkins,—Harris os oes modd. Mae gŵr boneddig arall o'r enw Mr. Scott, yn Birmingham, yr hwn a glywodd Mr. Harris yn Llundain, ac a fendithiwyd yn fawr trwyddo, yn ewyllysio cael ei wrando yno hefyd. Gŵr cyfoethog iawn ydyw. Bum yn ei dŷ ddwywaith a chefais lawer o wrandawyr, ac ystyried na wnaed y moddion yn gyhoeddus, a chefais dderbyniad serchog. Gwnewch hyn yn destyn gweddi ac ymgynghoriad, gan yr ymddangosant yn wir aeddfed i'r efengyl. Mae yno weinidog Ariaidd yn y dref, &c. Dybenat yn awr; annerchwch yr holl frodyr drosof.

THOMAS JAMES.

i godi capel. Ystyrid hwn yn orchwyl pwysig iawn, ac yr oedd yr hen dadau, tybygid, gymaint yn rhy hwyrfrydig, ac a fu crefyddwyr diweddarach yn rhy barod i godi capelau. Yr oedd y diwygiad, pa fodd bynag, nid yn unig wedi gosod angenrheidrwydd am gapel, ond hefyd wedi lluosogi yr aelodau wedi rhoddi iddynt fwy o fodd, a mwy o barodrwydd. Yr oedd yr amgylchiad yn cael edrych arno mor bwysig, fel yr anfonwyd at y Parch. Daniel Rowlands i ddyfod trosodd i benderfynu ar y lle yr adeiledid y capel; er fod iddo ugain milldir neu ychwaneg o ffordd i ddyfod, a hono yn ffordd anhygyrch ddigon. Ynteu hefyd a ddaeth, y lle a sefydlwyd, a'r capel a godwyd. Yn mhen tua 13 o flynyddau ar ol y cyntaf, cafwyd ail-adfywiad, sef yn y fl. 1790; a chyn llawer o amser bu raid helaethu y capel, fel y dywedyd, sef yn y fl. 1795. Bu adfywiad arall yn y fl. 1812. Dechreuodd hwn yma ar waith y Parch. Evan Evans o'r Ffos, yn pregethu yn y capel ar noson waith; ac adfywiad grymus iawn a fu. Yr olaf a gafwyd oedd yn y fl. 1828. Yr oedd hwn mor hynod a nerthol a'r un a fu o'r blaen, ac yn fuan ar ol hwn y bu raid helaethu y capel y drydedd waith, sef yn y fl. 1830.

Mae enw Mr. Evans o'r Ffos, yn adnabyddus iawn yn yr ardaloeddd hyn, ac nid mor adnabyddus yn un man arall, a hyny yn gysylltiedig â'r achos crefyddol yn mysg y Methodistiaid. Mae y gŵr hwn wedi marw er y fl. 1828; sef agos i 27 mlynedd yn ol, a chan na theithiodd nemawr oddicartref, mae ei enw yn lled anadnabyddus i Fethodistiaid yr oes hon. Ond yn ei gymydogaeth ei hun efe oedd pob peth ymron; a syn fyddai gan ei gydoeswyr fod neb heb glywed am ei enw, gan yr edrychent arno yn un mor hynod. Ganwyd ef yn y fl. 1758; yr oedd ei rieni yn perthyn i'r Bedyddwyr, ac felly nid oedd eu mab hwn wedi ei fedyddio yn ei febyd. Yn y fl. 1775, pan oedd yn 17 mlwydd oed, fe ymunodd â'r Methodistiaid; ond nid yw yr hanes sydd genym yn hysbysu pa fodd y daeth hyn o amgylch. Bedyddiwyd ef ar gyhoedd yn Llangeitho, gan yr enwog Rowlands, yn yr un flwyddyn. Yn mhen tua thair blynedd ar ol hyny, sef yn y fl. 1778; fe ddechreuodd bregethu, pan oedd yn 20 mlwydd oed; yr oedd hyn yn mhen y flwyddyn ar ol i'r diwygiad cyntaf dori allan yn yr ardal hon; ac yn yr un flwyddyn ag y codwyd y capel. Rhwng hyn a blwyddyn ei farwolaeth yr oedd 50 mlynedd; ysbaid a dreuliwyd ganddo yn y weinidogaeth, a hyny gan mwyaf yn ei sir ei hun, ac yn arbenig yn ei gymydogaethau cartrefol; ni fu yn y Gogledd ond unwaith, ac ychydig a fu ei deithiau ar hyd ei oes. Yr oedd ef yn un o'r rhai a ordeinwyd gyntaf gan Methodistiaid yn y Deheudir. Gŵr call, araf a doeth, y dywedir fod Mr. Evans; yr oedd parch ei gymydogion iddo yn fawr, yn ddiffunant a chyffredinol, "Ei air," meddynt, "oedd deddf y cymydogaethau hyn." Yr oedd yn ŵr cyfrifol ei amgylchiadau hefyd, a gadawodd £90 yn ei lythyr cymun at yr achos crefyddol rhwng y tri lle, Llangammarch, y Gorwydd a Phont-rhyd-y-bere, sef y lleoedd y buasai ef yn llafurio ynddynt fwyaf.

Yr oedd gadael ryw swm o arian at yr achos crefyddol yn beth mwy

cyffredinol yn yr ardal hon nag ydyw mewn nemawr le arall o fewn y cyfundeb. Rhwng un Mrs. Ann Pugh a Mr. Bevan, Aberangell,* fe gynysgaeddwyd yr achos â thyddyn bychan, sef Penllech-bach, ardreth yr hwn sydd hyd heddyw yn cael ei gymhwyso at weinidogaeth y gair. Gadawodd un Thomas Davies, Ysw., £5; un John Powel, £40; un David Price, £10; un Elinor Davies, £10; un Thomas Price, £100; ac un Edward Thomas, Ysw., Llwynmadog, £100; yn ddiweddarach gadawodd Mr. John Jones, Brynffo, £10 at yr un achos. Blaenor ydoedd hwn yn y Gorwydd; ac am dano y dywedir, "Ni chollodd y Gorwydd, nac un eglwys arall, ei ffyddlonach erioed." Yr oedd yn byw bedair milldir o ffordd oddiwrth y capel; eto anfynych y byddai ef yn absenol, er fod ei ffordd, gyda bod yn faith, yn un anhygyrch iawn. Dywedai unwaith, mewn cwrdd eglwysig, "Teimlais duedd lawer gwaith, ar nosweithiau gwyntog a gwlawog, i aros gartref, ond anmhosibl fyddai hyny, pan y cofiwn noswaith rewllyd Gethsemane!"

Nid oedd Mr. Bevan ddim yn aelod proffesedig pan y troes ef Penllech-bach drosodd i'r Methodistiaid, er ei fod yn dangos llawer o garedigrwydd yn mhob modd; ond hyfryd ydyw ychwanegu ddarfod iddo roddi ei hunan hefyd, flynyddau lawer cyn ymadael o'r byd. Yr oedd y tyddyn bychan hwn yn fwy ei werth nag a ellid dybied, wrth olygu ei faintioli yn unig, gan y cafodd yr eglwys £100 am goed a dorasant i lawr arno. Annheg, hefyd, a fyddai celu ddarfod i hen ŵr tlawd o'r enw Thomas Owen adael £3 at yr achos; a hwyrach mai hwn a roes fwyaf o'r cwbl, er nad oedd y swm ond bychan.

Blwyddyn o golled a fu 1828 i'r Gorwydd a'i chyffiniau, gan mai hon oedd y flwyddyn y bu farw Mr. Evans, Ffos; eto, blwyddyn o ennill mawr a fu hefyd, oblegid yn yr un flwyddyn ag y bu Mr. Evans farw, yr ymwelodd yr Arglwydd yn neillduol â'r ardaloedd hyn, ag adfywiad grymus iawn, mor rymus ag un a fu o'i flaen neu ar ei ol. Chwanegwyd at eglwys y Gorwydd 160 o rifedi. Dechreuasai yr adfywiad hwn yn sir Gaerfyrddin, yn ardaloedd Caio a Chil-y-cwm; yr oedd Mr. Evans, Ffos, y pryd hwn yn fyw; a phan glywodd am yr adfywiad yn yr ardaloedd crybwylledig, ardaloedd yn cyffinio ar sir Frycheiniog, annogodd gyfeillion y Gorwydd, y rhai a allai, i fyned i Gil-y-cwm, i weled y wedd oedd ar y gwaith yno; a chan y credai fod rhyw beth heintus yn y cyfryw ymweliad, dysgwyliai y syrthiai ar rai o honynt, ond odid, fesur o'r un ysbryd. Hwythau a gydsyniasant, fel y gwnaent â phob cynghor, yn mron, a roddid gan Mr. Evans; ac ar y Sabboth dyfodol, aeth llu o honynt i Gil-y-cwm, fel na adawyd yn y Gorwydd i wrando y Parch. T. Jones, Glan-y-gors, yr hwn oedd yno ar y pryd, ond mintai fechan o'r hen a'r afiach. Prin yr oedd hyn wrth fodd y pregethwr, a rhoes ryw arwydd o'i anfoddlonrwydd i'r brodyr gerllaw, yn mysg y rhai yr oedd Mr. Evans ei hun. "Na ddigiwch, Thomas Jones," ebai Mr. Evans,

* Tad John Bevan, Ysw., a Mrs, Winstone, Esgsirmoel.

"am hyn; oblegid chwi wyddoch, os na cheir gwynt i nithio o un drws, y ceisir ef yn y llall." Ond am y lluaws a aeth yno, dywedir na chawsant ddim amgen na phleser a mwynhad, wrth weled eraill yn cael; oll, fel eu gilydd, oddieithr un brawd, yr hwn oedd un o henuriaid y Gorwydd. Ond y nos Wener canlynol, dan weinidogaeth brawd o sir Gaerfyrddin, yr hwn oedd yn pregethu yn Llanwrtyd, ar y testyn, "Ar yr annuwiolion y gwlawia efe faglau, tân, a brwmstan, a phoethwynt ystormus," &c., disgynodd rhuthr o gyffro anarferol ar y gynulleidfa, ac oedfa rhyfeddol fu. Yr oedd llawer o gynulleidfa y Gorwydd yno, a hwythau "a brofasant nerthoedd y byd a ddaw;" ïe, rhai dibroffes hyd yn hyn, a ddwysbigwyd yn eu calon. Y Sabboth canlynol, daeth y Parch. Thomas Williams, Merthyr-cynog, i'r Gorwydd i bregethu, yn ol eu gyhoeddiad. Dechreuwyd y cyfarfod gan un o'r henuriaid, John Jones, Brynffo; cafodd hamdden i ddarllen y bennod, ond wrth ganu y pennill,—

Beth yw'r cynhwrf garw iawn, sy'n y goedwig?
A yw'r arfaeth fawr ei dawn, ddim yn ddiddig?
Ni foddlonir mo'ni yn llawn, nes cael gweled,
'Rhai a brynwyd un prydnawn, o'u caethiwed.

torodd yn waeddi a moliannu trwy yr holl gynulleidfa; cymaint felly, fel na chafodd y pregethwr seibiant i ddarllen ei destyn. Parhaodd y cyffro hwn, yr hwn a ddechreuasai yn mis Mawrth, i raddau, dros ystod yr haf canlynol; a chwanegwyd, fel y crybwyllwyd eisoes, tuag wyth ugain at nifer yr eglwys. Mae rhai o'r rhai'n, yn aros yn ffyddlawn hyd heddyw; ciliodd rhai, a bu feirw llawer.

Yr ysgol Sabbothol a ddechreuwyd tua'r fl. 1802. Yr oedd ei dechreuad yma, fel mewn llawer man yn fychan, a gwedd ddiswer arni. Ymrwymodd nifer o'r cyfeillion i gadw ysgol ddyddiol, bob un ei fis; yn eu mysg yr oedd un o'r blaenoriaid, sydd eto yn fyw, (am ddim a ŵyr yr ysgrifenydd i'r gwrthwyneb,) i ddysgu plant y gymydogaeth i ddarllen Cymraeg, yn rhad ac am ddim; ac oddiwrth yr ysgol ddyddiol hon y cododd yr un Sabbathol; rhoes y gyntaf ei lle i'r olaf; eto llun gwael oedd ar yr un Sabbothol dros ryw dymhor. Bu y Parch. Owen Jones, Gelli, unwaith yn trefnu ychydig arni; ond ni ffurfiwyd mo'ni yn ddosbarthiadau hyd y fl. 1812, a hyny trwy offerynoldeb y Parch. Robert Evans, Llanidloes gynt, yn awr o Aberteifi. Yn ystod y flwyddyn grybwylledig, yr oedd cynydd mawr wedi bod arni, a'r angenrheidrwydd am ei threfnu o hyny yn fwy, trwy fod yr adfywiad a gymerodd le yn y flwyddyn hono wedi chwanegu llawer at ei rhifedi. Yn y fl. 1825 drachefn, daeth y Parch. Ebenezer Richard i'r ardal, a sefydlodd fath o undeb ysgolion yn y dosbarth hwn o'r wlad; dosbarth yn cynwys y Bont, Gorwydd, a Llangamarch, ynghyd â'u canghenau. Mae y lleoedd hyn yn ddosbarth unedig hyd heddyw, a chyfarfod dau fisol o'r ysgolion yn cael ei gynal yn ei gylch yn mhob un o'r lleoedd hyny.

Heblaw y ddau a enwyd, ni chododd yn yr eglwys hon i bregethu ond y Parch. Jeffrey Davies, yr hwn wedi rhoddi argoelion tra gobeithiol o ddefnyddioldeb yn nechreu ei oes, a ymddyrysodd i raddau gyda helyntion y byd presenol, ac a ymadawodd a'r cyfundeb; a thrwy nawdd rhyw foneddwr yn ei wlad, cafodd ei wneuthur yn weinidog yn Eglwys Loegr. Bu farw trwy ddamwain, ar ei ffordd adref o Gastell-nedd; syrthiodd i bwll yn y nos, a chafwyd ef wedi trengu.

Yn agos i'r ardal hon y ganwyd Thomas Price, enw yr hwn a grybwyllasom o'r blaen, wrth gyffwrdd a hanes Creunant, sir Forganwg; y lle y bu efe dros y rhan olaf o'i oes yn aneddu. Nid oes sicrwydd yn mha un o'r ddau le y dechreuodd bregethu, ai Llanfair-muallt, ai y Gorwydd; ac nid yw hyny o nemawr bwys. Nid gŵr enwog ei dalentau, tybygid, oedd Thomas Price; yr oedd yn ddarostyngedig i amrywio cryn lawer;—pan fyddai yr awel o'i dŷ, pregethai yn lled lewyrchus, ond gwir dlawd a fyddai, meddir, heb hyny. Bu yn gyfaill, pan yn henafgwr, i'r Parch. William Havard; a phan oedd unwaith ar daith gydag ef, dygwyddodd iddo yn rhyw fan, lle yr oedd Siencyn, Penhydd, yn mhlith y gwrandawyr, gael y rhan gyntaf o'i bregeth yn dra llewyrchus; ond ddarfod iddi dywyllu fel y fagddu arno, tua chanol y bregeth; ac o hyny hyd y diwedd prin iawn yr oedd yn gallu ymlusgo yn mlaen. Wedi myned i'r tŷ, ar ddiwedd yr oedfa, tra yr oedd Thomas Price yn ymofidio am ei ddarostwng gymaint yn y pwlpud, gofynodd i Siencyn, pa reswm a allai efe roddi am gyfnewidiad mor fawr a disymwth o fewn cylch yr un bregeth? "Mi a ddywedaf i ti," atebai Siencyn, "pan oeddit ti yn pregethu yn dda, daeth y diafol, ac a gurodd dy gefn, gan ddyweyd '*Well done*, Tom Price; yr wyt ti yn ei gwneyd hi yn wych.' Ac *well done* Tom Price, ebe tithau gydag ef. Trwy hyn, digiodd dy Feistr, ac a gymerodd y llewyrch oddi arnat."

Yn y dosbarth yma o'r wlad, ac mewn tyddyn o'r enw Gilfach, y bu y Parch. David Parry, yn byw dros ysbaid 23 o flynyddau olaf ei oes. Gŵr ganedig yn Nghaio, sir Gaerfyrddin, ydoedd. Ganesid ef yn y fl. 1790; dechreuodd bregethu yn 18 mlwydd oed. Yn fuan ar ol dechreu pregethu aeth i athrofa yr Iarlles Huntingdon, i Drefecca; nid hir pa fodd bynag y bu yno. Yn mhen tri mis dychwelodd adref i ymweled a'i berthynasau, gan lawn fwrdiadu myned i'r athrofa eilwaith; ond cynghorion ei gyfeillion a orfuant; ac ynteu a ymroddodd i weinidogaethu i'w gymydogion tlodion, gyda hyny o ddysgeidiaeth a feddai eisoes. Ofnai ynteu ei hun, i'r cynhauaf fyned heibio tra y byddai ef yn hogi ei gryman. Pan yn 24 mlwydd oed priododd wraig o blwyf Llanwrtyd; a hyn mae yn debyg a fu yr achlysur i'w arwain, wedi 13 o flynyddau yn ei gartref genedigol, i ymsefydlu, dros weddill o'i oes, yn y Gilfach, o fewn y plwyf hwn.

Mae pob tystiolaeth a gawn am Dafydd Parry, yn cyd-daro i'w osod allan yn un o'r pregethwyr mwyaf nodedig a fu yn preswylio sir Frycheiniog. Prif nodweddiad ei weinidogaeth, yn ol dim a allwn ni gasglu ydoedd

"TODDEDIG." Pa beth bynag a fyddai y matter a driniai, yr oedd ei wrandawyr yn *toddi*, wrth ei wrando. Yr oedd rhyw *swyn* anarferol ynddo, i ddenu pob math o bobl i wrando arno, ac anaml y gallai y rhai caletaf beidio a thywallt dagrau yn hidl. Ymddengys fod ei lais yn beraidd a'i ysbryd yn efengylaidd; felly yr oedd ei athrawiaeth yn defnynu fel y gwlaw, ac yn diferu fel y gwlith. Edliwiai un wraig grefyddol unwaith i'w chymydog, gan ddyweyd, "Wel, Thomas, dyna beth nad ydych chwi byth yn meddwl am dano, sef mater eich enaid!" "Yr ydych chwi yn camsyniad," atebai Thomas, "yr wyf yn gorfod meddwl am fy enaid bob amser y gwrandawyf ar Dafydd Parry yn pregethu."

Ymddengys fod ganddo ddull *toddedig* yn trin pob pwnc, ac yn cyfarch pob math o wrandawyr; nid peri i ddynion synu a fyddai yr effaith, ond eu *toddi* yn llymaid; nid dyfnder ei olygiadau, oedd ei ardderchogrwydd, ond y wedd efengylaidd a roddai i bob mater, a'r teimladau tyner a gynyrchai ei ymadroddion. Mewn cymanfa yn sir Forganwg unwaith, ar ol i lawer o enwogion draethu eu cenadwri, daeth adeg Dafydd Parry i ddatgan yr eiddo ynteu; a rhyfeddol y llewyrch a ganlynai ei ymadroddion, cymaint felly nes i Ebenezer Morris dori allan i ddyweyd, "Mae yr Arglwydd, fel pe byddai yn rhwym o arddel yr hyn a ddywed Dafydd Parry!" Bu farw yn y fl. 1821, yn 61 mlwydd oed, wedi bod yn gweinidogaethu 43 o flynyddau.

Cenadwri a dderbyniodd,
Marworyn a'i henynodd hi,
Trwy gyffyrddiad seraph tanllyd
Llawn o fywyd oddifry.
Genau hy' oedd ganddo 'n gyhoedd,
Wrth dyrfaoedd fawr a mân,
Cannoedd dano 'n canu 'n unol;
Mewn hyfrydol nefol gân.

PONT-RHYD-Y-BERE.

Mae y capel a elwir ar yr enw hwn, yn sefyll yn mhlwyf Llanwrtyd, tua dwy filldir oddiwrth gapel y Gorwydd, a cherllaw y ffynnon, a elwir mewn ffordd o arbenigrwydd, "Ffynnon Llanwrtyd." I yfed y dyfroedd iachäol hyn yr ymgasgla lluaws mawr o bobl, yn enwedig yn misoedd yr haf, y rhai a geisiant ymwared oddiwrth amrywiol anhwylderau.

Yn y gymydogaeth hon, mewn tyddyn a elwir Nantgae, yr oedd merch ieuanc yn byw tua chan' mlynedd yn ol, yr hon a olygid fel blaenffrwyth Methodistiaeth y fro. Yr oedd ei rhieni yn gwrando ar yr Annibynwyr, y rhai a bregethent yn awr ac eilwaith yn eu tŷ. Nid yw yn ymddangos fod dim tuedd grefyddol yn y ferch; ond arferai ddilyn arferion ei chyfoedion a'i gwlad; ac ymddifyrai yn y delyn a'r dawns, a phob nwyfiant o'r fath ag oedd ar y pryd yn ffynu yn mysg yr ieuenctyd. Yr oedd pregethu eisoes gan y Methodistiaid yn Nghîl-y-cwm, ardal tuag wyth milldir o ffordd; a chryn son am y pethau rhyfedd a gymerai le yno dan eu gweinidogaeth, a chodai

ysfa yn meddyliau rhai o ardaloedd eraill i fyned yno, er mwyn gweled a chlywed drostynt eu hunain, ai gwir y chwedlau a ddygid i'w clustiau. Yn mysg craill aeth y ferch ieuanc grybwylledig yno, pan nad oedd eto ond 16 ml. oed; ynghyda rhyw nifer o gyfeillion iddi ar y neges hwnw yn unig Nid oedd ond ysfa chwilfrydig yn achosi y daith. Ar y Sabboth y daeth hi a'i chyfeillion yno, dygwyddodd mai y Parch. Peter Williams oedd yn pregethu. Nid oes lawer o amheuaeth na allasai hi fod yn chwareu cardiau y nos o'r blaen; o leiaf arferai wneyd hyny yn fynych. Soniai y pregethwr, lawer am arferion pechadurus ei gyd-wladwyr, ac am y perygl ofnadwy yr oeddynt yn agored iddo; darluniai gyda difrifwch boenau diamgyffred y rhai colledig; ac er mwyn cymhwyso ei gyfarchiad at ei wrandawyr, ymattaliai yn ddisymwth, a dywedai, "Fe allai, fod yma rai yn fy ngwrando yn awr, a fu neithiwr yn chwareu cardiau; edrychwch na fydd y bysedd hyny, a fu yn eu trin, ddim yn llosgi, fel cynnifer o ganwyllau, yn uffern dros byth!" Aeth y saeth at galon yr herlodes, a dychryn Duw a'i daliodd. Llewygodd ei hysbryd gan fraw. Dwysbigwyd hi yn ei chalon; a thorai allan i lefain fel un ag oedd mewn dirfawr berygl. Wedi gweled ei bod hi wedi ei dàl, ciliodd ei chyfeillion oddiwrthi, ac ymaith â hwy tua chartref, gan adael iddi hi ymdaro fel y gallai, er fod y ffordd yn anial ac anghysbell iawn.

Bu hyn yn ddechreuad dyddiau i'r ferch ieuanc; diflasodd dros byth ar y cardiau; a chiliodd yn llwyr oddiwrth ei harferion gwag a'i chyfeillion ofer, gan ymroddi o hyny allan i fyw i'r hwn a fu farw drosti.

Tua'r un amser, yr oedd dau frawd yn byw yn y gymydogaeth; eu henwau oeddynt Edward a William Siôn. Yr oedd Edward eisoes yn grefyddwr, ac yn aelod yn nghapel y Gelynos. Capel yw hwn perthynol i'r Annibynwyr, ac yn sefyll o fewn ergyd careg i "Ffynnon Llanwrtyd;" ac yn nodedig am mai ynddo y bu yr enwog a'r llafurus David Williams, Llanwrtyd, yn llafurio am flynyddau lawer. Y brawd arall hefyd a ddygwyd at grefydd yn ei ieuenctyd, a hyny trwy foddion lled anghyffredin. Ymddengys y byddai y gynulleidfa yn y Gelynos yn "tori allan (fel y dywedir), weithiau, mewn llefain neu foliannu, ac y byddai y brawd Edward yn eu mysg. Un tro, pan oedd wedi ymollwng i foliannu felly, yr oedd ganddo ffunen, neu napcyn sidan am ei wddf, yr hwn, tybygasai ei frawd William, y buasai da ei ddattod a'i gadw, hyd nes yr aethai yr awel drosodd; a thra yr oedd 'Wil' yn tynu y napcyn, cyfarchodd 'Ned' ef â rhyw ymadroddion, a fu yn rhy galed iddo eu bwrw heibio. Gorchfygwyd ynteu gan rym yr hyn a draethid wrtho, a daeth i fod yn grefyddwr mor ddysglaer a'i frawd. Pa beth a ddaeth o'r napcyn, ni ddywedir, ac nis gwaeth, gan ddarfod bedyddio y naill frawd i ysbryd y llall yn y tro, o'r hyn nid oedd tynu y napcyn ond achlysur, cwbl ddibwys ynddo ei hun, eto o ganlyniad pwysig i'r brawd William, ïe, hefyd i Fethodistiaeth y rhan yma o'r wlad. Y gweinidog ag oedd yn pregethu ar y pryd, oedd y Parch. Isaac Price; ac yn nhŷ rhieni y ferch ieuanc y soniwyd am dani uchod, yr oedd yr oedfa hon yn cael ei chynal.

Mab i'r Edward hwn oedd y pregethwr hwnw a fu yn hir gyda'r Methodistiaid, sef y Parch. David Williams, Merthyr-tydfil; ac ŵyr i'r William, ei frawd, yw y Parch. Ebenezer Williams, yn awr o Defynog. Wrth edrych i hanes y brodyr, Edward a William Williams, gwelwn eu cysylltiad dechreuol â'r Annibynwyr; ond wrth olrhain eu camrau dilynol, gwelwn eu bod mewn undeb â'r Methodistiaid. Ymddengys ddarfod i'r ddau frawd, wedi rhyw dymhor, ymadael â chynulleidfa y Gelynos, ac ymuno â'r Methodistiaid; ni ddywedir paham, nac i ba ddyben; ac feallai, nad edrychid ar y gwahaniaeth rhwng y ddwy blaid yn y tymhor hwn ond bychan a dibwys; ac mai peth hawdd oedd i aelodau yn mysg y naill ymlithro at y llall, heb beri llawer o sylw, nac achosi llawer o chwerwder. Pa fodd bynag, ymuno a wnaeth y brodyr hyn â'r Methodistiaid, a hyny mewn amser yr oeddynt yn ychydig iawn o rifedi, ac isel ddigon eu sefyllfa, fel plaid o grefyddwyr.

Yn mhen rhyw gymaint o amser, ymunodd William â'r ferch ieuanc y soniwyd am dani, mewn priodas; ac aethant i fyw i dyddyn o'r enw Abernant; lle o fewn tua hanner milldir i bentref Llanwrtyd, neu yn hytrach i Bont-rhyd-y-bere. Y pryd hwn hefyd, y dechreuodd yr ychydig Fethodistiaid, a breswylient yr ardal, ymgynull at eu gilydd ar ffurf cymdeithas eglwysig. Nid oedd o honynt ond saith o nifer, sef y ddau frawd crybwylledig, a'u gwragedd, a thri eraill. Y lle y cyfarfyddent â'u gilydd oedd Llofftwen, tyddyn yn ymyl y Bont. Yr oedd hyn, meddir, tua'r fl. 1770, neu 1773. Ymddengys fod William Siôn yn cymeryd y blaen yn yr achos crefyddol, gan y gelwid y cyfarfod eglwysig gan y cyffredin bobl, yn "*Seiat William Siôn, Abernant.*" Er mai William Williams oedd ei enw, eto gelwid ef gan y wlad yn William Siôn, Abernant; a chan y pregethwyr, gan hyfed oeddynt arno, gelwid ef Wil o'r Nant.* Yr oedd y gymdeithas fechan hon, fel yr un ag oedd yn y Gorwydd, yn arfer myned bob mis i Langeitho i gymuno, er fod iddynt ffordd faith a thra anhygyrch. Meddyliodd William, Abernant, yn lled fuan i gael addoldŷ; a dechreuodd ysgogi at adeiladu un ar dir Nantcae, tua dwy filldir o'r Bont; a dywedir ddarfod casglu rhyw nifer o geryg i'r lle ar y dyben hwnw; ond yn rhywfodd erthylu a wnaeth yr amcan; ac yn lle adeiladu capel, cymerodd dŷ dan ardreth yn y pentref; tŷ tô gwellt gwael ydoedd; eto yn hwn y cynaliwyd y moddion dros lawer o flynyddau, ac ynddo y bu holl enwogion y Methodistiaid mewn Dê a Gogledd, ar eu tro, yn pregethu.

Yr oedd William o'r Nant, yn nodedig o ran ei ffyddlondeb, er nad oedd ond o sefyllfa lled isel. Lletyodd y pregethwyr oll ar ei draul ei hun; efe, gan mwyaf, a elai i'w cyrchu, a'u hebrwng i ffordd. Cyfarfyddai weithiau âg amgylchiadau lled gyfyng i'w deimladau ef, rhwng ei awydd i ddangos caredigrwydd i ŵr Duw, ar y naill law, a diffyg moddion i wneyd hyny, ar y

* Ymddengys ei bod yn arferiad yn y Dê yn fwy nag yn y Gogledd, i gwtogi enwau dynion, megys Twmi, Billy, Jaci. Gwneid hyn ag enwau pregethwyr; ac nid o ddirmyg arnynt ychwaith; y cyfryw rym sydd mewn arferiad.

llaw arall; a barnai i ragluniaeth gyfryngu yn achlysurol megys yn wyrthiol, i roddi iddo fodd i wasanaethu i gyfreidiau y saint, trwy lwybr annysgwyliadwy. Unwaith cafodd ddarn o arian ar lawr, yn y cyfwng yr oedd ei eisieu; dro arall rhoddid llwydd ar ei waith yn pysgota, nes cael digon ac yn ngweddill, i gyfarfod â'r angen. Ond ar ol treigliad peth amser, gwellhawyd ar yr achos yn ei amgylchiadau tymhorol, trwy i rai teuluoedd o barch a chyfoeth gael eu hennill i roddi eu hysgwyddau dano, megys teuluoedd Winstone, Esgair-moel; ac Evans, Ffos. Ysgafnhaodd hyn lawer ar William, o'r Nant, a rhoes adfywiad a grym i'r achos yn ei wendid a'i dlodi.

Tra yr oedd William yn Abernant yn aneddu, llwyddodd, trwy Mr. Rowlands, Llangeitho, i gael ysgol ddyddiol Madam Bevan i'r gymydogaeth. Mae palas, o'r enw Maes-mynys, gerllaw Llanfair-muallt, lle yr oedd un Mr. Phillips, offeiriad y plwyf yn byw. Yr oedd y boneddwr hwn yn ustus heddwch, ac yn ŵr a berchid am ei ymdrech i lesâu ei gydwladwyr tlodion. Yr oedd hefyd yn gyfeillgar â Mr. Rowlands, Llangeitho, a chaniatâi i Mr. Rowlands, ac eraill o'i gyd-lafurwyr, bregethu, yn awr ac eilwaith, yn ei eglwys. Ac er nad ymunodd ef yn drwyadl a'r offeiriaid Methodistaidd yn eu gwahanol ysgogiadau, y mae yn eglur ei fod yn mynwesu syniadau caredig tuag atynt; ac iddo, yn ei gymydogaeth ei hun, roddi profion amlwg fod ei fryd ar lesâu dynion yn y pethau a berthynent i'w bywyd tragwyddol. Yr oedd gan y gŵr hwn un o ysgolion Madam Bevan yn ei gymydogaeth, a phregethwr perthynol i'r Methodistiaid oedd yn ei chadw. Enw yr ysgolfeistr a'r pregethwr hwn, oedd Rhys Davies. Gŵr ydoedd o sir Benfro o enedigaeth, ond a ddaethai ar gais Mr. Phillips, Maesmynys, i gymydogaeth Llanfair i gadw ysgol. Gŵr diwyd a llafurus a fu yn ei ddydd, wedi ymgysegru at wneuthur a allai i chwalu y tywyllwch a orchuddiai y wlad oll, yn mron, y pryd hwnw. Hwn, gan hyny, a gafwyd, trwy ddylanwad Mr. Rowlands, i ddyfod i ardal y Bont i gadw ysgol. Neillduwyd rhan o dŷ Abernant i'r dyben hwnw; a sicrheir ddarfod i'r ysgol, a'r ysgolfeistr, fod o wasanaeth mawr er hyrwyddo yr achos crefyddol yn ei flaen.

Dechreuodd Rhys Davies bregethu yn sir Benfro tua'r fl. 1770, pan ydoedd tuag 20 mlwydd oed. Llithrodd y gŵr hwn i'r weinidogaeth mewn dull lled anfwriadol, fel yn wir y gwnaethai llawer o'r hen bregethwyr. Yr oedd yn ŵr ieuanc tra gobeithiol, ac ar waith rhyw bregethwr yn methu dyfod i bregethu i'w gartref yn ol y dysgwyliad, cymhellwyd Rhys Davies i wneyd y diffyg i fyny. Felly, hefyd y bu; a hyn fu yr achlysur iddo ddechreu, ac ni pheidiodd ar ol hyny am yr ysbaid maith o 53 o flynyddau; sef yr amser y lluddiwyd ef gan angeu i barhau. Bu ddeg-ar-hugain o weithiau ar daith, meddir, drwy Ogledd Cymru. Bu gwasanaeth Rhys Davies, trwy ei bregethau a'i ysgol, o les mawr i achos yr efengyl yn y Bont. Bu farw yn Talgarth, yn y fl. 1823, yn 73 mlwydd oed; a chladdwyd ef gerllaw y capel yn y lle hwnw, y lle hefyd y mae mab iddo yn swyddog eglwysig hyd heddyw.

Dechreuodd yr ysgol Sabbothol ymwreiddio yn nghymydogaeth Cilcwm yn fore; ïe, rhoddwyd rhyw gychwyniad arni yn foreuach yno nag unlle arall, yn Neheudir Cymru; os nad hefyd yn yr holl dywysogaeth; heb ond un eithriad, sef yn Crawlom, ger Llanidloes.* Yr ydym eisoes wedi crybwyll enw y Parch. W. Williams,† Glan-gwen-las, yr hwn oedd ŵr eglwysig, ac a fuasai yn gweinidogaethu yn Lloegr am yr ysbaid o 37 o flynyddau. Yr oedd bellach, sef tua'r flwyddyn 1785, wedi dychwelyd o Loegr, o herwydd anmhariaeth iechyd, meddir, i'w le genedigol. Yr oedd ei dad eisoes yn aelod gyda'r Methodistiaid yn Nghil-y-cwm. Ar ei ddychweliad adref, ymunodd y mab hefyd â hwy, ac ymosododd ar y gorchwyl o sefydlu ysgol Gymraeg yn y lle, ar y Sabbothau. Agorodd un Dafydd Elias, tad y diweddar Barch. Thomas Elias, ei dŷ iddo i'r dyben; a hon, fel y tybir, oedd yr ysgol Sabbothol gyntaf yn y Deheubarth. Bu y Mr. Williams hwn yn egniol iawn yn ei ymdrech i sefydlu y cyffelyb ysgolion mewn ardaloedd eraill. Gwnaeth hyny yn Nghaerfyrddin; a thrachefn yn Aberystwyth; ac hefyd yn Mhont-rhyd-y-bere. Dechreuodd ar y gorchwyl canmoladwy hwn mor gynar a'r fl. 1785. Tua'r un amser ag y dechreuodd Nr. Charles sefydlu yr ysgolion rhad cylchynol, yn y Gogledd; a thua thair blynedd ar ol i Mr. Raikes ddechreu ar y gorchwyl yn Nghaerloyw. Ymddengys fod Mr. Williams, yn gydnabyddus â Mr. Raikes; ac wedi yfed gradd helaeth o'i ysbryd, ac yn bleidiwr aiddgar i'w gynllun o weinyddu addysg ysgrythyrol ar y Sabbothau.

Pan ymwelodd y gŵr parchedig ag ardal y Bont, neu â phlwyf Llanwrtyd, gyda'r bwriad o osod ei amcan mewn gweithrediad, parodd gryn gyffro yn yr ardal; a dywedir fod ugeiniau, os nad cannoedd, o bobl, hen ac ieuainc, i'w gweled ar y Sabbothau, yn eistedd allan ar y coed yn y pentref; a chynifer o lyfrau, neu ddalenau llyfrau, ag a ellid eu cael, yn eu dwylaw; ac yn argoeli yr awydd cryfaf i ddarllen, neu i ddysgu darllen, gair yr Arglwydd. Nid yw ein hanes yn ddigon clir am y flwyddyn y cymerodd hyn le. Yn ardal y Gorwydd, ardal o fewn dwy filldir i'r Bont, ni ddechreuwyd yr ysgol Sabbothol hyd y fl. 1802, a gwan iawn oedd ei chychwyniad y pryd hwnw; a gwan y parhaodd i fod, am rai blynyddau. Ond yr ydym yn casglu fod yr ymosodiad a wnaed gan Mr. Williams i sefydlu ysgol Sabbothol, yn ardal y Bont yn mhell cyn y fl. 1802. Dichon, ar yr un pryd, fod diflaniad wedi gorddiwes yr ymgais, ac i'r gwaith sefyll dros rai blynyddau ar ol y cychwyniad cyntaf; ac os felly, mai yn y fl. 1802 yr ail-gychwynwyd y gwaith. Pa fodd bynag, ni fu llawer o drefn nac effeithioldeb arni hyd y flwyddyn 1812. Adeiladwyd y capel sydd yn sefyll yn bresenol yn y pentref, yn y flwyddyn 1808.

LLANGAMARCH.

Mae yr ardal a adwaenir wrth yr enw hwn, yn sefyll tua phedair milldir i'r dwyrain o Lanwrtyd, a thua dwy filldir neu lai o'r Gorwydd. Mae hanes

* Cyf. II., tudal. 468; hefyd tudal. 451; hefyd Cyf. I., tudal. 340. † Cyf. II., tud. 361.

y tri lle hyn yn ymblethu llawer yn hanes y'u gilydd. Cangen ydyw Llangamarch o'r Gorwydd; yn y Gorwydd yr oedd rhai o aelodau presenol Llangamarch, yn arfer addoli, ac yn neillduol yn arfer ymgynull mewn cymdeithas eglwysig. Yr oedd pregethu, er hyny, er ys blynyddau, yn nghymydogaeth Llangamarch, mewn tai ffermydd yma a thraw, megys, Llwyn-madog, Dolgar, Coryn ac Aberbudran; ond yn y fl. 1818, yr ymsefydlodd yr achos yn fwy arhosol mewn un lle, trwy drefnuso adeilad i'r dyben. I hwn y symudwyd yr ysgol Sabbothol, ac yn hwn bellach yr ymgynullai yr aelodau eglwysig; eto, dros ryw amser wedi hyn, aent i gymuno i'r Gorwydd, lle yr oedd y fam-eglwys. Y swyddogion cyntaf a alwyd i'w harolygu, oeddynt Mr. David Lloyd a Mr. Morgans, Parc. Am y cyntaf y dywedir mai gŵr tra ffyddlawn ydoedd, ac un a gyrhaeddasai enwogrwydd arbenig yn ei wasanaeth gyda'r ysgol Sabbothol. Gŵr call a helaeth ei ddylanwad oedd Mr. Morgans; ac am ei briod y dywedir, mai un o'r gwragedd llareiddiaf a mwyaf crefyddol, ydoedd o neb a allesid eu cyfarfod. Mae cofadail am dani yn nghapel Llangamarch; a pharhaodd hiraeth trwm a maith yn y frawdoliaeth ar ol ei cholli.

Cafodd Llangamarch brofiad nerthol o'r adfywiad a gymerodd le yn y fl. 1828. Ymwelsai yn gyntaf â'r Gorwydd, ac ymddangosai rhyw arwyddion bychain o wawr yn Llangamarch, yn enwedig yn yr ysgol Sabbothol, gwedd yr hon oedd wedi llwyr newid. Ond ar ryw noswaith, pan oedd y diweddar Barch. T. Elias yn pregethu ar y gair, "*A dì di gyda'r gŵr hwn?*" gwaeddodd rhyw un allan "Af." Yr oedd yr un hwn yn ddyn tra hynod. Hen filwr ydoedd, wedi gwasanaethu Sior IV; ac fel milwyr yn gyffredin, heb nemawr ofal arno am ei enaid, nac yn wir am ei gorff. Ond yn yr oedfa uchod pigwyd ef yn ei galon, a chyffrous iawn oedd ei waedd. Wrth fyned adref canmolai ei feistr newydd yn fawr ar gyhoedd yr heolydd, gan ddyweyd, "Bum yn gwasanaethu brenin daearol dros flynyddau; ond nid oedd hwnw i'w gydmharu i'r meistr hwn. Dyma feistr!" Parhaodd y milwr yn ddiwyd gyda chrefydd, hyd yn awr; neu o leiaf hyd yr amser yr ysgrifenid yr hanes uchod, ac yn aelod yn Aberhonddu.

Pan torodd ef allan dan oedfa Thomas Elias, torodd llawer eraill allan yn gyffelyb, a bu adfywiad grymus ar yr holl waith. Chwanegwyd at yr eglwys yn y misoedd canlynol tua 104 o aelodau. Rhoddwyd prawf i gydwybodau y cyffredin bobl, fod bys Duw yn yr adfywiad hwn; yn enwedig pan welsant yr hyn a wnaed ar yr hen filwr uchod. Syrthiodd eu rhagfarn yn erbyn y diwygiad yn y fan, a chredasant mai gradd o'r peth a ddywedwyd trwy y proffwyd Joel ydoedd;—Duw yn tywallt o'i ysbryd yn y dyddiau diweddaf. Dan ddylanwad yr adfywiad, siriolodd a chryfhaodd yr achos yn ei holl ranau yn fawr; a bu raid, yn y flwyddyn ganlynol, helaethu yr addoldŷ i'w faintioli a'i ffurf bresenol.

Yn yr eglwys hon y cododd y Parch. Thomas Elias, enw yr hwn sydd adnabyddus drwy y Dywysogaeth; a llafur yr hwn a fu yn parhau dros lawer

o flynyddau; ond erbyn hyn sydd wedi terfynu yn y bedd. Mab ydoedd, fel yr awgrymwyd i Mr. David Elias, Cil-y-cwm; tŷ yr hwn a fu yn lloches gyntaf i'r ysgol Sabbothol o un man yn y Deheubarth. Bu Thomas Elias yn pregethu am yspaid 32 o flynyddau, a hyny gyda chymeradwyaeth tra mawr. Ordeiniwyd ef, i gyflawn waith y weinidogaeth, tua'r fl. 1831; a dybenodd ei yrfa yn y flwyddyn hon, 1855. Pregethwr gwlithog ac ennillgar ydoedd; a safai yn uchel yn syniadau ei frodyr, fel cristion cywir, a gweinidog ffyddlawn.

Yn y gymydogaeth hon y mae y palasdŷ a elwir Llwyn-madog; lle yr oedd Edward Thomas, Ysw., yn trigiannu. Aelod oedd y gŵr hwn yn y Gorwydd, eto yr oedd pregethu yn ei dŷ yn lled gyson am flynyddau. Yr oedd y boneddwr hwn yn ynad hedd; ac ar yr un pryd, nid oedd arno gywilydd o'i grefydd, nac o'i frodyr. Buasai unwaith yn dwyn cryn sêl dros yr eglwys wladol; a pha beth a barodd ei ymneillduad oddiwrthi sydd anhysbys; ond dywedir ei fod yn grefyddwr dysglaer, y fath nad oedd neb yn ei amheu. Dangosai lawer o haelioni yn ei ddydd; ac ennillodd iddo ei hun "air da gan bawb, a chan y gwirionedd ei hun." Merch iddo ef oedd Mrs. Pritchard, Dolgar, yr hon oedd yn aelod yn Llangamarch. Yr oedd y foneddiges hon yn wraig tra synwyrol a chrefyddol, heblaw ei bod yn haelionus. Bu farw yn y fl. 1846.

Yn y lle hwn y cododd y diweddar David Price, yr hwn oedd un o efrydwyr cyntaf Trefecca. Gŵr ieuanc oedd hwn nad oedd neb yn dychymygu ar y dechreu fod defnyddiau pregethwr ynddo, gan mor afrwydd oedd ei ddawn, a gŵyleiddied oedd ei dymher. Eto, gan ei fod yn gristion cywir, ac yn meddu ar synwyr da, caniatawyd iddo gychwyn; ac yn ystod y tymhor byr y bu efe ar y maes, caed profion diymwad fod ynddo fwy o gymhwysderau, nag a dybiasid ar y dechreu. Ni roddwyd iddo, pa fodd bynag, ond amser byr ar y ddaear. Cymerwyd ef yn glaf, a bu farw tra yr oedd yn yr Athrofa, yn 36 mlwydd oed; a chladdwyd ei weddillion yn ymyl capel Talgarth.

Cyn codi capel Llangamarch pregethid yn achlysurol mewn amrywiol dai ar hyd y gymydogaeth, megys Llwyneinion, Coryn, Aberbudrau, a'r Parc. Symudwyd y pregethu drachefn i dŷ yn mhentref Llangamarch, a drefnuswyd at hyny. Yn y fl. 1829, adeiladwyd y capel presenol, i'r hwn yr ymgynullai y bobl, bellach, i addoli; ac yn yr hwn y mae yr "arch" wedi ymsefydlu hyd heddyw.

Heblaw y pregethwyr a enwyd, cododd amryw eraill yn y cymydogaethau hyn. Yma y cychwynodd y Parch. Evan Harris, yn awr o Ferthyr, ei yrfa, a'i frawd William Harris; y Peirch. W. Williams, Talgarth, gynt; Ebenezer Williams, Dyfynog; a Maurice Davies, yr hwn a fu dros dymhor yn Llanfair, ond a fu farw yn America. Yn nghymydogaeth y Bont y ganed y Parchn. David Williams, Merthyr; a William Pryse, yr hwn sydd yn awr yn genhadwr yn Sylhet, yn India y Dwyrain.

PENNOD III.

HANES EGLWYSI BOREAF BRYCHEINIOG.

CYNWYSIAD :—

LLANFAIR-MUALLT—YR AELODAU CYNTAF—Y PARCH. JOHN WILLIAMS, PANT-Y-CELYN—HANES TRE-CASTELL—LLYWELYN DAFYDD—TEULU THOMAS POWEL—JOHN PRYDDERCH—GWRTHOD DEFODAU CLADDU I'R METHODISTIAID YN LLYWEL—EBENEZER MORRIS YN DECHREU PREGETHU—ADFYWIAD GRYMUS—DYCHWELIAD MR. BOWEN, LLWYN-Y-GWAIR—CYMDEITHASFA HYNOD.

LLANFAIR-MUALLT.

Saif y dref hon ar lan yr afon Wy *(Wye)*, afon a derfyna siroedd Maesyfed a Brycheiniog. Saif Llanfair *("Builth"* yn Saesoneg) ar yr ochr hono i'r afon a berthyn i Frycheiniog; tua 7 milldir i'r dê o Landrindod, a thua 12 milldir i'r dwyrain o Lanwrtyd. Ymddengys fod yr holl barthau hyn yn nodedig am y dyfroedd metelaidd a geir mewn amrywiol fanau ynddynt; megys, Llanwrtyd, Llangamarch, Llanfair, Llandrindod, a Llandegle; y tri cyntaf yn Mrycheiniog, a'r ddau olaf yn Maesyfed. Yn Llanfair y mae yr iaith Saesonaeg yn ffynu yn llawn mwy na'r iaith Gymraeg, a saif ydref megys ar y terfyn rhwng y ddwy. I'r gorllewin iddi mae y Gymraeg, ac i'r dwyrain y Saesonaeg, a'r ddwy iaith yn cyfarfod ynddi hi. Ymddengys fod Methodistiaeth wedi cael rhyw fath o ymsefydliad yn y dref hon yn foreu iawn. Adeiladwyd capel yma, a'r cyntaf dan yr enw *capel* yn Nghymru, mor gynar a'r fl. 1747. Yn "Nghofnodau Trefecca," yn y fl. 1742, ni a gawn benderfyniad y gymdeithasfa a gynaliwyd yn Nglan-yr-afon-ddu, sir Gaerfyrddin, fel hyn :—

"Fod i'r brawd Edward Bowen gynghori yn nghymdeithasau Llanafan, *Llanfair*, Llanddewi'r-cwm, a'r Diserth; ac iddo gael cynorthwy Thomas Bowen, Llanafan, yn y ddwy gymdeithas gartrefol; a chynorthwy Thomas Bowen, Llanfair, yn Llanfair a Llanddewi'r-cwm; a chan Dafydd Price, yn Diserth, ar brawf." Ymddengys hefyd fod Thomas James wedi ei osod yn arolygydd ar y rhan yma o sir Frycheiniog, yn gystal â rhanau cyfagos o sir Faesyfed. Yr adroddiad cyntaf a gawn am Lanfair gan yr arolygydd, sydd fel hyn :—

Cymdeithas Llanfair-mualllt.—Cynghorwr anghyhoedd Thomas Bowen.

Enwau yr aelodau.	Eu cyflwr.
Thomas James.	—Yn meddu tystiolaeth gyflawn ac arosol.
Thomas Bowen.	—Mewn rhyddid mawr.
Evan Evans.	—Tystiolaeth ganddo unwaith, ond gwan mewn gras.
Sarah Williams.	—Wedi ei chyfiawnhau, ac yn dod allan o'r ffwrn.
Sarah James.	—Tystiolaeth gyflawn, ond mewn caethiwed mawr.
Elizabeth Bowen.	—Tystiolaeth gyflawn, ond yn lled ddigalon.
Ann Baisdel.	—Profiad hyfryd, eto gwan.
Mary Bowen.	—Yn ceisio yr Arglwydd Iesu o ddifrif.
Margaret Lewis.	—Wedi ei chyfiawnhau yn ddiweddar.
Elizabeth Price.	—Tystiolaeth gyflawn, ond yn dechreu gwel'd ei chalon galed fwyfwy.
Susan Davies.	—Wedi ei chyfiawnhau, ond yn awr dan amheuon.
Margaret Bowen.	—Wedi ei chyfiawnhau, ond dan argyhoeddiadau cryfion.
Elinor Jones.	—Yn dechreu ymddadebru o'i gwrthgiliad.
Gwen James. *Susan James.* *Gwen Hinsey.*	Credwyf eu bod wedi myned i ogoniant.

Gwelwn yn yr adroddiad uchod fod yn Llanfair, yn y fl. 1742, 13 o aelodau, heblaw y tair merch a fuasent feirw. Ymddengys hefyd mai perthyn i'r gymdeithas hon yr oedd Thomas James ei hun, yr hwn a osodasid yn arolygydd yr holl ddosbarth. Mae hanes y cymdeithasau eglwysig yn Llanfair, Llanafan, a Llanddewi yn darfod gyda "Chofnodau Trefecca," a gadewir ni i ymbalfalu fel y gallwn o hyny allan. Nid yw yn ymddangos, pa fodd bynag, fod Methodistiaeth wedi llwyr ddiflanu yn Llanfair o hyny hyd heddyw. Gan ddarfod adeiladu yma gapel yn y fl. 1747, rhoddir i ni le i gasglu, ddarfod i'r achos ymsefydlu yma mewn gwedd fwy sefydlog, nag y gwnaeth yn y manau y cynelid addoliad mewn tai anedd. Galwyd y capel hwn "ALPHA," i ddynodi ei flaenoriaeth ar bob un arall o ran amser. Nid oes genym ddim o hanes yr achos yn y lle hwn i'w osod ger bron; yn unig deallwn na fu dim enwogrwydd neillduol arno o'i ddechreuad hyd yn awr; ar yr un pryd, y mae yma ryw nifer wedi gallu cadw tŷ. Ni lwyr ddiffoddodd y ganwyll hon. Cadwyd Llanfair, tybygid, gan y Methodistiaid, er i lawer o'r gorsafoedd cymydogaethol ddisgyn dan ofal Harris a'i ganlynwyr, a thrachefn dan ofal efrydwyr athrofa yr Iarlles. Gallwn feddwl hefyd fod sefyllfa y dref yn anfanteisiol i gynydd yr achos Cymreig ynddi, gan ei bod yn sefyll ar gyffiniau y Saeson; a chan fod y dref ei hun yn rhanedig rhwng y ddwy iaith; ac yn ystod y ganrif hon, gallwn feddwl fod y Saesonaeg yn ennill y dydd ar y Gymraeg; ac hyd heddyw y mae moddion yn cael eu cynal yn y ddwy iaith, weithiau yn gymysg yn yr un oedfa, ac weithiau ar wahan. Yma, meddir, y treuliodd Hugh Pritchard, clochydd Llanir, ddiwedd ei oes. Nid yn mhell oddiyma y mae hen gartef y Parch. James James, sef Pen-y-blaen, am yr hwn y crybwyllasom yn hanes Maesyfed; ac yma hefyd y bu y Parch. John Williams, mab i'r Bardd o Bant-y-celyn, dros ryw dymhor; a chan mai mewn cysylltiad â chyfarfod misol Brycheiniog y mynai y gŵr parchedig fod i barhau, barnwn mai dyma'r lle cymhwysaf i roddi gair o hysbysiad am dano.

Ganwyd ef yn y fl. 1754. Ymddengys iddo gael llawer o fanteision addysg mewn mebyd ac ieuenctyd; gan ei dad yn y lle cyntaf, a chan athrawon eraill, cymhwys i'r gorchwyl, ar ol hyny. Derbyniodd ei gyflawn urddau fel gweinidog eglwys Loegr; ac ar yr achlysur cyfarchwyd ef gan esgob Warren fel hyn, "Byddwch wych fy mab; gochelwch na wneloch ddim cyfeillach â'r Methodistiaid; a diamheu genyf y byddwch yn gysur i chwi eich hunan, ac yn addurn i'r eglwys." Llawen oedd Mr. Williams am gyrhaedd o hono ei amcan eglwysig; ond wrth ddychwelyd adref dywedai wrtho ei hun, "Nid yw fy arglwydd esgob yn adnabod y Methodistiaid hyn cystal ag yr adwaen i hwynt; pe amgen ni buasai yn fy annog i beidio cyfeillachu â hwynt. Arglwydd na ddyro y pechod hwn yn erbyn dy hen was! Ac am danaf finau, byddaf waelach eto na hyn; byddaf ddirmygus yn fy ngholwg fy hun, a chyda'r llaw-forwynion (am y rhai y llafarai yr esgob) y'm gogoneddir."*

* Gwel Gofiant am dano gan y Parch. Maurice Davies, Llanfair-Mualit.

Nid yw yn ymddangos, pa fodd bynag, fod y gŵr ieuanc urddedig yn gymhwys i'r swydd a gymerasai arno, gan nad oedd hyd yma yn feddiannol ar wir grefydd bersonol, yn ol yr ymddangosai ei agwedd yn ol llaw. Anmhosibl ydyw ei ganmawl, gan hyny, am ymofyn urddau dan y cyfryw amgylchiadau; nac ychwaith am ymrestru dan faner yr eglwys wladol, tra yr oedd yn llochi syniadau uwch am y Methodistiaid, ac yn rhyw led fwriadu, fel yr ymddengys uchod, i nesâu atynt yn fwy mewn amser dyfodol. Yr unig esboniad a all yr ysgrifenydd roddi ar hyn ydyw, fod ei fywioliaeth yn ei dueddu at y naill, a'i gydwybod yn tystio o blaid y llall; ac mai oddiar fod gwrthdarawiad rhwng elw a chydwybod yn yr achos, y cyfodai yr anghysondeb yn yr ymddygiad. Ond pa beth yn amgen a ellid ei ddysgwyl oddiwrth neb yn nghyflwr natur, a than lywodraeth egwyddorion y cnawd. Nid oedd Mr. Williams, mae lle i ofni, yn hyn yma, ond portread o lawer craill; ac felly, os ydyw cyffredinolrwydd peth yn ei gyfiawnhau, yr oedd ynteu yn ddiau yn esgusodol.

Wedi bod dros ychydig yn Llangrallo, sir Forganwg, yn cadw ysgol ac yn pregethu, symudodd Mr. Williams yn y fl. 1782, i Llanfair-Muallt. Aeth i letŷa yno at un Mr. Jones, meddyg, gwraig yr hwn oedd yn gristion loyw, ac mewn cymundeb gyda'r Methodistiaid, ac a barhaodd felly hyd ddydd ei marwolaeth. Ymddengys fod ei dad o Bant-y-celyn, ar daith yn y Gogledd, pan y rhoddwyd iddo weinidogaeth yr eglwys wladol yn Llanfair, ac ar yr achlysur ysgrifenodd gân ddigrifol ato, un pennill o ba un sydd fel y canlyn:—

Hed y Gwcw, hed yn fuan; hed aderyn glas ei liw,
Hed oddiyma i Bant-y-celyn, gwêd wrth *Mali* 'mod i'n fyw;
Hed oddiyno i Lanfair-muallt, gwêd wrth *Jack* am gadw'i le,
Ac os na chaf ei weled yma, caf ei weled yn y ne'.*

Ond nid cadw ei le a wnaeth *Jack!* Yr oedd anghymedroldeb mewn diodydd cryfion yn fagl iddo, ac wedi bod felly dros ryw gymaint o'i oes eisoes. Nid oes sicrwydd a oedd hyn yn adnabyddus i'r wlad ai peidio; ond yr oedd ef ei hun yn ymwybodol o'r gwendid hwn; ac ar ryw amgylch-

* Dacth hanes arall i law am y Bardd, pan ydoedd ar daith yn Môn; ac yn yr hanes y mae ffurf wahanol ar y pennill uchod, ac ar yr amgylchiad a barodd ei gyfansoddi. "Cymerwyd y Bardd yn afiach," medd yr hanes, "yn y Garnedd-ddu, a bu yn gorwedd ddyddiau rai. Yn ei salwch aeth yn isel iawn ei feddwl, a theimlai hiraeth angherddol am ei gartref, ac am ei deulu. Wylai a chanai fel hyn,—

'Nawr rwy'n eitha' Môn yn aros,
Ac mae yn fy ysbryd glwy'
Am gael gweled Pant-y-celyn,
'Chaf ei weled mo'no' mwy!
Hed y Gwcw dros y bryniau,
Hed aderyn glas ei liw,
Dwg i'm newydd, dwg yn fuan,
A yw yno bawb yn fyw?

Hed oddiyno i Lanfair-muallt,
D'wed wrth JACK am gadw 'i le,
Os na cha'i weled ar y ddaear,
Y caf ei weled yn y ne'.
Hed oddiyno, dos at MALI,
Dywed wrthi yn ddystaw bach,
Os ca'i genad gan fy Arglwydd,
Y dof fi adre' eto 'n iach.

Yr oedd yr hen Fardd yn hoff iawn o gerddoriaeth yn gystal ag o farddoniaeth, a dywedir hefyd fod ei wraig, a elwid ganddo ef *Mali*, yn lled fedrus a soniarus ei chân; ac fe ymddengys hefyd ar rai amgylchiadau y bu y medrusrwydd hwn o wir wasanaeth iddo yn ei deithiau.

iad ar ol ei sefydlu yn ei guradiaeth daeth yn adnabyddus i eraill. Oblegid, pan oedd unwaith yn darllen gwasanaeth y claddu uwch ben y bedd, canfyddwyd ei fod yn siglo ar ei draed; a syrthio yn ddiau a wnaethai i'r bedd oni bai i ryw gyfaill gerllaw ymaflyd ynddo a'i achub. Ynteu ei hun a ddadebrodd yn y fan; ac ar ei waith yn dyfod i'w bwyll, aeth yn saeth i'w galon. Dychwelodd i'w lety mewn dagrau; cauodd arno yn ei ystafell, ac ni welwyd ef hyd dranoeth. Treuliodd y noson hono "heb roddi cwsg i'w lygaid na hun i'w amrantau," a'i enaid yn toddi gan ing. Wele rai o'i ymadroddion ar yr achlysur:—"Dywedaf wrth y pwll, tydi yw fy nhad; ac wrth y pryf, fy mam a'm chwaer wyt. Fy ngheudod sydd anwireddau. Nid oes ynof fi ddim da yn trigo. Aflan, aflan! Fy nghalon sydd fel Babilon, yn llety cythreuliaid, ac yn nyth pob aderyn aflan ac atgas, &c., &c."

Wedi ei archolli mor drwm, nid hir a fu cyn i'r feddyginiaeth gael ei hestyn iddo. Wedi profi dwfn edifeirwch cafodd cyn hir brofi maddeuant a hedd. Daeth i allu ymhyfrydu yn Nuw yn wyneb Iesu Grist. Cafodd waredigaeth, ar yr un pryd, oddiwrth y pechod a fuasai barotaf i'w amgylchu. Mewn llythyr at ei frawd, yn y flwyddyn 1784, fe ddywed, "I Dduw byddo'r diolch, yr wyf wedi cael y fath oruchafiaeth ar y pechod a wyddoch chwi oedd barod i'm hamgylchu, fel nad oes neb o'm cyfeillion yn fy nrwg-dybied: a thrwy drugaredd nid oes raid iddynt."

Wedi y tro crybwylledig, darllenai y gwasanaeth a phregethai dair gwaith ar y Sabboth yn eglwys y plwyf; ac yn yr wythnos ymgysylltai â'r Methodistiaid. Aeth y son am ei droedigaeth yn fuan drwy holl sir Frycheiniog, ac yn mysg eraill, daeth yn hysbys i'r Iarlles Huntingdon. Yr oedd prif athraw y coleg, ar y pryd, yn rhwym o fyned oddicartref am rai misoedd; a thybiodd y bendefiges oddiar a glywsai am ddysg Mr. W., a'i gymhwysderau, na

---

Yr oedd unwaith yn Môn yn teithio, ac yn mysg manau eraill, daeth i bregethu i Langefni, yn mhell, tybygid, cyn bod yno un addoldŷ, na dim achos sefydlog, gan y Methodistiaid. Y tro hwn yr oedd y wraig gydag ef. Ar ol y bregeth aeth y ddau i Ben-y-bont, tafarn-dŷ adnabyddus yn y dref i letya. Yr oedd cynllwyn eisoes yn ngwersyll yr erlidwyr, yn erbyn y pregethwr; ac wedi deall pa le yr oedd, ymgasglodd haid o honynt wrth ddrws y gwest-dŷ. Yr oedd gyda hwy grythor *(fidler)*, yr hwn, ond odid, oedd eisoes wedi bod yn eu difyru mewn rhyw gynulliad llawen o'r ciddynt. Ar y pryd, yr oedd Mr. W., a'i wraig yn aros yn y parlawr, clywent drwst traed lawer yn y fynedfa *(passage)*, a gwelent ddrws y parlawr yn agor yn araf, a'r crythor yn sefyll o'u blaen, tra yr oedd llu o ddyhiriaid wrth ei gefn. Pan ganfu Mr. W. ef, galwodd arno, "Tyr'd i mewn, fachgen." Y crythor a ofynodd gyda llawer o goeg-foesgarwch, a garent hwy gael *tune*. "Carem," atebai Mr. W., "gad dy glywed yn chwareu."

"Pa *dune*," gofynai y crythor.

"Rhyw *dune* a leici di, fachgen—*Nancy Jig*, neu rywbeth arall," oedd yr ateb.

Ar hyn dechreuodd rygnu y crwth, a gwaeddodd Mr. W. yn effeithiol ar ei wraig, "Tyr'd Mali, cân,"

Gwaed y groes sy'n codi fyny,
Yr eiddill yn goncwerwr mawr, &c., &c.

Tynodd y canu hwn sylw yr oferwyr; a bu gwaith Mr. W. a'i wraig yn canu am waed y groes, mor effeithiol, nes gostegu anwybodaeth y dynion ffolion hyn; a llithrasent ymaith bob yn un ac un, mewn gwarth a chywilydd, heb wneuthur dim ychwaneg o aflonyddwch.

allasai gael gwell i wneyd y diffyg i fyny. Ysgrifenodd wahoddiad iddo gan hyny, i gymeryd gofal yr athrofa am dymhor, i hyn y cydsyniodd ynteu; a bu yno o Awst hyd diwedd Rhagfyr 1784. Bu yn Llanfair ddwy flynedd ar ol hyn; ond yn y fl. 1786, o herwydd diswyddiad y pen-athraw yn Nhrefecca, ac o herwydd y boddlonrwydd a gawsid yn Mr. Williams yn y tymhor blaenorol, fe roddwyd gwahoddiad unfrydol iddo gymeryd y lle. Felly hefyd y gwnaeth a bu yno, yn cyflawni y swydd bwysig o ben-athraw dros bum' mlynedd.* Yr oedd ei dad, yr hen Fardd o Bant-y-celyn, bellach wedi marw, a barnodd y mab, mai ei ddyledswydd ar yr adeg oedd myned i'w hen gartref, a chymeryd gofal ei fam yn ei hen ddyddiau; a dysgwyliai hefyd, fel yr oedd yn rhesymol, y rhoddid iddo fwy o amser a seibiant i bregethu yr efengyl.

Nid cymaint a deithiodd Mr. Williams a llawer o hen bregethwyr y Methodistiaid; nid er ys llawer cymaint a'i dad. Cyfyngai ei weinidogaeth gan mwyaf i sir Frycheiniog, a rhyw ranau o sir Gaerfyrddin. Eto, fe ymwelodd amryw weithiau â'r holl eglwysi yn y Deheubarth, a bu ddwy waith hefyd yn y Gogledd. Yn un o'r teithiau hyn yr oedd, pan ysgrifenai lythyr at ei frawd, yr hwn oedd offeiriad yn Lloegr, ac y darluniai yr olwg alaethus a gawsai ar yr eglwys wladol yn Ngwynedd. Yr oedd wedi teithio 600 o filldiroedd, ac "yn fy holl daith," meddai, "ni chlywais am gymaint ag un gweinidog effro yn yr eglwys sefydledig!"

Mewn llythyr arall at ei frawd, yn 1812, y dywed, "Nid oes un offeiriad yn perthyn i gorff y Methodistiaid yn sir Frycheiniog, ond fy hunan; mae y pellder rhyngom ni â'r eglwys sefydledig yn ymledu bob dydd; ac y mae y bobl ieuainc yn cymeryd yn ganiataol, nad yw yr eglwys ond math o Gristionogrwydd gwladol; mae yr hen bobl o hyd yn llochi gradd o bleidgarwch i'r eglwys, ond nis gwaeth gan y dosbarth ieuanc o honom, pe byddai yr holl offeiriaid wedi eu halltudio i'r ochr draw i'r Ganges."

Nid oedd iechyd Mr. Williams, am y 15 mlynedd olaf o'i oes, ond anmharus ac ansicr, fel na allai deithio nemawr oddicartref. Gan gyfeirio at daerineb ei frodyr ar iddo ddyfod i ymweled â hwy, yn y naill le a'r llall, fe ddywed, "Nid gwiw i mi ddywedyd am fy afiechyd, ni wna fy mrodyr anwylaf, ond chwerthin am fy mhen, gan feddwl nad oes dim ond yr *hip*† yn fy mlino; canys felly y galwant hwy bob peth nad ydynt yn ei ddeall, ac ni chredant fod un clefyd ar bregethwr ond yr *hip*, nes clywed ei fod wedi marw; yna dywedant, 'Mae'n debyg ei fod ef yn afiach er ys blynyddau, er nad oeddym ni yn ei gredu.'"

Ni fu Mr. Williams erioed yn briod; yr oedd yn berchen trefdadaeth o ryw faintioli, ac mewn amgylchiadau cysurus; tra chlusengar hefyd ydoedd. Yr oedd ei dŷ, ei fwrdd, a'i logell, yn gweinyddu at gyfreidiau pregethwyr; a

* Ymhen dau fis ar ol ei ymadawiad o Drefecca, sef yn Mehefin 17, 1791; bu farw yr Iarlles, ac yn y canlyniad symudwyd yr athrofa o Drefecca i Cheshunt, swydd Herts.

† Neu yr *Hyp*,—talfyriad ô'r gair Hypochondriacesm, sef y Pruddglwyf.

chyfranai yn flynyddol at achosion elusengar nid llai yn fynych na £200, ac weithiau fwy na hyny. Dywed ei Gofiantydd am dano, "Er fod Mr. W. yn enwog fel dyn, fel ysgolhaig, fel cristion, ac fel gweinidog ffyddlon, eto ei brif ragoriaeth oedd ei elusengarwch. Ni welodd Cymru ond ambell un cyffelyb iddo." Gadawodd hefyd yn ei lythyr cymun rhwng £800 a £900, at wahanol achosion crefyddol ac elusengar.

Nid ydym yn deall fod Mr. Williams yn bregethwr hyawdl iawn, eto yr oedd yn bregethwr call, a thra chymeradwy. Cyn darllen ei destyn, dywedai bob amser "*Gair yr Arglwydd;*" yna darllenai yr adnod mewn llais uchel a chlir, ddwy waith neu dair drosodd. Byrion gan amlaf a fyddai ei bregethau, anaml y parhäai yn fwy na hanner awr. Fe fu yn y weinidogaeth am ysbaid o faith flynyddau. Urddwydd ef yn offeiriad pan yn 25 mlwydd oed, yn y fl. 1779. Gadawodd yr eglwys sefydledig yn y fl. 1786. Bu yn athrofa Trefecca o gwbl, dros bum' mlynedd, ac yn pregethu yn mysg y Methodistiaid 37 o flynyddau, sef hyd ei farwolaeth; yr hwn amgylchiad a gymerodd le yn y fl. 1828, pan oedd yn 74 mlwydd oed.*

Dysg a dawn, ac aur ac arian, corff ac iechyd, tra fu byw,
A gysegrodd ef yn gyfan, at wasanaeth eglwys Dduw;
Ac wrth farw nid anghofiodd achos Duw nac angen dyn,
Wrth ymadaw fe gyfranodd yn haelionus i bob un.

Ar ol i Mr. Williams ymadael â Llanfair fe fu yno rai pregethwyr eraill yn trigiannu, megys y Parch. Maurice Davies, yr hwn wedi hyny a ymfudodd i'r America, ac a fu farw yno. Bu y Parch. Richard Lumley hefyd yn preswylio yn y dref dros amryw flynyddau; ond ar ol iddo ef ymadael, ni fu yr un pregethwr yn preswylio yn arosol; eto mae yr achos yn cael ei ddal i fyny gyda gradd o lwyddiant hyd heddyw.

TRECASTELL.

Mae y lle hwn yn sefyll tua 12 milldir i'r gorllewin o Aberhonddu, ar y ffordd sydd yn arwain i Lanymddyfri. Ymddengys fod Methodistiaeth wedi ymsefydlu yn y fangre yma yn fore, mor fore a dyddiau Howel Harris. Prawf teg o gynarwch yr achos ydyw fod yma gapel wedi ei adeiladu mor fore a'r fl. 1755; adeg nad oedd ond ychydig iawn o gapelau gan y Methodistiaid trwy Gymru oll. Mae awgrym yn cael ei roddi yn "Nghofnodau Trefecca," ac nid yw nemawr fwy nag awgrym, fod cymdeithas eglwysig fechan yn Llywel, o fewn milldir neu lai i Drecastell; a chymdeithas arall yn Dyfynog, o fewn ychydig gyda thair milldir, mor fore a'r fl. 1743. Prawf

* Mae nodiad yn ei gof-lyfr fel hyn:—"Mae yr hen —— o —— wedi gorphen ei yrfa! Dywedodd ar ei wely angeu, 'Yr wyf yn cofio yr amser pe dywedasid wrthyf nad oedd ond un dyn o bbwyf —— i fyned i uffern, buaswn yn sier mai myfi oedd hwnw; ond yn awr, trwy drugaredd, pe dywedid wrthyf nad oes ond un i fyned i'r nefoedd, gwn mai myfi yw efe!'"

arall o hynafiaeth yr achos yn y lle hwn ydyw fod cymdeithasfaoedd yn cael eu cynal yma er cyn y fl. 1765; ac fe ddichon flynyddau lawer cyn hyny. Yn y fl. 1765, y dechreuodd John Evans o'r Bala bregethu, a pha faint o amser cyn hyny yr aethai i gymdeithasfa Trecastell sydd anhysbys. Ond gan fod Mr. Whitfield yn pregethu yn y cyfarfod gyda Harris a Rowlands, barnwn fod y tebygolrwydd yn fwy fyth fod y gymdeithasfa hono yn mysg y rhai boreaf a gynaliwyd gan y Methodistiaid, yn Mrycheiniog. Pa fodd bynag, gallwn sicrhau fod Methodistiaeth wedi cael safle yn Nhrecastell yn mysg y manau cyntaf yn y sir.

Ond anhawdd, os nad anmhosibl, ydyw olrhain hanes yr achos gyda dim sicrwydd a manyldra o hyny i waered. Mae traddodiadau credadwy ar gael fod gweinidogaeth Harris wedi effeithio yn yr ardaloedd hyn, fel yn mhob cwr o Gymru ymron, i ddeffro rhyw nifer i ystyriaeth am eu hachos tragwyddol. Yr oedd ef, meddir, yn awr ac eilwaith yn arfer pregethu yn Nhrecastell ar nosweithiau, ac yn myned adref tuag 20 milldir o ffordd ar ol pregethu, a bod dynion o ardaloedd y Gorwydd, a Phont-rhyd-y-bere, yn dyfod i'w wrando, ac yn dychwelyd adref yr un noson, dros fynyddoedd Eppynt, bymtheg milldir a mwy o ffordd; ïe, yn ychwanegol, sicrheir fod yr un dynion yn ymosod ar eu gorchwylion dranoeth fel arferol, heb deimlo, neu heb ymdeimlo â'u blinder, oddiar y mwynhad a'r adgyfnerthiad a gaent yn yr oedfaon hyny. Y pryd hwnw fe gedwid y cyfarfod eglwysig mewn gwahanol dai anedd ar hyd ac ar led y gymydogaeth; weithiau mewn un ac weithiau mewn arall; yn mysg eraill fe sonir am dŷ un John Evans, a thŷ un David Williams. Cynelid y cyfarfodydd eglwysig yn y modd yma, nid cyn adeiladu capel yn unig, ond, dros ryw dymhor ar ol hyny.

Nid oes genym ddim o hanes y lle hwn am 30 mlynedd ar ol adeiladu y capel, hyd nes y daeth y Parch. Ebenezer Morris yma i gadw ysgol. Nid oedd ar y pryd ond 17 mlwydd oed; ac nid oedd yn yr adeg yn proffesu bod yn grefyddol, ond yn rhodio yn ol helynt y byd hwn, ac yn oferedd ei feddwl. Gwnaeth ei letŷ, tybygid, yn nhŷ John Prydderch, un o'r hen bregethwyr ffyddlon, a berthynai y pryd hwnw i sir Frycheiniog; dan gronglwyd yr hwn y bu efe am ysbaid dwy flynedd; ac ar gais yr hwn y cafwyd ganddo gadw dyledswydd deuluaidd y tro cyntaf erioed. Ni ddywedir mai John Prydderch a fu yr offeryn o'i ddychweliad ef at Dduw, ond fe briodolir hyny i'r David Williams y crybwyllasom ei enw eisoes. Yn y lle hwn hefyd, tua'r fl. 1788, y dechreuodd bregethu, pan nad oedd eto yn llawn 20 mlwydd oed, ac yn nhŷ un Llewelyn Dafydd, Llwyn-ynn, y gwnaeth y cais cyntaf erioed ar hyny. Fe fu ei weinidogaeth yn y lle hwn, er ieuenged ydoedd o ran dyddiau, ac er lleied yr amser yr arosodd yn Nhrecastell ar ol dechreu pregethu, yn dra bendithiol yno. Dychwelwyd llawer o bobl trwyddo at yr Arglwydd. Daeth 25 o ymgeiswyr i'r cyfarfod eglwysig yr un noson, ac oll, oddieithr un, yn priodoli eu dychweliad i weinidogaeth Ebenezer Morris.

Yr oedd Llewelyn Dafydd yn un o'r hen swyddogion eglwysig, ac mewn

rhyw bethau yn rhagori ar ei gyd-swyddogion, er fod iddynt oll air da, a'u coffadwriaeth yn anrhydeddus a pheraroglaidd. Yr oedd yn un o'r enwogion boreaf yn Nhrecastell, ac arno ef y disgynodd yr achos pan nad oedd yn perthyn iddo ond gwaeledd a gwendid. Cafodd ynteu nerth i fod yn ffyddlawn mewn amser tywyll a gauafaidd, pryd nad oedd ond marworyn ar aelwyd Methodistiaeth yn y dre' heb ddiffoddi. Felly dywed Bardd o Bant-y-celyn am dano, yn yr alareb y ganodd iddo ar ol ei ymadawiad :—

Fe ymdrechodd yn egniol, pan oedd cwmwl oerllyd fry,
Wedi 'mdaenu dros Frycheiniog, fel rhyw len o dywyllwch du ;
Ac er hau, a hau drachefen, gau bregethwyr o bob rhyw,
Yn Nhrecastell d'oedd eginin, fel ag argoel fod ê'n fyw.

Yn y tymhor isel hwn, y llafuriai Llewelyn gyda ffyddloudeb a hunan-ymadiad rhyfeddol, i gadw y marworyn heb ddiffodd. Teithiai lawer yn mhell ac agos, i Langeitho ; ac i gymdeithasfaoedd, i ymofyn pregethwyr i ymweled â'i wlad ; a hyny heb un cymhelliad ond a roddai cariad ei fynwes ei hun, ac heb un wobr ond a dderbyniai yn y gwasanaeth. Yr oedd Rhagluniaeth wedi ei gynysgaeddu â gallu, a gras wedi ei gynysgaeddu ag ewyllys i weini yn hael ac yn ehelaeth o'r hyn oedd ganddo tuag at ddwyn yn mlaen deyrnas yr Arglwydd Iesu. Yr oedd Llwyn-ynn, tybygid, yn eiddo iddo ef ei hun ; ac felly yr oedd ganddo fwy o fodd i gyfranu nag a feddai llawer o grefyddwyr ei oes. Yr oedd ei wraig, Gwladys, hefyd o'r un duedd ag ynteu. Agorent eu tŷ i'r holl bregethwyr, a chyda sirioldeb hawddgar hwy groesawent y dyeithriaid a ddeuent i wasanaethu yr achos yn y lle. At hyn y cyfeiria Williams yn yr alareb :—

Gwelwch dŷ yn llawn agored,
Doed o'r dwyrain, doed o'r dê :
Pawb fo'n *ffrins* i'r Arglwydd Iesu,
Gan Llywelyn y mae lle ;
Ac wrth wel'd y pererinion,
Y'mhob congl yno'n llawn,
Mae ei galon ef yn gwenu,
Ac yn dawnsio yn hyfryd iawn.

Bu y gŵr hwn farw yn y gwaith. Cafodd ei gymeryd yn glaf yn nghymdeithasfa Llanfair-Muallt, Mawrth 18, 1783, a bu farw yno yn mhen ychydig ddyddiau. Ac er fod ei farwolaeth yn ddirfawr golled i'w wlad ; eto, fe ymddengys i grefyddwyr ei fro gael achosion i ganu y nos dywell hon. Ar waith ei ardalwyr yn myned ag elor Llywel* i gyrchu ei weddillion ef i'w dŷ ei hun, hebryngwyd hwy gan nifer o gyfeillion o Lanfair, i gefn mynydd Eppynt ; a dywedir eu bod yn canu ac yn canmawl ymron yr holl ffordd. Ar ei anghladd pregethodd Mr. Lloyd, o Gaio, ar 1 Cor. xv. 58 ; ac yma hefyd, yr oedd sain cân a moliant yn boddi llais y pregethwr, rhai yn y tŷ a rhai y tu allan iddo, yn canu mewn llef gorfoledd, ac ambell un yn neidio gan lawen-

* Y plwyf yr oedd ef yn byw ynddo

ydd. Anhawdd oedd gwybod pa un ai tŷ galar ai tŷ gwledd ydoedd. Wedi myned a'r corff i'r llan, prin y cafodd y gweinidog y Parch. Ll. Llewelyn seibiant i ddarllen gwsanaeth y claddu, cyn i'r bobl dori allan eilwaith i ganmawl; a pha fwyaf y gorchymynai yr offeiriad iddynt dewi, uwchaf i gyd y llefarent. Ac os oedd hi yn awelog fel hyn o fewn y llan, hi aeth yn fwy o lawer felly wrth y bedd. Parhaodd y canu, a'r canmawl, a'r neidio, ar y fynwent am gryn amser, nes oedd amynedd y gweinidog wedi darfod, gan gwbl gredu fod y bobl wedi colli eu synwyrau.* Bu farw Llewelyn Dafydd fel y dywedwyd yn y fl. 1783; yr oedd hyny dair blynedd cyn i Ebenezer Morris ddyfod i Drecastell i fyw, a phum' mlynedd cyn iddo ddechreu pregethu. Yr oedd yma dri eraill o swyddogion yn cydlafurio, dros ryw dymhor o leiaf â Llewelyn Dafydd, sef Thomas H. Beinon o'r Dorallt; Evan Davies o'r Felin-wysg; a Llewelyn Price, o Allt-y-fan. Bu feirw tri o'r blaenoriaid hyn o fewn tri mis i'w gilydd, a phan oedd yr olaf o'r tri yn cael ei gladdu yn mynwent Llywel, torodd un boneddwr allan, yr hwn nid oedd grefyddwr ei hun, gan ddyweyd, "Wel! wel! dyna dri dyn wedi eu claddu, ac yn cydorwedd yn ymyl eu gilydd!—os nad yw y rhei'na yn y nefoedd, ffarwel am danom oll!"

Yn amser olaf Llewelyn Dafydd yr oedd yma hefyd un Thomas Powell, yn byw yn y Byllfa, tyddyn, heb fod yn mhell, lle y byddai pregethu yn fynych. Yr oedd gwraig y tŷ hwn yn nodedig am ei gras a'i ffyddlondeb. Yr oedd gan Thomas Powell bedair o ferched, y rhai a fuont o wasanaeth mawr i grefydd. Priododd un Mr. David Thomas, Llwyn-neuadd, yr hwn a fu farw yn lled ieuanc, ond fe fu ei weddw ef yn wasanaethgar iawn i'r achos yn ei chartref, a chyn ei marw hi gafodd y llawenydd o weled ei mab yn dilyn llwybrau ei dad, ac yn gosod ei ysgwydd dan arch Duw Israel. Fe fu y ddwy chwaer eraill yn ddefnyddiol yn eu tymhor, sef Mrs. Jones o'r Beiliau; a Mrs. Jones o'r Bryndu. Mae perthynasau y gwragedd hyn lawer

* At ei gynhebrwng y cyfeiria y Bardd :—

Yna dinasyddion Llanfair
Bobl hawddgar gynes lân,
A'i hebryngent tuag adre'
Heb ei wel'd crioed o'r blaen.

Tirion oeddynt yn ei gystudd,
Parch i'w gorff wrth fyn'd i'r bedd
Credu caent deyrnasu rywbryd
Gydag ef mewn gwlad o hedd.

Methu deall y mae amryw,
Beth yw y drylliedig lef,
Sydd wrth glywed Llwyd yn seinio
Efengyl yn ei anghladd ef.

P'un ai galar dwfn ydyw
Neu orfoledd nefol pur,
Sy'n attalfa i ni glywed
Geiriau gloywon perffaith wir.

Dewch i'r eglwys chwi gewch synu
Gweled llu yn seinio cân;
Nes oedd muriau'r llan yn adsain,
Mwy na mneuthent 'rioed o'r blaen.

Yr annuwiol yn terfysgu,
Glasu, duo, oll mewn braw,
Profi dychrynfeydd marwolaeth,
Ac yn ofni 'r dydd a ddaw.

Dacw 'r corff yn myn'd i'r ddaear,
Dacw dorf yn tori maes,
A gwaeddfäau calonau drylliog
Megys tonau 'r cefnfor glas.

Galar a llawenydd dwyfol,
Hiraeth a boddlondeb ffydd,
Mewn un enaid sy'n terfysgu,
Heb yn hollol gario 'r dydd.

o honynt yn aros yn ffyddlon yn nghyfundeb y Methodistiaid hyd heddyw, yn Nhrecastell, Llanymddyfri, a Phontsenni.

Y pregethwyr a drigiannent yn y tymhor boreol hwn yn Nhrecastell oeddynt John Prydderch, William Bevan, a William Williams; siopwr oedd yr olaf yn y dre'; ac yn pregethu yn achlysurol. Yr oedd gradd o hynodrwydd ar John Prydderch; a chan ddarfod iddo deithio cryn lawer, yr oedd o hyny yn yn fwy adnabyddus i Gymru. Ganesid ef yn y fl. 1742, yn Nghwmtowy, sir Aberteifi. Rhoes ei dad ef yn ysgol Ystrad-Meirig, yn ei ieuenctyd, gyda'r bwriad o'i ddwyn ef i fyny i'r offeiriadaeth, a bu yn yr ysgol hono nes oedd yn agos yn 20 mlwydd oed. Yn yr adeg y gadawodd yr ysgol, efe, a chyfaill iddo, a aethant gan belled a Llangeitho, i weled a clywed y peth y clywsent gymaint o son am dano, sef y gorfoleddu a'r neidio. Gyda'r bwriad o wneuthur gwawd o eraill, a chyda'r dysgwyliad o gael mesur o ddifyrwch, a thestynau chwerthin iddynt eu hunain, yr aethant i Langeitho, ond yn groes i'w dysgwyliad, ac yn annhraethol well na'u haeddiant y bu. Clywsant Rowlands yn pregethu, ac anfonwyd y gair at galon John Prydderch gyda nerth mawr, nes oedd y llencyn gwamal yn ddigon difrif. Anmhosibl oedd gwawdio neb bellach, yr oedd ef ei hun yn mysg y rhai dirmygedig. Weithian ymddangosai pob peth iddo yn newydd. Cymerodd tro trwyadl le yn ei duedd ac yn ei amcanion. Ymunodd yn ebrwydd â'r Methodistiaid yn Mron-yr-helm, lle yn agos i'w gartref. Gyda'r newidiad ynddo ef, newidiodd pethau tuag ato ef; newidiodd ei dad ei wedd a'i ymddygiad tuag ato; troes yn elyn iddo; a dywedodd, os Methodist a fynai efe fod, na chai un diwrnod ychwaneg o ysgol. Felly ymadael fu raid ag Ystrad-Meirig, a dechreu ymaflyd yn ngaledwaith y tyddyn. Ond ni effeithiodd hyn nemawr ar y llanc; ymlaen bellach yr oedd wedi penderfynu myned, ac ymlaen yr aeth. Pan oedd yn 21 mlwydd oed, sef ychydig fwy na blwyddyn ar ol iddo ymaflyd mewn proffes, fe ddechreuodd bregethu, yn y fl. 1763.

Yn fuan wedi iddo gychwyn ar ei weinidogaeth, torodd ymryson ffyrnig allan rhwng ei dad a'i ewythr. Yr oedd y ddau frawd yn perchen llawer o ddefaid, ac ynghylch y defaidtrawd, neu redfa y defaid, yr oedd yr ymrafael. Cyfarfuant un diwrnod ar ben y mynydd, a chyffrodd eu hanwydau i'r fath raddau nes rhuthro ar eu gilydd; ac ni ddybenodd yr ymladdfa cyn fod un wedi curo y llall o ben y mynydd i'r gwaelod! Parodd hyn i dad John Prydderch, yn lle byw mewn ymrysou gwastadol, symud ei gartref; a daeth i breswylio i le a elwir Blaensawdde, ymlaen plwyf Llanddeusant, sir Gaerfyrddin. Yr oedd y mab, er hyn, yn parhau yn ei broffes, er newid ei gartref; a buan y cafodd yr holl blwyf ddeall fod pregethwr weithian yn trigo yn eu plith. Daeth yn fuan i radd helaeth o barch a dylanwad; a chan nad oedd yr un ysgol o fewn y plwyf, cymhellwyd ef yn daer i ymaflyd yn y gorchwyl; gan y deallid ei fod ef wedi cael mesur helaeth o ddysgeidiaeth. Cydsyniodd ynteu â chais y plwyfolion, a chaniatawyd iddo eglwys y plwyf i'w chadw.

Dros rai blynyddau cadw yr ysgol y bu, a chodasid ysgoldŷ iddo ar draul y plwyf, oni buasai i'w dad ac offeiriad y plwyf ddyrysu yr amcan.

Arosodd John Prydderch yn Llanddeusant nes oedd yn 46 ml. oed, pryd y priododd un Miss Catherine Winstone, o gymydogaeth Pentre'r-felin, sir Frycheiniog. Symudodd bellach i dyddyn bychan o'r enw y Ffos-ddu, yn nghymydogaeth Trecastell. Symudodd drachefn i'r dref yn mhen pum' mlynedd; ac yn mhen dwy flynedd ar ol hyny symudodd y drydedd waith i dyddyn bychan o'r enw Pant-crafog-ucha'; lle y treuliodd weddill ei oes. Bu farw yn y fl. 1802, yn 60 ml. oed, ac wedi bod yn pregethu yn agos i 40 mlynedd.

Ymddengys i John Prydderch ennill lle mawr yn meddwl ei frodyr am ei onestrwydd a'i lafur. Arferai ymweled â'r Gogledd unwaith yn y flwyddyn dros amser maith; a bu mewn peryglon lawer yn rhai o'i deithiau cyntaf yno. Llawer gwaith y cafodd ei archolli gan gerig, a'i ddifwyno gan wyau gorllyd; a bu unwaith mewn enbydrwydd am ei fywyd: a'i ladd yn ddiau a wnaethid oni buasai i oruchwyliwr masnachol o Loegr gymeryd ei blaid.

Yn yr amser y bu farw John Prydderch, yr oedd rhyw ddrwg-dybiaeth a rhagfarn wedi codi yn erbyn y Methodistiaid yn mysg yr offeiriaid, a chafodd y rhagfarn hwn achlysur i ddangos ei hun ar gladdedigaeth yr hen frawd. Gwrthodai y Parch. Mr. Evans, Llywel, ganiatâu i weddillion neb o'r Methodistiaid ddyfod o fewn muriau y llan; a gwrthodai hefyd ddarllen uwchben y bedd. Gwneid yr anrhydedd, er hyny, i bob math o bechaduriaid, meddwon, puteiniaid, twyllwyr, ac anffyddiaid, ond gwrthodid ef i'r Methodistiaid; a gweddillion John Prydderch oedd y cyntaf y gwrthodwyd y defodau claddu iddynt. Nid ydym yn crybwyll yr amgylchiad, fel pe bacŵn yn credu fod y sarhad bwriadol hwn yn un golled nac yn un gwaradwydd i'r un trancedig, ond i ddangos i ba raddau y mae ysbryd plaid, ac anwydau drwg yn cario dynion. Gwelsom laweroedd o weithiau yn y gwaith hwn, pa fodd y gwasgai offeiriaid yr eglwys wladol ar bregethwyr a phroffeswyr y Methodistiaid yn eu bywyd; ond dyma y waith gyntaf, am a gofiwn, i ni gael achlysur i gofrestru am neb o honynt yn ceisio cario y sarhad hwnt i angeu! Yr oedd yr ymddygiad hwn yn fwy trahaus gan ei fod yn drais ar deimladau y plwyfolion yn gyffredinol; yn gymaint a bod pawb yn llochi syniadau tyner a pharchus am yr hen bregethwr; eto ni oddefid i'w gorff ef ddyfod o fewn i'r adeilad gysegredig; ac ni halogai y gŵr parchedig mo'i wefusau trwy ddarllen ychydig eiriau wrth y bedd. Mynych y gwelsom yn ystod y gwaith hwn, fod rhigymau y beirdd yn peri mwy o'u harswyd ar offeiriaid yr oes, na dim arall. Nid oedd arnynt ofn pechu gymaint yn erbyn Duw, ond yr oedd ofn fflangellau trahaus y beirdd. Gosodai "Twm o'r Nant" fwy o'i arswyd ar glerigwyr nag a wnai cyfraith y tir; a chilient rhag ei fflangell yn fwy na rhag fflangell eu cydwybodau eu hunain. Y gwir ydoedd, fod y teimlad o gywilydd yn gryfach ynddynt na chydwybod o ddyledswydd, a gofal am eu henwau da gyda dynion, yn fwy na'u heiddigedd dros ogoniant Duw, felly,

yr oedd yn yr amgylchiad dan sylw. Mewn Marwnad a gyfansoddwyd i'r hen bregethwr, gan un Maurice Hughes, y mae cyfeiriad yn cael ei wneyd at ymddygiad yr offeriad :—

"Nid oedd ungwr trwy'r dywysogaeth,
Wr mwy'i lafur dros lywodraeth,
Lywia'i ran yn lân i'r Lefiad ;
Eto'r Lefiad pan fu farw,
Chwareu wnaeth a'i gorff yn chwerw ;
Myn'd a'i gorff o'r porth i'r beddrod,
Heb gadw yn ddyfal at y ddefod ;
Ni chai'r clod, fyth o fod, na dyfod,
O fewn muriau eglwys Llywel,
Mwy na'r 'fengyl, gan y bugail :
Ond torir cyrn pob milyn hwyliog,
Fyddo'n cornio'n annhrugarog, &c."

Pigodd yr alargan deimladau y gŵr parchedig, a gwnaeth ymgais, meddir, gydag amryw gyfreithwyr, i osod cosb y gyfraith ar y troseddwr ; ond methodd a llwyddo yn ei amcan, Parhaodd y trahâ hwn yn y plwyf am ysbaid 12 mlynedd. Y cyntaf a wrthodwyd, fel y dywedwyd, oedd gweddillion John Prydderch, y pregethwr ; a'r cyntaf a dderbyniwyd eilwaith, oedd gweddillion pregethwr arall, o'r enw William Bevan ; gwrthodwyd y cyntaf gan Mr. Evans y tad, a derbyniwyd yr olaf gan Mr. Evans y mab ; un yn y fl. 1802, a'r llall yn y fl. 1814.

Tua'r flwyddyn y daeth Ebenezer Morris i Drecastell i gadw ysgol, sef y flwyddyn 1786, y bu yma ddiwygiad grymus hwn oedd yr ail adfywiad ; buasai un arall yn amser Llewelyn Dafydd, ond nid oes nemawr gofion am hwnw ; ac nid oes coffhad am yr un adfywiad neillduol ar ol yr un yn y flwyddyn 1786, am 35 o flynyddau ; sef yr un yn y flwyddyn 1821, yr oedd y diwygiad hwn yn un grymus iawn. Hyd yn hyn yr oedd yr hen gampau yn aros ar eu traed :—y rhedegfeydd ar y bryniau ar y Sabboth ; y bêl droed a'r bêl law yn fawr eu rhwysg ; y gwylmabsantau a'r dawnsiau, heb eu dymchwelyd ; yr ieuenctyd yn cilio o'r addoliad yn y prydnawn i'r tafarndai ; lle y byddai y meddwi a'r dadwrdd, y tyngu a'r ymladd, yn aml hyd y bore.

Yn yr adeg yma cafodd plwyf Llywel y rhagorfraint o gael offeiriad duwiol a gwir ymdrechgar, sef y Parch. David Parry, y ficer presenol. Torodd yr adfywiad allan yn y llan, ac yn y capel ; ymunodd ugeiniau lawer â chrefydd yn y ddau le ; daeth yr ieuenctyd yn lluoedd i wisgo iau Mab Duw ; ac nid oedd grym bellach yn y gweddill i ddal i fyny yr hen ddefodau llygredig. Syrthiodd y gwylmabsantau i warth, ac yn lle y tyngu a'r meddwi, clywid llais cân a moliant trwy yr holl ardaloedd. Gobeithiwn na chyfyd yr un Hiel y Betheliad byth i sylfaenu yr hen Jericho o hyn allan ; ac nid dadymchwel annuwioldeb cyhoeddus yn unig a fu, ond gwnaed gwaith ar eneidiau dynion a fydd mewn bri tragwyddol ; chwanegwyd ugeiniau at y gymdeithas eglwysig y pryd hwn ; ac nid cwbl ddieppiledd ydyw yr eglwys hyd y dydd

heddyw. Rhifedi yr eglwys yn bresenol ydyw 150, heblaw plant; yr unig weinidog sydd yn trigiannu yma, yw y Parch. David Davies, ynghyd a'r Parch. Benjamin Morris, yn Mhentre'r-felin.

Nid Trecastell ei hun, na'i chymydogaethau chwaith yn unig, a gawsant leshad oddiwrth yr adfywiadau a fu yma; ond cafodd personau dyeithr, ac ardaloedd pellenig, hefyd, fedi, megys yn achlysurol, peth o'r ffrwyth; er fod yr aelwyd danllyd yn hanfodi mewn un lle, eto cariwyd rhai o'r gwreichion hyd ymhell. Pan y torodd yr adfywiad allan yn Llwyn-neuadd, ardal heb fod yn mhell o Drecastell, dan weinidogaeth y Parch. Thomas Jones, Caerfyrddin, yn y fl. 1786, yn mysg y lluaws a gawsent les y pryd hwnw, yr oedd un William Bowen, Aberhenwen; yr hwn a aeth ar ol hyny yn swyddog i'r Gyllidfa, ac yn bregethwr tra defnyddiol yn ei ddydd, yr hwn a ddybenodd ei yrfa yn Abertawe.* Yn y tymhor hwn y dywedir i'r boneddwr Mr. Bowen, Llwyn-y-gwair, sir Benfro, dderbyn saeth y gwirionedd i'w galon. Fel yr oedd un ferch ieuanc yn moliannu ar yr heol, wedi dyfod allan o'r capel, ac yn adrodd y pennill hwnw o waith Williams, Pant-y-celyn,

> Dywedwch i'm pa olwg hyfryd,
> Sydd ar Dywysog mawr y bywyd;
> A ydyw ôl yr hoelion yno,
> Yn ei draed ac yn ei ddwylo? &c.

dygwyddodd fod y boneddwr yn myned heibio yn ei gerbyd. Disgynodd y sŵn peraidd yn swynol ar ei glust; tynwyd ei sylw at yr ymadroddion; teimlodd eu grym yn cyffwrdd â'i galon, a gogwyddodd ei ysgwydd i'r iau. Ni allodd y gŵr mawr er pob rhwysg, a than bob anfantais, ymddyosg oddiwrth y teimlad a enynwyd y pryd hwnw yn ei fynwes; ac ni chafodd dawelwch i'w ysbryd, nes cyrhaedd y lloches sydd yn Nghrist, a'r cymundeb sydd gyda'i bobl. Ymunodd yn fuan â Methodistiaid ei fro; a dangosodd ei hun o hyny allan, yn gristion dirodres a thra defnyddiol. Pwy fuasai yn dysgwyl y buasai sir Benfro bell yn derbyn y fath fudd oddiwrth adfywiad Trecastell, yn sir Frycheiniog. Yn yr un adfywiad y daliwyd John Bowen, Pont-y-pool, yr hwn, yn ei ddyddiau cyntaf, oedd yn seren ddysglaer iawn, yn y weinidogaeth, ac yn offeryn i droi llawer at gyfiawnder.

Ond ni fu daioni erioed yn myned yn mlaen, na fyddai rhyw un yn achwyn arno; a pho mwyaf grymus ac eglur y daioni, mwyaf ffyrnig a fydd y gwrthwynebiad. Yn amser yr adfywiad hwn, gan faint y mwynhad, a chan rymused y cynhyrfiad, byddai lluaws o'i ddeiliaid yn treulio oriau lawer mewn canu a moliannu; a hyny weithiau, ar hyd y ffyrdd wrth ddychwelyd adref o'r moddion; ïe, treuliai rhai nosweithiau cyfain yn yr awelon hyn; a'r bryniau a adseinient gan lais eu mawl, a'r cymoedd oeddynt yn llafar gan eu cân. Teimlai un gŵr, uwch na'r cyffredin, yn y gymydogaeth, fod hyn yn

* Gwel grybwylliad am dano, Cyf. III., tudal. 31.

ormes na ellid ei oddef; aflonyddent, meddai, ei gwsg, a rhaid oedd rhoddi terfyn arno; ac i'r dyben hwnw, aeth at hedd-ynad, i ymofyn gwŷs gyfreithiol i ddal bleinion y diwygiad, ac i'w cosbi am yr afreolaeth a barent. Ar ei waith yn dyfod at yr ynad, gofynwyd iddo, Pa beth oedd ei neges? Atebai ynteu, mai ymofyn gwŷs yr oedd, i ddwyn dan gosb y bobl a aflonyddent yr ardal gymaint, trwy ganu a moliannu, nes ei rwystro ef, a llawer eraill, i gysgu y nos. "Ho!" ebe yr ynad, "os hyny yw eich cais, ni allaf ei roddi; oblegid chwi wyddoch fod yn rhaid i chwi a minau farw!" A bu raid i'r achwynwr foddloni ar hyny. Nid oes amheuaeth na chlybu y gŵr lawer gwaith ddadwrdd y meddwon, ac oernadau tyngwyr, a bygythion trystfawr ymrysonwyr, ac heb osod y peth at ei galon. Mwy cydweddol, tybygid, â'i archwaeth, a mwy esmwyth i'w glust, oedd oerleisiad plant y fall, na chri enaid drylliedig;—na mawl y rhai a gawsent eu bywyd yn nghysgod Cyfryngwr. Y gwirionedd ydoedd, mai nid maint y sŵn oedd yn elyn i'w gwsg, ond ansawdd y gân oedd yn groes i'w archwaeth; ac attelid ei gwsg, nid gan rym eu trwst hwy, ond cyffroad ei fynwes ei hun.

Yn y blynyddau hyn yr oedd cymdeithasfaoedd yn cael eu cynal yn fynych yn Nhrecastell; mor fynych, dros ryw dymhor, a bob yn ail blwyddyn; ïe, ar rai adegau, bob blwyddyn. Yr oedd hyn mewn amser nad oedd unlle arall yn y sir, oddieithr Llanfair-muallt, yn abl i'w chynal. Mawr y son sydd hyd heddyw, gan yr hen bobl henaf, am y tywalltiadau rhyfeddol a roddid y pryd hwnw yn y cynulliadau mawrion hyny. Yn neillduol, sonir am un; yr oedd gwlaw trwm yn bygwth dyrysu y cyfarfod yn hollol, pryd y disgynodd dylanwadau rhyfeddol ar y blaenoriaid a'r pregethwyr, yn eu cyfarfod neillduol eu hunain. Ar ddiwedd y cyfarfod hwn, galwyd ar Robert Roberts, Clynog, i ddybenu y cwrdd; ac os oedd y lle yn aelwyd dwym o'r blaen, hi aeth bellach yn fflam angherddol; neidiai yr hen offeiriad Howel, Trehil, allan o'i eisteddle dan y pwlpud, i ganol y llawr, ac yno y llamai fel yr hydd; a cherddodd y tân nes enyn yn y bobl oedd o'r tu allan i'r addoldŷ. Attaliwyd y gwlaw hefyd, a chafwyd cyfarfod y bu hir gofio am dano.

Mae engraifft gyffelyb o effaith gweddi wedi digwydd yn ngwlad Môn, o ran sylwedd, fel y canlyn:—

Yr oedd sychder maith wedi bod yn ngwlad Môn tua'r fl. 1811; nid oedd gwlaw wedi disgyn er pan roddasid had y gwanwyn yn y tir; ac yr oedd bellach, yn Wyl Ifan yn yr haf; a hawdd ydyw dyfalu yr olwg ddigalon oedd ar y maesydd mewn canlyniad. Nid oedd porfeydd i'r anifeiliaid; a hyd ganol Mehefin nid oedd obaith prin am gynhauaf. Cynaliwyd cymdeithasfa y wlad y flwyddyn hon, fel arferol, yn mis Mehefin; ac yn nhref Llangefni yr oedd ei thro y pryd hwn; yn yr oedfa prydnawn yr oedd Mr. Richardson, Caernarfon, yn pregethu ar ol rhyw un arall; ac ar ddiwedd y bregeth, caf-odd ar ei feddwl weddio am wlaw; ac ymddengys fod "ysbryd gweddi" wedi disgyn arno yn fwy nag arferol, er cystal y gweddiai ef bob amser. Yn y weddi hon cyfeiriai at y llanc, yn amser Elias, ar ben Carmel, yn

myned eilwaith ac eilwaith, i edrych ai nid oedd arwyddion fod gweddi y proffwyd yn cael ei hateb; a dywedai fod y llanc (megys) wedi bod fwy nag unwaith, yn edrych, ond nad oedd un arwydd i'w gael. Ond o'r diwedd, torai allan i ddyweyd fod y llanc yn hysbysu fod rhyw "gwmwl bychan" yn ymddangos, a bloeddiai y gweddiwr, mewn dull priodol iddo ei hun, fod "Trwst llawer o ddyfroedd" i'w glywed!—a chydag iddo ddyweyd y gair, wele fflach o fellden, a rhuad trwm y daran, yn cyffroi pob mynwes yn y gynulleidfa fawr,—wele hefyd yn ebrwydd y gwlaw mawr yn disgyn fel pe'r agorasid ffenestri y nefoedd ar yr achlysur. Yr oedd yr effaith ar y bobl yn aruthrol; chwareuai pob mynwes fel pe buasai wedi ei chyffwrdd â gwefriad ofnadwy; a chiliasant o'r lle gan ddyweyd, fod Duw yn ddiau yn gwrando gweddi.

Dywedir hefyd, fod yr hin ar y pryd yn boeth iawn, ac nad oedd un arwydd blaenorol o wlaw wedi ei gael, hyd yr amser ymron yr oedd yn disgyn yn genllif i waered.

PENNOD IV.

GORSAFOEDD HENAF BRYCHEINIOG.

CYNWYSIAD :—

LLAFUR Y DYWYGWYR CYNTAF—HARRIS AC ERAILL YN PREGETHU YN ARDAL CRUGHYWEL, A CHYRAU ISAF Y SIR—EDWARD HERBERT A WILLIAM POWEL—TEULU MR. WATKIN RUMSEY—ADEILADU CAPEL CRUGHYWEL—WILLIAM EDWARD Y PREGETHWR—HANESYN AM OFFEIRIAD LLANIR—ADFYWIAD YN Y BWLCH A GLAN-Y-GORS—CWM-IAU, FFOREST-COALPIT, A LLANELLI—ABERHONDDU—WHITFIELD A HARRIS YN PREGETHU YNO—ADEILADU CAPEL—DAU GLERIGWYR HYNOD—YR YSGOL SABBOTHOL—MRI. WATKINS A POWEL—CAPEL NEWYDD.

LLAFUR Y DIWYGWYR CYNTAF.

Yn amser Howel Harris, yr oedd dau ŵr mwy nodedig nag eraill yn llafurio yn nghyrau Brycheiniog a Mynwy, sef Morgan John Lewis, a Morgan Jones. Yr oedd y ddau yn arolygwyr, pob un ar ei ddosbarth ei hun, ac eto yn cymysgu eu llafur yn mhlith y cwbl. Nid oedd y tadau hyn yn ymgadw at y rhaniad gwladol o'r siroedd, gan y byddai y dosbarth a osodid iddynt yn cynwys weithiau ranau o ddwy sir, ac felly yr oedd gyda'r gŵr hyn. Llafuriai Morgan John Lewis mewn rhanau o Frycheiniog a Mynwy. Cyrhaeddai ei esgobaeth yn gyntaf can belled a Llywel ar un llaw a Phont-y-pool ar y llaw arall. Casglwyd hefyd ryw nifer o aelodau eglwysig at eu gilydd mewn amrywiol fanau, megys yn Llansantffraid, Llangatog, Llanfihangel, Grwynaufechan, Cwmdu, Cantref, a'r Glyn. Pa beth a ddaeth o'r cymdeithasau hyn wedi yr ymraniad nis gwyddom; nid oeddynt, ar y goreu, ond bychain;

ychydig oedd rhif yr aelodau; byr oedd eu gwybodaeth, a bâs eu profiad. Nid oedd ganddynt ychwaith yr un capel i ymgynull ynddo; a chan ma mewn tai anedd y cynelid pob moddion, tebygol ydyw, mai chwalu, neu ddiflanu, a wnaeth y naill ar ol y llall, fel yr oedd y llafurwyr yn prinhau; neu fel yr oedd amgylchiadau y tyddynod, neu y tyddynwyr yn newid. Amlwg ydyw, pa fodd bynag, na chyfrifir fod yr un eglwys sydd yn awr yn nghyfundeb y Methodistiaid, yn mharthau dê-ddwyrain Brycheiniog, yn honi henafiaeth digonol, i'w rhestru yn mysg y cymdeithasau uchod. Barnu yr ydym y bu bwlch hir rhwng y naill gyfnod a'r llall; sef, rhwng chwaliad hen eglwysi Morgan John Lewis, a chyfodiad y rhai presenol.

Nid oes amheuaeth, pa fodd bynag, na fu Howel Harris yn pregethu mewn amrywiol fanau oddeutu Crughywel. Sonir am dano yn pregethu wrth bont yn agos i eglwys Llangene, pan ddaeth y *Counsellor* Davies o Court-y-gollen ato, ac a barodd iddo roi heibio bregethu, gan fygwth oni pheidiai, fod ganddo nifer o ddynion wrth law i'w fwrw ef i'r afon; ni chymerodd Harris nemawr sylw o'i fygythiad, ond aeth rhagddo gyda'i orchwyl. Barnodd y boneddwr hefyd, tybygid, mai gwell oedd iddo ynteu wrando enyd, cyn rhoddi ei fygythiad mewn grym; ac yn yr enyd hono fe glywodd ddigon i wanychu ei fwriad ac i ddyrysu ei amcan. Diarfogwyd ef o'i ragfarn, a gwrandawodd arno hyd ddiwedd y bregeth. Ar derfyn y cyfarfod, daeth y *Counsellor* ato, a rhoes arwydd iddo nad oedd ef mwyach yn llochi un drwg amcan tuag ato, trwy ysgwyd llaw ag ef, ac felly dangosai ei fod yn ymadael yn heddychol.

Sonir hefyd am rai o efrydwyr Trefecca, (Williams a Jones, medd fy hysbysydd) yn dyfod i hen gapel, ag oedd y pryd hwnw heb neb yn ei ddefnyddio. Perthynai y capel hwn, tybygid, i eglwys Loegr, ond nid oedd gwaddol yn perthyn iddo; a chan hyny ni chynelid un gwasanaeth crefyddol ynddo. Agorwyd hwn i'r diwygwyr; ac arferai Harris ac eraill bregethu ynddo. Dywedir fod y gwŷr a grybwyllwyd uchod, Williams a Jones, "yn ddynion tanllyd;" "meibion y daran;" yn llawn aidd a grym; yr oedd eu gweinidogaeth hefyd o dan arddeliad neillduol, a'r gwrandawyr dan effeithiau rhyfeddol. Torent allan mewn mawl a chân, nes oedd y wlad yn gyffredin mewn cyffro. Arferid weithiau droi bagad o'r rhai a fyddai yn llefain, allan o'r capel i'r fynwent, er mwyn rhoddi y fantais i'r gwrandawyr eraill allu clywed y pregethwr. Yr oedd yr ardal hon, sef y Grwynau-fechan, ar y pryd yn nodedig am bob annuwioldeb, yn wythnosol ac yn Sabbothol hefyd; ond fe fu dyfodiad Harris a'i gydlafurwyr i'r capel uchod yn foddion i beri diwygiad mawr dros ben yn arferion y bobl, ac i ddwyn llawer o bechaduriaid i'r iawn, allan o fagl y diafol.

Ymddengys ddarfod i'r Methodistiaid gymeryd yr hen gapel eglwysaidd hwn a'i drefnuso yn dŷ cwrdd; a thrwy dalu ardreth am dano, barhau i'w ddefnyddio hyd y dydd hwn. Arferai Mr. Jones, Llangan, P. Williams, ynghyda'r efrydwyr uchod, y rhai oeddynt y Parchn. Lewis Jones a Griffith

Williams bregethu ynddo, a mawr iawn oedd yr ymgynulliad i'r lle, a rhyfeddol yr effeithiau a ddilynai y weinidogaeth.

Bu yr un Griffith Williams yn pregethu hefyd ar yr heol yn Llanbedr, pentref o fewn tua dwy filldir i Grughywel; o flaen tŷ un Edward Herbert, ar Sul y gŵylmabsant. Ar y Sabboth hwn arferai lluaws mawr o oferwyr ymgynull i'r lle, a phawb a'u bryd ar eu pleser. Hawdd ydyw dyfalu mai tra anniddig a fyddent i neb ryfygu croesi eu llwybr, a dyrysu eu mwyniant; ac nid gwroldeb bychan oedd yn angenrheidiol mewn dyn a safai i fyny i bregethu i'r fath gynulleidfa. Yr oedd yno hefyd amryw o bobl ag oeddynt yn elwa llawer ar y fath gyfarfodydd, y tafarnwyr yn enwedig; oddiwrth y dosbarth yma gellid dysgwyl mwy o wrthwynebiad i'r pregethu nag oddiwrth neb arall, gan ei fod yn erbyn "gobaith eu helw hwynt." Sonir yn neilldu-ol am un hen dafarn-wraig yno, mwy ei haidd dros ei masnach, a mwy ei phenderfyniad yn erbyn yr efengyl, nag eraill; yr hon a safai i fyny gan waeddi Hw! hw! â'i holl egni, fel na's gellid clywed y pregethwr. Am yr hen wraig hon y mae traddodiad yn aros yn y wlad hyd heddyw, ei bod hi yn ei chystudd diweddaf, cyn ymadael â'r byd hwn, yn gwaeddi Hw! hw! yn ddibaid, fel un na allai ymattal. Gwaeddasai felly gynt o fodd, gwaeddai felly yn awr o raid; gwnaed y pechod gynt, yn awr yn gosb; mawr y dychryn a barodd hyn yn yr ardal. Dywedir hefyd fod gŵr arall, nid pell o'r lle, wedi gosod y clychau i ganu gyda'r un amcan o rwystro yr addoliad, a'i fod ynteu wedi clafychu i farw yn dyoddef yn arswydus gan ffiangellau cydwybod wedi ei deffro; a'i fod dan rym pryder angerddol yn anfon am grefyddwyr i weddio drosto.

Nid oes amheuaeth na ddychwelwyd llawer o bechaduriaid a flaenorent mewn annuwioldeb, yn ystod yr adfywiad hwn; ac yn mysg eraill sonir yn arbenig am un ferch ieuanc o'r enw Miss Sarah Jones. Yr oedd y ferch hon yn nodedig, am ei gwamalrwydd a'i balchder, yn mysg merched y wlad. Hon a ddaeth un Sabboth oddiar ysfa chwilfrydig, i weled y neidio, ac i glywed y bobl yn llefain, gan ddysgwyl y cawsai destynau i wawdio yn ol llaw. Mr. Lewis Jones o Drefecca oedd y pregethwr. Cyn iddo derfynu ei bregeth, daeth i son am falchder; a dangosodd pa mor ddrewedig ydoedd yn ffroenau Duw; ar hyn pigwyd y ferch ieuanc yn ei chalon, a gwaeddodd allan mewn ing, "Dyma fi! dyma fi! beth a wnaf; a oes gobaith i'r fath un, y falchaf o bawb?" "Oes," atebai y pregethwr, "ni chollir pwy bynag a gredo yn yr Iesu." Hithau a waeddodd eilwaith, "Diolch iddo! diolch iddo, byth am gofio am y fath un." Cyfrifwyd y ferch hon, o hyn allan, gyda'r crefyddwyr, a gwelwyd ynddi gyfnewidiad trwyadl, o ran ei rhodiad, ac o ran naws ei hysbryd, Cysegrodd ei hoes bellach i wasanaeth y Cyfryngwr, a bu farw yn fuddugoliaethus yn y diwedd.

Soniasom am un Edward Herbert, o flaen tŷ yr hwn yr oedd Mr. G. Williams yn pregethu. Yr oedd Herbert yn arfer cynghori, ond nid oes genym ddim o'i hanes; yr unig beth a ddywedir am dano ydyw, "Byr oedd ei

ddawn, ond difyr oedd ei ymadroddion." Yr oedd yma bregethwr arall yn byw mewn lle a elwir y "Twyn." Ennillasai y gŵr hwn y gair da o fod yn *dduwiol iawn*. Un o'r cynghorwyr ydoedd, bychan ei dalent ond rhagorol ei ysbryd. Bu farw ar ei daith yn Nhroed-yr-haiarn, yn y fl. 1807, ond dygwyd ei weddillion i fynwent Crughywel. Yn nhŷ y William Powell hwn y cynelid y moddion, mewn cysylltiad â Thal-y-garau; y tyddyn yr oedd Mr. Walter Rumsey yn byw ynddo. Ymddengys y bu y ddau ŵr hyn o wasanaeth mawr i'r achos Methodistaidd, pan oedd eto yn ei wendid, yn nghodrau y sir hon.

Mab oedd Mr. Walter Rumsey i Watkin Rumsey, o Polygar, ger Crughywel. Ganwyd ef yn fl. 1755; yr oedd ei dad a'i fam yn bobl grefyddol, ac yn dra ymgeleddgar i achos yr efengyl yn eu dydd. Bu Howel Harris yn eu tŷ yn pregethu, ac yn cael ymgeledd pan ydoedd ymron llewygu gan y driniaeth a gawsai oddiwrth erlidwyr. Un tro pan oedd yn dychwelyd o sir Fynwy, clybu Mrs. Rumsey lais gwan o flaen y tŷ, tua dau o'r gloch yn y bore. Adnabu y wraig y llais, mai llais Mr. Harris ydoedd. Prysurwyd i agor iddo; a phan y daeth i fewn yr oedd yn syndod yr olwg arno, gan archollion a chleisiau. Cafwyd fod tri-ar-ddeg o archollion ar ei ben, a rhyfeddod na fuasai wedi ei ladd. Cafodd bob ymgeledd angenrheidiol gan Mr. a Mrs. Rumsey, ac wedi gorphwys enyd yn eu tŷ, yr oedd wedi dadebru fel ag i allu myned i'w ffordd yn eithaf siriol, gan ystyried mai braint iddo oedd cael dyoddef anmharch a cholled er mwyn yr Iesu.

Yn Tal-y-garau y bu teulu Mr. Rumsey yn byw dros amser, a hyd nes y bu farw Mr. Watkin Rumsey. I'r lle hwn y symudwyd yr achos o'r Twyn. Wedi marw Mr. Rumsey yr henaf, symudodd y mab i le a elwir y Wern, lle y bu fyw tua blwyddyn, ac oddiyno drachefn i dyddyn a elwir Tŷ'n-y-wlad, oddeutu milldir i'r gogledd o dref Crughywel, Yr oedd ei dŷ o hyd, dan bob symudiad, yn lloches i Arch Dduw. Er mai yn nhŷ William Powell yr oedd y pregethu wedi dechreu gyntaf, eto yn Tal-y-garau y cychwynwyd y gymdeithas eglwysig. Cynelid cyfarfodydd misol yma hefyd, pryd y byddai Mr. Jones, Llangan, P. Williams, Davies o'r Goetre, Edward Goslet, ac eraill, yn pregethu; a chofir yn hir am rai o honynt gan y llewyrch gogoneddus a a fyddai arnynt. Gwnaed yr un modd yn Tŷ'n-y-wlad, wedi i'r teulu fyned yno i breswylio.

Gŵr arall a fu yn ddefnyddiol dros lawer o flynyddau fel blaenor neu henuriad, oedd un Mr. Edward Herbert. Mab oedd hwn i Mr. John Herbert, o'r Gilfach, tyddyn yn agos i Grughywel. Cafodd y gŵr ieuanc wrthwynebiad cryf oddiwrth ei dad o achos ei grefydd. Cafodd ei gloi allan o'r tŷ lawer noswaith, er dirfawr berygl i'w iechyd; ac allan drwy y nos y buasai raid iddo fod, oni bai fod y gweision, ar gyfrif ei fod yn fab, yn ei ollwng yn ddirgelaidd i mewn. Priododd y mab hwn ferch ieuanc o swydd Gaerfyrddin, a chymerodd dyddyn gerllaw y dref o'r enw "Yr Held." Yn y tŷ hwn hefyd y bu pregethu, bob yn ail a Thŷ'n-y-wlad; a pharhaodd pethau

yn y wedd yma hyd nes y cafwyd capel yn y dref. Cafwyd y capel, trwy i Mr. E. Herbert lwyddo gyda'i dad i gael darn o dir i adeiladu arno. Yr oedd hyn yn y fl. 1805. Cynyddodd yr achos yn gyflym, a gwelwyd angenrheidrwydd, cyn llawer o amser, i ail-adeiladu y capel, yr hyn a wnaed, yn ei wedd bresenol, yn y fl. 1826.

Yr oedd yma gynghorwr arall yn byw mewn lle a elwir y Neuadd-fawr, Cwmdu, o'r enw William Edward. Yr oedd hwn yn ŵr duwiol iawn, a pharchus yn ei wlad. Arferai gario y Beibl yn ei logell, ac yn amser y cynhauaf galwai y medelwyr ynghyd ar y maes; darllenai gyfran o'r gair, a gweddiai gyda hwynt. Yr oedd William Edward yn cael ei ystyried yn brydydd, ac yn arfer cyfansoddi llawer o bennillion. Canwyd iddo farwnad rhagorol yr hon sydd eto ar gael; ond ni oddef ein gofod i ni ddodi mo honi ar lawr, na'i bennillion ef ei hun ychwaith.

Mae hanesyn lled hynod yn cael ei adrodd, yr hwn sydd yn dwyn cysylltiad â William Powel o'r Twyn, am yr hwn y soniasom eisoes. Fel yr oedd yn dychwelyd o Abergafenni i Grughywel, dygwyddodd iddo gyd-ymdaith â chyfreithiwr yr hwn oedd yn trigannu yn Crughywel. Aeth yn ymddyddan am grefydd rhyngddynt; ac yn yr ymddyddan daeth i'r golwg, yn lled fuan, mai anffyddiwr perffaith oedd y cyfreithiwr. Dywedai yn hyf, nad oedd yn credu fod Duw na diafol, na nef nac uffern. Teimlodd y pregethwr yn ddwys oddiwrth y fath haeriad eofn, a chynhyfrwyd ef i ddyweyd, "Y deuai ef i gredu, a hyny yn fuan iawn." Felly mewn ychydig amser, syrthiodd y cyfreithiwr yn glaf, ïe, yn glaf iawn; a dechreuodd ymdeimlo oddiwrth geudeb ei egwyddorion. Aeth yn gyfyng iawn arno, a pharodd i'w berthynasau anfon am William Powel y pregethwr ato. Cydsyniwyd â'i gais, ac yn ddioedi wele y pregethwr wrth ei wely. Yn y fan y gwelodd y claf ef, dywedodd, "Mae eich geiriau heddyw yn cael eu gwirio, William Powel! O na chawn ddwy awr i fyw! O am awr!—am hanner awr!—am un mynyd!" ac ar y gair fe drengodd!!

Pan oedd y pregethu yn Tŷ'n-y-wlad, yn mysg eraill a ddeuai yno i bregethu, yr oedd Hugh Pritchard, clochydd Llanir, yn un; a chôf, gan fy hysbysydd, mor ddifyr yr adroddai ei helyntion ar ddechreu ei weinidogaeth; yn mysg pethau eraill, yr oedd y chwedl a ganlyn yn un:—

"Yr oeddwn, flynyddau yn ol, yn glochydd yn Muallt; ac ar un Sabboth yn yr haf, pan ar y fynwent, daeth yr offeiriad ataf, cyn myned i'r eglwys, a dywedodd, "Yr wyf wedi cyfarfod â phrofedigaeth anghyffredin." Pa beth ydyw, gofynais inau, "Yr wyf wedi colli fy mhregeth," ebe ynteu, "ac nis gwn pa beth a wnaf. Da dithau, dos i ben wàl y fynwent a phregetha dipyn i'r bobl goreu y gelli." Felly fu. Pregethais iddynt fel y gallwn, a chefais y boddlonrwydd o ddeall fod y bobl yn dyweyd, wrth ddychwelyd adref, eu bod wedi cael llawer gwell cwrdd i *maes*, nag a gawsent lawer gwaith i *mewn*."

Pan oedd y pregethu yn Tŷ'n-y-wlad, fe gynelid cyfarfodydd misol yno mewn ysgubor fawr a berthynai i'r lle; a rhyfeddol y llewyrch a fyddai ar y moddion yn y tymhor hwnw, a llawer pentewyn yn cael ei gipio o'r tân. Dywedir y byddai Edward Goslet yn dyfod yma yn awr ac eilwaith. Yr oedd yn byw tua 30 o filldiroedd i'r dê o Grughywel, eto cerddai yr holl ffordd erbyn 10 o'r gloch boreu Sabboth, a hyny gwedi bod yn gweithio yn galed hyd 10 o'r gloch nos Sadwrn. Coronid ei weinidogaeth hefyd ag arddeliad rhyfeddol; a mynych cyn darfod y cwrdd y torai rhyw rai o'r gwrandawyr allan i lefain neu i foliannu. Un tro, pan oedd y bobl yn gorfoleddu fel hyn, daeth gŵr boneddig i'r cyfarfod, ac mewn ysbryd tra afrywiog, gwaeddodd allan, "*Helwch daw ar y dynion!*" Atebwyd ef yn y fan gan ryw un ag oedd yn yr hwyl, "Pe tawai y rhai hyn, fe lefai y cerig yn y fan." Teimlodd y boneddwr bigiad y saeth, plygodd ei ben, a chiliodd ar frys o'r lle.

Tua'r un amser, yr oedd adfywiad grymus yn y Bwlch, a Llangors; a than ei ddylanwad yr oedd y bobl yn tori allan mewn sain cân a moliant; a hyn a barai siarad lawer, a chyffro mawr yn yr ardal. Rhai a lawenhaent wrth ei weled; eraill a deimlent yn syn, heb wybod pa beth a allai hyn fod; eraill a'i gwawdient gyda llawer o ddiystyrwch. Yn y cyfamser yr oedd Heddynad yn byw yn Scethrog, palas o fewn ychydig filldiroedd i'r Bwlch. Clybu hwn am y cyffro, a thybiodd ei fod yn annhrefn y dylasid ei ddarostwng trwy gyfraith. I'r dyben hwnw rhoes orchymyn i ddwyn y rhai a dybid eu bod yn blaenori yn y peth o'i flaen ef; gan addaw y dysgâi efe iddynt i ymddwyn yn well mewn lle o addoliad o hyny allan. Felly y wŷs a anfonwyd, a chyrchwyd rhyw nifer o'r troseddwyr i'r palas. Wedi eu rhoddi mewn ystafell briodol, hysbyswyd i'r boneddwr eu bod yno. Daeth ynteu i mewn a'i ysbryd yn ffyrnig iawn, i ddechreu eu holi. Rhoes ar ddeall iddynt ei fod ef yn rhwym o'u hanfon i Aberhonddu, i sefyll eu prawf yn y llys, am y y derfysg a godent yn y wlad, a gofynai iddynt, bob un ar ei ben ei hun, pa beth oedd ganddynt i'w ddyweyd mewn ffordd o hunan-ymddiffyniad? I hyn yr atebodd un o honynt, "Nad oedd ef yn gwybod iddo droseddu un o gyfreithiau y wlad, ond os dyoddef oedd raid, y cyfrifai ef yn fraint i gael dyoddef ychydig dros Un a ddyoddefasai gymaint dros bechadur tlawd o'i fath ef.

Gofynai i un arall, "Pa beth sydd genyt tithau i'w ddyweyd?"

"Yr un peth, Syr, ag a ddywedodd fy mrawd eisoes."

Gofynodd yr un peth i'r trydydd, a chafodd yr un fath ateb, gyda hyn o chwanegiad,—"a pheth arall, Syr, mae yn rhaid i chwi faddeu i mi, gan na allaf ymattal;"—ar hyn torodd allan i waeddi "gogoniant" a "bendigedig am Waredwr cymhwys a chyflawn i'r penaf o bechaduriaid." Gyda hyn gwaeddai y lleill yr un modd, "Diolch iddo, byth am gofio llwch y llawr." Yn awr, y boneddwr mewn syndod aruthrol, a alwodd am y swyddog, a pharodd iddo, "Agor y drws, da dithau, a gollwng hwy i ffordd;—mae rhywbeth rhyfedd arnynt na wyddost ti na minau ddim am dano." Felly y goll-

yngwyd hwy ymaith gan foliannu ar hyd y ffordd i'w cartrefi, wedi gosod argraff, na ellid yn hawdd ei ddileu, ar gydwybod y gŵr mawr.

Yr oedd Methodistiaeth wedi dechreu meddiannu gradd ar ardaloedd eraill ar gŵr swydd Henffordd, sef Cwm-Iau, a Fforest-Coalpit. Cynelid cyfarfod- misol sir Frycheiniog yn y cymydogaethau hyn er yn foreu, a hyny mewn anedd. Yn y lle olaf a enwyd yr oedd crefyddwr mwy nodedig na'r cyffredin yn byw: ei enw oedd William Jones. Ymroddasai pan yn ienainc i wasanaethu ei genedlaeth mewn pethau crefydd; a pharhaodd i wneuthur hyny dros oes faith, canys bu fyw hyd onid oedd yn 102 fl. o'i oedran; ïe, mynodd ddangos ei ewyllys da i grefydd Mab Duw ar ol ei ymadawiad o'r byd hwn; oblegid gadawodd y tyddyn y buasai fyw ynddo i gynal pregethu yn ei ardal ar ol ei farwolaeth.

Yn yr amser yr oedd Athrofa yr Iarlles yn Nhrefecca, yr oedd nifer pregethwyr y Methodistiaid yn ychydig mewn rhifedi, trwy fod difrod yr ymraniad eto yn aros i fesur; a thrwy fod y parth hwn o wlad Brycheiniog ymhell o'r parthau mwyaf Cymreig o honi. Ond yr oedd William Jones yn llosgi gan awydd i gael pregethu i'w ardal, a pharod ydoedd i fyned tros rwystrau cyffredin er mwyn diwallu ei fro â gweinidogaeth y gair. Yr oedd pregethwyr, niferi o honynt, Cymraeg a Saesonaeg, yn Athrofa yr Iarlles; ond pa fodd y ceid hwy i ddyfod i Fforest-Coalpit oedd yr anhawsder. Penderfynodd, pa fodd bynag, y gwnai ef yr hyn a allai. Ymddangosai iddo, pe cawsai gyfleusdra i osod ei achos o flaen yr Iarlles ei hun, y buasai yn debyg iawn o lwyddo. Ond pa fodd y ceid hyny? Anfynych y byddai hi yn Nhrefecca; a phan y byddai, yr oedd y fath luaws o achosion yn galw am ei sylw, fel mai prin y gellid cael clust o ymwrandawiad ganddi i achos a berthynai i'w ardal ef. Heblaw hyn hefyd, nid oedd ef ei hun ond dyn ieuanc eto, ac heb ddod i nemawr sylw, yn enwedig, o'r fath a barai ffafr iddo gyda'r bendefiges. Wrth feddwl myned ati hefyd yr oedd yn crynu gan ofn; eto, er hyn oll, teimlai awydd cryfi dori trwy yr holl rwystrau hyn, os gallai mewn un modd gael pregethu Crist i'w ardal. Felly i Drefecca yr aeth, i osod ei achos o flaen Iarlles Huntingdon. Cafodd, trwy ryw ffafr neu gilydd, ddyfod ati, a dechreuodd osod amddifadrwydd ei wlad o'i blaen, gan erchi ei chymhorth. Gofynai y bendefiges iddo pa fodd y dygasid ef ei hun i gofleidio crefydd Mab Duw? a chafodd y fath foddlonrwydd yn yr hanes a roddodd, fel yr ennillwyd hi ar unwaith i wrando ar ei gŵyn, ac i ddefnyddio moddion i hyrwyddo ei amcan. Cafodd ynteu y fath foddhâd yn y bendefiges, gan ei gostyngeiddrwydd, a'i chariad at yr efengyl, fel y symudwyd ei holl ofnau; a bu y ddau yn gyfeillion mawr o hyny allan.

Mae capel wedi ei adeiladu erbyn hyn yn Nghwm-Iau, yn yr hwn y mae gweinidogaeth gyson. Gynt yr oedd mewn cysylltiad â thaith Sabbothol Crughywel; a'r pryd hwnw yr oedd y pregethwr yn cael ei alw i bregethu bedair gwaith yn yr un Sabboth, sef yn Cwm-Iau y boreu, Fforest-Coalpit a Grwynau y prydnawn, a Thŷ'n-y-wlad neu yr Held, yn yr hwyr.

Yn ddiweddar mewn cydmhariaeth y dechreuwyd achos gan y Methodistiaid yn Llanelli. Yn y fl. 1823 aeth brawd neu ddau i fyw i'r ardal. Buan y teimlasant eu hymddifadrwydd eu hunain o'r moddion a'r breintiau a fwynheid ganddynt yn eu cartref blaenorol; ac ni allent lai na gresynu dros y preswylwyr brodoraidd, am nad oedd ganddynt hwythau foddion gwybodaeth o Dduw yn eu plith. Dechreuwyd cadw ysgol Sabbothol yn lled fuan a chymerwyd tŷ anedd dan ardreth, modd y gellid cael ambell bregeth i'r lle. Nid hir y bu cyn i'r tŷ hwn fyned yn rhy fychan i'r gynulleidfa, a rhoddwyd amnaid lled eglur fod galwad am addoldy yn y lle. Anfonwyd Mr. Roger Williams, a brawd arall o Grughywel, i ymofyn am le i roddi adeilad o'r fath i lawr. Cafwyd tir ac adeiladwyd addoldy a stabl yn gysylltiedig; bu raid ail-adeiladu y capel hwn drachefn, ac yn y wedd a roddwyd arno yr ail waith, y mae yn aros hyd heddyw. Mae cynulleidfa arall mewn capel o'r enw Carmel, wedi codi o gynulleidfa Llanelli, yn nes i'r mynydd. Dechreuwyd yma hefyd yr un fath ag yn Llanelli, trwy agor ysgol Sabbothol yn y lle. Rhoddwyd darn o dir yn y lle hwn i adeiladu addoldy arno gan berchenog y gwaith haiarn, sydd yn y gymydogaeth. Mae yn y ddau le bellach o gant i chwech ugain o aelodau eglwysig, a phreswylia yma dri o bregethwyr, sef David Miles, James Davies, ac Elias Jenkins.

ABERHONDDU.

Mae Aberhonddu *(Brecon)* yn dref boblogaidd, yn cynwys tua 6000 o drigolion, ac yn sefyll tua chanol sir Frycheiniog, o'r hon y mae yn brif dref. Mae ei sefyllfa yn dlws, a'r golygfeydd o amgylch iddi yn dra hyfryd i'r llygad. Mae yn sefyll o fewn wyth neu ddeng milldir i Drefecca. O herwydd ei hagosrwydd i gartref Howel Harris, naturiol ydyw meddwl na esgeuluswyd mor dref hon ganddo. Nid oes neb yn awr yn fyw yn cofio dim am lafur Howel Harris ynddi, ond y mae traddodiad am un amgylchiad yr hwn a brawf fod cais o leiaf, wedi ei wneuthur i ddwyn Methodistiaeth i'r dref yn gynar iawn ar y diwygiad. Dywedir fod Harris, Whitfield, ac eraill, unwaith yn cadw cymdeithasfa, neu gyfarfod pregethu, mewn llecyn mawr agored yn y dref, a elwid y "*Bulwark*." Codwyd math o esgynlawr *(stage)* ar yr achlysur. Parodd hyn gyffro yn dref, a chododd awydd yn meddyliau rhyw rai i ddyrysu yr amcan. I'r dyben hwnw cododd rhyw chwareuwyr (*mountebanks*) esgynlawr arall, ar gyfer y gyntaf; gyda'r unig amcan o ddynwared y pregethu, a'i wneuthur yn destyn chwerthin a gwawd. Bellach yr oedd cyffro mawr yn y dref, a thyrfaodd a ddylifent i'r fan, gan ddysgwyl mwynhau gradd ehelaeth o ddifyrwch. Yr oedd pob wyneb ymron yn mysg y dyrfa yn lloni, wrth feddwl am y dirmyg a'r trahâ a fwrid ar y pregethwyr, ac ar eu hamcan.

Ar yr amser appwyntiedig dechreuwyd y gwasanaeth crefyddol, a disgynodd ar Whitfield i bregethu. Yn y fan y dechreuodd ef, y dechreuodd ei wrthwynebwyr. Aeth y pregethwr yn mlaen er hyny gyda'i waith, gan ym-

liw yn awr ac eilwaith â'i wawdwyr am eu rhyfyg a'u caledwch; ond nid oedd dim yn tycio. Parai ystumiau a chastiau y baldorddwyr lawer o ddifyrwch i'r dorf; a theimlent ymffrost boddhaol fod y pregethwr yn debyg o gael ei ddarostwng. O'r diwedd, wedi canfod nad oedd dim yn tycio, syrthiodd gwroldeb Mr. Whitfield, a darfu ei amynedd; ac ar gais Harris, yr hwn a safai wrth ei ystlys, efe a dawodd. Nesaodd Harris, bellach, i'w le, a chyda gwedd, a llais, ac ysbryd mawreddig ac awdurdodol, a gyfarchodd y gynulleidfa, nes oedd braw a dychryn yn ei meddiannu. Cyfeiriai ei ymadroddion yn arbenig at y gwawdwyr, a rhybuddiai hwy, oni pheidient a'u gorchwyl dieflig, y gallent ddysgwyl rhyw ymweliad barnol ac ofnadwy oddiwrth Dduw yn gosb am eu rhyfyg. Hwythau a gymerent arnynt ei ddiystyru, gan ddechreu ar yr un dull o'i wawdio ef ag a orchfygodd Whitfield. Ond nid hir y caniatawyd iddynt fyned yn mlaen felly; ond un o honynt a syrthiodd i lawr fel un marw; ac nid yw yr hanes yn sicrhau a ddadebrodd ef byth ai peidio! Dygodd hyn fwy o arswyd fyth ar y gynulleidfa, a dyryswch llwyr ar y gwawdwyr. Dibenodd y cyfarfod mewn argyhoeddiad yn meddyliau y lluaws, mai nid diberygl oedd gwatwar a gwrthwynebu y gwaith da; a chafodd y brodyr brawf boddhäol trwy y tro, nad oedd eu Duw ddim am eu gadael yn ddiamddiffyn.

Nid oes genym ddim hanes am un achos sefydlog yn Aberhonddu yn amser Howel Harris, ond ddarfod sefydlu achos yno gan efrydwyr Iarlles Huntingdon, yn ysbaid yr amser y bu ei hathrofa hi yn Nhrefecca. Mae llawer yn awr yn fyw ag sydd yn cofio yr efrydwyr yn dyfod yn gyson bob Sabboth i'r dref i bregethu. Yn yr adeg hon adeiladodd yr Iarlles gapel, yr hwn a gyflenwid gan yr efrydwyr; oddieithr y Sabbothau y byddai rhyw bregethwr arall yn dyfod heibio. Ar *lease* y codwyd y capel hwn, a dywedir, fod y bendefiges yn yn cwbl gredu y deuai y milflwyddiant i mewn cyn y darfyddai *lease* y capel. Yr oedd gwedd anarferol ar y capel hwn, o ran ei ffurfiad, neu yn hytrach o ran ei ddodrefniad. Yr oedd iddo ddau bwlpud, nid gerllaw eu gilydd, un uwch ac un îs, fel y gwelir yn eglwysi y plwyf, ond un yn mhob pen i'r capel. Yr oedd gwedd cyffelyb ar gapel y Gyfylchi yn sir Forganwg; a chapel Llanlluan, sir Gaerfyrddin; ond yr oedd rhyw gysylltiad rhwng y rhai hyny ag eglwys Loegr, ac felly yr oedd rhyw esgus i'w roddi dros hyny, ond paham y byddai y wedd hyny ar hwn? Y dyben, pa fodd bynag, oedd i gadw i fyny y gwahaniaeth rhwng y gweinidogion ordeiniedig, ag efrydwyr, ac â phregethwyr cyffredin. Yr oedd un pwlpud i'r naill, a'r pwlpud arall i'r lleill.

Arferai y Parch. John Williams, mab yr hen Fardd, bregethu yn fynych yn y capel hwn. Yr oedd un Sabboth yn dyfod i'r dref i bregethu yma yn yr hwyr, a chanfu fel yr oedd yn nesau at y dref, haid o fechgyn yn chwareu mewn maes yn agos i'r dref. Penderfynodd yn y fan wneyd cais ar eu gwasgar; a chyda'r amcan hyny, gyrodd ei farch ar dîth-wyllt i'r maes; ar wedd gŵr mewn awdurdod; yr hyn, pan welodd y bechgyn, ffoisant oll ar ffrwst mawr, heb aros i edrych pwy ydoedd, na pha beth a geisiai. Attaliodd

ynteu ei geffyl, a thynodd lyfryn o'i logell, ac a gymerth arno ysgrifenu eu henwau ynddo. Tybiodd y bechgyn mai ustus heddwch ydoedd, ac y caent oll wŷs i ymddangos o flaen eu gwell dranoeth. Ond er na fu un ysgogiad ychwanegol yn yr achos, eto torodd y chwareu yn y lle hwnw, ar y Sabboth o hyny allan.

Yr oedd cryn lawer o hynodion yn Mr. Williams, ac un peth hynod ynddo oedd ei deimlad ymddieithrol tuag at y rhyw fenywaidd; yn hyn yr oedd yn gymhenllyd iawn. Ni arosai byth yn nghwmni merch, os byddai yn unig; a; hyn a barai iddo gerdded i'r capel ac yn ol ar hyd yr ochr arall i'r ffordd rhag dyfod i gysylltiad agos ag un o honynt. Digrifol oedd canfod ei benbleth gydag un hen wraig, yr hon nid oedd mor gall a phob un; ond yr hon, gan faint ei pharch i'r gŵr urddasol, a'i dilynai ef yn mron i bob man yr elai; a dygai gyda hi glustog, yr hon a geisiai ei gosod dan ei ben-liniau pan yr elai i weddio. Pa un oedd yr hynotaf ai diniweidrwydd yr heu wraig, ai plentynrwydd gorfwythus Mr. Williams, sydd anhawdd ei benderfynu.

Hynodrwydd arall oedd ynddo; yr oedd yn dra gofalus a manwl i gadw ei amser. Aeth unwaith i dŷ fferm, yn agos i'r dref, lle yr arferai fyned i bregethu; yr oedd yr oedfa wedi ei chyhoeddi i ddechreu 6 o'r gloch, fel arferol; ond ar ddyfodiad yr awr, nid oedd yn y lle gymaint ag un dyn, ond gŵr y tŷ ei hun; ond i fyny a Mr. Williams, a rhoes air i ganu. Gŵr y tŷ a fynai iddo aros enyd bach, a gofynai, "Pa le mae'r bobl, Mr. Williams mae'n ofer dechreu eto." Ymlaen, pa fodd bynag, y mynai efe fyned, gan ddyweyd, gyda difrifwch mawr, "Paham nad ydych chwi eich hun yn ddigon?"

Yn ystod yr amser y defnyddid capel yr Iarlles, yr oedd yn y dref ddau offeiriad o gryn hynodrwydd; yr oedd un o honynt yn hen, a'r llall yn ieuanc, ac enw y ddau oedd Williams. Daethai yr hen offeiriad i Aberhonddu er mwyn ei iechyd; ac wedi bod yma dros dymhor efe a ddaeth i hoffi y lle, ac i aros ynddo yn hwy nag a fwriadai ar y cyntaf; arferai bregethu weithiau yn y capel; ymwelai hefyd â'r carcharorion, ac âi allan yn gyson i'r maesydd ac i'r ffyrdd, ar y Sabbothau, i geisio gan y bechgyn a fyddent yn chwareu ddyfod i'r capel. Yr oedd y gŵr parchedig yn un hynod mewn gweddi; a pharai ei hynodrwydd yn hyn fod lluaws yn ymdyru i wrando arno, yn gweddio yn yr hwyr, cyn myned i orphwys. Curad un o'r eglwysi yn y dref oedd yr offeiriad arall; yr oedd hwn hefyd mewn undeb eglwysig yn y capel; ac ar brydnawn Sabboth deuai i'r capel, gan eistedd gerllaw y drws, fel y gallai, ar ganiad y gloch, lithro ymaith yn ddystaw, i fyned i'r llan; yr oedd ganddo hefyd ddosbarth o bobl ieuainc un noson yn yr wythnos, yn ei dŷ ei hun, yr hwn a elwid at eu gilydd i'r dyben i ddarllen yr ysgrythyrau a chyfranu addysg grefyddol. Nid oes amheuaeth na fu llafur a nawdd y gwŷr da hyn o wasanaeth nid bychan i'r achos crefyddol yn ei wendid.

Cedwid yr oedfaon yn y capel hwn yn y ddwy iaith. Yr efrydwyr a bregethent bob amser yn Saesoneg, ond y pregethwyr eraill ynghyda'r ychyd-

ig offeiriaid a ddeuent yno, a bregethent yn Gymraeg; felly, pan adawodd yr efrydwyr Drefecca, cododd yr ymofyniad, yn mha iaith y cedwid y gwasanaeth o hyny allan. Y penderfyniad a wnaed, pa fodd bynag, mai Cymraeg a fyddai; ni ddywedir oddiar ba resymau neu achosion y cododd y penderfyniad hwn; fe ddichon mai Cymry oedd y mwyafrif yn y cyfarfod, ac iddynt hwy gario eu hamcan trwy rifedi yn unig. Neu ynte, fod yr olwg am gael pregethwyr Saesonig, i gyflenwi y pwlpud, ar ol ymadawiad yr athrofa o Drefecca, yn dra anobeithiol; neu ynte, fod y weinidogaeth Gymreig yn yr amser a basiodd wedi profi ei hun yn fwy effeithiol na'r un Saesonig, ac felly y byddai yr achos yn debycach o lwyddo rhagllaw, yn y naill yn fwy nag yn y llall. Pa fath bynag oedd y rhesymau, y Gymraeg a gariodd y dydd, a gorfu, wrth gwrs, i'r sawl na fedrent ei deall ymofyn am gartref arall.

Gwanychodd yr ymraniad hwn yr achos, ac ynten yn wanaidd eisoes. Cyn ymadawiad y rhan Seisonig o'r eglwys, nid oedd y nifer oll ond pump neu ddeg ar hugain; a rhaid oedd fod enciliad anrhyw nifer oddiwrth gymdeithas mor fechan yn ei gwanychu yn fawr. Ar ol ymadawiad yr efrydwyr hefyd yr oedd mwy o anghysonedd o lawer yn nghynaliad y moddion; mynych iawn y byddai Sabboth yn myned heibio heb un pregethwr; ïe, âi heibio, ar ryw dymhorau, lawer o Sabbothau, heb gymaint ag iddynt agor ffenestri y capel. Dan ymddifadrwydd mor fawr, ni ellid dysgwyl llai na dirywiad trwm ar yr achos; ac ymhen rhyw gymaint o amser disgynodd rhifedi y gymdeithas i ddeuddeg, a'r rhei'ny, gan mwyaf yn wragedd. Mynych y byddai y cyfarfodydd eglwysig, heb gymaint ag un mab yn eu mysg; ac amgylchiad syn a fyddai yr un y byddai dau ŵr yn bresenol. Parhaodd y wedd yma ar bethau dros ryw dymhor, a'r syndod ydyw, pa fodd na buasai y marworyn bychan wedi diffodd yn llwyr. Eto rhaid cydnabod fod y nifer ag oedd yn aros yn bobl ffyddlawn iawn, a chynalient yr achos yn siriol rhyngddynt. Rhanent y draul rhyngddynt; rhoddai un y gwair a'r ceirch i'r ceffylau; un arall, letŷ a bwyd i'r pregethwr; a'r trydydd ychydig o arian tuag at ci ddigolledu. Fel hyn, ymlwybrent ymlaen o flwyddyn i flwyddyn, dros gryn dymhor, gan weddio a gobeithio, y rhoddid iddynt ryw bryd weled amseroedd gwell.

Tua'r fl. 1795, sef tua thair neu bedair blynedd ar ol symud athrofa yr Iarlles o Drefecca, gwnaeth un Evan Edwards, gŵr tlawd o wehydd, ond tra chrefyddol, gais at gychwyn ysgol Sabbothol yn y capel. Ar y dechreu yr oedd golwg tra anobeithiol arni; ni allai yr athraw lwyddo i gael neb iddi ond ei blant ei hun; ond wedi peth amser daeth dau neu dri o fechgyn eraill: ond anfynych y byddai ganddo fwy na phump. Fel hyn y parhaodd dros beth amser, yn dyhoeni rhwng byw a marw. Weithiau, teimlai yr athraw yn llwfr a digalon; ac ar fedr ei rhoi i fyny yn llwyr; drachefn efe a ymwrolai i ail-ymosod at ei orchwyl gydag egni adnewyddol, a chafodd yn y diwedd y llawenydd mawr o weled ei lafur wedi ei goroni â llwyddiant.

Tua'r fl. 1800, yr oedd y *lease* a gymerasai Iarlles Huntingdon yn terfynu, pryd yr oedd yn rhaid gwneuthur rhyw ysgogiad pellach. Yr oedd gwendid

yr ychydig grefyddwyr a ddefnyddient y capel ar y pryd, mor fawr, fel mai prin y gallent lochi y gobaith, er maint eu hawydd, o allu ei brynu, pryd yr oedd y Bedyddwyr a'u llygaid arno, ac yn fawr eu bryd ar ei feddiannu. Yr oedd yn mysg y Methodistiaid ar y pryd henuriad gweithgar a da, sef Mr. James, Troed-yr-haiarn; hwn a roes ei ysgwydd at y gwaith yn egniol, felly hefyd y gwnaeth yr ychydig gyfeillion eraill, a llwyddasant, trwy fawr ymdrech a ffyddlondeb, i wneyd y swm gofynol i brynu y capel, sef £125; swm mawr, y pryd hwnw, yn enwedigol i nifer mor fychan, a'i wneyd i fyny mewn llai na blwyddyn o amser.

Y pryd hyn nid oedd, oddieithr yn anfynych, ddim pregethu ar y Sabboth ond yn y prydnawn; ond yn yr hwyr yr oedd y capel yn nghauad. Cynelid moddion yn yr hwyr yn Nhroed-yr-haiarn, tyddyn tua dwy filldir o'r dref, lle yr â rhai o'r gynulleidfa i ganlyn y pregethwr. Eraill a ymgynullent i dŷ Mr. Evan Edwards, i ymddyddan ar faterion crefyddol, pryd hefyd yr âi un neu ddau i weddi. Aeth y cyfarfodydd hyn yn raddol yn fwy lluosog eu deiliaid, nes oedd y tŷ yn lle rhy gyfyng i'w cadw; a phenderfynwyd eu symud i'r capel. Ymddangosai mwy o ddeffroad a dyfalwch bellach yn yr aelodau eglwysig, ac yn y gwrandawyr yn gyffredinol, ac ymwisgodd y gwaith mewn diwyg gwell, ac ymddangosai ar duedd iachusach nag y gwnaethai er ys blynyddau.

Eto nid oedd ei gynydd gymaint ag a allesid dysgwyl hyd nes yr ymunodd un Mr. Watkins, *road surveyor*, â'r crefyddwyr. Tua'r un adeg ag y daeth ef i roddi ei ysgwydd dan yr arch, yr oedd amryw bethau yn cyd-wasanaethu i ddwyn y gwaith yn ei flaen. Yn un peth yr oedd pregethu amlach. Cyfodasai amryw bregethwyr yn y sir, ac ymwelai pregethwyr dyeithr yn amlach â'r dref, fel mai prin y byddai wythnos yn myned heibio, heb fod dau neu dri, neu ychwaneg, o ddyeithriaid, yn troi i mewn wrth fyned ar eu teithiau: ac yn fwy na'r cwbl yr oedd y weinidogaeth dan arddeliad rhyfeddol; ac nid anfynych y torai rhyw rai allan i waeddi, yn y gynulleidfa, dan argyhoeddiad llym, neu i foliannu am obaith ymwared. Parai hyn gyffro drwy y dref, a llawer a ymgasglent bellach i'r lle, o wir ysfa i weled a chlywed y peth newydd a dyeithrol hwn; a mynych iawn y gwelwyd y rhai a ddaethent i wawdio y rhai a fyddent yn neidio, eu hunain yn neidio cyn diwedd y cwrdd.

Yn yr un amser yr oedd sirioldeb adnewyddol yn yr ysgol Sabbothol. Ymosododd Mr. Watkins, yr hwn oedd ŵr ieuanc gweithgar, cyfrifol, a helaeth ei ddylanwad, â'i holl egni at y gwaith. Parodd fywyd newydd yn yr ysgol, a chyfnewidiad mawr ac amlwg a ddilynodd, ar wedd yr achos ymhob rhan o hono. Nid oedd ef ei hun ond crefyddwr ieuanc. Treuliasai y rhan flaenorol o'i oes yn annuwiol iawn, gan ymddifyru mewn pob math o ddrygioni, fel y gwnai ei gyfoedion yn gyffredinol, ac yn arbenig trwy halogiad o ddydd yr Arglwydd. Yr oedd yn ymhoffi yn fawr mewn "canu y clychau," a hyny, tybygid, a wnai gan amlaf ar y Sabboth. Torodd diwygiad allan yn Nglan-y-gors; yr ardal yr oedd ef, y pryd hwnw, yn byw ynddi, tua'r

fl. 1795, ac ynteu y llanc gwyllt a difeddwl a ddaliwyd; ac fel y buasai gynt yn llawn aidd a bywyd yn ngwasanaeth pechod, felly y bu yn awr, gyda gwaith llawer rhagorach. Troes allan yn un o'r dynion rhagoraf a mwyaf defnyddiol ei fro, a pharhaodd felly dros weddill ei oes. Fe safai Mr. Watkins yn uchel yn mysg henuriaid y cyfundeb yn y Dehcubarth, a hyny dros lawer o flynyddoedd. Bu ei symudiad i drigiannu i Aberhonddu yn ddiau yn foddion arbenig i ddwyn yr achos yn ei flaen, ac yn fendith fawr yn y lle.

Mewn ychydig flynyddoedd symudodd gŵr ieuanc arall i fyw i'r dref, sef Mr. William Powell; a rhyngddynt ill dau, mewn undeb â'r hen aelodau, yn neillduol Mr. James, Evan Edwards, ac un Mrs. Phillips, aeth yr achos yn mlaen yn llwyddiannus. Gwenodd yr Arglwydd ar ymdrechiadau ei bobl, a pharai hyny fywiogrwydd ychwanegol ynddynt hwythau. Felly yr aeth yr hen gapel yn rhy fychan, ac adeiladwyd un newydd helaethach, gydag oriel fawr ar un pen iddo. Daeth hwn yn fuan yn lled lawn o wrandawyr, a pharhaodd felly am flynyddau.

Fel yr oedd yr eglwys yn cynyddu mewn rhifedi, ac mewn awyddfryd i wneuthur daioni, dechreuasant feddwl am yr ardaloedd cymydogaethol, y rhai oeddynt yn aros mewn amddifadrwydd gresynus o air Duw a moddion gras; a phenderfynasant wneuthur cais i chwalu gradd ar y dudew dywyllwch a orchuddiai y wlad o amgylch. Yn y canlyniad gwelid niferi o ewyllysgaryddion yn troi allan ar y Sabbothau, trwy y llwch a'r llaid, bob tywydd, a phob tymhor ar y flwyddyn, i gadw ysgolion Sabbothol. Yr ardaloedd yr ymwelid â hwy oeddynt, *Llanfrynach*, *Llechfaen*, *Llanddew*, ac *Aberyscir*. Parhausant i ymweled â'r ardaloedd hyn am flynyddoedd; ac nid oedd un llafur nac anghyfleusdra yn ormod ganddynt ei ddwyn, am y gallent mewn un modd lesâu eu cyd-ddynion, yn y pethau a berthynent i'w heddwch. Adeiladwyd capel yn Llechfaen, ac aeth y gwaith rhagddo yn siriol; ond trwy ryw fusgrellni neu gilydd, nid felly y bu yn y manau eraill, er fod yr olwg arnynt yn llawn mor obeithiol, ac er fod llwyr fwriad i feddiannu Llanfrynach ac Aberyscir, eto y ddau le hyny a gollwyd i'r cyfundeb; er y gobeithiwn nad aeth llafur y blynyddoedd cyntaf ddim i gyd yn ofer. Mae Llanddew eto yn aros yn eu dwylaw, ac yn awr, o'r diwedd, y mae tir wedi ei sicrhau i adeiladu yma gapel.

Yr oedd y gwaith yn y cyfamser, yn myned yn mlaen, ar y cyfan yn siriol, yn Aberhonddu, a thros lawer o flynyddau ni ddygwyddodd dim nodedig, y fath y gellir yn hawdd ei groniclo. Yr oedd angeu yn tori i lawr yr hen, a rhai ieuanc; yr oedd rhagluniaeth yn arwain rhai o'r dref, ac eraill iddi. Ni chymerodd dim adfeiliad amlwg le, ac ni chaed dim adfywiadau grymus chwaith; ond yr achos a ysgogai yn mlaen o fis i fis ar wedd rheolaidd a chyffredin, ac heb ddim hynod yn cymeryd lle. Yn y blynyddau unffurf hyn, yr unig amgylchiad a barodd radd o gyffro oedd sefydliad yr athrofa yn Nhrefecca, yr hyn a gymerth le yn y fl. 1842. Yn yr achos hwn dangosodd y brodyr yn Aberhon-

ddu lawer o wresogrwydd a haelioni. Rhoddasant brawf diymwad hefyd o'u teimladau, trwy gyfranu at yr athrofa, nid llai na £700.

Nid oedd yr hen gapel yn abl cynwys nemawr ychwanegiad at rifedi y gwrandawyr a ddeuent iddo; a chan fod amrywiol anghyfleusderau yn gysylltiedig ag ef, yr oedd awyddfryd lled gyffredinol yn mysg y cyfeillion, os byddai bosibl i adeiladu addoldŷ newydd, mewn lle mwy cyfleus yn y dref, a lle llai ei dwrf. Daeth lle felly cyn hir i'r golwg; ond er fod ei sefyllfa yn ddymunol, eto yr oedd y swm angenrheidiol i'w brynu, o herwydd yr adeiladau helaeth oedd eisoes ar y tir yn peri petrusder a ddylid ei brynu. O'r diwedd, pa fodd bynag, ei brynu a wnaed, a thalwyd £1100 am dano. O herwydd rhyw achosion neu gilydd, ni chymerwyd un cam pellach na sicrhau y tir am rai blynyddau. Ond yn y fl. 1852, wedi chwech neu saith mlynedd o oediad, ymosodwyd o ddifrif at adeiladu y capel newydd. Mae y capel hwn yn adeilad fawr a hardd; nid oes oriel ynddo, ond eisteddleoedd ar godiad megys ar ffurf oriel; mae gwedd hardd ar yr adeilad, ac mae yn addurn i'r dref. Ar lawer cyfrif, nid oes un achos mor deilwng o adeiladau heirdd, nag ydyw achos Mab Duw, eto mae yn rhaid addef mai gogoniant crefydd ydyw ei santeiddrwydd a'i dylanwad ysbrydol; hysbys ydyw ddarfod i dywalltiadau rhyfeddol, o gawodydd bendith, ddisgyn mewn hen ysguboriau, ac mewn capelau bychain o furiau clai, a thôau gwellt, a lloriau pridd; eto nid ar gyfrif *tlodi y lle* y rhoddwyd hwy, ond yn ateb i'r dyhëad ysbrydol oedd am danynt. Hysbys hefyd, ydyw fod ambell adeilad hardd yn Nghymru, a llawer un yn Lloegr, heb un mymryn o'r gwres a'r goleu dwyfol o'u mewn; eto nid eu gwychder a barodd i'r Jehofah gilio ymaith, ond balcher a hunan-ddigonedd yr addolwyr. Na feier, gan hyny, ar adeiladau heirdd a chyfleus, ac nac ymddirieder ynddynt: "Ar hwn yr edrychaf fi, sef ar y truan a'r cystuddiedig o ysbryd, yr hwn sydd yn crynu wrth fy ngair i."

Hyfryd genym ychwanegu, am gapel mawr Aberhonddu, fod ei eisteddleoedd, ymron oll, wedi eu cymeryd, ac yn cael eu llenwi ar nos Sabbothau; mae yr ysgol Sabbothol hefyd, mewn gwedd flodeuog iawn; nid oes lai na 400 o enwau ar y llyfr, fel deiliaid o honi.

Wrth derfynu hanes Brycheiniog, dylem ychwanegu, fod yn ddrwg genym fyned heibio i rai manau hen ynddi, heb un crybwylliad am danynt, megys Defynog, Merthyr-Cynog, &c.; ein hesgeusawd ydyw, na ddaeth i law ddim hysbysiadau am y lleoedd hyny. Nid oes amheuaeth genym, pa fodd bynag, nad oes llawer o amgylchiadau hynod a dyddorol wedi dygwydd, mewn cysylltiad â'r wlad hon, yn hanes Methodistiaeth, y buasai yn dda eu bod ar gof a chadw; amgylchiadau, a gollir bellach dros byth i'r oesoedd a ddaw, o ddiffyg eu croniclo.

PENNOD V.

CYFODIAD A CHYNYDD METHODISTIAETH SIR FYNWY.

CYNWYSIAD:—

YSGOGIADAU CYNTAF Y DIWYGWYR YN Y SIR—H. HARRIS YN PREGETHU YN MLAENAU-GWENT—PARCHN. JOHN POWEL; THOMAS LEWIS; A MORGAN JOHN LEWIS—EGLWYS Y NEW INN—GWEINIDOGION Y NEW INN—MYNYDD-YSLWYN—TOWYN TUDUR—RISCA—T. THONAS, CEFN-BYR—PARCH. HENRY JONES, LLANEIRWG—FFUG-BREGETHWR YN CAEL EI DDAL—PEN-Y-CAE—OWAIN ENOS—ADEILADU Y CAPEL YN 1825—Y LLWYDDIANT A DDILYNODD.

Mae sir Fynwy, yn cael ei rhestru, gan ddaearyddwyr diweddar, yn perthyn i Loegr, er yr ystyrid hi gynt yn un o'r tair-sir-ar-ddeg a berthynai i'r dywysogaeth. Mae rhanau helaeth o honi, rhaid addef, yn enwedig y rhanau dwyreiniol, yn hollol Seisonig; a chryn gymysgedd a geir o'r ddwy iaith mewn llawer o'r parthau gorllewinol. Ni all ein hanes am Fethodistiaeth y wlad hon fod ond byr, gan mai hi, o ran Methodistiaeth, yw y leiaf o siroedd Cymru; ac nid hyny yn unig, ond hefyd, nid yw Methodistiaeth yn y wlad hon ond diweddar, oddieithr mewn rhyw ychydig o fanau. Hefyd, y mae yr hen eglwysi bychain a blanesid yn amser Howel Harris a'i gyd-lafurwyr, ymron oll, wedi disgyn i ddwylaw enwadau eraill; neu wedi eu llyncu gan yr iaith Saesonaeg, neu ynte, wedi eu chwalu yn llwyr oddiwrth eu gilydd.

Tua'r fl. 1743, yr oedd mân gymdeithasau wedi eu crynhoi at eu gilydd yn y Goetre, Glascoed, St. Bride's, Mynydd-yslwyn, Llangatwg, a Threfethin. Yr oedd yr eglwysi bychain hyn wedi eu gosod dan arolygiaeth un Morgan Jones; cynwysai y cyfan gyda'u gilydd tua 70 o aelodau. Ymddengys fod Morgan John Lewis, yn cyd-lafurio a Morgan Jones, yn y parthau hyn ar y pryd, oblegid ni a gawn adroddiad oddiwrth y ddau, am yr un cymdeithasau. Dywed Morgan John Lewis, yn ei adroddiad yn y fl. 1744:—

"Mae yr Arglwydd yn ein galluogi ni i fyned rhagom yn sir Fynwy; eto rhaid dyweyd, yn raddol iawn:—

Yn Llansantffraid, y maent yn llai eu rhifedi o bedwar, trwy fod gŵr a gwraig wedi ymadael o'r gymydogaeth, yn nghyd â'u dwy forwyn.

Yn Meuryn, y maent yn debyg i'r hyn oeddynt o'r blaen. Ni ddygwyd dim anfri ar ffyrdd y Gwaredwr yn yr un o'r ddau le.

Llangatwg, Caerlleon.—Mae gwr y tŷ, y cedwid y cyfarfod eglwysig ynddo yma, wedi gwrthgilio, a'r gymdeithas wedi ei symud i le arall; i edrych beth a wna yr Arglwydd. Ymddengys fod y rhai sydd yn sefyll, yn myned rhagddynt; ac i fesur yn cynyddu yn eu heneidiau.

Llanfihangel. Maent yn llwyddo yn eu heneidiau yn y lle hwn. Y Sabboth diweddaf, mi fum yn agos i'r New Inn, a'r Glascoed, a'r Goetre. Mae yr Arglwydd yn datguddio llawer o hono ei hun i'r eneidiau, yn mhob un o'r lleoedd hyn.

Trefethin. Yr wyf yn credu eu bod yn y lle hwn yn cynyddu mewn gras, ac yn ngwybodaeth ein Harglwydd Iesu Grist.

Llanheiddel. Mae yma beth cynydd; a derbyniad mawr i'r brawd Jacob Jones, yr hwn y mae yr Arglwydd yn ei fendithio yma, ac yn mhob man arall, efe a'i gyd-lafurwyr. Mae un chwaer wedi myned at Mr. Edmund Jones, ond y mae hi yn dyfod yma fel o'r blaen.

Mynydd-yslwyn. Ni bum yma yn ddiweddar, ond trwy drugaredd mi allaf ddyweyd fod yr Arglwydd yn bendithio y moddion yma.

Morgan John Lewis."

Ymddengys hefyd fod cymdeithasau bychain wedi eu crynhoi mewn rhai manau eraill, rhwng y blynyddau 1740 a 1750, dan arolygiaeth un Thomas Price; sef yn Redwick, Gwndu, Caldecot, Llanfaches, a *Golden Hill*. Yn y fl. 1744, cynaliwyd cymdeithasfa* yn Llanfihangel;† ac yn y cyfarfod hwn, penderfynwyd, "Ar fod i'r brodyr Jacob Jones, a Richard Thomas, ymweled a'r cymdeithasau yn Llanfihangel, Trefethin, Goetre, a New Inn, bob yn ail wythnos; a bod Robert Evans, i ymweled a St. Bride's, Meuryn, a Mynyddyslwyn; ac i'r brodyr Stephen Jones, a Risiart Harri, ofalu am gymdeithasau Glascoed, *Golden Hill*, Llanfaches, Caldecot, Gwndu, a Redwick. Cynghorwyr anghyhoedd y gelwid y gwŷr hyn; a thybygwn mai math o henuriaid eglwysig oeddynt, yn meddiannu gradd helaethach o gymhwysder i adeiladu eu cyd-aelodau.

Nid oes yn yr adroddiadau a roddir am y cymdeithasau uchod nemawr o ddim a fyddai yn ddyddorol i'r darllenydd; ar yr un pryd ni a welwn fod ymosodiad wedi ei wneuthur gan y Methodistiaid cyntaf, ar amryw ranau o sir Fynwy, fel parthau eraill o Gymru, er nad ydym yn alluog i olrhain eu hanes ond am ychydig amser. Yr oedd yma rai gwŷr mwy cyhoeddus na'u gilydd yn eu mysg, megys Morgan John Lewis, Morgan John, a Thomas Price, ynghyda Thomas Lewis, a John Powel. Gosodir y ddau olaf allan fel rhai urddedig, yn "Nghofnodau Trefecca," trwy fod Parch. yn cael ei ysgrifenu wrth eu henwau, yr hyn ni wneid ond i'r sawl a gawsent urddiad esgobol, oddieithr fod y gair "Ymneillduwr" yn cael ei ychwanegu at ei enw. Hyn a arweiniodd yr ysgrifenydd mewn rhan flaenorol o'r gwaith hwn, i'w gosod allan yn offeiriaid urddedig; ac ar yr un tir yn gymhwys a Rowlands, Davies, ac eraill. Yr ydys, pa fodd bynag, wedi deall ar ol ysgrifenu felly, fod amheuaeth am gywirdeb yr hysbysiad, fel y ceir gweled ar ol hyn. Am y tri eraill, arolygwyr oeddynt, a chynghorwyr cyhoeddus, ond heb dderbyn un ordeiniad i'r swydd oddiwrth neb.

Mae hanes ar gael, ddarfod i Howel Harris, yn y fl. 1738, ymweled a Blaenau Gwent, ac i'w weinidogaeth ar y pryd, gael ei bendithio er dychweliad i amryw; yn mysg y rhai y dywedir fod Morgan John Lewis, Philip Dafydd, John Powel, a Thomas Lewis. Nid ydym yn gallu casglu i John Powel fod un amser yn llafurio gyda'r Methodistiaid, er fod ei enw yn mysg y rhai a fyddai yn bresenol yn eu cyfarfodydd, o'r fl. 1742 hyd y fl. 1745. Am Thomas Lewis yr ydym yn cael ei fod ef wedi ei osod yn arolygwr ar ran o sir Fynwy, rhwng y *Passage* a'r afon Wysg. Yr ydym yn barnu, pa fodd bynag, mai nid hir y bu ef yn aros yn y cysylltiad hwn; oblegid mae ei enw yn diflanu yn lled fuan allan o "Gofnodau Trefecca;" a chan ei fod yn fedrus ar bregethu Saesonaeg, ymddengys yn dra thebygol iddo gilio yn llwyr i Loegr; neu o leiaf, ddarfod iddo gyfyngu ei lafur gweinidogaethol i ryw gynulleidfa o Saeson. Ac nid annhebyg ydyw ei fod ef wedi derbyn urddau

* Cyfarfod a gynhelid yn fisol oedd hwn mewn gwahanol fanau. † Ni ddywedir pa Lanfihangel oedd hwnw: deallwn fod amryw yn dwyn yr un enw.

ymneillduol cyn iddo ymadael â'r Methodistiaid. Dywedir ymhellach, am John Powel, mai yn mhlwyf Llanelli, sir Frycheiniog, y ganesid ef, mewn tafarndŷ yn Nhroed-y-rhiw, a'i fod ar ol tyfu i fyny wedi bod yn gweithio gwaith crydd yn Nghwm-ebw-fawr. Tystiai yr hen broffwyd o Bont-y-pool, mai wrth ei wrando ef y dychwelwyd John Powel at Dduw.* Eraill, a briodola hyny i Howel Harris, fel y dywedasom: dichon, fod gwir yn y ddwy dystiolaeth; sef ei fod trwy y naill wedi cael ei arafu yn ei yrfa wyllt, a'i ddwyn ato ei hun; a thrwy y llall ei dueddu i fwrw ei goelbren gyda'r crefyddwyr.

Ar y pryd yr ymwelodd Howel Harris â'r Blaenau, yr oedd aelodau perthynol i'r tri enwad yn arfer cyd-addoli yn Nghwm-terewy, plwyf Aberystrwyth; a bod y pedwar gŵr crybwylledig uchod, wedi ymuno â'r eglwys gymysgedig hono. Barnu yr ydym, am na chawn ei enw yn mysg y rhai a fyddent yn nghyfarfodydd y Methodistiaid, na fu Philip Dafydd ddim gyda hwy oll; ond fod John Powel yn dangos mwy o agosrwydd atynt, ac yn mynychu eu cyfarfodydd, er ei fod yn llafurio fel gweinidog yn mysg yr Annibynwyr. Dywedir ei fod wedi cael ei alw, yn y lle cyntaf, i weini yn Ebenezer, a lleoedd eraill yn y gymydogaeth; ei fod ar ol hyny wedi myned i'r athrofa yn Nghaerfyrddin; a thrachefn i weinyddu i ryw eglwys yn Lloegr; ac yn y fl. 1761, ei fod wedi ymsefydlu yn Henllan, sir Gaerfyrddin. Wedi llafurio yno yn llwyddiannus am ysbaid pum' mlynedd, ddarfod iddo ddystewi yn yr angeu, yn y fl. 1766, yn 46 mlwydd oed. Sefydlodd Philip Dafydd yn Mhen-maen; a bu yno, meddir, flynyddau lawer, yn llafurio yn mysg yr Annibynwyr.

Ond y mae hanes Morgan John Lewis yn wahanol. Ymddengys iddo ef lafurio yn deithiol gyda'r Methodistiaid, mynychu eu cyfarfodydd, ac addef ei hun mewn cysylltiad â hwy yn unig. Yn mysg manau eraill, deuai ar ei dro i'r New Inn, plwyf Panteg; a chan nad oedd ei gartref ond tuag wyth milldir o'r New Inn, gallem ddysgwyl ei fod ef yno mor aml ag un lle arall. Yr oedd gan y Methodistiaid ymgrynhoad bychan yn y lle, er y fl. 1742, o leiaf; ond nid oedd ond bychan, yn ymgynull mewn tŷ anedd, ac yn ddarostyngedig i lawer o gyfnewidiadau. Nid oedd nifer y pregethwyr, yn y tymhor hwn, ond bychan; ac felly, anaml y byddai neb yn pregethu yn y lle; eto cyfarfyddent â'u gilydd i weddio ac adeiladu eu gilydd trwy ymddyddanion crefyddol, dan olygiaeth cynghorwyr anghyhoedd. Ond tua'r fl. 1751, y dygwyddodd amgylchiad a barodd radd o newidiad ar wedd pethau yn y New Inn; ac yn y modd canlynol y bu.

Yr oedd gweinidog duwiol yn y tymhor hwn, wedi bod dros rai blynyddau yn gweini yn eglwys blwyfol Llanfrechfa, o'r enw Mr. Evans; ac wedi bod yn foddion i ddwyn amryw o'i blwyfolion i wybodaeth y gwirionedd. Ond ar ol ei farwolaeth ef, dilynwyd ef gan un gwahanol ei naws a'i synied. Yr oedd yn y gynulleidfa rai yr oedd taflod eu genau yn deall camflas; ni

* Parch. D. Morgan ar "Hanes Ymneillduaeth," tudal. 393.

allai y rhai'n ddim dygymod â'r gweinidog newydd; a phenderfynodd deg o aelodau yr hen offeiriad gilio o'u hen gartref, ac ymofyn am borfa mewn maes arall. Yr oedd rhyw ychydig o bobl grefyddol, fel y dywedwyd, yn arfer ymgynull yn y New Inn, lle oddeutu pedair milldir o Lanfrechfa; ac â hwy y gwnaethant eu meddyliau i fyny, i ymuno. Yr oedd y fath ychwanegiad a deg o wŷr, a rhei'ny, fel y tybir, yn uwch eu sefyllfa yn y byd, yn fywyd o feirw i'r ychydig bobl druain dlodion yn y New Inn. Prynodd y gwŷr hyn hen dŷ lled helaeth, ac ystabl ynglŷn wrtho, am £30; trwy i chwech o honynt roddi pob un ei £5 tuag at hyny; bellach yr oedd gwedd fwy arosol a sier ar yr achos. Yn yr adeilad hon, wedi ei threfnuso i'r dyben, yr arfent ymgynull o hyny allan. Yr oedd hyn yn y fl. 1751; blwyddyn yr ymraniad yn mysg y Methodistiaid; blwyddyn y ciliodd Howel Harris oddiwrthynt; a blwyddyn a barodd leihad ar yr offerynau, ac arafiad galarus ar yr holl achos.

Eto, er hyn holl, parhaodd yr eglwys fechan yn y New Inn i ymgynull at eu gilydd i weddio ac ymddyddan; a llwyddent, yn awr ac eilwaith, i gael pregethwr atynt; ac mor aml a neb arall, mwynhaent weinidogaeth Morgan John Lewis. Ymddengys fod gweinidogaeth y gŵr hwn, nid yn foddhaol yn unig, ond hefyd yn fuddiol i'r gynulleidfa; ac nid rhyfedd, gan fod pawb yn cytuno fod Morgan John Lewis yn ŵr da a duwiol, ac yn meddu ar dalentau helaeth i gyflawni ei swydd. Ar ol yr ymraniad, yr oedd sefyllfa yr achos yn y lle hwn yn fwy amddifad nag o'r blaen. Chwalwyd y mân eglwysi cymydogaethol yn mron i gyd, a safai eglwys y New Inn ar ei phen ei hun, yn nghanol gwlad, y pryd hwnw, tra ymddifad o weinidogaeth yr efengyl. Anhawdd iawn, ac anfynych iawn, y deuai neb bellach atynt i weinyddu bedydd a swpper yr Arglwydd, gan nad oedd Morgan John Lewis eto ddim wedi ei awdurdodi i wneyd hyny.

Yn mheu rhai blynyddoedd, gan hyny, ar ol ymuniad y deg gŵr crybwylliedig, tra y teimlai yr aelodau yn y New Inn eu hymddifadrwydd o weinidogaeth gyson, ac yn neillduol o weinyddiad y sacramentau; daeth ar eu meddwl wneuthur ysgogiad arall, sef galw ar Morgan John Lewis i ymsefydlu yn eu plith, a chael awdurdodiad arno i weini iddynt yn yr holl wasanaeth. Ond yr oedd y pregethwr yn gwybod yn dda am drefn y Methodistiaid, ac am eiddigedd yr offeiriaid ag oedd yn eu mysg, na throseddau neb ar eu hawl-freintiau hwy, y rhai a dderbyniasent urddau esgobawl; a hawdd oedd i'r eglwys yn y New Inn ddeall hyny hefyd, mai nid hawdd a fyddai cael ganddo dori ei gysylltiad â'i frodyr, yn mysg y rhai yr oedd bellach wedi llafurio tua 15 mlynedd. Penderfynasent, gan hyny, wedi ymgynghori yn bwyllog â'u gilydd, ac wedi ceisio cyfarwyddyd yr Hwn a bïodd y gwaith, i anfon dau genad i Langeitho, i osod eu cŵyn o flaen y Parch. D. Rowlands; ac i erchi am ei gynghor a'i gyfarwyddyd. Ynteu, wedi gwrando arnynt, a dwys ystyried yr amgylchiadau, a'u cynghorodd i alw Morgan John Lewis yn weinidog iddynt, a'i ordeinio eu hunain trwy ympryd a gweddi, gan ddatgan y

byddai i weddi y ffydd fod yn llawer mwy effeithiol na dwylaw un esgob dan haul.* Anfonodd hefyd lythyr at Morgan John Lewis i'w gynghori i gydsynio â'u cais. Hwn, mae yn debyg, oedd yr ordeiniad cyntaf a fu erioed mewn cysylltiad â'r Methodistiaid.

Felly ar ddydd Llun y Sulgwyn, yn y fl. 1756, ymgynullodd yr holl aelodau. Wedi darllen yn gyntaf ranau o'r gair, canu, a gweddio, adroddodd y pregethwr grynodeb o'i gredo ar g'oedd y gynulleidfa. Ar ol hyn, gofynwyd am arwydd, gan yr eglwys, trwy godi ei deheulaw, i ddynodi ei dewisiad o hono. Yna un o'r blaenoriaid a gyfododd ac a gyhoeddodd Morgan John Lewis yn weinidog dros Grist, i eglwys y New Inn, ac i gymeryd ei gofal yn yr Arglwydd. Y gweddill o'r dydd a dreuliwyd mewn ympryd a gweddi; gan daer erfyn ar i gymeradwyaeth Duw gael ei roddi megys sêl wrth yr hyn a wnaed, ac i gawodydd bendith ddisgyn ar y pregethwr a'r gynulleidfa.

Mawr y cyffro a barodd yr ordeiniad hwn, nid yn mysg y Methodistiaid gymaint, ond yn mhlith Eglwyswyr, Annibynwyr, a Bedyddwyr, a "llawer o ddyeithrwch, chwerwder, anfrawdgarwch, a dirmyg," medd y gweinidog ei hun, "a daflwyd arnom gan amryw; ac fe'n gwrthwynebwyd yn gyhoeddus y cyfle cyntaf a gafwyd, ond y mae y ffordd yr ydym ni wedi ei phroffesu, yn ymddangos i ni yn fwy cydsyniol â threfn yr efengyl; ac yn ateb y dyben yn well, ar y dewisiad cyhoeddus, neu *ordinasiwn* gweinidogion. Dymunwn i'r Arglwydd ein cynorthwyo bawb i gyd-oddef ein gilydd mewn cariad." Codwyd y brawddegau hyn allan o'r Rhagdraith a osododd Morgan John Lewis o flaen Cyffes ei ffydd; yr hwn a argraffodd, fel y gallai pawb weled, pa egwyddorion a broffesai. Yr oedd hyn yn angenrheidiol, tybygid, gan gynifer y chwedlau a ledaenid am dano, a chan mor ddisail oedd llawer o honynt. Barnasai hyn yn angenrheidiol er mwyn rhoddi taw ar enllibwyr; ac er mwyn hysbysiad i'r sawl a allai ddymuno ymgysylltu o bryd i bryd, ag eglwys y New Inn.

Fe ddywedir fod Morgan John Lewis yn gristion gwir ostyngedig, a bod ei ddifrifwch yn fwy na chyffredin; gan na chlywid 'm'ono ymron un amser yn chwerthin. Edrychid arno fel pregethwr yn fwy ei gymhwysderau na'r cyffredin o'i frodyr; mwy ei wybodaeth dduwinyddol, a mwy ei fedrusrwydd a'i hyawdledd i gyfranu gwybodaeth i eraill; fel ag yr oedd yn sefyll yn un o'r dynion enwoccaf yn ei ddydd, neu y mwyaf amlwg yn y weinidogaeth. Fe fu yn offeryn i ddwyn llawer o eneidiau at yr Iesu yn nghymydogaeth y New Inn. Tra y bu ef yn gweinidogaethu yn y lle hwn, fe deimlodd yr holl wlad mewn mesur mwy neu lai oddiwrth ei weinidogaeth, gan yr ymgasglai dynion o'r wlad, bymtheg milldir o amgylch, i wrando arno. Ond nid oes hir a roddwyd iddo; a rhoddwyd terfyn ar ei wasanaeth i eglwys Dduw mewn modd, a ymddengys i ni yn dra anamserol, amgylchiad y mae yn an-

* Gwel Cyf. I., tudal. 448.

hawdd i ni wybod paham y caniatawyd iddo, gan yr Hwn y mae "yr agoriadau" ganddo, i gymeryd lle.

Y bore Sabboth diweddaf y bu ef yn pregethu yn y New Inn, efe a aeth i bregethu yn yr hwyr i dŷ fferm, o'r neilldu i dref Pont-y-pool, sef rhwng y dref a Blaenafon; ac o fewn milldir i'r dref. Lletyodd hefyd y noson hono yn y tŷ y buasai yn pregethu ynddo. Dranoeth, yn lled fore, a chyn i Morgan John Lewis godi o'i wely, wele y boneddwr ag oedd berchen y tyddyn yn ymddangos, a rhyw fath o filwr neu swyddog milwraidd gydag ef; a chan gyfarch gŵr y tŷ efe a ofynodd iddo:—

"Pa le y mae y pregethwr a fu yn cadw cwrdd yma neithiwr?"

"O, Syr," atebai y gŵr, "y mae ef yn y gwely."

"Rhaid i ni," ebai y boneddwr "gael ei weled; mae arnom eisiau cael ymddyddan ag ef."

"Mi af fi, ynte," chwanegai gŵr y tŷ, "i'w alw ef i lawr atoch."

"O na, nid rhaid," ebai y gŵr boneddig, "ni a awn ato ef i'w ystafell wely."

Gan mai efe oedd perchenog y tyddyn, ni thybiodd y tyddynwr yn gymhwys ei rwystro, eto blin oedd ganddo y peth, rhag fod drwg yn cael ei amcanu i'r pregethwr; ar yr un pryd, barnai fod hyny yn beth tra annhebyg, a chaniataodd iddynt fyned i fyny.

Wedi dyfod i mewn, tynodd y milwr ei gleddyf, a safodd wrth y gwely, ac uwch ben y gweinidog, yr hwn oedd ar y pryd yn cysgu; a chan godi y cleddyf uwch ei ben, a waeddodd yn uchel, "Heretic, deffro!" Ar hyn, deffrôdd y gŵr drwiol; a'r olwg gyntaf a gafodd oedd milwr a chleddyf noeth wedi ei godi uwch ei ben, fel un ar fedr ei ladd yn y fan! Yr oedd yr olwg mor hyll, ac yn ymrithio iddo mor ddisymwth, a hyny ar ei waith yn dyhuno o'i gwsg, a chyn iddo gael amser na seibiant i ymresymu ag ef ei hun, chwaithach â'i elynion, nac i ymgadarnhau i gyfarfod â'r brofedigaeth, fel y gallem ddysgwyl, os oedd teimladau dynol gan y pregethwr, y byddai y cyffroad arnynt yn ddigon i ddadymchwel ei synwyrau, ac i ysgytio ei natur o'i lle; felly hefyd y bu. Syrthiodd arno y fath fraw aruthrol, nes dyrysu ei synwyrau ar y pryd. Ac er iddo ymddadebru i raddau ar ol hyn, eto nid i'r graddau ag y'i galluogai i bregethu. Ymollyngodd ei natur, ac ni fu ynddo nerth mwyach. Bu fyw, mae'n wir, am ysbaid blwyddyn; ond yr oedd ei gysur iddo ei hun, a'i ddefnyddioldeb i eraill wedi eu colli yn llwyr. Ni pregethodd byth mwy ar ol y noson grybwylliedig. O ran ymddangosiad, y gelyn a gawsai yr oruchafiaeth. Y New Inn, a sir Fynwy, ïe a Chymru oll a gafodd y golled. Bu farw yn nghanol ei ddyddiau, wedi gwasanaethu achos yr efengyl mewn undeb â'r Methodistiaid tua 30 o flynyddau; a 15 mlynedd o honynt yn benaf yn y New Inn.

Naturiol ydyw yr ymofyniad, pa beth a ddaeth o'r gŵr mawr digydwybod hwn, ac o'r milwr? Mae y meddwl yn naturiol yn dysgwyl "na oddefai dialedd iddynt fyw," gan nad oeddynt amgen na dynion llawruddiog. Ac mewn

gwlad waraidd, fel yr eiddom ni, buasid yn dysgwyl fod rhyw sylw cyfreithiol wedi bod ar yr achos: ond yn hyn y mae yr hanes yn ddiffygiol. Nid oes air am yr erlidiwr ar gael ar ol hyn. Yr oedd y fath ragfarn, y pryd hwnw, yn erbyn crefyddwyr, fel y gallasai mawrion y wlad anturio cyflawni unrhyw sarhad arnynt, heb un perygl y gelwid hwy i gyfrif; ac yn enwedig, gan nad oedd neb yn mysg y crefyddwyr eu hunain yn meddu y cyfoeth, a llai na hyny yn meddu y duedd, i ymliw â boneddwyr eu gwlad drwy gyfraith. Mwy dewisol oedd ganddynt oddef cam, nag amddiffyn eu hunain trwy gyfraith. Barnent mai eu lle hwy oedd bod yn ddyoddefus, modd y gallent, trwy hyny, " ddarostwng anwybodaeth dynion ffolion."

Wedi i Morgan John Lewis gael ei analluogi fel hyn i wasanaethu y cysegr, galwyd dau frawd, sef William ac Abram Williams, dau bregethwr, i gymeryd ei le. Yr oeddynt eisoes yn perthyn i'r eglwys yn y New Inn; ac yn arfer cynghori eu cyd-ddynion. Urddwyd y ddau yn gyd-weinidogion i'r eglwys, yn yr un dull a'u rhagflaenor. Ond nid hir y bu y ddau yn cyd-weini yn y lle, cyn i bedwar o ddiaconiaid o gynulleidfa Aber, gerllaw Aberhonddu, sir Frycheiniog, ddod i waered i'r New Inn, i geisio y gymwynas gan y brodyr, o *fenthyg* un o'r ddau weinidog, dros dymhor i Aber. Y rheswm am hyn, oedd fod y ddwy gynulleidfa yn honi yr un cyffelyb *darddiad:* mai trwy weinidogaeth Howel Harris, a'i gyd-gynorthwywyr, y cyfodwyd yr achos yn Aber, fel yn New Inn. Hefyd, pregethwyr y New Inn a fyddai eisoes yn arfer, yn amser Morgan John Lewis, o ddiwallu cynulleidfa Aber. Caniatawyd iddynt eu cais, a gollyngwyd William Williams i weini iddynt; ac yn Aber yr arosodd dros weddill ei oes. Bu Abram Williams yn gweini i'r eglwysi yn y New Inn a Bryn-buga, ysbaid 25 o flynyddau. Nid oedd yn meddu cymaint o ddawn a'i ragflaenor, eto yr oedd yn gristion cywir ei ysbryd a chyfrifol ei amgylchiadau bydol, fel nad oedd yn pwyso dim ar yr eglwys am ei gynaliaeth. Yr oedd hyn yn gysur ac yn anrhydedd iddo ef, ond yr oedd yn golled i'r eglwys, am nad oedd " ei ffrwyth yn amlhau erbyn ei chyfrif." Yr oedd Mr. Abram Williams yn arfer llafurio gyda'r Methodistiaid yn amser Howel Harris, oblegid y mae ei enw i'w gael yn " Nghofnodau Trefecca," fel un o'r cynghorwyr ar y maes yn y fl. 1744; felly, rhaid ei fod wedi para i lafurio o'i gychwyniad cyntaf hyd ei farwolaeth, amser maith o tua 50 o flynyddau, mwy neu lai. Cyrhaeddodd ddylanwad mawr ar yr holl gymydogaethau, a pherchid ef gan bell ac agos, gwreng a boneddig. Nid oedd yn dal llawer o undeb ag un corff o grefyddwyr, ond cymaint ag oedd, gyda'r Methodistiaid yr oedd. Yr oedd pregethwyr y cyfundeb ar eu teithiau yn arfer galw heibio i'r New Inn a Bryn-buga, a byddai y pwlpudau yno yn agored iddynt yn wastad.

Am yr achos yn Bryn-buga *(Usk)*, tref fechan ar lan yr afon Wysg, ac o fewn saith milldir i Bont-y-pool; Mr. Abram Williams a fu yr offeryn i'w gychwyn yno. Ond pa lewyrch bynag a fu ar y gwaith yn ei ddyddiau ef, neu ar ol hyny, dywedir nad oes ond graddau bychain arno yn awr; ac nid

rhyfedd, os gwir a ddywedir am y pwlpud yno, fod mwy o ddeddf ynddo nag o efengyl.

Wedi symud Mr. Williams i ffordd yr holl ddaear, a gadael coffadwriaeth fendigedig ar ei ol, rhaid oedd ymofyn am olynwr iddo i fugeilio y praidd yn y New Inn. Disgynodd y coelbren yn ebrwydd ar ddau bregethwr, a ddygasid i fyny wrth draed Mr. Williams, y rhai oeddynt eisoes yn aelodau yn yr eglwys, ac yn arfer cynghori eu cyd-ddynion. Y ddau hyn a alwyd ac a urddwyd yn ol yr un cynllun; eu henwau oeddynt Edward Francis a Daniel James. Am Francis y dywedir, "ei fod ef yn ŵr doniol, ond nid gwiliadwrus ei rodiad." Ymadawodd cyn hir o'r New Inn, ac ymsefydlodd dros dymhor byr yn Machynlleth; ac wedi hyny yn Llundain, lle y gorphenodd ei yrfa. Ond yr oedd Mr. D. James yn ŵr bychan iawn ei ddawn gweinidogaethol, ond tra sylweddol a gafaelgar mewn gweddiau. Yr oedd iddo nerth mawr gyda Duw, a ffafr helaeth gyda'i bobl. Yr oedd ei arswyd ar annuwiolion ei fro; ffoent ar ffrwst, yn nghanol eu campau anfad ar y Sabboth, pan y canfyddent ef yn dynesu atynt. Gan gynted y gwelent yr hen ŵr a'r gaseg wen yn dyfod, ymaith â hwynt mor gyflym â'r ewigod. Yr oedd y gweinidog hwn hefyd yn arfer cyfathrachu â'r Methodistiaid, trwy roddi taith unwaith yn y flwyddyn i ymweled â hwy; ac er byred ei ddawn, yr oedd yn cael ei dderbyn yn dra chroesawgar ganddynt. Yr oedd yn cael ei ystyried yn feddyg da hefyd; a theimlid y diffyg o hono, yn y wedd yma, yn fawr ar ol ei golli.

Ar ol ymadawiad Mr. Francis o'r lle, gwahoddwyd un Thomas Walters i wasanaethu yr eglwys yn y New Inn. Pregethwr oedd hwn gyda'r Methodistiaid, ac yn byw yn Mynydd-yslwyn. Yr oedd talentau Thomas Walters yn odidog, ac ystyrid ef yn mlynyddau cyntaf ei weinidogaeth yn mhlith y pregethwyr mwyaf poblogaidd ei wlad. Addefai Mr. Ebenezer Morris ei fod ef yn ddyledus i Mr. Walters fel offeryn, am gynyrchu argraffiadau crefyddol dwysion yn ei fynwes ar ddechreuad ei grefydd. Ond yn mhen blynyddau ar ol ymsefydliad Mr. Walters yn y New Inn, ymddengys iddo gael ei rwydo i fesur mawr "gan ofalon y byd a thwyll cyfoeth," a cholli llawer yn ei ysbryd, ac yn ei dalentau; a syrthiodd yr achos, mewn canlyniad, i wywdra a diflaniad trwm. Yn y tymhor gwywedig hwn, dygwyddodd fod y Parch. Ebenezer Morris yn dyfod ar ei hynt trwy y wlad, a mynai ymweled â'r New Inn yn ei daith, yn un peth er mwyn gweled y gŵr y bu yn teimlo gynt mor ddwys wrth ei wrando. Ond pan ddaeth, ni chafodd olwg ar y gweinidog. Mewn gradd o syndod, a pheth siomedigaeth, gofynai Mr. Morris, pa le yr oedd? A'r ateb a gafodd, oedd, "Mae prysurdeb y byd wedi ei ddal." "Drwg iawn genyf hyny," ebe Mr. Morris, "cofiwch fi ato yn serchog; a dywedwch wrtho, pe gwybuasai y teimladau a lochir genyf tuag ato ef, y daethai yn sicr i fy ngwrando. Bydd yn dda genyf am dano byth am y daioni a dderbyniais i drwyddo."

Mr. Walters oedd y cyntaf a urddwyd yn y New Inn yn ol trefn yr Annibynwyr; sef trwy gynorthwy gweinidogion. Nid oes amheuaeth na fu

Mr. Walters o ddefnydd mawr yn y lle dros flynyddoedd cyntaf ei arosiad, a thra y bu Mr. D. James, yr hwn oedd ar y pryd yn gynorthwywr iddo, byw. Ond yn mhen amser, dirywiodd pethau yn fawr yn y lle, fel y dywedwyd uchod; "cyffelyb bobl ag offeiriad," ac felly y parhaodd gwedd pethau hyd ei ymadawiad. Yr holl amser y bu ef yn llafurio yn y New Inn, oedd 36 o flynyddau. Ymddengys mai ysbryd y byd a fu fwyaf o niweid iddo. Ewyllysiai ymgyfoethogi, a gwanodd ei hun â llawer o ofidiau; ac nid arno ei hun yn unig y disgynodd y niweid, ond yr eglwys hefyd a fu gyfranog yn y dirywiad. Am dano ef, dywedir, er maint a fu ei awydd am y byd, mai ei siomi a gafodd; a pha faint bynag o hono a gasglasai unwaith, cymerodd y cwbl eu haden, cyn iddo ef farw. Ymadawodd â'r New Inn tua phedair blynedd cyn marw, ac ymunodd eilwaith â'r Methodistiaid, a bu yn pregethu yn eu mysg, fel y gelwid arno, dros weddill ei dymhor. Ymddengys iddo gael gradd o adnewyddiad i'w ysbryd cyn ymadael â'r byd hwn, gan y dywedir iddo farw yn orfoleddus iawn, gan ddiolch yn wresog am drysor gwell yn y nef, na dim a fedd y ddaear hon. Cymerodd ei farwolaeth ef le yn y fl. 1819.*

Ar ei ol ef gwahoddwyd Mr. David Williams, Merthyr, pregethwr gyda'r Methodistiaid, i gymeryd gofal y New Inn, ond ni chydsyniodd. Yna un Benjamin Moses, gŵr ieuanc o athrofa yr Annibynwyr, a fu yma am yr ysbaid byr o ddwy flynedd; ond er lleied yr amser, ymddengys ei fod yn llawn ddigon, gan na ennillodd crefydd ddim oddiwrth ei esiampl. Yn y fl. 1822, gan hyny, daeth gŵr ieuainc arall o athrofa y Neuaddlwyd; sef y gweinidog presenol, y Parch. David Davies, yr hwn ar ol mwy na 30 o flynyddau, sydd yn abl i godi ei Ebenezer, a dywedyd gyda syndod, "Hyd yma y cynorthwyodd yr Arglwydd fyfi."

RISCA.

Mae rhai yn awr yn fyw a fu yn ymddyddan â hen bobl fuont yn gwrando ar Howel Harris ei hun yn pregethu yn ardal Mynydd-yslwyn; ac efe, meddynt, ydoedd y cyntaf a anturiodd wneuthur hyny. Yr oedd yma dwmpath yn agos i eglwys y plwyf a elwid "Towyn Tudur." Yr oedd hen chwedl am y towyn hwn, pe yr aethai neb i geisio symud y towyn hwnw yr aethai yn storm o fellt a tharanau arswydus. Ar y twmpath hwn, pa fodd bynag, y safai Howel Harris i bregethu, ynghanol y campwyr cynulledig. Ychydig, meddir, oedd yno yn gallu deall nemawr o faterion y bregeth; yn unig deallent fod y pregethwr y bytheirio bygythion arswydus yn erbyn arferion anfad y wlad a'r oes, ac yn dynoethi erchylldra y gŵylmabsantau a'r campau yn y modd mwyaf noethlym a didrugaredd. Effeithiai ei ddull yn ofnadwy ar y gwrandawyr, a

* Dyledus ydyw yr ysgrifenydd am swm yr adroddiad uchod i garedigrwydd gweinidog presenol y New Inn, sef y Parch. D. Davies.

thybient, gan faint eu harswyd, fod y ddaear yn crynu dan eu traed. Bu yr ymweliad hwn o'r eiddo yn foddion i fwrw diflasedd ar lawer o arferion bryntion y gymydogaeth. Clywodd fy ngohebydd,* hen lanwr yn dyweyd, na chafodd ef ddifyrwch byth mwy yn chwareu y bêl ddu, er ei fod o'r blaen yn un o benaethiaid y gamp. O hyny allan, syrthiai y dychymyg arno, yn enwedig os byddai yr haul wedi machludo, fod "y gŵr drwg" ei hun yn y fan; a phan y byddai y chwareuwyr yn gwaeddi "*Col*" yn un cwr, y byddai "yr hen fachgen" yn gwaeddi yr un peth mewn cwr arall. Y dyb gyffredin gan drigolion y fro, oedd fod y gŵr a fu yn pregethu ar "Dywyn Tudur," wedi llygad-dynu *(witcho)* y chwareu!

Yn raddol lluosogodd y pregethwyr yn mysg yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr, yn gystal ag yn mysg y Methodistiaid, a daeth pregethu mynychach i'r ardal; a hyny blith-dra-phlith gan y tri enwad, ond yn benaf gan y Methodsitiaid a'r Annibynwyr; a chyn hir adeiladwyd capel rhyngddynt, yr hwn a ddefnyddid gan y ddau enwad fel y'u gilydd. Nid oes sicrwydd dros ba faint o amser y parhaodd yr undeb hwn; ond daeth yr adeg, pa fodd bynag, yr ewyllysiai y mwyafrif o'r aelodau gael rhyw weinidog neillduol i'w bugeilio, yr hyn oedd o angenrheidrwydd yn dyrysu y cynllun blaenorol o weithredu; ar hyn ciliodd y Methodistiaid i raddau oddiwrthynt; ac i raddau mwy fwy, fel yr oedd amser ac amgylchiadau yn eu dyeithro; ac yn ol a allwn ni gasglu, ddarfod i'r Methodistiaid golli pob meddiant, yn y cymydogaethau hyn, mewn canlyniad, am flynyddoedd lawer; gan nad yw y cynulleidfaoedd sydd ganddynt yn awr, yn y broydd hyn, ond o gychwyniad diweddar; oll, fe allai, o fewn y ganrif bresennol.

Yn y tymhor boreol y cyfeiriwyd ato, ymadawodd tri o ddynion oddiwrth y Bedyddwyr, o herwydd rhyw anghydwelediad rhyngddynt, o ba natur nis gwyddom; enwau dau o honynt oedd Thomas Thomas a William Jones. Un o gymydogaeth Risca oedd y trydydd, ond nid yw ei enw ar gael. Y tri hyn a ymunasant â'r ychydig Fethodistiaid ag ydoedd y pryd hwnw tua chymydogaeth Risca. Cymerodd Thomas Thomas dyddyn yn yr ardal, o'r enw Cefn-byr; ac yn fuan ar ol ei gymeryd, agorodd ei ddrws i dderbyn pregethu i'w dŷ. Neillduodd hefyd ystafell fechan ar nen ei dŷ i gynal y cyfarfodydd eglwysig ynddi, a thros dymhor yr oedd y Cefn-byr yn llety pregethwyr hefyd. Aeth yr ystafell yn ebrwydd yn rhy gyfyng; a chan fod yn ngwaelod y tyddyn, dŷ anedd heb fod neb yn preswylio ynddo, ymosododd Mr. Thomas at y gorchwyl o adgyweirio hwn a'i drefnuso i gynal addoliad ynddo: hyn hefyd a wnaeth ar ei draul ei hun. Nid ydym yn deall fod llawer o wychder yn perthyn i'r adeilad hwn, gan mai gwïail plethedig a gyfansoddai y pwlpud oedd ynddo; eto hwn oedd y lle a ddefnyddiwyd yn gapel am dymhor hir. Dybynai y lle hwn yn benaf, os nad yn llwyr, ar wleddydd eraill am ei gyflenwi â gweinidogaeth yr efengyl; gan nad oedd, y pryd

* Parch. Thomas Evans, Risca.

hwn, hyd y deallwn ni, yr un pregethwr yn byw o fewn y sir, oddieithr cyfrif yr hwn a wasanaethai y New Inn, felly. Ond ceid gweinidogaeth rhai gwŷr enwog i'r lle bychan hwn, megys y Parchn. W. Williams, Pant-y-celyn; a Jones, Llangan; ynghydag amryw llai eu henwogrwydd, y rhai a ddeunt drosodd yn benaf o sir Forganwg.

Bu yn Risca, fel agos yn mhob man arall, lle yr ymsefydlodd Methodistiaeth ynddo, adfywiadau rhyfeddol, yn enwedig yn y tymhor y cyfeiriwyd ato uchod; feallai mai yn y lle hwn y bu y cyffroadau mwyaf, o un lle yn y wlad hon. Yn ysbaid un o'r tywalltiadau hyn y goddiweddwyd Edward Goslet, Casbach; a Henry Jones, Llaneirwg; am yr olaf, Risca oedd ei le genedigol ef, a symud a wnaeth i Laneirwg i breswylio. Nid ydym yn deall y bu rhyw erlid mawr ar bregethwyr, nac ar grefyddwyr, yn y parth hwn o'r wlad; ar yr un pryd yr oedd proffeswyr crefydd, a phregethwyr y Methodistiaid yn enwedig, yn wrthddrychau llawer o wawd ac anfri. Pan ddechreuodd Henry Jones, Llaneirwg, bregethu, yr oedd yn yr un ardal lanc, gwamal a gwagsaw, o'r un enw ag ef. Hwn a ddywedai wrth ei gyfoedion, un Sabboth, y medrai ef bregethu iddynt cystal a Harri o'r Dyffryn; "paham," meddai, "nad yw y naill Harri cystal a'r llall?" Yr oedd yn y fan a'r lle ryw hen foncyff pwdr o dderwen; a thybiodd Harri, y gallai yn gyfleus iawn ei ddefnyddio ar y pryd fel pwlpud; a chan ddringo yn brysur i ben yr hen geubren, efe a alwodd ar ei gymdeithion i wrando, gan fwriadu ennill gradd o glod iddo ei hun, o herwydd ei fedrusrwydd, rhoddi difyrwch mawr i'w gymdeithion, a bwrw anfri cyfatebol ar Henry Jones, y pregethwr. Ond troes y "chwareu yn chwerw." Dygwyddodd fod y llecyn o'r pren lle safai y ffugbregethwr arno, yn rhy bwdr i'w ddal; ac yn lle rhoddi mantais i'r dyhiryn arddangos ei dalentau ysblenydd, gollyngodd ei safle dan ei draed, a llyncwyd y llencyn i grombil y ceubren; ac nid hyn oedd y cwbl, ond troes yr hen bren yn fagl (*trap*) twyllodrus iddo. Derbyniodd ef yn lled hylaw i mewn, ond ni fynai ar un cyfrif ei ollwng ef allan; gan ei bwysau, ac ar y codwm, fe fynodd le i fyned i lawr; ond pan aed i geisio ei godi allan, nid mor hawdd ydoedd. Gorfu iddo aros yno dros rai oriau, ac ni allai neb ei gael allan; ond trwy ymosod yn ffyrnig ar yr hen geubren â bwyeill, ac agor rhyw gymaint ar ei geudod, fe gaed modd i gael y carcharor yn rhydd. Dysgwyliasai y llanc y codasid ei enw i fri am ddarostwng y pregethwr, ond yn lle hyny, syrthiodd i anfri cyffredinol, a galwyd ef byth wedi hyny, "Harri o'r Ceubren!" Effeithiodd y tro yn wahanol i'r hyn a ddysgwyliodd Harri, gan y barnai y gwladyddion mai rhagluniaeth a fynai amddiffyn y pregethwr diniweid, a chosbi trahâ yr hwn a ryfygai wneuthur gwawd o hono.

Buan yr aeth y tŷ anedd y pregethid ynddo yn rhy fychan; a rhaid oedd eilwaith ymofyn am eangach lle. Gyda'r amcan hwn aeth Mr. Thomas at ei feistr tir, i ymofyn am ddarn o dir i adeiladu capel arno; ac ymddengys fod y boneddwr hwn, pwy bynag ydoedd, yn fwy tyner a rhydd mewn achosion o'r fath na llawer o'i gydraddiaid y pryd hwnw; derbyniodd y deisyfiad yn

ystyriol, a pharodd i Mr. Thomas ddefnyddio yr hen dŷ y cynhelid moddion ynddo eisoes, a'r tir oedd dano, i wasanaethu ei amcan; ac y rhoddai efe ef, ynghyd â gardd berthynol iddo, yn rhodd ac am byth; a chwanegai, "Mae dwy gollen ffrengig yn yr ardd; tòr hwynt i lawr, a defnyddia hwynt at yr adeiladaeth newydd." Aeth Mr. Thomas, tua thre' yn llawen, wedi cael ei neges, ïe, mwy nag oedd wedi ei ddysgwyl. Ond yr awyrgylch a dduwyd yn fuan gan gwmwl tywyll; bu farw y boneddwr yn ddisymwth, cyn iddo gael amser i sicrhau y tir i'r dyben y bwriadwyd ef; a rhaid oedd bellach, oedi dros dymhor, cyn ysgogi ymlaen; o leiaf, hyd nes gwybyddid syniadau yr etifedd. Yn mhen rhai misoedd, aeth Mr. Thomas at ei feistr tir newydd, ac a adroddodd iddo addewid ei ewythr; gan erchi yn ostyngedig, os gwelai ef yn dda, gadarnhau yr amcan; ond os oedd Mr. Thomas wedi cael ffafr gyda'r ewythr, gwrthodwyd ef gan y nai. Cynddeiriogodd hwn fod y fath beth yn cael ei ofyn iddo; ac yn fwy o lawer, pan ddeallodd fod pregethu eisoes ar ei dir. Nid mor rhyfedd, ychwaith, oedd y fath ymddygiad, gan fod wyneb y gŵr boneddig tua Rhufain, ac yn tueddu i lethu pob rhyw ymdrech o'r natur yma yn y wlad, yn hytrach na rhoddi un wyneb i'w barhad. Y canlyniad fu, i Mr. Thomas, yn lle cael capel ar y tir, gael rhybudd i ymadael â'i dyddyn.

Yr oedd gan Mr. Thomas dyddyn bychan o'r eiddo ei hun. Yn yr amgylchiad, gan hyny, penderfynodd werthu rhan helaeth o anifeiliaid y tyddyn mawr, a myned i drigo i'r tyddyn bychan. Yn y cyfamser gwnaeth y boneddwr ei oreu i osod ei dyddyn i ddeiliad newydd, ond ni chafodd fod parodrwydd yn neb i'w gymeryd; ac yn ei benbleth anfonodd at Mr. Thomas i ddyweyd y gallai gael ei dyddyn yn ol; ond i hyn nid oedd Mr. Thomas yn foddlawn, oddieithr i'r boneddwr gadarnhau addewid ei hen feistr. Cynddeiriogodd hyn y gŵr yn fwy nag o'r blaen; a dechreuodd chwilio am ryw achles i ddrygu yr hen denant ar ei ymadawiad. I'r dyben hwnw, haerodd fod rhyw ran o'r tir, ag oedd yn terfynu ar y mynydd, yn gauedig, pan ddaeth Mr. Thomas i'r tyddyn; a chan nad oedd felly yn awr, fod yn rhaid iddo wneyd y golled i fyny. Yr oedd hyn, meddir, yn berffaith anwireddus, ond yr oedd ei ddylanwad ef, a drygioni dynion, yn ddigon i ddwyn tystiolaeth yn erbyn y tyddynwr, a bu raid iddo dalu can' punt cyn cael dyfod yn rhydd o'i afael.

Rhoddwyd heibio y bwriad, o angenrheidrwydd, i adeiladu y capel yn yr hen le yr arferid ymgynull, a barnodd rhai mai yn mhentref Risca, y fan lle y mae y capel yn awr, y buasai yn oreu ei adeiladu. Felly y barnai Mr. T. Thomas a William Jones, a mwyafrif yr eglwys, ond yr oedd y trydydd brawd, nad yw ei enw genym, yn awyddus am ei adeiladu yn uwch i fyny. Ymddengys fod y ddadl am y lle yn bygwth attal mynediad y gwaith ymlaen; ond yn y cyfwng, bu farw y brawd gwrthwynebol, ac edrychodd y brodyr eraill ar yr amgylchiad yn arwydd ychwanegol, y mynai Rhagluniaeth i'r

capel fod yn y lle y mae. Felly heb ychwaneg o oediad, ymosodwyd at ei godi.

Nid yw amseriad yr adeiladaeth yma genym, ond yr ydym yn dyfalu fod capel Risca yn un o'r rhai cyntaf, os nad y cyntaf oll a godwyd gan y Methodistiaid yn y sir hon, heb son am yr adeiladau sydd wedi llithro oddiwrthynt i ddwylaw enwadau eraill. Fe fu yr achos yn llewyrchus iawn yn y gymydogaeth hon am flynyddau, ac oddiyma yr heidiodd y cynulleidfaoedd sydd bellach yn addoli yn y Babell, y Gelli-groes, a Nazareth.

Gellir chwanegu am Mr. T. Thomas, ddarfod iddo yn mhen ryw gymaint o amser adeiladu tŷ wrth y capel, at wasanaeth yr achos, a hyny ar ei draul ei hun, ac heb fwriadu derbyn dim drachefn. Ond gorfu iddo ynteu, fel pawb eraill yn mron, brofi blinder a siomedigaeth. Yr oedd ei amgylchiadau bellach, wedi eu gwaethygu, ac oedran a methiantwch natur wedi ei orddiwes, fel y penderfynodd yr eglwys yn unfryd alw arno i ddyfod ei hun i'r tŷ a godasai i fyw, a rhoddi iddo ddogn wythnosol at ei gynaliaeth, gogyfer â'r draul o godi y tŷ, hyd nes y byddai y swm wedi ei dalu. Felly hefyd y bu; a phan, meddir, yr oedd yn byw ar y gyfran wythnosol olaf, yr hon a wnai y swm i fyny, bu farw. Felly fe gafodd yr eglwys dalu iddo ef y draul yr aethai iddo gyda'r tŷ, a chafodd ynteu gynaliad cysurus tra y bu yn rhaid iddo wrtho, a therfynodd ei angen ef, a dyled yr eglwys, ar yr un pryd; y pryd y symudwyd ei gorff ef i dŷ ei hir gartref, a'i enaid "i'r tŷ nid o waith llaw, tragwyddol yn y nefoedd."

PEN-Y-CAE.

Mae y lle a elwir ar yr enw hwn yn gorwedd yn nes i'r mynyddoedd na Risca, ac yn awr yn nghanol gweithfaoedd mawrion glo a haiarn. Cyn dechreu y gweithfaoedd hyn, nid oedd yma yr un achos crefyddol gan un enwad; ac nid oedd yr un capel yn hir wedi hyny, oddieithr un bychan, tra disylw, gan y Wesleyaid Cymreig. Yr oedd hefyd ychydig nifer o aelodau mewn undeb â'r Bedyddwyr yn agos i'r Fenni, yn wasgaredig yn y gymydogaeth. Nid oedd y trigolion chwaith, cyn agor y gweithfaoedd, ond teneu, ac ychydig mewn rhif. Ond nid oedd neb yn perthyn i'r Methodistiaid. Ond yn ddiweddarach, pan oedd y gwaith glo a haiarn yn dechreu sugno trigolion lawer i gyfaneddu y mynyddoedd hyn, dygwyddodd fod yn eu plith bedwar o wŷr a fuont yn arfer gwrando y Methodistiaid, ac un o honynt wedi bod unwaith yn aelod eglwysig. Teimlodd y gwŷr hyn awydd cryf i gael ambell bregeth yn y lle newydd, y daethent iddo i gyfaneddu. Llwyddasant hefyd i gael hyny, ac yn mysg eraill a fu yma, yr oedd y Parch. D. Williams, Merthyr-Tydfil, yn un. Agorasant hefyd ysgol Sabbothol yn y lle. Dechreuasant hefyd ffurfio trysorfa yn eu plith eu hunain, modd y gallent dalu traul ambell bregethwr a ddeuai atynt. Ond wedi crynhoi ychydig swm at ei gilydd, cododd yr ymofyniad pwy o honynt a osodid ar hyn o

orchwyl, sef i ddwyn y god, ac i gyfranu o honi. Honai y gŵr a fuasai yn broffeswr unwaith, mai efe oedd gymhwysaf, gan ei fod ef yn fwy cyfarwydd yn yr achos na neb arall. Hwythau yr ochr arall a haerent, fod y ffaith o'i fod ef yn wrthgiliwr yn anghymhwysder ynddo yn hytrach; a chan na fu ef yn ffyddlon i'w ymddiried gynt, na ellid dysgwyl yn amgen oddiwrtho yn awr. Felly "bu ymryson yn eu plith, pwy a fyddai mwyaf," a chwalwyd yr ychydig farwor hyn, a diffoddodd yr amcan yn llwyr ar hyn o bryd, fel na fu son mwyach am dano.

Ar ol y tymhor hwn, pryd yr oedd achos gan y Methodistiaid yn Nant-y-glo, ac yn Cendl *(Beaufort)*, fe ddaeth yr ychydig frodyr o'r lleoedd hyn i agor ysgol Sabbothol yn Pen-y-cae. Llwyddasant hefyd i gael pregethu achlysurol iddo. Ennillodd y moddion hyn ychydig o dir; daeth rhai i brofi blas ar air Duw, a nerthoedd y byd a ddaw, ac i ymuno â'r brodyr yn y lleoedd crybwylledig. Yn y cyfamser, daeth yr hen frawd tra adnabyddus hwnw, Owain Enos, i breswylio, neu yn hytrach i letya i'r gymydogaeth. Gŵr ydoedd o sir Aberteifi, nid ymhell o dref Aberteifi; hen grefyddwr; yn meddu ar gryn ddawn; llawn o fywiogrwydd a gwaith; a llawn o hynodion priodol iddo ei hun. Yr oedd yn hen gyfaill i'r Parch. Ebenezer Morris, ac wedi arfer teithio llawer ar Ddê a Gogledd; ac felly yn adnabyddus drwy yr holl dywysogaeth. Pan ddaeth i'r gymydogaeth yma gyntaf, aeth i letya i'r rhês tai a elwir y Sychffos.

Y pryd hyn nid oedd ond ychydig nifer o grefyddwyr yn yr holl ardal, ac yn y rhês tai a elwid y Sychffos, nid oes sicrwydd fod cymaint ag un, heblaw ef ei hun. Wrth gymeryd y llety, gwnaeth amod â gwraig y tŷ, fod yn rhaid iddo gael darllen a gweddio bob nos yn y teulu. Caniatawyd hyn iddo; a buan y cerddodd son am dano drwy y rhês tai. Dywedid fod rhyw hen ŵr òd iawn yn lletya gyda hwn a hwn yn y rhês; ac yr arferai efe weddio bob nos yn y teulu, ar ryw awr bennodol. Sugnai y newyddion hyn luaws o bobl at y tŷ erbyn yr awr weddi i wrando; ac anturiai ambell un, mwy cyfarwydd â'r teulu, ddod i mewn. Arferai ynteu, gyda darllen, esbonio ychydig wrth fyned yn mlaen. Un noswaith, dygwyddodd fod yn eistedd ar risiau y llofft, lencyn yr hwn yr oedd iddo air o fod yn brif ymladdwr y fro hono. Yr oedd Owain Enos, y noswaith hono yn darllen y bennod y mae hanes Dafydd yn ymladd â'r cawr Goliath ynddi; ac fel yr oedd yn darllen, a phawb yn gwrando yn astud ar yr hanes, a'r paffiwr yn enwedig, am fod hyn, tybygai, yn rhywbeth yn ei ffordd ef ei hun, daeth y darllenydd at y geiriau, "a'r gareg a suddodd i'w dalcen ef." Gyda'r gair cyffrodd teimladau yr ymladdwr, a neidiai ar ei draed gan waeddi, "*Diaic erioed, dyna fachgen am gareg a sling!*"

Mor fuan ag y llwyddodd Owain Enos i gael tŷ iddo ei hun, a chael ei deulu ato i fyw, ffurfiodd gymdeithas eglwysig fechan yn ei dŷ ei hun. Cafwyd ystafell hefyd a elwid "*Siop y Saer*," i gadw ysgol Sabbothol a phregethu ynddi ar y Sabboth; a pharhaodd y wedd yma ar yr achos am rai

blynyddoedd. Yr oedd y boneddigion a berchenogent y gwaith yn perthyn i'r Crynwyr, ac wedi meddiannu yr holl dir yn y gymydogaeth, a chan fod amod rhyngddynt na chaniataent i neb adeiladu ar eu tir `hwy, nid oedd obaith gan yr ychydig grefyddwyr i gael lle i adeiladu capel ar law yn y byd. Nid ydym yn deall fod nacâd y boneddigion y cyfeiriwyd atynt yn codi oddiar un culni sectaidd, yn erbyn enwadau eraill, a llawer llai, oddiar wrthwynebiad i ledaeniad yr efengyl, ond oddiar y cytundeb a wnaethent â'u gilydd fel y cynllun goreu i ysgogi wrtho. Ond dygwyddodd fod darn o dir yn meddiant y gwladwr anrhydeddus Edmund Lewis, Ysw., Drysiog, yr hwn, er cynyg i'w berchenog dair gwaith ei werth, ni fynai ar un cyfrif ei werthu, am ei fod yn drefdadaeth ei henafiaid. Trwy hynawsedd y boneddwr hwn, llwyddwyd o'r diwedd i gael tir i adeiladu capel arno; hyn a wnaed yn y fl. 1825. Aeth y capel hwn yn fuan yn rhy fychan i'r gynulleidfa, a hyny nid trwy adfywiadau grymus, a chynydd ebrwydd, ond trwy chwanegiad graddol o flwyddyn i flwyddyn. Bu raid, gan hyny, helaethu y capel gymaint arall; ac nid hir iawn o amser a dreiglodd heibio, cyn y bu raid adeiladu un arall. Felly, y mae yr achos wedi myned rhagddo dan radd helaeth o lwyddiant, er fod ei ddechreuad yn fychan, a diweddar mewn cydmariaeth, eto y mae erbyn heddyw yn ddwy neu dair mintai.

PENNOD VI.

PARHAD O HANES METHODISTIAETH SIR FYNWY.

CYNWYSIAD :—

CAS'NEWYDD-AR-WYSG—YMGYFARFOD YN Y BRAGDY—ADEILADU CAPELAU, A'U COLLI—CYMDEITHASFA YN 1810—YMGYFARFOD YN "LLOFFT Y POBTY"—EDWARD GOSLET—METHODISTIAETH YN CAS'BACH—MISS B. EVANS, A'R PARCH. HENRY JONES, LLANEIRWG—MORGAN HOWELLS—EI DDWYS ARGYHOEDDIAD—DECHREU PREGETHU YN 1815—EI BROFEDIGAETH YN ACHOS CAPEL CAS'NEWYDD—EI HYNODION, A'I BROFEDIGAETHAU—EI FARWOLAETH YN Y FLWYDDYN 1852—HANES Y "ROCK."

CAS'NEWYDD-AR-WYSG *(Newport)*.

Yn y fl. 1800, cynaliwyd cymdeithasfa yn y dref hon, y gyntaf erioed gan y Methodistiaid. Y pryd hwn, nid oedd gan y cyfundeb un achos sefydlog yn y dref, nac ond ychydig o gyfeillion yn preswylio ynddi; cadwyd yr oedfaon cyhoeddus yn muarth y castell, ac yr oedd Mr. Jones, Llangan, yn un o'r pregethwyr. Yn fuan ar ol y cyfarfod hwn ymosodwyd ar gychwyn achos sefydlog, a chafwyd ystafell i gynal moddion ynddi; yr hon oedd hen Fragdŷ

wedi ei drefnuso ychydig i'r dyben; yn yr ystafell hon yr ymgynullai y Cymry yn gyhoeddus, ac yn eglwysig, am ryw dymhor. Yr oedd yma ar hyn o bryd tua 29 o aelodau eglwysig, ac yn cael eu blaenori gan Mr Henry Evans, amaethwr, a Mr. Thomas Powel, "*Crown.*"

Nid hir o amser y bu yr ymgynulliad yn y bragdŷ, cyn i'r brodyr ddechreu meddwl adeiladu capel i addoli ynddo; nid oedd y draul i fod ond £300. Galwyd yr addoldŷ hwn yn "*Hope Chapel,*" a dewiswyd y Parch. John Rees, yn weinidog i'r gynulleidfa; ac addawyd iddo £200 yn y flwyddyn; swm yr oedd yr ychydig gyfeillion yn y lle yn gwbl analluog ei wneuthur o honynt eu hunain; ond gan fod y pregethwr yn ŵr poblogaidd, yr oedd nifer o wŷr o fewn ac o faes i'r eglwys, yn tanysgrifio tuag at wneyd y swm i fyny. Nid oedd y capel, pa fodd bynag, yn rhoddi boddlonrwydd i'r gynulleidfa, er nad yw ein hysgrif yn hysbysu paham, a phenderfynwyd ei ail-adeiladu, a chostiodd bellach £700.

Yn y fl. 1810, cynaliwyd cymdeithasfa yma drachefn; ac yn mysg y pregethwyr ar yr achlysur, yr oedd y Parch. Ebenezer Morris; Thorpe, Bristol; a John Thomas, Aberteifi. Ymddengys fod Mr. Ebenezer Morris yn teimlo yn amheus ynghylch cynaliad Mr. Rees, ac yn bryderus rhag iddo ddyfod i brofedigaeth; ac oddiar y syniadau hyn, pan roddwyd cyfleusdra iddo gael ymddyddan â'r gweinidog, efe a ddywedodd wrtho, "John, mae arnaf ofn eich bod yn godro gwartheg hespion, y rhai a fagant wynt ar ol hyn, ac y cewch chwithau gwrdd â siomedigaeth."

Yn ol daroganiad Mr. Morris y bu; canys yn fuan ar ol yr ymddyddan uchod, deallodd Mr. Rees fod colofnau ei gynaliad yn dechreu siglo; a gwelodd mai doethineb ynddo fyddai peidio pwyso gormod arnynt. Yr oedd Mr. Rees yn bregethwr sylweddol iawn a phoblogaidd hefyd; yn gyfarwydd yn y ddwy iaith; ac yn arfer, yn achlysurol, o gyflawni angenion eglwysi ymddifaid yn mysg y Saeson. Nid gŵr oedd ef, gan hyny, tebyg i aros gydag ychydig bobl yn Cas'newydd; yn enwedig wedi cael prawf o anwadalwch ei brif gyfeillion, os ymagorai lle arall iddo. A lle arall a ymagorodd o'i flaen, yn yr adeg, tybygid, yr oedd ei feddwl yn archolledig gan siomedigaeth: derbyniodd wahoddiad oddiwrth ddilynwyr Whitfield, yn Rodborough, swydd Gaerloyw, i ddyfod yn weinidog iddynt; cydsyniodd ynteu â'r gwahoddiad; ac a fu yn weinidog llwyddiannus a pharchus, yn y lle hwnw, dros nifer o flynyddau. Oddi yno aeth i Lundain; a bu yn weinidog ar y gynulleidfa yn *Crown-street*, hyd ei farwolaeth.

Ond i ddychwelyd at Cas'newydd. Yr oedd y capel, yr hwn a gostiodd £700, hyd yn hyn yn meddiant y blaenor, Mr. H. Evans; yntau yn anffodus a ddyrysodd yn ei amgylchiadau; a disgynodd y capel a'r cwbl, i afael ei ofynwyr, y rhai a'i gwerthasant i'r Saeson; felly, collodd y Methodistiaid eu safle dros dymhor, a bu raid i'r ychydig nifer a safent yn ffyddlon dros eu hegwyddorion, fyned i ymofyn am gronglwyd arall. Tarawsant wrth ystafell ag oedd yn dwyn cysylltiad â phobtŷ, (*bakehouse*), lle y buont dros ryw dym-

hor yn ymgynull; ond yr oedd yr ystafell hon yn un tra anghysurus, o herwydd gwres y ffwrn cysylltiedig; eto yn yr ystafell ddiaddurn, a digysur hon, y dechreuodd yr hynod Morgan Howells, bregethu. Ymadawsant drachefn â'r ystafell hon, a chymerasant un arall yn yr hen gastell, am £8 yn y flwyddyn o ardreth. Yn mhen rhyw gymaint o amser, codasant gapel yn y castell, yr hwn a gostiodd iddynt £350, lle y buont yn addoli am bedair neu bum' mlynedd. Yn yr adeg hon, yr oedd yr achos yn llwyddo, a golwg siriol arno; cymaint felly, nes oedd yr addoldŷ yn rhy gyfyng o le. Parodd hyn anesmwythdra am le helaethach; ac yn mhen amser penderfynwyd adeiladu capel mwy. Yr oedd y ddwy iaith, tybygid, yn cael eu defnyddio yn y capel hwn, a rhan o'r gynulleidfa heb fedru Cymraeg. Dechreuodd y rhan Gymreig, a'r rhan Sresonig o'r gynulleidfa, gasglu tuag at adeiladu y capel newydd; yr hwn, ar ol ei orphen, a alwyd "y Tabernacl." Anfonwyd bellach, at y gymdeithasfa i ofyn gweinidog ar y gynulleidfa, ond ni chaed un. Gwrthododd y gymdeithasfa y cais; ond ni ddywedir ar ba dir, nac oddiar ba egwyddorion; ond bu y nacâd, pa fodd bynag, yn achlysur i'r gŵr a ddaliai y gweithredoedd am y tir, wrthod eu rhoddi i fyny; a'r canlyniad a fu i'r Methodistiaid golli y capel hwn hefyd; a throsglwyddwyd ef i'r Annibynwyr. Bu raid i'r Cymry, drachefn, droi allan, a meddwl pa fodd y caent addoldŷ arall; a meddwl hefyd yn ddiau, bellach, pa fodd i sicrhau y tir yr adeiladent arno, yn y fath fodd, na ellid mor hawdd ei gymeryd ef oddiarnynt, o hyny allan; hyn hefyd a wnaed y tro hwn. Mae gan y Cymry gapel da eto yn Cas'newydd, a chynulleidfa luosog yn gwrando. I dalu am y capel hwn y bu Mr. M. Howells, mewn llafur yn teithio Dê a Gogledd, ac mor daer yn casglu. Rhoddir gair am hyn yn yr hanes a roddir ymlaen am y gŵr tra nodedig hwnw.

EDWARD GOSLET.

Edward Goslet a gyfrifir y pregethwr henaf, ac ar lawer cyfrif, y pregethwr hynotaf a fu yn mysg y Methodistiaid yn sir Fynwy. Wrth ddyweyd mai efe oedd yr henaf, rhaid cofio nad ydym yn golygu yr hen gynghorwyr a fu yn cynorthwyo Howel Harris yn y sir hon; megys Morgan John Lewis, Morgan Jones, Abram Williams, ac eraill, feallai; ond y meddwl yw, mai efe oedd y pregethwr cyntaf a ymddangosodd yn eu plith, yn yr *ail* gychwyniad a fu ar Fethodistiaeth y wlad hon. Llithrodd yr ychydig aelodau a'r ychydig gynghorwyr a fu rhwng y blynyddau 1740 a 1760, mewn undeb â'r Methodistiaid, rhai i'r bedd, ac amryw at enwadau eraill o Gymry, neu o Saeson, fel ag y bu y sir hon am ysbaid amryw flynyddau, heb gymaint ag un pregethwr yn y cyfundeb o'i mewn, ac heb gymaint ag un eglwys ar ei enw. Yn y bwlch hwn y cododd Edward Goslet; bwlch nad oedd ond ychydig o grefyddwyr i'w cael yn agos ato, a bwlch nad oedd ar gael ond rhyw nifer bychan iawn o bregethwyr o un enwad yn efengylu o fewn y wlad oll.

Fe'i ganwyd ef yn mhlwyf Machen, lle o fewn 6 milldir i'r gorllewin o Cas'newydd, yn y fl. 1750. Ni choffheir dim neillduol am ei ieuenctyd, ond ei fod wedi cael ei ddwyn i fyny i'r gelfyddyd o ôf; ac o ran crefydd a moesau, ei fod ef fel pawb arall ymron, y pryd hwnw, yn holl amgylchoedd ei gartref, yn berffaith amddifad o wybodaeth am Dduw, a chwbl ddiystyr o'i achos tragwyddol. Yr oedd pregethu gan ryw enwad, yr Annibynwyr, tybygid, yn y Groeswen, ger Caerphili, lle o fewn 4 neu 5 milldir i'w gartref; ac ymddengys fod hen weinidog y lle hwnw yn arfer ymweled â rhai manau eraill. Denwyd Goslet, pa fodd bynag, gan ryw un, ac i ryw le, rai milldiroedd o'i gartref, i wrando yr hen weinidog hwn; a thrwy wrando arno, derbyniodd saeth i'w galon. Daeth i ddeall ei fod yn bechadur, ac i ofni y canlyniadau yn aruthrol; daeth hefyd, yn raddol, i adnabod Crist a'i groes. Penderfynodd yn fuan ymuno â'r gynulleidfa yn y Groeswen, yr hyn a gymerodd le yn y fl. 1769, pan oedd ef yn 19 mlwydd oed.

Wedi ei ddeffro ei hunan am ei gyflwr, a chanfod pa mor ddiofal oedd pawb o'i amgylch, teimlodd mai ei ddyledswydd oedd gwneyd a allai i leshau ei gydwladwyr anwybodus a chysglyd. Dechreuodd alw amryw rai i bregethu yn ei dŷ ei hun, gan ddwyn eu traul ei hunan; ac nid hir y bu ar ol ei dderbyniad i'r eglwys, cyn iddo deimlo awydd i geisio rhoi gair o gynghor ei hunan i'w gymydogion; nid am y tybiai fod ynddo ef fedrusrwydd i hyny, ond am y teimlai yr angenrheidrwydd i ryw un wneyd. Yr oedd Goslet wedi peri gradd o gyffro yn ei ardal eisoes, trwy ei fod yn cynghori ac yn rhybuddio ei gymydogion mewn dull personol; a chan hyny yr oedd mwy o aeddfedrwydd i'w alw yn fwy cyhoeddus at y gwaith. Felly, ar ryw noswaith, pan na ddaeth y pregethwr a ddysgwyliwyd, ymaflodd rhai o'r hen frodyr yn ei ysgwydd, gan ddyweyd yn iaith eu gwlad, "Mae yn rhaid i ti bregethu Nedi." Ufuddhaodd ynteu i'r cymhelliad, a rhoes brofion diymwad yn y fan, mai nid anfoddhaol gan Dduw oedd hyny; yr oedd hyn yn y fl. 1776, pan oedd efe yn 26 mlwydd oed.

Yr oedd Goslet wedi priodi chwe' blynedd cyn hyn, ac wedi cael gwraig grefyddol hefyd; un ag oedd yn debyg o fod yn gynorthwy iddo, ac nid yn flinder. Yn fuan ar ol dechreu pregethu, symudodd o Machen, ei le genedigol, i'r Cas'bach, trwy fod y drws yn ymagor iddo yno yn hytrach o ran ei alwedigaeth; ac yma yr arhosodd bellach dros weddill ei oes. Nid oedd yn yr ardal hon chwaith ond caddug o dywyllwch; nid oedd neb yn meddwl am ei enaid; ac nid oedd achos crefyddol gan un enwad am filldiroedd o amgylch y Cas'bach. Teimlai Goslet a'i wraig, gan hyny, yn anniddig iawn i sefyllfa mor ymddifad, a dechreuasant lygadu o'u hamgylch, ai nid oedd neb yn yr holl fro o gyffelyb feddwl, modd y gallent ymgynull at eu gilydd, a cheisio adeiladu y naill y llall. Yn yr ymchwil a ganlynodd, hwy gawsant ychydig nifer o Fedyddwyr ac Annibynwyr, y rhai fuont foddlawn i gydgyfarfod â'u gilydd mewn cymdeithas eglwysig. Cadwyd y cwrdd hwn yn Nghoed-Carnew, oddeutu dwy filldir o'i gartref. Yr oedd yno ferch ieuanc

o'r enw Miss B. Evans, a ddygasid dau argraffiadau crefyddol wrth wrando ar Mr. Jones, Llangan, Dafydd Morris, ac eraill. Ymunodd hon â hwy yn y cyfarfod eglwysig, a hi oedd yr unig un a fernid o'r Methodistiaid yn y cynulliad. Ryw bryd gwnaed cais ar gael gan Miss Evans ymuno yn gyflawn â'r naill enwad, neu y llall, ond hi a wrthododd am ei bod yn tueddu i ymuno â'r Methodistiaid, ond cadwai hyn iddo ei hunan. Ar ryw achlysur gofynodd Goslet iddi pa wrthwynebiad oedd ganddi i ymuno, a chafodd yn ateb mai at y Methodistiaid yr oedd hi yn tueddu, gan mai dan eu gweinidogaeth hwy y derbyniasai hi lesâd; a'i bod yn bwriadu cynyg ei hun yn Llangan. "Felly finau," ebe Goslet, "yno yr wyf finau am fyned." Nid lle dyeithr oedd Llangan iddynt, gan eu bod yn arfer myned yn fynych yno, yn enwedig ar Sabbothau cymundeb. Dangoswyd peth gwrthwynebiad i dderbyn Goslet gan ei fod ef eisoes gyda'r Annibynwyr; ond wedi deall yn drwyadl ei deimladau, ei dderbyn a wnaed, nid yn aelod yn unig, ond yn gynghorwr hefyd, gan ei fod eisoes yn cael ei gyfrif felly.

Bellach, cychwynodd gyfarfod eglwysig yn ei dŷ ei hun; nid oedd yn cyfansoddi y cynulliad, ond efe a'i wraig, Miss B. Evans, a dau eraill; pump o nifer. Ond er lleied y nifer, ac er mor ddirwysg oedd y cychwyniad hwn, ymddengys y byddai yma gyfarfodydd rhyfeddol ar rai achlysuron, y fath ag a wnai i'r ardal adsain gan lef gorfoledd a mawl; ïe, yr oedd hyn mor nodedig nes cynhyrfu gwrthwynebiad. Anfonodd y gŵr a osodasai ei dŷ a'i efail i Goslet ato i ddyweyd, os llochai y fath gyfarfodydd didrefn a thrystfawr, y byddai raid cymeryd y lle oddiarno. Bu raid, gan hyny, ymofyn am gartref arall i'r arch, a chafwyd, dros enyd, gryn anhawsder i'w gael. Disgynodd ei lle, pa fodd bynag, yn Llaneirwg, tua dwy filldir o'r Cas'bach. Fel hyn y cychwynwyd yr achos Methodistaidd yn Llaneirwg, y lle, erbyn hyn, y mae cynulleidfa luosog wedi ei chasglu, a chapel da wedi ei godi. Nid ydym yn gallu olrhain hanes Goslet o hyn allan, ond i raddau tra anmherffaith. Pa fodd bynag, aeth rhagddo, drwy ŵg a gwên, i lafurio yn egniol yn y weinidogaeth, gan weithio yn galed ar yr un pryd gyda'i alwedigaeth. Arweinid ef, gan hyny, i gerdded llawer ar foreu Sabboth, weithiau o ddeg i ugain milldir, i gyflawni ei addunedau Sabbothol, ac i ddychwelyd drachefn erbyn boreu Llun yn gynar; gan na oddefai ei alwedigaeth iddo fod yn absennol ond ychydig. Rhoes yr Arglwydd iddo feddwl gwrol a chyfansoddiad cryf; cymhwysodd yr offeryn at y gwaith, a gwaith mawr a wnaeth. Bu yn foddion i blanu tair o eglwysi, yn ei fro ei hun, sef yn y Morfa, Cas'bach, a Llaneirwg. Efe hefyd a olygir fel tad Methodistiaeth y sir hon; oblegid pan ddechreuodd ef bregethu nid oedd ond efe o fewn y sir; a mynych y dywedai yr hen ôf, gyda mesur o ddigrifwch, "myfi yw y pregethwr mwyaf yn y sir." Y gwir oedd, nid oedd ond efe; efe, gan hyny, oedd y mwyaf a'r lleiaf hefyd.

Yr oedd Goslet yn pregethu mewn amser yr oedd llywyddion y Methodistiaid, mewn Dê a Gogledd, yn fwy gwrthwynebol i gofrestru tai pregethu, ac i drwyddedu eu pregethwyr, am y rhoddai hyny wedd ymneillduaeth ar y cyf-

undeb; parai hyn yn achlysurol radd o anghyfleusdra, gan nad oedd nawdd y gyfraith ddim wedi ei sicrhau i'r pregethwyr. Canfu Goslet, gan y bygythion a fytheirid yn ei erbyn, ei fod mewn perygl, a phenderfynodd ymofyn am gael ei drwyddedu. Aeth at gyfreithiwr, cymerodd hwnw ei achos i'r chwarter Session, yr hyn, y pryd hwnw, oedd yn angenrheidiol. Wedi hysbysu yr amcan i'r Ynadon, galwyd am Goslet, a gofynwyd iddo :—

"Pa beth ydych—ai ffermwr ai crefftwr?"

"Gôf, ydwyf, Syr," oedd yr ateb.

"*Heaven bless thee* (y nef a'th fendithio)," ebe yr Ynad, gan ei wfftio fod y fath un yn meddwl am bregethu.

"Amen," ebe Goslet, "dy fendith di a'r eiddo Duw a wna y tro." Felly ei neges a gafodd, a diangodd rhag y ddirwy.

Cyfarfu â phrofedigaeth arall yn sir Frycheiniog, pan oedd yno ar daith weinidogaethol. Un noswaith ar ol yr oedfa aeth i ymweled ag un o'i geraint yn y wlad. Ond pan ddaeth i'r tŷ, deallodd fod ei berthynas wedi symud i ardal arall; ac yn y tŷ, yn lle ei gâr, yr oedd dyn wedi ei ddal am *forgery*: yr hwn, ar ei waith yn gweled Goslet yn dyfod i mewn i'r tŷ, a waeddodd, "Dyma'r dyn ag oedd yn gyfranog â fi yn y *forgery!*" Ar hyn, ymaflwyd ynddo yn y fan; ynteu, mewn hunan-amddiffyniad, a ddywedodd, mai dyn dyeithr oedd ef, ac ar ei daith yn pregethu drwy y wlad. Ar hyn, wedi clywed mai pregethwr oedd ganddynt mewn dalfa, a ymddifyrent yn fwy o lawer yn ei wawdio. Parhausant i wneyd hyny ar hyd y nos, o wir ddireidi; gan eu bod wedi cael digon o brofion fod ei hunan-amddiffyniad yn gywir; ond boreu dranoeth hwy a'i gollyngasant i ffordd. Mynai llawer iddo eu cosbi, ond ni chydsyniai. Ennillodd Goslet air da gan ei holl frodyr fel cristion diledryw, ac fel pregethwr tra defnyddiol. Yr oedd ei ymadroddion ai ystum yn y pwlpud yn berffaith ddiaddurn, eto yn argoeli o feddwl cryf, ac egwyddorion efengylaidd. Bu farw yn y flwyddyn, 1828 yn 78 ml. oed, a 52 o'i weinidogaeth.

PARCH. HENRY JONES, LLANEIRWG.

Yr ydym yn dyfalu mai y Parch. Henry Jones, Llaneirwg, oedd y pregethwr cyntaf a gododd ar ol Edward Goslet. Dechreuodd bregethu yn y fl. 1801, a bu farw yn y flwyddyn 1843, yn 71 mlwydd oed. Dechreuasai grefydda yn 12 ml. oed, ac ennillodd air da gan bawb, a chan y gwirionedd ei hun. Nid llawer a wybu Cymru am dano fel pregethwr a deithiai lawer, nac ychwaith fel un nodedig o amlwg o ran ei dalentau. Yr oedd yn fwy nodedig am ei ffyddlondeb nag am ei dalentau. Dywedir na thorodd ef gyhoeddiad erioed; a pheth dyeithr ac anarferol oedd ei fod yn absennol o'r cwrdd misol.

Y PARCH. MORGAN HOWELLS.

Yn nesaf o ran amser, mi a dybygwn, oedd y Parch. Morgan Howells, yr hwn a fu farw yn Mawrth, 1852, yn 56 mlwydd oed, ac wedi bod yn y weinidogaeth 37 o flynyddau. Ni allwn, gan ddiffyg lle, roddi ond bras hanes byr am y dyn tra hynod hwn; a da genym chwanegu nad rhaid i ni ofidio cymaint am hyny, gan fod "Cofiant" rhagorol am dano wedi ei gyfansoddi yn gampus gan y diweddar Barch. Evan Morgan, Caerdydd; yr hwn a dâl yn ehelaeth i'r neb a'i darlleno. Ar yr un pryd, esgeulusdra gwallus a fyddai myned heibio i ŵr o'i fath ef, yn hanes y cyfundeb, gyda chrybwylliad byr yn unig,

Brodor ydoedd o blwyf St. Nicholas, swydd Forganwg. Ganwyd ef mewn tŷ o'r enw *Breach*, yn y fl. 1794. Yr oedd ei dad o'r un enw ag ynteu, yn ŵr crefyddol, ac yn aelod eglwysig yn hen gapel y Trehil; bu farw pan nad oedd ei fab ond 10 mlwydd oed, a gadawyd ef, a rhyw gymaint o waddol a ddygwyddai iddo, mewn canlyniad i ofal boneddwr o'r gymydogaeth, o'r enw Col. Lascells, Cotterell. Wedi iddo gael rhyw gymaint o ddysg, gosodwyd ef, yn y fl. 1810, pan ydoedd yn 16 ml. oed, dan ofal crefftwr yn y Casnewydd i ddysgu saernïaeth. Ffurfiodd gyfeillach yn mhen ychydig amser ag un William Lewis, yr hwn oedd yn fachgen ieuanc crefyddol, ac yn aelod gyda'r Annibynwyr yn y dref. Trwy ddylanwad y cyfaill hwn arweiniwyd Morgan Howells i *Hope Chapel*, i wrando y Parch. John Rees, am yr hwn y soniasom yn barod. Buan iawn y canfyddwyd cyfnewidiad yn y llencyn; newidiwyd ei chwaeth; ciliodd oddiwrth ei gyfeillion ofer; bwriodd heibio y cardiau; dechreuodd ddarllen y Beibl, a thynodd arno ei hun wawd a sarugrwydd; am y tybiai y sawl a'i gwawdient, ei fod yn rhy gyfiawn; ond nid oedd tymhestl ei gydwybod, ond megys yn dechreu. Trwy wrando Mr. Rees drachefn fe'i pigwyd yn ddwysach o lawer, glynodd y saethau yn ei galon, yr oedd pob difyrwch wedi cilio, ac nid oedd iddo orphwysdra na nos na dydd. Terfynai ei deimladau ar anobaith llwyr, a'i synwyr ar orphwylledd hollol. Eto, yn lle ceisio boddi ei drallod trwy foddion anghyfreithlawn, "fe ddychwelodd at yr hwn a'i tarawsai;" mynychai foddion gras yn ddiwyd; a'r cyfleusdra cyntaf a gafodd, daeth i'r cyfarfod eglwysig, gan ymofyn am le, yno. Disgynodd math o ddychryn ar yr eglwys wrth yr olwg arno; nid mewn agwedd gyffredin yr oedd. Yr oedd ei enaid o'i fewn mewn ing ofnadwy. Safai ar lawr y capel, codai ei ddwylaw i fyny, pryd yr oedd ei lygaid tua'r ddaear, a thorai allan mewn dagrau lawer, a wylofain tost, gan ddyweyd "*I am a lost man!*" Cerddai y teimlad fel trydaniaeth trwy bob mynwes, a dagrau lawer a ffrydient o gydymdeimlad â'r llanc teneu, llwyd, a thrallodedig; a chryfhâi y teimlad yn fwy fyth pan y crochlefodd, fel un ar ddarfod am dano, yn ngeiriau y Salm, "Yr wyf yn ofni y *disgynaf i uffern yn fyw.*"

Ond i ba ddyben yr ymhelaethaf, digon yw dyweyd ddarfod ei dderbyn yn groesawgar i fynwes yr eglwys, yn *Hope Chapel*, ac ddarfod i'r gweinidog,

Mr. Rees, fod yn ymgeleddgar iawn o hono, ac i'w feddwl ynteu ei hun gael "cilfach a glàn iddi," allan o'r dymhestl ofnadwy a fu yn chwythu arno Dyoddefodd lawer o wawd a pheth cam oddiwrth y teulu yr oedd gydag ef yn byw, o herwydd ei grefydd. Yr oedd rhyw nifer o Gymry, y pryd hwn, yn arfer ymgynull i lofft y pobtŷ, i gadw ysgol Sabbothol; ymgymysgai Howells â hwy yn y gorchwyl, pryd yr oedd yn ddiwyd yn gwrando ar weinidogaeth John Rees. Dyma oedd cychwyniad ei yrfa grefyddol, "gŵr" oedd ef "a welodd flinder," yn mhob ystyr. Profodd lawer o chwerwder yn ei fynwes ei hun, a chyfarfu â llawer o helyntion yn ei amgylchiadau bydol, y rhai ni pherthyn i ni yn awr eu holrhain.*

Yn y fl. 1815 y dechreuodd bregethu. Yr oedd ar y pryd yn 21 ml. oed. Ymddengys fod cryn aeddfedrwydd yn meddyliau y rhai a'i hadwaenent i roddi pob annogaeth iddo. Yr oedd y Cymry erbyn hyn wedi ymneillduo oddiwrth gynulleidfa Seisonig, "*Hope Chapel*," ac yn ymgynull, fel y dywedwyd, yn "Llofft y Pobtŷ;" ac nid hir ar ol hyn y bu Mr. Rees yno chwaith, cyn iddo ymadael, fel y crybwyllasom o'r blaen, o'r Cas'newydd, a myned i *Rodborough*. Yn y "Llofft" ddiaddurn uchod y cychwynodd Morgan Howells ar ei yrfa weinidogaethol; a buan iawn y deallwyd fod yn perthyn iddo elfenau gwir urddasol; rhai wedi eu heneinio â'r olew santaidd, a hyny i raddau mwy na llawer o'i gyfeillion. Cyn pen ychydig flynyddau daeth i fod yn un o'r dynion mwyaf poblogaidd a feddai Cymru. Nid ydym yn wastad yn edrych ar boblogrwydd dyn ieuanc, newydd droi allan, yn llawn o dân a theimlad, yn un arwydd sicr o wir fawredd; darfu am boblogrwydd llawer un mor ebrwydd ag yr ennillwyd ef, am nad oedd dim gwir fawredd yn sail iddo. Clindarddach drain dan grochan oedd; mawr y sŵn; tanbaid y ffagl, ond byr ei barhad: ond nid poblogrwydd o'r fath yma a fu yr eiddo ef. Yr oedd hynodion yn perthyn iddo, mae yn wir, yn ei ystumiau, ei wedd, a'i lais, ac yn nullwedd ei bregethau, ag a dynent sylw y werin, er na wyddent yn iawn paham; ac oni bai fod pethau sylweddol yn ei faterion, a gwir ddifrifwch yn ei ysbryd, ciliasai ei boblogrwydd yn mhen ychydig amser; ond yn lle hyny, parhaodd yn boblogaidd hyd ddiwedd ei oes. Yr oedd "geiriau gwirionedd a sobrwydd" yn ei bregethau. Yr oedd ei enaid hefyd wedi ei fedyddio yn ddwfn ag ysbryd yr efengyl; llafuriai a darllenai lawer, a pharodd argraff arosol ar feddyliau llawer a fu yn ei amheu ar y dechreu, mai "Mawr allu Duw oedd hwn."

Un o'r achlysuron a ddygwyddodd i ddwyn Mr. Howells yn adnabyddus mewn llawer man yn y Gogledd, oedd ei waith yn dyfod trwy y wlad i gasglu at gapel a godasid yn Cas'newydd. Bu hwn yn achlysur hefyd i Ogledd a Dê ddangos eu tosturi at y pregethwr, ac o'r dylanwad oedd ganddo ynteu ar ei gynulleidfaoedd. Casglodd, yn y ddwy dalaeth, nid llai na £1300 o

* Gwel ei "Gofiant, gan y Parch. E Morgan, Caerdydd," llyfr a dal yn ehelaeth am ei ddarllen.

arian; a gosododd yr achos yn y Cas'newydd ar dir, o ran capel, nad oedd achos ofni o'i herwydd mwy. Yr ydym eisoes wedi dangos pa helyntion a gyfarfu â'r Cymry yn Cas'newydd gyda'r capelau a godasent, fel na raid ychwanegu. Yr oedd y capel bychan a godasid yn y Castell wedi ei werthu, a'r capel mwy a godwyd drachefn wedi llithro i ddwylaw yr Annibynwyr Seisonig, a'r Cymry heb le i addoli ynddo. Yr oedd rhyw angenrheidrwydd wedi ei osod arnynt i godi addoldŷ; a chodwyd addoldŷ, yr hwn a gostiodd tua £1920. Buasai yn dda genym pe buasai ein defnyddiau yn rhoddi y fantais i ni ddangos i'r darllenydd nad oedd dim modd osgoi dyled mor fawr, heb i'r achos Cymreig golli yn llwyr o'r dref; ond am yr angenrheidrwydd i fyned i'r fath draul yr ydym yn ansicr. Gwyddom mai anhawdd ydyw adeiladu mewn tref fawr y fath ag ydyw Cas'newydd heb lawer o draul; ond pa un ai ni allesid gwneyd ar lai o draul, ac i ateb y dyben, ni allwn sicrhau. Hyn sydd sicr, bu llafur Morgan Howells, a haelioni a hynawsedd y dywysogaeth yn fawr, i allu cyfarfod â'r ddyled ag oedd yn bygwth llethu y pleidiau oedd dani.

Yr oedd Howells er yn blentyn yn cael ei ystyried yn un hynod; heb fod yn debyg i neb arall, na neb arall yn debyg iddo ynteu. O ran ei dymher yr oedd yn tueddu yn mhell i fod yn bruddglwyfus, a chryfhaodd y nodwedd hwn arno fwy fwy hyd ddiwedd ei oes. Yr oedd o feddwl tra annibynol, ac eto ni allai neb ei gyhuddo o falchder. Ffurfiai feddwl iddo ei hun, a rhedai yn y cyfeiriad a gymerasai i eithafion, ond yn nghanol y cwbl, hawdd fyddai canfod cywirdeb ei amcan, a difrifwch ei ysbryd. Yr oedd ganddo lawer o bob synwyr ond synwyr cyffredin. Yr oedd ganddo lygad eryr mewn pethau crefydd, ond yr oedd heb gallineb plentyn mewn mân achosion bywyd. Nid oedd ynddo ddim medrusrwydd i drafod masnach na chrefft. Yr oedd diniweidrwydd a diofalwch plentyn ynddo mewn llawer o bethau; ac eto yr oedd penderfyniad diblygu ynddo mewn pethau eraill.

Fel pregethwr hefyd yr oedd yn hynod. Yr oedd o gorffolaeth, canolig o daldra, teneu ac eiddil, ond ystwyth a chyflym ei ysgogiadau. Nid oedd dim yn ei wedd yn dynodi mawredd, "Gwan yn hytrach o ran presenoldeb y corff, a'r ymadrodd yn ddirmygus." Eto yr oedd gwybodaeth yn dysgleirio yn ei wedd, a gonestrwydd yn ei lygaid. Yr oedd ei lais yn wan, a'i iaith yn fynych yn lled afrwydd, yn gymysgedig ag ymadroddion Saesoneg; a sillebiaeth y "Fro" yn amlwg ar y cwbl. Siaradai lawer weithiau am dano ei hun yn y pwlpud, am wendid ei iechyd, neu deimladau ei feddwl, arferiad pell o fod yn ganmoladwy mewn pregethwr, yr hwn a ddylai golli ei hun yn ei waith, a pheri i'r gynulleidfa golli y llefarwr yn ei fater, eto gallai Morgan Howells gyfeirio ato ei hun, heb groesi gweddeidd-dra; ymddangosai diniweidrwydd diledryw yn ei wedd, a pharotôai y bobl i wrando arno yn fwy astud. Ni allwn ymatal, er lleied ein gofod, heb roddi un enghraifft o'r hyn a soniwn am dano. Yr oedd un noswaith i bregethu yn Maesteg, swydd Forganwg. Daeth at ei gyhoeddiad, mewn poen dirfawr gan y ddannodd.

Aeth i'r pwlpud, er hyny, a'r neisiad neu y ffunen am ei ben; ac wedi i Mr. Phillips ddechreu y cyfarfod iddo, safodd i fyny yn druanaidd iawn yr olwg arno, a chan drefuu y cadach am ei ben, dywedai wrth y gynulleidfa:—"Alla' i ddim pregethu i ch'i heno." Edrychai yn lled ddiflas, a'r cannoedd gwrandawyr a edrychent yn lled syn; ac ynteu yn tynu ei law dros ei ben, ac yn teimlo ei ruddiau dolurus, yna dywedai, "Mae'r *Tic Douloureux* a'r ddannodd yn fy mlino yn ofnadwy; mae pechod wedi myned i'm hesgyrn; ni wn i ddim p'am mae poen yn y dannedd yn fwy angherddol na rhyw ran arall, os nad am mai hwy fu gyntaf yn y camwedd pan yn *byta'r* afal."—

Yn Eden cofiaf hyny byth
Bendithion gollais rif y gwlith,—*O golled fawr.*
Syrthiodd fy nghoron wiw;
Ond buddugoliaeth Calfari
Ennillodd hon yn ol i mi,
Mi ganaf tra fwy' byw—*Gogoniant!*

"Mae buddugoliaeth Calfari yn gwella'r *Tic Douloureux!* a'r ddannodd, a'r *cwbwl!*" Yna ymaflodd yn y cadach, a thynodd ef oddiam ei ben gyda brys, a dywedai, "Dyna, mi a bregetha i ch'i 'nawr; ac felly yn y fan, heb ganu na dim, cymerodd ei destyn a phregethodd yn hwylus heb son am na phoen na briw.*

Gŵr aml ei drallodion a fu Morgan Howells yn mron ar hyd gydol ei oes. Yr oedd llawer o ddefnydd anghysur yn ei dymher a'i gyfansoddiad. Pruddglwyfus ei olygiadau ar bethau o'i amgylch, yn llawn o ofnau ynghylch amseroedd dyfodol; difedr yn arolygiaeth ei amgylchiadau bydol; lluosog ei deulu, a gwanaidd ei iechyd. Ond yr oedd rhyw grefyddolder dihocced yn ymddangos ynddo yn nghanol ei brudder a'i brofedigaethau, a barai argyhoeddiad, mai "gŵr Duw" ydoedd; a barai dosturio wrtho yn fwy na beio arno.

Nid hir a fu ei glefyd diweddaf. Yr oedd yn pregethu nos Fercher, ac yn marw y Sabboth canlynol. Yr oedd ei hyder yn Nuw ei Iachawdwr yn ddiysgog yn angeu. Rhoddwyd arwydd diymwad o'r parch a fynwesid iddo, yn y nifer a ddaeth i'r lle ar yr achlysur o'i gladdedigaeth. Cyfrifwyd fod 30 neu 40 o bregethwyr, perthynol i wahanol enwadau yn yr orymdaith; a bod y dorf ar ei mynediad allan o Dredegar tua Chendl, lle y gladdfa, y fwyaf a welwyd yn y lle erioed o'r blaen ar y fath achlysur; nid llai meddir na chwech neu wyth mil o rifedi. Pregethodd y Parchn. D. Charles, B.A., Trefecca; ac E. Harris, Merthyr, ar yr achlysur yn nghapel Cendl; a hir iawn y bydd cof am y diwrnod galarus, pryd y gosodwyd gweddillion Morgan Howells yn y briddell.

* Gwel ei Gofiant, tudal. 73, 74.

ROCK.

Cychwynodd Methodistiaeth yn y lle a elwir ar yr enw "*Rock*" tua'r fl. 1824; mewn ystafell ardrethol; ac yn yr ystafell hon y bu ei arosiad am 15 mlynedd. Ond wedi i'r arch fod yn y modd hyn, am hir amser rhwng cortynau, penderfynwyd ei hanrhydeddu â chartref mwy arhosol, ac â thrigfa mwy cyfaddas i'w hurddas goruchel. Gwnaed hyn hefyd mewn "amseroedd blinion," gan yr agorwyd y capel yn yr wythnos gyntaf o Dachwedd, 1839; sef yr wythnos ar ol y Sabboth byth gofiadwy y cododd y Siartiaid yn Cas'-newydd. Yr oedd hwn yn adeg bryderus iawn, nid yn unig i'r wlad yn gyffredinol, ond i Fethodistiaid yr ardaloedd hyn yn neillduol; oblegid yr oedd y terfysgwyr ar y pryd yn gwawdio y Methodistiaid yn erchyll, ac yn bygwth tynu eu capelau am eu penau, o herwydd iddynt gilio oddiwrth y terfysgwyr, a dangos eu hanghymeradwyaeth i'w hysgogiadau anmhwyllog. Yr oedd cyfarfod i weddio yn cael ei gadw yn yr hen ystafell, ar y nos Sabboth grybwylledig, pryd yr oedd nifer mawr o'r Siartiaid yn myned yn llu-oedd tua'r Cas'newydd, y rhai, ar eu ffordd, a alwent ar y trigolion i ymuno â hwy, gan roi ar ddeall iddynt mai gwae i'r sawl a beidient. Daeth amryw o honynt at ffenestr a drws yr ystafell y cynelid y cwrdd gweddi ynddo, gan lawn fwriadu dod i mewn, a thrwy drais orfodi y bobl i fyned gyda hwy, fel y gwnaethent mewn llawer o gapelau eraill; ond yn rhyw fodd ni allasant roddi eu bwriad mewn grym. Ar y pryd y cyrhaeddasant y drws yr oedd yr hen frawd, a'r hen gynghorwr ffyddlon, Evan Richard, yn gweddio; ac yn gweddiô dros y siartiaid hudoledig eu hunain, ac yn taer erfyn ar i'r Arglwydd yn ei drugaredd agoryd eu llygaid i ganfod eu camsyniad; a chyf-addefodd un o honynt, wrth fy hysbysydd, fod gweddi yr hen frawd wedi llacio eu bwriad, a diffrwytho eu grym, fel na allent wneuthur dim.

Yr oedd achos bychan yn cael ei gynal er y fl. 1817, yn *factory* Cwmconog, ac yn Argoed, gan Evan James, yr hwn oedd yn byw yno ar y pryd, ynghyd ag eraill yn ei gynorthwyo. Fe ddangoswyd llawer o ffyddlondeb yn y lle-oedd hyn gyda'r ysgol Sabbothol, a dysgwyd llawer i ddarllen yr ysgrythyr-au, mewn amser nad oedd ond ychydig yn medru cymaint a hyny. Ceid yma ambell bregeth hefyd yn achlysurol, ond yr oedd yr ychydig enwau yn y lle yn dal cymundeb â'r eglwys yn Gelli-groes, hyd y flwyddyn 1824. Ond wedi cymeryd yr ystafell yn y "*Rock*," yn y flwyddyn hono, lle agosach atynt a mwy cyfleus, naturiol oedd iddynt o hyny allan ymgysylltu â'u gilydd yn y "*Rock*."

Ar ddechreuad yr achos yn y lle hwn, bu y Parch. W. Rowlands, yn awr o America, yn ddefnyddiol iawn. Bu Wm. Goslet, cefnder i'r hen batriarch o'r Cas'bach yn llafurus a gofalus iawn am y gwaith. William George hefyd, gynt o Drecastell, sir Frycheiniog, a fu yn flaenor ffyddlon a didderbyn-wyneb i'r ddeadell fechan. Teilwng ydyw crybwyll eto enw yr hen frawd Evan Richard. Yr oedd ef yn bregethwr ffyddlon; ond yn fwy nodedig am ei

ddawn a'i ysbryd fel gweddïwr. Yn hyn dywedir ei fod yn rhagori ar lawer o'i frodyr. Bu farw yn ddisymwth yn mis Mai y flwyddyn hon 1855, a thrwy ei farwolaeth fe gollodd y "Rock" yr unig bregethwr ag oedd yn trigo yn yr ardal; ac un hefyd a fuasai yn llygad ac yn arweinydd i'r praidd yn y lle.

Nid yw yr achos yn y "Rock" ond eiddil a bychan mewn cydmhariaeth; 30 ydyw nifer yr aelodau crefyddol; tua 100 ydyw nifer deiliaid yr ysgol Sabbothol, eto fe wnaeth y nifer bychan yma gryn orchestwaith, trwy dalu tua 230, o ddyled oedd ar eu capel. Gwnaed hyn trwy i bob un gymeryd rhan o'r ddyled a'r llog arno ei hun; pob un yn ol ei amgylchiadau, ac fel y bwriadai yn ei galon. Ymroes y cyfeillion yn ffyddlon at y gorchwyl, ac wedi i bob un gasglu yr hyn a allai gan eraill, gwnaeth y diffyg i fyny ei hunan, ac felly, gyda llawer o siriol deb fe ddygwyd yr amcan o lwyr dalu y ddyled i ben. Dywedir fod y gwrandawyr yn raddol yn cynyddu, a bod golwg siriol a gobeithiol ar yr holl waith.

O ddiffyg defnyddiau, yr ydym yn gorfod terfynu ein hanes am y sir hon. Deallwn fod cyfanrif yr aelodau yn y sir tua 1700; yr eglwysi cryfaf ynddi ydynt Carno, Tredegar, Penuel, Cas'newydd, Nant-y-glo, Bethlehem, a'r Brynmawr; y rhai hyn gyda'u gilydd, a gynwysant fwy na haner nifer aelodau y sir i gyd. Mae ynddi tua 25 o gynulleidfaoedd, wedi eu crynhoi, gan mwyaf o fewn y blynyddau diweddaraf; ac oll ymron, fel y crybwyllasom eisoes, o fewn y ganrif bresenol. Mae llawer, o'r cynulleidfaoedd lluosocaf yn y wlad, yn perthyn i'r dosbarth mynyddig o honi, trwy fod y gweithfaoedd mawrion mewn glo a haiarn, wedi crynhoi lluaws mawr o bobl i breswylio y dosbarth hwnw. Mae poblogaeth y dosbarth wedi cynyddu yn gyflym iawn hefyd; parai y cynydd cyflym hwn ar y trigolion, fod yr alwad am addoldai yn gyflym hefyd, a chafwyd mai cam â'r trigolion a fuasai oedi eu cyfodi, er y buasai y cyfryw oediad yn arbed beichio y wlad â dyled drom. Ond tymhor gwyllt o adeiladu capelau, a fu yr haner canrif diweddaf, yn mysg y Methodistiaid, trwy y Dywysogaeth, ac felly yn ddiamheuol yn sir Fynwy; y wlad y bu ynddi gynydd prysur, a helaeth ar ei phreswylwyr, ac felly ar ei hangen am addoldai. Gobeithiwn, pa fodd bynag, bellach, y terfyna y tymhor, pryd yr adeiledir capelau dan ddyled; o herwydd y bydd llai o angenrheidrwydd o hyn allan; ac hefyd y cyfyd cynorthwy helaethach, oddiwrth y cynulleidfaoedd presenol i gyfarfod a galwadau dyfodol; ac yn neillduol y bydd arolygiaeth manwl ar y rhan yma o'r gwaith, fel na chaffo gwastraff na rhyfyg le i roddi ei droed i lawr. Mae yn perthyn i gyfarfod misol, neu i Henaduriaeth y wlad hon, tua 25 o bregethwyr, o'r rhai y mae 10 yn ordeiniedig; mae yma, hefyd, yn agos i 100 o henuriaid; a deiliaid yr ysgol Sabbothol yn 3,300.

PRIF-LINELLAU YN HANES METHODISTIAETH YN NHREFYDD LLOEGR.

PENNOD I.

HANES LIVERPOOL.

Er mai am Fethodistiaeth Cymru yn arbenig y proffeswn roddi hanes, eto annheilwng fyddai cyfyngu yr hanes i'r diriogaeth Gymreig yn unig, gan i Fethodistiaeth ymledaenu dros ei derfynau cyntefig; ac mewn cysylltiad â'r Cymry, ymsefydlu mewn amryw ddinasoedd a threfydd Lloegr. Ei chartref cynhenid, mae yn wir, ydyw Cymru, lle yr ymwreiddiodd ac y blagurodd gyntaf; ond wrth dyfu ac ymgadarnhau, hi a estynodd ei changhenau dros afonydd Dyfrdwy, Mersey, a Hafren. Lle y mae rhai miloedd o Gymry yn eistedd yn gysurus dan ei chysgod, ac yn llawen-fwyta o'i ffrwyth. Yr oedd gan y cenedloedd paganaidd gynt, dduwiau priodol i bob gwlad; rhai, meddynt, yn briodol i'r mynyddoedd, a rhai i'r dyffrynoedd; ïe, duwiau gwahanol i wahanol deuluoedd. Pa faint bynag y tybid fod gallu eu duwiau yn eu dosbarth priodol, addefid ei fod yn colli mewn dosbeirth eraill: nid felly Methodistiaeth. Dylasem ddyweyd, nid felly Cristionogaeth o'r hon y mae Methodistiaeth yn ganghen. Er i'r planhigyn hwn gymeryd gwraidd yn y dywysogaeth yn gyntaf, eto y mae mor gymhwys i Loegr, neu i America, ag ydyw i Gymru. Y mae yn tyfu yn mhob hinsawdd, ac yn ddefnyddiol i bob cenedl.

Mae Liverpool yn fath o brif ddinas i Ogledd Cymru. Fe geir ynddi luaws mawr o blant y dywysogaeth, ac iddi yr ymarllwys yn barhaus boblogaeth y mynyddoedd. Bernir fod yma gynifer o Gymry ag sydd mewn odid un o siroedd Gwynedd; a llawer iawn o honynt yn analluog i ddeall Saesonaeg ond i raddau bychain, ac felly yn naturiol ymlynu wrth hen fam iaith eu gwlad. Ar yr un pryd, rhaid cofio nad oedd nifer y Cymry, mwy na chyfanswm poblogaeth y porthladd hynod hwn, ond bychan mewn cydmhariaeth, ar ddechreuad Methodistiaeth ynddo. Mae y dref wedi cynyddu yn ddirfawr mewn maintioli, dylanwad, a phoblogaeth, o fewn y 60 mlynedd diweddaf. Nid llawer chwaith o Gymry oedd y pryd hwnw yn y dref; llai o lawer nag ydyw eu nifer yn awr, a llai i gyfateb i nifer y

trigolion nag sydd yn awr. Eto dechreuasai rhai o hil Gomer dreiglo i'r lle yn lled gynar, a lluosogodd y dyfodiaid fel yr oedd y dref yn ymgodi i sylw a dylanwad.

Nid oes hanes genym fod yn y dref hon ddim Methodistiaeth Cymreig 80 mlynedd yn ol. Cychwynodd ar ei yrfa yn rhai parthau o'r dywysogaeth hanner can' mlynedd ymron, cyn iddo ymddangos gyntaf yn Liverpool; eto fe ddaeth yma tuag 20 mlynedd cyn pob enwad Cymreig arall. Tua'r fl. 1782, y dywedir i Fethodistiaeth Galfinaidd Gymreig ddechreu ymgrynhoi yn y dref. Gwir fod yma ychydig enwau, a fuasent yn aelodau yn y cyfundeb pan yn eu gwlad, yn aros ynddi cyn y flwyddyn uchod; ond nid oeddynt wedi ymgrynhoi at eu gilydd, nac yn gwybod y naill am y llall. Mae enwau tri o'r cyfryw ar gael, sef, William Llwyd a Mary ei wraig, y ddau o sir Fflint; a Grace Lewis, o sir Fôn. Yr oedd y tri hyn wedi ymuno â'r Methodistiaid yn eu gwlad enedigol, flynyddau cyn dyfod i Liverpool, ac ar eu dyfodiad i'r dref estronol, ni wyddent am neb o gyffelyb feddwl iddynt hwy; a theimlent yn rhwymedig ar yr un pryd i ymuno â rhyw enwad crefyddol o Gristionogion. Felly ymlynodd William Llwyd a'i wraig wrth y Methodistiaid Saesoneg yn nghyfundeb John Wesley, a Grace Lewis hefyd dros dymhor; ond barnai yr olaf nad oedd yn cael lles dan weinidogaeth y bobl hyny, ac ymadawodd; gan ymsefydlu dan weinidogaeth un Mr. Medley, gweinidog yn nghyfundeb y Bedyddwyr. Teimlai fwy o foddhad yn ei syniadau athrawiaethol; a derbyniai fwy o fuddioldeb yma nag a wnaethai yn y lle y buasai o'r blaen. Ond nid oedd y gweinidog yn foddlawn i'w derbyn i gymundeb eglwysig, er teimlo yn arghoeddedig ei bod eisoes yn aelod yn eglwys ddirgeledig Crist. Rhaid oedd iddi ymostwng i gymeryd ei throchi, dan broffes o'i ffydd, er ddarfod ei thaenellu eisoes ar gyflwyniad ei rheini. I hyn yr ymostyngodd hithau, gan na allai foddloni bod heb gymundeb eglwysig.

Ar y dechreuad, bu llaw gan erlidigaeth a gorthrwm i ymlid rhai o'r Methodistiaid o'u gwlad eu hunain, a llaw gan ragluniaeth yn eu harwain i'r dref hon i ymsefydlu; gormes yr erlidwyr yn Nghymru a yrodd Owen Thomas Rowland i Lerpwl, cyn bod un ymgrynhoad gan Fethodistiaid yno. Bu y gŵr hwn yn pregthu Cymraeg yn nghapel y Wesleyaid yn *Pitt Street*, yr hwn oedd ar y pryd heb ei gwbl orphen. Gorthrymu William Llwyd a wnaed yn sir Fflint, i'w yru ynteu i Lerpwl. Amcanodd y gelyn ddiffodd y tân trwy wasgar y marwor, ond chwanegu y niweid a wnaeth. Wrth geisio llethu y gwaith da yn sir Fflint, achlysurwyd ei gychwyniad yn swydd Lancaster—colled sir Fflint a fu yn elw i Lerpwl. Erlidigaeth ar grefyddwyr ardal y "Graig," lle yn sir Abertreifi, rhwng Machynlleth ac Aberystwyth, a yrodd John Llwyd a'i wraig i'r un dref; gŵr ag a fu yn ffyddlawn dros Dduw a gwasanaethgar i Fethodistiaid, dros lawer iawn o flynyddau; a'r hwn sydd yn aros hyd heddyw, ond sydd weithian yn hen ac yn gyflawn o ddyddiau.

Ond tra yr oedd William Llwyd gyda'r Wesleyaid, a Grace Lewis gyd â'r Bedyddwyr, daeth yr amser i osod sail yr adeilad Fethodistaidd yn y dref; yr adeg i'r ychydig bersonau a ddygasid at grefydd drwy weinidogaeth y Methodistiaid yn Nghymru, ddyfod yn adnabyddus o'u gilydd; ac ymgrynhoi y naill at y llall i gynal rhyw addoliad crefyddol, yn eu hiaith eu hunain; yr oedd hyn, fel y dywedwyd, tua'r fl. 1782. Yr achlysur o hyn, meddir, oedd i ddau ddyn ieuanc, y rhai oeddynt dan radd o bryder yn achos eu heneidiau, gytuno â'u gilydd ar fore Sabboth i fyned allan o derfynau y dref, er mwyn cael cyfle i gyd-ymddyddan a chydweddio, heb berygl cael eu haflonyddu. Gyda'r amcan hwn y cychwynasant; ac erbyn cyrhaedd cyffiniau y dref, canfyddasant fwthyn bychan mewn cloddfa gerig, o'r tu cefn i le a elwir y *Mount*, yn yr hwn yr arferai y gweithwyr gadw eu hoffer. I mewn i'r bwthyn hwn yr aeth y ddau lencyn, gan farnu y caent yma berffaith seibiant; ac yma y buant yn cyd-ymddyddan a gweddio; gwelodd Duw hwy, a boddlawn fu ganddo eu gwaith; a rhoddodd y fath fwynhad iddynt hwythau ag a barodd iddynt ddyfod yno drachefn, a hyny dros amryw Sabbothau, ynghyda dau o wŷr ieuainc eraill gyda hwynt. Bellach, bu ymofyn yn eu plith, ai nid oedd o fewn y dref neb, a fuasai yn proffesu crefydd yn Nghymru, â'r rhai y gallent gyd-ymgynghori, ynghylch y modd i gael lle i gynal rhyw foddion yn Gymraeg ynddo. Ar hyn daeth i feddwl un o honynt fod William Llwyd, y gŵr a grybwyllwyd uchod, yn Gymro, ac yn ŵr crefyddol hefyd; penderfynasant, gan hyny, fyned ato; ac wedi cyrhaedd ei dŷ, arllwysasant iddo eu neges a'u teimladau. Llonodd yr hen ŵr drwy ei galon; a chefnogodd eu hamcan â'u holl egni; gwahoddodd hwynt hefyd y Sabboth canlynol i ddyfod i'w dŷ ef. Y Sabboth hwnw a ddaeth, a chyfarfu y dynion hyn â'u gilydd, ynghyda rhyw nifer ychwanegol a wahoddasid ganddynt; a hwn oedd y cyfarfod crefyddol cyntaf a fu gan y Methodistiaid Calfinaidd Cymreig yn Liverpool erioed; oddieithr y cyfarfodydd a fuasai eisoes yn y gloddfa gerig. Yr ydym yn barnu fod Owen Thomas Rowland wedi bod yn pregethu yn Gymraeg yn nghapel anorphenol y Wesleyaid cyn hyn; yr hon, os cywir cin dyfaliad, oedd y bregeth Gymraeg gyntaf, ar a wyddom ni, a fu yn Lerpwl erioed; eto prin y gellid cyfenwi yr oedfa hono ar enw y Methodistiaid, gan mai yn nghapel enwad arall y cedwid hi, er mai un o'r Methodistiaid oedd y pregethwr. Tynwyd capel *Pitt Street* i lawr wedi hyny, ac adeiladwyd un arall mwy yn y fl. 1801; yr hwn sydd yn aros hyd heddyw. Yr ydym yn barnu mai oddeutu y fl. 1770, y bu Owen Thomas Rowland yn pregethu yma gyntaf; os felly, yr oedd hyny 12 mlynedd cyn yr ymgynulliad yn nhŷ William Llwyd. Mae y gloddfa gerig, lle yr ymgyfarfyddai y gwŷr ieuainc, erbyn hyn yn gladdfa y meirw,* ac yn un o'r golygfeydd y mae y trefedigion yn chwanog o'u dangos i ddyeithriaid, ar eu gwaith yn ymweled â'r dref. Cyfarfod i

* St. James's Cemetery.

weddio oedd y cyfarfod a fu yn nhŷ William Llwyd; ynghylch deuddeg oedd y nifer ynddo; nid oedd yr ystafell ond bechan, tua phedair llath bob ffordd. Yr oedd tŷ William Llwyd hefyd yn *Pitt Street*, nid ymhell oddiwrth y lle y mae y *Custom House* yn bresenol; y ddau a weddiasant yn y cyfarfod oedd William Llwyd ei hun, ac un Owen William Morgan, meistr llong, o Fôn, a ddygwyddai fod yn y dref ar y pryd. Wele yma gychwyniad Methodistiaeth Gymreig yn Liverpool; nid oedd yma ond golygfa isel; tua 12 o bobl mewn ystafell tŷ, pedair llath ysgwâr, lle yr oedd dau o wŷr diymhongar yn gweddio! Eto, o'r dechreuad bychan hwn y cododd yr achos grymus a ganfyddir heddyw gan y Methodistiaid Calfinaidd yn y dref hon. "Careg a dorwyd *nid a llaw*," oedd yma; yr hon erbyn hyn "sydd fynydd mawr."

Oddeutu yr amser y dechreuodd y cyfarfodydd hyn, dygwyddodd i hen bregethwr o sir Fôn, ddyfod i'r dref ar ryw neges fasnachol o'r eiddo; yr hwn, ar ei waith yn cyfarfod â William Llwyd, a ddywedodd wrtho fod rhyw gymhelliad cryf anarferol ar ei feddwl, am gael pregethu un bregeth i'w gydwladwyr, y Cymry, cyn dychwelyd o'r dref; os gellid drwy ryw foddion gasglu rhyw nifer o honynt ynghyd. Dywedai hefyd, y bu yn Lerpwl lawer gwaith o'r blaen, ar negeseuau y bywyd hwn, ond na theimlasai gymhelliad i bregethu i'r Cymry yno, erioed o'r blaen. Yr oedd y ffaith o fod y fath gymhelliad ar ei feddwl, ar y pryd yr oedd y cyfarfodydd crybwylledig newydd ddechreu, yn fath o gyd-gyfarfyddiad nodedig, a theimlid ef felly yn ddiamheuol gan William Llwyd, a chan y pregethwr ei hun. Gyda llawer o lawenydd, gan hyny, y derbyniwyd y cynygiad, a phenderfynodd William Llwyd i un o'r ddau, gydag ef ei hun, fyned o amgylch y dref, bob un ei gylch, i hysbysu i'w cydnabyddiaeth y newydd da; ac i'w gwahodd i'r bregeth. Felly, ymgasglodd rhyw nifer i dŷ William Llwyd, nos dranoeth; a chlywsant bob un, yn ei iaith ei hun, yn yr hon y'u ganed, fawrion weithredoedd Duw.

Ond er fod rhyw gychwyniad fel hyn wedi ei roddi i achos crefyddol, yn mysg y Cymry yn Liverpool, nid oedd eto yr un pregethwr yn eu mysg; ac nid oedd yr un gyfundrefn, hyd yn hyn, wedi ei ffurfio i gael gweinidogaeth gyson iddynt. Nid hir, pa fodd bynag, ar ol i'r ychydig nifer ddechreu ymgasglu at eu gilydd i gyd-weddio, y buont heb sefydlu cyfarfod eglwysig hefyd; a thrwy hyny gorffori yr ychydig nifer, a deimlent radd o bryder ynghylch achos eu heneidiau, a llwyddiant teyrnas y Cyfryngwr, yn eglwys broffesedig. Yn ebrwydd wedi yr ymgorfforiad hwn, dechreuodd y dysgyblion ymofyn am ryw lwybr i gael gweinyddiad o air ac ordinhadau Duw yn eu plith; a daethant yn fuan i'r penderfyniad i anfon William Llwyd i gyfarfod misol y cyfundeb, yn sir Fflint, i osod achos y Cymry tlodion, ac amddifaid, yn Lerpwl, o flaen cynrychiolwyr yr eglwysi cynulledig yno; ac i erfyn ar iddynt dosturio wrthynt, ac anfon rhyw rai i bregethu iddynt, mor aml a chyson ag y byddai modd; yn enw-

edig ar y Sabbothau. Yr oedd William Llwyd yn rhy frwdfrydig am gyrhaedd yr amcan i nacâu myned drosodd. Yr oedd ymddifadrwydd y Cymry yn y dref fawr mor resynus, ac awydd y brodyr yn Nghymru mor wresog i wneuthur unrhyw gymwynas a allent iddynt, fel y cafodd y genad bob gwrandawiad, a llwyddodd hefyd i gael pregethwr i ddyfod atynt bob trydydd Sabboth. Y cyntaf a ddaeth yn ol y drefn hon, oedd Humphrey Owens; yr ail, oedd William Davies; a'r trydydd, Robert Prys;* y tri o sir Fflint, ac yn preswylio nid llawer o filldiroedd oddiwrth eu gilydd. Parhaodd y gwŷr da hyn i ddyfod, bob un yn ei dro, tra parhaodd yr angenrheidrwydd i sefyll at y drefn hon.

Nid oes genym nemawr o hanes y crefyddwyr borëol hyny; ïe, nid oes enwau neb o honynt ar lawr ond William Llwyd a Grace Lewis. Am y cyntaf y dywedir, mai gŵr ganedig yn mhlwyf Ysgeifiog, sir Fflint, nid yn mhell oddiwrth Berthen-gron, ydoedd; a mŵnwr wrth ei alwedigaeth. Ganesid ef yn y fl. 1734, mewn amser tywyll ac anfanteisiol o ran moddion crefyddol yn yr holl wlad. Ymunodd gyda'r crefyddwyr yn y Berthen tua'r fl. 1761 pan oedd yn 27 mlwydd oed; ac nid hir y bu mewn undeb â'r *Cradocs* heb brofi anniddigrwydd ei hen gyfeillion. Gwasgwyd arno gan ei gydweithwyr; gwthient ef oddiwrthynt, ac ni fynent iddo gael cydweithio gyda hwy; gorthrymid ef hefyd gan feistriaid y gwaith; nes oedd ei le, rhyngddynt oll, yn dra anghysurus. Wedi canfod nad oedd gorthrwm a gwawd ddim yn tycio, rhoddwyd prawf ar hudoliaeth a gwên; addawyd iddo gael goruchwyliaeth, yr hyn a fuasai yn dderchafiad ac yn elw iddo, os efe a gydsyniai â'u cais, trwy roi heibio ei benchwibandod crefyddol; ond methu a wnaeth hyn hefyd. Parhaodd yn ddiddig i fyned rhagddo dan y cwbl am flynyddau, nid llai nag 20 mlynedd; ond o'r diwedd, tua'r fl. 1781, pan oedd yn 47 mlwydd oed, ac yn berchenog teulu, daeth y gorthrymder i wasgu arno mor drwm, nes bu raid iddo ymadael â'i wlad, er mwyn cael tamaid iddo ef a'i deulu. Gŵr o sefyllfa isel oedd William Llwyd, pan oedd yn Nghymru, ac wedi dyfod i Liverpool, nid oedd ganddo am damaid o fara, ond llafur ei ddwylaw. Bu dros dymhor yn gwneyd rhyw beth a allai gyda seiri llongau; ond gan na ddygwyd mo'no i fyny yn rheolaidd i'r grefft hono, cododd anniddigrwydd iddo barhau, yn mysg y seiri, y rhai oeddynt, y pryd hwnw, fel y maent eto, yn dra eiddigeddus rhag i neb ddyfod atynt, ond trwy y drws priodol. Felly, bu raid i William Llwyd droi ei gefn; ac ymddengys mai trwy gyniwair y dref i werthu hosanau Cymru, yr ennillai efe ei damaid ar ol hyny; a bu yn foddlon gan ragluniaeth ei fendithio yn hyny; cymaint o leiaf ag na fu arno eisieu dim. Ymddengys fod yr hen ŵr hwn, er nad oedd ei sefyllfa fydol ond isel a disylw, wedi ennill iddo ei hun radd dda, a dylanwad mawr yn serchiadau y sawl a'i hadwaenent. Yn ei gladdedigaeth, meddant, yr oedd yn agos i fil o bobl; tyrfa anghyffredin ei maint, yn enwedig y pryd hwnw;

* Edrycher dan sir Fflint am hanes y gwŷr hyn.

tymhor nad oedd nifer y Cymry yn y dref ond ychydig mewn cydmhariaeth i'r hyn ydyw yn awr; a thyrfa anghyffredin oedd i gaulyn gweddillion dyn nad oedd dim wedi ei godi i sylw ond ei dduwioldeb.

Soniasom eisoes am Grace Lewis; ond dylid chwanegu, ddarfod iddi hi, wedi clywed fod nifer o Gymry wedi ymuno â'u gilydd, ac yn arfer cyfarfod yn nhŷ William Llwyd, benderfynu bwrw ei choelbren yn eu mysg, a mwynhau eu breintiau. Daliodd ei hundeb â'r Bedyddwyr yn *Byrom-street*, ar yr un pryd; a pharhaodd i ddal cymundeb â'r ddwy eglwys dros ei hoes: a pherchid hi yn fawr gan aelodau y ddwy. Bu farw yn y fl. 1793, a chladdwyd hi yn Ninas-y-meirw,* *Low Hill;* Mr. Medley yn cyflawni y gwasanaeth ar yr achlysur.

I ddangos fel yr oedd yr erlid yn Nghymru yn tueddu i wasgar y dysgyblion, a thrwy arolygiaeth y Pen llywydd, yn gwasanaethu at ledaenu yr achos crefyddol, gellir crybwyll un engbraifft arall. Tua'r fl. 1767, ac oddeutu yr un amser ag y diangodd Owen Thomas Rowland, y gôf, i Liverpool, y diangodd gŵr ieuanc arall, o'r enw Hugh Evan, mab Evan Dafydd, Tŷ'n-llan, Penrhos-llugwy, Môn. Nid oedd y llanc ond 17eg oed, ar y pryd yr ymunasai â'r ychydig Fethodistiaid a gyfarfyddent â'u gilydd yn y Cerrig-llithir. Yn fuan ar ol iddo gychwyn ei yrfa grefyddol, cododd ystorm ar y crefyddwyr, oddiwrth berchenog y tyddyn yr oedd ei dad yn ei ddal; pryd y gorfyddid i bawb o'r deiliaid ymadael â'u tiroedd neu â'u crefydd. Ac er na fyddai y tyddynwr ei hun yn ŵr crefyddol, eto digon fyddai i dynu y ddrycin yn ei ben, os efe a lochesai neb o'r crefyddwyr dan ei gronglwyd, na gwraig, na phlentyn, Parodd hyn i'r mab, er ieuenged ydoedd, gymeryd ei daith i Lerpwl, er mwyn diogelwch i'w dad, a'i deulu. Nid oedd yn y dref yr un gynulleidfa Gymreig o un math, fel y dywedwyd eisoes, ac ynteu, fel y gwnaeth William Llwyd ar ei ol, a ymunodd gyda'r Wesleyaid Seisonig, am y tymhor yr arosodd yn y dref. Wedi bod yma am ysbaid blwyddyn, ac i'r ystorm dawelu gartref, dychwelodd Hugh Evan i'w fro ei hun, a bu yn cyd-lafurio gyda'r morwr, y crybwyllasom ei enw eisoes, sef Owen William Morgan, fel dau swyddog eglwysig yn y Waun-eurad, a'r Gell-bach, am lawer o flynyddau.

Fel y dechreuodd y gwrandawyr amlhau, aeth tŷ William Llwyd, yn *Pitt-street*, yn rhy fychan i gynal moddion cyhoeddus; a bu raid, wedi dwy flynedd o amser, o ddechreuad yr ysgogiad, edrych am le helaethach i addoli. Mewn tref o'r fath hon, y mae anhawsder mawr ysgogi ymlaen gyda dim heb rym arian. Nid oedd gan y crefyddwyr borëol hyn ond cyfoeth bychan; a chan nad oeddynt eto yn adnabyddus ond i raddau bychain, nid oedd lle i ddysgwyl llawer o gynorthwy oddiwrth eu cyd-drefedigion. Cawsant allan, pa fodd bynag, fod ystafell yn *North-street*, yn ngwaelod *Dale-street*, a allai wasanaethu eu hamcan dros ryw dymhor. Math o ystordŷ oedd yr ystafell, a ddelid gan ŵr a arferai letŷa crwydriaid, a gwibiaid cardotaidd, yr hwn a

* Necropolis.

adwaenid yn y dref wrth y llysenw, "*Merchant Billy*." Oddiwrth y llysenw hwn a roddwyd ar y gŵr y cymerwyd yr ystorfa ganddo, galwyd yr ystafell bob yn ychydig yn "*gapel Merchant Billy*," a'r bobl a ymgynullent iddi, yn "*bobl Merchant Billy*." Nid oedd dim ond cyfarfodydd cyhoeddus yn cael eu cynal yn yr ystafell wael hon; cynelid y cyfarfodydd eglwysig fyth yn nhŷ William Llwyd; ac felly i barhau, hyd nes yr adeiladwyd capel. Anrhydeddwyd yr ystordŷ gwael hwn, âg amlygiadau diymwad o bresenoldeb Duw, lawer gwaith; yr hwn, trwy hyny, a wiriodd yr hyn a addawsai, sef, "Yn mhob man y rhoddwyf goffadwriaeth o'm henw, y deuaf atat, ac y'th fendithiaf." Dygodd dystiolaeth i air ei ras, a chwanegwyd amryw at nifer y dysgyblion, tra y dyddanid ac y cyfnerthid eu meddyliau i fyned ymlaen gyda'r gwaith.

Wedi bod yn ymgynull am ysbaid tair blynedd yn yr ystafell ddigyfrif hon, cododd cŵyn trwm yn mysg y rhai a ymgynullent i'r lle, o herwydd ei waeledd a'i anghyfleusdra; a chryfhaodd yr awydd yn gyfatebol i gael addoldŷ gweddus a chyfleus. Yr oedd hyn yn y fl. 1787. Penderfynwyd gosod yr achos o flaen y brodyr yn Nghymru, ac erchi eu cynghor a'u cynorthwy. Gwnaed hyny, a derbyniwyd cŵyn y trueiniaid, ag oeddynt yn trigo yn mysg dyeithriaid gyda thosturi a chyd-ymdeimlad; a chynghorwyd hwy i brynu darn o dir yn nghwr uchaf *Pall Mall*. Ar ran o'r tir hwn, yn y flwyddyn grybwylledig, adeiladwyd capel bychan 11 llath ysgwâr, gan adael tua'r un faint o'r tir yn fuarth o'i flaen.

Yr oedd Mr. Charles, Bala, er ys blwyddyn neu ddwy cyn hyn wedi ymuno â'r Methodistiaid; a bu ei lafur a'i ddylanwad ef yn effeithiol i gasglu ar hyd Gwynedd y cyfryw swm a fu yn gymhorth mawr i'r brodyr yn y dref i gyfarfod â'r draul a ddisgynai arnynt. Yr oedd y tymhor hwn yn adeg bwysig ar Fethodistiaeth yn Liverpool. Yr oedd amryw o Gymry yn parhau i ddyfod i breswylio i'r dref, a rhai o honynt yn grefyddwyr; ïe, yn grefyddwyr da a sylweddol. Blwyddyn neu ddwy cyn agoriad capel Pall Mall y daeth gŵr ieuanc o ôf i'r dref, i weithio ei alwedigaeth, yr hwn, wedi hyny, a ddechreuodd bregethu i'r Cymry, ac a fu mewn undeb â dyn ieuanc arall o saer, yn ddefnyddiol i fyned â'r achos yn ei flaen. Y cyntaf oedd Mr. Thomas Edwards, a'r olaf oedd y Parch. Thomas Hughes; enwau tra adnabyddus i Fethodistiaid eu hoes, a pheraroglaidd eu coffa i'w holynwyr hyd heddyw. Cawn ddyweyd gair yn helaethach am y gwŷr hyn yn mlaen.

Tua'r amser yr agorwyd y capel daeth yma bregethwr i breswylio; y pregethwr cyntaf o Gymro a fu yma yn trigiannu erioed. Gwehydd ydoedd o Henllan, sir Ddinbych, John Davies wrth ei enw. Nid oedd y pregethwr hwn yn feddiannol ar ddoniau lawer, ond yr oedd o ysbryd rhagorol. "Gŵr duwiol a ffyddlon," y dywedir ei fod. Ac nid oes amheuaeth na fu ei lafur fel pregethwr, ac fel prif olygwr a henuriad yr eglwys, o werth tra mawr; yn ystod yr amser byr a roddwyd iddo ef fyw. Nid hir a fu y tymhor, oblegid cyn pen dwy flynedd, ar ol ei ddyfodiad i'r dref, y clafychodd i farw. Nid

oedd ond dyn gwanaidd o iechyd a chyfansoddiad ar y goreu. Hunodd yn dawel yn yr Iesu, yn y fl. 1789; a chladdwyd ei weddillion yn mynwent *St. Paul.*

Dengys y chwedl ganlynol pa fath oedd sefyllfa y crefyddwyr hyn, a pha fath oedd eu hysbryd, ar y pryd yr oedd capel Pall Mall yn cael ei godi. Er mwyn arbed pob traul a ellid ei arbed, ymroddai rhai o honynt i gludo y coed a ddefnyddid ato, ar eu hysgwyddau, o'r lle y llifid hwy i'r gwaith. Gwnaent hyn yn mrig yr hwyr, wedi rhoddi heibio eu gorchwylion eu hunain. Fel yr oedd tri o honynt, a John Davies y pregethwr, yn prysur gario y coed, cymerwyd hwy i fyny fel dyhiriaid, ag oeddynt yn lladrata eiddo nad oedd yn perthyn iddynt; a buant dros ryw enyd yn y ddalfa, hyd nes y cafwyd sicrwydd o'u diniweidrwydd.

Blwyddyn o *golled* ac o *ennill*, i Fethodistiaeth yn Lerpwl, a fu y fl. 1789. Blwyddyn y torodd angeu yr unig bregethwr ag oedd yn preswylio yn y dref, sef John Davies; a blwyddyn y dechreuodd dau ŵr ieuainc bregethu yn ei le. Y ddau hyn oeddynt Thomas Edwards, a Thomas Hughes; rhoddwyd prawf yn hyn, fel mewn aneirif amgylchiadau eraill, fod Pen yr eglwys yn fyw, a bod ei ofal ef am achos ei deyrnas yn parhau yn ddifwlch, a thrwy yr holl oesoedd.

Gŵr o sir Ddinbych, oedd Thomas Edwards. Ganesid ef yn Llaneilian-yn-rhos, yn y fl. 1756. Treuliodd ei febyd a'i ieuenctyd, fel y gellid dysgwyl iddo wneyd, mewn amser nad oedd dim moddion gras yn yr holl wlad; ac er iddo gael rhyw ychydig o hyfforddiant yn nghanghenau dechreuol dysgeidiaeth, eto ni chafodd un cyfarwyddyd yn y pethau a berthynent i fywyd tragwyddol; ond gadawyd iddo dyfu i fyny, fel ieuenctyd eraill ei wlad, yn berffaith anwybodus am Dduw, ac am drefn yr efengyl. Gôf ydoedd o ran crefft, ac ni arferai fyned i un math o addoliad, oddieithr yn achlysurol i eglwys y plwyf; ond gadawyd iddo ddilyn esamplau didduw ei oes, a thueddiadau ei galon lygredig ei hun, a hyny yn ddiwarafun, hyd nes ydoedd yn ddwy ar hugain oed. Yr oedd, bellach, wedi priodi, a'i wraig hithau oedd mor ddyeithr i grefydd ag oedd ef ei hun. Yn y fl. 1778, clywodd sôn fod gŵr i bregethu mewn man lled agos i'w gartref, fe allai mai y Bryngwyn, rhwng Abergele a'r Bettws, oedd y lle; a theimlodd awyddfryd i fyned yno, heb un amcan mewn golwg, ond boddhau ysfa chwilfrydig ei feddwl. Ond Duw a feddyliodd yn wahanol; yn yr oedfa hono, clywodd a phrofodd bethau cwbl ddyeithr iddo hyd hyny; ymaflodd argyhoeddiad yn ei gydwybod; llanwyd ei fynwes o fraw a thrallod; ac er ceisio myned allan ac ymysgwyd fel cynt, nid oedd dim yn tycio i roddi ymwared iddo o'i faich. Llawer noson a dreuliodd mewn wylofain, a'i orweddfa a wlychwyd â'i ddagrau. Ei wraig hefyd, yn lle cydymdeimlo ag ef, a chwanegai ei faich, trwy ei wawdio, ac edliw iddo ei fod yn ynfydu. Ond ei bytheiriau a ddrylliwyd o'r diwedd, a'i enaid a gafodd ryddid, trwy wrando ar bregeth gan y Parch. John Roberts, Llanllyfni y pryd hwnw. Pelydrodd goleuni i'w feddwl drwy ryw air a ddywedwyd nes torodd ef allan i lefain o wir lawenydd. Daeth adref i

Laneilian y noson hono, ond ni wyddai pa fodd; a chyrhaeddodd y tŷ dan ganmol â llef uchel; a pharodd hyn i'r wraig gwbl gredu ei fod yn wir anmhwyllog.

Yn ebrwydd bellach ymunodd â'r ychydig grefyddwyr a ddeuent at eu gilydd i'r Bryngwyn, tŷ a gyfaneddid, ar y pryd, gan hen grefyddwr, a berthynai i eglwys Tan-y-fron, o'r enw Thomas Roberts. O hyn allan fe'i cyfrifid gyda'r dysgyblion; ac fel hwythau, llafuriai i wrando pregethau yn mhob man o fewn ei gyrhaedd, tra y dyoddefai lawer o wawd oddiwrth ei hen gyfeillion annuwiol, ac yn fwy na neb, oddiwrth ei wraig ei hun; yr hon a ymffrostiai fod Thomas, bellach, yn goddef iddi ddyweyd a gwneyd a fynai iddo ac wrtho. Ei fwyneidd-dra, pa fodd bynag, a orchfygodd. Hithau hefyd a ennilliwyd cyn hir iawn, ac a wnaed yn gysur i'w gŵr ac yn harddwch i grefydd.

Nid oes genym ddim o'i hanes am ysbaid 7 neu 8 mlynedd ar ol iddo ymuno â'r Methodistiaid, sef hyd yr amser y daeth ef i Lerpwl i breswylio, yr hyn a ddygwyddodd yn y fl. 1785, neu 1786; ac yn y fl. 1789, fel y dywedwyd, dechreuodd bregethu. Yr oedd yn gweithio ei grefft ar y pryd mewn gefail angorion, lle yr oedd nifer o ddynion tra anystyriol yn cydweithio ag ef, y rhai a boenent ei enaid cyfiawn, o ddydd i ddydd, trwy wneyd gwawd o hono ef; ac yn fwy o lawer, trwy eu difriad o enw ei Dduw. Ond pan y'i difenwid, yr ydoedd yn bendithio; pan y'i herlidid yr ydoedd yn dyoddef, a phan y'i ceblid, yr ydoedd yn gweddio.

Ei gydweithiwr gyda'r achos crefyddol oedd Thomas Hughes, yr hwn, ar lawer cyfrif, oedd yn rhagori arno fel dyn ac fel pregethwr. Ganesid yr olaf yn y Bala, yn y fl. 1758, ac felly yr oedd yn ddwy flynedd ieuengach na Thomas Edwards. Cafodd ynteu radd o fanteision dysg yn elfenau darllen, ysgrifenu a rhifo; a dygwyd ef i fyny yn saer coed, yr un grefft a'i dad. Teimlodd rai argraffiadau crefyddol yn ei ieuengetyd, ond ni buont yn barhaus, ac ynteu a ymollyngodd i ddilyn difyrwch a champau ei gyfoedion, er ddarfod ei gadw rhag rhyw eithafion gwrthun y rhedai eraill iddynt. Yn nechreu y fl. 1782, pan oedd yn 24 mlwydd oed, tra yr oedd yn achlysurol yn arfer gwrando pregethu, dwyseiddiwyd yr argraffiadau crefyddol ar ei feddwl, a pharhausant i effeithio arno, fel na allai ymysgwyd oddiwrthynt, na chael un ymwared oddiwrth y baich ag oedd yn awr yn ei wasgu; ond ryw bryd, wrth wrando y Parch. Daniel Rowland, yn pregethu ar Ioan iii. 16, "Canys felly y carodd Duw y byd, &c.," dattodwyd ei rwymau; diangodd fel adeyrn o fagl yr adarwr. Ymunodd yn y fan â'r Methodistiaid yn y Bala, ac a fu yno hyd yr amser y daeth i Lerpwl i fyw, sef yn y fl. 1787, pan oedd tua 29 mlwydd oed. Nid oedd yn bwriadu aros yn y dref hon ond am dymhor byr; yn unig i berffeithio ei hunan yn ei grefft; eto yma yr arosodd dros weddill ei oes; gan brofi tystiolaeth yr ysgrythyr, "mai nid ciddo dyn ei ffordd, ac mai nid ar law gŵr a rodio y mae llywodraethu ei gerddediad."

Yn yr amser yr agorwyd capel Pall Mall yr oedd yr achos bychan a gwedd

obeithiol arno. Yr oedd y Cymry a gyfaneddai y dref yn dechreu ymgrynhoi i wrando; yr oedd ganddynt, bellach, le cyfleus i addoli; yr oedd nifer yr eglwys yn chwanegu beunydd; yr oedd gan y dysgyblion ddau bregethwr, gwir grefyddol yn aros yn eu plith; a deuai o Gymru amrywiol enwogion i ymweled â hwynt o bryd i bryd, fel nad oedd ar yr achos, mewn mesur, ddim yn eisieu. Yn fuan iawn bu raid helaethu y capel trwy osod oriel *(gallery)*, un ar bob pen iddo. Bu hyn tua'r flwyddyn y dechreuodd T. Edwards a T. Hughes bregethu; sef 1789, ac yn mhen dwy flynedd ar ol ei agoriad. Nid oedd hyn chwaith ond cychwyniad y gwaith da. Yn mhen deng mlynedd drachefn, bu raid helaethu y capel eilwaith, trwy gymeryd i mewn iddo y buarth ag oedd o'i flaen. Y tro hwn fe'i gwnaed i gynwys cymaint arall o wrandawyr ag a gynwysai gynt.

Yr oedd yr achos yn parhau i gynyddu fwy fwy. Yr oedd ffrwd y dyfodiaid i'r dref o'r dywysogaeth yn dal i gryfhau. Ac un peth ychwanegol a barai hyn oedd, fod darpariaeth bellach wedi ei wneyd gogyfer â'r rhai a deimlasant unwaith yn hwyrfrydig i ddyfod i'r dref, oddiar nad oedd ynddi ddim moddion i'r Cymry. Yr oedd y rhwystr hwn weithian wedi ei symud; yr hyn, ynghyd â lluosogiad y genedl yn gyffredinol, a barodd fod y Cymry yn amlhau yn y dref, gyda chyflymder tra mawr. Gwnaeth erlidigaeth yn Nghymru hefyd ei ran i chwyddo yr achos Methodistaidd yn Liverpool. Cafodd rhai a fu yn dyoddef gorthrymder trwm yn ngwlad ei genedigaeth, loches tawel yma. Eraill a yrwyd yma gan brofedigaethau bydol; rhai dynion da, wedi colli eu gwaith, a theuluoedd lluosog ganddynt, a fuont dan orfod i ymofyn am damaid o fara yn y llc prysur hwn; eraill a ddenwyd yma gan eu perthynasau, trwy addaw iddynt sefyllfaoedd gwell a chyflogau uwch. Yr oedd llongwriaeth y porthladd hefyd yn cynyddu yn ddirfawr bob blwyddyn; ac yn mysg eraill, ymwelai llawer o longwyr Cymreig â'r dref; yr holl achosion hyn, a llawer eraill, a gydweithredent er amlhau nifer y Cymry, a chryfhau yr achos crefyddol yn eu hiaith, o fewn y dref.

Diau fod llawer hanesyn dyddorol i'w gael, pe yr ysgrifenid ef am y dyfodiaid Cymreig a ddaethant o bryd i bryd i breswylio y dref fawr hon. Rhai a ddaethant yma mewn tlodi a than wasgfeuon trymion, ac a godwyd gan Ragluniaeth i urddas ac esmwythyd. Rhai a ddaethant yma yn wylltion a dibris, ond a ddaliwyd ac a ddofwyd gan ras yr efengyl; a rhai wedi methu cael llonyddwch gan eu huwchafiaid, i fwynhau rhyddid eu cydwybodau, gyda chrefydd, a gawsant yma aneddle lonydd. Ond ni oddef ein gofod, mwy na'n defnyddiau, i ni olrhain y cyfryw hanesion. Digon fydd i ni osod i lawr un hanesyn, fel engraifft o lawer.

Yr oedd llanc o ôf yn byw yn Eglwys-fach, sir Aberteifi, wedi ei ddwyn i fyny, fel lluaws o'i gyfoedion, mewn anwybodaeth perffaith am Dduw ac am ei achos tragwyddol ei hun. Yr oedd yn ei wlad wraig a elwid "Betti Llanon," yr hon a gymerai arni ddywedyd tesni i'r sawl a ymofynent â hi. Arferai y gôf, fel llawer eraill, yn enwedig meibion a merched ieuainc y wlad, fyned

ati; a phenderfynodd ef a gŵr ieuanc arall fyned ati, ar ryw Sabboth pen-odol. Ond cyn i'r Sabboth ddyfod, dygwyddodd daro wrth lyfryn bychan, dan y titl "*Cas gan Gythraul.*" Prif gynwysiad y llyfryn oedd ysgrythyrau yn dynoethi drwg a pherygl dewiniaeth. Ar ei waith yn darllen darnau o hono, brathwyd ei gydwybod; a dychryn tost a'i meddiannodd. Ond heb gymeryd arno lawer, gofynodd am fenthyg y llyfr, a chafodd hyny. Aeth tuag adref o'r tŷ fferm, lle y'i cawsai, gan ddywedyd wrtho ei hun, "Os yw y llyfr hwn yn wir, gwae fi! byddaf yn uffern, ni wn pa mor fuan! ond gobeithio mai y Methodistiaid sydd wedi ei ddyfeisio, er mwyn dychrynu dynion." Penderfynodd hefyd, y mynai efe ei gydmharu â'r Beibl pan elai adref. Ac yr oedd ganddo Feibl. Cydmharodd y llyfr a'r Beibl â'u gilydd; a chafodd, er dirfawr drallod i'w feddwl, fod pob gair ynddo yn ei le. Nid oedd dim yn ei olwg bellach ond uffern a dinystr; oblegid ar y pryd, ni wyddai gymaint a bod Gwaredwr yn bod! Y Sabboth a ddaeth, a'r cyfaill yn ffyddlawn i'w air a ddaeth hefyd. Dygasai gydag ef geffyl i'w bedoli, ac wedi hyny i'w cario at y ddewines.

Hysbysodd y gôf yn fuan i'w gyfaill yr hyn a welsai, a pha fath oedd ei deimladau. "Pw, Pw," ebe y cyfaill, "llyfr y Methodistiaid ydyw." Ewyllysiai ynteu gredu hyny ond ni feidiai; ond cytunodd y ddau, ei gydmharu â'r Beibl, a chawsant fod yr ysgrythyrau ynddo yn berffaith gywir. Gwelsant eu bod yn euog, a phenderfynasant ar unwaith losgi y cardiau; peidio myned mwyach at y ddewines, ac ymadael yn llwyr a thros byth â'u hen bleserau. Y nos a ddaeth, a'i dychrynfeydd gyda hi; breuddwydiodd y gôf fod y farn wedi dyfod; gwelai y Barnwr; a chlywai ei ddedfryd yn gorchymyn ei rwymo draed a dwylaw, a'i daflu i'r tywyllwch eithaf. Yna dychymygai ei fod yn canfod rhyw wrthddrychau, megys cysgodau yn nesâu ato. Deffrodd a neidiodd o'r gwely mewn braw annirnadwy, a syrthiodd ar ei liniau. Nid oedd ganddo weddi, ond yr oedd yn medru y Pader, a hon a adroddai drosodd a throsodd; ac ar ei liniau yr arosodd hyd y wawr dranoeth! "Pa fath bynag oedd y tro," meddai ef ei hun, "diflasodd Jack ar yr hen bethau am byth."

Yr oedd yn y gymydogaeth ychydig o Fethodistiaid, ond yr oedd eu hofn bellach wedi disgyn ar y llanc. Buasai gynt yn eu gwawdio, ac ofnai na siaradai yr un o honynt ag ef yn awr. Yr oedd un o honynt yn *brentis* y plwyf; tybiodd, ond odid, y gallai anturio nesâu at hwnw. Ond ar ei waith yn cyfarfod â hwnw, fe ganfu fod hwnw yn cilio oddiwrtho; ac er iddo alw ar ei ol, ni wrandawai, gan gwbl gredu mai o wawd y gwnai hyny. Pa fodd bynag, cafodd gyfleusdra i ymddyddan â'r wraig a arferai olchi ei ddillad iddo, i'r hon yr hysbysodd ei fwriad i fyned gyda hi dranoeth i'r capel. "Gwyn fyd na ddeuech," ebe hithau, "ond mi wn mai fy nhwyllo yr ydych;"—ond yr oedd Jack o ddifrif. Tranoeth fe aeth gyda hi i gapel Rhyd-y-felin, ger Aberystwyth; a bu hyn yn gychwyniad oes grefyddol i'r gôf o hyny allan.

Tra yr oedd yn ymwrando yn flinderog â theimladau ei fynwes, ac heb wybod yn iawn pa beth a wnai, daeth galwad arno oddiwrth ei dad, a'r *Steward* i ddychwelyd i'w fro genedigol; fod yno dŷ, a gefail, a gwaith iddo. Yn yr adeg yma fe briododdd. Yr oedd iddo, o'r lle newydd hwn, tua milldir o ffordd i Dre'r-ddôl, lle yr oedd capel gan y Methodistiaid, ac yn perthyn iddo ychydig o grefyddwyr tlodion iawn. Yn ebrwydd ar ei ddyfodiad, gosododd ei fryd i ymuno â hwy, ac aeth un diwrnod at ddrws y capel i'r dyben hwnw; ond dychryn a braw a'u rhwystrodd i mewn; felly hefyd yr ail waith; ond y drydedd waith anturiodd i mewn, heb wybod beth oedd yn ei aros. Cofiai ei bechodau gynt, a dysgwyliai fflangellau trymion gan y crefyddwyr, gan benderfynu dyoddef y cwbl; ond, yn groes i'w ddysgwyliad, cafodd dderbyniad parod a siriol, ac ynteu a ymunodd â hwy â'i holl galon.

Aeth y son am dano trwy yr ardal, a chyrhaeddodd y newydd i glustiau y *Steward*, a chynhyrfodd yn aruthrol. Anfonodd air i'r crefyddwr ieuanc, fod yn rhaid iddo ymadael â'i grefydd, neu ymadael â'i dŷ, a'r efail, a'r cwbl, a hyny heb ychwaneg o rybudd. Nid oedd dim i'w wneyd ond rhoddi ei ddodrefn yn ebrwydd mewn ysgubor; ymadawodd â'r tŷ a chollodd ei waith, a bu yn galed ar y ddau dros ryw enyd. O'r diwedd gwerthasant yr ychydig eiddo, a chyfeiriasant eu camrau i'r dref hon. Yr oedd hyn yn y fl. 1800, yn mhen blwyddyn ar ol ail helaethu capel Pall Mall. Cafodd y gôf waith yn ebrwydd, ac yn fuan dangoswyd iddo ffafr gan ei feistr, trwy ei osod yn arolygwr ar y gwaith, a bu yn y gwasanaeth hwn am 24 o flynyddau; ac yn yr ail le, fe fu am 17 o flynyddau, mewn ymddiried a pharch. Ennillodd ei le hefyd gyda'r brodyr crefyddol. Cadwodd gyffes ei obaith yn ddisigl. Gosodwyd ef yn drysorydd cyffredinol y cyfundeb yn y dref, yr hon swydd a ddaliodd, hyd nes bu raid gan henaint ei gynorthwyo trwy osod un arall i weithredu drosto. Jack y gôf, ydyw yr hybarch John Lloyd, *Ray-st.*

Tua'r amser y daeth Mr. John Lloyd i'r dref, sef tua dechreu y ganrif bresenol, yr oedd angenrheidrwydd yn galw am agor lle arall i'r Cymry i addoli, yn nghŵr deheuol y dref. Felly, cymerwyd ystafell helaeth yn *Jamaica-st.*, i'r dyben hwnw, yr hon oedd tua milldir a hanner neu fwy, oddiwrth gapel Pall Mall, tua'r pen deheuol o'r dref. Wedi bod dros ychydig flynyddau yn ymgynull yn yr ystafell, bernid fod yr amser a'r gynulleidfa yn galw, ar fod capel yn cael ei adeiladu. Gwnaed hyn yn y fl. 1805, yn *Bedford-st.* Yr oedd hwn yn gapel eang, yn 18 llath wrth 15eg.

Yr oedd 23 o flynyddau bellach wedi treiglo heibio er yr ysgogiad cyntaf yr achos Cymreig yn Lerpwl, hyd yr amser yr adeiladwyd ail gapel y Methodistiaid yn *Bedford-st.* Yn ystod y blynyddau hyn yr oedd pregethwyr yn dyfod trosodd o'r Gogledd a rhai o'r Deheudir, i weinidogaethu i'r Cymry; a hyny gyda llawer o ddiwydrwydd a ffyddlondeb. Ond nid oedd neb ond offeiriaid eglwys Loegr a allai weinyddu y sacramentau, o fedydd a swpper yr Arglwydd. O'r gweinidogion hyny nid oedd yn Ngwynedd ond Mr. Charles a Mr. Lloyd, y ddau o'r Bala; ac anmhosibl oedd i'r ddau hyny gy-

flenwi angen y cyfundeb yn Ngwynedd oll a threfydd Lloegr hefyd. I gyfarfod â'r diffyg hwn, o leiaf dros ryw dymhor, trefnwyd i'r aelodau eglwysig fyned gyda'u gilyd i eglwys *St. James*, lle yr oedd hen ŵr tra syml a duwiol yn weinidog y pryd hwnw, o'r enw Mr. Wise. Yma, gan hyny, yr âi llawer o'r Methodistiaid bob mis i gyfranogi o swpper yr Arglwydd, a hyny dros gryn amser. Ac wedi marw Mr. Wise, aent drachefn i'r un dyben i *Christ Church*, lle yr oedd gŵr duwiol o'r enw Mr. Shirley yn gweinidogaethu. Wedi iddo ef symud o Liverpool, nid aeth y Cymry i un lle arall, allan o'u lleoedd eu hunain i ymarfer â'r sacramentau.

Yn y fl. 1816, dewiswyd Mr. Thomas Hughes gan gorff yr holl eglwys yn y dref i gael ei ordeinio i weini yr ordinhadau arwyddol. Y pryd hyn, ac am flynyddau lawer ar ol hyn, nid oedd y dewisiad hwn yn disgyn ond ar nifer bychan o bregethwyr; a hyn mae'n debyg oedd un rheswm paham na alwesid ar y ddau frawd henaf fel y'u gilydd, at hyn o orchwyl. Yr oedd gwahaniaeth mawr rhwng y ddau, a meddiannai un ragoriaethau na feddai y llall. Yr oedd T. Hughes yn rhagori llawer o ran ei wybodaeth duwinyddol, treiddgarwch ei olygiadau, gwastadrwydd ei dymher, a chadernid ei benderfyniad. Llefarai lawer mewn ffordd o adeiladu yr eglwys, a chan yr eglwys y gwerthfawrogid ei weinidogaeth yn fwy na chan y gwrandawyr cyffredin. Yr oedd T. Edwards yr ochr arall yn llawn mor boblogaidd gyda'r gynulleidfa gyffredin; ac yr oedd ei ddull o bregethu yn fwy agos, ac yn fwy awelog. Tybid fod ynddo radd o blentynrwydd ac anwastadrwydd tymher, ac felly nid oedd yn sefyll mor uchel yn ymddiried yr eglwys ag oedd T. Hughes; a chan y bernid, na ellid galw ond un o'r ddau i weinyddu y sacramentau, yr oedd yn naturiol i'r dewisiad ddisgyn ar T. Hughes. Treuliodd Thomas Edwards ei oes, pa fodd bynag, yn llafurus a ffyddlon iawn. Yr oedd yn meddu llawer mwy o ysbryd cyfeillgar a rhydd, a mwy o awydd a chymhwysder, i dori allan i leoedd anial a newydd, nag y feddiannai ei gydweithiwr. Pregethai Thomas Edwards gryn lawer yn mysg y Saeson, er nad oedd ond sais digon trwsgl; eto gan mor fywiog ei ysbryd, a chan urioned ei amcan i wneuthur daioni, perchid ef yn fawr gan y Saeson, a' hoff fyddai llawer o honynt o'i wrando. Ymwelai yn fynych â'r Saeson yn Warrington, Runcorn, a Chaer. Rhoddai dro yn fynych i wahanol ardaloedd y Goror; pregethai yn Saesonaeg bob wythnos yn nghapel *Bedford-st.*, yn mlynyddau olaf ei fywyd. Meddai un am dano, "Byddai rhyw darawiadau hedegog, uchelaidd, a thra ardderchog, yn ei areithiau yn fynych, ag oedd yn llenwi meddyliau ei wrandawyr â syndod, ac yn eu rhwymo i wrando yn astud arno." Efe oedd y pregethwr cyntaf o'r Methodistiaid, a ymwelodd â goror Clawdd Offa, a hyny rai blynyddau cyn ffurfio y Gymdeithas Genadol Gartefol. Mae ei goffadwriaeth yn barchus hyd heddyw, yn mysg ei gydnabod, Saeson a Chymry; ac nid oes amheuaeth na fu ei weinidogaeth yn fendithiol i lawerodd. Bu farw mewn heddwch yn Mai 26, 1825, yn 69 mlwydd oed. Yn ei anghladd pregethodd y Parch. Dr. Raffles, yr hwn oedd yn ei fawr hoffi, yn nghapel

Bedford-street, ar y geiriau, "Stephan, gŵr llawn o ffydd ac o'r Ysbryd Glân,—A gwŷr bucheddol a ddygasant Stephan i'w gladdu, ac a wnaethant alar mawr am dano."

Yn yr un flwyddyn ag y dewiswyd Thomas Hughes i gael ei ordeinio, sef 1816, prynwyd hen dai cysylltiedig â chapel Pall Mall, a thynwyd y capel yn llwyr i lawr, ac ail-adeiladwyd ef i gyd o'r newydd, ac yn llawer helaethach. Ac er ei fod, bellach, yn adeilad eang yn 21 wrth 14½ llath o faintioli, gydag oriel helaeth ar ei dair ochr, ac yn llawn o eisteddleoedd; ac er fod y capel arall helaeth yn y pen arall i'r dref, eto cymerwyd yr holl eisteddleoedd yn y capel newydd, a hyny cyn dydd ei agoriad. A buan iawn, gan lawned ydoedd, a chan gynifer oedd yn ymofyn am le i eistedd, y gwelwyd yr angenrheidrwydd am *drydydd* capel. Yn y fl. 1824, gan hyny, cymerwyd capel yn *Great Crosshall-st.*, yr hwn a adeiladasid gan y Bedyddwyr, ag oedd ar y pryd ar werth. Cytunwyd ar brynu hwn, ond gan y cyfododd dadl yn mysg rhai o'r ymddiriedolwyr ynghylch ei werthiad i neb ond i Fedyddwyr, fel nad ellid cael eithaf sicrwydd am hawl iddo, gollyngwyd ef drachefn i'r Bedyddwyr, a phenderfynwyd ar godi capel cwbl newydd. Hyny a wnaed yn *Roseplace*. Agorwyd hwn ar ddydd Gwener y Croglith yn y fl. 1826. Costiodd yr addoldŷ hwn £2,100.

Yn fuan ar ol adeiladu y capel hwn daeth i'r dref hon, yn gyntaf i'r ysgol, ac wedi hyny yn arosol, y Parch. Richard Williams. Yr oedd eisoes wedi bod yn Wrecsam yn yr ysgol, ac oddiyno daeth i'r dref hon. Gŵr ganedig ydoedd o Lanbrynmair, mab i bregethwr yno o'r un enw. Dechreuodd bregethu pan yn 20 mlwydd oed, a bu yn llafurio yn gyhoeddus yn y weinidogaeth am ysbaid 20 mlynedd; y 15 olaf o honynt a dreuliodd yn Liverpool. Priododd ferch y Parch. T. Hughes, â'r hwn a bu yn cydlafurio am ysbaid byr; wedi hyny nid oedd ond efe ei hun a Mr. John Jones, gynt o *Castle-st.*, wedi eu gadael ymhlith y Methodistiaid, yn bregethwyr arosol yn y dref. Ordeiniwyd Mr. Richard Williams yn y Bala, yn y fl. 1835, ac o hyny hyd at yr amser y galwyd am y Parch. Henry Rees i ddyfod yma i breswylio nid oedd gweinidog arall gan y Methodistiaid o fewn y dref. Gwanaidd ei iechyd ond grymus iawn ei feddwl oedd y Parch. R. Williams. Llafuriai lawer yn y weinidogaeth, ac ysgrifenai lawer hefyd. Mae y llyfr a gyhoeddodd dan yr enw "Y Pregethwr a'r Gwrandawr," yn brawf diymwad o nerth ei gynneddfau, a manylrwydd ei ymchwiliad. Bu farw mewn cysur buddugoliaethus yn y fl. 1842, yn 40 mlwydd oed.

Yn y fl. 1830 y dechreuodd Mr. John Roberts, gŵr ieuanc ganedig yn y dref hon bregethu; yr hwn, trwy ddiwydrwydd a llafur canmoladwy, a gadwodd yr iaith Gymraeg; yr hwn hefyd sydd bellach er ei chychwyniad yn ysgrifenydd y Genhadaeth Dramor, a berthyn i'r cyfundeb.

Tua'r fl. 1836-37, y daeth y Parch. Henry Rees i'r dref i breswylio, ac yn y fl. 1838, daeth ysgrifenydd hyn o hanes yma. Nid hir ar ol hyny daeth Mr. Joseph Williams yma i drigiannu.

Parhaodd yr achos i fyned rhagddo. Yr oedd y dref yn parhau i gynyddu mewn maintioli a phoblogaeth; yr oedd y Cymry hefyd yn lluosogi yn y dref yn barhaus. Gwelwyd angenrheidrwydd yn fuan i agor lle newydd mewn rhan o'r dref yn nes i'r gogledd, yn *Oil-st.*; ac wedi bod yno yn addoli am ryw gymaint o amser, penderfynwyd ar agor lle helaethach, nid yn mhell o'r un gymydogaeth. Felly adeiladwyd y pedwerydd capel yn y dref, sef capel *Burlington-st.* Tua'r un amser dechreuwyd ysgolion Sabbothol, un yn *Windsor*, a'r llall yn *Pembroke-st*; y ddwy mewn rhanau dwyreiniol o'r dref; ac yn mhen ychydig amser gwelwyd angenrheidrwydd ymofyn am le yn nghymydogaeth y ddau le hyn, i adeiladu arno; lle gallai y ddwy gynulleidfa gydgyfarfod. Ymosodwyd at y gorchwyl yn egniol, ac adeiladwyd y pummed capel, sef capel *Mulberry-st.* Gwnaed hyn yn y fl. 1841. Dylesid dyweyd fod dau gapel wedi cael eu hadeiladu yr ochr draw i'r afon yn y cyfamser, sef capelau Birkenhead a Seacome. Adeiladwyd y cyntaf yn 1837 a'r olaf yn 1838. Wele, bellach, yn Liverpool, ac mewn cysylltiad â'r achos Cymreig yno, saith o gapelau, a phedwar o'r rhai'n wedi eu hadeiladu rhwng y blynyddau 1837 ac 1841. Agorwyd capel *Burlington-st.*, yn Nghorphenaf, 1839. Ac nid hyn oedd y cwbl, gan yr helaethwyd capel *Bedford-st.* yn y fl. 1841 yn chwanegol at y lleill.

Mewn tref o'r fath ag ydyw hon, lle y mae yr iaith Saesonaeg yn ffynu cymaint, ni ellid dysgwyl na fyddai llawer o blant y Cymry yn tyfu i fyny yn Saeson llwyr, a rhai eraill yn well Saeson na Chymry. Parai hyn i rai ymofidio yn ddwys, wrth weled rhai teuluoedd yn ymranu, y rhan ieuengaf yn myned at y Saeson, a'r rhan henaf at y Cymry. Yr oedd hyn yn anfanteisiol i'r cyfryw deuluoedd; a pharai iddynt yn fynych ddymuno fod lle Saesonig i addoli gan y Methodistiaid yn y dref; fel os byddai raid newid yr iaith, na fyddai dim rhaid newid y cyfundeb hefyd. Yr oedd llawer un yn ein cynulleidfaoedd, yn mysg y meibion a'r merched, wedi priodi i deuluoedd Saesonig; ond yn dadgan, ar yr un pryd, pe buasai genym le Saesonig i addoli yn y dref, mai i hwnw y dewisasent ddyfod. Hefyd, yr oedd cryn nifer o deuluoedd allan o'r Gororau, Trefaldwyn a Fflint, o bryd i bryd, yn parhau i ddyfod i'r dref i aros dros dymhor, neu i breswylio yn arosol; yr oedd y rhai'n hefyd yn cwyno yn drwm eu colled. Ac er fod yma luaws o leoedd Saesonig yn gyfleus iddynt, eto, nid oeddynt, ar gyfrif egwyddor neu deimlad, yn gallu nesu atynt; a llawer un o ddiffyg gallu cartrefu yn un man arall, yn myned yn llwyr ar ddisperod. Yr ystyriaethau hyn a'u cyffelyb a barent fod y priodoldeb o gael capel Saesonig yn y dref, yn ymwthio yn awr ac eilwaith i sylw; ond yr oedd cryn wrthwynebiad yn parhau i'r fath anturiaeth, a haerid yn gryf mai esgeulusdra y teuluoedd i ddwyn eu plant i fyny yn Gymry oedd wrth wraidd yr holl anghyfleusdra.

Pa fodd bynag, anturiodd rhai o wŷr ieuainc, a berthynent i gynulleidfa *Bedford*, gymeryd ystafell, nid yn mhell oddiwrth y capel, a phenderfynu talu ei hardreth eu hunain, er mwyn agor ysgol Sabbothol i'r plant gwylltion ac

anwar, ag oeddynt yn filoedd yn chwareu ar hyd yr heolydd : llwyddasant hefyd uwchlaw eu dysgwyliad. Casglwyd i'r ysgol hon bob math; rai gwylltion, budron, carpiog, ac anwybodus. Trwy lafur, diwydrwydd, ac amynedd, gwareiddiwyd llawer arnynt oll, a dygwyd rhai i brofi awdurdod y gair ar eu cydwybodau, ac i ymostwng o'u bodd iddo. Cyn hir fe gasglwyd yma gynulleidfa a chymdeithas eglwysig; ac ymddangosai fod daioni mawr yn cael ei wneuthur. Syrthiodd gradd o'r rhagfarn a ddangosid gynt yn erbyn sefydliad o'r fath; a barnwyd yn ddoeth, wedi rhai blynyddoedd o brawf yn yr ystafell yn *Hill-street*, adeiladu capel, lle y gallai y gynulleidfa gael mantais o gyfleusdra gwell i addoli, a lle helaethach i wahodd eraill iddo. Agorwyd y capel hwn, sef y chweched gan y cyfundeb yn y dref, yn haf y fl. 1853.

Mae amryw wedi dechreu pregethu yn y dref hon yn mysg y Methodistiaid, ar ol y Parchn. T. Hughes a T. Edwards. Yma y cychwynodd y Parch. William Hughes, yn awr o Wrecsam, ar ei yrfa weinidogaethol; felly hefyd, Mr. John Jones, Tithebarn-Street, yr hwn a fu dros rai blynyddau yn llafurio gyda'r Annibynwyr, ond a ddychwelodd er ys rhai blynyddoedd yn ol at y Methodistiaid. Ac fel y dechreuodd yn eu cyfundeb hwy, felly y terfynodd ei oes; a hyny yn dra disymwth, pan yn dychwelyd adref, ar foreu dydd Llun o Wrecsam, lle y buasai y dydd o'r blaen yn pregethu. A'r hyn sydd yn hynodi y tro yn fwy ydyw, ei fod wedi cael ei arwain, a hyny yn groes i'w amcan dechreuol, i bregethu y dydd o'r blaen, ar y gair, "Amser fy ymddattodiad i a neshaodd." Bu farw yn ngherbyd y rheilffordd, mewn ychydig o fynydau, ar ol iddo eistedd ynddo. Yr oedd Mr. Jones yn ŵr call, yn gristion profiadol, ac yn bregethwr tra sylweddol.

Yma y dechreuodd Mr. T. P. Jones bregethu, yr hwn sydd, bellach, yn preswylio yn nghwr sir Fflint. John Davies oedd un arall a gododd yma: gŵr gwael ei iechyd a gwanaidd ei lais ydoedd; ni fu nemawr oddicartref, a chan hyny ni ddaeth i amlygrwydd cyffredinol. Rhoes brawf diymwad, yn ystod y 15 mlynedd y bu ef yn pregethu, o ysbryd gwir gristion; un a fynai wneuthur daioni, er ei fod yn llafurio dan anfanteision lawer. Bu farw ynghanol ei ddyddiau, yn 43 ml. oed, yn y fl. 1853. Yn y dref hon hefyd y dechreuodd un Mr. John Parry, yr hwn sydd yn aros heddyw, a Mr. Joseph Jones, yr hwn sydd wedi symud oddiyma yn ddiweddar i Wrecsam i breswylio.

Dylid sylwi hefyd fod dau gapel Saesonig gan y Methodistiaid mewn ardal o'r enw Scarisbrick, lle y mae achos wedi ei gychwyn bellach er ys blynyddau, a hyny trwy lafur a than nodded yr eglwys yn Liverpool. Yr un modd y gellir crybwyll Garston; lle o fewn pump neu chwech milldir i'r dref hon o'r tu dehau iddi; lle y mae achos bychan wedi ei gychwyn yn lled ddiweddar. Mewn cysylltiad â Liverpool yn fwyaf uniongyrchol y mae y ddau gapel sydd genym yn Runcorn; heblaw hyn oll, cynelir pregethu mewn rhan neu yn hollol mewn tri lle arall, sef un yn *Bootle*, tua dwy filldir oddiwrth gwr gogleddol y dref; un arall yn *Prince Edwin-street*, o fewn y dref, yn Saesonig; a'r llall yn Crewe tua 40 milldir o'r dref ar ffordd Llundain.

Yn awr y mae saith o bregethwyr yn trigannu yn y dref, a thua 30 o ddiaconiaid. Y mae nifer yr aelodau o'r ddwy ochr i'r afon yn ddwy fil neu fwy, "Mor gadarn y cynyddodd gair yr Arglwydd ac y cryfhaodd!" Ddeng mlynedd a thriugain yn ol, nid oedd ond rhyw gwmwl bychan megys cledr llaw gŵr yn ymddangos ar awyr Fethodistaidd Lerpwl; o hyny hyd yn awr disgynodd yma lawer o gawodydd bendith. Nid oes amheuaeth na ddaeth cannoedd, os nad miloedd rai, i wybodaeth y gwirionedd, trwy lafur yr eglwys Fethodistaidd yn y dref hon, o'r dechreuad hyd awr. Dylid addef, ar yr un pryd, fod llawer sydd yn cyfansoddi y canghenau eglwysydd hyn, wedi eu hennill at grefydd cyn dyfod yma; ac felly mae llwyddiant crefydd yn Nghymru, yn enwedig yn Ngwynedd, yn troi allan yn llwyddiant i eglwysi Liverpool; trwy fod ffrwd gref o ddyfodiaid yn dylifo iddi yn barhaus. Nid oes genym nemawr i'w ddyweyd am ryw adfywiadau cynhyrfus wedi bod yma er ys blynyddoedd lawer. Dywedir wrthym y bu gradd o gyffro, y fath a welid gynt yn Nghymru, yn y dref hon, tua deugain mlynedd neu ychwaneg yn ol; ond ni ellir cyfeirio at un adeg neillduol o'r fath yn ysbaid y 40 mlynedd diweddaf.

Ni ddylid celu, pa fodd bynag, nad yw Seion yma ddim yn ddieppil. Prin y mae Sabboth yn myned heibio heb fod rhyw rai yn ymgais am aelodacth eglwysig; ac yn achlysurol, fe fydd y nifer yn lluosog. Dros flynyddau lawer bellach y mae yn achos o ddiolchgarwch diffuant, fod yr holl eglwysi sydd yn yr undeb, yn mwynhau cymaint o frawdgarwch a hedd; yn enwedig wrth ystyried fod yma ddynion o bob gwlad, gwahanol eu dygiad i fyny, a thra amrywiol yn eu sefyllfaoedd, ac yn eu teimladau. Ac nid heddwch marwolaeth mo hono ychwaith: mae perffaith dawelwch yn ambell eglwys, am fod yr holl aelodau *wedi cytuno i gysgu*; ond trwy drugaredd, nid felly y mae yma hyd yn hyn. Da fyddai fod y weinidogaeth yn fwy ei hawch, yr argyhoeddiadau yn fwy dwfn, crefydd ysbrydol yn fwy ffynadwy; ar yr un pryd, dangosir yma lawer o ddiwidrwydd yn y gwaith, haelioni mawr at achos yr efengyl, a chysonedd ac egni gyda phob rhan o waith y cysegr.

PENNOD II.

HANES MANCHESTER.

Dechreuodd yr achos crefyddol cysylltiedig â'r Methodistiaid yn Manchester, oddeutu y fl. 1788, ryw bum' mlynedd neu chwech ar ol ei gychwyn yn Liverpool. Nid oedd Manchester y pryd hwnw, ond bechan a distadl wrth y wedd sydd arni yn awr. Yn yr adeg grybwylledig, nid oedd nifer yr addoldai a gynwysai oddiar *ugain*, yn awr y maent yn 150. Eto, nid yw y nifer hwn, er yr ymddengys yn fawr, ddim yn ddigon gogyfer a diwallu angen pedwar can' mil o drigolion.

Mae sail i feddwl mai ychydig iawn oedd nifer y Cymry a gyfaneddent y dref hon y pryd hwnw, a'r ychydig hyny oeddynt, oll ymron, yn isel eu hamgylchiadau; a chan mwyaf yn ddyeithriaid i grefydd, "heb obaith ganddynt ac heb Dduw yn y byd."

Y gŵr a fu yn offeryn i roddi cychwyniad i Fethodistiaeth yn y dref hon oedd un Edward Jones. Brodor ydoedd o Fôn, ac a fuasai yn ymdaith am beth amser yn Liverpool. Yr oedd y gŵr hwn a gair da iddo am ei grefydd, ac yn sefyll yn uchel yn nghyfrif y frawdoliaeth yno. Wrth weled ei blant yn lluosogi, a deall fod y gweithfeydd cottwm yn Manchester yn llëd fywiog, efe a farnodd y gallai ei blant ddyfod yn gynt i ennill cyflog, a chynal eu hunain yno, nag yn Liverpool; am hyny, penderfynodd symud yno gyda'i deulu. Ond pan yr hysbysodd hyn i'w hen frodyr yn Lerpwl, bu aruthr ganddynt ei fod yn llochi y fath fwriad; honent mai oddiar wrthgiliad ysbryd y cyfodai, a cheisient ei ddarbwyllo i roddi heibio y meddwl o adael y lle, yr oedd yn mwynhau breintiau crefyddol, ac anturio i le y byddai raid iddo fod yn ymddifad o honynt. I hyn yr atebai ynteu, "Pwy a ŵyr na allaf fod yn offeryn i grynhoi cynulleidfa o Gymry yn Manchester? a chychwyn achos crefyddol yn ein hiaith ein hunain yno?"

Pa fodd bynag, symud i Fanchester a wnaeth. Wedi bod yno dros ryw ychydig amser, yn nghanol estron-genedl, ac yn gwbl ymddifad o'r breintiau a fwynasai gyda'r fath hoffder gynt, teimlai chwerwder y daroganiad a draethasid gan ei frodyr yn Lerpwl. Yr oedd hiraeth am fwynhau y breintiau hyny ymron a'i lethu: ond yr oedd yn rhy ddiweddar, bellach, i droi yn ol. A chan nad oedd wedi cyfarfod â dim siomedigaeth mewn pethau tymhorol, meddyliodd mai yr unig beth a ddylasai wneuthur, oedd ymosod at y gwaith o gychwyn achos cyffelyb yn Manchester ag a adawsai yn Lerpwl, yn unol â'i amcan blaenorol. Felly dechreuodd ymholi a oedd dim Cymry yn y dref? Os ydoedd, ai ni ellid eu crynhoi at eu gilydd, i ryw dŷ neu ystafell i gyd-addoli y Duw a'i gwnaeth, ar ddydd yr Arglwydd, a hyny yn eu hiaith eu hunain.

Fel yr oedd un diwrnod yn cerdded yr heol, gwelai wraig a gwisg o wëad Cymreig am dani; a chan dybied oddiwrth hyny mai Cymraes ydoedd, efe a dorodd ati i ymddyddan, a deallodd yn ebrwydd mai cywir a fuasai ei dyb. Hithau a'i cyfarwyddodd at ei gŵr, Robert Owen, gwaith yr hwn oedd gofalu am geffylau mewn ystabl, a'u porthi. Gwahoddodd Edward Jones y ddau, sef Robert Owen a'i wraig, i ddyfod i'w dŷ ef yn *Pump-street*, y Sabboth canlynol, i gyfarfod gweddi Cymraeg. Felly y gwnaethant, a chyda hwy yr oedd rhyw ychydig ychwaneg o nifer; a hwn oedd y cyfarfod crefyddol Cymreig cyntaf erioed, mae'n debyg, a fu yn Manchester. Anhawdd ydyw myned heibio i'r amgylchiad hwn, heb ganfod prawf ychwanegol o'r syniad, fod canlyniadau mawrion yn aml yn codi o gychwyniad bychan. Fel y mae y dderwen gref yn codi o'r fesen fach;—fel y mae yr afon ddofn, yn cychwyn o'r ffynnon fâs, felly y mae teyrnas Crist. Mae yr hedyn mwstard yn tyfu yn

bren mawr; a'r gareg a dorwyd, nid â llaw, yn myned yn fynydd mawr, ac yn llenwi yr holl ddaear.

Yn fuan ar ol y Sabboth crybwylledig, daeth o hyd i ychwaneg o Gymry, un John Pritchrad a'i deulu, Simon Llwyd a'i wraig, yn nghydag un Robert Williams, am yr hwn y dywedir, mai gŵr lled ffraeth ydoedd, "a'i fod yn chwenych y blaen yn eu plith." Yr ychydig nifer hyn a'u teuluoedd oeddynt ymron y cwbl a gyfarfyddent dros beth amser ar y Sabbothau, yn nhŷ Edward Jones. Symudodd y gŵr hwn cyn hir o *Pump-street* i *Duke-street George's-road;* a symudai y cyfarfodydd gydag ef. Ambell dro caent fenthyg capel bychan a berthynai i Fedyddwyr Seisonig, yr hwn a elwid y *Cold House.* Wedi bod dros dymhor yn cyfarfod â'u gilydd fel hyn i ddarllen, canu, a gweddio, ond heb neb i'w dysgu nac i bregethu yr efengyl iddynt, cytunwyd ar i Edward Jones ysgrifenu deisyfiad am i ryw bregethwr o Gymru ymweled â hwy, a chyfranu iddynt air y bywyd. Ond cyn iddo wneyd eu cais, barnodd yn addas anfon at eu hen frodyr i Liverpool, i'w hysbysu pa beth a wnaethai, a pha olwg oedd ar yr ysgogiad; gan osod allan awyddfryd yr ychydig Gymry i gael clywed pregethu yr efengyl yn yr iaith a ddeallent. Darllenwyd llythyr Edward Jones yn Liverpool yn y cyfarfod eglwysig; a llawen iawn oedd gan y cyfeillion yno glywed y newydd. Yr oedd William Davies o'r Golch, ger Treffynnon, yn dygwydd bod yn Liverpool ar y pryd, ac yn clywed y llythyr yn cael ei ddarllen. Teimlodd awydd arno gydsynio â'r cais, a chynygiodd ei wasanaeth. Derbyniwyd ei gynygiad yn llawen, ac annogwyd ef i fyned. Yr oedd hi yn llawer mwy o beth myned o Lerpwl i Fanchester y pryd hwnw nag ydyw yn awr; ond yno, pa fodd bynag, yr aeth yr hen wŷdd tlawd, y Cymro cyntaf erioed a anturiodd i Fanchester i bregethu. Wrth edrych ar yr ysgogiad, y pryd hwn, parod fyddai syniad cig a gwaed, i ddyweyd am danynt fel Sanbalat am yr Iuddewon gynt, "Pa beth y mae y Cymry gweiniaid hyn yn ei wneuthur?" Mae eu nifer yn fychan a'u hamgylchiadau yn isel. Mewn ystafell ddisylw y maent yn cyfarfod, ac os cyfarfyddent mewn capel un benthyg fydd hwnw. Gwŷdd tlawd disylw ydyw y pregethwr. Pa beth a ellir ddysgwyl oddiwrth y fath gychwyniad. Y cyfryw oedd yr amgylchiadau, mae'n wir; ac ar yr amgylchiadau yn fynych yr edrych dynion fwyaf, "ond Duw a edrych ar y galon." Gwelai gariad diffuant yn y fynwes dan yr ymddangosiad o dlodi;—canfyddai yn y trueiniaid hyn y peth a ganmolid gan yr Iesu yn y wraig a dywalltasai yr enaint ar ei ben ef, ac am yr hon y dywedai, "Hyn a allodd hon hi a'i gwnaeth." Os oedd y bobl yn dlodion, a'u lle cyfarfod yn wael, yr oedd yno syched am air y bywyd, ac eneidiau yn deheu am bresenoldeb Duw. Os oedd y pregethwr yn greadur na thybiai y byd ddim yn werth sylw, eto yr oedd eiddigedd yn ei fynwes dros ogoniant Duw, a chyfraith gwirionedd yn ei wefusau. Pregethodd y bregeth gyntaf ar noson waith yn nhŷ Edward Jones, a'r Sabboth canlynol yn y "Cold House." Y testyn cyntaf oedd Salm xxxiii. 9: "Canys efe a ddywedodd ac felly y bu, efe a orchymynodd a hyny a safodd."

Ymhen ychydig amser, ymunodd un Thomas Prys, gŵr o Adwy'r-clawdd, â hwy; a gŵr arall, o'r enw Griffith Lewis. Cynelid y cyfarfod eglwysig, y pryd hwn, yn nhŷ Edward Jones, gan yr hwn yr oedd tri o blant, un mab a dwy ferch,* y rhai a fyddent yn bresenol yn y cyfarfodydd; o leiaf hyd y pryd hwn. Pa fodd bynag, pan yr archwyd cael gan Griffith Lewis air o'i brofiad, efe a wrthodai ddyweyd dim tra y byddai y plant yn cael eu goddef i fod yn bresenol. Yr oedd Edward Jones yn ddyn pwyllog a llariaidd, ac yn hytrach nag y cai ei blant fod yn rhwystr i neb, efe a'u harweiniodd i'r llofft uchaf *(garret)* yn y tŷ; ac yn ystod y cyfarfodydd dilynol, caniatâi iddynt fyned allan i'r heol, dros enyd, er mai nos Sabboth ydoedd. Deallid, bellach, nad oedd caniatâd i neb ddwyn eu plant gyda hwy i'r cyfarfodydd eglwysig, ond arweiniodd hyn, un teulu i brofedigaeth lem. Cyn hir ar ol yr amgylchiad uchod, pryd y gwrthodwyd y fraint i'r plant, ymunodd â hwy ŵr a gwraig grefyddol, o'r enw Owen ac Elizabeth Hughes, gan y rhai yr oedd rhyw nifer o blant. Tra yr oedd y tad a'r fam un noson yn y cyfarfod eglwysig, aeth geneth iddynt, oddeutu 10 ml. oed, i chwareu gerllaw y Dyfr-ffos *(canal)*, ac yn ddamweiniol hi syrthiodd iddi, a chyn y gellid ei chael allan, yr oedd yr eneth bach wedi boddi!

Yr ail bregethwr a ddaeth i ymweled â'r praidd bychan hwn, yn yr anialwch estronol, oedd Robert Prys, Plas-winter, gerllaw Rhosesmor, sir Ffiint. Cadwyd yr oedfa y pryd hwn yn *Tickle-street*, mewn *garret* yno; nid oedd yn yr oedfa hon ond 12 neu 15 o wrandawyr. Symudodd Edward Jones yn lled fuan o *Pump-street*, i *Blakeley-street*, a chyd âg ef symudodd yr achos crefyddol hefyd.

Yn mhen enyd o amser daeth gŵr o'r enw William Owen, gôf o ran ei grefft, i fyw i'r dref, o gymydogaeth Amlwch. Dywedir fod y gŵr hwn ac Anne ei wraig yn "ofni yr Arglwydd yn fwy na llawer." Yr ydym yn dyfalu fod yr achos Cymreig wedi dechreu yn y dref tua phum' mlynedd cyn dyfodiad William Owen iddi, neu cyn ei osod ef yn ddiacon ar y gymdeithas eglwysig. Yn y fl. 1812, yr oedd wedi ymadael o Manchester, ac yn trigiannu yn Ngwrecsam, cyn iddo ymsefydlu yn ei blwyf, Llandegai; plwyf a ennilliasai trwy wasanaethu ei amser yno fel gwyddorwas. Y William Owen hwn, tybygid, oedd y blaenor gosodedig cyntaf a fu gan y Cymry yn Manchester. Yr oedd ei wraig yn cael ei hystyried yn fwy awelog na'i gŵr, ac enwedig yn moreu ei chrefydd; ac nid anfynych hi a dorai allan i ganu, moliannu, ïe, a neidio. Drylliai ei thymerau yn llymaid wrth wrando am gariad Crist, ei ddyoddefiadau a'i angeu; a rhoddai arllwysiad i'w theimladau, weithiau, mewn lleoedd tra annghyuefin â'r fath afreolaeth. Pan oedd hi yn cartrefu yn Môn, arferai hi, fel y Methodistiaid gan amlaf, yn ei hamser, fyned

* Enw y mab oedd Evan Jones, yr hwn a fu ar ol hyn yn flaenor ffyddlawn, dros lawer blwyddyn. Mary oedd enw un o'r merched, yr hon oedd fam i Mr. Isaac Hughes, cenhadwr i Affrica; a'r llall oedd Elizabeth, gwraig Owen Jones, yr hwn a fu yn pregethu yn y dref dros dymhor, ac a ymfudodd i America.

i gymuno i eglwys y plwyf; ac ar weinyddiad y swper santaidd, hi dorai allan, nid yn anfynych i ganmawl y Gwaredwr yn gyhoeddus, er dirfawr boen i'r offeiriad. Un tro pan y dygwyddodd yn y modd yma, gorchymynodd y person i'r clochydd gymeryd yr efail gŵn ati, a'i gyru allan, neu ynte rhoddi taw arni. Ond gan nad oedd hyn yn tycio gwysiwyd hi i ymddangos o flaen yr esgob, pryd y gosodwyd hi ger ei fron; cyfarchodd ei arglwyddiaeth hi yn lled sarug, gan ddyweyd, "Maent yn achwyn dy fod yn gwaeddi ac yn neidio yn yr eglwys santaidd, fel dynes orphwyllog; rhaid i ti beidio gwneyd y fath beth eto, onide bydd raid i mi dy gosbi."

I hyn yr atebai hithau, "Rhaid iddynt hwythau beidio son am Grist ynte."

"Beth! ai gwallgof wyt ti?" gofynai yr esgob.

Hithau a atebai yn yr hen ddarn pennill canlynol:—

"Maent yn dyweyd ar hyd y frô,
Mae meddw 'wyf, neu o fy nghô,
Dwy 'n amheu dim nad medd-dod yw,
Ar felys win o seler Duw."

Ac ar hyn dechreuai guro ei dwylaw, a neidio, a moli Duw, yn ngŵydd yr esgob a'r holl foneddigion, nes oeddynt oll wedi eu meddiannu gan syndod, ac yn barod i ofyn pa beth á ddichon hyn fod? Yr esgob, pa fodd bynag, a'i gyrodd hi ymaith yn lled gwta, gan sicrhau iddi os dygid hi i'w ŵydd drachefn, dan yr un cyhuddiad, y cosbid hi yn ddiarbed. Yn fuan ar ol hyn symudodd hi a'i gŵr i Fanchester. Bu fyw i oedran mawr, a bu farw yn Nghymru, yn agos, os nad yn llawn can' mlwydd oed.

Y pregethwyr a ymwelent â Manchester, tra y cynelid y moddion dan gronglwyd Edward Jones, yn *Blakeley-st.*, oeddynt William Davies, Golch; Mr. Ellis, Wyddgrug; William Lewis, Môn; John Richards, Bryniog,* ger Llanrwst; Edward Watkin, a Dafydd Cadwaladr. Yn y cyfnod yma y daeth un Thomas Ogden i fyw i'r dref, yr hwn oedd yr ail ddiacon a fu yn gweini y swydd yn mhlith y Cymry.

Tua diwedd y fl. 1792, cymerwyd y *garret* yn *Tickle-street, Deansgate;* ac yn mis Tachwedd, y flwyddyn hono, y bu Mr. John Evans, Bala, yn pregethu yno. Yn yr un cyfnod daeth John Davies, Nantglyn, yma; a than bregeth o'i eiddo ar Esay i. 18, yr hon oedd dan lewyrch rhyfeddol, y dygwyd Elizabeth, merch Edward Jones, i blygu ei gwddf i iau yr Iesu. Oddeutu yr adeg yma hefyd, y daeth un Hugh Jones a'i deulu, i'r dref i fyw. Gŵr o gymydogaeth Amlwch oedd hwn, ac efe oedd y trydydd a fu yn gwasanaethu swydd blaenor i'r eglwys Gymreig yn y lle.

Wedi eu bod yn ymgynull yn y *garret* grybwylledig, am ysbaid blwyddyn neu fwy, fe'u tröwyd allan o honi, dan yr esgus eu bod yn gwneuthur gormod o gyffro, ac yn cadw gormod o sŵn; felly bu raid iddynt ymofyn am le

* Nid y John Richards cyntaf a fu yn Bryniog, ond yr un a fu yn byw yn Rhuddlan, yn niwedd ei oes.

arall. Daethant o hyd i ystafell dan ryw weithdŷ (*cellar*) yn ngwaelod *Portland-street*. Yn yr ystafell hon y bu William Davies, Golch, yn llefaru, ar ei drydydd ymweliad â'r dref; ond wedi ei oedfa ef ar fore Sabboth, clöwyd y lle i fyny, ac ni chaniateid iddynt fyned yno mwy. Buont dros beth amser ar ol hyn, yn cynal moddion eilwaith, yn nhŷ Mr. Edward Jones; ond yn agos i ddiwedd y fl. 1793, rhoes gŵr, o'r enw Mr. Hugh Williams, gwneuthurwr *oil cloth*, fenthyg ystafell iddynt o'i fasnachdŷ ef. Yr oedd hon yn sefyll, yn nghymydogaeth *Piccadilly*; ac edrychid ar yr amgylchiad o gael yr ystafell hon yn bwysig, gan y caed gan Mr. Charles, Bala, ddyfod trosodd ar ei hagoriad. Er hyny, nid cysurus iawn oedd yr ystafell, fel y gellid dysgwyl, gan gymaint y drygsawr a gyfodai oddiwrth yr olew-lïeiniau; nid oedd yr ystafell chwaith i'w chael ond bore a phrydnawn Sabbothau. Bernid mai rhy beryglus fyddai ei defnyddio pan fyddai raid wrth ganwyllau, rhag y damweiniai tân ymgymeryd ynddi. Y nosweithiau, gan hyny, cyfarfyddent mewn gwahanol dai, yn ngwahanol barthau o'r dref; lleoedd y byddai rhai o'r cyfeillion crefyddol yn aneddu. Yr oedd Mr. Williams, yn dangos cryn garedigrwydd at yr achos Cymreig yn ei wendid, trwy ei fod yn rhoddi benthyg yr ystafell yn rhad; a phan y dygwyddai fod pregethwr yn y dref ac yn pregethu yn yr ystafell, fe'i gwahoddai yn garedig i'w dŷ ac at ei fwrdd. Yr oedd ymweliadau pregethwyr â'r dref, yn y cyfnod hwn, yn anaml iawn. Byddai y Cymry, weithiau, fis, neu ddau, neu dri, ïe, buont gymaint a chwe' mis olynol, heb gael un bregeth; yr hyn a effeithiai, o angenrheidrwydd, yn dra niweidiol ar yr achos yn ei eiddilwch. Ai y bobl ieuainc ar y Sabbothau, naill ai i wrando ar y Saeson, neu i rodiana yn segur'i gŵr y wlad, neu ynte i gyfarfod â'u gilydd i yfed a chwedleua i'r tai tafarnau; ac nid oes amheuaeth na chollwyd llawer yn y modd hyn, o rai y gwelwyd unwaith arwyddion tra gobeithiol arnynt.

Ond er mor anfynych ac anghyson y byddai pregethu yn y *warehouse*, ac er cynifer a aeth ar ddisperod oblegid hyny; eto, pan clywai eraill o'r Cymry fod yno bregeth, hwy ymdyrent yno yn lled gryno; a rhyfeddol y grym a'r awdurdod a gyd-gerddai â'r weinidogaeth. Pan y ceid oedfa hefyd, yr oedd hi yn effeithiol iawn, yn talu, megys am yr wythnosau, neu y misoedd llymion a aethent heibio. Yr oedd mwy o at-dyniad yn y weinidogaeth i ddenu, nag oedd o wrth-darawiad yn nrygsawr y *warehouse* i darfu. Mae ambell un eto yn fyw, ag sydd yn cofio Robert Roberts, Clynog, yn pregethu ynddi, ar ddydd Nadolig, yn y fl. 1794, pan y cyfarchai y gynulleidfa gyda dwysder ofnadwy, gan lefain, "O bobl, ai rhaid oedd i mi ddyfod yma o Gymru, i'ch gwneyd yn fwy aeddfed i dân uffern!" Gyda'i gyfarchiad cerddai y fath ddylanwad ag a feddiannai bob mynwes â braw; teimlai y rhai caletaf eu bod megys yn ngŵydd y Barnwr; ofnent fod uffern yn ymeangu, ac yn agor ei safn yn anferth; a chwilient, mewn dychryn gwyllt, am ryw loches i ddianc iddi.

Yn haf y fl. 1795, daeth Mr. Charles yma drachefn; a'r tro hwn annogai y Cymry i gychwyn ysgol Sabbothol yn y dref. Yr oedd hyn mewn amser yr

ydoedd cryn wrthwynebiad, yn mysg yr hen bobl, i'r fath sefydliad; eto llwyddodd Mr. Charles, gyda rhyw nifer, i geisio ei chychwyn. Fel hyn y mae ysgol Sabbothol gan y Cymry yn Manchester er ys llawn 60 mlynedd. Dechreuwyd hi mewn *garret* yn *Jersey-street*, yn nhŷ un John Richards, gŵr o Ddolgellau; tuag wyth neu ddeg oedd nifer ei deiliaid ar y dechreu; ac un Evan Jones, gŵr a aeth wedi hyny i Germani, oedd eu hathraw cyntaf; a John Ellis, Abermaw, oedd y gŵr a fu yn gyntaf o neb yn eu holwyddori yn gyhoeddus. Ond nid llawer o lewyrch a fu ar yr ysgol am ysbaid pedair neu bum' mlynedd, a hyny, gan mwyaf, o herwydd y rhagfarn a lochesid gan yr hen bobl tuag ati. Ni chaniateid ei chadw yn yr un ystafell ag y byddid arferol o addoli; nac i neb golli dim moddion eraill er ei dal i fyny. Hi fu yn dyhoeni yn nychlyd, gan hyny, dros gryn dymhor, sef hyd nes y daeth syniadau ei phleidwyr i drechu ei gwrthwynebwyr. Ac o'r fl. 1800 hyd yn awr, y mae wedi ennill tir yn rhyfeddol.

Tua diwedd y fl. 1796, cymerwyd hen ystordŷ yn *York-street* dan ardreth, i gynal moddion ynddo. Y cyntaf a fu yn pregethu yn yr ystafell hon, oedd William Evans, Aberffraw; a hyny yn Hydref, 1796. Yr oedd y lle hwn yn llawer mwy cyfleus a chysurus nag un lle a fuasai gan y Cymry o'r blaen, yn y dref; a'r canlyniad fu i'r gynulleidfa luosogi yn gyfatebol; ac yn fuan daeth yr ystordŷ hwn drachefn i fod yn rhy gyfyng i gynwys y gwrandawyr. Yn ystod y tair blynedd y bu y Cymry yn ymgynull yn yr ystafell hon, cafwyd rhai o'r pregethwyr amlycaf y dywysogaeth i ymweled â'u brodyr yma; a bu eu gweinidogaeth dan arddeliad tra nodedig; ac nid anfynych y byddai y fath awdurdod gyda'r gwirionedd, ag a barai i bawb deimlo, ac i rai roddi arllwysiad i'w teimladau mewn mawl a gorfoledd. Yr oedd uffern a'i hoffer yn ymgynhyrfu hefyd; ymosodwyd ar y trueiniaid fel gwrthddrychau gwawd a sarhad; a bu raid iddynt ymofyn am nawdd y gyfraith wladol i'w hamddiffyn rhag trais yr erlidwyr.

Tra yr oeddynt yn addoli yn y lle hwn, ymwelodd y Parch. John Evans, New Inn, â hwy; yr hwn, wrth ganfod fod y gynulleidfa a ddaethai ynghyd yn llawer mwy nag a gynwysai yr ystafell, a archodd ar y bobl fyned allan i'r heol, ac y pregethai efe iddynt yn yr awyr agored; gwnaethant felly. Safai y pregethwr ar y grisiau, i gyfarch y gwrandawyr; ac wrth ddeall fod yno nifer o Saeson tuag ymylau y dorf, fel yn clustfeinio ai ni allent gael achles yn erbyn y cyfarfodydd dyeithr hyn, efe a droai i'w cyfarch yn yr iaith a ddeallent. Hwythau, bellach, a nesasant i wrando, gan arwyddo drwy eu hastudrwydd, eu bod yn cael eu boddhau yn fawr. Ar ddiwedd y cyfarfod, rhoes Mr. Evans emyn Saesonaeg allan i'w ganu, a chanfyddwyd, am y tro cyntaf erioed, Gymry a Saeson, yn cyd-ganu yn hyfryd, fawl i Waredwr dynion.

Fel yr oedd nifer y dysgyblion yn lluosogi yn y dref, yr oedd eu hymddifadrwydd o weinyddiad bedydd a swper yr Arglwydd, yn cael ei deimlo yn fwy, fel anghyfleusdra a cholled drom; ac ar ddyfodiad Mr. Charles i ymweled â hwy, tua'r fl. 1797, bu edrych i mewn i'r achos hwn, gyda golwg ar

wneuthur y diffyg i fyny. Mewn canlyniad i'r drafodaeth hon, ymddyddanodd Mr. Charles ag un Dr. Bailie, gŵr parchedig yn gweini ar y pryd yn eglwys *St. James*, gan ofyn iddo a fyddai efe mor garedig a gweinyddu swper yr Arglwydd ar amserau i'r gynulleidfa ymddifad. Cydsyniodd yntau i wneyd; a gwnaeth hyny amryw weithiau; ond ar y pummed neu y chweched tro, torodd un Sarah Green allan i foliannu; a meddiannwyd rhyw nifer o rai eraill â'r un ysbryd. Yr oedd hyn yn olygfa na welsai y Dr. erioed ei chyffelyb; meddiannwyd ef â math o ddychryn, a gwrthododd ddyfod atynt drachefn, gan haeru fod yr ymddygiad yn dynodi gorphwylldra trwm, ac yn aflonyddwch mewn addoliad na ellid ei oddef. Ar ol hyn, cyflenwid y diffyg hwn gan un Mr. Lewis, gweinidog Annibynol, a symudasai i Fanchester o Wrecsam. Gŵr crefyddol iawn a dysgedig oedd Mr. Lewis, ac a fu yn athraw yn athrofa yr Annibynwyr yn Ngwrecsam dros flynyddau, ac yn weinidog yn Mhen-y-bryn, yn y dref hono. Ar ei ol ef, caed gan un Mr. Johnson, gweinidog eglwys *St. George*, *St. George's-road*, ddyfod atynt i'r un dyben. Ar un achlysur o'r fath, pan oedd yr hen frawd Thomas Edwards, Lerpwl, gyda hwy, ymollyngai y cyfeillion i ganu gyda gwresogrwydd rhyfeddol, y pennill canlynol:—

"Ni chollwyd gwaed y groes, erioed er dim i'r llawr;
Ni ddyoddefwyd angeu loes, heb ryw ddybenion mawr:
A thyna oedd ei amcan ef,
Ein dwyn o'r byd i deyrnas nef."

Sylwai yr offeiriad ar wresogrwydd anarferol y canu, a chan droi at Thomas Edwards, gofynai, "Atolwg, Mr. Edwards, pa beth y maent yn eu ganu, gyda'r fath ddwys deimlad?" Atebodd yntau yn y fan; ac yn gwbl ddifyfyr:—

"The blood upon the cross, was never spilt in vain;
The pangs of death were borne, some worthy end to gain;
And his chief end and purpose was,
From earth to heaven to let us pass."

Ac yna, wedi amneidio ar y gynulleidfa am osteg, efe a atolygai arnynt ganu y geiriau Saesonaeg, er mwyn y gweinidog. Felly y gwnaethant, ac yn y gân yr ymunai yr offeiriad mor wresog a neb o honynt.

Yn y flwyddyn 1797, anfonwyd Robert Owen yn genad dros y gymdeithas eglwysig, i gymdeithasfa y Bala, i ofyn yn ostyngedig a thaer am gynorthwy eu brodyr yn Nghymru i gael capel yn Manchester. Yr oedd yr achos, bellach, wedi cynyddu cryn lawer, a chryn ffrwd o ddyfodiaid yn barhaus ddyfod o Gymru i breswylio i'r dref, er mwyn cael gwaith, a'r angenrheidrwydd am le helaethach, a mwy cyfleus i addoli yn dwyshau yn feunyddiol. Dechreuasid sôn am gapel er ys blynyddau cyn hyn, a chasglesid peth arian tuag ato; ond ni ddaeth yr amcan i aeddfedrwydd hyd yn awr. Pan y gosododd y genad yr achos o flaen y brodyr yn y Bala, gofynodd John Evans iddo, pa

un ai capel erbyn amser cyffredin, ai anghyffredin, oedd arno eisiau? Atebodd yntau, "Erbyn amser anghyffredin;" gan argoeli ei fod ef yn dysgwyl pethau mawr yn Manchester; a chafodd fyw, medd yr hanes, i weled yn y dref bethau mwy nag a ddysgwyliasai. Nid un capel gan y Cymry, ond *chwech*, rhwng pob enwad; a thri o honynt yn perthyn i'w enwad ei hun, a welodd efe cyn iddo ymadael â'r byd. Llwyddodd, pa fodd bynag, yn ei gais gyda'r brodyr yn Nghymru; a phenderfynodd y gymdeithasfa i'r brawd Robert Roberts, Clynog, fyned drwy ranau o'r Deheudir, i gasglu at y draul; ac i Mr. Richardson, Caernarfon; a Mr. Charles, Bala, fyned trwy y Gogledd, pob un ei ran, ar yr un neges. Casglwyd yn y Deheudir £92, ac yn y Gogledd £106; fel hyn, erbyn dechreu y fl. 1799, yr oedd agos i £200 mewn llaw. Daeth Mr. Charles a John Evans, gan hyny, i'r dref, yn Chwefror y flwyddyn hono, i gynorthwyo y brodyr mewn ffordd o rwyddhau yr amcan. Sicrhawyd darn o dir, a gosodwyd y gwaith i Mr. T. Hughes, Lerpwl, i'w ddwyn ymlaen; a chaed gan un Mr. Barker, masnachwr cyfrifol yn y dref, arolygu yr adeilad. Gosodwyd y gareg sylfaen gan y gŵr hwnw yn Ebrill, 1799; ac agorwyd ef yn mis Tachwedd yr un flwyddyn, pryd y pregethodd Mri. Robert Jones, Rhos-lan; Robert Roberts, Clynog; T. Charles; a John Elias, yr hwn oedd yn ddiweddar wedi dechreu pregethu. Dyma'r capel cyntaf, mae'n debyg, a fu gan y Cymry erioed yn y dref, sef capel *Oak-st.*

Ychydig cyn agoriad y capel hwn, yn hytrach, tua'r amser y gosodwyd ei sail, y dychwelodd Mr. John Parry, Caer, i Gymru, wedi bod yn Manchester am chwe' mis yn yr ysgol. Yn ystod yr amser hwn, bu cryn adfywiad ar y gwaith; a phriodolid hyny, i fesur mawr, i wasanaeth a defnyddioldeb Mr. Parry. Nid oedd, mae'n wir, ond dyn ieuanc 23 mlwydd oed; ac nid oedd ond blwyddyn neu ddwy er pan ddechreuasai bregethu; ac ni fu ei arosiad yn y dref ychwaith, ond chwe' mis; eto rhoddwyd gradd o ysgogiad i'r achos trwy ei offerynoliaeth. Ymddengys ddarfod i Mr. Parry gael drws mawr a grymus yn eu mysg; bu unwaith yn ymadroddi am dair awr, a hyny dan y fath ddylanwad, fel nad oedd ganddo ef na'i wrandawyr un dychymyg am yr amser; ac ymddengys hefyd, ddarfod iddo lawn fwriadu dyfod i'r dref i drigiannu, ond ddarfod ei luddias gan amgylchiadau.

Yn fuan ar ol ymsefydliad y gynulleidfa yn *Oak-st.*, yn eu capel newydd, dygwyddodd yn eu mysg amgylchiad tra hynod. Mae yn ddigon adnabyddus fod y Cymry, fel pob cenedl prin ei manteision, a chyfyng ei gwybodaaeth, yn dra ofergoelus; ac yn neillduol felly cyn cyfodiad yr ysgol Sabbothol, a sefydliad eu breintiau crefyddol; yr oedd rhai ofergoelus o'r fath yn mysg y dyfodiaid yn Manchester; ac i borthi y naws ffol, cymerai ambell hen fenyw arni ddywedyd eu tesni i'r ieuenctyd. Arferid rhybuddio yr aelodau crefyddol, yn ddwys a mynych, yn erbyn y fath oferedd penchwiban; a chynghorid y gynulleidfa yn gyhoeddus i roddi heibio "y pethau gweigion yma," ac i ochel y fagl a osodai y gwrachod hyn i'w dal. O'r diwedd, dygwyd cyhuddiad gan ryw ferch ddibroffes yn erbyn hen wraig, a ddaliai berthynas â'r

eglwys, ei bod yn arfer dywedyd tesni *yn y gwpan dê;* ac yn derbyn arian am hyny! Yn y fan gosodwyd ymchwiliad ar droed; ac wedi i William Owen y diacon, a brodyr eraill, gael lled sicrwydd fod y cyhuddiad yn gywir, galwwyd yr hen wraig ymlaen i ateb i'r achwyniad. Yr oedd dwy ferch gerllaw, wedi eu dwyn i'r cyfarfod eglwysig, i'r dyben o ddwyn tystiolaeth yn ei herbyn, y rhai a gyd-ddywedent ddarfod iddi ddywedyd eu tesni hwy, a derbyn tâl am hyny. Ond yr hen wraig a haerai mai anwiredd a ddygid yn ei herbyn, a bod tystiolaeth y ddwy ferch yn berffaith gau; ac ychwanegai, "Os gwnaethum y fath beth, na fydded i mi siarad gair byth mwy!" Ac fel yr oedd y geiriau rhyfygus yn disgyn dros ei gwefusau, hi syrthiodd ar lawr y capel mewn math o lewyg; dadebrodd yn raddol o'r llewyg, ond yr oedd ei lleferydd wedi ei golli, ac yn fud y parhaodd hyd ddydd ei marwolaeth! Enghraifft ofnadwy o farn Duw yn erbyn rhyfyg a chelwydd—ond nid y gyntaf; anhawdd ydyw peidio galw Gehazi i gof, ynghyd ag Ananias a Saphira, wrth ddarllen yr hanes.

Er mwyn dangos pa helyntion a gyfarfu â'r achos Cymreig yn y ddinas fawr hon, gellir crybwyll amgylchiad arall, yr hwn a ddygwyddodd yn ystod arosiad y gynulleidfa yn *Oak-st.* Ar ryw adeg gyffrous ar y werin, pryd yr oedd Manchester dan lywodraeth filwraidd *(martial law)*, cyhoeddwyd rhybudd swyddol, fod yn rhaid i'r holl breswylwyr fod yn eu haneddau erbyn rhyw awr benodol yn yr hwyr, a hyny dan berygl dirwy neu gosb. Damweiniodd, un noson, fod y diaconiaid a rhai o'r brodyr wedi aros yn y capel ryw enyd ar ol i'r aelodau ymwasgaru, ar ryw achos neu gilydd, perthynol i'r eglwys. Canfu y milwyr oleuni yn y lle, a chyrchent yn brysur ato; a chan guro wrth y drws dywedent fod yn rhaid iddynt gael dyfod i mewn. I mewn y daethant, a dechreuasant ysbio pa beth a allasai fod yn myned ymlaen yn y lle. Daethant ar draws llyfr yr eglwys, lle yr oedd enwau yr aelodau, a swm eu haddunedau at gynal y weinidogaeth yn eu plith. Llyncasant y dyb yn y fan fod rhyw *glwb* gwladol, perthynol i'r *Jacobins*, yn cael ei gynal yn y lle; cipiasant y llyfr, a bygythiasant gymeryd y dynion i garchar. Ond wedi peth ymresymu, boddlon fuont i'w gollwng, ar ol cymeryd enw a chartref pob un, a thystio eu bod yn rhwym o ymddangos o flaen eu huwchafiaid ar ryw awr benodol dranoeth. Ymddangos a wnaeth y brodyr, a gosodwyd hwy dan arholiad manwl a haerllug; a rhaid fu cael rhai o fasnachwyr cyfrifol y dref, i ardystio mai pobl ddiniweid oeddynt, cyn y dychwelwyd iddynt y llyfr, ac y gollyngwyd hwythau at yr eiddynt.

Bu y gynulleidfa yn defnyddio capel *Oak-st.* am 25 o flynyddau; ac erbyn y fl. 1824, yr oedd nifer yr eglwys a'r gynulleidfa wedi lluosogi cymaint, fel yr oedd eu pabell wedi myned yn rhy gyfyng iddynt, a rhaid oedd ymofyn am estyn cortynau eu preswylfeydd. Penderfynwyd, gan hyny, werthu capel *Oak-st.* i gynulleidfa o Fedyddwyr Seisnig, am £1,000; ac yn ei le adeiladwyd capel llawer helaethach yn *Cooper-st.*, yr hwn a agorwyd ar ddydd Nadolig, yn y fl. 1824. Costiodd yr adeilad hon £1,800. Ar yr un pryd ag

yr ymgynullid i'r capel newydd hwn, cedwid ysgol Sabbothol, cyfarfodydd gweddio, a phregethu achlysurol, mewn ystafell eang yn lled agos i'r capel a werthasid; ac er mwyn y gynulleidfa ag oedd wedi ymgrynhoi yno, prynwyd capel o'r diwedd gan y Wesleyaid Seisnig, yn *Lees-st.*, yr hwn a agorwyd ar y Sabboth cyntaf o'r fl. 1836; a defnyddiwyd y capel hwn am ysbaid 14 o flynyddau, a ffurfiwyd yma ail ganghen eglwys, mewn cysylltiad â'r fam eglwys yn *Cooper-st.*

Yn y fl. 1832, adeiladwyd y trydydd capel Cymreig, perthynol i'r cyfundeb yn Manchester. Codwyd hwn tua milldir i'r gogledd o *Cooper-st.*, ac yn *Salford.* Agorwyd hwn yn Mawrth, 1833; a chynaliwyd pob moddion yn rheolaidd ynddo, hyd onid aeth yn rhy fychan ac anghysurus; felly bu raid adeiladu un mwy yn *Rigley-st.* Mae hwn yn dŷ hardd a helaeth, a chostiodd, ynghyd a'r tŷ anedd cysylltiedig, yn agos os nad yn gwbl £2,000.

Tua'r fl. 1848, barnwyd yn angenrheidiol wneuthur ysgogiad ychwanegol. Barnai llawer o'r cyfeillion nad oedd y capel yn *Lees-st.*, a brynasid gan y Wesleyaid, ddim yn adeilad digon cref i fod yn gwbl ddiberygl i barhau yn hir i'w defnyddio; a than yr argraff yma fe'i gwerthwyd eilwaith, a phrynwyd hen gapel *Oak-st.* yn ol; a symudodd y gynulleidfa iddo gyda chryn ychwanegiad at ei rhifedi. Y flwyddyn ganlynol, hefyd, penderfynwyd ymofyn am le arall i ymgynull ynddo, heblaw y prif gapel yn *Cooper-st.* Yr achos o hyn oedd, fod ystordai uchel a mawrion yn cael eu hadeiladu o amgylch iddo, ac yn ei wneyd, gan drwst y fasnach, yn anghysurus i gynal moddion ynddo ar ddyddiau yr wythnos; ac yr oedd pob argoel y cynyddai yr anghysur o flwyddyn i flwyddyn. Ymhen ychydig amser ar ol cychwyn yr ymchwiliad, cafwyd allan fod capel a adeiladesid tua phum' mlynedd yn ol gan Ysgotiaid perthynol i'r *Covenanters*, ar werth. Wedi edrych i mewn i deilyngdod y cynyg, penderfynwyd prynu y capel hwn yn gystal a gwerthu yr hen. Mae y capel newydd hwn mewn lle iachus a chyfleus ar y ddinas, sef *Grosvenor square*, ac yn adeilad helaeth a hardd; ac yn cael ei lenwi â chynulleidfa luosog. Fel hyn, o radd i radd, y mae yr achos Cymreig perthynol i'r Methodistiaid Calfinaidd, yn y ddinas fawr hon, wedi cynyddu llawer er y dechreuad. Bychan iawn oedd ei gychwyniad, yn y fl. 1788, a graddol ac araf a fu ei gynydd dros lawer blwyddyn; yn awr, pa fodd bynag, er pob anfantais sydd iddo fel achos Cymreig yn nghanol Saeson, ac er pob rhuthr a fu arno, y mae yn dair mintai. Mae yn perthyn iddo rai teuluoedd o ddylanwad a chyfrif; mae yn gysylltiedig âg ef Ysgolion Sabbothol, yn y tri chapel; mae y tai addoliad, bellach, trwy ffyddlondeb a haelioni tra chanmoladwy yn ddiddyled; a dau bregethwr yn trigiannu yn y dref.* Cafodd Methodistiaeth Manchester ei faethu dan nawdd enwogion Cymru, yn enwedigol enwogion Gwynedd. Heblaw yr hen dadau ffyddlawn, o ddoniau

* Parch. Owen Jones, Wyddgrug, gynt; a Mr. T. C. Evans.

bychain, megys William Davies, Golch; a Robert Prys, Plas-winter; a'u cyffelyb; rhoes Mr. Charles a John Evans, Bala, eu haden drosto. Cafodd ei ddyfrhau â gweinidogaeth danllyd Robert Roberts, Clynog. Dros lawer o flynyddau bu ymweliadau cyson Mr. Elias yn adgyfnerthiad iddo; prin y gellir enwi un o sêr dysgleiriaf Gwynedd, yn ystod yr hanner canrif diweddaf, na chafodd achos y Cymry yn Mancenion, raddau o'u llewyrch. Bu yma lawer Paul yn planu, ac Apolos yn dyfrhau, eto Duw yn ddiau a roddes y cynydd.

Cododd yn yr eglwys hon amrywiol bregethwyr, y rhai a fuont mewn mesur mwy neu lai yn wasanaethgar yn eu tymhor. Un o honynt oedd y Parch. Robert Griffiths, yr hwn a aeth, trwy rym amgylchiadau, at y Saeson; ac am ddim a glywsom i'r gwrthwyneb, sydd eto yn gweini i efengyl Duw, gyda pharch mawr, yn swydd *Lancaster*. Yma hefyd y dechreuodd Mr. John Roberts, Bettws-Abergele, bregethu; hefyd Mri. John Evans, Joseph Williams, yn awr o Liverpool; Richard Jones, brawd y Parch. Moses Jones, sir Gaernarfon; a T. C. Evans, yr unig un o'r holl feibion a fagodd sydd yn aros yn awr yn y dref. Bu yma amryw eraill yn trigiannu dros dymhor; megys Mri. Rowland Davies; John Hughes, Treffynnon; William Williams; Robert Williams, Aberdyfi, yn awr; ac un Owen Jones, yr hwn a ymfudodd i America. Yn ychwanegol at y cwbl, bu yma amryw eraill, yn aros dros dymhor byr, wedi dyfod yma naill ai i ymofyn dysgeidiaeth, neu iachad meddygol; ac oll yn cyfranu yn ol eu medr at amaethiad yr achos crefyddol. Un o wŷr ieuainc Manchester hefyd ydyw y Parch. William Lewis, cenadwr yn Mryniau Cassia; ac un a fagwyd yma ydyw Mr. Isaac Hughes, yr hwn a aeth flynyddau yn ol i Affrica, dan aden Cymdeithas Genadol Llundain; yn olaf, er nad y lleiaf a fagwyd yma, ydyw y Parch. John Parry, athraw yn athrofa y Bala. Ni oddef ein gofod cymaint ag enwi y diaconiaid a fu, ac y sydd eto, yn gwasanaethu yn ffyddlawn yn ol eu dawn; ac er fod arnom ŵylder enwi un heb enwi y cwbl, eto, maddeuir i ni, feallai, grybwyll enw un, sydd yn awr wedi ei osod er ys hir amser yn y briddell; ond a fu dros flynyddau lawer yn ffyddlawn a doeth, yn gwasanaethu swydd diacon; sef Mr. Evan Jones, mab i'r Edward Jones a fu yn offeryn i ddechreu yr achos. Edrychid ar Mr. Evan Jones, dros lawer blwyddyn, fel y golofn gryfaf i'r achos Cymreig; a pheraroglaidd iawn ydyw ei goffadwriaeth hyd heddyw. Nifer cyfan yr aelodau yn y tri chapel, ydyw rhwng 600 a 700. Tua chyffelyb nifer hefyd sydd o ddeiliaid yn yr ysgolion Sabbothol. Pa drugaredd mor fawr i'n cydwladwyr a arweinir gan amgylchiadau i breswylio yn nhrefydd mawrion a gwylltion Lloegr, a bod darpariaeth grefyddol ar eu cyfer, yn yr iaith a ddeallant, ac o'r fath a garai eu perthynasau yn Nghymru iddynt ei gael.

PENNOD III.

HANES CAERLLEON.

Dechreuodd Methodistiaeth yn ngwahanol drefydd Lloegr, y rhai sydd yn cyffinio ar y dywysogaeth, yn lled agos i'r un amser, neu yn lled fuan ar ol eu gilydd.

Cychwynodd yn Liverpool yn y flwyddyn 1782.
„ Manchester yn y flwyddyn 1788.
„ Nghaerlleon yn y flwyddyn 1789.
„ Amwythig yn y flwyddyn 1797.

Nid oes lle i feddwl fod dim amcan gwreiddiol gan y tadau Methodistaidd i fyned tros derfynau Cymru, na thros derfynau eu hiaith; ac nid oes i ni feddwl ychwaith fod ganddynt *benderfyniad i beidio*. Nid oedd hyny eto, a thros lawer o flynyddau dilynol, ddim wedi ymgymhell i'w sylw, fel nad oedd raid wrth benderfyniad o blaid nac yn erbyn. Cododd yr ysgogiad hefyd, nid oddiwrth y rhai a breswylient Gymru, mewn ffordd o dosturi at y sawl a ymfudasent i drefydd Lloegr, ond oddiwrth yr ymfudwyr eu hunain, trwy anfon at eu brodyr i Gymru, a thaer ddeisyfu cynorthwy.

Yr oedd rhyw nifer yn ymfudo o Gymru i Loegr, ac yn ymsefydlu yn mysg y Saeson er ys oesoedd; ond fel yr oedd Methodistiaeth yn ymledaenu yn y dywysogaeth, yr oedd ambell un, a brofasai ddaionus air Duw, a nerthoedd y byd a ddaw, yn cael ei symud o wlad ei enedigaeth, ac yn ymsefydlu yn Lloegr; ac yn enwedig yn y trefydd agosaf i'w wlad. Nid trefn ddynol, ond rhagluniaeth ddwyfol oedd a'r llaw benaf yn hyn. Bychan y meddyliodd llawer un, i ba ddyben yn arbenig yr arweinid ef o'i hen wlad, i fysg estroniaid, y rhai na ddeallai eu hiaith ond yn dra anmherffaith; ac nad oedd yn eu mysg ddim i'w gymhell i aros, ond yr olwg a roddid iddo am damaid o fara. Ac er mai y tamaid bara oedd yn ei olwg ef, yr oedd peth mwy yn ngolwg rhagluniaeth; a daeth yntau, o bosibl, i ganfod, cyn diwedd ei oes, paham yr arweiniwyd ef mor bell o'i wlad, ac o gartref mor ymddifad o freintiau eglwysig.

Fel hyn y bu yn Liverpool a Manchester, fel y gwelsom; ac fel hyn hefyd y bu yn Nghaer. Arweiniwyd ryw ychydig nifer o bersonau, o wahanol barthau o'r Gogledd, i'r ddinas hon, gyda'u gwahanol alwedigaethau; personau ag oeddynt eisoes wedi profi mesur mwy neu lai o flas ar yr efengyl. Yn mysg y rhai boreuaf o'r fath, gellir enwi Hugh Llwyd, Ysw., a'i fam; William Jones, llifiwr; Mr. Evan Jones; Mr. Edward Griffiths; ac un Gwen Evans.

Merch oedd Mrs. Lloyd, mam y Mr. Lloyd uchod, a mam y Parch. Simon Lloyd, B.A., Bala, i Mr. a Mrs. Bowen, Tyddyn, gerllaw Llanidloes. Yr

oedd hi wedi bod mewn undeb â'r Methodistiaid o'i hieuenctyd, ac yn wraig o gallineb a gras mwy na'r cyffredin. Wedi i'w mab Mr. H. Lloyd, ymsefydlu mewn masnach yn Nghaer, ac yntau heb wraig i arolygu ei dŷ, daeth ei fam ato; a chyd âg ef yr arosodd tra y bu hi byw. Bu Mrs. Lloyd, yn un o'r prif offerynau i roddi cychwyniad, ac amaethiad hefyd dros dymhor, i Fethodistiaeth yn Nghaerlleon. Bychan y meddyliai Howel Harris, Richard Tibbot, a Lewis Evan, hen dadau Methodistiaeth sir Drefaldwyn, mai un o'r bonedd-igesau ieuainc a ddygid i fyny dan eu gweinidogaeth hwy yn "Tyddyn," a roddai gychwyniad, ymhen 40 mlynedd, neu fwy, i gyffelyb achos yn Nghaer. Eto, felly y bu; ac yn hyn, fel mewn llawer o amgylchiadau cyffelyb, y gwelwn y modd y mae rhagluniaeth yn gwasanaethu achos y Cyfryngwr.

Dechreuwyd pregethu yn Nghaer, fel y crybwyllwyd, yn y fl. 1789. Y pregethwr a fu yma gyntaf, oedd Robert Prys, Plas-winter; un o'r pregethwyr lleiaf ei ddawn, a mwyaf gwladaidd ei wedd, o neb yn ei oes. Cadwyd yr oedfa gyntaf hon, ynghyda rhyw nifer ar ol hyny, yn nhŷ un William Jones, y llifiwr, yr hwn oedd yn byw ar y pryd, yn y *Gorse-stacks*, ond a symudodd cyn hir i Liverpool i breswylio. Yr oedd Mrs. Lloyd yn wraig o ddawn yn gystal a deall; a hi a fu, nid yn unig, yn brif ysgogydd i gael gan y Methodistiaid sefydlu achos Cymreig yn y ddinas, ond hefyd dros ryw gymaint o amser yn amaethiad iddo. Cyfranai ei mab o'i feddiannau at ei gynaliaeth; a hithau a roddai air o gynghor a chysur i'r ychydig aelodau eglwysig a ddeuent ynghyd, mewn amser yr oedd yr achos yn isel iawn ei wedd, a'r rhai a flaenorent gydag ef, yn ychydig eu rhif, ac yn isel eu meddwl.

Ar ol ymadael â'r "*Gorse-stacks*," cadwyd rhai oedfaon yn nhŷ Mr. Lloyd; a thrachefn mewn ystafell perthynol i'r hen *Manchester Hall*. Yn mharlawr Mr. Lloyd, pa fodd bynag, y cadwyd y cyfarfod eglwysig Cymreig cyntaf. Yr oedd Mr. John Jones, Bodonolwyn, Môn, yn cadw un o'r rhai cyntaf yno; a hyny yn y fl. 1791, pryd nad oedd y nifer ond *pump*.* Tua'r fl. 1793, cafwyd benthyg capel, yn *Common Hall-st.*, perthynol i'r Wesleyaid Seisnig; yn y lle hwn cadwai y Cymry eu hoedfaon yn y cyfwng a fyddai i'w gael rhwng yr eiddo y Saeson; ac felly y parhaodd pethau am ysbaid tair blynedd. Yn yr ysbaid hwn, bu gŵr ieuanc o'r enw Edward Jones, yn wasanaethgar iawn i'r gwaith; ond ymhen ychydig flynyddau symudodd o'r ddinas i Birmingham i fyw. Symudwyd drachefn yn Hydref, 1796, i oruwch-ystafell yn *Shoemaker's-row;* a chynaliwyd y moddion Cymreig yn yr ystafell hono, am ysbaid wyth mlynedd, sef hyd 1804. Y swyddogion eglwysig ar y pryd, oeddynt Mri. Evan Jones ac Edward Griffiths.

Yr oedd yr achos bellach, wedi hanfodi am ysbaid pymtheg mlynedd; yr oedd y gwrandawyr hefyd yn dechreu lluosogi, a gwedd mwy sefydlog a chadarn ar y gwaith. Yn yr adeg yma, sef yn y fl. 1798, dechreuodd Cad-

* Eu henwau oedd Mrs. Lloyd, a Mr. H. Lloyd; Gwen Evans; Evan Jones; ac Edward Griffiths.

ben W. Williams, bregethu, yr hwn pan y deuai adref o'i fôr-deithiau a osodai ei ysgwydd yn egniol dan y gwaith. Pregethwr arall a fu yma dros dymhor oedd Mr. John Humphreys, Caerwys. Daeth yma yn yr un flwyddyn ag y dechreuodd Cadben Williams bregethu, sef 1798; a'i orchwyl ydoedd arolygu yr argraffwasg Gymreig. Yn yr un flwyddyn hefyd, rhoddwyd anogaeth i Mr. John Williams, mab i William Dafydd, Llanllyfni, i arfer y swydd o henuriad yn yr eglwys.

Yn y fl. 1804, gwnaed ysgogiad pwysig arall. Yr oedd yr oruwch-ystafell yn lle anghyfleus i lawer o bobl ddyfod at eu gilydd iddi, a chodai awyddfryd cryf, mewn amryw o'r brodyr, i ymofyn lle helaethach a chymhwysach i addoli. Yn y flwyddyn grybwylliedg, gan hyny, cymerwyd hen adeilad yn *Trinity-street*, dan *lease* o 40 mlynedd. Tynwyd yr hen adeilad i lawr, a chodwyd capel yn ei le o 12 llath wrth 6; gydag oriel ar un pen iddo. Agorwyd y capel hwn ar ddydd Nadolig, yn y fl. 1804; ac ar yr achlysur, pregethodd y Cadben Williams, a Mr. Arthur Jones, Bangor. Buwyd yn ymgynull yn y capel hwn am 16 mlynedd; a pharhaodd y gynulleidfa Gymreig i luosogi, fel ag yn raddol i lenwi yr adeilad, yr hon ar y dechreu, a ymddangosai yn fwy na digon o faint.

Yn y fl. 1805, ymhen ychydig fisoedd ar ol symud i'r capel newydd, yn *Trinity-street*, dechreuwyd yr ysgol Sabbothol. Nid oedd hon ond gwanaidd iawn yr olwg arni ar ei sefydliad cyntaf; deg o blant, a thri eraill wedi tyfu i fyny, oedd yr holl ddeilaid ag oedd ynddi dros ryw ysbaid. Ond fel planhigyn iachus, hi a gasglodd nerth wrth fyned rhagddi; ac er ei bod bellach yn 50 mlwydd oed, y mae eto yn sefyll yn gref ac iraidd, er nad oes onid un o'r athrawon cyntefig wedi ei adael ar y maes, sef William Roberts, Ysw., yr hwn sydd yn aros hyd heddyw.

Yn y fl. 1806, tua blwyddyn a hanner wedi agor y capel uchod y daeth y Parch. John Parry i'r ddinas i drigiannu; o'r hon y bu yn ddinesydd am ysbaid 40 mlynedd, sef hyd ddydd ei farwolaeth. Ar y pryd y daeth Mr. Parry yma i ymsefydlu, nid oedd yr un pregethwr Cymreig o fewn y ddinas, gydag enwad yn y byd. Yr oedd Mr. John Humphreys, yr hwn, fel y dywedwyd, a fu yma unwaith, wedi ymadael, ar ol pedair blynedd o arosiad; ac yr oedd Caer, er y fl. 1802, y flwyddyn yr ymadawodd John Humphreys, yn ymddifad o bresenoldeb un pregethwr Cymreig arosol o'i mewn; gan nad oedd Cadben Williams yn gallu, o herwydd ei alwedigaeth fod yma ond achlysurol Ar y pryd y daeth Mr. Parry yma, yr oedd gwedd obeithiol ar yr achos, er nad oedd ond bychan. Tua 30 oedd yr aelodau proffesedig; ond fe fu ei arosiad ef yn y ddinas yn foddion arbenig i ddwyn yr achos gwan yn ei flaen.

Gŵr hynod yn ei oes oedd y Cadben Williams. Yr oedd yn adnabyddus yn mysg y morwyr fel cristion didwyll, ac fel pregethwr effro a llwyddiannus. Croesawid ef gan y morwyr Cymreig fel cenad dros Dduw, yn mhob porthladd y cyfarfyddent â'u gilydd. Nid oedd, y pryd hwnw, yr un pregethwr Cymreig yn mysg y morwyr ond efe, o leiaf nid yw yr ysgrifenydd yn gwybod

am yr un. Yr oedd bywiogrwydd a hynawsedd i raddau anghyffredin yn cydgyfarfod ynddo. Nid oedd ei ddawn a'i wybodaeth yn helaeth, eto yr oedd yn un cymhwys iawn i gyfarch ei gydforwyr. Yr oedd yn fwy cyfarwydd â'u harferion, ac yn gallu pregethu iddynt yn fwy cymhwysiadol na neb arall. Hwythau a hoffent ei wraudo, yn anad neb; a dangosent iddo barch dauddyblyg. Fe fu yn llafurio yn y modd yma am ysbaid mwy nag ugain mlynedd; yn ddiwygiwr aiddgar ymhob man y rhoddid cyfleusdra iddo. Derbynid ef yn Nghaer hefyd gyda hoffder mawr; a pha un bynag a'i cartref y byddai ai oddi cartref, dangosai yr un awyddfryd i lesâu dynion. Parhaodd yn ei lawn frwd-frydedd hyd ei fordaith olaf, yn mis Rhagfyr, 1819; pryd y cyfarfu ag ystorm arswydus ar dueddau sir Gaernarfon, lle yr aeth yn llongddrylliad arno, ac efe eu hun ynghyda'r holl ddwylaw, oddigerth un, a gollwyd,* er dirfawr golled i'w deulu, ac i'r llongwyr Cymreig yn gyffredinol.

Dywedasom mai yn y fl. 1806 y daeth y Parch. John Parry i Gaer i aneddu. Mab oedd ef i Owen Parry, o'r Groeslon, plwyf Llanddwrog, yn sir Gaernarfon. Ganwyd ef yn y fl. 1775, a chafodd amaethiad yn ei febyd yn un o ysgolion cylchynol Mrs. Bevan, ac wedi hyny mewn ysgol a gedwid yn Llanllyfni gan y Parch. John Roberts, brawd yr enwog Robert Roberts, Clynog. Cafodd addysg yn yr iaith Saesonig, ac yn elfenau cyffredin dysgeidiaeth yn ysgol un Mr. Wilson; a thrachefn yn ysgol Mr. Richardson, Caernarfon. Bu dros ychydig mewn ysgol yn Liverpool hefyd, er mwyn cymhwyso ei hun i fod yn athraw ysgol. Ymsefydlodd, gan hyny, yn Mryn-Siencyn yn Môn; a bu yno yn cadw ysgol am ysbaid pum' mlynedd a hanner. Tua diwedd y tymhor hwn hefyd y dechreuodd bregethu, sef yn Rhagfyr 1797, pan oedd yn 23 mlwydd oed. Mae yn deilwng o nodiad ddarfod i William Dafydd, Llanllyfni, ddarogan ymlaen llaw, am bedwar o wŷr ieuainc adnabyddus iddo, y byddent yn bregethwyr, sef y Parchn. John Elias; Richard Jones, Wern; Evan Evans, Waun-fawr; a John Parry. Daeth ei ddaroganiad i ben; oblegid dechreuodd y pedwar bregethu o fewn tair blynedd, mwy neu lai, i'w gilydd, a gwŷr nodedig yn eu hoes a fuont oll.

Wedi i Mr Parry fod yn Mryn-Siencyn dros y tymhor crybwylledig, cafodd ar ei feddwl symud oddiyno; a rhoes ei hun drachefn mewn ysgol yn Manchester. Dychwelodd eilwaith i Fryn-Siencyn, ond ni fu ei arosiad ond byr, oblegid fe ymadawodd yn llwyr â Bryn-Siencyn yn niwedd y fl. 1799; ac wedi bod ar daith yn rhai o siroedd Cymru, efe a ddychwelodd i'w hen gartef; a phenderfynodd fyned i agor ysgol yn Nghaergybi. Hyn a wnaeth yn Chwefror 1800. Yr oedd Mr. Parry yn y cyfamser yn achub pob adeg a roddid iddo i fyned o amgylch i efengylu yn ngwahanol siroedd y Gogledd, a rhai o drefydd Lloegr; ac mor ddiwyd y bu yn hyn, fel yn ol ei dystiolaeth ef ei hun, ei fod, erbyn y Nadolig 1801, pedair blynedd ar ol iddo ddechreu, wedi pregethu 640 o weithiau.

* Gwel "Oleuad Cymru" am Ionawr 1820. Tudal. 239.

Cyfarfu a damwain beryglus yn y fl. 1802. Yr oedd yn myned i Liverpool a Manchester i'r cyfarfodydd blynyddol a gedwid yn y trefydd hyny yn y Sulgwyn; ac ar y bwriad hwn cymerodd ei fordaith i Lerpwl, ar ddydd Mercher cyn y Sulgwyn; ond y cyfryw fu y daith, gan wynt gwrthwynebus, fel na chyrhaeddodd y porthladd hyd foreu ddydd Sadwrn, a hyny tuag un o'r gloch y boreu, pan y bu colled am y llong a'r llwyth. Suddodd y llong yn mhen dwy awr ar ol iddo ef a'r lleill oedd arni gael y làn.

Yn y fl. 1804, priododd ferch ieuanc o sir Fflint, sef un Catherine Bellis; nith i John ac Humphrey Owens, Berthen-gron, merch i chwaer iddynt; ac ymhen dwy flynedd ar ol hyny gwnaeth ei gartref yn Nghaerlleon. Yr oedd Mr. Parry erbyn diwedd y fl. 1805 wedi bod yn pregethu wyth mlynedd; ac wedi pregethu, yn yr ysbaid hwnw o amser, nid llai na 1819 o weithiau. I ddangos yr anghyfleusdra y byddai y Methodistiaid y tymhor hwn dano, gellir adrodd, y bu raid i Mr. Parry ddwyn ei gyntaf-anedig o Gaerfallwch, ger Rhosesmor, i Laneurgain, tua thair milldir o ffordd, i gyfarfod y Parch. John Williams, Lledrod, pan ar ei hynt drwy y wlad, i'w fedyddio; a bu raid aros am y cyfleusdra hwn chwe' mis o amser!

Afreidiol ydyw i ni geisio olrhain hanes Mr. Parry gyda dim manyldra, gan nad ydym yn amcanu ysgrifenu cofiant iddo, ac yn enwedig gan fod hyny eisoes wedi ei wneuthur.* Fe fu ei ymsefydliad yn y ddinas hono yn ddiau yn foddion neillduol i gyfnerthu Methodistiaeth yno, pan yr ydoedd eto yn fychan ac eiddil. Yr oedd ysgol Sabbothol wedi ei chychwyn, eisoes, fel dywedasom, er ys blwyddyn, cyn i Mr. Parry ddyfod i fyw i'r ddinas; a chafodd hon amaethiad neillduol ganddo. Yr oedd cf wedi bod yn hir yn cadw ysgol, ac felly yn gymhwysach i gyfranu addysg na'r cyffredin o grefyddwyr ei oes. Arferai, gan hyny, gyfarfod â'r athrawon ar foreuau Sabboth i'w hyfforddi; a thrwy hyny eu cymhwyso yn fwy i addysgu eraill. Llafuriodd Mr. Parry lawer gyda'r Saeson, yn ngoror Clawdd Offa; a chyda chyfundeb y Parch. P. Oliver, am yr hwn y cawn eto grybwyll gair yn fyr, heblaw ei lafur rheolaidd yn ei gartref, ac o fewn cylch cyfarfod misol sir Fflint, yr hwn y perthynai efe iddo.

Ond nid trwy ei bregethau yn unig y gwasanaethodd Mr. Parry ei genedl, ond fe wnaeth hyny, dros flynyddau lawer trwy y wasg. Yn y fl. 1818, fe ddechreuodd gyhoeddi y cylchgrawn a elwid "Goleuad Gwynedd," yr hwn ar gais y Deheuwyr a alwyd ar ol hyny yn "Oleuad Cymru." Parhâodd y misolyn hwn i ymddangos hyd y fl. 1830, pryd y gosodwyd "Trysorfa" y cyfundeb dan olygiaeth Mr. Parry. Bu y "Drysorfa" dan ei ofal o hyny hyd ddiwedd ei oes. Cyhoeddodd hefyd amryw o lyfrau eraill, rhai bychain cymhwys i fabanod, megys "Rhodd Mam i'w Phlentyn," a rhai mwy, megys ei Esboniad ar "Llyfr y Proffwyd Esaiah." Cyfarfu Mr. Parry ag amgylchiad yn y fl. 1823, a'i difuddiodd i fesur helaeth o'i gysur, ac i raddau

* Gwel y Cofiant gan ŵr tra adnabyddus â Mr. Parry.

o'i ddefnyddioldeb; trwy gael anwyd trwm i'w ben, wrth bregethu ar yr heol yn nghymdeithasfa Llanfyllin, fel ag i drymhau ei glyw yn fawr; a pharhâodd hyn i'w flino, i raddau mawr o hyny allan; er iddo arfer pob moddion o fewn ei gyrhaedd i'w symud.

Yn y fl. 1819, cymerodd ysgogiad newydd le yn y gwersyll Methodistaidd yn Nghaer. Yr oedd y capel yn *Trinity-street*, bellach yn cael ei lenwi, a phenderfynwyd prynu lle yn *Common Hall-street*, i adeiladu capel newydd arno. Hyny a wnaed; y mae yn adeilad weddus a chyfleus; ac yn y capel hwn yr ymgynull y Cymry Methodistaidd hyd heddyw. Yn y fl. 1829, dechreuodd dau ŵr ieuainc yn yr eglwys hon ar waith y weinidogaeth, sef y Parchn. Robert Williams, a John Jones, yr hwn sydd yn awr yn Wrecsam. Dangosodd y brodyr yn y ddinas lawer o awyddfryd, i leshau en cydwladwyr y Saeson hefyd, trwy agor ysgolion Sabbothol mewn gwahanol fanau oddeutu Caer, yn neillduol yn *Rossett*, rhwng Gwrecsam a Chaer, a *Saughall*, o fewn pedair milldir i'r ddinas ar y tu gogledd-orllewinol iddi. Yn y ddau le hyn y mae achosion siriol yn parhau hyd heddyw. Rhoddwyd cynorthwy hefyd mewn amryw fanau eraill, dros ryw dymhor, ac yn ddiweddar, fe wnaed hyny yn *Poulton*, lle y mae achos gobeithiol wedi ei sefydlu.

O'r holl hen frodyr "a ddygasant bwys y dydd a'r gwres," nid oes yn awr ond William Roberts, Ysw., a Mr. John Williams. Mr. Parry hefyd wedi arosiad hir, llafur ffyddlon, ac ymarweddiad gwastad, a alwyd oddiwrthynt yn y flwyddyn 1846; wedi treulio agos i 71 mlynedd ar y ddaear, a 40 mlynedd o honynt wedi eu treulio yn Nghaerlleon. Teimlid galar trwm ar ei ol, nid yn unig yn ei ddinas ei hun, ond yn y sir y perthynai i'w chyfarfod misol; ïe, yn wir, trwy Wynedd. Nid llawer a deithiodd yn y Deheubarth yn ystod y 40 mlynedd y bu ef yn Nghaer. Yr oedd meddwl Mr. Parry wedi cael mwy o amaethiad na llawer un o bregethwyr ei wlad, a daliodd ei boblogrwydd fel pregethwr hyd ddiwedd ei oes. Bu yn pregethu ysbaid maith, sef agos i 50 o flynyddau, ac yn ordeiniedig er ys 32 o flynyddau.* Nis gellir rhoddi darluniad mwy cryno a chywir o'r gweinidog ffyddlawn hwn, nag a geir, gan y Parch. Roger Edwards, yn y Dyddiadur, am 1847. "Yr oedd yn ŵr o ysbryd rhydd, diragfarn, a thangnefeddus—o feddwl gwastad, ac o dymher gyfeillgar—yn fanylaidd a threfnus yn ei holl arferion—yn ddiargyhoedd yn ei holl ymarweddiad—yn iraidd o ran ei brofiad ysbrydol—yn bregethwr efengylaidd, eglur, blasus, a defnyddiol—ac yn hynod o adeiladol yn y cyfeillachau eglwysig; ac fel hyn yr oedd yn gymeradwy yn mysg lluaws ei frodyr."

Mae yr achos crefyddol yn y ddinas yn parhau, er symud llawer o'i ddeiliaid i fro marwolaeth; ïe, er i lawer colofn gref syrthio. Ac wrth feddwl am

* Dywedir yn ei Gofiant iddo gael ei ordeinio yn y fl. 1814. Barnu yr wyf fod yma gamgymeriad. Yr oeddwn i yno ar y pryd, ac mai Mr. Ellis, Wyddgrug, ac nid Mr. Parry oedd yn mysg y nifer a ordeiniwyd yn y flwyddyn hono. Nid oes genyf ond fy nghof am y peth, a gwn yn ddiau fod Mr. Ellis yno.

ein blaenoriaid, y rhai a draethasant i ni air Duw, a cheisio dilyn eu ffydd gan ystyried diwedd eu hymarweddiad hwy; ein cysur a'n gorfoledd ydyw, fod "Iesu Grist yr un, ddoe, heddyw, ac yn dragywydd." Mae yma ddau weinidog cysylltiedig â'r Cymry yn aneddu yn y ddinas, sef y Parchn. Robert Williams, a John Jenkins, A.C. Yn yr eglwys hon hefyd y magwyd y Parch. Robert Parry; yr hwn sydd weithian yn llafurio yn maesydd cenadol Cassia, yn India y Dwyrain, neu ynte ar ei fordaith tuag yno.

PENNOD IV.

HANES AMWYTHIG.

Mae yn y dref hon hefyd, fel yn y trefydd mawrion eraill sydd yn terfynu ar y dywysogaeth, luaws o Gymry yn aros: wedi eu treiglo gan helyntion y byd a throion rhagluniaeth i drigiannu yn mysg pobl estronol eu hiaith, ac mewn llawer o bethau, tra gwahanol eu harferion. Yr oedd yma unwaith weinidog enwog yn eglwys Loegr, o'r enw Decourcy, gweinidogaeth yr hwn a sugnai at eu gilydd luaws o bobl dda y dref i'w eglwys; ac yn mysg y cymunwyr, ceid ambell i Gymro gwladaidd o odrau sir Drefaldwyn; yr hwn a deithiai yn mhell ar 40 milldir o ffordd, rhwng dyfod a dychwelyd, i fwynhau y wledd o swper yr Arglwydd, yn eglwys y duwiol Decourcy. Eto, nid oedd yr un achos Cymreig yn y dref ar y pryd, nac am flynyddau lawer ar ol hyny, na nemawr ddefnyddiau chwaith i'w ffurfio.

Y cyfarfod crefyddol cyntaf, meddir, a gadwyd gan y Cymry yn y dref oedd cyfarfod gweddi, yn nhŷ gŵr o'r enw James Bates, asiedydd; yr hwn oedd yn byw wrth y waliau, gerllaw y tŵr: yr oedd hyn yn nechreu yn y fl. 1797. Y ddau weddiwr ar y pryd oeddynt Thomas Jones, asiedydd; ac Evan Gwilym, gwehydd; y cyntaf o Fachynlleth, a'r olaf o Lanfihangel; y ddau o sir Drefaldwyn. Yn yr haf canlynol, anfonodd y gwŷr uchod lythyr i Gymdeithasfa y Bala, i erchi ar y brodyr yno drefnu rhyw bregethwr i ymweled â'r ychydig Gymry oedd yn Amwythig; ac i bregethu yr efengyl iddynt. Gwrandawyd eu cais ac anfonwyd un John Lewis, o Ddolgellau yno. Ar ei ddyfodiad, cynaliwyd cyfarfod eglwysig, y cyntaf erioed, yn nhŷ J. Bates. Yr oedd yn bresenol bedwar o nifer, sef gŵr y tŷ a'i wraig, a'r ddau ŵr a grybwyllwyd uchod. Yr oedd y cyfarfodydd hyn mor fychain a dirwysg, fel y gallem ddysgwyl na thynasent sylw neb ymron; eto, er lleied oeddynt, cododd gwrthwynebiad iddynt, fel ag y bu raid i ŵr y tŷ ymofyn am dŷ arall i fyw. Un tro pan y cynelid cwrdd gweddi yn y tŷ, dringodd rhyw blant drwg o'r dref i nen y tŷ, a thaflasant gerig i lawr y simneu, i'r dyben o aflonyddu ar y cyfarfod. Disgynodd rhai o'r cerig hyn, trwy ryw foddion, i'r tŷ nesaf ato; yr hwn oedd yn perthyn i'r un perchenog. Aeth gwraig y tŷ nesaf, gan hyny, i achwyn wrth y meistr tir, ac yn y canlyniad fe orfu ar James Bates ymadael,

Nid oedd eto yr un pregethwr wedi ymweled â'r fintai fechan; ond yn Nghorphenaf yr un flwyddyn yr oedd Mr. Charles o'r Bala, a Robert Roberts, Clynog, yn myned i Lundain, a'u ffordd yn gorwedd trwy yr Amwythig; felly fe roddwyd cyfleusdra iddynt i bregethu i'r Cymry yno ar eu mynediad. Cadwyd yr oedfa yn nhŷ yr un gŵr fyth, yr hwn oedd bellach yn byw yn Frankwell, wrth hen Bont y Cymry. Hon, tybygid, oedd yr oedfa gyntaf y bu pregethu Cymraeg ynddi o fewn y dref. Ar eu dychweliad o Lundain, fe fu yr un gwŷr yn cadw cyfarfod eglwysig yn yr un lle, *am chwech o'r gloch y boreu*, yn y mis Medi canlynol.

Yn y gauaf dilynol, daeth yma ddau ŵr i bregethu am Sabboth, sef Mr. Edward Gwalchmai, Llanwyddelan; a Dafydd Edward, Bala. Y cyfryw ydoedd y dechreu bychan fu ar Fethodistiaeth Amwythig. Ychydig iawn oedd nifer y crefyddwyr, a phrinion iawn oedd eu breintiau. Aeth blwyddyn a hanner heibio ar ol y cyfarfod gweddio cyntaf, heb iddynt gael gwrando ond y pedwar pregethwr a enwyd. Ond yn yr haf, 1798, pryd yr oedd cryn nifer o filwyr Cymreig yn y dref, a gŵr crefyddol yn llywydd arnynt, sef Cadpen Jones o Ruabon, daeth John Ellis o'r Abermaw, i bregethu i'r dref; a chan fod y gynulleidfa ar yr achlysur hwn, yn llawer lluosocach nag arferol, a'r tŷ yn llawer rhy fychan, penderfynwyd cadw yr oedfa yn yr awyr agored; felly, allan, gerllaw hen Bont y Cymry, yn Frankwell, y cadwyd yr oedfa hon. Yn y modd yma y dechreuodd y pregethu gan y Methodistiaid yn Amwythig. Bellach, ar ol cychwyn yn y modd y dywedwyd, parhaodd y naill bregethwr i ddyfod ar ol y llall; ar y dechreu, yn lled anaml, ond wedi hyny yn fwy cyson a mynych, fel yr oedd y cyfleusderau yn caniatâu; a pharhaodd yr achos i ymwreiddio a chryfhau fwyfwy. Fel yr oedd y breintiau yn ychwanegu, felly yr oedd y gwrandawyr a'r aelodau eglwysig yn lluosogi.

Ymadawodd James Bates o'r dref i fyw dros ysbaid un flwyddyn; yn y cyfamser, cedwid yr oedfaon mewn ysgolddŷ yn *Golden Cross Passage, High-street;* ond ar ei ddychweliad i'r tŷ a adawsai flwyddyn yn ol, dychwelodd y moddion hefyd i'w hen gynefin. Yn mhen blwyddyn ar ol hyny, daeth Mr. Hugh Griffiths, *Baker-street*, i fyw i'r dref, sef yn y fl. 1801; yr oedd yr aelodau crefyddol y pryd hwn yn wyth o nifer. Yn eu mysg yr oedd Enoch Evans; yr hwn, yn ystod y flwyddyn grybwylledig, a ddechreuodd bregethu; ond ni chafodd yr Amwythig nemawr o'i weinidogaeth, gan ddarfod iddo yn mhen tua blwyddyn symud i'r Bala, ei le genedigol; a'r lle y cartrefodd o hyny allan.

Tua'r fl. 1802, symudwyd y moddion o dŷ James Bates, i oruwch ystafell ag oedd gerllaw. Cymerwyd hon o dan ardreth flynyddol o ddwy Gini, gan un Mr. Morgan; ac ynddi y buwyd yn ymgynull am ysbaid tair blynedd. Yn y fl. 1805, symudwyd drachefn i hen gapel y Wesleyaid Seisnig, yn *Hill's-lane*, yr hwn a gymerwyd dan ardreth o ddeg Gini yn y flwyddyn. Hen adeilad fawr gandryll oedd y capel hwn. Rhaid oedd attegu ei nen â cholofnau rhag iddo syrthio: eto yn yr adeilad hon y bu y brodyr yn addoli am ysbaid

21 mlynedd! Yn y flwyddyn 1826, pa fodd bynag, fe'i prynwyd, a thynwyd yr hen gapel i lawr hyd ei sail, ac adeiladwyd un newydd, hardd a chyfleus ar ran o'i safle.

Yr oedd Mr. H. Griffiths wedi ei ddewis yn ddiacon, er y fl. 1806, i gydweithredu â'r ddau ag oeddynt yn y swydd eisoes, sef David Jones a Thomas Jones; ac yn y swydd y mae Mr. Griffiths hyd heddyw; wedi ei gwasanaethu yn ffyddlawn a diwyd am yr ysbaid o 50 o flynyddau ymron. Y mae bellach wedi heneiddio, ac yn mwynhau yr hyfrydwch, ef a'i briod, o weled fod "ewyllys yr Arglwydd wedi llwyddo yn eu llaw" yn yr Amwythig; gan eu bod yn debyg o gael myned ymaith a gadael yr achos mewn amgen diwyg ar eu hymadawiad, nag oedd arno ar eu dyfodiad. Ymadawodd un o'r henuriaid uchod, a bu farw y llall; ac yn y fl. 1817, gadawyd Mr. Griffiths ei hunan i weini swydd diacon; a bu felly am ysbaid 13 o flynyddau.

Yn y fl. 1818, bu farw un John Davies, gôf wrth ei alwedigaeth, yr hwn a adawodd swm go fawr o arian yn ei ewyllys at adeiladu capel newydd, i gael ei dalu ar ol marwolaeth ei weddw; yn y fl. 1840 daeth y swm hwnw i law; a bu hyny yn ymwared cysurus i'r gymdeithas oddiwrth y ddyled ag oedd yn aros ar y capel.

Bu amryw o bregethwyr yn aros yn Amwythig dros ryw dymhor; un cyn Enoch Evans, ac amryw ar ei ol; ac nid yw yn awr (1855) ddim yn amddifad yn yr ystyr hwn. Yu y fl. 1803, bu un o'r enw Hugh Hughes, Penmachno, yma; ond nid arosodd ond cwpl o fisoedd. Yn y fl. 1807, daeth Mr. Owen Jones, sir Drefaldwyn, yma; yr hwn, er nad oedd wedi dechreu pregethu ar y pryd, a fu yn dra defnyddiol er cychwyn ysgol Sabbothol yn yr hen gapel. Llwyddodd hefyd i roddi cychwyniad iddi, fel y gwnaethai mewn manau eraill; ond ni bu ei arosiad yntau yn y dref ond ysbaid un flwyddyn; ac nid oedd yr ysgol Sabbothol ar ei ymadawiad ond gwanaidd iawn; eto ni syrthiodd yn llwyr i'r llawr; ond er pob rhwystr a digalondid, hi a barhaodd ac a ymwreiddiodd, a daeth, cyn hir, i fod yn iraidd a ffrwythlawn; gan brofi mai planhigyn Arglwydd y lluoedd ydoedd. Tua'r fl. 1814, daeth gŵr ieuanc o Adwy'r-clawdd i'r dref i'r ysgol, yr hwn oedd wedi dechreu pregethu er ys ychydig amser; yntau hefyd a ymadawodd yn fuan; wedi aros ond chwech wythnos o amser. Dychwelodd adref, dan ddifrod yr afiechyd, o'r hwn y bu efe farw yn lled fuan. Hwn oedd y "*John Hughes dduwiol*," y sonir am dano yn hanes Adwy'r-clawdd.

Yn y fl. 1821, daeth y Parch. Henry Rees i fyw i'r Amwythig, yr hwn a arosodd yma 15 mlynedd. Nid oedd ar ei ddyfodiad ond pregethwr lled ieuanc, a bu ei arosiad yn nystawrwydd neillduedig yr Amwythig yn adgyfnerthiad nodedig i'r achos crefyddol yn ei ymddifadrwydd; ac nid llai gwasanaethgar i'r pregethwr ieuanc ei hun. Cafodd fisoedd lawer o seibiant, mewn dystawrwydd tawel, i yfed yn ehelaeth o ysbryd a syniadau y Dr. Owen, a phuritaniaid eraill; ac nid oes achos petruso dyweyd fod Methodistiaid Cymru, ac yn neillduol Methodistiaid Gwynedd, ac yn fwy na'r

cwbl Methodistiaid Lerpwl, yn ddwfn ddyledus i gyfeillion Amwythig; ac i Mr. a Mrs. Griffiths yn arbenig, am yr achles manteisiol a gafodd y pregethwr ieuanc yn eu mysg. Rhaid oedd i Harri Rhys, Llansanan, wrth neillduaeth dystaw yr Amwythig, cyn y gwnaethid ef yn Barch. Henry Rees, Liverpool. Pan y daeth i'r dref, yr oedd yr aelodau eglwysig yn 38; ar ei ymadawiad, yr oeddynt yn 58. Tra yr oedd yn yr Amwythig, ac yn y fl. 1827, yr ordeiniwyd ef yn y Bala. Trwy hyn hefyd y chwanegwyd at freintiau yr eglwys yn yr Amwythig; a thrwy eu bod bellach yn meddu ar addoldŷ cyfleus a da, ac yn cael pregethu, a phob moddion eraill, gyda chysondeb, lluosogodd y gwrandawyr a'r eglwys yn gyfatebol. Yn ngwyliau Nadolig, 1836, ymadawodd Mr. Rees o'r Amwythig, a daeth i breswylio yn Liverpool.

Bu amryw bregethwyr yn aros dros ryw dymhor yn yr Amwythig, ar ol ymadawiad Mr. Rees. Gellir enwi y rhai canlynol,—Parch. Hugh Roberts, Bangor; yr hwn a ddaeth i'r dref yn y fl. 1839, ac a arosodd ynddi flwyddyn a hanner. Hefyd, Mri. Owen Williams; Griffith Jones; David Davies; William Jones; Robert Jones; William Hughes; ac fe allai rhyw rai eraill. Yn awr, pa fodd bynag, y mae yn trigiannu ac yn llafurio yn yr Amwythig, y Parch. Ebenezer Williams, Pen-y-bont, gynt; gwasanaeth yr hwn yn ddiau a fydd o gryfhad ac amaethiad gwirioneddol i'r achos da.

PENNOD V.

HANES LLUNDAIN.

Nid yw yn ymddangos fod neb wedi cofnodi, gwahanol amgylchiadau yr achos Methodistaidd yn y brif-ddinas, fel yr oedd yr amgylchiadau hyny yn digwydd; ac nid oes genym, gan hyny, ond crynhoi cymaint o'r hanes ag a ellir, oddiwrth y bobl oedranus sydd eto yn fyw, o'r hyn a welsant hwy eu hunain, ac o'r hyn a glywsant gan eraill.*

Nid oes amheuaeth, pa fodd bynag, nad oedd amryw o'r Diwygwyr Cymreig yn arfer ymweled yn achlysurol â Llundain, er amser boreaf Methodistiaeth ymron, yn neillduol Howel Harris; Daniel Rowlands; a Howel Davies. Yr oedd eu cysylltiad hwy â Whitfield, ac â'r diwygwyr Methodistaidd yn Lloegr, yn eu harwain yn naturiol i ymweled yn achlysurol â'r brif-ddinas. Sicr ydyw y treuliai Harris lawer o amser yno. Yn absenoldeb Whitfield, disgynai cryn lawer o ofal y Tabernacl arno ef, yn neillduol ar ol i un Mr. Cennick ymadael â'r diwygwyr, a myned at y Morafiaid. Mae ei enw yn nghofnodau y cyfarfodydd a gynelid ganddynt yn y blynyddau rhwng 1744

* Dyledus ydym am yr hanes uchod, ymron yn llwyr, i hynawsedd a diwydrwydd y Parch. Owen Thomas, yr hwn a lafuriodd gryn lawer i'w gasglu.

a 1749. Yn un o'r cyfarfodydd hyny a gynaliwyd yn Llundain, Ebrill 27, 1749, y mae y penderfyniad canlynol :—

"Fod i Mr. Harris gymeryd arolygiaeth y Tabernacl, ac eglwysi eraill, yn mysg y Saeson, ynghyda'r pregethwyr. A bod Mr. Whitfield yn addaw gwneyd cymaint a allo i gryfhau ei ddwylaw, heb gyfyngu ar ei ryddid i fyned o amgylch i bregethu yr efengyl gartref ac oddicartref."

Yn yr un cofnodau y mae yn ysgrifenedig fod gan y diwygwyr Saesonig, yr oedd Harris yn eu mysg, le ardrethol yn Lambeth, i bregethu; a bod moddion yn cael eu cynal yno, dros ryw dymhor, am ddau o'r gloch bob Sabboth. Hawdd ydyw dyfalu y byddai Harris yn pregethu yn fynych yma, ac y byddai eraill o'r tadau Methodistaidd yn achlysurol, ar eu gwaith yn dyfod i weinidogaethu yn Llundain. Mae traddodiad sicr yn aros hyd heddyw, y byddai Harris a Rowlands yn pregethu weithiau yn Gymraeg yn Lambeth; ac nid oes dim anhygoel chwaith yn y traddodiad; gan fod lle pregethu gan y diwygwyr yn y rhan hyny o Lundain, y mae yn bur debygol os oedd Cymry ar gael yno, y byddai parodrwydd yn y gweinidogion Cymreig i'w cyfarch. Hefyd, yr oedd cyfarfodydd llygredig, ar wedd ffair, yn cael eu cynal bob Sabboth gan y Cymry, y pryd hwnw, yn Lambeth; a chan yr arferai y diwygwyr Cymreig, gymeryd mantais o'r cynulliadau a gyfarfyddent mewn lleoedd o'r fath yn Nghymru, nid oes un sail i feddwl yr esgeulusent hyny yn "Ffair Lambeth."

Pa ffrwyth a gododd oddiar yr ymdrechiadau hyny sydd anadnabyddus; eto, sicr yw, pa ddaioni bynag a wnaed i bersonau neillduol, na fu eu llafur yn effeithiol i sefydlu achos parhaus yn Lambeth, nac yn un cwr arall o Lundain, yn y tymhor bore hwn. Ond ymhen blynyddau lawer ar ol hyny, sef tua'r fl. 1774, yr ymddangosodd rhyw gychwyniad bychan i achos crefyddol yn mysg y Cymry. Yr oedd dau Gymro, Edward Jones, o Lansanan, sir Ddinbych, a Griffith Jones, Pentre-ucha', sir Gaernarfon; dau ŵr digon cyffredin, yn aelodau eglwysig yn nghyfundeb Whitfield yn y Tabernacl; a'r ddau hyn a fu yr offerynau i gychwyn yr ysgogiad. Yr oedd Edward Jones wedi bod yn filwr, dros ryw dymhor, yn y *Life Guards;* ac yn mlynyddoedd diweddaf ei oes, yr oedd iddo wobron *(pension)*, oddiwrth hyny. Wedi ymadael â'r *Guards*, trodd i gadw tafarndŷ cyffredin; ac wedi hyny i gadw gwirod-dŷ *(gin-shop)*. Tegwch âg enw y gŵr, er hyny, ydyw dyweyd fod ei dŷ yn wastad yn nghauad ar y Sabbothau. Darllawydd diodfain *(small beer brewer)*, oedd Griffith Jones wrth ei alwedigaeth. Hynod mai dau wŷr o'r fath, a ddefnyddiwyd i agor drws i'r efengyl gyrhaedd y Cymro uniaith yn Llundain.

Nid oes eithaf sicrwydd, pa un oedd Edward Jones, yn arfer cynghori yn achlysurol, pan yn mysg y Saeson; y tebygolrwydd ydyw, ei fod. Gwyddom fod amryw o'r fath yn cael eu gosod ar waith, gan y Methodistiaid, yn mysg y Saeson, yn gystal ag yn mysg y Cymry; a diau genym fod rhai o'r fath yn

gysylltiedig â'r Tabernacl; ïe, yn wir, un felly oedd Howel Harris ei hun; gŵr y bu a wnelo gymaint a llywyddiad pethau yn mysg y diwygwyr. Ac nid oedd Howel Harris, ond prin wedi cilio o'r maes trwy angeu, pan y cychwynodd Edward Jones ar ei yrfa gyhoeddus; oblegid yn y fl. 1774, yr oedd wedi cymeryd ystafell ëang ar y llofft gyntaf yn *Cock-lane, Smithfield*, i bregethu ynddi; a chyn hyn yr oedd wedi bod yn arfer cynghori ei gydgenedl dros ryw dymhor, mewn gwahanol fanau ar hyd y dref. Yn yr ystafell uchod, Edward Jones a fyddai yn pregethu, a Griffith Jones yn rhoi allan yr hymnau, ac yn arwain y canu; a'r ddau gyda'u gilydd, yn cymeryd arolygiaeth y cyfarfodydd eglwysig. Bellach, yr oedd y gwaith a gwedd mwy rheolaidd a chyson arno; a daeth cyn hir i fod yn achos lled gryf a siriol.

Yr oedd gan Edward Jones fab-ynghyfraith, yr hwn a elwid Capten Jones; yr oedd hwn mewn amgylchiadau cysurus, ac yn ŵr o gymeriad da hefyd; cymerai yntau ran fawr yn nygiad yr achos yn ei flaen. Y gwŷr hyn, gydag un Edward Parry, o sir Ddinbych, oeddynt yn cael eu hystyried yn brif golofnau y gwaith. Arferai Edward Jones, bregethu weithiau, yn ei ddillad milwraidd; ond y mae yn amheus a wnai efe hyn ar ol cychwyn y sefydliad yn *Cock-lane*; tebycach ydyw, mai pan yr ydoedd mewn cysylltiad â'r Tabernacl y gwnai efe felly. Ymhen rhai blynyddoedd ar ol sefydlu yr achos yn *Cock-lane*, dechreuodd un Mr. Francis bregethu yn Lambeth, yn agos i balas yr archesgob. Gŵr o'r Deheubarth oedd hwn; yr oedd o amgylchiadau cysurus; wedi cael dygiad da i fyny, ac yn feddiannol ar gryn dalent. Ymddengys i Edward Jones daro wrth y gŵr hwn, ac i fath o gysylltiad gael ei ffurfio rhyngddynt. Pa hyd y parhaodd y cydweithrediad, nid yw yn hysbys, nid yn hir, tybygid; oblegid daeth i'r golwg yn lled fuan, pa faint bynag oedd ei dalent a'i gyfoeth, mai lled fylchog oedd rhodiad Francis; ïe, "halogedig iawn," y dywedir "fod ei fuchedd." Felly, torwyd pob cymundeb a chydweithrediad, rhwng Edward Jones a'i frodyr, â'r gŵr hwn, o hyny allan. Parhaodd Francis, meddir, er hyny, i bregethu, mewn cysylltiad â'r Bedyddwyr, os oedd cysylltiad hefyd, hyd ddiwedd ei oes; ond ni fu ei lwyddiant, fel y gellid dysgwyl, ond bychan; ac ychydig iawn oedd y rhai a gyrchent i wrando arno.

Yr oedd Edward Jones yn arfer myned bob blwyddyn i Gymru, a thrwy hyny yn cael mantais i osod yr achos ieuanc yn Llundain o flaen y brodyr yn y dywysogaeth; a llwyddodd i gael pregethwyr o Gymru, un ar ol y llall, i ddyfod i wasanaethu yr achos yn y brif-ddinas. Dywedir "mai un o'r rhai cyntaf a ddaeth i fyny ar y neges hon, oedd Dafydd Cadwaladr; wedi hyny John Prytherch, Trecastell; a thrachefn un Robert Evans, sir Ddinbych." Nid oes amheuaeth nad y personau hyn, oedd y rhai cyntaf a aethant yno; ond nid yn y drefn uchod, tybygem, yr aethant. Yr amser yr aeth Robert Evans i Lundain, oedd tua diwedd y fl. 1781, sef tua saith mlynedd ar ol cychwyniad yr achos yn *Cock-lane;* yr oedd hyn tua blwyddyn ar ol i Dafydd Cadwaladr ddechreu pregethu. Yr ydym eisoes wedi dyweyd ar sail ein goheb-

iaeth * mai Robert Evans oedd y cyntaf erioed, o'r Cymry, a aeth i Lundain oddiwrth y Methodistiaid i bregethu. Dealled y darllenydd mai nid y cyntaf chwaith yn mhob ystyr; gan y bu Howel Harris, Rowlands, a Howel Davies, yno, feallai 40 mlynedd yn flaenorol; ond y meddwl ydyw, mai efe oedd y cyntaf a aeth yno i wasanaethu yr achos Methodistaidd Cymreig. Ac y mae yn bur debyg mai Robert Evans oedd y cyntaf, ar gyfrif ei oed, ac ar gyfrif ei fod yn gydwladwr i Edward Jones. Yr oedd. Edward Jones yn anedig o Lansanan, a Robert Evans, o Lanrwst; ac felly wedi eu geni o fewn tua 10 milldir i'w gilydd. Nid oedd Dafydd Cadwaladr, ar y llaw arall, yn y flwyddyn 1781, sef y flwyddyn yr aeth Robert Evans i Lundain, wedi bod yn pregethu ond ychydig gyda blwyddyn o amser; ac felly yr oedd yn un tra annhebyg i fyned yn ebrwydd i Lundain. Ar yr un pryd, nid hir iawn, tybygid, a fu Dafydd Cadwaladr ar ol iddo ddechreu gweinidogaethu, cyn iddo ymddangos yn mysg Cymry y brif-ddinas. Bu marwolaeth ddamweiniol a disymwth Robert Evans, trwy iddo syrthio oddiar y cerbyd, wrth ddychwelyd adref o Lundain, yn brofedigaeth lem i'r ychydig Gymry yno, a fwynhasent ei lafur; ac yn brofedigaeth i'r pregethwyr eu hunain anturio y daith faith, rhag cyfarfod â'r un fath ddamwain, neu ryw ddamwain arall; ac er mwyn lliniaru yr arswyd, penderfynodd y brodyr yn Llundain, ddwyn traul pob pregethwr a ddelai i fyny, o fewn y cerbyd.

Ymddengys y byddai effeithiau grymus iawn yn cydgerdded â'r weinidogaeth yn *Cock-lane*, cymaint felly ag y byddai gorfoleddu, ïe, a neidio yn dygwydd yn fynych yno; a chymaint oedd y sŵn a'r cyffro ar yr adegau yma, fel y troai y Saeson i mewn i edrych pa beth a allai fod yno; a synu yn ddirfawr a wnaent yn yr olwg a fyddai ar y Cymry, gan nad oedd ganddynt yr un ddirnadaeth beth a allai fod wedi eu meddiannu. Ond fel y bu Saul gynt yn mysg y proffwydi, wedi cael "calon arall," ac Ysbryd Duw wedi disgyn arno, ond heb symudiad cyflwr, felly y bu gyda rhai o'r Cymry hyn. Troes amryw o'r rhai uwchaf eu swn allan yn dra gwaradwyddus i grefydd. Yr oedd y gynulleidfa, pa fodd bynag, yn cynyddu yn raddol, a'r aelod eglwysig yn amlhau; a chyn hir o amser gwelwyd fod augenrheidrwydd am addoldŷ helaethach a mwy cyfleus na'r un oedd ganddynt yma eisoes. Llwyddwyd hefyd i gael lle manteisiol gan y *Goldsmith's Company* i adeiladu capel arno. Y lle oedd y *Wilderness Row;* a'r flwyddyn yr adeiladwyd ef, meddir, oedd 1785, sef un mlynedd ar ddeg ar ol cymcryd yr ystafell yn *Cock-lane*, 4 blynedd ar ol dyfodiad Robert Evans yma i bregethu; yr un flwyddyn ydoedd hefyd ag y daethai Mr. Charles i undeb â'r Methodistiaid yn Nghymru.

Ryw bryd, ar ol adeiladu y capel, daeth un Daniel Jenkins, gŵr o sir Aberteifi, i Lundain i breswylio. Yr oedd y gŵr hwn yn fab-yn-nghyfraith i'r enwog Daniel Rowlands, ac yn arfer pregethu. Yn mhen rhai blynyddau wedi hyny, daeth yma hefyd ŵr arall, o'r enw Thomas Thomas, yr hwn hefyd

* Cyf III., tudal. 187.

oedd yn arfer pregethu. Nid oes sicrwydd am yr olaf, pa un ai yn Llundain y dechreuasai bregethu, ai yntau yn y wlad cyn iddo ddyfod i fyny. Pa fodd bynag, rhyngddynt cytunasant i ddechreu achos yn *Gravel Lane*, mewn rhan arall o Lundain, a elwir y *Borough*, a hyny mewn cysylltiad â'r achos yn *Wilderness Row*. Yr oedd y cyfarfod eglwysig yn cael ei gynal yn y lle olaf a enwyd am 9 o'r gloch bore Sabboth; ac ar ol y cyfarfod aent i'r capelau a'r eglwysi Saesonig i wrando; naill ai i'r Tabernacl, neu i wrando Mr. Romaine, neu Mr. Newton; neu i gapel *Surrey* i wrando Mr. Hill. Pan y deuai Mr. Jones, Llangan, neu Mr. Charles, Bala, i gyflenwi diffygion *Spa Fields*, aent yno, yn gynulleidfa gyfan ymron, i wrando. Yr oedd pregethu yn *Wilderness Row*, yn y prydnawn ac yn yr hwyr. Yn *Gravel Lane*, yr oedd pregethu yn y bore, a chyfarfod i weddio yn y prydnawn; ond yn yr hwyr deuai y gynulleidfa i *Wilderness Row*, i gyfarfod eu brodyr. Byddai naill ai Thomas ai Jenkins, hefyd, yn arfer myned, bob yn ail Sabboth, i *Deptford* i bregethu.

Yr oedd y gwaith yn y wedd yma yn ysgogi yn raddol ymlaen, ac yn ymgadarnhau. Ond ni chaniatawyd iddo hir dawelwch; cododd tymhestl gref, a bu yn galed ar yr achos gwan. Yr oedd i Mr. Jenkins ddwy o ferched, heb fod yn aelodau eglwysig; ac ar ryw adeg priodwyd y ddwy chwaer gan ddau frawd, o'r enw Thomas, y rhai oeddynt yn aelodau yn *Wilderness Row*. Nid oeddynt, meddir, ar y pryd, yn gwybod fod un reol benodol yn y cyfundeb yn gwarafun hyny; ond diarddelwyd y ddau; a'r offeryn penaf yn rhoddi y ddedfryd mewn gweithrediad oedd Edward Jones. Gwnaeth hyny, fel yr ymddengys, oddiar fod penderfyniad o'r natur hyny wedi cymeryd lle, mewn rhyw gymdeithasfa yn Ngwynedd. Teimlodd y ddau frawd yn ddirfawr oblegid eu diarddeliad; a digiodd y ddau bregethwr, Jenkins a Thomas, gymaint, nes yr ymadawsant â'r cyfundeb; a throisant yr achos yn *Gravel Lane*, yr hwn oedd, gan mwyaf, dan eu gofal hwy, yn achos annibynol wrtho ei hun, heb fod, bellach, mewn cysylltiad mwyach â *Wilderness Row*. Dyma, meddir, oedd dechreuad achos yr Annibynwyr Cymreig yn Llundain. Yr oedd rhai, pa fodd bynag, o'r aelodau yn *Gravel Lane*, yn cymeryd yr un olwg ar y ddysgyblaeth ag Edward Jones. Ymwahanodd y rhai hyny oddiwrth eu cyfeillion; a dechreuasant gynal moddion mewn rhyw hen ysgubor yn *Gravel Lane*, fyth; ond yn nes i'r afon. Yr oedd yma tua'r adeg yr ydym yn son am dani, ŵr ieuanc o sir Gaernarfon, wedi dechreu pregethu tua'r fl. 1799. Ond ni fu gyrfa gyhoeddus y gŵr ieuanc yn faith; yn hytrach ni chaniatawyd iddo, gan afiechyd, bregethu, ond ychydig o weithiau yn Llundain; bu raid iddo gilio i'r wlad. Griffith Jones oedd enw y gŵr; a brawd ydoedd i Mr. David Jones, Beddgelert, gynt, ond Lleyn yn awr. Ymwelodd y gŵr âg ardaloedd Gwrecsam, wedi iddo ddychwelyd i'r wlad, lle y bu dros ryw dymhor byr dan gronglwyd Mrs. Jones. Dysgwyliwyd y gallasai awyr y wlad fod yn llesol i'w iechyd. Arferai bregethu yn achlysurol yn y cyfamser; a chof gan yr ysgrifenydd ei wrando yn fynych yn ystod ei ymdaith yno. Ond

gwaelu a wnaeth ei iechyd; a bu raid iddo ddychwelyd i'w gartref yn sir Gaernarfon, lle y bu farw.

Dyrys a therfysglyd iawn a fu helyntion Methodistiaeth yn Llundain, yn y tymhor y cyfeiriwyd ato. Hyd y fl. 1796, yr oedd wedi myned rhagddo yn raddol, ac yn cynyddu yn barhaus. Yr oedd llawer o'r gwaith yn *Wilderness Row*, fel y gwelwn, yn disgyn i ddwylaw Edward Jones, a'r rhan fwyaf o'i lywyddiad yn crogi ar ei ysgwydd ef. Nid ei gymhwysderau ar yr un pryd, a'i gosodasai yn y fath le pwysig gymaint, ond amgylchiadau. Ni ellir gwadu ychwaith, nad oedd y gŵr yn lled hoff o'r flaenoriaeth; ac yn lled chwanog i ddefnyddio rhyw achlysuron a ddygwyddai, i ddangos mai efe oedd feistr. Parasai y naws arglwyddaidd hwn effeithiau drwg, yn llawer cynt nag y gwnaeth, mae lle i gasglu, oni bai y dylanwad bendithiol a feddai ei wraig arno. Un o sir Ddinbych oedd hithau, a gwraig synwyrol a chrefyddol iawn y dywedir ei bod; gallai arwain ei gŵr, meddir, yn ddiarwybod iddo; ac felly yr oedd o wasanaeth dirfawr i'r achos. Ond y fam hon yn Israel a fu farw! Ac hebddi hi, nid oedd gan Mr. Jones neb wrth law i'w attal, ar y naill law, na'i gymhell ar y llaw arall; ac er mai nid y wraig oedd yn y golwg yn ngwahanol helyntion yr achos; eto yr oedd yr hedd a'r cysur a fwynheid yn fwy dyledus iddi hi nag a ellir yn hawdd ei amgyffred. Yn ol ei dymuniad, claddwyd gweddillion y wraig rinweddol hon, yn nghapel *Wilderness Row*.

Yr oedd Edward Jones, bellach, mewn gwth o oedran, a chanddo ŵyr tuag 17 mlwydd oed; ond er y gallesid dysgwyl y buasai dyddiau wedi dysgu doethineb iddo, eto dangosodd yn bur fuan mai ofer a fu y manteision a gawsai, gan iddo ddirywio yn drwm yn ei ysbryd ac yn ei rodiad. Y gwaith hefyd, yr hwn oedd ymron yn hollol dan ei lywodraethiad, a ddisgynodd i wedd tra dilewyrch. Yr oedd yma, yn yr adeg, ferch ieuanc, o'r enw Miss Prydderch; yr hon oedd o deulu cyfrifol, ond oedd trwy ryw foddion wedi syrthio yn ei hamgylchiadau, ac ar hyn o bryd wedi ymgymeryd â'r gorchwyl o wneuthur *umbrellas*. Ammododd Edward Jones ei phriodi hi! Gwnaed pob darpariad gogyfer a hyny, gan fwriadu rhoddi yr ammod mewn gweithrediad, ar ei ddychweliad adref o Gymru, lle y bwriadai fyned. I Gymru yr aeth; ond ar ei daith yno cyfarfu â gwraig weddw gyfoethog yn sir Gaernarfon, yr hon a briododd cyn dychwelyd adref! Parodd hyn, fel y gellid dychymygu, lawer iawn o siarad, a llawer o dramgwydd. Gosodid ynfydrwydd, anwadalwch, ac anghyfiawnder, yn erbyn y troseddwr; ac er nad oedd Miss Prydderch, ar y dechreu, yn llochi un bwriad i amddiffyn ei cham trwy gyfraith ei gwlad; nac yn wir, cymeryd un sylw neillduol o'r hyn a gymerasai le, eto fe'i perswadiwyd hi gan y ddau frawd, Thomas, a ddiarddelesid ganddo am briodi y ddwy chwaer, i ddwyn achwyniad cyfreithiol yn ei erbyn. Profwyd yr achos yn Llys *Westminster*; a chafodd y ferch ieuanc £100 o iawn. Bu yr amgylchiad hwn yn waradwydd mawr i'r achos, ac yn ddigalondid dirfawr i'r holl frawdoliaeth. Cyfansoddodd John Jones, Glan-

y-gors, gân wawdlyd ar yr achlysur, yr hon a genid am flynyddau ar hyd ffeiriau Cymru; a gwnaed enw Edward Jones yn warth diarhebol.

Ond pa beth oedd i'w wneuthur? Yr oedd gradd o ofn ar y brodyr gartref i ymyryd â'r achos. Rhaid oedd i bwy bynag a ymosodai arno ddysgwyl rhuthriad cyrch arno yn ol. Yr oedd rhyw nifer hefyd yn ei bleidio; gan gredu iddo gael cam yn y llŷs, ac mai malais ac ysbryd ymddial yn ei wrthwynebwyr a barasi yr holl gynhwrf. Yr oedd ei awdurdod yntau mor hollol, fel nad oedd gan y sawl oedd yn teimlo yn wahanol ddim digon o wroldeb i sefyll yn erbyn. Yn y cyfwng hwn fe ddaeth Mri. John Roberts, Llangwm, a John Elias i fyny, naill ai trwy anfoniad penodol y gymdeithasfa, neu ar gylch, i bregethu. Defnyddiwyd yr adeg i geisio symud y tramgwydd, ac i wastadhau pethau, er mwyn gosod yr achos crefyddol ar dir tebycach i lwyddo nag oedd ar y pryd. Felly ymaflwyd yn achos Edward Jones; a bu ymdriniaeth arno mewn amryw gyfarfodydd tra chynhyrfus; a'r diwedd fu, tori Edward Jones o bregethu. Ond nid oedd y troseddwr yn addef eu hawdurdod, a phregethu a wnai. Honai, mai nid hwynthwy a'i galwasai at y gwaith, ac mai nid iddynt hwy y perthynai ei symud oddiwrtho. Fod ei anfoniad ef o le mor uchel nad oedd ganddynt hwy un awdurdod arno. Yr oedd yn anffodus hefyd fod y rhwym-ysgrif *(lease)* am y capel, naill ai yn ei feddiant i'w chadw, neu wedi ei gwneuthur yn ei enw; ac yn lle ymostwng i gymeryd ei ddysgyblu ganddynt hwy, bygythiai eu troi hwynt oll allan, os dywedent air yn ei erbyn! Pa beth bellach a ellid ei wneyd? Yr oedd y rhwyg mor fawr, fel nad oedd modd iddo ef â'r frawdoliaeth gydweithredu. Rhaid oedd iddo ef neu iddynt hwy gilio. Hyny ni wnai Edward Jones, ac felly, penderfynodd yr eglwys ymadael â *Wilderness-Row*, a chymerwyd ystafell arall yn *Bunhill-Row*. Yn y lle hwn gan hyny yr ymgyfarfyddent, gan adael y capel i Edward Jones, ac i'r ychydig bobl, (ac ychydig iawn oeddynt,) a lynent wrtho. Yr oedd y gwrandawyr i gyd wedi cilio; ac nid oedd o'r aelodau ond tua 12 yn aros gyda'u harweinydd.

Fel hyn parhaodd pethau dros rai misoedd. Yr oedd y gynulleidfa yn gyfan yn ymgasglu i *Bunhill Row*, a'r aelodau hefyd, oddigerth y nifer a enwyd. Yr oedd *Wilderness Row*, yn y tymhor hwn, wedi ei droi yn diffeithder anghyfaneddol. Cafodd y gŵr mawr weled, nad oedd iddo lawer o ganlynwyr; fod ei ddylanwad yn llai nag a ddychmygasai; ac, er fod yr addoldŷ yn ei feddiant, nad oedd hwnw o nemawr werth i bregethwr heb wrandawyr ynddo. Yn yr adeg hon daeth y Parch. Ebenezer Morris i fyny yn ei gylch i bregethu. Rhaid fod agwedd pethau ar y pryd yn ofid trwm i'r gŵr parchedig hwnw, a chwenychai yn fawr allu disgyn ar ryw foddion effeithiol i lonyddu y derfysg, ac adferu tangnefedd a chysur. Yr oedd y capel, yn awr, yn meddiant un na ddylasai fod; a chorff y gynulleidfa mewn ystafell na ddylasai hithau fod. Rhaid oedd cael y gynulleidfa i'r capel, a'r capel i'r gynulleidfa, ond pa fodd y gellid cael hyn o amgylch oedd yr anhawsdra: ond ar hyn y gosodai Mr. Morris ei fryd. I'r dyben hwn, perswadiodd y

gynulleidfa i fyned yn un llu o *Bunhill Row*, i'r capel, i geisio dyfod i ryw ammodau ag Edward Jones; â hyn y cytunasant; ac i'r capel y daethant. Nid yw ein gohebiaeth yn hysbysu yn fanwl pa fodd y bu; yn unig dywedir y bu ymryson dirfawr ar y dechreu; ond naill ai yn y cyfarfod hwnw, neu ryw gyfarfod canlynol, fe ddaethpwyd i ammodau heddwch. Addawodd Edward Jones roddi heibio bregethu, yn ol penderfyniad blaenorol yr eglwys, hyd oni cheffid ail sylw ar yr achos. Ond yr oedd i gael bod yn aelod yn yr eglwys, heb gymeryd un rhan yn llywodraethiad yr achos."

Ond er cytuno ar yr ammodau uchod, yr oedd yn anhawdd iawn cadw Edward Jones yn ddystaw. Yr oedd llefaru a llywodraethu wedi gwreiddio yn ddwfn yn ei natur, ac anmhosibl ymron oedd ei gadw yn ddystaw yn y cyfarfodydd eglwysig; a thra pheryglus, ar y llaw arall, oedd iddo anturio siarad; yr oedd ei eiriau fel gwreichion yn disgyn i'r pylor. Yr oedd chwerwder cryf yn ei ysbryd ef, ac anniddigrwydd mor gryf yn mynwesau y bobl, fel nad oedd gobaith am heddwch ond trwy gael ganddo ymattal yn llwyr oddiwrth bob ymyriad cyhoeddus â'r gwaith. Ond tra yr oedd yr achos yn y wedd brydeus yma, a phawb yn ofni mai parhau a wnai yr anghysur, daeth ymwared i'r eglwys drwy i Edward Jones, symud o Lundain i Gymru i fyw. "Bu ei ymadawiad," fel y dywed ein gohebydd, "megys bywyd o feirw i'r achos; cynyddodd y gynulleidfa, a lluosogodd yr aelodau." Bellach, dewiswyd diaconiaid yn rheolaidd; y rhai, erbyn hyn, a gaent lonydd, heb ymyriad un terfysgwr, i weithredu yn ol rhyddid eu cydwybodau, ac yn ol rheolau y cyfundeb.

Wedi adferu heddwch i'r eglwys oddiwrth ymgyrchion terfysg, cafwyd hamdden i ymosod at ryw waith da, a dueddai i adeiladu yr eglwys, ac i wella y byd. Dyma y pryd, gan hyny, y dechreuwyd yma ysgol Sabbothol gyntaf; a'r Parch. T. Jones, Llanpumpsant, a lwyddodd gyda'r brodyr i roddi cychwyniad iddi. Yr oedd hyn yn fuan ar ol dechreuad y ganrif bresenol.

Ar ddechreu y fl. 1806, rhoddwyd gradd o ysgogiad adfywiol i'r achos; cymaint felly nes aeth y capel yn rhy gyfyng i'r gynulleidfa. Cymerodd hyn le yn misoedd cyntaf y flwyddyn uchod. Yn y misoedd hyn yr oedd Mr. Elias yn gwasanaethu ei dymhor yn Llundain, gweinidogaeth yr hwn a goronid ag arddeliad anarferol, nes oedd y Cymry a breswylient y Brif-ddinas yn cael eu sugno yn lluoedd i *Wilderness Row*, i wrando arno. A rhwng yr heddwch oedd oddifewn i'r eglwys, a'r wedd obeithiol oedd oddiallan, yr oedd calon gan y bobl i weithio, ac ymosodasant yn egniol ar y gwaith o helaethu y tŷ addoliad. Pregethwyd y bregeth olaf yn yr hen gapel gan Mr. Elias ar nos Sul y Pasg, 1806; a chadwyd y cyfarfod eglwysig olaf nos Lun. Tranoeth fe ddechreuwyd tynu yr hen adeilad i lawr. Symudodd yr holl gynulleidfa, tra yr helaethid y capel i *Snow Fields*, yn y *Borough*, lle yr oedd y ganghen a fuasai unwaith yn ymgynull yn *Gravel Lane*, yn ymgyfarfod yn rheolaidd.

Mae coffa hyfryd hyd heddyw am oedfaon rhyfeddol a gaed yn *Snow Fields*,

oddeutu yr amser crybwylledig. Un oedfa dra hynod, gan Mr. Elias, y nos Iau, wedi y Pasg y cyfeirwyd ato, a'r noson o flaen ei ymadawiad i Gymru. Oedfa arall gan Mr. Llwyd, Beaumaris, a goronwyd mewn modd tra hynod, â goleuni ac ag awdurdod anorchfygol. Yn y lle hwn y dechreuodd William Williams bregethu, a hyny tua'r amser y soniwn yn awr am dano. Dewisasid ef yn henuriad neu yn ddiacon, ryw gymaint o amser yn flaenorol; ond pan oedd Mr. David Rees, Llanfynydd, yn Llundain, yn gwasanaethu ei ddyddgylch, fe ymaflodd Mr. Williams yn y gwaith o bregethu yr efengyl; a pharhaodd i wneyd hyny yn ffyddlawn a chymeradwy hyd ei fedd. Ordeiniwyd ef yn Llangeitho yn y fl. 1827, a gorphenood ei yrfa filwriaethus yn y fl. 1847, wedi bod yn pregethu ysbaid 40 mlynedd. Mae mwy o son am gysondeb ei gymeriad, ac ymgysegriad ei ysbryd i wasanaeth ei Arglwydd, nag sydd am un ardderchogrwydd yn ei ddawn, na dim grymusder neillduol yn ei bregethau.

Yn y fl. 1806 hefyd, a thra yr oedd helaethiad y capel yn myned yn mlaen, y dewiswyd Mr. John Lewis i gymeryd rhan yn y flaenoriaeth; ac yn yr un flwyddyn, derbyniwyd Mr. James Hughes yn aelod eglwysig yr ail-waith. Fe ddaethai i Lundain yn y fl. 1800; ac yr oedd, y pryd hwnw, mewn cymundeb eglwysig; ond fel llawer eraill o'i gyfoedion, ar eu dyfodiad cyntaf i drefydd mawrion Lloegr, efe a lithiwyd at oferedd; ac yn y wlad bell, "efe a dreuliodd ei dda, gan fyw yn afradlawn." Diarddelwyd ef o eglwys Dduw, a thros nifer o flynyddau efe a fu yn bucheddu yn annhrefnus. Ond yn y fl. 1806, yn ystod yr amser yr oedd Mr. Elias yma yn gweinidogaethu, dychwelodd yr afradlawn adref, a chroeshawyd ef yn llawen i'w hen gartref. Ymddengys iddo ddechreu pregethu yn mhen tua thair blynedd ar ol ei ailddcrbyniad, a pharhaodd i bregethu o hyny allan. Yn y fl. 1816, fe'i hordeiniwd ef yn Llangeitho; ac yn y fl. 1844, y bu efe farw. Yr oedd Mr. James Hughes yn dduweinydd da, ac yn bregethwr serchog ac eglur; yr oedd hefyd yn Fardd rhagorol, ac yn adnabyddus yn mysg y beirdd dan yr enw "*Iago Trichrug*." Y mae ei enw yn uchel fel ysgrifenydd, ac mewn cysylltiad â'i "Esboniad ar y Testament Newydd," ac ar y rhan fwyaf o'r "Hen" fe fydd ei enw yn glodfawr tra bydd Cymry yn genedl. Fel pregethwr, bardd, ac ysgrifenydd, yr oedd James Hughes yn rhagori. Nid yw yn ymddangos iddo gymeryd llawer o ofal na llywyddiad yr achos arno; yn hyny yr oedd William Williams yn rhagori; er y gallesid dysgwyl fod mwy o gymhwysder bugail yn Mr. Hughes trwy fod ei wybodaeth a'i ddawn yn helaethach; ond yn hyny ni ragorodd.

Dechreuodd y Parch. John Lewis bregethu tua'r un amser a James Hughes, sef yn y fl. 1809. Ordeiniwyd ef yn y Bala yn y fl. 1826, ond nid hir y rhoddwyd iddo ef fyw ar ol hyny, gan y cawn ddarfod iddo gymeryd ei aden yn mis Tachwedd, 1829. Dyn llariaidd a hynaws oedd Mr. Lewis, o ysbryd addfwyn a llonydd, ond nid o ddoniau ysblenydd. Ymddengys iddo

gael codwm pan ar ei daith yn y Deheubarth, drwy i *strap* yr wrthdafl dori, pan oedd yn disgyn oddiar farch; a thrwy hyny ddarfod ei ollwng i syrthio, a niweidio ei gefn.

Ond i ddychwelyd. Agorwyd capel *Wilderness Row*, ar ol ei ail-adeiladiad yn y fl. 1806; gweinyddai ar yr achlysur Mr. Hyatt, Tabernacl; a Mr. Hill, *Surrey Chapel*. Aeth yr achos ymlaen, bellach, dros flynyddau, heb ryw amgylchiadau cyffrous yn ei hynodi; buwyd yn ymgynull yn y capel newydd hwn am oddeutu 16 o flynyddau: ac yn y fl. 1822, adeiladwyd y capel presenol yn *Jewin Crescent*. Mae llawer tymhestl lled wyllt wedi ymosod ar eglwys *Jewin Crescent*, yn ystod y 30 mlynedd a ddilynodd agoriad y capel. Cododd anghysur tra mawr yno unwaith, o herwydd i rai o'r aelodau ymyraeth â'r cwestiwn ag oedd yn cyffroi y wlad ar y pryd, sef rhyddfreiniad y pabyddion. Cyfododd aml destyn anghydweledíad ar ol hyny hyd yn awr, yn neillduol yn achos yr aelodau a fyddai yn masnach y llaeth. Am yr amgylchiadau anghysurus hyny, nid oes gan yr ysgrifenydd ddim defnyddiau, na thuedd, i allu eu gosod yn deg a manwl o flaen y darllenydd, ac hwyrach mai ychydig a fyddai y buddioldeb o wneuthur hyny, pe gallai. Mae yn hyfryd, pa fodd bynag, i allu ychwanegu, fod y gwaith da yn parhau i ymwreiddio ac i ymeangu yn y ddinas fawr, yn mysg ein cyd-genedl; a bod tangnefedd a diddigrwydd hyfryd yn ffynu, bellach, er ys blynyddau.

Yn y fl. 1852, adeiladwyd capel newydd yn *Wilton Square, Islington*. Yr oedd ysgol Sabbothol, pregethu achlysurol, a chyfarfodydd i weddio wythnosol, yn cael eu cynal yn y gymydogaeth, ychydig flynyddau cyn hyny. Pregethid hefyd yn y "*West End*," ar brydnawniau Sabbothau, ac unwaith yn yr wythnos, ynghyd â chyfarfod eglwysig yn wythnosol, er ys rhai blynyddau. Yn 1849, dechreuwyd cynal gwasanaeth yno yn rheolaidd fel yn *Jewin Crescent*, mewn capel a feddiennid dan ardreth. Yn awr, (1856), pa fodd bynag, y mae capel lled helaeth, a thra phrydferth, yn cael ei adeiladu a dysgwylir iddo fod yn barod i gael ei agoryd ar Sabboth y Pasg nesaf; sef yr amser y cynelir, er ys maith amser, bellach, gylch-wyl, neu gymanfa flynyddol y Methodistiaid. Y mae pregethu cyson, ac eglwys fechan, mewn lle, yn y *Borough*, a elwir y *Cambrian;* a llochir y dysgwyliad y ceir lle cyn hir i adeiladu capel cyfleus, a hyny mewn sefyllfa mwy manteisiol, nag y mae yr addoldŷ presenol ynddo.

Tua'r fl. 1817, adeiladwyd capel yn *Woolwich*. Yr oedd y Cymry yn lluosocach yno, tybygid, y pryd hyny; ond yn awr, nid ydynt yn aml eu rhif, ac o ganlyniad, y mae yr achos Cymreig yn y lle yn wanaidd a nychlyd. Bu pregethu am flynyddau yn *Deptford*, hen gartref y Parch. James Hughes; ond yn awr, o herwydd rhyw amgylchiadau anffodus, y mae y ganwyll yno wedi diffoddi. Mae pregethu bob Sabboth hefyd, mewn lle a elwir "*Poplar*," rhwng y gwahanol enwadau crefyddol, a'r achos hyd yma, yn ymddangos yn dra siriol.

Wedi marwolaeth y Parch. William Williams, nid oedd un gweinidog yn

aros gan y Methodistiaid, nac un pregethwr ychwaith, ond Mr. Robert Owen. Parodd yr ymddifadrwydd hwn, i'r brodyr edrych yn bryderus am weinidog i ymsefydlu yn eu mysg; ac wedi peth oediad, llwyddwyd gyda'r Parch. Owen Thomas, i gartrefu yn eu plith. Y mae wedi bod yno, bellach, er ys amryw flynyddau, a'i lafur gweinidogaethol, wedi cael ei goroni â chymeradwyaeth cyffredinol y cynulleidfaoedd; ac hefyd, yr hyn sydd fwy na'r cwbl, â sel bendith y Goruchaf ei hun. Yma hefyd y mae yn cydlafurio âg ef dri o frodyr eraill, sef Mr. Robert Owen, enw yr hwn a grybwyllasom eisoes, a'r hwn sydd bellach yn oedranus, a Mr. Hugh Lloyd, yr hwn sydd hyd yma yn treulio llawer o'i amser fel *City Missionary*, a Mr. Richard Davies. Yn Llundain hefyd y preswylia y Parch. John Mills, cenhadwr at yr Iuddewon; yr hwn hefyd sydd o fewn cylch y cyfundeb, ac yn achlysurol yn gweini i'w gyd-genedl y Cymry.

Mae golwg siriol, heddychol, a llwyddiannus, ar yr achos yn Llundain; mwy felly, tybygid, nag a welsid arno lawer gwaith, os erioed, o'r blaen. Nifer yr aelodau ydyw 589, a 17 o ddiaconiaid. Bendith aunrhaethol i filoedd o Gymry sydd yn dylifo yn barhaus o wlad eu genedigaeth i'r brif-ddinas, i ganol cenedl o estron-iaith, ac i ganol myrdd dirif o hudoliaethau, ydyw fod darpariaeth ar eu cyfer, yn iaith eu gwlad, i'w crynhoi at eu gilydd i gyd-addoli y Duw a'u gwnaeth; ac i ymofyn am yr addysg sydd yn gwneuthur dynion yn ddoethion i iachawdwriaeth.

PENNOD VI.

HENADURIAETH SIROEDD CAER A LANCASTER.

CYNWYSIAD:—

ACHLYSURON EI FFURFIAD—CYFUNDEB Y PARCH. P. OLIVER—CYNWYSIAD EI THERFYNAU—Y CYFARFODYDD HENADURIAETHOL.

Y MAE y gymdeithasfa yn Ngwynedd yn cydnabod bellach, fod o fewn eì harolygiaeth naw o gofforiaethau crefyddol, y rhai a adwaenir yn gyffredin wrth yr enw Cyfarfodydd misol. Galwyd hwy felly oblegid mai yn fisol y cynhelid y cyfarfodydd. Hyd yn ddiweddar mewn cydmariaeth, nid oedd ond *pump*, pryd yr oedd siroedd Dinbych a Fflint gyda'u gilydd yn un. Wedi hyny ychwanegwyd Liverpool a Manchester yn un arall. O fewn llai na 44 mlynedd yn ol dattodwyd yr undeb ag oedd rhwng siroedd Fflint a Dinbych, ac aeth pob un yn Henaduriaeth arni ei hun. Yn mhell ar ol hyny rhanwyd siroedd Meirion ac Arfon yr un modd. Y mae y ddwy sir hyny bellach yn cynwys dau gyfarfod misol, neu Henaduriaeth, bob un. Gwnaed hyn oddiar fod y ddwy sir hyny yn fawr ei maintioli; ac mai tra anfanteisiol oedd i'r brodyr o un pen fod yn bresenol yn nghyfarfodydd y pen arall; a chyda hyny, yr oedd yr achos wedi cynyddu cymaint, a'i achosion mor lluosog, fel y

profwyd mai rhy anhawdd oedd rhoddi trafodaeth deg arnynt yn ystod yr ychydig oriau y byddai y cynrychiolwyr ynghyd. Felly rhanwyd y ddwy sir grybwylledig; ac y maent yn aros hyd heddyw, bob un yn ddau gyfarfod misol henaduriaethol.

Yn ystod y 40 mlynedd diweddaf, yr oedd nifer o gapelau wedi eu codi, a mân gynulleidfaoeddd wedi eu crynhoi, yn mysg y Saeson yn benaf, nad oeddynt yn nghwlwm un Henaduriaeth; ond yn cael eu golygu fel nifer o orsafoedd cenhadol; a'u harolygiaeth yn disgyn, nid i gyfarfod o henaduriaid, neu gynrychiolwyr, dewisedig ganddynt hwy eu hunain, ond i'r Bwrdd Cenhadol, cysylltiedig â'r Gymdethasfa Chwarterol. Ond gan fod yn anmhosibl i'r Bwrdd Cenhadol wneuthur dim mwy na chymeryd arolygiaeth gyffredinol yr holl faes cenhadol; rhaid oedd ymddiried y *gweinyddiad* i fesur mawr i gyfarfodydd eraill. Felly ymddiriedwyd gweinyddiad rhai manau i'r brodyr yn Liverpool, ymddiriedwyd manau eraill i gyfeisteddfod, cysylltiedig â chyfarfod misol sir Fflint; a'r gweddill i gyffelyb gyfeisteddfod cysylltiedig â chyfarfod misol sir Drefaldwyn. Hefyd yr oedd yr achos Cymreig yn Liverpool yn meddu perffaith hawl i weinyddiad ei achosion, ynddo ei hunan; a Manchester yr un modd. Galwesid y ddwy dref, yn y blynyddoedd diweddaf, mae'n wir, yn gyfarfod misol mewn undeb â'u gilydd, ond nid oedd hyn, nemawr fwy nag enw. Yn y cyfamser, chwanegwyd at y lleoedd Cymreig dan arolygiaeth Liverpool, amrywiol leoedd eraill, gan mwyaf, yn lleoedd Saesonig, sef dau gapel, un Cymreig ac un Saesonig, yn Runcorn; dau gapel Saesonig yn *Scarisbrick*, ac un arall yn *Garston* (yn ychwanegol at y ddau gapel Cymreig yn sir Gaer). Yr oedd amryw fanau eraill, rhai yn sir Gaer, megys y *Two Mills*, a *Saughall*, a'r lleill yn rhanau Saesonig sir Fflint, megys *Mancott, Golphdin, Ewloe-green*, a Phentre-moch, yn ysgogi ymlaen, fel y gallent, dan ofal cyfeisteddfod brodyr yn Wrecsam a'i hamgylchoedd; ond ar yr un pryd yn dyoddef cryn lawer, o ddiffyg arolygiaeth manylach a mwy effeithiol. Felly hefyd yr oedd amryw fanau cyffelyb iddynt yn ngodrau sir Ddinbych, lle y siaredid yr iaith Saesonig.

Yn y fl. 1853, gwnaed cynygiad i gyflwyno i'r cyfundeb nifer o gapelau a chynulleidfaoedd, gynt yn perthyn i gyfundeb y Parch. Phillip Oliver, M.A., Caerlleon; yr hwn gynygiad a fu yn achlysur i ddwyn trefydd Lloegr, gorsafoedd cenhadol, a chynulleidfaoedd Oliver, i gwlwm â'u gilydd, mwy cydweddol ag egwyddorion Methodistiaeth, ac o dan arolygiaeth cyfarfod o Henaduriaid, neu gynrychiolwyr yr eglwysi. Gan i ni grybwyll am gyfundeb y Parch. P. Oliver, ac yn enwedig gan fod y capelau perthynol iddo gynt, wedi eu derbyn bellach i undeb â'r Methodistiaid, gweddus fyddai, tybygid, cyn myned ymhellach, osod hanes y cyfundeb hwnw yn fyr, o flaen y darllenydd.

Yr oedd Mr. Oliver yn ŵr boneddig, o haniad anrhydeddus, ac o sefyllfa uchel, cymaint felly ag odid neb yn ninas Caerlleon. Dygwyd ef i fyny hefyd mewn dysgeidiaeth cyfatebol i'w sefyllfa, a hyny gyda golwg ar iddo fod yn

weinidog yn eglwys Loegr. Wedi gorphen ei efrydiaeth, derbyniodd urddau esgobol; a dechreuodd ei weinidogaeth. Nid oes lle i feddwl ei fod y pryd hyn, wedi profi nemawr o argraffiadau crefyddol. Aeth i'r weinidogaeth, fel llawer eraill, oddiar ei bod yn alwedigaeth a gyfrifid yn anrhydeddus, a boneddigaidd; ac yn cynyrchu, mewn llawer amgylchiad elw a dylanwad mawr. Bu Mr. Oliver, os ydym yn deall yn gywir, yn dàl curadiaeth dros dymhor byr yn *Churton-Heath*, sir Gaer, tra yr ydoedd yn yr agwedd anghymhwys yma, o ran ei ysbryd; ac yn dilyn esiamplau boneddwyr cyffredin ei wlad, o ran ei arferion.

Fe'i ganesid ef yn y fl. 1763; a phan oedd tuag wyth neu naw ar hugain oed, ac yn gwasanaethu Duw nid adwaenai, goddiweddwyd ef ag afiechyd trwm, effeithiau yr hwn a'i dilynodd dros weddill ei oes. Bendithiwyd yr oruchwyliaeth hon iddo. Dygwyd ef ato ei hun; daeth i weled gwagedd y byd, ac i deimlo gwerth duwioldeb. Teimlodd argyhoeddiadau dwysion, a chafodd brofiadau hyfryd o ymwared. Llanwyd ei fynwes â thangnefedd yr efengyl, a chynyrchwyd ynddo wir awydd i lesâu ei gyd-ddynion. Wedi iddo wella yn ddigonol, dechreuodd bregethu drachefn, yn amrywiol eglwysi Caer, lle bynag y gwahoddid ef; a deallwyd yn fuan, mai nid pregethwr cyffredin ydoedd. Gan y blas efengylaidd oedd ar ei weinidogaeth, a chan ddifrifwch a dwysder rhyfeddol ei ysbryd, cerddodd son mawr am dano, ac ymdyrai tyrfaoedd i'w wrando, pa le bynag y deallid ei fod i bregethu. Yr oedd ei boblogrwydd yn cynyddu o Sabboth i Sabboth, nes y byddai yr eglwysi yn cael eu gorlenwi. Ond hyn ni allai rhai ei ddyoddef. Grwgnachent o herwydd yr anghyfleusdra a barai y fath dyrfaoedd, ac achwynent fod ei weinidogaeth yn aflonyddu ar eu heddwch yn ddiachos. Yr esgob hefyd, sef Dr. Cleaver, a ddangosodd ei anghymeradwyaeth, gan roddi attaliad ar ysgogiadau Mr. Oliver, trwy waharddiad caeth, na chaniateid iddo mwyach bregethu yn yr un o eglwysi y ddinas. Yr oedd hyn yn fwy gorthrymus, gan nad oedd neb yn gallu ei gyhuddo, o fod wedi dyweyd na gwneuthur dim, ag oedd yn groes "i un erthygl, *canon*, na *rubric*, o eiddo yr eglwys." Yn unig gosodid yn ei erbyn, ei fod yn achlysuro anghyfleusdra ac annhrefn, drwy ddenu gormod o wrandawyr ar ei ol!

Wedi ei attal fel hyn i wneuthur daioni trwy bregethu Crist a'i groes i bechaduriaid colledig, dygwyd ef, er o'i anfodd, i benderfynu rhoddi arllwysiad i farn ei gydwybod, a thuedd ei galon, mewn rhyw ddull arall. Yr oedd hyn, tybygid oddeutu y fl. 1793. Yr oedd Mr. Charles eisoes wedi ymuno â'r Methodistiaid er ys rhai blynyddau; a'r achos Cymreig mewn cysylltiad â'r Methodistiaid, wedi dechreu yn Nghaer hefyd. Arferai Mr. Oliver ganiatâu i nifer o'i gymydogion, a ddymunent hyny, gael dyfod i'w dŷ, ar yr awr weddi; hwythau, gan faint yr hyfrydwch a fwynhaent, a wahoddent eraill i ddyfod gyda hwynt; a chyn hir yr oedd ei barlawr yn rhy fychan i'w cynwys. Agorwyd bellach ddrws y neuadd, modd y gallai y rhai a eisteddent yno hefyd gael y fantais o'i glywed. Gwelodd y gŵr duwiol yn fuan fod llaw

Duw yn ei arwain, ac ni fu yntau yn anfoddlawn. Felly fe ddechreuodd feddwl am agor lle mwy cyfleus i addoli; ac yn mhen enyd o amser neilldu-odd ei gerbyd-dŷ (*coach-house*), ac a'i trefnusodd i'r dyben. Cynaliai addol-iad bellach yn y lle hwn bob Sabboth, ac yn aml yn yr wythnos; a Duw hefyd oedd yn cyd-dystiolaethu, trwy fendithio ei lafur yn helaeth. Cynydd-ai y gynulleidfa fwy fwy, fel y bu raid helaethu y capel, dro ar ol tro; ac o'r diwedd bu raid rhoddi oriel helaeth arno, a'i wneyd mor eang ag y cynwysai fwy na mil o bobl; eto yr oedd pob congl o hono yn cael ei lenwi yn dŷn bob Sabboth. Yr oedd hyn yn hynotach, gan fod y lle yn ngodrau y ddinas, ac yn rhan fawr o filldir allan o'i chanol.

Yr oedd cyd-darawiad nodedig yn yr amgylchiadau hyn i'r eiddo y tadau Methodistaidd; ac nid rhyfedd genym glywed fod cydymdeimlad bywiog a charedig yn codi rhyngddynt â Mr. Oliver. Yr oedd y Cymry crefyddol yn Nghaer yn ymgymysgu yn arferol â gwrandawyr Mr. Oliver, ac yn cyfan-soddi rhan ehelaeth o'i gynulleidfa; dangosai yntau (Mr. Oliver) fesur mawr o serchogrwydd tuag atynt hwythau. Gan y byddai Mr. Oliver yn dechreu y gwasanaeth boreol ymhell ar ol yr awr y dechreuai y Cymry yr eiddynt hwy, yr oeddynt yn gallu cyrhaedd capel Mr. Oliver yn fuan ar ol i'r addol-iad ddechreu, a hyny ar ol dybenu yr addoliad yn eu mysg eu hunain. Felly, er mwyn cyfleusdra iddynt hwy allu dyfod i mewn yn eu hamser eu hunain, heb aflonyddu y gynulleidfa, mynodd wneuthur drws bychan gerllaw y pwl-pud, i fod yn benodol at eu gwasanaeth. Bendithiwyd ei weinidogaeth er troedigaeth i rai o'r Cymry, ac er adeiladaeth i lawer o honynt. Yr oedd Mr. Oliver, yn yr adeg hon wedi dyfod i gydnabyddiaeth â Mr. Charles; a chan y cyd-darawiad oedd yn eu hamgylchiadau, cododd cyd-ymdeimlad neilldiol rhyngddynt. Dygasid y ddau i fyny yn weinidogion yn yr eglwys wladol; bedyddiasid y ddau yn ehelaeth i ysbryd yr efengyl; a dyoddefasai y ddau yn gyffelyb oddiwrth orthrwm a thrais eu huchafiaid eglwysig. Gallem ddysgwyl mai nid diystyr a fyddai dau o'r fath o helyntion eu gilydd; cododd cyfeillach wresog rhyngddynt; ac fel yr oedd llesgedd corfforol Mr. Oliver yn cynyddu, ac yn ei wneuthur yn fwy fwy analluog i weini i'w gynull-eidfa, mor gyson ag y dymunai, ymofynai am gynorthwy Mr. Charles yn awr ac eilwaith, fel y byddai yr angen yn galw. Yntau ni omeddai gais ei gyfaill, hyd y goddefai amgylchiadau iddo gydsynio; a defnyddiodd hefyd ei ddy-lanwad i gael gŵŷr eraill, o'r un ysbryd, i gyd-gynorthwyo. Felly, heblaw Mr. Charles ei hun, bu Mr. Jones, Llangan; Mr. Jones, Creaton; a Mr. Ellis, Wyddgrug, yn pregethu i gynulleidfa Mr. Oliver, tra yr oedd y gŵr da ei hun yn fyw. Nid hir, pa fodd bynag, y bu efe byw, ar ol iddo ymneilldu o ddiwrth y fam-eglwys; saith mlynedd y caniatawyd iddo aros ar y maes; lluddiwyd ef gan farwolaeth barhau; oblegid yn y fl. 1800, pan nad oedd eto ond 37 mlwydd oed, bu farw. Bu ei yrfa fer yn rhyfeddol o lwyddian-nus; casglasai yn y saith mlynedd hyny gynulleidfa fawr at eu gilydd, a bu yn ddiau yn offeryn i droi llaweroedd at yr Arglwydd.

Yr oedd yn perthyn i'w gynulleidfa amryw o wŷr cyfrifol, y rhai oeddynt yn allnog ac yn awyddus i ddysgu eraill hefyd; yn eu mysg y gellir enwi Meistri Cawley, *Churton Heath;* Simon Ralphs, *Saighton;* Robert a Richard *Littler*, dau frawd, yn byw yn *Tarvin.* Yn y canlyniad, dechreuwyd ymwasgaru i amrywiol bentrefydd o amgylch Caer, a sefydlwyd gorsafoedd cenhadol bychain, i'r rhai y byddai y pregethwyr lleygaidd crybwylledig yn cyfranu gair y bywyd, mewn undeb â Mr. Oliver.

Wedi marwolaeth Mr. Oliver, yr hwn a fuasai yn offeryn cychwyniad y gwaith; a thra y bu, a gyfrifid yn brif ysgogydd iddo, rhaid yw y byddai gradd o gyfnewidiad ar ei weinyddiad. Gofalodd Mr. Oliver am dano cyn ei farw, ac hyd y gallai, ar ol ei farwolaeth, drwy ei gyflwyno i ofal Mr. Charles, a dau eraill o'i gyfeillion; gadawodd hefyd yn ei lythyr-cymun ei dŷ a'r addoldŷ cyfagos, dan yr ymddiried o fod iddynt ddwyn yr achos crefyddol ymlaen yno. Yr oedd y lle, fel y dywedwyd, yn ngŵr dwyreiniol y ddinas, sef yn Boughton; ac felly, yn anghyfleus i gorff y dinaswyr. Barnai Mr. Oliver y gallai symudiad yr orsaf fod ryw bryd yn fuddiol, os nad yn gwbl angenrheidiol; ac felly, caniataodd yn ei ewyllys, os bernid hyny yn oreu, fod hawl gan yr ymddiriedolwyr i roddi yr etifeddiaeth yn Boughton i'w frawd, ar yr ammod iddo yntau dalu swm penodol o arian am dani; modd y gallai yr ymddiriedolwyr ddarpar addoldŷ arall yn lle y cyntaf. Ymhen rhyw nifer o flynyddau, o gynal yr achos yn Boughton, fel yn amser Mr. Oliver, barnwyd yn oreu ei symud; a chan fod capel mwy cyfleus, perthynol i'r Wesleyaid, ar werth, fe'i prynwyd gan yr ymddiriedolwyr, a throsglwyddwyd eisteddle yr achos i'r capel hwnw; enw y capel yw yr *Octagon,* oddiar ei fod yn wythonglog ei ffurf.

Yn ystod rhai blynyddau ar ol marwolaeth Mr. Oliver, arferai amryw weinidogion wasanaethu y gynulleidfa hon, a'r canghenau yn y wlad perthynol iddi, heblaw Mr. Charles ei hun. Ar ei gais ef deuai rhai o weinidogion eglwys Loegr, y rhai, fel yntau, a lywodraethid gan egwyddorion rhydd, i lenwi y pwlpud; rhai o gyfundeb Iarlles Huntingdon; a rhai o'r Cymry ag oeddynt allnog i lefaru yn Saesoneg. Yn mysg y dosbarth cyntaf, yr oedd Mr. Griffiths, Nefern; a Mr. John Williams, Pant-y-celyn. Wedi y fl. 1813, sef y flwyddyn yr ymsymudwyd i'r *Octagon*, gwasanaethid yr achos gryn lawer gan Mr. Jones, Dinbych; John Evans, New Inn; Mr. James, Pen-y-blaen; Mr. John Evans, sir Benfro; a Mr. Lloyd, Bala. Yn achlysurol hefyd, arferai Mr. Richards, Caernarfon; Charles, Caerfyrddin; Thos. Hughes, ac yn neillduol T. Edwards, Lerpwl. Yn fwy diweddar, bu Mr. Owen Jones, a'r ysgrifenydd, yn arfer cyflenwi gradd ar ddiffygion y gynulleidfa, heblaw y gwasanaeth mynych a roddai Mr. Parry, Caer, i'r cyfundeb hwn, yn enwedig yn y gorsafoedd a berthynai iddo yn y wlad,

Ond yr oedd cryn raddau o ansicrwydd yn gysylltiedig â'r cynorthwyon hyn. Teimlid hefyd angen am weinidogaeth, neu fugeiliaeth fwy arosol yn y lle; a phenderfynodd Mr. Charles mai gwell i'r gynulleidfa oedd ymofyn am

un neu ddau weinidog a fyddai yn awr yn sefydlog yn eu plith. Yr oedd rhan o wasanaeth eglwys Loegr, yn cael ei ddarllen yn mhob addoliad, ac felly yr oedd ffurf y gwasanaeth yn mhlith y bobl hyn yn gyffelyb i'r hyn ydyw yn Nghyfundeb yr Iarlles Huntingdon. At y cyfundeb hwnw gan hyny yr edrychwyd am weinidog i'r bobl hyn. Mewn canlyniad i'r ysgogiad hwn fe gafwyd y Parch. James Bridgman, a thrachefn y Parch. John Williams i gymeryd gofal y cynulleidfaoedd yn y ddinas, ac yn y wlad. O hyny allan, o leiaf, dros lawer o flynyddau, yr oedd y drafodaeth yn llai rhwng y cyfundeb hwn â'r eiddo y Methodistiaid, a hyny yn unig, o herwydd fod yr angenrheidrwydd yn llai. Nid oedd dim oerfelgarwch wedi cymeryd lle, ac nid oedd un trosglwyddiad o'r capelau wedi ei wneyd i neb arall. Eto gan mai Saeson oedd y gweinidogion, ac mewn undeb gweithredol â'r eiddo yr Iarlles; a chan y symudwyd Mr. Charles ymaith trwy farwolaeth; ac i oes arall godi yr hon nid adwaenai na Mr. Oliver na Mr. Charles, yr oedd rhwymyn yr undeb rhwng y Methodistiaid â'r bobl hyn yn llacio gradd o flwyddyn i flwyddyn. Eto nid oedd y cydnabyddiaeth a'r ymgymysgiad yn llwyr ddiflanu. Arferai ambell un bregethu yn yr *Octagon* yn achlysurol drwy yr holl flynyddau; ymwelai ambell un hefyd â'r gorsafoedd yn y wlad; pregethai aml un o weinidogion y Methodistiaid yn eu cyfarfodydd chwarterol, ac yn neilldnol yn eu cymdeithasfa flynyddol, yr hon a gynelid am amser maith iawn ar Sul y Drindod. Arferai eu gweinidogion hwythau hefyd ddyfod i gyfarfodydd y Goror yn fynych, a bu rhai o'u pregethwyr lleygaidd hwy yn ffyddlawn iawn yn diwallu angen ein gorsafoedd cenhadol ninau.

Yn ystod y 35 mlynedd y bu y ddau weinidog crybwylledig yn bugeilio yr achos, syrthiodd yr achos, yn y ddinas ac yn y wlad, i ddirywiad trwm; ac er nad oedd un gwyrni mewn athrawiaeth, na bai mewn buchedd yn cael ei osod yn erbyn y gwŷr da, eto cododd gradd o anniddigrwydd yn mysg y cynulleidfaoedd i'w bugeiliaeth, o herwydd y bernid fod eu gweinidogaeth yn aneffeithiol. Yr oedd colofnau cryfaf yr achos yn colli oddiar y maes, y naill ar ol y llall, ac nid oedd iddynt olynwyr; bu raid rhoddi i fyny amryw o'r gorsafoedd yn y wlad, naill ai o herwydd diffyg llafurwyr, y rhai oeddynt yn syrthio o un i un i'r bedd, neu o herwydd bod y draul yn ormod i'w dal i fyny. Rhoddwyd amnaid i'r gweinidogion gan gyfeisteddfod y cyfundeb, fod eu gwasanaeth yn aneffeithiol, ond gan nad oedd un bai i'w roddi yn eu herbyn, a chan eu bod hwythau bellach, wedi ymsefydlu o ran cartref a theulu yn y ddinas, nid hawdd oedd ganddynt ymadael, a rhoddi eu lle i fyny; ac yn enwedig, gan fod iddynt rai gwŷr da a chyfrifol yn sefyll yn ffyddlawn o'u hochr. Ymhen rhai blynyddau, ar ol i'r anniddigrwydd uchod ymddangos, rhoes un o'r gweinidogion, y diweddar Barch. John Williams, ei le i fyny; ond y llall a barhaodd am flynyddau i weini fel cynt. O'r diwedd, yr oedd y gweddill o brif golofnau yr achos yn meirw; yr oedd yr eglwys yn lleihau, a'r gynulleidfa yn teneuo, a'r anniddigrwydd yn cryfhau, fel y gwelid yn amlwg fod yn rhaid gwneuthur rhyw ysgogiad. Yn y cyfwng hwn penderfyn-

odd y cyfeisteddfod alw gweinidog arall; a disgynodd y coelbren ar y Parch. William Evans, gynt o sir Benfro; gweinidog yn mysg y Methodistiaid, ac ar y pryd, yn genadwr yn y Gelli, sir Frycheiniog. Ymhen ychydig ar ol ei sefydliad ef yn yr *Octagon*, galwyd y Parch. Owen Howells, gynt o Gaerfyrddin, gweinidog arall o'r cyfundeb, i gymeryd gofal yr eglwysi a'r cynulleidfaoedd yn y wlad.

Trwy y symudiadau hyn, dadebrodd yr achos i raddau; adfywiodd y cynulleidfaodd, a lluosogodd y gwrandawyr; ar yr un pryd, yr oedd yr achos yn gyffredinol wedi disgyn i gryn lesgedd, a theimlai y cyfeisteddfod radd helaeth o anhawsder i gario y gwaith ymlaen, heb ei osod ar sail wahanol i'r un a fu. Yr oedd yr hen golofnau, oll ymron, wedi meirw, ac nid oedd gymaint ag un aelod o'r cyfeisteddfod gwreiddiol a osodwyd gan Mr. Charles yn fyw, ond Mr. Ralphs, Saighton; yr oedd yntau, bellach, yn hen ac yn gyflawn o ddyddiau, yn terfynu ar 80 mlwydd oed. Teimlai y gŵr da hwn yn dra phryderus, cyn ei ymadawiad, i weled y cyfundeb, y buasai cyhyd o amser yn dal perthynas âg ef, wedi ei osod ar sail fwy cadarn; ac mewn undeb â rhyw gyfundeb o bobl grefyddol ag a allai fod yn gyfnerthiad iddo. Nid oedd ond dau gyfundeb ag y buasai yn naturiol iddo droi atynt; un ai y Methodistiaid, ai cyfundeb yr Iarlles; yr oedd gweinidogion y cyfundeb diweddaf wedi bod yn hir o amser yn troi ymhlith y bobl hyn, a'r Methodistiaid i'r un graddau wedi ymddyeithro; eto yr oedd yr achos wedi gwaelu yn drwm dan fugeiliaeth y gweinidogion hyny; ac erbyn hyn yr oedd dau o weinidogion y Methodistiaid wedi eu sefydlu yn eu lle. Ac heblaw hyn, yr oedd meddwl yr henafgwr crybwylledig yn tueddu yn fwy at y Methodistiaid, gan fod y ddau gyfundeb yn addef yr un fath darddiad, yn dàl yr un egwyddorion a rheolau dysgyblaethol, pa rhai a gyfansoddwyd gan Mr. Charles; a chan fod cymaint o gymdeithas wedi bod rhyngddynt ar y dechreu, felly, ar y cyfrifon hyn, daeth y cyfeisteddfod, i'r hwn y perthynai ysgogi yn y mater, i'r penderfyniad i gynyg yr *Octagon*, a'i ganghenau, i'r Methodistiaid, i fwynhau eu breintiau, ac i fod yn ddarostyngedig i'w trefniadau fel eglwysi erailll y cyfundeb.

Felly, yn Medi, 1853, daeth dau genad i gymdeithasfa Bangor i ddodi y cynygiad yn ffurfiol ger bron; ac mewn canlyniad cyfarfu dirprwywyr yn Nghaer, i ystyried yr achos yn ei wedd grefyddol a chyfreithiol; a disgynwyd i'r penderfyniad o dderbyn cynulleidfaoedd Mr. Oliver i'r cyfundeb, wedi y ceid sicrwydd, fod hyny yn unol â dymuniad yr eglwysi hyny, a bod y capelau i gael gael eu trosglwyddo yn feddiant i'r Methodistiaid, wedi cael allan fod hyny yn cydfyned â chyfraith y wlad; mae hyn, gan hyny, bellach, wedi ei wneuthur.

Gosodasom y bras hanes uchod am gyfundeb Mr. Oliver, fel y gallai y darllenydd ddeall pa fath a fu yr achlysur o ymgorfforiad yr Henaduriaeth a berthyn i siroedd Caer a Lancaster.

Mae yr Henaduriaeth hwn yn cynwys eglwysi a safent yn wreiddiol ar wahanol dir; a phob dosbarth o honynt arno ei hunan. Y cyntaf ydyw yr

eglwysi Cymreig yn Lloegr, nad oeddynt eisoes mewn undeb ag un cyfarfod misol Cymreig, sef, yr eiddo Liverpool, Birkenhead, Seacombe, Manchester, a Runcorn. Yr ail ddosbarth a gynwysai yr holl orsafoedd cenhadol Seisonig, o Wrecsam yn y dehau, hyd Scarisbrick yn y gogledd :—sef,

Scarisbrick.	Mancott.	
Scarisbrick Bridge.	Golfftyn.	sir Fflint.
Windsor, Liverpool.	Pentremoch.	
Garston.	Ewloe-green.	
St. John's, Runcorn.	Poulton, sir Gaer.	
Two Mills, sir Gaer.	Rossett.	
Saughall, „	Burton.	sir Ddinbych.
Holt, sir Ddinbych.	Bethlehem.	
Glan-y-pwll, „	Summer Hill,	
Bowling Bank, „	Crabtree Green,	sir Ddinbych.
Bethel, „	Tabernacle,	
Bank-street, Wrexham.	Glan-yr-afon.	
Sion, sir Fflint.		

Y rhestr uchod oll oeddynt yn orsafoedd cenadol; y trydydd dosbarth a berthyn i'r Henaduriaeth ydyw, y cynulleidfaoedd a fu yn perthyn i gyfundeb Mr. Oliver, sef yr *Octagon*, Caer; Ebenezer, yn *Waverton; Tarvin*, *Delamere*, *Saighton*, a *Cotebrook*.

Mae y tri dosbarth uchod yn cyfansoddi yr Henaduriaeth. Mae o fewn y cylch uchod tua 40 o gapelau, lle y pregethir Cymraeg neu Saesonaeg, heblaw rhai tai neu adeiladau dan ardreth. Mae yn y cylch hwn tua 18 o bregethwyr a gweinidogion, a thua 3,200 o aelodau eglwysig. Mae y nifer fwyaf, o'r eglwysi a gynwysir ynddo hefyd yn orsafoedd cenadol, ac yn analluog, hyd yma i ddwyn y cyfan o draul y'u cynaliad. Am y rhai hyn yr ymrwyma y Bwrdd Cenadol, i sefyll yn gynorthwy i'r Henaduriaeth, pryd y golygir yr Henaduriaeth yn gyfrifol i'r Bwrdd Cenadol am weinyddiad y cynorthwy hwnw. Nid oes yr un ymgorfforiad yn perthyn i'r cyfundeb ag y mae cymaint o amrywiaeth defnyddiau yn ei gyfansoddi ag sydd yn cyfansoddi yr Henaduriaeth. Mae yma rai eglwysi hen a chryfion; ond y rhan fwyaf ydynt ieuainc a gwanaidd; ar un llaw, y mae y Gymraeg yn unig yn ffynu, a'r Saesonaeg ar y llall. Edrychwn i un cyfeiriad, a chawn gynulleidfaoedd cryfion, wedi eu crynhoi gan y tadau yn y modd arferol; mewn cyfeiriad arall, y mae cynulleidfaoedd wedi eu mabwysiadu i'r cyfundeb, ac nid wedi eu magu ganddo; mewn cyfeiriad arall, y mae lluaws o gynulleidfaoedd bychain, wedi eu crynhoi dan ofal, a thrwy lafur y Gymdeithas Genadol Gartrefol. Llanerchi ydyw y rhai'n wedi eu harloesi yn nghanol dyrysni gwyllt; gerddi bychain wedi eu cau allan o'r cyt-dir llwm; dolydd tlysion, yn nghanol y crasdir diffaith. Mae y llafurwyr yn yr Henaduriaeth yn amrywio o ran eu hymrwymiad; rhai ydynt genadau i'r Bwrdd Cenadol; eraill, ydynt fugeiliaid eu cynulleidfaoedd; eraill, ydynt efengylwyr teithiol a chynorthwyol. Lle y mae cynifer o amrywiaethau, gwelir mwy o angenrheidrwydd am arolygiad yr Henaduriaeth i'w cylchu; fel y gellir eu hennill yn raddol i fwy o gysonedd a chydffurfiad; a

gwelir yr angenrheidrwydd am raddau helaethach o ddoethineb a barn, i allu iawn drefnu yr achosion tra amrywiol a ddygir ger bron.

Cynelir cyfarfodydd yr Henaduriaeth, hyd yma, unwaith bob *deufis*. Yr amgylchiad hwn, sef cynaliad y cyfarfodydd yn ddau-fisol, a fu yn achlysur, gydag ystyriaethau eraill, i alw yr ymgorfforiad hwn yn *Henaduriaeth*, ac nid fel yn Nghymru, yn *Gyfarfod misol*. Gyda'r golygiad fod yr enw arferol yn anmhriodol, barnai rhai y dylesid cael enw gwahanol ar y cyfarfodydd hyn; enw i ddynodi eu *natur*, yn hytrach na'u *hamser*; ac am hyny rhoddwyd yr enw Henaduriaeth ar yr ymgorfforiad, i ddynodi mai Henuriaid yr eglwysi, yn bregethwyr a diaconiaid, sydd yn ei gyfansoddi.

Mae cyfarfodydd yr Henaduriaeth wedi cael eu cynal yn rheolaidd bob deu-fis hyd yn hyn. Cynaliwyd y cyntaf yn yr *Octagon*, yn mis Ionawr 1854, ac yn ngwahanol orsafoedd y maes Henaduriaethol o hyny hyd yn awr.

Ni pherthyn i ni helaethu yr hanes am yr Henaduriaeth yn fwy manwl, gan ein bod eisoes wedi rhoddi hanes rhai o'r lleoedd cryfaf a berthyn i'r ymgorfforiad, yn yr hanes a roddwyd am drefydd Lloegr; a chan y daw y gorsafoedd eraill dan ein sylw, yn yr olwg a roddir eto ar y Genadaeth Gartrefol, afreidiol a fyddai ychwanegu.

PENNOD VII.

Y GENHADAETH GARTREFOL.

Nı a welsom, wrth olrhain hanes siroedd Cymru fod gweinidogaeth yr efengyl wedi ymwthio ar hyd ac ar led y dywysogaeth, i raddau mawr iawn, yn ystod y ganrif ddiweddaf; a bod ysgolion Sabbothol wedi cael eu sefydlu yn y trefydd, y pentrefydd, a'r cymoedd, niferi mawr iawn, ar ddiwedd y ganrif o'r blaen, ac ar ol dechreuad y ganrif hon. Gyda chynydd Methodistiaeth y bu adfywiad grymus ymhlith yr enwadau eraill yn Nghymru; a rhwng pob enwad, yr oedd gwybodaeth ysgrythyrol yn ymwasgaru, i bob congl o'r wlad. Yr oedd yr hen gampau llygredig yn syrthio, a gwedd hyfryd, cwbl wahanol i'r un a welsid ar y genedl ar ddechreuad y ganrif ddiweddaf, yn ymddangos ar y wcirin yn gyffredinol. Ond yr oedd trigolion y cyffiniau rhwng Cymru a Lloegr, yn aros yn gwbl yn yr un agwedd ag y buasai eu cyn-dadau ynddi er ys oesoedd. Gan mai Saesoneg a ddeallent, nid oedd y diwygwyr Methodistaidd, y rhai oeddynt, gan amlaf, yn Gymry uniaith, ddim yn alluog i'w cyfarch. Gadewid hwy, gan hyny, heb aflonyddu ar eu cwsg, gan neb; esgeulusid amseroedd eu hanwybodaeth gan bawb; gadewid iddynt fyned yn eu ffyrdd eu hunain. Yr oedd y broydd breision ac eang a breswylient yn berffaith ymddifaid o wybodaeth am Dduw; pawb yn troi at ei elw ei hun o'i gŵr; miloedd ar

filoedd o'r werin, heb ddarllen gair o'r Beibl erioed; tylwythau laweroedd heb glywed gair o efengyl yn eu hoes; eisteddent mewn tywyllwch a chysgod angeu; ïe, yr oedd godrau rhai o'r siroedd Cymreig yn yr agwedd yma. Ac nid yr *oeddynt* yn yr agwedd resynus yma, ond y *maent*, lawer o honynt, felly eto: edrycher ar odrau Brycheiniog, a Maesyfed yn enwedig; chwilier i ansawdd trigolion sir Drefaldwyn yn y parthau sydd yn terfynu ar sir Amwythig; ymofyner i hanes preswylwyr cyffiniau isaf siroedd Dinbych a Fflint; a cheir prawf fod y trigolion, yn y rhanau Seisonig o honynt, y rhai sy'n ymylu ar sir Gaerlleon, yn aros hyd heddyw yn gyffelyb i'r hyn oedd trigolion Cymru cyn dyfodiad yr ysgolion Sabbothol i'w plith.

Edrychid ar y gwastad-dir eang a bras sydd yn ymestyn i'r dwyrain oddiwrth odrau y siroedd Cymreig, cyn belled ag y gwel llygad, a hyny o fôr Bristol i'r afon Mersey, gyda thosturi ac eiddigedd, gan lawer cristion Cymreig; gan wynfydu na allasai y trigolion Seisonig gael yr un fath fanteision crefyddol ag a fwynheid gan y Cymry. Yr oedd aml un yn Neheubarth Cymru, yn llosgi gan awyddfryd i anfon yr efengyl, ac i sefydlu ysgolion Sabbothol yn mharthau Seisonig sir Benfro, ac yn mras-diroedd Mynwy a Brycheiniog; ïe, yn Maesyfed dlawd. Yn y Gogledd, hefyd, yr oedd mynwes llawer gŵr i Dduw yn eiddigeddu, na allesid tori dros Glawdd Offa, a goresgyn gwlad y Sais, yn enw yr Hwn a orchymynodd fyned i'r holl fyd a phregethu yr efengyl i bob creadur. Ond ar ffordd yr amcau hwn, yr oedd llawer o anhawsderau; yr oedd y broydd breision hyn yn gauedig gan ddiofalwch perffaith; ac i'r Cymro yr oeddynt yn gauedig gan iaith nid adwaenai; nid oedd athrawon i'w cael yn ddigon galluog yn yr iaith i agor ysgol Sabbothol yn mysg y trueiniaid anwybodus: a phe buasai ambell un o'r fath, nid oedd neb (cfallai yn eu plith hwy eu hunain) yn barod i agor ei ddrws i'w derbyn; ychydig hefyd oedd nifer y pregethwyr a fedrai draddodi eu meddwl yn rhwydd yn Saesoneg; ac yr oedd yr alwad am eu gwasanaeth, gan leied oedd eu nifer, a chan luosoced oedd y drysau agored yn mysg eu cydwladwyr Cymreig, fel na allent, heb drais ymron, fyned at neb ond eu cyd-genedl eu hunain. Yr ochr arall, nid oedd neb o'r Saeson crefyddol yn cyffroi nemawr yn yr achos; felly, rhwng marweidd-dra y Lloegriaid, ac anhawsderau y Cymry, yr oedd preswylwyr y broydd cyffiniol hyn, yn cael eu gadael trwy y blynyddau yn gwbl ymddifaid o air y bywyd; ïe, yr oeddynt wedi bod yn yr un cyflwr gresynus er ys oesoedd. Yr oedd yma dŷ addoliad gan yr eglwys wladol, mae'n wir, ymhob plwyf, ond nid oedd ond ychydig iawn yn cyrchu iddynt; a hyny o herwydd y rheswm gresynol, nad oedd dim yn gwahaniaethu yr athraw oddiwrth y bobl, ond y swydd oedd ganddo, a'r elw a dderbyniai. Ychydig oedd o efengyl yn y pregethau, ychydig o gysondeb oedd yn y fuchedd; a llai o dduwiolfrydedd oedd yn y galon, nag o ddim; y canlyniad oedd fod naws cristionogaeth wedi ei golli, er fod yr enw yn aros,—bywyd crefydd wedi difianu, er fod ei

ffurfiau ar gael; yr oedd y llygad yn ddrwg, a'r holl gorff oedd yn dywyll; a chan fod y goleuni, neu a ddylasai fod felly, yn dywyllwch, pa faint oedd y tywyllwch?

Yr oedd ambell i gristion ag oedd yn byw gerllaw y terfynau Seisonig, yn poeni ei enaid cyfiawn, o herwydd cyfiwr gresynol y trigolion; ac yn llosgi gan awydd duwiolfrydig i'w lleshau; oddiar yr awyddfryd hwn, tua'r fl. 1808, cafwyd gan yr hybarch Thomas Edwards, Lerpwl, addaw Sabboth neu ddau, i fyned allan i'r maes mawr hwn, i bregethu allan yn yr awyr agored, ar heolydd rhai o'r pentrefydd ag ydynt yn ei fritho. Yr oedd y gŵr hwnw yn llawn o ysbryd cenadol, ac yn gwbl barod i gyfarch y Saeson, er mai trwsgl ddigon oedd ef ei hun yn yr iaith. Cof gan yr ysgrifenydd, y fintai a droes allan un Sabboth, yn yr haf, gyda'r pregethwr, tuag wyth neu naw o nifer, pob un ar ei farch; a bachgenyn ieuanc gan bob un wrth ei ysgil, er mwyn rhoddi grym yn y canu. Wedi cyfarfod yn Wrecsam, cychwynodd yr orymdaith ddyeithr hon, tua Bangor-is-y-coed; ni welsid, mae'n debyg, er dechreu y byd yr un fintai o'r fath, ac yn troi allan ar y fath neges, a than y fath amgylchiadau. Dychymyger gweled wyth neu naw, neu ychwaneg o geffylau, pob un yn cario dau, yn troi allan ar fore Sabboth; y cwbl yn Gymry, a rhai o honynt heb fedru nemawr o ddim ond Cymraeg; ac yn wynebu gwlad y Sais, i gyhoeddi iddynt ar yr heol, newyddion da yr efengyl; a pha beth a feddylid am danynt? Llawer un ar y ffordd a ymofynai gyda gradd o syndod, pwy yw y rhai hyn? ac i ba le yr ânt? ac yn enwedig, wrth ddyfod i mewn i'r pentref, yr oedd mwy fyth o sylw, a phob un yn ymofyn â'i gymydog, pwy a allai y dyeithriaid hyn fod, a pha beth ydoedd ei neges?

Cyrhaeddasom Fangor erbyn naw o'r gloch y bore; disgynasom oll mewn tŷ tafarn ynghanol y pentref. Wedi rhoddi y ceffylau i ofal yr *ostler*, mynegwyd i ŵr y tŷ beth oedd ein neges, a gofynwyd iddo a roddai efe ganiatâd i'r pregethwr sefyll wrth fur y tŷ; ac a roddai efe fenthyg cadair, neu ystol, iddo i sefyll arni; gan hysbysu hefyd y darfyddai yr oedfa cyn i wasanaeth y llan ddechreu; ac y byddai yn angenrheidiol iddo ddarpar tamaid o fwyd i'r holl fintai, am yr hwn, wrth gwrs, yr oedd iddo gael ei dâl. Pa beth bynag a feddyliai y tafarnwr am ein hamcan, a pha faint bynag a allai ei wrthwynebiad fod i ddefnyddio ei dŷ i'r fath ddyben, yr oedd yn gweled nad oedd darpar ar gyfer cynifer o geffylau, ac arlwy i gynifer o bobl, ddim i'w wrthod; deallai ar unwaith fod yma elw i'w gael, a pharai gobaith yr elw, neu ynte ryw egwyddorion uwch, i'r gŵr roddi yn rhwydd y cais a ofynid ganddo. Felly, y gadair a ddygwyd allan, a'r fintai a safai yn dŵr o'i hamgylch, gan ddechreu canu. Dealled y darllenydd, nad oedd dim hysbysiad ymlaen llaw wedi ei roddi i'r pentrefwyr; ond y canu oedd y moddion a fwriadwyd i alw y trigolion ynghyd; ac yr oedd lleisiau 15 neu 20 o bobl, yn sefyll yn nghanol pentref bychan yn ddigon cryfion i gyrhaedd pob tŷ o'i fewn. Ar ein gwaith yn canu,

gwelem y pentrefwyr yn codi i ddrysau eu tai, ac yn dechreu ymofyn beth a allai hyn fod? Rhai a nesaent atom, eraill a safent oddiyma draw, gan chwerthin neu siarad â'u gilydd; ond wedi i'r canu ddarfod, esgynai yr hen bregethwr ar yr ystol, a chan edrych o'i amgylch, efe a amneidiai â'i law ar y bobl a safent o hirbell, i nesau ymlaen; a dywedai, nad oedd dim achos i neb ofni, mai ceisio eu lles yr oeddem, ac os deuent yn agos a gwrando, y caent gyfleusdra i farnu drostynt eu hunain.

Wedi darllen a gweddio, cymerai y canu le drachefn, ac yn raddol yr oedd y gynulleidfa yn chwyddo; rhyw rai yn anturio dyfod yn ddigon agos, o leiaf, i allu clywed; dilynai eraill eu hesampl, ac erbyn dechreu y bregeth yr oedd yno yn agos i ddau cant o bobl, yn ystod y bregeth yr oedd golwg lled chwith ar lawer iawn o'r gwrandawyr. Siaradai rhai, a chwarddai eraill; grwgnachai un, paham y deuai yr estroniaid hyn i aflonyddu arnynt hwy? un arall, a alwai arno i fod yn ddystaw: y trydydd, a ddywedai, gyda mawr lŵ, mae gwir bob gair a ddywedai y pregethwr; llawer o'r gwrandawyr, pa fodd bynag, a safent yn llonydd, ac a roddent glust o wrandawiad astud i'r hyn a draddodid; ac ambell un a roddai argoelion ei fod yn teimlo yn ddwys o dan y bregeth. Gofalodd Mr. Edwards derfynu erbyn amser gwasanaeth yr eglwys sefydledig; wedi rhoddi ar ddeall i'r gwrandawyr, nad oedd ef a'i frodyr ddim yn elynion i'r eglwys, ond eu bod yn pregethu yn gyson â'i herthyglau; gan eu hannog oll i fyned yn gyson i'r addoliad ynddi, a'u hysbysu ei fod ef a'r rhai oedd gydag ef, yn bwriadu myned eu hunain i'r gwasanaeth y bore hwnw.

Felly, ar ddiwedd yr oedfa, aethom oll i'r llan; ac ar ddiwedd y gwasanaeth, dychwelasom i'r tafarndŷ, ac wedi cael lluniaeth, cychwynasom drachefn, gan fwriadu cynal oedfa yn y prydnawn yn *Worthenbury*, pentref o fewn ychydig filldiroedd i Fangor. Mae y pentref hwn yn fwy nodedig, am mai gerllaw iddo y mae y *Broad-oak*, hen gartref yr hynod a'r duwiol Phillip Henry, lle magwyd yr esboniwr hyglod Matthew Henry; ac oddi yma aethom i *Overton* erbyn yr hwyr. Yn y lle hwn yr oedd yn amlwg fod yno amryw yn mysg y gwrandawyr, ag oeddynt wedi treulio y dydd yn y dafarn; ac i'r graddau yr oedd y ddiod feddwol wedi effeithio arnynt, i'r un graddau yr oedd eu hafreolaeth yn ymddangos; prin y gellid gostegu dadwrdd rhai o honynt, ac attal y lleill rhag ymwthio drwy y gynulleidfa at y pregethwr; eto, er hyn oll, cafwyd llawn cymaint o seibiant ag a allesid ddysgwyl, yn y fath le, ac oddiwrth y fath dylwyth. Ar ol yr oedfa hon, trodd pawb eu hwynebau tua chartref. Y cyfryw oedd y cais cyntaf, a wnaed gan neb o'r Methodistiaid erioed, i efengylu i drigolion Goror Clawdd Offa; ond nid hwn oedd yr olaf. Rhoes Mr. Edwards, daith arall neu ddwy, i ardaloedd eraill, ac effeithiodd y teithiau hyn, os nad ar y bobl yr oeddid yn ceisio eu lleshau, ar y rhai a wnaeth yr ymweliad; cawsant hwy olwg drymach ar agwedd y trigolion diofal nag oeddynt wedi ei ddysgwyl gael; taniwyd mynwesau rhai â mwy o eiddigedd yn eu hachos, a grymuswyd eu penderfyniad i ddyfeisio

rhyw foddion i anfon atynt, neu o leiaf, at rai o honynt, holl eiriau y fuchedd hon.

Treiglodd rhai blynyddau heibio, er hyn oll, cyn y ffurfiwyd y "GYMDEITHAS I LEDAENU GWYBODAETH YSGRYTHYROL YN MYSG TRIGOLION GOROR CLAWDD OFFA." Yr oedd rhyw gychwyniad bychan i'r gwaith wedi ei wneuthur gan ryw bersonau yn ardaloedd Gwrecsam a'i chyffiniau, cyn ffurfio y Gymdeithas, trwy agor ysgol Sabbothol mewn man neu ddau. Ond yn y fl. 1813, y rhoddwyd ffurf cymdeithas ar yr ysgogiad; mewn cyfarfod blynyddol yn Ngwrecsam y gwnaed hyny, pryd yr oedd Mr. Charles, Bala; a Mr. Elias, Môn; ac eraill, yn bresenol. Yn fuan, bellach, agorwyd amryw leoedd i gadw ysgolion Sabbothol, ac i bregethu ynddynt. Yn mysg y lleoedd boreaf, gallwn enwi y rhai canlynol:—Bersham, Crabtree-green, Talwrn, Gwersyllt, Llai, a Rossett.* Gwanaidd ac eiddil iawn oedd yr olwg ar y gwaith y pryd hwn. Ychydig iawn oedd nifer y pregethwyr a bregethent yn yr iaith Saesoneg; Mr. Ellis, Wyddgrug; Mr. Parry, Caer; a'r ysgrifenydd, a geid amlaf ar y maes; ceid cynorthwy achlysurol hefyd oddiwrth rai o'r brodyr a berthynent i gyfundeb Mr. Oliver, Caer; sef Mri. Cawley a Ralphs, ac eraill. Yn achlysurol ymwelai y Parchn. R. Roberts. Rhos; John Humphreys, Caerwys; a John Jones, Treffynnon; ynghydag ambell un arall o sir Fflint, â'r lleoedd bychain oedd bellach yn agored. Dangosodd Mr. Daniel Jones o Wrecsam, lawer o ffyddlondeb dros y gymdeithas drwy flynyddau cyntaf ei ffurfiad. Eiddigeddai John Williams, Llancurgain, lawer dros y rhan yma o waith yr Arglwydd, a thrwyddo ef yn benaf y cychwynwyd yr achos yn Mancott, Golftyn, a Phentre-moch. Dangosodd Mrs. Jones o Wrecsam, lawer o garedigrwydd at y ganghen hon o waith yr Arglwydd. Ond erbyn heddyw nid oes nemawr un yn fyw ag oedd yn cychwyn y genadaeth hon. Y maent oll, oddigerth ychydig o loffion, eisoes wedi ei symud o'r golwg.

Yn ngodrau sir Drefaldwyn hefyd, gwnaed yr un fath ysgogiad ar ran ardaloedd tywyll yno, yn y rhai yr oedd yr iaith Seisonig yn benaf yn ffynu. Yr oedd y diweddar Barch. Owen Jones a Richard Newell yn mysg y rhai cyntaf ar y maes. Felly hefyd y diweddar Barchn. Daniel Williams, Tregynon; ac Humphrey Gwalchmai; ynghyda'r Parch. David Morgan, Trallwm. Yn y rhan hon o'r maes cenadol y bu y Parch. William Hughes, yn awr o Wrecsam, yn llafurus a llwyddiannus, ynghydag amryw frodyr eraill. Rhenir y maes cenadol ar dueddau sir Drefaldwyn, yn bresenol yn dri dosbarth,—

Y DOSBARTH CYNTAF,—dan ofal y Parch. John Pugh. Mae yn y dosbarth hwn *dri chapel*, a phregethu hefyd mewn dau dŷ anedd.

YR AIL DDOSBARTH,—dan ofal y Parch. Owen Jones. Mae yma hefyd *dri chapel*, a dau le eraill i bregethu.

* Y cwbl o honynt, yn amgylchoedd Gwrecsam.

Y Trydydd Dosbarth,—dan ofal y Parch. J. Richards. Mae *pedwar capel* yn y dosbarth hwn, a thri eraill o leoedd pregethu.

Yn y tri dosbarth y mae yn awr 263 o aelodau eglwysig; 1600 o wrandawyr; a 1036 o ddeiliaid yn yr ysgol Sabbothol.

Afreidiol ydyw dywedyd fod amryw o frodyr heblaw y rhai a enwyd yn llafurio ar y maes hwn, ac yn eu plith, ambell un heb fedru dim ar yr iaith Gymraeg. Y brodyr a fyddant amlaf yn pregethu yn y cylchoedd uchod ydynt y Parchn. D. Morgan, Trallwm; a John Herbert, Drefnewydd; yn nghyda Mri. John Davies, Llanfair; a Richard Baxter.

Rhwng y dosbarth hwn o'r maes cenadol, a'r dosbarth gogleddol o hono, y mae cryn fwlch, yn cynwys mwy nag ugain milldir o wlad, lle nad oes, hyd yma, yr un orsaf genadol, er fod ynddo gymaint o angen gweinidogaeth yr efengyl ag un lle. Dywedasom eisoes fod y rhan gogleddol hwn o'r maes, dan aden sir Fflint, ond yn awr wedi ei impio i'r Henaduriaeth Seisonig. Mae y dosbarth hwn yn cynwys tua 24 o orsafoedd cenadol; 18 o ba rai yn meddu ar gapelau, ar lleill yn dai neu ystafelloedd ardrethol. Mae yma hefyd amryw o bregethwyr ar wedd cenadon, megys Mri. W. Hughes, a Joseph Jones, Wrecsam; W. Smith, Rossett; J. Meredith, Scarisbrick; ac eraill, mewn rhan. Mae yn y maes hwn amryw frodyr yn gwbl Seisonig eu hiaith, megys Mri. Jonathan Davies, Bowling Bank; W. Smith, Rossett; J. Meredith, Scarisbrick; a W. Clarke, Sutton. Yr olaf hwn, wedi bod am flynyddau yn weinidog parchus gyda'r Annibynwyr Seisonig, ond a arweiniwyd gan amgylchiadau i ran o'r maes cenadol; ac wedi dyfod yn gydnabyddus ag egwyddorion a dysgyblaeth y Methodistiaid, a'u calonog gymeradwyo, a gyflwynodd ei hunan yn wirfoddol i'r Henaduriaeth. Cafwyd ynddo bob boddlonrwydd ar ei gyflwyniad cyntaf, ac hyd heddyw y mae cymeradwyaeth uchel o hono fel cristion diledryw, ac yn meddu llawer o gymhwysderau i fod yn wasanaethgar i achos y Cyfryngwr yn y rhan yma o'r maes.

Dylid crybwyll hefyd, fod amrywiol orsafoedd, sydd yn gynwysedig o fewn cylch yr Henaduriaeth Seisonig, wedi eu sefydlu yn benaf dan aden y cynulleidfaoedd Cymreig yn Liverpool; megys y ddwy orsaf yn *Runcorn;* y ddau gapel yn *Scarisbrick*, a'r un a godwyd yn *Garston*. Fe ddisgyn traul cynaliad y gorsafoedd hyn ar yr eglwysi Cymreig yn Liverpool, a mawr y ffyddlondeb a'r haelioni sydd wedi ei ddangos hyd heddyw. Yn Runcorn y mae cynulleidfa o Gymry, cynwysedig gan mwyaf o forwyr, y rhai a ddeuant i'r porthladd hwnw ar eu hynt; ac ar amserau y maent yn lluosog. Yma yn benaf y mae y Parch. John Jones yn llafurio. O fewn tua chwe' blynedd yn ol, daeth capel arall yn Runcorn i feddiant y cyfundeb, sef St. John's. Cyfodwyd hwn mewn cysylltiad â chymundeb Iarlles Huntingdon, ac yn y cysylltiad hwnw yr arosodd am ysbaid 30 mlynedd mwy neu lai. Bu gwedd siriol a llwyddiannus ar y gwaith yn y lle hwn am rai blynyddau; ond yr oedd yn ddiweddar wedi llaesu llawer, ac yn dirywio fwyfwy; fel o'r diwedd fod yn rhaid iddo sefyll yn llwyr, oddieithr ysgogi i ryw dir a chysylltiad newydd. Nid oedd cwbl ddy-

eithrwch rhwng y lle hwn â'r Methodistiaid o'r dechreuad. Yr oedd y Methodistiaid wedi cyfranu rhyw gymaint tuag at ei adeiladu ar y dechreu; arferai yr hybarch Thomas Edwards, Liverpool, bregethu ynddo yn fynych; ac ar ol hyny, galwyd amryw o weinidogion y cyfundeb, ar amryw achlysuron i weini i'r gynulleidfa; yn nghyda hyn, yr oedd yno un, a hwnw yn cymeryd rhan lled flaenllaw gyda'r gwaith, wedi ei fagu gyda'r Methodistiaid yn Wrecsam, ac yn llochi syniadau uchel am y cyfundeb. Parodd yr ystyriaethau crybwylledig i'r brodyr yn y lle, droi eu golwg, yn eu penbleth a'u pryder, at y Methodistiaid i ymofyn ymwared. Wedi dwys ystyried yr achos, a chael cydsyniad y Bwrdd Cenadol, prynwyd y capel gan y brodyr yn Liverpool, a throsglwyddwyd ef drwy weithred gyfreithiol i fod yn eiddo y corff. Cafwyd gan y Parch. William Roberts, gynt o Gaergybi, gymeryd gofal y lle, a bu yno yn llafurio gyda graddau helaeth o lwyddiant a chymeradwyaeth hyd y flwyddyn hon, 1855; pryd yr ymfudodd ar gais yr eglwys yn New York, i wasanaethu yr achos yn ngwlad y Gorllewin.

Mae yn perthyn i'r Genadaeth Gartrefol rai gorsafoedd pellenig, y rhai ni chrybwyllwyd eto am danynt; megys Dublin, Tremeirchion, Birmingham, a Bilston. Sefydlwyd yr achos yn Dublin ar gais, ac i leshau y morwyr a fyddent yn arfer troi yno gan dywydd, neu i ddybenion masnachol. Mae yn y lle hwn gapel bychan a thŷ. Fe ymgynull ynddo nifer o Gymry ag sydd yn preswylio yn y ddinas fawr, yn nghyda'r morwyr a ddygwyddo fod yn y porth. Y Parch. Ellis Foulkes, gynt o Amlwch, sydd yno er ys blynyddau rai yn gweinidogaethu. Mae arolygiaeth yr orsaf yma yn ngofal cyfarfod misol Môn.

Gorsaf Gymreig hefyd yw Tremeirchion. Mae y lle hwn yn sefyll yn sir Fflint, rhwng Treffynnon a Llanelwy, mewn parth o wlad ag oedd wedi ei hesgeuluso i raddau mawr, gan bob enwad crefyddol. Yr oedd y preswylwyr yn aros, gan hyny, mewn agwedd, cyffelyb i Gymru oll, cyn y diwygiad Methodistaidd. Rai blynyddoedd yn ol, pa fodd bynag, agorwyd ysgol Sabbothol yn yr ardal, ac adeiladwyd capel bychan yn ganlynol i hyny; eto yr oedd yr achos yn isel a nychlyd. Anhawdd oedd cael moddion cyson i le ar gîl fel yr oedd hwn, a lle yr oedd pob analluogrwydd i gynal addoliad gyda harddwch ac effeithioldeb. Yn y cyfamser, prynwyd cyfran helaeth o'r ardal gerllaw y capel hwn, gan y Pabyddion; gyda'r dyben o sefydlu Coleg Jesuitiaid yn y lle, i ddwyn offeiriaid ieuainc i fyny i'r urdd hono o babyddion; ac i sefydlu ysgol gyffredin i blant y gymydogaeth. Deallwyd fod yn amcan arbenig yn y symudiad hwn, ennill safle arosol yn Nghymru; ac ennill rhai o'r Cymry i fod yn offeiriaid y babaeth; a llawer o'r genedl i fod yn ddysgyblion i'r grefydd hono. Ofnwyd, gan gymaint oedd anwybodaeth trigolion y fro, a chan faint oedd ystryw yr estroniaid hyn, a chan gymaint yr anfantais a brofid i gynal moddion cyson ac effeithiol yn y capel bychan, y buasai yr ardal yn disgyn yn rhwydd i afaelion y grefydd gau hono. Ofnid hyn yn fwy, gan y canfyddid fod cryn wychder a rhwysg yn perthyn i'r Coleg, a bod trysorau

helaeth yn rhyw le i borthi y sefydliad; a bod bwriad penderfynol, trwy bob gwerth a gwobrwy, ddenu y trigolion, yn eu crynswth, os gellid, i ymollwng i'w dysgeidiaeth. Eiddigeddai cyfarfodydd misol Dinbych a Fflint yn fawr yn yr achos, gan fod yr ardal yn terfynu ar y ddwy sir; a theimlai y brodyr ar bob llaw, yn annigonol eu hunain heb gynorthwy y Bwrdd Cenadol, i gynllunio moddion effeithiol i wrthweithio y drwg. Bernid yn angenrheidiol cael cenadwr i'r ardal i gyfaneddu, modd y gallai gymeryd gofal yr achos yn ei wendid; a bernid hefyd y dylid cael ysgol ddyddiol yn y lle, fel na osodid y trigolion dan gymaint temtasiwn i anfon eu plant i'r sefydliad arall. Gyda'r amcanion hyn mewn golwg, penderfynwyd ar anfon y brawd Mr. W. O. Williams, gynt o Fôn, i'r lle; gan osod yr orsaf hon o fewn cylch y Genadaeth Gartrefol. Mae Mr. Williams wedi bod yn yr orsaf hon bellach er ys amryw flynyddau, yn cadw ysgol ddyddiol, ac yn gofalu am yr achos crefyddol yn ei wahanol ranau. Boddhaol ydyw chwanegu fod ei lafur yn y gwahanol ganghenau o hono, wedi ei goroni â mesur helaeth o lwyddiant. Nid ydym chwaith wedi deall fod y sefydliad Jesuitaidd hyd yma, wedi effeithio nemawr ar sir Fflint, nac yn wir ar gymydogaeth Tremeirchion, er arfer o'r deiliaid bob ystryw a allent, trwy degwch gwen, a geiriau denu, i hudo y bobl i'w rhwyd. Rhoddir i'r plant eu dysg yn rhad ynddo; ac yn ychwanegol at y ddysg, fe'i gwobrwyir â dillad ac â rhoddion. Anfonir meddyg y sefydliad i ymweled â chleifion yr holl ardal a'i derbynio; a rhydd ei amser a'r cyffuriau yn rhad ac am ddim. Prynir pob fferm yn y gymydogaeth a ddygwyddo ddod ar werth, a gosodir hwy i denantiaid a fyddo yn ddigon ystwyth, wrth gwrs, i roddi y flaenoriaeth i babyddiaeth, trwy fynychu y gwasanaeth crefyddol, ac ymrestru o blaid y grefydd Rufeinaidd. Ar y llaw arall, arferir llawer o gyfrwysdra yn hyn oll, mewn modd i gelu yr amcan goreu y gellir; gan wybod yn ddiau, fod llygaid llawer arnynt, a gwilio manwl ar eu hysgogiadau. Ymwelodd y Parch. James Williams, cenadwr y Methodistiaid yn Ffrainc, â'r sefydliad pan oedd ef yn y wlad ychydig o fisoedd yn ol. Cymerwyd ef fel brodor o Ffrainc, yn iaith yr hon wlad yr oedd yn ymddyddan. Dangoswyd iddo bob siriol deb a pharch, yn ddiau ar y dyb ei fod ef yn ffafriol i'r babaeth. Wedi iddo weled cymaint o'r sefydliad ag a allasai ddysgwyl, hysbysodd i'w arweinydd, er syndod aruthrol iddo, mai i brotestant ac i Gymro yr oedd ef wedi dangos cymaint o siriol deb. Cyn ymadael, gosododd Mr. Williams arno yn lled hyf, gan ddyweyd, "Mae genych chwi sefydliad gwych yma, Syr, ac yr ydych yn cael perffaith lonyddwch a rhyddid, dan lywodraeth brotestanaidd i ledaenu eich egwyddorion, ac i arfer eich defodau crefyddol; pryd na oddefir i mi, yn eich gwlad babaidd chwi, ledaenu y Testament Newydd, na chymaint a thraethodyn bychan, na fydd y swyddogion gwladol yn ymaflyd ynof ac yn fy nirwyo, neu yn fy ngharcharu! A ellwch chwi, Syr, eglurhau i mi pa fodd y mae mwy o ryddid gwladol a chrefyddol, mewn gwledydd protestanaidd nag sydd yn y rhai pabaidd,—yn y gweldydd y lledaenir ac y darllenir y Beibl, nag yn y rhai y gwaherddir ei ledaenu a'i

ddarllen?" Gyda hyn dangosai y gŵrboneddig radd o anesmwythder anniddig, a brysiai, bellach, i roddi pen ar ymddyddan mor atgas, a chan oblygu yn brysur unwaith a dwy, dangosai y drws i'r ymwelydd, gan ddyweyd, "*Good morning, Syr!*"

Cyfeiriwyd llafur y Genadaeth Gartrefol i rai llanerchi trwy amgylchiadau lled hynod; amgylchiadau yr oedd mwy o lais rhagluniaeth nag oedd o drefniad dynol ynddynt. Y fath yn neillduol oedd yr amgylchiadau a agorodd y drws i *Scarisbrick*. Ardal yw hon, tua 15 milldir o'r dref hon, Liverpool, tua'r gogledd. Ardal y mae cryn gymysgedd o Eglwysyddiaeth a Phabyddiaeth ynddi; ac felly wedi bod er ys oesoedd. Nid hawdd fyddai dyweyd pa un yw yr amlaf a'i eglwyswyr a'i pabyddion. Pa un bynag y mae y ddau sefydliad wedi gadael yr holl barth yma o'r wlad mewn tywyllwch, fel y fagddu, am grefydd a'i gwrthddrychau; pawb o'r trigolion yn cytuno i ymddiofalhau ynghylch eu heneidiau, ac i ymroddi yn egniol i geisio y byd yn ei gyfoeth a'i bleserau. Yr oedd y parth yma o'r wlad yn berffaith ddyeithr i'r Methodistiaid, a'r Methodistiaid iddo yntau. Nid oedd ynddo prin un Cymro yn aneddu, ac o bob man o amgylch Liverpool, *Scarisbrick* oedd yr ardal fwyaf annhebyg i fod yn orsaf genadol; eto y mae yn yr ardal hon yn awr ddau gapel wedi ei hadeiladu, a chenadwr ieuanc yn byw.

Yr offeryn i ddwyn Methodistiaeth i'r ardal anghysbell, a hanner-babaidd hon, ydoedd gŵr ieuanc, o'r enw Richard Sephton. Brodor o'r wlad honno ydoedd, ac wedi ei ddwyn i fyny yn ffurfiau a defodau eglwys Loegr, fel ei henafiaid oll. Yr oedd ei dad yn ŵr gwladaidd, a diddysg; tra anwybodus am grefydd, a chwbl wrthwynebol i bob newydd-deb ynddi; eto yr oedd yn berchen cryn lawer o'r byd. Wedi i'r mab Richard dyfu i fyny, dygwyddodd iddo un diwrnod ganfod rhyw fisolyn, o'r enw "*The Christian Penny Magazine*," ar lawr y tŷ. Pwy a'i dygodd yno nis gwyddai, ac nis gŵyr eto; na pha fodd. Codod ef, modd bynag, a darllenodd ef. Yr oedd crybwylliad ynddo am Whitfield, pa fodd y bu ef yn ddefnyddiol i dynu i lawr hen gampau llygredig Lloegr, ac y defnyddiwyd ef yn offeryn i ddwyn llaweroedd o'i gydwladwyr i wybodaeth y gwirionedd. Effeithiodd y darlleniad ar y llencyn fel ag i godi awydd ynddo i wybod mwy am y pregethwr hynod y darllenasai fel hyn yn ddamweiniol am dano. Parodd hyn iddo siarad â hwn ac arall am Whitfield, ac yn mysg rhai o'i gydnabyddiaeth yn y dref hon, lle yr arferai ddyfod bob wythnos i'r farchnad, fe ddaeth ar draws llyfr o bregethau Whitfield. Cafodd ei fenthyg, a chyda chryn awyddfryd fe'i darllenodd, y cyntaf erioed yn ddiau o'r fath. Yr oedd y syniadau a draethid yn y pregethau hyn yn newydd iddo; a rhai o honynt yn rhedeg yn groes i'r syniadau a glywsai efe yn awr ac eilwaith gan offeiriad y plwyf. Gan fod cadwedigaeth ei enaid bellach yn dechreu ymgymhell i'w feddwl yn ei bwysigrwydd, teimlai yn anesmwyth, am nad oedd yr offeiriad a Whitfield yn cytuno. Honai yr olaf mai trwy ffydd ac nid trwy weithredoedd y ddeddf yr oedd i ddyn gael ei gyfiawnhau gyda Duw, ond y cyntaf a ddywedai,

ond i ddyn wneyd a allai, trwy ymgadw yn ddyfal at yr eglwys, a byw yn fucheddol, y byddai yn sicr o gadwedigaeth. Gan nad oedd Sephton yn gallu cysoni y dywediadau hyn, a chan na allai ymdawelu ychwaith heb ryw eglurhad helaethach ar y mater, efe a benderfynodd fyned at y person a gofyn iddo ei ddad-ddyrysu. Yr oedd ei benbleth hefyd yn fwy, am iddo ddeall fod geiriau yn yr epistol at y Rufeiniaid, at y rhai y cyfeiriai Whitfield, yn berffaith gyson â'r hyn a ddarllenasai yn y pregethau.

At y person yr aeth, a chan fod y llanc wedi ennill gradd o ffafr yn ngholwg y gŵr parchedig eisoes, trwy ei fod yn fwy dyfal yn y gwasanaeth na llawer, mwy cyson ei rodiad, ac yn blaenori gradd gyda'r canu, efe a gyfarfu â derbyniad mwy siriol a chroesawgar. Buan y dechreuodd adrodd ei neges, gan ofyn yn ostynedig i'r gŵr urddssol egluro iddo pa beth oedd ffydd? Gofynwyd iddo yntau yn ol, Pa lyfrau a fu ef yn eu darllen. "Pregethau Whitfield," oedd yr ateb. "*Enthusiast* oedd Whitfield," ebe y person, na roddwch eich calon ar ddim a ddywedo."

"Ond y mae Paul, syr, yn dyweyd yn gyffelyb iddo," ebe y llanc.

"Nid rhaid i ŵr ieuanc dichlynaidd fel chwi," atebai y person, "drafferthu ac ymddyrysu gyda phethau o'r fath hyn. Mae eich cymeriad chwi yn ddiachwyn arno, ac nid rhaid i chwi boeni eich hun. Yn hytrach cymerwch eich byd yn llawen, heb ymlwytho yn ormodol fel hyn â phryderwch na pherthyn i chwi. Pe buasai y wraig i mewn, archaswn arni chwareu tôn i chwi ar y *Piano*."

Yna tynodd Goeg-lyfr *(Jest-book)* i lawr, gan ei estyn i'r llanc, a dyweyd y gallai darlleniad llyfr o'r fath fod yn wasanaethgar i ymlid ei bruddglwyfni ymaith. Yr oedd gwagsawrwydd y fath ymddygiad yn gyfryw na allai Sephton lai na theimlo ei anmhriodoldeb; a chyda chymaint o foesgarwch ag a allai gael ar y pryd, efe a wrthododd y llyfr, a gadawodd y tŷ.

Parhaodd a dwyseiddiodd pryder y gŵr ieuanc ynghylch ei achos tragwyddol o hyny allan. Ymddyddanai lawer â'i fam ynghylch pethau crefyddol, a gweddiai lawer gyda hi. Nid oedd neb arall yn y teulu a allai gydymdeimlo ag ef; ond parod yn hytrach oeddynt i wawdio ei ddwysder, ac i'w hwtio am ei ynfydrwydd. Daeth yn gydnabyddus, drwy drafodaeth fydol, ag un o henuriaid y Methodistiaid yn y dref hon, a thrwy hwnw â'r ysgrifenydd; a bu hyny yn foddion i'w ddwyn i fwy o gydnabyddiaeth ag eraill o'r cyfundeb yn ol llaw. Yn fuan wedi ei ddifrifoli gan bryder am ei achos tragwyddol, daeth i dosturio wrth ei gymydogion diofal a chysglyd; a rhyw ddiwrnod yn y maes cododd ymofyniad yn ddisymwth yn ei fynwes, "Ai ni allaf trwy ryw foddion eu llesâu?" Gan fod ei fryd wedi disgyn ar y fath amcan, nid âir y bu cyn meddwl y gallai gasglu rhyw hanner dwsin ynghyd i gegin y tŷ, os caniateid iddo, a'u dysgu i ddarllen; a'u cyfarwyddo yn ol ei allu, yn mhethau yr efengyl. Hyny a wnaeth a llwyddodd yn mhell tu hwnt i'w ddysgwyliad. Llanwyd y gegin, nes cyfodi grwgnach o herwydd yr anghyfleusdra.

Symudodd i'r ysgubor, a chynyddodd deiliaid yr ysgol, nes oeddynt yn driugain a mwy o rifedi.

Dylid cofio nad oedd y gŵr ieuanc hyd yn hyn, erioed wedi bod ei hun mewn ysgol Sabbothol; nad oedd ganddo neb i'w gynorthwyo, yn y llafur nac yn y draul; fod ei deuln, oll ond ei fam a'i chwaer, yn dra gwrthwynebol iddo; ac nad oedd eto wedi cyrhaedd ei hun ond graddau bychain o wybodaeth a phrofiad, nac mewn cymdeithas eglwysig gyda neb. Nid yn fynych y cafwyd neb mewn amgylchiadau cwbl gyffelyb; ond er maint ei anfanteision, nid oedd yn ymollwng dim gyda'i amcan gorucheł. Wedi bod yn cadw yr ysgol dros ryw gymaint o amser yn yr ysgubor, fe ymofynodd trwy ryw rai o'i gyfeillion crefyddol yn y dref hon, a'i ni allai gael neb yno i bregethu; ac yn gydsyniol â'i gais, anfonwyd yno y Parch. Thomas Jones, yr hwn ar y pryd oedd ar fedr cychwyn i'r India yn genadwr; a hon oedd y bregeth gyntaf a fuasai yn y gymydogaeth gan neb o'r Methodistiaid erioed. Yr oedd y tymhor yn prysur nesâu, pa fodd bynag, ag y byddai raid wrth yr ysgubor i ddybenion y tyddyn, a mawr oedd penbleth yr athraw ynghylch yr ysgol Sabbothol, sef yn mha le y cedwid hi o hyny allan. Nid oedd un tŷ bellach yn ddigon helaeth i gynwys ei deiliaid, pe buasai rhyw un yn foddlon i'w roddi i'r dyben; ac nid oedd yr un adeilad arall o fewn y gymydogaeth a wnaethai y tro. Tra yr oedd Sephton yn syn-fyfyrio pa beth i wneyd, disgynodd ei lygad ar hen adeilad gandryll cysylltiedig â bendy, adeilad yr arferid unwaith roddi y certi dani, ond yr hon oedd bellach yn ddiddefnydd. Tybiodd ynddo ei hun y gellid, gydag ychydig draul, drefnuso ac adgyweirio y lle hwn i ateb y dyben. Yn llon ei feddwl, ac yn llawn o'r bwriad, gofynodd genad ei dad i ymosod at y gwaith; ond atebwyd ef yn gwta, nad allai roddi caniatâd iddo heb grybwyll y boneddwr ag oedd bia y tyddyn.

Yr oedd yma anhawsdra newydd. Pabydd o broffes ac o deulu oedd y boneddwr; ac nid oedd lle, prin i obeithio, y ceid y cyfryw ganiatâd ganddo. Ond pa beth a wnai? anhawdd iawn oedd ganddo roddi yr ysgol i fyny; yr oedd efe ei hun wedi cael blas arni, a phrofion eisoes fod craill wedi cael lles drwyddi, ac aruthr ganddo a fuasai iddi syrthio. Ond pa beth oedd i'w wneuthur? dim ond ymwroli a myned ei hun at y gŵr boneddig a gofyn ei ganiatâd. Nid esgeulusodd chwaith osod ei gŵyn o flaen yr Hwn y mae calonau pawb yn ddarostynedig iddo, ac erchi ei nawdd a'i arweiniad. Felly yn grynedig aeth i'w ffordd, a chafodd gyfleusdra i osod yr achos o flaen y gŵr mawr.

"Mae lluaws mawr o blant tlodion, Syr," ebe efe, "diddysg a didrefn, yn yr ardal, heb fedru darllen y Beibl, nac un llyfr arall; ac nid oes neb yn ymofyn am eu henaid. Yr wyf, Syr, er ys ychydig amser yn ol, o dosturi atynt wedi dechreu ysgol i'w dysgu ar y Sabbothau. Cadwyd hi ar y dechreu yn nhŷ fy nhad, ac wedi hyny yn yr ysgubor; ac yn awr fe fydd eisiau hono. Mae adeilad gerllaw, a ddefnyddid yn gysgodle certi, yn ddiddefnydd; a da fuasai genyf, Syr, os rhoddwch ganiatâd i mi i adgyweirio hono i'r

dyben." Gyda parodrwydd annysgwyliadwy, fe ganiatâodd y boneddwr iddo ei gais; a chanmolodd ef am ei ofal dros blant tylodion y fro; "ewch yn mlaen," ebe fe, "gyda'r amcan daionus, a rhoddaf fy ngair, na chaiff neb aflonyddu arnoch. Cewch goed genyf hefyd i drefnuso yr adeilad!"

Yr oedd hyn yn fwy nag a ddysgwyliasai. Cydnabu gyda boddhad mawr fod ei weddi wedi ei hateb, a bod ei lafur dan nodded rhagluniaeth. "Efe a ddiolchodd i Dduw ac a gymerodd gysur." Yr oedd, bellach, wedi cael gair y gŵr mwyaf yn yr holl wlad o'i blaid. Tynerodd hyn beth ar ei dad; a pharodd ymroddiad llwyrach yn y llencyn ei hun. Taclusodd yr adeilad a dygodd arno draul o £25; heblaw ei lafur ei hun, gwaith y ceffylau, a choed y boneddwr. Llawen oedd ganddo gael lle cyfleus ac arosol i gadw yr ysgol, ond yr oedd cyfarfod â'r draul yn ei lenwi â phryder dwys. Yr oedd bellach, trwy gynghor ei gyfeillion yn Liverpool wedi ymuno â chynulleidfa o Annibynwyr yn nhref *Ormskirk*, tua thair milldir neu ychwaneg o'i gartref. Yn yr eithaf, ni allai ddysgwyl ond ychydig gynorthwy oddiwrth y gynulleidfa hono, gan nad oedd ganddi ond ychydig o allu, a llai o ewyllys. Yr oedd ei dad hefyd wedi cyfyngu arno yn ddiweddar, oddiar y dyb ei fod yn gwario y cwbl a roddid iddo i gael llyfrau a phethau anghenrheidiol i'r ysgol. Yr oedd y meddwl bod mewn dyled yn ei boeni yn drwm; ac yn fwy o lawer, am y byddai methu cyfarfod â'i ofynion yn achlysur i ddwyn anfri ar ei grefydd, a rhwystr i'r achos a ddechreuasai.

Tra yr oedd yn ymddyrysu yn y benbleth hon, ac yn ol ei arfer, yn gosod ei achos o flaen yr "Hwn a ddichon wneuthur yn dra rhagorol," cyfarchodd ei dad ef, un diwrnod, gan ddyweyd, "Richard, yr oeddwn yn bwriadu rhoi haidd yn y darn tir, y fan a'r fan; ond yn lle hyny, mi a'i rhoddaf i ti, am eleni i wneyd a fynech ag ef, a bydd ei gynyrch i ti yn lle arian *poced*." Diolchodd y llanc am yr addewid, a gwelodd fod iddo obaith am gyfran o'r ddyled a dynasai arno ei hun. Gwrteithiwyd y tir fel *arferol*, trwy orchymyn yr hen ŵr, a phlanwyd cloron *(potatoes)* ynddo. Dealled y darllenydd mai gwlad hynod am gynyrchu *tatws* ydyw y wlad hon, er mwyn cyfarfod â marchnadoedd Liverpool a Manchester. Yr oedd cynyrch y darn tir wedi ei fwriadu o'r dechreuad gan y llanc i dalu traul yr ysgoldŷ, ac felly yn *gysegredig i'r Arglwydd*. Appeliai yn hyn at Lywodraethwr y byd am fodd i ddwyn ei achos yn mlaen.

Yn mhen ryw dymhor, disgynodd llygad yr hen ŵr ar yr egin *tatws*, a chanfu fod ynddynt obaith cnwd toreithiog, a gofynodd i'r mab, "Richard, beth a wnêist ti i'r darn tir accw. Mae accw obaith cnwd anarferol. Ti gei, yn ol yr olwg sydd, gan' mesur oddiarno!" Aeth yno, ymhen rhyw enyd o amser drachefn, ac adroddai ei syndod eilwaith, "Ni welais y fath gnwd ar dir erioed. Rhaid i ti ranu y cynyrch gyda dy chwaer; fe fydd o hono gant a hanner o fesurau!" Yr oedd yr hen ŵr, yr hwn oedd yn tynu tua 80 mlwydd oed, wedi gweled llawer yn ei ddydd; eto yr oedd heb weled cyffelyb gnwd erioed. Mynai fod y llanc wedi gwneyd yn rhy eofn ar y gwrtaith;

ond wedi deall na fu gan y mab ddim llaw yn hyny oll, fe fynai iddo ranu yr elw â'i chwaer. Ond nid boddlawn oedd Richard i wneyd hyny y tro hwn, gan fod ganddo amcan neillduol iddo; ac wedi appelio at yr addewid a roddasai ei dad, cafodd y cwbl iddo ei hun. Yn yr amser priodol codwyd *y tatws* a chafwyd fod yno, rhwng mân a mawr, dros ddau gant o fesurau, a hyny oddiar *ychydig mwy na hanner erw o dir.* Gwerthodd y llanc y cynyrch a derbyniodd £21. 10s. o arian am dano; yr hyn, gydag ychydig gynorthwy a dderbyniodd, a roes fodd iddo dalu y ddyled!

Bellach, a thros ryw dymhor, deuai y gweinidog, yr oedd Sephton inewn cymundeb ag ef, unwaith yn y mis i bregethu yn y lle; a thwy ddirfawr ymdrech y llanc yn eu gwahodd, deuai 80 neu 100 o bobl i wrando. Yr oedd yr ysgol hefyd yn flodeuog. Cyn hir o amser aeth y lle yn rhy fychan i'r ysgol drachefn; ac ymosododd yntau eilwaith at ei helaethu. Costiodd yr helaethiad hwn iddo £40. I gyfarfod â'r draul fawr hon, fe roddwyd iddo ffafr yn ngholwg dwy gynulleidfa ag oeddynt bellach yn adnabyddus o'i ymdrechiadau; a chasglwyd rhyngddynt hanner y swm; y gweddill a wnaed i fyny trwy ei roddion ei hun, a chyfraniadau personol caredigion yr efengyl. Yr oedd yma, bellach, addoldŷ bychan, glân a chlyd, ond cwbl ddiaddurn; yr oedd deiliaid yr ysgol yn amrywio o 80 i 120 o rifedi, ac yr oedd lle i oddeutu 150, neu ychwaneg, i wrando pregethau. Addawsai Richard Sephton, wrth ofyn cyfraniadau at yr helaethiad diweddaf, y gwnai ei oreu i gael pregethu amlach i'r lle; bu yn ddyfal hefyd, i gael hyn, trwy osod yr achos ger bron amryw o gynulleidfaoedd heb fod ymhell o'r lle; ond nid oedd y drws yn ymagor; yr oedd y gweinidog a ddeuai unwaith yn y mis, hefyd, wedi rhybuddio na oddefai ei iechyd iddo barhau. Yr oedd gogwyddiad cryf yn meddwl y llanc o'r dechreu at y Methodistiaid Calfinaidd, oblegid â hwynt y daethai gyntaf yn gydnabyddus, fel pobl grefyddol; a'u gweinidogion hwy a wrandawsai gyntaf: yr oedd hen weinidog yn Southport hefyd wedi ei annog yn gryf i gyflwyno ei hunan yn hollol i ofal y Methodistiaid, fel y bobl debycaf i estyn eu nawdd drosto.

Yn yr adeg yma daeth i'r dref hon (Liverpool), a galwodd ar yr ysgrifenydd; ac wedi clywed ei holl helynt, addewais osod ei achos o flaen y brodyr; yn y canlyniad, anfonwyd yr ysgrifenydd yno i bregethu, a chyfaill gydag ef; ac wedi dychwelyd, adroddasom yr hanes, a phenderfynwyd yn unfrydol, mai ein dyledswydd ydoedd gwrando ar yr alwad, a pharotoi rhyw foddion i gyfarfod ag angen y lle, gan gwbl gredu alw o'r Arglwydd ni i efengylu yn y llanerch dywell hon o'r wlad. Ond cyn cymeryd yr anturiaeth hon arnynt, barnwyd yn addas osod yr achos o flaen y cyfundeb yn nghymdeithasfa Dinbych; derbyniwyd yr adroddiad yno gyda siriol deb a difrifwch; a rhoddwyd cadarnhad unfrydol, gan y gymdeithasfa, i'r hyn a wnaethid gan y brodyr yn Liverpool; ac annogaeth i fyned ymlaen gyda'r cynlluniau a osodid ger bron.

Mae Scarisbrick wedi bod yn orsaf genadol mewn undeb â'r Methodist-

iaid er ys mwy na 13 o flynyddau, sef er oddeutu y fl. 1842. Er y pryd hwnw hyd yn awr, y mae dau gapel wedi eu codi, y ddau ar dir yr un boneddwr ag a roes ei nodded dros yr ysgol Sabbothol ar ei chychwyniad. Mae y gŵr anrhydeddus hwn wedi dangos llawer o garedigrwydd tuag at yr ysgogiad hyd yma, ar amrywiol achlysuron; nid yn unig trwy roddi rhwym-ysgrif am y tir, ond hefyd trwy gyfranu, mewn dull anuniongyrchol, at godi yr adeiladau; a rhoi ar ddeall i ryw bleidiau a fynent orthrymu, na oddefid iddynt wneyd hyny. Mae caredigrwydd y boneddwr hwn yn fwy nodedig, o herwydd ei gysylltiad (teuluol o leiaf) âg eglwys Rhufain; ac o herwydd nad oes un enghraifft ar gael iddo ymddarostwng erioed i edrych yn foddhaol ar achos cyffelyb o'r blaen. Anhawdd ydyw peidio canfod fod rhyw law ddirgelaidd gan Lywydd y byd yn hyn oll, ac nad oes diffyg moddion nac offerynau arno byth i ddwyn ei amcanion goruchel i ben.

Mae ysgol ddyddiol yn cael ei chadw yn un o'r ddau gapel, ac ysgol Sabbothol yn y ddau, ynghyda phregethu cyson ar y Sabbothau. Mae amryw o frodyr wedi bod yn llafurio yn yr ardal hon, o'r dechreuad hyd yn awr; megys y Parchn. James Donne, yn awr o Langefni; Griffith Parry, Caernarfon; y diweddar Hugh Lee, Liverpool; John Jenkins, M.A., Caer; William Smith, Rossett; ac yn awr y mae yn aros yno, Mr. Meredith, gŵr ieuanc a ddaethai yno o sir Faesyfed. Yn y wlad dywell hon, lle mae cymaint o farweidd-dra dideimlad ynghylch crefydd a'i holl wrthddrychau; lle y mae ofergoeledd wedi bod dros gyhyd o amser yn teyrnasu yn fuddugol; a lle y mae cymaint o ragfarn yn erbyn pob peth newydd, ac yn enwedig yn erbyn purdeb mewn barn a buchedd, ni allwn lai na dysgwyl llawer o anhawsderau. Y mae Richard Sephton, er y cwbl, yn parhau yn ffyddlawn gyda'r gwaith; mae yr ysgol Sabbothol yn gwasgar goleuni gwybodaeth ysgrythyrol ymysg ugeiniau lawer o ieuenctyd yr ardaloedd; mae ambell un, yn awr ac eilwaith, yn argoeli fod y gwirionedd yn mynu ei ffordd i'r galon; ac yn eu nifer rai yn ymuno â'r eglwys fechan yn y lle.

Mae traul flynyddol y Gymdeithas Gartrefol, yn ei holl ganghenau, uwchlaw £800, heblaw y swm a gesglir yn y gorsafoedd eu hunain. Mae y draul yn fawr, mae yn rhaid addef; ond pan y cofiom fod yma tua 50 o orsafoedd, llawer o honynt eto yn weiniaid, ymhob ystyr, a dyled yn aros ar y lleoedd addoliad, ni all fod ond tua £16 o draul yn flynyddol yn disgyn ar bob un at eu gilydd; a phan y cofiom fod yma tua 3000 o ddeiliaid yr ysgol Sabbothol yn derbyn addysg ysgrythyrol bob Sabboth; a thua 6000 o breswylwyr y parthau hyn yn cael gwrando geiriau y bywyd tragwyddol bob Sabboth; a channoedd rai, heb amheuaeth, wedi derbyn bendith gan Dduw, yn ystod y blynyddau y mae y gymdeithas hon wedi bod yn llafurio, digŵyn ydyw, fod cymaint o arian yn cael eu gwario; ni wariwyd arian erioed i ddyben mwy

anrhydeddus, a boddhaol gan Dduw. Mae siroedd Gwynedd, a rhai o drefi Lloegr, wedi bod yn dra chanmoladwy, a ffyddlon yn yr achos yma, er ys llawer o flynyddau, yn cyfranu yn haelionus iawn; ac yn arbenig felly, sir Fôn a Liverpool. Yn ddiweddar, ymddengys fod y gobaith yn cryfhau y ceir llwyr ddilëu y ddyled drom ar yr addoldai yn y Gororau, a thrwy hyny arbed cryn swm yn flynyddol, yr hwn a delid mewn llog arian, a fenthyciasid i'w codi. Gofidus yw ychwanegu fod rhai ardaloedd, hyd heddyw, yn dyoddef yn drwm, o ddiffyg cenadon yr efengyl yn preswylio ynddynt; a thra y byddant yn aros yn y cyfryw sefyllfa ymddifad, nid oes lle i ddysgwyl nad dihoeni y bydd y gwaith mewn gwendid a nychdod.

BIRMINGHAM A BILSTON.

Ymddengys fod cais wedi ei wneuthur tua'r fl. 1826, i ffurfio achos crefyddol yn yr iaith Gymraeg, yn Birmingham, a bod cyfraniadau arianol tuag at ei godi a'i gynal wedi eu cael gan y rhai a flaenorent yn yr achos; ond, trwy ryw foddion neu gilydd, erthylu a wnaeth yr ymgais. Yn y flwyddyn uchod bu y diweddar Barch. John Elias, yn pregethu yn y dref, yn nghapel yr hybarch Mr. James, yn *Carr's Lane;* yr hwn amgylchiad a roes achlysur i'r ysgogiad crybwylledig. Yr oedd o fewn y dref nifer o Gymry yn awyddus i fwynhau addoliad a gwasanaeth crefyddol, yn iaith eu hen wlad; amryw o honynt wedi bod mewn undeb eglwysig â rhyw enwad o gristionogion yn y dywysogaeth, ond heb fod felly wedi dyfod i Birmingham; eto yr oedd rhai yn mysg yr holl nifer, tua 22 meddir, o bersonau, mewn undeb â rhai eglwysi Seisonig y dref; ymgrynhodd y Cymry hyn at eu gilydd, heb ymbwylliad digonol, tybygid; ac heb fod ychwaith dan nawdd un cyfundeb o bobl grefyddol; a rhai o honynt, fel yr ymddengys, yn fwy eu sêl na'u doethineb, ac yn fwy eu hawydd i wneuthur sôn am danynt eu hunain, nag oeddynt i eangu teyrnas yr Iesu; ac yn y brwdfrydedd hwy a agorasant le bychan i addoli ynddo yn *Rea-street*; ond fel llawer anturiaeth anaeddfed arall, ni lwyddodd; a chyn amser hir, yr oedd yr holl drafodaeth wedi llwyr ddiflanu.

Mae Cymro o genedl, a Chymro anmherffaith o iaith, yn weinidog parchus yn y dref hyd heddyw, ac wedi bod felly er ys llawer o flynyddau, sef y Parch. John Jones,* yr hwn sydd weinidog yn nghyfundeb yr Iarlles Huntingdon. Mae y gŵr parchedig hwn wedi dangos llawer o dyner deimlad tuag at y Cymry; ac wedi eu cynorthwyo ymhob ymgais teg i godi achos crefyddol i'r Cymry, yn eu hiaith eu hunain; ond yr oedd yn wrthwynebol i'r cais cyntaf a wnaed, sef yr un crybwylledig uchod, gan ei fod yn argyhoeddedig, fod gormod o wedd anmhwyllog a direol ar yr anturiaeth: nid oedd prawf fod y pleidiau a'i gwnaent, eu hunain yn rhai gwir grefyddol; ac ni chafwyd cymeradwyaeth na chefnogaeth yr un enwad crefyddol yn sel wrtho. Nid rhyfedd,

* Mab ydyw i'r diweddar Barch. Thomas Jones, Caerfyrddin.

gan hyny, i Mr. Jones ymgadw yn glir oddiwrtho, gan deimlo yn sicr mae methu a fyddai raid iddo. Ac felly hefyd, fel y crybwyllwyd, y bu.

Ond am yr ail ymdrech a wnaed,—yr ymdrech sydd wedi llwyddo i fesur ehelaeth iawn; am hwn yr ysgrifena Mr. Jones fel hyn:—"Ar y llaw arall, tybiwyf fod yr ymgais presenol wedi codi yn deg oddiar arweiniad rhaglun-iaeth. Pan y dechreuwyd adeiladu llysdŷ y dref, daeth nifer o grefftwyr Cymreig ataf, sef seiri coed a cherig, i ddatgan nad oedd eu gwybodaeth o'r iaith Saesoneg y fath ag y gallent gael adeiladaeth wrth wrando gweinidog-aeth Seisonig; barnwyf fod o honynt tua 30 o aelodau crefyddol, ynghyda'u teuluoedd. Ymddangosai i mi fod eu cais am gynorthwy yn llais ataf oddi-wrth Dduw; ac er na arferaswn bregethu yn Gymraeg erioed, gan i mi adael Cymru pan yn 16 mlwydd oed, eto, mi benderfynais, trwy gymhorth, i geisio cynal oedfa yn Gymraeg, ar brydnawn Sabboth, yn ychwanegol at yr oedfaon Seisonig a gedwid yn flaenorol.

"Yr oedd y cais anaeddfed blaenorol, i ffurfio cynulleidfa Gymreig, wedi fy ngosod i fesur ar fy ngocheliad; am hyny ni chaniatawyd i neb gymeryd rhan gyhoeddus yn y gwasanaeth crefyddol, ond y sawl ag oeddynt yn aelod-au rheolaidd; yr oedd y rhai'n oll, oddigerth dau neu dri, yn perthyn i'r Methodistiaid Calfinaidd. Gorphenwyd adeiladu llysdŷ y dref; ac ymadaw-odd amryw o'r gweithwyr, ac yn eu plith, lawer o'r Cymry; eto, er hyn, mi gefais fod genyf gynulleidfa o 30 i 40 o Gymry, a bernais mai fy nyled-swydd oedd parhau i gadw yr oedfaon, hyd nes yr ymgasglai nifer digonol, i ffurfio achos Cymreig ar ei ben ei hun. Yr amcan hwn a ddygwyd o amgylch yn gynt, trwy ddyfodiad Mr. Edward Price, pregethwr awdurdodedig ymysg y Methodistiaid Calfinaidd, i breswylio i'r dref. Disgynodd y gwasanaeth Cymreig, bellach, arno ef, mor fynych ag y byddai cyfleusdra ganddo. Yn y 1839, yr oedd fy nghyfeillion Cymreig yn teimlo eu bod yn ddigon cryfion bellach, i agor lle bychan iddynt eu hunain; a hyny a wnaethant yn *Easy Row*, gogyfer a phen *Great-Charles-street;* ond gan y daeth eisieu y lle ar y perchenog i ddybenion eraill, y maent er yn ddiweddar, yn arfer ymgynull mewn ystafell yn *Cambridge-street.*

"Gŵyr pawb pa mor anghyfleus ydyw y cyfryw ystafelloedd i gynal addoliad ynddynt; ac nid sŷn fydd gan neb os appelia Cymry y dref hon at eu cydwladwyr am gynorthwy i adeiladu capel, i sefydlu addoliad parhaus a sefydlog ynddo, yn eu hiaith eu hunain. Derbyniwyd yr appêl gyda siriol-deb, a chyfranwyd yn ehelaeth gan eu cydwladwyr yn y dywysogaeth, ac yn rhai o drefydd Lloegr, tuag at adeiladu y capel newydd; nid llai swm na £201 13s. 4c.

"Teilwng hefyd o'i ddywedyd yw, nad ydyw y Methodistiaid Calfinaidd byth yn arfer dwyn costau eu capelau o flaen dynion haelionus, ond a fyddo yn eu cyfundeb eu hunain; ond tybiant, mewn amgylchiad o'r fath ag ydyw hwn, fod ganddynt ryw hawl ar gydymdeimlad eu cydwladwyr, y rhai sydd wedi casglu cyfoeth yn y rhan hon o'r deyrnas; ac ynghyda'r cyfeillion

Seisonig hyny, y rhai y dichon fod Cymry yn eu gwasanaeth, neu heb hyny, y rhai ni allant lai na gwybod pa mor werthfawr, i'r gwrandawr, ydyw fod mawrion weithredoedd Duw yn cael eu mynegi iddo mewn iaith a ddeallir ganddo.

"Prif amgylchiadau yr achos hwn, gan hyny, ydynt y rhai hyn:—Mae angenrheidrwydd am gapel Cymraeg yn Birmingham; yn enwedigol i'r bobl ieuainc sydd yn dyfod yma o Gymru. Bydd yr addoldŷ hwn y dadleuwyf drosto, dan arolygiaeth a gofal uniongyrchol, y Methodistiaid Calfinaidd; felly, os yw neb o'r cyfeillion y daw y cyfarchiad hwn i'w dwylaw, yn cymeradwyo athrawiaeth a dysgyblaeth y corff adnabyddus hwnw o gristionogion, gallant fod yn sicr y sefir atynt yn effeithiol yn y lle sydd yn awr yn cael ei adeiladu."

Arwyddwyd,

Tachwedd 13*eg*, 1841. JOHN JONES

Y cyfryw ydoedd cyfarchiad ysgrifenedig y gŵr parchedig uchod, pan oedd yr adeilad y cyfeirir ati yn cael ei chodi. Yr oedd y gareg sylfaen eisoes wedi ei gosod er Hydref 20fed, gan Mr. Jones, ynghydag eraill yn perthyn i'r Methodistiaid. Mewn cyfarfod a gynaliwyd yn ddilynol, mewn ystafell cysylltiedig â chapel Mr. Jones, lle yr oedd tua 80 o bersonau wedi ymgasglu i yfed tê, rhoddwyd diolchgarwch o'r fath gwresocaf iddo, am ei lafur diflino gyda'r achos Cymreig, a'i sêl a'i diriondeb tuag ato, er pan y'i dechreuwyd. Gorphenwyd y capel mewn amser priodol, a bu y Cymry yn ymgynull i addoli ynddo dros ryw dymhor. Ond troes allan, ymhen rhyw nifer o flynyddau, ei fod yn sefyll ar ffordd rhyw reilffordd, a rhaid oedd rhoddi yr adeilad i fyny i'r cwmni, am ei lawn werth. Wedi ei werthu, prynwyd lle arall, ac adeiladwyd capel prydferth a thri o dai; mae y cwbl yn awr yn glir oddiwrth ddyled, ac yn cynyrchu swm blynyddol i gynorthwyo yn nghynaliad yr achos. Tra dyledus ydŷw y cyfundeb, neu yn hytrach Cymry Birmingham a Bilston, neu y ddau, i'r Parch. Edward Price, am osod yr achos ar y tir y mae yn awr arno; trwy ei ddirfawr lafur, a'i sêl, y casglwyd yr arian, neu y rhan fwyaf o honynt, i adeiladu y capel cyntaf; a thrwy ei ofal a'i ddiwydrwydd y caed tŷ mor gyfleus i addoli ynddo yn awr. Teg hefyd ydyw chwanegu, fod ffyddlondeb a brwdfrydedd mawr a chanmoladwy, wedi cael ei ddangos gan y Parch. D. Morgan, Trallwm, tuag at yr un amcan. Mae golwg tra siriol ar yr achos Cymreig yn Birmingham; nifer yr aelodau ydyw 85, a chynifer a hyny a mwy yn yr ysgol Sabbothol.

BILSTON.

Mae y lle hwn yn gorwedd o fewn tua 12 milldir i Birmingham, mewn rhandir llawn o weithfaoedd glo a haiarn; ac felly, yn lloches i lawer o weithwyr, y rhai a sugnir yma, o lawer cyfeiriad, gan obaith tamaid o fara. Ymysg y cannoedd a'r miloedd sydd yn gweithio yn y mŵn-gloddiau hyn, y mae rhifedi mawr o Gymry; dywedwyd fod nid llai na 1500 o

nifer ychydig o flynyddau yn ol. Pan ddaeth hyn yn adnabyddus, codai awyddfryd cryf yn mynwesau caredigion yr efengyl, i gynllunio rhyw foddion i ddwyn yr efengyl atynt, yn yr iaith a ddeallent. Ni oddef ein gofod i ni fanylu ar y gwahanol foddion a ddefnyddiwyd i ddwyn yr amcan hwnw i ben, yn unig, dywedwn ddarfod gwneyd hyny; ac y mae yn awr, ac er ys blynyddau bellach, gynulleidfa o Gymry yn ymgasglu at eu gilydd yn yr ardal estronol hon, i wrando gair y bywyd. Mae yma gapel cyfleus hefyd, wedi ei adeiladu, eglwys o 60 o aelodau wedi eu chrynhoi, ac un pregethwr, Mr. Richard Jones, yn eu gwasanaethu, mewn cysylltiad â'r achos yn Birmingham. Dyledus ydyw y cyfundeb am y wedd sydd ar y gwaith yn y lle hwn, i'r Parchn. D. Morgan, Trallwm; ac E. Price, gynt o Birmingham, yn neilldnol, am eu llafur egniol i gael pregethu i'r lle, a chapel i bregethu ynddo. Er ys blynyddau, bellach, cyflenwir y pwlpud yn y lle hwn, gan y pregethwr cartrefol, mewn cysylltiad â'r gŵr dyeithr a wahoddir o bryd i bryd i weini yn y capel Cymraeg yn Birmingham.

CENADAETH GARTREFOL Y DEHEUBARTH.

Ymddengys fod rhyw ysgogiadau tuag at leshau trigolion tywyll sydd yn byw ar gyffiniau siroedd y Deheudir, wedi cymeryd lle, rai blynyddau cyn ffurfio y Genadaeth Gartrefol fel cymdeithas. Y lle cyntaf y disgynwyd arno, fel maes, llafur oedd Pen-y-bont, sir Faesyfed; lle yw hwn oddeutu pum' milldir, mwy neu lai, i'r gogledd oddiwrth Ffynnonau Llandrindod; y mae yn sefyll ar fin y brif-ffordd sydd yn arwain o Lundain i Aberystwyth, trwy Henffordd, Kington, a Rhaiadr-ar-wy. Yr hyn a barodd ymosod ar y lle hwn ymlaenaf, ac yn anad un ardal arall, mewn cyffelyb agwedd, oedd ymweliadau y Parch. David Charles, Caerfyrddin, â Ffynnonau Llandrindod. Wrth ganfod sefyllfa trigolion y parthau hyn, o ran anfoes ac anwybodaeth, ynghyda'u hymddifadrwydd perffaith o fanteision yr efengyl, teimlai y gŵr duwiol dosturi dwys tuag atynt, ac awydd cryf i'w lleshau. Dan ddylanwad y teimladau hyn dechreuodd syn-feddwl pa fodd y gellid dwyn y fath amcan dymunol o amgylch; ac fel cychwyniad i'r gwaith da, aeth ei hunan amryw-iol weithiau, tra yn ymdaith yn Llandrindod, i Ben-y-bont. Trwy ymddyddan â rhai o'r trigolion, cafodd allan fod yno ddrws agored, a barnodd mai nid anhawdd fyddai ffurfio math o orsaf genadol yn yr ardal.

Ar ei ddychweliad adref, amlygodd ei syniadau i'w gyfeillion; hwythau a gytunasant yn siriol a chalonog â'r amcan, ac a ymosodasant yn ddioed ar drefnu rhyw foddion i roddi yr amcan mewn gweithrediad. Y cenadwr cyntaf a anfonwyd yno, oedd gŵr o sir Gaerfyrddin, o'r enw Mr. George Griffiths, Llandeilo; yr oedd hyn tua'r fl. 1819—20; ond ni fu arosiad y cenadwr yn y lle ond byr. Ar ei ol ef, anfonwyd y Parch. D. Morgan, yn awr o'r Trallwm; bu ef yma am ysbaid blwyddyn, fel "llef un yn llefain yn y diffaethwch, parotowch ffordd yr Arglwydd." Ar ei ol yntau, daeth y

Parch. D. Howells, yn awr o Abertawe; bu ef yma dros amryw flynyddau, yn llafurio yn llwyddiannus. Yn ystod ei arosiad ef yma, a hyny yn lled fuan ar ol ei ddyfodiad, yr adeiladwyd capel yn yr ardal, sef yn y fl. 1822. Yn y lle hwn y bu y Parch. Ebenezer Williams, yn awr o'r Amwythig, yn llafurio yn hir o amser. Efe, tybygid, a fu yma hwyaf o neb, nid llai, meddir, na 15 mlynedd; a cheir profion lawer, a diymwad, na fu ei lafur, yn Mhen-y-bont, a'r ardaloedd cymydogaethol, ddim yn ofer yn yr Arglwydd. Mae yma gymdeithas eglwysig gref, bellach, ac yn hunan-gynaliol, er ei bod yn aros hyd heddyw, dan ofal ac arolygiaeth y Gymdeithas Genadol. Bu Mri. Charles, Caerfyrddin; Richards, Tregaron; O. Jones, Gelli; a Gwalchmai, Llanidloes; yn wasanaethgar iawn i'r achos yn y lle hwn; yn enwedigol ar ei gychwyniad, a hyny cyn fod un Gymdeithas Genadol wedi ei ffurfio. Y pryd hwnw, yr oedd traul y cenadwr, adeiladaeth y capel, a phob traul arall, yn cael ei ddwyn ymron yn hollol, gan haelioni ychydig o bersonau.

Y lle nesaf, yr ymosodwyd arno, oedd Clifford, yn sir Henffordd, a'r Gelli *(Hay)*, yn sir Frycheiniog. Yr oedd yn Clifford ryw weddillion yn aros o gynulleidfa un Mr. Alridge, gweinidog yn nghyfundeb yr Iarlles Huntingdon, yr hwn a fu yn llafurio ar un tymhor yn y lle. Trwy ryw rai o'r cyfryw y cafwyd drws agored yn y lle hwn i sefydlu gorsaf genadol; y cenadwr cyntaf a anfonwyd yma, oedd y Parch. Thomas Phillips, yn awr o Henffordd; mae y lle hwn yn gysylltiedig â'r Gelli. Ar ol Mr. Phillips, bu yma amrywiol genadau yn llafurio, sef Mri. Rees Havard; W. Evans; O. Howells; E. Williams; ac yn awr, M. Williams.

Buwyd yn llafurio, fel y dywedwyd, yn y manau crybwylledig, am ysbaid rhai blynyddau, cyn sefydlu Cymdeithas Genadol y Deheudir. Hon a sefydlwyd yn rheolaidd yn y fl. 1826, tua 13 o flynyddoedd ar ol sefydlu un gyffelyb yn y Gogledd. Yn ol un o reolau sylfaenol y gymdeithas, yr oedd maes ei llafur i gynwys siroedd Maesyfed, Brycheiniog, a Mynwy, sef y rhanau amddifaid o honynt; ynghyda rhanau Seisonig siroedd Morganwg, Caerfyrddin, a Phenfro. Wedi pedair blynedd o lafur yn y meusydd crybwylledig, ni a gawn adroddiad o'i gweithrediadau, sef yn y fl. 1830: dyfyniad o hono a rydd oleuni ar yr ymdrechion a wnaed yn ystod y blynyddau cyntaf hyny.

"Wrth gyhoeddi hanes y Gymdeithas o flwyddyn i flwyddyn, yr ydys yn cael ein galw i wisgo ein galar-wisgoedd, trwy fod rhai o bleidwyr goreu y sefydliad yn colli oddiar y maes, ar galonau pa rai y gorphwysai ei hachos nos a dydd; ond er colli rhai o'i phleidwyr goreu, y mae yn amlwg fod Priod Sïon eto yn fyw, ac yn llwyddo y Gymdeithas hon yn ddiweddar yn fwy amlwg nag erioed o'r blaen.

"Dechreuodd y Gymdeithas hon ei gweithrediadau yn Mhen-y-bont, yn sir Faesyfed, fel cwmwl bychan yn derchafu o'r môr; lledodd oddiyno ymlaen i Lanfihangel, Maesyfed Newydd, a lleoedd eraill, o fewn y sir hono; oddiyno i'r Gelli, yn sir Frycheiniog; Clifford a Brilley, yn sir Henffordd; disgyn-

odd rhai o'r defnynau yn Grosmont, yn sir Fynwy; ac erbyn hyn, y mae y cwmwl wedi ymledaenu, a'r gwlith-wlaw yn disgyn ar ranau Seisonig siroedd Caerfyrddin a Phenfro; sef yn Lacharn, Pendine, a Begeley; ardaloedd oeddynt hyd yn ddiweddar, agos gan syched a mynydd Gilboa, o ran gwlith a gwlaw efengyl y tangnefedd.

"Mae gan y Gymdeithas yn bresenol, bump o genadau i'w cynal; a phedwar o gapelau heirdd a chyfleus wedi eu hadeiladu yn hollol ar ei thraul ei hun, ynghydag amryw o dai anedd wedi eu troi a'u cymhwyso at bregethu yr efengyl, a chadw ysgolion Sabbothol; heblaw lluaws o dai ffermydd, yma ac acw, ar hyd yr ardaloedd, yn agored i dderbyn cenadon Duw, a'r rhai a'u gwrandawant, fel y gwelir yn nghorff yr hanes."—Y cyfryw oedd gwedd y Gymdeithas yn y fl. 1830.

Parhaodd y Gymdeithas i ymeangu yn raddol, o ran maes ei llafur o flwyddyn i flwyddyn, ac erbyn y fl. 1847, yr oedd ganddi 27 o gapelau wedi eu codi, heblaw amrywiol orsafoedd heb gapelau ynddynt; 14 o genadau cyson; heblaw amryw frodyr eraill a roddent gynorthwy achlysurol i'r gwaith. Erbyn hyn yr oedd rhif yr aelodau yn 601:—y gwrandawyr yn 4,050; a deiliaid yr ysgol Sabbothol yn 2,532.

O'r flwyddyn 1847 i waered, y mae gradd o gynydd wedi bod yn y gorsafoedd ag oeddynt eisoes mewn meddiant, ond o herwydd bychander y gronfa arianol, nid yw wedi gallu goresgyn tir newydd. Mae rhai o'r gorsafoedd wedi gallu gwneyd heb gynorthwy y gronfa, a'u henwau, gan hyny, wedi colli o'r rhestr ddibynol. Mae ychydig o gapelau wedi eu codi er y fl. 1847, ond nid llawer; eraill wedi eu helaethu, a llawer o'r ddyled oedd yn aros, bellach, wedi ei dileu; ac mewn amryw fanau y mae ychwanegiad ymhob ystyr.

Ymysg noddwyr penaf y Gymdeithas ar ei chychwyniad, yr oedd y Parchn. D. Charles; Eb. Morris; Eb. Richards; Mri. G. Harris; a Lewis, Bank, Llandeilo. Coffheir yn anrhydeddus am wasanaeth ffyddlon, dros flynyddau lawer, y swyddogion canlynol:—Mri. Harris, Caerfyrddin; Watkins (y tad a'r mab), Aberhonddu; Jones, Llanymddyfri; D. Charles, Trefecca; ac R. Roberts, Aberystwyth. Rhoddir enwau* y rhai a fuant hwyaf yn llafurio fel cenadon ar ei maes; mae rhai o honynt yn aros yn ngwasanaeth y Gymdeithas hyd yn awr. Mae traul flynyddol y Gymdeithas dros £500.

* Parch. T. Phillips.
„ T. Havard.
„ Rees Havard.
„ W. Griffiths, Gower.
„ Wm. Llewelyn.
„ John Davies.
„ Rice Jones.
„ E. Davies.

Parch. T. Ashford.
„ William Powell.
„ R. Lumley.
„ W. Williams, Pendine.
„ D. Jones, Rhaiadr.
„ Eb. Williams, Pen-y-bont.
„ W. Williams, Abertawe.
„ W. Evans, Caer.

BYR-OLWG AR FETHODISTIAETH AMERICA.

PENNOD I.

HANES METHODISTIAETH TALAETH NEW YORK.

CYNWYSIAD:—

HANES BOREAF Y CYMRY—DOSBARTH STEUBEN—BENJAMIN DAVIES—W. T. WILLIAMS—D. STEPHENS—DINAS NEW YORK.

NID oes henafiaeth lawer yn gysylltiedig â Methodistiaeth Calfinaidd yn America; nid oes ond oedran gŵr er pan ddechreuodd. Yr oedd Methodistiaeth wedi cychwyn ei yrfa yn Nghymru er ys oddeutu 60 mlynedd cyn fod un sefydliad cyffelyb yr ochr draw i'r Werydd. Ond er nad ydyw yn hen, y mae wedi cynyddu yn ddirfawr mewn amser byr; ac yn neillduol o fewn yr 20 mlynedd diweddaf; rhaid addef, ar yr un pryd, fod llawer o ennill crefyddol America, wedi codi oddiar golled crefyddol Cymru; gan mai ymfudwyr, ac nid brodorion, sydd yn cyfansoddi lluaws mawr o'r eglwysi Methodistaidd y Gorllewin dir. Y mae yn destyn llawenydd, pa fodd bynag, fod cynifer o'n cenedl, er gadael eu gwlad, a holl freintiau eu hen gartref, yn cymeryd eu hegwyddorion crefyddol gyda hwynt, ac yn eu rhoddi mewn gweithrediad yn ngwlad eu mabwysiad.

Ond er nad yw Methodistiaeth Calfinaidd ddim wedi oesi er ys amser maith yn ol, yn America, y mae lled sicrwydd fod lluaws mawr o ymfudwyr wedi croesi yno o froydd Cymru er canol y ganrif ddiweddaf; ac i niferi o honynt ymsefydlu yn Nhalaeth Pennsylvania, ac oddiamgylch i ddinas Philadelphia. Fel prawf o hyny, cyfeirir at le yn swydd Delaware yn y Dalaeth hono, yn cael ei alw y "Dyffryn Mawr" yn Gymraeg; ac yn ychwanegol, traddodir i ni fod gwasanaeth crefydd yn cael ei ddal i fyny yn eu mysg yn yr iaith Gymraeg; ac fel prawf fod crefydd yn lled flodeuog hefyd yn eu plith, dywedir fod ganddynt gynifer a phump o weinidogion Cymreig;* a hyny, meddir, mor gynar a'r fl. 1722; sef tua 15 mlynedd cyn geni Methodistiaeth; mae yno eglwys yn awr, yn dwyn enw Cymreig. Yn 1724, dywedir ddarfod argraffu Mynegair Ysgrythyrol, yn Gymraeg, o waith gweinidog, o'r enw Abel Morgan, gŵr ganedig yn sir Aberteifi. Cyhoeddwyd y llyfr dan nodded un o brif ynadon y Dalaeth, o'r enw Dafydd Llwyd, i'r un llyfr yr oedd rhagymadrodd wedi ei ysgrifenu gan un John Cadwaladr. Nid oes sicrwydd i ba enwad y perthynai y gwŷr hyn; ond i ba un bynag, y mae cwbl sicrwydd ddarfod iddynt hwy, neu eu holynwyr, golli eu hen iaith yn

* Eu henwau, meddir, oeddynt Enoch Morgan; Elisha Thomas; Jenkin Jones: Benjamin Griffiths; a John Davies.

llwyr, fel na fu addoli yn yr iaith Gymraeg mwy, dros flynyddau lawer. Yr amser cyntaf, y cawn hanes am un eglwys Gymraeg yn y Dalaeth hon, ar ol y tymhor boreu crybwylledig, oedd yn y fl. 1796. Yr oedd yr eglwys hon yn gyfansoddedig o nifer cyfartal o Fedyddwyr, Annibynwyr, a Methodistiaid Calfinaidd; ac un Morgan Rhys, Bedyddiwr, yn weinidog iddi. Ysgrifena y Parch. William Rowlands, fel hyn:—"Wrth olrhain dechreuad yr achos crefyddol mewn rhai manau eraill (heblaw y lle uchod), ceir fod yr eglwysi ar y cyntaf yn gynwysedig o'r tri enwad yn gyffelyb i'r un flaenorol; ac, mewn llawer o fanau, yn gynwysedig o'r ddau enwad Annibynwyr a Methodistiaid.* Eithr yn gyffredin, yn y cyfryw amgylchiadau, yr oedd y gweinidogion cartrefol yn perthyn i'r enwad blaenaf; ac mewn canlyniad, unrhyw berchenogaeth, megys capel, &c., a ddelai yn eiddo y gynulleidfa hono, fyddai, yn ngwyneb pob ymraniad, yn cael ei roddi i fyny iddynt hwy, a'r Methodistiaid yn ail-ddechreu o newydd. Nis gallai lai na ddygwyddai felly, oblegid ni ddaethai yr un pregethwr na gweinidog, perthynol i'r enwad olaf, i'r America, am flynyddau lawer ar ol y lleill; ac hyd yn nod am dymhor, wedi i'r cyfundeb Calfinaidd ddechreu ymneillduo a sefydlu yn eglwysi wrthynt eu hunain."

Ymddengys ddarfod i ryw nifer bychan o Gymry fyned trosodd, ac ymsefydlu yn Steuben, Talaeth New York, tua'r fl. 1785; ond nid oedd eu nifer yn ddigonol iddynt allu rhoddi cychwyniad i un achos crefyddol yn eu hiaith eu hunain, am dymhor maith; ac fe allai nad oedd nemawr o grefyddwyr yn eu plith. Ond ymhen deuddeg mlynedd, ar ol y cyfnod uchod, sef yn y fl. 1797; aeth ychwaneg o Gymry drosodd, ac yn eu plith yr oedd rai pregethwyr. Bellach, dechreuasant ymgynull at eu gilydd i addoli; cadwent gyfarfodydd i weddio, weithiau yma ac weithiau acw, pryd nad oedd ganddynt un lle arosol a sefydlog. Yn y fl. 1801, aeth mintai arall o Gymry drosodd i Steuben, ac yn eu plith ŵr o'r enw John G. Roberts; yr oedd y gŵr hwn yn ŵr crefyddol, ac yn fuan wedi myned trosodd dechreuodd bregethu i'w gyd-genedl. Ymhen ychydig amser, ar ol iddo ddechreu ar ei weinidogaeth, sef yn y fl. 1805, ymgorfforodd yr ychydig enwau yn y lle, yn eglwys reolaidd; dewisasant John G. Roberts yn weinidog, ac un William C. Jones, yn ddiacon. Codasant hefyd gapel bychan, diaddurn, o gyff coed *(log-house)*; ysgrifenasant hefyd gyffes eu ffydd, a rheolau dysgyblaeth; ac aethant i gyfamod eglwysig â'u gilydd. Llosgodd eu capel yn yr un flwyddyn ag y gwnaed ef, ac ail-adeiladwyd ef yn well ei ystum, yn ystramdŷ *(frame-house)*.

Afreidiol, tybygem, ydyw gosod erthyglau eu cyffes ger bron y darllenydd, digon ydyw datgan eu bod yn gyson â'r hyn a broffesir yn gyffredinol gan y Methodistiaid yn Nghymru.

* Rhag ail-adrodd, dealled y darllenydd, mai y Methodistiaid Calfinaidd a feddylir yn y gwaith hwn, pan y crybwyllir y gair Methodistiaid.

Nid oedd eto un undeb neillduol rhwng y gynulleidfa hon a'r Methodistiaid; a hyny o herwydd nad oedd eto ond un; ar yr un pryd, yr oedd rhai o'r gwŷr blaenaf yn yr ysgogiad, yn proffesu ymlyniad wrth y cyfundeb; ac wedi bod yn aelodau, neu yn swyddogion ynddo, yn yr hen wlad. Yr oedd yma un William G. Pierce, yr hwn a fuasai yn aelod gyda'r Methodistiaid cyn eu ymfudiad i America, yr hwn a alwyd yn y fl. 1806, i fod yn ddiacon, ac yn y flwyddyn ganlynol i bregethu. Yn y wedd yma y safai y gwaith, yn mysg y Cymry am flynyddau, heb nemawr gyfnewidiad o bwys. Ond yn y fl. 1820, adeiladwyd y capel y drydedd waith; ac yn awr o gerig, ac nid o goed fel o'r blaen. Nid hir, ar ol hyn, tybygid, yr ymddangosodd gradd o anghydweledigiad ar faterion o athrawiaeth a dysgyblaeth; ac yn y fl. 1824, ymgorphorodd rhyw nifer, a goleddent syniadau cyffelyb i'w gilydd, yn gynulleidfa wahanol, yn mhlwyf Remsen, dan yr enw Methodistiaid Calfinaidd; adeiladasant gapel hefyd, yn yr un flwyddyn, lle y cynelid cyfarfodydd i weddio, ac ysgol Sabbothol. Y bregeth gyntaf a draddodwyd yn y capel hwn, oedd ar y dydd 1af o Awst, gan y Parch. W. G. Pierce; ond hyd yma nid oedd un ymraniad oddiwrth gynulleidfa Steuben wedi cymeryd lle, er fod elfenau yr ymraniad yn brysur ar waith. Gan nad oedd nemawr olwg y gellid cartrefu yn heddychol yn Steuben, ciliodd un Mr. James Owen, un o'r diaconiaid, yn hollol; a dilynwyd ef gan eraill, y rhai a ymunasant â'u gilydd yn nghapel Pen-y-caerau, plwyf Remsen. Yr oedd yn eu mysg un Benjamin Davies, yr hwn oedd wedi dechreu pregethu yn Steuben er ys tua 6 mis cyn yr ymraniad; y gŵr hwn, gan hyny, a fu yn gweini i'r gynulleidfa hon; yr hwn hefyd, o herwydd yr angenrheidrwydd yr oedd y gynulleidfa dano, a alwyd i weini yr ordinhadau o Fedydd a Swper yr Arglwydd, ymhen ychydig amser ar ol iddo ddechreu pregethu; yn y fl. 1826, y bu hyn. Yn y flwyddyn ganlynol, adeiladwyd capel Pen-y-graig, ar y brif-ffordd o Uttica i Boonville; a chapel y Nant, ynghydag ysgoldŷ yn *French-road*. Yn y fl. 1828, cynaliwyd y cyfarfod cyntaf, o gynrychiolwyr y cynulleidfaoedd, ar wedd cyfarfodydd misol Cymru; a chedwir y cyfryw gyfarfodydd, o hyny hyd heddyw, bob pedwar mis. Dechreuad bychan, mae yn wir, ydoedd; nid oedd ynddo ond un pregethwr o eiddo y Methodistiaid, ynghyda swyddogion y tair eglwys; eto gosodwyd sail y gyfundrefn sydd yn parhau hyd y dydd hwn.

Yn y fl. 1829, daeth pregethwr arall, y cyntaf a ddaeth erioed o Gymru i'r parthau hyn o'r America, sef y Parch. William T. Williams; ïe, y cyntaf a ddaeth drosodd i un parth arall, oddiwrth y Methodistiaid. Bu ei ddyfodiad, meddir, o sirioldeb a budd mawr i'r achos, mewn gwendid ac ymddifadrwydd. Yn y flwyddyn ganlynol, rhoddwyd cychwyniad i achos Methodistaidd yn nhref Utica, trwy i nifer o aelodau perthynol i'r eglwys Annibynol gilio oddiwrthi, ac ymffurfio yn ganghen fechan mewn undeb â'r Methodistiaid.

Yn y fl. 1828, daeth y Parch. D. Stephens drosodd. Gŵr oedd hwn o

sir Aberteifi, ac yn bregethwr rheolaidd yn ei wlad cyn iddo ymfudo i'r wlad bell. Yr oedd ei ddyfodiad yn argoeli yn dda i Fethodistiaeth. Wedi iddo ddyfod drosodd, aeth i *Pennsylvania*, a bu yn gweinidogaethu dros ysbaid dwy flynedd gyda'r Presbyteriaid Seisonig, yn mysg y rhai y derbyniodd ei gyflawn urddau gweinidogaethol. Yn y fl. 1830, symudodd i'r sefydliad Methodistaidd yn ardaloedd Steuben. Gŵr ieuanc duwiol a defnyddiol iawn, meddir, oedd D. Stephens. Bu ei weinidogaeth yn y wlad fel cawodydd ar laswellt. Anrhydeddwyd ef i fod yn offeryn i roddi ysgogiad adfywiol i'r gwersylloedd bychain. Gan ei fod yn gyfarwydd ar yr iaith Seisonig, ac yn weinidog cymeradwy yn eu mysg, yr oedd iddo fantais na feddai y Cymro uniaith mo'ni; yntau a ddefnyddiodd y fantais i osod sefyllfa y Cymry o flaen y Saeson; a chasglodd, meddir, rai miloedd o ddoleri, yn eu plith, tuag at adeiladu addoldai i'w gydgenedl. Yn ei amser ef, a thrwy ei ddylanwad, a'i lafur ef ynneillduol y cafwyd capel o fein yn *Utica;* capel hardd, ac mewn lle cyfleus yn y dref. Ond ni fu gyrfa Mr. Stephens ond ber, oblegid yn y fl. 1834, sef pedair blynedd ar ol ei ddyfodiad i'r dalaeth hon, fe'i symudwyd ef i dŷ ei hir gartref, er dirfawr alar i'w gyfeillion.

New York.

Ymddengys mai oddeutu yr un amser, ac yn gyffelyb i'r un dull, ag y dechreuodd Methodistiaeth yn Nosbarth Steuben, y dechreuodd hefyd yn ninas *New York*. Gellir dyweyd mai yn y fl. 1828, y ganwyd Methodistiaeth Calfinaidd yn y ddinas fawr hon. Nid nad oedd Methodistiaid yn y ddinas yn flaenorol i'r amser hwnw, ond hyd y flwyddyn uchod arferent gyd-addoli gyda'r Annibynwyr fel y gwnaethent yn Steuben; a pha anesmwythder bynag a allai fod yn eu teimladau, o herwydd athrawiaeth neu ddysgyblaeth yn flaenorol, nid yw yn ymddangos i'r anesmwythder hwnw dori allan, i un gweithrediad ymarferol, hyd y fl. 1828. Yn yr adeg hon anfonodd yr aelodau ymneillduedig hyn air at eu brodyr yn Steuben i ardystio eu bwriad i ymgyfenwi ar yr un enw, ac i ymffurfio i'r un cynllun â hwy; gan ddymuno cael eu derbyn a'u cydnabod yn yr undeb.

Dygwyddodd yn yr adeg grybwylledig, fod gweinidog o'r enw John Hughes, gŵr ganedig o Gastell-nedd, sir Forganwg, wedi dyfod trosodd. Yr oedd y gŵr hwn wedi ei ddwyn i fyny, neu o leiaf, wedi bod yn aelod gyda'r Methodistiaid yn Nghymru, ar ei gychwyniad gyda chrefydd; yr oedd hefyd, bellach, wedi bod bedair blynedd, yn athrofa Iarlles Huntingdon, ac wedi bod yn gweini yn un o'r capelau perthynol i'r cyfundeb hwnw, am fwy na blwyddyn, ond yn awr wedi lanio yn *New York*. Ar ei ddyfodiad, ymwasgodd at yr ychydig Fethodistiaid ag oeddynt i'w cael y pryd hwn yn y ddinas, a bu yn dra llafurus a defnyddiol yn eu plith, yn cychwyn yr achos yn y ddinas.

Rhoddir hanes yr eglwys Fethodistaidd yn *New York* mewn llyfr a gyhoeddwyd yn y ddinas flynyddau yn ol, yr hwn hanes a roddwyd yn yr iaith Saesoneg, ond a Gymreigir fel hyn :—

"Yn ysbaid yr amser yr oedd y Parch. James Davies, yn gweini i'r Cymry, ffurfiwyd eglwys yn *New York* ar gynllun yr Annibynwyr; ac yn fuan wedi hyny ymneillduodd y Methodistiaid Calfinaidd, tuag ugain neu ddeg-ar-hugain o rifedi, ac ymffurfiasant yn eglwys wrthi ei hunan: cymerodd hyn le yn y fl. 1828. Gweinidog cyntaf yr eglwys hon oedd y Parch. John Hughes, yr hwn, wedi hyny, a fu yn weinidog o'r eglwys esgobyddol, yn swydd Oneida; ond yn awr wedi dychwelyd at y Methodistiaid; ar ol ei ymadawiad ef gweinyddwyd i'r eglwys gan y Parch. Shadrach Davies, yr hwn yn wreiddiol a fuasai yn weinidog i eglwys Annibynol, yn sir Forganwg.

"Yn y fl. 1836, ymfudodd y Parch. William Rowlands, Blackwood, sir Fynwy, i'r America, ar wahoddiad yr eglwys hon, yr hwn sydd wedi bod yn cyflawni swydd gweinidog iddi hyd y dydd hwn, oddigerth ryw dair blynedd. Yn y tair blynedd hyny cyflenwid ei le ef gan y Parch. John H. Evans. Mae y gynulleidfa yn awr yn ymgasglu mewn adeilad o'r eiddynt eu hunain, yn Heol *Allen*, ychydig ddrysau i'r gogledd o Heol *Grand*. Rhif aelodau yr eglwys ydyw, oddeutu chwe' ugain. Maint yr adeilad a ddefnyddiant ydyw, 62 troedfedd o hyd, wrth 25 troedfedd o led. Ond y mae yn fynych yn rhy gyfyng, gan fod y gwrandawyr yn lluosog."

Ar ol cyhoeddi y llyfr y codwyd y dyfyniad uchod o hono, y mae cyfnewidiadau eraill wedi cymeryd lle yn mysg Methodistiaid *New York*. Wedi arosiad o 15 mlynedd neu fwy yn y ddinas, arweiniodd amgylchiadau fel ag i dueddu Mr. Rowlands i ymadael â *New York*, ac ymsefydlu yn *Rome*, yn Nhalaeth *New York;* ac yn ei le, llwyddwyd yn y flwyddyn 1855, i gael gan y Parch. William Roberts, gynt o Gaergybi, ac wedi hyny o *Runcorn*, i ymfudo yno; ac i gymeryd arolygiaeth yr eglwys Fethodistaidd yn y ddinas fawr. Deallwn fod golwg siriol a gobeithiol iawn ar yr achos yn bresenol; a bod yr ymgynulliad i'r capel Cymraeg yn ychwanegu; ac arwyddion, ar hyn o bryd (1856), y bydd raid helaethu lle eu pabell, ac estyn cortynau eu preswylfod.

Constableville.

Dechreuwyd yr achos yn y lle hwn yn y fl. 1839, pryd y daeth yma amryw deuluoedd o sir Ddinbych. Yr oedd amryw o honynt mewn undeb eglwysig â'r Methodistiaid yn eu hen wlad; ac un o'r petŵau cyntaf a wnaethant, ar eu dyfodiad i'w cartref newydd, oedd ymosod at godi allor i addoli eu Duw. Cawsant fenthyg capel gan y Saeson y Sabboth cyntaf, a benthyg pregethwr gan y Cymry Wesleyaidd, sef Mr. Thomas Roberts. Bu y gŵr hwn yn pregethu iddynt amryw droiau yn y lle uchod, ac yn *Collinsville* hefyd. Aeth y son am yr ysgogiad i glustiau y brodyr yn y rhanau eraill o'r Dalaeth; a

daeth amryw o honynt, y naill ar ol y llall, i gyfranu iddynt air y bywyd; ac ni fu eu llafur chwaith ddim yn ofer. Yr oedd teulu Cymreig yn byw yn *Collinsville* er ys chwe' blynedd cyn hyn; ac yn y fl. 1840, daeth rhai eraill i breswylio yno; felly dechreuwyd cadw ysgol Sabbothol, ambell oedfa, a chyfarfodydd gweddio. Yn y fl. 1851, ffurfiwyd cyfarfod misol, yr hwn a gynelir yn ei gylch hyd heddyw. Yn y fl. 1842, daeth Mr. Edward Rees, gynt o Ffestiniog, i breswylio yma, a bu o wir wasanaeth i'r achos. Wedi bod yn ymgynull dros dymhor mewn ysgoldy cyffredin, codwyd yma gapel cysurus. Yn y fl. 1849, daeth y Parch Thomas Williams i fyw i *Collinsville;* yr hwn le sydd bellach yn oisaf flodeuog ar faes Methodistiaeth y Dalaeth, gan ei bod yn rhagori o ran nifer yr aelodau ar *Constableville.* Mae canghen arall wedi tarddu o'r un wreiddiol, yr hon a elwir *Tug Hill.*

PENNOD II.

HANES METHODISTIAETH TALAETH OHIO.

CYNWYSIAD:—

EDWARD JONES, CINCINATTI—EI DEITHIAU AR HYD AC AR LED Y DALAETH—COFNODAU YR EGLWYS GYMREIG YN CINCINATTI—ANHAWSDERAU A PHERYGLON TEITHIO, GAN EDWARD JONES—"BRYNIAU CYMRY"—WILLIAM PARRY, GYNT O DREGYNON—GRANVILLE—NEWARK—YSGOGIADAU METHODISTIAETH YN SWYDDI JACKSON A GALLIA—ROBERT WILLIAMS O FON—Y GYMDETHASFA GYNTAF YN OHIO—SEFYDLIADAU CREFYDDOL Y DOSBARTH—COULPORT, AR LAN YR OHIO—VANWER—PALMYRA.

Y PREGETHWR cyntaf o gymundeb y Methodistiaid Calfinaidd a ymwelodd â'r Dalaeth hon oedd, Dafydd Stephens, am yr hwn y crybwyllasom eisoes. Daeth trosodd yn y fl. 1828; a'r lle cyntaf yr ymwelodd ag ef oedd *Pittsburgh,* yn Nhalaeth *Pennsylvania.* Bu yn foddion i adeiladu capel yno, ar enw Methodistiaid Annibynol. Yn yr addoldy hwn yr ymgynullai rhyw nifer o'r tri enwad, Annibynwyr, Methodistiaid Calfinaidd a Wesleyaidd. Wedi peth amser ymwelodd Mr. Stephens, â dinas *Cincinatti,* lle yr oedd perthynasau iddo yn byw; a theithiodd i fanau eraill o'r Dalaeth, cyn dychwelyd i ymsefydlu yn ardaloedd Steuben.

Ar ol ymweliad D. Stephens â *Cincinatti,* daeth y Parch. Edward Jones yma. Gŵr ydoedd hwn o ardal Aberystwyth, Deheudir Cymru, ac a ddaeth trosodd trwy gydsyniad cymdeithasfa Llangeitho, yr un amser ag y dychwelodd y Parch. Benjamin Davies, sef yn Tachwedd, yn y fl. 1831. Ar ei daith fe bregethodd y brawd Edward Jones mewn gwahanol fanau yn America; sef, *New York, Albany,* a *Steuben.* Cyrhaeddodd *Pittsburgh. Pennsylvania,* tua Ionawr, 1832. Yr oedd yr hin yn llym iawn, pedair troedfedd o drwch o eira ar y ddaear, a hwnw wedi rhewi yn galed, ac mewn llawer man yn lluwchfeydd dyfnion. Y dull y teithiai, gan hyny, oedd mewn llithr-gar, neu garllusg *(sleigh),* yr hwn a lusgid ar hyd wyneb yr eira caled gan bedwar ceffyl.

Gan anwastadrwydd y tir a'r lluwchfeydd, yr oedd ysgogiad y llithr-gerbyd, fel yr eiddo llong ar donau y môr; ac weithiai dymchwelai drosodd. Gwnaeth felly unwaith pan oedd Edward Jones ynddo, eto heb niwaid i neb. Yn y daith hon hefyd yr oedd iddo 12 milldir o lyn *Erie* i'w groesi. Parai y meddwl am groesi y llyn hwn, ar yr iâ, bryder mawr i'r teithiwr, cyn cychwyn arno; a pharhaodd y pryder a'r ofn i raddau ehelaeth nes y cyrhaeddodd y làn arall yn ddiogel. Ar ei waith yn lanio yn *Pittsburgh*, fe deimlodd awydd i ganu,—

Angel ein Duw a dry yn gylch,
O amgylch pawb a'i hofnant;
Ceidw ef hwynt; a llawer gwell
Na chastell yw eu gwarant.

Arhosodd Edward Jones yn *Pittsburgh* tua thair wythnos, i bregethu i'r gynulleidfa Gymreig yno. Yr oedd eisoes wedi teithio dros 400 milldir i'r deorllewin o Steuben, ac er bod yn daer arno aros gyda'r Cymry yn *Pittsburgh*, yr oedd yn ei fryd fyned yn mhellach yn yr un cyfeiriad. Cychwynodd, gan hyny, tua *Palmyra* ond gan na chafodd yno ond dau neu dri o deuluoedd Cymreig, aeth rhagddo nes cyrhaedd *Cincinatti;* wedi teithio eilwaith 500 o filldiroedd. Nid oedd yma chwaith ond naw o Gymry crefyddol, ac o'r naw nid oedd ond un wedi bod yn perthyn i'r Methodistiaid yn Nghymru; yr oedd un hefyd yn perthyn i'r Bedyddwyr, un i'r Wesleyaid, a'r gweddill yn Annibynwyr; ac yr oeddynt oll, ar y pryd, mewn cymundeb eglwysig gyda gwahanol enwadau crefyddol Seisonig y dref; ond yn arfer, er hyny, gynal rhyw foddion yn Gymraeg. Yr oedd yno un gŵr o'r enw Ebenezer Davies, gŵr o ardal y Wyddgrug, sir Fflint, ac yn bregethwr yn mysg y Wesleyaid, yr hwn yn achlysurol a bregethai iddynt. Bu y brawd hwn yn cydlafurio yn y lle â'r brawd Edward Jones, am rai blynyddau ar ol hyn. Y cyfryw ydoedd yr ysgogiad cyntaf gogyfer a ffurfio achos Methodistaidd yn y lle hwn, ac yn wir yn Nhalaeth *Ohio* mewn un man. Yr oedd yr olwg, fel y gellir deall, yn dorcalonus iawn. Yr oedd tros 900 milldir i Steuben, y sefydliad cyffelyb agos atynt. Ychydig iawn ar y pryd oedd nifer y Cymry, a llai oedd nifer y rhai crefyddol o honynt; ac nid oeddynt hwythau chwaith ddim o'r un enwad crefyddol, nac yn llochi yn gwbl yr un syniadau: eto, yn mlaen yr aeth y gwaith. Lluosgai nifer y Cymry yn feunyddiol. Enynwyd ynddynt awyddfryd i ymgorffori gyda'u gilydd, ac i ymroddi i lafur gyda phob moddion a welsid ganddynt yn llwyddo yn hen wlad eu tadau.

Tua diwedd mis Mawrth 1832, cymerodd Mr. Edward Jones dŷ at gadw ysgol ddyddiol, a defnyddiwyd yr un ystafell i gadw ysgol Sabbothol. Bychan iawn oedd dechreuad hon hefyd. Ni ddeuai iddi yn fynych ond pedwar neu bump o rifedi, eto ymdrechwyd i'w chadw ymlaen; yn awr y mae y fechan hon wedi lluosogi yn chwech ysgol Gymreig, rhwng yr holl enwadau crefyddol. Cyfarfu yr ychydig frodyr a fu yn offerynol i gychwyn y gwaith â gradd o anfri, ac aflonyddwch. Yr oedd y wedd ar yr achos

mor anwiw ac eiddil, fel y tybiodd rhai bechgyn anwar y lle, y gallent, heb un perygl, aflonyddu ar y moddion a gynelid yn yr ystafell. Ymgasglent at eu gilydd, a lluchient gafod o gerig ar y tô, fel ag i derfysgu y gynulleidfa, ar adeg y byddai pregeth yn y lle. Temtid hwy i wneyd hyn, tybygid, trwy fod yr ystafell yr ymgynullent iddi mor fechan, 5 llath wrth 4, a thrwy fod y moddion mewn iaith na ddeallent. Pa fodd bynag, bu raid i rai o'r brodyr, er mwyn rhoddi attalfa ar y sarhad, fyned rhai o amgylch i ymliw â rhieni y dyhiriaid hyny, a rhai eraill i sefyll fel gwylwyr oddiallan yn amser moddion; ac felly yn raddol fe ostegwyd yr aflonyddwch yn llwyr. Fel hyn, mewn gwaeledd a llesgrwydd mawr y bu yr achos, dros ryw dymhor, ar y dechreu; yr oedd y gofal ymron yn llwyr yn disgyn ar y brawd Edward Jones, ond fe gafodd ras i fod yn ffyddlawn; ac fe gafodd y fraint hefyd i weled fod ewyllys yr Arglwydd yn llwyddo yn ei law. Ymhen tua blwyddyn a hanner, fe gafwyd capel newydd, a gosodwyd yr achos ar ffurf mwy rheolaidd a threfnus.

Cofnodau o symudiadau yr eglwys Fethodistaidd yn Cincinatti o'r fl. 1832, *hyd y fl.* 1851.

"1832, Mehefin 4ydd. Ymgorffolwyd yn eglwys; y pryd hwn rhifedi yr aelodau oeddynt 12. Ychwanegai y rhif yn gyflym, trwy fod dau neu dri o bersonau ar y tro yn ymuno yn fynych, ac ar un tro, daeth un-ar-ddeg gyda'u gilydd, heb fod un o honynt wedi bod yn proffesu crefydd o'r blaen."

"1833, Ionawr 22ain. Penderfynwyd ymgyfenwi ar enw y Methodistiaid Calfinaidd o hyn allan; er hyn fod rhyddid i aelodau enwadau eraill gael cyd-addoli, cyhyd ag y parhaent yn foddlawn i athrawiaeth a dysgyblaeth y Methodistiaid."

"Chwefror 13eg. Penderfynwyd adeiladu capel yn Heol Harrison."

"Mawrth 12fed. Caniatawyd i David Rosser, gynt o fro Morganwg, ddechreu pregethu. *Sylw.*—Yr oedd yn y ddinas hon ŵr o Gymro tra charedig ei dymher, a thra swynol ei gymdeithas, yr hwn a sugnai luaws o Gymry ato ar y Sabbothau, gymaint ymron ag a ddeuai i'r addoldiad Cymreig. 'Tueddwyd y gŵr hwn i ddyfod atom,' medd yr ysgrifenydd, 'a dilynwyd ef gan ei gymdeithion hefyd, fel y chwyddodd ein cynulleidfa gymaint, nes oedd yr ysgoldy yn rhy fychan i'w chynwys; ar hyn gwahoddodd y gŵr ni i'w dŷ ef, lle y buom yn ymgynull nes yr agorwyd y capel.'"

"Mehefin 11eg a'r 12fed. Ordeiniwyd Edward Jones, mewn cyfarfod a gyhoeddasid i'r perwyl. Gwnaed hyn ar gais y gynulleidfa yn y lle. Y gweinidogion a gymerent ran yn y gwasanaeth hwn oeddynt y Parchn. Evan Martyn, o blith y Presbyteriaid, ac Evan Williams o blith yr Annibynwyr; y ddau wedi bod yn efrydwyr yn athrofa Neuaddlwyd, yn yr un amser ag Edward Jones."

"Gorphenaf 14eg. Agorwyd y capel newydd gan y brodyr cartrefol."

"Awst 10ed. Dewiswyd dau o frodyr i fod yn flaenoriaid, neu yn ddiaconiaid, yr eglwys, y tro cyntaf; sef Thomas Parry ac Abraham Evans."

"Medi 1af. Penderfynodd yr eglwys i gyd-gyfranogi o swper yr Arglwydd, ar y Sabboth canlynol, pryd yr oedd yn 27 o rifedi."

"1838, Mai. Ymadawodd y brodyr y Wesleyaid â ni, gan ymgorffoli yn eglwys wrthynt eu hunain. Ond ni pharhausant felly ond am ychydig amser."

"1840, Awst. Ymadawodd y brodyr yr Annibynwyr, gan ymgorffoli yn eglwys wrthynt eu hunain yr un modd."

"1845. Gwerthwyd y capel yn Heol Harrison, am ei fod bellach yn rhy fychan; ac adeiladwyd un newydd yn nghanol y ddinas, yn Heol *College*. Y mae hwn yn gapel o briddfeini, ac yn 62 troedfedd o hyd, a 42 troedfedd o led. Agorwyd ef yn Hydref yr un flwyddyn; yn yr hwn yr ymgynullir hyd yn bresenol (1851).

"1846. Ymadawodd y brodyr y Bedyddwyr, gan ymgorffoli wrthynt eu hunain.

"1847. Adeiladodd y Methodistiaid gapel bychan arall, o goed, yn ninas *Covington* ar yr ochr arall i'r afon Ohio, ag sydd i Cincinnati yr hyn ydyw Birkenhead i Liverpool. Bu pregethu, cyfarfodydd i weddio ac ysgol Sabbothol yn cael eu cynal yn y lle, er y fl. 1834, ond nid yn gyson hyd nes yr adeiladwyd y capel.

"1848. Ar ddechreu y flwyddyn hon, yr oedd rhif yr eglwys hon yn 133 o gyflawn aelodau. Yn y flwyddyn hon hefyd, y daeth Hugh Edward Rees, yma o Gymru, yr hwn oedd yn bregethwr yn y cyfundeb; ond nid hir y bu cyn ymadael, ynghyda rhyw nifer o'r aelodau a ymlynent wrtho. Yn y fl. 1850 y bu hyn.

Er mwyn i'r darllenydd allu ffurfio drychfeddwl priodol am yr anhawsderau cysylltiedig â chychwyniad Methodistiaeth yn Nhalaeth Ohio, rhoddwn swm yr hyn a ddywedir, gan y Parch. Edward Jones, Cincinatti, am ei deithiau yn y wlad fawr hon, mewn adeg yr oedd teithio yn anghyfleus os nad yn beryglus:—

"Yn mis Mai 1832, ymwelais, am y tro cyntaf oll, â *Paddy's Run*, y sefydliad nesaf i ni, i'r gogledd. Yr oedd yn y lle hwn amryw o Gymry, gwresog dros eu hiaith, a charedig at eu cenedl, yn preswylio. Yr oedd ganddynt gapel o briddfeini, ac eglwys wedi ei ffurfio, yn cynwys Methodistiaid ac Annibynwyr. Cynalient y moddion cyhoeddus yn y ddwy iaith, dan arolygiaeth eu gweinidog y Parch. B. W. Chidlow, A.B. Y daith nesaf oedd i Pittsburgh, ac yn ol; ei dyben arbenig oedd casglu arian i leihau y ddyled oedd ar ein capel newydd, sef y capel cyntaf oll a berthynai i'r Methodistiaid Calfinaidd yn yr ochr yma i fynyddoedd mawrion yr Aleghany. Yn y

fl. 1834 y bu hyn, ac ar gais y brodyr yn Pittsburgh; gan eu bod yn awyddus i gael cyfnerthiad i drefnu a rhwyddhau rhyw bethau perthynol i ddygiad yr achos yn ei flaen. Yr oeddynt wedi ymgyfenwi ar enw y cyfundeb eisoes er y fl. 1833. Yr oedd W. D. Morgan wedi dechreu pregethu yma, a phregethwr arall wedi symud yma o Botsville ato, sef William James. Ordeiniwyd y ddau frawd hyn ar y pryd, am fod un o'r ddau yn bwriadu myned i le arall i lafurio. Y pryd hwn hefyd y cafodd Edward Blunt ganiatâd i ddechreu pregethu.

"Y daith nesaf a gymerais oedd yn y fl. 1834, yn mis Medi. Un o ddybenion y daith hon hefyd oedd casglu at ddyled ein capel, ar hyd gwahanol drefydd y Dalaeth, oddiyma hyd Columbus, prif eisteddle llywodraeth y Dalaeth, 113 o filldiroedd i'r gogledd-ddwyrain o Cincinatti. Yr oedd yn Columbus ar y pryd hwnw rai Cymry yn preswylio, a David Rosser, yr hwn a ddechreuasai bregethu yn y flwyddyn flaenorol yn Cincinatti, yn cydlafurio â gweinidog Annibynol i gynulleidfa fechan o'r ddau enwad, fel y gwneid yn fynych yn mysg Cymry gwasgaredig America. Ar yr achlysur (o fy nyfodiad) cynaliwyd cyfarfod pregethu, fel cymanfa fechan; a bechan ydoedd, gan fod yr ysgoldŷ bach yn llawn ddigon ei faintioli i gynwys y nifer o'n cydgenedl ag oedd yno. Mewn cyfarfod neillduol, ymddyddanwyd â brawd o'r enw Gabriel Davies, gynt o'r Bala, yr hwn a arferai gynghori ychydig mewn conglau ymddifaid; ac yn y canlyniad archwyd iddo barhau; ond ni oddefwyd iddo wneuthur hyny yn hir, gan ddarfod i angeu luddias iddo; ond cyn ei symud cafwyd tystiolaeth foddhâol ddarfod iddo ryngu bodd Duw. Aethum ymhellach, tua 36 milldir i'r dwyrain, a phregethais rai gweithiau ar 'Fryniau y Cymry,' ger Newark; a dychwelais trwy Columbus, a Portsmouth, tref ar lan yr afon Ohio; ac wedi hyny gyda'r agerdd-fâd 115 milldir i Cincinatti yn fy ol.

"Yn Hydref 1835, aethum daith bellach fyth. Ar y daith hon pregethais yn gyntaf yn Columbus; wedi hyny aethum i *Harrison Township*, ger Granville, lle yr oedd rhai Cymry newydd drigiannu. Oddiyma aethum i dref Granville, ac i 'Fryniau y Cymry,' ac i Newark; y cwbl, ond y lle cyntaf, yn yr un sir. Yr oedd ein brodyr ar 'Fryniau y Cymry' wedi ymgyfenwi erbyn hyn ar enw y cyfundeb. Ar yr adeg bresenol, gan hyny, mewn cyfarfod eglwysig, fe ddewiswyd swyddogion i'r eglwys; ac mewn cyfarfod arall, priodol i hyny, fe ymddyddanwyd â'n hanwyl frawd, William Parry, gyda golwg ar iddo gychwyn pregethu. Ar yr un achlysur cefais gynorthwy ein hoff frawd W. D. Morgan, o Pittsburgh, trwy ei fod bellach wedi dyfod yn agos i fyw. Tranoeth cymerwyd tir i adeiladu capel, yr hwn y mae y brodyr yn ymgynull ynddo hyd heddyw.

"Ar fy nychweliad arosais dros y Sabbath yn Columbus. Troes oddiyno i'r gogledd, hyd sefydliad Cymreig *Radnor Township*; lle yr oedd rhai Cymry wedi ymsefydlu, a hyny mewn lleoedd hynod o ffrwythlawn. Cefais y fraint o bregethu yma i gynulleidfa fechan, gymysgedig o'r ddau enwad, dan ofal

gweinidog Annibynol o'r enw Parch. James Davies; ac ar y Sabboth i gynulleidfa o Fedyddwyr, y rhai oedd dan ofal y Parch. T. Stephens, brawd i'r D. Stephens y soniais o'r blaen am dano. Cychwynais o'r lle hwn ar foreu dydd Mawrth mewn pedairolfen, ag oedd yn myned tuag '*Old Creek*,' lle yr oedd hen sefydliad Cymreig, ond yn awr yn cynal moddion crefyddol yn yr iaith Saesonig. Wedi pregethu yma un noswaith, cychwynais i ffordd yn lled foreu dranoeth ar fy nhraed, am nad oedd cerbyd i'w gael y diwrnod hwnw. Erbyn yr hwyr yr oeddwn wedi cyrhaedd tŷ tafarn yn ynghanol gwlad. Bellach, yr oeddwn yn flinedig, a da oedd genyf gael eistedd a chael lluniaeth, gan obeithio bod wedi ymddadebru erbyn y boreu. Ond tra yr oeddwn yn ymloni fel hyn, canfyddwn fod llygaid gŵr y tŷ wedi duo gan gleisiau, a theimlwn ddaroganau ofnadwy yn saethu i'm mynwes, rhag fy mod wedi disgyn i ganol dynion anhywaith a drygionus. Treuliais y noson hono dan iasau dychymygion, a methais er maint fy mlinder a chysgu yn esmwyth drwy y nos. Ond mi a'i profais yn well na'm hofnau, oblegid ni ddygwyddodd i mi ddim niweid.

"Yr oedd yn ddiwrnod gwlyb dranoeth. Bwriadwn gyrhaedd Palmyra erbyn y Sabboth, 252 o filldiroedd o Cincinatti, yn ol y cynllun a roddwyd yn flaenorol i lawr. Yr oedd pob dull o drafaelio, ond cerdded, o'r lle yr oeddwn, i dref Worcester, yn rhy ddrud i mi; a rhaid oedd i mi gyrhaedd y dref hono yn ystod y dydd, neu o leiaf cyn gorphwyso y nos, onide ni allwn gyrhaedd Palmyra erbyn y Sabboth. Cychwynais, gan hyny, er maint y gwlawogydd. Yr oedd ymrysonfa galed yn fy mynwes, pa un ai gorphwys a wnawn i'r gwlaw fyned heibio, ai ynte, ymroddi er pob anhawsder i gadw at y cynllun gosodedig. Y *teimlad* a ddywedai fod '*Prairie*' mawr o'r blaen yn llawn llaid a thyllau; ond y *farn* a atebai 'Gwir, ond os arhosi, fe fydd y llifogydd wedi chwyddo yr afon dros ei cheulenydd, a'i dyfroedd wedi gorchuddio yr holl fro, fel na elli fyned rhagot; y mae yn beryglus aros.' Felly, ymlaen yr aethum i fyny i'r rhiw, ac ar hyd y ffordd trwy goedwig; ond yn fuan yr oeddwn fel Jacob, yn gloff o'i glun, gan flinder, a charai fy esgid wedi tori, yr hyn a'i gwnai yn anhawdd i mi fyned ar hyd ffordd ddofn a chleilyd. Yr oedd bellach, yn dechreu hwyrhau a thywyllu; a thra yr oedd fy ofnau yn dechreu fy anesmwytho, mi welwn ddyn yn dyfod allan o'r coed o fy ol, i'r ffordd; a daliwyd fi â braw, gan mor anghyfanedd oedd y lle, mai ymosod arnaf a wnai, a fy lladd yn ddiatreg. A hyny yn ddiau a allasai yn hawdd ei wneyd heb un perygl y daethai y weithred byth i'r golwg. Ymlusgais, gan hyny, trwy y llaid i'r ochr arall i'r ffordd, er mwyn gallu ei wylio yn fwy manwl; ond wrth geisio myned trwodd, mi gloffais o'r glun arall, a thorodd carai yr esgid arall. Felly, yr oedd yr anhawsder i gerdded yn fwy, a'r gallu yn llai; rhyfedd yr ystum oedd arnaf, bellach, yn ceisio ymlusgo ymlaen. Ymhen enyd, pa fodd bynag, gwelwn oleuni o fy mlaen, fel goleuni tai anedd; a theimlwn yn y fan yr hen ymrysonfa yn ail-enyn ynof, pa un a awn ymlaen, hyd nes cyrhaedd y dref, yn ol y bwriad, ai ynte ymofyn am lety yn un o'r tai gerllaw.

"Yr oedd cael gorphwys yn ymgymhell yn rymus i'r teimlad; ac o'r braidd na thaerid wrthyf mai rhyfyg ynof fyddai anturio dim ymhellach, cyn cael cysgu a gorphwys; yr ochr arall, yr oeddwn yn deall oni chyrhaeddwn i y dref y noson hon, y collwn y cerbyd bore dranoeth. Rhoddwyd terfyn ar y petrusder, trwy yr amgylchiad hwn fel arwydd,—os cawn gareiau i fy esgidiau, ymlaen yr oeddwn i fyned; onide, ac os llety a gynygid i mi, yr oedd i fod yn amnaid i mi i orphwys. Careiau, pa fodd bynag, a gafwyd, a rhwymwyd fi trwy y ddeddf a osodais arnaf fy hun, i fyned rhagof. Yr oedd gwedd chwithig arnaf, a da oedd ei bod yn nos, rhag y sylw a dynaswn arnaf fy hun; rhwng y cloffni a gawswn, a'r llaid oedd ar fy nillad, yr oeddwn yn wrthddrych gwir resynol. Ond yr oeddwn o'r diwedd yn dynesu at y dref; ond cyn myned iddi, ïe, tra yr oeddwn enyd oddiwrthi, tybiais yn angenrheidiol wneuthur cais ar lanhau gronyn arnaf fy hun. Diosgais, gan hyny, fy llodrau, a'm hosanau, a golchais hwynt yn yr afon, sydd ger y dref, oddiwrth y llaid oedd yn glynu wrthynt, a gwesgais hwy eilwaith yn y fan; ac felly yr aethum i mewn i'r dref. Cefais bob tiriondeb ar law y gwestŷ-wr y lletyais yn ei dŷ; a chan fod llaw ddaionus fy Nuw gyda mi ni chefais ddim niweid. Teimlwn, bellach, yn dra diolchgar am fy arwain i'r penderfyniad a wnaethum, pan ddeallais fod y cerbyd yr oeddwn i fyned ynddo dranoeth yn cychwyn cyn dydd. Trwy ymlusgo i'r dref yn yr hwyr o'r blaen, gan hyny, mi ellais achub y cyfle i fyned rhagof yn ddioedi, ac felly yn abl cyrhaedd Palmyra erbyn y Sabboth.

"Wrth ddychwelyd oddiyno tuag adref, ar hyd ffordd arall, tröais i sefydliad arall yn siroedd Jackson a Gallia, ar gais rhai brodyr oedd newydd ddyfod yno o Gymru. Yr oedd yma rai Cymry, er y fl. 1818; a'r pregethwr Methodistaidd cyntaf a ymwelodd â hwynt, oedd David Rosser; yr oedd hyny yn y fl. 1834. Yr amser yr ymwelais i â'r lle, oedd yn Tachwedd 29, 1835, pryd yr arosais dros ddau Sabbath, ac y cefais y fraint o weini swper yr Arglwydd i'r brodyr, y tro cyntaf erioed yn Gymraeg, yn y lle hwn. Dydd Llun, ar ol yr ail Sabboth, hebryngwyd fi ar geffyl gryn bellder o ffordd tua chartref; rhaid oedd i mi deithio y gweddill o'r ffordd ar fy nhraed, hyd nes cyrhaedd yr afon Ohio. Wedi i mi gyrhaedd o fewn naw milldir i'w glàn, mi gollais y ffordd mewn coedwig; a chan ei bod yn dechreu tywyllu, fel na allwn wybod y cyfeiriad, wrth na haul na chwmpawd, bum yn crwydro yn ol ac ymlaen, fel un wedi llwyr ddyrysu. Ond wedi taro wrth ffrwd o ddwfr, mi a ymroddais i'w dilyn; ac felly fe'm dygwyd eilwaith i'r lle y collaswn y ffordd ar y cyntaf; ond er i mi ddychwelyd yn ol fel hyn, yr oedd yn beth anhawdd iawn i ddyn dyeithr allu cadw y ffordd ar ol cael ei phen; a chollais beth arni wedi hyny; yr oedd yn rhaid i mi fyned trwy goedwigoedd mawrion, a hithau yn dywyll, fel y syrthiodd digalondid a llwfrdra meddwl arnaf; ac ofnais yn fawr rhag y dygwyddai i mi fel y dygwyddasai i rai eraill, ïe, i rai Cymry, sef fy llarpio gan fwystfilod. Er cased oedd genyf y sôn am y "cyllill hirion," yr oeddwn ar hyn o bryd, yn gwir ddymuno fy

mod yn berchenog ar un o honynt; ond ofer oedd y dymuniad; nid oedd genyf ddim ond cyllell-bin *(penknife)* fechan, yr hon a agorais ac a'i cariais felly yn fy llaw, rhag y daethai arth neu lew i'm cyfarfod. Prysurais, ïe, rhedais mor gyflym ag a allwn, ar hyd y ffordd, a hyny mewn dychryn mawr, hyd nes y daethum allan o'r coed; a hawdd ydyw i'r darllenydd ddychymygu pa mor dda oedd genyf ddyfod allan o'r goedwig i dir agored, a deall fy mod yn dynesu at làn yr Ohio. Ond bu yn galetach fyth arnaf wedi cyrhaedd yr afon; daethum at dŷ ar lan y dwfr, a chefais ganiatâd gan ei breswylydd i aros ynddo dros nos. Trowyd fi i ystafell lle y gadawyd fi dros amser maith wrthyf fy hun; a chan nad oedd yr un tŷ arall yn agos iddo, disgynodd arnaf ddychryn mwy ofnadwy drachefn, fod y teulu wedi cilio er mwyn parotoi at fy lladd; yr hyn a fuasai yn eithaf hawdd ei wneyd; a hyny heb i'r weithred ysgeler ddyfod byth i'r golwg, trwy fy mwrw, yn rhwym wrth gareg i ddyfnder yr afon fawr. Ond y tro hwn hefyd, bu yn well arnaf na'm hofnau; 'Ceisiais yr Arglwydd, ac efe a'm gwrandawodd; gwaredodd fi hefyd o'm holl ofn.' "

Naturiol i'r darllenydd ofyn, wrth ymwrando â helyntion y teithiwr, paham na buasai yn rhag-drefnu ei deithiau yn well, ac yn parotoi yn amgen gogyfer ag anhawsderau a ellid eu rhagweled. Yr ateb goreu i hyn ydyw, fod y brawd uchod dan angenrheidrwydd i deithio yn y modd rhataf, gan y buasai y draul o'i gludo yn disgyn yn rhy drwm arno ef ei hun, ac nid oedd cynorthwy lawer i'w ddysgwyl oddiwrth y rhai yr aethai i'r daith er eu mwyn, trwy nad oeddynt gan mwyaf, ond dyfodiaid newydd dirio yn y wlad; a'u rhifedi hefyd yn ychydig. Yr oedd yn rhaid i'r ymdeithydd brysuro i gyrhaedd pob lle yn yr adeg appwyntiedig, rhag iddo gael yr afon Ohio, ar hyd yr hon yr oedd i gael ei drosglwyddo 100 milldir o ffordd, fod yn llawn iâ cyn iddo ei chyrhaedd; a rhag hefyd iddo golli ei le o ran ei alwedigaeth. Ymddengys fod sefyllfa y brodyr sydd yn llafurio yn y weinidogaeth, trwy eu diwydrwydd eu hunain, a bendith rhagluniaeth, wedi gwella llawer yn ystod yr 20 mlynedd, sydd wedi treiglo heibio, er y pryd hwnw; ac hefyd y mae rhifedi y Cymry yn llawer mwy, a'u hamgylchiadau yn llawer gwell.

"Mae yn syndod mawr i mi," ysgrifena Edward Jones, "weled y fath gyfnewidiadau yn y Dalaeth hon (Ohio). Pan ddaethum i ddinas Cincinatti yn 1832, nid oedd yr un *canal* wedi ei dori o fewn y Dalaeth, nac un brifffordd wedi ei charegu, a llawer llai ffordd haiarn. Y pryd hwnw, nid oedd y trigolion yn y ddinas hon ond tua 26,000; yn awr y maent yn 124,000; y tai yn wych, a'r eglwysydd yn ysblenydd; a ffyrdd cyffredin i bob lle, a ffyrdd haiarn ar hyd ac ar led y wlad, fel ag y mae moddion cludiad yn llawer iawn cyflymach a rhatach."

Bryniau y Cymry.

Ni fu achos gan y Methodistiaid yn y sefydliad hwn hyd y fl. 1834. Yr

oedd yma Gymry, ryw nifer, yn preswylio flynyddau cyn hyny, a moddion crefyddol yn cael eu cynal yn Gymraeg ac yn Saesonaeg, yn benaf gan y Bedyddwyr, gyda rhyddid i'r aelodau a wahaniaethent yn eu barn, gael mwynhau gweinidogaeth y Presbyteriaid yn achlysurol. Dechreuwyd achos y Methodistiaid yn y fl. 1834; rhoddwyd trefn fwy gorfforedig arnynt yn y flwyddyn ganlynol; ar yr achlysur, rhoddwyd caniatâd i William Parry, gynt o Dre'-gynon, swydd Drefaldwyn, i ddechreu pregethu. Penderfynwyd hefyd, ar adeiladu capel; ac ar ol ei orphen fe'i galwyd ar yr enw SARON, yn dynodi prydferthwch hyfryd y fro y mae yn sefyll ynddi. Bendithiwyd gweinidogaeth William Parry, fel ag y bu cryn ychwanegiad at yr eglwys yn y fl. 1837; yntau a neillduwyd yn gyflawn i'r weinidogaeth yn y fl. 1838, gan faint oedd ymddifadrwydd yr eglwys yn Saron o weinyddiad y sacramentau.

GRANVILLE.

Mae y dref hon o fewn tair milldir a hanner i'r gorllewin o Saron. Dechreuwyd cynal moddion Cymreig yn y lle hwn, yn nhŷ un Jenkin Hughes, câr i'r diweddar Barch. James Hughes, Llundain, tua'r haf, 1835. Lluosogodd y Cymry yn y dref, ar ol hyny; ac yn y 1842, codasant gapel, gan ymgorffori yn eglwys reolaidd, a dewis dau ŵr, sef John Jones, a William Williams, gynt o sir Drefaldwyn, i'w blaenori. Symudodd y Parch. William Parry hefyd yma i breswylio.

NEWARK.

Mae y dref hon tua thair milldir i'r dwyrain o Saron. Ar ol i rai Cymry ddyfod i fyw i'r dref, agorodd un Timothy Winston ei dŷ, i gynal moddion crefyddol ynddo; mab ydoedd hwn i hen ddiacon ffyddlon yn ei dymhor, yn Nhref-castell, sir Frycheiniog. Aeth y tŷ ymhen rhyw amser yn rhy fychan, a chynaliwyd y moddion, ar ol hyny, mewn ysgoldŷ; corfforwyd yr eglwys yn 1839, a chodwyd capel yn 1840. Chwythodd awelon cryfion o ymrysonau dros y cynulleidfaoedd hyn, am ysbaid amryw flynyddau. Yn y fl. 1841, daeth Hugh E. Rees, yma i fyw; ac yn fuan ar ol ei ddyfodiad, cododd yr anghydwelediad; a symudodd oddiyma yn y fl. 1848, i Cincinatti. Yn y fl. 1852, daeth y Parch. Jos. E. Davies yma, yr hwn a ymfudodd i'r wlad hon o Ddeheudir Cymru, ac a ddechreuodd bregethu yn Nhalaeth Pennsylvania; oddiyno symudodd i Palmyra yn Ohio; a thrachefn i Newark, lle y mae wedi bod yn gwasanaethu yr efengyl hyd yn hyn. Dywedir fod yr achos yn y lle hwn yn ymadnewyddu, a bod gwell golwg arno yn awr nag a fuasai arno er y fl. 1841.

YSGOGIADAU METHODISTIAETH YN SWYDDI JACKSON A GALLIA.

Ymddengys fod Methodistiaeth wedi llwyddo ac ymeangu yn y dosbarth hwn o'r wlad, gymaint, os nad mwy, nag un rhan arall o'r America. Tuag ugain mlynedd yn ol, nid oedd yma un sefydliad gan y cyfundeb o un math: pryd y mae yn awr 10 o orsafoedd, lle y cynelir moddion gras yn yr iaith Gymreig; a lle y mae eglwysi wedi eu ffurfio, yn cynwys gyda'u gilydd tua 550 o aelodau. Yn y dosbarth hwn hefyd y mae chwech o frodyr yn arfer pregethu, a thua 30 neu ychwaneg, o ddiaconiaid.

Daeth i'r cymydogaethau hyn ryw nifer o deuluoedd Cymreig i ymsefydlu mor gynar a'r fl. 1817; ond nid oedd yr un o honynt yn dwyn dim perthynas eglwysig â'r Methodistiaid Calfinaidd. Yn y fl. 1835, pa fodd bynag, daeth pedwar neu bump o deuluoedd drosodd o sir Aberteifi; ac un teulu o sir Drefaldwyn; ac a ymsefydlasant yn y fangre hon. Daethai hefyd ddau deulu eisoes yma o Pittsburgh; ac yr oedd y teuluoedd hyn, gan mwyaf, os nad oll yn perthyn i'r cyfundeb. Yn fuan, bellach, yn y fl. 1835, dechreuasant ymgrynhoi at eu gilydd i addoli Duw eu tadau, trwy gynal cyfarfodydd i weddio, ac i ddarllen gair Duw; ond hyd yma nid oedd neb yn eu plith yn arfer cynghori eu cyd-greaduriaid yn gyhoeddus. Yn y gwanwyn, 1836, ymwelodd y Parch. Edward Jones, Cincinatti, â hwynt, a chynorthwyodd hwynt i ymffurfio yn gymdeithas eglwysig, ac i osod John E. Evans, gynt o Dre'gynon, sir Drefaldwyn, a William Evans, gynt o'r Penant, sir Aberteifi, yn henuriaid. Yn fuan ar ol hyn, daeth un Edward Blunt, yr hwn oedd yn arfer pregethu eisoes, i drigiannu yn eu plith; arosodd gyda hwy dros dymhor, gan bregethu a gweini yr ordinhadau iddynt, hyd nes yr ymadawodd oddiyma i *Coalport*. Bu y gŵr hwn, meddir, yn llafurus a defnyddiol, tra y bu yma; ac wedi hyny dros ysbaid rhai blynyddau; ond yn y diwedd, ymadawodd â'r cyfundeb, fel na chyfrifwyd ef mwyach gyda'r Methodistiaid. Yn y flwyddyn hon hefyd (1836) yr adeiladwyd y capel cyntaf; yr hwn a alwyd yn "Moriah;" capel bychan ydoedd, o gyffion coed naddedig, tua 24 wrth 20 troedfedd o faint, ynghanol yr anialwch. Er lleied oedd ei faint barnem y byddai yn ddigon ei faintioli, o leiaf, am un oes; ond yn hyn yr oedd y brodyr dan gamsyniad mawr, fel yr ymddangosodd yn ol llaw.

Tua diwedd yr haf, yn 1836, y daeth y Parch. Robert Williams, Môn, drosodd, ac ymsefydlodd yn y parth hwn o'r wlad; a chydag ef eraill o Gymry yr hen wlad. Trwy ei ymsefydliad ef yma, cafodd yr ardal bregethu cyson; a gwelodd yr Arglwydd yn dda goroni llafur y brawd uchod â llwyddiant mawr. Y mae bellach, yn trigiannu, ac yn gweinidogaethu, yn sefydliad Jackson, er ys 20 mlynedd; ac wedi bod yn ymgeledd tra gwerthfawr i'r achos yn mlynyddau ei fabandod.

Yn y flwyddyn ganlynol (1837), ymfudodd lluaws o Gymry i'r sefydliad hwn; rhai o siroedd Trefaldwyn a Dinbych, ond gan mwyaf, o sir Aberteifi;

ac yn eu plith yr oedd un pregethwr, sef David Lewis, gŵr o sir Drefaldwyn, a chwech o wŷr* a fuasent henuriaid eglwysi yn eu hen gartrefi. Bu gyda hwynt hefyd, ŵr o'r enw Alban Alban, o'r Penant, sir Aberteifi. Wedi tair neu bedair blynedd, symudodd David Lewis oddiyma i Ebensburgh, Pennsylvania.

Yn y fl. 1838, cynaliwyd yma gymanfa, y gyntaf erioed yn Nhalaeth Ohio. Y pregethwyr ag oeddynt bresenol, oedd E. Jones; E. Blunt; John Edwards; D. Rosser; W. Parry; R. Williams; a D. Lewis; yr oedd yno hefyd amryw flaenoriaid. Yr hyn sydd yn hynodi y gymanfa hon, heblaw ei bod y gyntaf yn y Dalaeth, ydyw ddarfod i'r holl swyddogion cynulledig fyned i gyfamod difrifol, i ddwyn yr achos crefyddol yn eu plith ymlaen mewn undeb â chorff y Methodistiaid Calfinaidd yn Nghymru, ac yn gyson â'r athrawiaeth a'r ddysgyblaeth a broffesid gan y cyfundeb; yr hwn gyfamod a ysgrifenwyd ac a law-arwyddwyd gan bob swyddog yn y lle. Yn y gymanfa hon hefyd, yr ordeiniwyd Robert Williams a William Parry.

Yn y fl. 1840, sefydlwyd cyfarfod trimisol yn y Dalaeth; yr hwn sydd gyffelyb ei ffurf a'i amcan, i gyfarfod misol y corff yn Nghymru. Mae y cyfarfod hwn, meddir, wedi bod yn llewyrchus a buddiol iawn, o'i gychwyniad hyd yma; ac er na fydd yn gweinidogaethu ynddo ond y pregethwyr cartrefol; eto ceir yr hyfrydwch o weled yr holl genedl (y Cymry), o bob enwad crefyddol, yn ymgasglu iddo. Profir fod y cyfarfodydd hyn yn fuddiol, nid yn unig i drefnu achosion perthynol i'r dosbarth, ond i adfywio y brodyr oll yn nghymdeithas eu gilydd. Mewn gwlad bellenig, ac yn trigo fel y maent ynghanol cenedloedd estronol, ac yn aneddu, lawer o honynt, yn mhell oddiwrth eu gilydd, hawdd ydyw meddwl fod y cyfleusdra a roddir yn y cyfarfodydd hyn, i'r brodyr fwynhau yr hyfrydwch o weled eu gilydd, ac yn enwedig i fwynhau eu gilydd "*yn nghymdeithas yr efengyl*," yn foddion arbenig o adfywiad; yn amseroedd i orphwys o olwg yr Arglwydd, i'r frawdoliaeth oll.

Trwy fod ymfudiadau parhaus o'r "hen wlad," ac hefyd o barthau eraill o'r wlad hon i'r cymydogaethau hyn, yr oedd galwad uchel ar yr eglwys yn Moriah, i dori allan ar y ddê, ac ar yr aswy; ac felly ymeangodd yr achos yn fawr; ffurfiwyd canghenau eglwysi, a chodwyd capelau ac ysgoldai, fel y gwelir yn y rhestr a ganlyn:—

Moriah, y fam eglwys, codwyd y capel yn	1836.
Horeb, cychwynodd yn y flwyddyn	1838.
Centreville, ...	1838.
Bethel	1841.
Soar	1841.
Sardis	1843.
Bethania	1847.
Oak Hill	1850.

* D. Wynne, sir Ddinbych; R. Davies, Dre'newydd; William Jones, Bethel, sir Aberteifi; E. Morris, Elim; S. Davies, Llanon; a D. Evans, Llangeitho.

YSGOLDAI.

Syms-creek ..... 1838.
Rhydlwyd ..... 1852.

Yn y sefydliad hwn hefyd, cododd amryw bregethwyr, y rhai y caed arwyddion ynddynt ddarfod i Arglwydd y cynhauaf eu hanfon at y gwaith; sef:—

Daniel Evans, yn 1839; ond a fu farw gydag iddo ddechreu.

Richard Davies, yn 1841; ond a symudodd i Dalaeth Wisconsin.

John W. Evans, yn 1843, gynt o Flaen-penal, sir Aberteifi, yr hwn sydd yn bugeilio yn nghapel Horeb.

Ymfudodd yma rai pregethwyr o Gymru, megys,—

Morris Morris, Elim, sir Aberteifi; bu gweinidogaeth y brawd hwn yn llewyrchus iawn am yr ysbaid byr o bum' mis, pryd y lluddiwyd ef gan angeu i barhau. Yn y fl. 1844 y bu hyn. Tua diwedd yr un flwyddyn symudodd o Pittsburgh i'r lle hwn, yr hen frawd Owen Jones, gynt o Manchester, yr hwn sydd yn aros hyd heddyw. Yn y flwyddyn 1848, hefyd dechreuodd brawd arall, Evan S. Jones, gynt o Riw-bwys, sir Aberteifi, ar y gwaith cyhoeddus; y mae y gŵr hwn yn trigiannu yn Centreville.

Fel y coffawyd, nid oedd yn y sefydliad ond un capel bychan, Moriah, yr hwn, ar y pryd, a dybid yn ddigon o faintioli am oes; ond y mae y capel hwn, wedi ei ail-adeiladu, ychydig o flynyddau yn ol, yn dŷ helaeth a hardd, o *frame*. Mae rhai o'r canghenau eglwysi, megys, Horeb a Bethel, erbyn hyn yn amlach eu haelodau na'r fam-eglwys Moriah; cynwys Horeb 150, a Bethel tua 120, pryd nad oes yn Moriah ond 65.

Nid oedd y sefydliad hwn pan ddaeth y Cymry yma gyntaf, ond lle anial a gwyllt; ambell dyddyn yn dechreu ei fritho; ac ambell lecyn o'r anialwch coediog, wedi ei arloesi a'i drin. Nid oedd, y pryd hwnw, na ffyrdd cyffredin, na ffyrdd haiarn yn y wlad hon; a theimlai y preswylwyr anghyfleusderau dirfawr, fel y gellid dysgwyl, mewn sefydliad newydd; ond erbyn hyn, y mae gwedd y sefydliad wedi newid. Mae gweithfaoedd yn codi ar bob llaw, a thrafnidiaeth masnach yn llenwi y broydd, a ffordd haiarn yn rhedeg trwy ganol y sefydliad. Ar y dechreu nid oedd ein cenedl ond pobl gyffredin, a llawer o honynt yn dlodion; yn awr y maent, gan mwyaf, mewn amgylchiadau cysurus, ac yn meddu gradd ehelaeth o ddylanwad. Mae y sefydliad Cymreig tuag 16 milldir ysgwâr, a hanner y trigolion yn siarad yr iaith Gymraeg.

COALPORT.

Lle yw hwn ar làn yr afon Ohio, yn llawn o weithydd glo; yma hefyd y mae nifer o Gymry yn preswylio, ac yn eu mysg, er ys 20 mlynedd, sefydliad crefyddol Cymreig, perthynol i'r Methodistiaid Calfinaidd. Dechreuodd yr

achos yn y lle hwn, yn y fl. 1836, ac ymddengys mai Edward Blunt oedd y pregethwr Cymreig cyntaf a fu yn llafurio yma; wedi hyny John T. Williams, gynt o Ben-y-cae, sir Fynwy, yr hwn a ddechreuodd bregethu yma yn y fl. 1843, ac sydd yn aros yn y lle hyd heddyw, a'i lafur o wir wasanaeth i'w gyd-genedl. Yma hefyd y dechreuodd y brodyr John Price ac Evan Jones, ar y gwaith o bregethu. Mae yr aelodau eglwysig yn lled luosog eu rhif yn Coalport; ac yn gyffredinol y mae golwg siriol ar yr achos; ond yr hyn sydd yn afrwyddo y gwaith fwyaf yn y lle ydyw y symudiadau mynych a fydd oddiyma i Wisconsin, Califfornia, a manau eraill; yr hyn a fydd yn effeithio weithiau yn drwm ar yr eglwys a'r gynulleidfa.

VANWERT.

Yn Nhalaeth Ohio y mae swydd o'r enw *Vanwert*, a sefydliad crefyddol Cymreig, o'r un enw. Dechreuodd yr achos yn y lle hwn, ar ddyfodiad amryw deuluoedd i'r lle, o Lanbrynmair, sir Drefaldwyn; y blaenoriaid ydynt, Mr. William Bebb, a Thomas Morris. Nid oedd un pregethwr yn byw yn y lle hwn, ac am hyny nid oedd yma weinidogaeth gyson, hyd yn ddiweddar; eto nid oedd y Cymry yma ddim yn cael eu llwyr adael yn ymddifaid, gan yr anfonid brodyr gan y gymanfa i ymweled â'r praidd bychan, mor fynych ag y gellid. Mae golwg siriol a gobeithiol ar yr achos, er nad yw yr aelodau eglwysig ond tua 47 o rifedi; mae brawd ag sydd yn pregethu, wedi dyfod yma i breswylio yn ddiweddar, o'r enw Hugh Pugh.

PALMYRA.

Mae y sefydliad hwn o 60 i 80 milldir i'r gogledd-orllewin o Pittsburgh. Dechreuodd y sefydliad trwy i Gymro cyfoethog ddyfod trosodd o sir Aberteifi, islaw Llanbedr, i edrych y wlad a dewis trigo yn y parth hwn. Cyhoeddodd y lle, fel mangre fanteisiol i'w gydwladwyr ymfudo iddi, yn rhai o fisolion yr hen wlad; ac yn y canlyniad, daeth llawer o honynt drosodd, o Langeitho a'i chyffiniau, a rhai o Ogledd Cymru. Ar y dechreu, yr oedd yr Annibynwyr a'r Methodistiaid, yn cyd-addoli yn yr un lle, hyd y fl. 1835, pryd yr aeth pob enwad wrtho ei hun. Yn y fl. 1834, dechreuodd Edward Blunt, enw yr hwn a grybwyllwyd fwy nag unwaith o'r blaen, bregethu i'w gyd-genedl. Gŵr oedd hwn o ardal Llangollen, sir Ddinbych, ond ar hyn o bryd yn trigiannu yn Palmyra; bu y Parch. W. James, yn gweini yma dros amser byr, ond ymadael a fu raid iddo yn lled fuan, ac nid hir y bu efe byw ar ol hyny, oblegid bu farw yn y flwyddyn 1836.

Wedi adeiladu y capel yn y fl. 1835, arweiniwyd Edward Blunt i le arall, a daeth y Parch. H. R. Powell, gweinidog ymysg yr Annibynwyr, o Utica i Palmyra i fyw, yn 1836, ac ymhen peth amser ymunodd â'r Methodistiaid, o hyny hyd ei farwolaeth; yr hyn a gymerodd le yn 1850, wedi byw i weled 92 mlwydd oed.

PENNOD III.

HANES METHODISTIAETH TALAETH PENNSYLVANIA.

CYNWYSIAD:—

SEFYDLIADAU METHODISTAIDD Y DALAETH—RHESTR O'R PREGETHWYR—CARBONDALE—POTTSVILLE—DANVILLE, SCRANTON A PITTSBURGH—EBENSBURGH AC INDIANA—RHESTR O ENWAU Y PREGETHWYR A FUANT FEIRW A PHA BRYD.

Ymddengys fod gan y Methodistiaid Calfinaidd tua deuddeg o gynulleidfaoedd sefydlog yn y Dalaeth hon, lle y mae capelau wedi eu codi, ac eglwysi wedi eu crynhoi. Nid ydym yn hyderus iawn am gywirdeb yr ystadegau sydd genym am y gorsafoedd, nac am gartref presenol yr holl bregethwyr, gan fod yma gyfnewidiadau lawer weithiau yn cymeryd lle, mewn ychydig amser. Yn y flwyddyn 1853, yr oedd sefyllfa Methodistiaeth yn y Dalaeth fel hyn* :—

CAPELAU.

Carbondale.	Ebensburgh.	Scranton..
Pottsville.	Pittsburgh.	Dinorwig
Daleville.	Blakeley.	Danville.
Minersville.	Sugar-creek.	St. Clear.

LLAFURWYR.

Gweinidogion.	*Pregethwyr.*
John Davies, Blakeley.	John Adams, St. Clear.
W. D. Morgan. Pittsburgh.	David Howells, Summit Hill.
D. T. Lewis, Ebensburgh.	Robert Sennar, Carbondale.
Robt. Williams, Minersville.	John R. Williams, Scranton.
John L. Jeffreys, Ebensburgh.	
David Williams, Pittsburgh.	

Yn ystod y byr hanes sydd yn canlyn, fe wel y darllenydd fod gradd o gyfnewidiad wedi cymeryd lle er pau y cafwyd y rhestr uchod; ac erbyn heddyw dichon fod cyfnewidiadau eraill, fel nad ydym yn sicr fod ein desgrifiad yn berffaith gywir am wedd presenol yr achos. Ymddengys wrth yr ychydig hanes sydd genym ddarfod i sylfaenwyr yr achos Methodistaidd yn y Dalaeth hon, ddangos llawer o ffyddlondeb a hunan-ymwadiad, tra yr oedd y gwaith ar ei gychwyniad. Nid oedd yr un o honynt yn meddu nemawr o dda y byd hwn; angenrhaid iddynt oedd gweithio â'u dwylaw i ddiwallu eu cyfreidiau eu hunain a'u teuluoedd; a llafurio ar yr un pryd yn y weinidog-

* Wedi ysgrifenu yr hanes uchod, deallwyd fod sefyllfa y Dalaeth wedi gwahaniaethu peth. Chwanegwyd rhai gorsafoedd bychain, a symudodd rhai pregethwyr i gartrefu. Nid yw, gan hyny, o gymaint o bwys, pa gyfrif o'r ystadegau a roddir, gan nad ydynt yn aros yn yr un wedd ond am ychydig iawn o amser.

aeth dan lawer o anfanteision, ac anhawsder. Yr oedd y Cymry eto yn ychydig o rifedi; ac, fel y gellid dysgwyl, fod ymfudwyr newydd ddyfod trosodd, yr oeddynt yn llawn trafferth a helbul, pa fodd mewn gwlad estronol i ennill iddynt fywiolaeth. Rhaid hefyd oedd iddynt gael rhyw fath o adeiladau i addoli ynddynt, a gorchest fawr oedd iddynt allu talu traul eu codiad, er nad oeddynt, ar y dechreu, ond tra diaddurn. Yr oedd cryn anfantais hefyd yn cyfodi oddiar ansefydlogrwydd yr ymfudwyr; gallent fod yn lled luosog mewn ardal un mis, ac oll, ymron, wedi diane i ardal wahanol y mis nesaf. Nid oedd yr ymfudwyr hyn, ychwaith, oll o'r un syniadau crefyddol, er eu geni yn yr un wlad, ac oll yn siarad yr un iaith; ac ar yr un pryd, nid oedd nifer digonol o honynt, perthynol i un enwad, i ffurfio achos iddynt eu hunain; a rhaid oedd iddynt, gan hyny, os mynent wasanaeth crefyddol yn eu hiaith, ymwadu dros dymhor o leiaf, a'u syniadau sectaidd, er mwyn ymuno â'u gilydd yn un gynulleidfa. Rhwng pob peth, yr oedd yr anhawsderau ar ffordd y brodyr a fu yn offerynau i roddi cychwyniad i'r achos Cymreig yn mysg ymfudwyr y gwahanol daleithiau yn fawrion iawn, ac yn anhawsderau na pherthynent i un wlad arall, oddieithr ei bod yn wlad o ymfudwyr.

CARBONDALE.

Un o'r lleoedd cyntaf y sefydlwyd achos Methodistaidd ynddo yn y Dalaeth hon, ydyw y dref a elwir ar yr un enw uchod. Yn y fl. 1832, pryd y rhoddwyd cychwyniad iddo, nid oedd *Carbondale* ond lle bychan; yn awr y mae yn lle mawr ac enwog. Yn y flwyddyn grybwylledig, daeth un John Davies, yn awr o *Blakeley*, i'r lle hwn. Gŵr ydoedd o Ddeheudir Cymru, ac wedi dechreu pregethu cyn gadael ei wlad enedigol. Yr oedd yn *Carbondale* ychydig o Gymry wedi ymsefydlu cyn iddo ddyfod, a dau neu dri o honynt yn Fethodistiaid; yn y flwyddyn grybwylledig, daeth amryw o deuluoedd, o Lanelli, Brycheiniog, ac o Hirwaun, Morganwg, gyda John Davies, yn mysg y rhai yr oedd amryw grefyddwyr o'r un enwad ag yntau. Yn fuan wedi eu dyfodiad, dechreuasant gydymgynghori pa fodd y gallent sefydlu achos Cymreig yn y lle; ac yn y canlyniad, achos felly a ffurfiwyd, cyfansoddedig o'r gwahanol enwadau crefyddol. Ond fel y gellid dysgwyl, nid esmwyth a chysurus iawn yr oedd y peiriant yn gweithio. Ciliodd y Methodistiaid, pa fodd bynag, gan ymgorffori wrthynt eu hunain. Dros ryw dymhor, caent fenthyg capel y Presbyteriaid, ar ryw un adeg o'r Sabboth; a'r rhan arall o'r dydd ymgynullent yn y lle hwn neu arall, yn ol y cyfleusdra.

Hwn, tybygid, yw y lle cyntaf yn Pennsylvania y sefydlwyd gorsaf grefyddol gan y Methodistiaid ynddo. Yn y fl. 1833, adeiladwyd y capel cyntaf; yr hwn, meddir, sydd yn aros hyd heddyw, er fod capel newydd mwy ei faintioli wedi ei adeiladu ar ol hyny. Cynyddodd yr achos yma dros ryw dymhor, nes oedd y capel yn llawn o wrandawyr, ond daeth lleihad drachefn

arno, trwy i saith neu wyth o deuluoedd ymfudo ymhellach i'r gorllewin; ac hefyd trwy fod "Odyddiaeth' wedi ymlusgo i blith y gwrandawyr; gan na oddefid hyn gan y Methodistiaid, ciliodd y nifer anfoddhaol i le arall.

POTTSVILLE.

Yn haf yr un flwyddyn, sef 1832, daeth nifer o Gymry i'r lle hwn hefyd. Y mae yn sefyll tua 120 milldir o Carbondale; ymhen enyd bach ar ol cyrhaedd, hwythau a ddechreuasant ysgogi tuag at sefydlu achos crefyddol yn eu hiaith. Cawsant gyfnerthiad yn eu hamcan trwy ddyfodiad un Joseph Jones, gynt o Dowlais, a'i deulu, a Thomas Griffiths, a'i deulu yntau. Yr oedd y gwŷr hyn yn wŷr parchus; yma hefyd yr arosodd yr olaf tra fu byw, a mawr fu y golled ar ei ol wedi ei ymadawiad. Nid oedd yma yr un pregethwr yn eu mysg, a'r nesaf atynt oedd John Davies, Carbondale, 120 milldir o ffordd; yr unig un, tybygid, yn yr holl Dalaeth, y pryd hwnw. Ar waith y brodyr yn taer ddymuno hyny, aeth y brawd hwn atynt, trwy anghyfleusdra trwm, ac arosodd gyda hwynt fis neu ychwaneg o amser, gan bregethu iddynt yn rhyw hen gapel anghyfleus, ynghanol y coed, perthynol i'r *Dutch*, yn y bore; ac yn y prydnawn mewn ysgoldŷ ynghanol y dref. Aeth yr un brawd yno amrywiol weithiau ar ol hyn; a hyny, yn aml, pan y byddai yn toddi gan wres, a phryd arall yn rhynu gan oerfel. Ymhen rhyw dymhor dechreuodd un brawd, o'r enw William James, gynt o Ben-y-cae, sir Fynwy; bregethu, yr hwn wedi hyny a urddwyd i gyflawn waith y weinidogaeth yn Pittsburgh, ond a fu farw yn fuan ar ol hyny. Ar ol hwn cyfododd brawd arall, a ddaethai yn wreiddiol o'r un gymydogaeth, sef John Edwards, yr hwn sydd eto ar y maes, ond wedi symud i Dalaeth Ohio. Drachefn, dechreuodd un Joseph Davies, gynt o Dredegar, sir Fynwy, ar y weinidogaeth; yntau hefyd a symudodd i Ohio, ac a fu dros ryw dymhor yn llafurio yn Palmyra, ond yn ddiweddarach yn Newark.

Er yr holl anfantais a gyfyd oddiar ansefydlogrwydd pethau, yn neillduol yn y Dalaeth hon, y mae y gwaith yn myned yn ei flaen. Yn 1832, nid oedd yma yr un gynulleidfa Gymreig gan un enwad; yn awr y mae gan y Methodistiaid gapel yn Pottsville, yn Minersville, ac yn St. Clears, a nifer o aelodau eglwysig ymhob un. Yn *Danville* hefyd, tref ar làn yr afon fawr y *Susquehana*, lle y mae gweithfaoedd mawrion, a lluaws o Gymry, y mae gan y Methodistiaid gapel hardd a gwerthfawr. Yn Pottsville, y mae yn awr (1856), ddau bregethwr yn preswylio, sef Thomas James a D. J. Morgan. "*Scranton*" hefyd, y mae capel da wedi ei adeiladu, a chynulleidfa luosog yn ymgasglu. Tref yw hon, ar làn yr afon *Jackawana*. Mae yr achos yn y lle hwn hefyd, wedi codi er pan ddaeth John Davies i'r wlad, ac i raddau trwy ei lafur ef yn rhoddi cychwyniad iddo. Lle ydyw y mae gweithfaoedd glo a haiarn ynddo, a rheilffyrdd yn cyd-gyfarfod ynddo; mae yma eglwys yn awr yn cynwys tua 40 o aelodau, a phregethwr, o'r enw John R. Williams yn preswylio.

PITTSBURGH.

Yn y fl. 1837* fe ymfudodd amrywiol deuluoedd Cymreig i'r lle hwn, a chan fod yr achos Methodistaidd a fuasai unwaith yn y dref wedi diffoddi, ymunodd y crefyddwyr ag oedd ymhlith yr ymfudwyr â'r Annibynwyr, ïe, y y rhai oeddynt Fethodistiaid. Ond yn y flwyddyn ganlynol, barnasant yn oreu ymneillduo ar ei penau eu hunain o dan eu henw cyntefig; a hyn a wnaed mewn dull teilwng a boddhâol; a chawsant gynghorion da a buddiol gan eu cyfeillion ar eu hymadawiad. Nid oedd eu nifer ond deg neu lai o aelodau eglwysig; a theimlent yn bryderus iawn, gan leied oedd eu rhif a'u gallu, rhag i'r gwaith oedd yn eu mysg ddiffoddi yr ailwaith. Pa fodd bynag, yr oedd pregethwr yn eu mysg, sef, John Edwards, gynt o sir Fynwy. Dechreuasant ymgynull mewn ysgoldy bychan; yr un lle tybygid a fuasai gan y Methodistiaid o'r blaen. Yn y lle hwn agorwyd ysgol Sabbothol ynghyda chyfarfodydd i bregethu ac i weddio.

Yn y gwanwyn yr un flwyddyn anfonasant at y Parch. Robert Williams, i ymweled â hwynt, pryd y cadarnhawyd John Edwards fel pregethwr, ac yr etholwyd brawd arall i fod yn ddiacon. Yn yr haf fe ddaeth y Parch. W. D. Morgan, yr hwn a aethai i Ohio, ac yn ol i Pittsburg; a bu ef a'r brawd arall yn llafurio gyda'u gilydd hyd yr haf y flwyddyn ganlynol, pryd yr ordeiniwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth. Yr oedd yr aelodau eglwysig erbyn hyn wedi cyrhaedd 40 neu ychwaneg o rifedi. Aeth yr achos yn mlaen, nid heb gyfarfod â llawer gwrthdarawiad, nes y penderfynwyd ymosod at adeiladu capel; a hyn a wnaed yn y fl. 1841. Yn y capel hwn y bu yr ymgynulliad hyd y fl. 1850, pryd yr adeiladwyd capel newydd hardd a helaeth o briddfeini; nid ychwaith yn yr un man a'r hen, ond mewn lle mwy cyfleus. Bu y Parch. J. L. Jeffreys yn gweinidogaethu yn y dref hon am ysbaid pum' mlynedd cyn myned i Ebensburgh. Ar ei ol, fe ddaeth y Parch. David Williams, gynt o Lanidloes yma, yr hwn a fu dros ryw dymhor yn cydlafurio yn y dref a'i chyffiniau â W. D. Morgan, dan arwyddion amlwg o lwyddiant. Mae yr eglwys yn y lle hwn tua 80 o aelodau; eto y mae yn ddarostyngedig i lawer o gyfnewidiadau, fel y mae ardaloedd gweithfäol yn mhob man, trwy fod y gweithwyr yn anwadal eu harosiad.

EBENSBURGH.

Dechreuwyd achos yn mysg y Cymry yn y lle hwn mor foreu a'r fl. 1794, pryd y disgynodd yma amryw o'n cydgenedl i ymsefydlu. Daeth hefyd rhifedi mwy atynt yn y ddwy flynedd canlynol. Yr oedd gweinidog o Fedyddiwr, sef y Parch. Morgan Rees yn eu mysg. Ffurfiwyd eglwys ganddo o tua 40 o aelodau, cynwysedig, meddir, o nifer cyfartal, neu yn agos felly, o

* Dechreuasai yr ysgogiad cyntaf yn y fl. 1833.

Annibynwyr, Bedyddwyr, a Methodistiaid. Corfforwyd yr eglwys hon ryw amser yn y fl. 1796. Yn y flwyddyn ganlynol daeth amryw o deuluoedd eraill yno o Gymru, a'r Parch. Rees Llwyd, gweindog Annibynol yn eu mysg. Yntau a ffurfiodd eglwys yn cynwys 24 o aelodau, a'u hanner yn perthyn i'r Methodistiaid Calfinaidd. Parhaodd y ddwy eglwys i gynyddu a chryf hau hyd y fl. 1839, sef ysbaid 40 mlynedd. Y pryd hyn, trwy adgyfnerthiadau diweddar o Gymru, fe farnwyd fod nifer digonol o'r Methodistiaid, ac mai mwy dymunol fyddai hyny, i ffurfio cymdeithas wrthynt eu hunain. Yr oedd o honynt amryw dyddynwyr wedi ymsefydlu mewn dosbarth o'r wlad tua phum' milldir i'r gogledd o dref Ebensburgh; a barnwyd mai yn nghanol y dosbarth hwnw y byddai yn oreu sefydlu yr achos crefyddol; a chan ei fod yn sefyll i'r gogledd o'r dref, rhoddwyd yr enw "Gogledd" arno; ac wrth yr enw hwnw y gelwir ef hyd heddyw.

Yn y fl. 1839, daeth y Parch. David T. Lewis, gynt o Langwyryfon, sir Aberteifi, ac a fu yn offeryn i gorffori a threfnu eglwys, mewn cysylltiad â'r Methodistiaid yn y lle. Yn y flwyddyn ganlynol daeth amryw o gyfeillion crefyddol o Pittsburgh, tua 75 milldir o bellder, i fyw i dref Ebensburgh, ac a ymunasant â'r brodyr yn y "Gogledd." Yn 1841 cododd yr aelodau ag oedd yn byw yn y dref gapel ynddi. Yr oedd y Parch. D. T. Lewis eisoes, er y flwyddyn flaenorol, wedi dyfod i aneddu ynddi; a bu ei lafur yn egniol a chymeradwy iawn yn gwasanaethu Ebensburgh, a'r "Gogledd;" yn nghyda lle arall na chrybwyllwyd eto, sef Indiana, hyd oni luddiwyd ef gan afiechyd. Wedi iddo ef fethu, daeth y Parch. J. L. Jeffreys, gynt o Cendl, Mynwy, yma o Pittsburgh. Y mae y tri lle hyn yn gorwedd yn gyfleus o ran eu pellder, neu yn hytrach eu hagosrwydd at eu gilydd, i fod mewn gradd o gysylltiad y naill a'r llall. Ffurfiant, gan hyny, ddosbarth; mewn undeb a Pittsburgh a "*Sugar Creek;*" yn yr hwn y cynelir cyfarfodydd trimisol; ond nid yw y ddau le olaf, o herwydd eu pellder, ddim yn alluog i fod ynddynt mor gyson a'r tri cyntaf.

INDIANA.

Yn nechreu y fl. 1840, ymsefydlodd un Richard Williams, o Laneilian, Môn, yn yr ardal hon, pan nad oedd ond un crefyddwr yn mysg y preswylwyr Cymreig o'i mewn. Dechreuodd gadw ysgol Sabbothol yn eu plith. Cyn hir, cafodd gyfnerthiad, trwy i ddyfodiaid crefyddol ddyfod i ymsefydlu yn y fro; a dechreuwyd cynal cyfarfodydd eglwysig a chyfarfodydd i weddio. Er eu mawr lawenydd daeth atynt weinidog Annibynol, sef y Parch. John Williams, Llansilin, ger Croesoswallt, a pharod oeddynt i ymgorffori yn ddiadell eglwysig dan ei fugeiliaeth. Eto, ni pharhaodd hyn ond ysbaid blwyddyn, pryd yr ymneillduasant oddiwrtho, hyn a fu yn y flwyddyn 1841, pryd y daeth y Parch. D. T. Lewis, fel y dywedwyd uchod, i ran arall o'r dosbarth, ac i weini i'r brodyr yn Indiana unwaith yn y mis. Bu

Mr. Lewis yn llafurio yn y modd hwn, am ysbaid pum' mlynedd, hyd nes ei attal gan afiechyd. Wedi i waeledd fylchu ei lafur ef, bu yr eglwys fechan yn y lle hwn heb weinidogaeth sefydlog, hyd 1851, pryd yr ymsefydlodd y Parch. Mr. Jeffreys, yn ngogledd Ebensburgh. Yntau hefyd a gollwyd cyn hir; ac yn awr y mae yn preswylio yn y lle, un John Williams, yr hwn sydd weinidog mewn undeb â'r Methodistiaid. Nid oes gapel gan y brodyr yn y lle hwn, ond ymgynullant i addoli yn yr ysgoldŷ cyffredin *(district school-room)*. Ar y pryd yr ysgrifenai y gohebydd yr hanes, yr oedd yr Annibynwyr yn cyd-gyfranogi gyda'r Methodistiaid, a phob undeb a brawdgarwch yn ffynu yn eu mysg. Nid yw rhifedi yr eglwys hon ond tua 17.

Gwyddom yn dda fod llawer o sefydliadau crefyddol Cymreig heb eu crybwyll genym eto, ac nid yw ein crybwylliad ond byr ac anmherffaith am y lleill, ond y mae ein defnyddiau, bellach, ymron wedi eu dyhysbyddu. Ni ddaeth i law un gair am y canghen-eglwysi sydd bellach yn britho Talaeth Wisconsin. Wrth yr ystadegau a ddaeth i law, yr ydym yn canfod fod yn y Dalaeth hon ddim llai na 15 o weinidogion a 14 o bregethwyr, a mwy o rifedi nag sydd yn yr un o'r Taleithiau eraill. Deallwn hefyd fod ynddi nid llai na 35 o gapelau ac ysgoldai, lle y maemoddion gras yn yr iaith Gymreig yn cael eu cadw i fyny. Rhoddasem fras olwg ar y sefydliadau hyn pe rhoisid i ni ddefnyddiau, ond gan na chynysgaethwyd ni â defnyddiau, nid oes genym ond terfynu yr hanes fel y mae, yn fyr ac anmherffaith. Gobeithiwn, pa fodd bynag, fod y swyddogion eglwysig yn eithaf y gorllewin, pob un yn ei gartref yn croniclo yr holl amgylchiadau hyny ag y mae dim hynod neu addysgiadol ynddynt, fel y gall rhyw hanesydd, yn mhen amser maith ar ol hyn, draddodi i genedlaethau pell, y wedd a fu ar y tadau wedi ymfudo o honynt yn mhell o'u gwlad; a pha amgylchiadau a'u cyfarfu. Mae un peth yn peri i ni ofidio llai am nad yw yr hanes yn fwy cyflawn, sef yr ystyriaeth fod gwedd tra ansefydlog a chyfnewidiol ar y gwahanol sefydliadau crefyddol; yn enwedig y rhai a sefydlwyd ddiweddaraf; fel na fuasai yr hanes y flwyddyn hon, ond megys hanes y flwyddyn; ac felly yn anmhriodol, ar ryw olygiad, i'w groniclo i genedlaethau dyfodol. Digon, fe allai, yr hyn a osodasom eisoes ar lawr i argyhoeddi y darllenydd mai y cyfryw ydyw gwedd yr achos crefyddol yn mysg ein cenedl yn America; a'r cyfryw a raid iddo fod, gan yr amgylchiadau neillduol a berthyn iddo, mewn gwlad newydd, ac yn mhlith dyfodiaid diweddar. Pan y gwreiddiont yn y tir;—pan y cyfyd eu hiliogaeth o'u hamgylch; pan yr ymgysylltont â masnach neu â meddiannau lleol; pan fyddo llai o demtasiynau i dreiglo i leoedd newyddion; a'r llifogydd o ymfudwyr wedi lleihau i raddau helaeth;—y pryd hwnw, ni a allwn ddysgwyl y gwelir gwedd fwy sefydlog ac unffurf ar yr achos crefyddol yn y tir. Hyd yma y mae sefydliadau newyddion yn codi mor brysur, a hen sefydliadau yn

chwyddo mor gyflym, fel y byddai y portread a dynid o wedd pethau un flwyddyn yn anmhriodol y flwyddyn ganlynol.

Mae yn hawdd canfod hefyd, fod maintioli dirfawr y tir, a'r pellderau meithion sydd yn fynych o'r naill sefydliad i'r llall yn peri anhawsdra tra mawr i osod y weinidogaeth ar wedd deithiol, ac i roddi i swyddogion eglwysig gyfleusdra i gyfarfod â'u gilydd, heb goll amser lawer a thraul drom. Trwy fod llawer o'r eglwysi yn fychain eu rhif, a thrwy fod yr aelodau yn gyffredinol yn ddynion ar eu goreu gyda'u hamgylchiadau bydol, hawdd ydyw dirnad, pa mor anhawdd iddynt hebgor na'r amser na'r draul hyny. Fel hyn y mae fod undeb a chydweithrediad rhwng yr holl ganghenau eglwysi yn anhaws, a'u mwynhad o'u gilydd yn yr efengyl yn llai. Eto, er hyn oll, fe ymddengys fod y brodyr yn yr America eisoes wedi profi gradd ehelaeth o felusder y cyfryw gymdeithas, ac o bwysigrwydd y cyfryw gydweithrediad, nes eu bod yn dyheu am yr amser y gallant eu cael yn fwy cyflawn a diflwch; ac yn croesawi gyda llawenydd mawr yr ymdrechion a wneir i rwyddhau ymdeithiad y trigolion ar hyd ac ar led y wlad trwy gamlesydd a rheilffyrdd, a moddion eraill; gan ddysgwyl nad yw y cyfnod dymunol ddim yn mhell, pryd y chwanegir eu breintiau crefyddol, trwy wasanaeth celfyddyd, a manteision gwladol.

Yn yr enghraifft a ganlyn gwel y darllenydd briodoldeb y sylwadau uchod. Meddai y Parch. Edward Jones, Cincinatti,—

"Gorfu i mi unwaith, er ys tro yn ol, oddiar fod dwfr yr afon Ohio mor isel, fel na ellid nofio y badau cyffredin arni, ac oddiar fod y draul i fyned dros y tir gyda'r llythyr-gerbyd yn ormod, gyduno â dau ymdeithydd crefyddol eraill i brynu cwch bychan *(skiff)*, ddeg troedfedd o hyd a thair o led, i nofio yr Ohio o Cincinatti i Portsmouth, 115 milldir o bellder. Ond er cael cwch a dynai ddigon bychan o ddwfr, nid oedd y daith heb lawer o anhawsderau a rhai peryglon. Bu raid i ni un noswaith droi allan i orphwys yn y coed, o herwydd tywyllwch y nos; lle y buom yn llechu i aros y wawr. Un diwrnod yr oedd y tarth mor dew fel nad oedd genym ddim i'w wneyd ond gadael i'r cwch fyned gyda'r dwfr, hyd nes yr attelid ef; ac nid hir a fu hyny, oblegid fe'i cariwyd ef i le bas ar yr afon nes iddo daro wrth y gro. Bellach, bu raid i un o honom fyned allan o hono i'r dwfr i'w lusgo gyda min yr afon: hyn a wnaed hyd oni welsom mai gwell oedd aros hyd oni wasgarai y tarth. Wedi cael ymwared oddiwrth y tarth ac ail-gychwyn, daethom i grych gwyllt, lle y llithiai y bâd yn gyflym, ac yn ei ganol; tarawodd wrth gyff o bren, nes troi pen ôl y cwch yn mlaen mewn eiliad, a da iawn iddo beidio dymchwel ei lwyth i'r dwfr wrth wneyd hyny. Dro arall cwrddasom â banc o dywod yn yr afon, ar yr hwn y safai den ôl y cwch, pryd yr ocdd y pen blaen uwch ben dyfnder mawr. Eto, er hyn oll, daethom i ben ein taith yn ddiangol, a gwerthasom y cwch eilwaith am yr un bris ag a gostiodd."

Am Dalaeth Wisconsin y dywedir, ei bod wedi ei rhanu yn dri Dosbarth Methodistaidd. Cyferfydd y brodyr yn y Dosbeirth hyn mor aml ag y gallont, bob dau neu dri mis, a chedwir cymdeithasfa ddwywaith yn y flwyddyn. Rhoddir yma restr o'r pregethwyr, ac o'r capelau wedi eu codi allan o'r "Dyddiadur Americanaidd," am y flwyddyn 1856.

ENWAU Y GWEINIDOGION A'R PREGETHWYR.

GWEINIDOGION.	PREGETHWYR.
John H. Evans, Prairieville.†	Richard Griffiths, Columbus.*
William Jones, Welsh Prairie.†	Griffith Jones, Dodgeville.*
Griffith Roberts, Dodgeville.†	John Jones, Welsh Prairie.†
Thomas Foulkes, Racine.*	John R. Daniel, Blaen-y-cae.*
John Davies, Picatonia.*	John E. Williams, Osh-Kosh.*
Richard Jones, Bluemounds.*	John J. Evans, Welsh Prairie.*
David R. Williams, Columbus.*	Daniel Rowlands, Postage.*
Thomas H. Roberts, Proscairon.*	Richard Davies, Pine River.*
John H. Roberts, Columbus.*	William Roberts, Ixonia.*
Edward T. Evans, Berlin.†	Thomas Rice, Prairieville.*
Thomas Phillips, Caledonia.†	Ebenezer Humphreys, Prairieville.*
Robert Williams, Milwaukie.*	Robert Williams, Neenah.*
Rees Evans, Chicago (Illinois.)*	Owen Hughes, Prairieville.*
Moses Williams, Chicago (Illinois).*	Daniel Jenkins, Prairieville.*
Daniel Davies, La Crosse.†	

* Rhai wedi dechreu pregethu yn America. † Wedi dechreu yn Nghymru.

DOSBARTH PRAIRIEVILLE.—Cyfarfod bob Tri Mis.

	Diaconiaid.	Aelodau.		Diaconiaid.	Aelodau.
Racine	5	89	Salem	3	31
Skunk Grove	1	12	Bethania	2	27
Chicago (Illinois)	0	50	Ysgoldŷ	1	24
Milwaukie	3	55	Capel Log	4	49
Ixonia	1	21			

DOSBARTH WELSH PRAIRIE.—Cyfarfod bob Tri Mis.

Capelau.	Aelodau.	Capelau.	Aelodau.
Rock Hill	35	Postage City	15
Proscairon	32	Caledonia	40
Blaen-y-cae	36	Union	16
Lake Emley	32	Osh-Kosh	50
Postage Prairie	27	Dinas	20
Welsh Prairie	137	Pine River	27
Salem	41	Neenah	27
Bethel	79	Berlin	—

Ysgrifenydd y Dosbarth, John R. Daniel.

DOSBARTH DODGEVILLE.

Capelau.	Aelodau.	Capelau.	Aelodau.
Picatonia	75	Apple River	12
Dodgeville	65	Helena	9
Caergybi	—	La Crosse	20
Bluemounds	27	Elizabeth (Ill.)	—

Ysgrifenydd y Dosbarth H. D. Foulkes.

RHESTR O'R PREGETHWYR A FUONT FEIRW A'R AMSER PA BRYD.

	fl.		fl.
David Stephens, Remsen	1834	William G. Pierce, Stuben	1847
Maurice Davies, Utica	1834	Howell R. Powell, Palmyra	1850
Benjamin Davies, Remsen	1836	John T. Griffiths, Carbondale	1850
William James, Pittsburgh	1836	Enoch Samuel, Utica	1851
John O. Davies, Pottsville	1838	John G. Jones, Albantown	1853
Robert Meredith, Holland Patent	1841	William T. Williams, Prairieville	1853
John Owens, Remsen	1841	Hugh Jones, Columbus	1854
David E. Davies, Remsen	1843	Edward Morris (yn Chicago)	1854
Isaac Davies, Floyd	1844	David T. Lewis, Ebensburgh	1855

DOSBARTH Y PUMMED;

SEF,

CYFANSODDIAD, ADNODDAU, A DYLANWAD METHODISTIAETH CYMRU.

PENNOD I.

ELFENAU A THEITHI EI GYFANSODDIAD.

CYNWYSIAD:—

AMCAN UNPLYG Y DIWYGWYR—EU GOGWYDDIAD AT EGLWYS LOEGR—ELFENAU SECT YN YMDDANGOS—CYDYMDEIMLAD GWYR DA YN YR EGLWYS AC ALLAN O HONI A'R DIWYGWYR—ANGENRHEIDRWYDD AM RYW FFURF AR Y DIWYGIAD YN YMDDANGOS—NODWEDD GYMDEITHASOL Y CYFUNDEB—UNDEB EGLWYSI—RHESYMAU DROS HENADURIAETH—CRISTIONOGAETH YN GYFUNDRAETH O EGWYDDORION YN HYTRACH NAG O FFURFIAU—GWAHANIAETH RHWNG CRISTIONOGAETH AC IUDDEWIAETH.

Wedi rhoddi bras olwg ar gychwyniad y diwygiad Methodistaidd yn Nghymru, ac ar foddion, ac effeithiau ei gynydd; wedi olrhain hefyd ei hanesiaeth yn ngwahanol siroedd Cymru a Threfydd Lloegr, ac America bell, dichon mai priodol, bellach, fydd ceisio rhoddi darluniad o wedd gorfforedig y cyfundeb, ac o elfenau ei gyfansoddiad.

Nid yw yn ymddangos fod gan y tadau Methodistaidd un amcan cyntefig, wrth droi allan i'r prif-ffyrdd a'r caeau i gymhell dynion i ddod i mewn, i ffurfio enwad neu gyfundeb crefyddol ar ei ben ei hun; a llai o lawer oedd y bwriad i osod ffurf neillduol ar ei gyfansoddiad. Yr egwyddor a'i hysgogent, fel y mae eu hanes yn profi, oedd awydd angherddol i ddwyn pechaduriaid at Grist; nid oeddynt ar y dechreu yn meddwl am ddim arall. Er mwyn hyn yr oeddynt yn aberthu eu parch a'u hesmwythyd; ac yn tynu arnynt eu hunain waradwydd ac erlid, trwy dori allan i lwybr cwbl ansathredig, heb wybod

gyda sierwydd pa beth a fyddai y canlyniad. Ië, ni safent i ymgynghori ai doeth ai annoeth yr ysgogiad cychwynol; cynhyrfid hwy gan egwyddorion cryfion, ac yn mlaen yr aent gydag amcan uchel a chywir heb ymgynghori dim â chig a gwaed. Teimlent yn argyhoeddedig ddarfod iddynt gael gorchymyn dwyfol i gychwyn, ac yn mlaen yr aethant, heb wybod, mwy nag Abraham gynt, i ba le yr arweinid hwy. Yr oeddynt hwy eu hunain newydd eu deffroi am eu cyflyrau ysbrydol, a chanfyddent gyda thosturi sefyllfa beryglus eu cydwladwyr; eiddigeddent dros ogoniant Duw a iachawdwriaeth dynion; deallent fod anwybodaeth ac ofergoeledd yn gorwedd fel cymylau duon ar yr holl dir, ac nad oedd neb ymron yn pregethu yr efengyl yn ei blas a'i phurdeb. Oddiar yr holl ystyriaethau hyn yr oedd sêl tŷ Dduw yn eu hysu; nid oedd lonyddwch iddynt yn eu hysbryd heb wneuthur rhyw gais at eu lleshau; ymosodasant, gan hyny, at y gorchwyl dan gynhyrfiad o'r fath rymusaf, a hyny heb oedi; a phob un hefyd yn ei gylch ei hun heb wybod dim am neb arall. Gwyddent fod eu dybenion yn dda, a'u hamcan yn gywir; a rhagddynt yr ysgogent heb ofalu pa rwystrau a gyfarfyddent; ond yn hyderus y gofalai Duw am ei achos ei hun.

Nid oedd dim yn mhellach oddiwrth eu meddyliau ar y pryd na'r bwriad o ffurfio plaid grefyddol newydd. Nid ffurfio plaid oedd eu hamcan—achub eneidiau oedd yn eu bryd: dysgwylient hefyd, os llwyddent yn eu hamcan, y byddai hyny mewn cysylltiad ag eglwys Loegr. Aelod yn yr eglwys hono oedd H. Harris ei hun; a gweinidogion yn yr eglwys hono oedd Daniel Rowlands a Howel Davies. Nid oedd un demtasiwn ar y gwŷr hyn i gilio at yr ychydig ymneillduwyr ag oedd i'w cael, y rhai oeddynt ychydig o nifer, ac mewn agwedd lled farwaidd a diserch. Nid oedd dim cysylltiedig â hwynt, gan hyny, a allai ddenu y diwygwyr atynt; yn enwedigol gan fod rhagfarn cryf a chyffredinol yn y wlad yn eu herbyn, a bod dygiad y diwygwyr i fyny, a'u teimladau hefyd, yn rhedeg yn gryf yn erbyn ymadael ag eglwys y wlad, fel anffawd i'w ofni, os nad fel pechod i'w ochel. Ar yr un pryd yr oeddynt yn canfod mawreidd-dra cyffredinol wedi dal eu gweinidogion; ac nad oedd nemawr un o honynt yn pregethu athrawiaeth iachus yr efengyl; a gobeithient am weled dyddiau gwell arni, pryd yr ymwelid â'r hen eglwys ag adfywiad a gwellhad; ac awyddus oeddynt i wneyd a allent hwy i ddwyn hyny oddiamgylch; ond nid oedd un meddwl eto ganddynt i droi eu cefnau arni, ac i ffurfio plaid o grefyddwyr ar wahân oddiwrthi.

Ar yr un pryd mae yn rhaid addef fod eu gweithrediadau yn lled anghyson â'r fath obeithion. Yr oeddynt wedi cychwyn ar yrfa anghyson â gwarogaeth i'w harglwydd esgob; yr oedd eu symudiadau yn drosedd ar ganonau yr eglwys, ac yn wahanol i'w brodyr offeiriadol oll. Edrychid arnynt, gan hyny, yn rhodio yn afreolus, ac nid yn ôl y traddodiadau; a gallent ddysgwyl gwrthwynebiad; ïe, gwrthwynebiad oddiwrth yr eiddynt eu hunain. Nid oedd eu rhedfa yn gwbl foddhaol gan un blaid. Nid ymunent ag ymneillduwyr, fel y cyfryw, a gwrthodai eu brodyr eglwysaidd ymuno â hwythau.

Yr oedd elfenau ymneillduaeth yn eu gosodiadau, ac eto ni fynent fod yn ymneillduwyr; gwingent yn erbyn trefniadau caethion yr eglwys, ac eto ymlynent wrthi. Beient yn drwm ar ei hesgobion a'i hoffeiriaid, eto mynent aros o fewn y sefydliad a berthynai iddynt. Llawer lles a brofodd Howel Harris ar ei darawiad cyntaf allan rhag fod y llwybr newydd a dyeithr a dorasai efe iddo ei hun, yn waharddedig gan Dduw, a chan yr eglwys. Ofnai yn fynych na ddylasai fyned o amgylch y wlad i bregethu yr efengyl i bechaduriaid, gan na fu urddiad esgob arno, na chaniatâd wedi ei roddi gan esgob iddo: eto, yn mlaen yr âi. Yr oedd aidd angherddol o fewn iddo, a chymhelliadau rai oddiallan. Annogai Whitfield iddo fyned rhagddo yn ddiofn; a phrofai ei hunan fod yr effeithiau daionus a ddilynai ei weinidogaeth yn brawf o foddlonrwydd Duw ar ei waith, felly yn mlaen yr ysgogai. Deallai yn fuan wedi iddo ddechreu, fod yr un ysbryd ag ydoedd ynddo ef wedi meddiannu eraill, sef Rowlands a Davies, a hyny tua'r un amser. Chwanegai hyn ei egni a chryfhai ei benderfyniad. Bu eu cymdeithas hwy â'u gilydd yn gyfnerthiad rhyfeddol iddynt oll.

Yn yr amgylchiadau crybwylledig y gwelwn gychwyniad *sect newydd*. Ni fynai y diwygwyr ymuno â'r ymneillduwyr, ac ni fynai eglwys Loegr eu goddef hwythau. Yr oedd y ddwy elfen hyn yn eu cadw ar wahân oddiwrth bob plaid; ac felly nid oedd ganddynt ond naill ai cilio allan o'r maes, a rhoddi y gwaith a gychwynasent yn llwyr i fyny, neu ynte ffurfio cyfundrefn newydd; a chan na oddefai cydwybod na thuedd mor cyntaf, nid oedd iddynt ond ymlynu wrth yr olaf. Eto, er hyn oll, nid ar unwaith, nac ychwaith o'u bodd, y proffesent ymadawiad â'r eglwys sefydledig. Rhaid addef mai grym yr amgylchiadau a'u gyrai yn anorfod, y naill gam ar ol y llall, yn mhellach bellach, a bu raid, o dan rym yr amgylchiadau hyny, ysgogi yn mlaen, nes o'r diwedd y bu raid ymsefydlu ac ymgorffori yn enwad gwahaniaethol oddiwrth eglwys Loegr, yn gystal ag oddiwrth yr enwadau ymneillduol.

Hwyrach mai teilwng ydyw sefyll dros enyd, a chymeryd golwg fanylach ar y gwahanol elfenau a gydwasanaethent i ddwyn y Methodistiaid i'r ffurf sydd arnynt, a thrwy hyny ddangos, paham, ar un llaw, na ymunasent â'r ymneillduwyr; a phaham, ar y llaw arall, na ymostyngasent i drefniadau ac awdurdodau yr eglwys wladol, a pharhau yn ei chyfundeb. Sicr ydyw, ddarfod i'r llwybr a gymerasant, dynu arnynt anniddigrwydd y ddwy ochr; edrychai yr ymneillduwyr arnynt yn lled oeraidd am y proffesent ymlyniad wrth eglwys y wlad yn hytrach; a gwrthwynebid hwy drachefn gan eglwyswyr am eu dull newydd ac afreolaidd o weithredu. Yn eu hamgylchiadau hwy, pa fodd bynag, yr oedd anhawsder mawr iddynt allu ennill yr amcan a osodent o'u blaen, heb iddynt wneyd fel y gwnaethant.

Ar un llaw, tra mewn cydymffurfiad cyson â chanonau eu heglwys eu hunain, ni allent wibio o amgylch fel y gwnaent, gan bregethu mewn lleoedd anghysegredig, ac heb y gwisgoedd a'r defodau priodol. Yr oedd Howel Harris hefyd yn lleygwr ac heb urddau, ac ystyrid ef yn rhodio yn afreolaidd

wrth fyned o amgylch i bregethu i bechaduriaid, heb ei awdurdodi gan uwchraddiaid yr eglwys y proffesai ei hun yn aelod o honi. Yr oedd Rowlands yntau yn afreolaidd pan yr elai allan o'i blwyf i bregethu, a phan y safai ar ben heol, ac yn yr awyr agored, i gyhoeddi y newyddion da. Felly yr edrychid ar Howel Davies yn sir Benfro, ac ar Williams, Pant-y-celyn, yn sir Gaerfyrddin. Yr oedd y gwŷr urddedig hyn yn troseddu hefyd trwy roddi wyneb a chymhelliad i ddynion diddysg a diurddau i gynghori eu cydwladwyr mewn tai anedd, neu ar y maes, neu ar lechwedd mynydd; a thrwy gydgyfarfod â hwy, a chymysgu eu llafur â'r eiddynt hwy, yr oeddynt yn euog o fai na ellid ei oddef yn ddigerydd; a hawdd oedd dyfalu, y byddai raid iddynt, o leiaf wedi un ac ail rybudd, lwyr ymattal oddiwrth arferion mor anghanonaidd, neu ynte ddyoddef eu diraddio. Felly nid oedd dim arall i ganlyn, ond naill ai goddef afreolaeth ac annhrefn, neu yr hyn a dybid felly yn yr eglwys, neu ynte ymddiheuro oddiwrth y dynion ag oeddynt euog o honynt. A chan fod yr awdurdodau eglwysig yn sefyll yn gryf o blaid y drefn arferol; a'r diwygwyr yr ochr arall yn sefyll mor gryf dros eu hawl i ysgogi yn ol eu cydwybodau, er gwahaniaethu oddiwrth y drefn arferol, nid oedd i'w ddysgwyl ond anghydfod dros dymhor, ac ysgariaeth yn y diwedd. Ewyllysiai y diwygwyr gael eu rhyddid i weithredu gydag achos crefydd fel y byddai rhagluniaeth, yn ol eu tyb hwy, yn eu harwain; ac fel y byddai eu cariad hwythau at y Gwaredwr yn eu cymhell, a bod mewn cymundeb â'r fam-eglwys ar yr un pryd. Ond hyn, fel y gellid dysgwyl, ni chaniateid iddynt. Ac fel yr oedd y diwygiad yn ymledaenu, a theimladau y clerigwyr yn cryfhau mewn anniddigrwydd yn ei erbyn, amlwg ydyw, mai nid hir y byddent heb wneuthur cais teg ar ei lethu yn llwyr. Yna gwrthodid derbyn Howel Davies i eglwysi sir Benfro; achwynid ar W. Williams yn llys yr esgob; gosodid Peter Williams dan gerydd am dair blynedd; ac o'r diwedd gwelodd y tri wŷr hyn, ynghyda D. Rowlands, yr angenrheidrwydd, naill ai ymadael â'u brodyr, neu i ymddyosg oddiwrth y rhwymau eglwysig oedd arnynt.

Ond gan fod y fath anhawsder i'r diwygwyr gario allan eu hamcan, a chadw eu lle yn yr eglwys wladol, pa fodd, neu paham na fuasent yn ymuno ar unwaith â'r ymneillduwyr, a disgyn yn ddioedi i'w rhestrau hwy? Mae hwn yn ofyniad tra naturiol, ac i'r darllenydd anhysbys o wedd pethau ar y pryd, fe ymddengys ymddygiad yr hen dadau yn ddirgelwch. Mewn ffordd o ateb, rhaid hysbysu, yn y lle cyntaf, fod rhagfarn cryf a chyffredinol, yn mysg pob dosbarth, ymron, o fewn y wlad, yn erbyn ymneillduaeth; eglwyswyr oedd yr holl drigolion, oddieithr ychydig iawn o nifer. Eglwyswyr hefyd, fel y dywedwyd oedd y rhai blaenaf yn mhlith y diwygwyr; eglwyswyr oeddynt o ddygiad i fyny ac o deimlad. Edrychent hwy, ac edrychai trigolion y wlad yn gyffredin ar ymneillduaeth gyda llawer o ddrwgdybiaeth; cyfrifid y mwyafrif o'r rhai a'i proffesent yn llochi egwyddorion gwenwynig fel crefyddwyr, a syniadau chwyldroawl fel gwladwyr; edrychid arnynt fel rhai yn dysgwyl yn ddystaw, ac yn hiraethlawn, am adeg i godi

yn erbyn y brenin, ac i ddadymchwelyd y llywodraeth. Yr oedd eu nifer hefyd yn ychydig, eu tai addoliad yn anaml, a'u bywiogrwydd crefyddol wedi colli; mewn gair, nid oedd dim yn eu gwedd yn tueddu i ennill neb atynt; yr oedd penrhyddid mewn buchedd, a heresi mewn athrawiaeth, wedi lefeinio llawer o'r ychydig eglwysi ag oedd ar gael, a bywyd crefydd ymron wedi llwyr golli. Dywedyd, yr ydym am danynt yn y cyfanswm; nid am bob gweinidog neu gynulleidfa wrthynt eu hunain; yr oedd yn eu mysg ychydig enwau, megys yn Sardis, y rhai ni halogasent eu dillad; a gwŷr oedd y rhai'n a ddangosasant yn y canlyniad gryn lawer o serch at y diwygwyr Methodistaidd, y rhai nad oeddynt yn proffesu ymneillduaeth; ïe, mwy nag a ddangosasent at y rhai gwahanol eu hysbryd, yn mysg yr ymneillduwyr eu hunain. Hyn, tybygid, sef ffurfioldeb a marweidd-dra yr ymneillduwyr, oedd un achos arbenig o fod y Methodistiaid cyntefig yn ymgadw oddiwrthynt.

Dichon hefyd fod yr hen dadau yn barnu y llwyddent yn fwy yn eu hamcan o ennill teimladau y bobl o'u plaid, trwy ymgadw ar wahan oddiwrth yr ymneillduwyr, a thrwy broffesu ymlyniad wrth yr eglwys wladol. Sicr yw nad oedd i'r ymneillduwyr nemawr o ffafr yn ngolwg y werin, yn enwedig yn Ngwynedd. Yn y llan y barnai pawb, ymron, yr oedd yn *rhaid* addoli. Traha annyoddefol y bernid fod neb yn meiddio pregethu heb ei fod wedi ei dynu trwy Rydychain, a'i urddo gan esgob. Ië, prin y goddefid i'r sawl a ddygasid yn rheolaidd i'r weinidogaeth, bregethu y tu allan i'w plwyf a'u heglwys briodol eu hunain. Mwy goddefol, pa fodd bynag, oedd y Methodistiaid gan y bobl, oblegid eu bod yn proffesu ymlyniad wrth yr eglwys, ac yn gwrthod arddelwi eu hunain yn ymneillduwyr; ac fe ddichon fod yr ystyriaeth o hyn wedi effeithio i fesur i beri iddynt ymgadw ar wahan. Nid oes un amheuaeth ychwaith nad gwell i lwyddiant crefydd yn y dywysogaeth, oedd iddynt beidio ymuno ag un blaid ag oedd ar gael ar y pryd. Yr oedd gan bob enwad ei defodau, a dysgwylid i bwy bynag a ymunai ag enwad o bobl gydymffurfio â threfniadau cyffredin yr enwad hwnw; hyn ni allasai y diwygwyr ei wneuthur, heb newidiad hanfodol yn eu gweithrediadau. Ni fuasai ymadael ag eglwys Loegr, ac ymuno ag ymneillduwyr, ond newid un gyfundrefn gacth am gyfundrefn gaeth arall. Nid oedd y fath gaethiwed, oddiwrth neb, yn cydweddu â theimladau yr hen dadau. Mynent fod yn rhydd i deithio yr holl wlad, ac i wibio i bob cyfeiriad; i ddyfeisio ac i ddefnyddio pob moddion a ymddangosai yn fuddiol i gyrhaedd eu hamcan, heb eu llyffetheirio gan esiamplau blaenorol neb, na chan drefniadau cyfundeb yn y byd. Yr oedd pob peirian-drefn grefyddol yn Nghymru wedi methu hyd yn hyn i wneuthur nemawr o'i hol ar y dywysogaeth, a barnent yn oreu, tybygid, roddi pob peirian-drefn osodedig o'r naill du, a chymeryd eu harwain gan amgylchiadau i ddefnyddio unrhyw ffurf, a ymddangosai, ar ol ei phrofi, yn fwyaf effeithiol i ateb y dyben. Pa un a oedd hyn yn fwriad pwyllog blaenorol ganddynt ai peidio, nid ydym yn sicrhau, ond hyn, pa fodd bynag a wnaethant; a rhaid i ni addef mai da a fu hyny. Nid dilyn

esiampl neb arall a wnaethant, oblegid nid ydym yn deall fod yr un felly i'w chael dan haul. Yr oedd dull eu gweithrediadau yn wahanol, ar ryw gyfrifon, i bawb eraill. Cymerent eu harwain gan amgylchiadau, a defnyddient bob math o offerynau; ar yr un pryd, hwy wnaent hyny mewn modd na threisient ar yr un reol ddwyfol, ac na archollent gybwybod i'r gwirionedd.

Wedi cychwyn eu gyrfa dan ddylanwad awyddfryd angherddol i leshau cneidiau dynion, heb un ffurf-lywodraeth eglwysig ganddynt yn rheol, ond yn ymwrando ag amgylchiadau am gyfarwyddyd i ysgogi ymlaen, arweiniwyd yr hen dadau, o gam i gam, ymhellach, tybygid, nag oeddynt hwy eu hunain wedi bwriadu. Yr oeddynt wedi cychwyn ar yr egwyddor o geisio gwneuthur daioni i'w cydwladwyr ymhob modd a allent, gan gymeryd eu harwain gan ragluniaeth wrth wneuthur hyny; ac fe welodd rhagluniaeth yn dda, gan mai iddi hi yr ymddiriedent, i gymeryd y llywyddiaeth, a'u harwain hwythau ar hyd ffordd nid adwaenent, ac ymhellach nag y dychymygasent. Bwriadent hwy i'r diwygiad aros o fewn ffiniau yr eglwys wladol; nid annhebyg i Luther, yr hwn a fwriadai i'r Diwygiad Protestanaidd fod o fewn eglwys Rhufain. Ni ddychymygai wrth wneuthur yr ysgogiadau cychwynol, mai mewn ysgariaeth tragwyddol oddiwrthi y terfynent; a da oedd mai yn ddiarwybod iddo y bu y peth. Buasai yn petruso llawer yn ddiamheuol wneuthur fel y gwnaeth, pe gwybuasai ymlaen llaw y canlyniadau. Yr un modd yn gymhwys y bu gyda'r Diwygwyr Cymreig. Canfyddent y dirywiad trwm a gymerasai le yn y sefydliad gwladol, a chymhellwyd hwy i wneyd cais ar leshau eu cenedl mewn rhyw ffordd a ymgynygiai iddynt ar y pryd, heb fwriadu dim mwy na llai. Gobeithient y cerddasai yr adfywiad o fewn terfynau yr eglwys sefydledig, ac y buasai mor fuddiol i'r eglwys ag i'r genedl; ond, ni fynai yr eglwys mor diwygiad. Yn lle bod y diwygwyr yn dwyn y diwygiad iddi hi, gwthiwyd y diwygwyr eu hunain allan o honi, a gwrthodwyd eu gwasanaeth. Rhedodd yr adfywiad, gan hyny, i gamlesydd eraill, gan sirioli a ffrwythloni y tir eras y ffordd y rhedai y ffrydiau adfywiol.

Eto er hyn i gyd, hir ac annyben iawn a fu yr hen Fethodistiaid i dori dolenau y cysylltiad â'r hen sefydliad. Aeth heibio haner can' mlynedd cyn i'r ysgogiad yn y cyfeiriad hwn gael cychwyn. Bu cais gan rai o'r pregethwyr lleygaidd tua'r blynyddau 1742—6, i ymddyosg ychydig oddiwrth y rhwymau a osodasid arnynt; ond erthylu a wnaeth. Dangosai y gŵr da ag oedd wrth y llyw, anewyllysgarwch i ymgyfenwi ar un enw ond eglwys Loegr, nac i ffurfio plaid ar wahan oddiwrthi, *oddieithr eu troi allan ganddi.* Anturiodd un o'r hen gynghorwyr ddyweyd rywbryd yn erbyn gwisgoedd yr offeiriaid *(gown and cassock)*, a barnwyd yn angenrheidiol ei alw i gyfrif yn y gymdeithasfa. Penderfynwyd galw y deadellau crefyddol yn *gymdeithasau* ac nid *eglwysi*, gan nad oeddynt ond canghenau bychain o'r eglwys awdurdodedig. Ni chaniateid gweinyddu y sacramentau, ond gan rai urddedig gan esgob; gochelid, am amser maith adeiladu *capelau;* a phan y codid rhai, gelwid hwy yn *dai cyrddau*, ac nid yn gapelau, oddiar yr un teimlad.

Bernid fod codi addoldŷ mewn ardal ar wahan oddiwrth y llan, yn argoel o wrthwynebiad, a gochelid hyny hyd y gellid. Ni chynelid y moddion ychwaith ar yr un amser a'r llan; a lle y byddai offeiriad yn gweinyddu swper yr Arglwydd, fe gyfrifid yn rhyfyg trwm os byddai un pregethwr yn cadw ocdfa o fewn milldirocdd i'r lle hwnw, fel y rhoddid mantais i'r holl wrandawyr fyned i wrando yr offeiriad, yn hytrach na neb diurddau, pa faint bynag a fyddai ci ddawn, a pha gan leied bynag a fyddai dawn y llall. Dyoddefodd pregethwyr y Methodistiaid lawer oddiwrth orthrymwyr, am eu bod heb eu trwyddedu i bregethu gan y gyfraith wladol; a gomeddent hwythau geisio y drwydded angenrheidiol, gan y byddai raid, cyn ei chael, broffesu eu bod yn ymneillduwyr; ïe, nid oedd i'w chael, ond ar gyfrif y cyfryw broffes.* Parhaodd y gwarafuniad hwn hyd at ddyddiau Mr. Charles, Bala; ond ar waith gŵr boneddig yn sir Feirionydd yn cymeryd achlysur oddiwrth sefyllfa ddiamddiffyn y Methodistiaid i'w gorthrymu yn ddidrugaredd, gwelwyd yn oreu tua'r fl. 1790, lacio peth ar y gwaharddiad; a thrwyddedwyd lluaws mawr o'r pregethwyr yn y canlyniad. Ond er pob cam a gymerwyd, ac er pob trefn a sefydlwyd, yr oedd y Methodistiaid yn dal un peth i fyny, o warogaeth i eglwys Loegr, hyd y fl. 1811, sef peidio cydnabod neb yn weinyddwyr y sacramentau o Fedydd a Swper yr Arglwydd, i'r cyfundeb ond ei gweinidogion urddedig hi. Yn y flwyddyn grybwylledig, dryll-iwyd y ddolen hou hefyd, trwy neillduo rhai o'u pregethwyr eu hunain, i gyflawni y gwasanaeth hwnw.

Yr ydym wedi datgan fod llawer o wrthwynebiad i'r Methodistiaid oddiwrth eglwyswyr, a bod yr ymneillduwyr, hwythau, yn eu beio am eu hymlyniad wrth yr eglwys wladol, a'u bod yn sefyll yn fwriadol o'r neilldu, heb ymgymysgu llawer â'r ymneillduwyr; eto, rhaid dyweyd nad oedd hyn ddim yn hollol gyffredinol. Yr oedd rhai yn mysg eglwyswyr ac ymneillduwyr yn nesu atynt; yr oedd y wedd efengylaidd ag oedd ar eu hathrawiaeth, a'r naws adfywiol oedd yn eu gweinidogaeth, yn sugno dynion da atynt, pa un bynag a'i eglwyswyr a'i ymneillduwyr fyddent. Teimlent barch iddynt ar gyfrif y goleuni a'r gwres a berthynai i'w gweinidogaeth, ac ar gyfrif y lles a wnaent yn y wlad, er nad oeddynt yn gweled yn oreu ymuno â hwy; ïe, yr oedd rhai a gawsent urddau ymneillduol yn cydweithredu a'r tadau cyntaf. Rhai felly oeddynt y Parchn. David Williams; Benjamin Thomas; Henry Davies; John Powel; a Thomas Lewis; am y rhai y crybwyllasom o'r blaen. Ymgymysgai eraill o'r ymneillduwyr yn fynych â hwy; yn mysg pa rai, gellir enwi Edmund Jones, Pont-y-pool; Lewis Rees, Llanbrynmair; Pugh, Llwyn-piod; a Thomas Gray, Ffos-ffin. Soniai Lewis Rees, yn barchus iawn am Howel Harris, gan annog trigolion Lleyn, sir Gaernarfon, i geisio ganddo ddyfod i ymweled â'r wlad hono. Llochesai Mr. Pugh feddyliau uchel iawn am Rowlands, Llangeitho, ac ni chenfigenai wrth ei lwydd-

* Edrycher y darllenydd am ychwaneg o'r un natur, i Cyf. II., o'r gwaith hwn, udal. 178—183.

iant. Ai T. Gray, yn fynych i'w wrando, ac ymgymysgai lawer â Methodistiaid ei oes tra fu yn weinidog yn sir Aberteifi; yr oedd Richard Tibbot, yn arfer gweinidogaethu i'r Annibynwyr a'r Methodistiaid blith draphlith. Yn mhethau mawrion crefydd yr oeddynt oll yn un; cytunent yn eu hanfodion er gwahaniaethu mewn pethau llai.

Dywedasom o'r blaen, nad oedd yr ymofyniad pa ffurf a roddir ar lywodraeth eglwysig y Methodistiaid ddim wedi dyfod i drafodaeth am lawer o flynyddau, ar ol cychwyniad y cyfundeb. Dros yr haner cant cyntaf o'i hanfodiad, y cwestiynau oedd, pa fodd y gochelid erledigaeth a gorthrwm; pa fodd y gweinyddid ymgeledd a chysur i'r dysgyblion ieuainc; a pha fodd y gellid anfon gair y bywyd i ardaloedd amddifaid o hono. Nid oedd ffurf o lywodraeth eglwysig eto wedi dyfod i drafodaeth; ïe, prin yr oedd neb wedi meddwl am dano; eto cyfododd amgylchiadau yn lled fuan, i ddangos yr angenrheidrwydd am ryw beirian-drefn i gario yr achos ymlaen. Tua'r fl. 1742, y dygwyd hyny i weithrediad; yr oedd gweinidogaeth awchlym y diwygwyr wedi llwyddo i ddeffroi cannoedd lawer o wŷr a gwragedd ynghylch eu hachos ysbrydol, mewn De a Gogledd. Yr oedd nifer lluosog o eglwysi, mwy neu lai eu maintioli, wedi eu planu yn mhob cŵr o'r dywysogaeth. Yr oedd hefyd nifer lled fawr o bregethwyr, mwy neu lai eu dawn, wedi codi yn ngwahanol barthau y wlad. Ni allai fod, gan hyny, na chyfodai lluaws o wahanol amgylchiadau cysylltiedig â'r gwaith, yn gofyn cyfarwyddyd ac arolygiaeth; rhaid yr esgorai y llwyddiant ar annhrefn a dyryswch, oddieithr fod rhyw fugeiliaeth arno. Naturiol hefyd, oedd llygadu ar y gwŷr a fu yn brif offerynau i gynyrchu y fath effeithiau i gymeryd yr arolygiaeth hwnw mewn llaw, a threfnu rhyw beirian-drefn i'w gosod mewn gweithrediad; a chan fod llawer o'r fath wŷr, rhaid oedd iddynt, er mwyn cadernid a chydweithrediad, gydgyfarfod ar amserau, i gydolygu pa fodd y byddai yn ddoeth cyfarfod â lluaws o amgylchiadau, ag oeddynt bellach yn ymgymhell i sylw. Gwelid fod eisiau lluaws o addoldai mewn lleoedd, o bosibl, yr oedd y dysgyblion yn rhy dlodion ac anfedrus i wynebu ar y fath orchwyl, heb lawer o gyfarwyddyd a chynorthwy. Tra angenrheidiol oedd cael rhyw gyfle i arwain a dysgu y niferi o gynghorwyr, a godent bellach, yn yr amrywiol eglwysi; dygwyddai llawer o amgylchiadau o ddyryswch, neu o erlidigaeth, mewn gwahanol fanau, a chreulondeb a fuasai gadael y trueiniaid yn y lleoedd hyny, heb nawdd ac amddiffyniad. Buasai gadael pob lle i ymwingo fel y gallai drosto ei hun, yn angharedig, yn gystal ag yn annoeth; yr oedd cynorthwy o ryw le yn ofynol, ac o ba le y gallai y cynorthwy hwnw godi, neu trwy bwy y gellid mor effeithiol ei weinyddu, na thrwy y rhai fuasent yn offerynau i gyhoeddi gair y deyrnas iddynt ar y cyntaf. Llochesid parch mawr iddynt; gwrandewid arnynt megys ar oraclau, a rhoddid gwarogaeth i'w barn a'u gras hwy fwy nag i neb arall: i'r tadau hyn yr ymostyngai pawb, ac ynddynt y cyfarfyddai yr holl ddysgyblion yn ddibetrusder.

Yr oedd y lluaws brodyr, a elwid ar yr enw cynghorwyr, y rhai a fugeil-

ient y deadellau bychain, gan mwyaf yn ddynion hynod eu gras, a diargyhoedd eu rhodiad; yn foddlon a pharod i wneyd a allent i hyrwyddo y gwaith ymlaen; eto, yr oedd angenrheidrwydd tra mawr arnynt am addysg a chyfarwyddyd; cymaint felly, y pryd hwnw, ag un amser, os nad mwy. Yr oedd eu sêl yn fawr, a'u gwybodaeth o angenrheidrwydd yn fychan; yr oedd eu cywirdeb yn amlwg, ond yr oedd eu doethineb yn amheus, Yr oeddynt mewn perygl dirfawr i gam-arwain y rhai a arolygent, heb eu bod hwy eu hunain dan arolygiaeth rhai eraill, helaethach eu gwybodaeth, a dwysach eu profiad. Yr oedd y pethau hyn, a myrdd o bethau eraill, cysylltiedig â'r ysgogiad crefyddol, drwy Ogledd a Dê, yn gosod math o angenrhaid ar y tadau, i gyfarfod â'u gilydd yn fynych, i fwrw golwg, ac i gyd-ymgynghori ynghylch achosion y cyfundeb yn gyffredinol.

Anhawdd ydyw i neb, tybygid, beidio canfod yr angenrheidrwydd am, a'r buddioldeb o'r, fath gynulliadau, ar gyfrif yr arolygiaeth a ofynid ar yr eglwysi a'r cynghorwyr yn adeg eu mabandod; ond nid hyn oedd yr unig les a ddeilliai oddiwrthynt; atebent ddybenion eraill mor werthfawr a buddiol a'r rhai a grybwyllwyd; *sef y daioni a weinyddid i'r brodyr cynulledig eu hunain.* Yr oedd yr adegau y deuent ynghyd "yn amseroedd o adfywiad iddynt o olwg yr Arglwydd." "Fel y mae haiarn yn hogi haiarn, felly y gwna gŵr wyneb ei gyfaill." Parai undeb a brawdgarwch yn eu mysg; mwynhaent eu gilydd yn yr Arglwydd; chwanegid cynesrwydd pob un yn ngwres y cwbl. Moddion ydoedd eu cyd-gynulliad i un gyflenwi diffygion un arall; moddion i fedyddio y naill yn ysbryd y llall; a moddion hefyd i roddi lledaeniad cyffredinol i ragoriaethau neillduol. Buan y deallwyd fod cyfleusderau i gyfarfod â'u gilydd, mor fynych ag a ellid, yn hanfodol i'w hundeb â'u gilydd, i'w cysur a'u hadeiladaeth personol, ac i hyrwyddiad y gwaith yn gyffredinol.

Yr ydym yn dymuno galw sylw y darllenydd yn fwy arbenig at yr elfen hon yn Methodistiaeth Cymru, fel un o'i *brif nodweddau.* Dechreuwyd hyn yn gynar yn oes y diwygiad, sef tua'r fl. 1740; ac am ysbaid dwy flynedd, cynelid cyfarfodydd achlysurol bob mis neu bob deufis, pryd yr edrychid i mewn i wahanol helyntion yr ysgogiad yn ngwahanol barthau y dywysogaeth, ac y derbynid adroddiadau oddiwrth wahanol bersonau; eto nid ymddengys fod y cyfarfodydd hyn am ystod y ddwy flynedd cyntaf, ond rhagarweiniol a rhag-barotoawl i'r gyfundrefn a gytunwyd arni yn 1742; pryd yr anfonwyd am Mr. Whitfield, ac y gosodwyd cynllun mwy rheolaidd a threfnus ger bron. Yn ol y cynllun hwn yr ysgogwyd, yn fwy neu yn llai manwl, am agos i ddeng mlynedd. Rhoddasom ddarluniad eisoes mewn rhan arall o'r hanes,* o'r cynllun a gymeradwywyd, fel nad rhaid i ni yma ychwanegu; ond dalier sylw, mai nerth y gyfundrefn, fel moddion, ydoedd ymgynulliad a chyd-ymgynghoriad y diwygwyr. A llefaru yn ddynol, disgynasai y cwbl i ddyrys-

* Cyf. I. tudal. 158—189.

wch ac annhrefn, yn fuan, oni bai fod y gweithwyr ar y maes yn cyd-ymgyfarfod yn fynych. Yn hyn yr oedd eu hundeb, eu calondid a'u nerth; wrth ddyweyd hyn rhaid cofio, mai fel moddion yr ydym yn datgan hyn am danynt; bywyd a gogoniant y cwbl, mae'n wir, oedd symlcdd a chywirdeb crefydd yn y galon. Heb hyn, dacthai y brodyr ynghyd i amrafaelio; ac fel gwallgofiaid, "i daflu pentewynion tân, saethau ac arfau marwolaeth," a gwnaethid yr offer á luniasid er lles, yn foddion dinystr a dyryswch; nid oes un gyfundrefn a etyb y dyben heb hyn; adeiladu heb sylfaen a fyddai hyny. Nid yn lle crefydd yn y galon, ac nid *yn lle* presenoldeb a nerth yr Ysbryd, y mae un math o gyfundrefn yn cael ei defnyddio; ond moddion ydyw i gynyrchu crefydd lle nad yw, ac i'w hymgeleddu lle y mae; a bywyd a grym y cyfan ydyw dylanwad Ysbryd Duw. Ar yr un pryd, ni phetruswn ddatgan, y buasai y diwygiad Methodistaidd yn Nghymru, wedi erthylu oni bai cymdeithasu o'r diwygwyr lawer gyda'u gilydd mewn cyfarfodydd crefyddol; neu o leiaf, nid oes genym un sail i feddwl yr effeithiasai yn y modd y darfu, oni bai yr elfen *gymdeithasol* hon.

Nid ydym yn haeru fod yn rhaid i'r elfen hon ymwisgo yn wastad yn yr *un ffurf*, na gweithredu yn gwbl i'r *un gyddau*, ar bob tymhor, a than bob amgylchiad; eto, y mae iddi hi ei lle a'i dylanwad ar bob tymhor. Fel y mae dynion mewn ystyr dymhorol yn hanfodi yn gymdeithasau, neu gorfforiaethau bychain neu fawrion, yn deuluol a gwladol, felly hefyd y mae eglwys Dduw. Nid *eglwys* yw pob credadyn ar ei ben ei hun. Nid un, ac nid llawer ar wahân, a gyfansodda eglwys; rhaid fod rhyw undeb ac ymgorfforiad o unigwyr *(individuals)* i gyfansoddi eglwys; a rhaid fod yr ymgorfforiad hwnw wedi ei fwriadu er cryfhad, a chysur pob un, ac er chwanegu dylanwad ac effeithioldeb y cyfan. Ymddangosodd yr elfen hon yn cael lle helaethach, a chroesawiad gwresocach, ymhlith y Methodistiaid Calfinaidd, nag ymhlith un enwad arall o gristionogion, a hyny o'r dechreuad hyd heddyw. Mae yr aelodau eglwysig yn cyfarfod â'u gilydd, mewn modd neillduedig, unwaith yn yr wythnos; mae ei swyddogion, o fewn eu cylchoedd yn cyfarfod â'u gilydd unwaith yn y mis; a chynrychiolwyr y cyfundeb yn cyfarfod â'u gilydd unwaith bob tri mis. Ac heblaw y cyfarfodydd rheolaidd, y mae y gymdeithas yn cael ei dal i fyny trwy luaws mawr o gynulliadau achlysurol; ac yn arbenig trwy fod *teithio* yn elfen nodedig yn y weinidogaeth. Effaith yr holl gysylltiadau hyn ydyw *unedd* cyffredinol mewn athrawiaeth a dysgyblaeth; *cydymdeimlad* bywiog rhwng gwahanol ranau; *cydweithrediad* cyson, mewn gwahanol ysgogiadau, a *nerth* a *dylanwad* mewn gweithrediad.

Fe allai y dywed rhyw un, "Addefwn yn rhwydd fod yr elfen gymdeithasol yn un hanfodol i *eglwys*; ond y mae yn amheus, a ydyw felly rhwng eglwysi â'u gilydd. Mae genym sicrwydd ysgrythyrol o'r naill, ond nid o'r llall." I hyn yr atebwn; nid ydym yn haeru fod "undeb eglwysi" yn un mor agos, mor fanwl, mor deimladwy, nac yn wir mor *hanfodol* a'r un sydd i fod rhwng deiliaid yr un eglwys â'u gilydd. Dichon fod gwir eglwys i

Grist yn hanfodi wrthi ei hunan. A lle y mae cynulleidfa o bobl yn proffesu ymostyngiad i Grist fel eu Pen a'u Brenin, wedi ymgorffori i wir ddybenion crefyddol, yn ol rheolau gair Duw, y mae yno hanfodion eglwys. Dichon yr eglwys hon hefyd fod mewn amgylchiadau, na all ddal cymdeithas ag un chwaer-eglwys arall. Nid hyn, gan hyny, yw y cwestiwn, ond, i ba raddau y mae yn ddyledswydd ac yn angenrheidiol i amrywiol eglwysi, ymgorffori yn gyfundeb, cyn belled ag y caniatâ ffiniau rhagluniaeth iddynt gydweithredu? Gwyddom yn dda na all y gymdeithas rhwng gwahanol eglwysi fod o'r un faint, nac wedi ei fwriadu yn gwbl i'r un dyben, a'r gymdeithas eglwysig. Nid yw y corfforiad *gwladol* dan yr un brenin, ddim o'r un agosrwydd, nac wedi ei amcanu i'r un dyben, a'r undeb teuluaidd. Eto, nid yw addef y gwahaniaeth rhyngddynt, ddim yn wadiad ar hanfodiad a chymhwysder pob un; ac nid yw ein gwaith yn cydnabod hanfodion eglwys ymhob cynulleidfa grefyddol, os byddant yno hefyd; neu ein bod yn cydnabod fod yr undeb *cartrefol* hwn yn fwy agos a theimladwy, ïe wedi ei ddynodi yn eglurach yn y Testament Newydd, na'r undeb y dadleuwn drosto rhwng eglwysi â'u gilydd, ddim yn cyffwrdd â'r cwestiwn dan sylw. Honi yr ydym fod y naill a'r llall yn bod; a bod y naill a'r llall yn angenrheidiol; nid i'r un graddau, nac yn gwbl i'r un dyben, mae'n wir, eto yn tueddu i adeiladaeth corff Crist.

Fel hanesydd, nid ein lle, fe allai, ydyw cyfiawnhau neu gondemnio, canmawl neu feio, cyfundrefn, ond gosod ffeithiau ger bron, a gadael i'r darllenydd dynu ei gasgliadau ei hun. A phell ydyw oddiwrth amcan ysgrifenydd y gwaith hwn ymosod ar un enwad o gristionogion, y rhai y gwanhaniaetha eu syniadau, a'u trefniadau eglwysig, oddiwrth yr enwad y perthyna ef iddo. Eto, hwyrach y goddefir gair, yn awr ac eilwaith, weithiau mewn ffordd o ganmol ac amddiffyn yr hyn a farna yn dda, neu ynte mewn ffordd o ddynoethi yr hyn a dybia yn wallus a diffygiol. Ac wrth wneuthur hyn, dymuna hynawsedd ei gyd-gristionogion yn mysg pleidiau crefyddol eraill, pan y daw yn ei ffordd amddiffyn trefniadau ei gyfundeb ei hun; a hynawsedd a dwys ystyriaeth ei frodyr os dygwydd iddo nodi rhai pethau y byddai yn dda eu gwella a'u diwygio. Ar yr un pryd y mae yn addaw gwneuthur y naill a'r llall, hyd y gellir, mewn ysbryd diddig, ac mewn ymadroddion tyner.

Ond y mater yr ydym arno, ydyw yr elfen *gymdeithasol* sydd yn nodweddu Methodistiaeth; ac yn neillduol yr undeb a honir fod rhwng gwahanol eglwysi â'u gilydd trwy un ymgorfforiad.

Gwrthddadleuir weithiau yn erbyn hyn ar y tir nad oes un gorchymyn penodol, neu esiampl arbenig, yn y Testament Newydd yn cadarnhau y gosodiad; ac nad oes dim yn rhwymedig ar gristioniogion ond a gadarnheir felly. Addefwn fod cryn resymoldeb a grym yn yr wrthddadl hon; a phan y defnyddir hi yn erbyn llygru eglwys Dduw trwy ddwyn i mewn draddodiadau dynion, a honi awdurdod ddwyfol iddynt, gan eu rhwymo ar warau y dysgyblion trwy drais a gorthrech, y mae yn cael ei hiawn ddefnydd-

io. Ond ai nid oes modd ei chamddefnyddio?—neu ei chario yn rhy bell? Ai ni ellir ei myntumio, fel ag i gau allan bob ymresymiad, neu gasgliad oddiwrth egwyddorion, neu hanesion y Testament Newydd? Oni ellir, wrth sefyll yn dyn drosto, filwrio yn erbyn *pob dull* o roddi gweithrediad i lawer o egwyddorion cristionogaeth? Ai i gau allan reswm dynol, mewn ysgogiadau crefyddol, y dylid ei defnyddio, ai ynte i fod yn wrthglawdd yn erbyn cynlluniau penchwiban, a thraddodiadau anorphen; ac i gadw i fyny ysbrydolrwydd a symledd yn ngwasanaeth Duw? Defnyddir hi gan y Crynwyr i wadu y Sabboth cristionogol; defnyddir hi gan y Bedyddwyr yn erbyn bedydd babanod, a defnyddir hi gan bob enwad *gynulleidfaol* i ymwrthod â Henaduriaeth. Goddefer gyda phob gwylder i'r ysgrifenydd ddyweyd, mai ei cham-ddefnyddio a wneir yn yr amgylchiadau hyn. Ein rhesymau dros, fod nifer o eglwysi yn ymgorffori yn wirfoddol yn gyfundeb crefyddol, ac yn cario allan eu cynlluniau cyffredinol trwy gynrychiolwyr Henaduriaethol, ydynt y rhai a ganlyn:

1. Nid oes yr un *gwaharddiad* i hyn yma yn y Testament Newydd; a "lle nad oes deddf nid oes gamwedd."

2. Fod *amgylchiadau* crefydd yn *galw* am dano. Fel hyn y bu gyda'r Methodistiaid ar y cyntaf. Galwyd yr egwyddor Henaduriaethol i fod, nid trwy esiampl neb arall, ac nid trwy ymresymu ar y pwngc ynddo ei hun, ond trwy fod amgylchiadau y diwygiad yn ei argymhell; dygwyd yr egwyddor i weithrediad cyn ei benderfynu fel pwngc; ymwthiodd i sylw trwy rym amgylchiadau; galwai angen y diwygiad am ei wasanaeth. Pan anfonai eglwys fechan, newydd ei ffurfio, rhy wan i gynal gweinidog sefydlog i'w gwasanaethu, a llawer rhy dlawd i godi tŷ i addoli ynddo;—eglwys, hwyrach, yr oedd amryw o'r aelodau yn dyoddef gorthrymder oddiwrth ryw un uwch eu llaw;—pan anfonai, meddaf, y cyfryw eglwys gynrychiolwyr neu genad drosti at y brodyr cynulledig, i adrodd wrthynt ei helynt, i erchi ar i'r brodyr yn y weinidogaeth ymweled â'r ddiaddell ymddifad yn awr ac eilwaith, a chyfranu i'r deiliaid air y bywyd; neu pan ofynent yn daer am gynorthwy i adeiladu lle i addoli ynddo, neu am nodded rhag y gorthrymder y llethid hwy dano;—angen oedd yn eu dysgu i ddefnyddio cenad i'w cynrychioli, ac angen oedd yn arddangos buddioldeb yr ymgynulliad yr appeliant ato. Nid oedd yr un gwaharddiad yn y Testament Newydd i'r genad gael ei ddanfon, nac i'r brodyr dderbyn ei gŵyn. Ac er nad oedd gorchymyn penodol i'r fath ysgogiad, eto yr oedd angen yn ei gymhell, a synwyr yn ei ganmol; a phwy all ddyweyd yn amgen nad oedd y peth yn unol ag ewyllys Duw. Yr oedd egwyddorion mawrion Cristionogaeth yn ei gymeradwyo, a synwyr cyffredin dynoliaeth yn gosod ei sêl wrtho. Ar y pryd y cyfeiriwn ato, yr oedd amgylchiadau cyffelyb yn ddirif, trwy y rhai y dysgwyd arferion henaduriaethol i'n henafiaid, cyn iddynt wybod beth oedd henaduriaeth fel pwngc. Cawsant brawf o'r angen am dano, cyn dysgu dadleu drosto. Yr oedd am-

gylchiadau wedi penderfynu y pwngc cyn i'r gyffes wneyd. Yr oedd buddioldeb y cynlluniau yn adnabyddus cyn ei athroniaeth.

Amgylchiadau gan mwyaf sydd i roddi *ffurf* i egwyddorion; a chyfundrefn o *egwyddorion* ydyw Cristionogaeth yn hytrach na *ffurfiau*. Dichon i'r un egwyddorion gymeryd gwahanol ffurf dan wahanol amgylchiadau. Y mae i Gristionogaeth ei hegwyddorion digyfnewid a'i hamcan gosodedig, a barnu yr ydym na ellir gŵyro ymhell o'n lle, tra y cyrchir at y nod priodol, yn unol ag egwyddorion cywir. Y nod neu yr amcan a ddylai fod i gyrchu ato, ydyw gogoneddiad gras Duw yn iachawdwriaeth dynion. Yr egwyddorion a ddylent deyrnasu, ydynt, gwirionedd mewn athrawiaeth, santeiddrwydd mewn dysgyblaeth, a chariad, doethineb, a threfn yn y weinyddiaeth. Ymddengys i mi fod amgylchiadau yn effeithio ar yr Apostolion eu hunain, a'u bod yn ysgogi ymlaen fel y byddai yr achos. Wrth gwrs yr oedd ganddynt egwyddorion cryfion ar yr un pryd. Ni allent ddim yn *erbyn* y gwirionedd dan un amgylchiad. Gofalent yn wastad ymhob ysgogiad o'r eiddynt gadw cydwybod ddirwystr tuag at Dduw a dynion. Nid dynion anwadal a diegwyddor oeddynt, yn cymeryd eu troi gan bob awel dysgeidiaeth; o ran y gwirionedd yr oeddynt yn gadarn fel y graig; eto parod oeddynt i gyfaifod amgylchiadau newyddion, gyda threfniadau newyddion. Pan oedd yr erlid yn dost yn Jerusalem, a'r Cristionogion ieuainc yn ofni am eu heinioes, yr oedd pob peth ganddynt yn gyffredin; gan fod y rhai ag oedd yn perchen tiroedd, neu dai, yn eu gwerthu; ac yn cyfrannu tuag at angenrheidiau rhai eraill, fel yr oedd yr angen ar bob un. Ond nid oes genym le i feddwl fod hon i fod yn rheol barhaus dan amgylchiadau gwahanol. Pan y bu grwgnach gan y Groegiaid yn erbyn yr Hebreaid am ddirmygu ei gwragedd gweddwon hwy, yn y weinidogaeth feunyddiol, fe wnaed dan yr amgylchiad, fel y gallesid dysgwyl i synwyr a barn wneyd. Nid fel rhai wedi cael addysgiad penodol ar y fath achlysur ymlaen llaw, ond fel dynion call a da, yn ysgogi yn ol yr amgylchiadau. Ac fe wnaed yn y modd yma i'r dyben i fod yn gynllun i eglwys Dduw mewn amser dyfodol, sef i ysgogi mewn amgylchiadau newyddion a dyeithr yn ol synwyr a barn. Ac onid yr un ydyw Awdwr synwyr dyn, a doethineb y cristion, ag ydyw awdwr yr ysgrythyr ei hun? A lle penodol y ddoethineb oddiuchod, ydyw cymhwyso egwyddorion yr ysgrythyr at amgylchiadau neillduol; yn hyn nid oes un math o berygl: y perygl ydyw cymeryd synwyr dynol *yn lle* datguddiad dwyfol; y perygl ydyw ymwrando ag amgylchiadau ac ystumio yn eu hol, a sathru egwyddorion dan draed. Dylid gochel hyn ar bob cyfrif; ond cymhwys ydyw cyd-bwyso egwyddorion ac amgylchiadau gyda'u gilydd; a phan y gwneir hyny yn gywir a diduedd, ac yn ol synwyr a barn, nid oes llawer o berygl cam-gymeryd. Rhoddir ar lawr luaws o egwyddorion, neu ddeddfau cyffredinol, i eglwys Dduw ysgogi wrthynt, y rhai a ddylai gael eu lle a'u dylanwad dan bob amgylchiad, megys, "Gwneler pob peth yn weddaidd ac mewn trefn;" "Heb wneuthur dim o gyd-bartiaeth;" "Beth bynag a

wneloch, gwnewch bob peth er gogoniant i Dduw;" "Byddwch ddiachos tramgwydd i eglwys Dduw;" a lluaws yn ychwaneg. Fel hyn, caniateir mesur ehelaeth o ryddid i eglwys Crist, dan y Testament Newydd, wrth ddwyn ymlaen achosion teyrnas Crist; eto rhaid i'r cwbl dueddu at adeiladaeth; rhaid i'r cyfan fod "yn ol cariad;" "yn ddibartiaeth;" "heb roddi dim achos tramgwydd;" ac "er gogoniant Duw." Gofyna Paul ar un mater, "Onid yw *naturiaeth* ei hun yn eich dysgu chwi?" sef yw hyny, onid yw dynoliaeth yn ei phwyll yn meddu ar ddigon o synwyr a barn i benderfynu yr achos? Paham y byddai raid cael deddf bendant ar yr achos. Y mae lle, gan hyny, i "naturiaeth," neu i synwyr cyffredin, weithredu yn achosion eglwysig y Testament Newydd; ac afraid, ar y cyfrif hyny, ac i'r graddau y caniateir hyny, ydyw fod rheol benodol ar bob dim. Ac mewn pethau y mae dystawrwydd yn eu cylch, wrth ba reol arall y gellir ysgogi? Onid synwyr, neu "naturiaeth," a ddylai gael ei lais? Ond, cofier o hyd, fod yr egwyddorion a grybwyllwyd uchod, yn cael eu lle hefyd. Dywedir am fedrusrwydd yr amaethwr yn trin y tir, ac yn bwrw yr had i'r ddaear, ac yn ei barotoi yn ymborth, mai ei Dduw sydd yn ei hyfforddi mewn synwyr, ac yn ei ddysgu; a bod ei fedrusrwydd celfyddydol yn dyfod oddiwrth yr Arglwydd; (Esa. xxviii. 23—29), "yr hwn sydd ryfedd yn ei gyngor ac ardderchog yn ei waith." A phaham nad yw synwyr i gael ei le mewn materion eglwysig, yn gystal ag mewn celfyddyd? ac onid yw y naill "yn dyfod oddiwrth yr Arglwydd," fel y llall?

Ymddengys i mi fod mwy o ryddid, o'r fath y soniwn am dano, wedi ei roddi dan yr oruchwyliaeth gristionogol, nag a roddasid dan yr un Lefïaidd. Dan hono yr oedd *portread manwl* yn cael ei roddi ynghylch yr holl wasanaeth crefyddol, yn gystal ag ynghylch y llywyddiad gwladol. Yr oedd yr eglwys y pryd hwnw *dan oed;* yr oedd yr "etifedd yn fachgen," ac o "dan wyddorion y byd:" ond o dan oruchwyliaeth yr efengyl, "nid gwas mwyach ond mab;" ac nid plant o dan oed mwyach y rhai nid oes rhagor rhyngddynt a gweision, ond meibion, y rhai yn nghyflawnder yr amser a dderbyniasant y mabwysiad. Dan y ddeddf, yr oedd mwy o *ddefodau*, a llai o *egwyddorion*. Rhoddwyd i Moses, pan yn y mynydd gyda Duw, gyfarwyddiadau manwl ynghylch cyfansoddiad yr eglwys Hebrëaidd, ynghylch gwneuthuriad y babell, a threfn y gwasanaeth; a rhybuddiwyd ef i "edrych ar wneuthur o hono bob peth yn ol y portread a ddangoswyd iddo yn y mynydd." Ni adawyd dim i'w synwyr a'i ddoethineb ef ei hun, nac i farn y bobl na medrusrwydd y crefftwr. Yr oedd hyd a lled y babell, ei ffurf, ei defnyddiau, ei tho a'i dodrefn;—ïe, yr oedd y lleni, y modrwyau a'r morteisiau wedi eu nodi. Gosodwyd yn fanwl i lawr, pwy a pha beth oedd y swyddogion i fod, pa beth a fyddai eu gwaith, a pha beth a fyddai eu gwisgoedd. Yr oedd defodau y gwasanaeth, yr offrymau, a'r amserau, wedi eu sefydlu. Ond y'mha le y mae y manylrwydd hwn ynghylch yr eglwys gristionogol? Yn hon y mae llai o *ffurfiau* a mwy o *egwyddorion*. Pan

anfonir *bachgenyn* ar neges, rhaid ei gyfarwyddo yn fanwl, pa ffordd i fyned, pa beth i ddyweyd, pa bryd, a pha fodd; ond pan anfonir *un mewn oedran*, y cwbl sydd yn angenrheidiol fydd datgan y neges, a rhoddi iddo y *commisiwn*. Felly y gwnaed ag eglwys yr Hen Destament, mewn dull cymhwys i'w sefyllfa fabanaidd; ond yn wahanol y gwnaed â'r eglwys Gristionogol; yma fe osodwyd yr amcan i gyrchu ato, sef efengyleiddio y byd, i lawr yn eglur; a rhoddwyd rheolau cyffredinol hefyd i lawr, fel egwyddorion pwysig, wrth ba rai yr oedd yn rhaid gweithredu; ond gadawyd lluaws o *fanylion* heb eu crybwyll, gan eu troi drosodd i drefniant naturiaeth a barn, ac i'w ffurfio yn ol amgylchiadau dyfodol; gan rag-dybied fod y rhai y rhoddir y cyfryw ymddiried iddynt, yn feddiannol ar fywyd crefydd yn y galon, heb yr hwn yn eglwys Crist, nid oes dim yn ei le. Yr oedd eglwys yr Hen Destament yn wahanol; cynwysai hono *yr holl genedl*, a chan nad oedd wedi ei chyfansoddi o'r un defnyddiau, ni ellid rhoddi iddi yr un gwaith, a chyffelyb ymddiried, ag a roddir i'r eglwys Gristionogol. Pan fyddo cariad at Dduw ac eiddigedd dros ei ogoniant;—pan fyddo llywodraeth gras ar y galon, yn gweithredu yn nerthol oddifewn, y mae llai o gyfarwyddiadau manwl yn angenrheidiol; ond pan fo diffyg egwyddorion grasol yn nghalonau y deiliaid, ni ddichon un corff o gyfreithiau, pa mor fanwl bynag, lenwi eu lle. Bod yn had Abraham yn ol y cnawd, ac ymostwng i awdurdod y *Theocracy* yn y gwahanol sefydliadau, a gyfansoddai ddeiliad yn yr eglwys gynt, er na fyddai deddf Duw ddim yn ysgrifenedig yn y galon. Yn awr, pa fodd bynag, y mae yn hanfodol i eglwys Crist, fod ei deiliad yn feddiannol ar fywyd ysbrydol; ac heb hyny, nid yw yr aelodaeth ond mewn enw. A phan y dirywia unrhyw gynulleidfa o Gristionogion fel ag i golli y nodwedd o dduwioldeb ar y deiliaid, y mae, i'r gradd y bydd hyny, yn colli hanfodion eglwys; ac fel y cyfryw, yn cael ei diarddel gan Grist. Y mae y ffurf *wladol* ar eglwys Dduw, bellach, wedi darfod. I'r graddau y mae ei ffiniau lleol a gwladol wedi eu heangu;—i'r graddau y mae ei goleuni yn ddysgleiriach, a'i dysgyblaeth yn burach, i'r graddau hyny y mae yn gwahaniaethu oddiwrth, ac yn rhagori ar, eglwys yr Iuddewon. Nid bendithion tymhorol, a addewir iddi yn awr, ac nid melldithion gwladol a fygythir arni mwy. Y mae ei rhagorfreintiau yn awr yn agored i bob cenedl fel eu gilydd; ond nid oes hawl gan neb iddynt, o ba genedl bynag, ond a fyddo "yn dlodion yn yr ysbryd," ac yn "bur o galon." Mae yn perthyn iddi fwy o ryddid egwyddor, nag o gaethiwed yr iau; mwy o gariad nag o ofn.

Po fwyaf o fywyd ac anian a fydd oddifewn, lleiaf oll a raid wrth ffurf oddiallan. Addewid fawr y Testament Newydd, ydyw yr Ysbryd Glân, fel yr oedd y Messiah yn addewid fawr yr Hen; yr oedd cadw y genedl Iuddewig gyda'u gilydd; ac ar yr un pryd, ar wahan oddiwrth bawb eraill, yn rhai o ddybenion neillduol "deddf y gorchymynion mewn ordinhadau," yr hon oedd i bārhau hyd amser y "diwygiad;" a thrwy rym y *Theocracy*, yn gweithredu trwy osodiadau pendant ac awdurdodol, yr atebid y dybenion

hyny. Ond nid cyfamod, fel y gwnaeth Duw â'r tadau hyny, yn y dydd y dygodd efe hwynt o dir yr Aifft, yw y cyfamod a wna Duw â'i eglwys yn y "dyddiau diweddaf hyn." Yn awr y mae yn addaw, "Myfi a ddodaf fy nghyfreithiau *yn eu meddwl, ac yn eu calonau* yr ysgrifenaf hwynt." I ddeiliaid "y gwaith da" hwn o fewn, y mae yr addewidion bellach; y rhai a anwyd "o ddwfr ac o'r Ysbryd" ydynt etifeddion teyrnas nefoedd; yn y deyrnas hon ni all enwaediad ddim na dienwaediad, ond *creadur newydd.*

Na fydded i'r sylwadau hyn arwain neb i feddwl fod dim cyfnewidiad yn egwyddorion gwreiddiol crefydd, dan y Testament Newydd rhagor yr Hen; nid ein hamcan oedd dal hyny allan; nid yn ei phethau *hanfodol* y bu y newidiad, ond yn ei phethau achlysurol. Yr oedd trefn achub pechadur, ac egwyddorion santaidd y ddeddf foesol, yr un trwy yr holl oesoedd, ac y maent yn aros yn ddigyfnewid hyd heddyw; ac felly i barhau hyd ddiwedd amser. Nid oedd i'r patriarchiaid yr un ffordd o gadwedigaeth ond trwy ffydd yn y Messiah, na'r un cynllun o santeiddrwydd mewn calon a buchedd, ond y ddeddf foesol. Yr un modd dan gyfamod Sinai; yr oedd yr egwyddorion tragwyddol yn parhau yn ddigyfnewid; ac yn gorwedd yn ddwfn, yn nefodau seremoniol, ac yn nghyfreithiau gwladol Israel, fel y'u cnewyllyn a'u gogoniant. Deddf natur dyn, a datguddiad grasol Duw, wedi eu cyfaddasu at amgylchiadau neillduol Israel, oedd sylwedd y cyfamod a wnaed â'r genedl hono. Rhaid oedd i Israel ymofyn am eu bywyd trwy ffydd yn y Messiah, a chydymffurfio â'r un ddeddf a'u tadau gynt; rhaid ein cyfiawnhau ninau dan yr efengyl, yn yr un modd ag y cyfiawnhawyd Abraham gynt. Nid oes newidiad chwaith ar egwyddorion tragwyddol y ddeddf foesol; ac ni all fod; cynt yr â y nef a'r ddaear heibio, nag yr â un iot o'r gyfraith. Rhoddi goleuni cywirach arni, a'i chadarnhau trwy ei addysgiadau, ei esiamplau, a'i angau, a wnaeth Crist, ac nid ei newid. A dylid sylwi, er y dadleuwn dros helaethach rhyddid dan yr efengyl, nag o dan y ddeddf, mai at ddefodau y cyfeiriwn ac nid at egwyddorion; dan yr efengyl y mae mwy o fanylrwydd o ran egwyddorion, ond llai o gaethiwed o ran defodau. Nid ydym ychwaith yn honi fod *rhyddid hollol mewn defodau*; mae rhyw gymaint o ffurfiau crefyddol yn angenrheidiol yn y byd hwn. Y mae rhyw gymaint o "ymarfer corfforol" yn fuddiol; er mai dros ychydig amser; gan mai yn y corff yr ydym, ni allem roddi amlygiad i egwyddorion y galon heb ryw ymarferiad corfforol. Rhaid i grediniaeth y galon esgor ar gyffes y genau. Nid yw Pen yr eglwys ddim wedi cau allan bob math o ffurfiau; nac wedi caniatâu pob math ychwaith; gellir cyfeiliorni ar y ddwy law; ac wrth geisio gochel un graig, gellir taro wrth y llall. Tra yr honwn fod llawer o ryddid wedi ei adael i farn a doethineb yn nhrafodaeth teyrnas nefoedd, y mae rhai pethau wedi eu gosod yn awdurdodol i lawr; ac ni all neb chwanegu atynt, ar y naill aw, na thynu oddi wrthynt ar y llaw arall. Mae swyddwyr wedi eu gosod yn eglwys Dduw; ac nid oes hawl gan y Crynwyr, ac eraill, i'w gosod o'r neilldu; ac nid oes hawl yr ochr arall i chwanegu atynt, fel y gwna eglwysi Rhufain a

Lloegr. Mae dwy ordinhad arwyddol wedi eu gorchymyn; ac ëondra gormodol, tybygwyf, mewn rhai ydyw eu hesgeuluso, ac mewn eraill, eu lluosogi; ni fyn y Crynwyr yr un sacrament, ac fe fyn y Pabyddion saith. Mae y naill heb gymaint ag un swyddog, a hyd y gellir yn ymddyosg oddiwrth bob ffurf; pryd y mae y lleill yn lluosogi eu ffurfiau, eu swyddwyr, a'u hurddau yn ddiderfyn. Tybygem, mai rhwng y ddwy ochr y mae y canol; nid ydym am ymwrthod â phob ffurf, nac am eu lluosogi chwaith, yn ol mympwy. Ein rheol a ddylai fod y gwirionedd: "At y gair ac at y dystiolaeth;" chwilio yr ysgrythyrau beunydd, fel y Bereaid, a yw y pethau hyn felly. Ymddengys fod rhai pethau wedi eu penderfynu, gyda mesur mwy neu lai o eglurdeb. Yn mysg yr ordinhadau a osodir egluraf i lawr, gellir nodi, pregethu y gair, gweddio, canu mawl, myfyrio, cynghori eu gilydd, gweinyddu bedydd a swper yr Arglwydd. Rhoddwyd i lawr nifer a chymhwysderau y swyddogion eglwysig, ynghyda'r ansoddau hanfodol i aelodaeth eglwysig. Yr ydym yn penderfynu rhai pethau trwy gyfarfod â gorchymyn neu esiampl eglur a diamheuol; a rhai pethau trwy gasgliad teg, oddiwrth egwyddorion, neu hanes ysgrythyrol. Ond am ffurf-lywodraeth eglwysig, nid yw yn ymddangos i mi yn eglur, trwy y naill na'r llall; ac oddiar hyn, fel achlysur, y mae fod gwŷr da a gwir ddysgedig, dynion pwyllog a diragfarn, yn amrywio cymaint yn eu barnau ar y mater; ac y mae yn beth hynod fod yr haeriadau yn fwy hyf, fel y bydd y profion yn llai eglur. Mae llawer o ysgrifenu a dadleu yn bod, ac wedi bod, ar gyfundrefn eglwysig; a honi a gwrth-honi, mai Esgobyddiaeth a ddylai fod, neu Annibyniaeth, neu Henaduriaeth, neu ynte, nad yr un o honynt; ac yn rhy aml, y mae grym y profion yn llai nag ydyw eondra a haerllugrwydd yr honiadau. Dymunai ysgrifenydd y llinellau hyn ochel y gwendid hwn, a dangos nad yw y Methodistiaid ddim wedi arfer, hyd yma, a honi mai y cyfansoddiad eglwysig a ffyna yn eu mysg, ydyw *yr un*, a'r *unig un*, y mae y Testament Newydd yn ei argymhell, mwy nag yr addefant ddarfod i un enwad arall ddisgyn ar yr un hwnw. Dewisant yr eiddynt eu hunain, mae'n wir, yn hytrach na'r un arall; ond nid am ei fod wedi ei egluro yn amlwg a diamheuol yn yr ysgrythyr, a llawer llai, am y tybient ei fod yn berffaith, yr hyn a ddylai fod. Paham ynte? Ateb:—1. Am fod yn y gyfundrefn bob peth, neu amcan at bob peth, a ddatguddiwyd yn amlwg, yn y Testament Newydd. 2. Am na wyddant fod dim yn y cyfansoddiad, yn milwrio yn erbyn egwyddorion cyffredinol Cristionogaeth. 3. Am fod y gyfundrefn, dan wahanol agweddau arni, wedi ateb dybenion goruchel eisoes, ac wedi ei choroni yn arbenig â llwyddiant. 4. Am ei bod yn agored, o bryd i bryd, fel y bydd amgylchiadau yn galw, i dderbyn awgrymiadau newyddion, ac i gymeryd ei lliniaru ar arweddau gwahanol, mewn trefniadau nad ydynt wreiddiol a phwysig.

PENNOD II.

ELFENAU A THEITHI METHODISTIAETH CYMRU.

CYNWYSIAD:—

METHODISTIAETH CYMRU YN WAHANOL EI FFURF I BOB ENWAD ARALL—DWY EGWYDDOR NODEDIG YNDDO—HANFODION EGLWYS A'I FFURIAU ACHLYSUROL—SYNIADAU GWYR MAWR AR Y MATER—RHYDDID EGLWYSI YN MYSG Y METHODISTIAID—RHAID FOD RHWYMAU LLE BYDDO CYMDEITHAS—YR EGWYDDOR WELLIADOL—DAU DDRWG I'W GOCHEL—ANNIDDIGRWYDD I'R WEDD BRESENOL MEWN DAU DDOSBARTH.

Nid ydym yn petruso addef fod Methodistiaeth Cymru yn gwahaniaethu mewn rhyw bethau o ran cyfansoddiad a gweithrediad oddiwrth bob enwad arall, am a wyddom sydd yn y byd; yr ydym yn dyweyd hyn, nid mewn ffordd o ymffrost, ond fel ffaith adnabyddus. Pa un bynag ai anrhydedd ai gwarth ydyw hyny i'r cyfuneb, felly y mae. Gwahaniaetha yn hanfodol oddiwrth Esgobyddiaeth, y mae gwedd tra gwahanol arno i Annibyniaeth; ac nid yw yn gwbl gydffurf â'r enwadau Henaduriaethol sydd yn awr mewn bod. Ac y mae y ffaith o'i fod yn gwahaniaethu felly yn profi y gosodiad a grybwyllasom eisoes, sef nad oedd gan y tadau, wrth droi allan, un amcan i ffurfio enwad o grefyddwyr ar unrhyw ffurf benodol. Cymerasant eu harwain, fel y dywedasom, gan amgylchiadau, gan ymffurfio yn raddol i'r wedd sydd arnynt yn awr. A chofied y darllenydd o hyd nad yw y Methodistiaid yn honi anffaeledigrwydd eto. Dichon i amgylchiadau, mewn amser dyfodol, roddi arnynt wedd arall, neu liniaru peth ar y wedd sydd yn awr. Nid enwadau eraill sydd wedi bod, nac hyd heddyw, yn gyllun ganddynt; felly trwy ysgogi o'r dechreuad heb fwriad neillduol i sefydlu rhyw ffurf bennodol, ond ymgynghori wrth fyned rhagddynt, pa beth a ddylid ei wneuthur, dan bob amgylchiad, fel y dygwyddai i'r amgylchiad gyfodi; y mae fod gwedd wahanol ar y cyfundeb hwn i bob un arall yn y byd. Fe allai y tybia llawer un na ddylasai hyn fod; ond y dylasai fod astudiaeth ddyfalach wedi bod ar y Testament Newydd, i gael allan *y modd ysgrythyrol;* ac wedi ei chael allan, ei mabwysiadu, a'i gosod mewn gweithrediad; a thybia y cyfryw rai, ond odid, pe gwnaethid fel hyn, mai ffurf gwahanol a fuasai ar y cyfundeb, nid amgen na'r ffurf y sydd ar yr enwad y perthynant hwy iddo, pa fath bynag yw hwnw. Tybir ganddynt, fod yma ormod o lacrwydd mewn peth pwysig; y dylesid ymgadw yn fanylach at *gynllun* y Testament Newydd. I hyn yma y gellir ateb gyda sicrwydd, nad oedd y tadau Methodistaidd yn ymwybodol mewn un modd, o'u bod yn troseddu un reol adnabyddus o'r ysgrythyr wrth ysgogi fel y gwnaent. Os gwnaethant hyny hefyd, rhaid mai amryfus a fu; gan farnu, yn niniweidrwydd eu calon, eu bod

yn gwnethur gwasanaeth i Dduw yn eu gwahanol drefniadau. Ac hwyrach, pe cymerai y gwrthddadleuwyr y drafferth i chwilio pa drefn well a mwy effeithiol i efengyleiddio Cymru, a allesid ei chael, dan yr amgylchiadau neilldnol yr oedd y diwygwyr ynddynt, y profent anhawsder i wneyd hyny; ac mai tra amheus a fyddai drachefn, ai mwy effeithiol, ïe ai *mor* effeithiol, a fuasai y drefn hono i ateb y dyben. Wrth edrych ar yr ysgogiad yn y cyfanswm o hono, y mae yn ymddangos yn beth haws o lawer, nodi allan y gwahaniaeth rhyngddo ag enwadau eraill, nag sydd rhyngddo â'r ysgrythyr. Y mae yn gwahaniaethu oddiwythynt mewn trefniadau, nad ydynt yn eglur wedi eu gosod i lawr yn y Testamennt Newydd, neu ynte mewn trefniadau nad yw y cyfundeb, o herwydd rhyw amgylchiadau, ddim eto wedi gallu eu gosod mewn gweithrediad.

Ni all yr ysgrifenydd lai na meddwl fod y Methodistiaid wedi cofleidio, ac wedi gweithredu ar, yr egwyddor sydd o werth tra mawr i bob enwad o Gristionogion;—egwyddorion y mae diffyg o honynt, neu o *un* o honynt, yn rhwym o filwrio yn erbyn llwyddiant a heddwch, os nad yn erbyn hanfod yr enwad a fydd yn fyr o honynt, sef; *bod yn llym gyda hanfodion crefydd, a llac gyda'i hamgylchiadau;* neu, *bod yn gryf dros yr hyn sydd ddwyfol, a bod yn ystwyth gyda'r hyn sydd ddynol.* Rhag i neb gamgymeryd, gan nad ydym yn sicr fod ein geiriad o'r gosodiad yn ddigon amlwg a chywir, gweddus fydd i ni ymhelaethu.

Yn gyntaf, y mae i eglwys Crist rai pethau na all hanfodi hebddynt; lle nad ydynt, neu ryw raddau o honynt, ni all fod yno eglwys. Hwyrach nad yw y pethau hyn ddim yn llawer mewn rhif, ond y maent yn annhraethol eu pwys. Yn un peth, y mae yn rhaid *cael duwioldeb yn y deiliaid.* Cynulleidfa o bobl, heb neb duwiol yn eu mysg, nid yw eglwys. Dysgwylir yn y byd anmherffaith hwn fod yn eu plith rai rhagrithwyr, ond rhaid fod yno hefyd rai yn adnabod Duw, ac yn credu yn Nghrist; ac i'r graddau y byddo cynulleidfa yn ddiffygiol o'r cyfryw ddeiliaid i'r graddau hyny, y mae yn colli nodwedd eglwys. Drachefn, rhaid i'r ymgorfforiad fod yn enw Crist, a than ei awdurdod; i ddybenion crefyddol yn unig; a hyny wrth reolau gair Duw. Rhaid hefyd fod iachusrwydd yn yr athrawiaeth a gyhoeddir, a dwyfoldeb yn yr ordinhadau a weinyddir. Yr Ysbryd Glan a raid fod bywyd yr holl weinyddiaeth, a chariad raid fod y rhwymyn i gadw y gymdeithas wrth eu gilydd. I'r graddau y bydd gwirionedd yn colli o'r athrawiaeth, a phurdeb yn colli o'r ddysgyblaeth;—i'r graddau y gosodir trefniadau dynol yn lle ordinhadau dwyfol;—y collir presenoldeb yr Ysbryd a dylanwad cariad, i'r graddau hyny, y mae y gynulleidfa yn colli nodweddau hanfodol eglwys Crist.

Yn y pethau hyn y mae hanfodion eglwys; ac anghenrheidiol ydyw bod yn ofalus yn eu cylch ac eiddigeddus drostynt. Os llac a diofal a fydd cynulleidfa pwy neu pa fath a gydnabyddir yn aelodau o honi; os goddef a wna trwy ddifaterwch ac esgeulusdra, y rhai drwg o'i mewn; os penrhydd a di

fraw fydd ynghylch yr athrawiaeth a gyhoeddir, neu yr ordinadau a weinyddir, hawdd ydyw dyfalu ei dirywiad cyflym, a darogan ei dinystr llwyr. Ymlithrodd i eglwysi Rhufain a Groeg athrawiaethau amryw a dyeithr; daeth gwarogaeth i awdurdod wladol, a mawredd y byd, yn fwy nag i burdeb a gwirionedd, i ffynu ynddynt; lluosogwyd swyddau, urddau, a defodau dirif, a chollwyd, yn llwyr ymron, y symlrwydd sydd yn Nghrist. Dadleuid bellach fwy dros y defodau dynol, na thros y gosodiadau dwyfol; amddiffynid nodweddau y sect yn fwy gofalus nag egwyddorion yr efengyl; ac fel yr oedd Ysbryd Duw yn cilio, yr oedd yn rhaid llenwi y diffyg trwy appelio at awdurdod cyfraith, neu hudoliaeth gwychder. Bod yn ddiofal ac esgeulus ynghylch gwirionedd yr efengyl yn yr athrawiaeth, ac ynghylch purdeb yn y ddysgyblaeth, a ddygodd wywdra a diflaniad alaethus ar yr hen eglwysi Presbyteraidd yn y wlad hon. Yn raddol, ymlithrodd Ariaeth; Sosiniaeth, ac Antinomiaeth, i mewn iddynt; ac fel y gwna gwynt gwenwynig ddifrod ar y blodau, felly y collodd yr eglwysi hyny eu prydferthwch a'u bywyd.

Drachefn, y mae i eglwys Crist luaws o bethau bychain mewn cydmariaeth, mewn ffordd o drefniadau yn y weinyddiaeth; y rhai, gan fod llai o argraff dwyfol arnynt, a allant fod yn fuddiol dros dymhor yn unig, eto ni ddylid eu dàl mor dyn, a sefyll drostynt mor annhyblig. Mae perygl dirfawr yn hyn hefyd. Yn bur fynych y mae y ddau ddrwg crybwylledig yn caulyn eu gilydd, a'r ddau yn cydweithio yn rymus i ddinystrio yr enwad neu yr eglwys a ddyry le iddynt. Tueddol ydyw dynion wrth adael gwirionedd Duw i droi at ofer-siarad; wrth esgeuluso trefniadau dwyfol i syrthio at dradodiadau dynol. Mae diofalwch gyda phethau dwyfol y rhan amlaf yn cydgerdded a manylwch gyda phethau dynol. Yn y ddau hyn yr ymddangosodd y diryw-iad yn yr eglwys Iuddewig. Cyfrifid traddodiadau dynion yn fwy pwysig na gorchymynion Duw; a chwedlau y Talmud, yn fwy eu grym na chyfraith Moses. Mwy oedd y gofal i olchi dwylaw cyn bwyta, nag i gael puredd oddimewn. Yr oedd "barn trugaredd a ffydd" o lai pwys nag ydoedd degymu y mintys. Rhoddid mwy o gyfrif i feithder y weddi, nag i'w thaerineb a'i hysbrydolrwydd. Mewn gair, yr oedd gwir grefydd wedi colli, a dyfeisiau ffol wedi cymeryd ei lle. Felly y bu gydag eglwysi y dwyrain a'r gorllewin. Mawr yr helynt a'r dadlu a fu, pa amser y dylasid cadw y pasg; pa fath y dillad a ddylasai yr offeiriaid wisgo; a pha ystumiau a ddylasai fod yn yr addoliad; gosoded mwy o bwys ar *drefn* y gwasanaeth nag ar ei *natur*; ar *ystum* yr addolwr, nag ar ei ysbryd.

Gyda phob gwylder y mae yr ysgrifenydd yn datgan ei ofnau, fod gormod o hyn yn ymlithro i blith enwadau a gyfrifir yn uniongred eu herthyglau. Ymddengys gormod o sel yn mysg eglwyswyr dros y Llyfr Gweddi Cyffredin, a ffurf y gwasanaeth. Haws fydd ganddynt faddeu ychydig o ŵyriad mewn athrawiaeth nag afreolaeth yn ngweinyddiaeth y cysegr. Ai nid llawn digon o ddadleu fydd gan y Cynulleidfawyr dros annibyniaeth yr eglwysi; mwy hwyrach o hyn nag o draethu a dadleu dros eu purdeb. Prin hefyd y gellir

esgusodi y Bedyddwyr am roddi y fath bwys ac arbenigrwydd ar ddull a deiliaid bedydd, fel pe byddent ymhlith hanfodion crefydd. Gresyn hefyd fod yn rhaid i'r Wesleyaid sefyll mor dyn dros y cyfansoddiad a draddodwyd iddynt gan sylfaenydd yr enwad, fel pe byddai yn ymblethu â rhanau bywydol crefydd. Yn mysg y Methodistiaid yr un modd, y mae nodwedd plaid, neu elfenau gwahaniaethol y cyfundeb, yn bygwth anurddo ei degwch a dinystrio ei ddefnyddioldeb. Hyd yn hyn, pa fodd bynag, y mae hanfodion crefydd wedi cael llawer mwy o arbenigrwydd, na'i phethau enwadol ac amgylchiadiadol; eto, ar yr un pryd, dangosir gan lawer un ryw sel fawr diwahaniaeth, dros *bob peth* perthynol i'r blaid; fel pe byddai y *gyfraith*, a'r *gweinyddiad o honi*, yn un mor anffaeledig. Rhag hyn rhaid adnabod y pethau y mae gwahaniaeth rhyngddynt. Dylid gwahaniaethu rhwng pethau da a buddiol dros dymhor, a phethau hanfodol a thragwyddol; rhwng yr hyn sydd o Dduw a'r hyn sydd o ddynion. Nid ydym yn mhell o'r meddwl, pe ceid gwahanol enwadau crefyddol Cymru a Lloegr, i sefyll yn fwy dros hanfodion Cristionogaeth, a llai dros eu ffurfiau enwadol o honi, y byddai sail i obeithio, na fyddent yn hir cyn toddi i'w gilydd, fel na ellid eu hadnabod dan nodwedd sectaidd mwy.

Un o brif elfenau Methodistiaeth, pa fodd bynag, ydyw *newid ei drefniadau i gyfarfod ag amgylchiadau*; mae yr ystwythder hwn yn ei hanfod; mae yn perthyn i'w gyfansoddiad o'r dechreuad. Trwy fod y tadau wedi cychwyn eu gyrfa Fethodistaidd heb fawr feddwl am un drefn eglwysig, yr oedd yn naturiol iddynt ysgogi, fel y gwelent yr angenrheidrwydd. Y mae i'r cyfundeb dan bob gwedd a fu arno, gynulliadau eglwysig, lle y derbynir aelodau i mewn neu y'u bwrir allan. A chyda rhai'n y mae iddo ei gyfarfodydd misol a chwarterol; yn cyfateb mewn gradd i *Presbyteries a Synods* yr Ysgotiaid: a gellir edrych ar y rhai olaf hyn, lle y cyferfydd cynrychiolwyr eglwysi, fel rhagfuriau amddiffynol y cyfundeb yn amgylchynu y cyfan; ac hefyd fel prif elfen yr ymnewidiad o'i fewn ei hun. Y mae y cyfarfodydd cynrychiolaidd hyn yn gweithredu fel rhwymau i gylchu y cwbl gyda'u gilydd, ac fel offer ei adnewyddiad o bryd i bryd. Edrychwn ar y cyfarfodydd hyn, yn foddion undeb a chymundeb yr holl gorff â'u gilydd; ac yn peri cydymdeimlad a chydweithrediad y naill ran gyda'r llall. Rhoddir y cyfleusdra yn fisol, a chwarterol, i ystyried buddioldeb unrhyw gynygiad. Ceir mantais i wrando pa beth sydd i'w ddyweyd drosto, neu yn ei erbyn; ac os ymddengys y cynygiad i'r cynrychiolwyr yn gyffredinol, yn un teilwng, ac yn debyg o fod yn fuddiol, fe'i cymhellir, trwy y cynrychiolwyr, i sylw a chymeradwyaeth yr eglwysi oll; a thrwyddynt hwy i weithrediad ymarferol.

Yr unig wrthddadl a godir yn erbyn yr undeb cymanfaol hwn, hyd y deallais i, ydyw, nad oes sail iddo yn y Testament Newydd; ac mai naturiol ydyw ei ddefnyddio fel offer trais, a thra-arglwyddiaeth, ar yr eglwysi. Am y rhan gyntaf o'r wrthddadl, yr ydym eisoes wedi adrodd ein syniadau mewn gradd, sef, mai cyfundraeth o egwyddorion, gan mwyaf, a geir yn y Testament

Newydd; ac nad ydym i ddysgwyl cynllun eglur a manwl o ffurf eglwysig; ac mai yr unig reol sydd genym mewn llawer o drefniadau eglwysig ydyw, gwasanaethgarwch unrhyw gyfundrefn i gyrhaedd amcan Cristionogaeth; sef, efengyleiddio y byd heb dreisio egwyddorion amlwg a gosodedig. Ac os ceir prawf sicr o fuddioldeb unrhyw gyfundrefn i ateb y dyben, ai nid yw hyny yn profi ei dwyfoldeb, fel deddf achos ac effaith? Os ceir prawf fod unrhyw lysieuyn yn feddyginiaeth i mi dan ryw afiechyd, yr wyf yn barnu ei bod yn gymaint dyledswydd arnaf ddefnyddio y llysieuyn hwnw, a phe buasai gorehymyn neu esiampl ysgrythyrol i mi wneyd. Onid yw naturiaeth ei hun yn fy nysgu? Ail-ddywedaf, gan hyny, os ymddengys i nifer o dduwiolion fod rhyw gyfundrefn gynygiedig, yn ymddangos yn rhesymol a theg, fel un gymhwys i gario allan amcanion Cristionogaeth, yr wyf yn tybied, mai eu dyledswydd ydyw, hyd y gallont, ei defnyddio; ac os wedi ei phrofi, y ceir sicrwydd gweithredol o'i buddioldeb, eu dyledswydd diamheuol fydd sefyll ati; ïe, er na fydd ganddynt yr un cynllun penodol o'r cyfryw gyfundrefn yn y Testament Newydd. Hon oedd yr egwyddor y gweithredodd ein tadau arni; a hon, tybygaf, y gweithreda eu holynwyr arni eto. Lle y mae cynllun neu esiampl wedi ei roddi, neu lle y mae gorchymyn pendant am beth wedi ei osod i lawr, ufuddhau, a chydymffurfio â'r cyfryw a ddylid yn ddiamheuol; ond lle y mae nod i'w gyrhaedd wedi ei ddatguddio, a rheolau cyffredinol, neu egwyddorion llydain, yn ol y rhai y dylid ysgogi, wedi eu gosod i lawr hefyd, ond heb fod y manylion yn cael eû dynodi, yr ydym ar dir perffaith gadarn, wrth ddefnyddio y gyfundrefn hono, a ymddengys ar y pryd, a than yr amgylchiadau, yn gymhwysaf i ateb y dyben.

Nid ydym yn datgan y syniadau hyn fel rhai newyddion, a phriodol yn unig i'r Methodistiaid. Y maent i'w cael, mewn rhan, neu yn gwbl, mewn ysgrifeniadau awdwyr hen a diweddar, ac yn mysg pob enwad o Gristionogion. Meddai Dr. Mosheim, yr hanesydd eglwysig, "Nid yw Crist ei hun, na'i santaidd apostolion, wedi gorchymyn dim yn eglur a phennodol ynghylch ffurf allanol yr eglwys, na'r dull pennodol y dylai gael ei llywodraethu. Yr ydym yn casglu oddiwrth hyn, fod ei llywodraethiad i gael ei gyfyngu i'r adeg, a'i adael i ddoethineb ei blaenoriaid." Medd Dr. Mc. Claine, "Y gwir ydyw fod Crist, trwy adael y mater hwn yn anmhennodol, wedi caniatâu i Gristionogion yr hawl i ffurfio llywodraethiad yr eglwys yn ol byddai amseroedd a lleoedd yn galw; am hyny y llywodraeth *oreu* ar yr eglwys ydyw yr un *ddwyfol;* ac y mae i bob cyfundeb Cristionogol hawl i wneuthur y rheolau a fyno iddo ei hun, am y byddant yn gyson â chariad, a heddwch, ynghydag athrawiaeth ac egwyddorion Cristionogaeth." Yr un ffunud y dywed y Parch. A. Fuller; "Ond pe ceisiem gyfansoddi cynllun o lywodraeth, addoliad a dysgyblaeth eglwysig, i gynwys mwy na *llinellau cyffredinol*, a'i seilio ar awdurdod pendant y Testament Newydd, ni a geisiem gyflawni yr yr hyn sydd anmhosibl." Drachefn y dywed; "Pa gynlluniau bynag a dueddai i adeiladu eglwys Dduw, a phersonau neillduol, ar eu santaidd ffydd,

y rhai'n a ddilynent, (sef yr apostolion). Pa gynlluniau bynag a fyddai gymeradwy gan y sawl a feddiannai ddoethineb santaidd, fel pethau cymhwys a hawddgar;—pethau yn tueddu, fel dysgyblaeth dda byddin, i eangu teyrnas Crist, y rhai'n a ddilynent, ac a gymhellent ar yr eglwysi. A pha fodd bynag y camddefnyddiwyd yr egwyddor, gan ddynion bydol, trwy ddwyn defodau ofer i mewn, dan rith gweddeidd-dra; yr egwyddor hon, a'i deall yn ei hystyr unplyg a chyntefig, a raid fod byth yn faen-prawf o drefn dda mewn dysgyblaeth Cristionogol."

Gweddus yma ydyw chwanegu tystiolaeth Dr. Owen, awdwr a gyfrfir yn "Dywysog" yn mysg y duwinyddion; yn ei draethawd ar "Gymundeb Eglwysi."* Cyfarfyddir â syniadau y fath a fuasent yn peri i ni feddwl mai gweinidog ydoedd yn mysg y Methodistiaid, oni bai y gwyddom ei fod wedi marw er ys mwy na 150 o flynyddau, ac felly wedi gorphen ei yrfa yn mhell cyn bod un Methodist yn Nghymru. Mae ei dystiolaeth ef yn hynotach, gan mai un o'r Annibynwyr y cyfrifir ei fod. Meddai y gŵr enwog hwn ar yr achos dan sylw; "Wrth ystyried yr hyn a ddysgasom trwy brofiad chwerw, yn yr oesoedd diweddaf hyn, am yr hyn a ddygwyddodd gynt yn mysg holl eglwysi y byd, o ran eu dirywiad oddiwrth addoliad a santaiddrwydd yr efengyl, gyda'r helaethrwydd o demtasiynau ein dyddiau ninau, a'r gwywdra ysbrydol y mae pob eglwys yn ddarostynedig iddo, buddiol fyddai i'r eglwysi, sydd yn rhodio mewn cymundeb penodol; gydgyfarfod yn fynych mewn *synods* (cymanfaoedd); fel yr ymofyner i sefyllfa ysbrydol y cwbl, ac y rhodder cynghor, er gwella yr hyn sydd feius, er cadw purdeb dyladwy mewn addoliad, ymarferiad o ddysgyblaeth, ac yn arbenig er cadw grym, amlygiad a ffrwyth ufudd-dod efengylaidd.

"Oddiar hyn y mae yn amlwg beth ydyw *dybenion* y cyfryw gymanfaoedd ymhlith eglwysi Crist. Y dyben cyffredinol sydd iddynt oll ydyw, dwyn yn mlaen adeiladaeth yr holl gorff, neu yr eglwys gyffredinol; a hyny—(1.) I attal ymraniadau, yn codi oddiar wahaniaeth barn neu fuchedd, a fyddai yn milwrio yn erbyn yr adeiladaeth hwnw. Y *synod* Gristionogol gyntaf oedd ymgynulliad y ddwy eglwys gyntaf o fewn y byd, trwy eu dirprwywyr. Yn Jerusalem yr oedd eglwys gyntaf yr Iuddewon; ac yn Antiochia yr oedd eglwys gyntaf yn mysg y Cenedloedd, ac i attal ymraniadau ynddynt, ac i gadw cymundeb rhyngddynt, y cadwyd y gymanfa gyntaf, Act. xv. (2.) I ochel neu i wella tramgwyddiadau yn erbyn cariad rhyngddynt. (3.) I ledaenu goleuni yr efengyl trwy gyffes unedig, a thrwy gydweledíad mewn athrawiaeth. (4.) I roddi cyd-dystiolaeth yn erbyn heresiau, neu gyfeiliornadau, trwy y rhai y mae ffydd rhai yn cael ei dadymchwelyd, neu mewn perygl o fod. (5.) I roddi ymwared trwy gynghor i'r sawl a ddichon trwy ryw Ddiotrephes, fod wedi eu bwrw allan o'r eglwys ar gam."

"Mae eglwysi," ysrifena Dr. Davidson, gŵr o gyfrif mawr yn mysg y

* Communion of Churches.

Cynulleidfawyr y dyddiau hyn, "yn ganghenau o un teulu, a chanddynt, fel y cyfryw, eiddigedd y naill yn llwyddiant y llall. Naturiol ydyw i bob aelod o deulu ddymuno cadw pob aelod arall rhag cyfeiliorni: *chwaer gymdeithasau* ydynt, yn rhodio wrth yr un rheol, ac yn addef ymddarostyngiad i'r un Arglwydd. Trwy eu bod yn proffesu un Arglwydd, un ffydd, un bedydd, y mae iddynt gwlwm undeb cryf ac anwahanol. Gan hyny, y mae yn unol â rheswm, fel y mae ag ysgrythyr, eu bod yn teimlo dros eu gilydd, gan eiddigeddu dros anrhydedd y Meistr a wasanaethant, ac yn anfoddlawn i adael un brycheuyn i aros ar ei chwaer-eglwys ag a rwystrai ei llwyddiant, neu a roddai gam-olwg ar ei chymeriad yngholwg y byd."

Mae y gŵr dysgedig hwn yn addef yr angenrheidrwydd am y cyfryw gymanfaoedd, a'r buddioldeb o honynt, i gyflawni rhyw ddybenion, ac o fewn rhyw derfynau. "Ac," meddai, "wrth ddwyn cymundeb gwahanol eglwysi i weithrediad, yn y pethau crybwylledig, defnyddiwyd gwahanol gynlluniau; a gadawyd yr holl achos i ddoethineb Cristionogol. Oddiyma ffurfiwyd amrywiol drefniadau, y rhai a elwir dan wahanol enwau, ac a gyflawnant eu gwaith priodol, mewn gwahanol ddulliau. I'r cyfryw gymanfaoedd, nid oes un wrthddadl deg, os gadewir rhyddid pob eglwys neillduol heb ei gyffwrdd; ni ellir eu condemnio fel anysgrythyrol, yn unig am nad oes esiampl o honynt yn y dyddiau apostolaidd. Pa enw bynag fydd arnynt, ai synodau, cynghorau, neu gymanfaoedd; gallant fod yn dra defnyddiol i'r eglwysi, a gwasanaethu i lwyddiant crefydd. Pa faint bynag o ddoethineb a all fod wedi ymgrynhoi, mewn un gymdeithas Gristionogol, fe gyfyd ynddi achosion y gallai dderbyn lleshad oddiwrth gynghorion rhai eraill."

Nid y cwestiwn, gan hyny, ydyw, ai buddiol ac angenrheidiol y cymanfaoedd, ai peidio; ai cyfreithlawn neu anghyfreithlawn; gan yr addefir ar bob llaw eu cyfreithlondeb a'u buddioldeb; ond y cwestiwn ydyw, pa beth a pha faint, ydyw eu hawdurdod? Gwyddom y gellir eu cam-ddefnyddio. Pa beth da sydd na ellir ei gam-arfer? Ond gan mai yn y cam-arferiad o honynt y mae y drwg, y mae y ddadl am eu buddioldeb cynhenid ar ben. Rhaid troi y gwrthwynebiad yn erbyn y cam-ddefnydd hwnw, pan y dygwyddo; ac nid yn erbyn y sefydliad ei hun.

At yr ail ran o'r wrthddadl, sef "fod y cymanfaoedd dan sylw, yn offer trais a thra-arglwyddiaeth ar eglwysi neillduol, ac felly, yn beryglus; ac mai mwy dyogel fyddai bod hebddynt." Mae hyn, fel y dywedwyd, yn dibynu ar y modd y defnyddir hwy; ac nid yw y posiblrwydd, nac yn wir, y tebygolrwydd o gam-ddefnyddiad peth, yn ddigon o reswm, bob amser, i osod y peth hwnw o'r naill du; pan y gellir profi, dan amgylchiadau gwahanol, fod yr un peth hwnw yn ateb dybenion buddiol a goruchel. Yr hyn a ddylid ei wneyd ydyw gochel y cam-arferiad o'r peth, a dal gafael yn y peth ei hun. Mae grym yr ymresymiad hwn, mor eglur, fel mai afreidiol ydyw chwanegu. Ond a ydyw ymgorfforiad cyfundebol y Methodistiaid yn offeryn trais ar yr eglwysi? A ydyw yn ffaith fod y gwahanol ganghenau dan ryw orthrym-

der? Tybiwn y gellir ateb, heb fod yn euog o amryfusedd na bai, nad oes dim eglwysi yn Nghymru, Lloegr, nag Ysgotland, pa beth bynag am y byd i gyd, a llai o drais arnynt, na'r eiddo y Methodistiaid Calfinaidd. Tyst eu diddigrwydd a'u hunedd er ys can' mlynedd; ïe, gellir dyweyd hefyd, nid yn unig eu bod felly *de facto*, ond eu bod felly *de jure*. Nid mewn gweithred yn unig, ond eu bod felly trwy rinwedd y cyfansoddiad ei hun.

Am ryddid, neu hawl eglwys, i drafod ei hachosion ei hun, gallwn sicrhau fod eglwysi y Methodistiaid yn ei fwynhau gymaint ag y byddai yn ddymunol gan ddynion o gydwybodau tyner, gan y rhai yn unig y mae yr hawl i fod yn aelodau eglwys, ei gael. Gwir ydyw, fod gan bob eglwys ei rheolau gosodedig, ar ba rai y'i sylfaenwyd ar y dechreu; ac i weinyddu pa rai y galwyd ei swyddogion, ac yr adeiladwyd y tŷ addoliad. Bwriwn mai Calfiniaeth oedd yr athrawiaeth a broffesid gan yr aelodau cyntaf, ac mai y ffurf Fethodistaidd oedd ar yr holl drafodaeth grefyddol o'r dechreu. Y cwestiwn ydyw, i ba raddau y mae i'r eglwys a gyfansoddir yn y modd uchod, ryddid i ymadael â'r broffes gyntefig, a honi eu lle yn y cyfundeb, a pharhau i ddefnyddio yr addoldŷ? Am eu rhyddid, neu eu hawl i ymadael â'r cyfundeb, a chilio at enwad mwy dymunol ganddynt, nid oes neb yn ei wadu, nac yn ei amheu; ond y ddadl ydyw, pe byddai nifer o'r aelodau, ïe, y gor-nifer, yn gŵyro oddiwrth Galfiniaeth at Sosiniaeth, neu Antinomiaeth, a oes hawl gan neb, oddiallan i'r eglwys hono, i ymyraeth yn yr achos? Dysgwyliaf y dywed rhyw un, nac oes; ddim pellach na diarddel pob cymundeb â hi. Beth ynte a ddywedir am yr addoldŷ? Ai cyfiawn y bernir i'r addoldŷ a godwyd i un dyben, gael ei ddefnyddio i ddyben cwbl wahanol? Os nad cyfiawn hyny, yna y cwbl a wneid â'r aelodau Sosinaidd neu Antimonaidd, fyddai eu bwrw hwy allan o'r eglwys hono, a llesteirio iddynt draws-feddiannu addoldŷ nad oedd eiddo iddynt;—a pha drais ar eglwys fyddai hyn? —tybygem, mai attal trais a fyddai, ac nid ei wneuthur. Mae i bob eglwys ryddid i dderbyn aelodau i'r cymundeb, i'r graddau y bydd yr ymgeiswyr yn dwyn nodau ysgrythyrol arnynt; neu ynte i fwrw allan y rhai afreolus. Mae ganddi hawl i ddewis diaconiaid o fysg ei haelodau, nid o'r byd mae'n wir; ac i wahodd i weinyddu gair y bywyd i'r gynulleidfa, y neb a fynont o bregethwyr y cyfundeb, a hyny mor aml, neu anaml, ag a fynont. Nid oes appelio byth, ond at eu hewyllys da, pan y gofynir am eu cyfraniadau at ryw achos. Yn mha le, gan hyny, y mae y trais? Pa le, o ddirif, y mae y gorthrwm? Ar bob achos o ddysgyblaeth, neu o drefniant, mewn eglwys, gosodir yr achos, ger bron; dangosir y buddioldeb o hono; ac fe'i penderfynir yn y diwedd, gan yr eglwys ei hun, os gall hi ei benderfynu hefyd. Ond beth pe cyfodai dadl o fewn yr eglwys ar y peth, a thrwy hyny fod heddwch yr eglwys, a'i llwyddiant, mewn perygl o gael eu dyrysu, ai nid buddiol a fyddai galw am gynorthwy brodyr o eglwysi eraill i ddarostwng yr aflwydd? a hyny trwy fod yr eglwys ei hun yn galw am y cynorthwy hwnw? a bod y cenadon yn cael eu hanfon fel dirprwywyr y cyfundeb y perthyn yr eglwys

iddo. Anhawdd iawn, tybygid, ydyw canfod trais yn hyn ychwaith. Trais fyddai dirgymhell eglwys i dderbyn i gymundeb ymgeisydd anghymeradwy ganddi, neu fwrw un allan a hoffid ganddi. Trais fyddai gosod rhwymau arni gymeryd rhai i bregethu iddi, y byddai ganddi sicrwydd nad oeddynt gymhwys i fod yn y weinidogaeth; a thrais a fyddai defnyddio cyfraniadau y bobl at amcanion gwahanol i'r hyn a broffesid eu casglu atynt, a hyny heb eu caniatâd; ond trwy drugaredd nid oes dim o hyn yn cael ei wneyd.

Rhaid, mae'n wir, bod *rhyw rwymau*, lle byddo *cymdeithas*. I'r graddau y mae ymgorfforiad, a chydweithrediad yn angenrheidiol, i'r un graddau y mae rhyddid unigol yn colli. Mae hyn yn perthyn i *bob* cymdeithas; mewn teulu, mewn gwlad, ac mewn eglwys. Nid yw y dyn a fyn yn wastad ei farn, neu ei fympwy, ei hun, yn gymhwys i fod yn aelod o un gymdeithas yn y byd; a llawer llai yn aelod o eglwys Dduw, yr hon nad oes dim yn rhwymyn iddi ond cariad ac addfwynder. Er mwyn y breintiau a'r buddioldeb a berthyn i gymdeithas, boddlon ydym i ymostwng i'w hiau; ond ni ellir cael y naill heb y llall. Mae hyn yn bod yn y gymdeithas Fethodistaidd fel pob un arall. A pha galedi sydd yn hyn? Onid oes i bob cymdeithas ei phris? Ac os tybir y pris yn rhy uchel, nid oes orfod ar neb i ymostwng iddo. Wedi hir feddwl ar y mater, ac wedi maith gydnabyddiaeth â Methodistiaeth yr hanner can' mlynedd diweddaf, rhydd wyf i ddyweyd nad wyf fi yn canfod dim rhwymau afreidiol, ar aelodau, canghen eglwysi, na swyddogion y cyfundeb; dim ond sydd yn codi yn naturiol, ac angenrheidiol, o natur y gymdeithas ei hun; a dim ond sydd dda eu bod, er attal drygau penrhyddid ac annhrefn i ruthro yn anaele i mewn. Rhaid bod rhyw argaeau i attal heresiau i'r pwlpudau; rhyw wrthgloddiau i lesteirio y baedd o'r coed, a bwystfil y maes, i bori y winllan a blanodd deheulaw Duw; rhyw attalfeydd i fympwy ac anwydau personol i gael eu rhwysg, ac i ystryw dynion drygionus gael eu hamcan. Ond am roddi rhwystr ar ffordd dynion da eu gair, gonest eu hamcan, a thyner eu cydwybodau, i wneuthur daioni hyd y gallant, nid oes yma rith o'r fath beth; yn hytrach pob annogaeth ac amddiffyniad.

Nid yw cymanfaoedd a chyfarfodydd misol y cyfundeb ddim wedi eu bwr iadu o'r dechreuad yn offer trais a gorthrwm; ond yn foddion undeb, cydymdeimlad, cydweithrediad, a chadernid i'r cwbl. Arwydd o anghysur ydyw fod yn rhaid ymofyn pa le y gorwedd y prif awdurdod; pa un ai yn yr eglwysi i lywodraethu y cyfarfodydd misol, ac yn y cyfarfodydd misol i lywodraethu y cwbl. Pa awdurdod bynag sydd, ac yn mha le bynag y mae ei brif eisteddle, y mae ef felly o *gydsyniad*, ac wedi ei gymeryd yn wirfoddol gan yr holl ddeiliaid arnynt eu hunain; nid caledi mawr, tybygid, yw hyny. A phe ymddangosai i neb fod rhyw newidiad yn y trefniadau yn angenrheidiol, neu ryw ychwanegiad atynt; nid oes un rhwystr i hyny gael ei ddwyn o amgylch; ond iddo gael ei wneuthur trwy gydsyniad cyffredinol, ac yn unol â'r rheolau gosodedig. Ië, nid oes un attalfa ar ffordd un eglwys, i gyfansoddi rhyw reolau iddi ei hunan, trwy gydsyniad yr aelodau, ac mewn hedd-

wch, am na byddo y rheolau hyny yn cyffwrdd â phethau hanfodol y cyfundeb; y mae yma le i amrywiaeth dulliau a threfniadau, ond nid i wrthdarawiad egwyddorion hanfodol. Ac amrywiaeth lawer sydd yn y mân bethau hyn, yn ngwahanol eglwysi y Methodistiaid, cymaint ag sydd i'w gael yn mysg un enwad arall o Gristionogion; a daioni hefyd y mae yr amrywiaeth hwnw yn ei arwyddo, yn gymaint ai fod yn argoel o fywyd, ac o farn. Ni fynem, ar un cyfrif, weled unffurfiaeth marwolaeth ar yr holl eglwysi, mwy nag y dymunem weled anffurfiaeth direol a gwrthun arnynt. Mae unffurfiaeth ac amrywiaeth wedi ymblethu yn holl weithredoedd Duw. Yn hyn y mae harddwch a doethineb annrhaethol. Mae wynebau dynion dianaf yn unffurf, eto yn amrywio; mae dail y coed a llysiau y maes felly; ïe, y mae yn ddeddf gyffredinol creadigaeth Duw. At hyn, gan hyny, y dylem ninau amcanu gyda sefydliadau crefyddol; eu cael yn unffurf, mewn pethau hanfodol a digyfnewid, ond yn amrywiol eu harweddau ymarferol. Mae y ddwy elfen hon yn sicr o fod, lle byddo bywyd crefydd yn gweithredu yn rymus; os bydd llacrwydd penrhydd yn peri amrywiaeth *ymhob peth*, y mae y creadur lluniaidd yn cael ei droi yn anghenfil gwrthun. Os ar y llaw arall, y bydd unffurfiaeth manwl yn mhob peth fel eu gilydd, darostyngwyd bywyd ar wedd peiriant, a newidiwyd gogoniant dwyfol am fanylrwydd celfyddyd. Goddefer i mi drachefn ddyweyd, heb fwriadu un sarhad ar un enwad arall, fy mod yn hoffi Methodistiaeth Cymru, o herwydd yr ymblethiad a welaf ynddo o'r ddwy elfen hon. Nid yw yr eglwysi mor rhydd ag y mynai mympwy a phenchwibandod ambell un iddynt fod; ac nid ydynt mor rhwym ag y mynai tra-arglwyddiaeth rhai eraill iddynt fod. Y maent mor rhwym na oddefir ynddynt heresiau na drwg-fucheddau; ond mor rhydd ag y goddefir i farn a doethineb gael eu dylanwad yn ngwahanol ysgogiadau yr achos. Mae rhyddid diderfyn yn ddinystr; dan ddeddf y dylai creadur fod; dan ddeddf yn y lle cyntaf i Dduw; a than ddeddf wedi hyny i'w gyd-greadur. Cyfrifol i Dduw ydyw dyn, am droseddu deddf ei natur, a chyfrifol i ddynion am droseddu deddf y gymdeithas y mae yn aelod o honi. Dylai deddfau cymdeithas, gan hyny, fod bob amser y fath na thueddant i droseddu deddf ein natur, a honiadau cydwybod; oblegid "rhaid yw ufuddhau i Dduw yn fwy nag i ddynion." Ond yma ni all fod hawliau cydwybod ddim yn cael eu troseddu, gan fod rhyddid i bob un, yn y fan y gwneler hyny, ymneillduo oddiwrth y gymdeithas; neu ynte, i ymdrechu mewn ysbryd cariad, a doethineb, i ennill y gymdeithas i'w feddwl ei hun, a bwrw heibio y peth a barai archoll i'w gydwybod. Ac oni all y cyfryw un, mewn cymdeithas o bobl cystal ag ef ei hun, eu hennill, bydd ganddo le i amheu, mai mympwy sydd yn ei lywodraethu, ac nid cydwybod; gan mai nid cydwybod i'r gwirionedd yw pob peth a elwir felly.

Dywedasom mai nid amcan Henaduriaeth, neu gorfforiad canghen-eglwysi yn un cyfundeb, ydoedd ffurfio *llys o awdurdod* gymaint; ond

ffurfio moddion o *undeb a chydweithrediad*. Nid yw yn ymddangos mai buddiol ydyw i eglwys, er fod hanfodion eglwys ynddi, fod yn llwyr ddidoledig oddiwrth gyffelyb eglwysi eraill. Onid wrth yr un rheol y maent yn proffesu rhodio? Os oes undeb gwreiddiol a gwirioneddol o'r fath rhyngddynt, paham na roddid *amlygiad* iddo, trwy ryw ffurf ymarferol? cyn belled ag y byddo amgylchiadau a lle yn caniatâu. Gwyddom na all y naill oes ddim ymuno ag oes arall, na'r naill wlad bellenig ymuno â gwlad bellenig arall. Ond pa beth sydd yn attal i rai o'r un egwyddorion athrawiaethol, a'r un ddysgyblaeth broffesedig, yn yr un wlad ac oes, ymuno â'u gilydd, fel ag i ffurfio undeb corfforedig ac ymarferol, oddieithr ei bod yn egwyddor ganddynt oll ymddihatru oddiwrth eu gilydd? Ond pa beth yw hyny ond penderfyniad i sefyll yn erbyn yr hyn sydd dda a buddiol? Mae rhyw undeb a chydweithrediad yn ymwthio i mewn, er pob penderfyniad i'w cau allan. Mae aelodau un eglwys yn symud eu cartref, a chymhwys fydd eu derbyn trwy lythyrau canmoliaeth i eglwys arall. Mae eglwys mewn un man yn ymddifad o weinidog, a da fydd cael cynorthwy oddiwrth eglwys arall ar yr adeg; mae gweinidog i gael ei ordeinio, a thrwy gynorthwy gweinidogion eglwysi eraill y gwneir hyny; mae eisiau addoldŷ eang ar eglwys wan, i ateb i gynulleidfa luosog, mewn ardal boblogaidd; ac i ba le yr ymofynir am gymhorth, ond at eglwysi eraill? Pan y gŵyra gweinidog a chynulleidfa i heresi, neu anfuchedd, gwna eglwysi eraill sylw o'r ffaith; ac os gwrthodir eu gwasanaeth, er adferu yr eglwys ddirywiedig, cytuna yr eglwysi eraill i gilio oddiwrthi, gan ymddihatru oddiwrth bob cymdeithas â hi. Pan doro ymryson allan rhwng gweinidog â'i eglwys, neu yn mysg yr aelodau, ac os parhau a wna, er pob cais tu fewnol i'w ddyhuddo, gelwir am gyfryngiad eglwysi eraill i wneyd hyny; ac os metha pawb, nid oes dim ond gadael yr eglwys afrywiog iddi ei hunan. Mae yn yr holl amgylchiadau hyn gydnabyddiaeth yn cael ei wneuthur o fuddioldeb a chydweithrediad gwahanol eglwysi â'u gilydd; a chydnabyddiaeth hefyd, y cyfyd amgylchiadau y bydd raid cael rhyw gymaint o gyfryngiad eglwysi eraill, i'r dyben i allu cyfarfod â hwy yn effeithiol. Paham, ynte, y sonir cymaint am annibyniaeth eglwys? Nid mor annibynol ydyw canghen eglwys wedi y cwbl. Rhaid iddi yn fynych iawn wrth wasanaeth cynghor a chynorthwy eglwysi eraill; a phaham yr achwynir cymaint ar beirian-drefn a gyd-ffurfir ganddynt oll, i weinyddu y cynorthwy gofynol i bob un? A pha beth yw y beirian-drefn Fethodistaidd, ond un y cytuna yr eglwysi arni i'w gwasanaethu eu hunain a'u gilydd? Yn y pen draw, y gwahaniaeth mawr rhwng y beirian-drefn Gynulleidfaol a'r un Henaduriaethol, ydyw, fod yr ymyriad a ddygwyddo fod â gwahanol eglwysi gan yr olaf, yn fwy, *wrth gwrs*, ac yn ol *rheolau adnabyddus*, nag yn y llall; a bod mwy o rym yn yr ymyriad hwnw, i osod angenrheidrwydd ar y sawl a fyn eu ffordd eu hunain, ymofyn am adeilad arall, a chyfundeb arall, i'w gwasanaethu. Ond

feallai, mai yn erbyn hyn, yn arbenig, y gwrth-ddadleuir; sef yn erbyn pob ymyriad pellach, na chynyg cynghor neu gynorthwy. Os ysgogir ymhellach, mai trais a thra-arglwyddiaeth a fydd. Yn y gwrthwyneb, barn yr ysgrifenydd ydyw, mai *attal* trais a wna. Onid trais a fyddai i ddynion ddefnyddio yr adeilad a godwyd i ddyben pennodol, a thrwy gynorthwy cyffredin, at ddybenion gwrthwynebol, ac wrth eu barn neu eu mympwy eu hunain? Ac onid attal anghysonedd a drygair, ac nid eu wneuthur, a fyddai atal gweinidog a fynai weini i'r eglwys neu i'r aelodau enciliedig, a chadw ei safle gyda'i frodyr fel o'r blaen? Y mae yn rhydd i'w gwasanaethu os hyny a ddewisa, ond y mae yn rhwym i golli y lle oedd ganddo trwy hyny. A cheisio y ddau a fyddai ceisio rhyddid i wneyd fel y myno ei hunan; ar draws rheolau cymdeithas: yr hyn ni ddylid ei oddef mewn un gymdeithas dan haul.

Nid y lleiaf ei gwerth yn elfenau y cyfansoddiad Methodistaidd ydyw yr *egwyddor welliadol* sydd ynddo. Yr ydym wedi cyffwrdd yn ysgafn â hyn o'r blaen; ond nid i'r graddau, tybygid, ag y mae pwys yr egwyddor yn haeddu. Yn y lle cyntaf, y mae pob peth y dyry dyn ei law wrtho, neu ei ddelw arno yn rhwym o fod yn *anmherffaith*. Gadawer i'r Pab o Rufain y trahâ a'r rhyfyg o honi anffaeledigrwydd. Pell oddiwrth berffeithrwydd, rhaid addef, ydyw y gyfundrefn Fethodistaidd; a chawn, cyn rhoddi yr ysgrifell heibio, gyffwrdd yn dyner â rhai o'i gwallau. Ond hyn sydd ganmoladwy, fod ynddi elfen i gyfarfod a gwahanol wallau fel y deuant i'r amlwg; a chafwyd prawf ymarferol, ar lawer adeg a fu ar y cyfundeb, mai ei *safety valve* oedd yr elfen welliadol. Ac er fod y cyfundeb wedi oesi can' mlynedd a mwy, eto nid yw wedi cyrhaedd perffeithrwydd eto; ac nid yw yr egwyddor welliadol ddim eto wedi gorphen ei gwaith, nac ychwaith wedi ei gosod o'r neilldu; ond y mae cymaint o warogaeth yn cael ei ddangos iddi yn awr ag un amser o'r blaen; a chymaint, hefyd o angenrheidrwydd am dani.

Yn gysylltiedig â'r mater hwn, y mae dau ddrwg a ddylid eu gochel, sef *ymlyniad tyn wrth bethau hen;* ac, *ysfa wyllt am bethau newyddion*. Mae y ddwy graig i'w gochel, y naill fel y llall. Yn eglwys Dduw nid oes dim i sefyll drosto yn *unig* am ei fod yn hen, na dim i'w geisio yn *unig* am ei fod yn newydd. Daioni a buddioldeb yr hen beth sydd yn teilyngu i ddynion sefyll drosto yn egniol a ffyddlawn: a daioni a buddioldeb y peth newydd yn unig a ddylai argymhell derbyniad iddo. Mae yr hen bobl yn dueddol iawn o ogwyddo i'r syniad mai sefyll at yr hen sefydliadau a ddylid. Nid ydym yn awr yn cyfeirio at egwyddorion athrawiaethol, nac at ddim arall y mae datguddiad dwyfol wedi rhoddi argraff barhaus a digyfnewid arno; ond cyfeirio yr ydym yn awr at y dull a'r modd y cyfarfyddir â gwahanol amgylchiadau trwy wahanol drefniadau dynol. Dylid cofio hefyd, nad oes gan eglwys Dduw ddim hawl i ddwyn dim i mewn, na newid dim a ddygasid i mewn o'r blaen, ond oddiar argyhoeddiad dwys a chywir ei fod yn tueddu i hyrwyddo teyrnas Crist yn ei blaen; a'i fod hefyd yn gyson ag

egwyddorion amlwg yr ysgrythyrau. Oblegyd nid cymdeithas ddynol ydyw eglwys Crist; nid math o *glwb* ydyw, y mae gan yr aelodau hawl i wneyd y rheolau a fynant ynddo. Nid oes gan neb awdurdod i osod rheolau yma i'r dyben o dderchafu personau, nac i wasanaethu un amcan hunanol a llygredig; a dylid cofio hefyd, pa osodiadau bynag a sefydlid oddiar y dyben goreu, ag a brofwyd yn effeithiol a da yn eu tymhor, fod gan yr eglwys awdurdod i'w tynu i lawr drachefn, os aneffeithiol a fyddant mewn tymhor arall. Nid oes rhwymau gan hyny ar un oes i ddal at sefydliadau yr oes flaenorol, ddim pellach nag y profir ei buddioldeb parhaus. Yn eu buddioldeb yr oedd eu grym; a dichon trefn neu sefydliad fod yn fuddiol ar un adeg, heb fod felly ar adeg arall. A chan mai yn yr eglwys yr oedd yr awdurdod i farnu eu buddioldeb yn y dechreu, y mae hawl gan yr un eglwys i farnu y cymhwysder o'u parhad. Yr oedd llawer o sefydliadau y Goruchaf ei hun yn ei eglwys, yn ystod ei mabandod, wedi eu gosod i fyny i gyfarfod ag amgylchiadau neilldu-ol; oll yn anhebgorol ar y pryd, ond yn afreidiol, dan amgylchiadau gwahanol. Yr oedd yr holl seremoniau cysgodol felly. Da oedd cael y manna mewn anialwch; rhaid oedd wrth y sarff bres yn yr adeg. Eto nid oeddynt i barhau, wedi i'r oruchwyliaeth a alwai am danynt ddiflanu. Fe ddichon fod tuedd neillduol a gormodol mewn dynion, yn enwedig rhyw ddosbarth o ddynion, i ddal at y pethau, neu y sefydliad a fu unwaith yn fuddiol; a hyny wedi i'r budioldeb hwnw golli; yn unig ar gyfrif ei fuddioldeb blaenorol. Nid o ysfa mae'n wir y dylid eu rhoddi o'r neilldu. Dylai eu buddoldeb blaenorol genedlu parch iddynt, a pheri pwyll ac arafwch gyda golwg ar eu symudiad; eto nid yw eu *henaint yn unig* yn ddigon o reswm am eu parhad. Mae i'r duedd hon o sefyll at hen arferion a fu yn wasanaethgar a da yn eu tymhor ddylanwad mawr, yn gymaint a'i bod yn ffynu yn fwyaf mewn gwŷr oedranus o ran dyddiau; a gwŷr gwastad eu tymherau. A phan y profir tuhwnt i ddadl fod daioni a buddioldeb tra mawr wedi deillio oddwrth unrhyw beiriandrefn, mewn tymhor blaenorol, nid mor hawdd ydyw profi, mai ynddi hi y mae y gwall, na bai yr un beirian-drefn yr un mor fuddiol ac effeithiol yn y tymhor presenol. Y mae yn anhawdd coelio yr anair a roddir i un a ennillasai eisoes air da. Ac nid hawdd ydyw cael dedfryd yn erbyn hen beiriandrefn fuddiol. Rhoddir y bai yn gyffredin ar y rhai a fydd yn eu harolygu, neu yn eu defnyddio, na fyddai hi mor effeithiol a chynt. Ac fe ddylid bod yn bwyllog iawn mewn symudid o'r fath. Mae natur a gras yn codi eu llef yn erbyn byrbwylldra, ac anwiliadwriaeth, yn y fath achos. Eto dylid gofalu o hyd mae yn ei *buddioldeb* ac nid yn ei *henaint* y mae ei gwerth. Ac er hoffed genym yr hen ddilledyn, o herwydd y gwasanaeth a gaed oddiwrtho; eto, pan y mae ei harddwch a'i glydwch wedi colli, gweddus fydd ei roi o'r neilldu. Hen arferiad dda, arferiad a fu o ddirfawr fantais ar y pryd, ac o dan yr amgylchiadau, oedd, gwaith yr hen dadau Methodistaidd yn ymgasglu yn finteioedd i ryw fanau neillduol bob mis, megys, Llangeitho, Llanlluan, Capel Gyfylchi, Llangan, Capel Newydd yn y

Deheubarth, a'r Bala yn y Gogledd; lle y cyfrenid swper yr Arglwydd i luaws mawr iawn o gymunwyr a ddeuent ynghyd o bob cŵr o'r wlad. Nid oes un amheuaeth na fu y ddefod hon o ddefnydd tra mawr yn ei dydd; ac anmhosibl, tybygid, a fuasai ei disodli, trwy ddwyn i mewn ryw ffurf arall, pe ceisiasid hyny, hyd nes y gwisgodd y peiriant ei hun allan. Mor anhawdd a fyddai yn awr *godi* y fath arferiad, ag a fuasai ar y pryd ei thynu i lawr. Bu i'r ddefod ei thymhor—tymhor ei defnyddioldeb; a'i gwerth, yr hwn, bellach, sydd wedi hen ddiflanu.

Dros ysbaid 60 mlynedd, neu fwy, yr oedd yn arferiad gan y crefyddwyr Methodistaidd, deithio llawer oddi cartref i wrando pregethau. Mewn tymhor yr oedd y pregethwyr yn anaml, a'r pregethau yn dra effeithiol, yr oedd hyn. Dygasid y crefyddwyr i fyny i barchu ac i ddefnyddio yr arferiad hon, fel un ag oedd yn argoeli gofal canmoladwy am ymgeledd ysbrydol i'w heneidiau; ac nid oes lle i amheu, na fu yr arferiad yn gynyrchiol o lesâd i filoedd o blant Duw. Pan y deuai gŵr dyeithr o'r Deheubarth, lle y deuai y rhan fwyaf, y pryd hwnw, neu ambell un enwog o'r Gogledd, drwy y wlad i bregethu, dilynid ef gan grefyddwyr y wlad i luaws o fanau yn olynol. Ac ar y Sabbothau, rhaid oedd yn fynych fyned i ardaloedd eraill, cyn y gallai crefyddwyr llawer bro gael clywed gair Duw. Aeth y cyniwair hyn yn arferiad gyffredinol. Ymblethai ei fuddioldeb yn syniad a phrofiad y crefyddwyr ymron yn ddiwahaniaeth. Pan y gwnaed cais, gan hyny, ar sefydlu ysgolion Sabbothol, ymhob ardal; ac i'r dyben hyny, alw ar ryw rai, o leiaf, i aros gartref, edrychid ar yr amcan, fel un ag oedd yn tueddu yn uniongyrchol i ddinystrio hyny o deimlad crefyddol ag oedd yn y wlad. Mawr iawn oedd y gwrthwynebiad a gafodd; ïe, yr oedd y gwrthwynebiad yn codi oddiwrth y rhan oreu, a henaf o'r crefyddwyr,—dynion a brofasent eu hunain lawer o awch y gwirionedd ar eu cydwybodau; ac a lochent, yn y canlyniad, barch angherddol i weinidogaeth gyhoeddus yr efengyl;—dynion ag nad oedd neb yn tybied fod ganddynt ddim yn eu hysgogi ond cariad at yr efengyl, ac eiddigedd dros leshad eneidiau. Anhawdd iawn, oedd ateb gwrthddadleuon y dynion hyn; yr oedd yn hawdd profi fod pregethu yr efengyl yn ordinhad ddwyfol, ond nid mor amlwg oedd fod dysgu plant i ddarllen ar y Sabboth felly. Yr oedd buddioldeb un eisoes wedi ei brofi er ys blynyddau; a gellid sicrhau fod y daioni a wnaed yn Nghymru, wedi ei wneuthur trwy hyny; ond yr oedd buddioldeb y llall eto heb ei brofi; rhaid, gan hyny, fod anhawsdra tra mawr, i godi ysgolion Sabbothol yn y tymhor hwnw. Gwaith diflas iawn hefyd oedd dysgu nifer o blant, direol a difoesau, mewn cydmariaeth, i fyned i'r cymydogaethau nesaf i wrando pregethwr doniol a gwlithog; dros flynyddau, gan hyny, bu yr ysgolion Sabbothol, er holl ddylanwad a hynawsedd Mr. Charles, ac eraill, yn ychydig eu rhif, yn nychlyd eu gwedd, ac mewn perygl o syrthio. Ië, haerai rhai gŵŷr uchel eu cymeriad, a defnyddiol eu llafur, nad oedd dysgu plant i ddarllen, mwy na dysgu rhyw grefft arall, ddim llai na halogiad ar ddydd yr Arglwydd. Anhawdd iawn yn ddiau

oedd cael safle i'r peth newydd hwn. Y llais cyffredin yn mysg y crefyddwyr oedd, mai gwell oedd yr hen ddefod; a thros flynyddau lawer gwrthododd yr hen bobl i syrthio i mewn â'r un newydd. Ac wedi y cwbl, bu yr ysgolion gwrthodedig hyn; y beirian-drefn newydd hon, o wasanaeth dirfawr i'r genedl. Pa beth a fu yn fwy felly? Yr ydym yn cyfeirio at yr amgylchiadau adnabyddus uchod, fel engrheifftiau diymwad, o'r gosodiad y dadleuwn drosto; sef nad oes dim i sefyll drosto yn unig ar gyfrif ei fuddioldeb blaenorol; na dim i'w wrthod yn unig ar gyfrif ei newydd-deb; fod i wahanol ddefodau eu tymhor, a'u dydd; ac er y dylid bod yn ochelgar a doeth, gyda phob newidiad, eto, dylid cofio yn wastad, fod y Jehofah mawr wedi argraffu "*cyfnewidiol*" ar bob dim, ond ar ei sefydliadau ei hun. Nid yw y gais ynte, o osod parhad diderfyn ar drefniadau dynol, pa mor wasanaethgar bynag a fyddont yn eu tymhor, ond cais i dderchafu callineb y creadur i gyd-wastadrwydd â doethineb yr Anfaeledig.

Anweddus ac anghyson i Fethodistiaid, tybygid, yn anad neb, ydyw sefyll yn gyndyn dros hen sefydliadau, er ei fod, y mae yn rhaid addef, mor dueddol iddynt ag i neb. Mynych y cymhellir y cynghor, "Na symud mor hen derfyn, yr hwn a osododd dy dadau." Mynych y clywir y dywediad, "Yn y wedd yma y llwyddodd Duw ni." Ië, gelwir ar bob gweinidog wrth ei ordeinio i broffesu ei gymeradwyaeth i'r dull y llwyddodd Duw, gorff y Methodistiaid mor fawr hyd yma." Priodol iawn, hefyd, yw y gofyniad; gan na ddylai neb gymeryd ei le fel gweinidog, mewn cyfundeb nad yw yn ei gymeradwyo; eto, y mae yn angenrheidiol deall pa fath oedd y dull y llwyddodd yr Arglwydd ef. Dylid ystyried hyn yn fwy, gan y deallir y gofyniad yn gyffredin, fel pe gelwid am wystl yr ymdrechir am barhad oesol i ryw ddull neilldnol; ac fel pe cauid y drws yn erbyn pob cyfnewidiadau. Ond y gwirioncdd wedi y cwbl yw, mai y "dull y llwyddodd yr Arglwydd y Methodistiaid hyd yma," ydyw sefyll yn dŷn at hanfodion crefydd, ac ymostwng yn frawdol i gyfnewidiadau parhaus. Hwn, yn ddiau, yw y dull, neu y wedd a fu ar Fethodistiaeth Cymru, o'r dechreu hyd yn awr; pa fodd bynag y deallir yr ymadrodd uchod. Felly, priodol iawn yw y gofyniad; ac os atebir ef yn gywir a deallus, y mae y gweinidog yn addunedu sefyll yn gadarn yn erbyn pob newydd-deb mewn athrawiaeth ac o blaid purdeb dysgyblaeth; ond i fod yn barod i fabwysiadu unrhyw newidiad yn y beirian-drefn Fethodistaidd ag yr ymddangoso amgylchiadau yn galw am dano; ond i'r newidiad gael ei ddwyn o amgylch mewn pwyll a doethineb, a thrwy gyd-olygiad heddychol.

Nid wyf yn adnabod yr un enwad a mwy o gyfnewidiadau wedi bod arno, o ran ei wedd amgylchiadol, a llai o ran ei bethau hanfodol, na chyfundeb y Methodistiaid. Nid yw eto wedi oesi, ond ychydig gyda chan' mlynedd; eto y mae llawer gwedd wedi bod arno. Fel y bu ar Israel lawer math o ffurf ac arweddau, o ddyddiau Abraham hyd Joshua, ac yn wir wedi hyny. Yn gyntaf mewn cyflwr *Nomadaidd*, neu grwydraidd, yn amser y patriarchiaid, Isaac a Jacob; wedi hyny, mewn caethiwed caled

yn yr Aifft; ar ol hyny, dan ddysgyblaeth lem yn yr anialwch; wedi hyny yn sefydlog yn Nghanaan; ac ar ol hyny, bu llawer ystum arnynt hwy, dan eu barnwyr, a thau eu breninoedd, ac yn eu caethiwed, ac ar ol eu hadferiad. Felly, yn lled gyffelyb y bu gyda'r Methodistiaid. Aeth y chwe' blynedd cyntaf heibio cyn iddo dderbyn un ffurf; o'r fl. 1742 hyd 1751, bu ffurf arall arno. Hyd at y fl. 1760, yr oedd fel Israel yn yr Aifft, dan gaethiwed trwm o herwydd yr ymraniad. Am y 30 mlynedd a ganlynodd, cynyddodd dan weinidogaeth awchlym, a diwygiadau nerthol: yr oedd yn cael ei arolygu a'i noddi yn benaf gan offeiriaid efengylaidd, ac yn dyoddef erlidigaeth chwerw. Am yr 20 mlynedd dilynol, rhoddwyd y prif ysgogiad i'r cyfundeb trwy sefydliad ysgolion Sabbothol, a thrwy weinidogaeth lleygwyr enwog; ac adeg oedd hon yr oedd dylanwad yr offeiriaid yn lleihau; hyd nes yr esgorodd ar y cam y dywedir iddo dori y cwlwm oedd rhyngddo âg eglwys Loegr. O hyny hyd yn awr, aeth rhagddo i ymledaenu a lluosogi yn ddirfawr; heb lawer o gyfnewidiadau mawrion; ond nid heb argoeli bellach ei fod yn aeddfedu i ryw gyfnewidiad eto. Bellach, y mae athrofeydd wedi eu sylfaenu; yr alwad am ddysgeidiaeth yn y pregethwyr yn cryfhau; eglwysi yn anesmwytho am fugeiliaeth mwy cyson a rheolaidd; diwygiadau nerthol wedi darfod; llesoldeb mawr y cymanfaoedd wedi llaesu, a lluaws o bethau eraill; rhai dymunol, ac eraill annymunol, yn argoeli y bydd raid gwneuthur newidiadau eto. Doethineb fyddai peidio bod yn ddiofal nac yn gyndyn ar un llaw, nac yn rhyfygus a byrbwyll ar y llaw arall.

Gwelwn wrth hanes Methodistiaeth yn ystod y can' mlynedd a mwy a aeth heibio, ei fod ef wedi disgyn i'r wedd bresenol sydd arno, trwy luaws mawr o newidiadau; ac oni bai fod ei gyfansoddiad yn cynwys lle mawr i'r elfen welliadol o'i fewn, diamheu ydyw y buasai er ys llawer blwyddyn, naill ai wedi gwywo mewn marweidd-dra difywyd, neu ynte wedi ei ddinystrio trwy ymraniadau didrefn. Tra y cedwir yn gadarn a chydwybodol at y gwirionedd mewn athrawiaeth;—tra y bydd gofal ar fod y rhai a dderbynir i'r aelodaeth, ac yn neillduol i'r swyddogaeth, yn meddu ar gywirdeb a gras;—a thra na chaffo mympwy ddim cadw gwelliadau defnyddiol allan, na derbyn newidiadau ffol a diles i mewn, yr hyderwn, er maint yw llygredigaeth y natur ddynol, y bendithir y cyfundeb i barhau, â phresenoldeb "Preswylydd y berth;" ac y gwneir ef yn fendith i lawer oedd.

Ond os oes perygl, o un ochr, i sefyll yn rhy hir, ac yn rhy dŷn at drefniadau dynol, ar ol i'w tymhor defnyddiol fyned heibio; y mae yn beryglus, yr ochr arall, ddwyn i mewn gyfnewidiadau niweidiol, neu ddwyn rhai defnyddiol a da i mewn, mewn dull annoeth; ac mewn adeg na fydd y cyfundeb yn aeddfed i'w derbyn. Mae y perygl hwn yn gysylltiedig â'r ieuenctyd yn benaf; dynion y mae eu nwydau yn gryfion, a'u teimladau yn ddeffrous. Dynion hefyd, o angenrheidrwydd, heb weled ysgogiadau y cyfundeb ond am ychydig flynyddau; ac yn berwi gan awydd i symud rhyw bethau, sydd, yn ol eu barn hwy, yn rhwystr i'w lwyddiant; ac i ddwyn i mewn iddo, drefniad-

au eraill, a farnent hwy yn tra rhagori ar y rhai presenol. Hawdd ydyw i'r cyfryw feio yn drwm ar benglogui diymadferth yr hen; ac i'r hen, hwythau, feio ar benboethni penchwiban yr ieuainc. A sicr ydyw, fod rhedeg i un eithafion, yn achlysur i anfon rhai i eithafion eraill. Mae cyndynrwydd un blaid yn achlysuro byrbwylldra y llall: ac annoethineb rhai yn ceisio dwyn diwygiadau i mewn, yn achlysuro ymosodiad cryf yn eu herbyn gan y lleill. Y mae y ffaith fod y Testament Newydd mor ddystaw ynghylch trefniadau eglwysig, ac mor gyflawn mewn egwyddorion, yn rhoddi lle, fel y dywedasom, i gryn amrywiaeth mewn ffurfiau neu ddefodau; ac yn gosod sail deg i lawer o gyfnewidiadau, i gyfarfod â gwahanol amgylchiadau y gwahanol oesoedd. Ar yr un pryd, y mae y drefn a brofwyd yn ddefnyddiol; ac a goronwyd, mewn modd arbenig â chymeradwyaeth Pen yr eglwys, yn dra theilwng o barch ac ymlyniad; ac na chymered y diwygwyr yn chwith, os cyfarfyddant â brodyr, a fyddo yn amheu eu trefniadau newyddion, heb yn gyntaf fod ymdrech priodol wedi ei wneuthur, gogyfer a dangos gwerth yr hyn a gynygir; ac felly, i ennill cydwybodau a theimladau eu brodyr o'u blaid.

Mae dau berygl i'w ochel mewn cysylltiad â chyfnewidiaeth:—Y cyntaf yw y gwna unrhyw drefn neu newidiad y tro, yr hwn yr edrychir arni yn ddoeth a da, *heb Ysbryd Duw;* a'r ail ydyw, na waeth beth a fyddo y trefniadau, ond cael yr Ysbryd. Mae y ddau ddrwg hyn yn dra pheryglus; ac ar yr un pryd yn dra thueddol i ddynion; ïe, y mae dynion da yn dra darostyngedig iddynt. Ar y naill law, y maent yn barnu fod rhyw ddiffyg yn y gyfundrefn; a bod y diffyg hwnw yn effeithio yn niweidiol ar yr achos. Hawdd ydyw, yn yr amgylchiad, ffwdanu llawer ynghylch y modd o symud y niweid, ac anghofio mai bywyd pob trefn ydyw Ysbryd Duw. Nid dyweyd yr ydym yn erbyn yr ymgais ei hun, ond yn erbyn y syniad, yr atebai y newidiad hwnw, neu unrhyw newidiad arall, y tro, heb yr Ysbryd. Mae colli y teimlad fod yr Ysbryd Glân yn angenrheidiol yn ei dristâu; a phan y cilia efe, y mae gogoniant ac effeithioldeb pob trefn yn diflanu. Rhaid i'r amaethwr ddysgwyl am y gwlaw a'r gwres o'r nefoedd i roddi effeithioldeb yn ei lafur a'i gynlluniau ef. Wrth gychwyn pob ysgogiad, a dybir yn angenrheidiol, dylid gwylio na fyddo ein dysgwyliad yn ymddibynu ar y newidiad, yn fwy nag ar yr Ysbryd; ar y llaw arall, rhaid gochel yr eithaf gwrth-gyferbyniol. Dywed rhai, a hyny gydag ymddangosiad o dduwiolfrydedd mwy na chyffredin, na waeth yr hen ddull un mymryn, mai y cwbl sydd eisiau, ydyw yr Ysbryd. Cyfeiriant at y blynyddau sydd wedi myned heibio, blynyddau diffygiol hynod o ran trefniadau, ac eto llawn o amlygiadau o Dduw; "blynyddoedd deheulaw y Goruchaf." Y mae yn y gosodiad hwn, lawer o wir; eto barnwn nad yw y casgliad a wneir oddiwrth y gwir hwnw, ddim yn deg. Addefir yn rhwydd fod y ddau beth y cyfeiriwyd atynt, sef prinder trefniadau dynol, a helaethrwydd dylanwadau dwyfol, wedi cyd-gyfarfod yn y blynyddau a basiodd; eto gormod peth a fyddai honi, gan iddynt gyd-gyfarfod, fod cysylltiad hanfodol rhyngddynt. Barnwn yn hytrach, nad oedd yr annhrefn, neu y diffyg o drefniadau, ddim

yn *foddion*, chwaithach yn *achos*, o'r dylanwadau hyny, er iddynt gyd-gyfarfod. Fel enghraifft, ni a gyfeiriwn at le, heb enwi un, gan fod llawer o'r cyfryw :—Yr oedd y lle y pregethid ynddo yn hen ysgubor wael a digysur; y diaconiaid yn ddynion byehain iawn eu gwybodaeth, ond efengylaidd iawn eu naws, ar y rhai ni fu galwad ffurfiol erioed i'r swydd, na gosodiad rheolaidd ynddi. Nid oedd i'w gael ond ambell bregeth achlysurol, ac ar ddydd gwaith yn fynych; eto yr oedd profiadau y bobl druain hyn yn loywon iawn; yr oeddynt yn fynych yn llawn o fwynhad, a'u harswyd o herwydd eu santeiddrwydd ar holl drigolion yr ardal. Mynych iawn y byddai awch ofnadwy ar y weinidogaeth, a grymusder anorchfygol yn y bregeth, fel nad oedd dim yn sefyll o'i blaen. Y cyrddau eglwysig, a'r cyfarfodydd gweddio yn llawn o enciniad annhraethadwy. Nid oedd yn y cyfryw le ond ychydig iawn o drefniadau, dim ond y cyfryw a gynygiai cariad y fynwes; ac ar yr un pryd, yr oedd ynddo amlygiadau rhyfeddol o Dduw. Ar y llaw arall, rhaid gochel y syniad mai yn yr hen ysgubor yr oedd y rhinwedd, ac mai anwybodaeth plentynaidd y diaconiaid oedd yr addurn. Na; nid mewn gwaeledd na gwychder lle, ac nid yn mhrinder na helaethrwydd dawn, y mae bywyd crefydd yn gynwysedig; nid yn ngwedd digysur y tŷ addoliad; nid yn mhlentynrwydd digrifol y blaenoriaid; ac nid yn anamledd y pregethau, nac yn nawn a diwyg gwladaidd y pregethwyr, yr oedd y mawr nerth yn gorwedd. Yr oedd yno eneidiau yn dyheu am bresenoldeb Duw; yr oedd dysgwyliad angherddol am ei ymweliadau; yr oedd yno ddibyniad llwyr arno hefyd i ofalu am ei waith a'i enw ei hun. Yr oedd nifer y dysgyblion yn ychydig, a llawer o honynt dan erlid trwm, a gorthrwm blin; a gwelai Duw yn dda gyfarfod â'u bobl, yn ol symledd eu dysgwyliad wrtho. Rhoddai iddynt yn ol taerni eu gweddiau arno; a chyfranai iddynt fel ag i gyfateb i'r ymgyrchion ffyrnig a fyddai arnynt. Yr oedd presenoldeb Ysbryd Duw, dan y fath amgylchiadau, yn profi, nad oedd gwaeledd a thlodi, ac annhrefnusrwydd y cynlluniau, ddim yn un rhwystr iddo, lle yr oedd nifer o bobl druain dlodion, yn gobeithio yn ei enw; ond casgliad anghywir iawn a fyddai honi, fod yn y fath amgylchiadau at-dyniad neillduol, i beri iddo ddynesu atynt. Yn symledd eu hysbryd hwy, yr oedd hawddgarwch, ac nid yn afreolaeth eu sefyllfa; gorthrymder eu gwrthwynebwyr, a achlysurai y fath arddelwad, ac nid eu diffyg hwy eu hunain o wybodaeth a dawn.

Ymddengys fod gradd o anniddigrwydd i ansawdd presenol pethau yn hanfodi ymysg *dau* ddosbarth o bobl o fewn y cyfundeb; ar un llaw, y mae y rhai oedranus, sydd yn cofio y dyddiau gynt, yn teimlo yn lled annedwydd, wrth gydmharu y dyddiau o'r blaen, a'r dyddiau hyn â'u gilydd. Ar y llaw arall, y mae dosbarth ieuengach, y rhai ni welsant ond y wedd bresenol ar bethau, yn teimlo yn anesmwyth, wrth gydmharu y modd y mae gyda ni, a'r modd y mae gydag eraill. Cydmhara y dosbarth cyntaf yr un bobl mewn gwahanol *adegau*; cydmhara y dosbarth olaf, bobl yr un adeg; ond ymysg gwahanol *enwadau*. Ond, er na chyfyd yr anniddigrwydd yn gwbl o'r un ffynnonell, eto, y mae

yn cynyrchu gradd o'r un effeithiau. O! na byddai arnom, meddai y naill, megys yn y misoedd o'r blaen, fel yn y dyddiau pan gadwai Duw ni! Ac O! meddai y llall, na fyddai arnom ni fel y mae ar ein cyd-gristionogion, y rhai y mae eu breintiau yn lluosocach, a'u trefniadau yn fwy cyflawn! Nid ein hamcan ydyw hwtio y teimladau hyn gyda diystyrwch, er nad ydym yn gallu canfod pethau yn gwbl yn yr un lliw. Gwyddom fod tuedd yn y natur ddynol i farnu pethau yn ol eu *teimladau*; a chan fod y teimlad yn gwahaniaethu llawer, fel yr heneiddia gŵr, felly y mae ei syniadau am bethau yn newid. Fel y rhoddir lliw y gwydr ar y gwrthddrychau yr edrychir arnynt trwyddo, felly yr effeithia teimladau dyn ar ei syniadau. Par hyn fod hen bobl yn meddwl yn waeth o'r sawl sydd yn ieuainc, nag o'r rhai a gyd-fagesid â hwy. Barnant y dyddiau o'r blaen, yn well na'r dyddiau hyn; y bobl gynt yn well na'r rhai sydd yn awr; y pregethwyr yn well pregethwyr, a'r crefyddwyr yn well crefyddwyr: ocheneidiant, gan hyny, am weled eilwaith ddyddiau cyffelyb i'r rhai a welsant gynt, a theimlant yn anniddig i ffurf bresenol pethau. Addefwn yn rhwydd y dichon fod diryw-iad trwm wedi cymeryd lle yn y dyddiau diweddaf hyn, wrth yr hyn a fu crefydd yn amser ein tadau; ar yr un pryd y mae yn hawdd ymwrando gor-mod â'n teimladau yn hyn, a methu, oblegid hyny, a dàl y glorian yn deg wrth wneuthur y gydmhariaeth; a pha un bynag, ofer a diles ydyw cwynfan yn wastad ar ol y peth a-gollwyd; hwyrach, mai y peth goreu a allem wneyd a fyddai nodi allan yr hyn sydd wallus, yn ngwyneb rheol berffaith y gwir-ionedd; troi at Dduw i ofyn iddo am faddeuant ac iachad; ac ymegnio gyda phob moddion priodol i wneuthur y gwall i fyny.

Dywedasom fod eraill yn gwynfydu na fyddai ein trefniadau yn debycach i'r eiddo y Saeson. Edrychant gyda chymeradwyaeth ar bob peth a fydd gan eraill; ond yn anniddig ar bob peth gartref. Diau y dylid cymeryd addysg a rhybudd oddiwrth bob peth a fyddo o'n hamgylch, oddiar y syniad y gellir dwyn i mewn ryw welliadau pwysig; eto rhaid bod yn wyliadwrus yn hyn, oblegid nid yw diffygion trefniadau dyeithrol ddim mor amlwg i'r edrychwyr, ac ydyw ei rhagoriaethau. Yn y *prawf* o beth y daw ei ddiffyg-ion i'r amlwg egluraf; yr ydym yn deall rhywbeth am ddiffygion ein cyfun-drefn ein hunain, ond heb brofi, ac felly heb sicrwydd am, ddiffygion rhai eraill. Nid oes amheuaeth nad oes llawer un wedi cymeryd cam, dan ddy-lanwad y fath syniadau, a barodd ofid dirfawr iddynt yn ol llaw; doethineb ydyw profi pob peth, a dàl yr hyn sydd dda. Ac os ymddengys dim, wedi ymbwyllo yn ystyriol uwch ei ben, yn debyg o fod o wir wasanaeth i'r cyf-undeb, y mae ei gyfansoddiad y fath, nad oes un rhwystr anorfod i ddwyn y gwelliant i mewn, ond i hyny gael ei wneuthur trwy gydsyniad, ac yn unol â rheolau gosodedig.

PENNOD III.

ELFENAU A THEITHI METHODISTIAETH CYMRU.

CYNWYSIAD:—

GWEINIDOGAETH DEITHIOL Y METHODISTIAID—Y WEDD APOSTOLAIDD OEDD I HYN—YR AMGYLCHIADAU A ARWEINIODD I HYN—CYNALIAD Y WEINIDOGAETH—PWYS DYSGEIDIAETH—YSTADEGAU A DYLANWAD METHODISTIAETH, YN NGHYMRU, A'I LAFUR CENADOL DROS Y MOR.

Elfen arall sydd yn dynodi Methodistiaeth Cymru gymaint ag un, ydyw ei gweinidogaeth *deithiol*, neu *ansefydlog*. Elfen yw hon y mae cryn feio arni ar y naill law, a chanmawl mawr arni ar y llaw arall. Gan rai, nid oes dim a wna y tro ond gweinidogaeth *sefydlog*, na chan eraill, ond un *amrywiol*. Tebygol ydyw, nad oes yr un enwad o bobl wedi cario allan yr egwyddor deithiol mor bell a chyffredinol a'r Methodistiaid. Nid oes amheuaeth ychwaith nad amgylchiadau, a roes y wedd yma arno, yn yr ysgogiad cychwynol, yn fwy nag un argyhoeddiad o briodoldeb y peth fel *pwnc*. Gwibdeithiol a fu gweinidogaeth Howel Harris o'i dechreu, hyd yr amser yr ymsefydlodd yn arosol yn Nhrefecca; a gellir dyweyd am dani mai tra yr oedd y wedd symudol arni, y parhaodd ei grym a'i defnyddioldeb; a chychwyniad ei gwendid a fu ei sefydlogrwydd. Yr oedd ei gyd-lafurwyr, pa fodd bynag, yn wahanol eu sefyllfa, fel gweinidogion eglwys Loegr: ond fel yr oeddynt hwythau yn cael eu harddel a'u llwyddo, yr oedd anesmwythder oddifewn, a gwahoddiadau oddiallan, yn eu tueddu i fyned i'r prif-ffyrdd a'r caeau, i gymhell pechaduriaid i ddyfod i mewn. Bu gweinidogaeth Howel Harris, er mor ansefydlog ydoedd, o werth anmhrisiadwy i'r dywysogaeth; ïe, nid gormod yw ychwanegu, ei bod o fwy o werth *am* ei bod yn deithiol. Gwasgarodd Duw, Williams, Pant-y-celyn, a H. Davies, sir Benfro, ar hyd y wlad, trwy erlidigaeth yr awdurdodau eglwysig, fel y gwasgarent hwythau, o hyny yn fwy, arogledd y wybodaeth am Dduw dros yr holl dir.* Rowlands, Llangeitho oedd ymron yr unig un, ymhlith y diwygwyr boreaf, yr oedd gwedd sefydlog ar ei weinidogaeth; ac nid oedd yr eiddo yntau ddim yn hollol felly; ond am y lleill oll, *teithiol* ydoedd eu gweinidogaeth dros eu hoes. Yn yr adeg y cychwynodd y diwygiad, nid oedd un weinidogaeth, ond un deithiol, yn gymhwys i ymosod ar y genedl; nid oedd cynulleidfaoedd eto wedi eu cynull, a rhaid ydoedd defnyddio rhyw foddion tuag at eu cynull; ac am yr ychydig gynulleidfaoedd, dan enw rhai Presbyteraidd, yr oedd y weinidogaeth sefydlog a fwynhasid yn y rhai hyny, er ys can' mlynedd o'r blaen, wedi gadael y wlad ymhob man o'u hamgylch, mewn eithaf tywyllwch a chwsg.

* Gweler nodiadau blaenorol ar weinidogaeth deithiol y diwygwyr yn Cyf, I tudal. 199.

Sicr ydyw ddarfod i Harris a'i gyd-lafurwyr, wneuthur mwy i ddeffro Cymru mewn deng mlynedd, nag a wnaethai gweinidogaeth sefydlog, y plwyfydd a'r ymneillduwyr, er ys 150 o flynyddau.

Gosodasid esiampl o'r fath weinidogaeth symudol, eisoes, trwy yr ysgolion Cymraeg cylchynol, a osodasid i fyny gan y Parch. Griffith Jones, Llanddowror. Nid oedd yr ysgolion hyn yn aros yn hir yn yr un gymydogaeth. Wedi bod dros ystod rhai misoedd mewn un fangre, symudid hwy i fangre arall. Trwy y cylch-symudiad hwn, buont hwy yn foddion i ddwyn miloedd lawer o'r Cymry i ddysgu darllen y Beibl, ac i brofi hefyd yn ddiamheuol ei flas a'i awdurdod; a chan fod amryw o'r ysgolfeistriaid hyn yn arfer cynghori, yr oedd eu galwedigaeth ddyddiol hwy, yn galw arnynt i fod yn ansefydlog eu gweinidogaeth. Ond nid hyn oedd y prif gymhelliad a brofid gan y tadau i deithio; ond yr oedd rhai eraill llawer cryfach, ac yn benaf y ddau hyn, sef eu tosturi hwy eu hunain at sefyllfa isel a digrefydd eu cydwladwyr; a thaerineb rhai eraill, mewn gwahanol barthau o'r wlad, y rhai a ddeffroasid eisoes trwy eu gweinidogaeth. Oblegid yn y fan y dygid neb mewn ardal dywell i ymdeimlo â'i gyflwr peryglus ef ei hun, fe deimlai eiddigedd angherddol am achubiaeth ei gymydogion; a'i lef bellach, ar y diwygwyr, fyddai, "Deuwch trosodd a chynorthwywch ni."

Yr oedd gwedd apostolaidd hefyd yn ymddangos ar yr ysgogiad; "A phawb a wasgarwyd ar hyd gwledydd Judea a Samaria, ond yr apostolion;" "A'r rhai a wasgarasid a dramwyasant gan bregethu y gair."* A'r rhai a wasgarasid o herwydd y blinder a godasai ynghylch Stephan, a dramwyasant hyd yn Phenice, a Cyprus, ac Antiochia, &c. Ceisiodd gelynion cristionogaeth yn ddiamheu ei lethu trwy erlidigaeth; a bu yr erlidigaeth yn foddion i chwalu lluaws mawr o honynt, o Jerusalem; ond bu y chwaliad hwn arnynt yn foddion cynydd dirfawr i gristionogaeth; y cyfrwys a ddaliwyd yn ei rwyd ei hun; bwriadwyd yr erlidigaeth er drwg, ond Duw a'i goruwchlywodraethodd ef er daioni. Yr un modd, mewn llawer ystyr, y bu yn Nghymru. Trwy wib-deithiau y tadau, yr oedd y dysgyblion yn amlhau yn mhob cŵr o'r wlad; drysau newyddion yn ymagor, a thaer ddeisyfiad yn codi ar bob llaw, am gael clywed "holl eiriau y fuchedd hon." Barnai y diwygwyr yn ddiamheuol, tra yr oedd esiampl Crist a'i apostolion, ac esiampl lluaws o efengylwyr o'u blaen, na allent fod ymhell allan o'u lle, wrth efengylu yn deithiol ar hyd ac ar led y dywysogaeth; ac yn enwedigol, gan y y rhoddid iddynt y fath amlygiadau fod eu llafur dan y fath arddeliad, ac yn cynyrchu y fath effeithiau grasusol ar bob llaw. Yn y modd yma y rhoddwyd cychwyniad i weinidogaeth deithiol y Methodistiaid. Yr oedd amgylchiadau Cymru, ar y pryd, y cyfryw, nad oedd un dull o lafurio yn gymhwys i'w cyfarfod ond gweinidogaeth deithiol. Canmolai y dull hwn hefyd ei hun yn neillduol trwy ei effeithiau; a chyda'r cwbl yr oedd yn haws gweled

* Act. viii. 1—4; Act. xi. 19.

gweinidogaeth deithiol yn llyfr Actau yr apostolion na gweinidogaeth sefydlog. Cydweithrediad yr amgylchiadau hyn, tybygid, a roes y fath fri ar yr un deithiol yn Nghymru, fel nad oedd prin un meddwl gwahanol ymysg y crefyddwyr. Yr un mor ffol a fuasai gwadu ei phriodoldeb ag a fuasai gwadu goleuni yr haul. Trwy fod ei heffeithioldeb mor amlwg a diamheuol, gwreiddiodd y syniad mai gweinidogaeth deithiol oedd yr unig un y gellid dysgwyl bendith y nefoedd arni. Meddiannodd y syniad hwn feddyliau y Methodistiaid yn llwyrach, am na phrofasent hwy yr un arall; magesid hwy dani; a thros lawer o flynyddau nid oedd yr un arall a allasai gyfarfod ag amgylchiadau y cyfundeb. Am ysbaid 60 mlynedd, bu Gwynedd yn dysgwyl yn benaf wrth y Deheubarth am ei diwallu a gweinidogaeth rymus ac effeithiol; ac yr oedd dyfodiad gŵr dyeithr o'r Deheudir yn cael ei ddysgwyl gan y Gogleddwyr, fel y dysgwylir am y gwlaw ar sychdir; disgynai gweinidogaeth y dyeithriaid hefyd fel cawodydd hyfryd, oddiwrth gymylau llawnion, ar dir sychedig.

Gan nad oedd yr un ddarpariaeth eto wedi ei wneuthur gogyfer a chynaliad y weinidogaeth, yr oedd y cynghorwyr, o angenrheidrwydd yn dibynu am eu bywiolaeth ar eu llafur eu hunain, fel dynion eraill; a dygwyddai weithiau, fod dau neu dri o honynt yn cyfaneddu yn yr un dref, neu gymydogaeth; pryd y byddai trefydd a chymydogaethau eraill, yn yr un wlad, yn berffaith amddifaid. Dygwyddai hefyd, fod pregethwyr un sir yn llawer amlach na'r eiddo sir arall; felly yr oedd llawnder un lle, ac amddifadrwydd y llall, yn naturiol yn arwain y pregethwyr i deithio o'r naill ran o'r wlad i'r llall, er mwyn diwallu y rhai ymddifaid. Am rai blynyddau, nid oedd yn holl sir Feirionydd, yr un pregethwr yn byw ynddi, ond oedd yn y Bala; a thros lawer o flynyddau, cyflenwid angen y rhanau eraill o'r sir, ynghyda llawer cymydogaeth o siroedd eraill, trwy ffyddlondeb diflino y cynghorwyr ag oedd yn cyfaneddu y dref hono. Diwallwyd llawer ar sir Fôn, dros ryw ysbaid, gan bregethwyr sir Gaernarfon; a mawr y gwasanaeth a gafwyd oddiwrth yr un wlad i ddiwallu angen siroedd Dinbych a Fflint; yr un modd y bu siroedd Cymru yn diwallu trefydd Lloegr. Fel hyn yr oedd yr anghyfartaledd breintiau crefyddol un rhan o'r wlad, mewn cydmariaeth i ran arall o honi, yn naturiol yn tywys i weinidogaeth deithiol.

Tra parhäai amgylchiadau y wlad yn gyffelyb, a thra y profid y weinidogaeth deithiol, yn effeithiol, gallwn ddysgwyl y gorweddai yn esmwyth ar deimladau pawb. Ni chyfodai un anniddigrwydd iddi, nac un dymuniad am newidiad arni; ond ni ellid dysgwyl i'r amgylchiadau fod yr un dros hir amser. Yr oeddid yn gobeithio y deuai amser na fyddai y Gogledd yn dibynu cymaint ar y Deheudir, na'r naill sir ar sir arall, na'r naill ran o wlad ar ran arall. Yr oeddid yn llochi y dymuniad i bob rhan o'r dywysogaeth fod yn lled gyffelyb i'w gilydd o ran breintiau crefyddol, a bod pob tref a phentref, yn lled ddiwall o ran gweinidogaeth Sabbothol. I raddau helaeth, y mae hyn wedi ei gyrhaedd. Ac fel y mae yr angen am weinidogaeth deith-

iol yn lleihau, a'r dyhëu am y gŵr dyeithr yn llacio, y mae y syniad yn ennill tir, y dichon i ryw newidiad fod yn fuddiol. Gan mai amgylchiadau o angen, a'r profion o'i buddioldeb, ac nid ysgrythyroldeb y peth, fel pwnc duwinyddol, a barodd y fath ymlyniad wrth y weinidogaeth deithiol, yn serchiadau y Methodistiaid, gellir dysgwyl y bydd yr effaith yn lleihau fel y bydd yr achos yn colli. Ystyriaeth arall a bâr i rai ddymuno cael un ai darfodiad ai newidiad ar y teithio, ydyw, y draul a ddisgyn o angenrheidrwydd ar yr eglwysi, a hyny heb weinyddu daoni cyfatebol i'r pregethwr ei hun. Am y pregethwr, os teithio llawer a wna, y mae o angenrheidrwydd yn rhwym o roddi ei grefft neu ei fasnach i fyny, neu ei hesgeuluso; ac anhawdd ydyw cyfrif ei golled arianol, weithiau trwy y naill neu y llall. Y mae yn anhawdd i i bregethwr, os nad yn anmhosibl, iddo roddi y dyfalwch a'r gofal angenrheidiol gyda'i alwedigaeth fydol; poeni llawer yn y gair a'r athrawiaeth, a theithio cryn lawer oddicartref, ar yr un pryd. Mae y gystadleuaeth fasnachol yn y dyddiau hyn, mor llym, fel y bydd rhaid i ŵr a fydd yn gofalu am ei gymeriad dinasyddol, ac am ei gysur amgylchiadol, ymroddi gyda llawer o egni a dyfalwch; ïe, gyda gradd ehelaeth o fedrusrwydd hefyd, i arolygu ei orchwyl bydol; onide "syrth i brofedigaeth a magl." Ond i'r graddau y byddo efe yn ymroddi felly, i'r graddau hyny, yr analluogir ef, i weini yn effeithiol yn mhethau y cysegr; ac yn enwedig, os bydd raid iddo hefyd deithio llawer oddicartref. Yr effaith a ganlyn y ffurf hon, dan yr amgylchiadau presenol ydyw, y dyry rhai y teithio i fyny; a'r lleill y byd, neu yr alwedigaeth fydol, heibio; a phob dosbarth yn teimlo yr anhawsder o wneuthur cyfiawnder â'r byd ac â'r cysegr.

Darllenwn yn y Testament Newydd, "Felly hefyd yr ordeiniodd yr Arglwydd, i'r rhai sy'n pregethu yr efengyl, fyw wrth yr efengyl."* "Pwy sydd un amser yn rhyfela ar ei draul ei hun? pwy sydd yn planu gwinllan, ac nid yw yn bwyta o'i ffrwyth hi? neu pwy sydd yn porthi praidd, ac nid yw yn bwyta o laeth y praidd?" "Os nyni a hauasom i chwi bethau ysbrydol, ai mawr yw os nyni a fedwn eich pethau cnawdol?" a llawer o'r cyffelyb. Mae Ysbryd yr Arglwydd, gan hyny, wedi gosod ei sêl wrth yr egwyddor hon, mewn geiriau eglur a grymus; a pheth hynod ydyw fod neb yn ei hamheu neu yn ei gwadu; eto y mae pleidiau crefyddol yn ei gwadu. Felly y gwna y Crynwyr, os nad wyf yn camsynied, a'r "*Plymouth Brethren*," fel y'u gelwir. Nid wyf yn deall i neb o'r Methodistiaid fyned i'r eithafion o wadu yr egwyddor, gan eu bod yn arfer, o'r dechreuad, a gwneuthur rhyw gydnabyddiaeth arianol am y gwasanaeth cyhoeddus a roddid iddynt; eto, gwnaid y cydnabyddiaeth arianol, y rhan amlaf, fel ad-daliad am ryw golled a brofid, neu i gyfarfod â rhyw draul a ddygid, yn hytrach nag yn wobr cysylltiedig â swydd, neu yn daledigaeth am y gwasanaeth crefyddol a weinyddid. Gan y pregethwyr eu hunain, teimlid anghysur i athrawiaethu y

* 1 Cor. ix. 7, 9, 11, 14.

pwnc; ac felly yr oedd y pwlpud yn berffaith ddystaw yn ei gylch. Codai thagfarn cryf yn erbyn pregethwr, a fyddai yn ddigon eofn a gwrol, i'w osod ef ger bron. Edrychid ar yr egwyddor o bregethu efengyl Crist *yn rhad*, yn un anrhydeddus iawn: a mynai pawb ochel y cyhuddiad, a phob sail iddo, o fod yn gweinidogaethu er mwyn arian; ni fynai neb fod yn euog o *fudr-elwa!* Rhaid oedd talu i'r crefftwyr a godai y capel, ac nid oedd neb yn meddwl mai budr-elwa oedd hyny. Ond os gwneid dim i'r hwn a elwid i'w ddefnyddio, trwy bregethu yr efengyl yndclo, mwy na thalu ei draul, neu wneyd rhyw gydnabyddiaeth am ei golled wrth adael ei gartref, edrychid ar hyny yn fudr-elwa! Ar ddechreuad Methodistiaeth, yr oedd rhagfarn y werin mor gryf yn erbyn y pregethwyr a aent o amgylch y wlad i bregethu, a phob math o chwedlau difrïol yn cael eu sibrwd am eu hamcanion; ac, yn mhlith pethau eraill, mai "llwyr fwyta tai gwragedd gweddwon,"—pesgi eu hunain ar ddanteithion, ac ysbeilio pobl ddiniwed o'u harian, dan rith crefydd, a wnaent, fel y teimlai yr hen grefyddwyr yn ochelgar iawn, na roddid un achlysur i'r fath gyhuddiadau. Ac er y gwyddent yn dda na allai eu pregethwyr fyw ar y gwynt, mwy na dynion eraill; a chan fod llawer o'u hamser a'u meddiannau yn cael eu haberthu i wasanaethu eu cenedl yn yr efengyl, yr oeddynt yn teimlo mai annheg, ïe, mai creulondeb, a fuasai attal oddiwrthynt ryw gydnabyddiaeth am eu llafur; ond eto, gwneid y gydnabyddiaeth hono mewn dull, ag a roddai leiaf o achles, yn ol eu barn hwy, i ragfarn y gwrthwynebwyr, a lleiaf o dramgwydd i gydwybodau gweiniaid. Gyda'r amcan hwn mewn golwg, gelwid ar y dysgyblion yn y gwahanol gymdeithasau eglwysig, i gyfranu ychydig tuag at *draul* y dyeithriaid a ymwelent a hwy; a gweinyddid y swm bychan a roddid, hefyd mewn dull dirgelaidd a dystaw, fel mai prin y gwyddai y llaw aswy pa beth a wnai y llaw ddehau. Aeth hyn yn arferiad cyffredinol; ac oddiwrth y dull llechwraidd, a chuddiedig hwn, ac oddiwrth hollol ddystawrwydd yr athrawon am yr egwyddor fel pwnc ysgrythyrol, ymledodd ac ymwreiddiodd y syniad, mai halogiad ar y weinidogaeth oedd rhoddi cynaliaeth arianol iddi; ac mai difriad ar y pregethwr a fyddai ei dderbyn; oddieithr yn unig yr hyn a ad-dalai iddo ei draul, neu a wnai i fyny iddo ei golled.

Mae oes y syniad uchod, pa fodd bynag, ar derfynu; nid oes un esgus, bellach, oddiwrth ragfarn y bobl i gelu oddiwrthynt y ddyledswydd o beidio "Cau safn yr ych sydd yn dyrnu." Mae yr anhawsder i ddal i fyny orchwyl bydol yn llwyddiannus, ac i wneyd cyfiawnder â phregethu yr efengyl, ar yr un pryd, yn cynyddu; mae amledd yr aelodau eglwysig yn galw am fugeiliaeth fanylach arnynt; ac y mae cynydd y gwrandawyr mewn gwybodaeth gyffredinol, yn gosod angenrheidrwydd ychwanegol ar fod athrawon y bobl, a gweinidogion y cysegr, yn ddynion galluog a llafurus. I'r dyben hwn, rhaid iddynt hwythau hefyd, ymroddi i'w gwaith, defnyddio eu hamser a'u gallu oedd yn y gwasanaeth; ac os gwnânt hyny, y mae rheswm, cyfiawnder, ac ysgrythyr, yn cyd-ddyweyd fod yn rhaid iddynt gael eu cynal. Nid oes un

rheswm i osod rhwymau ar y pregethwyr heb fod rhwymau cyfatebol ar yr eglwysi; nac ychwaith ar yr eglwysi, heb fod rhai cyfatebol ar y pregethwyr. Mae y syniad yma, bellach, yn mynu ei le; ymddengys ei fod yn ymwreiddio ac yn ymeangu fwy fwy. Mae rheswm cyffredin o'i blaid; mae cyfiawnder a thegwch yn ei argymhell; a'r ysgrythyr, mewn modd diymwad, yn ei gadarnhau.

Yn y mater dan sylw y mae gwahaniaeth wedi bod, ac i raddau mawr eto yn parhau, rhwng y Methodistiaid â phob enwad o gristionogion o fewn y byd; pob enwad, o leiaf, ag a addef fod gweinidogaeth yr efengyl yn *sŵydd.* Yn hyn y mae y cyfundeb heb ei gyffelyb ar y ddaear; ac, am a ŵyr yr ysgrifenydd, na fu ei gyffelyb yn y mater hwn erioed. Eglur yw, pa fodd bynag, mai amgylchiadau, ac nid egwyddorion, a roes arno y wedd yma; a defod ac nid cydwybod sydd yn rhoddi grym ynddo. Ond y mae yn hawdd canfod fod rhyw newidiad gerllaw. Mae y mater, fel pwnc duwinyddol, bellach, yn dechreu dyfod i sylw, ac i ymchwiliad. Mae yr aelodau eglwysig, bellach, gymaint, os nad mwy, na'r diaconiaid, yn ymofyn, a raid i'r eglwysi fod heb fugeiliaeth arnynt? ac a raid i'r weinidogaeth fod heb gynaliad? A oes rhyw erthygl yn y "Cyffes Ffydd" yn erbyn? A yw tystiolaeth yr apostolion yn wrthwynebol? Os nad ydynt, gofynir drachefn ai rhy wan yw yr eglwysi i ddwyn traul y cyfnewidiad?—neu ai anmharod, neu anghymwys y pregethwyr i ymgymeryd ag ef? Ai ynte, a yw y wedd bresenol yn parhau oblegid yr anhawsder a deimlir i wneuthur y newidiad? I'r gofynion hyn fe atebir yn gyffredin, Nad yw yr ysgrythyr mwy na'r "Cyffes Ffydd" ddim yn gwarafun cynaliad i'r weinidogaeth; ond eto, fod anhawsderau lawer ar y ffordd; sef, nad yw yr holl eglwysi ddim yn yr un sefyllfa â'u gilydd; na'r un angenrheidrwydd ar y naill ag sydd ar y llall;—nad yw y swyddogion eglwysig ddim yn gallu cydweled yn gwbl â'u gilydd;—fod anmharodrwydd mewn rhai pregethwyr i dderbyn, ac anheilyngdod yn rhai eraill i gael, y cynaliad dan sylw; ac mai anhawdd, os nad anmhosibl ydyw disgyn ar unrhyw gynllun a fyddai yn esmwyth i bawb, nac yn *hollol* esmwyth i neb. Yn y cyfamser, nid oes dim amheuaeth, nad oes lluaws o eglwysi yn cael cam, o ddiffyg ymgeledd; a nifer o bregethwyr yn cael cam o ddiffyg cynaliad. Ac er pob anhawsder sydd yn gysylltiedig â'r fath ysgogiad, mewn cyfundeb lluosog, eglur yw, mai doethineb fyddai ymchwilio yn fanylach i'w natur, ac ymosod yn fwy ymroddgar i'w gyfarfod.

Yn ol barn yr ysgrifenydd, os goddefir iddo adrodd ei farn hefyd, nid oes un cyfnewidiad yn *hanfodion* y cyfundeb yn angenrheidiol i ddwyn hyn o amgylch. Nid oes angen i fwrw ymaith yr un o elfenau *gwreiddiol* ei gyfansoddiad. Y cwbl sydd yn eisiau ydyw eu cymhwyso at newidiad yr amgylchiadau. A pha beth fyddai hyny, ond gosod mewn gweithrediad yr hen egwyddor ddechreuol;—yr egwyddor y mae y Methodistiaid wedi gweithredu arni er ys can' mlynedd a mwy?—sef ysgogi ac ymffurfio fel y byddai amgylchiadau yn ein dysgu. Mewn amgylchiad mor bwysig;—amgylchiad

a effeithiai ar y cyfundeb yn gyffredinol, a hyny fe ddichon dros oesoedd lawer, y mae yn ofynol ysgogi yn araf a phwyllog; y mae yn rhaid wrth ddoethineb oddiuchod, a dybyniad unplyg ar Ysbryd Duw am ei arweiniad a'i nodded.

Fel prawf nad oes dim yn nghyfansoddiad gwreiddiol Methodistiaeth yn wrthwynebol i gynaliad y sawl sydd yn llafurio yn eu mysg, ac yn eu llywodraethu yn yr Arglwydd, gellir cyfeirio at amrywiol amgylchiadau yn hanes y cyfundeb. Ymddengys fod y clerigwyr efengylaidd a fuont yn offerynau nodedig i gychwyn Methodistiaeth yn derbyn cydnabyddiaeth arianol mwy neu lai dros ystod eu hoes. Gellir meddwl hefyd fod yr arolygwyr llëygaidd, a osodwyd yn amser Howel Harris, i fugeilio rhyw nifer o eglwysi bychain mewn darn o wlad, yn derbyn eu cynaliad oddiwrth yr eglwysi a arolygid ganddynt. Fe fu ambell un hefyd, mewn Gogledd a Dê, ar ol dyddiau Harris, yn cael ei alw a'i osod ar nifer o eglwysi cyfagos, ac yn cael ei gydnabod fel yr un a ofalai yn benaf am danynt. Y mae yn hysbys, hefyd, fod, yn y dyddiau hyn, luaws o frodyr, yn genadon cartrefol a thramor, ynghyda rhai gwenidogion heb fod yn genadon, a hyny o fewn cylch y cyfundeb, yn cael eu cynal. Prawf yw hyn nad yw cynaliad y weinidogaeth ddim yn beth cwbl ddyeithr i'r Methodistiaid yn Nghymru. Ar yr un pryd, eithriad ydyw y rhai a nodwyd. Nid llawer o'r 500 brodyr ar y maes nad ydynt yn dibynu am ran ehelaeth o'u cynaliaeth ar eu hadnoddau eu hunain. Ië, gellir ychwanegu, fod nifer mawr o honynt yn dewis yn hytrach ymddibynu arnynt eu hunain am eu cynaliaeth nag ar yr eglwysi. Teimlant yn wrthwynebol i osod iau or fath ar yr eglwysi, na bod eu hunain dan rwymau o'r fath i'r eglwysi. Ni fynant er dim werthu eu hannibyniaeth yn y peth hwn. Mwy dewisol ganddynt ydyw gwneyd a allant gyda'r byd, a chyda'r efengyl hefyd; a rhaid addef ddarfod i lawer un wneyd yn dda felly. Mae gan un ei grefft, a chan y llall ei dyddyn. Mae gan hwn ei faes, a chan arall ei fasnach. Dybynia un ar ei etifeddiaeth drefdadol, ac un arall ar lafur a diwydrwydd ei wraig neu ei blant. A thra y sugnant oll eu cynaliaeth yn benaf oddiwrth eu hadnoddau personol, neu deuluol, ymroddant, mewn mesur mwy neu lai, i wasanaethu Duw yn efengyl ei Fab ef, a derbyniant rhyw gydnabyddiaeth arianol oddiwrth yr eglwysi y gelwir arnynt o bryd i bryd i'w gwasanaethu. Eto, er hyn, nid oes dim rhwymedigaeth arnynt i un eglwys mwy nag arall, nag ar yr eglwysi iddynt hwythau. Nid oes ganddynt hawl i gymhell eu gwasanaeth gweinidogaethol ar un gynulleidfa, ac nid oes gan un gynulleidfa hawl arnynt hwythau.

Mae yn y gyfundrefn hon rai manteision, na pherthyn i un gyfundrefn arall. Yma gall eglwys gael gwasanaeth achlysurol unrhyw weinidog o fewn y cyfundeb, os gall hi lwyddo gydag ef i ddyfod i'w gwasanaethu. Nid yw y gyfundrefn yn caniatâu ychwaith fod gweinidog yn gormesu ar un eglwys. Gwelir weithiau, mewn cynulleidfaoedd, anhawsder i symud gweinidog wedi unwaith ei osod; ac yn fynych par hyny deimladau anghysurus ymhlith yr

aelodau, neu ymadawiad llwyr â'r lle; ond nid yw y drygau hyn yn perthyn i Fethodistiaeth Cymru. . Mae yr eglwysi yn rhyddion a'r pregethwyr yn rhyddion hefyd; ac nid oes amheuaeth nad yw hyn yn foddhaol gan bob ochr, mewn llawer amgylchiad. Gwell ydyw gan lawer eglwys gael ei rhyddid i alw y neb a fyno, ac am yr ysbaid a fyno, na bod dan rwymau i ryw un a ddewiso, a hyny i barhau. Gwell hefyd, o'r ochr arall, gan lawer pregethwr, fyned yma neu acw, fel y'i gelwir, a hyny am yr ysbaid y cytunir arno, na bod yn rhwym i un eglwys, dros dymhor hir neu fyr, neu dros ei oes. Ond, fe ddichon, ar y llaw arall, fod pregethwyr ac eglwysi, yn mysg y Methodistiaid yn *rhy ryddion;* fe allai fod y ddwy ochr yn ymddyosg yn rhy lwyr oddiwrth rwymau. Y cwestiwn ydyw, a ydyw y cyfryw lacrwydd dirwymau yn gydweddol â swydd? Ai nid y casgliad naturiol oddiwrth hyn, ydyw, un ai nad yw gweinidogaeth yr efengyl ddim yn *swydd*, neu, nad oes i'r swydd ddim *rhwymau*. Anhawdd, tebygaf, a fyddai i neb sefyll i honi yr un o'r ddau: rhy anhawdd a fyddai i neb, yn wyneb ysgrythyr na rheswm, brofi mai nid swydd osodedig gan Grist yn ei eglwys, ydyw pregethu yr efengyl; a llawn mor anhawdd a fyddai dangos, gan ei bod yn swydd, nad oes iddi ddim rhwymau. Ar yr un pryd, y mae yn rhaid addef fod tuedd yn ansawdd pethau yn mysg y Methodistiaid i arwain i'r camsyniadau hyn. Nid oes neb o'r Methodistiaid, am a ŵyr yr ysgrifenydd, yn sefyll dros yr un o'r ddau gamsyniad fel pwnc; yn hytrach, dadleuir dros y gwrthwyneb; eto, er hyn, naturiol ydyw y casgliad, gan leied ydyw y cysylltiad rhwng y pregethwyr a'r eglwysi, nad yw pregethu yr efengyl ddim yn swydd, neu ynte, nad oes i'r swydd ddim rhwymedigaeth. Nid yw yr eglwysi, wrth alw un i'r swydd, yn ymdeimlo â dim rhwymedigaeth iddo, nac yntau wrth dderbyn yr alwad, yn cydnabod dim rhwymedigaeth iddynt hwythau. Pa fodd bynag, nid oes y fath beth yn bod yn un man arall, pa un bynag ai yn y byd, ai yn yr eglwys. Y mae i bob swydd ei dyledswyddau a'i rhagorfreintiau:—ei gwaith a'i gwobr. Nid y naill ychwaith heb y llall; mae un yn rhwymau ar y pregethwr, a'r llall ar yr eglwys: gorthrwm a fyddai gosod y gwaith ar wàr un, heb fod rhwymedigaeth cyfatebol ar y llall. Os dywedir mai braint y pregethwr ydyw pregethu yr efengyl yn rhad, atebwn, gwir; ond nid braint yr eglwys ydyw goddef iddo wneyd hyny, pan fyddo ar ei llaw hi ei gydnabod. Os braint, y mae hi yn perthyn i bob ochr; ac os dyledswydd, y mae hi yn rhwymo y naill fel y llall.

Pa gyfnewidiad bynag a ddichon fod yn angenrheidiol, a pha mor awyddus bynag ydyw rhai i'w ddwyn o amgylch, neu wrthwynebol bynag ydyw eraill i ysgogi at ei gael, fe ddichon y cyferfydd pob plaid â gradd o siomedigaeth. Fe siomir un, fe allai, am y profir gormod o anhawsder i ddwyn y cyfnewidiad a ddymunir i mewn yn ebrwydd, a thrwy gynllun cyffredinol; ac fe siomir eraill, ond odid trwy fod y cyfnewidiad yn ymwthio yn raddol i gymeradwyaeth, a'i fod yn achlysurol yn cael ei roddi mewn gweithrediad, a hyny heb un reol bendant wedi ei gosod yn yr achos. Dichon hefyd mai

hwn yw y dull lleiaf ei berygl. Os cyfnewidiad a gymer le hefyd, hwn fydd y dull dystawaf ac esmwythaf o'i ddwyn o amgylch. Yn raddol iawn yn gyffredin y mae syniadau a theimladau dynion yn ymgynnefino â chyfnewidiad pwysig. Yn raddol y bydd argyhoeddiad o'r angen am dano yn mynu ei le yn y fynwes. Yn raddol iawn y symudir rhagfarnau yn ei erbyn. Mwy graddol fyth yn gyffredin y cytunir ar y dull a'r modd o'i osod mewn gweithrediad. Gwneir hyn yn fynych trwy rym amgylchiadau; gwesgir dynion weithiau gan amgylchiadau i ddefnyddio cynllun, cyn fod y farn yn ei gymeradwyo; ac aml waith y dygwyd dynion trwy amgylchiadau i dderbyn syniadau a wrthwynebid ganddynt dan amgylchiadau eraill, trwy eu bod yn foddion i roddi 'mantais i bwyll ac ystyriaeth gymeryd lle rhagfarn a mympwy.

Yr ydym yn dra argyhoeddedig fod y symudiad y cyfeiriwn ato yn un tra phwysig. Y mae yn gyfnewidiad a ddwg gydag ef gyfnewidiadau eraill: ac anhawdd ydyw gwybod pa fath na pha nifer, Ni fu ar y cyfundeb fwy o angen am ddoethineb a phwyll nag yn awr; ac ni fu arno yr un cyfnewidiad a effeithia yn fwy er da neu er drwg. Ymddengys yn eglur i'r mwyafrif fod rhyw symudiad yn anocheladwy, ond pa fath a ddylai fod, a pha fodd y y dygir ef o amgylch heb wneuthur mwy o ddrwg nag o dda, sydd ymofyniad y mae y sawl a garant lwyddiant y corff yn pryderu llawer uwch ei ben, gan arswydo i un cam gael ei roddi ag a fyddo yn digio Ysbryd yr Arglwydd.

PWYS DYSGEIDIAETH I WEINIDOGAETH YR EFENGYL.

Yr ydym eisoes wedi cyfeirio, megys yn achlysurol at rai o'r dyledswyddau amlwg a ddisgyn ar y Methodistiaid fel enwad crefyddol, ac yma fe ellir ychwanegu, mai nid y lleiaf mewn pwysigrwydd ydyw gofalu pa fath swyddogion a osodir yn yr eglwysi, yn enwedigol pa fath ddynion a elwir i'r weinidogaeth, ac a gymeradwyir fel athrawon crefyddol y bobl. Hen ddiareb a llawer o wir ynddi ydyw, "Cyffelyb bobl ac offeiriad." Os isel mewn gras a gwybodaeth fydd y naill, felly y llall. Fe gyrhaedd dylanwad yr athraw cyhoeddus yn mhell, er da neu er drwg; ac am hyny y mae o bwys annhraethol pa fath un a fydd. Anrhydeddodd yr Arglwydd y Cymry yn fawr yn yr ystyr yma. Rhoddodd iddynt fugeiliaid wrth fodd ei galon, y rhai a borthant y praidd â gwybodaeth ac â deall. Hwyrach mai nid gormod a fyddai dyweyd, na anrhydeddwyd yr un genedl yn fwy yn y rhagorfraint yma, yn ystod y can' mlynedd sydd wedi myned heibio. Do, fe fendithiwyd y genedl â gweinidogion na welodd gwledydd cred nemawr neb o'u gwell. Nid rhaid eu henwi Gyda bod "eu tyst yn y nefoedd a'u tystiolaeth yn yr uchelder," y mae profion dirîf ar y ddaear mai "dynion Duw" oeddynt. O herwydd caru o'r Arglwydd y Cymry, yn ddiau, y cynysgaeddodd efe hwynt â'r fath arweinyddion. Trwy eu hofferynoldeb y mae miloedd ar

filoedd o ddynion wedi eu dwyn i ogoniant, a myrddiynau lawer eto yn eu dilyn. Yr oedd llawer o honynt, mae'n wir, mewn dull o siarad, yn wŷr anllythyrenog, ac yn mysg y Methodistiaid, (gan mai am danynt hwy y mae a wnelo ein hysgrif) yr oeddynt yn neillduol felly; eto fe wnaed gwaith mawr trwyddynt;—fe wnaed arddelwad anrhydeddus o honynt, a rhoddwyd eneidiau lawer yn "goron" ac yn "llawenydd" iddynt yn nydd Crist. Ond er yr addefwn yn rhwydd mai gwŷr anllythyrenog oedd mwyafrif pregethwyr y Methodistiaid, nid ydym yn bwrw na pherthynai iddynt lawer o gymhwysderau i'r swydd y galwyd hwynt iddi. Yr oeddynt wedi eu bedyddio yn ddwfn i ysbryd yr efengyl; yr oedd ynddynt eiddigedd angherddol dros ogoniant Crist, ac yn achos eneidiau dynion; cwyllysgar oeddynt i dreulio ac i ymdreulio yn y gwaith; ac nid oeddynt "yn gwneuthur cyfrif o ddim, am y gallent orphen eu gyrfa trwy lawenydd, â'r weinidogaeth a dderbyniasant gan yr Arglwydd Iesu, i dystiolaeth efengyl gras Duw." Yr oedd taflod eu genau yn deall camflas mewn athrawiaeth; hwy "brofent y pethau yr oedd gwahaniaeth rhyngddynt;" "gwyliedyddion effro," a "goruchwylwyr ffyddlon," oeddynt; "gweithwyr difefl, yn iawn gyfranu gair y gwirionedd."

Bu yn mysg y Methodistiaid hefyd rai gwŷr a gawsent fesur mwy neu lai o addurniadau dynol, a manteision dysgeidiaeth; ac fe gaed y rhai hyny hefyd "yn llawn o'r Ysbryd Glan ac o ffydd." Yr oedd eneiniad grasol wedi cysegru eu holl dalentau, ac felly buont oll yn ddarostyngedig i brif amcan y weinidogaeth, ac yn wasanaethgar i'w gyrhaedd. Nid dynion diddysg oedd Rowlands, Llangeitho; Howel Davies; W. a P. Williams; Charles a Llwyd, o'r Bala, ac eraill cyffelyb. Ymwthiodd eraill, er na chawsant gyffelyb fanteision athrofäol, i wybodaeth lled helaeth, fel ag i sefyll yn uchel, ac yn anrhydeddus, yn mysg lluaws eu brodyr. Or cyfryw gellid enwi fel engrheifftiau, Charles, Caerfyrddin; Jones, Dinbych; Ebenezer Morris; Ebenezer Richards; Elias, o Fôn; Michael Roberts, a'r cyffelyb. Defnyddiodd yr Arglwydd ddosbarth arall i fod yn dra gwasanaethgar i achos crefydd, cymaint, os nad mwy, na'r rhai uwch na hwy mewn dysgeidiaeth, a gwybodaeth gyffredinol; sef dynion o gyneddfau a doniau naturiol cryfion, ac wedi eu llenwi âg ysbryd yr efengyl. O'r fath yma gellid enwi Dafydd Morris, yn y Deheudir; a Robert Roberts, yn y Gogledd. Gwŷr yr oedd eu gweinidogaeth yn ofnadwy mewn grymusder; yn sugno lluaws i'w gwrando, ac yn gwasanaethu cymaint a neb yn eu dydd i droi pechaduriaid at Dduw.

Dylid chwanegu, fod nifer lluosog o bregethwyr, neu gynghorwyr yn mysg y Methodistiaid, y rhai nid oeddynt yn cael eu hystyried yn yr un o'r dosbeirth a nodwyd yn ddynion rhagorol eu hysbryd; grymus mewn gweddiau; ac ymroddgar i wasanaethu yr efengyl hyd eithaf eu gallu. Eto, nid oedd eu gwybodaeth gyffredinol ond cwta iawn, na'u talentau ond pur gyffredin. Ar yr un pryd, yr oedd y rhai hyn uwchlaw y mwyafrif o'u gwrandawyr yn mhob peth, ac felly yn gymhwys, yn eu hoes eu hunain, i addysgu eraill. Ië, fe ellir sicrhau, heb fod yn euog o haeriad rhy eofn, eu

bod yn sefyll yn uwch mewn cydmhariaeth i'w gwrandawyr hwy, nag ydyw y mwyafrif o'r athrawon presenol uwchlaw eu gwrandawyr. Y pryd hwnw, nid oedd ond ychydig o Feiblau o fewn y wlad; ychydig iawn a fedrai ei ddarllen, a llai na hyny yn ei ddarllen. Nid oedd yr un ysgol Sabbothol mewn bod; na nemawr o ysgolion dyddiol. Gan faint, gan hyny, ydoedd anwybodaeth trwch y trigolion, nid anhawdd a fyddai i ŵr, yr hwn a cyffyrddasai Duw â'i galon, gyrhaedd y mesur hyny o wybodaeth ysgrythyrol, ag a'i cymhwysai i roddi gair o gynghor i'w gydwladwyr tywyll ac anystyriol. Wrth gydmharu y rhan fwyaf o'r cynghorwyr gynt, a'r mwyafrif o bregethwyr yr oes hon, tueddir ni i edrych ar y rhai sydd yn awr yn tra-rhagori ar y rhai a fu; ond yn y golygiad arall, yr oedd yr hen gynghorwyr yn fwy o *flaen eu hoes*, na'r rhai a'u dilynodd; ac felly yn gymhwysach i fod yn arweinyddion yn eu dydd, er meddiannu llawer llai o wybodaeth a medrusrwydd.

Wedi sefydlu yr ysgol Sabbothol, pa fodd bynag, y mae gwedd gyffredinol y wlad wedi newid. Mae y gwrandawyr yn awr yn meddu mwy o wybodaeth ysgrythyrol na'r cynghorwyr cyntefig; ac felly rhaid i'r sawl a osodir i'w dysgu a'u harwain fod ymhell o flaen yr hynafiaid yn y canghenau a ddysgir yn yr ysgolion Sabbothol, onide fe fydd achlysur yn cael ei roddi i ddwyn y swydd weinidogaethol i ddirmyg. Oddiar hyn yma y cododd y dymuniad, yn mynwesau amryw o'r tadau, i'r pregethwyr gael manteision helaethach nag y gawsent gynt, er eu cymhwyso yn well i fod yn athrawon i'r genedl. Ond i hyn yma yr oedd llawer o wrthwynebiadau a rhwystrau. Ar un llaw fe farnai rhai, fod yr angenrheidrwydd am hyn yn fwy nag erioed, gan nad oedd bellach ddim lle i'r Methodistiaid ddysgwyl cael neb o Eglwys Loegr, gwŷr wedi eu cyfoethogi â dysgeidiaeth Rhydychain, i'w gwasanaethu mwy; gan fod y cyfundeb, trwy y neillduad yn 1811, wedi ymrestru yn gwbl o dan faner ymneillduaeth. Yr oedd y corff wedi cael gwasanaeth amryw o wŷr felly gynt, ond nid oedd obaith parhad o hyny mwy. Os cyflenwid y diffyg hwn i fyny hefyd, rhaid oedd defnyddio rhyw foddion newyddion tuag at hyny; ac, onide, gellid dysgwyl, mai llithro yn ol a wnai y cyfundeb, yn hytrach nag ysgogi ymlaen, yn y cymhwysderau dan sylw. Yr oedd rhai gwŷr yn y corff yn canfod y canlyniad hwn yn mlaen llaw, ac yn pryderu llawer pa fodd i'w gyfarfod. Ond nid oedd y mwyafrif o'r brodyr, ïe, o'r brodyr yn y weindogaeth, ddim eto wedi gosod yr angenrheidrwydd am ddysgeidiaeth at eu calon. Yr oedd y difaterwch hwn yn gyffredinol. Ychydig oedd nifer y rhai a allent werthfawrogi dysgeidiaeth, gan na chawsai ond ychydig brofiad o hono. Ië, yr oedd llaweroedd yn ei ddiystyru, a mwy fyth yn edrych arno yn afreidiol. Dywedent fod y pregethwyr diddysg yn pregethu yn well na'r rhai dysgedig; cyfeirient hefyd yn wastad at yr apostolion, gan ddyweyd mai gwŷr anllythrenog oeddynt hwy; a bod yr Arglwydd yn hytrach yn hoffi defnyddio offerynau o'r fath, modd y byddai godidogrwydd y gallu yn fwy amlwg o Dduw. Barnent mai po fwyaf dysyml y

dibynid ar Ysbryd yr Arglwydd, a pho leiaf ar addurniadau dynol, mwyaf oll a geid o bresenoldeb Duw, a mwyaf oll a fyddai y llwyddiant. Cyfeirient yn hyderus at enwadau o Gristionogion, yn mhlith y rhai yr oedd cyflawnder o ddysgeidiaeth, ond ychydig o wir grefydd, fel cadarnhad diymwad o'r syniad, fod "llawer o ddysg yn gyru dynion yn ynfyd." Yr oedd y nifer a goleddent y syniadau hyn yn mysg y Methodistiaid, yn llawer lluosocach na'r rhai a goleddent y rhai gwrthwyneb, fel nad peth hawdd oedd cael darpariaeth gogyfer ag ymddifadrwydd y cyfundeb o foddion dysgeidiaeth.

Ychydig o ddysgeidiaeth hefyd oedd yn mysg y genedl yn gyffredinol. Yr oedd prinder mawr o ysgolion. Nid oedd rhieni, gan amlaf, yn gweled ond ychydig o werth mewn dysgeidiaeth, ac ychydig wrth gwrs a gyfranent tuag at ei roddi i'w plant. Yr oedd dylanwad y syniad hwn yr un mor nerthol, os nad mwy, yn mysg y crefyddwyr; ac anhawdd iawn oedd ei wrthweithio; yn enwedigol gan yr haerid fod yr ysgrythyrau, yn gystal a'r ffeithiau, yn gosod y rhagoroldeb yn hytrach, ar "ffol bethau y byd, fel y gwaradwyddai y doethion." Ar y llaw arall, yr oedd amryw yn mysg y rhai mwyaf pwyllog ac ystyriol yn y corff, yn rhagweled yr angenrheidrwydd o ysgogi yn yr achos, ac o ddefnyddio rhyw foddion i helaethu gwybodaeth gyffredinol y pregethwyr. Yr oedd aml un o'r pregethwyr eisoes wedi ymwthio, trwy eu llafur a'u hymdrech eu hunain, yn lled ddwfn i drysorau gwybodaeth ddynol; ac fe ddaeth yn raddol i'r golwg nad oedd hyny o ddysgeidiaeth a ennillasent, ddim yn effeithio yn niweidiol ar eu gweinidogaeth, ond yn hytrach y gwrthwyneb. Gwelid eu bod yn rhagori mewn gwirionedd ar y rhai llai eu dysg na hwy, o ran dysgleirdeb eu gweinidogaeth, a helaethrwydd eu defnyddioldeb. Yr oedd y dosbarth yma yn lluosogi hefyd. Fel yr oedd y gwrandawyr yn amlhau, ac yn eu mysg amryw wedi cael mwy o fanteision nag eraill, ëangach eu gwybodaeth, a choethusach eu teimladau, yr oedd y syniad yn raddol yn ennill tir, fod yn rhaid i'r sawl a gyfrifid yn athrawon crefyddol i'r genedl, fod yn cyfateb i'w lle cyhoeddus, os dysgwylid i'w dylanwad fod yn rymus a pharhaus. Fel hyn, yn ddistaw, ond yn effeithiol, yr oedd gwrthweithiad yn cerdded trwy y cyfundeb i'r hen ddifaterwch am ddysg, ac i'r hen ragfarnau yn ei erbyn. Dechreuodd rhai gŵŷr o ddylanwad siarad yn y cymdeithasfaoedd am yr angenrheidrwydd am dano, a gofyn ai nid oedd modd ysgogi tuag at ei gyrhaedd. Yr oedd lluaws o bregethwyr ieuainc eu hunain yn teimlo eu colled o ddiffyg rhyw gymaint o ddysgeidiaeth, ac yn gwneyd eu goreu tuag at eu gael. Ai ambell un i Manchester, un arall i Lerpwl, arall i Gaer, neu i ryw le cyffelyb, i'r ysgol. Rhai a wnaent hyn ar eu traul eu hunain, eraill a anfonid gan gyfeillion caredig a galluog, o wir awydd gwasanaethu eu cenedlaeth yn fwy trwy hyny. Eto, nid oedd y moddion hyn ond achlysurol a damweiniol. Nid oedd y mesur o ddysgeidiaeth a gyrhaeddid chwaith, ond bychan ac arwynebol. Yr oedd rhai, pa fodd bynag, wedi cael blas arno, ac yn teimlo yn wresog o blaid ei hyrwyddiad.

Wedi bod yn trafod yr angenrheidrwydd am ryw foddion sefydlog i roddi gradd helaethach o ddysgeidiaeth i'r pregethwyr, nes darostwng cryn lawer ar y rhagfarn a ffynasai gynt, fe sefydlwyd ar ŵr ieuanc o alluoedd a gras, o'r enw Mr. O. Williams, i'w anfon i athrofa, er mwyn ei berffeithio yn fwy i gadw athrofa i'r cyfundeb yn y Gogledd. Erthylodd y cais hwn, pa fodd bynag, trwy farwolaeth Mr. Williams. Erthylodd cais arall o'r un natur a wnaed yn ddiweddarach. Trwy y siomedigaethau hyn, fe roddwyd heibio y drafodaeth am flynyddau; ac o hyny hyd y fl. 1837, ni wnaed dim yn effeithiol er cwblhau yr amcan. Yn y flwyddyn grybwylledig, pa fodd bynag, fe gaed dau athraw wedi graddio eu hunain, un yn Edinburgh, a'r llall yn Rhydychain, yn wŷr tra chymhwys i'r swydd, sef y Parchn. Lewis Edwards, M.A., a David Charles, B.A. Yr oedd yr un achos dan drafodaeth yn y Deheubarth, a gwnaed penderfyniad unllais bellach yn y ddwy dalaeth, i osod yr amcan mewn gweithrediad. Mewn canlyniad sefydlwyd un athrofa yn y Bala, a chafwyd gan y gwŷr crybwylliedig uchod gymeryd ei harolygiaeth. Yn fuan ar ol hyn, yr oedd hen dŷ Howell Harris yn Nhrefecca, dan adgyweiriad i'w barotoi yn athrofa i'r Deheubarth; ac yn hytrach na bod y ddau athraw yn arolygu un athrofa, fe gytunwyd ar i'r Parch. D. Charles gymeryd arolygiaeth athrofa Trefecca, ac i'r Parch. L. Edwards aros yn y Bala.*

Nid yw ein gofod yn caniatâu, ac nid yw amcan y gwaith hwn yn galw, am i ni roddi hanes manwl o'r sefydliadau uchod, yn enwedig gan fod adroddiadau o honynt wedi eu cyhoeddi, trwy y rhai y gellir canfod, y modd y maent yn cael eu cynal, enwau yr efrydwyr sydd wedi bod, neu yn bod ynddynt, pa lyfrau sydd wedi eu rhoddi i ffurfio llyfr-gelloedd at eu gwasanaeth, a pha arian sydd wedi eu casglu, neu wedi eu gadael, tuag at eu gwaddoli. Bellach, y mae rhai cannoedd o bregethwyr wedi bod ynddynt, ac wedi derbyn trwyddynt fanteision lawer, y cyfryw na chawsent, ond odid, trwy un ffordd arall; a gellir ychwanegu fod llesâd annhraethol esioes wedi ei gynyrchu trwy y sefydliadau hyn, nid yn unig i'r gwŷr ieuainc eu hunain a fu ynddynt, ond hefyd i'r cyfundeb ac i'r genedl trwyddynt hwy; a rhoddir sail i ddysgwyl y bydd y llesâd hwn yn cael ei brofi, nid dros ryw dymhor byr, ond dros holl oes yr efrydwyr.

NODIADAU TERFYNOL.

Nid ydym hyd yma wedi gallu gwneuthur un sylw o'r *cynulliadau*, *wythnosol*, *misol* a *chwarterol*, a berthyn yn hanfodol i Fethodistiaeth Cymru, ac nid yw ein terfynau yn caniatâu i ni ond yn unig eu crybwyll, er fod eu pwysigrwydd yn gofyn am fwy na crybwylliad achlysurol. Yr un

* Yn fuan ar ol ymadawiad Mr. Charles i Drefecca, appwyntiwyd y Parch. John Parry i fod yn gyd-athraw gyda Mr. Edwards yn y Bala.

peth sydd raid ei ddadgan am "GENADAETH DRAMOR" y cyfundeb.* Cydnabyddir yn gyffredinol fod y cyfarfodydd uchod yn ffurfio un o brif nodweddau Methodistiaeth. Amcan y rhai wythnosol ydyw rhoddi ffurf a grym i ymgorfforiad eglwysig, a defnyddir hwy i ddwyn ymlaen yr holl achosion a berthyn i gymdeithas eglwysig. Y cyfarfodydd *misol* a *chwarterol* ydynt wahanol. Cyfansoddir y rhai'n o *swyddogion* eglwysig; a chyfansoddant y wedd *Henaduriaethiol* sydd ar y cyfundeb. Mae y rhai *misol* yn cyfateb i *Presbyteries* y Scotiaid, a'r rhai *chwarterol*, i'w *Synods* hwy. Bwriedir y cynulliadau hyn yn foddion undeb, cryfhad, cydymdeimlad a chydweithrediad y corff. I wneyd yr undeb yn gyflawn, fe ddylai fod un cynulliad corfforedig, yn cyfateb i *Assembly* y Scotiaid. Yn mysg y Methodistiaid, y mae y cwlwm hwn yn ddiffygiol; diffyg hefyd a allai mewn amser beri anghysur, oddieithr ei ragflaenu mewn pryd.

Y mae yn hanfodol yn y cynulliadau crybwylledig, fod rhyw gymaint o amser pob cyfarfod yn cael ei dreulio gyda phethau pwysicaf crefydd, mewn ymddyddanion brawdol ar egwyddorion athrawiaethol, profiadol, neu ymarferol, crefydd. Trwy hyn derbyniai yr ieuainc les oddiwrth brofiad yr hen;—trwythid y naill gristion yn ysbryd un arall. Gosodid y safon y cyrhaeddasai rhai iddo ger bron, fel ag i gymhell eraill i'w gyrhaedd. Deuai y naill i gydnabyddiaeth â'r llall, ac ymdwymnai pawb yn ngwres y'u gilydd. Rhoddid mantais i gynghori, rhybuddio, hyfforddi, neu os byddai raid, i geryddu eu gilydd. Canfyddai un ragoriaethau mewn arall teilwng o'u hefelychu, neu waeleddau cymhwys o'u gochel. Mewn gair yr oedd y rhan yma o'r cynulliadau henaduriaethol yn fanteisiol i "fwrw halen i ffynnonell y dyfroedd;" i amaethu egwyddorion crefyddol yn nghalonau y swyddogion eu hunain, a thrwyddynt hwy, yr oedd mesur o'r un llesâd yn cael ei weini i aelodau yr holl eglwysi.

Mae ein gofod weithian ar ben, a rhaid i ni derfynu. Yr oeddym yn bwriadu gwneuthur adolygiad cyffredinol ar yr holl hanesiaeth cyn rhoddi ein hysgrifell heibio, ond fe'n coffeir na oddef y terfynau gosodedig i ni wneuthur hyny. Yr ydym hefyd wedi gorfod gadael allan rai hanesion a ddaeth i law yn ddiweddar, y rhai y buasai yn dda genym eu croniclo, pe cawsid hwy mewn pryd; yn awr, pa fodd bynag, y mae hyny yn anmhosibl, heb chwyddo y gwaith hwnt i'r terfynau bwriadol. Achubir y cyfleusdra cyn hir, pa fodd bynag, i'w gosod yn y wasg yn rhyw ffurf, fel y byddont mewn cof a chadw, gogyfer â rhyw gyfnod cyfleus, a allai eto ddigwydd.

* Yr oeddym wedi ysgrifenu bras-olwg ar gychwyniad a llwyddiant y Gymdeithas hon, ond rhoddwyd ar ddeall i ni, ar ol ei gyfansoddi, nad oedd modd ei osod o fewn y terfynau gosodedig, ac felly nid oes genym ond cyfeirio y darllenydd at Adroddiadau blynyddol y Gymdeithas.

TAFLEN AMSERYDDOL O DDYGWYDDIADAU

CYSYLLTIEDIG A

METHODISTIAETH CYMRU:

O'I GYCHWYNIAD HYD YN AWR.

---

fl.	
1736.	Howel Harris yn dechreu cynghori yn Nhrefecca pan yn 21 mlwydd oed.
„	Parch. Daniel Rowlands yn dechreu tynu sylw trwy ei weinidogaeth yn Llangeithio, pan yn 23 mlwydd oed.
„	Parch. Howel Davies yn cyffroi sir Benfro trwy ei weinidogaeth yntau.
„	Parch. George Whitfield yn cael ei ordeinio gan esgob Caerloyw.
1737.	H. Harris yn ymweled gyntaf â sir Faesyfed.
1738.	Y gymdeithas eglwysig gan y Methodistiaid Saesonig yn Lloegr.
„	Parch. D. Rowlands yn pregethu yn Nghil-y-Cwm y tro cyntaf.
„	Cychwyniad cyntaf Methodistiaeth yn Pennant, yn sir Aberteifi.
1739.	Howel Harris yn ymweled gyntaf â Gwynedd.
„	Lewis Evan, Llanllugan, yn cael ei ddychwelyd, ac yn fuan yn dechreu cynghori.
„	Richard Tibbot, Llanbrynmair, yn ymlynu wrth y Methodistiaid.
„	Harris yn sir Benfro y tro cyntaf, ac ar ei daith, yn pregethu yn Nghastell-nedd.
1740.	Harris yn pregethu y tro cyntaf yn y Bontfaen ac yn St. Ffagan, sir Forganwg.
„	Daniel Rowlands yn ecisio pregethu yn eglwys Llanuwchllyn, ger y Bala.
„	Parch. William Williams, Pant-y-celyn, yn ymuno â'r Methodistiaid.
1741.	Mr. Whitfield yn priodi Miss Elizabeth James yn eglwys Caerffili.
„	Jenkin Morgan, yr ysgolfeistr, yn ardal y Bala.
„	Richard Tibbot yn ymweled â Griffith Jones, Llanddowror.
„	Howel Harris yn sir Gaernarfon y tro cyntaf.
„	Daniel Jenkins, "llaw ddehau" Rowlands, yn ymweled â sir Gaernarfon.
1742.	Adfywiad grymus yn cymeryd lle yn Scotland.
„	John Harris, sir Benfro, yn dechreu pregethu, ac yn marw yn y flwyddyn 1788.
„	Ymlid William Pritchard, o herwydd ei grefydd, o Lasfryn-fawr, sir Gaernarfon, i Fôn i breswylio.
„	Gosod ffurf trefnusaeth ar Fethodistiaeth : sefydlu Cyfarfodydd misol a chwarterol.
„	Cynal y Cyfarfod misol cyntaf yn y Gogledd, yn y "Tyddyn," ger Llanidloes.
„	Lluaws o gymdeithasau eglwysig yn cael eu ffurfio yn ngwahanol siroedd y Dehendir yn nghyda sir Drefaldwyn.
„	Richard Jones, Niwbwrch, a meibion Thomas Pritchard, Tŷ-gwyn, Llangefni, Môn, dan argraffiadau crefyddol
„	Y Gymdeithasfa gyntaf yn cael ei chynal yn Watford, sir Forganwg, pryd yr oedd Whitfield yn Gymedrolwr.
„	Parch. David Williams, Llys-y-fronydd, yn dechreu pregethu. Marw yn y flwyddyn 1792, yn 75 mlwydd oed.
„	Evan Williams yn cael ei anfon gan Griffith Jones, Llanddowror, i sir Gaernarfon i gadw ysgol, ac yn cael ei ymlid yn ol ar ffrwst allan o'r wlad.
„	Cwrdd misol yn cael ei gynal yn Llanddeusant—y cyntaf erioed.
1743.	Deunaw o gymdeithasau eglwysig yn sir Benfro a 122 o aelodau.
„	Whitfield yn pregethu yn Abertawe.
„	Lewis Rees yn ymweled y tro cyntaf â gwlad Môn.
„	William Thomas o'r Pîl, yn ymuno â'r Methodistiaid pan yn 20 mlwydd oed.

fl.
1743. William Harri yn cael ei anfon i sir Gaernarfon i gadw ysgol ac i gynghori (neu hwyrach flwyddyn yn gynt).
1744. John Belcher yn cael ei alw i lwyr ymroddi i waith y weinidogaeth.
„ Evan Williams yn ymadael â'r Methodistiaid, ac yn myned at yr Ymneillduwyr.
„ William Risiart Llwyd yn ymweled a'r Bala.
„ Benjamin Thomas yn pregethu yn Minffordd, Mon.
„ Morgan Griffith, Lleyn, yn dechreu pregethu.
„ Hugh Griffith, cynghorwr yn Lleyn, yn Ffoi i Fon o herwydd erlidigaeth.
„ Adeiladu tŷ i ddybenion crefyddol yn Llansawel, sir Gaerfyrddin, sef y capel cyntaf.
1745. Yr ymgrynhoad eglwysig cyntaf gan y Methodistiaid yn y Bala.
„ John Thomas o'r Col, sir Gaerfyrddin, yn myned at G. Jones, Llanddowror, i weini, er mwyn manteision crefyddol.
„ Adgyweirio capel Llanlluan, sir Gaerfyrddin.
„ Thomas Meredith, Mochdre', sir Drefaldwyn, yn dechreu cynghori.
„ Llythyr oddiwrth gynghorwyr sir Forganwg at y gymdeithasfa.
„ Codi capel y Creigiau Llanbedr, sir Aberteifi.
„ Geni Robert Jones, Rhoslan. Marw, 1829.
1746. Parch. Peter Williams yn Llanidloes ac yn ngwlad Món, y tro cyntaf.
„ John Dafydd Daniel, sir Aberteifi, yn dechreu cynghori.
„ Saith ugain o gymdeithasau eglwysig wedi eu ffurfio, a thua 40 o bregethwyr wedi cychwyn ar eu llafur.
1747. Daniel Rowlands yn ymweled y tro cyntaf â sir Gaernarfon.
„ Adeiladu capeli Lanfair Mualit Cefn-byrach a'r Groeswen.
1748. Howel Harris yn ymweled ag Adwy'r Clawdd, ac â thref Dinbych.
„ Parch. Peter Williams yn ymuno â'r Methodistiaid, ac yn ymweled a Gwynedd.
„ Dafydd Jones, Adwy'r Clawdd, yn erlid Lewis Evan yn Ninbych.
„ Pregethu yn y Garreg-gam, Llanrhuddlad, yn Mon.
1749. Edward Parry, Bryn-bugad, sir Ddinbych, yn dechreu pregethu.
„ Methodistiaeth yn cychwyn yn Nyffryn-Clwyd, sir Ddinbych.
„ Adeiladu capel Aberthyn, sir Forganwg.
„ John Richards, Bryniog, ger Llanrwst, yn dechreu pregethu.
„ Adeiladu capel bychan yn ardal Twrgwyn.
„ Dafydd Jones, Adwy'r Clawdd, yn dechreu pregethu.
1750-60. Cychwyniad Methodistiaeth yn Nghastell-newydd-yn-Emlyn.
„ Pregethu yn dechreu yn Llanarmon Dyffryn-Ceiriog, sir Ddinbych.
„ Howel Harris yn pregethu yn Llanidloes.
„ R. Llwyd, blaenffrwyth pregethwyr sir Fflint, yn dyfod i Blas-ashpool i breswylio.
„ Evan Dafydd, un o gynghorwyr boreaf sir Gaernarfon, yn marw.
„ Codi capel Clynog, sir Gaernarfon.
1751. Yr ymraniad galarus rhwng Harris a Rowlands.
1752. Adeiladu capel Tŷ-mawr, Brynercoes, yn Lleyn sir Gaernarfon.
1753. Tŷ Mr. Harris, yn Nhrefecca, yn cael ei orphen.
„ Pregethu yn dechreu yn ardal Edeyrn yn Lleyn.
1754. Adeiladu capel Clos-y-graig, sir Gaerfyrddin.
„ Adeiladu capel Woodstock, sir Benfro.
„ Dychweliad Mr. T. Foulkes, Bala, at grefydd.
1755. Dechreu pregethu yn Nghaergybi Môn.
„ Geni y Parch. Thomas Charles, yn sir Gaerfyrddin.
„ John Owens, Berthen-gron, yn dechreu pregethu. Marw yn 1776.
„ Methodistiaeth yn cychwyn yn ardaloedd Maentwrog a'r Penrhyn.
1756. Adeiladu capel Llwyn-adda, yn Llechryd.
„ Ffurfio Cymdeithasau eglwysig yn Aberffrwd a Chwm-ystwyth.
„ Ordeinio Morgan John Lewis, yn y New Inn, sir Fynwy.
1757. Dechreu pregethu yn Llandderfel, ger y Bala.
1758. Adeiladu capel yn Abergwaun.
1760. Adeiladu y capel cyntaf yn Llangeitho.
„ T. Bowen, Ysw., yn codi capel Waunifor, sir Aberteifi, ar ei draul ei hun.
„ Adeiladu capel yn nhref Aberteifi.
„ Sampson Thomas yn dechreu pregethu. Yn marw yn 1807.
„ Pregethu yn dechreu yn Rhos-y-brithdir, sir Drefaldwyn.

fl.
1760. Yr ymffurfiad eglwysig yn Nghaio, yr ail waith, sef ar ol yr ymraniad.
„ H. Harris yn ymuno â'r Militia.
„ Dechreu pregethu yn Banc-y-felin, ger Caerfyrddin.
„ Adeiladu capel yn Nant-garedig, sir Gaerfyrddin.
„ Dechreu pregethu yn Aberffraw, Môn.
„ Cychwyniad cyfarfodydd Misol yn Môn.
„ Evan Roberts, Pen-y-graig, un o hen gynghorwyr sir Gaernarfon, yn marw.
„ Aflonyddu ar oedfa yn Nghaergwrle.
„ Methodistiaeth yn dechreu yn Llanarmon-yn-Iâl.
„ Methodistiaeth yn cychwyn yn Llangollen.
„ Pregethu yn dechreu yn y Wyddgrug.
1761. E. Parry yn dyfod i breswylio i'r Bryn-bugad ; yn marw yn 1784, yn 63 ml. oed.
„ Parch. Thomas Gray, yn dyfod i weinidogaethu i Ffos-ffin, sir Aberteifi.
„ Parch. Griffith Jones, Llanddowror, yn marw.
1762. Mr. T. Foulkes, Bala, yn dechreu pregethu ; yn marw yn 1802, yn 71 ml. oed.
„ "Y Diwygiad Mawr," mewn Dê a Gogledd.
„ Adeiladu Capel yn Llanon, sir Aberteifi.
„ Dechreu pregethu yn Nghaerwys, sir Fflint.
„ Pregethu achlysurol yn Nghilcain, sir Fflint.
1763. Robert Jones o Rhoslan, yn dechreu cynghori.
„ Agor y "Capel Newydd" yn sir Benfro, a gweinyddu y sacramentau ynddo.
„ Edward Parry o Bryn-mulan, sir Ddinbych, yn marw.
„ Dechreu pregethu gan y Methodistiaid yn Llanllyfni.
„ Cychwyniad Methodistiaeth yn Cwmaman.
„ Cymdeithas eglwysig wedi ei ffurfio yn Nghaer-geiliog, Môn.
„ Mr. Lloyd o Caio, yn dechreu pregethu ; ac yn marw yn 1808, yn 65 ml. oed.
„ Adeiladu capel yn Ngharfarchell, sir Benfro.
„ Parch. Daniel Rowlands yn cael ei droi allan o'r eglwys blwyfol.
1764. Jenkin Morgan o sir Aberteifi, yn dechreu pregethu ; ac yn marw yn 1824.
„ Methodistiaeth yn cychwyn yn Glanrhyd, sir Benfro.
„ Adeiladu capel Llangristiolus, y cyntaf yn Môn.
„ Owen Thomas Rolant o Gaergybi, yn dechreu pregethu.
„ Pregethu achlysurol yn Nhre-llywarch, Môn.
1765. John Llwyd o Llansanan, yn ymuno â'r Methodistiaid.
„ John Evans o'r Bala, yn dechreu pregethu.
„ Adfywiad nodedig yn Nghlynog, sir Gaernarfon.
„ Methodistiaeth yn ymwreiddio yn ardal Bryn-siencyn, Môn.
„ Dechreu pregethu yn Mhonterwydd, sir Aberteifi.
„ Dafydd Morris, Twrgwyn, yn dechreu pregethu.
„ Methodistiaeth yn cychwyn yn ardal Llanberris, sir Gaernarfon, mewn tyddyn o'r enw Llwyn-celyn.
1766. Cychwyniad Methodistiaeth yn Nolgellau.
„ Parch. Peter Williams yn pregethu yn nhref Llanrwst.
„ William Davies o'r Golch, sir Fflint, yn ymuno â'r Methodistiaid.
1767. Dr. Edward Williams yn gwrando ar y Parch. D. Rowlands, yn Nyffryn Clwyd.
„ William Davies o'r Golch, yn dechreu pregethu.
„ Henry Richards o sir Benfro, yn dyfod i'r Abermaw i gadw ysgol.
„ Codi capel i'r Methodistiaid yn Llanbrynmair.
„ Cymdeithasfa yn y Bala, pryd nad oedd ond 200 o wrandawyr ynddi.
1768. Pregthu yn Ffrith-bala-deulyn, ger Llanllyfni ; ac yn Tyddyn-mawr, ger Bryn-yr-odyn ; sir Gaernarfon.
„ Parch. David Jones yn dyfod i Langan.
„ Agoriad Coleg yr Iarlles Huntington yn Nhrefecca.
„ Mr. Griffith o Glan-yr-afon-ddu, sir Gaerfyrddin, yn marw.
„ Owain Siôn o'r Plas-ucha', sir Drefaldwyn, yn ymuno â'r Methodistiaid.
„ Thomas Hughes o Fochdre', sir Ddinbych, yn cael ei ennill at grefydd.
1769. Thamas Parry o Llanrhaiadr, Dyffryn Clwyd, yn ymuno â'r crefyddwyr.
„ Y cynyg cyntaf ar bregethu yn Henllan, ger Dinbych.
„ Codi capel yn Llanwyryfon, sir Aberteifi.
„ Sefydlu Ysgol Sabbothol yn Crawlom, ger Llanidloes, y gyntaf, efallai, yn y byd.

fl.
1769. Ennill Thomas Williams, Pwll-yr-hwyaid, Niwbwrch, Môn, at grefydd.
„ Geni Ebenezer Morris ; yn 1788 yn dechreu pregethu ; yn 1825 yn marw.
„ Cynal cymdeithasfa yn Llanllyfni, yn sir Gaernarfon.
„ Cwrdd misol yn nhy Robert Owen, Bryn-y-gadfa, Lleyn.
„ Parch John Roberts o Langwm, yn dechreu pregethu.
1770. Methodistiaid yn dechreu ymgyfarfod yn Mhont-rhyd-y-bere, sir Frycheiniog.
„ Rhys Davies yn dechreu pregethu.
„ Owain Thomas Rowlant yn pregethu yn Lerpwl.
„ Y bregeth gyntaf gan ymneillduwyr yn Nghaernarfon.
„ Codi capel yn Llangadog, sir Gaerfyrddin.
„ Y bregeth gyntaf yn Brechfa, sir Gaerfyrddin, a hyny gan J. Evans, Cil-y-cwm.
„ Pregethu yn nhy Risiart Thomas o'r Farteg, ger Aberafon.
„ Cyhoeddi Beibl Peter Williams, y cyntaf erioed o'r fath yn Gymraeg.
„ Parch. Howell Davies, sir Benfro, yn marw.
„ Cymdeithasfa yn Aberhosan, sir Drefaldwyn.
„ Methodistiaeth yn cychwyn yn Machynlleth.
„ Pregethu yn cychwyn yn Llangynog, sir Drefaldwyn.
„ Edward Roberts, "Hen ficer Crawgallt," Trawsfynydd, yn dechreu pegethu.
„ Methodistiaeth yn dechreu yn Llandrillo yn Edernion, sir Feirionydd.
„ Codi Capel yn Rhosllanerchrugog.
„ Thomas Edwards, troellwr, Caergwrle, yn ymuno â chrefydd.
„ Robert Evans, Llanrwst, yn dechreu pregethu ; yn marw yn 1782, trwy syrthio oddiar y cerbyd, wrth ddyfod adref o Lundain.
„ Ffurfio cymdeithas, eglwysig yn Llanarmon-yn-Ial.
„ Robert Jones o Rhoslan, yn cadw ysgol ddyddiol yn Rhuddlan.
1771. Edward Jones, Prion, sir Ddinbych, yn ymuno â'r Methodistiaid.
„ Codi Capel yn Llanfynydd, sir Gaerfyrddin.
„ Adeiladu Capel yn Nghaerfyrddin.
„ Pregethu yn dechreu yn Aberystwyth.
„ Cyhoeddiad Dafydd Morris yn sir Gaernarfon.
1772. Cymdeithasfa yn Abergwaun, sir Benfro.
„ Methodistiaid yn ymweled gyntaf ag ardal Pont-Robert, sir Drefaldwyn.
„ Pregethu ar fynydd Mynyllod, Edernion, sir Feirionydd.
1773. John Llwyd, Llansanan, yn dechreu pregethu.
„ Codi Capel yn Llangollen.
„ Cwrdd misol yn cael ei gadw yn Henllan.
„ Mr. Charles yn gwrando Daniel Rowlands, yn y Capel Newydd, sir Benfro.
„ Howel Harris, Ysw., yn marw.
„ Codi Capel Tan-y-fron, sir Ddinbych.
„ Pregethu cyson yn dechreu yn Mryn-yr-odyn, sir Gaernarfon.
1774. Methodistiaeth yn cychwyn yn Llundain.
„ Pregethu yn dechreu yn Maesteg, sir Forganwg, ac yn Llanwno.
„ Morris Evans, yn dyfod i Felin-y-mardy, sir Drefaldwyn, ac yn cychwyn Methodistiaeth yno.
„ Dafydd Morris yn symud i ardal Twrgwyn.
„ Dafydd Jones o Adwy'r-clawdd, yn marw.
1775. Codi Capel yn y Goppa-fach, sir Forganwg.
„ Adeiladu Capel Salem, ger Llangan.
1776. Edward Goslet yn dechreu pregethu yn 26 mlwydd oed, yn marw yn 1828.
„ Peter Williams yn pregethu y tro cyntaf yn Nhre'r-ddol, sir Aberteifi.
1776. Dechreu pregethu yn ardaloedd Llanrug a Llanddeiniolen, sir Gaernarfon.
„ Adeiladu Capel yn Nghastell-newydd-yn-Emlyn.
„ Pregethu cyson yn Malldraeth, Môn.
„ Adfywiad grymus yn Aberffraw, Môn.
„ Dechreu pregethu yn Beaumaris.
„ Codi Capel Gyfylchi i'r Parch. William Davies, Castell-Nedd.
„ Codi hen Gapel Dyffryn Clwyd, a Chapel y Berthen-gron.
1777. Adeiladu Capel y Bont-uchel, sir Ddinbych.
„ Sefydlu cyfarfod eglwysig yn Llandderfel, sir Feirionydd.
„ Adeiladu y *Tabernacle*, yn Hwlffordd.

fl.
1777 Adeiladu Capel y Penrhyn, yr ail-gapel yn sir Feirionydd.
„ Dyfodiad Richard Jones o'r Aberffraw i Gaergybi.
„ Codi Capel yn Amlwch.
„ Y bregeth gyntaf gan y Methodistiaid yn Llanllechid, sir Gaernarfon.
1778. D. Parry, sir Frycheiniog, yn dechreu pregethu; yn marw yn 1821, yn 61 oed.
„ Methodistiaid yn ymweled y tro cyntaf â Llanfyllin, sir Drefaldwyn.
„ Cychwyniad Methodistiaeth yn Nolyddelen, sir Feirionydd.
„ Cwnstabl yn dal pregethwr yn Henllan.
„ Codi capel yn y Gorwydd, sir Frycheiniog.
„ Parch. E. Evans, Ffos, sir Frycheiniog, yn dechreu pregethu; yn marw yn 1828.
1779. John Davies o Nantglyn, yn ymuno â'r Methodistiaid yn Nhan-y-fron.
„ Adeiladu capel yn Llanidloes.
„ Abraham Wood, Llanbrynmair, yn marw.
1780. Diwygiad yn tori allan yn Saethlon-bach Lleyn, sir Gaernarfon.
„ John Jones, Bodynolwyn, yn dyfod i ymsefydlu yn Môn.
„ Cymdeithasfa yn Nghastell-Nedd.
„ Dafydd Cadwaladr yn dechreu pregethu, yn 28 mlwydd oed.
„ Robert Jones, Rhoslan, yn pregethu yn Abergynolwyn, sir Feirionydd.
„ Pregethu gan y Methodistiaid yn ardal Trefriw, ger Llanrwst.
„ Codi capel bychan yn Mochdre', sir Ddinbych.
„ Cymdeithasfa yn cael ei chynal yn Henllan.
„ Dechreu pregethu yn Llangerniew, sir Ddinbych.
1781. Robert Evans, Llanrwst, yn myned i Lundain, y Cymro cyntaf a aeth yno i bregethu, ar ol dyddiau Howel Harris.
„ Parch. John Williams, Lledrod, yn ymuno â'r Methodistiaid.
„ Diwygiad mawr yn Llangeitho.
„ Y llifeiriant yn ysgubo ymaith dŷ, a'r aelodau eglwysig yn ymgynulledig ynddo, yn sir Drefaldwyn.
„ Geni y Parch Ebenezer Richards, Tregaron;—yn dechreu pregethu yn 1801;—yn marw yn 1837.
„ Adeiladu capel yn Mhwllheli.
„ William Llwyd, Ysgeifiog, yn dyfod i Liverpool; y cyntaf o'r Methodistiaid.
1782. Parch. Daniel Rowlands yn pregthu y bregeth ryfeddol ar Ioan iii. 16, yn y Bala.
„ Methodistiaeth yn cychwyn yn Liverpool.
„ Parch. A. Evans, Cynfil, yn dechreu pregethu;—yn marw yn 1837, yn 82 oed.
„ Codi capel yn Llasamled, ger Abertawe.
„ Robert Raikes, Ysw., yn sefydlu ysgol Sabbothol yn Nghaerloyw.
„ Dafydd Rhys, Llanfynydd, yn dechreu pregethu; yn marw ar ei daith yn 1818.
„ Yr oedfa gyntaf yn mhlwyf Llanwrin, ger Machynlleth.
„ Parch. James James, Pen-blaen, sir Faesyfed, yn dechreu pregethu yn 22 mlwydd oed. Yn marw yn 1831.
„ Parch. John Williams, Pant-y-celyn, yn dyfod i Lanfair-Mualllt.
1783. Parch. Thomas Jones, Dinbych, yn dechreu pregethu. Yn marw yn 1820.
„ Cynal y cyfarfod misol cyntaf yn sir Fflint.
„ Methodistiaeth yn ymsefydlu yn Ninbych.
„ Pregeth gyntaf Mr. Charles, yn Llanfachreth, sir Feirionydd.
„ Mr. Charles yn priodi, ac yn ymsefydlu yn y Bala.
1783. John Thomas, y gof, Llanfwrog, Môn, yn ymuno â'r crefyddwyr.
„ Ffurfio eglwys Fethodistaidd yn Llanerchymedd, Môn.
1784. Y gymdeithasfa gyntaf yn Aberystwyth.
„ Y gymdeithasfa gyntaf yn Beaumaris.
„ Parch. John Jones, Edeyrn, yn dechreu pregethu.
„ Rhys Morgan, Tal-llychau, yn dechreu pregethu; yn marw 1847, yn 63 oed.
„ Parch. E Harris, Treamlod, sir Benfro, yn dechreu pregethu; yn marw 1819.
„ Parch. Cristopher Basset yn marw, yn 31 mlwydd oed.
„ Y bregeth gyntaf yn Rhyl, sir Fflint.
1785. John Ellis, Abermaw, yn dechreu pregethu; yn marw yn 1810, yn 52 ml. oed.
„ John Davies, Nantglyn, yn dechreu pregethu; yn marw yn 1843, yn 82 oed.
„ Mr. Charles yn ymuno â'r Methodistiaid.
„ Risiart Morris yn dyfod i ymsefydlu i ardal Llanfair-pwll-gwyngyll, Môn.

fl.
1785. Ymlid Owen Jones o Bodhelen, Lleyn, a'i ymsefydliad yn y Cwyrt, Môn.
„ Adeiladu Capelydd, Aberffraw, Caergeiliog, y Capel-coch, a Niwbwrch, Môn.
„ Adeiladu Capel yn Aberystwyth.
„ Adeiladu y Capel Cymreig cyntaf yn Llundain, yn Wilderness Row.
1786. Parch. John Williams, Pant-y-celyn, yn myned yn athraw i goleg Trefecca.
1786. Ail-adeiladu capel Cil-y-cwm, sir Gaerfyrddin.
„ Dechreu pregethu yn Llanelli, sir Gaerfyrddin.
„ Methodistiaeth yn dechreu ymsefydlu yn Nghemmaes, Môn.
„ Ysgol Sabbothol yn Llanfwrog, y gyntaf yn Môn.
„ Ellis Edward, Darowen, sir Drefaldwyn, yn marw.
1787. John Williams, Dolyddelen, yn dechreu pregethu ; yn marw yn 1839, yn 82 oed.
„ Parch. Mr. Jones, Llangan, yn Nolgellau.
„ Dechreu pregethu yn Llwyngwril, sir Feirionydd.
„ John Edwards, Ereiniog, yn dechreu pregethu. Yn marw yn 1823.
„ Adeiladu capel Llansantffraid-glan-Conwy.
„ Anne Parry, Bryn-mulan, sir Ddinbych, yn marw ;—agor ei bedd yn 1830 ; a thrachefn yn 1836.
„ Helaethu " Capel Mwd " yn Aberffraw.
„ Symud y pregethu o'r Waun-eura, Mon, i gapel Glasinfryn.
„ Parch. William Davies, Castell-Nedd, yn marw, yn 67 mlwydd oed.
„ Parch. Evan Richardson yn ymsefydlu yn Nghaernarfon.
„ Yr oedfa gyntaf yn mhlwyf Llandegai, sir Gaernarfon.
„ Robert Roberts, Clynog, yn dechreu pregethu. Yn marw yn 1802.
„ Adeiladu y capel Cymraeg cyntaf yn Liverpool, yn *Pall Mall.*
1788. Parch. Ebenezer Morris yn dechreu pregethu yn 20 ml. oed ; yn marw 1825.
„ Cychwyniad Methodistiaeth yn Manchester.
„ Cymeryd tŷ anedd yn Llandeilo-fawr, sir Gaerfyrddin, i bregethu ynddo.
„ William Lewis, sir Fon, yn pregethu yn nhref y Fflint.
1789. Parch. S. Llwyd, Bala, yn ymuno â'r Methodistiaid.
„ Dechreu Methodistiaeth yn Llaneurgain, sir Fflint.
„ John Jones, Treffynnon, yn dechreu pregethu. Yn marw yn 1829.
„ Iarlles Huntingdon yn ymweled ag Abertawe.
„ Adeiladu capel Bryn-yr-odyn, sir Gaernarfon.
„ John Davies, gynt o Henllan, yn marw yn Liverpool.
„ Parchn. T. Hughes, a T. Edwards, Liverpool, yn dechreu pregethu. Y cyntaf yn marw yn 1828 , a'r olaf yn 1825.
„ Cychwyniad Methodistiaeth yn Nghaerlleon.
1790. Dechreu ysgol Sabbothol yn Mryn-yr-odyn, sir Gaernarfon.
„ Methodistiaeth yn cychwyn yn ardal Casgwys, sir Benfro.
„ Parch. Daniel Rowlands, Llangeitho, yn marw.
„ Cychwyniad Methodistiaeth yn Mostyn, sir Fflint.
„ Pregethu yn dechreu yn Nghorwen
1791. Lewis Morris yn dechreu pregethu. Yn marw yn 1855, yn 95 mlwydd oed.
„ Methodistiaeth yn ymsefydlu yn Llanuwchllyn, sir Feirionydd.
„ Diwygiad mawr yn y Dê a Gogledd.
„ Parch. William Williams, Pant-y-celyn, yn marw yn 74 mlwydd oed.
„ Iarlles Huntingdon yn marw.
1792. Robert Llwyd, Plas-ashpool, yn marw.
1793. Parch. Robert Griffith, Dolgellau, yn dechreu pregethu. Yn marw 1844.
„ Codi capel yn nhref Dinbych, ac yn Merthyr Tydfil.
„ Adeiladu y capel cyntaf yn nhref Caernarfon, a chapel yr Achyb, Llanllechid.
„ Parch. P. Oliver, Caerlleon, yn dechreu achos yn y ddinas. Yn marw yn 1800, yn 37 mlwydd oed.
1794. John Dafydd Daniel, sir Aberteifi, yn marw.
„ Adeiladu capel y Drindod, yn sir Aberteifi.
„ Parch. J. Thomas, Aberteifi, yn dechreu pregethu; yn marw yn 1849, yn 89 oed.
„ Adeiladu capel Beddgelert
„ Parch Richard Jones o'r Wern, yn dechreu pregethu. Yn marw yn 1833.
„ Adeiladu capel Dinas, yn Lleyn.
„ Adfywiad yn ardal y Dwyran, Bryn, a'r Gaerwen, Môn.

fl.
1794. Parch. Richard Lloyd, Beaumaris, yn dechreu pregethu.
„ Mr. Rice Hughes, Bodafon, yn marw.
„ Parch. John Ellias yn dechreu pregethu.
„ Methodistiaeth yn ymsefydlu yn Tal-llychau, sir Gaerfyrddin.
„ Adeiladu capel yn nhref y Wyddgrug.
„ Parch. D. Jones, Llangan, yn symud ei gartref i sir Benfro.
1795. Aberystwyth a'r Twrgwyn yn cael gweinyddiad swpper yr Arglwydd.
„ Dàl a dirwyo William Pugh, am bregthu heb drwydded.
„ Darostwng y ffair cyflogi ar y Sabboth yn Llangerniew, sir Ddinbych.
„ Methodistiaeth yn ymsefydlu yn Llanfyllin, sir Drefaldwyn.
„ Dechreu ysgol Sabbothol yn Manchester.
1796. Parch. Michael Roberts o Bwllheli, yn dechreu pregethu ; yn marw yn 1848.
„ Ymraniad yn nghynulleidfa Aberthyn, sir Forganwg.
„ Humphrey Owens o sir Fflint, yn marw yn 60 mlwydd oed.
1797. Codi Capel Bwlch-y-groes, sir Benfro.
„ Evan Evans o'r Waun Fawr, yn marw yn Llanidloes.
„ Cychwyniad Methodistiaeth yn Llanddowror.
„ Parch. J. Evans, New Inn, yn dechreu pregethu ; yn marw yn 1847, yn 68 oed
„ Cychwyniad Methodistiaeth yn Amwythig.
1798. Parch. Peter Roberts yn dechreu pregethu ; yn marw yn 1829.
„ Dechreu pregethu yn ardal y Talwrn, Môn.
„ Capten Williams, Caerlleon, yn dechreu pregethu.
„ Parch. Thomas Llwyd, Abergele, yn dechreu pregethu.
„ Mr. David Hughes o Llanrwst, yn dechreu pregethu ;—yn marw yn 1817.
1799. Dechreu pregethu yn Aberdâr, sir Forganwg.
„ Capel Cymraeg cyntaf yn Manchester.
„ Parch. John Elias yn priodi ac yn ymsymud i wlad Mon i breswylio.
„ Afiechyd peryglus yn dal Mr. Charles.
„ Codi Capel Cryg-glas, yn Abertawe.
1800. Nid oedd ond wyth o Gapelau yn sir Drefaldwyn yn y flwyddyn hon.
„ Dinystrio Capel y Methodistiaid yn Rhos-y-bol, Môn.
„ Parch. Daniel Jones o Lanllechid, yn dechreu pregethu.
„ Cymdeithasfa yn Casnewydd-ar-Wysg.
1801. Mr. Hugh Griffiths yn dyfod i'r Amwythig.
„ Parch. H. Jones, Llaneirwg yn dechreu pregethu; yn marw yn 1843, yn 71 oed.
„ Parch. James Hughes o Lleyn, yn dechreu pregethu ; ac yn marw yn 1851.
1802. Parch. John Peters o'r Bala, yn dechreu pregethu, a Thomas Owen o'r Wyddgrug, yr un amser.
1802. Parch. John Hughes, Pont Robert, yn dechreu ei yrfa gyhoeddus ; ac yn marw yn 1854, yn 79 mlwydd oed.
„ Parch. E. Griffiths yn dechreu yr un flwyddyn, ac yn marw yn 1839, yn 61 oed.
„ Parch. Abraham Jones o Lanfyllin, yn dechreu yn yr un amser.
„ Cychwyn yr ysgol Sabbothol yn y Gorwydd, sir Frycheiniog.
1803. Cynal y Gymdeithasfa gyntaf yn Merthyr.
„ Methodistiaeth yn cychwyn yn y Drefnewydd, sir Drefaldwyn.
„ Adeiladu Capel yn Nghorwen, sir Feirionydd.
1804. Dechreu ysgol Sabbothol yn Adwy'r Clawdd.
„ Adeiladu Capel yn Ystrad-gynlas.
„ Adeiladu Capel yn Nghaerlleon.
1805. Methodistiaid yn Amwythig yn ymsefydlu yn hen Gapel y Wesleyaid.
„ Adeiladu Capel yn Nghrug-hywel, sir Frycheiniog.
„ Adeiladu Capel Bedford-street, Liverpool.
1806. Dechreu ysgol Sabbothol yn Llanerch-y-mor, sir Fflint.
„ Methodistiaid yn dechreu pregethu yn Rhaiadr, sir Faesyfed.
„ Cyffro yn dechreu yn nghylch ordeinio Gweinidogion yn y Cyfundeb.
„ Parch. John Parry yn dyfod i ymsefydlu yn Nghaerlleon.
„ Adfywiad crefyddol yn mysg y Cymry yn Llundain.
1807. Parch. William Williams, Llundain yn dechreu pregethu, ac yn marw yn 1847.
„ Pregethu yn dechreu yn ardal Gellifor, Dyffryn Clwyd.
„ Troi y Parch. N. Rowlands allan o'r cyfundeb.

fl.
1808. Methodistiaeth yn cychwyn yn Magillt, sir Fflint.
„ Thomas Edwards o Liverpool, yn ymweled â'r Goror y waith gyntaf.
„ Parch. D. Charles yn dechreu pregethu; yn marw yn 1834, yn 72 mlwydd oed.
1809. Robert Prys o Blas-Winter, yn marw yn 71 mlwydd oed.
„ Parch. T. Jones yn dyfod i Ddinbych i fyw.
„ Parch. James Hughes, Llundain, yn dechreu pregethu, ac yn marw yn 1844.
1810. Methodistiaeth yn dechreu yn Hirnant, sir Drefaldwyn.
„ Parch. D. Jones, Llangan, yn marw yn 75 mlwydd oed.
„ Taro melin-wynt Llansamled gan fellten, a'i llosgi er arswyd mawr i'r trigolion.
„ Parch. Thomas Gray o Ffosffin, yn marw.
1811. Yr ordeiniad cyntaf ymhlith y Methodistiaid yn y Gogledd a'r Dê.
„ Tro hynod yn cymeryd lle ar weddi y Parch. Evan Richardson yn Llangefni, Môn, ar amser sychder mawr.
„ Mr William Bowen yn ymsefydlu yn Abertawe.
„ Adeiladu capel yn Llanfwrog, Môn.
1813. Parch. Robert Roberts o Lanelwy, yn symud i Rhosllanerchrugog i fyw; dechreuasai bregethu yn 1827, a bu farw yn 1849.
„ Parch. William Jones o Rhuddlan, yn dechreu pregethu; yn marw yn 1844.
„ Sefydlu Cymdeithas Goror Clawdd Offa, yr hon a elwir bellach yn "Gymdeithas Gaenadol Gartrefol y Methodistiaid Calfinaidd."
1814. Parch. Moses Parry yn dechreu pregethu; ac yn marw 1855.
„ Parch. T. Charles o'r Bala, yn marw.
1815. Parch. Richard Jones o'r Bala, yn dechreu pregethu.
„ Parch. Morgan Howells yn dechreu pregethu—yn marw yn 1852, yn 56 ml. oed.
1817. Diwygiad mawr yn y Dê a'r Gogledd.
„ Codi Capel Cymreig yn Woolwich, ger Llundain.
„ Methodistiaeth yn cychwyn yn Nghronant, sir Fflint.
1818. Methodistiaeth yn ymsefydlu yn Llangamarch, sir Frycheiniog.
„ Adfywiad grymus yn Lleyn ac Eifionydd.
„ William Jones o Laeth-bwlch, sir Drefaldwyn, yn marw yn 77 mlwydd oed.
1819. Cymdeithasfa hynod yn Llanidloes.
1820. Parch. Robert Ellis o'r Wyddgrug, yn marw.
1821. Adfywiad grymus yn y Bont-uchel, sir Ddinbych.
„ William Lewis o Glasinfryn, Môn, yn marw.
1822. Codi Capel "*Jewin Crescent*," Llundain.
„ William Davies o'r Golch, ger Treffynnon, sir Fflint, yn marw.
1823. George Ffoulkes o'r Wyddgrug, yn marw yn 80 mlwydd oed, wedi bod yn aelod er ys 61 o flynyddau.
1824. Adeiladu Capel Cooper-street, Manchester.
„ Parch. Evan Richardson o Caernarfon, yn marw.
1825. Parch. Thomas Elias, sir Frycheiniog, yn dechreu pregethu, ac yn marw yn 1855.
1826. Codi capel Rose Place, Liverpool.
„ Parch. Richard Williams yn dyfod i Liverpool i breswylio; ac yn marw yn y fl 1842, yn 40 mlwydd oed.
1828. Adfywiad grymus yn Llanddeusant, sir Gaerfyrddin.
1829 Parch. John Humphreys o Gaerwys, yn marw.
1831-2. Adfywiad grymus yn Lleyn ac Eifionydd.
1832. Codi Capel yn Salford, Manchester.
1833. James Matthias yn marw yn 93 mlwydd oed.
1837. Sefydlu Athrofa i'r Methodistiaid yn y Bala.
1839. Adeiladu Capel Burlington-street, Liverpool.
1840. Sefydlu Cymdeithas Genadol Dramor y Methodistiaid.
„ Anfon y Cenadwr cyntaf allan, y Parch. Thomas Jones, i India, Tach. 25.
1841. Adeiladu Capel Mulberry-street, Liverpool.
„ Parch. John Elias o Fon, yn marw yn 67 mlwydd oed.
„ Parch. Wm. Lloyd o Gaernarfon, yn marw.
1842. Mr. T. Phillips o Stockland, yn marw yn 89 mlwydd oed, wedi bod yn Ddiacon am 60 mlynedd.
„ Agor Athrofa i'r Methodistiaid yn Nhrefecca.
1845. Parch. D. Griffiths o Lantwood, sir Benfro, yn marw.

CYNWYSIAD

Y

TAIR CYFROL.

A.

	Cyf.	Tudal.
Aber, sir Gaernarfon, anghrefydd	II.	252
„ Methodistiaeth yn	„	255
„ offeiriad yn erlid yn	„	157
Aberangell, sir Drefaldwyn, hanes Methodistiaeth yn	„	381
Abercorris, sir Feirionydd, hanes Methodistiaeth yn	I.	579
Aberconwy (gwel tan y gair "Conwy.")		
Aberdar, Morganwg, Methodistiaeth yn	„	86
Aberdaron, Lleyn, sir Gaernarfon, Methodistiaeth yn	II.	192
Aberdau-gleddyf *(Milford)*, Methodistiaeth yn	„	332
Aberedw, sir Faesyfed, pregethu gynt yn	III.	315
Aberdyfi, sir Feirionydd, Methodistiaeth yn	I.	588
Abergele, sir Ddinbych, Methodistiaeth yn	III.	271
Abergwaun, sir Benfro, Methodistiaeth yn	II.	326
Aber-gynolwyn, sir Feirionydd, Methodistiaeth yn	I.	569
Aberhonddu, sir Frycheiniog, Methodistiaeth yn	III.	364
Aberhosan, sir Drefaldwyn, Methodistiaeth yn	II.	343
Aberffraw, sir Fôn, Methodistiaeth yn	„	519
Aberffrwd, sir Aberteifi, Methodistiaeth yn	„	45
Abermaw, sir Feirionydd, Methodistiaeth yn	I.	519
Abermeirig, sir Aberteifi, Methodistiaeth yn	II.	48
Aberporth, sir Aberteifi, Methodistiaeth yn	„	7
Aberteifi, sir Aberteifi, Methodistiaeth yn	„	1
„ y dref, Methodistiaeth yn	„	37
Abertawe, sir Forganwg, Methodistiaeth yn	III.	28
Aberthyn, sir Forganwg, Methodistiaeth yn	„	50
Aberystwyth, sir Aberteifi, Methodistiaeth yn	II.	59
„ „ cyehwyniad yr ysgol Sabbothol yn	I.	340
Aberystrwyth, sir Fynwy, Methodistiaeth yn	III.	373
Abraham, Rowland	II.	215
Achau y saint	I.	4
Achyb, sir Gaernarfon, pregethu yn	II.	253
Acrfair, ger Llangollen, Methodistiaeth yn	III.	231
Adams, Mr. John, Cilcain	„	212
Adferiad Pabyddiaeth	I.	27
Adferiad hynod i ddyn o'i glyw	III.	275
Adfeiliad Methodistiaeth yn Maesyfed	„	320
Adfeiliad ar grefydd yn y cynoesoedd	I.	33
Adfywiadau cyfamserol yn Lloegr	„	189
„ „ Scotland	„	191
„ „ America	„	193

		Cyf.	Tudal.
Adfywiadau Scotland ac Iwerddon		„	251
„ amrywiaeth eu ffurf		„	255
„ America		„	259
„ eu heffaith ar gynydd Methodistiaeth		„	261
„ desgrifiad Mr. Charles o		„	265
„ desgrifiad Mr. Newton o		„	265
„ Rhode Island		„	267
„ Lleyn ac Eifionydd		„	267
„ Beddgelert		„	269
„ Ysbytty Ifan		„	268
„ yn foddion cynydd		„	246
„ „		„	249
„ Llangeitho		II.	17
„ Llangwyryfron		„	31
„ Llanon (1795-6.)		„	67
„ Clynog, yn 1765, 1793, 1812, 1818		„	160
„ yn 1833		„	165
„ hynod (1816)		„	174
„ Brynengan, sir Gaernarfon		„	152
„ yn Llanberis (1762)		„	148
„ yn Saethon-bach		„	177
„ yn Beddgelert (1794)		„	201
„ yn Penant		„	204
„ yn Dinas, Lleyn, sir Gaernarfon		„	281
„ yn Bwlch-y-groes, sir Benfro		„	322
„ yn Cilgeran, sir Benfro		„	326
„ yn Llanddeusant, sir Gaerfyrddin, 1828		„	435
„ yn Llanymddyfri (1819)		„	454
„ yn Llandloes, sir Drefaldwyn		„	364
„ yn 1782		„	395
„ yn Brynsiencyn, sir Fon		„	513
„ yn 1822, yn Mon		„	518
„ yn Llansamled, sir Forganwg		III.	16
„ yn y Bont-uchel sir Ddinbych		„	154
„ yn Nghaerwys, sir Fflint		„	175
„ yn Nghilcain, sir Fflint		„	212
„ yn Gwytherin, sir Ddinbych		„	262
„ yn y Gorwydd, sir Frycheiniog		„	334
„ yn Trecastell, sir Frycheiniog		„	355
„ boneddwr yn ceisio ei lethu		„	356
„ yn y Bwlch a Llangors		„	362
„ yn Risca, sir Fynwy		„	381
„ yn Soar, sir Aberteifi		II.	43
„ yn Aberffraw, Mon (1776)		„	521
„ yn Llanfwrog, Mon (1795)		„	554
„ yn Llanerchymedd, Mon		„	565
„ yn Llanfair, Mon		„	579
„ yn Rhos-y-bol, Mon		„	591
Adfyfyrion ar gychwyniad Methodistiaeth		I.	195
Adgofion am y Parch. Ebenezer Morris		II.	96
Adroddiad Richard Tibbot i'r Gymdeithasfa		I.	130
„ Thomas James i'r Gymdeithasfa		„	165
„ Morgan Jones i'r Gymdeithasfa		„	166
„ John Harris i'r Gymdeithasfa		„	167
„ William Richard i'r Gymdeithasfa		„	168
„ James Williams i'r Gymdeithasfa		„	169
„ Richard Tibbot i'r Gymdeithasfa		„	170
„ James Williams i'r Gymdeithasfa		II.	175
„ William Richard i'r Gymdeithasfa		„	284
„ James Williams i'r Gymdeithasfa		„	4

	Cyf.	Tudal.
Adroddiad William Richard i'r Gymdeithasfa	II.	5
„ „ „ am Lechryd	„	22
„ Parch. William Williams i'r Gymdeithasfa	„	27
„ William Richard i'r Gymdeithasfa	„	284
„ Cenadaeth Gartrefol y Deheubarth	III.	471
Adwy'r Clawdd, hanes am	I.	147
„ erlid yn	„	365
„ hanes am	III.	98
„ erlid yn	„	98
„ William Lewis yn	„	99
„ y ddau John Hughes yn	„	101
„ canghenau wedi tarddu o	„	101
Addoldai, eu lluosogiad	I.	429
„ hwyrfrydedigrwydd yn eu codi	„	430
„ tymhor penaf eu codi	„	452
Aflonyddu ar oedfa	II.	397
„ yn Henllan	III.	238
„ yn Nghronant	„	305
„ yn Llanbedr	„	359
„ yn Aberhonddu	„	364
„ cais at	„	301
Aflonyddu ar Humphrey Owens	„	305
Afreoiaeth eglwysaidd	I.	78
Agwedd Cymru o barth crefydd o ddyddiau Wickliffe	„	17
„ gwiad Mon ar ddechreu 1700	„	104
„ Llaurwst a'i chyffiniau	„	135
America, adfywiad yn	„	193
Aleluia, brwydr yr	„	9
Alban, Sion, Llanon	„	67
America, hanes Methodistiaeth yn	III.	472
Amddiffyniad i'r Methodistiaid	I.	373
Amgylchiad hynod cysylltiedig a Gronant	III.	305
Anghydffurfiaeth wedi Ileshau Cymru	I.	59
Anghydffurfwyr yn dyoddef	„	43
Anhawsderau teithio yn Nghymru	„	203
Anni Boleyn yn wraig i Harri VIII.	„	22
Annhrefn, cyhuddiad o, yn llafur y Lleygion	„	238
Annas, gwraig dlawd yn Aberffraw	II.	508
Antinomiaeth, ymosodiad oddiwrth	I.	407
„ prif athrawon	„	409
„ ymdrech yn ei erbyn	„	410
„ y perygl o	„	411
„ n Rowland Hill	„	412
Anwybodaeth, chwedl yn dangos	II.	520
Anwyl, Edward, y gwehydd, o Gaerwys	III.	169
Arferion creulawn a llygredig	I.	52
„ hen, yn Nghonwy	„	57
„ hen, yn cael eu darostwng	„	421
Archesgob Laud	„	80
Arolygwyr y dosbarthiadau	„	164
Arolygwyr, moddion cynhaeth yr	„	177
Ardda, Capel, ger Trefriw	III.	193
Arth yn gwrthod niweidio pregethwr	„	281
Argyhoeddiad hynod yn Llanllar	II.	57
„ Robert Thomas	„	169
„ un arall dan bregeth	„	173
Ashford, Parch. Thomas	„	318
Atebnai hynod i weddi	„	176
Atolfeydd i gynydd Methodistiaeth...	I.	351
Awstyn Fynach	„	12

B.

	Cyf.	Tudal.
Bala, Parch. Lewis Rees yn ymweled a'r	I.	91
„ Howel Harris yn, y tro cyntaf	„	99
„ erlid Jenkin Morgan yn y	„	101
„ dyfodiad Mr. Charles i'r	„	327
„ cysylltiad y, a Methodistiaeth	„	616
„ ail-ymweliad Harris a'r	„	99
„ crefyddwyr cyntaf yn y	„	481
„ dyfodiad John Evans i fyw i'r	„	485
„ y cynghorwyr cyntaf yn y	„	489
„ cychwyniad y gymdeithas eglwysig	„	490
„ erlid a gorthrymu yn ardaloedd y	„	493
„ dyfodiad Mr. T. Foulkes i'r	„	501
Baedd yn dial ar erlidiwr yn Nghaergybi	II.	533
"Banc y dawns," chwareuon ar	„	65
Banc-y-felin, Harris yn, yn 1760	„	476
Bangor, a'i chyffiniau, sir Gaernarfon, Methodistiaeth yn	„	246
„ „ „ Methodistiaid cyntaf yn	„	249
„ „ „ chwedl am Dafydd Roberts ...	„	250
Barn yn disgyn ar offeiriad erlidgar	„	190
„ ar aflonyddwyr addoliad	„	403
„ yn gorddiwes gwawdiwr a gorthrymydd	III.	221
„ „ erlidwyr	I.	337
„ „ boneddwr yn Nghlynog	II.	159
„ „ un am ryfyg a chelwydd	III.	421
Bagillt, sir Fflint, hanes Methodistiaeth	„	300
Basset, E., Ysw., hanes am	I.	487
Barley, Syr Nicholas, crybwylliad am	II.	537
Basset, Parch. Cristopher, yn St. Ffagans	III.	94
„ „ yn Nyffryn Clwyd	„	136
Bates, Mr. James, Amwythig	„	432
Beaumaris, hanes Methodistiaeth yn	II.	567
Bebb, William, Rhiwgriafol	„	346
Beddgelert, adfywiad grymus yn	I.	267
„ hanes Methodistiaeth yn	II.	197
Beddargraff atgas yn Ysgeifiog, sir Fflint	III.	145
Begeley, Methodistiaeth yn	II.	317
Beibl Tindal, crybwylliad am	I.	21
„ yn Saesonaeg	„	19
„ prinder o, yn Nghymru	„	49
Belcher, John, yn y Bala	„	487
„ yn arolygydd	III.	3
Bellis, Mrs. Anne, Rhosesmor	„	159
"Beni" y crydd, Llansamled, chwedl am	„	12
Berridge, John, o flaen yr esgob	„	355
Berridge, Parch. John, crybwylliad am	„	208
Bertha, gwraig Ethelbert	„	11
Berthen-gron, Methodistiaeth yn	„	141
Bethania, capel, yn Llangaffo, Mon	II.	525
Bethania, capel, yn Aberdar...	III.	91
Bethel, capel, yn Mon, hanes	II.	515
Bethlehem, capel yn Mon, hanes	„	504
Bettws, Abergele, hanes am	III.	272
„	„	279
Bettws, sir Gaerfyrddin, Methodistiaeth yn	II.	480
Bevan, Madam, a Robert Jones	„	187
„ a Miss Pengay	„	490
Bilston, Methodistiaeth yn	III.	468

	Cyf.	Tudal.
Birmingham, Methodistiaeth yn	III.	466
Blaenhownant, sir Aberteifi	II.	5
Blaenpenal, sir Aberteifi, hanes am	„	51
Blaen-y-plwyf, sir Aberteifi, hanes	„	64
Blaenanerch, sir Aberteifi, hanes am	„	70
Blaen-y-cae, sir Gaernarfon, pregethu yn	„	210
Blaenau Gwent, Harris yn pregethu yn	III.	372
Boneddwr, dychweliad, yn Ystrad-ffiw	I.	71
Boneddwyr yn erlid y Methodistiaid	„	362
Boneddwr a'r cyrddau eglwysig	II.	200
Bont-rhyd-fendigaid, Methodistiaeth yn	II.	27
„ hanes	„	32
„ erlid yn	„	32
Bontfaen, sir Forganwg, Harris yn...	III.	2
Bont-uchel, pregethu yn	II.	312
Bont-uchel, hanes Methodistiaeth yn	„	151
„ dechreu pregethu yn, yn 1766...	„	160
„ cymdeithasfa hynod yn	„	161
Bound, Mary, Rhaiadr, hanes am	„	367
Bowen, Mr. a Mrs., Waunifor	„	36
„ Mr. a Mrs., Tyddyn, sir Drefaldwyn	„	357
„ „	„	369
„ Mr., offeiriad, yn gwrthwynebu	„	371
„ Miss, Waunifor, chwedl am	„	438
„ John, Pont-y-pool	„	434
„ John, Ysw., Ty-gwyn	„	467
„ Parch. David, Llansaint	„	478
„ Capt, crybwylliad am un	„	480
„ Mrs, Horeb, Pembre, crybwylliad am	„	492
„ Parch. John, Llanelli	„	492
„ Mr. William, Abertawe	III.	31
„ Mr., Llwyn-y-gwair, dychweliad	„	355
Bowles, Dr., offeiriad Trefdraeth, Mon	II.	516
Boyle, Parch. Mr, yn erlid yn Nhrefriw	III.	190
Brân ap Llŷr-llediaith, crybwylliad am	I.	3
Brwydr Caerlleon	„	15
Brechfa, Methodistiaeth	II.	465
Breuddwydion, coel ar	I.	51
Breuddwyd Margaret Conwy, Henllys	„	142
Brewster a'i gynulleidfa	„	43
Brimaston Hall, pregethu yn	II.	312
Brwydr Aleluia, ger y Wyddgrug	I.	9
Brwynog, ger Trefriw, pregethu yn	II.	138
Brycheiniog, hanes Methodistiaeth	III.	326
Bryn-bugad, pregethu boreu yn	II.	146
„ hanes Methodistiaeth...	III.	112
Bryn-eglwys, pregethu gyntaf yn	„	206
„ hanes Methodistiaeth yn	„	232
Bryn-burga (*Usk*), pregethu yn	„	317
Bryn-tirion, Morganwg, hanes am	„	92
Bryn-crug, Meirionydd	I.	588
Bryn-engan, sir Gaernarfon, hanes...	II.	149
Bryn-gwydd, ger Edeyrn, pregethu yn	„	142
Bryn-siencyn, Mon, Robert Jones yn	„	188
„ Methodistiaeth yn	„	509
„ adfywiad yn	„	513
Bryn-y-gadfan, pregethu yn	„	204
Bryn-yr odyn, Methodistiaeth	„	216
Bryn-odl, pregethu yn	„	278
Buarthau, ger Llanllyfni, pregethu yn, yn 1763	„	167

	Cyf.	Tudal.
Buckley, James, cynghorwr yn sir Fflint	III.	171
Buddugoliaeth Garmon, ger y Wyddgrug	I.	9
Bugeiliaeth yr eglwysi	„	184
Bulkley, Richard, chwedl am	„	573
Bulkley, William, Ysw..	„	111
„ arglwydd, Barnon Hill	„	370
Bulkley, Ysw., Bryndu, chwedl am	II.	502
Burness Hill. hanes Methodistiaeth...	„	317
Bwlan, sir Gaernarfon hanes	„	224
Bwlch-y-groes, sir Benfro	„	321
Bwlch, sir Feirionydd, capel y	„	590
Bwlch, sir Frycheiniog, adfywiad yn	III.	362

C.

Cadi Sienevn, chwedl am	II.	490
Cadman, Benjamin, sir Drefaldwyn...	„	359
Cadwaladr. brenin Prydain	I.	4
Cadwaladr, Dafydd, hanes	I.	543
„ „ chwedl am	II.	365
Cae-maes-gafr, Mon, pregethu yn	„	558
Cae-howel. Llanddeiniolen, ger Caernarfon	„	208
Cae-pant-tywyll, ger Merthyr	III.	82
Cae-rhyg. ger Nefyn, pregethu yn	II.	178
Caerdydd, Harris a Whitfield yn cyfarfod yn	I.	392
Caerfyrddin, hanes Methodistiaeth sir	II.	423
„ „ „ cyrau gogledd-ddwyrain y sir	„	423
„ „ „ cyrau dwyreiniol y sir	„	433
„ „ „ cyrau gogledd-orllewn y sir	„	457
„ „ „ cyrau gorllewinol y sir	„	467
„ „ „ cyrau de-orllewin y sir	„	480
„ „ „ y dref	„	467
Caergeiliog, Mon, hanes	„	545
Caergwrle, pregethu bore yn	I.	301
„ D. Williams yn pregethu yn	III.	23
„ hanes Methodistiaeth	„	110
Caergybi, hanes Methodistiaeth	II.	532
Caerlleon, hanes Methodistiaeth	III.	425
Caernarfon, dechreuad Methodistiaeth yn sir	I.	93
„ hanes Methodistiaeth sir	II.	122
„ gwedd grefyddol y sir	„	122
„ hanes tref	„	226
Caersws, Methodistiaeth	„	375
Caerwys, hanes Methodistiaeth	III.	168
„ dechreu pregethu yn 1762	„	170
„ adfywiad grymus yn	„	175
Caio, hanes Methodistiaeth	II.	431
Camp-chwarçuon y Cymry	I.	54
Campau llygredig yn cael eu darostwng	II.	599
Campbell, Dr.. tystiolaeth o'r eiddo	I.	233
Can i gymdeithasfa Aberteifi	II.	462
Canu yn yr awyr	I.	270
Canwyll y Cymry, effaith	II.	68
Canghellwr Owens, sir Gaernarfon...	I.	101
„ „ „	„	374
Capelau, anmharodrwydd i'w codi	I	180
„ anhawsder o'u codi	„	429
„ yn cael eu colli	„	463

	Cyf.	Tudal.
Capelau eu hanamledd	II.	81
„ yn cael eu codi trwy gasgliad cyffredinol	I.	578
„ yn cael eu cofrestru	„	584
Capel Waunifor, hanes am	II.	35
„ Aberffrwd (1770)	„	45
„ Blaenpenal (1783)	„	51
„ Llanilar (1797)	„	59
„ Aberystwyth (1785)	„	62
„ Llanon (1762)	„	67
„ y Drindod, hanes am	„	72
„ Afan, hanes am	„	119
„ Ty-mawr, Brynercoes (1762)	„	141
„ y Creigiau, ger Llanbedr (1745)	„	77
„ Clynog (1760)	„	161
„ y Nant, Lleyn (1782)	„	172
„ Edeyrn, Lleyn (1775)	„	143
„ Uwch-y-mynydd, Aberdaron (1773)	„	143
„ Llanberis yn Arfon (1777)	„	148
„ y Waun-fawr (1785)	„	157
„ Nefyn (1785)	„	178
„ Dengorn, Pwllheli	„	181
„ Pwllheli (1781)	„	183
„ Beddgelert (1794)	„	201
„ Llanrug (1798)	„	210
„ Bryn-yr-odyn (1789)	„	218
„ Caernarfon (1793)	„	237
„ Dinas, Lon-fudr	„	278
„ Ty Ddewi (1785)	„	294
„ Solfach, sir Benfro	„	299
„ Woodstock (1754)	„	302
"Capel Newydd," (1763)	„	320
„ Bwlch-y-groes (1797)	„	323
„ Pont-gareg (1792)	„	324
„ Glanrhyd (1792)	„	325
„ Carfarchell (1763)	„	297
„ Abergwaun (1758)	„	328
„ Llanbrynmair, sir Drefaldwyn (1767)	„	338
„ Darowen (1824)	„	346
„ Machynlleth (1784)	„	351
„ Llanidloes (1779)	„	359
„ Llangynog (1826)	„	402
„ y Brithdir (1807)	„	404
„ Cymdy (1828)	„	407
„ Tal-llychau, sir Gaerfyrddin (1806)	„	426
„ Llanfynydd (1771)	„	428
„ Llandeilo (1778)	„	441
„ Cefn-byrach (1747)	„	442
„ Cil-y-cwm (1740)	„	446
„ Llanymddyfri (1802)	„	452
„ Llangyndeyrn (1809)	„	495
„ Castell-newydd (1776)	„	460
„ Cynfil (1792)	„	465
„ "Mwd," Llanrhyddlad	„	500
„ Llangristiolus (1764)	„	513
„ "Huddygl," Aberffraw	„	521
„ Caergeiliog (1786)	„	548
„ Ty'n-y-maen (1800)	„	551
„ Amlwch (1777)	„	555
„ Coch, hanes y	„	557
„ Llancrchymedd (1790)	„	564

	Cyf.	Tudal.
Capel Llangadog (1770)	II.	455
„ Rhostryfan (1820)	„	225
„ Bwlan (1815)	„	224
„ Ceinewydd (1807)	„	119
„ Cilgeran (1795)	„	327
„ Carno (1811)	„	377
„ Bryn-y-ffynnon, Mallwyd (1801)	„	384
„ Aberthyn, Morganwg (1749)	III.	20
„ y Graig, ger Merthyr...	„	82
„ Tan-y-fron, sir Ddinbych (1773)	„	117
„ Dinbych (1793)	„	132
„ y Dyffryn Clwyd (1776)	„	138
„ Prion (1792)	„	158
„ Cilcain (1806)	„	211
„ Bagillt (1818)	„	301
„ Gyfylchi (1776)	„	43
„ Rhosllanerchrugog (1770)	„	103
„ Gellifor (1814)	„	141
Capelan, eu hanamledd yn sir Feirionydd	I.	574
Capel y Berthen-gron, sir Fflint (1775)	III.	142
„ y Bont-uchel, sir Ddinbych (1777)	„	151
„ Llanarmon-yn-Ial (1786)	„	203
„ Llangollen (1773)	„	222
„ Llansant-ffraid-glan-Conwy (1787)	„	253
„ yr Iarlles yn Aberhonddu	„	365
„ Cymraeg cyntaf yn Lerpwl (1787)	„	403
„ „ Manchester (1799)	„	421
„ „ Llundain (1785)	„	437
„ „ Caerlleon (1804)	„	427
„ yn cael ei ddinystrio trwy drais	II.	590
„ Dolgellau, y modd y caed y tir	I.	577
Caradoc, Tywysog Cymru	„	3
"Caradocs-yr-ochrau"	II.	205
Carfarchell, sir Benfro, hanes	„	297
Carmel, Methodistiaeth, sir Gaernarfon	„	225
Carnachen-wen, sir Benfro, crybwylliad am	„	330
Carneddau, sir Drefaldwyn, hanes y	„	408
Carneddi, canu awyrol yn	„	271
Carno, sir Drefaldwyn, hanes	„	375
Castlemael, hanes	„	313
Castell-y-fuwch, crybwylliad am	„	313
Castell-newydd-yn-Emlyn, hanes	„	457
Castell-newydd-ar-Wysg, erlid yn	I.	363
Castell-nedd, Morganwg	III.	40
Casgwys, sir Benfro, hanes	II.	310
Catherine, gwraig Harri yr VIII.	I.	21
"Casgliad y ddimai"	III.	223
"Ceiniog yr Iâr," hen ddefod yn Nefyn	II.	179
Cefn-y-waun, sir Gaernarfon	„	215
Cefn-byrach, sir Gaerfyrddin	„	441
Cefn-llys, sir Faesyfed, pregethu yn	III.	319
Cenadaeth gartrefol y Deheubarth	„	469
Cenadaeth gartrefol y Gogledd	„	452
Cenadaeth dramor y cyfundeb	„	549
Cenadon cartrefol y Deheubarth	„	471
Celwyddau yn cael eu taenu am y crefyddwyr	II.	593
Cemmaes, sir Drefaldwyn, Harris yn	I.	97
„ „ hanes am	II.	381
„ Mon, pregethu yn	„	501
Cennick, Mr., eychwyniad ei weinidogaeth...	I.	161

	Cyf.	Tudal.
"Cerig-gwynion," sir Benfro, pregethu yn	II.	319
Cerig-y-draenog, Mon	„	534
Cei-newydd, Methodistiaeth yn	„	118
Charles, Parch. Thomas, Bala, hanes yr adfywiad gan	I.	265
„ „ „ tystiolaeth am Rowlands...	„	213
„ „ „ a'i amserau	„	326
„ „ „ yn cychwyn yr ysgolion	„	334
„ „ „ enwogion ei oes	„	331
„ „ „ a Mr. Llwyd, Bala	„	597
„ „ „ yn priodi	„	507
„ „ „ ei erlid yn Nghorwen	„	561
„ „ „ yn Llangwyryfon	II.	31
„ „ „ Mochdre', sir Drefaldwyn	„	373
„ „ „ Tan-y-fron, sir Ddinbych	III.	117
Charles, Parch. D., Caerfyrddin	II.	469
„ „ „ ieuengaf	„	473
„ „ „ John, Mon	„	531
„ „ Hugh a William	„	531
„ Mr. Hugh	„	560
Cellar, O. William, Aberffraw, chwedl am...	„	520
Cincinatti, Talaeth Ohio, America	III.	478
Chidlow, Parch. B. W., America	„	480
Cil-y-cwm, Methodistiaeth yn	II.	445
Cilgeran, sir Benfro, Methodistiaeth yn	„	325
Cilcain, sir Fflint, Methodistiaeth yn	III.	208
Claudia merch Caradoc	I.	4
Clerigwyr Cymru, cymeriad	„	46
Clerigwyr sir Gaernarfon	II.	123
Cleaton, Reinallt, Llanidloes	„	359
Clifford, swydd Henfford	III.	470
Cnap-llwyd sir Forganwg	„	62
Clochyddion Llanor a Deneio	II.	183
Clos-y-graig, Methodistiaeth yn	„	465
Clochydd Llanir, adgofion am	III.	324
Clwyd-y-fagwyr, Morganwg	„	82
Clyro, Maesyfed, hanes am	„	315
Clynog, Methodistiaeth yn	II.	158
Cofrestru tai i gynal addoliad	I.	181
Coleg yr Iarlles yn Nhrefecca	„	396
Colby, Stephen, Ysw., Penfro	II.	320
Coed-y-Cymer, Morganwg	III.	80
Conwy, Methodistiaeth yn	„	249
„ Hen arferion yn	I.	57
„ Humphrey Owens yn	III.	147
Corwen, erlid yn	I.	381
„ Methodistiaeth yn	„	561
Coedmor, pregethu yn	II.	322
Constableville. America	III.	476
Collinsville, America	„	477
Cooper, Mr. Robert, Llangollen	„	225
Cobham, Arglwydd	I.	20
Caradoc, Parch. Walter, adgofion am	„	31
Cromwell, Oliver, a'i amserau	„	33
Creulondeb, arferion o	„	52
Croesoswallt, pregethu yn	„	304
Cristionogion cyntefig, cyhuddiadau yn eu herbyn	„	369
Cristionogaeth mewn ewgyddorion yn fwy na ffurfiau	III.	508
„ gwahaniaeth rhwng, ag Iuddewiaeth	„	512
Creunant, Morganwg, hanes am	„	44
Crafnant, ger Llanrwst, pregethu yn	I.	152

	Cyf.	Tudal.
Cwmystwyth, Methodistiaeth yn	II.	46
Cwm-coryn, Lleyn, pregethu yn	„	204
Cyfarfod Misol sir Aberteifi	„	121
„ sir Gaernarfon, cychwyniad	„	143
„ yn Mryn-y gadfa yn 1769...	„	204
„ cyntaf Gwynedd (1745)	I.	123
„ cyntaf sir Fflint	III.	148
Cyfansoddiad Methodistiaeth	„	499
Cyfreithiwr anffyddaidd yn marw	„	361
Cwm Iau, Brycheiniog, hanes	„	363
Cweryl y Pab â Harri VIII.	I.	21
Cwstenyn Fawr, crybwylliad am	„	6
Cydorwedd, yr arfer o, yn Nghymru	„	56
Cydmhariaeth rhwng Harris a Whitfield	„	131
Cyfieithiad y Beibl gan Wickliffe	„	19
Cymru a Lloegr, gwahaniaeth rhwng	„	44
Cybi, mab brenin Cornwall...	„	7
Cyrtis Finddu yn bradychu ei chwedl	„	3
Cyllin ap Caradoc	„	4
Cychwyniad Methodistiaeth	„	60
Cymedrolwyr y cymdeithasau	„	164
Cynulleidfaoedd yr ymneilldnwyr	„	89
Cymdeithasau cyntefig sir Aberteifi	„	167
„ „ sir Gaerfyrddin	„	169
„ „ sir Drefaldwyn	„	170
Cymdeithasfaoedd cyntaf y Methodistiaid	„	159
Cymdeithasfa gyntaf y Methodistiaid	„	161
„ „ Llanllyfni	„	382
„ „ Aberteifi	II.	38
„ „ Aberystwyth (1784)	„	61
„ „ yr ysgol Sabbothol	„	25
„ „ yr Ysgolion yn Blaenanerch	„	71
Cymdeithasau eglwysig, rhagfarn at	„	160
„ boreol sir Benfro	„	284
„ henaf Brycheiniog	III.	357
.. eglwysig cyntaf	I.	75
Cymdeithasfa Llanllyfni, yn 1769	II.	167
„ Aberhosan, sir Drefaldwyn	„	345
„ Machynlleth	„	350
„ Llanidloes (1819)	„	364
„ Drefnewydd (1805)	„	379
„ Castell-newydd (1774)	„	460
„ „ (1802)	„	463
„ Niwbwrch, Mon	„	508
„ Beaumaris (1784)	„	571
„ „ (1809)	..	572
„ Llangollen (1768)	III.	220
„ Henllan (1780)	„	240
Cymhwysderau swyddogion, gofal am	I.	184
Cymundeb yn Llangeitho	„	217
Cyfarfod Misol cyntaf Caergeiliog	II.	545
Cydweli, Methodistiaeth yn	„	489
Cymdy	„	407
Cynfil	„	464
Cyfnodau Methodistiaeth Mon	„	581
Cynghorwyr, y modd y codent	I.	235
„ boreol, nifer y	„	234
Cynydd Methodistiaeth trwy adfywiadau	„	261
„ „ trwy lafur lleygaidd	„	233
„ „ trwy droion Rhagluniaeth	„	274

	Cyf.	Tudal.
Cynydd Methodistiaeth trwy ysbryd rhagorol y crefyddwyr	I.	289
„ „ trwy ysgolion Sabbothol	„	332
„ „ trwy gyfarfodydd pregethu	„	348
„ „ trwy attalfeydd iddo	„	351
„ „ yn Edernion	„	559
Cynwyd, Methodistiaeth yn	„	554
Cychwyniad Methodistiaeth, adfyfyriadau ar	„	161
Cyrchu i Langeitho	„	214
„	„	220
Charles, Parch. Thomas, yn ymsefydlu yn sir Feirionydd	„	572
„ „ yn pregethu yn Llangeitho	„	573
„ „ ac esgob Llanelwy	„	598
„ „ a'r Feibl gymdeithas	„	599
„ „ ei lafur yn Llundain a Chaer	„	601
„ „ ei ddylanwad, a'i farwolaeth	„	602
Cymundeb Misol yn y Bala	„	573
Cynghorwyr, hen, yn sir Feirionydd	„	612
Cynaliad yr Arolygwyr	„	177
Cynon, Methodistiaeth yn	II.	46
Cynghorwyr, hen, Llangeitho	„	12

CH.

Chwedlau Mynachod	I.	1
„ yn cael eu taenu am yr ysgol Sabbothol	„	565

D.

Dadl fawr yn nghylch amser y Pasg	I.	14
„ gyda boneddiges Antinomaidd	„	413
Dafydd, Risiart William	„	115
„ Evan, sir Drefaldwyn	„	132
„ „ „	„	403
„ „ Hafod	II.	129
„ Richard	„	137
„ Robert, Brynengan, hanes am	„	264
„ Risiart, Eifionydd	„	280
„ John, Croen-llwyn	„	328
„ Thomas, Ty-coch	„	343
„ Evan, Llanfair-caereinion	„	371
„ Griffith Rhys, y gweddiwr	„	434
„ Phillip, y clocsiwr	„	458
„ Dafydd Thomas	„	436
„ Richard, y cynghorwr	„	505
„ Siôn, achwyn ar, wrth ei feistr tir	„	506
„ Robert, yr Hen-siop	„	558
„ Risiart William, Morganwg	III.	19
„ William, Llanllyfni	II.	170
„ Evan, Waun-fawr	„	153
„ Dafydd, Prisiart	„	159
„ Robert, Brynengan, hanes am	„	198
„ „ „	„	152
Daniel, John Dafydd, Tregaron	„	80
„ William, Lleyn	„	138
„ Rhys, Llanwrda	„	455
„ o'r Constant, Aberafon	III.	39
„ John, Henllan	„	241
Damwain hynod yn Nhy-ddewi	II.	294

	Cyf.	Tudal.
Daliadau Wickliffe	I.	20
Davies, Dr., esgob Ty-ddewi	„	23
„ Parch. Howel, hanes	„	80
„ Henry, gyda'r diwygwyr	„	178
„ Mr. a Mrs., Llanarmon-yn-Ial	„	322
„ Parch. John, yn Ninbych	„	378
„ „ yn Fflint	„	379
„ „ hanes	III.	122
„ „ „	„	243
„ „ yn Nhreffynnon	„	286
„ „ yn cael ei erlid	„	182
„ Parch. Howel, yn Llechryd	II.	22
„ „ hanes am	„	282
„ „ yn marw (1770)	„	306
„ Mr. Evan, Twr-gwyn	I.	451
„ Rhys	II.	24
„ Mr. Robert, Aberystwyth	„	63
„ Parch. William, Castell-nedd	„	107
„ Parch. William, Cynfil	„	464
„ „	„	476
„ Parch. Jenkin, sir Aberteifi	„	112
„ Griffith, Ysw., Llundain	„	221
„ Owen, Aber, sir Gaernarfon	„	255
„ John, Capel Newydd	„	321
„ Thomas, y *Tide Waiter*, sir Benfro	„	329
„ Mrs., Carnachenwen	„	330
„ Capt. Llewelyn	„	333
„ Mr. Matthew, adgofion	„	371
„ Parch. John, y cenadwr	„	393
„ „ „	„	406
„ Thomas, Llanwyddelan	„	395
„ Parch. Robert, Llanfair	„	404
„ Parch. Richard, Llansadwrn	„	457
„ Mr. Timothy	„	465
„ Parch. Griffith	„	565
„ „ Ebenezer, ...	„	565
„ „ William, Castell-nedd	III.	43
„ „ „	„	272
„ John, pregethwr yn Henllan	„	122
„ „ yn ymsefydlu yn Lerpwl	„	403
„ Fychan, y crydd, yn erlid	„	161
„ Mr. a Mrs., Llanarmon	„	202
„ William, o'r Golch	„	284
„ „ yn Mostyn	„	292
„ „ yn dyfod i Lerpwl	„	401
„ „ yn pregethu yn gyntaf yn Manchester ...	„	415
„ Parch. Jeffrey, Brycheiniog	„	335
„ Rhys, hen bregethwr	„	339
„ Parch. David, New Inn, Mynwy	„	379
„ Hopkin, Morganwg	„	11
„ Owen a Jane, Henllan	„	240
„ Counsellor, Cwrt-y-gollen	„	358
„ Parch. Benjamin, America...	„	474
„ Shadrach, America	„	476
„ John, y gof, yn gadael arian at gapel yn Amwythig	„	433
Dechreuad Methodistiaeth yn Mon	I.	105
„ „ yn Llanrwst	„	135
„ „ yn Llansannan	„	135
„ „ yn Lerpwl	III.	399
Darowen, Methodistiaeth yn	II.	343

	Cyf.	Tudal.
Darostyngiad hen arferion	I.	421
Deddf yr Unffurfiaeth	„	43
Dechreuad Methodistiaeth yn Manchester...	III.	413
Dinasmowddwy, Harris yn	I.	99
„ capel, sir Benfro	„	469
„ capel, sir Gaernarfon...	II.	279
Devereux, Mr., yn erlid	„	391
Dinbych, Harris yn	I.	152
„ erlid yn	„	378
„ cymdeithasfa yn 1786	III.	129
„ agor capel yn, yn 1793	„	132
„ teulu Parc-y-twll	„	309
„ Methodistiaeth yn	„	125
„ erlid yn	„	126
Dinorben, Arglwydd, crybwylliad am	I.	116
Diwygiad dan Edward VI.	„	25
„ yn Nghymru yn 1652	„	32
„ yn y Deheubarth	„	87
Diwygiadau Cymru yn foddion cynydd ... ... (gwel tan y gair Adfywiadau)	„	240
Diwygwyr Lloegr a Chymru	„	160
Derbyn pregethwyr ac eraill	„	599
Dolgellau, pregeth Griffith Sion yn	I.	231
„ hanes Methodistiaeth yn	„	503
„ Harris yn pregethu yn...	„	504
„ Rowlands yn pregethu yn	„	505
„ erlid yn	„	512
„ pregethu yn Mhant-y-cra	„	509
„ Dafydd Owen y gwydrwr	„	510
Dolyddelen, dechreuad Methodistiaeth yn	„	529
Dowlais, hanes, sir Forganwg	III.	83
Drwgdybiaeth yn achlysur troedigaeth	I.	371
Dorti Ddu a'r Canghellwr	„	377
Dosbarthiadau y Deheu	„	164
Dyddanwch y Methodistiaid cyntefig yn cyfateb i'w trallodion	„	187
Dyfodiad yr efengyl i Frydain	„	1
Dyffryn Clwyd, pregethu yn	„	157
Dyffryn-sacth, cymdeithas eglwysig yn	„	166
„ „	II.	5
Dyffryn, Aberafon, capel	III.	32
Dyffryn Clwyd, Methodistiaeth yn	„	135
„ adeiladu capel yn	„	138
Dyffryn-ar-dudwy, pregethu yn	I.	533
„ y bregeth gyntaf yn	III.	196
„ erlid yn	„	196
Dyserth, Maesyfed, pregethu yn	„	319
„ sir Fflint, y bregeth gyntaf yn	„	267
Dynevor, arglwydd, chwedl am	II.	483
Dwyran, Mon, hanes am	„	509
Duw yn gweithio trwy foddion gwael	I.	188
Dryhurst, Elin, Pentre, Mon	II.	546
Dryll-y-bowl, pregethu yn	„	578

E.

Edmund Prys...	I.	28
Edward, Ellis, Darowen	„	294
„ Roger, Bala	„	310
Edwards, Thomas, y Troellwr	„	300

	Cyf.	Tudal.
Edwards, Humphrey, Bala	I.	515
„ Griffith, Mynydd Mynyllod	„	553
„ Mrs., Gwerclas, Edernion	„	555
„ Dafydd, Llanilar	II.	58
„ William, Rhyd-y-gele	„	299
„ Ellis, Darowen...	„	344
„ Parch. James, chwedl am	„	478
„ John, Tre'r-dryw, Mon	„	513
„ Mr. Griffith, Clafdŷ	„	524
„ Thomas, y Troellwr	III.	110
„ William, Llanefydd	„	177
„ Mr. John, Ereiniog	„	204
„ Mr. John, clochydd Llanferes	„	213
„ Mr. Thomas, Lerpwl	„	403
Edeyrn, hanes Methodistiaeth yn	II.	142
Efrydiwr o Goleg yr Iarlles yn pregethu ger Pwllheli	„	180
Efengyl, dyfodiad yr, i Frydain	I.	1
Eglwys Loegr, ymlyniad y diwygwyr wrth	„	179
„ undeb y Methodistiaid ag	„	183
Effeithiau gweinidogaeth Rowlands	„	69
„ yr ymraniad	„	390
„ y diwygiad mewn adeiladu capelau	„	429
„ yr ymraniad ar y pregethwyr	„	402
„ y diwygiad ar gynydd Methodistiaeth	„	426
„ „ er darostwng rhagfarn	„	426
„ „ er chwyddo rhestrau ymneilldnaeth	„	425
„ „ er darostwng hen arferion ffol	„	422
Eglwysi boreaf Morganwg	III.	4
„ Mynwy	„	371
Eglwys Loegr, gogwyddiad y diwygwyr at	„	500
Eigen, merch Caradoc	I.	4
Eglwyswyr oedd y diwygwyr	„	70
„ tystiolaeth Harris am	„	361
„ „ Parch. J. Williams am	„	361
Eglwys-Erw, capel, yn cael ei golli	„	464
Elizabeth, y frenines	„	27
„ ei sel dros drefn eglwysaidd	„	239
Ellis, John Griffith, crybwylliad am ei ddychweliad	„	103
„ Griffith, Pen-yr-allt, Meirionydd	„	291
„ „ chwedl am...	„	497
„ „ a Mr. Charles	„	527
„ John, Abermaw, hanes am	„	571
„ „ yn Nghroesoswallt...	„	305
„ „ crybwylliad am	II.	348
„ John Griffith, hanes am	„	136
„ Robert, Cwm-glas, Arfon	„	146
„ Thomas, y Teiliwr	„	205
„ Ellis, Aberangell, sir Drefaldwyn	„	381
„ Edward, a'i deulu, o'r Cymmau	III.	111
„ Parch. Robert, Wyddgrug	„	182
„ „	„	282
„ Griffith, Pen-yr-allt	„	194
Elias, Parch. John, hanesyn am	II.	172
„ „ hanes y	„	596
„ „ yn Rhuddlan	„	261
„ Parch. Thomas, oedfa hynod i	III.	341
Elim, capel, sir Drefaldwyn...	II.	407
Elfenau cyfansoddiad Methodistiaeth	III.	499
Elfionydd, cynydd Methodistiaeth yn	II.	206
Enlli, Ynys, Methodistiaeth yn	„	276

	Cyf.	Tudal.
Enos, Owain, byr-hanes am	III.	384
Erlid gan Hwlcyn Llwyd..	I.	37
„ ar y Parch. James Owen yn sir Fflint	„	42
„ Vavasor Powell	„	34
„ Henry Maurice	„	37
„ yr Anghydffurfwyr	„	42
„ Howel Harris yn y Bala	„	99
„ „ yn Llanor, Lleyn	„	102
„ „ yn Mhen-morfa	„	103
„ „ yn Ninbych	„	152
„ „ yn Mhont-y-pool	„	362
„ „ gan foneddwyr	„	362
„ „ gan y werin	„	363
„ „ yn Llandeilo-fawr	II.	440
„ „ yn Llanidloes	„	355
„ Jenkin Morgan, yn y Bala	I.	101
„ William Pritchard, Glasfryn...	„	107
„ „ „ yn Mon	„	109
„ Benjamin Thomas yn Mon	„	108
„ Hugh Griffith, Lleyn	„	112
„ y cynghorwyr yn Mon	„	113
„ Risiart William Dafydd	„	115
„ Richard Tibbot, Llanbrynmair	„	121
„ „ „ yn Nghaernarfon	II.	227
„ Lewis Evan, Llanllugan, yn y Bala	I.	125
„ „ „ yn Nghwtherin	„	126
„ „ „ yn Nyffryn Clwyd	„	128
„ „ „ ger Machynlleth	„	128
„ „ „ ger Dinbych	„	153
„ „ „ yn Nghlynog	II.	159
„ „ „ yn Aberffraw	„	519
„ trwy droi allan o dyddyn	I.	145
„ yn Adwy'r-clawdd	„	149
„ „	III.	98
„ Peter Williams yn Nhrefriw, ger Llanrwst	I.	149
„ yn nhref Llanrwst	„	151
„ T. Llwyd yn Ninbych	„	152
„ Edward Oliver yn Ninbych	„	153
„ Margaret Hughes, trwy ei baeddu	„	153
„ Howel Harris yn swydd Henford	„	204
„ „ yn Mhont-y-pool	„	205
„ „ yn Nghastell-newydd	„	205
„ y Parch. Daniel Rowlands, trwy ei droi allan o'r eglwys	„	357
„ „ David Jones, Llangan	„	359
„ „ Mr. Charles a Mr. Lloyd, Bala	„	359
„ „ Peter Williams	„	359
„ Mr. Seward yn Nghastell-newydd	„	363
„ Harris mewn gwylmabsant, Maesyfed	„	364
„ dull cyfreithiol o	„	364
„ o dan y "*Conventical Act*"	„	365
„ „	„	581
„ yn Adwy'r-clawdd	„	365
„ trwy fwrw allan o dyddynod	„	367
„ trwy chwedlau celwyddog	„	368
„ yn Nghroesoswallt, sir Amwythig	„	304
„ John Davies, Nantglyn, yn Ninbych	„	378
„ „ yn Fflint	„	379
„ „ „	III.	182
„ yn Rhuthin ar ŵr boneddig	I.	380
„ „ ar ddau feichiaid...	„	381

		Cyf.	Tudal.
Erlid	yn Rhos-y-tryfan, Arfon	I.	381
„	yn Llanllyfni	„	382
„	haerllug yn Nolgellau	„	505
„	teulu D. Owen y gwydrwr	„	512
„	ar grefyddwyr yn ardal y Bala	„	493
„	pregethwr dyeithr yn Llangwm	„	494
„	T. Foulkes, Bala a Lowri Williams	„	529
„	yn Dyffryn-ar-dudwy	„	533
„	Daniel Rowlands yn Llanuwchllyn	„	613
„	yn Llanegryn, Meirionydd	„	586
„	Griffith Edward, Mynydd Mynyllod	„	557
„	yn Llandrillo, Edernion	„	556
„	Mr. Charles yn Nghorwen	„	561
„	Richard White	„	563
„	yn cael ei attal yn Abergynolwyn	„	569
„	Morgan Hughes ger Pont-rhyd-fendigaid	II.	32
„	y crefyddwyr yn Nhre'r-ddol	„	54
„	Rowlands yn Llanilar	„	56
„	ffyrnig yn Nhref-fechan ger Aberystwyth	„	61
„	yn y Morfa Mawr ger Llanon	„	66
„	yn Llanbedr, oddiwrth hedd-ynad	„	75
„	Rowlands yn Llanfihangel-y-Creuddyn	„	117
„	yr ymneilduwyr yn Mhwllheli	„	139
„	trwy droi o dyddynod	„	142
„	yn Nant-y-Bettws, Arfon	„	146
„	gan was yr offeiriad yn Rhoslan	„	150
„	pregethwr dyeithr yn Arfon	„	155
„	Hugh Griffith am dderbyn pregethu	„	159
„	Rowlands yn Gelli-dara, Lleyn	„	192
„	Lewis Rees yn Aberdaron	„	192
„	yn Dolydd-byrion	„	193
„	Griffith Sion, Ynys-y-pandy	„	194
„	Beddgelert	„	199
„	gan oruchwyliwr Ormsby Gore, Ysw.	„	207
„	yn Aber, sir Gaernarfon	„	255
„	gan "Harri Deneu" yn Lleyn	„	279
„	yn Abergwaun, sir Benfro	„	327
„	yn Nghyfarchell, sir Benfro	„	297
„	John Harris yn Tenby	„	304
„	John Elias yn Llanidloes	„	364
„	H. Harris yn Llanidloes	„	356
„	Dafydd Cadwaladr yn Penual	„	365
„	yn Llanwrin, sir Drefaldwyn	„	387
„	John Evans, Cil-y-cwm, ger Llanllwga	„	391
„	oddiwrth Dr. Worthington, Llanfyllin	„	405
„	Morris Evans, Melin-y-Mardy	„	412
„	yn Llanfyllin, sir Drefaldwyn	„	421
„	John Evans, Cil-y-cwm a Mr. Lloyd, Henllan	„	448
„	yn Machynlleth	„	346
„	Samuel Llwyd, yn Machynlleth	„	350
„	Peter Williams yn Cydweli	„	489
„	„ yn Chwaen-hen, Mon	„	498
„	yn Llanfechell, Mon	„	502
„	„	„	504
„	teulu Tai-cochion, Mon	„	511
„	ffyrnig wrth gapel Bethel, Mon	„	516
„	yr Annibynwyr gan y Canghellwr Lewis	„	517
„	trwy wawdio	„	520
„	Evan Thomas y gof	„	523
„	yn Nghaergybi	„	533

	Cyf.	Tudal.
Erlid gwraig yn, trwy wawdio	II.	534
„ Richard Jones, Caergybi	„	536
„ Owen T. Rowland, Mon	„	542
„ yn Amlwch	„	556
„ yn Llanerchymedd	„	562
„ Dafydd Morris, yn Beaumaris	„	567
„ y crefyddwyr trwy eu gwawdio	„	570
„ oddiwrth Mrs. Griffith, Tyddyn-y-gwynt	„	574
„ yn Rhos-y-bol, ger Amlwch	„	590
„ David Williams, yn Nghaergwrle	III.	23
„ yn Rhuthin, sir Ddinbych	„	140
„ John Owens, yn Llanfachreth	„	143
„ „ yn Machynlleth	„	144
„ Humphrey Owens yn Nghonwy	„	147
„ „ yn Nghronant	„	147
„ yn y Bont-uchel, sir Ddinbych	„	162
„ yn Rhuthin gan ddeiliaid yr ysgol	„	164
„ „	„	165
„ yn nhref y Fflint	„	181
„ yn Llanrwst	„	186
„ yn Roewen, sir Gaernarfon	„	194
„ John Edwards, Ereiniog	„	205
„ yn Nghilcain, sir Fflint	„	209
„ Owen Davies, Henllan	„	240
„ pregethwr yn Nghonwy	„	250
„ T. Hughes, Mochdre', ger Llandudno	„	257
„ William Griffith, yn Rhuddlan	„	265
„ yn nhref y Wyddgrug	„	280
„ yn Nhreffynnon	„	286
„ yn Helygain, sir Fflint	„	289
„ yn Nanerch	„	296
„ Morgan John Lewis, New Inn	„	376
„ yn Ninbych	„	126
„ Peter Williams yn Llanrwst	„	184
„ Edward Parry, Bryn-bugad	„	114
„ Peter Williams yn Ninbych	„	126
„ gan offeiriad Aber	II.	157
Erlidigaeth yn etifeddiaeth teuln Duw	I.	351
„ yn ffynu fwyaf yn Ngwynedd	„	356
„ oddiwrth glerigwyr ac esgobion	„	354
„ yn gwasanaethu yr efengyl	III.	398
Erlidwyr yn cael eu taro a dychryn	I.	108
„ cosbi	„	109
„ curo eu gilydd	„	117
„ siomi	„	380
„ herlyn â chyfraith	„	512
„ dyrysu	II.	194
„ „	„	534
„ siomi yn eu hamcan	„	156
„ „	„	498
„ „	„	561
„ „	III.	161
„ cosbi	„	127
„ hattal	II.	505
„ barnu	„	533
Erlidwyr yn aflonyddu	„	209
„ mewn perygl	„	556
Erlidiwr yn cael ei faeddu yn dost	„	293
„ yn derbyn ei daledigaeth	„	327
„ tra nodedig	„	350

	Cyf.	Tudal.
Erlidiwr yn colli ei fywyd	II.	485
„ yn cael ei faeddu	III.	207
„ marwolaeth echrydus	„	29
Erbury, Parch. William, Caerdydd	I.	31
Ethelbert, brenin Caint	„	11
Esgobion, gwrthwynebiad, i Fethodistiaeth	„	350
Evans, Francis, y gweddiwr	„	93
Evan, Lewis, Llanllugan, crybwylliad am	„	118
„ „ ei ddychweliad	„	123
„ „ yn y Bala	„	125
„ „ yn y carchar	„	125
„ „ yn cael ei ryddhau	„	126
„ „ chwedl am dano	„	540
„ „ mewn perygl yn Ngwtherin	„	126
„ „ yn Mhwllheli	„	127
„ „ yn Cefn-yr-hosan	„	128
„ „ tystiolaeth R. Tibbot am dano	„	173
„ „ yn Ninbych	„	153
„ „ ei sel a'i lafur	„	292
„ „ yn cael ei erlid yn Nglynog	II.	159
„ „ yn Aberffraw, Mon	„	519
„ „ yn marw	I.	129
Evans, John, Cil-y-cwm	„	115
„ „ yn y Gogledd	II.	448
„ „ yn y Wyddgrug	III.	159
Evans, John, y Bala, yn dwyn pregethu i'r Adwy	I.	147
„ „ yn dechreu pregethu	„	502
„ „ yn myned i Drecastell	„	491
„ „ hanes am	„	603
Evans, William, Fedw-arian, yn Nhrawsfynydd	„	516
„ „ yn Llanarmon-yn-Ial	III.	203
„ „ yn Nyffryn-ar-dudwy	„	197
„ „ yn Llangollen	„	218
Evans, William, Aberffraw, Mon	II.	525
Evan, Griffith, Llechryd, chwedl am	„	22
Evans, Mr., Llwyn-y-grawys, caredigrwydd	„	23
„ Parch. Mr., Drewen, crybwylliad am	„	74
„ Thomas, Waunfawr, crybwylliad am	„	147
„ „ chwedl am...	„	154
Evans, Evan, Waunfawr, y gobeithiol	„	157
„ „ oedfa hynod i	„	209
„ „ pregethu yn yr Achyb	„	253
„ „ yn marw yn Llanidloes...	„	360
Evans, Parch. Christmas, tystiolaeth am Dafydd Morris...	„	84
„ Hugh, Berthddu, cymwynas gan	„	159
„ Robert Sion, ei sel	„	161
„ William, Bryn-yr-odyn, ffyddlondeb	„	220
„ Parch. Daniel, Ty-ddewi, crybwylliad am...	„	296
„ Shem, y panwr, Castlemael	„	313
„ Josiah, Bwlch-y-groes, crybwylliad am	„	322
„ „ „	„	323
„ Mr. Evan, o'r Sarnau	„	413
„ Evan, Tirclai, sir Gaerfyrddin	„	428
„ „ „ crybwylliad am	III.	42
„ Evan, o'r Firi, crybwylliad am	„	40
„ Mr. Thomas, Adwy'r-clawdd	„	101
„ Risiart, Cil-y-cwm, crybwylliad am	II.	449
„ Ebenezer, Llanymddyfri, crybwylliad am	„	455
„ Parch. Arthur, Cynfil	„	465
„ David, Cynfil, crybwylliad am	„	465

	Cyf.	Tudal.
Evans, Captain Evan, Milford, crybwylliad am	II.	333
„ Captain William, Milford	„	334
„ Sion, Caerfyrddin	„	472
„ Parch. Thomas, Caerfyrddin	„	473
„ Parch. John, Brilley	„	473
„ Parch. John, gynt o'r New Inn	„	482
„ „ „ yn Manchester	III.	419
„ Mr. Manuel, Mon	II.	513
„ Richard, yr ysgolfeistr	„	579
Evan o'r Dalchaba, Morganwg	III.	11
Evans, Robert, Llanrwst	„	185
„ „ yn Llundain	„	437
„ Robert, Trefriw	„	191
„ Parch. Evan, o'r Ffos	„	332
„ Parch. Mr., offeiriad Llywel	„	353
„ Hugh, Penrhos-Llugwy	„	402
Eyton, J. P., Ysw., Mostyn, haelioni	„	304

FF.

Ffoulkes, Mr., o'r Wenallt	I.	145
„ Thomas, Llanuwchllyn	„	308
„ Mr. Thomas, Bala, hanes am	„	501
„ „ yn cael ei erlid	„	529
„ Mr. a Mrs., yn Machynlleth	II.	352
„ Edward, Dolgellau, crybwylliad am	I.	592
„ Evan, Llanuwchllyn	„	614
„ Parch. Ellis, Amlwch	II.	557
„ Mr. John, Nant	III.	119
„ Mr. Geo., Wyddgrug	„	282
Fflint, John Davies, yn pregethu yn y	I.	379
„ hanes Methodistiaeth yn	III.	181
„ erlid John Davies yn	„	182
Ffranc, Mr., sefydliad, yn Halle	II.	391
Ffosffin, Ceredigion, hanes	„	48
Ffridd-bala-deulyn, pregethu yn	„	169
Ffrwd-wenith, Ceredigion	„	71

G.

Garmon a Lupus, crybwylliad am	I.	9
Gambold, William, sir Benfro	II.	304
Gareg-gam, Môn, pregethu yn	„	498
Gareg-lefn „	„	504
Garth, Llanddeiniolen, pregethu yn	„	208
Garthpwt, Trefeglwys	„	371
Garth, ger Llangollen, hanes y	III.	229
Gaunor, morwyn Sian Lewis, Madryn	I.	292
Gelli *(Hay)*, byr-hanes am	III.	470
Gelli-dara, Rowlands yn	II.	192
Gell, Llanystyndwy, pregethu	„	207
German, Richard, yn amddiffyn Harris	„	356
Gibbon, John, o'r Gelli, sir Benfro	„	304
Glanrhyd, John Harris, Treamlod yn	„	324
Glasinfryn, Mon, byr-hanes am	„	563
Glascwm, Maesyfed „	III.	316
Glastryn-fawr, cartref Wm. Pritchard	I.	102
Gofal y tadau am yr eglwysi	„	176

	Cyf.	Tudal.
Gofal y tadau wrth osod swyddogion	I.	184
Gofal rhagluniaeth am Susan, Croesoswallt	,,	307
Goruchwyliwr Ormsby Gore, Ysw.	II.	207
Gosen, sir Benfro, byr-hanes am	,,	311
Goppa-fach, Morganwg	III	9
,, H. Harris yn pregethu yn	,,	7
Goruchwyliwr, Cors-y-gedol, Meirionydd	,,	197
Gorthrymu, Mr. James, Pen-blaen	,,	323
,, Thomas, Risca	,,	382
Gorwydd, adeiladu capel yn (1778)	,,	331
,, adfywiad yn (1777)	,,	331
Gore, Maesyfed, byr-hanes am	,,	315
Goror Clawdd Offa, yr ymweliad cyntaf a...	,,	454
Goslet, Edward, Mynwy, ei ddychweliad	,,	381
,, ei lafur a'i lwyddiant	,,	362
,, byr-hanes am	,,	387
,, yn marw	,,	390
Gregori Fawr, y Pab	I.	312
,, yn anfon Awstin i Frydain	,,	12
Gouge, Mr. Thomas, caredigrwydd i'r Cymry	,,	35
Griffith, Hugh, Lleyn, byr-hanes am	,,	112
,, Evan, Mon, crybwylliad am	,,	112
,, ,, desgrifiad o...	II.	497
,, Hugh, crybwylliad am	,,	527
Griffiths, Morris, yn pregethu yn Llanrwst	I.	151
,, Parch. Mr., Nefern, yn gwrthwynebu y neillduad	,,	445
,, Jane, yn cychwyn Methodistiaeth yn Nolgellau	,,	505
,, Catherine, o'r Penrhyn, ffyddlondeb	,,	523
,, Parch. Robert, Dolgellau, byr-hanes am	,,	591
,, Morgan, Lleyn, helyntion	II.	129
,, Hugh, Edeyrn, yn noddi pregethu	,,	142
,, Thomas, Waunfawr, ffyddlondeb	,,	147
,, Morris, Lleyn, yn erlid	,,	192
,, Holland, Ysw., a'i fam, tynerwch	,,	213
,, Siôn, Bryn-yr-odyn, byr-hanes am	,,	216
,, ,, ei nodwedd ef a'i wraig	,,	221
,, ,, yn marw	,,	223
,, Sion, Ty-ddewi, yn pregethu yn ei dy	,,	291
,, John, Jefferson, yr hen gynghorwr	,,	316
,, George, enwogrwydd ei ddawn	,,	323
,, Parch. David, Llantwood	,,	325
,, Eynon, a'i fab, Rhydgaled	,,	324
,, Mr. Thomas, sir Drefaldwyn	,,	395
,, Mrs. Anne, caniedydd yr Hymnau	,,	416
,, Parch. Evan, Meifod, hanes	,,	417
,, Mrs., Glan-yr-afon-ddu, crybwylliad am	,,	425
,, David, Brechfa	,,	465
,, Geo., Clos-y-graig	,,	466
,, Mrs., Tyddyn-y-gwynt, Mon, yn erlid	,,	574
,, Gorslwyd, Mon, hanes am y	,,	589
,, Mrs., Abermaw, crybwylliad am	III.	196
,, William, Wyddgrug	,,	265
,, Mr. a Mrs., Amwythig, ffyddlondeb	,,	432
Gweddi, effaith	I.	15
Gweinidogaeth Howel Harris, grym	,,	129
,, y Parch. Daniel Rowlands	,,	69
,, deithiol, yn foddion cynydd	,,	202
,, y tadau, natur awchlym	,,	211
,, Rowlands, ardderchogrwydd	,,	212
,, effaith, Rowlands ar Gymru	,,	225

	Cyf.	Tudal.
Gweinidogaeth Howel Harris, grymusder	I.	226
„ neillduol y diwygwyr	„	227
„ yr offeiriaid a'r lleygion	„	236
„ deithiol yn Lloegr	„	208
„ deithiol yn Iwyddo	„	209
„ Dafydd Morris, Lledrod, Ceredigion	II.	83
„ Ebenezer Morris	„	93
„ Harris, effaith	„	291
Grawlom, ysgol Sabbothol yn	„	361
Gwaeleddau yr hen bobl	I.	308
Gwernbwys, ger Llanrwst, pregethu yn	„	154
Guines, Miss, Lleyn, dychweliad	„	319
„ „ caredigrwydd	II.	141
Gwawdio crefyddwyr	„	570
„ pregethu	„	574
Gwawdiwr yn syrthio mewn llewyg	III.	365
„ „ „	I.	555
Gronant, sir Fflint, byr-hanes am	III.	304
„ dygwyddiad hynod yn	„	305
Gwyliau yr eglwys	I.	54
Gwydyr, brenin Prydain	„	3
Gwraig o sir Fflint, ffyddlondeb	„	219
Gweinidogion ymneillduol yn ymgymysgu	„	178
Gwrthddadl yn erbyn llafur lleygaidd	„	236
Gweinidogion, neillduad	„	434
Gwynne, Ysw., Marmaduke, chwedlau am...	„	366
Gray, Parch. Thomas, byr-hanes am	II.	51
„ crybwylliad am	„	83
Groeslwyd, sir Drefaldwyn, hanes am	„	414
Gwalchmai, Edward, crybwylliad am	„	394
„ Parch. Humphrey, crybwylliad am	„	395
„ neu Drewalchmai, byr-hanes am	„	527
Gwerynad, sir Aberteifi	„	71
Gweddi deuluaidd gyntaf yn Tal-y-bont	„	54
„ atebiad hynod i	„	176
„ „	III.	356
Gwylmabsant Cilcain yn syrthio	„	211
Gwytherin, sir Ddinbych, byr-hanes am	„	262
„ Lewis Evan, mewn perygl yn	I.	126
Gwlaw yn cael ei roddi, yn atebiad i weddi	III.	356
Gwylmabsant Conwy yn syrthio	„	252
Gwaunysgor, sir Fflint, pregethu yn	„	177
Gyfylchi, capel, hanes am	„	43
Gyfyng, sir Gaernarfon, pregethu yn y	II.	203
Gwastad, sir Benfro, byr-hanes am	„	314

H.

Haelioni hen wr o sir Feirionydd	I.	297
„ gwr a gwraig yn Mhenryn-deudraeth	„	303
„ Robert Roberts, Tŷ-mawr, Talsarnau	„	303
„ at Athrofa Trefecca	III.	370
„ morwr at gapel Bagillt	„	301
Hafod-y-Rhyg, pregethu yn	II.	153
Halogiad y Sabboth yn Nghymru	I.	54
„ „ „	„	55
Halle, yn Germani, sefydliad Mr. Frank	„	391
Harri VIII. ar yr orsedd	„	21
„ yn bwrw ymaith iau y Pab	„	22

		Cyf.	Tudal.
Harris, Howel, yn cychwyn ei yrfa		I.	75
„ yn sir Faesyfed		„	76
„ ei ddull o bregethu		„	76
„ yn Ngwynedd y tro cyntaf		„	97
„ yn cyfarfod a Lewis Rees		„	97
„ yn Nghemmaes		„	97
„ yn Llanbrynmair		„	98
„ yn y Bala a Dinas Mowddwy		„	99
„ yn Mhwllheli		„	101
„ a'r Canghellwr Owens		„	101
„ yn cael ei erlid yn Llanor		„	109
„ yn Lleyn a Pheumorfa		„	103
„ effaith ei weinidogaeth yn sir Drefaldwyn		„	130
„ yn Adwy'r Clawdd		„	147
„ yn Ninbych		„	152
„ yn rym i'r gyfundrefn gyntefig		„	177
„ ei deithiau		„	203
„ yn swydd Henffordd a Phont-y-pool		„	204
„ a'r Ynad yn Mhont-y-pool		„	205
„ ei erlid yn Nghastell-newydd-ar-wysg		„	205
„ yn sir Faesyfed		„	206
„ yn Nghaerloyw		„	205
„ grym gweinidogaeth		„	226
„ yn wr diurddau		„	233
„ ei dystiolaeth am eglwyswyr		„	361
„ yn encilio i Drefecca		„	390
„ yn cwrdd a Whitfield yn Nghaerdydd		„	392
„ yn filwr		„	395
„ wedi ail gymodi a'r Methodistiaid		„	398
„ yn pregethu yn Llangwm		„	491
„ a Rowlands yn anghytuno		„	386
„ yn arfer ymadroddion anghymeradwy		„	388
„ yn pregethu yn Llechryd		II.	21
„ „ Twrgwyn		„	34
„ „ Aberteifi		„	37
„ „ Soar		„	42
„ „ Blaenpenal		„	51
„ „ agos i Gapel Afan		„	119
„ „ sir Gaernarfon		„	125
„ „ Port-yn-Lleyn		„	142
„ „ sir Benfro		„	283
„ „ Ty-ddewi		„	291
„ „ Cilgerran		„	325
„ „ Abergwaun		„	327
„ „ Llanbrynmair		„	338
„ „ ei lythyrau		„	339
„ „ yn Machynlleth		„	346
„ „ yn Llanidloes		„	355
„ „ yn Llandeilo-fawr		„	439
„ „ yn Llangadog		„	455
„ „ yn Llansadwrn		„	456
„ „ yn Llanllugan		„	391
„ „ chwedl am		„	486
„ „ yn y Gareg-lefn, Mon		„	504
„ „ yn Amlwch		„	556
„ pobl, yn pregethu yn Mon		„	570
„ ei dcithiau yn sir Gaernarfon		„	125
„ ei gymeriad a'i lafur		I.	398
„ tystiolaeth Whitfield am		„	400
„ yn sir Forganwg		III.	1

	Cyf.	Tudal.
Howel, Harris, yn y Goppa-fach	III.	7
,, cais at saethu	,,	7
,, yn Nghroes-einion	,,	8
,, yn Llansamled	,,	10
,, yn pregethu yn Llangene	,,	358
,, yn Aberhonddu	,,	364
,, yn Mlaenau-gwent	,,	372
,, yn pregethu ar Dywyn-Tudur	,,	379
,, yn sir Faesyfed	,,	317
,, yn St. Ffagan, Morganwg	,,	93
,, yn marw	I.	401
Harris, John, Treamlod, sir Benfro	,,	167
,, ,, chwedl am	II.	306
,, ,, yn arolygwr	,,	284
,, ,, ysbaid ei weinidogaeth	,,	303
,, ,, llythyr at Howel Harris	,,	304
,, ,, yn marw	,,	307
Harris, Parch. Evan, byr-hanes am	,,	307
Harris, Mr., Brimaston-Hall	,,	312
"Harri Deneu," neu Harri Roberts yr erlidiwr	I.	96
,, yn achwyn ar y Methodistiaid	II.	142
,, ei gynddaredd at ei frawd	,,	279
Harri, William, crybwylliad am	,,	144
Hanesyn hynod	,,	150
Havard, Henry, Milford	,,	333
Harri, Siencyn, Morganwg	III.	96
,, ,, ...	,,	44
Harrison, Richard, Llaneurgain	,,	170
Harwood, ger Gwrecsam, hanes am	,,	207
Hemans, Richard, chwedl am ei dad	II.	566
Hendre-howel, pregethu yn	,,	207
Hen-barciau, sir Benfro, pregethu yn	,,	319
Hendre, capel yr, sir Caerfyrddin	,,	481
Heresi Morgan	I.	8
Henuriaid eglwysi sir Feirionydd	,,	619
Henllan, ger Dinbych, Methodistiaeth	III.	237
Hedd-ynad, Scethrog, Brycheiniog, yn gwysio y crefyddwyr	,,	362
Helygain, sir Fflint, Hanes Methodistiaeth	,,	290
Henaduriaeth siroedd Caer a Lancaster	,,	444
Herbert, Edward, Brycheiniog	,,	359
Hirwaun, Morganwg	,,	91
Hill, Parch. Rowland, ei farn am John Harris, Treamlod	II.	304
Higgon, Mr., Bontfaen, crybwylliadau am	,,	330
Higgins, Mr. John, crybwylliad am	,,	410
Hirnant, Methodistiaeth yn	,,	402
Hill, Parch. Rowland, a'r Antinomiaid	I.	412
,, ar y neilldiad	,,	460
Hughes, Richard, Mechell, Mon	,,	113
,, Margaret, Brynanllech, erlid	,,	145
,, ,, ,, ei baeddu	,,	153
,, Richard a Chatherine, Llanarmon-dyffryn-Ceiriog	,,	539
,, Morgan, yn cael ei erlid	II.	32
,, Fawr, crybwylliad am	,,	280
,, John, sir Gaernarfon, crybwylliad am	,,	138
,, Richard, Brynengan	,,	138
,, Owen, Clynog, ffyddlondeb	,,	161
,, Ellis, Plas-newydd, chwedl am	,,	161
,, Morris, Cwm-coryn	,,	205
,, Mr. Rice, Meillionen	,,	201
,, Parch. James, Lleyn	,,	274

	Cyf.	Tudal.
Hughes, Thomas, Mochdre'	II.	253
„ „	III.	254
„ „	II.	250
„ Parch. Edward, Llanidloes	„	361
„ Parch. John, Pont-Robert	„	416
„ Parch. Richard, Llanedi	„	485
„ Mr. Rice, Bodafon	„	508
„ „ „	„	560
„ Parch. Robert, Gaerwen	„	527
„ Parch. John, Llanerchymedd	„	565
„ Richard a'r goruchwyliwr	„	542
„ Thomas, Llanfairtalhaiarn, byr-hanes am	III.	120
„ Parch. Thomas, Liverpool	„	403
„ Parch. James, Llundain	„	442
„ Y ddau John, Adwy	„	101
„ Parch. John, New York	„	475
„ Parch. David, Llanrwst	„	188
Hugh, Morgan Evan, crybwylliad am	II.	80
„ Hugh Griffith, Clynog	„	159
„ „ „	„	161
„ Siôn Dafydd	„	328
„ Sion, Nantgaredig	„	487
Howel, Rhys, o'r Sychbant	III.	48
Howels, Parch. Howel, Trchill	„	96
„ Parch. Morgan, Casnewydd	„	391
„ Parch. O.	II.	473
Hopkin, Hopkin John, Morganwg	III.	8
Humphreys, Thomas, Edeyrn	II.	142
„ Parch. John, Caerwys	III.	177
„ Dafydd, Coris	I.	579
Huntingdon, Iarlles, yn Abertawe	III.	30
„ a William Jones, Fforest-Coalpit	„	363
„ yn amddiffyn Methodistiaid	I.	149
„ yn sefydlu Coleg yn Nhrefecca	„	396
„ chwedl am	„	324
„ a'i merched yn Nghymru	„	84

I. J.

James, Thomas, adroddiad, yr arolygwr	I.	165
„ Dafydd Sion, Penrhyn, y bardd	„	499
„ Richard, Llanilar, y paffiwr	II.	56
„ Miss, Llangybi, a Mr. Richardson	„	231
„ Phillip, Capel newydd, crybwylliadau	„	321
„ Morgan, chwedlau, yn Llangynog	„	400
„ Jaci, neu Ioan ap Iago	„	450
„ John, barcer, Castell-newydd	„	463
„ James, Trefecca, yn Mon	„	558
„ Parch. James, Pen-blaen	III.	322
„ Thomas, yr Arolygydd	„	315
Jehu, Dafydd, hen gynghorwr yn sir Drefaldwyn	I.	132
„ „ „	„	403
Jeffreys, Mr. a Mrs., Ystradwallter	II.	454
„ Edward, Rhosllanerchrugog	III.	103
Jenkins, Mr. David, Llanbedr	II.	77
„ Parch. David, yn sir Gaernarfon	„	127
„ Evan, hen gynghorwr yn Llanidloes	„	359
„ Daniel, chwedl am	„	444
„ Mr. Daniel, chwedl am, yn Llundain	III.	437

	Cyf.	Tudal
Interludiau yn erbyn y Methodistiaid	I.	375
„ i wawdio pregethu	„	493
Jones, Parch. Griffith, Llanddowror	„	48
„ „ „	„	63
„ „ „	II.	474
„ Mr. Richard, Gwecsam, hanes am	I.	281
„ David, Adwy'r Clawdd, byr-hanes am	„	148
„ „ „ yn Henllan	III.	239
„ Morgan, yr Arolygydd	I.	166
„ Parch. Owen, gwasanaeth i'r ysgol Sabbothol	„	340
„ „ yn Llanuwchllyn	„	345
„ „ yn Merthyr	„	346
„ Parch. David, Llangan, achwyn ar, wrth yr esgob	„	359
„ „ syniad, ar y neilldnad	„	446
„ „ yn symud i Maenorowen	„	451
„ „ yn Nolgellau	„	511
„ „ „ eilwaith	„	575
„ „ Hanes helacthach am	III.	53
„ „ yn Ruthin	„	166
„ „ crybwylliad am	II.	83
„ „ yn Abergwaun	„	329
„ „ yn Machynlleth	„	346
„ „ pregeth o'i ciddo	„	463
„ „ ac Annas dlawd yn Mon	„	508
„ „ yn Nghaernarfon	„	228
„ „ pregeth olaf	„	321
„ Parch. T., Creaton, barn, am y Methodistiaid	I.	428
„ „ ysgrif, yn erbyn y neilldnad	„	474
„ Parch. T., Dinbych ar y neilldnad	„	438
„ „ hanes	III.	283
„ „ yn dechreu pregethu	„	171
„ John, Llan, Dolyddelen, crybwylliad am	I.	532
„ Mr. Robert, Rhoslan, yn Dyffryn-ar-dudwy	II.	539
„ „ yn Abergynolwyn	„	569
„ „ hanes	„	186
„ „ yn Meddgelert	„	197
„ „ crybwylliad am	„	280
„ „ yn marw yn 1829	„	191
„ „ yn Dyffryn-ar-dudwy	III.	196
„ „ hanesyn am	„	198
„ „ yn Rhuddlan, sir Fflint	„	264
„ Parch. John, Edeyrn, yn Nolgellau	I.	575
„ „ hanes	II.	267
„ „ yn Nghonwy	III.	251
„ Mr. John, Pen-y-parc, Meirionydd	I.	594
„ Parch. Richard, Bala	„	617
„ Griffith, Ynys-y-pandy	„	302
„ Parch. Mr., offeiriad Llandudoch	II.	38
„ Ysw., Abermaud, yn erlid	„	56
„ Dafydd, Llwyn-rhys, crybwylliad am	„	48
„ Ismael, Llandinaw, „	„	61
„ „ yn dechreu pregethu	„	345
„ Owen, Gelli, yn Aberystwyth	„	63
„ „ yn Llanidloes	„	362
„ „ yn Rhaiadr	„	366
„ Parch. John, Llanbedr	„	77
„ Michael, Blaenanerch, ac E. Morris	„	98
„ John, Penrhyn, Lleyn	„	129
„ Richard, Llanengan, Lleyn	„	138
„ John, Cil-llidiart, Lleyn	„	143
„ Catherine, a'i gŵr, Ffridd-bala-deulyn	„	168

		Cyf.	Tudal
Jones,	Ellis, Cwm-coryn, y teiliwr	II.	205
„	William, Pen-yr-allt, Llanddeiniolen	„	208
„	William, Cae-corniog	„	209
„	Parch. Daniel, Llanllechid, defnyddioldeb	„	215
„	„ hanes y	„	256
„	Evan, Tyddyn-mawr, Bryn-yr-odyn	„	216
„	Dafydd, y cwper, Caernarfon	„	237
„	William, Abercaseg, ei ffyddlondeb...	„	257
„	Parch. Richard, Wern, hanes	„	270
„	John a Rowland, Glanfechan	„	347
„	Parch. William, Dol-y-fonddu, hanes y	„	388
„	Thomas, Llanwyddelan, crybwylliad am	„	394
„	Mrs. Sidney, crybwylliad am	„	399
„	Wilham, Llaethbwlch	„	416
„	Parch. Abraham, Llanfyllin, ...	„	422
„	Mr., Llanfihangel, sir Gaerfyrddin	„	441
„	Ysw., William, Ystradwallter	„	450
„	Rhys, Cynfil, crybwylliad am	„	465
„	Theophelus, Tregaron, yn Aberhosan	„	344
„	Jemima, yn Milford	„	332
„	Parch. T., Caerfyrddin, byr-hanes am	„	472
„	Jacob, Bettws, sir Gaerfyrddin	„	481
„	Mr. Abel, Llanelli, crybwylliad am...	„	492
„	Harri, yn pregethu yn Llanfechell	„	504
„	Richard Niwbwrch, hanes	„	506
„	Mr. Owen, Cwyrt, Mon	„	511
„	Mr. John, Bodonolwyn	„	512
„	„	„	521
„	Thomas, Llanddaniel, crybwylliad am	„	513
„	Parch. David, Dwyran, „	„	513
„	Richard, Aberffraw „	„	535
„	John, Cefn, hanesyn am	„	548
„	William, Glan-yr-afon, chwedl am	„	549
„	Thomas, Amlwch, crybwylliad am	„	557
„	Griffith, Cefn-ddwyffrwd	„	558
„	Edward, Pendre', crybwylliad am	„	560
„	„ „	„	583
„	Hugh, Llanerchymedd „	„	565
„	„ ieuaf	„	565
„	P. T., Hendre', sir Gaerfyrddin	„	482
„	Parch. William, Bont-ynys-wen	„	482
„	Richard, Pen-y-garnedd, Mon	„	569
„	Mrs., Henllys, Mon	„	576
„	John, Tre'r-dryw, crybwylliad am	„	592
„	Philip, Ysw., Varteg, crybwylliad am	III.	34
„	Parch. Daniel, offeiriad yn St. Ffagans	„	95
„	John, Llansanan, sir Ddinbych	„	121
„	Parch. Thomas, Dinbych, crybwylliad am	„	134
„	Mr. Edward, Geinas, Dyffryn Clwyd	„	141
„	James, Rhosesmor	„	150
„	Edward, Prion, hanes	„	159
„	John, Ysgeibion, yn crlid	„	162
„	Edward, Helygair, chwedl am	„	169
„	Peter, Caerwys, hynodion	„	176
„	John, Plas-yw, Cilcain	„	210
„	William, Gwehydd, Llangollen	„	224
„	Mr. John, Cefn-y-fedw	„	230
„	John, Cefn-curch yn aflonyddu oedfa	„	239
„	Mr. John, pregethwr yn Llansantffraid-glan-Conwy	„	253
„	Thomas, Rhuddlan, yr erlidiwr	„	266
„	Jane, Rhuddlan, ei hynodion	„	266

	Cyf.	Tudal.
Jones, Parch. William, Rhuddlan	III.	269
„ „ Hezeciah, yn Nhreffynnon	„	286
„ „ John, Treffynnon, byr-hanes	„	299
„ Robert, o Ronant, sir Fflint	„	304
„ Miss S., dychweliad hynod	„	359
„ William, Fforest-Coalpit, ffyddlondeb	„	363
„ Morgan, hen gynghorwr yn Mynwy	„	373
„ Parch. Henry, Llaneirwg	„	381
„ „	„	390
„ „ John, caredigrwydd i'r Cymry yn Birmingham	„	466
„ Richard, Bilston, crybwylliad am	„	469
„ Parch. Edward, Cincinatti, America	„	477
„ „	„	478
„ Edward, yn cychwyn Methodistiaeth yn Manchester	„	414
„ Edward, yn cychwyn Methodistiaeth yn Llundain	„	435
„ William ac Edward, Pont-rhyd-y-bere	„	336
Joseph, Robert, yr ysgolfeistr	I.	154
Iwerddon, adfywiad yn y	„	251
John, Thomas a Stephen, crybwylliad am	II.	325
„ William, y cynghorwr, adroddiad	„	467
Kyffin, Mr., o'r Faenen, ger Llanrwst	III.	186

L.

Llafur lleygaidd, gwasanaethgarwch	I.	233
„ a llwyddiant y Genhadaeth Gartrefol	III.	465
Llanbrynmair, H. Harris yn	I.	98
Llanarmon-yn-ial, dechreu pregethu yn	„	283
„ Methodistiaeth yn	III.	201
Llanarmon-Dyffryn-ceiriog	I.	538
Llanberis, Mr. Morgan yn pregethu yn	„	303
„ Methodistiaeth yn	II.	144
Llanbister, Maesyfed	III.	317
Llandinam, Methodistiaeth	II.	375
Llandeilo fawr	„	439
Llandyfaelog	„	478
Llandybie	„	486
Llanddeusant	„	434
Llan'ddyfri	„	452
Llanddarog	„	486
Llandynan	III.	226
Llandegley, Maesyfed...	„	316
Llandrindod	„	349
Llanbedr, Brycheiniog	„	359
Llanbedr, Ceredigion	„	78
Llandderfel, Meirionydd	I.	550
Llandrillio	„	556
Llandudoch, cyffro yn, o barth y nellduad	„	454
„ colli y capel yn	„	464
Llanedi, sir Gaerfyrddin, Methodistiaeth	II.	484
Llanelli, „ „	„	491
Llanerchymedd, erlid yn	„	543
„ Methodistiaeth	„	562
Llanddowror, „	„	474
Llaneurgain „	III.	178
Llanelli, Brycheiniog „	„	292
Llanerch-y-mor	„	292
Llanfair-mualit, adroddiad am	I.	165
Llanfachreth, Meirionydd, Methodistiaeth	„	604
„ erlid John Owens yn	III.	143
Llanelwy, esgob, a Mr. Charles	I.	598

	Cyf.	Tudal.
Llanegryn, Methodistiaeth	I.	585
Llanfyllin, „	II.	421
Llanfynydd „	„	427
Llanfechell „	„	502
Llanfwrog, Mon „	„	552
Llanfair „ „	„	576
Llanddewi, Maesyfed	III.	317
Llangeitho, y cyrchu i	I.	214
„ cwrdd cymundeb yn	„	217
„ Methodistiaeth yn	II.	10
Llangadog, „	„	455
Llangoed, Mon „	„	572
Llangynog, sir Drefaldwyn	„	397
Llangwyryfon, Ceredigion	„	27
Llangyndeyrn, sir Gaerfyrddin	„	485
Llangristiolus, Mon	„	513
Llangan, a'i chyffiniau	III.	52
Llangollen, Methodistiaeth	III.	215
Llangerniew, „	„	260
Llangamarch, „	„	341
Llangefni, Mon, cymdeithasfa yn	„	356
Llanfair-muallt, Methodistiaeth yn...	„	356
Llangors, adfywiad yn	„	362
Llanor, clochydd, chwedl am	I.	375
Llanllyfni, erlid yn	„	382
„ y gymdeithasfa gyntaf	„	382
„ Methodistiaeth	II.	165
„ eglwyswyr a Methodistiaid	„	252
Llanllechid, ...	„	253
„ ei hanes cyntefig	„	253
„ T. Hughes yn pregethu yn	III.	258
Llanidloes, Methodistiaeth	„	355
„ ymraniad yn tori allan yn	I.	390
Llanon, Ceredigion, cyffro yn	I.	469
Llanrug, Methodistiaeth	II.	207
Llansanan, cychwyn Methodistiaeth yn	I.	135
Llansantffraid-glan-conwy	„	154
„ „ „	III.	253
Llansawel, capel yn, (1744)	II.	423
Llansaint, Methodistiaeth	„	489
Llanstephen, „	„	479
Llanlluan, „	„	442
Llanilar, „	„	56
Llanon, Ceredigion	„	65
Llanrwst, a'i hardaloedd	I.	135
Llanrwst, „	III.	183
Llanwrtyd, adroddiad am...	„	165
Llanuwchllyn, Methodistiaeth yn	„	612
Llanwnog, „	II.	371
Llanwrin „	„	387
Llanrhaiadr-yn-mochnant „	„	403
Llansadwrn, „	„	456
Llanwyddelan, „	„	390
Llanrhyddlad, Mon,„	„	498
Llanwnio, Morganwg „	III.	92
Llansamled, Morganwg	„	10
Lewis, ysw., — Llysdulas, crybwylliadau am	I.	116
„ Siân, Madryn, Lleyn	„	319
„ Parch. Morgan John, New-Inn	„	448
„ „ „ „	III.	373
„ Dafydd, Llangwyryfon	II.	32

	Cyf.	Tudal.
Lewis, Rhys, Llangwyryfon	II.	32
„ Mr., Llys-newydd, Ceredigion	„	100
„ Siani Evan, a Mr. Rowlands	„	117
„ Sion, Madryn	„	141
„ Parch. Dr. George, crybwylliadau am	„	233
„ Richard, Madryn	„	278
„ Mr. John, Pottersladc, Penfro	„	312
„ Parch. Stephen	„	313
„ „ John, Abergwaun	„	329
„ „ Enoch	„	329
„ „ Lewis	„	342
„ „ William, Darowen	„	343
„ William, Glasinfryn, Mon	„	567
„ „ „ yn Adwy'r-clawdd	III.	99
„ „ „ yn Ninbych	„	133
„ „ „ yn Fflint	„	181
„ John a William, Caerfyrddin	II.	477
Leigh, Mr. a Mrs, Llanedi	„	482
„ „ „	„	488
Lewis, Mrs. Grace, Liverpool	III.	401
„ Parch. John, Llundain	„	442
Lletty-domlyn, ger Llanrwst	I.	151
Lledrod, capel, Ceredigion	II.	28
Llechryd, Methodistiaeth yn	„	20
Lletty-fforddolion i Langeitho	„	59
Lleyn, Sion, y Bardd	„	183
Lamb, Thomas, Abergwaun	„	329
Lewis, Canghellwr, yn erlid	„	516
„ William, Glasinfryn	„	566
Llithfaen, hanes am	„	204
Lloegr, gweinidogaeth deithiol yn	I.	189
Lleyn ac Eifionydd, adfywiad yn	„	267
Lleygaidd, cyhuddiad yn erbyn y llafur	„	238
Lleygion yn llafurio	„	233
Lloyd, Parch. S., Bala	„	597
„ „	III.	232
Llwyd, Parch. Mr., Curad	I.	534
Lloegr, eglwys, yn ymwrthod a Methodistiaeth	„	441
Llwyd, Thomas, Dinbych, yn cael ei erlid	„	152
„ Robert, Plas-ashpool	„	156
„ Mr., Ty-newydd	„	374
„ Robert, Ruthin	„	311
„ „	III.	154
„ Evan, Adwy'r-clawdd	„	102
„ „ yn Llanrwst	„	188
„ John, Llansanan	„	120
„ Thomas, Dinbych	„	128
„ Mr. William, Ysgeifiog	„	143
„ „ yn Liverpool	„	398
„ Mr. Robert, Plas-ashpool	„	135
Lloyd, Hafod-unos, gorthrwm	„	260
„ Parch. Thomas, Abergele	„	275
Llwyd, Mr., offeiriad Llanbedr	„	199
„ Sion, Nant-y-palmau	„	202
„ Mr. John, Liverpool	„	406
„ Mrs., Caerllcon	„	425
Llundain, Methodistiaeth yn	„	434
„ adfywiad yn	„	441
„ capel Jewin Crescent	„	443
Liverpool, Methodistiaeth yn	„	397
Llongddrylliad ar Mr. Parry, Caer	„	429

	Cyf.	Tudal.
Libanus, capel, Aberdâr	III.	91
Llwyn-brwydrau, Morganwg	„	18
Llwyd-coed, capel Moria	„	91
Lodge, ger Croesoswallt	„	227
Llywes, Maesyfed, crybwylliad am	„	315
Llywelyn, Llwyn-ynn, Trecastell	„	350
Leyshon, Mr., Castell-nedd	„	43
Llythyr oddiwrth yr hen gynghorwyr at y Gymdeithasfa...	„	21
Llywelyn, o'r Hewl, Llansamled	„	12
Llwyn-dafydd, pregethu yn	II.	7
Llwyn-rhys	„	48
Llwyn-piod	„	48
Llwyd, William Richard	„	69
Lloyd, Maes-y-porth, crybwylliad am	„	576
„ Thomas, Ysw., Bronwydd	„	72
„ Syr Herbert	„	76
„ Parch. Wm., Caernarfon	„	242
„ Mr., Wm., Exciseman	„	317
„ Mr., Samuel	„	350
„ Mrs., o'r Gesail, a'i thenant	„	188
Lowri, Arthur, Nefyn	„	178
Lôn-fudr, pregethu yn (1742)	„	278
Longhouse, sir Benfro	„	283
„ „	„	331
Llywelyn, Parch. William, crybwylliad am	„	318
Lloyd, Ysw., Jenkin, yn ymddiffyn y diniweid	„	357
„ Mrs. Jane, Pant-yr-ysgair	„	424
„ Mr. William, o Gaio, ...	„	433
„ Parch. Richard, Beaumaris	„	528
„ „	„	571
„ Mr. Rees, Treflesg, Mon	„	548
„ Dafydd, Ty-mawr, Mon	„	550
„ Mr., Bwlch-y-fen	„	499
„ Ysw., Philip, Llanlluan	„	443
Llwyn-celyn, ger Llanberis	„	147

M.

Machynlleth, Harris yn	I.	99
Madryn, palas, Lleyn, pregèthu yn	II.	278
Machynlleth, Methodistiaeth	„	346
Maentwrog, dwy wraig hynod yn	I.	301
„ cychwyniad Methodistiaeth yn...	„	495
Maen-gwynedd, capel yn	II.	407
Malldraeth, Mon, pregethu yn	„	517
Marian-dwys, campau	„	572
"Manuel y Gwheydd," Beaumaris...	„	569
Maesteg, Methodistiaeth	III.	47
Maeshafn, sir Fflint	„	213
Maesyfed, Methodistiaeth sir	„	313
Marwolaeth echrys erlidiwr	„	29
Manchester, Methodistiaeth	„	413
"Mari y Fantell wen," crybwylliadau	„	200
Maxfield, Mr., cychwyniad gweinidogaethol	I.	161
Meirionydd, Hanes Methodistiaeth, sir	„	481
„ hen bregethwyr sir	„	514
Marc, Charles, Lleyn	II.	136
„ „ yn gorfod ffoi	„	141

	Cyf.	Tudal.
Marwolaeth ddisymwth erlidiwr	„	193
Matthias, James, yr hen bregethwr...	II.	322
„ „ crybwylliad am	„	461
Mason, Thomas, y gof, chwedl am	„	414
Mallwyd, Methodistiaeth yn	„	382
„ a'i changhenau	„	384
Martha, o Ddolfawr, chwedl am	„	33
Meyler, Thomas yr Arolygydd	„	284
„ Mr. John	„	312
„ Parch. David, Abergwaun	„	329
Meifod, sir Drefaldwyn, hanes	„	417
Meidrim, sir Gaerfyrddin	„	477
Melin-isaf, Llandegai, pregethu yn	„	248
Meredith, Thomas, Llanwyddelan	„	393
„ „ „	„	377
„ „ Mochdre'	„	341
Milford, Methodistiaeth yn	„	332
Mills, Thomas, Frongoch	„	386
Milwr, hen, yn cael ei ddychwelyd	III.	341
"Modlen, Ty," pregethu yn	I.	157
Mochdre', Methodistiaeth yn	II.	373
„ sir Ddinbych	III.	254
Mellten yn tanio melin	„	17
Merthyr Tydfil, Methodistiaeth yn	„	76
„ „ cymdeithasfa gyntaf yn	„	78
Mon, agwedd y wlad, yn 1700	I.	104
„ dechreu pregethu yn	„	108
„ Rowlands yn ymweled a	„	111
„ Williams, Pant-y-celyn yn	„	111
„ Lewis Rees a Benjamin Thomas yn	„	108
„ y pregethwr cyntaf yn	„	112
„ Hugh Griffith yn tfoi i, o Leyn	„	112
„ Peter Williams yn	„	117
„ hanes Methodistiaeth	II.	495
„ y crefyddwyr cyntaf yn	„	496
„ pregethu yn Chwaen-hen	„	498
Morgan, Jenkin, yr ysgolfeistr, crybwylliadau am...	I.	91
„ „ „ hanes am	„	93
„ „ „ yn dyfod i Leyn	„	94
„ „ „ yn cyd-ddyoddef a Harris yn y Bala ...	„	100
„ „ „ priodi merch y Tyddyn-mawr	„	103
„ „ „ „	„	489
„ Parch. Mr., Llanberis, crybwylliadau am	„	303
„ „ „ „ „	„	531
„ „ „ Edward, Syston, ysgrif	„	439
„ William a Jenkin, Llanilar, Ceredigion...	II.	57
„ Jenkin, ysgolfeistr, cyfeiriad at	„	125
„ Morgan, Llandeilo-fawr	„	441
„ Evan, Glangynwydd, ger Llanidloes	„	359
„ Ysw., Griffith, Glynhir, Morganwg	„	480
„ „ „ cyfeiriad at	III.	9
Morris. Dafydd, yn Mon	I.	115
„ „ yn Lledrod...	II.	29
„ „ yn symud i'r Twr-gwyn	„	34
„ „ gweinidogaeth	„	82
„ „ chwedl am, yn Adwy'r-clawdd	„	85
„ „ yn sir Gaernarfon (1771)	„	84
„ „ yn Ngwastad-nant, Arfon	„	147
„ „ chwedl am, yn Llangynog	„	402
„ „ „ yn Beaumaris	„	567
„ „ „ yn y Berthen-gron	III.	145

	Cyf.	Tudal.
Morris, Dafydd, chwedl am, yn Nghilcain	III.	208
„ „ crybwylliad am, yn Amlwch	II.	555
„ „ yn marw (1791)	„	87
„ Lewis, yn ffoi, rhag ei ddal	I.	582
„ „ byr-hanes	„	592
„ Parch. Ebenezer, ar y neilldnad	„	450
„ „ „ yn dyfod i Twr-gwyn	II.	34
„ „ „ byr-hanes am	„	91
„ „ „ yn marw (1825)	„	103
„ Lewis, yn Llanrhaiadr-yn-mochnant	„	406
„ Thomas, Cilgeran, crybwylliadau am	„	325
„ Thomas, o sir Drefaldwyn	„	414
„ „ „ crybwylliadau am	„	416
„ Ysw., T., Caerfyrddin, chwedl am	„	473
„ John, Hendre', sir Gaerfyrddin	„	482
„ Richard, Llanfair, Mon	„	559
„ „ „ cyfeiriad at	„	577
„ Lewis, yn Nghronant	III.	305
„ Mr. Edward, Lodge	„	228
„ Dic, yn Llangollen	„	217
„ Parch. Ebenezer, yn Nhre'-castell	„	349
Morfa-mawr, pregethu yn y	II.	66
Mounton, hanes capel	„	314
Morganwg, hanes sir	III.	1
Moriwr, haelioni, at gapel Bagillt	„	301
Morgan, Rhys, Glancledan-fawr	„	328
„ Parch. David, Trallwm	„	468
Moddion cynydd Methodistiaeth	I.	199
Moses, Evan, Bala, ffyddlondeb	„	291
„ Evan a Sion, crybwylliadau am	„	489
„ Sion, chwedl am, yn Llanfair	„	492
„ Evan, Trefecca	II.	558
Morgan, Parch. Mr., Llanberis	„	538
Mumford, Richard, Llanwyddelan	„	395
Mynafon, cwrdd misol yn	„	326
Myddfai, Methodistiaeth yn	„	439
Myddleton, Milwriad, gorthrwm y	III.	246
Mostyn, sir Fflint, Methodistiaeth	„	299
Mynyllod, mynydd, pregethu ar	I.	553

N.

Nanhoron, ymddygiad boneddwr	II.	177
Nanney, Parch. Mr., Clynog	„	158
Nanerch, sir Fflint, erlid yn	III.	296
„ T. Edwards, Liverpool, yn	„	296
„ Mr. Thos. Jones, Dinbych, yn...	„	296
Nant-y-Bettws, ysbryd erlid yn	II.	146
Nant, Nantlle, Arfon	„	172
Nantmel, Macsyfed, cwrdd misol yn	I.	120
„ „ „	III.	348
Nantgae, teulu, Brycheiniog	„	336
Nantglyn, sir Ddinbych	„	244
Nant-garedig, Methodistiaeth	II.	487
Nant-ty-mawr, Penmorfa, Ceredigion	„	69
Nant, capel y, Lleyn	„	172
Narberth, neu Arberth	„	315
Nathan, Thomas, crybwylliadau am	„	321
„ Morgan	„	440

	Cyf.	Tudal.
"Ned Habwt," Harwood	III.	207
Needham, Mr. Trefin, crybwylliadau	II.	330
Nefyn, hanes Methodistiaeth yn	„	178
Nefern, capel, yn cael ei golli	I.	467
Negro, o Affrica, yn mysg y Methodistiaeth	III.	203
Neidio a Neidwyr mewn addoliad	I.	256
Nei lldiad gweinidogion gan y Methodistiaid	„	434
„ „ y drafodaeth ynghylch	„	436
„ „ Jones, Dinbych, ar y	„	438
„ „ E. Morgan ar y	„	439
„ „ gwrthwynebiad i	„	445
„ „ syniadau amryw ar	„	447
„ „ amgylchiadau cychwynol i'r	„	450
„ „ cyffio a barodd y	„	454
„ „ y drafodaeth ar, yn y Bala	„	457
„ „ enciliad yr offeiriaid oblegid y	„	460
„ „ canlyniadau y	„	463
„ „ Mr. Jones, Creaton, yn ysgrifenu yn erbyn ...	„	474
„ „ Morgan John Lewis	„	448
„ „ „	III.	373
„ „ effaith y, ar sir Benfro	II.	335
„ „ llythyr Elias ar y	„	602
Nelson, Mr. John, chwedl am	II.	132
Newell, Richard, Plas-coch	„	395
„ Robert, sir Faesyfed	„	371
New-Inn, eglwys y, Mynwy	III.	373
New York, Methodistiaeth yn	„	472
New England, adfywiad yn	I.	259
Newton, Parch. John, desgrifiad, o adfywiad	„	265
Nifer y cynghorwyr boreol	II.	129
Niwbwrch, Methodistiaeth yn	„	506
"Noswaith lawen" yn cael ei dyrysu	„	573

O.

Octagon, capel yr, Caerlleon	III.	448
Odyn-cae-Dafydd, pregethu yn	II.	200
Oedfa hynod, Lewis Rees	I.	91
„ Jenkin Morgan	„	93
„ yn Mwlch-y-groes	II.	321
„ Dafydd Morris yn Mon	I.	230
„ Griffith Sion yn Nolgellau	„	232
„ Dafydd Morris yn yr Adwy	II.	84
„ „ yn Mhont-rippont	I.	231
„ Robert Prys, Plas-winter	„	231
Ofergoeledd yn cael ei gosbi	III.	421
Offeiriaid yn erlid H. Harris	I.	97
„	„	99
„ yn llywodraethu y cyfundeb	„	444
„ y Dê yn cilio ar y neillduad	„	460
Offeiriad yn marw ar y "Pit" Ceiliogod	„	564
„ Aber yn erlid	II.	259
„ „	„	255
„ Llanllyfni a phlant y Diwygiad	„	168
„ Llanengan, teulu	„	177
„ Bryn-siencyn a Robert Jones	„	188
„ Penmorfa yn erlid	„	195
„ Tydweiliog yn cyffroi	„	278
Offeiriaid Dinas, Lleyn	„	280
Offeiriad Machynlleth yn erlid	„	350

	Cyf.	Tudal.
Offeiriad Machynlleth yn erlid	„	352
„ gwraig, yn erlid	„	421
Offeiriad Llanfynydd a Jones Llangan	II.	430
„ Llanrhaidr-yn-Mochant yn erlid	„	405
„ Llanllugan, chwedl am	„	402
„ „ meddw	„	393
„ yn aflonyddu Peter Williams	„	503
„ Niwbwrch yn achwyn ar grefyddwr	„	506
„ Penrhos-llugwy a'r cynghorwyr	„	542
„ Conwy ac Humphrey Owens	III.	147
„ Harlech a Griffith Ellis	„	195
„ Llanbedr. ger Abermaw	„	200
„ Cilcain a Nannerch	„	209
„ Llanferes, sir Fflint	„	214
„ Llanefydd yn aflonyddu	„	238
„ Conwy yn erlid	„	250
„ Rhuddlan yn erlid ac yn gwallgofi	„	265
„ hynod yn Aberhonddu	„	366
Offerynau gwael, Duw yn arddel	I.	188
„ sir Benfro	II.	289
Ohio, talacth, Methodistiaeth yn	„	477
Oliver, Edward, Dinbych	I.	153
„ Thomas, yn pregethu yn Rhuthyn...	III.	163
„ Parch. Phillip, Caerlleon, hanes am	„	445
Owen, Parch. John, tystiolaeth am D. Rowlands	I.	220
„ „	„	224
„ Richard, Bala, chwedl am	„	310
„ Parch. T. E., Llandyfrydog. yn gwrthwynebu y Methodistiaid ...	„	372
„ „ ...	II.	576
„ John, Berthen-gron yn Nolgellau	I.	512
„ Catherine, Dolgellau, chwedl am	„	509
„ Dafydd, gwydrwr, Dolgellau	„	510
Owens, Canghellwr, a H. Harris	„	101
„ a "Dorti Ddu"	„	377
„ a'r Clochydd	„	375
„ a Mr. Llwyd Tŷ-Newydd	„	374
„ aflwydd y	„	376
Owens, John, Berthen, dychweliad	„	157
„ yn Machynlleth	II.	349
„ erlid, yn Rhuthyn	III.	140
„ yn dechreu pregethu (1755)	„	142
„ yn cael ei orthrymu	„	143
„ chwedlau am, yn Llanfachreth	„	143
„ „ yn Machynlleth	„	144
„ „ yn Llangeithio	„	146
„ Humphrey, hanes	„	146
„ crybwylliad am	„	147
„ yn Nghonwy	„	147
„ „	„	147
„ yn Ngronant	„	147
„ „	„	250
„ Thomas, o'r Wyddgrug	„	102
„ Robert, Llanrwst	„	189
„ Mr. James, Steuben, America	„	474
„ Humphrey, yn dyfod i Liverpool i bregethu y tro cyntaf... ...	„	401
„ William y gof, a'i wraig, Manchester	„	416
Owen, Robert, Tŷ-gwyn, sir Gaernarfon	II.	138
Owens, Canghellwr, Bangor	„	192
„ Peniglor, Llaniestyn	„	192
„ Parch. John, Llanbrynmair	„	341

	Cyf.	Tudal.
Owen, Richard, Caernarfon	II.	234
„ John, Machynlleth, crybwylliad am	„	349
„ Robert, Lonfudr, Lleyn	„	278
„ Siôn, Thomas, Hendre	„	481
„ William Thomas, Mon	„	494
„ John, Plasgwyfan, Mon	„	527
„ Mr. Griffith, Caergybi	„	538
„ Owen, Amlwch	„	557
„ Robert, yn dynwared pregethu	„	574
„ Parch. T. E., Llandyfrydog, traethodau, yn erbyn y Methodistiaid	„	592
Oliver, Robert Sion, Dolgellau	I.	507
Olyniad apostolaidd	„	242
„	II.	592
„	„	251

P.

Pabydd yn cadw ysgol Sabbothol yn sir Fflint	III.	303
„ carcdigrwydd boneddwr, ...	„	465
Paffiwr mawr yn amddiffyn pregethwr	I.	378
„ „ John Davies, Nantglyn	„	378
„ „ John Edwards yn Harwood	III.	207
Palleg, Morganawg, pregethu yn y	„	67
Pall Mall, capel, Liverpool, adeiladu	„	403
Parry, Edward, Bryn-bugad hanes	I.	142
„ yn rhoi heibio bregethu	„	146
„ yn pleidio Harris	„	403
„ yn darostwng y campau	III.	113
„ yn cael ei orthrymu	„	114
„ defnyddioldeb	„	115
„ chwedl am	„	117
„ Parch. Moses, Dinbych	„	134
„ Mr. Edward, Bryn-mulan	„	152
„ Mrs. Anne, Bryn-mulan, hanesyn hynod	„	152
„ Mr. Thomas, o'r Hewl, Llanrhaiadr	„	155
„ Mr. Frederic, Rhuthyn, hanesyn am	„	164
„ Parch. Moses, Dinbych	„	307
„ Parch David, Brycheinog	„	335
„ Mr., offeiriad Llywel	„	354
„ Parch. John, Caerlleon, hanes	„	227
Pant-y-cra, Dolgellau, pregethu yn	I.	509
Parry, John, Llanilar, crybwylliad am	II.	57
„ T., ysw., Llidiardau, Ceredigion	„	59
Parri, Rhys, clochydd Llanllechid	„	124
Parry, Parch. John, Caerlleon, crybwylliad am	III.	421
„ John, Mallwyd, gofidiau	II.	385
„ John, bragwr, Beaumaris	„	571
Pant-y-coli, Mon, pregethu cynar yn	„	505
Paffiwr mawr Llandudno yn cael ei ddal	III.	256
Pegi, o'r Ffynnon-berw, Ceredigion	„	68
Pengrwn, paham yr enw	I.	369
Penclawdd, Morganwg, Methodistiaeth yn	III.	32
Penmachno, sir Gaernarfon, adfywiad yn	I.	271
„ canu yn yr awyr yn	„	271
Penrhyn-deudraeth, Methodistiaeth yn	„	521
Penlan, ysgol Sabbothol, Ceredigion	II.	27
Pencraig, Ceredigion, Methodistiaeth yn	„	24
Pennant	„	36
Penmorfa	„	66

	Cyf.	Tudal.
Pentir, ...	II.	215
Pennant, sir Gaernarfon	„	202
Penfro, sir, hanes Methodistiaeth	„	282
Penrhos, sir Drefaldwyn, pregethu yn	„	343
Penbre, sir Gaerfyrddin, Methodistiaeth yn	„	493
Pentre-bwäau, Mon „ yn	„	528
Penrhos-llugwy, Mon, pregethu yn	„	561
Pengay, Miss, a Madam Bevan	„	490
Pentre-dwfr, ger Llangollen	III.	227
Pen-y-felin, sir Fflint, hanes	„	295
Pen-y-cae, sir Fynwy, ...	„	383
Pen-y-bont, sir Faesyfed	„	469
Penrhyddid yn ymosod ar y crefyddwyr	I.	407
„ yn Rhosllanerchrugog	III.	103
Pentre-felin, Llanrhaiadr-yn-mochnant	II.	407
Pentwyn, Methodistiaeth yn	„	482
Penry, John, crybwylliad am	III.	328
"Peter o Gaerwys," chwedl am	I.	216
Peters, Parch. John, Bala, byr-hanes am	„	617
Peters, Mrs., Caergwrle	„	111
„ „	I.	301
Pierce, Robert a'i daid, Cryg-glas, Mon	II.	545
Pierce, John, sir Gaernarfon, troedigaeth	I.	218
„ „ byr-hanes am	II.	258
„ „ Machynlleth, pregethu yn nhŷ	„	348
„ Mrs. Sinah, Mallwyd	„	383
„ W. G., Steuben, America	III.	474
Plas-offa, Llanllechid, crybwylliad am	II.	124
Phillips, Rees a Thomas, Llanymddyfri	„	454
„ Jonah	„	455
„ John, Cynfil	„	465
„ Joshua, Banc-y-felin	„	477
Powel, William, Cnap-llwyd	III.	13
„ William, o'r Towyn	„	360
„ Parch. John, Mynwy	„	372
Powel, Dafydd, hen gynghorwr, sir Drefaldwyn	I.	132
„ „ crybwylliadau am	„	403
Pont-y-rhyd, sir Gaerfyrddin, cymdeithasfa yn	„	125
Ponterwyd, Hanes Methodistiaeth yn...	II.	47
"Polyn-haf," hen arfer codi	„	179
Pont-garreg, Methodistiaeth	„	323
Pont Robert	„	415
Pontcyssyllte, ger Llangollen	III.	228
Pont-rhyd-y-bere, Brycheiniog	„	336
Pittsburgh, America, Methodistiaeth yn	„	478
Plas Niwbwreh, pregethu yn	II.	507
Powel, Dr., Nant-yr-eos	„	60
Port-madoc, crybwylliad am...	„	207
Pregethu gyntaf gan ymneilldnwyr yn Mon	I.	108
„ yn sir Drefaldwyn	„	122
„ yn Mhrwynog, ger Llanrwst	„	138
„ yn ardal Llansanan	„	142
„ hynod Dafydd Morris, yn Mon	„	231
„ cyfarfodydd, yn foddion cynydd	„	348
„ yn erbyn Methodistiaid	„	372
„ yn Llanllechid a Llandegai	II.	247
„ yn *Cock's Lane* yn Llundain	III.	436
Pregeth Griffith Sion yn Nolgellau	I.	232
Pregeth y golled fawr, gan Dafydd Morris	II.	84
„ „ „ „	I.	231

	Cyf.	Tudal.
Pregeth Hugh Thomas ar Salm xi. 5.	II.	181
„ hynod Dafydd Morris, yn Adwy'r-clawdd	„	84
Pregethwyr yn ymgasglu i Langeitho	I.	219
„ effaith yr ymraniad ar y	„	402
„ trwyddedu, yn gyfreithiol	„	582
„ penbleth, y Methodistiaid	I.	115
„ cyntaf sir Gaernarfon	II.	129
Pregethwr yn cael ei ddal yn Henllan	III.	240
Pregethu yn erbyn y Methodistiaid	I.	372
Pritchard, William, Glasfryn-fawr	„	90
„ offeiriad yn ymosod ar	„	102
„ yn cael ei ymlid o'i wlad	„	106
„ helyntion yn Mon	„	107
„ yn marw	„	111
„ Thomas, o'r Tŷ-Gwyn, Mon	„	105
„ John, Meirionydd, troedigaeth	„	316
„ John, ysgolfeistr, Rhyd-y-felin	II.	60
„ Griffith a Charles, Lleyn	„	138
„ Catherine, o'r Buarthau, Arfon	„	167
„ Hugh, clochydd Llanir, crybwylliad am	„	367
„ „	III.	324
„ „	„	361
„ Evan, Ysw., Collena	„	69
Phillips, Ysw., T., Stockland	„	95
„ Parch. Mr. Maesmynys	„	339
Price, Mr. yn cael ei daro a chareg	II.	191
„ Ysw., Rhiwlas, a Griffith Sion	„	195
Pritchard, Hugh, Mon, dan erlidigaeth	„	578
„ John, Amlwch, crybwylliad am	„	557
„ Cornelius, chwedl am	„	563
Price, Mr. offeiriad, Llanbedr, Meirioneth	III.	200
„ Parch. Isaac, Brychciniog	„	328
„ Thomas, o'r Creunant	„	335
Prys, Robert, Plas-winter, effaith pregeth	I.	231
„ crybwylliad am	III.	149
„ yn dyfod i Liverpool	„	401
„ y tro cyntaf yn Nghaer	„	426
„ Robert, o'r Felin-faseg, Arfon	II.	159
„ Rowland, hen bregethwr...	„	253
Powell, Mrs., chwaer i Daniel Rowlands	„	457
Pregeth yn y Berthddu, effeithiau	„	160
Prys, William, Bryngolau yn amddiffyn pregethwyr	„	570
Prydderch, Parch. John, Mon, crybwylliad am	„	591
Proffeswyr cyntefig, ysbryd y	I.	289
„ ysbryd rhagorol	„	313
„ gwendidau y	„	310
Pugh, William, hanes	„	568
„ ei ddal a'i ddirwyo	„	581
„ Parch. Phillip, Llwyn-piod	II.	49
„ Mr., Garn, crybwylliad am	„	63
„ Henry, Llanedi, dychweliad	„	484
Prysc, Ysw., Plas-newydd, gwas i yn erlid ac yn marw	„	485
Pugh, John, Llanedi, crybwylliad am	„	485
„ Mr. Evan, Llanrwst	III.	185
Price, Parch. Edward, Birmingham	„	403
Prydderch, John, Trecastell, hanes	„	352
Putteiniwr yn Rhuddlan yn cael ei bigo	„	265
Plas-bach, pregethu yn, yn 1751	„	253
Pwllhell, hanes Methodistiaeth	II.	181
„ H. Harris yn, yn 1741.	I.	101

R.

	Cyf.	Tudal.
Ralphs, Simon, Ysw., Saighton	III.	448
Redfern, Josiah, byr hanes am	„	288
Rees, Parch. Lewis, dibartiaeth	I.	90
„ „ yn annog Harris i fyned i'r Gogledd	„	97
„ „ yn pregethu yn nhŷ Meirie Dafydd	„	91
„ „ yn Mhwllheli	„	92
„ „ yn crybwyll am Jenkin Morgan	„	93
„ „ helyntion yn Llanuwchllyn a Dinasmowddwy, a sir Gaernarfon	„	95
„ Mr. Thomas, Trepuet, sir Benfro	„	454
„ Parch. Evan, Llanrhystyd	II.	68
„ „ Lewis, erlid, yn Aberdaron	„	192
„ „ David, Llanfynydd	„	429
„ „ Edward, America	III.	477
„ „ Henry, Liverpool	„	410
„ „ yn Amwythig	„	433
Rhagluniaeth, yn dwyn yr efengyl i sir Fflint	I.	157
„ troion yn peri cynydd Methodistiaeth	„	274
„ yn gwasanaethu teyrnas Crist	„	275
„ Methodistiaeth yn ddyledus i	„	276
„ cyfryngiad, yn achos Harris ac eraill	„	279
„ yn dwyn yr efengyl i Frydain	„	275
„ yn arwain Mr. Jones i Wrexham	„	282
„ yn dwyn pregethu i Lanarmon-yn-Ial	„	283
„ cyfryngiad yn achos Jones, Llangan, Mr. Charles, ac eraill	„	284
„ yn gwgu ar weithred ddrwg...	III.	274
Rhaiadr-wy, Methodistiaeth yn	„	318
„ Harris yn	II.	339
Rhedegfa-meirch yn cael ei ddarostwng yn Nghorwen	I.	566
Rhostryfan, Arfon, erlid yn	„	381
„ cyfarfod pregethu yn	II.	194
„ Methodistiaeth	„	224
Rhos-lan, Eifionydd	„	150
„ pregethu yn	„	190
Rhos-ddu, Lleyn, pregethu yn	„	278
Rhos-y-brithdir, sir Drefaldwyn, Methodistiaeth yn	„	403
Rhos-y-bol, Môn	„	589
Rhosllanerchrugog, Methodistiaeth yn	III.	103
„ penrhyddid gynt yn ymosod	„	103
„ helyntion yr eglwys	„	109
Rhoddion arianol at achos crefydd	„	333
Rhyd-y-clafdŷ, Harris yn pregethu yn	I.	102
„ pregethu boreol yn	„	378
Rhys, Dafydd William, yn ardal Llansanan	„	143
"Rhys-Goch," o sir Fflint, crybwylliad am	II.	33
Rhys, Thomas, Tregaron.	„	44
Rhyd-y-felin, ger Aberystwyth	„	60
Rhys, Margaret Dafydd, ffyddlondeb	„	71
Rhyd-y-clafdŷ, Lleyn, cymdeithas eglwysig yn	„	141
Rhydfawr, yn ganghen o'r Ysgoldŷ, Arfon	„	215
Rhyd-y-felin, capel, sir Drefaldwyn	„	346
Rhydderch, Mr. John, sir Benfro	„	313
Rhyd-y-gele, Hanes Methodistiaeth	„	299
Rhydderch, William, gwehydd, Llandeilo	„	440
Rhys, Morgan, Capel-hir, Tal-llychau	„	424
„ y Bardd	„	450
Rhuddlan, Hanes Methodistiaeth	III.	264
Rhyl, Hanes Methodistiaeth yn	„	270

	Cyf.	Tudal.
Rhyddereh, o'r Gorwydd, desgrifiad o	III.	329
Rhyddereh, John, Treeastell	„	352
Rice, Milwriad, Castell Dynevor	II.	440
Risca, Methodistiaeth yn	III.	379
Richard, John, Bryniog, ger Llanrwst	I.	139
„ yr Arolygydd, trosedd	„	174
„ „ edifeirwch	„	175
„ Parch. Eben., gyda'r ysgol Sabbothol	„	339
„ „ ar y neillduad	„	456
„ „ cais ar, i ymadael	„	473
„ Henry, yn Abermaw	„	519
„ William, Arolygydd	II.	3
„ Parch. Eben., byr-hanes am	„	45
„ „ „	„	108
„ William, Arolygydd	„	79
„ „ „	„	283
„ Parch. Thomas, erybwylliad am...	„	329
„ Henry, Trefin, byr-hanes am	„	332
„ Capt. David, Solfach	„	333
„ Ellis, chwedl am	„	348
„ Evan, Glantowy, ffyddlondeb	„	487
„ John, Morganwg, Llansamled	III.	3
„ „ erybwylliadau am	„	12
„ „ llythyr oddiwrth	„	45
Richardson, Parch. Evan, yn Nghorwen	I.	563
„ „ yn Mhrynengan	II.	151
„ „ yn dyfod i Leyn	„	231
„ „ yn ymweled a Chaernarfon	„	231
„ „ „ a Dr. Lewis	„	233
„ „ yn ymsefydlu yn Nghaernarfon	„	234
„ „ llafur a llwyddiant	„	237
„ „ chwedl am, yn Môn	„	239
„ „ dull, o bregethu	„	240
„ „ anmhariaeth iechyd	„	241
„ „ yn Nhreffynnon	„	239
„ „ „ „	III.	286
„ „ gweddi am wlaw yn Llangefni	„	356
Roberts, Ann, Arllwyd, crybwylliadau am	I.	146
„ William, Plas-bach	„	154
„ Robert, Talsarnau, Meirionydd	„	303
„ Dafydd, Llwynsaint, Gwytherin, ffyddlondeb	„	518
„ Edward, Trawsfynydd...	„	528
„ Robert, Clynog, oedfa hynod	„	537
„ „ erlidiwr yn ei barchu	„	576
„ „ byr-hanes am	II.	169
„ „ gweinidogaeth	„	395
„ „ pregeth hynod	„	538
„ „ yn Llaneurgain a Threffynnon	III.	289
„ „ yn Manchester	„	418
„ Evan, cynghorwr yn Lleyn	II.	184
„ Edward, cynghorwr yn Lleyn	„	137
„ Daniel y gof, cynghorwr yn Lleyn...	„	138
„ Parch, John, Llanllyfni	„	169
„ „ yn Nghaernarfon	„	229
„ „ Michael, byr-hanes am	„	184
„ „ „ pregeth nodedig	„	203
„ „ „ oedfa hynod	„	364
„ John (Sion Lleyn), Pwllheli, y bardd	II.	182
„ Mr. John, Castell, Arfon	„	210
„ Mr. David, Bangor	„	250

	Cyf.	Tudal.
Roberts, Parch. John, Llanllyfni, Byr-hanes	II.	259
„ Evan, hen gynghorwr yn Lleyn	„	279
„ Harri, (Deneu) yr erlidiwr	„	279
„ William, y crydd, Amlwch	„	514
„ „ desgrifiad o	„	556
„ Parch. William, Amlwch	„	557
„ John, Erw-ddreiniog, y gweddiwr	„	559
„ Parch. William, Runcorn	„	565
„ „ yn ymfudo i America	III.	476
„ Parch. Robert, Rhosllanerchrugog	„	108
„ „ „ yn Mostyn	„	299
„ Parch. Peter, Llansanan, hanes am	„	122
„ Mr. Thomas, Tŷ-newydd	„	210
„ Mrs. Anne, Bryn-eglwys	„	234
„ Mr. D., Bodrochwyn, Abergele	„	279
„ Robert, hen gynghorwr, yn y Wyddgrug	„	282
„ John G., Steuben, America	„	473
Robert, y Cowper, Llangristiolus	II.	514
Roblin, Mr. a Mrs., Forehill, sir Benfro	„	314
Rock, sir Fynwy, Methodistiaeth yn y	III.	395
Roewen, sir Gaernarfon, erlid yn	„	194
Rogers, Mr. a Mrs., Trefriw	„	192
Rogers, Cadben a Mrs., Aberteifi, crybwylliad am	II.	37
"Rondol," neu Randle, Catrin, Mon, crybwylliad am	„	554
"Rotch," o'r Gadle, Morganwg	III.	14
Rowland, Sion, Mon	I.	114
Rowlands, Parch. Daniel, Llangeitho, yn Mon	„	111
„ „ „ yn Nhyffryn Clwyd	„	157
„ „ „ hanes am y	„	66
„ „ „ yn Ystradffin	„	70
„ „ „ yn pregethu yn yr awyr agored	„	73
„ „ „ effaith gweinidogaeth foreol ...	„	69
„ „ „ y mwyaf sefydlog ei weinidogaeth	„	207
„ „ „ sugn rhyfeddol ei weinidogaeth	„	220
„ „ „ ei heffaith ar Gymru	„	225
„ „ „ yn Llanuwchllyn	„	490
„ „ „ „	„	613
„ „ „ „ yr ail waith ...	„	613
„ „ „ yn Gymedrolwr ei ddosbarth ...	II.	3
„ „ „ ei droi allan o'r eglwys... ...	„	14
„ „ „ yn Mhont-rhyd-fendigaid ...	„	32
„ „ „ y tro cyntaf yn sir Gaernarfon ...	„	140
„ „ „ yn cael ei erlid yn Llanfihangel	„	117
„ „ „ yn Nhre'r-ddol, chwedlau ...	„	53
„ „ „ yn cael ei erlid yn Llanilar ...	„	56
„ „ „ yn cael ei ymlid o Dal-y-bont ...	„	53
„ „ „ yn cael ei erlid yn Nefyn ...	„	178
„ „ „ yn Penrhos, sir Drefaldwyn ...	„	345
„ „ „ yn Tydweiliog, Lleyn	„	191
„ „ „ yn Gelli-dara	„	192
„ „ „ yn Abergwaun	„	327
„ „ „ chwedl am, yn Ninas-mowddwy	„	450
„ „ „ yn Llanerchymedd	„	562
„ „ „ yn Machynlleth	„	347
„ Parch. Nathaniel, yn sir Benfro	„	307
„ „ a'r Parch. Peter Williams	I.	418
„ „ yn Llanerchymedd	II.	563
„ „ yn gwrthwynebu y neilldnad	I.	445
„ Owen Thomas, Caergybi, hanes	II.	539
„ „ „ yn ymladd a neidr	„	540

	Cyf.	Tudal.
Rowlands, Owen Thomas, Caergybi, yn gorfoleddu yn y llan	II.	541
„ „ yn cael ei ymlid o'i wlad	„	542
„ „ yn dychwelyd i Fon	„	543
„ „ yn Beaumaris yn pregethu ...	„	570
„ „ Cymeriad a i ddullwedd yn pregethu	„	583
„ „ Crybwylliad am	I.	113
Rowland, Siôn, Cerig-llithir, Mon	II.	559
„ Hafod, Mon	„	516
„ Thomas, ger Llanfair-caer-einion, ffyddlondeb	„	392
„ John, Tyddyn-y-grugor, yn amddiffyn pregethwr	„	574
„ Thomas, Abergwaun, crybwylliad am	„	329
Rowland, Edward, Llanuwchllyn	I.	308
"Rowlands o Glynog," enw ar Risiart Dafydd	II.	162
„ Mr. Ellis, Arfon. dan erlid trwm	„	123
„ William Cwrt-y-cwm, crybwylliad am	„	64
„ Dafydd, Cynon, Ceredigion	„	47
„ Parch N., yn arolygu yn sir Benfro	I.	449
Rowlands, Parch. William, America	III.	476
Rumsey, Mr. Walter, Crughywel	„	360
Ruthin, rhuthro ar ŵr dyeithr yn	I.	380
„ Erid yn	„	140
„ Methodistiaeth yn	„	163
„ Baeddu pregethwr yn	„	164
„ Beehgyn yr Ysgol Fawr yn, yn ymosod ar dŷ gwraig weddw	„	164
„ „ yn baeddu dau bregethwr ...	„	165
„ T. Oliver yn pregethu yn	„	163

S.

Saethon-bach, a chapel y Nant	II.	172
Salem, caughen o Gil-y-cwm	„	451
Salem, capel Morganwg	III.	56
Sayer, Mrs., Pentwyn, crybwylliad am...	II.	479
Sefydliad Harris yn Nhrefecca	I.	393
Scarisbrick, Methodistiaeth yn	III.	460
Scotland, adfywiad yn	I.	191
Sephton, Richard, Scarisbrick, hanes	III.	460
Seward, Mr., yn cael ei erlid	I.	363
Seymour, Arglwydd, Taliaris	II.	427
Sian, Parc-y-twll, ger Dinbych, yn gweddio	III.	309
Siams, Ffos-yr-hebog, Brycheiniog	„	309
Simon, Edward, Gellifor	„	139
Siôn, Griffith, Ynys-y-pandy, effaith ei bregeth yn Nolgellau	I.	232
„ „ yn Mheunrhyn-deudraeth	„	302
„ „ yn cael ei erlid	II.	194
„ „ a Mr. Price, Rhiwlas	„	195
Sion, Owain, Plas-ucha', sir Drefaldwyn	I.	296
„ Robert, Rhiwbwys, Ceredigion	II.	80
„ William, cigydd, Arfon, ffyddlondeb	„	236
„ Owain, Plas-ucha'	„	381
„ Edward a William, Golynos	III.	317
Siam, cyhuddiad o, yn erbyn y Methodistiaid	I.	241
Soar, hanes capel, Ceredigion...	II.	41
"Society Martha," yn Llanelli, sir Gaerfyrddin	„	491
Solfach, sir Benfro, Methodistiaeth yn	„	299
Solomon, Parch. Griffith, crybwylliad am	„	274
St. Clear, sir Gaerfyrddin, hanes	„	479
St. Ffagan, Morganwg, hanes	III.	93
Steadman, Parch. Mr., yn Nhreffynnon	„	285.

	Cyf.	Tudal.
Stephens, Parch. David, America	III.	477
Steuben, Dosbarth, yn Nhalaeth New York	„	473
Susan, Modryb, Croesoswallt, hanes	I.	304
Swper yr Arglwydd, gweinyddiad cyntaf mewn capel Methodistaidd ...	II	302
Swper yr Arglwydd, llcoedd y'u gweinyddiad	I.	444
Swyddogion eglwysig, gofal am eu cymhwysder	„	184
Swydd-ffynnon, Ceredigion, Methodistiaeth yn	II.	36

T.

Tafarn-y-fedw, ger Llanrwst, pregethu yn	I.	152
Tafarn-dai, Lonfudr, Lleyn	II.	281
Tai-cochion, Mon, pregethu yn	„	510
Talsarnau, Griffith Sion yn pregethu yn	I.	302
Taliesyn, neu Tre'r-ddol, Ceredigion	II.	52
Tal-llychau, sir Gaerfyrddin, hanes	„	424
Talwrn, Mon, Methodistiaeth yn	„	591
Tan-y-fron, hen orsaf Methodistiaeth	I.	142
Tan-yr-allt, Bont-rhyd-fendigaid	II.	27
Tan-y-fron, Methodistiaeth yn	III.	112
Taranau yn attal erlid	II.	199
Teithiau, Williams, Pant-y-celyn	I.	206
„ Peter Williams	„	203
„ G. Whitfield	„	210
Tenby, erlid yn	II.	304
Thomas, Benjamin, yn ymweled a Mon	I.	108
„ „ gyda'r Methodistiaid	„	178
„ „ crybwylliad am	„	487
„ „ damwain i'w geffyl	II.	23
„ „ yn y Bont-uchel	III.	155
„ Richard, y pregethwr cyntaf yn Mon	I.	112
„ Owen, (gwel O. T. Rowland)		
„ Dafydd, Llangwyryfon, cynghorwr	II.	32
„ Rhys, cynghorwr yn sir Aberteifi	„	80
„ Parch. John, Aberteifi. crybwylliad am	„	83
„ „ Hanes am	„	103
„ Hugh, Lleyn, yn ffoi i Fon	„	134
„ Parch. John, Pwllheli, Annibynwr	„	139
„ John, Waunfawr, crybwylliad am	„	147
„ Dafydd, y Bardd, a'i chwaer	„	157
„ Hugh, yn pregethu yn y capel deugorn	„	181
„ John, Llanberris, yn pregethu mewn ofn	„	209
„ Hugh, Lleyn, yn marw	„	280
„ Mr. Sampson, sir Benfro	„	298
„ John, Pwllheli, y gweddiwr	„	182
„ George, Woodstock, gwas Mr. Harris	„	308
„ Abel, Castell-newydd, crybwylliad am	„	461
„ Parch. John, gynt o blwyf Myddfai	„	437
„ „ Ben D., Llandeilo, crybwylliad am	„	441
„ „ „	„	482
„ John, Rhos-fawr, gynt o Lanwyddelan	„	394
„ John, Llanidloes, yr ysgolfeistr	„	359
„ David, Carnachen-wen, byr hanes am...	„	331
„ Mrs., Trefin, ffyddlondeb	„	331
„ John, Risca, chwedl am	„	482
„ Evan, y gof, gynt o Leyn	„	522
„ Michael, Garnan-wen, Mon	„	527
„ „ yn Beaumaris	„	568
„ John, Llanfwrog, y ffyddlon	„	552
„ Rowland, a'i wraig dan orthrwm	„	575

	Cyf.	Tudal.
Thomas, William, o'r Pil, hynodion	III.	24
„ David, Abertawe, yn adeiladu capel	„	31
„ Richard, o'r Farteg, pregethu yn ei dŷ	„	33
„ Jenkin, Penhydd, hynodion	„	35
„ John, ger Llanrwst, gynt o Lancwnlle	„	185
„ „ yn pregethu yn Henllan	„	207
„ Mr., Cefn-byr, Risca, helyntion	„	380
Tibbot, Richard, Llanbrynmair, ...	I.	118
„ yn myned i Landdowror	„	119
„ yn Arolygydd Dosbarth...	„	120
„ yn Arolygu yn Ngwynedd	„	121
„ yn cael ei erlid yn Arfon	„	121
„ cymeriad	„	122
„ adroddiad o'i Ddosbarth	„	130
„ adroddiad o'r Eglwysi dan ei ofal	„	170
„ chwedl am...	„	154
„ yn Nghaernarfon yn 1770	II.	227
„ adroddiad arall o'r eiddo	„	359
„ crybwylliad am	„	337
„ chwedl am	III.	238
„ Abraham, crybwylliad am	II.	227
Teithio, anhawsderau	I	203
Ton-yr-efail, Methodistiaeth	III.	68
Towyn-y-fferi, Conwy, ocdfa hynod	„	256
"Towyn-tudur", Mynwy, pregethu ar	„	379
Taylor, Mrs., Dowlais, byr-hanes am	„	379
Trefn, cais y Methodistiaid at	I.	157
Trefaldwyn, sir, Hanes cychwyniad Methodistiaeth yn	„	170
Trefecca, enciliad Harris i	„	390
„ sefydliad Harris yn	„	393
„ coleg Iarlles Huntingdon yn	„	396
„ cymhell rhai i fyned i	II.	546
Trefeglwys, hanes Methodistiaeth yn	„	368
Tregeiriog, hanes Methodistiaeth yn	I.	541
Towyn, Meirionydd, cymdeithasfa yn	„	587
„ hanes Methodistiaeth yn	„	588
Trefdraeth, sir Benfro, capel	„	468
Trefaldwyn, sir, Harris yn ymweled a'r	„	97
„ pregethwyr cyntaf yn...	„	122
„ cwrdd misol cyntaf yn	„	123
„ adroddiad am y	„	130
Trefriw, erlid yn	„	149
„ hanes Methodistiaeth yn	III.	189
Tregaron, Hanes Methodistiaeth yn	II.	44
Tremain, Ceredigion, pregethu yn	„	71
Tremadoc, crybwylliad am	„	207
Tractariaid, syniadau ffol y	„	250
Trefnewydd, Methodistiaeth yn	„	378
Trellan, pregethu yn	„	328
Tre-ddafydd, sir Benfro	„	330
Trefin, Methodistiaeth	„	330
Trefaldwyn, sir, hanes	„	337
Tre-ddafydd, Mon, pregethu yn	„	517
Tre-llywarch „	„	552
Traethawd Charles a Jones er amddiffyn Methodistiaid...	„	595
Treforis, ger Abertawe, hanes	III.	17
Treffynnon, hanes Methodistiaeth yn	„	284
Trecastell „ „	„	348
„ cymdeithasfa gyntaf (1760)	„	348
Tremeirchion, y genadaeth gartrefol yn	„	458

	Cyf.	Tudal.
Trocdigaethau hynod	I.	315
„ John Pritchard	„	316
„ John Vaughan	„	317
„ Siân Lewis a Miss Guines	„	319
„ gŵr. gerllaw Melin-y-wig	„	321
„ Mr. a Mrs. Davies, Llanarmon	„	322
„ John Williams, Llaneurgain	„	324
„ gweithiwr i Iarlles Huntingdon	..	324
„ Parch. Mr. James, Pen-blaen	III.	322
„ William Williams, Llwyn-bedw	II.	155
„ gŵr cryf yn Saethon-bach	„	172
„ Capten Bowen, Llwyn-y-gwair	III.	355
„ Parch. Thomas Gray	II.	49
„ John Llwyd, Liverpool	III.	406
„ Siôn Griffith, Bryn-yr-odyn...	II.	217
„ Dic Siams, Llanilar	„	57
„ Robert Thomas	„	168
Trulliad Rhyg. ger Corwen, marwolaeth ddisymwth	I.	563
Trwyddedu pregethwyr	I.	181
Trychineb arswydus yn Carno	„	337
Tug-hill, America, hanes am	III.	477
Twr-gwyn, Ceredigion	II.	6
Twll-y-clawdd, pregethu yn	„	208
"Twm-y-goes-fawr" yn erlid	„	277
Tyddyn-mawr, Llŷn marched y	„	103
Tyddyn, ger Llanidloes, ewrdd misol cyntaf Gwynedd yn	I.	123
„ pregethu yn	II.	357
Tydweiliog, Lleyn, Harris yn	I.	103
„ „ Rowlands yn	II.	191
Tyddyn-isaf, Llandegai, pregethu yn	„	248
Tystiolaeth Jones, o Creaton, am Gymru	„	428
Tŷ-addewi, eglwys tystiolaeth yn	„	290
Ty-mawr, Trefeglwys, pregethu yn	„	367
„ Llantrisaint, Mon	„	497
Tŷ-du, Mon	„	501
Tŷ'n-yr-allt	„	506
Ty'n-y-merddyn	„	545
Tŷ'n-y-maen, Mon, Methodistiaeth yn	..	550
Tymhor yr ymneiliad	I.	404
Tŷ-capel cyntaf, a'r achlysur o'i godi	II.	30
Tŷ-nelu'r-ffordd, Waunfawr, pregethu yn	..	154
"Tŷ Modlen," Dyffryn Ciwyd	III.	103

U. V.

Undodiaid ae Ebenezer Morris	II.	99
Uned y Methodistiaid a'r Annibynwyr yn Llanbrynmair	„	342
Uwch-y-mynydd, capel, Aberdaron	„	143
Vaughan John, Ysw., dychweliad	I.	317
„ „ crybwylliad am	„	590
„ Syr Robert, a'r Methodistiaid	„	604

W.

Wann-fawr, Arfon, Methodistiaeth yn y	II.	153
Wann-wina, Arfon, Pregethu yn y	„	209
Wann-gron, Twmpath chwareu yn	„	184
Wann-eira, Mon, Pregethu yn y	„	566
Watters, Mr. Phillip, Crybwylliad am	„	43

	Cyf.	Tudal.
Walters, R., Ysw.	II.	477
„ Parch. John, Ystrad-gynlais	III.	8
„ Parch. T., New Inn, Mynwy	„	378
Watford, Palas, Crybwylliad am	„	6
„ Y Gymdeithasfa gyntaf yn	I.	161
Watkin, Edward, yn Llanfyllin	II.	421
„ Llanidloes, Chwedlau am	„	314
„ Crybwylliad am	„	360
„ Mr., Aberhonddu	III.	368
"Welsh Looking Glass," Beio ar	I.	474
Wesley, Parch. John, a'i farn ar leygiaeth	„	161
„ „ Crybwylliad am	„	233
White, Mr. Richard, yn dyfod i Dregeiriog	„	542
„ Troi allan o'i dyddyn	„	563
„ yn noddi Methodistiaeth	„	564
Whitfield, Parch. George, Llythyr oddiwrth, at Howel Harris	„	76
„ yn cyfarfod a Howell Harris yn Nghaerdydd	„	392
„ yn Gymedrolwr y Gymdeithasfa	„	460
„ yn teithio Llawer	„	210
„ yn defnyddio Lleygion	„	233
„ Tystiolaeth, am yr adfywiad yn Scotland ...	„	192
„ Tystiolaeth, am Howel Harris	„	400
„ yn Llanbedr	II.	76
„ yn Abergwaun	„	327
„ yn Nghaerfyrddin	„	467
„ Aberhonddu	III.	364
„ yn Abertawe	I.	29
Williams, Parch. William, Pant-y-celyn, Hanes am	„	77
„ yn Llansawel	„	78
„ yr offeiriad cyntaf a droes allan o'r eglwys	„	79
„ teithiau ar hyd Gymru	„	206
„ yn Nghaernarfon	II.	227
„ Crybwylliad am	„	445
„ yn Nghastell-newydd	„	459
„ Chwedl am	III.	138
„ Chwedl am, yn Mon	„	345
Williams, Parch. Peter, Hanes boreuol	I.	84
„ yn Abertawe	„	86
„ yn ymuno a'r Methodistiaid	„	86
„ yn ymweled a Mon	„	117
„ yn Mhenrhos-llugwy	„	118
„ sir Dretalalwyn	„	133
„ yn y Trefnewydd	„	134
„ yn Adwy'r-clawdd	„	149
„ yn Nhrefriw	„	149
„ yn teithio Llawer	„	207
„ Dadl, a'r cyfundeb	„	414
„ Llyfrau a gyhoeddodd	„	415
„ Synodau neilduol	„	416
„ Diarddeliad	„	419
„ yn Nhre'r-ddol, Ceredigion	II.	53
„ yn Llanidloes, yn 1746	„	355
„ a'r Capel yn Nghaerfyrddin	„	468
„ yn cychwyn Methodistiaeth yn Llandyfaelog ...	„	478
„ Cwmbach, Llanedi	„	485
„ yn cael ei cr id yn Cydweli	„	489
„ a'r c'eiigwr yn Llanfechell, Mon	„	503
„ Hanesyn am, yn Mhenrhos-llugwy	„	561
„ yn cael ei erlid yn Nmbych	III.	126
„ yn cael ei faeddu yn Llanrwst	„	184

	Cyf.	Tudal.
Williams, James, yr Arolygwr	I.	169
„ „ „ Adroddiad gan	II.	4
„ John, Llaneurgain, dychweliad	I.	324
„ „ „ defnyddioldeb	III.	178
„ Mr., Aberystwyth, a'r ysgol Sabbothol	I.	341
„ Mr. Geo.,* Ty-ddewi, a'r neilldnad	„	445
„ „ „ Hanes	II.	295
„ Nathaniel, Llanon, yn cilio	I.	469
„ Parch. David, Crybwylliad am	„	487
„ Lowri, Pandy'r-ddwyryd, Hanes am	„	293
„ „ „ yn cael ei herlid	„	529
„ John, Dolyddelen, Hanes am	„	529
„ Edward, Llangwyryfon, Crybwylliad am	II.	32
„ Mr., Castle Hill, Aberystwyth	„	55
„ David, yn Lledrod	„	79
„ „ Peneraig, Crybwylliad am	„	80
„ „ Llys-y-fronydd	III.	20
„ Parch. John, Lledrod, Hanes	II.	88
„ „ Crybwylliad am	„	83
„ Griffith, esgob Kilkenny	„	123
„ Evan, yr ysgolfeistr, yn Lleyn	„	126
„ „ hanes	III.	63
„ David, Llys-y-fronydd, yn Nghaergwrle	„	23
„ „ hanes am	„	51
„ Robert, Drewen	II.	138
„ Pierce, Gwastad-nant, Llanberris	„	145
„ William, Llwyn-bedw, Arfon	„	155
„ „ a'i wraig, yn Brithdir-bach	„	203
„ Hugh, Ysw., Pentir, yr uchelwr	„	211
„ Hugh, Pentir-isaf, y gof	„	211
„ Elinor, Caernarfon	„	236
„ John, Llandegai, hanes am	„	246
„ Jane, Tyddyn-du, Lanllechid	„	253
„ Robert, Ynys Enlli	„	277
„ John, "*Student*," sir Benfro	„	302
„ David, Beili-glas, Cil-y-cwm	„	449
„ Major, Henllys-fawr	„	450
„ Parch. John, Pant-y-celyn	„	452
„ „ „ Chwedl am	III.	365
„ Ebenezer, Amwythig, Crybwylliad am	II.	434
„ Evan, Fegin, sir Drefaldwyn	„	414
„ „ „ Crybwylliad am	„	411
„ Jeremiah, Byr-hanes am	„	392
„ „ Crybwylliad am	„	360
„ John, Drefnewydd, Crybwylliad am	„	380
„ „ „ „	„	351
„ Richard, Llanbrynmair, Crybwylliad am	„	341
„ Parch. Richard, Liverpool	„	341
„ „ „	III.	410
„ Evan, yn Nghymdeithasfa gyntaf yn Machynlleth	II.	350
„ Parch. W., Bristol	„	468
„ John, Meidrim, Byr-hanes	„	477
„ William, o'r Cwm, Crybwylliad am	„	478
„ Thomas, Pwll-yr-hwyaid, Niwbwrch	„	507
„ Owain ac Ann, Tai-cochion	„	510
"Wil William Prys," yr erlidiwr	„	519
Williams, Thomas, Pentre', Mon	„	545
„ Parch. Cadwaladr, Penceint	„	591

* George ac nid W. ydoedd ei enw, gwel Cyf. I., tudalen 446.

	Cyf.	Tudal.
Williams, Thomas, Arolygydd	III.	3
„ Morgan, Aberdar	„	87
„ Thomas, o'r Dyffryn, Morganwg	„	95
„ Gwenllian, Aberdar	„	89
„ Rowland, Dinbych, Chwedl am	„	133
„ Dr. Edward, Rotherham, Byr-hanes am	„	136
„ John, Bryniau, Llangollen	„	224
"Wil o'r Nant," Brycheiniog, crybwylliad am	„	338
Williams, Parch. William, Glan-gwen-las	„	340
„ Griffith, efrydydd yn Nhrefecca	„	358
„ William ac Abraham, New Inn	„	377
„ W. T., America	„	474
„ Ebenezer, Amwythig	„	470
„ Capten, Caerlleon	„	427
„ Parch. William, Llundain	„	442
Wise, Parch. Mr., Liverpool, hynawsedd	„	409
Woodstock, Capel, sir Benfro	II.	302
Wood, Richard, Bron-derw-goed	„	341
„ Parch. Abraham, Crybwylliad am	„	341
Woosnam, Mr., Ty-mawr, Tref-eglwys	„	370
Wyddgrug, dechreu pregethu yn	III.	280
„ erlid yn	„	281
„ pregethu yn	„	159
Wynne, Mrs., Cefn-amwlch	II.	142
„ Canghellwr	„	500
„ Mrs., Maes-neuadd	III.	196
„ Mr., Pla[illegible]wydd, Heallan.	„	238

Y.

Ymgorfforiad, cais at	I.	158
Ymneillduwyr yn Nghymru yn 1700	„	97
Ymneillduaeth Cymru	„	425
„ Rhagfarn yn erbyn...	„	182
„ Elfenau, yn ngwraiddMethodistiaeth	„	183
Ymroddiad llwyr y Diwygwyr	„	290
Ymosodiadau tufewnol ar Fethodistiaeth	„	384
Ymraniad, effeithiau yr, yn sir Ddinbych	„	146
„ „ ar y Corff	„	390
„ „ ar sir Aberteifi	II.	10
„ „ yn sir Drefaldwyn	„	358
„ „ yn Darowen	„	343
Ysbytty-Ifan—adfywiad yn	I.	268
Ysbryd yr hen broffeswyr	„	289
„ Lowri Williams, Pandy-yr-ddwyryd	„	293
„ Catherine Griffith, Penrhyn	„	293
Ymrysonfa rhwng Harris a Rowlands	„	390
Ysgolfeistriaid yn troi yn gynghorwyr	„	235
Ysgol Sabbothol gyntaf	II.	361
„ „ yn foddion cynydd y Cyfundeb	I.	325
„ „ agwedd y wlad cyn ei dechreuad	„	333
„ ddyddiol yn cael ei chychwyn gan Mr. Charles	„	334
„ Sabbothol yn dechreu yn Lloegr	„	335
„ „ „ yn Nghymru	„	336
„ „ nodwedd neillduol yr, yn Nghymru	„	337
„ „ anhawsder cychwyniad	„	338
„ „ holwyddori cyhoeddus yn	„	338
„ „ effeithiau yr	„	346
„ „ yn esgor ar y Feibl Gymdeithas	„	348

	Cyf.	Tudal.
Ysgol Sabbothol, Cymanfa gyntaf yr	II.	25
„ „ Gwrthwynebwyddi'r	„	151
„ „ yn y Waunfawr yn dechreu yn 1791	„	158
„ nos yn Nghilynog	„	163
„ ddyddiol, effaith yr	„	152
„ Sabbothol, Llanilyfni	„	168
„ „ yn Mhwllheli (1783)	„	183
„ „ Llanddeiniolen	„	214
„ „ Bryn-yr-odyn	„	220
„ „ gyntaf yn Llanllechid	„	254
„ „ Begeley, Pentro	„	318
„ „ Llanymddyfri	„	451
„ „ Llanbrynmair	„	341
„ „ Caerfyrddin	„	469
„ „ Gwedd isel ar, yn Bettws	„	481
„ „ Chwedlau am gychwyniad	„	492
„ „ Llanfwrog, Mon, (1786)	„	553
„ nos yn Llanllyfni	„	188
„ Sabbothol Fflint	III.	182
„ „ ar y brif-ffordd	„	214
„ „ Llangollen	„	225
„ „ Bryn-eglwys	„	232
„ „ Pont-rhyd-y-bere	„	340
„ „ Aberhonddu	„	367
„ „ yn dechreu yn Manchester	„	419
„ „ „ Llundain	„	441
„ ddyddiol yn Rhuddlan	„	266
Ysgrifenu yn erbyn Methodistiaeth	I.	372
Ystordy "Merchant Billy," Liverpool	III.	402
Ystradgynlais, Methodistiaeth yn	„	62

DIWEDD Y DRYDEDD GYFROL.

HUGHES A'I FAB, ARGRAFFWYR, HEOL-FSTYN, GWRECSAM.

LIBRARY
15
JUL
1976
UNIVERSITY OF

PLEASE DO NOT REMOVE
CARDS OR SLIPS FROM THIS POCKET

UNIVERSITY OF TORONTO LIBRARY

BX
8291
H84
1851
CYF.3
C.1
ROBA

101200316048